

Y CYNLLUN SY’N CANU

(Ymennydd yr Emynydd)

R. M. Jones

I

Peredur, Gwydion, Ynyr, Bleddyn a Carwyn

CYNNWYS

Byrfoddau	4
RHAGARWEINIAD I GYFUNDREFNEG DEUNYDD (PANTYCELYN)	
(i) Y Meddwl Hardd	5
(ii) Sgêm y Deunydd ym mhob llenyddiaeth	9
(iii) Diffinio Rheidrwydd Cyfundrefnau	48
(iv) Methodoleg yr Astudiaeth Hon	66
Y RHAGOSODIAD	
(i) Absoliwt: y cyfeirbwynt eithaf i wirionedd pob llenor, a rhagdyb anochel pob deall: natur absoliwt meddwl Pantycelyn.	92
(ii) Arfaeth: y cynllun i'r holl greadigaeth; y gyfundrefn hollbresennol — atom, cell, organ, ymennydd, deall, iaith, llenyddiaeth. Yr Archgyfundrefnau sy'n ffurfio deall Pantycelyn.	150
A. DEALL YR ARFAETH	165
Dadansoddi realiti: adeiladu offer deall neu'r Archgyfundrefnau, sef ffurfwyr holl gyfundrefnau meddwl Pantycelyn.	
(a) Archgyfundrefnau Ffurf (sy'n cael eu defnyddio yn ddeunyddiol)	
(i) Dadansoddi	195
(ii) Cynrychioli	224
(b) Archgyfundrefnau Deunydd	278
(c) Archgyfundrefnau Cymhelliad	314
B. DEUNYDDIO'R ARFAETH	375
(i) Sfferau	414
(ii) Metanaratif a Themâu	492
(iii) Motiffau	610
Hierarci'r Weithred Lenyddol (yn ddeunyddiol)	634

(Ceir 'cynhwysion' pellach a manylach ar dud. 91, 165, 375)

BYRFODDAU

- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*
- GWPI *Gweithiau Williams Pantycelyn, gol. N. Cynhafal Jones. Cyf.I, 1887*
- GWP II *Gweithiau Williams Pantycelyn, gol. N. Cynhafal Jones, Cyf. II, 1891*
- GWWP I *Gweithiau William Williams Pantycelyn, gol. Gomer M. Roberts, Cyf. I, 1964*
- GWWP II *Gweithiau William Williams Pantycelyn, gol. Garfield H. Hughes, Cyf.II, 1967*
- M I *A Scientific Theology: Nature, 1, Alister E. McGrath, 2002 (arg. 2006)*
- M II *A Scientific Theology, 2, Alister E. McGrath, 2002*
- M III *A Scientific Theology, 3, Alister E. McGrath, 2003*
- S B *Seiliau Beirniadaeth I, II, II, IV, Pedair Cyfrol, R. M. Jones, 1984, 1986, 1987, 1988*
- Traf y Cymm *Trafodion y Cymmrodorion*
- Ty Ll *Tafod y Llenor, R. M. Jones, 1974*
- YB *Ysgrifau Beirniadol*

RHAGARWEINIAD I GYFUNDREFNEG DEUNYDD (PANTYCELYN)

(i) Y MEDDWL HARDD

Roedd gan Bantycelyn feddwl hardd. Adeiladu'r meddwl hwnnw fu ei gamp fwyaf. Y mae pob gwedd ar y meddwl yn cyfrannu at aeddfedrwydd ac unoliaeth ddatblygedig ei olwg ddofn ac eang ar fywyd. Mae'n cydlynu'n gywrain wrth ei gilydd. Rwy'n meddwl mai Bertrand Russell a ddwedodd, 'Nid gwirionedd yw'r unig nodwedd sy'n eiddo i Fathemateg, ond harddwch aruchel — harddwch oer a diaddurn.' A dyna, dybiaf i, sy'n wir am adeiladwaith meddwl cyfundrefnol Pantycelyn. Mae'r Mynegiant ohono ar dro yn gynnes angerddol ac yn fwrlwm telynegol o'r galon. Eto, o ran strwythur, mae ei gydlynid syniadol yn glasurol o gymen, hyd yn oed pan fo'r Mynegiant yn ymddangos yn 'rhydd' mewn teimlad. Mewn termau llenyddol, nid cwbl amhriodol fyddai hawlio bod Pantycelyn yn glasurol yn feddyliol, ac yn gynnar ramantaidd yn ei deimladaeth.

Yn hanes llenyddiaeth Gymraeg hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif (efallai hyd heddiw), William Williams sy'n mynegi'r golwg lletaf o bob Cymro ar ddynoliaeth a'r greadigaeth. Wrth astudio'i waith, felly, yr ydym, efallai, yn ymwneud nid yn unig ag un o feddyliau Cymraeg treiddgaraf ei gyfnod, ond â rhywun a feddai ar ddealltwriaeth banoramig o fywyd. Felly, gan ei fod wedi cynnwys mewn dwy arwrgerdd hir ddadansoddiad sy'n mynegi'i fyfyrddodau delweddol pennaf am Ffydd ac am y byd a bywyd, sef cefndir a fframwaith ei agwedd ddiwinyddol a gwyddonol, gwiw hyd yn oed wrth astudio'i emynyddiaeth yw sylwi yn y goleuni hwnnw ar rychwant sylfeini ei feddylwaith mwyaf cynhwysol.

Beth yn union oedd y 'Sgêm' o Fodolaeth ac Arfaeth a oedd fel pe bai'n sylfaen i'w Olwg ef ar fywyd ac ar gyfer ei lenyddiaeth ei hun?

Gŵr hynod graff oedd Pantycelyn. Fe ganfu mewn termau a delweddau barddonol gyfanrwydd yr Arfaeth oll, y cydlynid a oedd gan bob dim yn ei *Olgw ar Deyrnas Crist* (ac i raddau llai yn *Theomemphus* a'r emynau, ac i raddau llai byth yn ei ryddiaith a'i farwnadau). Rhyfeddodd ef at y crynder cyflawn hwnnw. Ceisiai'i gyfleu, ac yn wir, mi gyfleodd ei ryfeddod at gymhendod yr holl gydwead syfrdanol yn eglur fedrus. Gwnâi hynny gydag arddeliad anghyffredin, a hynny mewn cân, gan ddatblygu dealltwriaeth gelfydd o Wrthrych unigryw a chanolog y Benarglwyddiaeth syndodus honno. Ac oherwydd y weledigaeth befriol honno, fe beidiodd y gyfrol hon â bod yn llyfr am Bantycelyn. Troes yn ddadl ag Ôl-foderniaeth.

*

*

*

‘Ystyr’ yw un o’r pethau a rydd drefn ar Fater neu Ddeunydd. A cheisiwn maes o law, wedi sylwi ar ragdybiau’r sylweddoliad o Ddeunydd, ddsrannu pedair gwedd ar esgoriad DEUNYDD mewn llenyddiaeth yn ôl graddau eu sylweddoliad ystyrlon. Gwnawn hynny:

1. Yn gyntaf, drwy’i rannu yn Foddau ystyrol o weithredu mewn Amser: yn *Sfferau Deunydd*, y pynciau neu’r meysydd neu’r categorïau o fewn Deunydd cyffredinol llenyddiaeth. Ac ystyriwn Feysydd Semantoleg (Gwyddor Ystyr) yn sgil hynny.
2. Yn ail, drwy *Fetanaratif* neu adeiladwaith ideolegol yn y Sffêr, a arddelir gan gymuned, a ac a ddysgir megis yr iaith ei hun yn y gymuned honno. Cyfetyb y term Metanaratif mewn llenyddiaeth i’r term Ideoleg mewn athroniaeth a chymdeithaseg. Hyn sy’n cyflyru perthnasoldeb pob Sffêr ddeunyddiol yn ôl gwerthoedd rhyw amgylchfyd.
3. Yn drydydd, drwy ganfod a dadansoddi gweddau, strwythurau, neu bropiau cynhaliol *Themtig* ar waith o fewn Sfferau a Metanaratifau: sef cymeriad/digwyddiad/amgylchfyd. Un llinyn ystyrol deinamig o fewn adeiladwaith cyffredinol y Sffêr a’r Metanaratif yw Thema; rhan yn y cyfan. Cyffelyb yn ystyrol yw i’r Plot yn weithredol. Dyma’r symudiad naratif lleol mewn Sffêr.
4. Ac yn bedwerydd, drwy gydlynu unedau bychain themtig neu storïol (*Motiffau*) o fewn unedau mawrion y Themâu: adeiladu cysylltiadau mwy lleol mewn Mynegiant brawddegol mân a wneir. Yr uned gyfan leiaf o synnwyr, sy’n adeiladu cyfanrwydd Thema, yw Motiff.

Tuag at y cwlwm mawr pedwarblyg hwnnw felly yr ydym yn arwain. 'Sgêm' yw.

Ystyr trafod Deunydd i Bantycelyn oedd cwmpasu a chynnwys y pedwar hyn.

Wrth gyrraedd y gyfres bedwarol honno mewn Deunydd, canfyddir y strwythur llywodraethol sy’n egwyddor amodi elfennaidd a rhagflaenol i’r cyfanwaith oll — yr hierarci, o’r Absoliwt hyd y manyn lleiaf. Techneg ddadansoddi oedd hyn o fewn y deall. Trefn lywodraethol oedd hefyd i adeiladu delwedd y Deunydd. A swyddogaeth y strwythur trefnol hwnnw oedd deall drwy wahuno, hynny yw dirnad gwahaniaethau yn gyntaf ac amgyffred perthynas neu gysondeb mewn undod yn ail. Felly y cyflyrwyd y cyfansoddi. Drwy arolygu deall yn unol ar gyfer cyflawni hyn, fe geisir dangos nid yn unig y ffordd y gellir dadansoddi Deunydd llên pawb, ond sut y’i cyfansoddir hefyd. Pery’r gynneddf ddeallol hon yn gyfyngwydd â’r medrau eraill drwy gydol yr Hierarci gan drefnu profiad yn y meddwl. Drwy ogor strwythur neu offeryn o’r fath y dosberthir Deunydd. *Cyn cyrraedd y gyfres bedwarol hon, sut bynnag, rhaid inni ystyried y corff o amodau ffurfiol sy’n llywodraethu perthynas Deunyddiau i gyd mewn Tafod. Offer dadansoddi a threfnu yw’r rhain, ar gyfer llunio cyfundrefnau o gwbl.* Gweithiant mewn cyd-destun absoliwt, tan gwmpasu’r bydysawd. A

buont yn rhyfedd o arwyddocaol i Bantycelyn. Dyma'r Arfaeth ar waith. Ar ryw olwg, wrth ystyried yr adeiladwaith amlochrog, dim ond dadansoddi a threfnu ein dealltwriaeth o un Rhagdyb yr ydys. Dyma'r gychwynfa a'r Amodwr i bopeth. Yr Absoliwt ei hun. Dichon y gall rhai agweddau ar ein rhagdybiau ffasiynol diweddar fod yn rhwystr rhag dealltwriaeth. Ymhlith seciwlarwyr, mae llywodraeth rhagdyb yr Ego Trosgynnol (y Fi Fawr) ar lefel yr 'absoliwt' efallai yn cael ei chymryd mor ganiataol nes gwadu mai absoliwt yw. Tua'r ddeunawfed ganrif y daeth yr Ego Trosgynnol i'w orseddu'i hun braidd yn anhunanfeirniadol. Ac yr oedd Pantycelyn ei hun yn sylweddoli'n burion fod yna dyndra yn ei amgylchfyd cyfoes, gan ymestyn drwy bob gwedd ar y ddealltwriaeth ddynol, gan gynnwys *sensus divinitatis* (M I. 21-22, 208, 267). Nid ar unwaith y gwelir y peth syml sydd wedi bod yn cau'n gydlynol wrth ymgyfyngu i ddyneiddio. Ond hyderir, o gam i gam, y llwyddir i ddadlennu ateb Williams Pantycelyn i hyn oll. Gall y siwrnai hon fod yn ddwys. Ymddiheuraf am hyn. Ond bu camddealltwriaeth ambell un mor ddygn fel y bydd yn rhaid imi roi cynnig ar ddehongli'r fframwaith dro a thrachefn. Drwy ganfod rhagdybiau, mewn amryfal amgylchiadau ac mewn ffyrdd cyflwyniadol gwahanol, y gellir orau arolygu'r dadansoddiad elfennaidd sydd ohoni.

Mae holl gwestiwn perthynas 'Deunydd a Ffurf' mewn llenyddiaeth wedi'i drin yn gymhlethog o'r blaen, wrth gwrs. Dyma un o faterion mawr yr oesoedd mewn beirniadaeth. Dichon ei bod yn bryd esbonio'n union beth a feddylir wrth ddatgan, drosodd a thro, eu bod yn 'undod' er mai ymddangos yn ddeuol eu hansawdd a wnânt, ac mewn dau ddimensiwn. Ar un llaw, y mae a wnelont ill dau hefyd â threfnusrwydd sy'n ddwfn ac yn anymwybodol gadarn 'o'r golwg', fel gramadeg anorfod: 'Tafod' (neu drefniant offerynnol) yn y meddwl. Ond ar y llaw arall, y mae a wnelont â'r dewisol, sef y trefnusrwydd bwriadol 'agored', fel amrywio geiriol ymwybodol: Mynegiant yn y golwg. Hynny yw, y mae Ffurf a Deunydd yn ymddangos yn y golwg ar sail trefn sydd o'r golwg. Mae 'Tafod' yn datguddio pob cam amodol a chyflyrol yn y broses o lunio'r iaith yn gyffredinol, o'r golwg, yn ffurf ac yn ddeunydd. Gellir olrhain y gweithredu hwnnw fel y mae'n arwain at 'Fynegiant' yn yr eithaf lleiaf yn y golwg. Mynegiant yw'r amlwg arwyneb. Sgêm oedd enw Pantycelyn ar Ffurf o'r golwg. Ac y mae ef yn troi'r Ffurf (yr Archgyfundrefnau dyweder) yn Ddeunydd fel y cawn weld. Daw Ffurf feddyliol, felly, yn destun i Bantycelyn: yn Arfaeth. Rhan o'r creu i Bantycelyn yw Ffurf. Mae Deunydd a Ffurf yn Undod am eu bod yn tarddu yn yr Un, ac yn cael eu hamodi gan yr Un.

Cyn bod Pantycelyn yn ei fynegi'i hun, roedd ganddo Dafod felly (sef y Gyfundrefn o gyfundrefnau yn y meddwl a oedd yn rheoli trefn iaith a llên). Gan fod y theori hon yn

weddol newydd, a chan mai'r cam cyntaf yw'r rhan 'ddieithr' i'r darlennydd cyffredin, bydd yn rhaid dweud ychydig am y dolennu dyfnaf a gwreiddiol yn yr egwyddorion hyn ynghylch Deunydd iaith a llenyddiaeth, cyn troi, gobeithio, at y cyswllt arall iddo mewn Mynegiant unigol. Mae gwedd 'Mynegiant' yn llawer mwy cyfarwydd i bawb. Dyna a gawn ar y pryd wrth ddarllen. Ond y tu ôl iddo, ceir cyfrinach lai amlwg. Hyn a fydd yn amodi'r Deunydd oll.

Mae gan bob un ohonom fel y cawn sylwi *gyfundrefnau o bob math* ynghlwm wrth ein horganau corfforol er enghraifft. Mae gan bob cell ei DNA gyda'r wybodaeth enetig am y traddodiad, proteinau sy'n cynnal y prosesau biocemegol, a chellbilen sy'n amddiffyn y gell. Ac mae yna dasgau cyffredin i bob cell. Mae pob cell yn geni o gell arall, fel y bydd pob cenhedlaeth sy'n ieithyddol a llenyddol. Rŷm yn gyfundrefnau benbwygilydd. Awn ymlaen â'n bywyd, heb sylwi ar y peth. Ond mae'r bod dynol wedi'i ddonio, — ar y cyd gyda chreaduriaid eraill — â'r *gynneddf ddeallol* roddedig i wahuno'n 'feddyliol' [sef y weithred ddeuol: canfod gwahaniaethau + canfod tebygrwydd neu gysondeb]. Defnyddir y gynneddf allweddol a phwerus gyfun hon gerbron realiti i lunio cwlwm o sythweliadau sylfaenol ynghylch y profiad cyffredin o wahuno'i hun. Felly y deallwn. Dyma batrwm o gyferbyniadau cyntefig a phwerus o sylwi ar un egwyddor elfennaidd wrthdrawiadol: megis bach/mawr; sengl/ailadroddol (neu arbennig/cyffredinol); rhan/cyfan; gweledig/anweledig; a.y.b. Mae sythweliadau elfennaidd deall o'r fath yn grwpio'n gyferbyniol yn y Meddwl Cyffredin oherwydd eu cyd-ddigwydd yn fynych ym mhobman (ond odid) gan ymsefydlu'n offer deall rheolaidd cyn iaith ac mewn iaith. Heblaw adeiladu offeryn deall, y maent yn ffurfio gramadeg iaith a llên. Arnynt hwy yr hongir cyfundrefnau creadigol hefyd. Disgrifir yn y gyfrol hon yr offeryn deall cyfan hwn ym mhrofiad Pantycelyn yn fanwl ac yn helaeth, yn ôl y dull y daeth ef ei hun yn ysbrydol ymwybodol ohono. Fe elwir yr offeryn dadansoddol hwn yn gwlwm o *Archgyfundrefnau Ffurfiannol* gennyf i. Hwy sy'n rheoli holl gyfundrefnau'r meddwl. Maent yn sythweliadol gynieithyddol. Ac fe'u cymerwn yn ganiataol.

Dyna wedd 'strwythurol' esgorol ar yr astudiaeth hon o Ddeunydd.

Gwneir felly ddadansoddiad Deunyddiol gan y cyfundrefnau hyn yn ôl y moddau ymarferol o ddefnyddio amser yn ein bywyd pob dydd. Dosberthir profiad o feysydd gwahanol drwy wahuno. Dyna sy'n rhagflaenu deall Deunydd. Gwahenir rhwng dosbarthiadau Deunydd wedyn drwy sylwi ar 'deuluoedd ymddygiad' drwy nodi rheoleidd-dra deddf arweiniol neu ddiffiniol pob un o'r rhain. *Defnyddir Sfferau deddfog*, bob un yn hunanlywodraethol o fewn cydlyniad profiad. Hynny yw, mae gan Ddeunydd ei feysydd

dadansoddadwy ei hun. Yn wir, canfyddwn hierarci eang yn y drefn o ddeall ac o esgor ar Ddeunydd Themâu. I Bantycelyn, yr oedd y cyfundrefnwaith aruthr a manwl hwn yn Ras.

A dyna'r pynciau a drafodwn yn benodol enghreifftiol yn yr astudiaeth hon. Eir i mewn i'r moddau Deunyddiol hyn maes o law yn fanylach. A gwneir hynny drwy ddefnyddio rhai o'r cyfundrefnau cynieithyddol syml yn bennaf. Hynny yw, ar ôl sefydlu offer dadansoddi i ddeall, awn at y Deunydd gwrthrychol ei hun a geir mewn llenyddiaeth a meddwl, — yn Sfferau, yn Fetanaratifau, yn Themâu, ac yn Fotiffau.

Yr hyn yn y pen draw a geisir (ar ôl cydnabod yr Absoliwt a'r Arfaeth) yw archwilio'r adeiladwaith meddyliol deunyddiol a gynhyrchodd yr emynau (a'r gwaith llenyddol arall) gan Bantycelyn. Yn ei emynau y cafwyd uchafbwynt ei awen. Eithr yn yr arwrgerddi y dadlennwyd mawrhydi ei feddwl llywodraethol. Fe gefais yn annisgwyl i mi braidd, wrth astudio'i waith, er na ddylswn fod yn syn, mai'r un oedd trefn elfennaidd y Cristion wrth esgor ar ddeunydd llenyddiaeth yn union o ran safleoedd ffurfiol ag a oedd gan y llenor seciwlar. Yr oedd y cyfeiriad neu'r agwedd neu'r diddordeb (ac yn anad dim, y rhagdyb) yn wahanol, wrth gwrs, o ran cynnwys. Ond yr oedd y camre yn symudiad y meddwl a'r ffactorau a'u cydadelidai yn debyg. Hyn oedd yr hyn a alwai'r Calfinydd yn Ras Cyffredin. Yr oedd y doniau a oedd ar waith, a'r offer a ddefnyddid, yr un mor hwylus i bawb, er y buasai cawr o lenor drwy ras yn medru troi'r strwythur hwn fel y gwnaeth Pantycelyn yn eglwys gadeiriol o orfoledd.

Felly, er mai Pantycelyn sydd ar ganol yr astudiaeth hon, byddir yn gyson yn cilgyfeirio at y sefyllfa seciwlar. Carwn nodi yn y fan hon fframwaith y broses oll i seciwlariaid ac i Gristnogion. Hynny yw, carwn amlinellu trefn fras y meddwl wrth weithio tuag at drafod a defnyddio pob Deunydd llenyddol. Dyma brif gamre perthynas Deunydd a Ffurf. A gobeithiaf ddangos, beth bynnag fo credo'r llenor, ei fod yn rhannu'r un adeiladwaith neu drefn olynol sylfaenol â'i gymheiriaid. Yn ôl Gras Cyffredinol.

(ii) SGÊM Y DEUNYDD

Themateg llenyddiaeth yw prif bwnc y gyfrol hon. Mae'n olrhain ac yn dadansoddi themâu llenyddol yn ôl y cyfundrefnau sy'n eu hadeiladu. Yr hyn yw gramadeg i iaith, hynny yw'r dadansoddiad hwn i themâu. Ond ceisir dangos bod themateg Pantycelyn yn gydwead rhyfeddol o ddyfnder mawr.

Gobeithio na bydd Cristnogion sy'n disgwyl cyfrol arall ar Bantycelyn yn siomedig gyda'r llyfr hwn. Cyfrol yw sy'n barhad o gyfres o gyfrolau a sgrifennais eisoes ynghylch seiliau beirniadaeth lenyddol. Ymwneud y mae ag adeiladwaith angenrheidiol *Deunydd*

lleyddol yn y meddwl. A chan fy mod yn mynnu gwreiddio pob theori mewn enghreifftiau penodol, cymerais Bantycelyn yn enghraifft, sef y llenor mwyaf a gafodd Cymru rhwng yr 16eg a dechrau'r 20fed Ganrif. Llenor 'pur' i mi yw Pantycelyn yn y gyfrol hon, nid yn unig y mwyaf o'n hemynwyr. Adeiladwaith *Deunydd* ei feddwl yn ôl trefn lenyddol anochel yw'r testun. Mae'n wir fod y theori ei hun yn gallu ymddangos yn Gristnogol. Ond y rheswm yw mai dadlau yr wyf fod pob cyfundrefn feddyliol ym mryd Pantycelyn ar gael o fewn amodau Cristnogol. Dichon y bydd y casgliad hwnnw'n dramgwydd braidd i ambell un.

Bûm o bryd i'w gilydd yn trafod *Ffurf* lleyddiaeth. Ond teimlais ei bod yn bryd imi archwilio'r *Deunydd* yn llawnach. A oedd yna ryw egwyddorion cyson cyffredinol gan lenorion wrth drafod *Deunydd*? Mewn beirniadaeth, bu'n amlwg fod yna rai patrymau a threfn o ran *Ffurf* 'bur' a oedd yn llywodraethu Mynegiant y gweithiau lleyddol: pethau fel odlau, mydrau, cynganeddion, telynegion, dramâu, nofelau, a llawer arall. Y priodoleddau hynny sydd ym mryd rhai a ddiffinai unigrywiaeth lleyddiaeth. Eid ati wrth sylwi ar ffurf Mynegiant i sylwi ar ddechrau, canol, diwedd. Peth twt a threfnus *ffurfiol* o'r fath yw lleyddiaeth, er nad yw'n ymddangos mor gymen i rywrai ym myd Deunydd a bywyd go iawn. Ond a allwn sylwi ar nodweddion adnoddau ac ymddygiad cyfatebol *Deunydd* sy'n gyson gyfundrefnol mewn lleyddiaeth? Wedi'r cwbl, sôn *am* rywbeth y bydd lleyddiaeth gan ganoli ar ei chynnwys. Ac yn fynych, mae mwy o ddiddordeb gan bobl yn y Deunydd nag yn y Ffurf. Beth a ddywedwn felly am drefn ac adeiladwaith Deunydd lleyddol? Ni cheir yr un lleyddiaeth hebdo.

Byd-ddelwedd o'r gywreiniaf yw lleyddiaeth. Sut yr â'r meddwl lleyddol ati i adeiladu'i ddelwedd gelfyddydol yn y Deunydd a brofw'n bob dydd?

Gall lleyddiaeth ddarparu amrywiaeth unigryw, wrth gwrs. Mae'r byd sy'n destun iddi yn cynnwys pob math o bynciau deunyddiol wedi'u canfod gan bob math o unigolion â chefnidiroedd gwahanol. Detholiad a dehongliad yw'r byd hwnnw, bob amser, sy'n cael ei ddadansoddi a'i ddisgrifio. Amrywiaeth, oes, ond fe geir hefyd Undod neu gysondeb yn y dull o drafod y Deunydd amrywiol hwn.

Dweud y '*gwirionedd*' am fyd-ddelwedd yw un o bwrpasau gwreiddiol iaith ei hun. Pan ddywed 'fuwch', buwch yw hi. A chyflwyno byd o wirionedd dychmygol yw un o bwrpasau dirgel lleyddiaeth hithau. Cais yw'r gyfrol hon i ganfod ym mha ffordd y mae un llenor Cymraeg pwysig wedi cyfleu'i ddelwedd 'wir' o'r bydysawd unol hwn. Beth yw *natur* ei Ddeunydd? A oes modd yn ei sgil archwilio'n drefnus gyffelyb Ddeunydd *pob* llenor? A sut y mae *canfod* ei Ddeunydd?

Delwedd bersonol o ran o fywyd o fewn byd-ddelwedd gyffredinol yw llenyddwaith. Yng ngolwg Pantycelyn roedd pob dim a grewyd, pob peth a ddigwyddodd, mewn sgêm gydlynol. Yr oedd yna gynllun. Yn gyntaf, ceid bodolaeth, goleuni a bywyd, yn ail, trefn gwahanu hunaniaeth a'r uno'n fathau; yn drydydd, colled. I'r Cristion, ceid trefn gariadus mewn amser a lle i'w hadfer drwy ddyfodiad Duw-ddyn, yr Ymgawdoliad, y Croeshoeliad yn talu iawn am bechodau'r Hollfyd, yr Atgyfodiad, y Farn, y Gogoneddu. Lluniwyd pob manylyn o'r rhain yn Arfaeth fawreddog, yn ôl y term a ddefnyddiai Pantycelyn. A oes yna ryw beth tebyg i Arfaeth ym meddwl pob llenor? A oes trefn yn ei bynciau sydd ar ryw olwg yn debyg i drefn Pantycelyn?

Nid yr un fyd-olwg a gaiff pawb, meddir. Ond bydd pob llenor yn llunio neu'n derbyn delwedd o fywyd iddo'i hun, er nad un mor ymwybodol gynhwysfawr fel arfer â Phantycelyn. Tybia pob unigolyn ei fod yn dewis adeiladu delwedd ei hun o'r byd. Darlunio'r ymwybodol a wna Pantycelyn gan dynnu ar fframwaith isymwybodol. Wrth gwrs, y mae rhai eneidiau tyner a rhamantaidd yn cael haint o glywed y gair 'cyfundrefnol'. Ond does dim modd yn ein bywyd beunyddiol ddeall fawr o ddim, na defnyddio nac iaith na llenyddiaeth heb gyfundrefnu. Cyfundrefnau cyffredinol, yn ddiidewis, sy'n ffurfio'n dealltwriaeth. Felly, wynebwn y bygythiad hwnnw ar ei ben. Yn gryno, cyfundrefn o gyfundrefnau oedd popeth a ganfyddai Pantycelyn. Drwy ogor felly y dehonglai fywyd o'r peth lleiaf hyd y mwyaf. Ac er mwyn amgyffred golwg Pantycelyn ar y cyfanrwydd hwnnw, mae'n briodol inni wybod beth yn union yw cyfundrefn, sef hanfod pob deunydd.

Bu Pantycelyn ei hun yn pendroni ynghylch priodoleddau gwahanol yr hyn a luniai gyfundrefn. Yn wir, fe ganai am sgêm. Ac y mae hynny'n bur anghyffredin. Un wedd ar feirniadaeth lenyddol heddiw, o hyd, yw holi 'Pa gyfundrefnau mewn Deunydd a Ffurf y mae'r awdur yn eu defnyddio? Sut a pham?' Bûm dros y blynyddoedd yn ymdrin yn ddyfal â'r drefn honno o ran Ffurf; ond ceisir bellach yn *Y Cynllun sy'n Canu* drafod patrwm deinamig y 'Deunydd' lenyddol sydd yr un mor gyfundrefnol â'r Ffurfiau lenyddol.

Beth yw nodweddion seiliol cyfundrefn fel y cyfryw felly? Neu'n hytrach yn gyntaf, pa offeryn a geir i lunio cyfundrefn yn y meddwl? Ym maes iaith a llên, mae'n ymddangos mai'r weithred sylfaenol i bob bod dynol yw yn gyntaf *gyferbynnu* gwrthrychau er mwyn ynysu a meistrolï'r hyn sydd yn brofiad di-siâp cythryblus. Mae angen sylwi ar ffiniau pethau, unigoli, torri'r llawnder yn rhannau trafodadwy. Ac felly, *dirnad*. Ond pe na cheid ond gwahanu ar ôl gwahanu, caem anarchiaeth annealladwy. Rhaid yw gweld *cysondeb*, tebygrwydd sefydlog rywle rhwng pethau mewn gwahanol gyd-destunau ac o gyfeiriadau

gwahanol, o funud i funud. Hynny yw, ochr yn ochr â'r gwahaniaethau, rhaid yw cael undod, cyffelybrwydd, cysylltiad. Mae yna ysfa neu wth i uno. Ac felly, *amgyffred*.

Cyfuniad o'r ddwy ysfa gyferbyniol hynny yw Cyf-un-drefn, creadigaeth gyfansawdd newydd. Ble mae hyn oll yn digwydd? Mae'n digwydd — ar un wedd — yn y meddwl. Nid yw'r *gwahanu'n* digwydd yn ystyrlon heb yr *uno*, ac nid yw'r uno'n digwydd heb y *rhannau*. Gall y naill weithred a'r llall fod yn ymwybodol. Ond dichon fod y cyfuno ei hun yn isymwybodol gynnar. Darganfyddiad yw wedyn. Sythwelediad yw o'r asio anghymharus sydd eisoes yn bod.

Mae'r celloedd yn yr ymennydd ei hun eisoes wedi'u cyfundrefnu'n undod genedigol naturiol os isymwybodol. Daw'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymhellach ymlaen i ddibynnu ar gyfundrefnau, megis y fannod, tympau'r ferf, a'r rhannau ymadrodd, sydd hwythau'n isymwybodol. Heb gyfundrefnau, ni siaradwn. Mae'r holl fydysawd a'r amgylchfyd wedi'u trefnu'n gyfundrefn bob modfedd, a hynny'n gynomwybodol. Daw'r gallu felly i gyfundrefnu iaith allan o'r gyfundrefneg ddeall ac allan o gyfundrefnrwydd creadigol.

Sôn yr ydym yn y fan hon am gyfundrefnau iaith a llên. A chyda'r rheini, ond ym myd Deunydd, y byddwn yn y rhan fwyaf o'r gyfrol.

Gwelsom er hynny fod cyfundrefnau eisoes ar gael ym mhob man. Ym mhob dim a welir ceir atomau, ac nid oes yr un atom onid ar ffurf cyfundrefn. Felly'r galaethau oll uwchben, wedi'u llywodraethu yn ôl cyfundrefneg disgyrchiant. Felly'r gell fyw ym mhob manylyn o'n cyrff, a holl gyrff popeth byw arall. Felly'r organau a'u cyfundrefnau ledled pob milimedr o'n haelodau. Y mae'r cwbl hwnnw, yn ddiddewis barod, yn gyfundrefnus *anymwybodol*.

Hyd yn oed ym myd creadigol bywyd ar lawr gwlad bob dydd, fe â dyn ati er ei waethaf i *fyw* yn gyfundrefnol, i greu cyfundrefn addysg, cyfundrefn iechyd, trafndiaeth, lles, ariannol, masnachol, cyfathrebu; ym mhob man yn *ymwybodol*. Mae'r gyfundrefneg orfodol yn y Cread yn ddrych i'r cyfundrefnau gwirfoddol yn y meddwl. Nid oes syndod, felly, er gwaethaf y rhamantwyr fod y cyfundrefnau ffurf yn nyfnder llenyddiaeth, megis odl a chynghanedd, trosiad ac adeiladwaith celfyddydol a llenddulliau traddodiadol, oll yn adlewyrchu'r un ffaith gyfundrefnol hon mewn Deunydd.

Er mai y tu allan y ceir gwrthrychau'r deall hwn, gweithredir y tu mewn fel y gwelsom yn ôl dwy ffordd *yn* y deall, sef dirnad ac amgyffred, gwahanu ac uno, gyda'i gilydd; a storir y canlyniadau yn y cof. Felly hefyd, ceir dwy wedd — yr allanol a'r mewnol, yn y golwg ac o'r golwg. Ceir perthynas o'r fath rhwng y diriaethol a'r haniaethol. Cedwir

deall ac iaith yn anweledig o'r golwg, ond fe'u defnyddir ac fe'u gweithredir yn y golwg. Yn y meddwl y mae'n botensial: yn y golwg y mae'n effeithiol. Does dim dianc.

Mae'r ddwy ochr hyn gyda'i gilydd yn gyfansoddiad. Undod yw, ac ynddo Amryw. Dyna amodau meddwl ar gyfer iaith a llên. Cawn grybwyll eraill yn fwy penodol yn y man, megis rheidrwydd gwerth a phwrpas er enghraifft. Dyna enwi rhai o briodoleddau amlycaf Cyfundrefn. Ond yr oedd Pantycelyn yn annaturiol o ymwybodol o'r Sgêm gyfan i gyd. Ychydig o lenorion ar y pryd, na heddiw, sy'n ymwybodol o'r ffordd y mae eu meddwl eu hun yn gorfod gweithio, a'r tebygrwydd sydd ynddo i'r bydysawd i gyd. Yn sicr, yn ein cyfnod rhamantaidd ni, y mae pendroni am beirianwaith meddwl a bodolaeth yn cael ei gyfrif yn broses oer a chaled i lenor synhwyrus, rhydd, ysbrydoledig. Ond cyn cael cipolwg iawn ar gyfundrefnau hollbresennol byd a betws, yr oedd dimensiwn arall wedi ymaflyd yn neall Pantycelyn. Gwefreiddiwyd ef gan weledigaeth bellgyrhaeddol am Gynlluniwr. Roedd y cynllun hwnnw oll o Dduw. Ni fodlonai ar naid hwylus dros ben yr Achos. Roedd Crist ar waith yn hyn, ym mryd Pantycelyn. Cyfundrefnau bydysawd oeddent a sancteiddiwyd ym meddwl Duw ei hun. Roedd y grefydd Gristnogol yn fydolwg o gyfundrefnau i ryfeddu atynt. A myfyriai Pantycelyn yntau'n ddwys ar ddyfnder a phrofiadaeth serchiadol y gwahanol weddau ar y drefn hon.

Un peth syfrdan a wnâi Pantycelyn oedd sylwi'n fwriadus ac yn fyw iawn ar bob un o'r priodoleddau deall eu hunain, fel y cawn ddatgelu, ac yna'u canfod i gyd o fewn persbectif ei brofiad o Undod cyffrous. Dyma allwedd i adeiladwaith ei feddwl. Syllai drwy sbectol newydd. Fe roddwyd iddo'r ddawn i ganfod pob dim o bwys yn ysbrydol yn ogystal ag yn faterol. Ac fe'i gweddnewidiwyd o'r herwydd fel bardd. Yn wir, fe'i gorfoleddwyd ef oherwydd cyfarfod â'r Trefnydd ei hun.

* * *

Ond nid Pantycelyn yn unig sydd mewn golwg yn y gyfrol hon. Ei gymryd ef fel enghraifft mae'n wir a wnawn i olrhain trefn deunydd ei feddwl llenyddol. Ond, wrth wneud hynny, gobeithir dangos mai'r un yw'r colofnau cynhaliol Deunydd i bob llenor. Trafod yr ym yr hyn a eilw diwinyddion yn Ras Cyffredinol. Dyma'r doniau a'r drefn a rennir yn ddiwahân i bawb, yn yr achos hwn i bob llenor, beth bynnag fo'i greddau. Arolygir felly holl brif egwyddorion neu safleoedd meddyliol trafod Deunydd llenyddol. Cawn ddangos bod Absoliwt neu ragdyb yn anochel angenrheidiol i bawb, a bod yr agwedd at drefn neu gynllun bywyd ac iaith hefyd yn gyffredin. Yr un cyfundrefnau deall sy'n rheoli, a'r un Sfferau Deunydd y dewisir ohonynt. Try'r meddwl llenyddol y rhain oll yn Themâu ac yn Fotiffau. Hynny yw, yr un yw paramedrau ac ystyriaethau llunio Deunydd llenyddol i bob awdur.

Pan fydd beirniaid yn trafod natur unigryw ac arbenigrwydd gwahanol llenyddiaeth yn gyffredinol, pwysleisio unigrywiaeth Ffurf a wnânt. Ond gwyddys na all llenyddiaeth yn gyffredinol ddim ond corffori Deunydd yn ogystal â Ffurf. Ac yn sicr, rhydd beirniaid yn reddfod gryn sylw i Ddeunydd yn ogystal â Ffurf, yn arbennig ei adeiladwaith a'i themâu, pan fyddir yn ymdrin â gweithiau unigol neu â disgyblaethau all-lenyddol, yn enwedig mewn rhyddiaith. Ymddengys Ffurffiau llenyddol yn weddol gudd ac 'ar wahân' unigolyddol o fewn cyfrwng llenyddiaeth. Ond mae hi'n weddol amlwg beth y mae hi'n sôn amdano, beth bynnag yw'r dechneg. Mae hi fel pe bai Deunydd yn fwy agored ac yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â phopeth. Mae cwmpas a rychwant Deunyddiau llenyddiaeth mor amlochrog ddiriaethol amlwg â chreadigaeth Duw. Deunydd yw beth bynnag y bo'r llenor yn digwydd ei drafod. Gall fod yn ideoleg neu'n deimlad, yn ysbryd neu'n syniad, heblaw'n bobl a'u gweithredoedd, neu'n sylweddau gwrthrychol. Gellid honni mai popeth yw'r diffiniad o'r gair Deunydd i lenor; ac nid yw hynny'n bell ohoni. Mae Deunydd yn perthyn i fwy na llenyddiaeth: ni pherthyn Ffurf odl a chynghanedd ond i lenyddiaeth ei hun.

Ond beth am Ddeunydd i lenor o Gristion fel Williams Pantycelyn? Onid achub ac aileni a moesoldeb ac addoli a Duw yw sffêr llenor efengylaidd o'r fath? Pan luniodd *Golwg ar Deyrnas Crist*, diffiniodd Pantycelyn fwy neu lai baramedrau'r hyn a gyfrifai ef yn cyfateb i feddwl a diddordeb potensial llenyddiaeth ei hun, o ran theori, er y gall yr ymarfer ogwyddo'n fwy dewisol gan unigolion. Roedd y Cynnwys yn bur fawr. Popeth. A gobeithir dangos bod hyd yn oed 'Ffurf' yn gallu bod yn bwnc iddo, yn gynwysedig yn rhyfedd iawn ym maes 'Deunydd' ar ffurf Arfaeth.

Ond sut y trefna llenor 'bopeth' o'r fath? Sut y llwyddir i'w wneud yn drafodadwy lenyddol? A oes trefn eisoes yn wrthrychol ymlaen llaw yn y Deunydd? Neu ai'r drefn ym meddwl y llenor ei hun sy'n dosbarthu ac yn dadansoddi? Ai goddrychol ynteu gwrthrychol yw'r rhaniadau neu'r meysydd a ystyrir? A oes y fath beth â 'meysydd deunyddiol' sy'n benodol gyson i lenyddiaeth? Sylwasom fod cyfundrefnau amlwg yng ngwedd lenyddol Ffurf yn hanesyddol — mydr, odl, cynghanedd, troadau a ffigurau ymadrodd, llenddulliau (*genres*) a.y.b.. A oes cyfundrefnau gwahanol cyfredol ar gael o fath sefydledig sy'n dosbarthu *Deunydd* lenyddol hefyd mewn modd nid annhebyg?

Dichon y gellid honni bod y llenor Seciwlar a'r llenor o Gristion fel ei gilydd ill dau yn hawlio pob dim fel deunydd llenyddol: i'r ddwy grefydd felly. Ond ai'r persbectif ysbrydol yn unig sy'n gwahaniaethu rhwng dosbarthiadau o Ddeunydd: ynteu'r ddealltwriaeth o raniadau cadarnhaol sydd eisoes yn wrthrychol yn y pethau eu hunain?

Yng ngwyddor ‘Seico-gyfundrefneg’ yn Ffrainc, Canada, Corea, a gwledydd eraill, buwyd hyd yn hyn yn dadansoddi un wedd ar gyfundrefnau’r meddwl drwy ddadansoddi trefn gywrain iaith. Gwyddom fod ein cyrff wedi cael eu hadeiladu o gyfundrefnau — gwaed, anadlu, clywed, esgyrn, gweld, cyhyrau, imiwnedd, treulio ac ysgarthu, nerfau, cenhedlu, a’r ymennydd, ac yn y blaen. Gwyddom yn wir fod gan bob atom ei gyfundrefn (cnewyllyn+proton, electronau a newtron a.y.b.). Nid yw hynny’n annhebyg i gyfundrefn y gell ddynol sydd hefyd yn cynnwys cnewyllyn (ynghyd â chromosomau a rhyfeddod DNA a.y.b.). Mae’r drefn gyfundrefnol hon yn debyg i iaith ei hun. Ac nid echreiddig yw tybied fod yna ysfa ddynol am drefn ar gael drwy gydol llenyddiaeth hefyd.

Gwaith Seico-gyfundrefneg Iaith (*Psycho-systématique*) yw dadlennu beth sydd gan iaith i’w ddweud am y modd y mae’r meddwl yn llunio neu’n darganfod cyfundrefnau.

Yr wyf bellach wedi defnyddio’r gair ‘cyfundrefn’ fwy nag unwaith. Bydd y gair yn cael lle anrhydedd yn yr astudiaeth hon. Ond oherwydd y rhagfarnau rhamantaidd anferth yn erbyn y fath anghenfil, gwell imi frysio i ddweud gair o’i phlaidd cyn mynd ymhellach. Oherwydd yr angharedigrwydd confensiynol wrth ddelweddu ‘cyfundrefn’, carwn ei ddisodli ar y cychwyn yn deg drwy gymhariaeth. Syniaf am gyfundrefn yn debyg i gymuned gariadus — boed yn blanhigion, yn anifeiliaid, neu’n bobl. Mae yna gyfathrebu cyddibynnol o fewn y gymuned. Cartref yw, uned gydweithredol syniadol sy’n meddu ar fath o isymwybod torfol. Mae’r elfennau’n trigo’n barhaol gyda’i gilydd gyda chyfrifoldeb a chryn fudd i’w gilydd. Mae ganddynt deyrngarwch at eu lleoliad a’u perthynas, y naill i’r llall. Ac y mae’r lle yn cyflenwi’u hanghenion oll. Peth felly yw’r atom. Peth felly yw’r gell. Y mae pob rhan gydlynol yn dibynnu ar les ac iechyd pob rhan arall, a chyd-barchant y cyfan. Felly y maent yn hapus. Dyna un wedd ar y Gyfundrefn o gyfundrefnau sy’n adeiladu gramadeg a meddylfryd Pantycelyn. Does dim dianc rhag Gras Cyffredinol.

Erbyn dechrau’r ugeinfed ganrif, am resymau ffasiynol, crebachwyd catholigrwydd chwaeth llenyddol y Cymry Cymraeg. Cyfyngwyd ar y gallu i ymateb i lenyddiaeth Gristnogol. Ysfa braidd yn amddifadol fu hyn, dichon, ar gyfer gwerthfawrogi llenyddiaeth Cymru. Ai plot y gelyn oedd hyn? Gyda rhai a ddarllenai ffuglen wyddonol neu a ymatebai’n burion i realaeth hudol, adweithiwyd yn chwyrn a thagu’r medr i fwynhau Pantycelyn. Dyma un o feirniadaethau aml Saunders Lewis ar Brifysgol Cymru. Eto, os medrai Pantycelyn ganu ‘Rwy’n chwennych gweld ei degwch ef’ mor felys ag y canai Burns ‘My luv’e’s like a red red rose’, onid oedd yn cynnwys dimensiwn arall hefyd sy’n haeddu ymhyfrydu ynddo?

Mae'n wir, wrth gwrs, fod y medr i 'werthuso' wedi derbyn cryn ymosodiad tua'r un pryd ag y daeth canu ysbrydol yn anathema. Ond ym marn ein beirniad pennaf, Saunders Lewis, Williams Pantycelyn oedd pennaf llenor y Gymraeg am y pedair canrif rhwng beirdd yr uchelwyr a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ac anodd fuasai deallus amau'r fath osodiad. Heriai Pantycelyn felly y darlennydd 'radicalaidd' cyfoes confensiynol.

Un wedd arwyddocaol mewn beirniadaeth, — a esgeuluswyd cyn i'r distawrwydd mawr hwnnw am werth Williams gydio yn hyrwyddwyr y dirywiad beirniadol, — oedd meddylfryd ac adeiladwaith syniadol y bardd hwnnw ym maes Deunydd neu Gynnwys. Rhyfedd hynny hefyd, gan gymaint fu dylanwad Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ar Gymru: peth a ddiplannodd bron gyda'r rhyddfrydwyr diwinyddol.

Eto, daeth cyfundrefneg fythol-bresennol yn ôl i fri yn niwedd yr ugeinfed ganrif mewn gwledydd eraill. Un wyddor berthnasol fu Seico-gyfundrefneg sy'n ceisio dadansoddi gwedd ar gyfundrefnau'r meddwl drwy ddadansoddi trefn iaith. Mae cyfundrefnu gwrthrychol a ffeithiol o'r fath yn wir am iaith megis am y bydysawd. Mae ym mhob man. A chredaf innau fod y nodwedd gyfundrefnu hon yn wir am lenyddiaeth yn ogystal.

Mae ychydig bach o atalwyd ymhlith rhai gwyddonwyr ynghylch canfod cyfundrefnau y tu allan i feysydd arferol gwyddoniaeth. Anodd iddynt werthfawrogi y gellir cael cyfundrefnau mewn iaith a llenyddiaeth, ac yn waeth byth yn y meddwl ac mewn diwinyddiaeth. Ond nid yw Calfinydd yn profi'r fath gyfyngder mewnbylg; ac y mae ef yn gallu canfod cyfundrefnau'r greadigaeth a'r ysbryd yn rhoddedig hardd ac yn gydlynol gyffrous ym mhobman.

Dechreuais lunio'r gyfrol hon yn ddiniwed braf drwy anelu at lunio arolwg o Ddeunydd cyfundrefnol dadleuon diwinyddol Pantycelyn. Dymunid archwilio adeiladwaith a deinameg ei Ddeunydd llenyddol amlwg felly. Dyna'i feddwl, yn dwt mewn dadleuon. Yr hyn nas disgwyliod oedd y byddai'n arwain at gynllun cyffredinol o adeiladwaith y weithred lenyddol i bawb. Arweiniodd yn annisgwyl at sylweddoliad — y dylid bod wedi'i hen sylweddoli: os manylir yn gywir ar drefn strwythurol neu batrwm cyffredinol ac anorfod waelodol y gweithrediad deunyddiol gan un llenor mawr, yna yr ydys yn debyg o ddatguddio gweithrediad Deunydd llenyddol yn ehangach. Dichon fod y datguddiad o gydberthynas y camre mewn deunyddio llenyddol gan un awdur yn herio rhai hen dybiau am yr astudiaeth o lenyddiaeth yn gyffredinol. Beth bynnag am Gynnwys Deunydd Pantycelyn (sydd wrth reswm yn ymwneud yn ganolog â Gras Achubol), y mae Ffurf ei Ddeunydd wedi'i

strwythuro gan yr hyn a elwir yn Ras Cyffredinol. Gras Cyffredinol yw'r doniau a roddir i bobl yn ddiwahân, beth bynnag yw eu ffydd.

Mae'r darllenydd felly'n cael cryn fargen. Prynwch yr un gyfrol hon, a chewch ddwy: 'Strwythur Deunydd Pantycelyn' a 'Strwythur Deunydd pob llenyddiaeth'. Tair mewn gwirionedd. Oherwydd, gan mai Diwinyddiaeth yw pennaf Sffêr Ddeunyddiol ymwybodol Pantycelyn, a chan fod yr awdur hwnnw yn tueddu i weld bywyd oll wedi'i 'gyfundrefnu'n' ddigymrodedd yn ôl yr hyn a alwai ef yn 'sgêm', fe ddaethpwyd yn y gyfrol hon at ddiwinyddiaeth ei hun o safbwynt a ddatgelai'i chyfundrefnau meddyliol cydlynol o'r brig i'r bôn. Hynny yw, cafwyd '*Diwinyddiaeth Gyfundrefnol*' hierarcaidd o fath newydd, un sy'n diffinio 'Cyfundrefn' ac yn cynnwys Ffurf ynghyd â Deunydd.

Bydd pawb a wŷr y peth lleiaf am Ddiwinyddiaeth yn gyfarwydd â 'Diwinyddiaeth Gyfundrefnol', rhai gyda chryn fraw. Ond byddir hefyd yn sylweddoli efallai fod Diwinyddion Cyfundrefnol ysywaeth yn tueddu i roi sylw trefnus i athrawiaethau yn rhestrol, ond heb bwysleisio'r cydlyniad ffurfiol yn ddigonol (yn ôl natur Cyfundrefneg ei hun). Trafodant Ddeunydd heb drafod Ffurf gyfundrefnus gyfansawdd. Daethpwyd yn y gyfrol hon at Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol, nid yn gymaint o gyfeiriad Diwinyddiaeth eithr o gyfeiriad y Cyfundrefniant creedig. Dyna drefn a fuasai'n datgelu fel y mae'r athrawiaethau yng ngwaith Pantycelyn yn gydadeiladaeth gymen sy'n gweithredu yn ôl hanfodion hierarcaidd cytûn ym mhob man, yn Gyfundrefn o gyfundrefnau unol. Wrth ymaflyd yn y dasg hon o astudio Cyfundrefnau meddyliol Pantycelyn, a hynny o safbwynt Seico-gyfundrefneg, datgelwyd cynllun anochel newydd a chynhenid drefnus i Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol ei hun hefyd drwyddi draw. Dyma Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol fwy eithafol fel petai. A dyma drydedd gyfrol yn y fargen felly.

Nid oes yma, wrth gwrs, ddim mymryn o syniadaeth ddiwinyddol newydd. Digyfnawid yw hanfod hynny. Nid oes yma namyn yr hyn a eilw Alvin Plantinga yn Fodel Acwin-Galfinaidd (finnau'n 'Awstin-Galfinaidd'). Trefnir y ddiwinyddiaeth honno nid yn unig yn ôl cyfundrefneg Feiblaidd: o Fodolaeth – drwy Drefn weithredol Duw – ymlaen i'r Gogoniant; eithr yn ôl patrwm creedig y mae hi ei hun yn gorfod ei ddilyn yn ôl ei natur ei hun wrth lenyddia, ie, ac wrth i'r seciwlaryn ei hun lenyddia'i Ddeunydd.

I. Dechreuir yn feddyliol yn rheidrwydd y rhagdyb eithafol. Bydd hynny'n gwahaniaethu'n sylfaenol o ran natur rhwng y Cristion a'r Seciwlar o ran safbwynt. Ond yr hyn a ddadlennaf yw *na bydd bodolaeth y rhagdyb neu'r rhagosodiad eithaf ddim yn gwahaniaethu o ran sefydliad tybiedig. Mae yno i'r naill a'r llall o ran bod.* Fe'i galwn yn Absoliwt/absoliwt. Mae'n orfodol. I Bantycelyn, bid siŵr, Iesu Grist oedd ei Absoliwt plwmp

a phlaen, y goruwchnaturiol-bersonol-dragwyddol. Ym mryd y Seciwlaryn, gellid tybied mai *ef/hi* ei hun, ei ymwybod neu ei brofiad empeiraidd a'i reswm, a phethau felly, yw'r pren mesur a'r 'awdurdod' arferol (neu'i wadiad absoliwt ohono). 'Byddwch megis duwiau.' Dyna'r hyn yr apelia *ef/hi* ato er mwyn dweud unrhyw beth, — ei allu i'w fynegi'i hun, a'i ramadeg cudd. Hynny yw, dadleuwn nad oes dianc rhag sail neu ragdyb eithaf o ryw fath sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud unrhyw Fynegiant. Dyma wrth gwrs ddibyniaeth ffydd.

Felly yr amodir ac y cyflyrir ystyr a grym unrhyw Fynegiant o Ddeunydd gan ei Ffurf, sy'n dibynnu yn y pen draw ar y math o apêl sydd gan feddwl y llenor yn y pegwn eithaf. A yw *ef/hi* yn sefyll ar sail Oruwchnaturiol? Neu ynteu ai Naturiolaidd yw? Ai ar wrthrych ynteu ar oddrych y saif? Beth bynnag a dybio, naill ai Absoliwt yw neu absoliwt.

II. Yr Absoliwt wedi'r cwbl yw'r Bod angenrheidiol sy'n esgor ar y ddealltwriaeth o'r Arfaeth neu'r Cynllun dwyfol, yr ail lefel. Sef y **Drefn** anochel sylfaenol ym mhobman. Yr Absoliwt/absoliwt o reidrwydd sy'n rhagflaenu neu'n rhagdybio'r cwbl hwn, gan gynnwys y Mynegiant seciwlar. Trefn roddedig hollbresennol sy'n ei ddilyn. Y math o fywyd cyffredinol a brofwn yn anochel. Y Pen sy'n llywodraethu'r Hierarci.

Patrymir y gyfrol bresennol, felly, ar Hierarci drefnus ddeinamig ac unol o drefn bywyd a ganfyddir yng ngwaith Williams. Honnir mai dyma'r drefn feddyliol orfodol yr esgorir drwyddi ar Ddeunydd holl waith y bardd unigol, — ac mewn modd cyffelyb ar lenyddiaeth yn gyffredinol, — ynghyd â Diwinyddiaeth Gyfundrefnol hithau. Dechreuir yn anochel yn yr Absoliwt/absoliwt ar y pen. Y rhagosodiad crediniol yna i bob unigolyn yw'r gychwynfan. Mae'n darparu, yn ôl ei briodoleddau cynhenid ei hun, y ffactorau ffurfiol cyffredinol sy'n amodi pob Deunydd a phob Ffurf mewn deall, mewn gramadeg iaith, ac mewn Mynegiant. Sef yr Arfaeth: y Cynllun sy'n canu.

Ceir trefn lydan yno gan Bantycelyn, felly. Ychydig o'n deallusion pennaf efallai a fyddai heddiw yn ceisio ymdopi mwyach mewn dadl heb archwilio'u rhagdyb sylfaenol eu hun. Eto, gellir esgeuluso ystyried pa effaith a gaiff hynny ar eu holl strwythur. Bid a fo am hynny, ni ellir delwedd o fywyd heb ragdyb. I Bantycelyn, Iesu Grist oedd yr Absoliwt a ragosodai'r Arfaeth ben bwygilydd: Deunydd a Ffurf. I'r Seciwlaryn, fel arfer, 'fi' yw'r rhagdyb, yr hyn a eilw Husserl yn 'Ego Trosgynnol'. I Ddiwinyddion Cyfundrefnol confensiynol, y Deunyddiau neu'r themâu arbennig yw eu pwnc. Ond — a dyma un o brif bwyntiau'r astudiaeth hon — yr un safleoedd strwythurol o dan awdurdod yr Absoliwt a ddefnyddir yn ffurf pob meddwl. Gall y rhagdyb a'r cynllun fod yn gyfyng naturiolaidd (y *rheswm/y pum synnwyr*) neu'n gyferbyniad *goruwchnaturiol/naturiolaidd*. Ond fe geir, fel y

cawn weld, ffactorau gorfodol neu ddulliau dadansoddi sydd ynghlwm wrth yr Arfaeth (sef yr Archgyfundrefnau) ac yn foddion i ddadansoddi a threfnu pob deunydd. Maent yn gyd-angenrheidiol yn y broses o ddeall. Dyna'r gynhysgaeth barod, sefydledig. Yr Arfaeth hon yw'r ail lefel, cynllun y greadigaeth; a dyna'r gwrthrych i'r dadansoddiad. Rhan o'r Arfaeth hon yw'r offer gweithredu. Hwyl sy'n diffinio'r Cynllun. Drwy'r Archgyfundrefnau hyn yr ymegyr yr Arfaeth hon yn Ddeunydd ymarferol. Hwyl yw priodoleddau'r Arfaeth.

III. Wedyn felly, y cyfarfyddir â thrydedd lefel, sef Deunydd y Greadigaeth ar waith, gan gwblhau'r triawd canolog. Dechreuwyd archwilio a dosbarthu'r Deunydd Cyffredin hwn yn ôl natur offer trefnu'r Arfaeth. Yn awr, at Absoliwt/Arfaeth, ychwanegwyd (*dan ddadansoddiad Arch-gyfundrefnau Strwythurol Llywodraethol*) Sfferau Moddol a Deddfog y Deunydd. Yr Archgyfundrefnau fu'r gwenyn gweithiol o'u blaen. Nhw yw offer deall y Deunydd. Nid yw'r Archgyfundrefnau hyn ond yn offer ffurfiol ar gyfer dadansoddi a thrafod y Deunydd mawr a'i Ffurf yn y Sfferau, er eu bod hefyd yn darparu themâu ynddynt eu hunain. Bellach, o fewn Sfferau Deunydd, cawn ddwy lefel ymwybodol. Cydnabyddwn yn gyntaf sefydliad y Sfferau *Sylwedd* megis mewn gofod. Ac yna cyflwynir hefyd Themâu neu Blotiau (ymhlith y Sfferau) yn *Weithrediadau* neu'n Ffwythiannau meddyliol iddynt mewn amser, rhai cyffredinol ac arbennig, cymdeithasol a phersonol. Yr ydys yn dal mae'n wir mewn math o Dafod (sef y gyfundrefneg gudd a mewnlol). Ond wrth roi'r Sfferau hyn ar waith, dechreuir sylwi ar eu symudiadau mewn amser. Adeiledir y Themâu llydan yn ôl ac ymlaen drwy Fotiffau unigol, yr unedau ystyrol lleiaf, y brics, y brawddegau neu ymadroddion mân cyflawn. Hyn yw'r Mynegiant, yn graddol ymddangos mewn Gofod ac Amser. Ac felly, ar sail trefn anochel olynol, fe geir o'r diwedd ymarfer.

Crëwyd y Deunydd bellach drwy ddefnyddio Trefniant lluniaidd, cyflawn a hardd parod, sy'n rhagosodiad felly i'r Deunydd. Ac mae'r haenen gyntaf yn yr Arfaeth yn ddeinameg sy'n rhychwantu un ar ddeg o Archgyfundrefnau Ffurfiol (a rhagor) a fydd yn amodi, yn cyflyru, ac yn siapio'r Deunydd hwnnw fel y bydd yn ystyrlon ac yn bwrpasol i'w ddefnyddio. Dyma'r taclau trefnu. Yr Archgyfundrefnau cynieithyddol pwysig hyn a fydd yn rheoli'r holl gyfundrefnau eraill a geir drwy gydol y Deunyddiau, gan gynnwys iaith. Yr Archgyfundrefnau hyn yw'r mecanwaith allweddol yn yr Hierarci sy'n dadansoddi ac yn esgor ar bob 'cyfundrefn' unigol yn ei thro. Ac i'r Cristion, priodoleddau ydynt eisoes yn yr Absoliwt a adweinir ac a ddatguddir. Ceir hwyl hefyd (ar ffurf rhagdybiau) gan y seciwlarwyr, er na cheir ar hyn o bryd unrhyw esboniad seciwlar boddhaol ar gyfer eu tarddiad, mwy nag

ar gyfer bodolaeth, na threfn, na bywyd, na hunaniaeth. Y rhain fydd yr elfennau mwyaf chwyldroadol yn y dadansoddiad presennol wrth drafod Deunydd.

Dyma lefel newydd y methwyd â'i hosgoi.

Nid 'gwahuno' (gwahanu + uno), er mor awdurdodol y bo, yw unig wneuthurwr cyfundrefnau. Ceisir sôn am un ar ddeg o Archgyfundrefnau. Ar hyn o bryd, ni nodid ond un. Yr hyn sy'n digwydd wrth wahuno yw bod y ddelwedd o wrthrych a wahunir yn cael ei throsglwyddo yn undod cyferbyniol i'r meddwl ac i'r cof. Mae'n gadael delw yn fewnol, sy'n gweithredu'n allanol. Felly, ar unwaith, sefydlir gwneuthurwr i ddadansoddi Deunydd (ochr yn ochr â *gwahanu/uno*), un dosbarthol, sy'n hanfodol ar gyfer cyfundrefn, megis *anweledig/gweledig*. Ar y cychwyn, y mae hyn yn ddelw yn y meddwl o'r golwg/a'r peth ei hun yn aros ar wahân yn y golwg. Wedyn, gellir defnyddio'r offeryn cyferbyniol newydd hwn, yr Archgyfundrefn hon, i ddsbarthu Deunydd o bob math. Hynny yw, y mae'r ddelwedd feddyliol ei hun, wrth gael ei gwahuno fel hyn yn gynrychioliadol wedi dod yn rhan o gyfundrefn mewn proses sy'n uno ac yn gwahanu gyda'i gilydd bethau eraill yn storfa'r cof, mewn modd 'hanfodol'. Megis y Duw anweledig yn ymgawdoli yn y Mab.

*

*

*

Mae'r Archgyfundrefn arbennig *anweledig/gweledig* bellach yn cyflyru pob un o'r 'Sfferau Deunydd' eraill nes y tueddwn i gael (mewn arolwg) gyfuniad cydlynol o ddisgrifiad ac eglurhad 'hanfodol'. Enghraifft deg o hyn yw 'Hanes' (M III, 173-176). Cwbl amhosibl yw meddwl nac adrodd Hanes unrhyw beth yn llythrennol gyflawn. Mae pob Hanes yn ddetol, ac o'r herwydd yn ddehongliad yn y meddwl. Mae'n hanfod. Er gwaethaf tyb rhai academwyr henffasiwn, does neb yn wrthrychol diduedd. Twyll ac afiechyd yw honiad pob hanesydd sy'n hawlio niwtraliaeth neu gydbwysedd perffaith. Yr hyn sy'n bwysig yw ystyried pa fathau o gelwyddau a ddywed hanesydd. Ceir gwedd *weledig/anweledig* i bob Hanes. Ac y mae'r naill yn disgyblu'r llall. Heb ganfod yr ansawdd deublyg hwn i'r meddwl, a'r tyndra rhwng y fframwaith a rydd y naill i'r llall, a heb sylweddoli sut y mae ystyr ac amcan yn cyflyru ac yn trefnu pob Hanes, naïf tost fydd hanesydd. Mae hyn ar ei amlycaf pan drafodir gwleidyddiaeth a chrefydd. Dethol yw'r maen prawf. Haelfrydedd ysbryd a phrofiad yw'r allwedd i ddeall, cyd-deimlo, a chyd-barchu mewn meysydd deallol o'r fath. Anfoddhaol yw'r honiad hurt ynghylch didueddrwydd annethol.

Mae hyn yn wir pan drafodir llenyddiaeth storïol hefyd. Nid oes dim yn 'llythrennol' byth. Amhosibl yw cofnodi popeth, pob meicrob, pob meddwl, pob teimlad. A gwiw cofio bod dau fath o wirionedd amlwg yn fythol bresennol — y 'trosiadol' a'r 'llythrennol'. Sylwer ar 'Golwg ar Deyrnas Crist' a'i Hanes 'llythrennol' sy'n drosiadol, a 'Theomemphus' sy'n

drosiadol ond yn llawn o wirioneddau llythrennol. Mae'r naill yn ceisio cyflwyno Hanes go iawn y bydysawd, o'r dechrau hyd y diwedd; a'r llall yn adrodd Hanes un dyn pechadurus yn gwbl ddychmygol. Ond dwy ffordd yw'r rheini o ddelweddu'r gwir dethol. Ceisio mynd drwy'r trosiadol at y llythrennol a wna'r trosiad. A methu â bod yn llythrennol y mae'r llythrennol. Yr ymholiad parchus i'r naill ac i'r llall yw gofyn pa fath o wirionedd a ddywedant ill dau. Nid yw'r llythrennol yn fwy gwir na'r trosiadol. Ond mae'n hanfod gwir.

Ac felly y ceir gwedd ddadansoddol newydd arall hefyd ar Wahuno – sef *Un/Amryw* (Tri yn Un; Dwy natur mewn Un) – sy'n gynllun 'anweledig' arall, ac eto'n nodwedd hanfodol ym mhob cyfundrefn mewn Tafod. Ystyr ddiffiniol cyfun-drefn, wrth gwrs, yw bod yna 'uned' sy'n cynnwys 'lluosog'. Er enghraifft, mewn iaith — ceir delwedd o'r peth yn *arwyddedig + arwydd = arwyddiant* (ystyr + sain = gair). Mae Un/Amryw (Archgyfundrefn arall), felly, yn gwlwm a ddiffinia gyfundrefn.

Pan enwaf gyfundrefn elfennaidd megis *gweledig/anweledig*, mae'n amlwg fod a wnelwyf â sythwelediad dadansoddol sydyn ac isymwybodol. Ac eto, drwy'r cof, adeiledir yr anweledig hwnnw yn 'Dafod', yn undod cyferbyniol mewnol. Hawdd gweld hefyd sut y gall hyn weithredu fel un o'r gweddau ar gynhyrchiad cyfundrefn o sawl math i drafod Deunydd. Felly mewn modd cyffelyb hefyd y cyferbyniad *un/amryw*. Ac wrth gwrs, drwy gyfrwng yr offer hyn, ceir lle sydd mewn gramadeg i gyfundrefnau cyferbyniol unol eraill fel *Tafod/Mynegiant ei hun* (a rydd berthynas amlochrog megis 'rhif' gramadegol mewn enwau, berfau, ansoddeiriau, arddodiaid adferfol personol, hynny yw gramadeg, yn barod ar gyfer dweud brawddegau). Felly hefyd y ceir cyntefigrwydd Archgyfundrefn *presennol/absennol* sy'n berthnasol i ofod (tri pherson y rhagenw); ac i amser berfau.

Gellid tybied, wrth gwrs, na byddai perthynas *gweledig/anweledig* ddim yn un o'r pynciau blaenaf ym myfyrdod y baban yn ei grud, o leiaf yn ystod yr wythnosau cyntaf. Hynny yw, anodd synied bod y berthynas hon, megis *presenoldeb/absenoldeb* yn ymrestru yn rheng y cyfundrefnau cyntefig sylfaenol mewn bywyd meddyliol. Ac eto, mae'n amlwg fod y byd allanol yn effeithio ar yr hyn sy'n fewnol i'r baban, yn deimladol ac yn ddelweddol. Yn isymwybodol — a dyna'r hyn sydd mewn golwg — ceir eisoes ddau fyd, y *gweledig* a'r *anweledig* (y cof) yn rhan o brofiad trawmatig y creadur bach: *mam yn bresennol/mam wedi mynd*.

Sut y mae hyn oll yn berthnasol i Bantycelyn? Fel y ceir gweld, y mae ef ei hun yn dra ymwybodol o'r cyfundrefnau meddwl creadigol hyn, er nad yn ôl categorïau rhestredig beirniadol. Fe'u geilw'n Sgêm. Yr un mecanwaith sy'n gweithredu o hyd gyda'r seciwlarwr yntau, er y gall hwnnw fod yn ddigon anymwybodol ohono.

Felly hefyd y ceir yn y meddwl, yn y lle y bu ‘gwacter’ neu gymysgedd ynghynt, ddelwedd arall o uned ddiriaethol gyferbyniol a gaiff ei storio yn ffenomen newydd: *Anfod/bod*. I mi, yr ymwybod rhagdybiol hwn o fod yw’r hyn (heblaw cyfleu ‘creadigaeth’) sy’n cyfateb i’r ymwybod â ‘Gwirionedd’ sy’n eiddo i bawb, fel yr anghenraid i fyw, i ddibynnu ar ein synhwyrâu, ac i gael sail i weithredu. Dyma’r sail hefyd i realiti cynrychiolaeth amryfal ieithyddol. Mae’n rhan hynod bwysig o’n hoffer ar gyfer siarad a goroesi. Myth ‘gwirionedd’ yw, a ddibynna ar y cysondeb sydd yn y greadigaeth.

[Mae McGrath yn arddel y safbwynt ‘Realaeth Wyddonol’ sy’n golygu bod yna fyd go iawn yn bodoli, yn annibynnol ar y meddwl dynol, ond y mae’r meddwl hwnnw’n medru ei ddirnad a’i gynrychioli. Ond cyn hynny, mae hefyd yn arddel ‘Diwinyddiaeth Wyddonol’ sy’n golygu bod Duw go iawn yn bodoli, yn annibynnol ar Ei greadigaeth ac ar y meddwl dynol: ond y mae’r meddwl hwnnw’n medru i raddau Ei wybod a chael perthynas ag Ef. Dyna, yn ogystal, safbwynt y gyfrol hon, sydd hefyd yn bennaf yn ceisio amlinellu natur y cyfanrwydd rhwng hyn oll drwy esbonio Cyfundrefneg, sef y cyswllt rhwng yr holl greadigaeth mewn cyfundrefnau ynghyd ag Awdur cyfatebol y fodolaeth a’r gyfundrefneg honno. (M I, 71-76; II, 195)]

Fe all ymddangos fod enwi ambell derm fel *Arbennig/Cyffredinol* braidd yn academiaidd i bobl gyffredin, o leiaf ar yr olwg gyntaf. Ond fe’i ceir yn syml yng nghyfundrefn y fannod [Mae’r ddafad yn y cae (un): mae’r ddafad yn greadures ddof (pob un): *Arbennig/Cyffredinol*.] Fe’i ceir yn Adda, y dyn unigol, y cynrychiolydd. Fe’i ceir lle bynnag y ceir enw, pan welir mam fan yma a mam fan acw. Yn wir, proses yw cyffredinoli sy’n ddigon elfennaidd a sythwelediadol i isymwybod pawb i’w chario drwy ailadrodd ym mhob man fel y bydd yn gynneddf hwylus yn effeithiol yn y gwaith o siarad, ac wrth gwrs wrth lunio cyfundrefnau eraill. Ac wrth lunio offeryn i wneud Archgyfundrefnau o bob math, y mae cyfundrefn gynhyrchiol *Arbennig/Cyffredinol* yn wir bŵerus ac anhepgor hollbresennol wrth ddeall pob gair.

Ar ôl enwi cyferbyniadau *gweledig/anweledig*, *Un/amryw* (2 neu 3 dyweder); *presennol/absennol*; *arbennig/cyffredinol* fel gwneuthurwyr cyfundrefnau eraill, neu Archgyfundrefnau, a hynny yng nghyd-destun gwaith Pantycelyn, ni allwn lai na sylwi bod a wnelo’r priodoledau ffurfiol hyn oll yn uniongyrchol â Duw ac â Christnogaeth. Dyma elfennau ysbrydol amlwg iawn ar waith ym maes Cyfundrefn Ddiwinyddol a Llenyddol. Yn wir, mewn Diwinyddiaeth Gristnogol, ac yng ngwaith Pantycelyn, wrth ystyried *arbennig/cyffredinol* dyweder, y mae cymeriad cynrychioliadol *Crist* yn ganolog, y person hanesyddol a’r cynrychiolydd i bechaduriaid. Felly, y mae’r Ddeddf hithau sy’n symud oddi

wrth yr egwyddorol at yr achlysurol, o'r meidrol at yr Anfeidrol. Ac felly hefyd y mae hi gyda phob athrawiaeth yn ddieithriad yn ogystal â'r ffigurau gweddol alegoriaidd sydd gan Bantycelyn, a'r negeseuon a'r profiadau y mae ef yn canu amdanynt. Hynny yw, terddir Archgyfundrefnau Deall Trefn Iaith, Llenyddiaeth, a Diwinyddiaeth yn Nhrefn wreiddiol yr Absoliwt creadigol ei hun. Hwyl yw'r hyn a ddarganfyddwn yn y Beibl, megis yng ngwaith Pantycelyn, fel y cyfryngau i ddadansoddi Deunydd.

* * *

Mae gan bob Sffêr Semantig ei hamodau a'i maes priodol ei hun, wrth gwrs. Nid yr un deddfau (fel y sylwir maes o law) sy'n trefnu moeseg ag sy'n trefnu ffiseg, nac yn trefnu estheteg ag sy'n trefnu bioleg, ac yn y blaen, er y gall fod perthynas aruthr rhyngddynt. Mae'r rhain oll o dan lywodraeth y gyfundrefn arweiniol a moddol sy'n eu diffinio, ac y maent oll yn cael eu ffurfio gan yr Archgyfundrefnau. Yn weithredol, mewn bywyd ymarferol, cychwynnir symudiadau meddyliol a chorfforol o fewn sfferau Deunydd yn ôl *Themâu penodol*, storïau yn ôl trefn *bod/gwneud*, gyda phob un yn ymdroi yn ei faes neu yn ei feysydd ei hun yn ôl modd prif gyfundrefn ddiffiniol ei faes. Cysylltu sefyllfaoedd neu feddyliau, pobl neu bethau gofodol, mewn modd ystyrlon a wna themâu. Trefnir ystyr yn ymarferol mewn themâu amseryddol yn y bôn. Dyma'r Deunydd ar waith yn gyfundrefnus weithredol felly, ond yn ddewisol mewn Mynegiant. Sef yr haenen ferfol sy'n dilyn dosbarthiad Deunyddiau. Y cynnyrch llafar hwn, yn y pen draw achlysurol i'r themâu hyn, — ond yn ôl yr unedau thematig lleiaf hefyd — yw'r *Motiffau*, sef diwedd eithaf yr Hierarci, yr elfennau atomaidd yn gynnwys cyflyredig iddi mewn Mynegiant.

Eto, yn yr holl broses gron hon, y mae'r meddwl dynol o hyd yn gweithio'n hierarcaidd genhedlol drwy gyfrwng 'gwahuno' i'r cwbl. Hynny yw, er mwyn deall unrhyw bwnc o gwbl y mae'n gwahanu ac yn cysoni (neu'n uno) o gam i gam. Gwahuno bythol bresennol yw'r offeryn pŵerus ar gyfer llunio cyfannau yn y meddwl wrth ddadansoddi realiti. Rhan o'r Gyfundrefneg creadigol yw ar gyfer ffurfio cyfundrefnau. Dyma'r sail sydd i iaith oll, boed yn ramadeg neu'n eirfa, megis i'r atom a'r gell mewn Deunydd all-lenyddol. Dyma hefyd y cyfrwng i adeiladu Deunydd (mewn Tafod) a Ffurf llenyddiaeth fel ei gilydd.

Drwy astudio datblygiad hyn o Hierarci, felly, ac yn benodol y Gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n rheoli iaith a llenyddiaeth, yr awn ati i geisio disgrifio meddylwaith Pantycelyn, y llenor a'r emynydd, yn ogystal â threfn cysylltu Ffurf a Deunydd i'r seciwlarwn. Disgrifir y meddwl hwnnw o'r brig i'r bôn ar ffurf Hierarci gydlynol ond olynol sefydlog mewn patrwm sy'n dechrau mewn Rhagdyb neu Ragosodiad. Hwnnw yw'r Absoliwt Llywodraethol sy'n rhoi sail anochel i bob dim. Ffenomen yw sy'n eiddo i bawb.

Ac mae'n tynnu'n drefnus i derfyn mewn Motiff, ffurf ar Ddeunydd sydd eto ym meddwl pawb. Enghraifft o Archgyfundrefn, sy'n trefnu pob cyfundrefn, yw gwahuno.

Wrth geisio amlinellu trefn adeiladwaith meddyliol Pantycelyn felly, rhoddir lle blaenllaw i'r cyfundrefnau strwythurol sy'n ei ffurfio. Yn wir, honnir mai undod ydyw'r cwbl oll. Ac yn wir, Cyfundrefn ydyw oll o gyfundrefnau a luniwyd gan gyfundrefnau. Ond i Bantycelyn, y maent yn gwllwm myfyriol am yr Arfaeth sy'n undod o fewn undod ei fywyd ei hun.

Dyma'r rhagarweiniad strwythurol i fodolaeth Deunydd, sef dechreuad iaith mewn anghenion o fathau gwahanol. Ond y mae hwnnw'n cael ei drefnu yn y meddwl yn ôl Sfferau Deallol. Gwelir y rheini yn ôl dosbarthiad bras o Ddeunyddiau neu Bynciau: Rhifyddeg, Cymdeithaseg, Moeseg, ayb yn ein bywyd bob dydd. Cwlwm llywodraethol cyn hynny ac er hynny fu'r Archgyfundrefnau rhagarweiniol erioed ym maes cyfundrefneg i bennu ac i reoli'r Deunyddiau hyn: e.e. *Amryw/Un* (fel unigol a lluosog, tri pherson y rhagenw). Dyma hefyd gnewyllyn bach twt o gyfundrefnau sy'n llunio pob cyfundrefnu arall. Y rhain a fydd yn dosbarthu ac yn dadansoddi'r Sfferau, efallai'n gynnes yn y meddwl.

Dyma un o'm hystyriaethau cyntaf. Amodi trefn Deunydd Bywyd fu swyddogaeth gyntaf yr Archgyfundrefnau hynny. Dadansoddi, gwahuno o fath arbennig. Ond pan symudwn at y Sfferau Deunydd eu hunain, y mae gan y rheini hefyd bob un ei chyfundrefn unigol swyddogaethol ei hun, sy'n diffinio maes mwy gwasgarog. Dosberthir swyddogaethau bywyd yn wahaniaethol o fewn yr Undod. Dyma'r camre mân, amlwg, anochel cyntaf.

Gwelwn felly *Hierarci*'n dod oll at ei gilydd fel hyn dan drefn yr *Absoliwt* a'i *Arfaeth*. Cwlwm llywodraethol cyffredinol eithriadol o weithredol i drafod y Deunydd fu'r *Archgyfundrefnau* cynnar. Odanynt down at y *Sfferau Deunydd*. Ac y mae gan bob un Sffêr ddeunyddiol ei chyfundrefn arweiniol, arbenigol, neu ddiffiniol. Ceir diffiniad deddfog hunanlywodraethol sy'n briodol ar gyfer pob Sffêr neu faes pynciol unigol. Diffinia hwnnw bwnc cyffredinol pob Deunydd. Corlennir yr holl Ddeunyddiau yn arbenigol; ac y maent i'w cyferbynnu â'r gyfundrefneg fwy rhydd ac amrywiol wedyn sydd ar waith byth mewn *Themâu* berfol unigol ac mewn *Motiffau* 'storïol' o'r tu mewn i bob Sffêr Deunydd yn ei thro. Sfferau ydynt y gellir wedyn eu cyfuno'n ddeinamig. Gwyddai Pantycelyn, hyd at obsesiwn yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, na allai ef ddianc byth rhag byd o drefn o'r brig i'r bôn. Cyfan yn gweithio'n unol drwy weddau disgybledig a gaed ganddo. A dyna oedd y dull y deallai ef fywyd oll. Dangosai ef yn yr arwrgerdd honno, felly, banorama o sgêm.

*

*

*

Ymhlith Sfferau Deunydd, ‘Ffydd’ wrth gwrs oedd yr un lle yr arbenigai Pantycelyn. ‘Diwinyddiaeth Gyfundrefnol’, fel y’i hailddiffinir yn y gyfrol bresennol, yw’r Wyddor Gyfun *par excellence*. Y Pwnc Mawr. A hi oherwydd Penarglwyddiaeth Duw sy’n cwmpasu pob gwyddor arall. O ran diffiniad y mae’n gynhwysfawr gan gwmpasu’r Goruwchnaturiol a’r Naturiolaid (yr ail yn gynnyrch i’r cyntaf). Ei gwaith yw dangos cyswllt y cwbl â’r Absoliwt. Dengys hefyd y ffordd y mae pob Deunydd a Ffurf yn cydlynu. Er ei bod yn arbenigo ar y Goruwchnaturiol a pherthynas dyn â hynny, mae hi hefyd – yn rhyfedd iawn – yn fapiwr ar brofiadaeth fwy cyffredin, hyd yn oed i’r seciwlaryn. Mae’n gorfod bod felly, er mai rhy ychydig o sylw a roddwyd yn y gorffennol i’r ffaith honno. Fe’i mynegir gan William Williams, Pantycelyn yn ei arwrgerdd *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ac iddo ef nid oes yr un fodfedd o’r Deyrnas Greedig lle na ddywed yr Absoliwt (neu Gariad) ‘Fi biau hon’. Tebyg felly y’i gwna y seciwlaryn yntau yn ôl ei absoliwt neu’i ragdyb hunan-ganolog yn ei dro.

Yn ôl y diffiniad *traddodiadol* o Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol, Deunydd Thematig sydd dan sylw fel arfer ac nid y cyfundrefnu llawn. ‘Rhestr’ gyfan gan amlaf yw o wrthrychau a gweithredoedd. Ond yn y model diwygiedig o Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol a gyflwynir yn y gyfrol hon, strwythurau amodi ffurfiol (sy’n adlewyrchu priodoleddau Duw) yw rhan gychwynnol y deyrnas. Ceisir pwysleisio’r cydlyniad rhyngddynt oll. Ac nid yn unig hynny. Y mae Sffêr Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ei hun yn ffurfio Cyfundrefn gyfun a phenodol i’r Hierarci oll o wrthrychau. Cyfundrefn olynol, yn wyneb yr Absoliwt, iddi hi, yw pob perthyn a geir ynddi.

Mewn modd nid anghyffelyb, Llenyddiaeth ei hun yw’r ‘gelfyddyd’ feddyliol gyfun *par excellence*. Dyma faes tra chatholig arall, sy’n ‘sagrafennu’, yn proffwydo, ac yn diwyllio. Nid oes dim un pwnc o dan yr haul sydd heb gael ei drin ganddi hi. Mae’n debyg i Ddiwinyddiaeth ac i Iaith yn hynny o gatholigrwydd. Gwaith theori lenyddol yw dangos adeiladwaith cyflawn y gweithgaredd hwnnw, felly. Dengys natur y cyfundrefnau meddyliol sy’n ei chynnal, a sut y maent yn cydlynu’n olynol. Yn hyn o beth, tebyg yw ‘Tafod’ Llenyddiaeth i Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol ddiwygiedig. Mae ganddi hi ei *niche* benodol, wrth gwrs. Mae’n weledig o ran delweddu. Mae’n glywedig o ran sŵn. Ond y mae hefyd yn cydlynu pob gwedd ar fywyd yn feddyliol, yn deimladol, ac yn ewyllysiol. Ac mae hi yno i ni ei darganfod, o’r golwg.

Felly, wrth fynd ati i drafod theori Llenyddiaeth, yn arbennig cyfundrefnwaith y Deunydd, priodol fydd troi at faes Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Hierarcaidd, o dro i dro, y letaf o’r gwyddorau. Nid damwain yw’r cyswllt a dybir yng nghychwyniad cytûn iaith a llên, a llên a ffydd. Dyma’r lle y ceir yr allwedd i amgyffred sut y gall Llenyddiaeth gwmpasu pob

dim. Mynnir theori gyfansawdd ar ei chyfer sydd heb ei chyfyngu i unrhyw ryw na dosbarth, hil na dawn, plaid na chenedl, deunydd na ffurf lenyddol. Mae'n agored cyn belled ag y mae'n cynnwys pob rhagdyb gadarnhaol weithredol, tan gydnabod y negyddion hefyd yn gyfundrefnol. Ni ddywed am unrhyw ffurf na deunydd, fel y gwna'r 'Naturiolwyr' mae arnaf ofn, gyda'u sicrwydd priodol, 'hynny a dim mwy'. Dyna pam y gelwir ei gwyddor yn Feirniadaeth Gyfansawdd. Nid ni sy'n ei gwneud hi. Hi sy'n ein harwain ni.

* * *

Adeiladwaith meddwl Pantycelyn oedd y wedd gyntaf ar ei fawredd, gredaf i. Dyma'r hyn a elwais, mewn man arall, ei 'ddulleg'. Dyna'r sylfaen i'w ar-ddulleg oll, sef ffrwyth ei fwrlwm llewyrchus a brofid yng nghyfanswm ei emynau aruthr. Yr ail wedd fwy cyfyng ar ei fawredd oedd y caneuon unigol crwn eu hunain a'u harddulleg a'r delweddu a'r adeiladwaith — megis mewn caneuon fel 'Rwy'n edrych dros y brynau pell,' 'Mi dafla 'maich oddiar fy ngwar,' 'Iesu, difyrrwch f'enaid drud,' 'Mi bellach goda ma's,' 'Arnat, Iesu, boed fy meddwl,' 'O llefara, addfwyn Iesu,' 'O, Rosyn Saron hardd,' 'Cudd fy meiau rhag y werin,' 'O am nerth i dreulio'm dyddiau,' 'Pam y caiff bwystfilod rheibus,' 'N'ad fi adeiladu'n ysgafn,' 'Rwy'n chwennych gweld ei degwch Ef,' 'Rwy'n dy garu er nas gwelais,' 'Rwy'n dy garu, Ti a'i gwyddost,' a llawer, llawer arall, rhai o ganeuon mwyaf nodedig y byd, mae'n rhaid. Eto, ni chodasai ef byth i hyn nac i'r rychwant gweledigaethus o brofiad catholig a brofodd, oni bai am gadernid fframwaith 'uchelgeisiol' ei ragosodiad a'i gyfundrefneg. Sef ei ddulleg: ei weledigaeth. Ei ddulleg ddeunyddiol yw testun y gyfrol hon. Eto, er gwaethaf ei gamp, nid oedd yn y bôn yn unigolyddol wreiddiol ei syniadaeth. Tarddai ei Themateg mewn cymuned oleuedig o fewn etifeddiaeth hanesyddol, ac mewn profiad cyffredin: sef metanaratif ei ddeunydd ef, a'i ddull o feddwl am bopeth.

Pan gafodd y diwygwyr eu tipyn cystadleuaeth i ganfod pwy oedd 'biau'r canu', fe ddewiswyd Williams; a dechreuodd ef ar ei yrfa dybiedig ar y pryd i fod yn Isaac Watts i'r adfywiad Cymraeg. Cynhyrchodd *Aleluia*. Daeth yn boblogaidd. Pe ganesid ef dri chan mlynedd ynghynt neu wedyn, buasai ansawdd a rhawd ei 'boblogrwydd' yn bur wahanol. Ond yn fuan, ar y pryd yn nhywyllwch *Y Môr o Wydr* (ffrwyth aeddfed y gynnen rhwng Rowland a Harris), ond yn sicrach byth yng ngoleuni *Ffarwel Weledig*, ac wedyn (gyda ffrwyth yr Adfywiad), cododd i lefel uchaf poblogrwydd heb aberthu ansawdd anghyffredin ei farddoniaeth. Roedd yno gyhoedd meddylgar, oherwydd eu gwerthoedd. Aeth ati felly i anrhydeddu'r Mab yn *Golwg ar Deyrnas Crist*; ac yna yn sgil y Mab i anrhydeddu'r pechadur yn *Theomemphus*. Cafodd ffrwythau rhyfeddol, peth nas cawsai byth heb beidio â bodloni ar fod ond yn gantor pop 'defnyddiol' i'r diwygiad. Mawrygai'r Mab, drwy fyfyrion

ddwys arno, a dod o hyd i ymwybod o ddyfnder diderfyn. Dyna a adawodd i'w feddwl ymledu i gynnwys yr hyn a ganfyddai ef fel meddwl Duw ei hun yn yr Arfaeth. Anodd gennyf gasglu y cawsem yr uchafbwyntiau emynyddol rhyfeddol o'r *Môr o Wydr* ymlaen heb y cefndir a'r amgylchfyd deallol anferth a'r corddi emosiynol yn y gwrthdrawiad angerddol drefnus cynnar.

Fe glyw beirniaid llenyddol yn fynych y 'siboleth' adnabyddus fod yna undod rhwng Deunydd a Ffurf mewn llenyddiaeth. Gall y cyswllt fod yn seiniol mewn synhwyrac ac yn emosiynol. Drwy'r Archgyfundrefnau a ddisgrifir yn y gyfrol hon, dangosir sut y mae hynny ar y lefel ddyfnaf yn digwydd yn drefnus, yn sicr yn unol, ond yn weddau gwahanol hefyd. Yn rhy fynych tybir mai ar lefel Mynegiant ac arddull yn unig — dyweder drwy onomatopoeia, rhythmau neu droeon arddull (y brawddegau cwta a'r troeog estynedig) — y mae'r undod hwnnw o bosib yn fwriadus yn cael ei amlygu, a hynny ar yr wyneb. Ond y mae'r undod yn llawer dwysach na hynny. Mae'n ymwneud hefyd ag amodau amryfal Deunydd a Mynegiant, yn isymwybodol ac yn ymwybodol. Mae'n ymwneud â gweledigaeth anghyffredin.

Sylwn hefyd ym mha ffyrdd ac am ba resymau y mae'r llenorion gorau'n cyfleu llawnder bywyd drwy wreiddio eu 'diddanwch' mewn cyflyru ysbrydol disgybledig. Gwelwyd mewn cyfrolau cynt (TyLl, SB) ym mha safleoedd meddyliol mewn llenyddiaeth y byddai doniau *ffurfiol* yn cael eu cyfeirio — yn ffonolegol, yn forffemig, ac yn semantolegol. Yn y gyfrol hon dangosir ym mha ffurfiau *deunyddiol* hefyd drwy eu cyswllt â gwerthoedd absoliwt y caiff yr amryfal ddeunyddiau posibl eu harwyddocâd mwyaf pellgyrhaeddol.

* * *

Fel y'i crewyd, cyn i ddyn ei ddifwyno, bu'r bydysawd hwn yn ddilychwin hardd. Harddwch amrywiol oedd, eithr yn meddu ar ddyfnder o drefn. Yn y cyfnod rhamantaidd, nid bob amser yr hoffir cofio am y drefn honno. Ond yr oedd hon yn hanfodol ym mryd Pantycelyn. Bid siŵr, bydd pob baban, a phob bardd, a Phantycelyn yntau, yn deall ac yn mynegi drwy gyfundrefnau elfennaidd. Dyna natur y sffêr i ddeall. Trefn fach yw deall i bawb.

Ystyr dweud hynny yw bod pobun, yn ôl pob tebyg er pan oedd yn y groth, yn dod o hyd i ddadansoddi bywyd drwy wahaniaethu ac uno syml, drwy ganfod amrywiaeth a thebygrwydd cyntefig ynghyd. Yn gyntaf o bosib, gwahaniaethid rhwng cysur ac anghysur. Ac wedyn, o ddefnyddio synhwyrac gweld a chlywed, sylwir ar y gwahaniaeth rhwng mam a thad, ffenest a drws, golau a llygaid. Eithr pe na ddefnyddid ond y gynneddf gynieithyddol

hon i wahanu o hyd, chwalfa fyddai bywyd. Mae'r baban, a'r bardd, yn ogystal â sylwi ar yr Amryw, yn sylwi ar yr Un. Mae yna gysondeb: mam gynnau a mam yn awr.

Dyma ganfod tebygrwydd a sefydlogrwydd 'geirfaol'. Enwais i'r broses fythol bresennol ddwbl hon o 'wahanu' ynghyd ag 'uno' yn 'wahuno'. Hynny yw, cyfundrefnu cydlynol yw. Cyferbynnir yr arbennig a'r cyffredinol. A hyn fel y gwelsom yw'r gynneddf gychwynol ddisgybledig mewn deall. Yma cysylltir delwedd yr arwyddedig (ystyr) ag arwydd (sain). Yn y gyfrol hon ceisiaf ddangos bod Pantycelyn yn troi hyn hefyd, — sef y Drefn ei hun — yn Ddeunydd myfyrdod. Mae offer y ffurf ei hun yn ddiwinyddol. Canu'r Cynllun hoff a wna: y sgêm. Ydynt: offer deall, cyfundrefnau dadansoddi'r meddwl cyffredin ydynt. Ond fe ganfu Pantycelyn eu bod yn offer ysbrydol hefyd. Iddo ef y mae Trefn yn Gynnwys, ac yn thema i'w gân oruwchnaturiol. Trwythid meinwe'i feddwl mewn Trefn.

Gwelir yn nechrau 'Golwg ar Deyrnas Crist', fel yn y bennod gyntaf o Genesis, fod yr awdur yn sôn am Dduw yn gwahanu'r goleuni oddi wrth y tywyllwch, y ffurfafen a'r dyfroedd, y dyfroedd oddi wrth ddyfroedd a thir sych. Ond wrth wahanu, yr oedd Duw hefyd yn cysoni neu'n tebygu a dosbarthu. Ac adroddir amdano yn dod â ffrwythau 'yn ôl eu rhywogaeth'. Yna, y mae'n cyfarwyddo dyn. Yn wryw ac yn fenyw, gorchmynnir iddynt i ddsbarthu ac i hoelio cysondeb y defnyddiau drwy'u henwi, ar wahân ac mewn cydymffurfiaeth sefydlog. Cafwyd felly gorff ac ysbryd, y peth a'r ystyr.

Wrth ddarllen ymlaen yn ei Feibl, sylwai Pantycelyn fod yna gynllun anferth ysbrydol yn ymrolio gerbron y tu ôl i bob dim, er wrth gwrs ei fod yn cael ei esbonio yn y fan honno yn drosiadol weithiau, ond yn arhosol elfennaidd. Ac yn Wirionedd bob iot. Olrheiniai batrwm ar hyd y daith rhwng Genesis a'r Datguddiad, mewn datblygiadau thematig mawr a mân. Nid ef oedd y cyntaf i sylwi ar hyn wrth gwrs. Gweithiai Duw yntau erioed drwy gyfundrefnau yn hanesyddol. Caed yr hyn a elwid yn Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol yn y Cyfamodau a'r Ddeddfwriaeth a'r Aberthau (a'u dehongliad yng Nghrist), ac o'r Apostol Paul ac Awstin ymlaen. Ysgrifennwyd llawer o lyfrau yn union ar y pwnc hwnnw, am fod pob Diwinyddiaeth mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn gorfod bod yn Gyfundrefnol. Dewisai Pantycelyn hefyd fod yn thematig.

Cyferbynnai'r Arglwydd Iesu yr hen Israel â'r Israel newydd, yr Hen Destament â'r Newydd. Hyn oedd cefndir meddyliol Williams yn ei Undod: Deddf/Ysbryd; Ffydd/Gweithredoedd; Cysgod/Ymgawdoliad (*Potensial/Real*); Penarglwyddiaeth Duw/Cyfrifoldeb dyn; y dyn mewnol/y dyn allanol; amser/tragwyddoldeb; Cyfamod y Greadigaeth/Cyfamod Gras. Nid yw'r rhain yn dod drwy apelio at Reswm yn unig nac yn gyntaf. Dod y maent yn gyfuniadau parod ffeithiol a gwrthrychol a sythwelir ar waith. Nid

rhywbeth a wneir gan ddyn sydd yma; ond rhywbeth a ddarganfyddir mewn realiti y tu allan iddo ac yn yr ysgrythur. Maent yn seciwlar, maent yn grefyddol. Nid help i ddeall yn gyntaf mohonynt, (mwy nag yn achos yr atom) ond egwyddorion neu ddiwyddiadau sydd yno. Gellir llunio cyfundrefnau mewn Mynegiant wedyn sy'n helpfawr yn wir, ond nad ydynt yn y Beibl, eithr *ar sail* y Beibl. Nid dyna sydd gan Bantycelyn. Gwyddai ef am ddiwinyddion cyfundrefnol lawer, yn ddiau, gan gynnwys Calfin a'r Piwritaniaid, a dynnai'u madruddyn o'r Beibl, fel y gwyddom ninnau heddiw am Bavinck a Berkhof, Torrance a McGrath. A hyn hefyd oedd ei brofiad ysgytwol personol ef ei hun. Yr oedd yn destun diriaethol cyffrous iddo o fewn ei *sensus divinitatis*.

Bûm mewn cyfrolau eraill yn ceisio olrhain cyfundrefnau o wahanol fathau mewn llenyddiaeth yn gyffredinol, yn arbennig mewn Ffurf, weithiau mewn synnwyr fel trosiad a thrawsenwad, weithiau yn y trefniant cyflawn o weithiau llenyddol cyfan, megis *telyneg/drama/stori*. Dyna ddsbarthu ffurfiau llenyddol (neu lendedulliau — *genres*) isymwybodol yr Oesoedd. Ceisiais eu cysylltu â sylwadaeth sythwelediadol gyffredinol yn y canfyddiad dynol elfennaidd. Ond ceir, wrth ymagweddu'n gyfundrefnol, fod yna dair gwedd berthnasol wrth astudio syniadaeth neu Ddeunydd llydan Williams Pantycelyn.

Angori a wna yn gyntaf mewn myfyrdod a phrofiad ynghylch y drefn isymwybodol ac ymwybodol y mae ef ei hun yn ei chanfod yn y Beibl, yn y bywyd ysbrydol, ac yn y Greadigaeth. Yn ail, canfyddir hyn yng ngoleuni Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ymwybodol yr Eglwys, yng nghefnidir ei ddarllen Calfinaidd. A cheisir yn ei waith yn awr ailystyried Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ei hun fel ffenomen wrthrychol ar ffurf ychydig yn wahanol drwy olrhain cydlyniad ac olyniaeth ddeinamig yr Arfaeth a'r Greadigaeth tuag at Fynegiant personol yn ei ffrwythau. Dechreuwyd hynny yn Rhagdyb y Wraidd-Gyfundrefn, sef yr Arfaeth ymarferol (wedi'r Crist absoliwt a ganfu ef ym mhob peth), ac yna drwy ganlyn yn y blaen o lefel i lefel i lawr nes y cyrhaeddid yr unedau lleiaf yn arbenigrwydd Mynegiant. Ond yn drydydd, safwn ninnau'n ôl, ac ymholwn, yn anghysurus o newydd efallai, – onid yw'r trefniant diwinyddol hwn yn dwyn tebygrwydd hefyd i'n dealltwriaeth o adeiladwaith syniadol gwrthrychol Deunydd pob llenyddiaeth?

Yn wir, ymholwn, onid yw'r Gyfundrefn o gyfundrefnau hon, sy'n adeiladu'r meddwl llenyddol, hefyd ar waith yn wrthrychol drwy Ras Cyffredin ym mhob pwnc seciwlar? Y mae wrth gwrs yn perthyn i Gyfundrefn Diwinyddiaeth, sydd yn ei thro yn unol adlewyrchu'r modd yr oedd Williams yntau wedi canfod cydberthynas ei brofiad ystyrol llenyddol yn y byd. Ond, o safbwynt diwinyddol, awgrymir bod fframwaith a chyfundrefnau bodolaeth fel y

cyfryw yn fater sy'n *Ras Cyffredin* i iaith, llenyddiaeth, a diwinyddiaeth, fel ei gilydd, pa liw bynnag. Nid sôn yr wyf am Themâu, ond am adeiladwaith meddwl y Deunydd.

Y mae Williams, wrth ddadansoddi'i brofiad ei hun o Dduw, neu wrth ddadansoddi'r ffordd y mae ef wedi ymdeimlo â bodolaeth a gweithrediadau achubol Duw, a chanfod hyn yn nhermau'r Arfaeth drefnus yn ei fywyd pob dydd, yn annisgwyl ddiarwybod wedi arolygu gweledigaeth gynhwysfawr nid yn unig o'i lenyddwaith a'i fywyd ei hun, ond hynny o fewn cyd-destun llenyddiaeth yn gyffredinol. Trwythir pob meddwl llenyddol mewn cyfundrefnau.

* * *

Gwn na fydd neb yn ddigon dwl i synied fy mod i'n awyddus i broseltytio yn hyn o drafodaeth academaidd. Does dim byd pellach o'm meddwl, ysywaeth. Y prif awydd sydd gennyf yn y gyfrol hon yw dadlennu adeiladwaith deunydd meddyliol un o'n llenorion pennaf, — y mwyaf o'n llenorion crefyddol, — a thrwy hynny awgrymu'n ffeithiol fod yn y fan yna amlinelliad posibl o'r ffordd y trafodir pob Deunydd, gan bob llenor, seciwlar neu beidio. 'Disgrifiad gwrthrychol' yw hyn, fel y dywedir, yn ôl terminoleg anymarferol y rhagdybiaethwyr sy'n coelio y gallant osgoi rhagdybiau. O leiaf, tardda mewn gwrthrych.

Bûm yn dadlau ers tro, yn ddiwrthwynebiad, mi dybiaf, er nad heb beth anghytundeb wrth gwrs, ein bod oll yn meddwl drwy gyfundrefnau — fel arfer drwy unedau cyferbyniol neu atodol ieithyddol. A cheisiais amlinellu pa gyfundrefnau sydd ar waith, ac yn gorfod bod ar waith, wrth lunio Deunydd llenyddiaeth, bob llenyddiaeth boed yn grefyddol neu'n seciwlar. Cyflwynais drefn 'gwahuno'. Ni chlywais wrth-ddadl er bod amryw'n cyffesu annealltwriaeth. Gellid meddwl efallai fod rhai o'r cyfundrefnau syml allweddol eraill a enwais eisoes, megis (i) *absennol/presennol*, (ii) *anweledig/gweledig*, neu (iii) *un/amryw*, neu un o'r lleill, yn gwneud y tro hefyd wrth ddisgrifio deunydd crefyddol ac wrth ddiffinio 'cyfundrefn'. Ond a oes rhaid wrth y rhain yn y byd naturiolaidd hefyd? Eu hoffi neu beidio, *am* fod yr union rai hyn yn hanfodol orfodol yn adeiladwaith iaith pawb, ceir eu tebyg yn ddiau yn y meddwl ynghylch pob pwnc: e.e. (i) *3ydd person y rhagenw, tymp gorffennol y ferf*, (ii) *gramadeg/mynegiant*, (iii) *gair/cytsain, llafariad, acen*. Ac felly *am* fod y rhain hefyd ar waith mewn ffurfiau llenyddol hwythau, e.e. (i) *safbwynt storiol*, (ii) *Cerdd Dafod/llynell o gynghanedd*, (iii) *adeiladwaith storiol/ cymeriad, digwyddiad, amgylchfyd*, a.y.b., ni adewir dewis i'r beirniad llenyddol gonest a chatholig namyn eu cydnabod o fewn y cydlyniad. Digon tebyg yw'r llwybrau *rheidiol* i bawb feddwl, ddwedwn i.

Mae'n wir y bydd rhai termau penodol unigolyddol yn cael eu defnyddio sy'n ymddangos yn 'grefyddol' yn achos Williams. Ond canfyddir bod popeth, hyd yn oed seciwlariaeth, yn meddu ar ddimensiwn 'crefyddol'. Crefydd yw seciwlariaeth ei hun. Ac fe

enghreiffir hynyna yn y term ‘absoliwt’ (a ‘gwadu absoliwt’, sydd ei hun yn weithred absoliwt). Mae gennym i gyd absoliwt pe na bai ond ar ffurf disgyrchiant, a thri-yn-un ffiniedig o ran person (gramadegol), ynghyd â rhif unigol/lluosog o bosib neu werth cymharol. Ac am fod cysylltiad tyn ac anorfod rhwng cyfundrefnau crefyddol a chyfundrefnau ymarferol bob dydd, mae’n rhaid i’r person seciwlar gonest druan, er mawr ddychryn iddo neu iddi, wynebu’r ffeithiau. A ffeithiau cyffredinol, nid dadleuon perswâd Cristnogol yn unig, yw’r hyn a geisiaf i. Dyna fy *métier*.

Ceisio disgrifio yr wyf yn hyn o gyfrol beth yw hanfod y meddwl llenyddol wrth ymwneud â ‘Deunydd’ (cynnwys, pwnc neu destun llenyddiaeth) pob llenyddiaeth. Bûm o’r blaen yn ddigon hy i amlinellu hanfodion pob ‘ffurf’ lenyddol. A manylais un tro ar un maes enghreifftiol, sef *Meddwl y Gynghanedd*, sydd o ran yr elfennau adeiladol yn trafod holl brif egwyddorion meddwl am unrhyw Ddeunydd mewn Ffurf. Felly, y tro hwn yr wyf yn cymryd un maes enghreifftiol arall ym myd ystyr, sef Ffydd, er mwyn amlygu’n gymharol fanwl sut y mae pob Deunydd llenyddol yn cael ei drin yn gyffredinol, a sut y mae hyn yn gweithredu mewn un corff o waith neu gyfanwaith cynganeddus gan un llenor adnabyddus Cymraeg.

Mae’n wir fod Pantycelyn yn ‘digwydd’ troi i faes crefydd er mwyn trafod Deunydd. Nid wyf yn ymddiheuro am hynny. Ond y mae ffurf neu fframwaith ei fodd o drafod Deunydd yn dilyn y llwybrau sy’n agored i bobun mewn llenyddiaeth. A cheisiaf olrhain dulliau y mae’n eu dilyn sy’n gyffredin i bob llenor (Gras Cyffredin). A lle y bo Pantycelyn yn trafod pynciau unigol crefyddol benodol (Gras Arbennig), nodaf yr enghreifftiau hynny yn blwmp ac yn blaen o ran themateg. Ond gan mai ‘llenyddiaeth’ yw’r cwbl (Gras Cyffredin), y mae hyd yn oed y rhain yn cyflawni eu gorchwyl yn eu tro ac yn eu lle yn unol â thrafod Deunydd llenyddol yn sylfaenol. Gras Cyffredinol yw'r Beibl, a gynigir i bawb.

*

*

*

Bob hyn a hyn, wrth sôn am Gyfundrefnau meddwl Pantycelyn, byddwn — yn rhyfedd iawn — yn dwyn cymhariaeth ag iaith i’r golwg, a hyd yn oed â gramadeg. Gall hyn ymddangos yn ddieithr ac yn chwithig, ar y dechrau i rywrai. Pam yr wyf yn sôn am rywbeth mor esoterig â Gramadeg wrth sôn am Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol neu am Feddwl Ffuriau Llenyddol Williams? Am fod cyfundrefnu ym mhob man.

I’r darllynydd cyffredin gonest, nid yw sylweddoli’r gwahaniaeth rhwng cyflwr iaith yn y meddwl (ar ffurf Gramadeg — cyffredinol, cymharol sefydlog) a chyflwr hollol wahanol y brawddegau amrywiol (unigryw, a chymharol ansefydlog) sy’n dod i’r golwg wedyn ddim yn sefyllfa anodd i’w deall. Gramadeg yw’r amodwr anweledig: brawddeg yw’r cynnyrch yn y golwg. Yn yr un modd, gramadeg Diwinyddiaeth yw’r Archgyfundrefnau diwinyddol y

byddaf yn ceisio eu disgrifio yng nghyd-destun ffurfiau sylfaenol mewn llenyddiaeth a meddwl, a'r bywyd ysbrydol. Ond ceir drwyddynt ddeuoliaeth Ffydd/Gweithredoedd, Tafod a Mynegiant. I'r rhamantydd, pethau 'gwneud' yw cyfundrefnau. A gellir eu 'gwneud'. Ond anodd yw gwadu eu bodolaeth: eisoes maent ar gael yn gredig, ac yn dda.

Dyma'r cyflyru yn y meddwl i'r Mynegiant sydd yn y golwg yn ddiwinyddol gyffredin. Gwelwn er hynny beth rhyfedd — a newydd ym maes Diwinyddiaeth Gyfundrefnol — fod cyfundrefnau'r meddwl sy'n amodi ac yn trefnu'r holl Ddiwinyddiaeth a geir gan Williams Pantycelyn eisoes yn rhoddedig yn strwythurau'r meddwl cyffredin, fel y mae tri pherson y rhagenw a thair gradd gynyddol cymharu ansoddeiriau yn 'rhoddedig' mewn gramadeg. Mae Cyfundrefneg ei hun yn bwnc diwinyddol cyffredinol, felly. Hynny yw, nid meddwl rhyw unigolyn parchus academaidd sy'n damcaniaethu a lunia theori tri pherson y rhagenw na Thri Pherson y Drindod. Nid Williams o'i ben a'i bastwn academaidd ei hun oedd yn creu'r fframwaith i'w feddwl ei hun ynghylch dim. Mae'r gyfundrefn Tri-yn-Un eisoes yno, *i'w darganfod* wedi'i hargraffu yng ngofod Arfaeth, ac yn undod cydlynol yn y Duwdod. Nid rhestr o themâu yn unig yw Diwinyddiaeth iddo chwaith yn y bôn. Mae'n adeiladwaith rhoddedig, yno fel y mae gorffennol/presennol/dyfodol pawb sy'n siarad. Nid ceisio llunio fframwaith i ddadansoddi nac i ddisgrifio syniadaeth Williams yn unig yr wyf felly, eithr dadlennu'r fframwaith ffeithiol cydlynol a etifeddodd ef, yn fod. A phob llenor arall gydag ef. Hynny yw, ceisiwn danlinellu'r ansoddair yn yr ymadrodd Diwinyddiaeth *Gyfundrefnol* fel ffurf ar fywyd, ar berthynas, yn wir fel ffurf ar Gariad.

Bid siŵr, nid fy ngwaith fel beirniad yw ceisio 'dadlau' bod yna unrhyw fath o '*wirionedd*' yn syniadaeth Pantycelyn, er ei fod ef (a minnau) yn credu hynny. Mae gennyf dasg hollol ar wahân a gwahanol i broseltyio seciwlarwyr. Fy ngwaith yw ceisio eglurhad o fyd-olwg Pantycelyn a dangos fel y mae'n academaidd berthnasol i 'gynnwys' seciwlarwyr.

Fe'i gwreiddiwyd mae'n wir mewn rhagdyb Absoliwt amlwg, (sef Crist yn achos Pantycelyn). Dyma olwg ffeithiol ar adeiladwaith. Ond gwreiddir y seciwlarwr yntau mewn absoliwt neu ragdyb. Ceisiai Pantycelyn mewn modd systematig ddwyn pob peth — a'i aralleirio ef a wnaef — yn feddyliol, yn ddeallol, yn syniadol — yn gaeth i fydolwg Crist. Felly y bydd seciwlarwr yn dwyn ei fryd tua'r Naturiol neu'r Materol neu'r Hunandybiol; Pro Rege: i'r brenin. Hyn, yr olwg hon neu'r rhagdyb hon sy'n sylfaen i'w waith, nid dadl. Caiff seciwlarwr fagl ambell waith yn y cysyniad o ragdyb. Ond mater o haelfrydedd ysbryd yw deall. Yr oedd Williams yn ymwybodol i raddau o broses gyffredinol. Nid dadl oedd y dewis o Absoliwt a wnaethpwyd chwaith gan neb: sef Duw *neu* hunan (dyn). Rhagosodiad angenrheidiol oedd i'r naill a'r llall, boed yn Gristion neu'n Seciwlarwr. Ac yr oedd dyn

naturiol bob amser yn dechrau'n *naturiol* — wedi'r cwmp yn yr *human*, sef ei hoff rhagosodiad – gyda'r dyb fod a wnelo ef â rhyw 'Wirionedd'.

Credai Pantycelyn o bosib fod y fyd-olwg gyfundrefnus hon a gafodd ynddo'i hun, yn fath o ddadl derfynol hefyd. Ac yn wir, buasai'n rhaid i unrhyw gystadleuydd iddi gyflwyno byd-olwg gyflawn ddigonol arall i'w disodli, gydag Absoliwt digonol, y cwbl yn dal wrth ei gilydd. Caniatéid i Bantycelyn ar lefel elfennaidd brofi Mab Duw yn Absoliwt gan ei *Sensus divinitatis* yn gyntaf. Dyma'r synnwyr sylfaenol o Dduw sydd ym mhob dyn naturiol, sut bynnag y deallir y manylion. Mae hyn mor ddibynnol ryngwladol, i bob credadun, â'i synhwyrâu eraill a'i reswm. Ond fe'i deffroir yn ymarferol ac fe'i gwneir yn amlwg ac yn fwy dibynnol ac aeddfed byth i'r Cristion gan yr Ysbryd Glân sy'n tystio iddo neu'n ei wireddu yn y galon drwy Ddatguddiad. Dihunir yn effeithiol y *Sensus divinitatis* drwy 'berthynas', sy'n bwysicach o lawer i Gristion na bodolaeth.

Cyn-resymol yn y bôn yw derbyn *dyn* (neu'r *human*) yn absoliwt — neu ynteu Dduw yn Absoliwt. Mae'n gyn-resymol fel rhagosodiad i bob meddwl am fod a wnelo â dimensiwn caniatool y tu hwnt i amser a lle. Wedyn y dilyna'r rheswm os o gwbl. Ysbrydol yw'r rhagosodiad cyntaf oll felly.

Olrheiniodd Pantycelyn ei Olgw ar y bydysawd gan ddechrau yn y cyfeirbwynt eithaf a ganfu yn Grist Absoliwt. Nid dadlau Hwnnw a wnaeth chwaith, eithr ei ganfod. Roedd y ddadl wedyn yn hawdd. Ac olrhain yr Olgw honno, a gafodd ef er ei waethaf, yw fy ngorchwyl innau ar ffurf hierarcaidd, y cwbl oll yn tarddu yn y rhagosodiad mawr ac yn diweddu gyda Phantycelyn yn ei unedau thematig lleiaf (y motiffau) yn ogystal ag yn ei gyfanweithiau llenyddol llawn. Y Fyd-Olgw honno yw ein testun, a chyfraniad deallol pwysicaf Pantycelyn i feddwl Cymru yw ymwybod â hyn yng ngoleuni'r Archgyfundrefnau.

Soffistigeiddrwydd deallol Pantycelyn sy'n cyfrif ei fod yn rhoi canllaw o'r fath a erys mor graff ar gyfer ymwybod â natur cynnwys llenyddiaeth i gyd. A gwnâi hynny heb gyfaddawdu o gwbl ar y rhagosodiad bod popeth yng Nghrist. Yr oedd yn feddyliwr mor ystwyth gatholig, ac eto mor wrth-arwynebol fel y ddi'r dadansoddiad a wnâi ef o Ddeunydd ei themâu bellach yn fan cychwyn penigamp er mwyn ymwybod ag adeiladwaith deallol llenyddiaeth seciwlar hithau hefyd. Wrth astudio gwaith penodol a diriaethol Pantycelyn, ceisiwn yr un pryd ystyried pa strwythurau amodol sy'n gyffredinol i ffurf pob deunydd llenyddol. Yn wir, pan wrandawn y dyddiau hyn ar naifder agnostig yn ymfyddino (heb archwilio rhagdybiol) yn erbyn rhai o'r cynrychiolwyr lleiaf galluog o blaid Theistiaeth, nid anodd yw canfod ei hymbluo mewn ymosodiad negyddol rhagdybiol sy'n bur wrthddeallol. Nid anodd chwaith ei hateb.

*

*

*

Fy nod yn y gyfrol hon yw olrhain adeiladwaith y weithred lenyddol ei hun o safbwynt yr ‘arwyddedig’ (neu’r ystyr) mewn un llenor. Drwg gennyf am y gair technegol. Nid yw ‘arwyddedig’ yn golygu ond yr hyn y mae’r ‘arwydd’ (neu sŵn y gair neu’r weithred neu olwg y marciau ar dudalen) yn cyfeirio’n ôl ato, neu’n ei gynrychioli. Dyna’r adeiladwaith meddyliol delweddol sydd ym mhob llenyddiaeth yn esgor ar y Cynnwys. Gellir ei gyferbynnu â’r elfen sy’n esgor ar y Ffurf seiniol. Arwyddedig + Arwydd = Arwyddiant (y cynnyrch i’r drefn ieithyddol drwy gynrychioliad).

Gras Cyffredin sydd gan lenorion, boed iddynt fod yn grefyddol neu’n seciwlar eu rhagdybiau. Yr hyn a geisiai *Meddwl y Gynghanedd* ei wneud ym maes Ffurf Seiniol, dyna a gais *Y Cynllun sy’n Canu* yn awr yng ngwaith Pantycelyn ym maes Ffurf Ddeunyddiol. Yn y naill a’r llall, ymglymid wrth lenyddiaeth ddiriaethol arbennig a maes penodol; ond yr un pryd fe geisid trafod egwyddorion sy’n wir am bob llenyddiaeth. Yma, egwyddorion ffurfiol Deunydd sy’n gyffredinol ac yn rhyngwladol.

Eto, o safbwynt penodol, yn achos Williams, nid Gras *Arbennig* yn gyfyngedig yw prif ddiddordeb strwythurol y gyfrol hon, er ei drafod. Dyna’r hyn a fyddai’n *wahanol* yn Williams; ac ymdrinnir â hynny hefyd yn thematig. Y doniau a rennir yn ddiwahân (hynny yw, beth bynnag yw eu daliadau) i bawb, dyna yw Gras Cyffredin, i’r Cristion a’r Seciwlar fel ei gilydd. Disgrifiad yw’r gyfrol hon felly yn bennaf o wedd ar adeiladwaith Gras *Cyffredin* ym mhrofiad y llenor, bob llenor, Williams yn arbennig. Dyma’r galluoedd a ffurfiau deunyddiol, sy’n rhan o’r ddawn ddihaeddiant gan bawb mewn ffordd wahanol, ynghyd â’r ymwybod o ddeddfau moesol Duw (neu’u gwrthodiad). Mae pob cam neu lefel yn yr adeiladwaith ystyrol meddyliol, felly, yn anochel ac yn arwyddocaol yng ngwneuthuriad llenyddiaeth yn gyffredinol. Bodolaeth greadigaethol yw testun Gras Cyffredinol. Ac Iachawdwriaeth perthynas drwy’r Iawn yw testun neilltuedig Gras *Arbennig*.

Hynny yw, yr Hierarci feddyliol greedig a olrheiniad yn awr o’r ymwybod neu’r rhagdyb Absoliwt, i lawr drwy amryw rengoedd strwythurol, hyd at y manyf sef y motiff, neu’r uned thematig leiaf — dyna gredaf i yw’r holl strwythur thematig neu ystyrol i’w Deunydd. Y mae’n rhoddedig agored i bawb. Gras Cyffredin yw. Ac felly, Deunydd pob llenyddiaeth ar ryw olwg yw gwrthrych y dadansoddiad hwn, gyda sylw arbennig i Williams.

*

*

*

Ceisias yn awr amlinellu’n ‘ddiagramatig’ ffurf y drefn honno. Ofnir trefn gan rywrai. I’r Rhamantwr, anathema yw. Ac iawn y’i hofnir, er amser y Cwmp. Ond drwy’r drefn y canodd Duw fodolaeth a bywyd. Felly y cyflwynodd Ei Gariad. Yn ôl y ddau gam hyn – trefn

a bodolaeth – yr arweiniai at fywyd, ac y canwyd godidowgrwydd a chariad y greadigaeth oll, drwy ddefnyddio'r atom manaf hyd y galaethau mwyaf yn eu llawnder cyfundrefnus anhysbys.

Ymgais elfennol yw hyn o gyfrol, felly, i olrhain yn fras y patrwm cysgodol neu gyfredol i Arfaeth Duw a fabwysiadodd Pantycelyn ar lefel feidrol dealltwriaeth dyn. Fe'i hamgyffredir drwy strwythurau yn eu man fwyaf elfennol hyd at ganu helaeth ffrwythlondeb Deunydd llenyddol. Felly y cyflwynai ef ei weledigaeth farddonol gyfansawdd i'r byd modern. Canys drwy drefn y dathlodd yntau'r cyfan. Wrth gwrs, cysgod ar bapur oedd trefn Pantycelyn; analog bychan. Ond yr oedd ef ei hun yn ymwybodol iawn o rai o hanfodion cywrain y drefn honno. Ac wrth geisio arolygu'r modd y canfu Pantycelyn yn yr Arglwydd Iesu Grist 'Gân fawr y drefn, y fodolaeth a'r bywyd,' (os caf roi fy label fy hun arni), ceisir sylweddoli adeiladwaith hanfodol y rhyfeddod a ddatguddiwyd i'r bardd hwn yn y ddeunawfed ganrif. Teflir ar y sgrin yn awr batrwm o'i feddwl. Ond cyn mynd ati i olrhain yn fanylach natur yr adeiladwaith hwnnw, gosodir ar ffurf 'diagramau' amlinelliad o'r llwybr y byddir yn ei ddilyn: ysgerbwdd o ddiagramau. Ac wedyn y ceisir yn y tudalennau canlynol drafod yn esboniadol esgoriad eu cig. Ond themâu yw eu cig, mewn motiffau.

Gŵyr pawb sy'n myfyrio am iaith a llên am hen broblem y Groegwyr, ganrifoedd cyn Crist, ynghylch perthynas Cynnwys a Ffurf. Nid yw'n arferiad ysywaeth gan Ddiwinyddion Cyfundrefnol drafod hyn er bod pawb ond odid yn trafod Penarglwyddiaeth Duw. Anodd deall y fath safbwynt, gan fod bron pawb yn ymwybodol o Ddeddfau ac o gydlyniad pob dim yn y Greadigaeth; sef, rhai o hanfodion Ffurf. Bid a fo am hynny, ceisir yn y fan hon awgrymu'n feiddgar sut yn gyntaf o fewn Hierarci Diwinyddiaeth Gyfundrefnol y cymhwysir Ffurf yn amodwr i Ddeunydd. Trafodwn Archgyfundrefnau (Ffurf); ond Deunydd ydynt oll hefyd, pwnc myfyrdod. Gwastad Tafod sy'n bennaf mewn golwg: hynny yw'r Cynllun a'r Ffurf (Archgyfundrefnau) sy'n cyflyru'r adeiladwaith. Wedyn y dechreuir ei weld yn dod i'r golwg mewn Ffurf newydd – gan bwyll yn y 'Sfferau Deunydd', yn y 'Metanaratif', yn y 'Themateg'. Ond hyn sydd hefyd yn cyflyru'r Mynegiant, hyd yn oed pan fo'n ddiwinyddiaeth. Ac yn olaf felly, ymddengys yn y Motiffau llenyddol eu hunain.

*

*

*

I. ADEILA0DU OFFERYN DEALL (Cynieithyddol)

Wrth lygadu bodolaeth, caiff y plentyn fodd, drwy aruthredd cymhlethrwydd ei gyfansoddiad, i drefnu deunydd meddwl. Mae hefyd yn cadw hyn wedyn yn y cof yn gynhenid naturiol. Digwydd hyn cyn mynd ati i 'roi' trefn ar hynny oll yn fwriadus drwy iaith. Hynny yw, mae yna offer cynieithyddol, sy'n berthnasol i iaith ac ym meddiant y Deall sy'n isymwybodol. Bydd yr offer hyn ar gyfer 'dadansoddi'r' byd yn gaffaeliad iddo byth wedyn, hyd yn oed wrth drafod materion eraill heblaw iaith. Fe'u galwn yn Archgyfundrefnau. Ni allai Pantycelyn fwy na neb arall eu hosgoi. Ond yr hyn sy'n od yw ei fod wedi myfyrio am y cyfundrefnau hyn nid fel rhan o strwythur llenyddol (fel y maent) ond am eu bod yn briodolddau i Dduw, ac felly'n sefyll ar drothwy ei ddealltwriaeth o fywyd.

Gwelsom adeiladu cyfundrefn Deall drwy gyfuno dwy gyfundrefn strwythurol: (a) Cyfundrefn *gwahaniaethu*: cyfundrefn cyferbynnu dau wrthrych; undod negyddol yw o amryw, (b) Cyfundrefn *cyffelybu*: cyfundrefn neu undod cadarnhaol yw drwy sylwi ar gysondeb neu debygrwydd neu ailadrodd ar waith, eto drwy gymharu un gwrthrych ar fwy nag un achlysur neu mewn mwy nag un lle. [Dyma adlais o'r Tri yn Un yn y Drindod, a'r ddwy Natur mewn un Person yn y Mab.] Sefydli'r y naill a'r llall o'r ddwy gyfundrefn hyn cyn llunio cyd-gyfundrefn 'hunaniaethu' (identification) ynghyd. Canfyddir natur neu ansawdd unigolyddol peth o'i sefyllfaoedd, fel undod, nid drwy resymu ymwybodol, ond drwy'r sylfaen i reswm ei hun, sef canfyddiad cyfun, yr amryw yn un. Dyma'r meddwl ar waith yn canfod perthynas drwy sythwelediad. Dyna gredaf i yw'r gyfundrefn waelodol hefyd gan y meddwl dynol ar gyfer iaith, llenyddiaeth, diwinyddiaeth, a phob gwyddor arall. Dyma felly *wahanu+uno=gwahuno*.

Ond gwelsom fod yna rai rhagdybiau neu offer eraill sy'n gynieithyddol ond ynghlwm wrth hyn. Storir y gallu hwn yn y meddwl, er iddo'i fynegi ei hun a gweithredu ar ei sail yn y golwg. Cynllun yw ar gyfer byw. Dyma felly berthynas y cof (fel trefn) a'r weithred: *anweledig/gweledig*. Ac yn y gyfrol hon, byddir yn crybwyll cyfundrefnau meddyliol eraill o'r fath sy'n gyffredin ar waith ym mhob iaith a gwyddor. Y rhain yw priodolddau cyfundrefn fel y cyfryw. Ond diddorol, gobeithio, fydd canfod ymhellach fod yna gysylltiad anochel rhwng y cyfundrefnau elfennaidd sylfaenol hyn a'r hyn a wyddys am yr Absoliwt Cristnogol, ac ymwybod Pantycelyn ohono. Anweledig yw'r cynllun hwn sydd yno ar gyfer gweithio'n weledig.

Fe ellid mynd rhagddi i sylwi fel y mae cyfundrefnau deall ac iaith bob amser yn gydlynol, yn sefydliadol, ac yn atgynhyrchiol.

Wedi sefydlu aparatws cychwynnol o'r fath, gellir sefydlu drwyddo gyfundrefnau iaith. A'r un bwysicaf o *safbwynt ystyr ddeunyddiol* (o'i chyferbynnu â'r ffurfiol) yw cyfundrefn y *lecsem/y forffem*, sef yr elfen 'ystyrol syniadol' mewn gair ynghyd â'r elfen 'ystyrol ffurfiol', gan fod 'ystyr' i'r naill a'r llall, er mai yn y Geiriadur fel arfer y daw ieithydd o hyd i'r lecsem, ac yn y Gramadeg fel arfer y daw o hyd i'r forffem. Mae hyn yn annhebyg debyg i wedd symbolaidd iaith, lle y mae *ffurf* yn cynrychioli *deunydd*, a *sain* yn cynrychioli *synnwyr*.


Gall hyn ymddangos ychydig yn gymhleth ar y dechrau, a bydd yn rhaid dychwelyd yn dawel ato ymhellach ymlaen. Ond gellid dweud hyn yn awr. Mae gennym mewn llenyddiaeth, yn ôl Seico-gyfundrefneg, ddau gyfeiriolwg delweddol cydlynol yn y meddwl, Leccgenesis (esgor ar syniad), a Themagenesis (esgor ar ffurf ystyrion ym *mherthynas* y syniadau). Y naill yn symud oddi wrth y cyffredinol at yr arbennig (megis y gwahaniaethir mewn cyfundrefn arall rhwng 'mae dafad yn greadures ddof' hyd at 'mae dafad yn y cae'), a'r llall yn cyfeirio'i olwg oddi wrth yr arbennig at y cyffredinol ('mae'r ddafad yn y cae' hyd at 'mae'r ddafad yn greadures ddof'). Mater o 'viewing idea' (*voie regardante*) yw'r gwahaniaeth rhyngddynt. Felly, ceisir yn gyntaf benodoli'r ystyr lecsemaidd heb yr un elfen ramadegol, yn ôl ystyr. Fe'i clymir yn gyntaf mewn maes neu amgylchfyd deunyddiol eang deddfog. A'r orsaf nesaf yw'r gofod hwnnw ar waith mewn amser, lle yr ymgyplysis â'r moddion mynegi cyflawn. O'r diwedd, ar sail y 'gair' deublyg hwn, fe gyrchir y rhannau ymadrodd, a'r ffurf thematig ar gyfer y frawddeg gyfansawdd neu'r cyfansoddiad llawn sylfaenol, y motiff. Cyrchir trefn ieithyddol lawnach. Felly y bydd pob deall.

Er y gall cyflwyno'r diagramau canlynol yn awr beri peth annifyrrwch gan fod llawer ynddynt ar hyn o bryd heb ei esbonio, gallant fod yn fanteisiol fel cynllun cyflawn i ymgynghori â hwy. O hyn ymlaen, bydd rhai o'r termau a ddefnyddir yn y rhain, a rhai o'r perthnasoedd a olrheinir rhyngddynt yn cael sylw canolog. A hwylus fyddai crynhoi amlinelliad neu sgerbwdd o'r adeiladwaith deunyddiol a fydd dan sylw yn awr.

Dyma felly amlinelliad o Gyfundrefn deunydd gwaith Pantycelyn (a phob llenyddiaeth). Nid annhebyg i'r hierarci hon (ond mai Deunydd yn unig yw'r rhediad hwn yn ochr y Ffurf a drafodwyd mewn cyfrolau eraill) yw'r helics dwbl a'r cod gan y DNA. Eithr yn groes i ragdybiau'r gwyddonwyr 'allwyddonol', pan wynebir Pantycelyn gan y dewis rhwng 'damweiniol/dyluniol', y mae ef yn dilyn y method neu'r rhagdyb wyddonol. Hynny yw, y mae'n wrth-ddamweiniol ac yn wrth-ddigyfeiriad, gan ragdybio deddf a chod dyluniol. Mae yna gyfeiriad cyfannol i'r cymhlethrwydd parchedigol. Nid ymedy ef â'r dyluniol amlwg oherwydd cynddaredd gynhenid, a lle bynnag y digwydd rhywbeth anodd sy'n ymddangos yn

ddamwain neu'n ddrylliad ar y drefn, gwêl ef megis rhagdyb realiti y gwth tuag at gyfannu ac adferiad. Fel y mae DNA bob amser yn gweithio o dan amodau'r cod, felly y mae Tafod y llenor yn amodi Mynegiant. I feirniad llenyddol gonest, y mae'r rhagdybiaeth ddyluniol hon yn cyfannu'r damweiniol bob tro.

II. ADEILADU HIERARCI DEUNYDD LLENYDDOL



Dyna amlinelliad o adeiladwaith Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Gyfansawdd, sydd yn cydnabod Penarglwyddiaeth yr Absoliwt ar Ffurf yn ogystal ag ar Ddeunydd, a hefyd yn olrhain trefn hierarcaidd deinameg Diwinyddiaeth a gwaith llenyddol Pantycelyn o'r safle Absoliwt hyd y mynegiant lleiaf, yn fertigol ac yn llorweddol. Lleoliad arferol Diwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol yw 'Themâu Cyfundrefnol'.

Dyna'n grwn, yn ogystal, fframwaith dadansoddi Deunydd Pantycelyn a phob llenor, a'u moddion i gyfundrefnu Deunyddiau. *Cânt eu harfogi yn gyntaf gan yr Archgyfundrefnau ffurfiol yn anad unpeth.* Ond mwy arwyddocaol, wrth efrydu gwaith Pantycelyn, yw ei fod wedi dewis canu am bob un o'r Archgyfundrefnau hynny. Fe droes y drefn yn gân, a'r cyfundrefnau yn Ddeunydd. Ein tasg o hyn ymlaen yw egluro hyn.


*

*

*

Ceisir manylu'n ddiagramatig bellach ar berthynas dwy wedd fawr yn rhan olaf yr hierarci, sef Sffêr a Thema.

III ADEILADU THEMA



C 1: Y wedd gyffredinol ar y profiad o Ddeunydd.

C 1 –A: Y broses o gyfyngu, dethol, penodoli: categoraiddio yn dechrau.

A – C 2: Y broses o ddsbarthu a chydlynu yn ôl ffactorau neu ansodau neu weddau cyffredinol, tuag at adeiladu cyfanwaith newydd.

C 2: Y gair yn gyfansawdd: *Iaith*

(Cyfundrefn y Rhannau Ymadrodd Traethiadol)

(i) Enw: cenedl, rhif, cyflwr (case)

(ii) Berf: cyflwr (voice), person, agwedd, modd, tymp

(iii) Adferf: lle, amser, modd.

Llenyddiaeth

(Cyfundrefn y Rhannau Ymadrodd Thematig)

(i) Cymeriad: Mâs parhaol / cyfrifadwy

(ii) Digwyddiad: sefydlog / deinamig

(iii) Amgylchfyd: goleddfu, a chwblhau.

Mae'r cyfundrefnau ar gyfer y lecsem yn gwbl wahanol o ran natur i'r rhai ar gyfer y themem. Proses diriaethu ystyr sy'n llunio lecsem yn y meddwl. Deinameg gwahanu yw yn bennaf yng nghanol llif o ddelwedddau. Ymddengys ei bod yn dilyn cam categoraiddio: yn debyg i sfferau ystyr. Mae'n ymwybod yno â'r ffaith fod bodoli endid i'w gael o fewn amgylchfyd 'gofodol' amrywiol. Mae hynny'n ceisio dadansoddi edrych tua'r arbennig. Mae hefyd a wnelo â chynrychioli 'mâs' yn 'gyfrifadwy'.

Wedyn, sylwir ar y symudol mewn 'amser', a'r lecsem yn ceisio perthynas mewn themem. A thrwy berthynas, caiff wahanol fath o gyffredinol mewn ystyr i'r un cychwynnol, y bydysawd cyfan. O hyn ymlaen, 'perthynas' fydd y gair mawr. Wrth ymestyn tuag at gyfuno gofod mewn amser, caiff gyd-ddibyniaeth, yn rhan mewn cyfan. Wrth geisio Mynegiant, cais berthynas ffurf y Frawddeg, y Rhannau Ymadrodd Thematig.

Yma, ceisiwyd amlinellu'r cynllun cyfansawdd. Ceisiwyd ei ddodi yma, fel y gellir bwrw golwg yn ôl ato er mwyn canfod y cydlyniad rhwng holl adeiladwaith ystyrol Pantycelyn. Sylwer: cyn pob peth, ceir Absoliwt ac Arfaeth. Cyn pob iaith a llenyddiaeth wedyn, ceir Archgyfundrefnau Deall (didoli a bydadeiladu). Cyn pob Mynegi Semantaidd

(neu ystyrol) wedyn, ceir — ym maes y lecsem (neu'r elfen ystyrol) — Dafod, sef Sfferau Deunydd yn Foddau Deddfog ar lefel ardaloedd meddyliol gofodol, ac yna Themâu Gweithredol. Dyma'r Semantolegol o'i gyferbynnu â'r Semantig (fel y mae Ffonolegol yn rhagflaenu Ffonetig). Y Semantolegol yw'r cynllun neu ddelfryd ystyrol yn y meddwl: y Semantig yw'r mynegiant ystyrol yn y golwg — fel y mae'r Ffonolegol yn drefniant seiniol delfrydol yn y meddwl, tra bo'r Ffonetig yn cynrychioli'r seiniau di-ben-draw o amlwg ac amrywiol a glywir. Hynny yw, Tafod cyn Mynegiant. *Wedi* hynyna o lif i gyd, ceir Mynegiant, sef y frawddeg unigol, sydd o safbwynt arwyddocâd ystyrllon, yn Fotiff.

Strwythur a fframwaith dyfnaf *Deunydd* llenyddiaeth, dyna brif bwnc yr astudiaeth hon, felly; ac fe wreiddir y drafodaeth mewn un llenor. Dyma, yn olynol, ddyfnder ei ansoddau ymarferol.

Bydd y rhai sydd wedi darllen y tipyn ymchwiliad hwn ynghylch Trefn llenyddiaeth ar hyd y blynyddoedd (dyweder yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*) yn gyfarwydd â'r ffaith fy mod yn dal bod pob iaith a meddwl yn dechrau mewn cyfundrefnau cyn-ieithyddol (*System in Child Language*). Ac yn y dadansoddi hwnnw — gwahuno yw'r cam cyntaf. Ceir cyferbyniadau cynieithyddol dwfn eraill: absenoldeb/presenoldeb, dibyniaeth/cynhaliaeth, un/amryw a.y.b., sef gwreiddyn patrymau meddwl. Does dim dewis — does dim iaith — heb aeddfedu'n gyfundrefn gyferbyniol, a honno wedi'i sylfaenu ar sythwelediadau cynieithyddol fel y rhain. Mae cyfundrefnu ar gael ym mhobman mewn deall. Ac ar gyfundrefn sythweliadol gyn-ieithyddol yr adeiladwyd amgyffrediad yn gyntaf.

Wrth astudio adeiladwaith meddwl Pantycelyn, felly, ac yn wir fel arolwg o feddylwaith pob llenor, cefais fod yna dair gwedd allweddol sy'n ymwneud â siâp yr hierarci yn y drefn feddylol. Dyma dair gwedd a fu'n gefndir i'r ymdriniaeth hon ar hyd y daith: (i) Y broses o ddysgu deall — dadansoddi; (ii) Yr ysfa i gysoni meddyliau gwahanol â'i gilydd yn gyfanrwydd — cydlyniad; (iii) Yr angen am gyfeiriad i ddarganfod a sefydlu rhagdyb yn absoliwt drwy'r hierarci — cwmnasiad a gwraidd cymhelliol parhaol, fertigol. Dyma'r llinyn cyswllt rhwng y gwraidd a'r ffrwyth. Pob un ohonynt yn wedd ar ganfod perthynas.

Yn y gorchwyl o gyfundrefnu iaith, mae'n wir, y deuthum i sylwi ar y gweddau gorfodol hyn oll. Ond fe'u hadlewyrchir mewn llenyddiaeth.

Wedi bwrw fy mhlu mewn ieithyddiaeth, felly, symudwyd fy maes astudiaeth i lenyddiaeth, a cheisio ystyried tair gwedd adeileddol ar honno. Fe fabwysiaida llenyddiaeth, mewn gwirionedd, dair Cyfundrefn o gyfundrefnau, sef *Deunydd* llenyddiaeth; *Ffurf* llenyddiaeth; a *Chymhelliad* llenyddiaeth. Nid oes yr un o'r cyfundrefnau hyn byth yn

absennol mewn unrhyw ddarn o lenyddiaeth. Dibynna pob un o'r rhain eto ar orfodaeth neu reidrwydd trefn neu gyfundrefn.

Er imi roi cryn gyfran o'm hastudiaeth ar hyd y blynyddoedd i Ffurf, fe gefais gyfle o bryd i'w gilydd i gyffwrdd â Deunydd a Chymhelliad hefyd. Ond yn yr astudiaeth hon yr wyf am 'fanylu', yn fwy nag o'r blaen, ar ddosbarthiad neu drefniant esgorol y Deunydd ym maes cyfundrefnol llenyddiaeth.

Dylwn nodi, drwy gydol yr amser, fy mod hefyd wedi ceisio cadw golwg ar ddau gyflwr mewn iaith ac mewn Llenyddiaeth. Fe'u dynodais â'r termau Tafod a Mynegiant. Y cyflwr neu'r mecanwaith yn y pen sy'n weddol sefydlog yw'r Tafod. Dyna'r potensial cyffredin i lenyddiaeth. Tebyg yw ym myd Deunydd i'r hyn sydd ym myd Ffurf. Tebyg hefyd i ramadeg a geirfa ym myd iaith. Y cynnyrch canlynol ei hun wedyn yw'r Mynegiant. Dyna'r effaith, y dewis, yr hyn sy'n dod i'r golwg: mae'n dod ar ffurf brawddegau — rhai'n gystwyedig ffaeledig ddigon — ond brawddegau angenrheidiol. Y Cymhelliad yw'r gyfundrefn neu'r cyswllt sy'n gyrru Tafod i esgor ar Fynegiant. Ac yn y gyfrol hon, y mae Mynegiant yn gwasanaethu Sfferau Deunydd, Metanaratif, Themâu, a Motiffau.

Mewn Diwinyddiaeth, cawn sylwi mai'r 'Gair' yw cyfanswm Tafod. Mae'n Absoliwt neu'n rhagflaenydd i bob gweithred lenyddol. Ac mewn Hierarci, felly, bydd rhaid dechrau gyda'r cysyniad hwnnw o Absoliwt, y Pen Draw a'r ymwybod o Gyfan. Presenoldeb amodi yw hyn na ddiainc neb rhagddo. Dyna pam y'i gelwir yn Absoliwt/absoliwt. Eto yn ein hastudiaeth ymarferol o iaith a llên, bu bob amser reidrwydd i ddechrau myfyrio gyda'r Mynegiant, yr amlwg yn y golwg. Y 'Frawddeg' ydyw cyfanswm lleiaf Mynegiant. Dyma'r ysgogiad a brofir ar yr wyneb. Dyma ein cyfarfyddiad cyntaf i ddeall mewn iaith. A thrwy ganfyddiaeth a dadansoddiad o'r 'amlder' brawddegau yn y pen draw y llwyddir i ddarganfod rheoleidd-dra cymharol 'ychydig' y Tafod o'r golwg, ynghudd yn yr ymennydd. Yr Anweledig hwnnw sy'n rhagflaenu'r Gweledig wedyn. Ond y Mynegiant yw'r hyn a 'adeiladodd' tuag yn ôl ac sy'n 'adeiladu'r' Tafod mewn ffurf ieithyddol, bid siŵr. A'r arferion sy'n dadlennu'r deddfau. Ond yna, wedi sicrhau'i mecanwaith canolog ieithyddol — Tafod sydd yntau wedi'i wreiddio yn yr Absoliwt, — fe fydd y Tafod hwnnw yn ei dro yn cynhyrchu rhagor o Fynegiant ac arferion.

Dros y blynyddoedd, fe geisiais ddadlau hefyd nad oedd dim o'r fath beth ag astudiaeth *wrthrychol* ddi-duedd 'go iawn' o lenyddiaeth. Rhaid oedd i rywun ganfod neu sefydlu ei ragdyb, ei safbwynt meddyliol naill ai'n ymrwymedig i'r Absoliwt, a'i hawliau meddyliol Ef ar ei reswm (a'r saith synnwyr — sy'n cynnwys *sensus divinitatis* a'r gydwybod). Neu ynteu, ymsefydlir y tu allan i'r ufudd-dod hwnnw, ac yn ôl canologrwydd absoliwt dealltwriaeth

ddynol ('byddwch megis duwiau'); ac yn ôl rheswm a'r pum synnwyr cyfyngedig ymwybodol, a chyfundrefnau iaith. Yr oedd rhagdybiau ysbrydol o ryw fath yn sylfaen anochel i'n dealltwriaeth oll o bob un dim. Doedd dim byd felly yn wir anghrefyddol. Doedd dim heb ffydd. Arhosai ffaith yr Absoliwt/absoliwt. Effeithiai'r dimensiwn crefyddol hwn ar bob un dim *nas* credem neu *a* gredem ac a wnaem, o fewn cyd-destun y Greadigaeth gynlluniedig — neu'r 'Ddamwain' dybiedig. Gorfodir rheidrwydd i beidio â bod yn ddiduedd gan ddwy ffaith seml. Yn gyntaf nid oes dim dianc i neb rhag cydymffurfio â chyfundrefnau deall a dweud, nac achos ac effaith. Ac yn ail ceir yr un pryd y tu ôl i bopeth a fynegir yn y golwg, neu a ddeallir yn gyflawn neu'n weddol gyflawn, ddimensiwn 'anweledig' sefydledig llywodraethol diddamwain, sef Tafod. Dadleuai rhai yn frwd bid siŵr, nad oeddent hwy am dderbyn Absoliwt. Ond yr oedd hynny, fel y gwelsom, ynddo'i hun yn osodiad absoliwt.

Dibynnwn i yn ail-law yn y fan hon ar Ieithyddiaeth Gustave Guillaume o ran Ffurf ac ar Ddiwinyddiaeth Galfinaidd Van Til a Phantycelyn o ran Ffurf a Deunydd. Dyna'n fras y cefndir i'r stori ddirgelwch hon hyd yn hyn. Cefndir yw a all egluro pam a sut y mentrwyd cymryd un llenor crefyddol o Gymro, a chan gychwyn yn ei waith rhyfedd ef, awgrymu rhywbeth am Ddeunydd llenyddiaeth i gyd, boed yn grefyddol neu'n seciwlar. Wrth wneud hynny, ceisiwyd dangos bod rhagosodiadau athronyddol Cornelius Van Til ym maes Deunydd yn cyfateb yn union deg i gyfundrefneg seico-ddeinameg Gustave Guillaume ym maes Ffurf.

Mae pob meddwl wedi cael ei adeiladu'n sylfaenol o unedau. Unedau syml ydynt y gellir ymateb iddynt yn gyflym. Rydym ni'n ymateb fel y gwelsom drwy (i) weld y gwahaniaeth rhwng pob elfen neu uned a phob uned arall. Ac yna, (ii) drwy weld cysondeb a sefydlogrwydd yn yr elfen neu uned sy dan sylw, — a honno mewn gwahanol leoedd, amseroedd ac ansawdd, ac o wahanol gyfeiriadau. Gelwais y rhain yn 'gyfundrefnau' am eu bod yn unedau sefydlog sy'n cynnwys gwahanol elfennau a gaiff eu cyferbynnu â'i gilydd. Maent yn sefydlog gyffredin, ac eto'n wahanol i eraill. Mae hyd yn oed pob gair unigol o'r fath wedi'i adeiladu'n undod felly o Ideogenesis (symudiad meddyliol i arbenigoli syniad) a Morffogenesis (symudiad meddyliol i gyffredinoli ffurf), lecsem a morffem, arwyddedig ac arwydd. Ac wrth gwrs, maent yn cydlynu'n frawddegau ac yn llenddulliau cyfundrefnol.

Mae meddwl pob person yn gasgliad trefnus o'r adnoddau hyn. Hynny yw, o ran Ffurf, Cyfundrefn o gyfundrefnau yw. Maent yn wahanol, ac yn debyg gyson. Os ydym am astudio meddwl rhywun unigol, felly, fel Pantycelyn, yr ydym yn gorfod astudio pa fath o Gyfundrefn o gyfundrefnau, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag unedau ystyr, sydd ganddo ef yn ei ben yn cyd-adeiladu undod ystyr ddethol. Sylwn yn ei waith (1) fod yna rai

cyfundrefnau ffurfiol sy'n blaenori ac yn fwy cynhwysfawr na'r lleill, sef archgyfundrefnau; (2) fod y cyfundrefnau thematig oll yn perthyn i'w gilydd rywfodd, weithiau'n agos, weithiau'n bell, weithiau'n glystyrau bach neu fawr, ar ffurf hierarci. Sylwn hefyd, yn union ganlynol i'r Archgyfundrefnau strwythurol, fod yna Brif Gyfundrefnau hefyd yn arwain Sfferau Deunydd dethol o fewn yr hierarci. Ac y mae'r gyd-gyfundrefn fawr *Ffurf/Deunydd* yn un o'r camre anochel ymlaen a wnawn yn ymarferol drwy'r theori hon. Arweinia'r cwbl hwn i Fynegiant ac at Gyfundrefnau Thematig mawr a Motiffau mân dethol Pantycelyn yn ôl ei ymrwymiad mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Galфинаidd. Os gallwn lwyddo i ganfod pa gyfundrefnau sy'n arwain fel petai, ac efallai'n rheoli'r lleill, mae gennym gyfle i olrhain yn fras batrwm cadarn cyflawn ym meddwl rhywun. Weithiau oherwydd bod rhai cyfundrefnau'n hawdd eu holrhain, a rhai yn cysylltu mor fynych gyda rhai eraill, rhai'n crynhoi, neu rai yn cronni, gall y Gyfundrefn o gyfundrefnau meddyliol fod yn drawiadol i'w hastudio. Ond yn rhannol, bydd y Gyfundrefn bersonol yn adlewyrchu llwybrau meddyliol y mae pawb arall hefyd yn gorfod eu derbyn yn isymwybodol. Mae hi fel petai'n Feddwl Cyffredin. Eto, ceisir dangos fel y bydd gwedd ar y Gyfundrefn mewn Mynegiant maes o law yn adlewyrchu unigolyddiaeth un person ar y tro: Pantycelyn yn yr astudiaeth hon.

Mae'r gyfrol hon yn ceisio gwneud tri pheth felly. Yn gyntaf, cais astudio *adeiladwaith meddwl Pantycelyn*. Meddai Saunders Lewis yn 1964: 'Mae'n ddirgri mor anodd yw hi gan lenorion y Brifysgol weld a chydabod mawredd y bardd Pantycelyn ... Yr wyf innau'n gwbl bendant fy argyhoeddiad mai ef yw'r bardd mwyaf rhwng Tudur Aled a Gwynn Jones.' Hynny yw, ef yw pencampwr llenyddol y cyfnod Protestannaidd. Yn ail, ystyria'r gyfrol hon yr angen i ail-lunio *patrwm ac adeiladwaith Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ei hun yn gyffredinol* ar ffurf fwy deinamig gydlynol yn lle dull y rhestr. Ond yn drydydd — rhybudd! Ymdriniaeth yw hon sy'n ceisio trafod hefyd *sut y cyfundrefnir themâu llenyddiaeth grefyddol neu seciwlar o bob math* rhwng Deunydd a Ffurf. Cyfundrefneg Gras Cyffredin sy'n cyfrif am hynny.

Hynny yw, y mae'n ceisio ystyried sut ac ym mha ffyrdd yr adeiledir Deunydd llenyddiaeth oll yn ddeinamig yn y meddwl. Buwyd o'r blaen mewn cyfrolau eraill yn trafod seiliau gorfodol Ffurf a Chymhellion llenyddiaeth. O'r braidd bod yna anghytundeb sylweddol a deallol wedi dilyn. Try'r awdur yn awr yn fwy herfeiddiol — tan gymryd un llenor penodol yn enghraifft a honno'n 'esoterig' Gristnogol — i drafod Tafod neu Gyfundrefnwaith rhagdybiol y Cynnwys sy'n sylfaen i bob gwaith llenyddol maes o law. Ar sail hynny y ceir mynegi'n weledig y prif gynlluniau thematig anweledig yn y meddwl llenyddol. Ceisir dadlau bod y fframwaith a amlinellir ar gyfer Pantycelyn yn angenrheidiol i

lenyddiaeth oll, er mai un sffêr unigol yn unig, ac echreiddig ym mryd rhywrai, fydd Deunydd arbennig y llenor hwn dan sylw. Erbyn hyn, cwbl groes yw'r safbwynt hwn i'r Sefydliad agnostig 'ôl-fodernaidd', a fu'n rhemp y tu allan ac yn adlais y tu mewn i Gymru. Ac eto, o'r tu allan i Gymru, mewn Cyfundrefneg Ffurf y cefais innau'r ysgogiad ôl-ôl-fodernaidd hwn. Er hynny, ni chefais y tu allan i Gymru ddim penodol debyg i Gynghanedd (ym myd Ffurf) na Phantycelyn (ym myd Deunydd) a ddyfnhâi'r darlun diriaethol mor helaeth. Dichon mai bod yn groes i bob sefydliad, ac yn Gymreig, yw'r unig safbwynt priodol i Gristion o Gymro yn yr unfed ganrif ar hugain (a phob canrif efallai).

Anwybyddir Ôl-foderniaeth at ei gilydd, felly, heb anwybyddu 'gwahaniaethau' a 'lluosedd'. Iawn y barner yn y diwedd mai'r adeg pryd y try 'cyfundrefn thematig' yn 'fotiff' a'r Tafod yn Fynegiant, y digwydd craidd bosibilrwydd celfyddyd yn y pen draw. Ond yn yr astudiaeth hon ceisir clymu'r Mynegiant ar ei hyd wrth y gwreiddiau neu'r amodau sy'n cyflyru'r Mynegiant hwnnw, o'r dechrau cyntaf. Amddifad fuasai Tafod diesgor heb Fynegiant. Yn wir, anaeddfed fyddai hawlio'n ormodol unochredd Tafod, megis unochredd Mynegiant. Ond camgymeriad fyddai synied na fu gan yr aeddfedrwydd a'r effeithiolrwydd mewn Tafod, a'i iechyd a'r difrifwch a'r pwrpas cadarnhaol a geir yn y meddylwaith cêl hwnnw, ddim cyfraniad o gwbl i integredd yr egni enilledig yn y pen draw. Ni cheir mo'r ansawdd yn y gelfyddyd orffenedig heb Dafod 'Deunydd' sydd o werth neu a deimlir ei fod o werth ynddo'i hun. Fel cynhysgaeth fflam yr iaith, mawr yw arwyddocâd cynhysgaeth y syniadaeth hithau a hed ati. A heb gadernid Deunydd datblygedig, dwfn, ac aeddfed y cyfan, ni chawsem gan Bantycelyn mo ragoriaeth ddeallol y canu aruchel ond sylweddol a ddarparodd brif ddiddordeb llenyddol Cymru o fewn ystod pedair canrif gymharol ddiweddar. Eto, hyderwn y cawn ddangos y berthynas â'r Mynegiant erbyn y diwedd.

*

*

*

Ond — cyffes o ddyled. Nid oes neb a astudia Bantycelyn bellach nad yw'n ddyledus iawn i dri gweithiwr yn y maes: Saunders Lewis, Gomer M. Roberts a Derec Llwyd Morgan. Ond yr wyf i'n arbennig o ddyledus hefyd, fel y dywedaf o hyd, i drafodaeth gyson gydag R. Geraint Gruffydd ac i rai ysgolheigion Ffrangeg a Québecaidd, sef Gustave Guillaume, Roch Valin, a Walter Hirtle (yr olaf yn arbennig iawn), a hynny wrth astudio'n ffurfiol gynt Gyfundrefneg-Ddeinamig y meddwl dynol, ac i Walford Gealy am gyd-efrydu Wittgenstein. Y Gyfundrefneg honno a gymhwysir yn awr at themateg a sylfeini deallol un llenor o Gymro. Yn ogystal, mae arnaf faich o ddyled am oriau o gyd-drafod cyfeillgar gyda dosbarth Beiblaidd yr oedolion yn Eglwys Efengylaidd Aberystwyth (a benthyca llyfrau), ac yn arbennig am arweiniad gweinidogion yn ystod y cyfnod y bûm yn gori uwchben y testun, sef

Gordon Macdonald, Ifan Mason Davies, a Derrick Adams, ac yn anad neb i un gyfeilles gudd sy'n nes adref. Cefais ymgynghori ag Emyr Macdonald a derbyn cymorth ymarferol gan Gaius Davies a chael help arbenigol amhrisiadwy gan Stephen N. Williams, Philip Henry Jones a Mary Burdett. Mawr iawn yw fy nyled hefyd i David Gregory am y gwaith gwerthfawr a wnaeth ef wrth osod holl gynnwys y wefan yn ei lle.

Gan na chyflawnir bellach y bwriad a fu gennyf i rannu'r astudiaeth hon yn ddwy ran, ac felly heb yr ail ran, y mae'r rhan gyntaf hon yn cyflwyno'r prif egwyddorion ac yn eu gwreiddio mewn enghreifftiau ar hyd y ffordd yng ngwaith William Williams Pantycelyn. Gobeithiasid archwilio'n fwy agos yn rhan 2 (y Mynegiant) y drydedd wedd ar ddeinameg ei feddwl, a'r cyfundrefnau eraill sy'n eu hadeiladu. Buasai'r drydedd wedd honno wedi golygu astudio'n fwy penodol enghreifftiol *Golwg ar Deyrnas Crist, Theomemphus, a'r Emynau*. Wrth imi ar draws y blynyddoedd geisio amlinellu *Beirniadaeth Gyfansawdd*, bûm yn ymwybodol iawn yn fy ngwaith fy hun o ddau fwllch (neu led-fwllch) ... Y naill oedd Theori Deunydd. A Theori Mynegiant oedd y llall. Ffurf a Thafod a Chymhelliad (yn gyffredinol iawn), a'r map bras ei hun, a aeth â'm bryd yn bennaf. Buasai'n dda gennyf pe bai gennyf yr amser a'r nerth i wneud iawn am y bylchau hynny i gyd yn y map cyflawn a adewais. Ond buasai trafod 'Mynegiant' bellach, yn weddol gatholig ac o safbwynt cyffredinol ei egwyddorion ac yn null trafod 'Tafod' a 'Chymhelliad', yn cymryd oes gyfan arall. Am drafod Mynegiant, yr unig ffordd y ceisiais innau ystyried hynny fu fwy neu lai drwy ei weithredu yma ac acw yn enghreifftiol. Peth felly yw Mynegiant. At ei gilydd, nid oedd ac nid oes gennyf fawr *theoretig* o bwys i'w ychwanegu at fethodoleg Beirniadaeth Lenyddol Mynegiant o ran Ffurf sy'n amgenach na'r traddodiad canolog a chonfensiynol sydd eisoes wedi'i lunio gan eraill ac yn cael ei lunio o hyd, — ac a edmygaf. Y peth agosaf i drafodaeth uniongyrchol ar Theori Mynegiant yw'r ychydig sylwadau mewn ysgrifau ar feirniaid y Canon yng nghyfres 'Adolygiadau Hwyr' *Barddas* 2008-2011. Nid oes felly ddim ym mhatrwm cyfan Beirniadaeth Gyfansawdd y dymunwn ei ychwanegu bellach. Hynny yw, ddim heblaw pwysleisio lleoliad effeithiol a pherthynol Mynegiant o fewn paramedrau Beirniadaeth Gyfansawdd, a thrwy hynny fynnu ei bod yn cael ei hamodi a'i chyflyru gan Dafod a Chymhelliad. Nid Mynegiant yn gyflawn fu fy niddordeb theoretig y tro hwn chwaith, eithr y pam a'r beth, a'r sut ar ei gyfer. Y gwreiddiau mewn Deunydd yn hytrach na'r ffrwythau; ond hefyd y cyswllt rhyngddynt. Mewn gwirionedd, nid fy nhasg (a'm gwaredo) fu hyd yn oed dihybyddu pob trafodaeth ar na Thafod na Chymhelliad chwaith, ym mhob gwedd ar eu hymarfer. Carwn bwysleisio'n syml eto mai olrhain paramedrau elfennaidd iawn Beirniadaeth, sef llunio'r map, oedd fy nod o hyd. Math o Dafod

Beirniadaeth. Wrth hynny y carwn sefyll, gan gyffesu gwyrddroadau a phrinder lawer mewn manylion.

Yn y ddadl anffodus a gafwyd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif rhwng Theori ac Ymarfer, ceisiwn ddod o hyd i gornel fechan o ddefnyddioldeb ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain drwy sefyll gyda Theori (o safbwynt Tafod) a chydag Ymarfer (o safbwynt Mynegiant), heb anghofio'r cyswllt cymhelliol rhyngddynt. Mae Theori Beirniadaeth Gyfansawdd yn edrych tuag at Dafod oddi wrth Ymarfer, ac mae Ymarfer yn edrych tuag at Fynegiant oddi wrth Dafod, wedi'i seilio oll ar gyfundrefnau sy'n cael eu Cymell. Hyn gredaf i sy'n esgor ar yr Hierarci gydgysylltiol uchod. Y mae i Ddeunydd le hanfodol yn honno.

Ym mryd Williams Pantycelyn yr oedd y ddysgeidiaeth Gristnogol yn y bôn yn gwbl wrthrychol. Cynhwysai ffeithiau hanesyddol am gyflwr dyn ac am natur a gweithredoedd Duw, yn aml wedi'u cyflwyno'n anochel yn y Beibl mewn dull barddonol grymus. Yr oedd *trefn* yr Arfaeth, gan gynnwys trefn llenyddda, hefyd yn wrthrychol. Nid mater o ffansi ffri oedd cynnwys y ffydd hon. Roedd y cwbl yn gyntaf oll yn tarddu y tu allan i ddydd, ond yn ymwneud â *phertynas* dyn a Duw. Doedd dim dewis ar gael ynglŷn â'r hyn a oedd yn gywir i'w gredu. Roedd yna drefn yn y Greadigaeth a'r Arfaeth; ac ysgrifennodd Pantycelyn brydyddiaeth am hynny yn bennaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Roedd yna drefn hefyd ym mhrofiad y Cristion yn y berthynas rhwng dyn a Duw; a sgrifennodd Pantycelyn drachefn am hynny yn fanwl yn *Theomemphus*, yn ei emynau, yn ogystal ag yn *Golwg ar Deyrnas Crist* eto.

Ond gwae ni'r gair 'Trefn'.

Ar ryw olwg, câi Pantycelyn fath o ddisgyblaeth feddyliol yn y ffordd yr adeiladwyd y ddealltwriaeth hon yn ei feddwl. Caed trefn yn y Cynnwys yn ogystal â threfn mewn ymarweddiad. Ond gwyddai pob Methodist yr un pryd nad credu pen yn unig oedd y ffydd Gristnogol. Os nad oedd difrifoli mawr wedi digwydd yng nghalon y gwrandawr drwy awel yr Ysbryd Glân wrth glywed arwyddocâd personol a dirfodol y gwirioneddau hyn, os nad oedd yna galon ddrylliedig, y tebyg fyddai i'r ysbryd ynddo aros yn farw. Er mwyn dod yn Gristion, y tu hwnt i'r meddwl, a'r tu hwnt i arfer, yr oedd yn rhaid i'r ysbryd gael ei ail ennyn mewn Cariad gerbron y Crist croeshoeliedig. Ni ellid llai pan ddôi Gwirionedd yn ffrwydrol. Ddô'r athrawiaeth (pa mor syml bynnag y byddai) yn fyw yn y serchiadau, ac yn ymarferol drwy'r ewyllys. Ac âi fel saeth o'r pen i'r galon, ac o'r galon i'r dwylo, gan aros ym mhob arwedd. Perthyn (angerddol) oedd y drefn.

Er y gellid, felly, ar un olwg, fapio'r Deunydd yn y ffydd Gristnogol yn wrthrychol ffurfiol, ni byddai'n ddigonol felly, nac wedi'i mynegi'n gywir chwaith yn ei gwirionedd

canolog hyd yn oed ym meddwl y Cristion, heb ymaflyd yn yr holl berson yn gariadus. Heb gyflawnder y Person a'r person, nid oedd y ffurfioldeb athrawiaeth drefnus a gafwyd yn y Gwirionedd ond yn oferedd. Drwy gredu'n gyflawn yn unig y ddi yn fater o fywyd a marwolaeth. Hynyna a ddigwyddodd i Williams — rhywbeth yn wrthrychol ac yn oddrychol yn y berthynas rhyngddo a'i Greawdwr. Fe'u hunwyd hwy'n effeithiol gyflawn. Aeth y drefn yn gân. A newidiwyd Williams yntau o'i frig i'w fôn.

O ran cynnwys, buasai yna drefn yn y genadwri o'r dechrau, hynny yw, o'r dröedigaeth ymlaen. Ond o ran ysbryd, gallai ymddangos ar yr wyneb fod yna anhrefn yn y golwg na welid mo'i hafal ym muchedd yr un o'n llenorion cyfoes sy'n pledio gwrthreswm a chwalfa. Drylliwyd Williams. Torrwyd ei asgwrn cefn gan drefn, un o hanfodion godidocaf Bywyd. Felly, y mae gennym ddeuoliaeth go egr. Wrth geisio archwilio Deunydd gweithiau llenyddol Williams sydd o ran sylwedd eu hadeiladwaith yn gymen ac yn gadarn o ran ffurf, gwelwn fod naws y Deunydd ei hun wedi trawsffurfio'r dyn. Os ydym yn mynd i archwilio'i Ddeunydd, felly, bydd yn rhaid i ni fod yn barod i gadw'n pen ac i golli'n pen, yr un pryd. Rhaid inni beidio ag ofni y Deunydd 'caled', oherwydd gwyddom y bydd yna feddalwch teimladus a gwylltineb anhraethol yn dilyn yn y man, a hynny'n peri mwy o ofn byth, mae'n debyg ... a thangnefedd.

(iii) DIFFINIO RHEIDRWYDD CYFUNDREFNAU

Math o reg yw'r gair 'cyfundrefn' (megis systemeiddio, systemateiddio, trefnu) ym mryd sylwebyddion rhamantaidd diweddar. Anhrefn, penrhyddid, a llusedd yw hoffter y rhamantydd confensiynol, gorau po fwyaf penrhydd fel yr agoshâ at ein cyfnod ni. Ond un peth a wna'r sylwebyddion Calfinaidd yw nid 'canfod' na 'gwneud' trefn yn unig, er nad oes dim o'i le ar hynny o fewn rheswm, eithr darganfod *cyfundrefnau* rheidiol, gyda llygad angerddol yn ôl tuag at yr Arfaeth, a llygad arall ymlaen at eu defnyddio i ffrwythloni. Ac o'u darganfod nhw, ac o ddarganfod mai Duw a'u gwnaeth, ac mai dyna'i ffordd o weithio, yna sylwir mai dyma amlygiad o'i Gariad mawr hefyd. Dyma'i ddiogelwch Ef a'i ofal drosom, a'i fodd o egluro. Dyma harddwch Ei gymeriad. Dyma hefyd hanfod Ei greadigaeth, a'n modd ni i ddeall ei pharhad a'i chysondeb cyfnewidiol. Gwedd ar gymeriad Duw yw trefn. Wrth sôn am gyfundrefn, sôn yr ym am berthynas, ac am undod. A hynny sy'n rhoi gwir ryddid.

Mae'r offer gwreiddiol lluosog a ddefnyddir ar gyfer cyfundrefnu — megis 'gwahuno' — eu hunain ar ffurf cyfundrefn. Hynny yw, y maent yn 'undod' a'u hendidau yn 'amryw', o ddau o leiaf, wedi'u hasio ynghyd yn benodol ar gyfer cynhyrchu deall a mynegi. Ffurfiol'r meddwl ei hun yw'r dasg gyntaf cyn defnyddio'r meddwl.

Mae'r meddwl dynol wrth geisio deall unrhyw beth yn gweithio'n sylfaenol drwy'r broses hon o Wahuno. Drwy astudio hyn yn ddwysach, ac yn benodol y Gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n dod ohono mewn iaith a llenyddiaeth, yr awn ati i geisio disgrifio meddylwaith cyfun Pantycelyn, y llenor a'r emynydd. Disgrifir y meddwl hwnnw ar ffurf hierarci gydlynol sy'n dechrau mewn Rhagosodiad, ac yn ymagor i frawddeg. Mae dilyn y camre yn yr hierarci honno'n angenrheidiol. Dyma hefyd ddyfnder y bardd.

Yn y gyfrol hon, ceisir yn gyntaf, wedi cydnabod yr Absoliwt a'r Arfaeth, ddadlennu Cyfrinach Fawr Archgyfundrefnau Ffurfiol llywodraethol: offer pob deall. Ac yna, defnyddir y rheina i adnabod y Cyfundrefnau yn Sfferau Deunydd a gynhyrchir drwyddynt, a'r Themâu wedyn. Gyda'i gilydd, *llunient o fewn amgylchfyd* i Bantycelyn yr hyn a elwid yn wawdus gynt gan Ôl-fodernwyr yn Fetanaratif. Gwyddai Pantycelyn am o leiaf ddau Fetanaratif adnabyddus: yn *feddyliol* yr Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*) yn gyntaf, o'i gyferbynnu â'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*). Adeiledid Metanaratif yr Ymoleuo gan dair elfen: *Rheswm/Y Pum Synnwyr/'A dyna'r cwbl'*. Y drydedd elfen gaeedig dybiedig honno yng nghyferbyniad yr Ymoleuo sy'n ei ddynodi'n allwyddonol. Dyma'r Ego Trosgynnol, mewn gwirionedd. Drwy'r ffaith fod Pantycelyn wedi sylweddoli mai gan yr Un,

a lanwai fwlech dogmatig y drydedd elfen hon, y cafodd ef ei union ddimensiwn gwyddonol rhagosodiadol mewn gwirionedd. Yn ôl y *saith synnwyr/cyfundrefnu/ a'r Absoliwt* fel rhagosodiad y dôl ef fwyfwy y tu allan i ofod ac amser i feddiannu Hierarci gyflawn Metanaratif yr Oleuedigaeth. Hyn hefyd a esgorai ar feddiannu'i Themateg Gyfundrefnol Galfinaidd. A dyma'i amgylchfyd creadigol. Gobeithio y cawn weld dyfnder yr Oleuedigaeth Gristnogol.

Ond heblaw Metanaratif yr Oleuedigaeth, roedd ganddo, yn ail, ac yn *deimladol* Fetanaratif Rhamantiaeth Ddemocrataidd. Dyna, meddid, a esgorai ar ei serchiadau. Hyn yn bennaf yn gyferbyniol a ddiddorai Saunders Lewis oherwydd fframwaith yr Oesoedd Canol, a'i glasuroldeb personol. Y Gwrthrych oedd yr hyn a rôl oddrychedd Rhamantiaeth yn ei le. A'r Arfaeth a rôl iddi ddisgyblaeth. Gobeithio y cawn hefyd weld dyfnder y Rhamantiaeth Gristnogol. Eto, nid cyfundrefn yw popeth sy'n drefnus. Nid cyfundrefn yw'r Pum Pwynt Calfinaidd amlinellol er enghraifft, neu 'athrawiaethau gras' fel y'u gelwir hwy weithiau, nid hyd yn oed cyfundrefn luosol (*unllawer*); eithr rhestr bwt o bwyntiau dadl rhwng y Calfiniaid a'r Arminiaid. Yn ôl dull 'poblogaidd' o feddwl, defnyddid y gair 'systematig' i olygu 'trefnus' neu 'olynol'. Ond mewn cyfundrefneg go iawn, ni byddai'r Pwyntiau Arminiaidd yn gyferbyniol â'r Pum Pwynt Calfinaidd. Ni ffurfient undodau cydlynol. Mewn cyfundrefn mae yna reidrwydd perthynas sythweliadol neu elfennaidd gyferbyniol neu estynnol unol rhwng yr elfennau. Felly y gall pwyntiau perthynol i'w gilydd fod yn arwyddocaol mewn cyfundrefnau. Hynny yw, gallant fod yn gyfundrefnus o ran natur oherwydd undod cyd-greadigol; ond dyw'r ffaith eu bod nhw'n drefnus ddim yn eu gwneud yn gyfundrefnau. Nodaf y cyferbyniadau cyfannol priodol i'r Pum Pwynt yn y fan hon, yn ôl fel y gwelaf i bethau. Y diwygiad hwn, debygaf i, fyddai'r cyfundrefnau cyfatebol priodol mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. A chredaf na ddylid eu deall onid fel hyn o fewn llawnder trefnus cychwynnol, mewn Cyffes Ffydd felly:

1. Llygredd Llwyf, [y dylid ei gyferbynnu, mewn gwirionedd, ag Iachawdwriaeth Berffaith]
2. Etholedigaeth ddiamod [cyferbynnu â'r Cyfrifoldeb Dynol Llawn]
3. Prynedigaeth Arbennig [cyferbynnu â'r Cynnig Rhydd Digonol]
4. Gras Effeithiol (Arbennig) [cyferbynnu â Gras Cyffredinol]
5. Dyfal Barhad y Saint [cyferbynnu â Syrthio o fewn Gras]

Y pum cyfuniad hyn — nid y rhestr ar y chwith yn unig — yw'r hyn a adeiladai beth o bwyslais Calfiniaeth rasol. Eu 'darganfod' nid eu 'gwneud' yw ein gwaith.

Dyma a geid gan Bantycelyn.

Y maent oll yn dramgwydd i ddymuniadau a rhagdybiau'r dyn naturiol; ac y maent oll yn ymwneud ag iachawdwriaeth y pechadur. Buont yn destun dadl, mae'n wir. Dyna sy'n eu huno'n arbennig, heblaw'r gyfundrefneg gyfansawdd. Ond o'u diwygio drwy'u doddi fel hyn, sylwir ar berthynas y naill ochr a'r llall yn thematig gyfundrefnol.

Pan restrir hwy fel yna, y mae'n syn i rai beirniaid y gellid cysylltu'r fath 'anialwch' syniadol goruwchnaturiol â ffrwydrad gogoneddus Diwygiad dilys. Sut y try hyn yn Gariad Cristnogol byth? Drwy'r Meddwl i'r Galon, ie; ond sut y dygymydd datganiad, sydd mor galed yn y meddwl, â gorfoledd ysgubol i bobol gydol Cymru? Fframwaith fu (ac yw): tŷ annedd. Brics i gyd, fel petai, ar gyfer Gras yr Ysbryd.

Fe ellid dadlau eu bod gyda'i gilydd yn amlinellu proses olynol neu ddatblygiad parhaol mewn rhagluniaeth. Ond y mae yna bwyntiau eraill y gellid eu hychwanegu a'u rhestru o fewn y broses honno, megis ffydd, iachawdwriaeth, sancteiddhad, gogoniant ac eraill. Yr hyn sy'n neilltuo'r Pum Pwynt hyn, a enwyd fel y rhai ar y chwith yn Dort, yw eu bod yn destun dadl hanesyddol. Ac nid drwy ddadl o'r fath y dylid ystyried undod na mynegiant egwyddorion yn gyfundrefn.

Gwiw yw cofio nad Calfin na'r Ysgrhythur a restrodd y Pum Pwynt Calфинаidd, eithr Synod Dort ei hun. Er y gallent fod yn hwylus i ddiffinio meysydd dadleuol, nid ydynt o anghenraid yn ddiwinyddol gytbwys. Ceir enghraifft eglur, er hynny, wrth *restru'r* pwyntiau fel hyn yn bump dadleuol, fod mawr angen penodi'r *gyfundrefn gyflawn* ddwyochrog ar waith neu yn y meddwl Calфинаidd aeddfed bob cynnig. Nid yw 'ethol' er enghraifft (sy'n adlewyrchu Penarglwyddiaeth Duw), o'i enwi'n ynysig mewn rhestr, a heb ei osod o fewn ei gyfundrefn briodol ei hun sef *ynghyd* â chyfrifoldeb dyn, ond yn gamarweiniad o safbwynt dadansoddiad cyfundrefnol cyflawn. Nis gwnâi Calfin. Mae'r ddwy wedd ynghlwm yn gyfundrefnol o fewn cyd-destun goruwchnaturiol tragwyddoldeb. Gweithred unochrog fyddai gosod un ochr heb y llall. Perthynant oll i undod. Cyfrannant i'r un gwirionedd cyfan a dirgel. Mewn Cyffes Ffydd dylent fod yn gyd-bresennol. Mewn undod/amrywiaeth felly y try gwirionedd drwy drugaredd yn gariad.

Mae'r ddwy ochr hyn yn gyd-wirionedd. Maent yn 'baradocsaidd' wir, wrth gwrs, o safbwynt daearol rhesymeg amser-a-lle. Eto nid ydynt ond yn wirionedd 'cyflawn' o fewn dimensiwn tragwyddol sydd felly heb yr un cyfyngiadau ag amser-a-lle. A chan fod y ddwy ochr hyn yn ddwy wedd ar yr un sefyllfa unol yn union ac yn gyfartal gywir, gellid eu cyfrif yn gyfundrefn egwyddorol. Hynny yw, yn gyfan. Nid yw symleiddio un ochr heb y llall ond yn gelwydd o safbwynt cyfundrefnu cytbwys.

Weithiau, troir y naill ochr a'r llall yn ddadl ddaearol lle y ceir ymgyrchu'n frwd rhyngddynt â'i gilydd. A chaiff pechod dyn dipyn o hwyl ar yr ymrafael, yn ddiau. Gwyddai Pantycelyn lawer am anawsterau o'r fath. A gwyddai, yn y cyfuniad cyfundrefnol, ryfeddod y gwirionedd. Nid ydynt yn fwy paradocsaidd i Gristion na gwahanu + uno = deall.

Mae modd derbyn 'paradocs' fel cyfundrefn Dduw-ganolog y tu hwnt i'r meidrol, ac fel anhawster y mae modd ei gydnabod heb ei ddatrys. Nid ffrwythlon yw aros mewn dadl ar egwyddor. Buddiol yw bod yn ostyngedig gerbron mawredd meddwl anghyfyngedig Duw. Pan fo'r ddwy wedd yn amlwg wir yn ôl tystiolaeth yr Ysgrythur, ac yn wir yn ôl ein hadnabyddiaeth o'r herwydd â chyfiawnder a thrugaredd anfeidrol Duw, gwiw plygu i'r uniad cyflawn. Nid rhinwedd yw symleiddio o fewn amser/lle er mwyn ennill dadl. Nid yn erbyn Diafol y buasai dadl o'r fath. Ac yn sicr, nid yn erbyn Duw. Yn wir, collasem yn ein herbyn ni ein hunain cyn dechrau.

Paradocs a sioc nid anghyffelyb arall yw synied am feddwl anghyfyngedig Duw a'r 'cyfyngiadau' a roir arno gan Ei gyfiawnder a'i gariad a chan ei gymeriad perffaith ei hun. Dwy o rinweddau mawr dyn, nad ydynt yn eiddo i Dduw, yw argyhoeddiad o bechod ac edifeirwch yr anghredadun. Rhoddion ydynt, serch hynny. Rhaid i Gristion fod yn barod i ildio i anferthedd gwirionedd na all ei ddofi bob tro. Nid â'r seciwlarwyr byth yn bell felly heb syndod paradocs yr Ymgnawdoliad a'r Groes. Cyfyd yr anawsterau hyn oherwydd amharodrwydd dyn i gydnabod culni'i reswm a'i alluoedd meidrol llipa. Ni ddylid gwneud rheswm o'r fath yn absoliwt o fewn tragwyddoldeb. Offeryn o fewn gofod ac amser yw.

Beth felly yw cymeriad cyfundrefn? Gosodaf 'ddatganiad' cryno amdano yn bwysleisio:

Y gamddealltwriaeth fwyaf wrth ystyried cyfundrefnau mewn Tafod yw tybied mai rhywbeth a lunnir o ddewis ydynt. Ym mryd rhamantwyr, ffordd anffodus o feddwl am natur profiadau dynol dwys ydynt. Dyna'r wedd leiaf pwysig ar gyfundrefnau. Ond RHYWBETH A DDARGANFYDDIR YDYNT. Y MAENT YNO, FEL Y MAE TRI DIMENSIWN GOFOD YNO, NEU SYLWEDD FFORMIWLA DŴR, NEU DDISGYRCHIANT. Does dim artiffisial na 'gwneuthuredig' ynglŷn â nhw.

Peidier â chodi stêm rhamantaidd yn eu herbyn. Does dim sy'n gyflawn groes ynddynt i 'ryddid'. Dydyn nhw ddim yn 'oer' nac yn 'beiriannol'. Does dim pwynt dweud — 'dwi'n eu herbyn nhw; neu dwi ddim yn eu credu nhw, dwi ddim yn credu yn yr Absoliwt.' Maen nhw yno'n ffeithiau rhoddedig. Gras cyffredinol yw'u bodolaeth a gynigir i bawb yn ddi-gais, yn ddihaeddiant, fel bywyd. Peth arall nas ceir drwy reswm. Gras Arbennig ar y llaw arall yw'r hyn a etholir ac a gymhwysir i'r galon mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. OND MAE CYFUNDREFNAU TAFOD EU HUNAIN YN SEFYDLIAD MEWN

BODOLAETH, megis yr awyr a anedlir. Piwus yw honni — ‘dwi ddim yn cytuno.’ Ddim yn cytuno â bodolaeth! Artistiaid, rydd-ymofynwyr, na synier ei bod yn elyn i’r creadigol. Y greadigaeth ei hun ydyw, ac yno.

Ond rhaid mynd ymhellach na hyn. Ac nid oes amgenach cwmni dynol ôl-Feiblaidd ar hyn o bererindod na Williams. Oherwydd sôn yr ŷm am drefn gynhenid DUW. Duw Absoliwt sy’n rhoi i’r rhain eu perthynas ystyr-roddiol. A golyga’r ffaith honno mai yng ngoleuni Duw y mae’n rhaid inni sylweddoli’r drefn oll, a bod honno’n ddaionus ac yn gariadus ac yn oruwchnaturiol. Ac yn dawnsio. Dyma’r Duw y mentrai Pantycelyn beidio â bod yn ‘hunan’ o’i flaen Ef. Nid hollti blew ‘gyfundrefnlyd’ a gyfnewidiai ef yn lle braw y bywiol Dduw. Ceisio a chanu’r drefn hon, yn wir, oedd gwaith cyfrinachol ei galon. Roedd yna Waed yng nghanol y drefn hon, ac nid gwaed Williams ydoedd yn unig. Gwyddai ef yn ei seiadau am felltith yr arddangosfa rwydd, y sawl a hawliai adnabod Crist heb herio’r maglau cêl. Drwy wendid yr ymwneid â’r math o drefn y gwyddai Williams amdani. Gallai’r byd a’i deganau falchïo am nerth; ond ymfalchïai Williams yn ei wendid. Roedd y Groes wedi’i ‘erlid’ ef, y Groes y tu allan ynghyd â’r Groes tu mewn, a’r unig Dduw a dalodd Iawn dros bechaduriaid. Dysgasai dramgwydd pŵer iddo ymostwng. Dyma brydferthwch y Drefn.

Mewn gwirionedd, Gras Cyffredinol oeddent oll o ran y cynnig rhydd, ac ydynt hefyd o ran cynnwys ar gyfer pawb, ond nas cymhwysid (yn achos rhai gweddau) onid yn achos yr etholedigion.

Pa ffurf, felly, sy’n gwneud Cyfundrefn Ddiwinyddol i Bantycelyn? Ymddengys fod patrwm fel a ganlyn yn ymamlygu:

1. Yn bennaf, maen prawf Cyfundrefn Ddiwinyddol yw ei chyfraniad i fynegi ac i egluro prif adeiladwaith a phlot y *Beibl*. Pwrpas y *Beibl* yw ‘cyflwyno a mawrygu Gogoniant Duw’ ac ‘olrhain y ffordd tuag at gyd-ogoneddiad dyn cadwedig’. Os bydd felly unrhyw gyplysiad meddyliol cyson, boed yn gyferbyniad neu’n estyniad unedol cydlynol o egwyddorion neu ffenomenau sefydlog sy’n cydymffurfio â’r swyddogaeth ddeublyg honno, yna gellid dechrau ei ystyried yn gyfundrefn ddiwinyddol. Trefn yw yng nghyd-destun Creadigaeth.

Bid siŵr, nid Beiblaidd fydd yn unig oherwydd ‘cael ei grybwyll yn y *Beibl*’. Rhaid bod a wnelo’n uniongyrchol ag egluro (i) priffordd Gogoniant Duw a (ii) llawnder ffordd gogoneddiad dyn, naill ai o ran terminoleg Feiblaidd neu o ran athrawiaeth Feiblaidd sy’n amlwg yn rhan o feinwe ei ddwy brif thema hyn. Adeiladwaith yn y meddwl yw cyfundrefn

ddiwinyddol lle y ceir cyferbyniad neu gyplysiad canlynol sy'n arwain at gyplysiadau pwysig ysbrydol mewn cydlyniad.

2. *Dwy neu dair egwyddor* (neu ddeuoedd a thrioedd), fe ymddengys, yw maint y cynnwys mewn cyfundrefn ieithyddol yn y bôn bob amser. Megis i blentyn. Gall felly fod yn sythweliadol isymwybodol drwy ddelweddu. Felly y derbynnir i'r galon.

3. Mae'r egwyddorion hyn oll yn perthyn i'w gilydd yn agos iawn, o ran *olyniaeth neu gyferbyniad* ysbrydol eithaf, fel y gellid synied amdanynt yn yr un maes. Nid cyplysiad yn unig mohonynt, ond undod anochel ac angenrheidiol i fywyd ar dwf. Nid peiriannol mohonynt, ond dynol. Rhan gynhenid greedig yw o'n dynoliaeth. Achos yw cyfundrefn i effaith bellgyrhaeddol, yr un ar gyfer y llawer.

4. Gan mai egwyddorion dwfn neu sythweliadau yw'r elfennau mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, nid cyfuniad geiriol yn unig mohonynt. Nid ystrydeb sy'n dibynnu ar gyd-drawiad geiriol chwaith. Mae'r cyfuniad o'r amryw bob amser yn ystyr 'wir' bersonol sydd y tu hwnt i iaith. Mae a wnelo â bodolaeth gyffredinol sy'n ddeinamig. Nid achlysurol yw. Gellir 'esbonio' pob un elfen sydd ar waith yn y broses gyson, a'r canlyniad diriaethol: nid eu 'disgrifio' yn unig. Mae cyfundrefn ddofn felly yn ffurf *sy'n cynhyrchu* a lle y gellid cael elfen o arallu cyfnewidiol: e.e. Mewn '1. *ffydd* / 2. *gweithredoedd*': yn y fan yna, un yw 'ffydd' lle y gellid cael, yn esboniad cyfredol-ystyr iddi, liaws o 'weithredoedd' neu o nodweddion gwahanol, (e.e. dysgeidiaeth + profiad). Ond enwir mewn prif gyfundrefn rannau strwythurol y gyfundrefn greiddiol, sydd fel petai'n sefydliad sy'n cynhyrchu neu'n adlewyrchu'r ffeithiau amryfweithiol hyn.

5. Mae cyfundrefn yn gyson o ran ffurf gyffredinol *unol*, er yn *amrywio* o ran ei chynnwys enghreifftiol ac effeithiol. Mae fel pe bai'n dwyn deddf arbennig sy'n amodi, yn cyflyru neu'n rheoli'r cwbl yn weithredol ynghyd. Mae'n sefydliadol gadarn.

6. I mi, ymddengys y gair 'system' yn oer; ond y mae 'cyfundrefn' yn golygu trefn megis *cymdeithas gyd-ddibynnol* lle y mae amryw'n closio ac yn dal wedi dod at ei gilydd yn un mewn math o gariad. Mewn Cyfundrefn Ddiwinyddol, nid mecanyddol yw'r cyfuno neu'r cyferbynnu, ond proses sy'n ymwneud ag arfaeth bersonol, ddynol-ddwyfol. Efallai y gall y rhai sy'n Galfinwyr cynnes, gor-gynnes ambell waith, deimlo'n ffafriol ynghylch y gair 'cyfundrefn' am ei fod yn mynegi nodwedd feddyliol mor drugarog, ac yn y pen draw yn gynnyrch ymserchu. Ganwyd popeth i berthynas.

7. Gall elfennau strwythurol cyfundrefn fod yn gyferbyniol mewn ffyrdd gwahanol. Yn *ffydd/gweithredoedd*, dyweder, mae'r naill yn gyflawn orffenedig, a'r elfen arall yn agored. A'r un modd y mae *cyfiawnhad* yn gyflawn, a *sancteiddhad* yn agored o leiaf tan ddiwedd

oes. Er *caethiwed* cyfundrefn, oherwydd amrywiaeth natur, fe ddarparwyd cyfundrefnwaith dynol ar gyfer *rhyddid*.

8. Nid oes *dim yn ddamweiniol* ym mhatrwm sefydlog Cyfundrefn, felly, sef yn ei ffurf. Mewn Cyfundrefn Ddiwinyddol, cadernid anochel yr Absoliwt sy'n ei sicr gynnal a'i diffinio. Bwriad Duw yw.

9. Mae yna elfen o flaenoriaeth *uchaf/isaf* hefyd yng nghydlynid y Cyfundrefnau, na ellir llai na'i chyfrif yn rhan o hierarci feddyliol hefyd. Mae cyfundrefnau'n ddeinamig olynol, felly, yn cenhedlu neu'n cynhyrchu.

*

*

*

Wrth drafod Iaith fel Cyfundrefn o gyfundrefnau, mae arnaf ofn hyd yn hyn mai'r duedd yn rhy aml fu i symud o gyfundrefn i gyfundrefn bob un yn ei thro. Ac eto, megis Llenyddiaeth, Cyfundrefn o gyfundrefnau yw mewn hierarci gydlynol unol a esgeuluswyd yn rhy aml. Felly, y bu hi'n duedd arferol hefyd wrth drafod hyd yn oed Diwinyddiaeth Gyfundrefnol hithau. Gwelir mai mwy priodol ddelweddol yw trefnu'r cyfundrefnau mewnol yn undod yn ôl fel y maent yn tyfu'n ddiffiniol mewn hierarci. Cyfundrefneg yw hon eto sy'n cynnwys Ffurf yn ogystal â Deunydd.

Sôn yr wyf am hierarci unol. Mae'n cychwyn ym meddwl yr *Absoliwt* sy'n llywodraethu'r Greadigaeth. Cynllun yw y gellir olrhain perthynas ffurfiol o'i mewn. Yn y gyfrol hon, yr wyf yn gyntaf am gyflwyno'r cysyniad o *Wraiddgyfundrefn*. Cyfeiria'r Wraiddgyfundrefn at Arfaeth Duw sy'n cynnwys amllder o *Archgyfundrefnau* tarddedig sy'n uniongyrchol bob un o ran perthynas â'r Duwdod. Ceir un ar ddeg Archgyfundrefn sythweliadol (o leiaf) yn y Meddwl Cyffredin sy'n rheoli pob person a phob meddwl unigol. Yna, ceir *Sfferau Sofran* a deddfog mewn Deunydd, sy'n darparu pob gwedd ar y meddwl dynol. Dewisir o blith y rhain gan yr unigolyn, ar achlysuron arbennig, un sffêr yn ei thro, bob un yn ôl ei natur. Ac y mae pob sffêr yn cael ei llywodraethu gan ei phrif gyfundrefn ddiffiniol ei hun. Gellir wrth gwrs gyfuno sfferau. Yn olaf, o fewn *Themâu* deinamig yn y sfferau hyn, ceir cyfundrefnau cynorthwyol, gan gynnwys y cyfundrefnau thematig sydd, mewn Tafod, yn esgor yn y diwedd ar *Fotiffau* mewn Mynegiant, sef yr unedau thematig lleiaf ym Mynegiant llenyddiaeth. Dyna ffrwythau Pantycelyn wedi brigo o'i goeden gyfundrefnol fawr.

Cynllun eang yw (ym mryd Pantycelyn) y gellir olrhain ffurf berthynas o'i mewn.

I'm bryd i, ceir patrwm ym mherthynas yr Absoliwt a'i Arfaeth sy'n fath o gysgod neu analog i bopeth sy'n digwydd drwy gydol yr hierarci o gyfundrefnu wedyn, o'r brig i'r bôn. Y maent ill dau yn cynnwys y cwbl, ac yn gosod eu hargraff ar bopeth. Yn rhyfedd iawn, y

maent yn cael eu hadlewyrchu yn yr Archgyfundrefn mewn Cyn-Dafod – *bod/gwneud*, sydd hithau'n adlewyrchu'r gyfundrefn ieithyddol *enw/berf*.

Hyd yn oed, wrth archwilio haenen y Sfferau Sofran ym maes Deunydd, gellid cydnabod deuoliaeth ddeunyddiol bwysig, sef

Sfferau ffenomenau
GOFOD

Themâu gweithgareddol diffiniol
AMSER

Cynhwyswyd y naill a'r llall gyda'i gilydd blithdraphlith gan Dooyeweerd yn ei esboniad o arwyddocâd Sfferau. Cyferbynnant â'r Tragwyddol. I mi, sut bynnag, gwell yw cydnabod sfferau ffenomenau yn sefydliad 'hunanlywodraethol', sef y pethau a ddadansoddir yn gyfundrefnau o fewn Archgyfundrefn yr Arfaeth. Wrth gyflwyno Themâu Gweithgareddol Diffiniol wedyn, nid wyf yn gwbl fodlon ar ddiffiniad Dooyeweerd chwaith. I mi, Cyfundrefn o gyfundrefnau yw pob un sffêr: *vis-à-vis* Sfferau eraill mae iddi hunanlywodraeth. *Mae gan bob un ei chyfundrefn ddiffiniol neu arweiniol*. Cydradd yw'r cwlwm hwn o ran safle ffurfiol ac yn strwythurol o dan y Benarglwyddiaeth. Mae i bob sffêr ei phatrwm ei hun a'i threfn ddeddfog ei hun. Saif rhwng Arfaeth y Greadigaeth a'r cyfundrefnau thematig unigol, yn hierarcaidd ei chysylltiad strwythurol. Ac wrth gwrs, cyddawdd.

Allan o'r cyfuniad Sfferau ffenomenau y gellid felly olrhain y Themâu Cyfundrefnol (Goddrych/Gwrthrych). Ac wrth i Bantycelyn lunio'i ddwy arwrgerdd fawr 'Golwg ar Deyrnas Crist' a 'Theomemphus', gellid olrhain y fframwaith yn y bôn yn ôl dwy weithred enfawr Duw: Yr Absoliwt yn Creu, a'r Absoliwt yn Gwaredu. Penarglwyddiaeth Duw.

Felly, yn y dehongliad Cristnogol o Hanes, fe ellid crybwyll un Gyfundrefn driol fframweithiol a thematig sy'n ymffurfio yn 'Golwg ar Deyrnas Crist' —

1. Creu — 2. Cwmp — 3. Codiad (Cadw) a Gogoneddiad.

Mae'r cyfundrefnau cynorthwyol hierarcaidd, neu'r clymau, sy'n cwmpasu'r rheini yn gallu bod yn niferus iawn. Ond mi fydd y rheini hefyd yn ymlynu'n ddeuol neu'n driol, yn gyferbyniol neu'n estynnol. Yr amod yw: er mwyn i'r Wraiddgyfundrefn (Arfaeth) gael ei bodloni'n effeithiol, yn amodol gyflyrol, yn weithredol unol, mae wedi'i threfnu yn y fath fodd fel y bo cydberthynas ystyrlon gydlynol rhwng yr holl ddsbarthiadau o gyfundrefnau deuol a thriol yn cael cyd-gartref ynddi, megis rhwng y dechrau a'r diwedd.

Digwydd yr Wraiddgyfundrefn honno, yr Arfaeth, yr Egwyddor a'r Ffaith o Drefn ym mhob man, felly, yn yr uchaf-bwynt, sef uwchlaw cyd-gyfundrefnau megis 'Tafod' fel y'i disgrifiai Saussure. Cyfundrefn luosol hierarcaidd, cyd-gyfundrefn helaeth yw Tafod ei hun o

fewn un iaith, yntau'n gyfanswm sy'n cynnwys llawer. Ond y mae'n arbennig yn ei safle, yn union o dan y Wraiddgyfundrefn sy'n atebol i bob iaith.

Mae hau teitlau o gwmpas y maes fel hyn – Cyfundrefn, Archgyfundrefn, Gwraiddgyfundrefn, a Chyfundrefn Arweiniol neu Ddiffiniol o fewn Sffêr – yn dechrau f'atgoffa am anrhydeddau blwyddyn-newydd y frenhines. Ond yr wyf am fod yn dra gofalus o'r term 'cyfundrefn' ei hun. Y peth diogelaf fuasai ar y dechrau ddisgyblu'r term drwy'i gyfyngu i'r amod a nodais o fewn cyffiniau Tafod yn unig. Cydnabyddwn y gellid cael 'strwythur' penodol mewn Mynegiant, megis Geirfa ym maes iaith. Rhestr yw strwythurau. Gellir hyd yn oed ganfod strwythurau trefnus, hyd yn oed rhai deul a thriol o fewn ymwybod â rhestrau Mynegiant. Ond potensial unoli yw Tafod lled sefydlog, yr achos i'r effaith. Ac y mae'n briodol defnyddio'r gair yn ddisgybledig yn y fan yna. Mae 'strwythur' yn llaciach term. Ond cysgod yw strwythur o gyfundrefn. A rhaid caniatáu i Fynegiant feddu ar 'gyfundrefnu gwneuthuredig' oherwydd y natur ddynol ddwyfol sy'n etifeddu'r ysfa fythol am drefn. Felly'r Gyfundrefn Drafnidiaeth, er enghraifft.

Dylwn bwysleisio nad oedd fy mentor Gustave Guillaume ddim yn mentro odid byth y tu hwnt i gyffiniau Ieithyddiaeth Bur. Nid oedd hyd yn oed yn troi i ymdrin ag Ieithyddiaeth Gymwysedig. Ni fentrodd droi'n 'benodol' at Archgyfundrefnau deall nac at Gyn-dafod. Nid oedd chwaith yn trafod Llenyddiaeth ond cyn belled ag yr oedd yn darparu enghreifftiau o Fynegiant i esbonio gweithrediadau Tafod. Felly, pan fydd un o'i gywion yn troi'n dalog i borfeydd dieithr fel hyn, gwiw bod yn dra charcus.

Er ei fod ef yn sylwi ar y gyfundrefn Deunydd/Ffurf mewn iaith, cyfundrefnau Ffurf oedd ei arbenigrwydd. Ffurf oedd cyfundrefn. Nid oedd yn mentro ystyried cyfundrefnau Deunydd, ar wahân i grybwyll y lecsem (yr elfen ystyrol mewn gair o'i chyferbynnu â morffem), a'r Ideogenesis (yr esgoriad ar ystyr o'i gyferbynnu â Morffogenesis), a'r arwyddedig (i'w gyferbynnu ag arwydd). Felly, pan fyddwyf innau yn troi i ymdrin yn fwy manwl â Deunydd Llenyddiaeth a Diwinyddiaeth a deunyddiau neu gynnwys diwinyddol, gwiw imi godi rhybudd. Ac yr wyf am wneud hynny am foment drwy gyfeirio'n ôl drachefn at gyfrol ddistadl Pantycelyn, *Crocodil Afon yr Aiffi*.

Sut y defnyddiwn y term 'cyfundrefn deunydd' wrth drafod cyfrol ddigon cyffredin ond hynod ddiddorol fel hon? Mae yna gyfundrefnau'n drwch ym mhob man. Ond y maent yn isymwybodol ac o wahanol fathau.

Dyma gyfrol gynhwysfawr sy'n trafod yr egwyddor neu'r thema Anghymreig Cenfigen. Cynhwysfawr yw yn yr ystyr ei bod yn cychwyn cyn Amser. Dyry restr enghreifftiol sy'n olrhain yr un egwyddor neu thema mewn pobl a gweithredoedd. Dichon fod yna drefn

egwyddorol gyferbyniol-unol o fewn adeiladwaith Cenfigen ei hun fel ffenomen. Dichon fod yna berthynas gyfundrefnol rhwng yr egwyddor honno a'r Mynegiant ohono mewn enghreifftiau amseryddol. Ond thema yw: ar y mwyaf nid oes ar waith fawr ddim mwy na'r berthynas gyffredinol rhwng Tafod (sedd pob cyfundrefn gynhenid) a Mynegiant (ffrwyth pob cyfundrefn). Thema amrwd ac elfennaidd yw. Eto, ceir y Sffêr Moesoldeb, a'i chyfundrefnau, gyda da/drwg yn arweiniol. Fe'i gwreiddir mewn ymwybod o bechod gwreiddiol. Cyfundrefn thematig Mynegiant yw Cenfigen o fewn Deunydd Moesoldeb.

Agored ac amrywiol yw Mynegiant, ac nid yw cydnabod perthynas yn y strwythurau yno yn ddigon cymen-dynn i ffurfio themâu cyfundrefnus uniongyrchol Tafod. Heblaw'r Sffêr gyfundrefnol (sef iaith ei hun), a heblaw'r clymau neu'r dosbarthiadau o gyfundrefnau, nid yw cyfundrefnau thematig Dooeyweerd, fe ymddengys i mi, ond yn rhai cyferbyniol ddeuol neu driol cyffredin. Felly, er bod yna unoliaeth yn rhestr Sffêr Hanes, ac er bod yna, o fewn pob Sffêr Ddeunyddiol, Undod y canfyddir Amryw o'r tu mewn iddo, nid amlygir Cenfigen ei hun yn 'gyfundrefn' weithredol mewn Tafod. Is-thema yw i'r Gyfundrefn thematig arweiniol *da/drwg*, a hynny yn ôl delwedd neu sylwedd 'Cenfigen' (Sffêr Moeseg). Ac eto, yn enghreifftiol, mae ynddi holl dywyllwch y drwg, yn ôl tuedd gystadleuol: *uchel/isel*, gyda 'gostwng' yn gymhelliad neu'n chwenychiad.

Pan nesawn at fân themâu neu fotiffau unigol enghreifftiol yn y gyfrol *Crocodil Afon yr Aiffi*, yr ym mewn sefyllfa lai 'egwyddorol'. Gellid synied o bosib fod yna gyferbyniad cyn-amser/amser yn y ddwy enghraifft gyntaf a enwir gan Bantycelyn, sef Lwsiffer — Efa. Ond buan y canfyddir nad oes dim ar waith yma o ran ffurf onid rhestr cynrychiolwyr, olyniaeth ddiggyfundrefn bob un yn meddu ar liw gwahanol. Rhestr yw yn ôl cynllun sfferol, sef Hanes, ond mae yna elfen o'r chwiwus yn y dewis.

Eto, onid teg dweud bod gan Hanes yn y Beibl *gynllun*? Onid rhagluniaeth yw? Daeth llawer o haneswyr Beiblaidd i'r casgliad nad cylchol yw cynllun (neu blot) hanes y Beibl, eithr llinellol. Soniais eisoes am y cynllunwaith ysgerbydol moelaf:

Creu — Cwmp — Codiad.

Nid yr un yw'r diwedd â'r dechrau er gwaethaf yr elfen o adferiad. Codi wedi Cwmp yw. Hyn yw cefnlen pob cwmpo a phob codi Cristnogol. Nid yr un yw'r ddau ben.

O fewn y fframwaith hwn ceir rhestr luosol yn ddiau. Ceir Cwmp er enghraifft sydd mor ddigwyddiadol â marwolaeth ond sy'n treiddio drwy hanes fel proses. Ond y mae'r adeiladwaith mewnol i'r cynllunwaith yn gyferbyniol, hawdd ei ddal yn yr isymwybod, ac yn sythwelediad elfennaidd. Dyma'r plot a oedd yn gefndir i arolwg Pantycelyn ac i *Theomemphus* dyweder. Pentyrrol fynegiannol yw i bob golwg. Nid ymddengys dim namyn

olyniaeth rhestr enghreifftiol gan y *Crocodil*. Undod egwyddor/ lluosog enghreifftiol sydd yma. Eto yn y cynllunwaith Beiblaidd, sy'n fath o is-archgyfundrefn i'r Arfaeth, ceir cyfanrwydd o gyferbyniadau cyfundrefnol cyffredinol. Maent yn fynych drosiadol. Hanes dyrchafedig a gwerthusol yw'r Beibl, o ran Deunydd a Ffurf. Mae'n ymwneud â chyferbynnu egwyddorol o fewn Sffêr Moesoldeb a ddelir yn un symudiad. Pren mesur yw. Mae hyn yn awgrymu bod angen ceisio diffinio 'cyfundrefn' yn benodol, oherwydd yn y gwaelod y mae Pantycelyn bob amser yn meddwl o fewn fframwaith cyfundrefnol. Oherwydd y gefnlen gydlynol hon, troes Cenfigen yn y gyfrol hon yn fwystfil enbyd, yn Grocodil, a grwydrai drwy'r cenedlaethau (yn gysgod i Theomemphus). Ac oherwydd y dimensiwn hwn, troes cyfrol gyffredin i fod ychydig yn well na'r cyffredin.

Yn ddigon tebyg i achos yr ieithydd a'r theorïwr llenyddol wrth ddarganfod cyfundrefn, felly y dechreuai'r diwinydd cyfundrefnol William Williams yntau mewn corff ieithyddol (ymddangosiadol rydd) o Fynegiant ar ddeddf, ac yn ei achos ef wedi'i lywodraethu'n feddyliol thematig gan destun y Beibl. A cheir ar sail y dystiolaeth destunol honno, heb wyro ohoni'n oddrychol, weld yr hyn sydd y tu ôl iddi, ym mhob rhan, o fewn y darlun mawr, — y cydlyniad cyffredinol. Os bydd y casgliadau athrawiaethol a wna yn anghyson, yna y mae'r diwinydd yn mynd yn ôl at y testun i chwilio a oes modd canfod cyffredinoliad gwahanol neu fwy cynhwysfawr gyson, neu a oes rhaid iddo oddef a derbyn paradocs eto, sydd yn y Gair yn un a erys y tu hwnt i amgyffred rhesymegol gofod-ac-amser. Dyma'i fethodoleg — symud o'r enghreifftiol arbennig at y cyffredinol sylfaenol. Ac yn y *Crocodil*, er mai testun negyddol sydd yma, ceidw'n gyson y pegwn cyferbyniol yn ddiffiniol mewn golwg.

Wrth geisio diffinio term megis cyfundrefn, gwiw yw negyddu yn ogystal â chadarnhau. Cymerer er enghraifft *Natur/Gras*. Dyma ddeuoliaeth anghydryw yr wyf yn ei chrybwyll am ei bod yn cael tipyn o sylw gan ddeallusion Calfinaidd, yn arbennig wrth ddadlau'n erbyn Catholigiaeth. Gwyddom beth yw'r drafferth. Ceisir mewn modd seciwlar ddadlau ar y naill ochr fod Natur, a'i harglwydd arbennig hi Rheswm, yn gynhenid dda. Cyfundrefn yw, meddir, sy'n hunanlywodraethol yn ôl ei thelerau'i hun. Ond camgymeriad ym mryd y Calfinydd yw ei chyferbynnu â lefel Gras.

I'r Calfinydd y mae popeth o ras. Gras yw Natur. Duw yw'r Un penarglwydd, yr Absoliwt a'i awdurdod yn ddiffiniau. Un gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n trefnu'r cwbl: Ei Arfaeth Ef. Ond syrthiedig yw Natur oll. Dyma elfen o negyddu. Gwir, derbynnir Gras Cyffredinol gan bawb a phopeth yn ddihaeddiant. Felly mewn llenyddiaeth. Penarglwyddiaeth Duw sy'n pennu hynny. Ond ceir dwy ddeuoliaeth berthnasol y tu ôl i'r

Crocodil. Mae cenfigen yn ddynol naturiol (natur syrthiedig): mae iddi hefyd ddimensiwn uwch-ddynol (megis Gras Cyffredin). Mae'r naill a'r llall yn ystyrion gyferbyniol, ond yn arwyddocaol yn y bywyd ysbrydol, gan gydlynu wrth gyfundrefnau eraill i lunio undod: sef

Gras Cyffredinol / Gras Arbennig
Y Naturiol / Y Goruwchnaturiol

Absoliwt yr hunan/Absoliwt yr Arall

Wrth ei gosod o fewn fframwaith fel hyn, dyrchefir thema Cenfigen.

Yma, y mae'r cyferbyniad yn ddiffiniol ac yn gyson o ran fframwaith. O fewn y fframwaith hwn y deallwn y berthynas rhwng y Crëwr a'r Creedig, Absoliwt ac Arfaeth, Pechod ac Iachawdwriaeth. Gwrthodaf felly ystyried bod Natur/Gras (yr hen gyfundrefn Gatholig) yn gyfundrefnol gywir ac yn haeddu ystyriaeth ddifrif. (*Natur/Goruwchnatur* yw'r cyferbyniad cywir). Rhaid bod yn ofalus na chyfrifwn unrhywfath o ddeuawd o egwyddorion neu unrhyw driawd yn 'gyfundrefn'. Rhaid eu bod yn ddeuol neu'n driol unol, naill ai fel gwrthgyferbyniad sylfaenol neu fel olyniad anochel angenrheidiol ac yn cyflawni'r swyddogaethau ystyrol mewn un maes fel a grybwyllwyd uchod. Materion fel y rhain sy'n cynnal syndod Pantycelyn hyd yn oed mewn cyfrol gymharol wan.

Eto, pan fydd diwinyddion Calfinaidd cydnabyddedig fel Berkhof a Hodge yn sôn am 'Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol', mi dybiaf fod eu meddylfryd yn bur wahanol i'm meddylfryd i. Yr hyn sy'n bennaf mewn golwg ganddynt hwy yw bod popeth yn cydlynu'n drefnus ac eto'n rhestrol. Themâu sydd dan sylw. Ond cyfundrefnau goruwch-unol a welaf i wedi'u ffurfio'n hierarcaidd olrheiniadwy drwy Ddeunydd-Ffurf olynol crwn ac yn cydlynu drwy'i gilydd. Yr unig gyfundrefn ganolog ym mryd llawer o Galfiniaid cyfoes, fel arfer, mi gredaf, yw Trefn y Cadw: y Tri yn Undod sydd yn Nuw a'r cynllun mawr o iachawdwriaeth ganddo/ganddynt, yn ôl yr arfaeth ym meddwl y Penarglwydd ei hun o'r ethol hyd at ogoneddiad dyn yn y nefoedd. Dyna, yn fy nherminoleg i, enghreifftio 'cyfundrefn luosol' neu Gyd-gyfundrefn gynnol. Ond trefnus, cyfundrefnus ond mwy cymhleth yw nag un gyfundrefn, er mor ganolog yw honno. Yn ôl fy niffiniad a'm disgrifiad dadansoddol i o gyfundrefneg ddiwinyddol, gwiw gennyf yn hytrach sôn yn arbennig am lefelau o gyfundrefnau cydlynol, a phob lefel yn meddu ar natur ddeinamig wahanol, sylfaenol syml. Y mae'r cwbl yn dynn o fewn yr *Arfaeth gynhwysol* a threfn y Greadigaeth hierarcaidd, y Brif Gyfundrefn ymbarél, yn hierarcaidd fel cadwyn Bod, ie fel y Gadwyn Fwyd.

*

*

*

Mae Duw yn Benarglwydd ar Ffurf yn ogystal ag ar Ddeunydd. Drwy ymwybod â hynny'n unig y cydnabyddir cydlyniad a gwir gyfundrefneg Diwinyddiaeth gyfundrefnol.

Gwelaf hefyd dri *math* neu dri chyplysiad strwythurol o gyfundrefn. Megis yn gyntaf y llun *deuol* — er enghraifft, ffydd yn unol â gweithredoedd; gras cyffredin yn agored, a gras arbennig yn gaeedig; y ddeddf yn orfodol a gras yn rhydd. Ac yna'n ail, y llun *triol*, mewn olyniaeth benodol, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân; swyddogaethau Crist a'r Cristion — Proffwyd, Offeiriad, Brenin. Ac yn drydydd y llun *lluosol*, megis Y Wraiddgyfundrefn unigryw ac unffordd, sef yr Arfaeth, sy'n cynnwys amryfal archgyfundrefnau *unigol/lluosog* ac yn cyfuno cyd-gyfundrefn megis trefn yr achub, sy'n ymwneud â'r Archgyfundrefn gynhwysol fertigol *Duw/ dyn*; a'r Beibl sy'n ymwneud â'r Wraiddgyfundrefn lorwedd *Arfaeth*; megis hefyd yr *Eglwys* a'i *haelodau*; fel y *Beibl* a'i *lyfrau*. Mae'r Absoliwt ei hun wrth gwrs yn gynhwysfawr i'r tri math hyn: term yw sy'n disgrifio safle a nerth — megis yr Hollalluog.

I ba raddau y mae Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, felly, yn Ddiwinyddiaeth Feiblaidd?

Nid yw'n ddim arall: darganfyddiad yn y Beibl yw. Does dim cyfundrefn mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol onid yr hyn a ddatguddir yn y Beibl, o Genesis i Ddatguddiad.

A oes sail i rywun, boed yn Acwin neu'n Galfin, dros synied bod yna unrhyw fath o gyfundrefn amlygedig ffurfiol yn enghreifftiol egwyddorol yn y Beibl ei hun? Enghraifft dda o feddwl cyfundrefnol o'r fath wedi'i fapio mewn modd lluosol ac mewn cwlwm yw geiriau Paul yn Rhuf. 8, 29-30. Enghreifftiau sydd fel arfer yn y Beibl benbwygilydd wedi'u hadeiladu ar sail cyfundrefnau cadarnhaol a negyddol, cyferbyniol ac estynedig. Dyma'r sylfaen i feddwl Pantycelyn wrth iddo olrhain datblygiad ysgrythurol enaid Theomemphus mewn arwrgerdd, ac yn wir eneidiau saint y seiadau yn ei lyfrau rhyddiaith ac yn ei emynau. Ond dyma enghraifft ffurfiol wedi'i chyfundrefnu: '*Oherwydd cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu; a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef ymhlith pobl lawer. A'r rhai a ragordeiniodd, fe'u galwodd hefyd; a'r rhai a alwodd, fe'u cyfiawnhaodd hefyd; a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddodd hefyd.*' Math o gyfundrefn gronolegol estynedig yw hon: ceir elfennau deuol anochel (cyferbyniad neu ategol) o'i mewn; ond rhes luosol yw sy'n llunio undod. Taith. Dyna a elwir weithiau'n Drefn yr Achub (neu'r Cadw), y daeth Williams mor gyfarwydd â hi yn ystod y Diwygiadau. Dyna drefn 'Theomemphus'. Manylir weithiau ar yr elfennau yn y drefn hon, ond yr un yw'r gyfundrefn.

Nid 'cyfundrefneg' a roddodd Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol i Bantycelyn. Diau yr arswydai ef rhag y fath syniad. Yn hytrach, er ei waethaf, megis cyfundrefn gudd iaith ei hun, rhoddai Gras yn isymwybodol iddo ffordd gyfundrefnus hierarcaidd o ddeall bywyd. Cyfundrefn isymwybodol oedd y Creu i gyd. Roedd y cyfundrefnau yno o'r golwg. Eto, nid

sgrifennu athrawiaeth Gristnogol amdani a fynnai ef. Ond y fframwaith meddyliol cyfundrefnus yn y cefndir a ddysgai iddo wahaniaethu a chydlynu mewn cân. Rhoesant hyder ehangrwydd a bywydu ysbrydol effro iddo. Eraill a oedd wedi tanlinellu fframwaith cadarn y dysgeidiaethau; ac o fewn y canllawiau hyn yr oedd yn rhydd i byncio. Ond nid ei nod ef oedd eu cyflwyno nhw, eithr eu dathlu. Nid annheg fyddai casglu mai diben Pantycelyn yng ‘*Ngolwg ar Deyrnas Crist*’ a’i holl waith arall oedd ‘*dwyn i’r golau gynllun y dirgelwch a fu’n guddiedig ers oesoedd yn Nuw.*’ Darganfod cyfundrefnau a wneid fel arfer.

Sail, yn sicr, dros ganfod y cydlyniad rhwng yr hen Destament a’r Testament Newydd yw’r pwyslais a ddyry yr Arglwydd Iesu Grist ar y proffwydoliaethau amdano’i hun yn cael eu cyflawni, ac ar y Cyfamodau, y naill a’r llall a adleisir gan Bantycelyn. Nid yw hyn yn dweud nad yw cyfundrefnau ddim yn bod yn wrthrychol ym myd Natur megis mewn Diwinyddiaeth. Ond nid aeth awduron y Beibl ati i sgrifennu nac i ganu fawr am gyfundrefnau felly. At ei gilydd, ni bydd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Galfinaidd yn diffinio cyfundrefnau unigol; ond mae’n darganfod ac yn trafod hanes(ion) y Beibl a’r holl athrawiaeth Gristnogol fel pe baent yn gyfanwaith y gellir derbyn cydlyniad o’r tu mewn. Felly, yn y penawdau a rydd Pantycelyn i benodau *Golwg ar Deyrnas Crist*, gwelir ef yn ymddwyn yn gyfundrefnus mewn naratif.

Mae’r disgrifiad o gynllun y greadigaeth a geir gan Williams wedi cael ei ddisgrifio’n gryno fel ‘argument from design’ yn ddeheuig gan Dr Glyn Tegai Hughes; sef un o’r dadleuon a geir gan Acwin ac Anselm i ‘brofi’ bodolaeth Duw. Ond ni chredaf fod dim o’r fath gan Bantycelyn fel ‘argument’. Nid oedd dim angen arno ‘*brofi*’ bodolaeth Duw, yn sicr nid yn y ffordd yna. Dathlu trefn Duw a wnâi. Rhan oedd y cyfundrefnrwydd a ganfyddai o’r rhyfeddod a oedd yn tarddu o’r Creawdwr ac yn fwy byth o’r Gwarddwr y cyfarfu ag Ef ac a’i cynhyrfai i lawenydd. Edrychai ef (o safbwynt ‘profi’) o’r Crëwr at y cynllun, nid o’r cynllun at y Crëwr: ‘*y bwriad a arfaethodd yng Nghrist yng nghynllun cyflawniad yr amseroedd, sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist.*’ Mewn cyfarfyddiad a gweithred o’r fath y’i ‘profai’ Duw ei hun. Datguddiad oedd hyn, nid ‘argument’.

Mae’r pwynt hwn yn hanfodol bwysig i’w gofio, yn arbennig wrth arolygu’r hyn a ddigwyddodd i ddiwinyddiaeth Gristnogol yn yr ugeinfed ganrif. Yn ei fföedigaeth rhag y goruwchnaturiol ac yn sicr rhag awdurdod y Beibl, ceid tipyn o amrywiaeth mewn methodoleg, ond un nod. Yn yr hyn a geid gan Fethod Tomistig Mascall ac yn Neo-Naturiolaeth Wiemann, yn ogystal ag yn Neo-Uniongrededd dialechteg Brunner, yn ogystal eto ag yn y bwhwman a geid erbyn y diwedd gan Barth rhwng gosod dyn yn gyntaf, wedyn Duw yn gyntaf, ac yna dyn yn glanio’n gyntaf drachefn, fe gafwyd rhagarweiniad priodol ar

gyfer rhyddfrydiaeth awdurdodol fytholegol a ‘correlation’ Bultmann a Tillich a deyrnasai mor bwerus erbyn diwedd y ganrif.

Dyma fel y canodd Williams yn ddiamwys yn *Golwg ar Deyrnas Crist*:

GWWP I 8

*Ordeiniwyd yr holl drefen y[n] natur eang sydd,
Haf, gaeaf, gwres ac oerni, tymhorau, nos a dydd:
Byd cyflawn o fendithion, rhai mawrion bob yr un,
Fel palas hardd dieisiau i wir roesawu dyn ...*

26 *Efe yw pen pob trefen, a phob gweithredoedd ...
Pob dyn, pob angel yntho, eu lle, eu maint, a’u llun,
Sydd yn cyflawni diben gogoniant iddo ei hun.*

27 *Gras yn llifeirio allan o galon bur y Tad
I drefnu achub dynion o iechydwriaeth rad.*

Pan gyferbynna’r Beibl felly ‘ffydd a gweithredoedd’, ‘cyfiawnhad a sancteiddhad’, ‘deddf a gras’, ‘corff ac enaid’, ‘Tri yn Un’, ac yn y blaen, fe’i gwna nid yn unig am eu bod yn gymorth inni ddeall a dathlu bodolaeth, eithr oherwydd mai dyna’r gwir plaen am fodolaeth. Perthynant i’w gilydd yn ysbrydol drefnus. Dyma ‘amgyffred’ Duw, y deall a oedd yn gynhenid ac a argraffai Ef nid yn unig i mewn i’r Beibl, eithr i mewn i’w Greadigaeth hefyd. Deall oedd, a oedd yn hanfod o fewn y ffeithiau. Ar y naill law nid oedd dyn yn gallu amgyffred dim heb gyfundrefnau, sef heb weithredu’r dull gwahaniaethol-unol a oedd yn gynhenid yn ei feddwl; eithr eisoes yng ngwrthrych ei ddirnadaeth yr oedd Duw wedi plannu trefn neu ei hamlygu’n adeiladwaith a oedd yn gyfundrefnus. Yr oedd yn gwahuno am ei fod ef ei hun eisoes yn Wahuniaeth.

Dyna pam y gallodd Derec Llwyd Morgan yn ei astudiaeth bwysig *Y Diwygiad Mawr* oedi i arddangos yn helaeth drwy waith Pantycelyn beth yn union oedd y cysylltiad rhwng astudiaeth y Greadigaeth ac ‘astudio’ Duw. Dyna pam y mynnai Pantycelyn yntau mewn amryfal lyfrau megis *Pantheologia* a *Golwg ar Deyrnas Crist* dreulio cymaint o’i ofod yn manylu ar faterion a ystyrid yn ‘seciwlar’ megis bioleg a seryddiaeth a daearyddiaeth, neu goelgrefydd. Byddai llawer o’r hen ryddfrydwyr fel y pietistiaid o hyd yn achwyn wrth glywed am Gristnogion a oedd am weld eu cred yn gysylltiedig â bywyd i gyd a’r greadigaeth i gyd. Ond yn ôl yr olwg ddiwygiedig Galfinaidd, Penarglwydd yw Duw; ac er bod i bob cylch o ddiddordeb ar y ddaear ei ffurf a’i chyfundrefn ‘hunanlywodraethol’ ei hun, y maent oll yn gyfannau darostyngedig i Frenin yr hollfyd. Byddai’n chwithig fel arall.

Ffordd yw cyfundrefneg o ganfod a dadansoddi y drefn gyffredinol sydd eisoes ar gael mewn gwrthrychau, hyd yn oed rai syrthiedig, gan arddangos y berthynas sydd rhwng y rhannau a'r cyfannau. Yn gyfundrefnau y dewisodd Duw lunio popeth yn y bydysawd mewn Gras Cyffredin a Gras Arbennig. A rhoddodd i ni'r gallu i feddwl, yn y Gwyddorau a'r Celfyddydau ac yn ein bywyd bob dydd drwy bwysu ar gyfundrefnau. Dangosodd y Ffordd.

* * *

Beth sy'n ysgogi cyfundrefn felly? Beth sy'n mynnu'r ffrwydrad trefnus?

Yn un peth, amryw ydyw sy'n cydlynu'n uned gynnil bwrpaslon, naill ai'n gyferbyniol neu'n gadarnhaol, yn y gwrthrychol ac yn y goddrychol. Rhan yw o'r ysfaf am uno ac am ffrwythlondeb. Drych yw i un o arweddau cariadus Duw. Felly y meistrolir ystyr. Bydd y sawl sydd bellach yn gyfarwydd â'r tri gweithgaredd a fabwysiadwyd eisoes mewn Beirniadaeth Gyfansawdd wrth drafod cyfundrefnau iaith a llên yn gwybod am ei methodoleg driphlyg: Gwahuno, Amlhau, Cyffredinoli. Yr ydym yn dechrau ymgynefino â'r gyntaf:

1. *Gwahuno*: ar gyfer deall a llunio iaith a llên, rhaid gwahanu neu gyferbynnu delwedd neu egwyddor, ac yna sylwi ar undod (tebygrwydd, cysoni, ailadrodd, estyn). Dyma'r ffordd yr hunaniaethir bod ac elfen. Gellid dosbarthu cyfundrefnau cyfiawnhad a sancteiddhad fel y maent yn estyn ei gilydd, ond yn cyferbynnu fel digwyddiad / proses. Yr offeryn neu'r method canolog o ddadansoddi yw gwahuno, sylfaen deall. [e.e. *Genesis* 1: 4-25]

Ar y graig ffeithiol o 'wahuno' y difrodir arbrawf Ôl-foderniaeth. Hynny yw, profodd 'gwahanu' heb 'uno' yn offeryn amhosibl ar gyfer meddwl. Methu a wna dogma lluosedd (*pluralism*) ar gyfer trafod iaith yn effeithiol. Mae yna ragdyb o gyfundrefn sy'n tanseilio'r tanseiliad, drwy roi sail dani ymlaen llaw. Ac yn hyn o broses, derbynnir lluosrwydd (*plurality*) a gwrthodir lluosedd (*pluralism*).

2. Mewn iaith, y mae pob undod o'r fath yn gynnil, er iddo gael ei gyfeirio tuag at *Amllder*. Ffrwythlonir cyfeiriad yr egwyddor o undod drwy gydlynu grwpiau deuol (natur Crist), triol (natur Duw), ac yn lluosol hierarcaidd. Hynny yw, ceir elfennau y gellir eu dal yn y meddwl yn sythwelediadol gyfun, ac ymateb iddynt yn ddelweddaidd, yn gyferbyniol sydyn, ond y gellir eu cyfrif o dan yr un ymbarél eang: e.e. tri pherson y rhagenw, tri safbwynt storïol; ac mewn diwinyddiaeth — tri cham efengylu: dysgeidiaeth, profiad, ymarfer — lle y mae'r ddau gyntaf yn cyfathrachu mewn ffydd i esgor ar weithredoedd (ymarfer). Sylfaen eu mwynhau yw amrywiaeth.

3. Ffenomen gyffredin yw a rennir rhwng pobl a'i gilydd. Mae yn dy ben di: mae yn fy mhen i. Mae yn Ei feddwl Ef. Bydd y broses hon yn ddadansoddiad lle y mae'r geiriau

(termau) a glymir wrth ryw arwyddedigion yn cael eu cyfrannu gan feddwl cyffredin y bobl, ac yn mynd drwy broses o gysylltu'r arbennig â'r cyffredinol. Mae'n uno'r bobl. Mae'r adeiladwaith sydd yn fy meddwl i, cyn llefaru, eisoes yn eich meddwl chwi. *Gras Cyffredin* yw ffurf yr hierarci. *Gras Arbennig* yw'r gweithredu deunyddiol cadarnhaol i Gristion o fewn yr hierarci honno.

Tebyg i gyfundrefnau iaith a llên yw cyfundrefnau syniadol Pantycelyn, felly, ar lawer cyfrif. Ond wrth droi fwyfwy o gyfeiriad Ffurf tua chyfeiriad Deunydd, deun i bwysleisiau newydd yn y themâu. Yn amlycach na'r cyferbyniadau isymwybodol cynieithyddol (archgyfundrefnau) sy'n ymwneud yn bennaf â Deunydd mewn gofod — fel *absennol/presennol*, *dibynnu/cynnal* disgyrchiannol, *gweledig/anweledig*, *tri dimensiwn gofod*, — fe geir mewn diwinyddiaeth fwy o themâu cyferbyniol moesol ac ysbrydol megis *da/drwg*, *hardd/hyll*, a.y.b., cyferbyniadau'r ysbryd. Mae hyn yn wir am gyfundrefnau deunydd llenyddol yn gyffredinol. Cyplysir yn y fan hon eto egwyddor neu ogwyddiadau neu ffenomenau sy'n sylfaenol syml. Y mae a wnelom â deinameg materion ysbrydol elfennaidd hanfodol megis *achos ac effaith*, *ffydd/gweithredoedd*. Elfennau cyffredinol a chyffredin eu dealltwriaeth fyddant, parhaol eu gwerth a'u bodolaeth. Gellir canfod eu perthynas yn rhwydd, ac y mae a wnelont â pherthynas achosol, estynnol, neu gyferbyniol.

Mewn cyfrolau eraill sy'n sôn am gyfundrefnau (gw. *Beirniadaeth Gyfansawdd*), bûm yn trafod y rhai deul a'r rhai triol yn benodol. Perthynas fewnol gyfundrefnol sydd iddynt. Ond yn y gyfrol hon, gan ddilyn arweiniad Pantycelyn, yr wyf yn cyflwyno hefyd fath arall (neu ddatblygiad yn hytrach) a grybwyllais o'r blaen o bryd i'w gilydd, eithr nas trafodais yn ddigon manwl, sef yr hyn a alwaf bellach yn gyfundrefnau lluosol hierarcaidd. Ceir perthynas rhwng yr undod ynddynt a'r lefelau lluosol gyfundrefnol. Mae prif lefelau'r hierarci yn cynnwys y rhain: 'Gwraiddgyfundrefn' i'r amllder, Gair/Geirfa, Archgyfundrefnau amodol, Sfferau Deunydd Cyfundrefnol, a Chyfundrefnau Thematig Cyffredin, a'r rheini'n lefelau mewn hierarci. Dyma dermau angenrheidiol mwyach, gredaf i, wrth ddisgrifio Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. Nid yw 'Gwraiddgyfundrefn' namyn enw ar un wedd ar y maes creedig cyfan, y cyfeirbwynt, lefel yr Arfaeth — Rhagluniaeth; ac 'Archgyfundrefn' yn cyfeirio at swyddogaeth strwythurol; a Sffêr oruwchgynhwysfawr yn cyfeirio at 'Ddeunyddiau' penodol. Erys y rhai olaf mewn Tafod lle y clymir cyfundrefnau pynciol gweithredol mewn Themâu. O fewn y Sffêr o gyfundrefnau sy'n grwpio gyda'i gilydd, y mae yna glymau, neu gyd-gyfundrefnau Deunydd thematig ar waith.

Gwiw ein hatgoffa'n hunain, er bod llenorion seciwlar yn llai ymwybodol na Phantycelyn o'r math o gydlyniad hwn sydd ar waith, fod themâu a hyd yn oed cymeriadaeth

bob amser yn tueddu i weithio o fewn trefn ddigon cyffelyb. Gras yw'r drefn hon hyd yn oed i Shakespeare. O safbwynt llenyddiaeth seciwlar, mae cyfundrefneg hyd yn oed llenor arch-niwtral megis Shakespeare (dyweder) yn dal yn ganolog, ac yn bur amlwg yn ei ddramâu mwyaf. Mae'r gwerthoedd moesol yn anochel bresennol. Mae peth gwirionedd wrth gwrs yn y cyhuddiad *nad* oedd pwrpas moesol ganddo a waeddai 'wele fi'. Gallai'i gynllwyniau fod yn 'llac', ac mae'i anwybyddiad o'r 'undodau' yn ymddangosiadol 'flêr'. 'Difoes yw,' meddan nhw. Ond cymerer y trasiedïau rhwng *Hamlet* ymlaen drwy *Othello*, *Macbeth*, *Y Brenin Llŷr*, *Timon o Athen*, hyd at *Coriolanus*. Yr hyn sy'n thema ganolog i athroniaeth a symudiad dramatig y dramâu hyn oll yw'r trais ar drefn. Trefnusrwydd a harmoni yw priod nodweddion strwythur y byd a bywyd. Apêl at drefn foesol Gras Cyffredinol sy ganddo bob amser ym mryd Shakespeare (eithriad hynod yw Gras Arbennig Soned CXLVI). Maent i'w gweld ganddo yn y sêr a'r planedau, mewn môr ac ar dir, ym mherthynas anifeiliaid a dyn, a thrwy holl adeiladwaith y gymdeithas. Ond ar dro, dryllir hyn. Torrir perthynas ddeallol rhwng gŵr a gwraig, plant a rhieni, brenin a'i bobl. Caos a ddisgrifir ym mhobman. Naid trasiedi arnynt. Yn *Hamlet* ceir llofruddiaeth o'r fwyaf 'annaturiol', a dyma un o eiriau allweddol *Macbeth*. Mae'r dryllio teimladol hwn yn gymaint rhan o'r drefn â'r drefn ei hun.

Ac nid annhebyg o gwbl yw'r drasiedi a baentir yng Nghilmeri gan Ruffudd ab yr Ynad Coch. Nid arwynebol a naïf yw'r syniad am 'annaturioldeb' pechod. Ac y mae elfen o 'Fair is foul, and foul is fair' ger Llanfair ym Muallt lle y bwrir gwerthoedd yn bendramwnwgl, sy'n greiddiol i symudiad y dramâu, ac eto yn yr awrgerdd hon. Cawn argraff fod cefndir addysgol Aristoteles ac Acwin yn ymddatod yma. Meddai Donne, yn ôl-fodernaidd braf, 'Tis all in pieces, all coherence gone,' peth na ellid ei ddweud heb ryw deimlad ac ymwybod dwys â 'coherence'.

(iv) METHODOLEG YR ASTUDIAETH HON

Sut yr âi Pantycelyn ati i fyfyrio am Amrywiaeth o fewn Undod bywyd? Sut y dadansoddai ac y dosbarthai ef y Greadigaeth ryfedd y ganwyd ef iddi? Fel gwyddonydd, yn y dewis rhwng y damweiniol a'r dyluniol, safai gyda'r disgwyliad o ddeddf ymhobman.

Yr oedd Pantycelyn yn ymwybodol o'i ragdybiau a'i sythweliadau fel Cristion. Sylweddolai fod ganddo (yn wir, gan bawb) Absoliwt. Yr oedd yna Sgêm neu Gynllun amlwg gan Hwnnw, a gellid dod o hyd i rywfaent o'i hanfodion drwy ddibynnu arno. Yr oedd yna Achosydd a Chynheilydd a Symudydd esboniadol yn y pen draw y tu ôl i bob effaith. Gwnaethpwyd pob dim ar sail Cyfundrefneg wrthrychol. Ac yr oedd meddwl Pantycelyn yn ddigon gostyngedig bellach i gydnabod nad ei reswm a'i synhwyrâu personol ei hun oedd y sylfaen i'r sylweddoliad hwn. Yr oedd hyn oll *yno* yn ddiriaethol o'i flaen mewn modd y tu hwnt i gyfyngiadau pitw'r meddwl dynol, cyn iddo ef fod, ac wedi iddo farw. Yr oedd yn real.

Ond credai hefyd heblaw'i fywyd corfforol, fod yna botensial ysbrydol i bob dyn. Lluniwyd dyn yn gyfundrefnol ddeuol, yn gorfforol ac yn ysbrydol. Ac yr oedd yr Absoliwt hwn neu'r achosydd hwn nid yn unig yn **bod** y tu allan iddo; ond gallai ysbryd dyn, o'i ddihuno a'i fywhau, fod yn effro i Hwn, megis i 'bethau', yn wir yn fwy felly. Gan fod Hwn yn real ac yn ymwneud yn bersonol â'i Greadigaeth ac â dyn, yr oedd yna bosibilrwydd i Hwn ymgysylltu â'i greadur Ef ei hun, a byddai dyn yn effro yn ysbrydol yn ogystal ag yn feddyliol, pe na wnâi ond un peth.

Heblaw disgyrchiant corfforol, caed disgyrchiant ysbrydol. O'i geisio o ddifrif, câi dyn brofi deffroad ysbrydol, megis bywhad corfforol. Gallai ysbryd y creadur roi'i bwysau mewn man newydd. Yn lle'r hunan balch a bodlon, câi ganolbwynt disgyrchiant i ddibynnu arno, a bywyd newydd. Yn y galon, tyfai'r hyfrydwch o adnabod ac o gredu beunydd. Ymagorai'r ysbryd fwyfwy; a gwnâi ddarganfyddiadau. Yr oedd y Cynllun neu'r Sgêm a ddatguddid yn fwy cynhwysol na'r materol a'r corfforol. A magai'r creadur fwyfwy y gallu i amgyffred hyn. Yn wir, yr oedd y berthynas hon yn ddwyochrog. Caru oedd hyn gan un i Un. Ac yr oedd yr Un a'i deffroesai Ef bellach yn ei oleuo fwyfwy drwy berthynas. Profai mewn ffydd ddisgyrchiant ysbrydol, megis rhwng yr Haul a'i blanedau.

Dim ond pwnio'r drws. Fe brofodd hyn.

Gan fod y greadigaeth oll yn gyfundrefnol, mae'n bwysig i'r sawl sy'n chwilio'r cynllun hwnnw fod yn glir beth yw nodweddion 'cyfundrefn' fel y cyfryw, nid yn unig yn ysbrydol ond yn feddyliol faterol hefyd. Nid trafod yr wyf yn awr sut y mae rhywun yn dod i gredu, na sut y mae Duw yn gwaredu dyn rhag anghrediniaeth. Ond sut yn union y gellir deall y math o

gyfundrefnau sydd yn y Ffydd Gristnogol hyd yn oed o'r tu allan iddi? Beth yw natur y cyfundrefnu sy'n adeiladu syniadaeth bardd fel Pantycelyn am y Gwirionedd? Canys mewn trefn y ceir y berthynas.

A beth yn wir sydd a wnelo hyn â'r llenor seciwlar?

Sylwn ar yr angenrheidiau. Cymerir yn ganiataol fod yna mewn 'geiriau' Wirionedd. O ran rhagdyb, dibynnir yn ostyngedig ar eu hystyr. Wedyn ceir Trefn i bawb, i fyw ynddi. Y mae'r pethau hyn yn wrthrychol, ac ar gael ar gyfer pawb, y tu allan i ni. Wedyn, y tu mewn i ni, sylwn ar yr Offer a ddefnyddiwn ar gyfer sythweled, darganfod a dadansoddi'r rhain, yr offer deall. Drachefn, ymwybyddwn ag adeiladwaith, a hwnnw ar ffurf wrthrychol a goddrychol, y 'gyfundrefn'. Defnyddir yr offer hyn oll i ddadansoddi a dosbarthu Deunyddiau. Ceir cysylltiad rhwng y gweledig a'r anweledig.

Wrth iddo'i gyfyngu'i hun i Forffogenesis (yr esgoriad ar Ffurfiant mewn Gramadeg ieithyddol), fe ddefnyddiodd Gustave Guillaume rai cyferbyniadau sythweliadol wrth ddadansoddi, pethau megis *arbenigoli/cyffredinoli, un/llawer, presennol/absennol* a.y.b.. Ond sythwelediadau cynieithyddol oedd y rhain yn eu hanfod. Perthynent i ddeall allieithyddol. Ni wahanodd Guillaume rhyngddynt hwy a Thafod yr iaith wedyn. Nid manylu arnynt yn benodol chwaith a wnâi fel maes arbennig a nodedig. Fe'u defnyddiodd yn sythweliadol wrth amlinellu strwythur a deinameg Ffurfiau iaith.

Dyma, sut bynnag, offer y baban wrth ddeall y bydysawd i gyd. Ac felly, nis cyfyngir hwy i iaith nac i un iaith yn unig. Am y rheswm hwnnw yr wyf am eu carfanu gyda'i gilydd. Dyna'r offer a ddefnyddiaw ar gyfer dadansoddi Ideogenesis (sef yr esgoriad ar Ystyr mewn Tafod neu Ramadeg ieithyddol). Fe'u galwaf yn Gyn-dafod am eu yn bod ar wahân i Dafod, er eu bod ar gyfer darganfod a ffurfio Tafod wedyn. Hwy yw'r Archgyfundrefnau. Mae'n lefel o gyfundrefnu unigryw. Hwy yw Cyfrinach Fawr y gyfrol hon.

Wedi cydnabod Cyfundrefneg y bydysawd, nid cam mawr i Gristnogion meddylgar oedd ymsynied tybed a gaed yr un math o gyfundrefnu cyffredinol yn y byd ysbrydol ag yn y byd materol. Hynny yn wir a ddarganfu'r Diwinyddion Cyfundrefnol drwy'r canrifoedd, i raddau.

Nod y gyfrol hon yn y pen draw yw disgrifio a dadansoddi adeiladwaith ffurf Deunydd thematig Barddoniaeth Pantycelyn. Penderfynir natur peth felly, i raddau, gan y nod ei hun. Mawl i Iesu Grist oedd amcan bywyd a gwaith William Williams Pantycelyn, wrth gwrs. Fe'i ceir yn ddiymddiheurad uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy gydol ei farddoniaeth a'i ryddiaith. A chrefydd felly yw ei faes ef, bron yn gyson.

Felly, saif ef yn nhraddodiad Mawl Cymru, ond mai un Tywysog bythol yn arbennig, un Bydeang (ac ehangach) oedd ei destun ef.

Sylwir bellach, a sylwodd Pantycelyn yn ei amser ei hun fod yna eisoes, yn Neunydd neu Gynnwys bywyd a gwaith Hwnnw, drefn. Darganfyddiad syfrdan oedd hyn iddo. Hynny yw, canfyddai wahanol syniadau yn ei feddwl i gyd yn cydlynu ac yn cydstrwythuro, yn Undod adeiladwaith mawr diwnïad, yn y testun y myfyriai amdano, bywyd a gwaith Crist. Gwyddai ef drwy'r Piwritaniaid a Chalfin fod ar gael yn gyd-doddedig yn y Beibl yr hyn a elwid yn 'ddiwinyddiaeth gyfundrefnol' gydlynol. A seiliodd ei feddwl oll ar y cynllun neu'r patrwm cyfan hwnnw. Wedi iddo ddod yn Gristion, canfyddai fod yna drefn gynhwysol yno eisoes yn disgwyl amdano, yn barod felly. Iddo ef yr oedd y cynllun hwnnw ei hun yn wrthrychol ryfedd. Trefnusrwydd rhyfeddol a dihybyddol y greadigaeth oedd, a threfnusrwydd anochel y ddealltwriaeth am ragluniaeth, am natur dyn a'i angen ac atebion Duw — pethau a gyflwynwyd iddo, yn y Beibl, ac a ddôï'n amlycach fyw yn ystod yr oleuedigaeth Fethodistaidd. Wedyn, caed trefnusrwydd yr adnabyddiaeth waredigol yn bersonol rhag angau. Dyma wedd ganolog ar feddwl Duw a haeddai glod ganddo ef, ac a'i synnai ef yn ddisgybl gyda'i gefndir gwyddonol. Ond yr oedd yna Gyfundrefn o gyfundrefnau, a ganfyddai ef yn isymwybodol o bosib, ac yn sylfaen dreiddgar a phellgyrhaeddol hefyd wrth egluro a chadarnhau'i ddealltwriaeth o fywyd yn gyffredinol. Roedd hyn yn codi'i chwilfrydedd. Ac os oedd yn isymwybodol yn y canfyddiad, fe'i ceid yn ymwybodol yn ei Fyngiant. Hyn a ddysgir gan Bantycelyn.

Y peth mwyaf mentrus a wnaif yn y gyfrol hon yw awgrymu, am mai Gras Cyffredin sy'n darparu'r Gyfundrefn o gyfundrefnau oll, fod darganfod adeiladwaith Deunydd meddwl Pantycelyn yn golygu darganfod hefyd adeiladwaith Deunydd pob llenyddiaeth.

Gwahuno, fel y gwelsom, ac y gwelwn eto maes o law yn Archgyfundrefn 3, yw'r dechneg arferol (neu'r gyfundrefn) ar gyfer pob amgyffrediad, — *sef canfod gwahaniaethau, a sylweddoli gyda hynny gysondeb neu undod sefydlog neu nodweddion cyffredinol ffurfiol o fewn y ffenomenau hynny a ganfyddir. Gwelir rhai pethau neu syniadau neu themâu sy'n mynd gyda'i gilydd yn glymau deuol neu'n glymau triol neu'n ddosbarthiadau helaethach. Ffurfiant gyfundrefnau felly.* Byddant yn ddeuol mewn dwy ffordd yn bennaf, ond yn undod yr un pryd. Yn gyntaf, yn negyddol — gwahaniaethu'n benodol ar y pryd megis: *goleuni/tywyllwch; colledig/cadwedig.* Yn ail, yn gadarnhaol, neu'n estynnol, neu'n atgyfnerthol: *cyfiawnhad/sancteiddhad; ffydd/gweithredoedd.* Yn fynych, felly, yn y clymau hyn, bob un yn haniaethol fewnol, y maent yn ymwneud â'r un 'maes' pynciol ymarferol. Gellir dirnad olyniaeth ddatblygol a deinamig adeileddol neu ddadadeiladol rhwng un elfen yn gyntaf a'r llall. Dôï Pantycelyn i ddirnad yr olyniaeth hon oll.

Yn wir, gwyddai fod patrymau'r cyferbyniadau hyn yn syniadol neu'n seiniol (y cyferbyniad a'r estyniad) yn wedd ar Gerdd Fynegiant yn y Gymraeg ac ar Gerdd Dafod yr Hebraeg: *negyddu/cadarnhau*.

Ystyriwn yn helaethach nag o'r blaen rai cyfundrefnau ffurfiol arbennig, y'u galwn hwy'n 'archgyfundrefnau'. *Dyma ffurfiau — megis gwahuno — y mae pob un o'r cyfundrefnau eraill yn tarddu ohonynt neu'n cael eu hamodi ganddynt*. Dyma ein hoffer sythweled a dadansoddi. Ceisir ystyried y rhai cynhwysfawr hyn yn gyntaf, cyn sôn am y lleill. Ceisir nodi'u presenoldeb yn y Beibl, neu yn yr iaith, yn ogystal ag yng ngwaith Williams. Ni ellir bid siŵr ystyried pob un gyfundrefn ddeunyddiol gyffredin sydd ar gael ym mynegiant a themâu Williams. Ni fwriedir manylu namyn ar rai cyfundrefnau dethol yn hyn o astudiaeth, (y pwysicaf gobeithio), er mwyn *enghreifftio* y math o ystyriaethau a'r dull o ymagweddu sydd ar waith yng ngwth meddyliol Pantycelyn ar gyfer pob un o'r cyfundrefnau, ac sy'n arwain at themâu amryfal. Yr un pryd, ceisir cyfleu mewn modd anorffen sut y mae'r cyfundrefnau thematig oll yn cydlynu'n grwpiau cyd-gyfundrefnol yn hierarcaidd gyda'i gilydd. Ac am yr archgyfundrefnau ffurfiannol llywodraethol, felly, ceisiaf drafod un ar ddeg o'r rheini: materion sy'n bresennol ymhob llenyddiaeth.

Ychwanegir sylw negyddol ynghylch peryglon Cyfundrefneg o safbwynt yr efengyl Gristnogol, nid (brysiat i'w ddweud) am y rhesymau Rhamantaidd nac Ôl-fodernaidd arferol, eithr am y rhesymau sydd gan Bantycelyn ei hun, yn enwedig ar lun Schematicus. Thema ganddo ef ei hun yw'r wylidwriaeth o beryglon 'cyfundrefn' (megis gan Acwin yntau). Fel popeth arall, gall peth felly, er gwired y bo, gael ei ddefnyddio mewn modd llygredig.

*

*

*

Yr hyn yr wyf yn ceisio'i ddarganfod yw beth yw *adeiladwaith y weithred lenyddol oll o safbwynt Deunydd neu gynnwys (nid ffurf) y gwaith*, a hynny gan unrhyw lenor. Cymerwn un bardd diriaethol a phenodol, gan gadw'n llygaid ar hyd y ffordd ar enghreifftiau llenyddol pendant yn ei waith. Ac felly y ceisiwn sylweddoli pa weddau ar ei ymennydd ef sy'n cyfeirio'i feddyliau tuag at esgor ar ddeunydd llenyddiaeth.

Mae yn cyflawni yr hyn a alwn yn 'weithred lenyddol'. Yn ei ymennydd ymlaen llaw, y mae'r iaith a'r strwythurwaith deallol yno'n barod i wneud y gwaith. Ceisiwn ystyried beth yw'r fframwaith meddyliol hwnnw sy'n angenrheidiol iddo. *Beth sy'n digwydd yn sydynrwydd ei ymennydd?* Mae yn olyniaeth drwy lefelau.

Bydd rhai darllenwyr yn gyfarwydd â'r ffaith fy mod yn credu fod y byd i gyd wedi'i adeiladu drwy gyfundrefnau. Dyna'r ffordd hefyd y ceisiaf ddisgrifio adeiladwaith meddwl Pantycelyn. Ond af ymhellach na hynny. Ceisiaf ddisgrifio'i feddwl fel Cyfundrefn

gydblethol o gyfundrefnau, a honnaf fod Pantycelyn ei hun yn ymwybodol o raddau o drefn gyfun yn y cwbl. Ceir undod i hyn oll oherwydd gorfodaeth yr Absoliwt, ac olyniaeth.

Yn symudiad cyntaf y gwaith, archwiliaf yr offer elfennol sy'n ffurfio'r cyfundrefnau hyn, allan o'r Absoliwt. Fe'u galwaf yn *Archgyfundrefnau* — megis gwahuno. Maent yn gynhenid, ac yn sythweliadau elfennaidd cynieithyddol. Dyna Ramadeg Cynieithyddol, felly. Paratoir ynddynt offer adeiladu iaith. Hwyl yw'r Ffurfiâu sy'n barod ar gyfer tafod Deunyddiau.

Yr ail symudiad yw archwilio'r Deunydd ei hun ac arbenigoli. Yn wir, y *Deunyddiau*, sy'n cael eu cyflwyno, a ffurfir yn categorïau yn y meddwl drwy'r Archgyfundrefnau. Torrir y cyfanrwydd yn drafodadwy. Y rhain — megis Moeseg — sy'n cyd-wneuthur y meysydd gwahanol mewn sylweddau. Y mae'r rheini oll hefyd yn cael eu cyflyru neu'u hamodi a'u dosbarthu drwy'r Archgyfundrefnau ffurfiol sefydlog. Ond lle y bu'r Archgyfundrefnau ffurfiol yn orfodol bob amser ar bob achlysur, y mae'r Sfferau Deunyddiol gwahanol oll yn awr yn ddewisol i berson yn ôl y diddordeb ar y pryd. Er eu cydlyniad, mae gan y prif ddeunyddiau hyn eu meysydd cynhwysol 'gwahân', a'u natur ddeddfol eu hun bob un. Cawn eu dewis yn ôl ein diddordeb neu'n hanghenion achlysurol gan mwyaf. Y maent oll yn hunanlywodraethol o ran eu deddfau diffiniol eu hunain, eithr yn dod o dan gyd-reolaeth yr Absoliwt. Ond y maent oll yn cyd-fod.

Dosberthir y Deunyddiau yn weddol gytûn yn Nhafod iaith y gymuned. Ond mewn Mynegiant, cymhwysir Tafod i fod yn offer neu'n strwythurau manwl atebol i fyrdd o sefyllfaoedd cyfnewidiol: *Themâu* a Deunyddiau gwahân, ar waith mewn amser. Ceir gwahanol ddulliau o drafod Deunyddiau 'yn rhydd' o fewn yr un Iaith, sef strwythur Mynegiant. Ond er bod pob Mynegiant yn wahanol, cymharol sefydlog yw tebygrwydd pob Tafod, hyd yn oed y Sfferau Deunydd. Un wedd ar y diffiniad o Dafod cyffredinol yw bod y strwythurwaith hwnnw, yn fy meddwl i, fwy neu lai yr un fath â'r strwythurwaith ym meddwl y rhai eraill sy'n medru'r iaith. Cytunir mewn Tafod. Gwahenir mewn Mynegiant.

Gwir bod y Tafod, o'i gyd-ddefnyddio, yn strwythurwaith sy'n gorfod tueddu tuag at gysondeb. Ond nid yw'r term 'Ceidwadol' ar gyfer Tafod, na 'Rhyddfrydol' ar gyfer Mynegiant ond yn sylw anefnyddiol am ogwydd y gwahanol amser sydd i adeiladu'r naill a'r llall gan fod Tafod yn araf newid o hyd ond Mynegiant bythol newydd yn plygu rywfaint i reidrwydd cyson Tafod.

Beth sy'n digwydd felly? Ar ôl gwahaniaethu, canfyddir ailadrodd ffenomenaidd. Bydd y sylwebydd yn myfyrio ar ffaith y *cyffredinol* drwy geisio cyswllt o egwyddor. Yna,

rhoddir prawf ar y ffeithiau esboniol hyn drwy'u canfod ar waith mewn amgylchiadau newydd.

Dechreuir yr holl broses (sef yr Arfaeth) gyda rhagdyb gydlynol a diosgoi yr Absoliwt. Nid yw seciwlaryr yn hapus gyda hyn. Hiraethir am newid. Ond ceisir esbonio sut yn isymwybodol ym mhrofiad seciwlaryr hwythau fel arfer, y mae hyn — ar ryw ffurf neu'i gilydd, — yn anorfod i bawb.

Yna, ceisir dangos pa briodoleddau gan yr Absoliwt sy'n gorfod cyfrannu at wneuthuriad y gyfundrefn, pob cyfundrefn. Er nad yw Pantycelyn, wrth gwrs, yn ymwybodol mai'r cyferbyniadau clymog hyn yw'r offer sy'n cyfrannu at adeiladwaith ei feddwl i lunio cyfundrefnau, gŵyr yn ei esgyrn ei fod yn darganfod sgêm. Mae'n gwybod hefyd fod y ffactorau elfennaidd, sythwelediadol a enwir yma — megis *Un/amryw*, *Anweledig/gweledig*, *dibyniaeth/cynhaliaeth*, yn ffeithiau pwysig sy'n ymwneud â chymeriad Duw yn ei berthynas â'r Greadigaeth ac â dyn, ac ar y llaw arall â 'gramadeg' y weithred lenyddol i Bantycelyn. A dywed hynny. Priodoleddau dwyfol a fynegir yn yr Archgyfundrefnau.

Ceir camddealltwriaeth fynych ynghylch y cwlwm hwn o gyfundrefnau ffurfiol cytûn sy'n adeiladu Tafod (*langue*). Nid unrhyw fecanwaith cudd y tu ôl i eiriau neu wrthrychau yw. Gall hynny fod yn 'strwythur'. Dyna sut y cam-fynnir sôn am 'Dafodau' gan rai unigolion. Tafod yw'r mecanwaith cyflawn sy'n gyffredin i unigolion ond yn eu huno. Nid yr un Mynegiant sydd ganddynt (ac y mae hynny'n cynnwys amryfal strwythurau); ond yr un Tafod fwy neu lai (o fewn un iaith), a hynny sy'n caniatáu cyd-ddealltwriaeth.

Roedd Williams yn sylwi bod Deunyddiau amryfal yn wedd allweddol ar wneuthuriad y Greadigaeth, bob un yn ôl ei natur ddosbarthol ei hun (ei Sffêr). Ac yr oedd ganddo ddiddordeb byw a brwd mewn amryw feysydd academiaidd a naturiol. Defnyddiai'r offer meddyliol academiaidd hyn, a'i gynneddf ddadansoddi (gwahuno), i garfanu'r rhain a'u harolygu'n ddeallol. Rhyfeddai at eu cywreinder a'u hanferthedd.

Ond ceisio dadlau yr wyf fod yr Hierarci olynol a amlinellir yn yr astudiaeth hon yn olyniaeth anochel unol yn y gwaith meddyliol. Yn y weithred lenyddol, hyn oll o'r brig i'r bôn sydd ar waith, ar ryw olwg mewn llai nag eiliad. Cymerir yr Absoliwt yn ganiataol mewn bywyd normal, yn llond yr isymwybod, heb sylwi arno efallai — yn sylfaen i gredu unrhyw beth, y gwaelod 'dibynnol'. Ond nid isymwybodol ydoedd i Bantycelyn. Gwaith creadigol ymwybodol iddo gan yr Absoliwt — ar gyfer ei Farddoniaeth — oedd y Greadigaeth. Dyma a ganfyddid yn *Golwg ar Deyrnas Crist*.

Crynhown batrwm y weithred lenyddol ddeunyddiol felly. Islaw'r *Absoliwt* hwn (Crist) yn yr Hierarci, ond yn wedd ar gynhysgaeth yr Absoliwt hwnnw, wrth gwrs, ceir

Arfaeth. Dyna'n hymwybod o gyfanrwydd bywyd. Dyna hanfod a chyfanswm y Drefn weithredol ym meddwl Duw ar gyfer y ddaear. Fe'i cludir i ryw raddau a chan bawb yn yr isymwybod. Dyna'r fframwaith parod cyn trafod *Archgyfundrefnau Ffurf a Deunyddiau*, a dadansoddwyr sythweliadol. Ac yna, ceir y Deunyddiau eu hun, yr holl bethau unigol sydd o'u cwmpas bob dydd ac yr ym yn gyfarwydd â hwy. Awn ati i'w trafod gyda'n cyneddfau dadansoddol. A chanfyddwn eu bod yn eu dosbarthu'u hunain yn semantolegol. Dewisir o'u plith gan y llenor yn ôl y *Sffêr* sydd o ddiddordeb. A thynnir wedyn *Thema* ohoni gan geisio trefn ferfol sydd raid. Ac mae'r cwbl hwnnw wedi digwydd yn un weithred lenyddol eithriadol o sydyn, eithr mewn olyniaeth benodol benodedig anorfod sy'n arwain at y *Motiff*.

*

*

*

Gan bwyll yr enillir hyn oll. Mewn byr amser y'i rhoddir ar waith. Sythweliadol yw.

Nid peth a berthyn i fyd yr athronydd yn unig yw cyfundrefnau meddyliol, ond ffrwyth ac achos gweithredu ymarferol bob dydd. Cyn bod perthynas ystyrllon yn bosibl rhwng y baban bach yn y crud a'r gwrthrychau rhyfedd o'i ddeutu, gwyddom fod rhaid iddo yntau ymwybod o leiaf â mymryn o drefn. Cyn bod perthynas yn bosibl o gwbl rhyngddo a'i rieni, cyn iddo wybod y gwahaniaeth rhyngddynt â'i gilydd, mewn gwirionedd, diau y bydd ef yn gweithredu ymateb hefyd i gysur neu i anghysur. Yn y pen draw, ni bydd dim perthynas ddeallol rhyngddo a Duw chwaith heb drefn. Rhoddwyd y gyfundrefn feddyliol gynhenid hon o wahuno i blentyn, wrth reswm, er mwyn iddo fyw ac er mwyn iddo allu meddwl. Gwedd ar waith a natur y Crëwr ei hun yw. Dyma sy'n caniatáu i'r creadur orosi'n ymarferol drwy 'ddeall' rhywbeth. Dirnad (canfod gwahaniaethau) ac amgyffred (cwmpasu) tebygrwydd, dyna yw deall cyfansawdd. Gwrthod a derbyn. O ganlyniad i'r ddeuoliaeth unol seml hon, yr offeryn cyfundrefnu hwn, mae gan y baban fodd, er mor ddiffygiol y gall fod oherwydd y cwmp, sy'n ddigonol iddo ennill bywoliaeth yn y pen draw neu ymdopi gyda phobl eraill drwy lunio a rhannu unedau a ffurfiau meddwl cyson. Mae'n gallu gwybod yn sythweliadol y gwahaniaeth felly rhwng *mawr a bach, dibynnol a di-ddibyniaeth, absenoldeb a phresenoldeb, un a llawer; a da a drwg*. Yn gynieithyddol oll. Ac yn gyflym odiaeth fe'u dysg fel gweithredu gair gramadegol.

Duw a greodd yr holl bosibiliadau hyn iddo. Dyna ffordd gariadus Duw o weithio, o'i roi ei hun mewn trefn. A hyn yn y pen draw fydd yn help i'r baban hwn gredu rhai pethau, a pheidio â chredu eraill. Dechreuodd Duw yntau gyda chyferbyniad: 'Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.' Deuoliaeth faterol a diwinyddol. Deuoliaeth felly sydd yno'n undod gwahân yn y creu cynnar o dan lywodraeth Ei undduwiaeth Ef.

Chwilio am y cyferbyniadau dyfnaf a mwyaf arwyddocaol cariadus hyn i syniadaeth Ei waith yw'r her hefyd i'r sawl sy'n ceisio chwilio adeiladwaith ei feddwl ei hun, y cyferbyniadau sy'n effeithio ar ei ffordd o feddwl, a'r cyferbyniadau sydd o fewn Cynnwys ei feddwl.

Gwybu Pantycelyn hyn oll yn ei gyfoeth a'i ddyfnder diwinyddol. Fe'i gwelai yn y Greadigaeth (*Golwg ar Deyrnas Crist*). A gwelai hyn hefyd yn yr Aileni (*Theomemphus*). Perthynai anfodolaeth ar y cychwyn i aflunieidd-dra a gwacter; ond ar wyneb y dyfroedd ymsymudai ysbryd Duw *Anfod/Bod*. Ac yna, rhoddodd Duw orchymyn unplyg arbennig. 'Bydded goleuni. A bu goleuni.' Wrth wneud hynny, sefydlodd ddeuoliaeth arall; 'a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch.' Dyma sefydlu olyniaeth y dydd cyntaf, bodolaeth ac egwyddor fawr y creu. Dyna hefyd gysgod yr 'Aileni', a defnyddio'r egwyddor 'berthynol'.

Mewn Cristnogaeth, ceir barddoniaeth o'r fath ym mhobman. Barddoniaeth grediniol. Ond gan baganiaid ceir barddoniaeth 'grediniol' o fath hefyd. Nid yn unig fe aeth Duw ymlaen i wahanu Deunyddiau — dyfroedd a dyfroedd, dyfroedd a thir sych, llyisiau bob un yn ôl ei rywogaeth; tymhorau, dyddiau, a blynyddoedd; haul, lleud a sêr; pysgod, morfilod, adar, anifeiliaid; fe greodd hefyd ddyn. Nid gwahanu egwyddorol yn unig oedd yn digwydd cyn y cwmp. Yr oedd yna *sefydlu* ynghyd hefyd, bob un yn ôl ei rywogaeth. Mae yna sefydliadau. Goleuni yw goleuni. Tywyllwch yw tywyllwch. Buwch yw buwch, yn gyffredinol ac yn arbennig. Heb y tebygrwydd sylfaenol neu'r cysondeb yn ogystal â'r gwahaniaeth sylfaenol a geir rhwng pethau, does dim deall. Barddoniaeth neu beidio, dyna Hanes. Gwryw a Benyw.

Dyna gamre *Genesis*, felly, a 'Golwg ar Deyrnas Crist' gan arwain ymlaen at y Cwmp, sef at ddiffyg perthynas lawn, pechod a marwolaeth. *Cadarnhau/Negyddu*. Gwadodd dyn ddisgyrchiant ysbrydol. Doedd ef ddim wedi 'dibynnu' ar Dduw. Difwynwyd Archgyfundrefn sylfaenol. Aeth dyn yn farw i Dduw. Her yr Arglwydd Iesu Grist oedd adfer perthynas, ffenomen bwysicaf bywyd dyn: credu.

Yn fwy na'r un bardd Cymraeg o'r blaen, yn y ddwy arwrgerdd *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*, bu Pantycelyn yn pendroni am y drefn hon. Fe'i canfu hyd ei mêr.

Un o ganlyniadau diweddar ceisio penrhyddid yn sgil y Cwmp, ac yn wir o'r newydd yn sgil y Chwyldro Ffrengig a chwmp y Bastille, oedd bod y gair 'trefn' wedi mynd yn air emosïynol amhoblogaidd. Roedd iddo flas cas. Adda oedd yr Ôl-fodernydd cyntaf, bid siŵr. Ond aeth eraill yn ôl ato wedyn. Gair arall, a oedd hyd yn oed yn fwy atgas na 'threfn', a hwnnw oedd 'cyfundrefn' (system). Ystyr 'cyfundrefn' oedd bod yna Un; ac o fewn yr Un

yna yr oedd yna luosrwydd (plurality). Roeddent yn gydlyniad trefnus o fewn sicrwydd awdurdod. Gras cyffredin oedd hyn. I Gristion, wrth wybod mai Duw yn y pen draw oedd yr Absoliwt, mai Ef oedd yr Un yna a oedd yn cynnwys pob peth, a chan fod rhyw reddf ynom sy'n cynhesu at undod, dylai'r syniad o gyfundrefn fod yn annwyl ac yn hyfrydwch. Dylai fod yn *un* rhyngom â'n gilydd, ac undod yn ein perthynas â Duw. Pa beth sy'n well? '*Y mae'n rhaid eich bod wedi clywed am gynllun Gras Duw,*' meddai Paul. Heb gyfundrefn ni siaradem. Ond yn y rhuthr tuag at benrhyddid bawb drosto'i hun, fel pe bai hynny'n rhagori, ceisiwyd bwrw sen a delwedd haearnaidd afiach ar y gair 'cyfundrefn' gan y person 'naturiol'. Gwir gariad yw'r un *peth* a gollwyd o'r herwydd. Ac yn y gyfundrefn lawnaf troes lluosrwydd yn lluosedd (*plurality/pluralism*) a'r amryw'n chwalfa. Ôl-foderniaeth.

Trefn yw asgwrn cefn *Golwg ar Deyrnas Crist a Theomemphus*. Anhrefn yw'u bygythiad cyson. Chwilio y mae'r sawl sy'n astudio adeiladwaith meddwl Pantycelyn: yn gyntaf oll am gyferbyniadau arwyddocaol, ffrwythlon, gweithredol. Yn ail: am Fawl.

Yn y Salmau, y mae'r Ddeddf o berthyn yn destun Mawl gorfoleddus. Canmolir trefn meddwl Duw. Ei Ddeddf Ef oedd yn gwneud glendid bywyd ar y ddaear yn bosibl ac yn dda i ddyn. Ond yn fwy byth, yr oedd cyflawni'r Ddeddf honno yn gwneud perthynas dyn a Duw mor orfoleddus, a derbyniad dyn gan Dduw yn ogystal â Duw gan ddyn, yn ganolbwynt i bob llawenydd. Roedd myfyrio am ddeddf felly, ac yn arbennig am y modd yr oedd Duw ei hun yn ei hanrhydeddu, yn uchafbwynt i ddeallusrwydd dyn. Rhan o uchelgais yr Arglwydd Iesu Grist oedd cyflawni pob iot o'r Ddeddf honno. Rhan o'i genadwri hefyd oedd mawrygu'r Ddeddf gerbron Ei bobl. Dyma hefyd ran o'n hyfrydwch cariadus gwaelodol ni.

Dyna felly, asgwrn cefn deallol yr Emyrnau a'r Epigau gan Williams. Felly y gwelwn sut yr oedd Ffurf yn dod yn fwy na dull o ddweud. Dôi hefyd yn destun Mawl am berthynas, yn wrthrych serch.

Mae'r drefn hon oll mor ganolog gariadus am ei bod yn rhan o gymeriad Duw. Yn wir, meddwl Duw ei hun ydyw, meddwl tragwyddol y digyfnewid hollbresennol Dduw yn cyffwrdd â dyn. Duw a'i gwnaeth iddo'i hun ac i bob peth arall. Mae'n cynnwys Cyfiawnder a Thrugaredd, Cyfiawnhad a Sancteiddhad, Gras Cyffredin a Gras Arbennig. Nid oes syndod bod y bardd tybiedig-ramantaidd, ac yn sicr y tybiedig radicalaidd a chwyldroadol, wedi methu â pheidio ag ymhyfrydu mewn cyfraith a threfn sydd mor bellgyrhaeddol â hyn.

Pan gafwyd y Chwyldro Ffrengig yn y ddeunawfed ganrif, a'r mudiad Rhamantaidd ymhlith y Celfyddydau, fe glyw-wyd y gri am '*Ryddid, Cyfartalrwydd, a Brawdgarwch*'. Gwaetha'r modd, ym mryd rhywrai, yr oedd y ddwy elfen olaf yn gosod cyfyngiadau ar yr un

gyntaf. Dymunai'r person hunan-ganolog a hunan-bwysig ryddid yn ben, yn unben-ryddid. Ond profodd Penrhyddid hunanol o'r fath yn bur anymarferol ac yn gaethiwed.

Adda druan oedd ein Rhamantydd hunan-ganolog goddrychol cyntaf. Yr oedd Duw eisoes wedi rhoi yn gynhenid iddo Ryddid mawr — y Rhyddid mwyaf, sef Rhyddid rhag pechod a marwolaeth, a llawer rhyddid arall. Rhyddid o fewn trefn oedd, serch hynny. Trefn 'ddisgyrchiant' corfforol ac ysbrydol y Greadigaeth. Ac wrth iddo geisio torri'r drefn honno, nid ymwardai ag angen trefn. Aeth yn ffenomenolegydd o Ego Trosgynnol â'i fryd ar Bethau. Wrth iddo dderbyn bywyd, yr oedd angen i ddyn, heb golli gwir ryddid, dderbyn harddwch amodau bywyd. A'r mwyaf o'r rhai hynny oedd trefn caru Duw ac ymhyfrydu yn ei ddeddf, gan mai perthynas oedd deddf.

Rhoddodd Duw i hyn o ddyn fyd da a hardd. Dyma fyd yr oedd ei ddaioni a'i harddwch yn dibynnu ar Dduw ei hun. Byd trefnus oedd, byd o ddeddfau cyneddfol cudd. Dibynnai llawenydd a gwynfyd dyn ar berthynas gariadus rhyngddo a Duw, mewn ffordd mor amlwg ag yr oedd yn gorfod *dibynnu* ar Ddisgyrchiant yn faterol amlwg. Ni byddai neb call yn ceisio dadlau y dylem ni — na'r planedau o ran hynny — ymwarded â'i drefn, er mwyn rhyddid. Yn yr un modd, yr oedd yn hollol angenrheidiol er mwyn iechyd inni ymhyfrydu yn ein perthynas gydlynol â Duw. Heb hynny byddem yn glaf o amddifad chwâl, yn farw. Dathlu hyn oedd gwaith Williams, nid yn unig yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, eithr hefyd yn fwy personol yn *Theomemphus*, ac yn wir yn fwy personol byth yn ei ganeuon mawl oll o gylch y rheini. Ac edrychai ymlaen yn angerddol at yr Undod cyflawn a oedd i ddod. Galwyd y Cariad hwnnw'n Ddeddf. Ac mewn Cariad y crynhôdd Crist y Ddeddf.

Y tu ôl i bob peth a greodd Duw ar y dechrau, yr oedd yna ddeddfau neu drefn gudd, hyfryd a hardd. Pryd bynnag wedyn y gweithiai Yntau — hyd at yr Iawn ar y Groes — ceid drachefn drefn o'r fath. Yn y fan yna y cafodd Pantycelyn galon ac uchafbwynt i'w farddoniaeth. Wrth gwrs, y mae rhai llac ymhlith 'Cristnogion' yn prenaidd geisio cyferbynnu Trefn neu Ddeddf ar y naill law â Chariad ar y llall, fel petaent yn elynion. Mae hynny'n wir am ddeddfoldeb. Ond y mae Cariad yn rhan o Ddeddf sylfaenol Duw. Mae ynghlwm hefyd wrth Ei Gyfiawnder. Fe'n gwnaethpwyd ni i dderbyn y gwynfyd o garu Duw ac i dderbyn Ei Gariad yn ei ôl drwy drefn.

Gwrthod a thorri'r drefn gynhenid dda honno, a sylfaenodd Duw, oedd y Cwmp. Hyn sy'n darparu'r tyndra yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Wrth geisio olrhain meddwl Pantycelyn, un o'n trywyddau pennaf yw'r cyswllt â pechod. Trefn o berthynas fu'r drefn gariadus gynt. Ac roedd y Cariad hwnnw yn golygu y gallai, ac yn wir yr oedd yn rhaid i ddyn, ddibynnu ar Dduw, a mwynhau'r ddibyniaeth hyfryd honno, canolbwynt disgyrchiant ei ysbryd. Eto, wrth

ddyrchafu'r hunan, wrth ei wneud ei hun yn ganolbwynt i bopeth, wrth iddo ymchwyddo o ran pwysigrwydd a balchder, yr hyn a wnâi dyn wyneb yn wyneb â Duw yn nwy arwrgerdd Pantycelyn oedd ceisio hunanoldeb y dyn unig 'annibynnol' a'i anghredu. Nid oedd mwyach yn mwynhau prydferthwch yr ymostyngiad i Dduw a melyster rhyfeddol ymostyngiad i'w gilydd. Ystyr ymostwng oedd Duw yn rhoi a dyn yn rhoi; dyn yn ymostwng, ac ie, Duw yn ymostwng i'w gyfamod, Crist yn ymostwng i'w Ymgnawdoliad.

Collwyd hyfrydwch trefn odidog Duw. Collwyd perthynas uchaf Ei Gariad. Gwahanwyd dyn. Ond Duw rhagluniaeth yw Duw Pantycelyn. Fe *drefnwyd* Ffordd yng nghyngor Tri yn Un. Dyna'r lle y cafwyd y Drefn i gadw pechaduriaid. 'Caed trefn i faddau pechod yn yr Iawn': a dyna oedd y trefnu er trugaredd — *Cyfiawnder a chariad y Tad/ Iawn y Mab/ a chymhwysiad i galon credadun gan yr Ysbryd Glân*. Dyma ogoneddu Duw hyd yn oed yn sgil y Cwmp. Roedd yna blot cariadus yn y berthynas: sgêm, i wneud dyn anhrefnus, ar chwâl ar goll, yn gyf-iawn, drwy gyfiawnhad.

Bydd amryw ddarllenwyr yn gyfarwydd â'r term *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol*. Yn wir, bydd mwy o Gristnogion difrif, yng Nghymru, sy'n myfyrio am eu ffydd wedi darllen cyfrolau Bavinck a Berkhof a Hodge (sy'n dwyn y teitl hwnnw) nag y bydd y rhelyw seciwlar yn ei dybied. Mae'r teitl hwn i'w gael hefyd gan Robert L. Reymond, Marbon H. Smith, A. H. Strong, a hyd yn oed Paul Tillich. Ond tybed a oes ambell un o'n plith yn ddiweddar wedi methu â darllen *Drych Ysgrythurol* neu *Gorph o ddifinyddieth*, George Lewis, 1796?

Ysywaeth, ychydig o'r cyfrolau hyn fydd yn esbonio beth yn benodol ac yn weddol helaeth yw 'cyfundrefn', hyd yn oed pan ddigwydd yn eu teitlau. Tueddir i gymysgu 'cyfundrefnol' â 'threfnus'. Ond term technegol yw fel y gwelsom sy'n anwylo Undod, lle y ceir y tu mewn iddo Amrywiaeth, a'r Amryw yna'n cydlynu yn ôl patrwm penodol i gydadeiladu un er mwyn gweithredu'n ddeinamig. Felly, yn y Beibl fe geir a chrybwyllir ar y naill law gyfundrefnau cryno sy'n ddeuol neu'n driol, megis tair swyddogaeth y Cristion (a Christ ei hun), sef '*Proffwyd, Offeiriad, Brenin*' neu'r ddeuoliaeth '*Ffydd a Gweithredoedd*'. Ac yna, weithiau, fel y gwelsom, mynegir perthynas gyfundrefnol helaethach fwy lluosog na dau neu dri (megis yr Eglwys, sef '*Corff Crist a'i aelodau*'). Ond hyd yn oed mewn amgylchiad lluosol, dwy ochr a geir. Mae'r rhain yn amlwg yn crynhoi ar undod. Yr Un sy'n Dri yn y pen draw yw'r Absoliwt iddynt i gyd, eithr bob un y tu mewn yn cynnwys cydlyniad o sawl gwedd neu elfen neu berson. Perthynas o'r math hwnnw yw cyfundrefn.

Chwilio am bethau felly, a darganfod cyferbyniadau ac estyniadau, yn ôl method y Beibl oedd y ffrâm a fabwysiadodd Pantycelyn yn isymwybodol.

*

*

*

Nid casgliad o athrawiaethau, er hynny, nid rhes, ddylai *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol* fod, — na meddwl Pantycelyn ei hunan chwaith, — ond adeiladwaith cofleidiol dwyfol. Hierarci gydlynol ydyw hyd y galon. Mae'r term ei hun yn cynnig athrawiaeth gyflawn gydsylltiol yn ôl themâu penodol. Mae'n dweud rhywbeth am fodolaeth Duw, am Ei feddwl, ac am y ffordd y mae dyn yn gallu ac yn gorfod meddwl a deall, ac am y ffordd y mae Duw ei hun wedi gweithio gyda dyn.

Eto, nid *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol* o fath y gwŷr mawr a enwid uchod yw'r hyn a gefais yng ngwaith Pantycelyn. Math o gorff o ddiwinyddiaeth drefnus gyflawn a geid ganddynt hwy: rhestr yn rhy aml. Yr hyn a wnaif i yw ceisio aros yn llym ac yn benodol ac yn gryno gyda'r cysyniad treiddgar sythwelediadol ond barddonol o Gyfundrefn o gyfundrefnau ei hun, gan archwilio mor drefnus elfennaidd yw Duw a beth yw natur y drefn honno. Eithr trefn dynn fydd, gan ganfod arwyddocâd hyn oll ym mhrofiad ac yn ysgrifeniadau un dyn. Trefn lenyddol yw. Ceisiaf felly glystyru rhai o'r cyfundrefnau hyn, gan chwilio'r perthnasoedd sy'n eu cyd-adeiladu yng ngwaith Cymro mawr yn y ddeunawfed ganrif. Oherwydd Mawl yw'r drefn yn y bôn i Bantycelyn. A Pherson Dwyfol yw'r Logos.

Duw cyfundrefnol yw'r Duw Cristnogol hwn o ran natur. Nid cywir fanwl yn fy marn i fyddai disgrifio Duw ei hun fel 'cyfundrefn' gan mai Cariad hollalluog yw. Arglwydd tragwyddol-bersonol yw. Absoliwt anghymarol, hunanfodol, hunanwireddol yw. Eto, wrth gwrs, y mae Ef yn Dri-yn-Un. Ef yw Ffurf i gyd. Ef yw Deunydd i gyd. Ef yw Tad y cyfundrefnau oll, ffynhonnell pob Deddf. Mae Ei natur Ef yn y greadigaeth i gyd. Ac eto, mae'n ei amlygu'i hun yn Fab i'n cynrychioli. Y Gair.

Duw trefn yw Duw'r Beibl felly. Yn y llythyr serch hwnnw at ddyinion, mae yna blot trefnus. Galleid eisoes olrhain y cynllun hwnnw yn ôl tri phrif gam hanesyddol: *creu, cwmp, cadw*. Dyna ffurf naratif yr hanes i gyd a ffurf gynhaliol *Golwg ar Deyrnas Crist* gan Bantycelyn. Ond wrth gwrs, ceir llawer o amrywiaeth thematig y tu mewn i'r fframwaith cyfoethog hwnnw, ac ar y daith honno drwy'r plot fe ddyfnheir dealltwriaeth yn fwyaf priodol drwy ymhelaethu ar union ystyr a ffurf — a themâu — y *Cynnwys*.

Ond trefn yw hyn oll o hyd. Hynny yw, mae yna ffurf gadarn ond syml i'r cwbl. Fel arfer, pan fydd ysgolheigion yn trafod 'ffurfiau'r Beibl', byddant yn trafod ffurfiau llenyddol fel cerddi, llythyrau, pregethau, naratif hanes, damhegion, diarhebion, ac yn y blaen. Ffurfiau llenddulliol cyffredinol (*genres*) yw'r rheina y gellir eu cymharu â ffurfiau llenweithiol eraill. Ond ffurf hollol unigryw sydd i'r Beibl ei hun, fel y mae ei ddatguddiad o Natur Duw hefyd yn gwbl unigryw. Ac ni ellir dechrau gwerthfawrogi'i unigrywiaeth fel llythyr heb ystyried

ffurf ei gynnwys crwn. Nid beth yw ei adeiladwaith llenyddol allanol, ond beth yw adeiladwaith ei ystyr — perthynas hanes, athrawiaeth, a mawl — rhwng Genesis a Datguddiad. Dyna yw'r hyn y myn inni'i amgyffred. Wrth i ysgolheigion efrydu ffurfiau Mynegiant y Beibl, tueddir i esgeuluso, weithiau, y ffaith fod y ffurf a'r deunydd yn un, fod 'ffurf' ym mhob man, a 'deunydd' ym mhob man. Ffurf unigryw sydd i'r Greadigaeth hanesyddol. Wrth ystyried mai gweini i'r cynnwys y mae pob dull llenyddol yn y Beibl, ein hymgais ni yma fydd ceisio ystyried trefn yr ystyr. Dyna, fel y cyfeddyf Pantycelyn ei hun, ffenomen sydd yn athro inni.

Bydd rhai cyfeillion yn canolbwyntio ar yr 'ymdeimlad' mewn crefydd. A gellir parchu'r sawl sy'n credu'i fod yn cael 'ymdeimlad' dwys ac anarferol ddwfn wrth benlinio gerbron allor i dderbyn cymun. Rhydd llawer bwyslais ar 'awyrgylch'. Ni ellir gwadu nad yw'r Ysbryd Glân yn cyffwrdd â chalonnau weithiau wrth addoli Duw o ddifri. Ond nid oes a fynnyf yma â theimladau'n unig nac yn gyntaf. Ystyried y byddwn ni, yn hytrach, ffeithiau hanesyddol a beth yw Cynnwys sylweddol ac ystyrion yr hyn sy'n sylfaen i bob teimlad ac ymdeimlad Cristnogol Beiblaidd, ac yn y pen draw yn gyrru ewyllys drwy wybod ac adnabod. Beth yw trefn ddofn — yn fynych, isymwybodol — Cynnwys ystyrion y profiad? A beth yw'r berthynas bersonol gyflawn yn adeileddol? Beth yw'r ffrâm i hyn oll?

Yn rhy aml bydd beirniaid llenyddol, a finnau yn eu plith, yn tueddu i drafod cynnwys a ffurf llyfr mewn gweddau neu rannau ar wahân braidd, heb ddynodi eu cydwead â'i gilydd. Fy nod yn y drafodaeth hon sut bynnag fydd ceisio dangos bod y ffurf neu'r drefn yn wedd fewnol gwbl unol ar y cynnwys cydlynol. Trefn gydweol yw'r Deunydd, a threfn hefyd yw'r dull o'i ddatgan. Dadlennu hynny yw'r nod, ac fe'i gwnaf ar lun hierarci.

Un rhybudd y mae'n dra phwysig i'w nodi, yn awr ar y dechrau, cyn symud ymlaen at drafod trefn Duw (a Phantycelyn) yn llawnach. Mae Cristnogaeth yn unigryw yn ei phwyslais ar y 'person'. Person hanesyddol uwch-hanes yw'r Arglwydd Iesu Grist sy'n obsesiynol ym mhrofiad Williams. Fe ymgawdolodd ein Duw ni mewn amser a lle. Nid rhestr o athrawiaethau nac o foeswesi oedd Cristnogaeth i Williams. Nid dyna sydd flaenaf yn nhrefn feddyliol ei waith. A'n gwaredo. Person sydd yn y canol, yn eithafol felly. Ysbryd hefyd; a pherson o gig a gwaed a ddaeth yn ymostyngol ewyllysiol i'r byd hwn. Nid rhestr ffurfiol, nid hyd yn oed cyfundrefn o egwyddorion amheronol felly sy'n llunio crefydd y Duw byw yn y Beibl. Yn sicr, nid trefn moesau yn unig. Cariad yw a Duw personol sy'n gweithredu. Ac y mae'r sawl sy'n Ei adnabod Ef yn ei garu hyd yr eithaf. Y caru mewn gwirionedd sy'n trefnu'r Undod godidog. A pherson yw Crist i Bantycelyn a greodd yr holl Ddeunyddiau cyd-berthynol.

Tueddir weithiau gan ramantwyr neu ‘ryddfrydwyr’ i ystyried mai oeraidd a mecanyddol galed yw hyd yn oed ‘athrawiaethau’ megis ‘trefn’. Fe’u hystyrir weithiau yn faterion haniaethol, annymunol hyd yn oed. Ond gwiw cofio nad oes dim mwy dynol, na dim mor hanfodol i gredu na threfn na chynnwys. O bob creadur ar y ddaear, nid oes yr un yn fwy ymwybodol chwaith o haniaethau a diriaethau bywyd na dyn. Nid rhywbeth peiriannol yw trefn. Nid yn unig y mae pob tamaid o gorff a meddwl dyn yn drefnus. Ni byddai dyn ei hun yn gallu goroesi oni bai ei fod yn ymwybodol o drefnusrwydd ystyr, neu ynteu’n *isymwybodol* effro iddo.

Oes: bid siŵr; mae angen bod yn ochelgar fyw i beryglon trefnusrwydd a deddfoldeb. Mae’r Beibl yn ein rhybuddio am farwoldeb y fath ymsafiad amddifad. Ond yr un pryd, mae a wnelo’r Beibl yn gyson ddeinamig â rhagluniaeth Duw. Mae ganddo gynllun enfawr nid yn unig ar gyfer y Greadigaeth, (*Golwg ar Deyrnas Crist*) ond hefyd ar gyfer pob creadur unigol, bob cell ac atom ynddi, y dihunir ei ysbryd ac o’r herwydd a dry ato (*Theomemphus*). Gallwn fod yn dra gwylidwrus o drefn. Ond ni wiw i ni ei hosgoi na’i hofni. Gweddau ar Ei odidowgrwydd yw Creadigaeth a Gwardigaeth. A pherthynas yw cyfundrefn.

Nesáwn felly at gysidro trefn Dduw yn gyson gyda pharch a chariad a rhyfeddod, gan geisio deall ychydig arni, a chlosio ati’n bersonol yr un pryd. Dichon y sylwn fod yna batrwm o’r uchaf i’r isaf. Y prif beth y mae’n rhaid inni gofio, bob amser wrth geisio myfyrio am natur y drefn honno, yw mai Absoliwt sydd yn y cychwyn ac o’i chwmpas. Efô sy’n sicrhau ffurf i bopeth. Os ydym am ddeall unrhyw beth i’r pen, boed yn ein gwaith bob dydd, yn y Celfyddydau, yn y Gwyddorau, mewn Masnach, mewn Cymdeithas, yr allwedd i amgyffred hynny bob amser yw sylweddoli rhagosodiad Penarglwyddiaeth yr Undod mawr personol-dragwyddol hwn yn y galon — neu ar lefel Naturiolaid — y Rhesymeg a’r Pum Synnwyr a fabwysiaa’r Ego Trosgynnol bron yn ddigwestiwn absoliwt. Ffug yw bod yn ddigymrodedd ôl-fodernaidd yn ôl ffasiwn meddyliol di-werthoedd. Sylweddolwn felly’r rhagdyb, a’r cynllun gorfodol cyson. A hynny’n fertigol, o’r Penarglwydd i’r motiff manaf.

Dyna pam y mae’r hyn sydd gan Bantycelyn i’w ddweud yn berthnasol nid yn unig i fywyd yn gyffredinol, eithr hefyd i ddadansoddi cyfundrefn Deunydd llenyddol yn arbennig.

Mae’r gwyddonydd yn rhagdybied bod, o dan y bydysawd, drefn sylfaenol, ac y gall y drefn honno fod yn wybyddus i bobl. Mae yna gysondeb ym myd natur. Ond mae yna gysondeb nid anghyffelyb yn y Goruwchnaturiol hefyd. Cyf-iawn yw. Mae ei waith yn ymestyn o’r DNA a’r gweddau cryno sydd ar yr atom i’r cosmos ac ar draws yr adeileddau deuol a thriol mewn iaith hyd at feirniadaeth lenyddol a’r holl gelfyddydau. Ac yn uwch byth: mae argraff Duw ar bob dim.

*

*

*

O'r herwydd, y ffordd amhriodol i olrhain mynegiant Meddwl Pantycelyn fyddai ymgyfyngu i'w Fyngiant. Diau fod yr emynau a luniodd, a'r darlun a ddatblygodd, a'r disgrifiadau sefyllfaol a'r hanesion a draethodd — sef ei Fyngiant — oll yn dweud llawer iawn iawn, mewn rhestr, am ei farn uniongyrchol am fywyd. Dyna'i syniadaeth ymwybodol. Ond mi gredaf fod yna ffordd arall, lawer trwyadlach a llawer treiddgarach, o archwilio'i syniadau yn fwy cynhwysfawr; a hynny yw, drwy archwilio hefyd adeiladwaith mewnol ac olynol y syniadaeth honno sy'n achosi'r Mynegiant, yn uchaf, y 'sgêm' fel y'i dywedai ef, sef y Tafod syniadol, drwy ddarganfod patrymau, yr undodau mewnol amryw, yr adnoddau cydlynol cyflawn sy'n cynhyrchu ac yn adeiladu proses hierarcaidd. Caed camp Pantycelyn i raddau helaeth yn ei afael ar weledigaeth gyfannol, gyfoethog.

Gwyddai'n burion am hyn drwy themâu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Biwritanaidd. Ei amcan yn ei fywyd syniadol oedd ceisio a dymuno ufuddhau i fframwaith ysbrydol penodol. Yr oedd wedi hyfforddi'i feddwl i ddilyn llwybrau penodol, nid oherwydd unrhyw waseidd-dra ar ei ran, na chwaith oherwydd diffyg egni dychmyglon, eithr oherwydd ei awydd mawr iawn i ymaflyd yn y gwirionedd gwrthrychol yn y Beibl, ac yn bwysicach o'r dechrau i'r gwirionedd hwnnw ymaflyd ynddo ef. Cyn iddo gael ei eni'n gorfforol, yn gyffredinol yn y gymuned grefyddol y perthynai iddi, fe gaed eisoes fframwaith meddyliol cyffredin yr iaith a fframwaith moes a syniadaeth gan y gymuned honno. Ni orfodwyd hwnnw arno yn gyfundrefn ymwybodol eithr yn isymwybodol. Dyna'r Metanaratif. Ond fe orfodwyd ei themateg feddyliol newydd ei hun wedyn arno i gydymffurfio â'i galon newydd ei hun. Yr adeiladwaith hwnnw (a Gras Cyffredin yw'r gallu i adeiladu cyfundrefnau, a alwaf yn Gyfundrefn o gyfundrefnau) oedd yr hyn a drefnodd yn gyntaf ei adnabyddiaeth lawnaf o'r defnyddiau llenyddol a drafodai. Arhosodd llawer o'r drefn feddyliol honno ar ffurf Gras Cyffredin iddo weddill ei oes. Ond cafwyd Gras Arbennig. Dweud beth yn hollol oedd y drefn newydd honno a wnâi a'i chanu. Felly, cafodd ddeunydd i'w waith aeddfetaf yn y sylfeini ychwanegol hynny. Cafodd Fetanaratif 'Calfinaidd'.

Oherwydd — yn yr ail Ras, cafodd fframwaith ychwanegol yn yr Arfaeth yn ogystal â fframwaith deunyddiol i'w lenyddu.

Mae a wnelo â mwy, felly, nag â bodolaeth a threfn Bodolaeth. Ymwneud yr ym o hyd â *pherthynas* Duw a dyn. Dyw'r berthynas ddim o unrhyw ddiddordeb i seicolegwyr, fel arfer. Nid ydynt yn ei deall yn hollol efallai, ac felly nid yw'r 'gynnen ddiflas hon', yn eu tyb hwy yn bwysig iddynt, hollti blew yw. Ond beth pe bai yna Dduw? Beth a ddigwydd gyda difrifoldeb y meddwl? Pantycelyn a gyfrifai mai perthynas y Goruwchnaturiol a dyn oedd y

peth seicolegol pwysicaf yn ei fywyd, megis y mae o fewn amgylchfyd tragwyddol i bawb, ac yr oedd awdurdod o fewn y berthynas honno yn allweddol. Aeth yr ar-wahân yn un.

Yna, efallai yr holwn, ym mha ffordd yr adferir y berthynas angenrheidiol rhwng Duw a dyn gwrthryfelgar? Ai drwy ffydd a roddir gan Dduw ynteu drwy weithredoedd a gyflawna dyn? Mae'r math hwn o gwestiwn yn ganolog i'r ddadl rhwng Antinomiaid (sef traddodiad y rhai sy'n gwadu nad yw gweithredoedd dyn — na'r Ddeddf — ddim yn berthnasol iawn) a'r Calfiniaid (a fyn fod gweithredoedd yn rhan gynhenid o ffydd ac o waith beunyddiol a bywyd pob Cristion sy'n dymuno gogoneddu Duw). Dadl bur bwysig fu hon i Bantycelyn.

Trafodir 'dadleuon' o'r fath yn thematig ac yn uniongyrchol ymwybodol drwy gydol y ddwy arwrgerdd. A gwelir eu bod bob amser wedi'u seilio ar drefn.

Annigonol yn wyddonol fu Rheswm a'r Pum Synnwyr fel llyw i Ymoleuwyr y ddeunawfed ganrif. Yr oedd natur a dimensiwn anweledig mewn dyn a'r cyfundrefnau gwrthrychol y tu allan iddo yn ormod i Reswm meidrol ac i'r Synhwyr. Fe frysiwyd, mae'n wir, ar ôl darganfod pwysigrwydd enfawr y rheini, i hawlio'n rhagdybiol na cheid offer deall arall. Ond ceid gormod o fylchau yn y ddadl ddyn-ganolog. Anwybyddai dyn Rhesymol ac Empeiraidd y tarddiad i Fodolaeth, y tarddiad i'r Synnwyr o Dduw, i'r Gydwybod, Bywyd ei hun, Hunaniaeth, esgoriad y Deddfau naturiol, ymwybod o Werth, ymwybod o Bwrpas, a bodolaeth Rheswm ei hun. Anwybyddid yn anhunanfeirniadol y rhactyb caniaaol a arddelid o blaid y naturiol ar draul y Goruwchnaturiol. Nid oedd sail i ddweud 'Na' wrth hwnnw. Ni ellid drwy Bositifiaeth esbonio Positifiaeth. Mewn geiriau eraill, yr oedd yna gyfandir o fylchau yn yr ymgais i esbonio dyn naturiol (a'i achos), a hynny o fewn cyfyngiadau naturiol cul. Ac ni phrofa'i theori Esblygiad ei fod o fawr gymorth newydd yn y ganrif wedyn oherwydd ceisio neidio dros ragosodiadau.

Mae yna ddau fath o reswm ar gael: (i) Rheswm perthynas gofod/amser, rheswm anghredinwyr a rhyddfrydwyr diwinyddol, rheswm amddifad dyn-ganolog, a (ii) Rheswm cyfansawdd cyflawn y Cristion, sy'n gweld gofod/amser o fewn dimensiwn tragwyddol. Pan sonnir am fod yn barod i roi rheswm dros y gobaith a roddwyd i ni, rheswm cyfansawdd sydd mewn golwg. Mae gennym ffydd, gobaith, a chariad Cristnogol am fod Duw drwy ailenedigaeth wedi'u rhoi hwy'n ysbrydol i ni. Ac y maent o'r herwydd yn ymgysylltu â'r gorfoledd Cristnogol. A phan astudir yr ysgrythur, dyna'r rheswm a ddefnyddir. Mae'n cynnwys wrth gwrs reswm gofod/amser yr anghredadun mewn Gras Cyffredin; ond fe'i gweddnewidir a'i osod mewn cyd-destun ymrwymedig o dan Benarglwyddiaeth Duw. Dyna'r rheswm y sieryd Coleridge amdano.

Mewn gwirionedd, y prif beth sy'n nodweddu Goleuedigaeth Pantycelyn, a'i berthynas ef â'r Ymoleuo, yw'r union thema sydd i'r gyfrol hon, sef ei 'Sgêm'. A pheth rhoddedig yw honno. Sefydliad cyn-ddaearyl. Cydlyniad cyfundrefnol dysgeidiaeth Gristnogol oedd un o brif ganfyddiadau Pantycelyn. Buasai cyfrol fel *Système de la Nature* (1770), Holbach, un o lyfrau mwyaf nodweddiadol yr Ymoleuo, er gwaetha'r rhagdybiau anhunanfeirniadol ynghylch natur o ran ysbryd cyfundrefnol, yn taro Pantycelyn i'r dim. Yr oedd hyd yn oed Comte wrth geisio cyfundrefnu cymdeithaseg a'r natur ddynol, yn gweithio'n gyfredol â Phantycelyn, er bod cyfyngiadau i ragdybiau dynganolog yn rhwystr amlwg. Roedd Descartes, Spinoza a Leibniz oll yn ymagweddu at Wybodaeth fel un gyfundrefn sengl. Ac yn eu canol, corddai'r cwestiynau Pam a Sut. Gallai'r Ymoleuwyr synied yn burion am bob dim yn unol, ac mewn egwyddor i'w ganfod o fewn cyfundrefn o gyfundrefnau. Yn sicr, y mae'r gwirionedd yn cloi yn ei gilydd ac yn cynnal ei gilydd. Mae'r naill wirionedd yn canlyn y llall, ac ymlaen i'r un nesaf. Eithr beth bynnag oedd barn rhesymolwyr ac empeirwyr am fetaffiseg, nid cwbl anghyfiawn fyddai synied fod y Goleuadwyr (o'u cyferbynnu â'r Ymoleuwyr) — Simon Thomas a Dafydd Lewis, Edward Lhuyd a Jonathan Edwards, John Wesley a William Williams, William Morris a'u cyd-Gristnogion — wedi gallu cymathu eu hagweddau cadarnhaol gwyddonol yn bur didrafferth ar un gwastad, gan eu gweddnewid drwy ragdybiau mwy treiddgar am y Goruwchnaturiol. Âi hyn oll yn ôl at Newton ac ymhellach, ar y naill law, ac at y cyfundrefnwyr Piwritannaidd ar y llall. Dyma oedd yn yr awyr. Ond, yn y diwedd, nid Cristion oedd Pantycelyn a gredai mewn *Dyluniad Deallus* (Intelligent Design). Credai ef mewn Creadigaethrwydd Deallus (Creationism), eithr mewn mwy na hynny. Yr hyn a wyddai Pantycelyn, ac a adwaenai oedd Creawdwr. Ac yn fwy byth na hynny, roedd ganddo berthynas bersonol â'r Dylunydd hwnnw am fod hwnnw hefyd yn Waredwr iddo.

O fewn ei derfynau, a'i deyrnas briodol ei hun, sef gofod ac amser, profai Rheswm yn dechneg bur ddefnyddiol, ond ymchwyddo oedd tuedd peth felly. Nid balchder hunan-ganolog yn unig oedd ei wendid; eithr oherwydd ei farweidd-dra ffurfiol fel y'i gwelid yn *Theomemphus*, roedd y cyfarfyddiad â *Seducus* yn gwthio tua chlaerineb:

GWWP I, 215 *T'w rhoi tan benelinau'r sawl fai am felys hun'*

Ond y bylchau yn y Rhesymu hwn a'r bylchau yn y profiad, oedd yr hyn yn bennaf a ddiarfogai'r blaid ddyn-ganolog o safbwynt Williams, yn ogystal wrth gwrs â'i gyfarfyddiad personol â'r Gwrthrych mwyaf mawr erioed a glyw-wyd sôn.

Machludodd yr Ymoleuo (a hyrwyddwyd yng Nghymru gan Forsysiaid Môn, gan gynnwys Williams a droes o'r Ymoleuo at yr Oleuedigaeth) ryw ychydig am y tro erbyn

saithdegau'r ugeinfed ganrif. Bychanwyd metanaratif Rhesymeg ei hun. Seiliwyd Ôl-foderniaeth wedyn, gyda gwith newydd, ar y rhagdybiaeth obeithiol ac afresymol nad Deddf Duw oedd sylfaen y greadigaeth wedi'r cwbl, ac nad oedd dim gwirionedd Absoliwt felly. Roedd popeth yn ddamweiniol, yn amhenderfynadwy o ansicr, yn ddigynllun o chwiwus heb reswm onid ar siawns. 'Metanaratif' dirmygedig yw'r Ymoleuo ei hun mwyach ym mryd rhai beirniaid llenyddol. Amau oedd y dogma rhagdybiol canlynol. Cydradd oedd pob safbwynt. Doedd dim un yn iawn. Rhinweddol oedd anghredu. Ond yr oedd Pantycelyn — a gweddill ffyddlon — eisoes wedi derbyn datguddiad ysgrythurol a diymwad gan yr Ysbryd Glân fod llywodraeth Arfaeth Duw yn gwbl ddiogel ac wedi'i rhaglunio. Yr oedd yn hardd ac yn ddaionus y tu hwnt i'r Cwmp. Cwmpai Ôl-foderniaeth hithau gerbron y fath syfrdandod cyn yr ail gamfa. Achosai'r undod y tu allan i'w hamgyffrediad iddi'i hamau'i hun. Meddai Pantycelyn felly ar sail profiad a rheswm gan ddefnyddio'r un rhigwm o ran ffurf ag a ddefnyddiai Parry-Williams (arloeswr Ôl-foderniaeth Gymraeg), a chyda'r un *faint* o bwyslais ar ddamweinioldeb, ond bod y *safbwynt yn wahanol*:

Golwg: GWWP I, 115-116,

*'Does lwc nac anlwc, ffortun, anffortun tan y nen, —
Onid rhagluniaeth rasol sydd arnynt oll yn ben?
'Does dim o siawns neu ansiawns yn digwydd is y rhod,
Ond trefen faith rhagluniaeth yw'r cwbl sydd yn bod ...*

*Ond holl ddamweiniau ein bywyd sy'n llaw rhagluniaeth fawr
Hi sydd yn trefnu'r coelbren i'r arffed roir i lawr...*

*Ond eto gwelir gallu, doethineb Duw a'i ras
Yn y damweiniau mwya' i gyd yn tarddu 'ma's;
Daioni a gwirionedd, cyfiawnder maith yn un
Yn gwneud yr holl ddamweiniau fel mynno ef ei hun.*

*Fel hyn, er bod damweiniau fel gwellt y maes yn wan,
Ond amryw pan gordeddir â'i gilydd yn y man;
Maent fel rhyw gadwyn haearn ynghyd o ryfedd rym,
Na all y g'lynion cryfa' o'u blaen hwy wingad dim.*

Yn yr adran hon mae'n trafod llawer o 'ddamweiniau' hanesyddol a adroddir yn naratif 'cadwyn' y Beibl, gan arddangos eu natur rasol.

Pan ddiunid y gydwybod i drefn, felly, ceid gwybodaeth newydd. Nid cyfraith natur yn unig mohoni ar waith, ond cyfraith oruwch natur; ac nid yn y golwg nac ar bapur y'i traethid:

GWWP I, 164

*Yn gosod cyfraith newydd i reoli'r nwydau 'gyd,
'Sgrifennwyd yn y galon gynt yn nechreuad byd;*

*Gwneud deddf y ddraig yn chwilfriw, bob iota fach o'r bron,
Ag oedd yn llwyr reoli o'r blaen y galon hon.*

*A thyma'r gyfraith rasol sy'n gyflawn yn rhyddhau
O angau du a phechod, ac ofon cas a gwae.*

Sibrydai'r gyfraith 'newydd' hon am drefn oruwch y tipyn deddfau a ddarganfuasai'r Ymoleuo:

GWWP I, 165

Ond cariad yw pob trefen, ac ysgafn yw pob iau.

A'r ddwy ragdybiaeth hyn yn yr Ymoleuo, (rheswm a'r pum synnwyr) — meddwl a chorff — oedd llawn arfogaeth y dyn naturiol, seciwlar, cyfyngedig i reswm. Ond yn fwyfwy, ymhlith seciwlarwyr, ddi'r rhain yn anhrefn drwy'r tair canrif ddiwethaf yn enwedig, eithr ynghynt hefyd wrth gwrs pryd bynnag y gwrthodid Duw. Perthynas i'r gwrthod hwnnw oedd yr honiad allwyddonol hyderus nad oedd dim Absoliwt mwy na'r rheswm a'r pum synnwyr.

Wrth osod gerbron, mwyach, weledigaeth feirniadol, gadarnhaol, gyferbyn â'r dadleuon hyn, yr oedd Pantycelyn yn codi Metanaratif absoliwt mwy solet a chyfundrefnol yn lle relativrwydd, ac yn ymwneud â dadl a ddi'n eithriadol o gyfoes heddiw. Crist ym mhob peth. Heb ddod o hyd i seiliau digonol dros reswm amddifad a thros wadu pob Metanaratif (pob esboniad cynhwysfawr o'r byd), yr oedd y seicolegwyr cyfoes yn dilyn sefyllfa *Barnwyr* 21: 25, 'Yr oedd pob un yn gwneud yr hyn oedd yn iawn yn ei olwg ei hun.'

Un peth sy'n gwbl amlwg drwy gydol arwrgerdd fawreddog, ym mryd Pantycelyn, yn arbennig wrth gwrs yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, eithr drwy *Theomemphus* hefyd a'r emynau oll: anferthedd Crist yn Nuw fel holl ac unig ffynhonnell fywydol gwirionedd a bywyd. Hunan-dystiol yw'r Beibl, wrth gwrs, a dywed Ioan 14: 6 yn groyw: 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.' Drwy osodiad awdurdodol anrelatif a pholiticalidd anghywir o'r fath absoliwt yna gan y Crëwr ei hun, yr oedd yna ragosodiad a ganiatâi bellach bosibilrwydd gwirionedd digyfaddawd, diwrthosodiad. Felly yn 1 Corinthiaid 1: 21, 'Oherwydd gan fod y byd, yn noethineb Duw, wedi methu adnabod Duw trwy ei ddoethineb ei hun, gwelodd Duw yn dda trwy ffolineb yr hyn yr ydym ni yn ei bregethu achub y rhai sydd yn credu.' Dyma'r sylfeini i feddwl Pantycelyn.

Wrth yr Ymoleuo amddifad, dywedwyd: (Marc 8: 36) 'Pa elw a gaiff rhywun o ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd?' Gwrthodai Williams y serchiadau rhamantaidd am eu bod yn hunanol ac yn llygredig. Gwrthodai'r meddwl Ymoleuo seciwlar am ei fod yn ddrylliedig ac yn chwâl. Rhyddid naif oedd arwyddair y naill a'r llall. Gwelwyd bod achos cyntaf, trefn

roddedig, a gwirionedd cwmpasol gwrthrychol cariadus yn *angenrheidiol* anhepgor, gan Dad. A chanfu Pantycelyn mai'r genadwri Feiblaidd hon a fynnai gan ei awen Fyngiant uchelgeisiol cynhwysfawr. Allwedd i'r fethodoleg hon oedd cydnabod rhagosodiad anochel.

Mor gynnar â 1927, yn ei gyfrol *Williams Pantycelyn*, gallodd Saunders Lewis sôn am 'ddadadeiladu' (term nas bathwyd ar y pryd): 'Gellir dweud am y ddrama Gymraeg yr awr hon mai ei bwriad hi yw diddanu drwy feirniadaeth a thorri i lawr.' A rhoddodd Saunders Lewis yr ateb oesol Cymreig, sef 'Mawl', i'r fath ymarweddiad, gan ei ddiffinio mewn dull tebyg i'r fel y gwelwn i: 'Arwydd o ffydd mewn gwareiddiad ac arwydd o ffydd mewn bywyd. Ffydd yw sicrwydd y pethau ni welir ... bod trefn yn y greadigaeth, mai cyfundrefn ddisiom oedd Bod, a bod cytgorf i'w glywed odditan holl sŵn amherffaith oedd ffeithiau ... Cynhyrchion pur ysbryd dyn oedd cerdd dafod a cherdd dant, symbolau o gytgorf y cread. Cytgorf yn wir oedd eu hanfod, perffeithrwydd oedd eu hanfod ... i arwyddo natur ddiddamwain, gyfundrefnol y byd hwnnw y lluniwyd holl gelfyddyd cynghanedd.' Dyma ateb y Cristion gan Saunders Lewis yn yr ugeinfed ganrif. Trafod Pantycelyn yr oedd.

Mawl nid annhebyg oedd ateb Pantycelyn yntau i'r Ymoleuo ansicr-ar-egwyddor a arddelid gan feddylwyr a oedd yn ddigon craff — yn eu methiant trist — i brofi dadrithiad ynghylch Rheswm a Naturiolaeth. Yn gyfoes â'r Ymoleuo Rhesymol a amgylchai Bantycelyn a'i gyfoeswyr deallol ym mhob man, cododd yn eu plith ffenomen gyfredol letach yr Oleuedigaeth.

Wrth gyferbynnu'r Ymoleuo â'r Oleuedigaeth, soniais gynnu am y cyntaf yn dibynnu ar bum synnwyr a rheswm a'r ail yn dibynnu ar ragor. Ymhlith y rhagor hwnnw y ceir ysbryd a ddihunwyd nes i'r *sensus divinitatis* gael ei ysgwyd. Hynny yw, mae'r gynneddf, sy gan bob person ac sy'n galw arno i fod yn effro i Dduw, ond sydd oherwydd y cwmp yn amddifad, yn cael ei fywhau yn y Cristion, yn wrthrychol yn yr Oleuedigaeth, fel y'i deallid gan Bantycelyn (a William Morris), Wesley a Jonathan Edwards. Ni byddwn yn cyferbynnu felly 'brawf' â 'phrofiad' yn unig wrth sôn am y 'prawf' crefyddol yn achos Pantycelyn. Roedd ef ei hun yn meddu ar ormod o brofiad a diddordeb gwyddonol i rywbeth felly:

GWWP I, 234

*Prawf wyf am gael o'r cyfan, prawf o faddeuol ras
A'm gwna i y dyn dedwydda' a rodiodd ddaear las.*

*Prawf o sancteiddrwydd cywir, a phrawf o gyfiawnhad,
Prawf o fabwysiad nefol, a iechydwrriaeth rad;
Prawf o bob rhan o'r Beibil a'i athrawiaethau gwiw
Wna **Theomemph'** yn llawen tra cerddo dir y byw.*

Dyma yn gryno ddull cyferbyniol yr Ymoleuo, ('prawf' drwy gynneddf rheswm o fewn amser a lle darfodedig), bellach wedi'i ddisodli am y tro gan brawf cyneddfol arall:

	<i>Ymoleuo</i>	<i>Goleuedigaeth</i>
Nid	prawf	profiad
Ond	prawf I (cyfyngedig) amddifad gras cyffredin natur	prawf II (digyfyngiadau) cyflawn gras cyffredin a gras arbennig goruwchnatur (gan gynnwys natur)

Nid enwir ffynhonnell ac ni nodwyd sail y drefn yn yr Ymoleuo seciwlar. Dywedai'r Oleuedigaeth ar y llaw arall yn ei buddugoliaeth ym mywyd Pantycelyn a'i gyfeillion:

*Holl drefn y greadigaeth a'i harddwch ffeinia' ma's,
Oll fuasai'n mynd yn ofer oni bai Cyfamod Gras.*

Trafferth Ôl-foderniaeth yn y dyddiau diweddar hyn oedd nid yn unig ei bod yn methu â sylwi ar y drefn honno, na'r gwerth na'r pwrpas y credai Pantycelyn eu bod yn treiddio drwy'r Arfaeth, eithr bod y gwadu dogmatig yn methu â chael gwared â'r drefn chwaith. Yn nannedd yr honiadau a'r rhagdybiau Ôl-fodernaidd, mynnai'r drefn honno ddyfal ddilyn y bardd i bob man:

GWWP I 87

*O'i fewn yn meddu gwyddor o feddwl puraid Duw;
Had yr holl gyfraith foesol oedd yn ei galon wiw,
Ac ewyllys i'w ei gwneuthur, cans natur iddo ef
Myfyrion a chyflawni dymuniad Brenin nef.*

Yr oedd enw arwrgerdd *Theomemphus* hithau yn deitl arwyddocaol iawn ar yr ymrafael hwn. Ymfynnwr Duw oedd Theomemphus. Yr oedd yna frwydr hefyd yn yr ymfyn. Allan o'r mwg, a sawr y Gwaed, a godai uwchben y frwydr honno, cawsai Pantycelyn ynghynt *Olgw ar Deyrnas Crist*. Sylwai mai ystyr y frwydr yno oedd bod rhagluniaeth yn trechu'r Cwmp. Ond gyda'i fyfyrdod ar bregeth Efangeliws y cyraeddasai Pantycelyn aeddfedrwydd hyder ei dröedigaeth — ei sicrwydd rhoddedig. Aeth drwy gyfres o rwystrau syniadol a phrofiadol — thematig — er mwyn cyrraedd y nod yna. O ran adeiladwaith, defnyddiai Williams yr un math o gynllun bras neu dechneg lenyddol ddramatig ag a ddefnyddiai Dafydd ap Gwilym mewn cywyddau serch wrth iddo ymlwybro drwy bob math o atalfeydd ac anawsterau er mwyn cyrraedd ei gariadferch. Cyraeddasom fel y gwelsom, erbyn Pennod VI, ychydig dros chwarter ffordd drwy *Theomemphus*. A chredaf mai cefndir dadleuol ei ieuencid oedd hyn o ddarlun oll, hyd y fan yna, — o'r ymryson crediniol cynnar, hyd y tystiolaethu llengar aeddfed. Dyna'i gefndir o'i febyd yng Nghefnarthen hyd yn oed cyn

clywed Boanerges. Yr hyn a adroddai yn y dadleuon cynnar hyn oedd ei gefndir cymdeithasol diwinyddol, yr ymryson mewnol ac allanol a rannai ef gartref â'r gweddill o'r gymuned Gristnogol leol, yn ymwybodol agored, ac yn destun dadlau cyhoeddus iawn, ond erbyn y cyfnod diweddarach yn finio fyw.

*

*

*

Bellach, y mae Theomemphus yn wynebu proses gymhleth a dwys arall yn rhan nesaf y gerdd: Sancteiddhad, sef ei fywyd ymarferol personol o hyn ymlaen fel Cristion. Ac yn ei fuchedd bellach, ceir dwy broblem neu ddwy ddadl fewnol fwy ymrwymedig, weddol bersonol a phreifat, sy'n parhau i'w rwystro. Diau fod y rhain (yr ail o leiaf sy'n datblygu'r drydedd) o ddiddordeb i bobl eraill hefyd. Ond i Bantycelyn, a oedd wedi hen setlo'r dadleuon cynt drwy gofleidio Calfiniaeth Ymrwymedig Efengylaidd, yr oedd y rhain iddo ef ei hun yn faen tramgwydd newydd ac yn flinder personol i'w gydwybod yn feunyddiol. Roedd rhaid i'r syniadaeth gael ei sancteiddio hefyd.

Nid oedd dadleuon, yn ffurfiol, ond yn frwydrau tuag at ddeall yr hyn a oedd wedi digwydd iddo. Yr oedd y ddwy newydd yn para'n dramgwydd.

Yn gyntaf, y ddadl gydag Academus. Ysgolhaig wrth reddf oedd Pantycelyn. Roedd ganddo hyfrydwch aruthr yn y Greadigaeth syrthiedig; ac ysfa i'w hastudio a rhyfeddu ati, gan ymlafnio gyda gwybodaeth wefreiddiol amdani, y llyfrau dadlennol a'i trafodai, y meddyliau anferth amdani. Mor rhwydd oedd i ŵr deallus effro ymroddgar o'r fath gael ei faglu gan y greadigaeth ei hun rhag mwynhau llawn gymdeithas â'r Creawdwr. Mor barod oedd y cynnyrch i'w atal ef rhag mawrygu'r Cynhyrchydd. I ŵr a feddai ar ddeall effro egnïol ac a ddarganfyddai'n feunyddiol wybodaeth newydd a syfrdan am y greadigaeth allanol a mewnol yr oedd ef yn rhan ohoni, câi fwynhad anhraethol wrth ymhél â'r greadigaeth amlochrog a chyfreithlon honno. Adroddir am yr ymryson mewnol hwn yn GWWP I, 376-386. Gorweddai'r wir broblem, nid yn nhrefn neu strwythur a chynnwys yr wybodaeth hon i gyd, nac yn y disgrifiadau ohoni, ond yn y Cymhelliad, yn y cyfarfyddiad, yn ystyr, gwerth a phwrpas yr ymrwymiad hwn. Beth oedd ei gyfeiriad? Beth oedd y rhagdyb a reolai'i feddwl am hyn?

Daw ef i gasgliad aeddfed a chadarn, sy'n dechrau fel hyn:
GWWP I, 383-4

*Yn erbyn dysg nid ydwyf, mi wn bod dysg a dawn —
Os hwy na chamarferir — yn berlau gwerthfawr iawn;
Fel yr anghyfion Famon yn derbyn dyn i'r nef,
Os er gogoniant dwyfol hwy a'i defnyddiant ef.*

Mae pob rhyw gelfyddydau yn hyfryd yn eu lle,

*Ac fel pe baent yn sgwrio grasusau pur y ne';
Os cânt eu troi a'u trafod, a'u harfer oll i glod
Yr hwn a roddodd deall i'w gweled gynta' erio'd.*

*'Rwy'n caru astudio natur o gwr i'r llall o'r byd,
Y ddaear, môr, ac awyr, ac ynddynt sydd i gyd;
A ffeindio Sadwrn bwysig a'i holl leuadau 'ma's,
Ond i'r wybodaeth yma i ragwasnaethu gras.*

*'Rwy'n chwilio'r holl historwyr, yn gylch ddél i fy llaw,
Ac hyd y caffwyf amser eu darllen trwyddynt draw;
Ond hyn wy'n geisio ynthynt, nid er helaethu 'nghlod
Ond gweled gwaith yr Arglwydd a'i ryfeddodau erio'd.*

Felly y marchogai Williams ar gefn ei geffyl, yn brin ei amser, gyda'i awenau mewn un llaw a'i awen yn y llall, tan ddarllen llyfr cyn ei werthu (gyda the) yn y ffermdy nesaf, gan leibio yr un pryd feddwl y byd a garai i'w galon a chan gyflwyno'i galon yr un pryd i'w Grëwr a'i Waredwr. Dyma ddadl rhwng y trachwant am ddysg, a dysg fel llawforwyn sy'n goleuo.

Digon tebyg mai cymharol ddibwys, ar ôl ei dröedigaeth, a'r datguddiad ysgrythurol, fu rhai dadleuon eraill o'r fath i gydwybod a deallusrwydd y bardd. Nid dyna'r ddadl bwysicaf o'r ddwy yn niwedd *Theomemphus*. Nid dyna'r ddadl chwaith a brofai'n boen enfawr ac yn broblem weddol gymhleth i seicoleg ac i egwyddorion ymarferol Williams. Eithr Mari, hi oedd y rhwystr nesaf.

Hon oedd y wraig a garai ef, a edmygai, a barchai, gydag angerdd anhraethol. Hiraethai amdani pan âi ar daith; nid digwyddiad anaml. Onid ef oedd ffigur carismatig llawer o'r Seiadau? Ond roedd yn dwlu ar hon gartref yn gwbl gyfreithlon. Un o'r ychydig ymhlith y diwygwyr crwydrol pennaf (Whitfield, John Wesley, Harris) oedd Williams a fwynhâi briodas bêr a chyflawn. Oni ddwedodd Duw wrtho 'Câr dy wraig fel y carodd Crist yr Eglwys, gyda pharodrwydd i roi dy fywyd drosti'? (GWWP I 327). Mae'r cwbl o'i brofiad hwn yn cael ei gyflwyno dan fwgwd, y profiad a gafodd ef gartref yn anwyldeb ei aelwyd, y profiad amryfal a gafodd ef beunydd wrth gynghori pobl ifainc nwydus y seiadau, ac ynghudd yn ei galon bechadurus ei hun. A'r profiad o fod yn fardd unplyg crefyddol a flasai'r bywyd naturiol gydag awch. Dyma bwnc a gafodd fwy o sylw ganddo nag odid unrhyw broblem ymarferol bersonol na chymdeithasol arall. Dylid crybwyll i Bantycelyn ddychwelyd ati droeon, yn arbennig yn ei *Gerdd Newydd am Briodas* (1762) ac yn *Ductor Nuptiarum neu Gyfarwyddwr Priodas* (1777), ac mewn manau eraill. Ofnai y gallai'i charu'n ormodol.

Sylweddolai Pantycelyn fod modd iddo ef ei hun, — a gwyddai fod hyn yn wir iawn am Gristnogion eraill, — ymserchu mor gwbl eithafol ac i'r fath raddau nes iddo droi'n 'ddelwaddoliad', fel y cyfaddefai. Hynny yw, — pe bawn yn gallu gwneud cymhariaeth Feiblaidd weddol chwithig — pe bai Duw wedi gofyn i ryw Theomemphus o Abraham aberthu Sara ar yr allor yn lle Isaac, tybed a fuasai Cristion o fath Theomemphus wedi gallu'i wneud? Gallasai serch fod yn drech na'i ffydd. Difrifoldeb mawr cariad cyfreithlon priodasol, dyna a'i blinai ef, dybiwn i.

Ond roedd yna rywbeth arall ym maes y 'caru', mi gredaf. Ymestyniad od fel petai. Tybed a oes, mewn un adran o'i *Theomemphus*, un fenyw a ddefnyddid ganddo yno yn symbol o'r 'awen'? A yw hyn o ddehongliad o'r rhan hon o *Theomemphus* yn ecentrig ac yn annerbyniol? O ran dehongliad uniongyrchol, nid oes trafferth mewn dehongliad syth, ar wahân i'r ffaith anesmwyth a oedd yn y pyncio, ym mywyd bardd, a oedd yn gallu bod yn feirniadol iawn o serch 'rhamantaidd' y nwydau amddifad. Sylwer mai 'Philomela' oedd gwrthrych naturiol serch Theomemphus, sef '*Caru Canu*'. A dyna, yn llythrennol, y trydydd pechod a ofnai, gredaf i. Dylwn bwysleisio nad wyf am geisio dehongli Pennod XIII fel pe bai Philomela yn cynrychioli'r Awen yn ymwybodol, nac Awen Serch yn arbennig, ddim yn hollol. Ni charwn awgrymu bod Pantycelyn am awgrymu mai symbol amlwg uniongyrchol oedd Philomela, a'i fod ef yn cael ei ddenu'n gryf ac yn angerddol i fwynhau'r Awen hon, i ymloddestu yn ei pherthynas hi, i'w gweld hi'n wrthrych hyfrydlon i'w nwydau mwyaf, ac eto i bwysu'n beryglus yr atyniad i'w phriodi. Na; nid yn hollol. Ond credaf fod yr anesmwythyd hwn ynghylch yr awen ar waith yn ddirfawr ddirgel yn ei feddwl, yn ei gorddi. Yr oedd arno drachwant – mewn byd o amser – am y dasg hon. Y canu hyfryd yna. Y mae'r ymsymud hwn rhwng serch at ferch, a serch at Grist, ynghyd â chariad aruthr at gwmpeini dyfal yr Awen, yn ymblethu drwy'i gilydd gredaf i drwy gydol ei emynau yn ogystal ag yn yr adran hon o *Theomemphus*, GWWP I, 313-343. Deniadau melys oedd geiriau ar gân.

Ymryson sydd yma hefyd efallai, yng nghefn meddwl Pantycelyn, rhwng yr awydd priodol i ganu serch i'w wraig Mari a'r alwad ddwys ddifrifol, ond llawen hefyd, i ganu'i gariad at Dduw. Fe'i datrysodd wrth gwrs drwy drawsffurfio a dyrchafu'r naill at y llall.

Ond dyma'r Awen Serch yn cogio bod yn Philomela: GWWP I

322 *Philomel' oedd ei henw, hi ganai yn hyfryd iawn,
Hi sugnai ddyn i'r nefoedd ag oedd o feiau yn llawn ...*

323 *Atsain ei geiriau hyfryd o bellter ffordd y sydd
Yn seinio yn fy nghlustiau bob munud fach o'r dydd ...*

Mae gweld yr ysbryd sy ynnddi, a'i chalon ddrylliog, friw

Yn ennyn awen newydd i 'mofyn mwy am Dduw ...

328 *Hi biau'r dweud a'r gwneuthur, a dwyn ei phwnc ymlaen,
I'm tyb ynfydrwydd hollol fy nyfais i o'r blaen;
Hi wna yr ymadroddion distadla' yn y byd
Fil yn fwy hyfryd imi na'r celfyddydau 'gyd.*

330 *Y rhai sydd fel yr afon bob awr yn llifo i ma's
Oddi wrth bob gair, bob awgrym, bob golwg a phob gras,
Yn ufuddhau, yn cwmpo mewn cydsain serchog, rydd,
A chariad yn ymgymysg trwy gydol faith y dydd.*

Pynciodd ef 'Gân ymadawiad Theomemphus' wrth droi'i gefn ar Philomela, a arhosai er gwaethaf hynny yn nawdd sant serch iddo, wrth droi o Natur at Oruwchnatur.

GWWP I, 342

*Ni newidiwn ganiad ddynol
I ganiadau Seion fryn;
Darfu amser dentio ei gilydd,
Gormod garu ydoedd hyn;
Fe fydd llwybrau temtasiynau
Yn llwybrau Iechydwrriaeth rad,
Ac ymddiddan am serch natur
Yn ymddiddan am y gwa'd.*

Hynny yw, os yw fy nehongliad anuniongred yn gywir: dyma ymryson yn y fan hon rhwng yr Awen Wir a'r Awen Au, a hynny wedi'i wau yn glòs iawn, yn rhy glòs i fod yn drosiad, ond yn ddigon clòs i fod yn lled symbolaidd gredaf i. Roedd yn ddigon clòs hefyd i esbonio mwyach pam y canai mor serchgalon angerddol:

GWP II, 334

*'Rwy'n edrych dros y bryniau pell,
Am danat bob yr awr;
Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron myn'd i lawr.*

(Ynghyd ag 'O llefara, addfwyn Iesu! / Mae dy eiriau fel y gwin ...'; 'Anweledig, rwy'n dy garu,' 'O sancteiddia f'enaid Arglwydd, / Ym mhob nwyd ac ym mhob dawn' a.y.b. ugeiniau ohonynt.)

Ymhellach na hynny, ac yn gwbl gyfreithlon, fe fu'r profiad o briodas aeddfed, amlochrog ac angerddol hefyd gyda'i gariad at yr awen wir, yn sylfaen, yn drosiad, ac yn esboniad yn ei brofiad i gyd-wau cyfundrefn thematig cariad drwy gwllwm o emynau sy'n adrodd yn orfoleddus am ei brofiad o Iesu Grist. Deallai gariad at Dduw yn well oherwydd ei wraig a'i awen. Dyma ddysg i'r Seuadau.

Dyna, gredaf i, — mewn dysg, mewn serch, mewn awen — ei dair dadl breifat a pharhaol fwyaf. Dyma Sancteiddio, olyniaeth lorweddol mewn amser, fframwaith dechrau/diwedd.

Y RHAGOSODIAD

YR ABSOLIWT TRAGWYDDOL

A'R WRAIDDGYFUNDREFN

(i)	Rhagosodiad yr Absoliwt	92
(ii)	Rheidrwydd Undod	103
(iii)	Rhyfedd o Un — Tri!	109
(iv)	Rhyfedd o Un — Dau	111
(v)	Undod yr Absoliwt â'i Gynllun	117
(vi)	Cyngor Tri yn Un	121
(vii)	Mwy na Perthynas — Bodolaeth	125
(viii)	Mwy na Bodolaeth — Perthynas	130
(ix)	Perthnasoldeb Dadansoddiad Pantycelyn i Seciwlarwyr	137
(x)	Y WRAIDDGYFUNDREFN: YR ARFAETH	150

Y RHAGOSODIAD

(i) YR ABSOLIWT

Mae siâp meddwl Pantycelyn yn dechrau yn yr Absoliwt. O safbwynt Ffurf a Deunydd, safle angenrheidiol yw Absoliwt ym mecanwaith byw a threfn, lle bynnag y ceisir dweud y gwir. Amhosibl yw ei hepgor am fod yn rhaid defnyddio'r cysyniad o 'wirionedd' er mwyn meddwl a siarad yn ymarferol. Hyd yn oed yn nogma Relatifrwydd, rhaid wrth absoliwt i gyfrif bod y safbwynt echreiddig hwnnw yn 'wirionedd' a fyddai'n undod i'r holl gyfanwaith.

Mae buwch yn gorfod bod yn fuwch. Yn hierarci ystyr, hynny yw, yn hierarci iaith, (a hynny yw yn hierarci llenyddiaeth), ceir safle solet i'r Absoliwt. Cymerir yn ganiataol fod gan air ystyr. Oherwydd y pegwn rhagosodedig hwn, y mae 'peth' yn gallu bod yn gredadwy. Mae'r ddibyniaeth ar ramadeg hefyd yn rhagosodedig debyg. A gwyddom fod cynnwys i'r Absoliwt yn ganolog ym mryd Pantycelyn. Dyma iddo ef yr Un sy'n gwneud y 'gwahuniaeth' (gwahaniaeth + undod) rhwng amrywiaeth pethau. O ran hierarci gweithrediad cysondeb pob meddwl, does dim hepgor rhagdyb yr uno.

Yr Absoliwt hefyd sy'n datrys problem cyfundrefnau *Achos/Effaith*, a *Symudydd/Symud*. Oherwydd pwysigrwydd yr ymwybod o Absoliwt i Williams, ac oherwydd naifder llenorion seciwlar ynghylch arwyddocâd rhagosodiad neu absoliwt yn eu safbwynt hwy eu hun, mae'n ddyledus trafod y safle hwn braidd yn estynedig. Gêm i rai esblygwyr oedd camu dros y bylchau.

Hefyd mae gan bawb 'ragdyb' wrth synied am fywyd. Er enghraifft, gellir rhagdybied fod modd inni feddwl a rhesymu heb Dduw, — neu ar y llaw arall na ellir na meddwl na rhesymu heb gyd-destun Duw. Mae'r naill safbwynt a'r llall yn absoliwt. Ein syniad personol ni o Absoliwt (rhoddedig) yw'r rhagosodiad eithaf, y rhagdyb y tu ôl i bob rhagdyb.

Yr Absoliwt hefyd sy'n caniatáu bod 'deddfau'n' medru bodoli ym myd natur (megis disgyrchiant), ac y gellir dibynnu ar ryw fath o 'raid' tybiedig. Yr Absoliwt yw craidd neu ben draw bodolaeth deddf. Er nad wyf yn derbyn y ddadl ontolegol gan Anselm fel modd i 'brofi' bodolaeth Duw mewn dull meidrol, fe'i derbyniaf yn ddisgrifiad o un o *nodweddion* yr Absoliwt; fel 'rhywbeth na ellir ystyried dim yn fwy'. Help yw i amgyffred y Tragwyddol hwnnw sy'n absoliwt am na ellir ystyried y 'mwy tragwyddol'. Dysg profiad inni synied am

y dechrau a'r diwedd. Yr Absoliwt biau'r fodolaeth a'r ansawdd y gellir eu synied y tu hwnt i'r dechrau a'r diwedd. Perthynas yn unig yw'r ffordd i 'brofi' bodolaeth Duw'n llawn.

Felly diymadferth ym yn gorfod rhagdybied absoliwt neu Absoliwt. Y mae'n ei ragosod ei hun. Yr ydym yn gorfod ei gyd-drafod yn isymwybodol oherwydd hebddo na byddai dim cydlyniad i ystyr yn bosibl. Dyna'r hyn sy'n peri bod perthynas i bob dim. Mae'n cwmpasu'r ymwybod o bob dim, ac yn caniatáu i'r amllder, na allwn ond cydnabod ei fod, fod yn brofedig i'n hamgyffrediad. Mae'r Absoliwt yn rhoddedig i'r meddwl ac i'r iaith er mwyn i'n meddwl feddwl o gwbl.

Rhagosodiad sylfaenol felly yw'r hyn a dderbynnir fel cyfeirbwynt eithaf, y ffactor cychwynnol a chwmpasol ar gyfer deall a chredu (ffydd). Disgyrchiant ysbrydol yw, cynsail y cyfan; a dihybyddol yw i'r meddwl. Dyna hefyd anocheledd bodolaeth, yr hyn a gymerir yn ganiataol gan bawb ohonom.

Ai'r un yw Absoliwt Diwinyddiaeth ag Absoliwt y llenor? Ie'n sicr: un Absoliwt, beth bynnag a ddywedo dyn am bethau amryfal sy'n 'absoliwt' iddo ef. Eto, yr un safle sydd iddynt yn neinameg 'Creu' a 'chreu' dynol. Yn ôl Pantycelyn, fel llawer o'i flaen, Dante, Milton, Edmwnd Prys (megis ei wrthwynebydd Wiliam Cynwal), yr Ysbryd Glân oedd tarddiad yr awen yn ddi-os. Oddi wrth Hwnnw y ddi grym yr Absoliwt ac iddo Ef y cyflwynid y gogoniant. Mae'n wir mai Ego Trosgynnol yw'r absoliwt yng ngorllewin Ewrob gonfensiynol mwyach. *Ond yr un **safle** cyfundrefnol sydd i'r rhagdyb yna ag sydd i'r llall o fewn hierarci greadigol gyffredinol llenyddia.*

Ffaith darddiadol yw'r Absoliwt. Mae'n gosod tarddiad a gwerth ac ansawdd hanfodol ym mherfedd llenyddiaeth. Mae'r Cristion o lenor yn meddu ar ddau fynegiant i'r Absoliwt - sef Absoliwt arbennig tarddiad ei awen, a safle Gras Cyffredinol yr Absoliwt sy'n gyffredinol greadigol i bawb. Ni all neb osgoi Absoliwt. Dengys yr ymdrech honno naifder relativrwydd a naifder di-bwynt yr *avant-garde*. Cychwynfa anochel yw Absoliwt i Bwrpas a Gwerth. A phwysleisia'i safle'n holl-ddylanwadol ar bob dim. Cymorth yw sylweddoli hyn i amgyffred cyfanrwydd llenyddiaeth fel ffenomen, ac fel y mae a wnelo'r Ego Trosgynnol â phob gwedd ar lenyddiaeth seciwlar. Y sylweddoliad hwn o Absoliwt sy'n cyfrif hefyd pam y mae'r llenyddol yn sylfaenol 'gadarnhaol' ac o dan anocheledd dibynnu.

Os safle cyfundrefnol yw'r absoliwt wrth olrhain ffurf meddwl, yna Person, Tad cariadus, ydoedd i Bantycelyn. Ond nid dyma'r unig ffordd y 'profodd' Pantycelyn Dduw. Yn ystod yr Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*) a'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*), yr oedd Pantycelyn yn wynebu pedwar math penodol yn fras o ragdyb ynghylch yr Absoliwt.

Yn gyntaf, ei safbwynt Cristnogol ei hun, sy'n cynnwys tair gwedd:

I	1. <i>Perthynas â Duw tragwyddol bersonol</i>	2. <i>Synhwyrau naturiol</i>	3. <i>Cyfundrefneg (a Rheswm Naturiol)</i>
	Dimensiwn Ysbrydol	Materol	Materol
	Trosgynnol-fewnfodol	Mewnfodol deimladol	Mewnfodol feddyliol
	Gwrthrychol-oddrychol	Goddrychol	Goddrychol
	Goruwechnaturiol	Naturiolaid	Naturiolaid

Y triawd yma yw'r cefndir i'r rhagsafle triol Cristnogol: gan Isaac Newton, Jonathan Edwards, Wesley, Pantycelyn, a William Morris (erbyn y diwedd). Mae'n gynhenid i'r Oleuedigaeth, gyda'r golofn gyntaf yn amodi'r ddwy wedyn. Ond yn gyferbyniol, ac yn bedwerydd, ceir safbwynt cyfredol:

II	1. <i>Bod Duw</i>	2. <i>Rheswm (Cyfundrefneg)</i>	3. <i>Synhwyrau</i>
----	-------------------	---------------------------------	---------------------

Dyna i bob pwrpas safle'r Deist dyngarol, fel yr emynydd cynhyrchiol Iolo Morganwg, gyda phwyslais ar *sensus divinitatis*, crefydd fel ffenomen gyffredinol. Derbynia yn 'wyddonol' fod damcaniaeth 'bodolaeth' Duw yn well na dim arall yn ateb cwestiynau megis tarddiad *achos/effaith*, Bodolaeth bodolaeth, trefn bywyd y synhwyrau, rheswm, cysondeb amrywiol, cywreinder DNA, gwerthoedd, pwrpas, ffynhonnell gwybodaeth, a.y.b.. Eto, ceir amharodrwydd fel arfer gan y Deist i ymagor i Berthynas bersonol. Ac erys fel arfer beth gwrthuni cynhenid oherwydd canologrwydd dyn yn erbyn Duw goruwechnaturiol fel Bod, ac yn sicr yn erbyn y Drindod. Ond, gellir cael parodrwydd i dderbyn dimensiwn heblaw'r Naturiolaid fel damcaniaeth resymegol, a chydabyddir moeseg wrth gwrs. Mae *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw) yn gynneddf anedig ganddo, yn ymwybod bydeang o fodolaeth Duw, er y newidir hynny o ran ansawdd yn y Cwmp. Eto, hyn sy'n cyfrif am Grefydd Gymharol. Wedyn:—

III	1. <i>'Dim byd' ymarferol, yn dybiedig</i>	2. <i>Synhwyrau</i>	3. <i>Rheswm (Cyfundrefneg)</i>
	<i>(y gwir yw bod 'Dim byd' yn rhagdyb rhy awdurdodol ar wahân i ymddygiad)</i>		

Dyma ragdyb arferol y Seciwlarydd yn yr Ymoleuo; gyda'r Empeirydd yn pwysleisio'r pum synnwyr a'r profiad, a'r Rhesymolegydd yn pwysleisio'r rheswm.

Yn y cyfnod diweddar, gyda'r gwth ffasiynol yn erbyn yr Ymoleuo, cafwyd yr Ôl-fodernydd yn ofer synied ei fod yn gallu gwrthryfela'n erbyn Metanaratif y triawd uchod, a chofleidio anhrefn. Try'r gynneddf o amau sicrwydd yn synied absoliwt o ddamweinioldeb iddo, amhenderfyniadaeth, lluosedd, gwahanu, relativrwydd, sy'n ceisio dadadeiladu safle'r Cristion a'r deist. Ond y mae'r Metanaratif hwn eto'n absoliwt, wrth gwrs, gan gwmpasu pob dim. Hynny yw, undod yw arwyddocâd Metanaratif. Tipyn bach yn anodd yw profi'r DIM BYD yn rhagdyb: ffydd ramantaidd yw. Amhosibl hefyd yw peidio â byw o ddydd i ddydd heb synied absoliwt yn ymarferol ar ryw lun, yn hapus braf heb na 'bodolaeth' na disgyrchiant. Ond myn rhamantwyr ramant.

Diddorol yn wyneb y ddau safbwynt arall (II a III) yw ystyried nod *Pantheologia*, astudiaeth Pantycelyn o Grefydd Gymharol. Tuedda'r Deist gwareiddiedig fel yr Agnostig neu'r Atheist arferol i gogio haelfrydedd. Maent yn oddefgar wyneb yn wyneb â'r Goruwchnaturiol. Mae pob crefydd mor *annilys* â'i gilydd. Dyna ragfarn deallusyn agnostig y Gorllewin, er mai 'dweud' yn unig eu bod mor *ddilys* â'i gilydd wrth gwrs a wna, os yw'n rhyddfrydwr go iawn. Ond mae hynny'n golygu'r un peth. Yn *Pantheologia*, cydnebydd Pantycelyn fod yna wareiddiadau, yn wir crefyddau go nodedig wedi'u hadeiladu ar sail crefyddau eraill, gan gynnwys Deistiaeth ac Atheistiaeth. Ond wrth gwrs, dogma creulon y rheini weithiau yw gwadu unplygrwydd a neilltuolrwydd (*exclusivism*) a'u coleddu yr un pryd. Nid yw goddefgarwch yn ymestyn mor bell ag edliw hynny'n gyhoeddus er y gellid cydnabod neilltuolrwydd, a hynny heb golli na pharch o fath na goddefgarwch caredig tuag at unrhyw grefydd. A hynny oedd safbwynt *Pantheologia*, llyfr a drafodai grefyddau'r byd, gan gynnwys Protestaniaeth Lloegr a'r Alban heb sill am Gymru, ond heb gyfaddawdu.

Yn y tair ffurf ar yr Absoliwt a ddyluniwyd, dylid nodi bod Gras Arbennig yn ofynnol ynghyd â Gras Cyffredin i'r Cristion, lle y mae Gras Cyffredin yn ddigonol i'r Deist a'r Agnostig/Atheist. Mae'r seciwlaryn arferol yn tueddu i dybied, yn wir i frolio, ei fod yn ddiduedd, ac nad yw'n ufudd i absoliwt. Fan yna, tybia ei fod, heb fod yn ymrwymedig i'r un safbwynt (heblaw'i safbwynt ei hunan), yn haelfrydig braf o ran teimlad ac yn wryfol ddiragdyb, gyda meddwl penagored hyfryd. Mae ganddo 'tabula rasa'. Ond y mae gwacter ei hun yn absoliwt.

Y cyntaf o'r tri thriawd a enwyd yw'r unig un sy'n ddigonol i esbonio'r 'damweiniau' a'r 'bylchau' adnabyddus i gyd: sef bodolaeth, trefn, ymwybod, bywyd, gwerth, pwrpas.

Cymerir yr Absoliwt fel ffenomen sy'n cwmpasu pob disgrifiad ohono fel y cyfeirbwynt sy'n rheoli holl Hierarci esgor ar Ddeunydd llenyddol. Gan ddechrau yn y pwynt anochel hwn, anelwn yn y gyfrol hon at amlinellu holl rychwant y gyfundrefn o lunio deunyddiau mewn llenyddiaeth. O'r Absoliwt i'r motiff; o'r pen i'r gwaelod mewn hierarci.

Heb ryw fath o ragdyb o egwyddor neu sylfeinrwydd ymlaen llaw, a gymerir yn ganiataol, does dim ffordd i rywun brofi dibynolrwydd na bodolaeth synhwyrau. A'r un modd heblaw'i gymryd yn ganiataol, drwy reswm does dim modd profi bodolaeth arwyddocaol blaenoriaeth rheswm chwaith. Yn wir, rhagdybir defnyddioldeb gwahanu ac uno pethau mewn gofod ac amser er mwyn profi dibynolrwydd rheswm. Beth yw achos synhwyrau a rheswm o gwbl felly? Pa sylfaen sydd dros hawlio absenoldeb dimensiwn arall gan ddweud yn ddogmatig 'dim arall'?

Tipyn bach o sialens yw profi ‘dim byd’, efallai. Pa sail sydd i ddigonolrwydd cyfyngedig yr hyn a brofir drwy’r dulliau dychmygol yn unig? Onid mytholrwydd yn yr hen ystyr yw? Onid cam go arwyddocaol yw absenoldeb dogmatig, yn ogystal â mawr gamp y gwyddonwyr allwyddonol yn eu tasg o brofi bodolaeth anferthol ‘dim byd’? Cesglir yn ddiwyd, sut bynnag, y dystiolaeth broblematic absennol ar gyfer yr esboniad arall yn y Bwlch gogleisiol hwnnw.

Safai Pantycelyn yn ôl weithiau, a chwilio gyda’i gymeriadau dychmygol am Ddamcaniaeth ddi-hysbyddol, a atebai’r angen i gyd yn ddi-fwlech yn y Bwlch hwn. Gwelai o’i ddeutu wrth gwrs ysfa afresymol i wrthod Duw Personol-Dragwyddol a bodolaeth y drwg gwreiddiol. Ond gwelai fwy na Damcaniaeth berffaith o ateb nad oedd yr un gwell na hi, un fwy nag Egwyddor y Rheswm Digonol (Leibniz): canfyddai hefyd Ddatguddiad. Canfyddai Berson, yn sythweliadol hunanwireddol.

Pan fo’n gwir fod, gall fod yn bosibl cael cyswllt — o fewn amodau — â’r Absoliwt hwnnw. Hynny yw, fe all fod Duw yn ei wireddu ac yn ei ddatguddio’i hun. Diau fod y Datguddiad hwnnw’n her i’r ysfa negyddol feddiannol (ond esboniadwy afresymol). Ond dichon hefyd nad Duw distaw mohono. Mae’r hunanwireddu yn digwydd mewn sawl ffordd yn *Golwg ar Deyrnas Crist*: (i) yn y Greadigaeth ac yn yr Arfaeth, (ii) yn yr Ymgawdoliad, (iii) yn natguddiad y Beibl, (iv) ac yn y gydwbybod drwy waith yr Ysbryd Glân megis yn y *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw): dyma berthynas. Gellid llunio math o bedwerydd diagram-atodiad i fynegi’r Rhagdyb a oedd gan Williams yn Wraiddgyfundrefn i’w feddwl:

IV

Yr Un
Dwy Natur mewn Un Person
Y Tri

Yr Arfaeth Dragwyddol

Ar wastad uchaf meddwl Pantycelyn, ceid ymwybod o Absoliwt. Term ffurfiol yw ‘Absoliwt’ sy’n hwylus i gyfleu perthynas rhwng Rhagdyb eithaf a’r Unigolyn. Safle yw mewn Hierarci. Oherwydd natur unol ei hanfod, cyfeirbwynt eithaf yw i bob peth; dyma’r hyn sy’n cynnwys pob peth. Dyma sy’n cwmpasu bod a gwneud. Dyma’r Achos cyntaf a’r Trefnydd cyntaf. Un diffiniad o Absoliwt yw ‘cyfanswm o bopeth sy’n bodoli; cyfanswm

awdurdodol o fewn Cyfundrefn gydlynol'. I Bantycelyn, Duw personol-dragwyddol oedd, felly.

Yn ei arwrgerddi hir *Theomemphus* a *Golwg ar Deyrnas Crist*, mae a wnelo Pantycelyn â 'bod' a 'gwneud' absoliwt, fel ei gilydd. Camgymeriad, fel y cawn weld, fyddai gorbwysleisio'r gwahaniaeth yng ngogwydd y ddwy gerdd hyn. Ond y mae'r naill, *Theomemphus*, yn tueddu i ganoli yn fwy na'r llall ar y berthynas *Bod/bod* (heb esgeuluso'r Arfaeth y mae'r berthynas honno'n rhan ohoni). Ac y mae'r llall, *Golwg ar Deyrnas Crist*, yn tueddu i ganoli ar 'wneud' datblygol a llorwedd gan yr Absoliwt ar hyd echel tragwyddoldeb (gan sicrhau bod yr uchafbwynt i'w gael mewn marwolaeth absoliwt ac yn atgyfodiad absoliwt y *Duw/ddyn*); *Bod/gwneud*.

Ymhlith gelynon Cristnogaeth, tueddir, heb ei sylweddoli, i drafod yn olynol yr un ddwy wedd hyn: sef bodolaeth y rhagdyb personol-dragwyddol yn gyntaf, a'i waith datblygol yn ail. Gwedir gan amryw yr Achosydd, wrth gwrs, a rhoddir math o Fwlch neu Hunan yn Ei lle. Yn lle'r Personol, gosodir yr amhersonol, neu ofynnod. A gwedir Trefn hefyd: rhoddir math o Hunan-wneud goddrychol neu Ddamweinio esblygol yn ei lle. Diddorol sylwi fel y gellir mentro esbonio pob damwain.

Gan mai'r Absoliwt yw ffynhonnell ddatguddiedig meddwl Pantycelyn, rhaid yw dechrau unrhyw ymgais i olrhain ei feddwl ar y gwastad uchaf hwn. Yr oedd Pantycelyn yn ymwybodol iawn o'r ddwy ffydd neu'r ddau ragdyb a geid yn y fan yma y tu ôl i'r Cristion ac i'r Anghredadun. Gwyddai nad oedd modd 'profi'r' naill na'r llall o'r credoau hyn yn yr ystyr arferol a gormesol naturiol, drwy ymgyfyngu i ddefnyddio offer gofod ac amser, gan fod a wnelont â materion tragwyddol yn fertigol ac yn llorwedd. Ni ellid ar sail rheswm naturiol yn unig brofi bodolaeth dim. Roedd gofod ac amser yn cwmpo neu'n codi yn ôl eu rhagdybiaeth. A rhoddir y naill gred neu'r llall yn awdurdodol o'r tu allan i reswm gan yr Absoliwt ei hun neu gan Ei Air drwy'r hyn a elwir yn Ras.

Priodol i mi gyplysu arwyddocâd yr Absoliwt cyfundrefnus *a'i gyferbynnu â chyfundrefneg thema lenyddol* yn y pen draw, gan mai tuag at themateg lenyddol y symudwn yn y gyfrol hon. 'Thema' ar ryw olwg yw prif thema'r gyfrol.

Yr oedd yr Absoliwt yn thema ac yn fwy na thema lenyddol i Williams Pantycelyn. Pan feirniadwyd Thomas Parry gan Gwenallt am beidio â rhoi lle dyledus i grefydd yn ei *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg a Blodeugerdd* Rhydychen, sôn yr oedd y beirniad am fwy na thestun neu thema. Sôn yr oedd am fwy nag anghydbwysedd wrth roi darlun cyfansawdd gyflawn o natur ein llenyddiaeth, er bod hynny'n wir. Yr oedd a wnelo â ffactor penderfyniadol yn niben llenyddiaeth Gymraeg ac â gwareiddiad byw. Roedd a wnelo'r Absoliwt â

chyfeirbwynt gwerth ac ansawdd ac awen. Yn ddiarwybod, yr oedd Thomas Parry, heb ddifrif amgyffred arwyddocâd yr Absoliwt yn llenyddiaeth Gymraeg, ar y pryd yn rhan o wth diwylliannol tyngedfennol ei gyfnod tua'r absoliwt dynol.

Yn 2006 codwyd ychydig o ffwdan gan newyddiadurwyr ynghylch 'darn o gelfyddyd' eithaf drud a agorwyd i'r cyhoedd yn y 'Chapter' Caerdydd (gyda nawdd CCC), sef ystafell wag, heb ddim yno. Gwyddom oll am gerddoriaeth Cage heb yr un nodyn, a drama Beckett heb yr un gair. Ceid rhesi o ddarluniau cyffelyb ers degawdau heb ddim ond cynfas, heb farc na ffurf, yn las neu'n binc i gyd, heb ddim arall. Oherwydd y dirywiad enbyd yn neallusrwydd beirniadaeth arluniol, gelwid y rhain yn 'feiddgar', 'yn codi cwestiynau', 'yn peri i chi feddwl' ac yn y blaen. Ceid dehongliadau ymhonnus plentynnaidd enbyd o estheteg. Ofnai'r werin feirniadu arlunwyr anfeirniadol. Ond yr hyn a oedd yno, yn syml, oedd alltudiaeth ddogmatig dybiedig yr Absoliwt, gwacter ystyr, relativrwydd go amwys, nihiliaeth, a hen wrthryfel Eden. Amlygid dirywiad enbyd y meddwl cyfoes; ynghyd â thaeogrwydd a bwlio llawer o'n beirniadaeth. Ceid gwrthgyferbyniad absenoldeb.

Ni ellid osgoi na dileu nac alltudio'r Absoliwt. I'r artistiaid uchod roedd y gwacter ei hun yn Absoliwt. Ein parchedig fwllch. Dyna oedd y chyfeirbwynt meddyliol gan yr Ego Trosgynnol. Diau fod yr ystafell wag honno liw nos yn dywyll ond yn dal i lefaru am yr amseroedd pan nad oedd neb yno. Ond hyn oedd yn llywodraethu safonau a gwerthoedd y cyfnod mewn celfyddyd. Achwynai'r newyddiadurwyr am y gost. Ond yr oedd llawer mwy yn y fantol. Ceid bwllch o faintioli Duw yn ewyllysiol orfodol ym modolaeth ystyr yr ugeinfed ganrif. Ni ellid hepgor Absoliwt yn hwylus heb hepgor arwyddocâd ac awdurdod moesoldeb hefyd. Cawsom yno relativrwydd a Buchenwald a'r Gulag yn dynn o fewn yr ystafell honno. Hyn oedd Absoliwt llawer o fwsig a llenyddiaeth ddiweddar 'yn peri i chi feddwl', lle y llithrwyd yn isymwybodol i dderbyn 'traddodiad' difeddwl. Gwnaethpwyd y rhagdyb yn wrthgreadigol. Gwnaethpwyd di-foes yn foes.

Nid hunanlywodraethol yw Gwyddoniaeth chwaith. Myth ffydd yw annibyniaeth Gwyddoniaeth erioed. Fe'i rheolir wrth gwrs gan y gwrthrychol a'r goddrychol. Mae yna gysylltiad rhwng Gwyddoniaeth a bywyd yn gyffredinol, a phobl yn meddu ar ragdybiau o bob math. Fe'i cyfyngir gan eu natur haniaethol o ran eu perthynas â bywyd. Ac eto mae ei chyffredinolrwydd yn ei hynysu oddi wrth unigolyddiaeth pob person. Dibynnir ar reolau ymddygiad a meddwl, pethau sy'n bod cyn i wyddoniaeth fod. Nid gwyddoniaeth go iawn yw'r hyn sy'n ymhonni mewn dimensiwn arall, ond meddwl caeedig.

Wrth inni ystyried Deunydd mewn llenyddiaeth, mae'n weddus inni, felly, ystyried Deunydd (ystyr peth, arwyddedig; semantem) mewn iaith a'r deall cyn-iaith yn yr un cyd-

destun. Cyn iaith, fe geir wrth gwrs y Deunyddiau eu hunain. Modd yw iaith, megis llenyddiaeth, o ddadansoddi a chnawdoli o'r newydd ddelweddau o Ddeunyddiau'r Greadigaeth ddiriaethol (a haniaethol). Cynieithyddol yw'r hyn a ieithyddir, felly. Gellir o'r herwydd olrhain Deunydd crai, → Deunydd Ffurf iaith, → Testuniaeth llenyddiaeth. Dyna'r math o sefyllfa a rydd Hierarci i ni.

Wrth iddo geisio cyflawni'i ganfyddiad ef o'r Absoliwt, trodd Pantycelyn at syniadau megis yr *Anweledig yn ei fynegi'i hun yn y Gweledig* a'r *Undod sy'n cynnwys yr Amryw yn gydlynol* — megis y Drindod, neu'r Ddwyr Natur mewn Un Person. Yn wir, y ddwy egwyddor hyn yn union yw'r diffiniad cyffredinol arferol a phennaf o 'Gyfundrefn' iaith. Y syndod yw, po fwyaf yr olrheiniwn ddealltwriaeth Pantycelyn o Dduw, mwyaf y gwelwn fel y mae'r priodoleddau eraill hefyd y mae ef yn dychwelyd atynt o hyd yn nodweddu'r cysyniad o undodau cyfundrefnol yn gyffredinol. Gwêl ef y Greadigaeth ei hun yn Gyfundrefn o gyfundrefnau. Ond gwêl yn yr Absoliwt hefyd Ffurf sy'n fath o Gysgod o'r hyn a greodd Duw. Mae hyn yn gallu anesmwytho'r agwedd Ramantaidd at 'Berson'; ond hyd yn oed yn y person dynol, y mae'r gwaed a'r organau a'r aelodau a'u cydlynriad yn rhyfeddol o gyfundrefnus. Yn anymwybodol o'r ffaith neu beidio, bu Pantycelyn yn myfyrio'n ddwfn ac yn ddwys am briodoleddau cyfundrefn (neu 'sgêm'). Ac yr oedd hyn oll yn ystyriaeth gyfrifol ar gyfer ystyried natur y ffenomen o Ddeunydd o fewn adeiladwaith llenyddiaeth.

Hynny yw, wrth iddo fyfyrio ar briodoleddau Duw, yr oedd Pantycelyn yn ei baratoi'i hun i gynnull yr offer i sylweddoli cyfundrefnau deall. Yr oedd ei fyfyrdod yn datguddio nid yn unig briodoleddau Duw, eithr hefyd yr hyn mewn Gras Cyffredin sy'n adeiladwaith i ddadansoddi a deall y Greadigaeth roddedig.

* * *

Beth oedd rhagosodiad Pantycelyn felly ynghylch Gras?

Cafodd Descartes (1596-1650), oherwydd ei ragosodiad *Cogito ergo sum* (*Yr wyf yn meddwl, felly yr wyf yn bod*), ei feirniadu'n gyffredinol gan athronwyr, megis Russell ac Ayer. Meddai Descartes, 'Fe'm perswadiwyd i nad oedd dim yn y byd yn bod, nad oedd nef na daear, na meddyliau na chyrff, oni'm perswadiwyd ar yr un foment nad oeddwn i fy hun yn bodoli.' Dyma hen Absoliwt y fi ac agwedd y Ffenomenolegwyr, a thawtoleg cynnwys un peth o fewn y llall. Nid oedd Descartes yn hidio am y goeden druan nad oedd yn meddwl o gwbl. Hawdd y gallasai ddweud, 'oherwydd bod fy mam a'm tad wedi bod, yr wyf i'n bod.'

Wrth gwrs, profai rhagosodiadau o'r fath yn annigonol ar gyfer yr atebion a'r cwestiynau eraill a godai. Yr oeddent yn annigonol ar gyfer y pwysau a roid arnynt.

Ym mryd Pantycelyn, sut bynnag, gellid dweud ‘oherwydd bod Duw yn bod, yr wyf i’n bod.’ Oherwydd iddo’i geisio o ddiffri, a chyfarfod â’r Duw byw, ac oherwydd bod y profiad hwn er yn ffaeledig yn fydeang o ran ei wybodaeth, y daeth ef i ddeall a chredu’r ffydd Gristnogol yn ymwybodol fyw. Ei nod oedd cyflwyno’i ddealltwriaeth o natur y profiad hwnnw. Dilyn hynny a wnâi’i ddealltwriaeth o drefn Duw, achos ac effaith, y gweledig a’r anweledig, ffydd a rheswm, a realiti datguddiad hanes ar gyfer heddiw. Eto, nid sylweddoliad Pantycelyn yn unig o fodolaeth a oedd yn caniatáu bodolaeth.

I Bantycelyn, gyda’i ddiddordebau gwyddonol, o fewn cyd-destun llydan ei brofiad, Crist oedd yr Absoliwt. ‘Myfi yw’r Ffordd, y Gwirionedd, a’r Bywyd.’ Hynny yw, allan ohono Ef yr oedd y rheina’n dod. Nid oedd Gwirionedd ar wahân iddo Ef. Roedd Ef yn dragwyddol hunanddigonol. Ei eiriau Ef a’i feddwl Ef oedd ein safon mewn deall a chredu. Yr oedd Paul wedi sôn am ddwyn pob meddwl yn gaeth i Grist. Dyna hefyd genadwri arwrgerddi Pantycelyn. Mae pob syniad a sylweddoliad yn arwain yn ôl yn ddigymrodedd at yr Arglwydd gwrthrychol. Yr Absoliwt hwnnw yw’r unig ffenomen sy’n gallu cyfrif am gysondeb mater ac ystyr pethau. Ef yw’r cyfeirbwynt eithaf sy’n rhoi i bob deddf ei hawdurdod a phob ffaith ei phosibilrwydd deallol. A’r Ysbryd Glân sy’n ei ddatguddio.

Crist oedd yr Absoliwt yn gyntaf oherwydd y Greadigaeth, yn ail yn yr Ymgnawdoliad a oedd yn gydberthynol, y naill gyda’r llall yn gyfeirbwynt eithafbwyntiol i adnabod y Real sy’n wrthrych i ddyn ar wahân i bob profiad o’i eiddo. Hyn a roddai sail i brofiad. Yn y *logos* hwn, yn annibynnol ar ddyn, y ceid y drefn y cyfeirir yn ôl ati, ym myd Natur greedig ac yng nghorff Crist (M II 267-8): ym myd Natur fel y’i canfyddir gennym ni *a posteriori* drwy Grist ymlaen llaw. Ac yn drydydd, yng ngwerth a gwendid a ffolineb y Groes, dadlennir natur Duw i ni, nid oherwydd bod dyn yn datrys hyn o’i ben a’i bastwn ei hun, ond oherwydd iddo gael ei ddweud wrtho (M II, 278).

Dyna oedd fframwaith ei sylweddoliad aeddfed. Ac eto, nid dyna oedd y ffordd y teithiodd Pantycelyn ifanc at y Pantycelyn datblygedig. Yr oedd hynny’n nes at yr aeddfedu a ddisgrifiai Thomas F. Torrance *The Christian Doctrine of God: One Being, Three Persons*, Edinburgh, 1996, 84, fod yna dair lefel o fyfyrdod Cristnogol: (i) Profiad o Dduw mewn cyfarfyddiad, cyfarfod â Duw beunydd, addoliad, darllen yr Ysgrythur, ymwybod cynhenid o Dduw; (ii) Dealltwriaeth o adeiladwaith dysgeidiaeth, myfyrio am Dduw a’r Gwirionedd yn ddwysach; (iii) y Drindod, a natur cymundeb yn y berthynas gyflawn. Felly y tyfai’i brofiad personol o Absoliwt hollbresennol a atebai bopeth.

Ym myd llenyddiaeth, fe all gwaith seciwlar ragori’n gelfyddydol (o lawer iawn weithiau, wrth gwrs), ar lenyddiaeth Gristnogol. Oherwydd dull Duw o rannu Gras Cyffredin

yn ddiwahân, fe all dychymyg a chreffit ac angerdd fod yn fwy gafaelgar gan Bagan. Ond o ran profiad a gwybodaeth, mae'n dal yn fwy diffygiol, wrth reswm, mewn rhai cyfeiriadau 'Arbennig'. Hynny yw, y mae'r profiad paganaidd o fywyd yn hynny o beth yn gyfyngach.

Portreadir yr Absoliwt ar waith gan Bantycelyn yn ei ragarweiniad rhyddiaith i *Golwg ar Deyrnas Crist*: GWWP I, 3

'dangosir, i'r Tad yn Nhragwyddoldeb, cyn eto grëu nef na daear, osod ei Fab ei hun i fod yn bleser ac hyfrydwch iddo, yn arfaethu ei wisgo â natur ddynol, fel bai'n wastad yn ei fynwes greadur yn dwyn gwir lun ei Berson; ac a allai hefyd osod allan ei Ogoniant, rhoi ei enw, y Gair ac yn ordeinio i'w osod yn ben ar y nefoedd a'r ddaear pan gaent eu crëu, pob peth gweledig ac anweledig: ac yn amcanu rhoi ei Fab (ym mha un yr oedd efe yn ymddigrifu) i grëu bydoedd, ynghyd â'r holl greaduriaid sydd ynddynt ac arnynt, a dyn yn olaf. Ac er mwyn helaethu ei ogoniant ei hun a'i Fab, yn crëu dyn mewn cyflwr cyfnewidiol, ac yn dioddef iddo gwympo. Ac ar ragwel[e]diad ei gwymmp yn arfaethu gosod Crist yn Iachawdwr dynol-ryw ...'

Dyna'r Absoliwt sy'n corffori pob dim yn gydlynol: GWWP I, 4

*Yn nyfnder tragwyddoldeb beichiogodd Duw ei hun
O arfaeth faith anorffen, a'i rhannau yn gytûn ...*

Wedi'r ystafell wag, felly, canfyddwn gan Bantycelyn ychydig o fawredd yr hyn a gynigir yng ngolau ystafell y gwareiddiad Cymraeg Cristnogol.

Ond nid celfyddydwr cyfoes yn unig sydd yn brin. Ni chaniatêir gan rai gwyddonwyr chwaith fod yna'r un absoliwt ystyrllon. Hynny yw, seciwlariaeth mewn celfyddyd a gwyddoniaeth yn fynych yw'r rhagdybiaeth absoliwt a'i dogma sy'n dramgwydd i ddwyster ac i anrhydedd synnwyr. Ac y mae cymysgedd o'r fath yn ddrwg enbyd i aeddfedrwydd meddwl yn gyffredinol.

Nid oedd Williams Pantycelyn byth yn defnyddio'r term 'Absoliwt'. Term Ôl-Kantaidd oedd hwnnw. Ond pan âi ef ati, yn ystyriol, i ddsbarthu penodau *Golwg ar Deyrnas Crist*, fe soniai yn ei gynllun am Grist yn bob peth, ac ym mhob peth — yn yr Arfaeth, yn y Greadigaeth, yn Addewid Eden, mewn Rhagluniaeth, yn y Beibl, ac yn Iechydwrriaeth y Saint: roedd hyn yn ddweud llawer felly. Ond un peth arall yn y fan yna — adleisiai yn eglur ddigon mai Absoliwt ydoedd Crist o ran ansawdd os nad o ran teitl. Efô oedd ac yw'r Cydlynnydd. Crist oedd y pwynt Archimedaid. O leiaf, fe honnid bod Archimedes wedi dweud am gael pwynt y tu allan i'r byd, fel y gellid, pes câi, symud o'i herwydd y byd oll. Dyna, i Bantycelyn, ei Grist Cosmig. Cwbl wahanol oedd i Absoliwt y delfrydolegwyr.

Mae pawb yn ymwybod â'r dimensiwn tragwyddol hwn mewn modd ffaeledig. Ceir nam ar y gynneddf bid siŵr, fel ar bopeth arall. Ond o Japan hyd Dde America, o Alasca hyd Bortiwgal, ac i lawr hyd at lwythau mwyaf diarffordd perfeddion Affrica, ac ymhlith yr agnosticiaid oll, y mae'r *sensus divinitatis* fel y'i hadweinir gan Galfinwyr, ar waith yn ddyfal mewn gwahanol ffyrdd. Mae yn gydwybod, neu'n isymwybod i'n crafu oll.

Ymhlith cryn nifer, y mae'r fath gysyniad yn eu cynddeiriogi'n enbyd. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd cymeriadau fel De Vigny a Nietzsche yn enbyd o elyniaethus tuag at Dduw. Pentyrrid pob camwedd a ffeidd-dra, o ran cyfrifoldeb, ar ysgwyddau Duw. Cafwyd diwydiant gwrth-oruwchnaturiol. Ond er gwaetha'r sentimentau cryf hyn, methodd athroniaeth ei hun a synnwyr cyffredin ag ymward â'r cysyniad o Absoliwt.

Rhaid i bob llenor, pob person yn wir sy'n llefaru, ac sy'n mynd i unman neu wedi dod o rywle, gael cyfeirbwynt eithaf. Myn rhamantydd bledio rhyddid. Ond er ei waethaf, os cydymffurfia rywfodd â fframwaith iaith, a'r angen i wahuno, gan gyferbynnu a chlymu, yna mi fyn yr ymwybod o Absoliwt unol le llywodraethol a nod neu drefn yn ei feddwl.

Mae hyd yn oed agnosticiaid erbyn hyn yn sylweddoli mai Ffydd yw Seciwlariaeth. Felly, naïfder ar ran llywodraeth weddol ddi-glem ynghylch materion crefyddol fu sôn yn ddiweddar am 'Ysgolion Ffydd'. Dim ond Ysgolion Ffydd sydd i'w cael beth bynnag. Mae rhai ohonynt yn meddu ar Ffydd nad yw Duw yn berthnasol y tu allan i'r llan na'r capel; ac o'u tu mewn, namyn i'r lleiafrif hygoelus. Ac y mae eraill sy'n cymryd Duw o ddifri. Ond mae'n wir amhosibl bod heb Ffydd o ryw fath, megis bod heb awyr i'w hanadlu. Y ffydd leiaf edmyglon yw ymddwyn fel pe na bai gwahaniaeth.

Eu rhagdybiau direswm (neu y tu hwnt i reswm) sy'n penderfynu sut y mae pobl yn ymagweddu at fywyd. Person 'diaddysg' yw'r sawl sydd heb fod yn ymwybodol o'i agwedd ei hun at y byd, a beth yw'i seiliau Absoliwt. Dangosodd Polanyi fod y sylwebydd ei hun bob amser yno, ac mai ef ei hun sy'n tynnu'r casgliadau, ac na all fod yn ddiuedd.

Mewn gwirionedd, mae'r tipyn trafodaeth ynghylch Ysgolion Ffydd ac Ysgolion 'go iawn' yn brawf o eithafrwydd atalnwedus y gred Absoliwt anymwybodol mewn materoliaeth, positifiaeth neu empeiriaeth ddi-Dduw. Dyna'r awyr dybiedig ddi-ragdyb a anedlir yn ganiataol. Pe na soniem ond am addysg ynghylch llenyddiaeth — ei phwrpas, gwerth, a'i threfn, credaf y gellid dangos, yn weddol fuan i'n cyfnod ôl-fodernaidd, fod yna wahaniaeth rhwng lluosedd ac unplygrwydd, a bod gormes lluosedd y dyddiau hyn yn rhagfarn na ddylid o raid gydymffurfio â hi. Nid yw'r ffaith fod y gymdeithas ddiweddar wedi cyflyru ymennydd pobl (a phlant yn yr ysgolion), i dybied bod relatifrwydd a damweinioldeb yn

ddiduedd, yn wahanol yn y bôn i'r wardiau ysbyty i ailgyflyru politicaidd a fu yn Rwsia ar gyfer anghydfurfwyr. Nid oes a wnelo (neu beidio chwaith) â Moderniaeth gelfyddydol.

Ni pheidiodd T. S. Eliot â bod yn fodernaidd pan droes yn Gristion, ond peidiodd â bod yn ôl-fodernaidd. Oherwydd yr Absoliwt a threfn absoliwt yng nghynllun y bydysawd, ysgogwyd modd a rhaid i lenor ym mhob canrif arddel (*yn ymwybodol neu beidio*) ystyr, trefn, gwerth, a phwrpas ym mhob pwnc dan yr haul.

(ii) *Rheidrwydd Undod*

Un yw Absoliwt: dyna un o'i briodoleddau. Rhydd yr Absoliwt yr ymwybod o sefydlogrwydd, cysondeb ac undod i'r meddwl sy'n cyflyru'r dull o siarad. Gwyddom fod pob dim yn perthyn i'w gilydd o'i herwydd. Cyfeiria'r meddwl yn ôl ato er mwyn cael posibilrwydd gwahuno. Nid oes cyfundrefn heb fyth ei sicrwydd. Cyfeirir ato er mwyn gweithio ar ragdybiaeth o undod gwirionedd o funud i funud.

Mae'r gwrthwyneb yn amhosibl. Fel y mae hi'n egwyddorol amhosibl profi o fewn amser a lle fod absenoldeb unrhywbeth yn wir y tu hwnt i'r ddau hynny, felly y byddai'r gwrthwyneb i drefn — fel pe bai'n drefn gyson ei hun — yn methu â gweithio'n ymarferol. Heb Absoliwt unol tybiedig, byddai pob deall yn chwalu. Rhan o ddiffiniad Absoliwt yw'r gynneddff uno. Ond heb Absoliwt sy'n meddu hefyd ar ddeuol/triol (*Un/amryw*) ni chaed na threfn amrywiol na gwyddor na chelfyddyd: ni cheid ond unffurfiaeth undonog wag.

Ni ellir gorbwysleisio nerth undod mewn bodolaeth. Mae i'r cysyniad o 'Un' (Cyfeirbwynt Eithaf) yn yr Absoliwt yn arwyddocaol yn y Greadigaeth mewn modd gwahanol i 'Gydlynid'. Nid yw Cydlynid yn gwarantu Gwirionedd. Yr hyn a waranta yw cysondeb.

Buwyd ers cenedlaethau yn chwilota'n wyllt aruthr am ryw ffordd, unrhyw ffordd, i wadu'r Achos Cyntaf hwn a'r Crëwr/creedig. Rywsut neu'i gilydd, a oedd yna ddihangfa? Sut y gellid esbonio ffordd amgen ar gyfer bodolaeth trefn neu fodolaeth bodolaeth? Gwnaethom ein gorau glas rywsut i ffidlan fel y gellid esbonio hanes 'bywyd'. Roedd yr unig esboniad yn rhythu yn ein hwynebau. Ond efallai ... ryw ddiwrnod y ceid ffordd arall i'w wrthbrofi. Tan hynny, (er mwyn bod yn berthnasol, er mwyn bod yn 'ysgolheigaidd', er mwyn bod yn drendi) ceisid chwilio ymhobman ond yng nghyfeiriad amlwg y Datguddiwr a'r Awdurdod Anweledig, y Penarglwydd i ddibynnu arno, yr Un sy'n datrys y cwbl ac yn gosod perthynas a bywyd tragwyddol ger ein bron, yn Un y gellir profiad personol ohono ... ceisid chwilio felly amllder atebion — rhag ofn.

Ceir 'trefn' ar ffurfiau gwahanol: yr Absoliwt ffurfiol sy'n cynnwys yr egwyddor o drefn ym mhobman. Mae yna ymwybod o drefn foesol; yr Absoliwt sy'n cynnwys y delfryd o foesoldeb. Mae yna gyfanrwydd a phopeth ymarferol yn cydlynu; yr Absoliwt yw'r Undod i fodolaeth. Mae yna effeithiau neu ganlyniadau; yr Absoliwt yw'r achos eithaf iddynt oll. Ceir ymwybod o ddiben deinamig; Efô biau'r diben. Mae pob peth yn dibynnu ar ei gilydd; Efô yw'r un eithaf y dibynnir arno. Nid 'profion' yw'r rhain oll o Absoliwt y tu hwnt i ddulliau clandro gofod ac amser, nid dyna'r bwriad. Hunanwireddol yw'r Absoliwt Cristnogol sy'n cynnwys mwy na gofod ac amser, y tu hwnt felly i reswm. Ond gan mai cydlyniad yw'r cwbl, (ym mhrofiad Pantycelyn) rhaid bod yna Un sy'n egwyddor i'r cydlyniad hwnnw, yno i'w ganfod, megis y canfyddir gwahuniaeth cyfundrefn yr atom a'r gell. 'Buwch yw buwch'; felly, 'Yr Absoliwt' yw 'Absoliwt'.

Tybiaf fod Cyfundrefneg fel egwyddor wedi cynorthwyo Pantycelyn i feddwl am ei waith ei hun yn gyfundrefnol amlochrog. Roedd ei athrawiaeth greadigol gynhwysfawr yn peri iddo synied am lawnder catholig ei waith. Pan aeth Euros Bowen ati i geisio disgrifio'i swyddogaeth fel bardd, fe haerodd mai gwaith offeiriadol oedd. Pwysleisiai dechneg 'delweddu sacramentaidd'. Hynny yw, 'gwneud yn effeithlon yr hyn y maent yn arwydd ohono, ond heb iddynt gollu eu natur wreiddiol, dyna a wna delweddu sacramentaidd.' (*Trin Cerddi*). 'Swydd gyfryngol sydd i'r farddoniaeth, swyddogaeth offeiriadol sydd iddi... Nid proffwyd yw bardd, ond offeiriad.' (*Taliesin IX*). Ond unochrog yw'r weledigaeth honno gyda'r 'nid'. I Bantycelyn, a oedd yn llymach diwinydd, ac yn driphlyg gyfansawdd ei swyddogaeth ymwybodol, 'proffwyd, offeiriad, a brenin' oedd pob Cristion; a dyna oedd ef yntau fel bardd. Fel proffwyd, mynegi'r gwirionedd yn y modd mwyaf golau, llythrennol a throsiadol, oedd ei alwedigaeth. Fel offeiriad, yr oedd yn ei emynau yn cyflwyno 'cymod Duw â dyn, a chymod dyn â Duw ac â'i gyd-ddyn.' Ac ychwanegwn. 'A dyn â'r Arfaeth hefyd.' Fel brenin, yr oedd yn darostwng y ddaear yn llewyrchus, yn ffrwythlon, ac yn hael fyrlymus. Yn yr undod helaeth hwnnw yr oedd Amryw'n orfod.

Dyw'r gair Absoliwt ddim yn digwydd yn y Beibl. Ac eto, y mae i holl weithiau uniongyrchol y Duw tragwyddol-bersonol ddimensiwn absoliwt — megis Cyfiawnhad a Rhagluniaeth a geir mor ganolog yn *Theomemphus* ac yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ymhlith y gweithiau hyn, saif un pwnc arall sy'n uniongyrchol effeithiol a phresennol ym mhob gwedd ar gyffes farddonol Pantycelyn, ac mewn llenyddiaeth yn gyffredinol. Sef undod yr Arfaeth. I hyn mae'r Greadigaeth yn ail (Tafod a Mynegiant) yn gynnrych iddi.

Yn wahanol i'r Greadigaeth (*Golwg ar Deyrnas Crist*, Rhan II), nid yw'r Arfaeth (*Golwg ar Deyrnas Crist*, Rhan I) wedi *dioddef* o'r Cwmp. Mae'r Arfaeth yn ddigyfnawid

ac yn anffaeledig. Saif byth ym meddwl Duw. Mae'r Arfaeth, er ei bod o flaen pob peth, a heb ymwahanu o'i mewn neu ynddi'i hun, eto, yn gyfan gwbl o dan gyfrifoldeb cymeriad Duw yn unig, tan osod safon y mae'n rhaid i bob dim gyfeirio'n ôl ati a'i fesur ei hun yn ei hól. Darpara hefyd yr eithafbwynt 'cyffredinol' sy'n gwneud gwerth a diben yn bosibl, yn Un pwynt Archimedaidd eithaf, ac yn un cyfanswm o Fodololaeth.

Felly, wrth feddwl yn ymarferol am ffurf ddeunyddiol gwaith Pantycelyn (neu am unrhyw lenyddiaeth), caiff manylder yr Arfaeth y canodd y bardd iddi yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, gynrychioli cynnyrch meddwl absoliwt cyfunol. Pe bai Williams wedi bodloni ar olrhain y cynllun a geid rhwng y Creu hyd at y Gogoneddiad, a'r Arfaeth yn enw syml ar y cwbl hwnnw (bob pennod), buasai'r darlun yn anfoddfaol gyfyngedig o anghyflawn. Rhaid oedd cael pennod hefyd ar wahân yn gyntaf ac yn gyn-greedig i'w chyferbynnu o ran ansawdd a bwriad â'r gweddill. Y cynllun a'r cyflawniad oedd yr Arfaeth honno hefyd (y bennod gyntaf), mewn perffeithrwydd. Ystyr hynny oedd bod pob dim yng ngwaith Pantycelyn yn dirwyn yn ôl tua'r un peth hwn, yn y gwreiddyn, ac wedyn yn y cyflawniad:

GWWP I, 4 *Ar unwaith mae yn gweled a fu, a ddaw, y sy
Yn uffern faith alarus, y ddâ'r a'r nefoedd fry;
Yn trefnu â'r un meddwl, heb achos meddwl ail,
Y cwblwl sydd yn digwydd i oesoedd rif y dail.*

Dyna y synnir amdano wrth enwi'r hyn sy'n Absoliwt: meddwl yr Absoliwt:

GWWP I, 6 *Ac fel bai'n addas hefyd mewn amser felly i fod,
Yn ben ar bob rhyw drefen a ddaw neu fu erio'd ...*

*I drefnu a rheoli, fel llywodraethwr mawr,
Y cwblwl oll a greai mewn nefoedd wen a llawr.*

Felly, yr Arfaeth yw'r cynllun hollbresennol cydlynol ei hun, a'r Arfaeth hefyd yw'r cyflawniad o'r cynllun.

* * *

Dyma'r lle y mae'r gair bach diflas '*rhaid*' yn gorfod dod i ganol y darlun. Math o undod yw rhaid. Yr ydym oll yn gyfarwydd â'r profiad rheidiol, gwrth-ramantaidd hwn. Rhaid cael mam a thad i gael ein geni; rhaid gwrthryfela'n erbyn Duw, a methu bod yn berffaith. Rhaid anadlu; rhaid i'r galon guro; rhaid plygu i ddisgyrchiant; rhaid wrth fwyd a diod; rhaid marw. 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i'; 'Pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i chwi'; 'Dechreuodd eu dysgu bod yn rhaid i Fab y Dyn ddiodeff llawer'; 'Y mae'n rhaid i mi gyhoeddi'r newydd da am deyrnas Dduw'; 'Rwy'n dweud wrthyf fod yn rhaid cyflawni

ynof i yr Ysgrythur'; 'rhaid i Fab y Dyn gael ei draddodi i ddwylo pechaduriaid, a'i groeshoelio, a'i draddodi i farwolaeth, a'r trydydd dydd atgyfodi'; 'Y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd'; 'rhaid oedd cyflawni'r Ysgrythur a ragddywedodd yr Ysbryd Glân'; 'Rhaid ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion'. Ac yn y blaen.

Dyna'r fframwaith neu'r cyd-destun byw o anesmwyth ond hyfryd ar waith sy'n angenrheidiol i ymwybod â'r hyn a ganai Pantycelyn:

- GWP II, 321 *Darfu noddfa mewn creadur,
Rhaid cael noddfa nes i'r nef.*
- GWP II, 261 *Rhaid fy ngolchi'n hyfryd wyn
Cyn y teithiwy'r llwybr hyn.*
- GWP II, 250 *Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddystaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref
Yn fy rhwymo i heb im' wybod
Wrth golofnau pur y nef.*
- GWP II, 251 *Rhaid fy ngoglais â chystuddiau,
Onid e mi gysgaf hûn.*

I'r rhamantwyr, ac yna'r relativwyr ôl-fodernaidd, a holl hil aflawen y 'rhyddfrydwyr' ystrydebol sydd mor ddiymholiad mewn trefedigaeth fel Cymru, y mae'r gair 'rhaid' yn boen bol. A dyna ddefnyddioldeb hylaw i draddodiad sy'n rhythu ar ddiniweitiaid Cymreig ac a w'yr nad oes dyfodol heb orffennol.

Yng nghyffes farddonol driphlyg Pantycelyn, *Golwg ar Deyrnas Crist* sy'n olrhain y llwybr llorwedd y mae'n rhaid i'r Cristion ei gerdded, rhaid wrth yr Arfaeth a'r Creu, rhaid wrth y Cwmp, a rhaid iddo/iddi ddilyn camre penodedig drwy Gyfiawnhad a Sancteiddhad, ymlaen i'r Farn a'r Gogoneddiad. Nid yw'n dibynnu dim arno ef/arni hi yn gyntaf. Yn *Theomemphus* y mae'n rhaid wrth y berthynas fertigol rhwng dyn a Duw, neu y mae ar ben arno. A phan fo'r berthynas honno ar waith mewn amser, rhaid i'r daith fod yn berthynas lorwedd. Ac yn derfyn ar y daith gan y berthynas hon, rhaid, fel dengys yr *Emynau*, iddo ef aros i ogoneddu Duw ac i Dduw ei ogoneddu ef yn dragwyddol: onid e, mae ar ben eto. Yn syml, am mai Absoliwt yw Duw, nid yw treisio'r drefn honno yn ddewis dilys i neb. Math o arwyddair i'r Absoliwt yw 'rhaid': y rhan gyntaf. Yr ail ran yw 'bydd yn rhydd.' Cofleidir undod rhydd Duw a'i blant mewn rheidrwydd.

A *Golwg ar Deyrnas Crist* yw'r wedd ar y gyffes hon sy'n crynhoi'r cyflawnder crwn hwnnw yn gychwynnol.

- GWWP I, 7 *Rhaid oedd datguddio yn eglur briodoliaethau Nêr,
Sydd harddach yn disgleirio, ac amlach nag yw'r sêr ...*
- GWWP I, 16 *'Roedd rhaid cael cyflawn daliad, 'doedd le i golli dim,*

*Yn llwyr hyd at yr hatling [i]’r gyfraith fawr ei grym;
A dyn ni all’sai dalu, am hynny beth wnâi dyn?
’Roedd rhaid i feibion Adda i farw bob yr un ...*

Ond rhaid cael un i farw, un arall dalu’r iawn ...

A rhaid cael gwaed yn aberth tros feiau dynol-ryw ...

GWWP I, 17 *Rhaid iti gwympo’n isel i gyflwr dynol-ryw ...*

Rhaid iti gael dy erlid gan ddyinion o bob gradd.

Yr hyn y mae’r bennod gyntaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist* yn ei wneud yw adeiladu, i mewn i fodolaeth y rheidrwydd, y bywyd a’r cariad sy’n ei chynnal. Absoliwt yw ewyllys yr Arfaeth hon, ymhell y tu hwnt i bosibilrwydd amgyffrediad balch.

GWWP I, 26 *Dyw Gabriel byth yn gofyn, Pam? Na ofynned dyn;
Na Duw yn rhoddi rheswm ond ei ewyllys pur ei hun.*

Am mai Absoliwt ydyw, saif yn gynhenid yn Rhaid ar wahân i ddealltwriaeth amser a lle. Cynneddf yr Absoliwt yw ei fod yn drosgynnol, ac eto y mae’n perthyn i bob un dim. Mae ganddo undod sy’n ymestyn dros bob gwahaniaeth.

Cyn-fod yw Duw, felly. (Ef sy’n dweud ‘bydded’); ond y mae Ef hefyd yn Fod, bob Bod yn Un. Yn ‘nhabled’ gyntaf Genesis, ‘Duw’ yw. Yn yr ail, pan ddaw ac ymweld â’i bobl, a chyfamodi â hwy, YHWH yw, sef *Ydwyf*, yr Un sy’n fod ynddo’i hun. Dyna’i enw ar gyfer ei ‘briodas’ ag Israel yn Genesis 2, ac yn sylfaen i bob myfyrdod gan Bantycelyn yn y maes hwnnw. Cyferbynnir ag ‘Ydwyf’ yr ‘ydwyf’ sydd gan yr Ego Trosgynnol dyn-ganolog.

Terddir holl gyfundrefn Ystyr a Deunydd, o’r wedd absoliwt hon ar Arfaeth Duw, Hanfod yr Archgyfundrefnau oll: (fel rhan o natur yr Absoliwt, ceir o ran Ffurf yr *Anweledig/Gweledig*; *Un/Amryw*; sef *Tri yn Un* a *Dwy Natur mewn Un Person*; o ran Deunydd ceir *Absoliwt/Unigolyn*; *Arfaethwr a Chrëwr*; ac mewn Gras *Deinameg pob Cymhelliad da*; yr *Achos i bob Effaith*; *Awdur i pob Ffurf a Deunydd*).

Mae cred Pantycelyn yn y wedd absoliwt hon yn gweddnewid ei holl bersbectif nid yn unig ynghylch Deunydd ei gerddi, eithr hefyd ynghylch adeiladwaith y Deunydd hwnnw.

Yr oedd Pantycelyn yn medru ymwybod ag Absoliwtrwydd y Mab a’i weithredoedd mewn modd mwy byw a phersonol nag y gwnâi ef odid byth yn achos y Tad hollalluog a chariadus, yn fwy dirfodol nag yn achos yr Ysbryd Glân nerthol a meddiannol. Dyna sut, ym mhenawdau’r adrannau yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, y gallai ganfod y Duw-ddyn *ym mhob peth*. Golwg ar Grist yn gyntaf oedd ei Olwg ar Ei deyrnas — yn ‘frawychus’ o lân, yn ‘ysgytiol’ o ddaionus, yn ‘ddychnyn’ o bur. Pam y fath wyro adferfol gennyf cyn traethu’r ansoddeiriau hyn? Am mai dyna a’i difrifolodd ef ynghylch eithafrwydd pechod. Priodol iawn fuasai sylwi ar frawddeg o bregeth gan Lodwig Lewis, tad Saunders, yn *Un Bywyd o*

Bliith Nifer, T. Robin Chapman, Gomer, 2006, ‘Mawredd yr Iawn sydd yn dangos mawredd pechod’. Dyna sefyll o flaen yr Absoliwt, a cholli anadl. Nid oedd marwolaeth ei hun mor arswydus i Bantycelyn â’r pechod a gyflawnasai yn erbyn y Duw byw. Arswyd iachusol iddo oedd golwg ar Grist. Gweledigaeth Absoliwt ydoedd ynglŷn ag Un a oedd drwy drugaredd yn eithafbwynt i bopeth. Un oedd y Gogoniant. A gallai Pantycelyn brofi gyda Kierkegaard mai ‘Purdeb calon yw ewyllysio un peth’. Eto, roedd yn chwenychu i’w Olwg ar Deyrnas Crist fod yn unol â’i olwg ar ffeithioldeb y Drindod neu ar ei uniongrededd. Purdeb calon i Bantycelyn oedd yr Un a oedd yn Dri.

Crëwyd llawer o gyfundrefnau ystyr gan Dduw y cyfeirir atynt ledled gwaith Pantycelyn o fewn math o gyfundrefnau ymbarél. A sôn yr wyf am gyfundrefnau ymbarél nad ydynt yn perthyn i Archgyfundrefnau o fath *gweledig/anweledig* neu *un/amryw*; sy’n Archgyfundrefnau a lywia Gyfundrefneg i gyd. Cyfundrefn ymbarél aruthr oedd ac yw iachawdwriaeth ei hun er enghraifft: cyfundrefn thematig. Dyma drefn o fewn yr Arfaeth sy’n ymwneud ag ymwarded yn negyddol ag arwahanrwydd a phechod ac alltudiaeth, a thrwy edifeirwch ac aileni a Chyfiawnhad, yn ymestyn yn gadarnhaol tuag at Sancteiddhad a Gogoniant. — Yn wir, cyfundrefn ymbarél, sy’n uno’r *gwraidd gyfundrefnau* ym meddwl Duw, yw’r Arfaeth ei hun. A dyma hefyd yw prif thema *Golwg ar Deyrnas Crist*, sef Crist yn mhopeth.

GWWP I, 75 *Rhyw lyfyr yw’r greadigaeth, aneirif faint ei ddail,
Yn doddi ’maes ogoniant diderfyn Adda’r Ail;
Ei holl briodoliaethau a welir yn ei waith,
A’i ddyfais anchwiliadwy o dragwyddoldeb maith.*

Term deunyddiol a ffurfiol, felly, ym myd Cyfundrefneg yw ‘absoliwt’. Hwn yw’r Goruwchnaturiol hunanwireddol hollalluog hunan-gynhaliol, a saif yn ddi-ddrechrau ac yn ddi-ddiwedd y tu allan hyd yn oed i’r Arfaeth. Ef yw’r rhagosodiad. Fe’i datguddiodd ei hun yn Dduw personol, yn Gariad, yng Nghrist, yn Grist. Allan ohono ac iddo Ef y mae pob peth yn bod. Ef yn ei berson yw clymwr a mesurydd pob perthynas. Ef yw’r achos sy’n cynnwys hefyd bob effaith. Ef sy’n amodi pob peth; ond diamod yw Ef ei hun. Dibynna pob peth arall arno: nid yw Ef yn dibynnu ar neb nac ar ddim. O’i herwydd Ef y mae cyfundrefnau’n bod.

Wrth geisio olrhain Cyfundrefn o gyfundrefnau yn y gyfrol bresennol, felly, rhaid er mwyn undod wrth bersbectif ‘absoliwt’. Hyd yn oed mewn llenyddiaeth seciwlar, y mae Ei absenoldeb ymddangosiadol neu dybiedig yn ffactor penderfyniadol. Y bwllch yw na all ond Duw ei lenwi.

Cyfeiria Williams ar flaendalen *Golwg ar Deyrnas Crist* at: Colosiaid 3: 11 ‘Crist yn bob peth, a Christ sydd ym mhob peth’. Sylwer ar Bantycelyn, heblaw ym mhenawdau’r

penodau yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, fe gyfeirir at Absoliwtrwydd Crist mewn is-benawdau hefyd ... ‘yn bob peth mewn sancteiddrwydd .. yn y mwynhad o bob peth ...’, ac yn fwyaf treiddgar ‘yn y diffyg o bob peth ...’ fel pe bai wedi sylwi bod yr anghredadun sy’n gwadu’r Absoliwt yn gorfod gwneud er ei waethaf felly osodiad sy’n absoliwt.

Yn yr argraffiad cyntaf o *Aleliwia*, pan gyhoeddwyd ef ar ffurf un llyfr cyfleus (1758) dywedwyd yn y Rhagymadrodd, ‘Mi wnes fy ngoreu, pa beth bynag fyddai natur yr Hymn – achwyniad, erfyniad, ymffrost dduwiol, neu fawl, – fod Crist yn ganolbwynt i’r cwbl.’ Tynnais sylw at y ffaith nad yw Pantycelyn ei hun yn defnyddio’r gair ‘Absoliwt’. Ond mae’n ceisio’i ddisgrifio yn groyw ddigon. Fe’i dywed, ac fe’i hesbonia yn helaethach, ac yn fanylach nag yn unman arall, yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Mae Iesu Grist, iddo ef, o ran ei Berson a’i effaith, yn absoliwt i bopeth gan gynnwys wrth gwrs Brydyddiaeth. Dyna destun y gerdd hir honno, ac fe’i hailadroddir dro ar ôl tro, ym mhob gwedd ym mhob cornel, fel nad oes esgus gan neb i fod heb wybod beth sy’n digwydd.

(iii) *Rhyfedd o Un – Tri*

Mewn Creadigaeth sy’n Undod ac eto’n aruthr ei Hamrywioldeb, y mae’n amlwg fod yr Absoliwt ei hun yn Un ac yn Amryw llwyr atebol a chynhwysfawr.

Gwreiddioldeb pennaf yr Absoliwt Cristnogol hwn yw nad Un yw yn unig, eithr Tri yn Un. Eto’n Un. Mae’r Tri yn Absoliwt ac y mae’r Un yn Absoliwt: ‘yr hwn a’m gwelodd i a welodd y Tad’, ‘Myfi a’r Tad, un ydym’. Ni ellir felly sôn am ‘rannau’ yn yr ystyr arferol nac am un unig, fwy nag y gellid gwadu hylif sy’n iâ, ac sy’n ager hefyd. Mae geiriau’n pallu i gyfleu’r *fath* Undod yw’r Drindod, am ein bod wedi etifeddu iaith syrthiedig ar seiliau amser a lle. Truenus yw’r ymdrechion i geisio sôn am ddyndod Iesu Grist yn unig, nac yn bennaf. Na’i Dduwdod yn unig. Dyma hefyd ddwy natur mewn *Un* Person, yn ddiwahân, Dduw-ddyn, eto heb rannau, o fewn yr Absoliwt. Ef oedd ac yw’r Gair. Mae’r ‘Gair’ llenyddol yntau hefyd yn Fod a wneir yn *arwyddedig* + *arwydd*.

Absoliwt yw’r tri-yn-undod sy’n diffinio pob dim arall sy’n bod. Allan ohono Ef y tardd pob gwahuno. Yr ail wreiddioldeb yw mai person cariadus yw rheolwr patrwm yn yr holl gyfundrefnau materol a meddyliol sy’n bod. Ei lywodraeth ef sy’n llywodraethu ym mhob dealltwriaeth gywir. Sarhad ar Grist fyddai sôn amdano fel ‘gwedd’ ar yr Absoliwt, gan mai Ef ei hun yw’r Absoliwt. Y Duw-ddyn, Hwnnw a aeth â bryd Pantycelyn. Nid yw ef am fychanu’r un o’r personau eraill. Wrth fawrygu Iesu Grist y mae’n gwneud hynny yn nannedd y rhai ymchwyddol sydd am Ei ddianrhydeddu a hynny fel arfer drwy’i or-ddyneiddio.

Buddiol yw disgwyl, er enghraifft, mai'r Ysbryd Glân a gâi'r holl glod yn y Sancteiddhad. Ac i raddau, sancteiddhad yw testun ei Emynau. Ond arall yw gweledigaeth Pantycelyn, ac arall yw ergyd ei destun. Mawl sydd ganddo i Undod diraniadau brofi yn fwyaf synhwyrus yn y Duw-ddyn.

GWWP I, 22 *O! f'enaïd, cwmp, rhyfedda diderfyn ras fy Nhad,
A chariad anfesurool, maith fy Iachawdwr rhad,
Cyfamod rhwng Personau tragwyddol, mawr y ne',
Ym Mherson pur fy Iesu – 'r wyf finnau ynddo fe.*

Wrth gwrs, fel y'i disgwyliid, cwbl unigryw yw'r Drindod Gristnogol, gydag ymgnawdoliad yn y canol a Duw sy'n ei aberthu'i hun er mwyn dyn.

Tueddai Pantycelyn i fod yn feirniadol o'r sawl a oedd yn 'rhoi gormod lle i'r anwybodus feddwl... fod tri Duw, fel mai anodd iddo gyfeirio ei addoliad at y naill fel y llall, a hyn sydd (debygid) yn wrthwyneb i'r ysgrythur yr hon sydd yn dywedyd fod y Mab yn y Tad, a'r Tad yn y Mab.'(GWWP I, 14n).

O ystyried y gerdd *Golwg ar Deyrnas Crist*, hawdd fyddai ystyried, fel y gwnâi llawer o Absoliwtwyr delfrydolegol, mai'r Arfaeth (y Cynllun) ei hun yw'r Absoliwt, yn hytrach na bod argraff yr Absoliwt arni. Roedd Metaffusegwyr delfrydolegol ôl-Kant yn defnyddio'r gair i olygu'r cyfanrwydd sy'n bodoli. Ond dyna'r hyn a alwaf yn Wraiddgyfundrefn, a thardda o'r Absoliwt, sef y cyfanswm o feddwl am bopeth sydd ar gael, a hynny o fewn cyfundrefn undodol benodol sy'n dwyn argraff yr Absoliwt. Hyn sy'n ymamlygu yn ôl Cyfundrefn o gyfundrefnau. Ac mae'n dra arwyddocaol, mai tri-yn-un yw'r ffurf lawnaf gynnill o'r 'gyfundrefn' normal honno a geir mewn iaith ac yn y cyfundrefnau cyffredin diwinyddol o fabwysiad Pantycelyn. Tri-yn-un sy'n cwmpasu dau-yn-un, a hynny yn ôl hierarci o gyfuniadau o ddeuoedd ynghyd â deuoedd, trioedd ynghyd â thrioedd; deuoedd ynghyd â thrioedd, drwy gydol iaith a llên. Patrwm ydoedd i feddwl. Eto, yn wahanol i Schelling a Hegel, personol yw'r Absoliwt hwn a adwaenai Williams. Saif Absoliwt Pantycelyn, mae'n wir, ar wahân i gynllun Natur, ar wahân i'r Greadigaeth, yn ysbrydol sicr, yn drosgynnol ond yr un pryd yn fewnfodol mewn perthynas. Eithr Arglwydd perthnasoedd yw, heb beidio, yr un pryd â bod uwchlaw pob gwahaniaeth a phob perthynas.

Ambell waith, wrth gripio drwy'n bywyd beunyddiol, down ar draws tamaid o ddaioni, tamaid o harddwch hyd yn oed. A dysg hynny i ni fod yna safon o ddaioni, safon o harddwch y tu ôl. Gallwn, o bell megis, ymwybod â bodolaeth y *safon* eithaf i'r naill a'r llall. Dysg ambell ddiwrnod heulog inni fymryn am y glendid a'r hyfrydwch sydd y tu hwnt i'r achlysur. Yn wir, hyd yn oed, o feddwl am farwolaeth, dysgir inni ryw ychydig bach o'r hyn yw trylwyredd ac eithafrwydd unol. Dyma ffactorau go eithafol. Cymorth i wybod hynny fu'r

Ymgnewdoliad eithafol pur. Mesurwn yn feirniadol ymarweddiad a gweithgareddau yn ôl safon gudd o berffeithrwydd syn. Gwyddom, yn naturiol, rywfaint am y glendid hwnnw sydd ar ôl drwy Ras Cyffredin; ond drwy Ras Arbennig yn unig y daw hyn yn effeithiol agosach byth, yn amrywiol ac yn unol-amrywiaethol, oherwydd Person y Mab.

Eto, yn iach wahanol i farn Schelling a Hegel, personol hanesyddol yw'r Absoliwt hwn a adwaenai Williams, a thragwyddol. Saif Absoliwt Pantycelyn ar wahân i Natur, ar wahân i'r Greadigaeth, yn drosgynnol unigryw ond yr un pryd yn fewnfodol mewn perthynas. Eithr Arglwydd perthnasoedd personol, cariadus a ymgnewdolodd yw, heb beidio yr un pryd â bod uwchlaw pob gwahaniaeth a phob perthynas. Absoliwt yw sy'n gwaedu o fewn y Drindod.

GWWP I, 14 *Cans fe [Tad] yw'r Person cynta' [Ydwyf] o'r Drindod sanctaidd fry,
Iddo cyfrifir dechrau y cwbwl oll y sy.
Ei glod efrifir gynta', ac eto ei glod nid yw
Un gronyn ond sy'n perthyn i'r hollalluog Dduw.*

GWWP I, 14 *A'r Mab sydd yn gyfryngwr, ac [yn] eiriolwr mawr,
A'r Ysbryd yn sancteiddio y seintiau ar y llawr.
I'r Tad y perthyn cymod, i'r Tad y perthyn llid,
Ac ato'r oedd heddychu y gwrthgiledig fyd.*

GWWP I, 22 *A thyma'r ddyfais ryfedd gymerodd oll i gyd
Fedylliau'r Tad sancteiddiol yn hir cyn creu'r byd;
Trwy derfyn tragwyddoldeb oedd yn ei fynwes lân,
Neb ond y Mab a wyddai amdano, a'r Ysbryd Glân.*

Yn nhrioldeb y Tri-yn-Un hyn y caiff y Greadigaeth strwythur pob cyfundrefn ar ei haeddfetaf. Dyma Absoliwt ffurf. Fe'i gwelir o ran patrwm mewn tri phrop (tair colofn y rhannau ymadrodd traethiadol), a geir yn y frawddeg aeddfed yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd, yr uned a geir ar gyfer dweud pob peth. Sef gramadeg y Gair.

GWWP I, 22 *Rhwng y partiön uwcha', enwoca' o barch a bri,
Ynghylch yr achos mwya' a dyfna' erioed a fu
O fewn i'r oesoedd henaf, ac yn yr harddaf wlad,
Yn nheyrnas tragwyddoldeb rhwng Ysbryd, Mab, a Thad.*

(iv) *Rhyfedd o Un – Dau*

Er fy mod yn cael yr argraff, nid yn unig fod Pantycelyn yn credu athrawiaeth y Drindod, a'i fod hefyd wedi ymateb i'r dirgelwch enfawr hwnnw yn bersonol, eto yr oedd ei ymateb i ddeuoliaeth bersonol yr Arglwydd Iesu yn brofiad llawer mwy cyffrous o feddiannol. Nid llai o ddirgelwch oedd y ddwy natur mewn Un Person; yn wir yr oedd fel pe bai presenoldeb diriaeth y ffenomen hon yn gynnwrf enfawr iddo hefyd. Canys ymateb personol oedd hyn, nid traethiad o wirionedd.

O'r ddwy arwrgerdd a sgrifennodd Williams Pantycelyn, sef *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*, yn y gyntaf y Duw-ddyn yw'r canol; yn yr ail y pechadur Calфинаidd. *Theomemphus* yw'r fwyaf poblogaidd o'r ddwy gerdd hyn i seicolegwyr fel arfer yn ogystal ag i rai beirniaid ac i efengyleiddwyr. Dyn druan biau'r angen. Eiddo dyn yw'r ing. Ond nid oes amheuaeth yn y ddwy gerdd hir, ac yn yr emynau hefyd, pwy yw'r gwaelod arwyddocaol i Bantycelyn, ac o ble y daeth Gras. Yn *Golwg ar Deyrnas Crist* y mae pob ffordd yn arwain at Iesu Grist. Lle bynnag yr edrycher, rowndier y planedau, crwydrer ymhlith y moroedd a'r coed, a'r nef ei hun, ie syller ar ddyn: Iesu Grist a welir ym mhob man. Dyna yw ystyr bod yn absoliwt ym mryd Pantycelyn. Nid oes neb na dim pwysicach. Ac o'r herwydd, yn *Theomemphus* hefyd, Crist yw'r nod, Crist yw'r cynheilydd. Er nad Ef yw'r arwr, Ef yw'r Arwr. Trafferthus i anghredinwyr yw deffro i'r goruwchnaturiol ynddo.

Cosmig yw'r Duw-ddyn hwn, yn Grëwr, yn Gynhaliwr, yn Achubwr, yn Farnwr, oll yn oll.

Gwir bod yna ddiffygion nodweddiadol yn arddull y ddwy gerdd. Sgrifennid ar frys, ac nid oedd odid ddim a'i blotiai ef. Cystwyid cystrawen. Ni roddid fawr o amser i loywi rhediad drwy'i adolygu na'i finiogi yn y dull arferol. Ond nid ar frys y lluniodd y bardd y themâu i'r meddwl cwmpasol. Ni roddodd neb fwy o'i amser a'i ddeall a'i deimlad i synfyfyrion ynghylch aruthredd yr ystyriaethau hyn. Roedd yn dynn ac yn gytbwys yn ei fyfyrddod rhagflaenol. A mawr oedd ei weledigaeth yn y naill arwrgerdd a'r llall. Saethodd y cwbl o'i berfedd, yn flerwch ac yn ogoniant. Tragwyddoldeb iddo ef oedd eiliad ei greadigaeth ei hun. Ac eto, wrth iddo adolygu *Golwg ar Deyrnas Crist* ar gyfer ail argraffiad, yr oedd gan y bardd ddigon o gydwibod a digon o benderfyniad i sgrifennu adran newydd sbon i'r gerdd, a thocio peth o'r gweddill.

A chan Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol aeddfededig a soffistigedig y dysgodd ef feddwl am ymagweddu'n banoramig fel yna at y themâu hyn. Hyn a drwchusodd y cerddi oll iddo. Nid ar frys yr adeiladodd y potensial. Roedd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol iddo a gawsai gan y Piwritaniaid a Chalfin (a chymdeithion megis Beza a Turretin), yn mynnu bod trefn bob cam o'r ffordd drwy'r Beibl, a bod y drefn honno'n cydlynu drwyddi draw. Diwinyddiaeth Gyfundrefnol a ddatguddiodd unoliaeth y cwbl ac a blannodd yn y cerddi oll eu mawredd.

Ni ddylid ceisio egluro camp Pantycelyn heb ystyried y gamp yng nghyfanrwydd ei weledigaeth.

Un o'r termau allweddol wrth ddisgrifio'r fath Absoliwt oedd 'Cyflawnder' (a 'Chyfiawnder'): cyfanswm oedd ac yw'r Absoliwt.

GWWP I, 16 *'Roedd rhaid cael cyflawn daliad, 'doedd le i golli dim,*

Yn llwyr hyd at yr hatling [i]’r gyfraith fawr ei grym ...

*Dyfeisiodd ffordd i wared truenus ddynol-ryw,
A gras gael ei gyflawnder, cyfiawnder gael ei ddiw. [“due”]*

*Ni all cyfiawnder cywir gytuno fyth â gras
Nes talu’n lân heb golli y iota leia’ ’ma’s;
Tros ddyn, pwy bynnag elo tan lwyth cyfiawnder llym,
Ie, ’tifedd nef ei hunan, ’does le i golli dim.*

Ac felly, mewn astudiaeth fel hon sy’n canoli o ran ffurf a chynnwys ar y cysyniad o gyfundrefn gydlynol, mae’n anochel bod Pantycelyn yn cydnabod Crist fel Absoliwt ymarferol a phen luniad pob cyfundrefn weithredol. Efö oedd yr Un gweithredol a roes y posibilrwydd neu’r rheidrwydd o gyfundrefn.

GWWP I, 26 *Efe yw pen pob trefen, a phob gweithredoedd mae
Er clod tragwyddol iddo yn wastad yn cyd-wau.*

*Sef bywyd a marwolaeth, ac uffern faith a’r nef
Sy’n hongian oll yn gyfan ar ei bwrpasiad ef.*

Wrth i Grist fod ym mhob peth ac yn bob peth, Ef oedd canolbwynt perthynas Duw a dyn. Ef hefyd yw’r Un a benodwyd gan y Tad ac a gymhwyswyd gan yr Ysbryd i apelio at galon dyn. Buwyd yn sôn llawer am gydlynriad y Gyfundrefn o gyfundrefnau. Ef, yn Dduw ac yn ddyn, oedd y cydlynnydd goruwch y cyfan. Ble arall? Dyma eto ran o ryfeddod Pantycelyn: ym mha le bynnag yr ymchwiliai, ni allai lai na chanfod Crist:

GWWP I, 141 *Yn gyfan mewn maddeuant, yn gyfan oll mewn hedd,
Yn gyfan mewn atgodiad, — diwetha’ i’r lan o’r bedd,
Yn gyfan mewn sancteiddrwydd, doethineb a mwynhâd,
O’r Aiffi ei hun yn gyfan i mewn i’r nefol wlad.*

*Y cyfan a dderbyn’som ei hunan yw efe,
Y cyfan gawn feddiannu o fewn i deyrnas ne’;
Mewn cyflawnderau mawrion, efe yn bopeth mae,
Fe eilwaith sydd yn bopeth mewn cyfyngderau a thrai.*

Dyma ffactor ffurfiol cynlluniol adeileddol. Dyma hefyd wrthrych addoli.

Duw’r Mab felly yw prif Arwr y tair gwedd unol ar ei brydyddiaeth bwysicaf — *Golwg ar Deyrnas Crist, Theomemphus*, a’r Emynau. Y Cyfeirbwynt esboniol cyfan. Yn y Mynegiant gan Bantycelyn, cnawdolwyd eto’n gysgodol i’r ymgnawdoliad dwyfol ei hun er mwyn yr Iawn.

Ac eto, er gwaethaf gorchest creu dyn, Bod hunan-ddigonol, hunan-ddadlennol, hunan-ddibynnol yw Duw hyd yr eithaf. Yr unig Un felly. Gweithred o falchder, gwyrriad ffug ewyllysiol ar ran dyn yw anghredu ynddo sef o beidio â dibynnu’n llwyr arno a’i addoli. Does dim esgus. Amlwg yw, oherwydd *sensus divinitatis* a chydwybod oni bai am wrthryfel cyndyn y cynddyn, mai addoli a gwasanaethu Duw yw’r weithred fwyaf naturiol. Duw yw

sy'n gyfeirbwynt eithaf i bob dim. Wrth geisio deall unrhyw beth, boed yn blaned neu'n llinell o gynghanedd, caiff pob dim ei hunaniaeth a'i sylwedd a'i gyfundrefn ynddo Ef yn y pen draw oherwydd ei leoliad absoliwt o fewn cynllun mirain.

Ac eto, yr un pryd, does dim mwy naturiol ystrydebol yn wir nag anghredu, a dyrchafu'r hunan. I'r dyneiddiwr, neu'n well y dynganolwr, cais ddod o hyd i gyfeirbwynt elusennol eithaf mewn dyn (ei feddwl a'i brofiad) neu mewn pethau neu ffeithiau amrwd bydol heb ystyr absoliwt. Tynghedwyd pob dyn, fel y dangosodd Cornelius Van Til mor groyw, i ymresymu'n gylchynol. Rhaid iddo weithio ar sail rhagdyb neu ragosodiad, naill ai oddi wrth Dduw i ffeithiau Duw-roddeg a Duw-ddeongledig, neu oddi wrth ddyn tuag at ddeongliadau dyn-wneuthuredig neu ddyn-ddychmygedig o ffeithioldeb amrwd. Dyna'i gyfyngiadau. Nid oes dianc. Nid meidroldeb dyn yw'r broblem yn unig, ond y ffaith iddo roi'i gam cyntaf yn y fan anghywir, ac iddo o'r herwydd ei wneud ei hun yn feddyliol ac yn gorfforol yn elyn i Dduw-ddyn. Sefyllfa absoliwt yw. Yn ffaith bodolaeth rhagdyb y cyferfydd y Cristion a'r Anghristion mewn cyfundrefnau llenyddol.

Pan sonnir am Gyfundrefn o gyfundrefnau hierarcaidd, a hynny mewn cyd-destun daearol, rhaid wrth yr *un* ei hun ar lun tebyg i gyfundrefn, yr un a saif y tu hwnt i werthoedd cyfyngedig y gellid gwrthryfela yn eu herbyn ond a erys. Wrth i ddyn ei osod ei hun yn farnwr, gan apelio at ddeddf gwrthddywediad, nid yw'r bydysawd ond yn beth sydd ynghlwm wrth siawns a phosibilrwydd haniaethol. Ac nid yw damwain yn ddigon i gynnal na'r deall nac iaith.

Ni all y Cristion yn Gristnogol neu'n sylfaenol ei wrthddweud ei hun. Mae'r anghredadun wrth gwrs yn medru'i wrthddweud ei hun; ac y mae'n gwneud hynny am ei fod am wrthddweud Duw-ddyn. Fe all Cristion syrthio o fewn Gras, a cheisio am y tro wrthddweud; ond yn y pen draw, methu a wna. Gwyddai Pantycelyn mai unig obaith y meddwl dynol oedd meddwl meddyliau Duw-ddyn unplyg ar Ei ôl Ef. Does dim yn ddiduedd, felly, ac ni all dau eithafbwynt absoliwt sy'n gwrthddweddyd ei gilydd gyd-fodoli. Cafodd Pantycelyn y cyfeirbwynt hwnnw yng Nghrist.

Mae Pantycelyn yn cyfleu cyflawnder cydlynol Crist yn ergyd yr ymadrodd adnabyddus 'oll yn oll':

GWP II, 133 *Hwyl fy enaid sy wrth dy ewyllys,
Fel y mynot mae yn bod,
Oll o mewn, ac oll oddi allan,
Ddygwydd i mi îs y rhod*

231 *Iesu, Iesu, 'rwyf Ti'n ddigon,
'Rwyf Ti'n llawer mwy na'r byd;*

*Mwy trysorau sy'n dy enw
Na thrysorau'r India 'gyd;
Oll yn gyfan, &c.,
Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.*

178 *Oll yn gwledda ar ei gariad,
T'lynau auraidd yn eu llaw;
Oll yn un a chytun
Yn moli'r Duwdod yn y dyn.*

173 *Mae pob rhyw nefol ddawn
Oll yno yn gryno llawn,
Yn tarddu yn hyfryd iawn,
O'th glwyfau 'maes.*

Bu i berthynas tair sffêr Gramadegau'r Penceirddiaid gynt olyniaeth gyfundrefnol: Diwinyddiaeth, Ieithyddiaeth, a Beirniadaeth Lenyddol. Mae Diwinyddiaeth o raid yn hanfodol gychwynnol a diweddol drwy ddarparu rhagdybiau a chydabod Absoliwt o bwrpas. Ieithyddiaeth sy'n dilyn yn feddyliol drwy ddarparu techneg cyfundrefnau'r Gair. A Beirniadaeth Lenyddol yn olaf yn y llinach yna sy'n adnabod ffrwythau a mawl. Megis y mae Hanes yn Fynegiant o bwrpas Duw mewn amser, felly y mae iaith a llenyddiaeth i Ddiwinyddiaeth gyfundrefnol. Heb fodolaeth Duw (*Logos*), ni cheid yr un o'r sfferau hyn. Duw hunan-wireddol (*self-authenticating*) yw, yr Un y mae'n rhaid mewn dadl iddo gymryd y safle eithafbwyntiol absoliwt i'r cwbl, yr Un sy'n darparu'r rhagosodiad, ac yn cyflwyno posibilrwydd gwireddiad i Wirionedd. Mae'r holl ffeithiau goddrychol yn rhan o gynllun personol Duw-ddyn; a gwnaethpwyd meddwl dyn i gyd-fynd ac i fod mewn perthynas â'r realedd a'r deddfau yna.

Camgymeriad fyddai synied am ffurfiau llenyddol neu ffurfiau ieithyddol fel materion haniaethol yn unig. Ffeithiau ydynt yn yr ymennydd creedig.

* * *

Mae cysyniad trindodol Pantycelyn o Absoliwt yn gwbl wahanol felly i eiddo seciwlarwyr megis i'r Ideolegwyr dyweder, neu i athronwyr yr ail ganrif ar bymtheg a syniai am fathemateg (a geometreg) fel gwirionedd absoliwt. Canfod, nid dod i gasgliad a wnaeth Pantycelyn. Nid yn ôl endidau haniaethol y bydd y Cristion yn gwybod am wirionedd tragwyddol, fel y canfyddiadau mwyaf elfennaidd megis bod bod yn bod. Er ein bod yn sôn am egwyddorion sefydlog mewn llawer o'r cyfundrefnau y byddwn yn eu trafod, darganfu Pantycelyn mai'r hyn a oedd yn y canol fel Undod oedd person hanesyddol Iesu Grist, y goruwchnaturiol-naturiol.

Efô, ym mryd Pantycelyn, yn y Duw personol Tri-yn-Un, penarglwyddiaethol, cwbl sanctaidd a pherffaith, oedd y tu ôl i bob peth, pob gweithred mewn hanes, a'r tu hwnt i

hanes. Dyma oedd y gân o galon Pantycelyn. Absoliwt gweithredol oedd yn Ei ddatguddio'i hun o hyd i ddynion yn ddigynfnewid, ac nid yn disgwyl i gael Ei ddarganfod. Hunanddadlennol yw. Yn y ddwy arwrgerdd gan Bantycelyn, hanes trosiadol a gaed. Ac y mae wedi llunio cynllun hanfodol ddiriaethol i bopeth. Hyn sy'n dyneiddio theori lenyddol neu ieithyddol foddhaol. Ceisiais, fel y gwelir, gyffredinoli ychydig ar yr Absoliwt a'r Arfaeth yn y fan hon, oherwydd fy mod yn synied mai o fewn cyd-destun felly yn unig y gwnaeth Pantycelyn yr hyn a wnaeth gyda chymeriad 'Theomemphus' ac â hanes dynoliaeth. O'i gymharu â Christian Bunyan, mae'r portread a gawn o 'Theomemphus' yn llawer mwy cosmig. Dyn meidrol trosiadol yw a ganfyddir mewn cyd-destun anfeidrol, ac wedi'i gysgodi felly gan y Duw-ddyn.

GWWP I, 199 *Aflendid oedd ei ddechrau, cenhedlwyd ef mewn blys
Rhwng Hities ac Amoriad yn groes i'r ddeddf fe wÿs;
Esgorwyd arno yn Tyrus, fu yn uchel iawn ei hynt
Yn gwawdio'r hen Gaersalem yn ei chaethiwed gynt.*

***Theomemphus** pan gynyddodd ('n awr dyna ei enw yw,
Am iddo o ganol t'wyllwch i ddod i 'mofyn Duw),
Yn erbyn nef fe gododd, ffyddlonaf un a gad,
Y blaenaf a'r gwrolaf o bawb oedd yn y wlad.*

*Fe deithiodd gylch o gwmpas i bob ardaloedd sydd
Heb weled gwawr na seren, na haul na golau'r dydd;
'D oes dinas, tref nac ynys lle nad oes ofon Duw
Na buasai **Theomemphus** ryw amser yn thi'n byw.*

*Bu yn yr Aiff a Sodom a Sidon, meddai fe,
Yr hon yr aeth ei balchder o'r diwedd cuwch â'r ne';
Yn Ninif' ac yn Edom, yng nghanol Babel fawr
Ddinistriodd temel Seion un amser hyd y llawr.*

Ffigur cosmig oedd. Cosmig oedd y Cwmp, wrth gwrs. A Dyn oedd 'Adda', yntau'n byw mewn cyd-destun Cosmig, yn gorfforol ysbrydol. Bu Theomemphus yn Auschwitz. O ganlyniad yr oedd yn dilyn mai arwyddocâd Cosmig oedd DNA yr unigolyn Theomemphus, a hynny ynghyd â'r achubiaeth a gynigid iddo, wedi'i gyffredinoli. Yr oedd a wnelo'n uniongyrchol â'r fodolaeth Absoliwt. Yr oedd ar ddelw'r Absoliwt. Ac felly, person dynol oedd Theomemphus. Fel Williams dioddefai oherwydd problemau personol iawn. Dywed rhai beirniaid nad William Williams oedd, am nad aeth ef i'r lleoedd hyn. Na fydded yn rhy siŵr.

Nid oes syndod efallai mai ychydig o sôn 'personol' sydd am Gymru nac am Lanymddyfri yn y ddwy arwrgerdd hyn. Ond nid lle yn unig oedd 'Pantycelyn' chwaith. Lle oedd a ddaearai ysbryd Williams. Gallai lle fod yn arwyddocaol debyg yn y Marwnadau, bid siŵr. Cymry yn y fan yna oedd Cymru go iawn i Williams: personau. Ni chyrhaeddodd

Cymru na Chymry ein haniaeth gyfoes seicolegol ni, mae'n wir. Ac ychydig a wyddai Pantycelyn onid yn isymwybodol drefedigaethol am na'n hanes na'n llenyddiaeth. Ond nid dyna pam y câi Cymru ei rhoi o'r neilltu yn y cerddi hyn. Arall oedd diffyg ffiniau ei amgylchfyd a'i gyd-destun i Bantycelyn o Bantycelyn. Yr oedd Cymru yn ddeuol — megis y Duw-ddyn ei hun; ac ysbrydoedd y Cymry oedd baich arbenigedd Williams, er ei fod, fel y cawn weld, heb anghofio'r corff. Wedi'r cwbl, y Methodistiaid (a'u Diwygiad) a unodd y Gymru fodern, i raddau.

(v) *Undod yr Absoliwt â'i Gynllun*

Ymgais yw prif wth y gyfrol hon i arddangos cyfundrefnau meddyliol Pantycelyn o fewn eu cyd-destun ysbrydol. Nid dyna bwnc traddodiadol pob beirniad llenyddol sy'n trafod seicoleg Pantycelyn. Fel arfer, bydd beirniaid llenyddol yn ymhyfrydu yn ei serchiadau ef. Digon teg. Unigolyddiaeth ei angerddau a'i Fynegiant egnïol, dyna hoff bwyslais rhywrai wrth drafod ei rym a'i gymeriad gwreiddiol fel bardd. Ond, fel Cristnogaeth ei hun, sy'n gyffro i'w feddwl, y mae yna elfen baradocsaidd yn ei waith sy'n gwau'r meddwl drwy'r teimlad, a'r sefydlog drwy'r gorfoleddus, y tu allan i amser a hanes. Dyna pam y mynnaf gplysu'r gair 'Tragwyddol' personol gyda'r 'Absoliwt', a chyda'r Arfaeth. Wrth sylweddoli'r cyfundrefnau, deuir yn nes at amgyffred nid yn unig seicoleg iach anFreudaidd Pantycelyn fel bardd, ond ei gyfoeth deallol a'i athrylith, a chyfanrwydd ei weledigaeth unplyg. Sef ei waelod, ei Gynnwys. Onid absoliwt ystyrllon iddo ef oedd *raison d'être* cydlyniad o'r fath ac ysbrydoliaeth ei farddoniaeth i gyd? Onid personol hefyd yw'r un Duw hwn ei hun iddo yn ei absoliwtrwydd?

Diau fod llawer, onid pob un, o'r cyfundrefnau meddyliol y cyfeiriwn atynt maes o law yn wedd ar y 'meddwl cyffredin' Calфинаidd, llwyth Israel y ddeunawfed ganrif ym mryd Pantycelyn. Dyma wead ysgrythurol eithr hynod ddeallol a hynod gyffredinol a ddaeth yn fframwaith meddyliol-brofiadol-weithredol nid yn unig i ddsbarth canol cymharol soffistigedig a gweithwyr deallus yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif; ond, oherwydd ei ddyfnder isymwybodol, a ddarparai i'r werin lai addysgedig, ddealltwriaeth brofiad ac agwedd at fywyd a oedd ymhell o fod yn arwynebol faterol ac anifeilaidd allanol. Darperid yn wir i'r unigolyn ddealltwriaeth o gyfansoddiad dadansoddol rhyngwladol. Fe geid hyn gynt wrth gwrs gan y prif enwadau yng Nghymru yn ddiwahân. Yn y cyfnod diweddar, bu'n rhaid disgwyl i'r Mudiad Eciwmenaidd rhyddfrydol a relatifaidd ddyfod cyn y ceid daduno'r sefyllfa honno o ddifri.

Llwyddodd yr ysgrythurau dros y cenedlaethau, a hynny yn wyneb pob beirniadaeth ac amheuaeth ac ymgais angerddol i'w chwynnu a'u distrywio, i oroesi yn fframwaith ymarferol cynhwysfawr i fywyd oll. Gweithiai'r Beibl eciwmenaidd i bawb ym mhob amgylchiad. Ceid Cynnwys rhyfeddol o unol. Yr oedd y Beibl i Williams yn atebol i drafod bywyd teuluol a gwleidyddol, ffermio a'r celfyddydau, gwyddoniaeth a masnach, y gweledig a'r anweledig, y llawen a'r trist, yr achlysurol a'r tragwyddol, yr anfodern a'r modern, y deallol a'r poblogaidd. Tyfai dogmâu sgeptig ac ystrydebau amau'r Ymoleuo o'i amgylch wrth gwrs rif y gwllith yn syml oherwydd rhagdybiau dyn-ganolog. Ceisid tanseilio'r Parhaol 'ar-gwyddor'. Nid oedd efallai amgyffrediad digon cyffredinol ymhlith y materolwyr y gallai fod yna absoliwt digyfnwid tragwyddol yn sylfaen i fodolaeth ymarferol. Eto, yr oedd a wnelo'r cnewyllyn hwn â sefyllfa barhaol gyffredin. Yn hyn o beth, bardd i'r bobl oedd Williams. Fframwaith i feddwl ymarferol drwyddo hefyd oedd y cyfundrefnau hyn. Rheidrwydd oedd cyfundrefneg er mwyn deall a dweud pob peth ar ran ei werin, gan gynhyrchu a chyfansoddi ymateb i bob profiad a syniad yn unol.

Pan soniwn am Gyfundrefn Iaith i Lên (y gwyddorau a'r celfyddydau) sôn yr ŷm am ffynhonnell y meddwl oll. Wedyn, ceid ffrwythau Cyfundrefneg Ddiwinyddol, cyfansoddiadau Duw, penderfyniadau trefn gynhwysfawr y Tri-yn-Un:

GWWP I, 15 *A threuliwyd oesoedd heibio i'r Drindod mawr yn un
I weld i ymbleseru ei ddyfais faith ei hun;
Ac yma'r oedd dirgelion, eu gwybod byth ni chair,
A rhyfyg yw eu hadrodd ond 'enwir yn y Gair.*

Mewn gwirionedd, i Bantycelyn, *heb* y digyfnwid Grist, nid oedd sail a gyfrifai sut y gellid cymharu unrhyw brofiad â phrofiad arall. Pe buasai heb ddim a oedd yn wrthrychol gyffredin, doedd dim 'deddfau' absoliwt, dim modd cyffredinoli, dim cysyniad ystyrllon o drefn. Nid oedd gan y gwyddonydd anghrediniol ei hun yr un warant arall nac esboniad amgenach dros gredu mewn trefn unol a chyson i'r bydysawd.

*

*

*

Beth felly a gydlynodd yr Undod hwn? Un o brif broblemau meddwl celfyddyd, a bywyd ei hun i Bantycelyn ac i ni o hyd, oedd dwyn at ei gilydd yr un a'r llawer; yr arbenigion a'r cyffredinolion. Dyna'r broblem o 'drefn' — calon Cymhelliad, mewn iaith, mewn deall, mewn amser, a ffurfiau gofod. I'r athronydd, problem haniaethol yw hyn. I'r celfyddydwr, problem bersonol ddynol yw hefyd. Ond fe'i datrysir yn y meddwl a'r galon — ac nis datrysir yn unman arall — gan gariad y Tri-yn-Un absoliwt.

Mae'r unplyg yn gwrthod pob relatif. Ni newidia mwyach yn ôl amgylchiadau na diwylliant nac unigolrwydd. Ond mae yna Un sy'n datrys y ddeuliaeth a'r drioliaeth mewn chwinciad.

Eto, nid dadl resymegol o'r fath mo Gristnogaeth. Na rhestr o foesau chwaith. Profiad a phrawf personol unplyg yw a rydd Duw a Thad Iesu Grist inni. Dyna pam y daeth Pantycelyn drachefn yn ei ôl i fod yn berthnasol mewn ffordd newydd heddiw i'n Hoes Ôl-fodernaidd. Neges fawr Pantycelyn i chwiw Ôl-foderniaeth ynglŷn â'r Absoliwt yw mai dyn fel ni (ar un olwg) yw Iesu Grist, y gwelir y dimensiwn arall iddo ym mhrolog rhyddiaith *Golwg ar Deyrnas Crist*. Sonia amdano'n 'ordeinio y cyfan sy'n bod, er datguddio gogoniant, a gosod allan briodoliaethau'r Duwdod. Yn rhoddi'r holl arfaeth ar Grist i'w chyflawni, a'i osod yn Farnwr byw a meirw yn niwedd y byd.' Yn nhrefn cynllun yr Arfaeth, gwelai Pantycelyn, nid 'os yw un yn wir y mae'r llall yn gorfod bod yn anwir': gall hyn fod yn wir a gall y llall fod yn wir hefyd o ran methodoleg. Ceir estyniad yn ogystal â gwrthosodiad, heb yr un cyfosodiad o anghenraid onid o fewn digwyddiadau hanesyddol yr Arfaeth.

*

*

*

Gwyddai Pantycelyn mai'r Arfaeth oedd yr hyn a gynhwysai rychwant olynol Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. Roedd Diwinyddion ers tro wedi myfyrio uwchben yr olyniaeth gynhwysfawr honno. Gwyddai Pantycelyn (hynny yw, yr oedd yn ymwybodol) mai Gogoneddu Duw a'i fwynhau'n dragwyddol oedd prif ddiben y gerdd. A'r diwedd absoliwt a gyflyrai'r holl drefn ynddi, sef cydol y gerdd hyd y cwlwm. Felly canolodd, a hynny o ran sylfaen Deunyddiol a Chymhelliad ei ddelweddiad o'r Arfaeth, o gylch yr uchafbwynt ffeithiol, sef y Gogoniant. Gosododd Ogoneddiad Duw (ac Yntau'n gogoneddu dyn) yn uchelgais felly i'w holl brydyddu.

Ond yn isymwybodol yr un pryd, yr oedd wedi mabwysiadu'r cyfundrefnau unigol a oedd eisoes yn wreiddiedig yn ei brofiad o'r ysgrythur er mwyn cynnal athrawiaethau'r ffydd. A sylweddolodd hefyd, beth bynnag oedd llawnder y diwedd, mai'r prif destun i'w ogoneddu yn y pen draw a chalon y daith tuag yno oedd y Groes. Adeiladwyd strwythur i'w waith, yn isymwybodol i raddau helaeth, yn ôl pob tebyg, o gylch y cymhelliad diriaethol hwn o Ogoneddu, gan mai hynny a roddai *raison-d'être* i'r holl gyfundrefnu. Ac roedd y gogoneddu ym mhopeth yn dadlennu canolbwynt disgyrchiant ysbrydol yn aruthredd yr Un a gymerodd arno'i hun holl bechodau'r byd. Gogoneddu oedd gwir ysgogiad ei angerddau a'i ewyllys eithr hefyd gydberthynas adeiladwaith strwythurol a hierarci'r cyfansoddi, y cynllun syfrdanol o Ogoneddu Duw-ddyn a roddai fywyd drwy farwolaeth. Gyda Hwn, law yn llaw, y gallai gerdded.

Ac yna ar y copa, sylweddolai mai gogoneddu Duw mewn modd diriaethol oedd y brif a'r unig weithred a unai ac a atynnai'r strwythur diwinyddol mwyaf cyfansawdd ynghyd mewn barddoniaeth. Absoliwt yw gogoneddu.

Yr Absoliwt (y Pen Draw a'r Cyfan), felly, yw'r rhagdyb neu'r cyfeirbwynt eithaf sydd ar gyfer pob gosodiad a gwrthosodiad. Ymddengys fwyfwy heddiw fod yna ddewis clir ym meddwl dyn: Duw yn Absoliwt neu ddyn yn 'absoliwt', y Duw tragwyddol bersonol neu'r hunan (a syniad yr hunan am bopeth). Ymddengys weithiau y gall seciwlaryr (y Sefydliad) amrywio ar enw yr hunan. Er enghraifft, un dewis a dybir yw 'Absenoldeb Duw', y Bwlch. Ond profiad neu benderfyniad yr hunan yw arddel y fath gyfeirbwynt. Ni châr Natur wacter, a'r hunanlywodraethol a feddianna'r safle. Hunan a fydd yn gwneud y Bwlch arbennig hwn yn gartref.

Ni cheisiai Pantycelyn ddwyn 'profion' o unrhyw fath yn y modd arferol i wireddu Duw: iddo ef, yr oedd Duw yng Nghrist yn hunanbrofiannol. Yn hytrach na cheisio prawf penodol yn ôl amodau amser a lle, yr hyn a gyflwynai Pantycelyn oedd delwedd a ragredai bob dadl a rhesymu a phrawf, sef bydysawd-olwg y cyfan. Datguddiad cyfundrefnol parod oedd. Yn lle dadl neu ddadleuon unigol mewn cornel, o fewn amser a lle, arddelai olwg cyflawn, deallol a phrofiadol ar y byd a bywyd oll. Yr hyn a sgrifennai, yn ei arwrgerddi ac yn ei emynau, ac a ddathlai, oedd byd-olwg ar Deyrnas Crist, a mawl. Ystyr yr Arfaeth iddo oedd 'meddwl Crist'. Gwreiddiai'i 'ddadl' ei hun, felly, yng ngafael Crëwr a Gwaredwr.

Fe'i clymid ym mryd Pantycelyn, wrth gwrs, gan feddylwaith goruwchnaturiol, (Col. 2: 3) 'Ynddo Ef y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig'. Rhoddedig oeddent gan y Mab hwn o Nasareth. Ac o'r tu allan i'r hunan, felly, y ceid yr Absoliwt hwnnw a ddô i feddiannu'r hunan crediniol a geid gan Bantycelyn.

(vi) *Cyngor Tri yn Un*

Oherwydd y natur Absoliwt gallai Paul (fel Pantycelyn) hawlio mai Crist oedd y rhagdyb i'w holl feddyliau. (2 Cor. 10: 5). Fan yna, y mae'r chwarae yn gorffen a'r difrifoli yn dyfnhau. Math. 22: 37, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl'. Gair goruwchnaturiol y gymuned o Un yw'r safon hunanlywodraethol a diamod mewn manau felly. Fel mesur gwirionedd, methiant yw'r gwrthwyneb.

Darlunnir 'golwg' yr Arfaeth fel cynllun ar waith ar y cyd ym 'meddwl' y Drindod.

Eto, nid cysyniad yn unig yw'r Drindod i Bantycelyn. Profodd ef dadolaeth Duw, teimlodd gariad personol Crist, a gwybod awdurdod diwrthdro'r Ysbryd Glân. Un o blant siawns Cristnogaeth oedd Hegeliaeth. Credai Hegel mai'r Ysbryd Absoliwt, wrthi'n meddwl

ei feddyliau drwy gyfrwng meddyliau dynol, oedd gwybodaeth ddynol. Gweithiai drwy ddialecteg (neu gyfundrefn ddeinamig) o Osodiad, Gwrthosodiad a Chyfosodiad. Ar ei ôl, yn un o blant Hegel caed ysgol athronyddol fechan ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, sef Delfrydoleg neo-Hegelaidd, math o waith a geid gan F. H. Bradley. Dyna'r athronydd anghrediniol y penderfynodd y T. S. Eliot ifanc wneud traethawd ôl-raddedig arno pan ymadawodd â Havard ac America, a dod i Ewrob. Mae ei safbwynt yn fath o ddatblygiad ar Ddelfrydoleg oddrychol a ffenomenalaidd Berkeley a Kant, ond yn fwy 'gwrthrychol' ac 'absoliwt'. Ym mryd Bradley, y mae'r absoliwt yn fwy na chyfundrefn o ymddangosiadau: y mae'n gynhwysydd i'r gyfundrefn honno. Mae undod a chymeriad pob peth yn cael eu diffinio gan berthynas ei nodweddion. Nid dyna ansawdd personol yr Absoliwt Cristnogol.

Eto, hyd at y fan honno y mae Pantycelyn yn cytuno i raddau, ond yn anghytuno drwy godi rhybudd arall. Wrth fawrygu'r un, y mae'n mynnu, fel y gwelsom, gyd-osod yr amryw yn sylfaenol. Nid embaras yw'r Drindod iddo, ond sylfaen i bob modd rhesymegol. Yn yr Absoliwt trosgynnol fe gaiff amrywiaeth yn ogystal ag undod, yn weithrediad mewnol. Gwahuno drachefn. Cydosodasid amrywiaeth ag undod gan Ddelfrydolegwr Neo-Hegelaidd fel Bosanquet (y mwyaf soffistigedig ohonynt). Heb hynny, absoliwt mewndrychol yn unig a gâi sy'n cynnwys Duw a dyn. Felly hefyd, mewn ieithyddiaeth seico-fecaneg neu seico-gyfundrefneg, gellid ymaros o ran sffêr sefydliadol o fewn dimensiwn lle y ceid cyferbyniad cyfundrefnol 'dyn/bydysawd' (neu arbennig/cyffredinol), yn wyneb yn wyneb mawr. Eithr cyfundrefn ddibynnol yw bob amser i Bantycelyn, is-gyfundrefn i'r Arfaeth ac i'r Absoliwt, cymuned iddo ymserchu ynddi, ac mae'n bodoli ac yn ffitio mewn trefn a reolir gan Absoliwt. Drwy'r Drindod, felly, y cyfundrefnid bywyd. Drwy Grist adnabyddid Person.

Nid prawf o Dduw yw mynd yn ôl o gyfundrefn i glwm hierarcaidd fel hyn ac ymlaen ymlaen drwy'r Arch-gyfundrefn i brofi'r Wraidd-gyfundrefn ac felly'r Absoliwt. Nid canlyniad yw Duw. I Bantycelyn, Duw yw'r unig ragosodiad eithaf, yn Un/amryw, i bob cred ac i bob meddwl a gwybod. Duw hunan-wireddol a hunan-ddatguddiol yw. Ni ddibynna ar yr un prawf arall. Nid o'r greadigaeth yn unig y deuir i'w adnabod onid o ran. Fel arall, ac o gyfeiriad arall. Drwy'r Crëwr y deuir i wir adnabod y greadigaeth. Ni chanfyddir yr Arfaeth na'r Greadigaeth yn eu llawn ogoniant ond drwy lygaid y Crëwr. Dyna'r drefn gan Bantycelyn wrth symud o bennod Un, yr Arfaeth, i bennod dau, y Greadigaeth.

A hyn oll a wna ef yn fardd cyfoes i ni.

Nid oedd y ffaith ei fod yn dewis mawrygu Crist yn anwybyddu'r Drindod yn ei sylfaen.

Ym Marc 10, 18: 'A dywedodd Iesu wrtho, 'Pam yr wyt yn fy ngalw i yn dda? Nid oes neb da ond un, sef Duw.' Yn y fan yna, y mae'n dweud llawer. Mae'n lled holi a oedd y dyn

wedi adnabod ei dduwdod. Heria a oes angen y gair absoliwt ‘da’ am neb ar y ddaear. Gair ydyw na chyfeiria ond at Absoliwt. Hynny yw, cyfeiria o ran bwriad a defnyddioldeb at Dduw fel eithafbwynt sy’n safoni pob gradd ar ddaioni y tu hwnt i’r ddaear. Dyna effaith bodolaeth yr Absoliwt ar gyfundrefn ystyr. Yr ydym i fod i ddeall gair fel ‘da’ yn ôl fel y mae’n perthyn i’r pwynt eithaf, nid ei luchio o gwmpas yn ddifeddwl. Yn y cyd-destun hwnnw gellir deall y gair ‘relatif’ hefyd, nid fel rhywbeth sy’n chwalu ystyr, ond yn ôl perthynas â’r safon uchaf a pherffaith. Rhaid i seciularwr yntau wrth y gair ‘da’, er gwybod bod y dywediad gan Iesu Grist yn gywir ‘nad oes dim un yn *dda*’ onid Duw, hynny yw heb yr un rhithyn o ddygioni yn fefl ar berffeithrwydd gofynnol. Yn y goleuni hwnnw plyg y seciularwr i realedd yr Absoliwt, seciularwr na all fyw na meddwl heb berthynas â’r cyfeirbwynt sydd ynom oll. Sut y gellir dweud ‘da’ ond yng ngoleuni Hwnnw?

*

*

*

Un o’r datguddiadau mwyaf treiddgar a gwreiddiol yn y Ffydd Gristnogol, fel y gwelwom, oedd y cyflwyniad a’r esboniad o’r Drindod absoliwt, hunanddigonol personol, tragwyddol. Arweiniad ysbrydoledig, ddwedwn i, a barodd dadogi’r disgrifiad neu’r trosiad ‘person’ ar ddirgelwch pob un o’r Tri. Yn nysgeidiaeth yr ‘Undod a oedd yr un pryd yn Drindod’, fe gafodd Pantycelyn strwythur meddyliol mewn Ffurf ac mewn Deunydd, a roddodd iddo fframwaith cadarn a sicrwydd aeddfed i’w brydyddiaeth. Fe’i diogelai mewn modd catholig rhag y chwalfa a’r unochredd amddifad sy’n bygwth yr *undod/amrywiaeth*, cyfuniad cytbwys sydd bob amser mor angenrheidiol i gelfyddyd. Diffyg hynny a barai ymddatod anaeddfed a fygythiai werthoedd mewn modd mor ddirywiol yn niwedd y ganrif ddiwethaf drwy ddogmâu chwiwus ‘différance’, lluosrwydd, relativrwydd, ac amhenderfyniadaeth. Gan unplygrwydd amgen y cafodd Pantycelyn ei angerdd: gan y triphlygrwydd unol y cafodd ef y cydbwysedd doeth a’r ffrwythlondeb.

Heblaw bod yn wirionedd, sail meddwl rhesymegol oedd yr Absoliwt sydd yn Un, yn Ddau (sef y ddwy natur mewn Un Person byw ac annwyl — Duw/dyn), ac yn Dri (Pherson). Y mae’r rhain yn gosod egwyddor ‘amryw o fewn undod’ mewn safle trosgynnol ac mewn safle mewnfodol diriaethol, gyda’r cwbl o fewn trefn feddyliol olynol, yn gyn-fod tragwyddol i’w brofi o’r galon. Ni ellir beirniadu hynny heb ei ddeall.

Ond a oedd Pantycelyn ei hun, er hynny, yn gallu rhoi camargraff am y Drindod mewn gwirionedd weithiau wrth geisio dyrchafu statws yr Un, Iesu Grist, fel y gwnaeth Karl Barth (medd rhai) yn yr ugeinfed ganrif? Barth, arwr mawr y diwinyddion yn y traddodiad clasurol a wnaeth gymaint gynt i amddiffyn rhannau pwysig o’r ffydd uniongred yn nannedd dyn-ganolwyr. Wrth geisio tadogi holl waith y Dduwdod ar Iesu Grist, yr oedd Barth — meddid —

yn ymwrthod â chydbwysedd uniongred Beiblaidd. Iesu Grist yn ei fryd ef oedd yr unig Dduw y gellid ei *adnabod*. Ac er i Barth gyfeirio at y Tad a'r Ysbryd Glân, ymddangosai i bob pwrpas mai'r Arglwydd Iesu Grist yn ei fryd ef oedd Duw. Onid fel yna yn union y gwelai Pantycelyn yntau bethau? Mae'n ymddangos felly ar yr olwg gyntaf. Y Gwardwr sy'n cael y sylw pennaf ganddo.

Ond y mae'n bwysig sylweddoli natur a llwybr y cymodi â Duw, sef ein hadferiad yn ôl y drefn ddatguddiedig a gafwyd yng Nghyngor Tri yn Un y Duwdod. Personol yw Absoliwt Pantycelyn mewn Arfaeth gyfnewidiol. Ac felly, y mae'n gwbl gyferbyniol â'r haniaeth (gwaelod bod) y bu'r ugeinfed ganrif yn cyfeirio yn ddyfal ati. Gellid disgwyl y buasai'r Un y disgrifiwyd ei bersonoliaeth fanylaf yn y Beibl, sef yr Arglwydd Iesu Grist, yn derbyn yr wrogaeth fwyaf personol o raid. Ac eto, yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, gan y Tad y derbynia'r Mab y siars ar y cychwyn a'r drefn ddechreuol, ac ar ei diwedd eithaf yn ôl i'r Tad y mae'r Mab yn cyflwyno'r Greadigaeth adferedig. Y Tad nad ymgawdolodd a rydd y fframwaith i'r Mab gostyngedig.

GWWP I, 188 *A'r pwrpas cynta' yma ag oedd yng nghalon Duw
Yw'r ola' a gyflawnir er daioni dynol-ryw,
Sef bod y Duw tragwyddol, fyth fythol Dri yn Un,
I lywodraethu'r nefoedd yn natur perffaith ddy'n ...*

189 *Un Duw yn cael ei addoli am y gweithredoedd mawr
A wnaethpwyd gan y Drindod o eitha'r nen i lawr.*

Y fframwaith triol hwn yw'r unig gyd-destun cywir i drafod themâu Pantycelyn (a themâu llenyddol yn gyffredinol ddwedwn i), a hefyd i ddeall Cyfundrefneg thematig yr holl batrymwaith a ddarganfyddir yng nghyffes ei farddoniaeth. *Cariad* oedd y Person hwnnw, Ef hefyd a benodolai'r Drefn gariadus. Yr oedd yna 'bersonol' amlwg yn yr Absoliwt.

Mae anneall dyn bob amser yn ysu am ei roi'i hun yn gyntaf. Y 'fi' neu 'f'ymwybod i' yw'r man cychwyn i bob meddwl a phob teimlad. Ond fe wŷr dyn yn y bôn yn well na hynny. Fe wŷr ei fod yn darfod, ac fe wŷr fod yna ymwybod wedi bod o'i flaen ef ac y bydd ar ei ôl. Bob amser, mae'n rhaid iddo wneud rhag-dybiaeth. Does dim osgoi. All e ddim meddwl heb *rag-dybiaeth*. Y rhagdybiaeth sy'n rhoi fframwaith i'w feddwl. A dyna y bydd y naid seml o ddyrchafu'r fi yn ei wneud bob tro. Gwŷr dyn yn y bôn mai celwydd tila yw gwneud y fi ei hun yn absoliwt. Oherwydd y synnwyr o Dduw sydd ym mhob un, er ei wadu a gwrthryfela yn ei erbyn, fe wŷr pob un, nad ef sy'n dyfeisio'r drefn a'r ymwybod ar gyfer pob brawddeg: gwna gamgymeriadau. Mae yna Absoliwt anffaeledig sy'n cwmpasu, a hwnnw'n uwch ac yn fwy na thipyn ymwybod dyn ei hun. Er mwyn deall dim, rhaid mynd y tu hwnt i'r gair bach annifyr 'fi'. Mae yna wrthrychedd y tu allan i'w oddrychedd. *Y tu hwnt*

i'r Gramadeg rhoddedig hefyd sydd yn caniatáu inni feddwl o gwbl, fe geir amodau a strwythurau yr adeiladwyd y Gramadeg arnynt. Dyna wedd ar yr Absoliwt, a gŵyr pob doeth fod a wnelo hyn yn isymwybodol ag Absoliwt; Absoliwt y cyffredinoli (a'r arbenigoli) nad oes yr un gair na'r un drefn hebdo. Felly er popeth, er y cais gan ddyn meidrol nwydus i fod 'megis duwiau', a gwneud ei feddwl ei hun yn Absoliwt, gŵyr yn burion (drwy *sensus divinitatis* a gras cyffredin) y gall fod, yn wir rhaid bod Absoliwt gwrthrychol sy'n ei ragflaenu'n feddyliol ac yn uwch o lawer nag ef. Fe'i hwynebir, felly gan ddewis *Absoliwt* — rhyngddo ef ei hun, druan, sef dewis y chwenychedig chwyddedig, y fyfiaeth hyfryd awdurdodol ar un llaw, ac yntau'r Crëwr a'r Absoliwt Benarglwydd y tu hwnt iddo. Ac y mae ei synnwyr o Dduw a blannwyd y tu mewn iddo yn gorfod wynebu'r dewis hwnnw'n onest. Drwy'r arall y sylweddolai Pantycelyn hunaniaeth. 'Y tu hwnt i ni' yw'r hyn yr ŷm yn gallu bod yn ymwybodol ohono, dyna sy'n gwneud yr 'ymwybod' yn bosibl o gwbl. Gwyddom nad y 'fi' yw'r diweddbwynt; Crist sy'n caniatáu gwybod Duw o gwbl, ac yn ei ddodrefnu drwy egluro'r gweddill o'r Drindod. Heblaw 'synnwyr o Dduw', darparodd yr Ysbryd Glân oruwchwybod, sy'n berthynas. Ac wedi'r rhagdyb gyntaf ac olaf, a sylweddoli'r dewis ac awdurdod yr Absoliwt, dyma'r meddwl a ddeffrowyd i Bantycelyn yn Nhrefeca. Un o wersi da marwolaeth i ni oll yw bod yna 'y tu hwnt i'r fi'.

(vii) *Mwy na Perthynas — Bodolaeth*

Gŵyr pob Cristion profiadol nad credu *bod* Duw yw bod yn Gristion. Perthynas yw'r allwedd i'r Drws. Dyma'r fynedfa i'r Diwygiad Mawr. Mae'r Diafol yn credu *bod* Duw, ac yn crynu. Ymddengys nad yw credu *bod* Duw yn fawr o werth. Ac eto, y mae Bodolaeth yn rhagflaenu Perthynas. Y mae hefyd yn fwy diriaethol. Perthynas oherwydd Bod yw. Mae'r math o Fodolaeth *gyflawn* a sylweddolir ar ryw olwg yn cynnwys Perthynas. Gwedd ar y Fodolaeth fawr ei hun yw Perthynas: *bod* yng Nghrist. Sôn yr ydys yn awr am fath o Fodolaeth, – bod yng ngwaed Crist, yn un, a'i waed ef drwy'n gwythiennau ni. 'Gwaed Duw', meddai Pantycelyn. Dyna'r fodolaeth yn y berthynas, sy'n wreiddiedig mewn trefn weithredol ddwyfol: 1. Pedr 1:2, '*Etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw y Tad, trwy waith sancteiddiol yr Ysbryd, i fod yn ufudd i Iesu Grist*'.

Un ffordd sy gan yr Ysgrythur o ddiffinio'r Drindod yw drwy ddynodi gwaith mawr swyddogaeth pob Person yn y Drindod yn ôl ei berthynas â'i gilydd yng ngwaith uno dyn â Duw. Fe'u cyflwynir ym mhennod odidog gyntaf Paul yn ei Epistol at yr Effesiaid. Penodir yn eu tro y gweddau ar y gwaith: y Tad yn dewis, yn rhagordeinio ei blant i gael eu mabwysiadu, Efô sy'n rhoi'r Mab yn rhad ac am ddim: Effes. 1: 3-6.

GWWP 1, 22 *A thyma'r ddyfais ryfedd gymerodd oll i gyd
Fedlyliau'r Tad sancteiddiol yn hir cyn creu'r byd;
Trwy derfyn tragwyddoldeb oedd yn ei fynwes lân,
Neb ond y Mab a wyddai amdano, a'r Ysbryd Glân.*

Y Mab sy'n cael ei anfon i brynu pechaduriaid ac yn sicrhau'r maddeuant. Ei ras Ef a'i ddysgeidiaeth sy'n rhoi dirnadaeth i wahaniaethu rhwng y gau a'r gwir. cf. Effes. 1: 7-12.

GWWP 1, 4 *Meseia yw ei enw, efe eneiniodd Nêr
Yn Frenin mawr tragwyddol ar luoedd uwch y sêr,
Y lluoedd ar y ddaear, a hwythau hefyd sy
Yn rhwym yn y cadwynau yn nyfnder uffern ddu.*

Ond heb waith yr Ysbryd Glân, ofer fyddai'r cwbl. Yr Ysbryd sy'n oleuni ac yn cymhwyso hyn i'n calonnau. Ef sy'n llefaru wrthym yn yr Ysgrythurau, gan ein cyflwyno i Grist. Ef sy'n ein haileni a'n sancteiddio ynddo Ef: cf. Effes. 1: 13-14. Mae'r berthynas yn troi'n fodolaeth newydd gydag undod â Duw, sy'n fwy na pherthynas rhwng 'dau'.

GWP 11, 115 *Tad yn y Mab, Mab yn y Tad,
Ac yr un wedd mae'r Ysbryd rhad,
Y man y bo un y lleill y sy,
O ryfedd Fod! can's un yw Tri.*

Hynny yw, undod unigryw sydd yma, Undod gweithredol sy'n fodolaeth; canol y ffydd Gristnogol, Penarglwydd pob cyfundrefn ddeinamig a luniwyd mewn Rhagluniaeth. Canys dyma ansawdd y Bod. Perthynas.

Ond y mae i'r berthynas driol fewnol honno drefn olynol yn y sylweddoliad ac mewn swyddogaeth, y Tad yn Fod sy'n gweithredu fel pe bai ar y blaen (eto hefyd heb fod ar y blaen): fel math o ffynhonnell neu darddiad; y Mab yn Fod sydd yn y canol yn marw, yr Un y mae'r Tad yn ei anfon; ac yna'r Ysbryd Glân, yn Fod sy'n edrych yn ôl at y Mab, gan glymu dyn ffaeledig a gwrthryfelgar wrth Ei atgyfodiad: y Cyflwynydd.

GWP 11, 116 *'R oedd rhaid fy newis gan y Tad,
A Iesu farw troswy'n rhad;
A'r Ysbryd i gymhwyso 'gyd
Ei iechydwriaeth werthfawr ddrud.*

GWWP 1, 22 *Cyfamod rhwng Personau tragwyddol, mawr y ne',
Ym Mherson pur fy Iesu, — 'rwyf finnau ynddo fe.*

Dyna'r gyfrinach, 'bod' yn Un/amryw. Mae'n debyg ddigon i gyfundrefn gyffredin, onid yw? Undod bodolaeth yw yn sicr. Ond yn sgil y Mudiad Rhamantaidd, bu gwawdio 'cyfundrefnau o wneuthuriad dyn' yn fath o atgyrch greddfoll. A hawdd i lu bellach gydymdeimlo â'r fath safbwynt rhyddfrydig. Ac ofni. Ond yr ateb yw bod yna Amryw mewn Un yn Fodolaeth eisoes, ac ar ei ddelw ef y crewyd dyn a'i ddeall (a'i gorff) cyfundrefnol.

Yn yr ail-greu, dôl dyn i fod yn Dri yn Un hefyd, yn Broffwyd, yn Offeiriad ac yn Frenin. Cyfeiriai Pantycelyn droeon at y deall hwn. Cyfundrefn fewnol mewn twf i'r Cristion oedd.

Hyn felly sy'n cadarnhau'r gogwydd deallol at Gyf-un-drefn yn ungair fel disgrifiad o'r berthynas. Perthynas yw pob bod go iawn mewn Cristnogaeth, Duw a dyn, dyn a dyn, a phersonau'r Drindod â'i gilydd yn batrwm o undod absoliwt i ddyn. Saif Pantycelyn gyda chredoau prif ffrwd Acwin/Calfin a'r Eglwys Ddwyreiniol oll drwy'r oesoedd sy'n datgan yn ddiamwys, yng ngeiriau Cyffes Ffydd y Methodistiaid, 'Er mai un Duw sydd, ac na ddichon fod ond un gwir Dduw, eto, yn ôl tystiolaeth eglur yr Ysgrythur Lân y mae yn Nuw *Dri* o Bersonau, sef y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; a'r Tri hyn yn gyd-dragwyddol a gogyfuwch, heb un cyn neu wedi'i gilydd, na mwy na llai na'i gilydd, ond un Duw ydynt.' Hyn sy'n disgrifio'r Drefn Feiblaidd glasurol o undod llwyr. Cynddelw pob uno.

Sut y gall hyn fod? Yn ogyfuwch? Onid yw'r Mab yn ufuddhau ac yn addoli'r Tad? Onid yw'r Ysbryd Glân yn cyfeirio'n golwg at y Mab? Mae fel pe bai'r ail Berson yn ymostwng i'r Person cyntaf, a'r trydydd Person yn ymostwng i'r ail. Ond Duw gostyngedig yw'n Duw ni o ran natur bodolaeth. Gostyngedig ond nid israddol. (Heb. 1: 3; Ioan 1: 18; 14: 9; 2 Cor. 4, 4; Col.1: 15; Heb. 1: 1-4.), 'Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw, ac mae stamp ei sylwedd Ef arno.' Gwedd odidog ar y Duwdod yw gostyngeddrwydd; a hyn yw'r gyfrinach i lawer o gyfundrefnau eraill. Rhinwedd a mawredd yng ngolwg Cristnogion yw ymostwng ystyrion. Ym mherthynas gŵr a gwraig, fe'u hanogir i ymostwng i'w gilydd (y gŵr ymhellach na'r wraig — oherwydd ei falchder efallai) fel pe bai'n hyfrydwch ac yn ddaioni, yn uchelgais yn wir. Bu Duw yntau'n ymostwng nes iddo ym mherson y Mab roi heibio rai arweddau o'i swyddogaeth aruchel, a chymryd arno agwedd gwas, a rhoi'i fywyd dros ddyn pechadurus er gogoniant i'r Tad. Dyma'i Arglwyddiaeth, dyma fodolaeth ei fawrhydi gogoneddus gostyngedig, rhy bell i ddeall y 'crawd'. Ond dyma berthynas a wnaeth fodolaeth newydd o'r dyn a gais aileni.

Dirgelwch yw hyn i gyd. Pe ceisier feddwl yn ddeallol gonfensiynol am y berthynas hon sydd mewn bodolaeth unol newydd, a ninnau o fewn medr rheswm sydd o dan orfodaeth gofod ac amser, yna wrth raid byddai y tu hwnt i ni. Dimensiwn tragwyddol a goruwchnaturiol sy'n gweddu i'r ddealltwriaeth a'r datguddiad o Dduw. Ac ni chawn ond cipolwg o bell arno ar y ddaear hon. Gwedd ar ei ryfeddod yw hyn. Ni ddylai fod arnom gywilydd na allwn ddeall hollwybodaeth Duw. Ac nid yw bod goruwchnaturiol yn llai o fod.

Eto, un Duw sy'n Fod yw, nid tri duw. Medd Deut. 6: 4, 'Gwranddo, O Israel: y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd.' Ac yn Ioan 10: 30, 'Myfi a'r Tad, un ydym.' Fe allai

Col. 2: 9 hawlio: ‘Oherwydd ynddo Ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo’n gorfforol.’ Yr un Duw oedd pob un o’r Tri, ac felly y cafwyd y fendith Apostolaidd, (2 Cor: 13, 14) ‘Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll.’ Sonnir am bob un o’r personau fel Duw yn gweithio gyda’i gilydd yn undod y Cristion. (Dyma undod tri pherson y rhagenw.) Mae’n amlwg bod y rhain yn bersonau gwahanol, bob un â’i berthynas wahanol, yn unigolion a chanddynt ‘safle’ gwahanol, fel y tystiodd yr Arglwydd Iesu Grist (Ioan 15: 26): ‘Pan ddaw’r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy’n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi.’ Ond caed eu perthynas oherwydd math o Fodolaeth, bodolaeth a oedd yn fath o berthynas gyfundrefus. Bodolaeth yw’r Absoliwt.

Oblegid bod ein meddyliau’n annigonol i dreulio’r fath wirionedd yn rhwydd, am fod y dirgelwch mor rhyfeddol, a’r cynllun mor arswydus, yna y mae Duw drwy’i Ysbryd yn goleuo calonnau tlawd. Heb amgyffred, ond drwy gymorth digonol yr Ysbryd, gallodd yr anneallusion amgyffred, yn fynych yn well o dipyn na doethion, y dirgelwch godidog syml hwn. Y Tri yn y Greadigaeth, y Duw yn ddyn. Y Bod sy’n esgor ar gyfundrefnau.

GWP II, 115 *Y priodoliaethau maith diball*
A geir yn un, geir yn y llall;
Fy Nhad, fy Iesu, a’r Ysbryd cun,
Sy’ Dduw, ni fedda’ i eto ond un.

Mae’r math o briodoleddau a gawn maes o law yn y Drindod i’w cael yn awr ar frig yr Hierarci Ddeunyddiol Lenyddol eisoes yn natur yr Absoliwt ei hun.

GWP II, 101 *Mae’r Tad a’r Ysbryd ynddo’n un;*
(Ond rhyfedd rin ei boenau!)
Duw ar y nef ac uffern goll,
Y byd a’i holl wrthddrychau! ...

Mi welaf Ddyn yn nghrog ar bren.
Yn crymu ei ben i waered;
Fy Nuw yw Ef; caned y byd
Ganiadau o gyd gynghanedd.

Yn ffurf y Tri-yn-Un hyn y caiff y Greadigaeth strwythur pob cynganeddus ar ei haeddfetaf mewn dyn. Dyma Absoliwt Ffurf hefyd: cyf-un-drefn.

Ond mae yna un pwynt pellach yr wyf am ei grybwyll am yr athrawiaeth Drindodol gyfarwydd ond adeileddol hon.

Fel y mae Crist yn y Tad, disgwylir i Gristion fod yn fwy nag ymwelydd mewn perthynas allanol. Sylfaen yw Crist i amgyffred mwy am Gyfundrefn Absoliwt hyd yn oed mewn Gras Cyffredin. Fe geir sôn wrth gwrs am driduwiaeth yn helaeth ymhlith y Celtiaid,

yr Hen Eifftiaid, a'r Hen Roegiaid. Hynny yw, fe ganfuwyd grwpiau cyfun o dair duwies neu dri duw gyda'i gilydd mewn hen gerfiadau a lluniau a adawyd gan Geltiaid yn Iwerddon a'r Almaen a Ffrainc, heblaw ledled Prydain. Ceir yr un math o awgrymiadau yn *Trioedd Ynys Prydain*. Fe ddadleuwn fod y rhain, 'triduwiaeth', yn bell o ran gweledigaeth aeddfed o'r 'Undduwiaeth dripherson' Gristnogol gyda'r cyfoeth o eglurhad a geir (fel y dengys Pantycelyn i raddau) o Genesis ymlaen i Ddatguddiad yn y Beibl. Ond yr un pryd, fe godwn y cwestiwn, gan ein bod yn credu bod y Gwirionedd Cristnogol am Dduw wedi bodoli erioed, cyn bod amser, ac wedi'i ddatguddio fwyfwy gyda'r cenedlaethau gan arwain at Grist, tybed oni ellir cyfeirio felly at esboniad amgen dros drindodau'r paganiaid? Esboniad sy'n gynhenid mewn *sensus divinitatis*. Onid Gras Cyffredinol yw i'r 'ffaeledig', lle y ceir olion o ddatguddiad cynhenid syrthiedig?

Ochr yn ochr â'r gwyrto at driduwiaeth, ceir miliynau o undodiaid (dyweder Moslemiaid neu Iddewon) sy'n gwadu'r Tri Pherson. Ceir llawer o fân a mawr ddatguddiadau felly ledled y ddaear: y Duwdod dan orchudd. Rhoddwyd llawer o sylw drwy gydol yr ugeinfed ganrif gan ddiwinyddion Calфинаidd, megis Auguste Leclerc, Cornelius Van Til ac Alvin Plantinga, i'r hyn a elwir yn *sensus divinitatis*. Hyn sy'n cyfrif i raddau am ddiddordeb Pantycelyn yn *Pantheologia* mewn Crefydd Gymharol. Bydd eisiau manylu ychydig ar hyn ymhellach ymlaen. Y mae a wnelo â'r ffaith fod Duw wedi gadael ym mhob man ryw fath o synnwyr i wybod am Ei fodolaeth, ac nid yn unig am Ei fodolaeth, eithr am Ei ffurf a'i ddeddfau hefyd, a'i natur gyfiawn, greadigol a ffrwythlon. Ac ymddengys fod hyn yn fodd i egluro triduwiaeth anghyflawn mewn Crefydd Gymharol. Ond pwysig yw cofio nad gwybodaeth ffeithiol o'r fath na hyd yn oed profiadol am Dduw yw Cristnogaeth; eithr perthynas unigryw a digyffelyb sy'n troi'n fodolaeth. 'Nid oes enw arall ...' Prif dasg yr Ysbryd Glân, o safbwynt ymarferol i Bantycelyn, oedd deffro ein hymwybod o'r Mab, cyfeirio'n golygon yn unplyg ato Ef, agor ein calonnau, a'n sancteiddio ynddo Ef o fewn y cyd-destun triol. Hynny yw, gesyd y Drindod gyfundrefn sylweddoliad yn yr unigolyn. Mae'r hyn y mae ar ddod iddo yn greadur newydd. Nid perthyn yw'r Drindod yn unig, ond ymuno.

Ymddengys i mi fod swyddogaeth yr Ysbryd Glân, wrth ysgogi plant Duw (a phob dim arall) i'w ogoneddu Ef, yn adlewyrchu anferthedd y perthyn-fod sydd yn y Drindod. Yn y symudiad rhwng y Drefn (a'r cyfundrefnau) i'r Mynegiant, yr Ysbryd yw'r Cymhellydd arbennig. Hyd yn oed yn y Greadigaeth, yr Ysbryd oedd yn 'ymsymud ar wyneb y dyfroedd', yn rhoi bywyd, yn darparu egwyddorion ffurfiadol, yn perffeithio. Yr Ysbryd a oedd yn cyfeirio'r meddwl tuag at y Meseia, ac yn arwain Natur tuag at ei diben. Yr Ysbryd a oedd yn

bywhau'r difywyd ysbrydol ac yn sancteiddio ag undod. Gwyddai Pantycelyn, fel beirdd Cymraeg o'i flaen, am rym yr Ysbryd mewn Awen. Hwnnw a ddôl â'r goleuni a rôl bob ateb.

GWWP I, 118 *Trwy ei Ysbryd sancteiddiolaf mae'n troi yr anferth rod,...*

*'R un Ysbryd a symudodd ar y dyfnderoedd mawr
Nes gori'r Caos garw, defnyddiau nef a llawr
Ag sydd yn deillio allan oddi wrth y Mab a'r Tad,
Sy'n troi pob rhod rhagluniaeth o'r iechydwrriaeth rad.*

Ymwêl Hwn yn hyfrydol â'n calonnau er mwyn i ni gusanu'r Mab a gwaed y groes. Ein cyfeirio at y Mab yw Ei waith. Ac yna, canfyddwn fod y Mab yn ufuddhau i'r Tad. Ei brif nod yw moliannu, yn Ei fywyd a'i farwolaeth, y Tad tragwyddol. Yn ôl adeiladwaith dirgel y Drindod, Duw'r Tad yw craidd diweddol pob gogoniant. Yn y cwlwm cadarn triol y ceir credu diogel. Pe bai'r brwdfrydedd o gariad at y Mab, a oedd mor fawr yn achos Pantycelyn, wedi troi'r sylw oddi ar lawnder y Drindod, hawdd y gallasai Diwygiad 1735 fod wedi mynd yr un ffordd â 1904, a ganolai'n ormodol ar yr Ysbryd Glân a gwrogi i'w ddylanwad unigryw ar draul cydbwysedd tystiolaeth gytbwys. Ond mynnai Pantycelyn uniongrededd clasurol a chynnwys ystyrllon triol eglur. Wedi'r cwbl, caed swyddogaeth allweddol eglurhaol gan yr Ysbryd Glân ym maes barddoniaeth, a thrwyddo ef i'r cyfansawdd. Mae Ef yno.

Sylwasom fel y mae'r Mab yn *Golwg ar Deyrnas Crist* yn ufuddhau wrth dderbyn y Deyrnas gan y Tad ar ddechrau'r gerdd, gan wrogi wrth ei dychwelyd ar ei diwedd, drwy'i chyflwyno'n ôl mewn perffeithrwydd. Triongl cyflawn a 'chyfartal' yw'r Drindod, ac ynddi lun perffaith; a phob gwedd ar y llun yn berthynas gyfeiriol ddeinamig o'r naill i'r llall, yn ymgartrefu'n estynedig mewn calon newydd. Gwybod Ei fod Ef yw coron gwybod.

(viii) *Mwy na Ffurf—Perthynas*

Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â 'Beirniadaeth Gyfansawdd' yn gyfarwydd hefyd ag adeiladwaith camre cyfundrefnol Ffurf lenyddol, o ran ffurf sŵn a ffurf synnwyr (*Beirniadaeth Gyfansawdd*, 2003, 68-69):

<i>I Cyn-Dafod</i>	<i>II Tafod yr Iaith</i>	<i>III Tafod y Llenor</i>
yr amodau cyffredinol	y cyfundrefnwaith a lunnir	y cymhwysiad mewn
cyn-ieithyddol: megis	mewn iaith ar sail <i>I. Cyn-Dafod</i>	llynyddiaeth a gyflyrir
absennol/presennol; unigol/	ym mhob iaith unigol	gan fframwaith yr iaith
lluosog; sŵn/distawrwydd;		
arbennig/cyffredinol;		
dibyniaeth a.y.b.		

Mae hyn oll yn wir. Ond sut y mae'r fath dabl angenfilaidd yn ffrwydro'n gariadus ym mhrofiad gwaith Williams? Ble mae'r angerdd?

Ni raid dangos bod yr Absoliwt yn rhagflaenu ac yn cynnwys pob cam. Hyn sy'n caniatáu'r dyfnder. A ddywed Gyffredinol/Arbennig er enghraifft a ddywed Absoliwt. A ddywed ddibyniaeth lwyr neu Unigol/Lluosog a ddywed Absoliwt hefyd. A ddywed berthynas ddwyfol a ddywed Gariad. Mae'r meddwl dynol, er mwyn deall a gweithio, yn symud o'r gwahanu a'r arbenigol tua'r gwreiddiol sy'n orfodol fendithiol. Ni ellir rheswm heb y Cyffredinol eithaf. Onid yw hyd yn oed rhesymolrwydd ei hun yn rhagdybied deddfau cyffredinol? 'Y cyfan yw'r Gwirionedd,' meddai Hegel. Dyna'r Absoliwt mewn gwirionedd. Ond y mae'r hyn sy'n drefn hefyd yn ddeinameg anwyldeb agos.

Eto, ebychir drachefn, yn enw pob Rhamantiaeth — cyfundrefnau a ffurfiolaeth! Beth yw pethau felly mewn Diwygiad? Wel, y mae'n rhaid i'r angerdd ym mhob brawddeg gael ei sianelu drwy Gyn-Fynegiant ac o fewn amgylchiadau iaith i'r Mynegiant cymunedol, a thrwy'r profiad cymunedol disgybledig ymhlith pethau eraill, oddi wrth yr Absoliwt ond yn ôl i'r Absoliwt. Dyna'r math o drefn a ganfyddai Paul ymhob diwygiad dilys.

Mae'n rhan o'r ymarferol. Rhaid mentro *dibynnu'n llwyr* er mwyn adeiladu tri phrop y frawddeg seml aeddfed mae'n wir, fel y mae'n rhaid mentro dibynnu'n llwyr er mwyn adnabod yr Absoliwt. Rhaid derbyn y cysyniad o 'Wirionedd' er mwyn defnyddio iaith yn fedrus. Mae'n gorfod bod yn berthynas o ymostwng i drefn. Cyplysyr yr Absoliwt, — y cyfeirbwynt eithaf sy'n caniatáu cynnal a chymharu gwerth a phwrpas, — â bodolaeth y Gwirionedd ymarferol. Cyflyrir holl egwyddorion Cyn-dafod (yr Archgyfundrefnau), Tafod yr Iaith, a Thafod y Llenor, ynghyd â Mynegiant gan ymwybod o Absoliwt ymarferol. Perthasoedd yw'r rhain, ac y maent yn weddau ar drefn Cariad yr Absoliwt. Gwendid Rhamantiaeth oedd ystyried bod profiadaeth gariadus yn golygu dianc rhag trefn. Oherwydd dyfnder y drefn, ceid eglurder y Mynegiant.

Roedd Pantycelyn, hyd yn oed wrth bregethu ar ei uchelfannau, yn ufuddhau i ramadeg Tafod, i'r Arfaeth, ac i'r Absoliwt. Cronnid ei brofiad yn arswydus mewn cyfundrefnau diwinyddol. O fewn cysynied neu gyd-destun Absoliwt y sylweddolir holl briodolaethau Duw yntau. Nid yn unig y mae Crist yn hollalluog; y mae'n ffynhonnell i bob peth ac yn ddiben i bob peth. Nid yn unig y mae'n Gariad, y mae hefyd yn Farnwr. Ac ochr yn ochr â deddfau moesol, ceir deddfau meddyliol. I hunaniaeth aeddfed pob llenor, y mae'r sylweddoliad o'i ragdyb eithaf ei hun — yr amgylchfyd cysyniadol a'r sail sylfaenol — yn feirniadol werthfawr. Gellir ei wadu a bod yn aneffro iddo, wrth gwrs: y diniweityn 'diduedd'. Ond hyn sy'n amodi ac yn cyflyru pawb. Felly, tra pherthnasol ydyw hyd yn oed mewn theori

lenyddol. Ceir math o ymwybod dwfn o Absoliwt hyd yn oed drwy fyfyrion am Ffurf Sŵn a Synnwyr llenyddiaeth.

Un peth sy'n wir am bob llinell o emynau a cherddi Pantycelyn, ac am bob brawddeg yn ei ryddiaith; a hynny yw mai Crist yw'r ffynhonnell a'r diben i'r cwbl, a Christ hefyd yw'r amgylchfyd. Ac yr oedd Pantycelyn yn gwybod hynny, ac yn ymhyfrydu llawer yn y drefn a lywiau'r gweithrediad. Ffordd arall yw hynny o ddweud mai un o hoffterau Williams oedd olrhain ffyrdd yr Absoliwt ar hyd bryniau Cymru. Hyn hefyd oedd y Sgêm.

Nid sôn yr wyf yn awr yn unig am 'Y Synnwyr o Dduw' (*sensus divinitatis*), felly, ond am natur 'strwythur' amlochrog aeddfed yn yr amgyffrediad diriaethol hwn o'r Absoliwt.

Un o briodoleddau dyfnaf yr Archgyfundrefnau yw eu bod wedi'u hangori'n ddigyfnewid. Mae cyfundrefnau thematig mewn Mynegiant wrth gwrs yn newid yn gyson. Gellid eu newid yn fwriadol. Hyd yn oed yn nyfnder Tafod pob iaith unigol, mae cyfundrefnau'n newid, ond yn anfwriadol. Ond nid yw Cyfundrefneg yn nyfnder y dyfnderoedd elfennaidd fel y cyfryw byth yn newid. A'r hyn sy'n gwneud sefydliad a natur Cyfundrefn fel y cyfryw yw'r Archgyfundrefnau digyfnewid a dwyfol hyn. Erys *Gwahuno, Presennol/Absennol, Anweledig/Gweledig, Un/amryw* ac yn y blaen yno, yn gadarn y tu ôl i'r holl ieithoedd, a'r tu ôl i bob cyfundrefn.

Un arall o'u priodoleddau yw eu bod yn gynieithyddol, yn sythwelediadol elfennaidd, heb 'eiriau'. Ffurfiâu ar gyfer llunio 'gramadeg' ydynt. Hwyl sy'n rhagflaenu ac yn adeiladu Tafod. Maent yn sefydliad sy'n adlewyrchu priodoleddau Duw.

Ond mae'n dra phwysig sylweddoli nad yw Archgyfundrefnau ddim yn rhagorach nac yn fwy arwyddocaol na'r cyfundrefnau hynny nad ydynt yn *Archgyfundrefnau*. Nid oes dim pwysicach i ddyn na chyfundrefn thematig megis *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* er enghraifft. Ond y mae *Anweledig/Gweledig* offerynnol yn wahanol o ran safle a ffwythiant. Y mae'r ail yn fwy cyffredinol ei gweithrediad cyfundrefnol o fewn Gras Cyffredin.

* * *

Felly, rhaid inni beidio â chael ein denu i ddilyn ein rhagdybiau'n hun wrth olrhain meddwl a dadleuon Pantycelyn. Nid yw ef yn rhoi gormod o amser i sôn am 'wybod am *fodolaeth* Duw'. Nid ymdry â'r Potensial chwaith, ond cyn belled ag y mae'n berthnasol i'r Effaith. Ni chais ef *ddadlau* fod Duw yn Greawdwr. Yr hyn sydd o bwys i Bantycelyn yw pa fath o beth yw'r ymwybod a'r berthynas foliannus hon sydd yn amlwg rhyngom â Duw, llawnder y datguddiad a gafwyd ohono. A hyn sy'n ganolog i'r bardd yn bersonol. Does dim lle i Ddeistiaeth ond fel gwrthrych ambell ddadl fach unochrog ac ymylog o'i eiddo. Bid a fo am hynny, ceir digon o dystiolaeth yn y Beibl fod dynion ym mhobman yn ddiesgus. Mae'r

dystiolaeth am Dduw yn y greadigaeth ac yn y gydwybod yn ddigon i rywun ei geisio a chredu Ei fod Ef. *Pantheologia* sy'n esbonio bodolaeth y gwahanol grefyddau ledled y byd sydd fel arfer yn tystio i Ras Cyffredin Duw, heb Ei Ras Arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddynolryw yn ymwybod â'i fodolaeth, onid pawb, sut bynnag y byddir yn ymateb i'r fath her, eithr heb ei wir adnabod. Oherwydd bod y Bod yn fyw, rhaid i'r cyswllt fod yn Berthynas.

Gellir helaethu ar hyn. Ond ymddengys fod llawer o ryw arweddau neu ymwybod neu ddeddfau moesol dwyfol hefyd yn hysbys o fewn cylchoedd crefyddol rhyngwladol oherwydd y synnwyr hwn o Dduw. Ni raid amgyffred cymhlethdodau'r Gwirionedd hwnnw, bid siŵr, er mwyn cael argyhoeddiad o bechod a gwir angen i edifarhau, a chredu, gan dderbyn iawn yr Arglwydd. Ond *ffurf* Duw sydd dan sylw yn awr: Ei ddelw, Ei lun sy'n arwyddocaol wrth i Bantycelyn ddod yn ymwybodol o gyfundrefnau. Pwysig ar unwaith, os gellir, yw symud o'r sythwelediad at y *ffurf*. Felly yr olrheinir yr hyn a ddatguddir inni drwy'r dystiolaeth ynghylch cydberthynas y Tad a'r Mab, ac yna â'r gweithredu gan yr Ysbryd Glân yn y galon. Yr Ysbryd hwnnw sydd yn yr Ysgrythur mor ofalus o Gynnwys y Ffydd brofiadol hon. A Hwn sy'n achos i'n trafodaeth ar Williams ar *ffurf* y Cynnwys hwnnw. Eto, mwy na *Ffurf* yw, oherwydd 'cymdeithas' yw Undod y Drindod. Pan soniwn, felly, am berthynas 'Ffurfiol' mewn profiad meddyliol a dealltwriaeth yng ngwaith Pantycelyn, mae hon yn cael ei thrawsffurfio'n angerdd ac yn rhyfeddod. Mae'r Gwirionedd felly yn ei feddiannu a'r Drefn yn ei achub. Mae'r sgêm ei hun ynddo yn dawnsio.

GWWP I, 17 *'Ond ti,' 'be'r Tad, 'fy etifedd, ddewisais fod yn Ben
Ar cwblw gaiff ei grëu o fewn i'r ddâ'r a'r nen;
'Fydd raid ryw amser trostynt i ddiode' angau loes,
Un poenfawr, maith, gwradyddus, dim llai nag angau'r Groes...*

*'Rhaid iti gwympo'n isel i gyflwr dynol-ryw,
Yn bryfyn gwaelaf dibris; rhaid, er dy fod yn Dduw;
Yn dlawd, yn ddirmygedig, heb barch nac enw'r un,
Cans cynnig dynion felly i'm gwneuthur i fy hun.*

18 *'Duw wyt, fe fydd dy allu yn gymwys fel myfi....*

Doethineb a dy ffindiodd! ...'

Ceisiwyd, oherwydd nwydusrwydd tanseilio, ymwadu â *ffurf* mor 'haniaethol' â'r Drindod. Eto, *ffurf* yw sy'n bresennol drwy gydol y Beibl. Y gwir yw, pan fydd y *ffurf* honno dan ymosodiad, na all lai na menu ar y Deunydd. A thrwy nwyd anghredu byrbwyll fe'n harweinir at relativrwydd pennaf y rhwystr rhag unrhyw amgyffrediad o'r Absoliwt y'n cyflwynwyd ni iddo. Nid digonol cydnabod Bod, felly heb ei brofi ar *ffurf* anwylddeb.

*

*

*

Ffurf feddyliol anochel yw ‘Absoliwt’ ei hun *vis-à-vis* dyn. ‘Duw’ yw’r Deunydd. Y Ffurf yw sy’n rheidiol mewn perthynas ddeallol. Mae Ffurf y meddwl yn amodi *dyn* — yn yr un modd ag y mae Atheist yn methu â phrofi nad oes Duw, am fod y negyddol hwnnw mewn Creadigaeth na wyddys o gwbl ei therfynau na’i dimensiynau, ac yn anymarferol i’w gwrthbrofi. Eithr os yw Duw *yn* bod, yna wrth gwrs, fe *ellir* ei brofi drwy’r cyneddfau dynol a ddeffroir, drwy hunanwireddu dwyfol, drwy *sensus divinitatis*. Peth felly yw gorfodaeth ein bodolaeth feddyliol. Nid oes modd osgoi’r Ffurf feddyliol gyffredinol Absoliwt mewn unrhyw Dafod ieithyddol Ewropeaidd, gan fod y symudiad negyddol *o’r Cyffredinol agored i’r Arbennig*, ac fel arall *o’r Arbennig i’r Cyffredinol* yn orfodol i’r Tafod Indo-Ewropeaidd ar waith yn yr iaith yn gyfundrefnol. Fe’i cymerir yn ganiataol wrth ddefnyddio’r fannod (neu’r ‘fannod amhendant’ sero), er enghraifft, megis y gweddill o’r iaith. Mae ar waith ym mhob Gair. Fe’i hadeiladwyd i mewn i’r Gyfundrefn ieithyddol am ei bod yn gyffredinol wir. A phan ddywed y gwrth-Absoliwtydd ôl-fodernaidd druan nad oes gwir Absoliwt, y mae’n dweud mai gwirionedd cyffredinol yw hawlio nad oes gwirioneddau cyffredinol. Megis pan hawlia nad oes ystyr i’r bydysawd, yna’r un pryd mae’r honiad ei hun yn bur ddiystyr.

Y gwir yw bod y sawl a ymarfoga’n erbyn yr Absoliwt yn palu twll anghyfleus iddo/iddi’i hun yn foesol ac yn rhesymegol. Diwinyddol ‘ryddfrydol’ yw, wrth gwrs, fel arfer. Ond os myn nad oes absoliwt trosgynnol, yna nid oes ganddo/ganddi’r sylfaen dros hawlio y gall dim byd fod yn dda nac yn ddrwg, nac yn wir nac yn gelwydd; boed yn Auschwitz neu’n Gam-drin plant neu beth bynnag. Fel y bobl boliticaidd-gywir eu goddefgarwch, nid oes neb mwy anoddefgar na’r cyfryw rai; ac felly, wrth honni bod ‘popeth yn relativ’, mae hynny’n ymlid relativrwydd hefyd ymhell i ffwrdd o ran rhesymeg.

Wrth gwrs, yr un pryd, i Bantycelyn, y mae pob dim yn ‘berthynas’ yn yr ystyr ei fod yn perthyn i’r Gwirionedd. Rhoddwyd perthynas yn ôl drwy’r Mab.

Diau mai’r Person mwyaf tramgwyddus yn hyn o athrawiaeth yw’r Mab. Dyna’n ddiau oedd un o’r prif resymau i Bantycelyn gael ei ysgogi i’w anrhydeddu:

GWWP I, 261 *‘Mi wela’r dyn fu farw ar Galfari yn Dduw,
A thecach yw ei wyneb na neb o ddynol-ryw.*

Dyma’r Duw-ddyn cosmig:

261 *‘Mi wela’m Iesu o’r diwedd, — a’m Iesu i yw ef,
Yn Frenin ar y ddaear, yn Frenin yn y nef;
Mi wela’ ei ogoniant anfeidrol ar y pren
Yn llanw uffern dywyll i bellter eitha’r nen.*

Adferwyd yr egwyddor o berthynas a’r posibilrwydd o berthynas drwy’r Greadigaeth, a thrwy berthynas waredigol y Mab. Gan y Mab hwn sydd ar gyfer pawb y ceid y ddwy.

*Ti fedri ddweud y gortrech a'r frwydyr gafodd e'
Cyn torri'r fraich anwyla', cyn tynnu'r llygad de;
Mor anodd ydoedd 'madel â chnawd o'i gnawd ei hun,
Trwy ryw ewynnon dyrys oedd wrth ei gorff ynglŷn.*

*Wel mi anturia' ganu yr ymdaith ryfedd hon,
Mi wasga'r Beibl sanctaidd yn gynnes wrth fy mron;
Myfi ddilyna'r seintiau, trwy oll a glywais sôn,
O lyfyr cynta' Moses i broffwydoliaeth Iô'n.*

Nid dileferydd yw Duw, felly. Barddona. Fe ganiatéir hyn drwy ddyn yntau gan Ras Cyffredin a Gras Arbennig gyda'i gilydd oddi wrth Dduw. Rhaid imi bwysleisio swyddogaeth Gras cyfansawdd deuol. Hyd yn hyn, ni nodwyd gennyf i (er imi drafod Gras Cyffredin yn bur fynych), beth yw *prif* rym Gras Cyffredinol yng ngoleuni'r Arbennig. Cyn y Cwyp ac wedi'r Cwyp yn ddiwyro, pwrpas bodolaeth a phrif allu popeth yw ac oedd gogoneddu Duw. Dyna'r addewid a guddia o fewn y pethau gwaethaf. Mae'n waith parhaol a chanolog o ran potensial a diben i bawb ac i bob dim, y sêr, y moroedd, y tiroedd, y planhigion, yr anifeiliaid, dyn yn ei bechod, a'r Cristion wrth gwrs. Gras Cyffredinol sy'n peri posibilrwydd hyn oll cyn y Cwyp, wedyn drwy fywyd y byd, ac wedi'r Farn. Mae Gras Cyffredinol yn gyffredinol yno nid yn unig am iddo gael ei wasgaru'n ddiwahân ymhlith dynolryw, eithr hefyd ym mhob man arall yn ogystal. Gras Cyffredinol yw sail popeth sy'n bod. Felly, nid ataliol yw *prif* orchwyl Gras Cyffredinol, gan rwystro'r holl greadigaeth rhag llithro'n anochel i ddistryw oherwydd hunanoldeb a ffolineb dynol. Nid diwylliannol chwaith yw, yn unig, tan ddarparu nerth i ffrwythloni. Nid moesol yn unig mohono chwaith, gan ganiatáu i'r dyn di-Dduw yntau, dyweder, fod yn glên. Nid gwaith ymwybodol yn unig i ddyn yw gogoneddu Duw. Rhoddwyd hefyd iddo, gyda'r gydwybod 'synnwyr o Dduw' sy'n ogoneddus o ran natur. Mae'n bwysig sylweddoli mai gwaith cyffredinol pob bodolaeth (beth bynnag) yw gogoneddu. Ac ym mhen draw yr astudiaeth bresennol hon o waith Pantycelyn, hynny a geir yn glo. Er bod yr holl rinweddau hyn yn wir o ran cyfeiriad yn y pen draw, *prif* swyddogaeth Gras Cyffredinol yw hyrwyddo'r dasg a'r diddanwch ym mhob rhan a phob amser, yn isymwybodol neu'n ymwybodol, i gyfochri â Gras Arbennig, er mwyn gogoneddu Arglwydd y Lluoedd gan bob dim. Gwiw i efengyleiddwyr pietistig gydnabod hyn am y ddaear newydd a'r nefoedd newydd hefyd. Gwrthrych Cariad yw.

Dyma sefyllfa ddi-ddewis. Dyma hanfod bodolaeth. I'r dyn seciwlar, cyfyngedig ei brofiad (a melltigaid) gwneir hyn er ei waethaf, i raddau, hyd yn oed yn ei ffeidd-dra mwyaf erchyll. Duw a sefydlodd bob rhinwedd, trefn a diben. A thrwy'r mymryn lleiaf o gadarnhad ac adeiladaeth, gyrrir baban a'r hen ŵr diymadferth a phob un arall tuag at y drefn o oroesi, neu o hyrwyddo ffrwythlondeb teimladol neu syniadol, beth bynnag yw'r profiadau a

wynebir. Dyna'r ysfâ am drefn. Uwchben pob peth y mae rhagluniaeth fawr y nef dan arweiniad yr Ysbryd Glân yn gweithio allan ogoniant Duw.

Yma, y dechreuir sylweddoli'r Absoliwt hwn ar waith yn bersonol gatholig.

Diau y dywedir mai gwir yw y 'Gwyddom fod Duw ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu' (Rhu. 8, 28). Ond hyd yn oed o fewn cyd-destun tragwyddol o'r fath, ni ellir llai na meddwl am y digwyddiad mwyaf difrifol ac erchyll a gafwyd erioed pan gymerodd y Duw-ddyn Iesu Grist holl bechodau'r byd erioed (a byth) ar ei ysgwyddau ei hun, a derbyn y gosb gyfan am hynny: 'Yn awr y mae Mab y dyn wedi'i ogoneddu a Duw wedi ei ogoneddu ynddo Ef.' (Ioan 13, 31).

Dyna'r Absoliwt unigryw mewn Cristnogaeth yn cyflawni uchafbwynt yr Arfaeth, a hynny a rydd i ystyr holl emynyddiaeth Williams ei strwythur. Pedr 4: 11 'Yr amcan ym mhob dim yw gogoneddu Duw trwy Iesu Grist.' Gellid amddifadu *pobl* fel na dderbyniant ogoniant Duw. Gallant ddewis gogoneddu'r diafol yn hytrach na gogoneddu Duw. Ond o fewn cyd-destun tragwyddoldeb, er gwaethaf pob tristwch dirfawr, gweision ydynt oll ac ydym oll i'r gogoniant gwir.

Nid Mawl ei hun sy'n achub. Ond yr achub sy'n moli. Gras Arbennig sy'n cyfannu hyn.

Am y Mab meddid:

GWWP I, 6 *Yn ben ar bob rhyw drefen a ddaw neu fu erio'd...*

*I drefnu a rheoli, fel llywodraethwr mawr,
Y cwbl oll a greai mewn nefoedd wen a llawr.*

*I'nabod holl feddyliau creaduriaid fach a mawr,
A threfnu eu hysgogiad o'r nefoedd wen i lawr.*

GWP II, 194 *Derfydd nefoedd, derfydd daear,
Derfydd tegwch wyneb dyn:
Sawl dy gaffo, &c.,
Gaiff y cwbl oll yn un.*

(viii) *Perthnasoldeb Dadansoddiad Pantycelyn i Seciwlaryr*

Llenor oedd Pantycelyn a oedd yn ymwybodol o Seciwlaryr. Os cywir yw'r fframwaith dadansoddol o'i feddwl y ceisiwn ei ddadlennu yn yr astudiaeth hon, ac yn angenrheidiol 'gywir', ac os yw hyn yn gyffredinol ei arwyddocâd, yna fe ddylai fod yn berthnasol i feirniadaeth 'seciwlaryr' hefyd. Wedi'r cwbl, Gras Cyffredinol yw cyfundrefneg.

Rhennir y rheidrwydd i gael rhagosodiad gan y naill garfan a'r llall. Mae'n wir fod y seciwlaryr weithiau yn gosod Bwlch o faint (ac ansawdd lled debyg mewn rhai cyfeiriadau) o fewn lle'r Absoliwt. Mae'n wir hefyd, oherwydd y goddrychedd sydd ynglŷn â'r Bwlch

hwnnw fod llawer o bethau go ryfedd yn rhuthro i mewn i geisio'i lenwi. Goddrychedd ei hun, egwyddorion moesol, gwerthoedd esthetig, relativrwydd, lluosedd, hunanoldeb, y gymdeithas gnawdol, synwyrusrwydd, ac addysg. Hyd yn oed y gwacter tybiedig. Ond arhosai ffaith y rhagosodiad ei hun.

Ond ai digonol yw cydnabod deddfau cyffredinol anweledig a digyfnawid mewn gwyddoniaeth gan ystyfnigo rhag esbonio o ble yr esblygant na sut y mae'r rhain yn mynegi'r byd cyfnewidiol hwn? Golyga gwadu'r Absoliwt deddfaidd na allwn fod yn siŵr o Wirionedd dim oll, ond mae'n rhaid inni ymddwyn fel pe bai rhai pethau'n wir, neu ni byddem yn gallu byw. Mewn byd o siawns, rhaid i'r relativrwydd ymddwyn fel pe bai peth sefydlogrwydd cudd, ond peidier â'i esbonio fel Cristion. Sut bynnag, wyneb yn wyneb â bodolaeth bodolaeth, a bodolaeth trefn, soniai Leibniz am Egwyddor y Rheswm Digonol. Pan fo Bwlch, fe all un ateb fod yn anochel ddigonol.

Honnai Mc Grath (M III, 264) 'Amhosibilrwydd yw safbwynt cyson sgeptig, gan fod gwirionedd y fath safbwynt yn gofyn cael ei gadarnhau neu'i ragdybied er mwyn cael ei gymhwyso.' Hynny yw, rhaid bod yn sgeptig ynghylch sgeptigrwydd.

Ambell waith, felly, nid bwlch yn hollol sydd lond y Bwlch i seciularwyr, eithr yr hyn a elwir yn 'ddidueddrwydd', fel pe bai tir cyffredin yn bosibl rhwng credinwyr ac anghredinwyr ynglŷn â'r materion mwyaf arweiniol. Gyda'r hen ryddfrydwyr gwlyb yn llithro oddi ar y ffens. Oherwydd cydlyniad a chyfundrefneg pob peth, does dim modd osgoi'r golwg cynhwysfawr ar realiti. Dyna un o effeithiau mwyaf yr Absoliwt. O leiaf, y mae gan Gristnogion esboniad ystyrion a hanesyddol a wreiddir gan Bechod Gwreiddiol mewn Empeiriaeth o fewn cyd-destun cymdeithas Gristnogol. (gw. M I, 176-193).

Fel y sylwodd Pantycelyn yn swil, dyw'r dyn cnawdol ddim yn hoff iawn o unrhyw fygythiad i'r 'fi'.

Er mai Gras Cyffredin yw cyfundrefneg, mae pob gras i Gristion yn wrthrych diolch a rhyfeddod: i'r seciularwr gellir ei gymryd yn ganiataol heb dyrchu ar ôl ei darddiad.

Ym meddwl Pantycelyn gwyddid am ragdyb. Yr oedd ef yn ymwybod â phresenoldeb Absoliwt. Yr Absoliwt hwnnw a effeithiai ar ei holl feddwl gan ei amodi a'i lywodraethu. Ac o'r herwydd, rhoddid sylfaen a chyfeiriad a gwerth i bob syniad ac i bob mynegiant o fywyd. Yr oedd yn Benarglwyddiaethol. A hyn a gyflyrai bob peth a âi drwy'r Meddwl hwnnw. Yr oedd gan yr Absoliwt darddiant godidog iddynt. Ond bu Pantycelyn ar un adeg ar wahân i Dduw.

Felly, ar ôl bodolaeth yr Absoliwt/absoliwt, rhannai Pantycelyn hefyd â'r seciularwr dri pheth angenrheidiol arall. Sef bodolaeth, bywyd daearol, ac ymwybod o drefn pob peth. Ni

allai'r naill na'r llall feddwl na defnyddio iaith na hyrwyddo'i fodolaeth ei hun heb ddadansoddi bywyd yn drefnus. Gelwid y wedd gadarnaf ac isymwybodol ar y Drefn hon, a oedd yn gyffredin mewn cymuned, gan yr ieithyddion Saussure a Guillaume yn 'Dafod'. Tarddai hyn hefyd yn yr Absoliwt oherwydd mai Trefn 'sefydlog' oedd ei bodolaeth. Yr oedd yn amhosibl dod i unrhyw gasgliad hebdo. Fe fwydai ar yr angen i wahanu pethau yn y ddealltwriaeth ac i ganfod cysondeb rhyngddynt. Y ddeuliaeth honno — *arbennig/cyffredinol* — a roddai i Bantycelyn ac i'r seciwlarwyr Drefn. Trefn oedd dan gyfeiriadaeth yr Absoliwt.

Mwy na Threfn, achlysurol a defnyddiol, fe gaed Cyfundrefnau, yn unedau cynnil ond 'rheidiol' a gweithredol o feddwl. A byddaf am ddechrau'r dadansoddiad o'r cyfundrefnau hynny drwy gyfeirio at un ar ddeg ohonynt. Sef *Archgyfundrefnau*. Dyma'r cyfundrefnau sy'n cyflyru *pob* cyfundrefn 'gyffredin' unigol. Dyma drefnu cynieithyddol, yn isymwybodol anfwriadus, roddedig.

Ar yr wyneb, ymddengys y rhain yn gyferbyniadau elfennaidd y gellid eu cadw yn yr isymwybod, mor syml fel y gellid eu cymryd yn ganiataol heb feddwl o ddifri amdanynt. Maent yno, mor eithriadol gyffredin fel pe na ellid eu cyfrif yn bwysig nac yn arwyddocaol. Dim ond cyferbyniadau plentynnaidd ydynt, gellid tybied, a gellid eu rhestru rywsut rywsut, a'u gwneud hwy'n gyferbyniol fel y mae cynifer o bethau eraill, filiynau ohonynt, yn gyferbyniol hefyd. Ond y mae'r un ar ddeg hyn (a'u cymheiriaid) yn dyngedfennol. Hwy sy'n diffinio, hwy sy'n gwneud y cyfundrefnau eraill i gyd, naturiol a goruwchnaturiol.

Fe'u troir hwy'n offer dadansoddol deinamig. O'r holl gyferbyniadau cynnil y gellid eu llunio, y mae'r rhain yn cael eu defnyddio fel mecanweithiau cyfundrefnol er mwyn dosbarthu a rheoli. Dyma'r cyfundrefniadau syml llywodraethol. Y maent oll yn gyd-angenrheidiol. Drwy'u caniatâd a'u symudiadau hwy, fe lwyddir i adeiladu pob peth arall yn y meddwl dynol. Chwi, seciwlarwyr, ceisiwch ddianc rhag y rhain.

Y cam cyntaf wrth gyflwyno fframwaith meddwl Pantycelyn a'r seciwlarwr yw sylweddoli bod yna berthynas rhwng yr Absoliwt a deall yr unigolyn. Ceir dwy ystyr yn bennaf i'r Absoliwt hwnnw. Cyfanswm ydyw yn gyntaf sy'n gydlynid o bopeth. Ac yn ail, dyna'r cyfeirbwynt eithaf y mae pob dim yn cyfeirio'n ôl ato, i sylweddoli'i le a'i berthynas yn y cyfanswm. Yr Absoliwt sy'n gyfrifol am fodolaeth Archgyfundrefnau Deall. Dyma briodoleddau ffurfiol ar yr Absoliwt, fel y sonnir mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol am briodoleddau deunyddiol Duw. Wedi'r Absoliwt a'r Arfaeth, yr ail lefel angenrheidiol o du dyn yw'r Archgyfundrefnau gweithredol hyn. Y maent hefyd yn adlewyrchu Bodolaeth yr Absoliwt. Dyma'r gyfres o un ar ddeg o gyfundrefnau ffurfiol sydd,

fel y cawn weld yn y man, yn orfodol ar gyfer pob deall a siarad. Rhaid i bob un, Bantycelyn a'r Seciularwr fel ei gilydd, ddefnyddio'r rhain — er gwaethaf pob gwrthdystiad i'r gwrthwyneb. Fe'u ceir yn gynhysgaeth elfennaidd yn y meddwl dynol, wedi'u rhoi gan yr Absoliwt, megis y rhoir ceg a chorff.

Un o'r nodweddion pwysig, yn y berthynas fertigol â'r berthynas lorwedd rhwng yr Absoliwt a'r unigolyn, yw mai unffordd yw'r gras ar waith. Hynny yw, er bod y berthynas bersonol yn ddwyffordd, y naill yn cyfrannu Gras Cyffredinol neu arbennig a'r llall yn cyfrannu angen, nid oes gan yr unigolyn ddim i'w roi, ddim oll namyn yr hyn a dderbynia gan y Drindod honno, yn fertigol ac yn llorwedd. Dyna'r berthynas rhwng yr Absoliwt a'r unigol ar y pryd (yn synchronig), ac yn barhaol (yn ddiacronig).

Ceisio disgrifio yr ydys y fframwaith gweithredu llenyddol deunyddiol sy'n gyffredin i Bantycelyn ac i'r Seciularwr. Dechreusom yn yr Absoliwt, gan symud i lawr drwy'r Arfaeth i'r Archgyfundrefnau trefnol. Mae'r cam nesaf yn ein harwain o raid at y Deunydd ei hun a drefnir yn ôl y Ffurf. Fe'n hwynebir yn y fan yma gan ddosbarthiad Sfferau Moddol wrth gyfarfod â sylweddau ystyrol. Mae'r holl Sfferau Deunydd ar gael — mewn rhyw ffordd neu'i gilydd — gan y Seciularwr a chan y Cristion. Ceir trefnu deddfol ymarferol o'r rhain, yn ôl cyfres o Brif Gyfundrefnau neu Brif Ddeddfau diffiniol yn yr amgylchfyd. Yn y fan honno, ceir elfen o ddewis, er nad oes modd osgoi'r her ei hun, yn bersonol neu o leiaf yn gynrychioliadol. Ond, yn wahanol i'r Archgyfundrefnau Ffurf (sy'n gymdeithasol ac yn orfodol), y mae'r Deunyddiau (yn unigolyddol) yn ddewisol, er bod y Prif Gyfundrefnau sydd gan y Sfferau hyn yn orfodol, a llawer o'r cyfundrefnau cyffredin yn gydlynol, y mae'r posibilrwydd a geir i ddewis maes pynciol neu fodd deallol ar fodolaeth yn gam ymlaen. Felly, y mae llawer mwy o ryddid ymhlith y Sfferau. Ond yno y maent i'r Cristion ac i'r Seciularwr, fel ffurf a safle, beth bynnag a wneir â nhw. Mae'r deall yn dewis.

Drwy gydol adeiladwaith y meddwl, y mae presenoldeb a ffurf yr Absoliwt yn ymestyn ac yn dylanwadu o hyd. Ni roddir dewis i neb yn yr Archgyfundrefnau chwaith. Yn y Deunyddiau y rhoir dewis wedyn.

Ond o ran y *fframwaith* ei hun (nid y ffordd y'i gorfodir), erys y sefyllfa neu'r safleoedd meddyliol yr un fath i Bantycelyn a'r Seciularwr. Mae'r naill a'r llall, yn gorfod wynebu'r Gyfundrefn o Sfferau deunyddiol. Yno y ceir dewis, nid dewis yn ymwneud â'r lefel, ond yn yr ymwneud â natur a phwyslais y Sffêr. Rhaid plygu i'r Brif gyfundrefn ddiffiniol a llywodraethol i bob un. Dyma'r Gras Cyffredinol sydd ar waith wrth roi'r gyfundrefneg arbennig ar waith, taw pa mor brotestiol y bôm.

Ac felly ymlaen i'r camre olaf: Y Gyfundrefn Thematig (ac yn all-lenyddol, y Metanaratif a'r Cyfundrefnau Cyffredin), ac ymlaen i'r *motiff*. Dyma'r maes lle y mae beirniadaeth Mynegiant yn hoffi ymdroi. Ac nid oes gennyf gweryl â hynny, er na hoffwn hepgor yr hyn sy'n berthnasol ac yn weithredol yn y broses lenyddol o ran Tafod a Chymhelliad, ac ni hoffwn hawlio chwaith nad yw argraff y cwbl o'r adeiladwaith wedi'i gosod ar y cynnyrch diweddol. Dyma'r lle y mae'r Deunyddiau enwol yn troi'n ferfol.

Yr hyn a rennir rhwng y Cristion a'r Seciwlwr yw fframwaith a deinameg gyfeiriol y cwbl mewn Gras Cyffredinol, methodoleg y berthynas rhwng Ffurf a Deunydd.

Pan ddeuid mewn Ôl-foderniaeth â relativrwydd (neu luosedd) yn lle gwirionedd penodol, neu wahanu yn lle gwahuno, nid disodli dogma gan ddiffyg dogma a wneid. Y cwbl a wneid oedd disodli dogma cywir ymwybodol gan ddogma anymarferol anymwybodol. Felly hefyd y byddai'r atgyrch rhamantaidd yn erbyn Cyfundrefnau. Nid colli cyfundrefn a wneid, ond disodli cyfundrefnu gwyddonol gan gyfundrefnu blêr a chymysglyd neu gan anarchiaeth o fewn cyfundrefnwaith. A hynny'n debyg i'r fel y daw rhai i honni bod angen disodli teimlad gan feddwl, neu feddwl gan deimlad, a hynny pan fo mawr angen y cyfan ar gredadun.

* * *

Gan mai Gras Cyffredinol yw patrwm yr Hierarci hon wrth esgor ar Ddeunydd llenyddol, dadleuir fod y dull strwythurol o geisio Deunydd bron yr un ffunud yn y llenor crefyddol a'r seciwlwr. Yr un method cyfundrefnol yn y bôn a fabwysiadant o'r dechrau sy'n angenrheidiol wrth ddadansoddi Cristion fel Pantycelyn, neu seciwlaryn fel Talhaiarn. Bydd angen cydnabod gwahaniaeth dosbarthol yn ansawdd y rhagdybiau ysbrydol ac yn natur ac ymddygiad y gwrthrychau diriaethol. Hynny sy'n darparu'u Metanaratif hwy eu hun hyd yn oed i'r rhai sy'n ymosod ar Fetanaratif, er bod ansawdd ysbrydol a chynnwys arbennig y Cristion yn dilyn llwybr gwahanol wrth raid. Eto, mae'r un profiad cadarnhaol o'r Greadigaeth drefnus ag a gaiff y Cristion, yn agored i Seciwlaryn.

Yr hyn a ddisgwylir, yn ddiau, os yw'r disgrifiad hwn o fecanwaith meddyliol sy'n esgor ar Ddeunydd llenyddol yn gywir, yw y byddai llenor normal yn rhoi sylw ymwybodol i Fynegiant — i Thema Ddeunyddiol ac i Fotiff ac o bosib i'r ffordd o'i ddweud — a dyna'r cwbl. Y ffrwyth. Disgrifiad o'r pen draw. Yr Hanes sy'n ganlyniad. Ond yr hyn sy'n nodedig ac yn rhyfedd ynglŷn â gwaith Pantycelyn yw nid yn unig ei fod yn ymwybodol effro i'r gwraidd Eithaf i'w Ddeunydd ac yn myfyrio'n ddwys fanwl yn hwnnw — gall hynny fod yn wir hefyd am lenorion ysbrydol neu ddwys eraill — ond bod Pantycelyn wedi bod yn benodol hydeiml ynghylch pob haenen o ddeinameg yn yr Hierarci. Mae ei feddwl llenyddol felly yn

fwriadol agored i drefn yr Arfaeth oll. Mae hyn yn rhyfedd o wir hyd yn oed am yr Archgyfundrefnau Strwythurol megis am Sfferau Deunyddiol amrywiol a niferus. Ac wedi ymwybod â'r rheini, mae'n crynhoi ei fyfyrddod difrif uwchben Metanaratif yr amseroedd a Themâu Deunyddiol fertigol a llorwedd, ac ymlaen i fywyd hanfodol y Motiffau. Troes ef yr Archgyfundrefnau Strwythurol oll yn Ddeunydd i'w fyfyrddod ymwybodol.

Y rheswm y gwnaeth Pantycelyn rywbeth mor anghyffredin â hyn oedd mai Canu'r Cynllun y bu ef ym mhob man. Yr oedd y Strwythur ei hun iddo'n Ddeunydd godidog. Y sgêm oedd ei orfoledd. Dathlai'r drefn ynddi'i hun. Byddwn ni fel beirniaid am fentro ei holrhain mewn manion yn ddamcaniaethol am fod Ffurf yn ystyriaeth y gellir yn draddodiadol ei sylweddoli'n annibynnol egwyddorol. Gellir o'r herwydd, yn ôl yr angen, bwysleisio'r naill a'r llall 'ar wahân' a chofio mai'r un peth ydynt er hynny yn y pen draw. Yn achos Williams, Canu'r Cynllun oedd Canu'r Cynnwys. Y Cynllun oedd y pwnc ei hun yn y ddwy arwrgerdd, a hyd yn oed yn fframweithiol ymwybodol yn yr Emynau, megis yr oedd ffurf y Gynghanedd i'r beirdd yn yr Oesoedd Canol yn rhan o'r Mawl ei hun.

Nid wyf am eiliad am awgrymu'i fod yn sylweddoli camre'r Hierarci'n ffurfiol wrth gwrs, nac yn meddu ar ddiddordeb theorïwr llenyddol (ysywaeth) mewn materion felly. Ac eto, sôn am realiti trefn yr wyf. Ac yr oedd Trefn Rhagluniaeth ei hun yn wrthrych rhyfeddod fanwl iddo. O'r herwydd, trô'i'i fyfyrddod o hyd o gylch y modd yr oedd yr Absoliwt, drwy'i briodoleddau ffurfiol yn ogystal â'i benarglwyddiaeth ddeunyddiol, yn rhaglunio ac yn cynllunio yn ôl y fframwaith o nodau trefnol y bu'n rhaid eu hunaniaethu wrth imi geisio disgrifio'n wrthrychol y camre meddwl sy'n esgor ar ddeunydd pob llenyddiaeth.

* * *

Un o'r canlyniadau a geir wrth ddarganfod Archgyfundrefnau, cyn troi at gyfundrefnau thematig cyffredin, — ac un o ffrwythau sefydlu'n gyntaf adnabyddiaeth o gymhellion cynhwysfawr gwaith llenor, — yw canfod, yn achos Williams, mor anghyffredin o uchelgeisiol a chyfoethog ydoedd. Fel arfer bydd llenorion yn eu gwaith beunyddiol yn tyrchu mewn cornel gul o'u cymharu â'r cynfas a genfydd Williams. Nid cwmpasu panorama o'r Arfaeth hyd ddydd y Farn yw rhychwant arferol tybiedig y sawl a sgrifenna gasgliad bach poblogaidd o storïau byrion seciwlar ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Gwnaeth Pantycelyn hyn drwy gydnabod Duw a'i ogoniant o flaen hapusrwydd dyn. Roedd Pantycelyn fel gwraig ar ôl treulio awr yn meddwl am faterion ymarferol y gegin, a ddaeth allan a chanfod o'i chwmpas gyda'r nos holl banorama enfawr y ffurfafen. Roedd yn byw'i fywyd *coran Deo*, yn wyneb Duw. Eto, teg yw dweud hyd yn oed yn achos yr agnostig cyffredin, — yr un sydd heb fod yn effro (i bob golwg) i faterion trosgynnol (heblaw ef ei

hun), ac sy'n derbyn rhagdybiau go ddof a marw ysbrydol y byd o'i ddeutu, tan ddymuno difyrru ei gynulleidfa â phethau bach erotig yr hoffai'i gynulleidfa eu derbyn, — ei fod yntau a'i bod hithau hefyd yn meddu ar ymagwedd gyffredinol bwysig at fywyd a marwolaeth er eu gwaethaf. Gall fod yn bur anysbyrdoledig ac ingol arwynebol ym mryd rhai eraill ac yn boliticaidd gywir. Gellir derbyn sentimentau a hoffterau poblogaidd ac arferol yr oes, yn ystrydebol o ran dychymyg efallai, hynny yw, yn gyffredin o normal. Ond, er ei waethaf, drwy Ras Cyffredin, fe fydd rhyfeddod yn gefn ac yn wraidd iddo yntau neu iddi hithau, yn gyfundrefn o gyfundrefnau thematig ynghylch bywyd metaffusegol sy'n brigo'n swil os yn gyfeiliornus ym mhob rhan o'i waith neu'i gwaith. Mae pawb ohonom yn llawnach ac yn fwy rhyfeddol nag y sylweddolwn, fel y gwyddai Pantycelyn.

Ni all neb normal ac iach osgoi'n wirfoddol gyfanrwydd ei fywyd ei hun, pa mor arwynebol ac arferol bynnag y bo. Dwfn mewn rhagdybiau ydym. Wrth i Williams, er hynny, ymestyn i gwmpasu y fath amrediad amrywiol ag a wnaeth, ni allai lai nag arddangos ei gyfyngderau hefyd. Arloesi a dechrau sefydlu gwareiddiad Cristnogol newydd yr oedd, un effro'n ysbrydol, bywiol ei brofiad, cyfoethog ei berthynas â Duw. Cyfnod newydd yn ei hanes oedd, ac yn dwyn nodweddion y newydd. Cyfnod troi oedd. Yr oedd yn meddu ar briodoleddau a phrinderau y fath gyfnod. Hynny yw 'sefydlu' ac nid 'cynnal' a oedd yn bennaf mewn golwg, fe ymddengys, i'r efengyleiddwyr Ac eto, nid digon i Gristion yw osgoi'r cynnal beunyddiol, yng nghyd-destun Sancteiddhad nac mewn cymdeithas ymarferol. Mae'n wir fod Williams wedi dangos mewn rhai cyfeiriadau, megis *Cyfarwyddwr Priodas*, ei fod yntau hefyd yn ystyried ystyr dyfal-gynnal ymarferol y gwareiddiad Cristnogol, wedi'r arloesi gwyllt ysbrydol a'r deffro a'r sefydlu. Ond amlyga'i olwg Archgyfundrefnol y bylchau anochel hefyd yn ei Gristnogaeth. Dyma'r anghydbwysedd yn ei fydolwg a ddaw i'r fei bellach wrth sefyll yn ôl ac ymholi ynghylch manylion yr Archgyfundrefnau a'r Deunyddiau sy'n ei adeiladu'n thematig.

Beth yw'r diffygion hynny? Ym mha ffyrdd y teimlwn fylchau yn ei fydolwg?

Bydolwg yr arloesi a'r deffro oedd ei eiddo ef. Yn wahanol i genhedlaeth ddiweddarach — Thomas Gee, Gwilym Hiraethog, Ieuan Glan Geirionydd a'u cyfoedion, — ni roddai Pantycelyn o'i amser i fyfyrion am berthnasoldeb ei ffydd yn holl rychwant bywyd cymdeithasol a diwylliannol. Ymesgusodai ef o'r herwydd rhag tystiolaethu'n ddigonol i ogwydd cyd-ddyn at ddiwylliant beunyddiol a Phenarglwyddiaeth Duw. Nid awgrymai, ond o fewn cryn gyfyngiadau, fawr am ffrwytho a sancteiddio diwylliant parhaol y gwaith normal dyfal-barhaol o gynnal gwareiddiad Cristnogol o wythnos i wythnos ymhob cornel o fywyd, yn ôl Penarglwyddiaeth Duw. Ni chydnabyddai'n ddigonol chwaith y lle a oedd i ddeddf

foesol ar lefel wladol yn y gwaith beunyddiol na'r perthnasoedd personol cyffredin o fewn cyd-destun tlodion ysbrydol a materol a ddaethai i adnabod Crist. Nid oedd yn wynebu'n ddigonol y lle sydd i'r bywyd ymarferol ysbrydol mewn cyfeiriadau gwleidyddol ac economaidd wedi'r Cyfiawnhad chwyldroadol. Ac wedi profi argyhoeddiad dwfn o bechod, yn wir fel pechadur cadwedig gwefreiddiol ei brofiad ysbrydol, — ble oedd y dasg bellach o ddarostwng y ddaear er gogoniant i Dduw? Ble oedd Ei hollbresenoldeb ynghanol y llaid a'r llaca? Dyma'i brinder pe ceisid ganddo raglen heddiw ar gyfer llenyddiaeth cenedl.

Cofier: yr oedd Williams (yn ei amser sbâr enwog) yn fwy effro na'i gyd-ddiwygwyr i hynny o bwyslais. Ond gadaw-wyd i genhedlaeth Thomas Charles a'r *Gwyddoniadur* y dasg gytbwys ond cyfoethog o gynnal meddwl gwareiddiad lletach. Hwy oedd yn gorfod ateb y cwestiwn 'Onid yw Penarglwyddiaeth Duw yn golygu awdurdod ar bopeth?' Dyna'r gwasanaethu wedi'r efengylu. I Williams, wrth reswm, wedi cael cipolwg ar ei Arglwydd, ac wedi canfod glendid a harddwch y Duw byw, a phrofi a rhagflasu'r diddanwch nefol hyd yn oed, tipyn o anialdir oedd yr hen fywyd pitw cyfoes a'r milltiroedd 'anysbrydol' y marchogai ar frys drostynt yng Nghymru. Gwyddai'n burion am farweidd-dra ysbrydol yr oes y cafodd ei fagu ynddi. Gwyddai am Ras Cyffredinol yn ogystal â Gras Arbennig. Daethai ieuencid gwefreiddiol newydd Cristnogol fywiol a meddylgar yn ddyfnach o dipyn na hedonistiaeth ddisylwedd, nac yn wir Carismatiaeth brofiadus. Cafodd fyfyrdod miniocach. Ond dyfal barhad y saint drwy ganol oed eu gwlad (a henaint ambell un) a thrwy ddechreuadau Chwyldro Diwydiannol, dyna her arall. Y sialens ydoedd cyfuno yn awr yr aileni a'r llafurio caled beunyddiol ymarferol o ddydd i ddydd â gogoniant yr Arglwydd bythol ifanc a bythol fyw. Gallai bywoliaeth heb wynebu hynny ymyrryd â buchedd. Perygl gwaeth y ganrif a ddilynodd y ddeunawfed o bosib, perygl y plygodd hi iddi ysywaeth maes o law (yn yr ail hanner) fyddai rhuthro at geisio *bod* yn Gristion cyn *dod* yn Gristion. Hynny yw, lle yr oedd Williams wedi cydio yn y darganfyddiad heb gael fframwaith y dyfal barhad llawn wedyn ym mhob rhan o fywyd, buasai dechrau'r ugeinfed ganrif yn ceisio bodloni ar ganlyniadau heb ddarganfod yr achosion dyfnaf.

Eto, un cwestiwn a gyfyd o hyd. Pa obaith sydd i Archgyfundrefnau Deall llenor seciwlar yn yr unfed ganrif ar hugain? A'r ateb syml yw, na all na'r credadun na'r anghredadun eu hosgoi, o ran bodolaeth. Bu eu presenoldeb — boed yn gadarnhaol neu'n negyddol — yn arwyddocaol erioed ym mhob cyfansoddiad llenyddol. Dyna yw ystyr hollbresenoldeb yr Archgyfundrefnau hyn. Eto, nid y ffordd y'u defnyddir hwy yn thematig sydd dan sylw yn awr, yn gymaint â bodolaeth y fframwaith, yr her sydd ynddynt i bawb.

I Williams Pantycelyn a Jonathan Edwards, Duw ei hun oedd ‘deunydd’ yr Absoliwt ffurfiol, y rhagdyb a’r gydwybod ynghyd â’r saith synnwyr yn wedd ychwanegol, ddilynol ar ddoniau dyn y cyfeilir iddynt drwy Ras Cyffredinol.

Sylwer, felly, ar y cam drosodd o Gyfundrefn gyflawn gyd-orfodol yr offer deall Archgyfundrefnol, lle y ceir rhychwant o gyfundrefnau di-ddewis, drwy Sfferau Deddfog Deunydd a Gras Arbennig i gyfundrefn o gyfundrefnau cynorthwyol tan gynnal cwlwm o Themâu cyfundrefnol dewisol wedyn. Mewn themâu hefyd y cimir drosodd o Ras Cyffredinol i’r rhaniad deuol rhwng Gras Arbennig (ynghyd â Gras Cyffredinol) ym mywyd y Cristion neu Ras Cyffredinol amddifad yr anghredadun, — nes cyrraedd y Motiff.

Er hynny, addefaf nad Pantycelyn *yn unig* fu gennyf mewn golwg wrth archwilio Cyfundrefneg Deunydd. Drwy gydol yr amser, yr wyf wedi ceisio’i weld ef o fewn cydestun ein gwareiddiad diweddar yn fwy cyffredinol. Llenyddiaeth yw’r defnydd crai yr wyf yn ei harchwilio. Yr wyf wedi llygadu’r symudiad a ddigwyddodd, yn arbennig gydag arloeswyr mwyaf sylweddol Moderniaeth. Cafwyd math o adwaith penderfynol isymwybodol wrth gwrs yn erbyn yr hyn a wnâi Pantycelyn gyda’r Archgyfundrefnau angenrheidiol. A difyr yw cyferbynnu’r hyn a wnaeth yr arloeswyr Methodistaidd gwerinol wrth iddynt ymwneud â’r un rheidiau. Ni buont oll yn ddi-weld. Bu’r ddwy Archgyfundrefn fwyaf Deunyddiol ymhlith y rhai Ffurfiol — *Bod/bod, Bod/gwneud* — yn dra pherthnasol yn y cyfnod diweddar, er mor wahanol y gogwydd. Diddorol oedd y cyswllt â’r ‘bwlech’ dwyfol. Nid yr un oedd anialwch Pantycelyn â’r diffeithdir ysbrydol a wybu Kafka a’r Eliot cynnar. Nid yr un oedd Arfaeth Nietzsche a Rimbaud. Ond ni chredaf fod tywyllwch y cyfnod diweddar yn ddwysach na’r tywyllwch a brofodd Pantycelyn. Nid mwy eu hing hwy nag ing Theomemphus. Er bod y datrysiad a gafodd ef yn bur wahanol i’w datrysiad hwy, nid oedd yr un o’r llenorion pwysig a’u fframwaith *Absoliwt/unigolyn* a datblygiad buchedd mewn pechod yn niwedd y 19eg ganrif ac ymlaen i ddechrau’r ugeinfed ganrif yn fwy effro nag y bu’r emynwyr i waith Satan yn y ddeunawfed ganrif hithau. Yr un her ar ryw olwg a ysgogai’r un cyfundrefnu thematig o ran offer; er bod y *motiffau* wedi’u dargyfeirio’n wahanol wrth reswm: *Nietzsche* a’i fyd heb na ffydd na gobaith na chariad; a’i Dduw yn farw, heb wirionedd yn un man, ac a gyrhaeddodd ei wynfyd mewn gwallgofrwydd; *Rilke* a’i ymchwil am Ffydd gyda’i ‘angylion brawychus’; *Mann* a ganfu fod ei einioes yn amherthnasol, a’i hunaniaeth yn ddisylwedd; *Baudelaire* a’i hashish adfeiliol a’r ‘pechu penderfyniadol’ er mwyn dioddef a’i ddarostwng ei hun a’i grwydro ‘Au delà du possible, au delà du connu’ (y tu hwnt i’r posibl, y tu hwnt i’r adwaenadwy); a’r ‘burgyn’ yna ganddo a oedd yn syrffed i gyd; *Rimbaud* yr adolescent bythol, a fu’n llais i ddychryn arbennig y

dinasoedd enfawr, ac a fu mor barod i'w aberthu'i hun ar allor diddymdra; *Yeats* a'i ysbrydoleg, a'i symbolaeth, a'r cosmogoni hwnnw (*A Vision*) a adeiladodd ei feddwl craff mewn modd mor hygoelus naïf; *Thomas Hardy* a'i storïaeth Fictoriaidd bositifaid; y *T.S.Eliot* cynnar a'r *Bhagavad-Gita* a'i ddiffeithwch proffesiynol a'r dadrithiad diwreiddiau ynghyd â'r Eliot hŷn a'i ymchwilio a'i afael Gristnogol; *Lawrence* yntau a'i ymosodiad ar ymenyddiaeth, a'r gogoneddu ar y greddfau ac yn arbennig ar rywioldeb grymus sofran; *Kafka* druan, gyda bywyd iddo ar dreial, yn crwydro'n seithug am gyrchle na wyddai beth ydoedd, ac nad oedd yno beth bynnag; ni orffennodd ac ni olygodd yr un o'i nofelau; gofynnodd i'w ysgutoriaid eu llosgi ar ei farwolaeth.

Allan o'r rhain, yr athrylithoedd diamheuol hyn, y cripiodd gwacter ystyr John Cage, Marcel Duchamp a Dada dros dro, a llawer o bryfetach syniadol Ôl-foderniaeth a'r hyn a elwid gynt yn *avant-garde*. Tybient eu bod yn dianc rhag uniongrededd Ffydd a ddirywiasai mor hwylus yn Rhyddfrydiaeth eciwmeniaeth ddiberfedd, heb Groes, heb Uffern, heb arswyd goruwchnaturiol pechod, heb gredu o ddifri, ar egwyddor 'heb ateb'. A hynny oedd yr ateb. Tybid eu bod yn gafael yn gyfoes yn holl ysfa fodoli delweddau drylliedig, y golygfeydd cymysg, a'r uffern o fyd newydd, hurtiedig. Pobl a berchnogai'r cyfuniad marc-cwestiwn *duw/Dyn* oedd llawer o'r rhain, ond a wnaeth Arfaeth eu bywyd yn sylfaen i'w llenyddiaeth. Anodd i Gristion, a gafodd yn ei wacter ei ddwfn argyhoeddi o'i bechod, beidio â choelio nad oedd hynny oll ond rhywbeth a welsai Pantycelyn yntau eisoes. Odid nad oedd neb a ddihangai rhag y fframwaith perthnasol. Rhaid i lenyddiaeth fyw wynebu Deunydd.

Bid siŵr, pe bawn yn trafod llenor hollol 'seciwlar', fel y dywedir, neu un llai uniongyrchol grefyddol na Phantycelyn, byddwn wedi dechrau ar y diwedd gyda'r *Motiff*, a gweithio'n ôl tuag at yr Absoliwt angenrheidiol. Byddai hynny'n rhwyddach i'w ddilyn mewn cyd-destun a oedd mor glymedig wrth y 'Sut' a'r 'Beth' yn hytrach na'r 'Pam'; a'r Mynegiant yn hytrach na'r Gyfundrefn. Ond gyda Pantycelyn, priodol ddigon oedd canlyn y llwybr mwy rhesymol ddiwinyddol a chywirach gan gydnabod dyfnder yr Absoliwt yn gyntaf.

Dichon mai Archgyfundrefnau thematig a *motiffau* pan fyddent yn sylfaenol grefyddol, dyna a adeiladodd lawer onid pob un o glasuron llenyddol y byd. Fe'u gosodid, y mae'n wir, mewn cyd-destun amgylcheddol amrywiol. Fe allent felly fod yn rheng fwriadus o wrthryfelgar yn erbyn Absoliwt. Eto, ceir cynddelwau enwol a berfol hynod gyson. A cheir y cysondeb creiddiol hwnnw oherwydd yr achau ysbrydol gorfodol. Megis nofel gynddelwaidd Melville *Moby Dick*, *Esther* Saunders Lewis (ac *Esther* Racine), *Women in Love* Lawrence ac

Estronwr Camus, Dail Pren Waldo neu Ddail Glaswellt Whitman, ni allwn syllu i unman heb ddod drwyn yn nhrwyn ag ystyriaethau trosgynnol gwaelodol.

* * *

Beth bynnag yw ein barn am lenyddiaeth y cyfnod Modernaidd ac Ôl-fodernaidd, rhaid cydnabod ei bod wedi ceisio wynebu'r oes. Gwelodd rhai o'n llenorion ddifa'r amgylchfyd. Gwelodd eraill ddifa dynoliaeth a Duw. Eisoes aeth yr ystafell wag yn y Chapter, Caerdydd yn angof, fel rhes o arluniau Ôl-fodernaidd cysyniadol eraill. Ac eto, wrth wynebu'r argyfwng cyfoes, fe gyfododd mwy o symudiad newyddiadurol. Nid chwiw a ffasiynoldeb a siociau arwynebol oedd hyn yn unig, er bod hynny'n wir ar y lefel fwyaf arwynebol. Yr oedd y gwrthwynebiad i egwyddorion tragwyddol yn ymwneud yn bennaf â hen ragdybiau dyn-ganolog hunanymwthiol nwydus o gyfarwydd a gweili.

Profwyd gan lawer gwlad lywodraethau a gymerai ryfeloedd yn rhy ysgafn. Aethpwyd i ystyried bod bywyd yn chwalfa a bod y byd, o raid, yn ddifater. Materoliaeth a sgeptigiaeth a gymerodd yr orsedd wag. Ac nid osgoid hyn drwy ysgafnder llenyddol.

Er mai atebion abswrdd a dibwrpas a ddaeth yn ffasiynol, ac er cydnabod rhagrith a'r arwynebol fel grymsterau bythol-wyrdd yn y gymdeithas, fe geisiai rhai artistiaid dreiddio o hyd i werthoedd mwy cadarnhaol yn y stranc i gyd. Tybiai rhai fod a wnelo seiliau celfyddyd yn y bôn â'r berthynas iach rhwng pobl a gwerthoedd a oedd yn ddyfnach na chwiwiau'r funud.

I'r cyfryw rai, nid yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unig y cafwyd golwg am y tro cyntaf ar y cwestiynau hyn. Os yw pobl heddiw o ddifrif, diau y cawn eu bod — weithiau gyda chryn ollyngdod — yn troi at feddyliau celfyddydol pur barhaol. Yn wir, ymhlith llenyddiaeth yr oesau a fu y cânt fwynfa aruthrol o feddwl a phrofiadau a mynegiant hydeiml sy'n treiddio drwy dywyllwch a goleuni y cyfanfyd. Dyma beth a brawf pob person effro o hyd; y braw a'r gobaith.

Mynegodd rhai o lenorion mwyaf yr ugeinfed ganrif yr unigrwydd a'r alltudiaeth a brawf pob dynoliaeth hydeiml sydd heb Dduw. Ond nid rhywbeth sy'n gyfyngedig i lenorion yn unig yw'r math hwn o faich yr wyf yn sôn amdano; ac nid uniongyrchol neu gyfyngedig 'grefyddol' y trobwynt chwaith.

Bydd diddordeb pob llenor yn iachus wahanol o ran pwyslais ynglŷn â gwahanol feysydd bywyd. Ac yn achos sffêr Ffydd, mae'n anochel mewn oes seciwlar fod rhai sydd yn cydymffurfio â gwth y cyfnod yn medru sylweddoli nad oes ganddynt ffydd. Ond wrth gwrs, o'r galon (sef canol y bersonoliaeth) y tardda'u gwerthoedd hunan-ganolog a'u hagwedd at Dduw a dyn. Gellir cyfeirio'r galon at dduw'r bol neu at eilunod. Yr hyn na ellir ei wneud yw

byw ar wahân i ddibynnu ar ystyriaethau ffydd a moes. Yn anochel, yn y gwaddol o gredu (neu'r rhagdybiau a elwir 'anghrediniaeth' — sy'n grediniaeth o fath) y ceir gwreiddiau gwerth, trefn, a diben llenyddol. Dyna'r lle cyfeiriol o hyd i swmp llenyddiaeth oll.

Pan soniaf, felly, am gymhwyso'r dadansoddiad o gyfundrefnau Deunydd Pantycelyn i'r maes seciwlar, yna mae 'absenoldeb' y Duw Cristnogol y meddyliwn amdano yn y pâr rhagdybiol *presenoldeb dyn/absenoldeb Duw* yn berthnasol. Ar hyd yr absenoldeb hwnnw, fwy na heb, yr erys yn dduw pur ddirprwyol, 'Fi' yw'r dewis poblogaidd ac arferol. Hoff gan lenorion feddwl amdanynt eu hunain fel petaent yn 'greadigol' newydd. Chwilio a wnânt, meddant, am y Gwirionedd, yn fynych drwy gelwyddau hynafol neu ddychmygion analogaidd. Gall Mamon neu Ryw neu Betholdeb gymryd meddiant o'r bwch hwnnw yn hapus braf. Ond y berthynas honno rhwng *Duw/dyn*, a gafwyd yn oleuedig er yn fore gan y traddodiad llenyddol, dyna o hyd (sôn amdani neu beidio) a rydd i lenyddiaeth ei gweledigaeth absoliwt a'i dwyster trefnus. Treiddgar yw'r dimensiwn hwn, a hawlir gan Archgyfundrefn *Bod/bod* a *Bod/gwneud*. Dyna'r berthynas sylfaenol rhwng yr awdur a'i ddealltwriaeth o'i fywyd, weithiau'n ymaflyd codwm â'r rhwystr sydd rhyngddo a Duw, weithiau'n ymwybod ag anweledig a gorfforir mewn cynddelwau Jungaidd neu brofiad personol mwy diriaethol. Roedd Sartre yn llygad ei le wrth hawlio bod byd heb Dduw yn ein harwain i ddiffyg ystyr. Bod yn un â'r Un y mae'n ei ofni yw byw'n ystyrlon mewn gwirionedd i'r llenor seciwlar. Ac ni lwyddwyd erioed i fyw heb gydnabod ystyr o ryw fath, mewn meddwl, iaith na gweithred. Mae'r ateb yn syml; ond mae yna her i falchder.

Meithrinwyd llenyddiaeth seciwlar Ewropeaidd gan draddodiad o naratif sylweddol, a etifeddwyd yn fwyaf canolog yng Nghymru er y Diwygiad Protestannaidd gan yr ymwybod Beiblaidd. Gyrrir yr artist i ddilyn bywyd ac i'w 'greu'. Fe all hyn gymryd llw o batrymau mewn Mynegiant. Ond mae pawb yn mynd o A i B. Sonia Anthony Burgess am lenyddia fel 'a hopeless attempt to heal the festering diseases of the soul'. Ac yn sicr, mae hynny'n digwydd weithiau. Dyna'r lle y bu hyd yn oed emynau 'Meddyg' Pantycelyn yn pori, ond yn cael gwaredigaeth a gobraith. Bob amser, y mae'r ymgais i ymwneud â threfn, naill ai'n gadarnhaol neu ynteu'n negyddol (neu'n ffug negyddol), gan adeiladu strwythurau, wrth gwrs, yn amrywio. Gwyddys am bwyslais Saunders Lewis (fel T. E. Hulme) ar y rhan allweddol sydd i'r pechod gwreiddiol i'w chwarae mewn llenyddiaeth. Hyn a ddarpara un wedd ar y ddeinameg sy'n gyrru pob llenyddiaeth o bwys. Yn wir, ni allaf ddychmygu cyddestun amgenach ar gyfer myfyrio uwch gwaith Pantycelyn na'r can mlynedd diwethaf.

Diau fod gan Archgyfundrefn Gwerth a Phwrpas ddylanwad anochel amlycach na'r un ar bob llenyddiaeth seciwlar bellach. Ni all llenyddiaeth (er gwingo'n erbyn y symbylau)

ymwrthod yn llwyr â gwerth na nod. Ac yn yr artistiaid mwyaf, mae'r gweithiau ar eu hennill os yw'r artist wedi cymryd ei dasg o fyfyrrio am eu harwyddocâd o ddifri.

Y mae a wnelo Hierarci, felly, o dan lyw'r Absoliwt a Gras Cyffredinol, â'r ffaith fod gwerthoedd i'w cael yn y bydysawd yn gynhenid, er cymaint y gall dyn ei ddifrio'i hun yn arwyneboldeb ei lenyddiaeth. Mae yna 'uwch' i bopeth ond Duw, ffaith sy'n berthnasol bob amser yn y cydlynid meddyliol a chymdeithasol hwn. Derbyn y drefn o ragoriaeth naturiol yw ennill aeddfedrwydd. Colli trefn o'r fath yw'r ffug wrthryfel neu'r brotest dybiedig. Meddai Montaigne, 'Ufuddhau yw swydd briodol yr enaid rhesymol,' ac roedd yn bur agos i'w le.

Yn y gyfundrefn *Deunydd/Ffurf*, ceir dau symudiad dynol felly. Y mae pob unigolyn, pob llenor, yn ddi-eithriad, yn meddu ar ysfa i drefnu bywyd i'w ddadansoddi a'i werthfawrogi, er mwyn meddwl a deall a 'darostwng' yr amgylchfyd. A sylwer: yn ôl Dooyeweerd, nid yw'r agweddau ar Ddeunydd yn cyfeirio at '*ba beth*' yn unig, hynny yw at bethau neu ddigwyddiadau diriaethol, eithr yn benodol at y '*sut*', hynny yw, at y modd neu'r dull sylfaenol ac arbennig sydd gennym o'u profi a synied amdanynt, ac o dreulio amser y Ferf berthnasol yn hytrach na'r Enw. 'Moddau' yw un o eiriau mawr Dooyeweerd ar y dosbarthiad hwn. Ac ymddengys fod y rhain i Bantycelyn yn ddosbarthiad o ffyrdd o brofi, ac yn ffyrdd o feddwl am y bywyd dynol a daearol. Y maent yn arwain hefyd, fel y cawn weld, at y '*pam*'.

(x) Y WRAIDDGYFUNDREFN: YR ARFAETH

Cynllun ac ewyllys Duw ar gyfer y Greadigaeth yw'r Arfaeth. Y datguddiad o hyn oedd meddwl Pantycelyn am fywyd. Dyma gronfa ei themâu.

Yma hefyd y dechreuau'r ymgais i olrhain olyniaeth hierarci y Weithred Lenyddol o ran ei Deunydd. Dyma'r cam angenrheidiol cyntaf.

Gwelai Pantycelyn y Greadigaeth megis llyfr. O ddarllen y llyfr yn ofalus, gan astudio'i iaith a sylwi ar ei ddychymyg, ei gymeriadau, ac yn arbennig ei blot, y deuai yntau i sgrifennu llyfr ei hun am y llyfr. Teitl yr ail lyfr hwnnw oedd 'Golwg ar Deyrnas Crist'. Yr oedd ef megis beirniad llenyddol yn ddadansoddi llyfr y greadigaeth:

GWWP II, 75 *Rhyw lyfyr yw'r greadigaeth, aneirif faint ei ddail,
Yn doddi 'maes ogoniant diderfyn Adda'r Ail;
Ei holl briodoliaethau a welir yn ei waith,
A'i ddyfais anchwiliadwy o dragwyddoldeb maith.*

Dichon mai Pierre Viret (1511-71) yn y cyfnod diweddar oedd y cyntaf i ddefnyddio'r trosiad hwn. Ond y tebyg yw i Pantycelyn ei godi o gyfrol Francis Bacon, *Advancement of Learning* (1605) neu gan un o'i ddilynwyr. Fe gafodd y gyfrol honno gryn ddylanwad ar y rhai a geisiai gydlynu Gwyddoniaeth a'r Ysgrythur yn y Ganrif ar ei ôl, o'u canfod ill dwy fel cyd-ffynonellau i'n gwybodaeth am Dduw.

Meddai Alister E. McGrath (M I 103): 'The origins of this metaphor lie in the desire to set nature alongside Scripture as two distinct, yet related, sources of knowledge of God.' Ond yr oedd i'r trosiad wreiddiau hefyd yn yr Ysgrythur ei hun, er na fentrai neb arall o'r diwygwyr ddilyn Pantycelyn drwy gydio yn y llyfr arall hwn. Meddai McGrath ymhellach: 'This metaphor of the "two books" with the one divine author was of considerable importance in holding together Christian theology and piety and the emerging interest and knowledge of the natural world in the seventeenth and early eighteenth centuries. There can be no doubt that it offered a major theological motivation and incentive to the committed investigation of the natural theology by Christians, persuaded that the study of the works of God led to a glimpse of the mind of God.' Trefn oedd Duw. Crist oedd y Logos.

Yr Absoliwt (yr Awdur) a'r Arfaeth (y plot) yw prif destun 'Golwg ar Deyrnas Crist'. A Christ (yr Absoliwt) yw'r Arwr. Yr Arfaeth yw Ei gynnyrch ef. Hon hefyd yw presenoldeb anochel y profiad o drefn ym mhrofiad dyn. Dyma'r Goddrych a'r Traethiad. Term Pantycelyn ar gyfer y gwaith hwnnw yw 'Sgêm.' Fe ailadrodda'r term hwnnw sawl gwaith.

Prif nodwedd ffurfiol y Sgêm honno oedd mai Cyfundrefn o gyfundrefnau oedd popeth. Mae'r oll yn gyfundrefnol ac yn gynhwysfawr. Pan ddeffrôdd ysbryd Pantycelyn i berthynas fywiol â Christ, fe ddeffrôdd mwy na'i serchiadau. Fe ddeffrôdd hefyd yn ddeallol. Canfu'r

sgêm, nid yn unig fel ‘theori’ am fydysawd o drefn. Ymunodd y canfyddiad deallol hwnnw hefyd â’i serchiadau at y Person a oedd yn Absoliwt iddo. Cafodd oleuni hefyd am ryfeddod cynllun y Greadigaeth, a phopeth o bwys a ddigwyddodd o’i mewn; ac yn ei dröedigaeth hon fe orfoleddodd. Asiwyd ei ddeall yn ei serchiadau.

Bu’r canfyddiad o Gyfundrefn o gyfundrefnau yn y Greadigaeth bellach yn weledigaeth fywiol iddo. Daeth y weledigaeth honno yn gefndir deallol byth wedyn, nid yn unig i’r ddwy arwrgerdd hir ‘Golwg ar Deyrnas Crist a ‘Theomemphus’, eithr hefyd i’w ‘Emynau’, ac yn wir i bob dim arall a sgrifennodd, yn Farwnadau, yn Gerddi amrywiol, ac yn Llyfrau Rhyddiaith. Perthynas oedd yno oll; addewid; a chynhesodd ati. Fe gysylltodd hyn oll â chefnidir deallol a etifeddodd gan y prif draddodiad Acwin/Calfin a oedd yn sylfaen ar y pryd i’r eglwysi Anghydfurfiol, Protestannaidd, a Chatholig. Dyma a geid gan Galfin, Beza, Turretin, a’r Piwritaniaid (a hwythau gan Awstin ac Acwin). A chanfuasai nad rhestr o ddeddfau, na rhes o ddigwyddiadau hanesyddol oedd y plot Cristnogol yn y Beibl. Yr oedd hefyd yn gyfanwaith cyflawn cydweol a ddadlennwyd yn rhagluniaeth gydlynol, yn gorfforol ac yn ysbrydol gynnes amdano. Yr oedd yn ddadleniad ac yn ddehongliad o feddwl Duw.

Dyma’r hyn a adweinid yn y cyfnod diweddar fel ‘Diwinyddiaeth Gyfundrefnol’. Disgrifiad trefnus oedd o’r ffydd Gristnogol. Fe’i mabwysiadwyd gan Bantycelyn. Ond nid aeth ef ati i’w hamlinellu a’i chyflwyno’n ddisgrifiol categorig. Aeth y meddwl hwnnw yn hytrach yn wedd ar ei awen a’i gyfansoddiad mewnol. Aeth yn eiddo iddo’n brydyddol ddeallol ac yn ysbrydol. Dyma, mewn ffordd, ddatganiad o’i gredo.

Ond yr oedd yn llawer mwy nag amlinelliad o’i syniadaeth bersonol. Yr oedd yn ddealltwriaeth gyffredinol yn ei gymuned Gristnogol o’r byd a bywyd. Yr oedd ei ddealltwriaeth gyfundrefnol gydlynol yn hawlio’i bod yn ddadansoddiad neu’n adlewyrchiad dihybyddol o’r sefyllfa wrthrychol. Hynny yw, patrwm meddyliol theoretig oedd a wybu Pantycelyn yn ddealltwriaeth sylfaenol o’r holl greadigaeth. Roedd yn estyniad cyfundrefnol mewnol i’r gyfundrefneg wrthrychol, a oedd allan yn y fan yna. Ar ryw olwg, yr oedd meddwl Pantycelyn wedi’i feddiannu gan feddwl yr Arfaeth. Estyniad oedd trefn ei feddwl a’i iaith i drefn arall. Fe’i lapiwyd amdano.

Ac y mae hyn yn wir, mewn modd cudd ond anochel, am bob llenor. Mae gan bob un ei ddelwedd neu ei syniad am y bydysawd. Ond gwell inni ymglyfyngu i Bantycelyn yn bennaf am y tro.

Byddwn yn ceisio sylwi bod yna gynllun a threfn o fath cywrain ar gael yn oddrychol o fewn meddwl deunyddiol Pantycelyn (a chan lenorion eraill) mewn iaith a llên. Ond nid goddrychol oedd hwnnw i ddechrau. Fe’i caed yno yn amseryddol ymlaen llaw. Nid

annhebyg yw'r patrwm cudd ystyrol hwn ym maes *syniadaeth* (term Guillaume oedd Ideogenesis) i'r patrwm gramadegol sydd gan bawb yn gudd yn ei feddwl ym maes *ffurf* (term Guillaume oedd Morffogenesis). Y ffurf oedd y syniadaeth.

Gwrthrychol yw Arfaeth. Hynny yw, o fewn yr Arfaeth (neu'r Cynllun), cyn creu dyn, ceid trefn mewn pethau o'r tu allan iddo. Yr oedd y drefn honno'n cael ei mynegi yn y Greadigaeth yn wrthrychol:

e.e. 1. Nid oes Mater ar gael yn unman heb fod yna *atomau* cyfundrefnol: Cnewyllyn dwys// Proton, cadarnhaol/ Newtron, heb wefr/ Electronau, negyddol// Gofod. Rhagdybir bob amser fod Trefn yn bodoli. Mae hyn yn ganlyniad yn ddeallol i sylweddoli cydlyniad Gwahaniaeth a Thebygrwydd (Arbenigoli a Chyffredinoli). Hyn, wrth fod yn berthynas allanol, sy'n meithrin perthynas o'n mewn.

2. Nid oes Bywyd yn unman heb *gelloedd* cyfundrefnol: megis Cnewyllyn + Cromosomau (DNA) + Organelau (proteinau) o fewn cellbilen. Hyn sy'n ymgysylltu â deinameg meddwl ac iaith, â chyfeiriad a phwrpas.

3. Nid oes Dyn heb *organau* a'u cyfundrefnau: Gwaed, Treulio Bwyd ac Ysgarthu, Cyhyrau, Imiwnedd, Croen, Esgyrn, Ymennydd, Anadlu, Gweld, Clywed, Nerfau, Arogli, ayb.

4. Ceir dosbarthiad amgylchfydol i fywyd mewn gweddau trefnus clir o *Ddeunyddiau*: tir (gan gynnwys daeareg), dŵr, ac awyr, ynghyd â'u mwynau, llyisiau, anifeiliaid, a phryfed, bob un yn fathau cyfundrefnus.

5. Ceir cyferbyniad isymwybodol rhwng *gofod* (3 dimensiwn) ac *amser* (2 gyfeiriad) mewn deall. Heblaw hynny, ac yn estyniad i rif 3 uchod, ceir cyfundrefneg yn y meddwl dynol a olrheinir drwy Iaith, a rennir gan Gustave Guillaume yn ôl Ideogenesis (lecsem: ystyr ddeunyddiol) + Morffogenesis (morffem: ystyr ffurf). Mae hyn yn cwmpasu Cyfundrefneg ieithyddol a llenyddol y disgrifir *ei gwedd ddeunyddiol* yn fras yn y gyfrol hon: yn Archgyfundrefnau ffurfiannol ond cynieithyddol; y Sfferau ystyr; y Themâu; a'r Motiffau. Disgrifiwyd *ei gwedd ffurfiol* ynghynt mewn cyfrolau megis *Seiliau Beirniadaeth a Meddwl y Gynghanedd*.

6. Rhagdybir bod *Gwirionedd* yn bodoli. Mae hyn yn canlyn ac yn cynnwys y ffaith fod Bodolaeth yn bodoli, a Meddwl yn bodoli. Dyma wreiddyn Gwerth mewn Absoliwt.

I Bantycelyn yn ei gyfnod, Arfaeth o'r fath yw'r plot gweithredol cyntaf cyntaf a ystyria fel y Wraiddgyfundrefn i'r Llyfr, sef y Gyfundrefn (o gyfundrefnau) nad oes dim credig yn uwch na hi. Dyma'r unig Gyfundrefn *eithaf* a oedd yn bod, hyd yn oed cyn y bydysawd. Ac

eto, mae'n cynnwys o ran potensial bob ffurf a deunydd, yn Archgyfundrefnau, yn Sfferau Ystyr, yn Themâu ac yn Fotiffau. Mae ynghlwm wrth y ffaith seml fod yr holl fydysawd yn gyfundrefnol cyn i ddyn fod. Dyna'r amgylchfyd y daw i mewn iddo. Ac y mae'r fath drefn gyfundrefnol yn bodoli cyn iddo'i sylweddoli yn ei gorff, ei feddwl, a'i ysbryd. Petrusaf rhag defnyddio'r term Cyfundrefn am yr 'Absoliwt' ei hun er gwaethaf Ei ffurf. Hwnnw yw Person y Crëwr, gwreiddyn a phatrwm pob cyfundrefn yn yr Arfaeth a phopeth arall, y Tad Tragwyddol, Cariad. Gwell gennyf feddwl am y Drefn o gyfundrefnau fel rhan o 'ddull' bodolaethol y creu, gweithred o esgor ac o gyfuno neu gynnyrch gweithred. Felly y sicrhawn gyferbyniad rhwng cymeriad yr Absoliwt Tri-yn-Un ar y naill law, a'r Greadigaeth ar y llaw arall sy'n dwyn argraff o gymeriad ei Chreawdwr. Ceir llawer o briodoleddau gan y Creawdwr. Dynodaf 'Absoliwt' i gynrychioli'i safle a'i statws a'i swyddogaeth. Ond cariad yw calon pob perthynas a gweithred gadarnhaol yn Llyfr Deall.

Credaf mai camgymeriad fyddai uniaethu'r math o Undod dirgel sydd yn Drindod â'r hyn a geir yn greedig wrth gyfundrefnu, ac felly mai anghywir yw llawn uniaethu'r Crëwr anghwmpadwy â'i greadigaeth. Nid yr un peth ydynt. Dyma farn Pantycelyn:

GWWP I, 81 *Creadur yw creadur; Creawdwr wyt, a Duw*
Yn gyflawn o berffeithrwydd, perffeithrwydd o bob rhyw.

Roedd yr Arfaeth yn bod ym meddwl y Duwdod hyd yn oed cyn creu'r bydysawd. Cynllun oedd ac yw. Bwriadedig. Ond 'Creadur' oedd hwn hefyd. Dihanes yw'r Drindod, bersonol dragwyddol, heb ei gynllunio, er ei fod yn creu hanes. Nid uniaethir y cynllun â'r Cynlluniwr. (Trafodir perthynas y Crëwr a'r Greadigaeth gan McGrath: M I, 11-15, 164-171; III, 110-113).

Mae'r Drindod, er ei bod yn debyg ddigon, felly, i Wraiddgyfundrefn greedig a'r Gyfundrefn o gyfundrefnau mewn iaith, yn bod ar wahân. Fe nodweddir ei Bod gan ei arwahanrwydd, yn arbennig gan Barth. Nid oes dim gwneuthuredig o'i flaen, ac nid oes Achos iddo. Gwell gennyf sôn am Ffurf y Drindod (Tri yn Un), felly, fel nodweddion ar Ei gymeriad cyn-ffurfiannol y sylwir arnynt ar waith, ac yn bresennol felly yn Ei greadigaeth, yn hytrach nag fel Gwraiddgyfundrefn amhersonol megis Ffurf greedig ei hun. Fel arall y bu hi. Argraffodd ei Gymeriad ar ei Lyfr. Cynnyrch neu ddrych diriaethol o'r Arfaeth yw'r Greadigaeth.

Wrth gwrs, mae cyfundrefn gyffredin eto (a hyd yn oed cyd-gyfundrefn) yn wahanol i'r Wraiddgyfundrefn neu'r Arfaeth. Ffurf ailadroddadwy ddatblygadwy yw cyfundrefn, a ffurf unigryw anailadroddadwy yw Gwraiddgyfundrefn.

Mater arall, arbennig, hanesyddol yw'r Duw-ddyn, Crist Iesu, prif awdur *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*, a'i ddwy natur mewn un Person. Eto, Absoliwt yw Yntau. Ceir math o ddeuoliaeth rhwng yr Anghreedig y tu hwnt i'r Greadigaeth a'r Un a ddaeth i mewn i'r Greadigaeth. Yn y fan yna, tynnai Pantycelyn ffin gyfundrefnus rhwng y Mab ar y naill law a'r hyn a ddigwyddodd mewn hanes, sef yr Un ymgnewdoledig, y Duw-ddyn. Digwyddiad fu hyn. Digwyddodd yn debyg i bethau creedig. Diddigwyddiad yw Undod y Drindod, er ei fod yn esgor ar ddigwyddiadau. Bu'r Mab erioed 'yno' wrth gwrs: gellid dyddio'r Ymgnewdoliad. Bod tragwyddol a digyfnewid yw Duw hanesyddol erioed. Felly, mae'n debyg mai cywir yw sôn am y ddwy natur mewn Un person yn ffurf ddaearol Iesu Grist fel cyfundrefn a swyddogaeth o benderfyniad y Tri-yn-Un. Ond y mae'r ddeuoliaeth hon, yn debyg hefyd i'r drioliaeth yn y Drindod ei hun yn dwyn cymeriad absoliwt o ran ffurf am ei bod yn wedd ar y Duwdod sydd yn bod yn y cyferbyniad anailadroddadwy rhwng dyn a'r Duw-ddyn. Yr unig wybodaeth sydd gennym am y Tragwyddol yw'i hunanddatguddiad.

Mae'r Arfaeth, sut bynnag, yn Wraiddgyfundrefn am ei bod hefyd, er yn greedig, yn gyntaf yn y Llyfr. Dyma'r ffynhonnell weithredol gan y Duwdod o fewn ffurfiant y Creu. Rhagflaena'r Cynllun y deddfau a sylfaenwyd yn y greadigaeth. Yn y cyferbyniad ffurfiol hwnnw y mae ei safle yn gyfundrefnol ddiragflaenydd greedig ac yn unigryw. Ac fel y cawn weld, y mae'r Arfaeth yn unigryw mewn priodoleddau eraill. Yr Arfaeth yw testun canol enfawr y Wraiddgyfundrefn sy'n llywodraethu ac yn ffurfio cyfundrefneg *Golwg ar Deyrnas Crist*, gyda nifer helaeth o'i mewn o glystyrau o gyfundrefnau diwinyddol. Ar y llaw arall, un gyfundrefn ddeuol yn unig sy'n cwmpasu *Theomemphus*, sef Cyfiawnhad (Pennod I-VI) a Sancteiddhad (Pennod VII- XX), er ei bod yn cynnwys llun o gyfundrefnau 'llai'. Dyma ddau adeiladwaith pur wahanol yn y Llyfr. Anferthedd oedd gweledigaeth ac uchelgais Williams wrth ymgymryd â'r fath waith â'r ddwy gerdd hyn. Ni wn a geir eu tebyg mewn unman arall.

Mae anferthedd cynllun *Golwg ar Deyrnas Crist* yn sicr yn unigryw yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Amlinella berthynas Duw a Hanes i gyd: sef Arfaeth Duw. Ceisir cyfleu meddwl Duw, a'i waith wrth ymwneud â'r Greadigaeth, o'r pwynt cyn ei sefydlu, sef ar y foment o'i chynllunio, hyd ei diwedd. Ac y mae treiddgarwch Person Crist, fel y'i cyflwynir yn *Theomemphus* eto, yn gosmig, ac yn bopeth ym mhob man.

Cwmpesir pob un o'r prif adeiladweithiau yn y berthynas rhwng Duw, yn benodol ym mherson y Mab, a'i Deyrnas ef y bydysawd, a hynny ar hyd echel unffordd. Gwraiddgyfundrefn yw'r enw priodol ar gyfer thema'r arwrgerdd gyntaf. Hynny yw, y mae'n mabwysiadu llun o gyfundrefnau deuol a thriol, cyferbyniol neu estynnol, yn unol; ac nid oes dim cyfundrefn yn ei chynnwys hi. Y maent oll yn ddeinamig. Er bod yna elfen o

sefydlogrwydd a pharhad yn y cyfundrefnau hyn, y mae'r cyfundrefnau eu hunain oll, yn ogystal â'r Wraiddgyfundrefn sy'n sylfaen iddynt, ar waith mewn olyniaeth naill ai fel cyferbyniad neu fel estyniad. Ac y maent yn unffordd gan na ellir ailwneud yr Arfaeth. Fel llawer o gyfundrefnau eraill, er mai unwaith am byth oedd Iawn Crist, y mae'r Gyfundrefn *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* ar y llaw arall, yn *Theomemphus*, yn ailadroddadwy rhwng unigolion. Y mae ar waith dro ar ôl tro yn hanes pob Cristion, ac mewn modd gwahanol yn y Mynegiant. Nid felly'r Arfaeth, sef ffynhonnell Archgyfundrefn, Sffêr, Thema, Motiff.

Mae cynllun Gwraiddgyfundrefn *Golwg ar Deyrnas Crist* yn wahanol i bob cyfundrefn unigol arall oherwydd amllder y cynnwys. Dyma adeiladwaith lluosol unol unigryw: perthynas yr Absoliwt unigol a'r llawer ym mhopeth. Cysylltai pob Archgyfundrefn a Chyfundrefn unigol sy'n dilyn mewn hierarci o undod â'r Wraiddgyfundrefn. Hi yw'r ffynhonnell. Ceir o'r tu mewn iddi berthynas dynn o ddwy neu dair elfen yn gyfresol gydlynol, megis sydd yng nghyfundrefn ymbarél Creu/Cwyp/Codi. Mewn Gwraiddgyfundrefn fel hon, ar y llaw arall, gellir ymwybod â phresenoldeb uniongyrchol yr Absoliwt, sef Duw ei hun yn ei ffurf drindodol. Felly mae yna berthynas unol ac uniongyrchol rhyngddo a phob un elfen yn yr amllder sy'n cael ei chlymu.

Mae *Golwg ar Deyrnas Crist* yn y bôn yn canoli sylw ar berthynas o fewn y Drindod rhwng y Tad a'r Mab, er bod yr Ysbryd yn bresennol ac ar waith hefyd *drwy* benderfyniad yr Arfaeth. Ar y dechrau, mae'r Tad yn cyflwyno'i Deyrnas i'r Mab. Yn y canol, y mae'r Mab yn ymwneud â'r Deyrnas honno yn gariadlon. Ac yn y diwedd y mae Ef yn ei chyflwyno'n ôl i'r Tad. A thry o gylch 'Tri gorchymyn yr Arfaeth': 1. Gorchymyn Bodolaeth; Bydded; 2. Gorchymyn Diwylliannol: Ffrwythwch; 3. Gorchymyn Gogoneddu: Molwch.

Gwedd y tu mewn i *Golwg ar Deyrnas Crist* yw *Theomemphus*. Y cyfan a'r rhan, y Wraiddgyfundrefn a'r gyfundrefn thematig. Mae'n canoli sylw ar berthynas o fewn yr Arfaeth rhwng y Duw-ddyn (sef y Mab) a dyn creedig, yn bennaf yn ôl cyfundrefn Cyfiawnhad / Sancteiddhad. Unwaith eto, Hanes sydd ar waith, mewn cyfundrefnau. Hanes y Cristion yw; ac unwaith eto, mae'n unffordd, er nad yw'n unigryw. Hynny yw, y mae prif adeiladweithiau buchedd un Cristion, sef *Theomemphus*, yn cael eu haildrodd bob tro yn hanes pob Cristion arall. Eto, nid yw'r hynt ei hun yn yr unigolyn yn ailadroddadwy. Ni ellir cwmpo oddi wrth ras er y gellir cwmpo mewn gras. Unffordd yw mewn amser felly. Unffordd yn y berthynas hefyd. Duw sy'n darparu, a dyn unigol sy'n derbyn.

Y mae dyn, wedi'i eni'n naturiol ar ôl y Cwyp, fel yr oedd yn hanes *Theomemphus*, yn llawn ym mhob rhan o farwolaeth a phechod. Nid oes perthynas fywiol effeithiol rhyngddo a Duw. Mae'n gaeth i'w natur syrthiedig, ac ni all ddewis fod yn berffaith dda fel sy'n

angenhaidiol os yw ef yn mynd i fod yn aelod o'r teulu dwyfol yn dragwyddol. Ond y mae Duw o'i wirfodd, ac yn ôl ei ewyllys penarglwyddiaethol, yn dewis rhai dihaeddiant hollol, ac yn rhoi ffydd ac edifeirwch iddynt. Theomemphus oedd un o'r etholedigion hyn, un o ddewis rai y Duw trugarog a pherffaith. Fe'i gwaredir drwy ddyfais o eiddo Duw; sef Duw'r Mab, y Duw-ddyn, yn rhoi'i einioes o'i wirfodd yn lawn a delir yn lle dyn diymadferth na allai byth fforddio'r pris. Dyma drefn neu gyfundrefn a ddefnyddir gyda phob Cristion. Ac o'r fan yna, nid oes troi'n ôl yn derfynol. Cedwir hwy'n effeithiol gan allu Duw hollalluog. Dyna pam y gellir dweud bod hynt Theomemphus yn unffordd, a'r holl gyfundrefnau o fewn Trefn y Cadw yn ddeinamig unplyg unffordd.

Felly, casglwn: dwy ran a oedd yn Llyfr y Greadigaeth. Lle'r oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* ar ffurf luosol gyfundrefnus gyda pherthynas luosol unol rhwng Duw a phob cyfundrefn, yn foth ac yn adenydd, deuol yw ffurf gyfundrefnus *Theomemphus*. Dau gam sydd i'r ail. Dros y chwe phennod gyntaf 'Dod yn Gristion' yw'r testun. O'r seithfed bennod hyd ddiwedd yr ugeinfed, 'Bod yn Gristion' yw'r testun. Lluosol yw natur *Golwg ar Deyrnas Crist* a chyfundrefnol ddeuol yw symlder *Theomemphus*. Felly, nid mewn iaith y sgrifennwyd y Llyfr yn y meddwl yn wreiddiol, ond mewn Cyn-iaith. Ceir undod diben y ddwy arwrgerdd yng nghymelliad cyffredin Gogoneddu.

Nid athrawiaethau yw cyfundrefnau cynieithyddol mewn Arfaeth. Y maent yn llawer mwy elfennaidd na hynny. Maent yn nes at ddeddfau natur, er eu bod, mewn diwinyddiaeth, yn gysylltiedig ag athrawiaethau bob amser. Cyferbyniadau neu estyniadau o fewn undodau ydynt, lle y delir sythwelediad yn gyflawn yn yr isymwybod heb ei ddatblygu na'i amddiffyn. Gellir ymateb i'r ddelwedd o gyfundrefn mewn modd sylfaenol syml. Ymwna â pherthynas dwy neu dair egwyddor waelodol, ac ymgysyllta'r elfennau o'i mewn â'i gilydd i lunio ffordd o fyw neu o fod. Adeiladant yn y meddwl Gyd-gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n seiliedig ar gredu hanfodol a ystyrir yn ddiogel.

Darparodd cyfundrefneg Pantycelyn iddo batrwm o ragdybiau gweithredol sefydlog o'r fath — yr offer meddyliol i drefnu, sef yr Archgyfundrefnau (fel y cawn weld). Y tu mewn iddo, beth bynnag fo'r amgylchiadau neu ddatblygiad o themâu, dyna sydd yn cynnal ei gysyniadaeth. Yn y *Golwg ar Deyrnas Crist*, drwy ddadleuon (digwyddiadol) mewn mynegiant a chyfundrefnau mewn Tafod (y drefn feddyliol), adeileddir cerdd sy'n adlewyrchu ac yn dathlu'r Wraiddgyfundrefn, sy'n cynnwys yn bennaf hanes y greadigaeth. Yn *Theomemphus* ceir hanes aruthr un pechadur y tu mewn i olyniaeth gyfundrefnus ôl-gwmpedig tuag at ei ogoneddu ym mynwes Duw.

Mewn un lle yn *Williams Pantycelyn*, 1927 soniodd Saunders Lewis am ‘gais at gyfundrefn ddiwinyddol gyfan’ yng ngwaith Williams, sef yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Credai ef ei fod yn gallu rhoi’i fys ar un diffyg cyfundrefnol ynddo. Cyfeiriai ef felly at y penawdau a gaed ar ddechrau rhai o’r penodau a gafwyd mewn un fersiwn o’r gerdd honno (fe’i ceir gan N. Cynhafal Jones, ond nid gan Gomer M. Roberts). Dyma nhw fel y’u dyfynnir gan Saunders Lewis: ‘Crist yn bob peth yn yr arfaeth, yn bob peth yn y greadigaeth, yn bob peth yn addewid Eden, yn bob peth yn Rhagluniaeth, yn bob peth yn y Beibl, ...’ ‘ac yn y blaen’ a ddywedai Saunders Lewis yn y fan yna. Ond gadewch i ninnau barhau: wedi’r cwbl un bennod (er mewn rhannau) sydd ar ôl eto. Dywed Saunders Lewis, ‘Mor rhyfedd gan hynny yw sylwi nad oes yn y gân bennod ar “Grist yn bob peth yn yr Eglwys”. Braidd nad yw’r gwall yn anhygoel.’ Ond beth yn hollol oedd y penawdau gan Bantycelyn ar gyfer y bennod olaf honno nas crybwyllwyd gan y beirniad? Ofnaf fod rhagdybiau Saunders Lewis — er mor ddefnyddiol wrth ddehongli llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, — wedi profi’n rhwystr rhag iddo gydnabod (heb sôn am amgyffred) natur Feiblaidd yr ‘Eglwys’ fel y’i ceir gan Bantycelyn. Dyma’r bwllch:

‘Pennod VI, Rhan 1: Teyrnas neilltuol Crist, neu Grist yn bob peth yn Iachawdwriaeth ei Saint. [hynny yw, pobl wedi’u neilltuo’n Eglwys i fod yn ymrwymedig i’w gilydd yn Nuw, a Christ yw’r ffactor unol, dyna’r bobl a iachawyd yn uniongyrchol nid gan yr Eglwys sefydledig swyddogol — ond yn yr Eglwys neu **i mewn i’r** Eglwys — gan Grist ei hun]; *Rhan 2: Offeiriadaeth Crist ar ôl trefn Melchisedec; neu Grist yn Eiriol; Rhan 3: Crist yn teyrnasu o fewn i’w bobl;* neu yn bob peth mewn Sancteiddrwydd [hynny yw, cyn iddynt farw wrth iddynt fynd drwy broses o sancteiddhad]; *Rhan 4: Crist yn dysgu Ei ddeiliaid* [heb gyfryngwyr megis Mair na’r seintiau, ac nid ei swyddogion, rhaid cyfaddef, er y gellid clywed drwyddynt: ‘Oherwydd un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, sef Crist Iesu, yntau yn ddyn.’] neu **yn ddoethineb i’w Eglwys** [term Pantycelyn: hynny yw, eto cyn iddynt farw, yr unig ddoethineb anffaeledig a gânt yw’r hyn a dderbyniant oddi wrth Grist ei hun nid gan sefydliad o fath arall, ond i mewn i gymdeithas y saint]; *Rhan 5: Crist yn bob peth yn y mwynhad o bob peth, ac yn y diffyg o bob peth; Rhan 6: Crist yn barnu ei ddeiliaid, neu yn bob peth yn y Farn; Rhan 7: Crist yn presentio ei Eglwys i’w Dad; Gwynfedigrwydd y Saint ar ôl Dydd y Farn.*’ Dyna sôn drachefn am Eglwys, sef creadigaeth uniongyrchol Duw.

Caiff y darllenydd benderfynu gan ba un, Pantycelyn ynteu Saunders Lewis, y ceid y ‘gwall anhygoel’. I Bantycelyn, cynulleidfa o bobl a ailanwyd ac y talwyd yr Iawn dros eu pechodau, yn uned anweledig a gweledig, oedd yr Eglwys. Hwy oedd y Saint yn y Beibl. Nis

gwnaethpwyd hwy'n Eglwys gan swyddogion nac yn Enwad gan reolau, eithr gan y Duw Tri-yn-Un, yn uniongyrchol, neb arall. Fe'u crewyd gan Waed. Ym mryd Pantycelyn, y seiadau gorlawn o gredinwyr o'r galon oedd yr Eglwys, nid y llannau swyddogol lledwag arferedig. Nid yr adeiladau, na'r cyfundrefnau enwadol, ac yn sicr nid y swyddogion, ond pobl Dduw wedi'u haileni'n uniongyrchol gan Dduw yn cydymrwymo ble bynnag. Cyfundrefn ddiwinyddol yn wir oedd y cynllun o Eglwys a amlinellid gan Bantycelyn rhwng Duw a'r credadun ar gyfer *Golwg ar Deyrnas Crist*, ond cyfundrefn mewn Mynegiant lle y ddi'r holl rannau at ei gilydd yn frodyr a chwiorydd yng Ngair y Bywyd ar sail Arfaeth Duw. Nid oedd neb Cristion yn wir unig, pan oedd Iesu Grist gerllaw; brodyr a chwiorydd oeddent drwyddo Ef yn y teulu tragwyddol, wedi'u trefnu'n undod — yn undod mewn crediniaeth, ac yn undod mewn profiad — gan Waed. Dyma'r safbwynt a roddwyd i Bantycelyn gan y Beibl, ac fe'i gwelir ar waith hefyd yn *Drws y Society Profiad*.

* * *

Mae'r Arfaeth yn dipyn o bwnc. Ym mhob rhan o'r Cynllun rhyfedd hwnnw, mae yna gynllun. Pan âi Pantycelyn ati i ddarllen am Seryddiaeth a Meddyginiaeth, ni welai yntau ond trefn ymhobman. Ac felly y mae hi mewn beirniadaeth lenyddol.

Pan soniwn am iaith, llenyddiaeth, a diwinyddiaeth yn Llyfr y Greadigaeth, bob un fel *Cyfundrefn o gyfundrefnau*, sut y mae'r gair cyntaf cynnes 'Cyfundrefn' yn yr ymadrodd hwn yn wahanol, o ran adeiladwaith ei chynnwys, i 'gyfundrefnau', y trydydd gair yn yr ymadrodd? Mae'r gair olaf yn sôn am unedau deuol a thriol unigol. Mae'r gair cyntaf yn sôn am fwy (mwy o lawer o bosib) na 'chasgliad' neu 'gyfanswm' o bethau cryno felly: am Gyd-gyfundrefn. Nid rhestr yw. Cyfeirio a wna at gyd-adeiladaeth hierarcaidd: Un a Lluosog. Ceir lluosrwydd cytûn yn y Gyfundrefn fwyaf oll, nid yn unig yn y greadigaeth, ond yn wir yn yr Arfaeth i gyd felly, sef yr Arch-gyfundrefn. Ond y mae'r lluosrwydd hwnnw'n hierarcaidd gan grwpio'n gyferbyniol drefnus: hynny yw, ceir cyd-gyfundrefnau lluosaid hefyd, clymiadau hierarcaidd sy'n cyd-adeiladu'r Arch-gyfundrefn. Dyma'r pynciau neu feysydd gwahanol. Felly y mae Tafod yn gweithio o fewn iaith, llenyddiaeth a diwinyddiaeth y Llyfr hwn. Ac felly hefyd y cafodd meddwl Williams Pantycelyn ei hun ei adeiladu.

Cwbl wahanol o ran cyflwr yw Mynegiant Pantycelyn, wrth gwrs. Lle y mae Tafod yn gaedig, y mae Mynegiant yn agored. Gellir rhestr bob amser yn y fan yna. Gellir lluosrwydd heb gydstrwythuro cydlynol amlwg, yn 'rhydd' braf. Ond na'n twyller ni ein hun: y tu ôl iddo y mae cyfundrefneg yn llechu. Gwell inni nodi un enghraifft gydnabyddedig o fyd iaith fel enghraifft neu batrwm o'r math o beth sy'n digwydd hefyd mewn Diwinyddiaeth a Llenyddiaeth. O fewn ymennydd, cyn mynegi, ceid fframwaith cymharol sefydlog.

Cymerer, o fewn iaith, y ferf. Dyma gyfundrefn luosol hierarcaidd. Uwch ei phen yn union y mae'r gyfundrefn fwy 'Rhannau Ymadrodd Traethiadol', sef 1. Enw, 2. Berf/Ansoddair, 3. Ad-ferf. Fe'u clymir gan ddibyniaeth (*incidence*). O fewn cyfundrefn y Ferf ei hun, o fewn neu islaw fel petai, gan fod a wnelo'r gair â'r dadansoddiad o amser, ceir cyfundrefn y Moddau (1. Berfenwol, 2. Dibynnol, 3. Mynegol). Yn y Modd Mynegol Cymraeg, ceir dwy lefel o dypau, sef y Dirfodol (Bûm, Wyf, Byddaf) a'r Darfodol neu'r Disgwyliad (Buaswn, Oeddwn, Byddwn). O fewn pob un o'r chwe thymp hyn, ceir personau rhagenwol (3) a rhif rhagenwol (2). Dyna'r hierarci yn fras yn y clwm berfol hwn: clwm yw o ddeuoedd a throedd.

Felly ceir, — rhwng Cyfundrefn fawr iaith (gan gynnwys, ochr yn ochr â Ffurf, y gyd-gyfundrefn, neu'r Sffêr ystyr, sy'n ymgysylltu uchod â'r Gyfundrefn ddeall) a'r mân gyfundrefnau isod yn y pegwn arall, Mynegiant, — ffenomen wahanol, sef y Themâu, yr hyn a alwaf yn Gyfundrefn luosol hierarcaidd, sy'n glwm o lawer o gyfundrefnau, oll mewn gwirionedd wedi'u llunio'n ddeuol neu'n driol, a'r cwbl yn rhan o olyniaeth hierarcaidd gydlynol.

Mewn Cyn-fynegiant Iaith, yn y cof cymunedol, gellid cyfeirio at 'gyfundrefn' Geirfa, er enghraifft sydd er ei bod ar ryw olwg yn rhestr anferth, ac felly'n ymddangos yn 'ddigyfundrefn', ac er bod yna lu o fân gyfundrefnau ymddangosiadol o fewn y maes: sefyllfaol, negyddol, rhagddodiadol, a.y.b., eto, sy'n gymysg o strwythurau gweithredol ac o 'unigolion'. Mae'n cyflawni'r swyddogaeth ystyrol neu'r ffwythiant deunyddiol: yn *un/llawer*. Y mae hefyd yn gyfundrefn unol i'w chyferbynnu â Gramadeg: Ideogenesis + Morffogenesis. Ac amodir y Mynegiant gan ei berthynas â Thafod.

Felly, ffenomen adeileddol unigryw yw Strwythur enfawr Iaith yn weddol gyffredinol. A chyffelyb i gyd-gyfundrefn Iaith yw cyd-gyfundrefn Llenyddiaeth a chyd-gyfundrefn Diwinyddiaeth.

Wrth sôn am Wraiddgyfundrefn ac am Gyfundrefnau lluosol hierarcaidd yr wyf yn synied o hyd am wir Gyfundrefn, yr un gyntaf sydd yn yr ymadrodd 'Cyfundrefn o gyfundrefnau', neu Gyd-gyfundrefn. Cynhwysydd unol mawr yw, megis Tafod ei hun, sydd yntau yn perthyn i'r gyfundrefn Tafod a Mynegiant, ac sydd yn cynnwys cyfuniadau deuol a thriol.

Efallai wedi'r ymgais yma i ddiffinio cyfundrefnau lluosol hierarcaidd mewn iaith yn gefndir i ystyried cyfundrefnau o'r un fath mewn diwinyddiaeth, y gallwn symud ymlaen yn fwy eglur at syniadaeth y 'Ffydd' ei hun. Ffydd yn ôl trefn yw.

Gwiw cofio, mewn diwinyddiaeth, y bydd rhai diwinyddion Iseldiraidd eu gogwydd, megis Dooyeweerd, wrth iddynt synied am feysydd deddfol neu swyddogaethol yn Neunydd Bywyd, yn sôn am ‘sfferau sofraniaeth’. Byddwn innau’n lleoli’r Sfferau Deunydd hyn wedi’r Absoliwt (Tri yn Un), wedi’r Greadigaeth ac wedi’r Archgyfundrefnau deall cynieithyddol (sy’n cyflyru Ideogenesis a Morffogenesis, Deunydd a Ffurf). Meysydd Ystyr sylfaenol yw’r Sfferau Deunydd — y pynciau deall, y dosbarthiadau yng Nghynnwys diriaethol a haniaethol Llyfr-fyd. Maent yn cynnwys Iaith a Ffydd a Sfferau cyffelyb. Dyna Ddeunydd dosbarthedig mewn Tafod (sy’n arwain at Ddeunydd mewn Mynegiant). Ond cawn geisio atrefnu ac ailfeddwl Dooyeweerd yn ôl patrwm sfferol ychydig yn wahanol. Yn gyntaf, sylwn ar Sfferau Sofraniaeth y Greadigaeth mewn dwy ran: (a) Sfferau enwol unigol, rhywogaethol a (b) Sfferau berfol unigol yn dynodi gweithgareddau. Gofod ac Amser.

Yr ail yw’r un a gyfrifir o dan deitl Sfferau fel arfer, megis gan Dooyeweerd. Gadewch i ni, sut bynnag, ystyried y ddwy Urdd hyn o sfferau yn bwylllog wahân am foment gan mai’r rhaniad cyferbyniol 1. *Urdd Sfferol Bod* a 2. *Urdd Sfferol Gwneud* yw’r gyfundrefn gyntaf y down ati wrth symud ein sylw oddi wrth yr Absoliwt at y Cosmos a greodd Ef. Wrth ddsbarthu’r Greadigaeth yn ddwy gyfundrefn urddol yn ôl *bod/gwneud*, Ffenomenau a Gweithgareddau, *Enw/Berf*, pwysig sylwi mai yn yr ail y ceir arwyddocâd i Ddeddfau. Nid oes a wnelo Ddeddfau â Phethau ond â Gwneud.

Yn hierarci Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Gristnogol, yr Absoliwt yw Duw. Mae ei safle yn yr olyniaeth yn amlwg. Mae’n Un ac yn Dri mewn modd eithaf. O ran ffurf, gellid dweud ei fod hefyd o ran cymeriad yn *Un/Amryw*. Ond gan mai Crëwr a Rhoddwr Cyfundrefnau yw, yn Ddeddfroddwr hefyd, ymataliwn rhag dweud mai Cyfundrefn yw Ef ei hun, er bod y ffurf y’i disgrifir ef yn debyg i Gyfundrefn. Ef yw tarddiad a chrëwr pob ffurf. Symudiad cyntaf y meddwl sy’n ceisio deall ei brofiad o’r Bydysawd yw dosbarthu. Cais drefn, felly, yn y Llyfr-fyd.

Dyma’r drefn urddol a geir yn nwy arwrgerdd Pantycelyn: Cymeriadaeth/Digwyddiadaeth.

Felly hefyd perthynas Duw a’r ddeddf. Nid yw Ef o dan y ddeddf, na’r tu allan i’r ddeddf fel y mynnai Occam. Oherwydd mai Ef yw’r deddfroddwr, mae Ef yn cynnal y ddeddf ynddo’i hun. O’r herwydd, gallwn synied am wahaniaeth cyferbyniol rhwng Duw a’r Cosmos, nid annibyniaeth.

Pan syniwn am y Cosmos, mae gennym ddwy urdd sfferol. Dyma’r gyfundrefn gyntaf sydd dan y Ddeddf:

1. Urdd Sfferol Bod

Gofod
Pethau
Enwau

2. Urdd Sfferol Gwneud

Amser
Gweithredoedd
Berfau

Cysylltaf yr ail, sef Urdd Sfferau Gwneud, â'r ddeinameg a elwir yn Themateg.

Mae'r dosbarthiad hwn ychydig yn wahanol i'r hyn a geid yn nhraddodiad Dooyeweerd, Vollenhoven, a J. M. Spier. Ond y mae fy niwygiadau neu f'awgrymiadau yn pwysu'n drwm iawn ar eu myfyrdodau hwy, hyd yn oed yn y manau hyn lle, yn gam neu'n gymwys, yr wyf wedi gwyro oddi wrthynt. A cheisiaf nodi'r lleoedd amlycaf lle yr wyf yn gwahaniaethu.

'Athroniaeth y Syniad o Ddeddf' yw'r enw ar destun Dooyeweerd yn ei waith sylweddol *Beirniadaeth Newydd o Feddwl Theoretig* (A New Critique of Theoretical Thought), ac nid yw'n sôn am Sfferau ond cyn belled ag y byddont yn yr ail golofn uchod. Mae gan bethau eu strwythurau unigolyddol diriaethol. Fe'u gwnaethpwyd hwy yn uniongyrchol gan Dduw boed yn fyw neu'n ddfifywyd. Cawn brofiad o'r rheini o fewn cyfanrwydd eu natur nodweddiadol. Mae i'r deunydd hwn ei drefn yn ôl ansawdd a pherthynas cyfundrefn mater. Ond nid yw'r gwahaniaeth urddol rhwng Sfferau Bod a Sfferau Gwneud yn wahanol iawn i Eirfa a Gramadeg, dim ond inni gofio bod gan y gair unigol ei gyfundrefn hefyd: yn yr *Arwydd/Arwyddedig/Arwyddiant*. Cofiw'n hefyd y gall aelodau a theuluoedd Urdd Sfferau Bod fod ar waith mewn sawl un o Sfferau Gwneud.

Gwelir fy mod yn gosod Urdd Sfferol Bod o fewn Gofod fel ffurf hanfodol pethau, ac Urdd Sfferol Gwneud o fewn Amser fel ffurf hanfodol ar weithredoedd. Mae *Bod/Gofod* a *Gwneud/Amser* yn hynny o beth yn gyfundrefn ddeuol, gydag Amser yn cael ei ffurfio ar ddelw a sail delwedd symudol o linell (neu Ofod), cynt, yn awr, ac wedyn.

Nodaf yn y fan hon Sfferau a ddosberthir gan Dooyeweerd / Spier, mewn ffrâm lle y gosodir yr uchaf, o ran ansawdd neu olyniaeth ddatblygol a chymhlethdod, yn uchaf o ran safle.

Ffin rhwng Duw a'r Cosmos

	sffêr ragosodiadol (ffydd)			
	sffêr foesegol (cariad)			
	sffêr farnwrol (barnu)			
	sffêr esthetig (harmoni)			
	sffêr economaidd (cynilo)			
A	sffêr gymdeithasol (cyfathrebu cymdeithasol)			
	sffêr ieithyddol (ystyr symbolaidd)			
	sffêr hanesyddol (datblygiad diwylliannol)			
	sffêr ddadansoddol (meddwl)			
	sffêr seicaidd (teimlad)			
	sffêr fïotig (bywyd)	B		
	sffêr ffisegol (symud)		C	
	sffêr ofodol (lle)			CH
	sffêr rifyddol (cyfrif)			

Cynrychiolir dyn gan y llinell fertigol A. Mae'r colofnau llai yn cynrychioli rychwant yr anifail (B), y planhigyn (C), a'r peth corfforol (CH).

Dadlueai Abraham Kuyper fod pob sffêr yn sofran, yn yr ystyr ei bod yn meddu ar ei deddfau priod ei hun, wedi derbyn ei natur briod gan Dduw. Ni ddylai unrhyw Sffêr unigol yn hynny o beth dra-arglwyddiaethu ar ei gilydd yn ôl ei phriodoleddau'i hun — dyweder yr 'eglwys fel sefydliad', ar wladwriaeth, nac ar wyddoniaeth, nac fel arall.

Dylwn nodi nad wyf wedi derbyn yr un sfferau yn gymwys ag a gydnabyddai Dooyeweerd, nac yn yr un drefn hon. Ond derbyniaf yr egwyddor. (Yr wyf yn credu er enghraifft y dylid ychwanegu 'Mwynhad Ymarfer Corff a Meddwl' a fyddai'n cynnwys chwarae, mabolgampau, cysgu, bwyta a.y.b., yn ogystal â'r Sffêr Ddomestig a thraws-sfferol). Bydd y Sffêr 'Mwynhad' yn cyfateb ym maes yr Archgyfundrefnau i Archgyfundrefnau 'Diben'. (Gogoneddu: Mawl).

Bûm mewn cyfrolau eraill yn trafod ychydig ar y sffêr esthetig. Yn y gyfrol hon, dymunaf dynnu sylw at gyfundrefnau'r sffêr ragdybiol Gristnogol 'Ffydd' yn benodol, er bod y sffêr esthetig seciwlar hithau'n amlwg yn cael taro cis ar y sffêr ffydd ragdybiol seciwlar, fel y bydd pob sffêr arall.

Mae Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn toi pob dim ac yn gyfan gwbl gynhwysfawr fel cysgod i'r Absoliwt. Ond pan ddown at Urdd Sfferol Gwneud, y mae Ffydd yn cronni yn gyntaf mewn Credu neu Ragosod. Mae Ffydd yn meddu ar ansawdd ynghyd â deinameg credu sy'n cynnwys gweithredoedd. Nid Ffydd, wrth gwrs, yw'r unig wedd ar ein bywyd sy'n eiddo i Dduw, ond pob peth — megis meddwl, teimlo, a sfferau ewyllysiol cymdeithas, hanes, a'r economi. Nid oes wrth gwrs fodfedd o'n bod na'n gwneud nad yw'r Arglwydd

Iesu Grist yn datgan, ‘Fi biau hyn.’ Dyma, fel y datgana’n groyw Bantycelyn yn y penawdau i benodau *Golwg ar Deyrnas Crist*, ei brif destun ef.

Mae’r sffêr ragosodiadol (ffydd), fel y gwelsom, yn eiddo i’r sawl a elwir yn anffyddiwr yntau hefyd. Mae gan hwnnw ei ragdybiau a’i ffwythiant ffydd, er bod cyfeiriad honno’n fewnblyg. Saif y sffêr i bawb ar y ffin am ei bod yn sefyll tan edrych dros ofod ac amser tuag at yr Absoliwt/absoliwt. Yn y fan honno byddir naill ai’n credu’r gwir Dduw neu ‘eilun’.

Wrth gyferbynnu pwnc Diwinyddiaeth Gristnogol â’r sffêr ‘Ffydd’, yr ydys yn sylwi ar eu perthynas arbennig wrth reswm: trosgynnol a mewnfodol yw. Gellir cysylltu’r cymdeithasol â materion mewnfodol drwy sôn mewn Mynegiant am sefydliadau megis y Sul a’r Eglwys leol. Dyna weddau gyfundrefnau unigol sydd ar wahân ac yn neilltuedig, ac eto i lawr ynghanol y byd. Ond yn drosgynnol, ar y llaw arall y mae a wnelo’r meddwl diwinyddol oll yn uniongyrchol â’r Ffynhonnell uwchben, yn ogystal ag yn fewnfodol â’r hyn a alwai Pantycelyn yn ‘Olwg ar Deyrnas Crist’.

Ar hyn o bryd, ni ddymunwn ond pwysleisio bod hyn oll yn wedd ar yr Arfaeth.

Rhan yw’r gwaith (o lunio neu o ddarganfod Sfferau) o gategoreiddio a dosbarthu Deunydd fel y gwna’r meddwl yn gynyddol mewn Ideogenesis. Trefnu’n ddosbarthol yw un o brif weithgareddau Iaith. Ac un Sffêr ddosbarthol arall er enghraifft a ychwanegwn at y rhai uchod, un sy’n eu rhagflaenu ym meddwl y plentyn ac sy’n sefyll ar wahân iddynt, yn elfennaidd gynnar, yw’r Sffêr Ddomestig — ac Ymarferoldeb cyntaf beunyddiol bywyd y Cartref. Ar echel Gras Cyffredinol iawn, dyma gyfarfyddiad cyntaf y Meddwl â bywyd. Ymleda pob dim arall yn amseryddol ar ei ôl oherwydd twf soffistigeiddrwydd addysg a phrofiad cyffredin. Cyn esgor ar Gyfundrefn lawn y Sfferau, sut bynnag, dyma Offer deall *en route*. Dyma wrthrych cyffredinol yr offer dadansoddol/cyfansoddol: hedyd y Sfferau oll.

Symudasom bellach, felly, o’r un Wraiddgyfundrefn gynhwysfawr at yr Archgyfundrefnau llywodraethol amrywiol. Dyna ni’n troi oddi wrth yr hyn a eilw Williams yn ‘sgêm’ ac yn ‘gynllun’, a’r ieithyddion seicofecanaidd yn ‘gydlyniad’ tuag at yr offer dadansoddol strwythurol, neu’r Archgyfundrefnau deall unigol. Sylwer mai symud oddi wrth y Cyffredinol tua’r Arbennig a wnaethom. Ond arhoswn o hyd ym myd Strwythureg nid ym myd Ieithyddiaeth. Bellach cyraeddasom Ddeunydd y Byd-Lyfr.

Mae yna rai egwyddorion a ddadlennir am olyniaeth yr Arfaeth ei hun ar y dechrau sy’n goleuo natur y Greadigaeth hyd y diwedd. Materion paradocsaidd ydynt a ddellir i’r credadun naturiol oherwydd colli persbectif y tragwyddol. A’r rhain yw: bod y Rhan mor gyd-angenrheidiol â’r Cyfan cosmig, bod y tragwyddol yn bresennol mewn gofod ac amser, a’r anweledig goruwchnaturiol yn y gweledig. Mae’r cwbl yn ‘organaidd.’ Er bod yna hierarci

DNA fertigol yn yr Arfaeth, y mae diwedd amser — yr effaith — eisoes yn bresennol yn y dechreuad — yr achos, megis y lliwiau yn y sbectrwm yn gyd-liwiau yn y gwyn. Mawrygir y bach hefyd, a thrwy ddibyniaeth ostyngedig y caniatéir cyd-ddyrchafiad. Cerir gelynon. Drwy golli y ceir. Crynhoir hyn oll — y drefn ddirgel hon — mewn un person sy'n Dduw-ddyn. Ac wrth archwilio cymeriad datguddiedig y person rhyfedd hwnnw — a oedd ym mhopeth ac yn bob peth — y daeth Pantycelyn o hyd i'r egwyddorion esboniadol a gynhaliai bob trefn (a alwn ni yn Archgyfundrefnau, ond y bu Pantycelyn yntau'n ymwneud â hwy yn 'organaidd' yn ei fyfyrion ac nid fel traethiad ffurfiol). Yr egwyddorion gweithredol hyn mewn Deunyddiau yw crewyr holl gyfundrefnau deall, a chrewyr cyfundrefnau bodolaeth, a hwy sy'n ein harwain ni i mewn i adeiladwaith crwn plot yr Hierarci. Mae'r plot cudd yn awr yn agor.

Yn y bennod hon, ceisiasom drafod safle yr Arfaeth gyn-greadigaethol. O hyn ymlaen, tan ddiwedd y gyfrol, trafodir cynnwys yr Arfaeth. Yr Arfaeth ei hun yn botensial ac ar waith. Yn gyntaf ac yn sylfaenol, yn fertigol, yr hierarci i Ras Cyffredinol (i bawb) o'r Absoliwt ar y Pen, drwy'r Arfaeth, drwy drefn y Greadigaeth yn olynol ystyrol i lawr hyd at y Motiff lleiaf. Y cwbl hwnnw gyda chyflymder trydanol, nes cyrraedd moment ddeallol Mynegiant. Ond yn ail, erbyn cyrraedd y Sfferau, a chanolbwyntio ar un Sffêr ('Ffydd' yn achos Pantycelyn), ymsefydlir mewn Arfaeth wahaniaethol. Ac yn achos Pantycelyn, agorir dau lwybr thematig a llorweddol mewn amser, yr adeiladwaith creedigol (*Golwg ar Deyrnas Crist*) a'r adeiladwaith gwardigol (*Theomemphus*). Dyna gylched anferth i feddwl hardd.

A. DEALL YR ARFAETH: Beth yw Archgyfundrefn?	166
STRWYTHURO'R ARFAETH	
UN ARCHGYFUNDREFN AR DDEG	
(a) Archgyfundrefnau Ffurio Deunydd	
I. Dadansoddi	
(i) Gwahaniaethu/Tebygu (Gwahuno): <i>Cadarnhaol/Negyddol; Amryw/Un</i>	195
(ii) Arbenigoli/Cyffredinoli	209
II. Cynrychioli	
(i) Arwydd yn lle'r Arwyddedig: <i>Gweledig/Anweledig</i>	224
(ii) Presennol yn lle'r Absennol	256
(iii) Ffurf yn lle Deunydd: yn cysgodi <i>Tafod/Mynegiant</i>	268
(b) Archgyfundrefnau Perthynas Hierarcaidd mewn Deunydd	
(i) Bod/bod (y berthynas fertigol): mae 'bod' yn cynnwys Arch-sfferau a Sfferau Deunydd	278
(ii) Bod/gwneud (y berthynas lorwedd)	305
(c) Archgyfundrefnau Cymhelliad mewn Deunydd	
(i) Gwerth/Trefn (Mawl)	314
(ii) Dibyniaeth /Cynhaliaeth (<i>Incidence</i> : ansawdd cymhelliol perthynas)	325
(iii) Gorchymyn Diwylliannol (cyfeiriad y ddeinameg: <i>Ffrwytho/Goroesi</i>)	346
(iv) Diben/Diwedd	357

A. DEALL YR ARFAETH BETH YW ARCHGYFUNDREFN?

Awn ymlaen, o wedd i wedd yn yr Arfaeth. Does dim modd camu ymlaen yn fras mwyach mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol heb ddiffiniad cynhwysfawr, defnyddiol, a chlir o 'Gyfundrefn'. Diffiniad yw sy'n ei fynegi'i hun, o fewn Arfaeth, mewn lefelau.

Y mae un grŵp o gyfundrefnau sy'n wahanol i'r lleill. Nid cyfundrefnau diwinyddol nac ieithyddol na llenyddol benodol mohonynt. Hwy yw Cyfundrefnau Deall; ac felly, sylfaen ydynt i bob Sffêr ddeunyddiol a ddeallir. Un o'u cynneddfau yw eu gallu a'u rheidrwydd i fod ym mhob cyfundrefn arall. Hwy gyda'i gilydd sy'n diffinio natur cyfundrefn. Gellid o'r herwydd ystyried mai drwyddynt hwy y llunnir ac y diffinnir unrhyw gyfundrefn yn y gwyddorau dynol, a chyfrif mai hwy, yn ogystal â bod yn offer deall yw offer cyfundrefnu'r bydysawd. Galwn hwynt o'r herwydd yn Archgyfundrefnau. Ar ôl yr Arfaeth, y Cynllun cyfun, dyna'r lefel nesaf. Cynnyrch (drych mewn ffordd) ydynt o'r Arfaeth.

Dyma'r cyfundrefnau cyntaf a ddarganfyddir neu a sylweddolir gan blentyn. *Cyn iaith*, perthyn y grŵp yn benodol i'r Deall. Ac fe'u defnyddir yn yr ymateb i brofiadau o bob math byth wedyn. Defnyddir y rhain bob amser i 'ddosbarthu', gwedd gyffredin ar ddadansoddi. Heb eiriau ar y dechrau, yr hyn a geir ganddynt yw'r gallu i ymateb i Sfferau ystyr a Semantemau (unedau ystyr). Fe'u defnyddir i drechu'r tryblith gwreiddiol a brofir mewn argraffiadau synhwyrus sy'n taro ar y plentyn. Mae popeth yn newydd, yn amrywiol, yn newidiol mewn gofod ac amser. A'r gwaith cyntaf iddynt yw darganfod a gwneud trefn.

Bydysawd (syrthiedig) Duw → Dadansoddiad → Bydysawd fel y'i deallir
Pantycelyn

Bob amser mewn llenyddiaeth, fe geir olyniaeth a safleoedd deall.

Mae a wnelo Archgyfundrefnau Deall â phwyntiau seiliol ac elfennaidd mewn dealltwriaeth Gristnogol. Maent yn bwysig i Bantycelyn oherwydd pwysfawredd eu gwirionedd canolog yn ei ddealltwriaeth o'i berthynas bersonol â Duw. Ond y maent hefyd yn elfennau cyfundrefnol sy'n wedd ar yr offer ymarferol o lunio Cyfundrefneg ei hun, gan gynnwys pob Cyfundrefneg i lenorion seciwlar hwythau. Sythwelediadau yw'r rhain mewn trefn feddyliol. Ac yn adeiladwaith meddyliol Pantycelyn, er ei fod ef yn ymwneud â hwy fel artist llenyddol, yn ffurfiol fel petai, y maent hefyd yn greiddiol i'w fyfyrdod am Ddeunydd y profiad crefyddol ei hun.

Nid rhesymiad ond canfyddiad yw sylfaen Archgyfundrefn. Byddai rhesymiad yn rhy ymwybodol. Mae angen sythwelediad o ganfyddiad fel y gellid ymateb iddo'n elfennaidd, heb benderfynu na myfyrio. Cymerer Archgyfundrefn drawiadol amlwg o hyn, sef

presennol/absennol. Mae hyn yn fwy o lawer na sylfaen i gyfundrefn dri-pherson y rhagenw, neu i dymrau'r ferf. Cyn defnyddio iaith o gwbl, rhaid inni *wybod* rhywbeth, yn yr ystyr fod rhaid inni fod yng ngŵydd rhywbeth yn feddyliol. Hynny yw, yr ydym fel pe baem yn dyfod i *wyddfod* gwrthrych neu oddrych, neu y mae'r peth hwnnw'n *bod* yn ein gŵydd ni. Y mae yno i'w weld yn bresennol. Nid rhesymoliad yw cael golwg na cholli golwg ar fam i blentyn. Sythweliad yw. Mae'r cyferbyniad sŵn/absenoldeb sŵn, megis presenoldeb peth/absenoldeb peth, yn ddwfn iawn yn yr isymwybod dynol. Rhed drwy'r iaith. (Ceir y bai 'gŵydd ac absen' yng Ngramadegau'r Penceirddiaid, yn gyferbyniad cyntefig a gadwyd hyd yn oed pan nas deallid.)

Er nad yw Pantycelyn yn neilltuo adran na phennod yn unman i ymdrin â hwy, y mae Archgyfundrefnau yn cael sylw manwl ganddo. Myfyria ef yn ddwys amdanynt. Ac oherwydd eu bod gyda'i gilydd yn cael swyddogaeth mor allweddol yn y Drefn, ac oherwydd bod ganddynt le mor hanfodol wrth lunio cyfundrefneg iaith a meddwl am bob rhyw bwnc, fe'u cesglir hwy gennyf i'w trafod gyda'i gilydd yn y fan hon. Rhagflaenant, oherwydd eu gwaith ffurfiannol, yr holl adeiladwaith arall sydd ym meddwl Pantycelyn.

Ar ryw olwg, ei Archgyfundrefnau yw'r cydlynad mewn deall, iaith, llenyddiaeth a diwinyddiaeth. Dyna sy'n cynnal y cwbl. Y tu mewn i'w fframwaith y mae'r holl iaith a llenyddiaeth yn gweithio. Maent yn fwy cynhwysfawr na chyfundrefnau cyffredin. Pe cyferbynsem gyfundrefn fwy cyfyngedig na hwy, fel cymharu ansoddeiriau neu dymrau'r ferf neu gynghanedd sain, gwelem mai cyfundrefnau yw'r rheini hefyd wrth gwrs; ond lleoledig, achlysurol, arbenigol. Mae rhai cyfundrefnau 'lleol' o'r fath yn eiddo i un iaith, a rhai i iaith arall. Ond y mae'r Archgyfundrefnau yn llywio pob un ohonynt, yn fach neu'n fawr, mewn llawer o ieithoedd onid pob un.

Yr ysfa am roi trefn ar brofiadau bywyd yw un o brif gymhellion cyfundrefn. A hon yw'r cymhelliad cysefin dros ffurfiant iaith a llenyddiaeth. Eisoes, gwelsom y rheidrwydd i gydnabod pwynt absoliwt er mwyn ymddiried yn ymarferol mewn Gwirionedd, a chael cyfeirbwynt diogel i'r hyn a ddywedir: pwynt strwythurol allweddol. Profodd Pantycelyn mewn ysbryd deffröedig fod yna gyfeirbwynt gwrthrychol y tu allan iddo ef ei hun yn y Mab. Roedd Hwn y tu hwnt i'w freuder terfynedig, a'r tu hwnt i wybodaeth (neu'i anwybodaeth dymhorol) ac i falchder yn ei gyneddfau'i hun. Bydd pawb yn dechrau â rhagosodiad. Rhagsyniodd Pantycelyn yntau am beth felly drwy ddatguddiad profedig gwrthrychol a oedd yn fwy na *sensus divinitatis*. Ond profodd Pantycelyn hefyd y gwahaniaeth rhwng yr hyn a synhwyrai ac ef ei hun. Dyma ymwybod â pherthynas *Bod/bod*. Symudwyd o'r ymwybod o'r Bod, i'r cyswllt rhwng y bod a'r Bod. I'r plentyn, gall Gras Cyffredinol ymddangos fel ofn

tywyllwch neu'r goruwchnaturiol neu ymwybod o *Fawr/bach*; ond gwybod yw hwnnw hefyd. Yn achos Pantycelyn, cafwyd profiad ychwanegol am Ymgrawdoliad y Mab yn ei ymwybod adferedig, yn Ei Gariad, y Gair a lefarwyd o ddifrif, y dystiolaeth wefreiddiol ym modolaeth a threfn y Greadigaeth, y gydwybod yn yr ymwybod, a datguddiad gan yr Ysbryd Glân. Dechreuodd Pantycelyn ymwybod â'r gwahaniaeth rhwng yr Uchaf a'r Isaf. Deffrôwyd ef i sioc o berthynas mewn gwahaniaeth hefyd: absennol/presennol. Y drefn hon, *wedi sylweddoli'r Absoliwt* a bod yn ei wÿdd, oedd ail reng deall Pantycelyn.

Ceisio efrydu yr ym beth oedd dealltwriaeth 'uwchnaturiol' Pantycelyn o'i brofiad ei hun. Ac ym mha le a sut y cafodd ei Ddeunydd llenyddol? Wedi ymsefydlu eisoes mewn cyfeirbwynt neu ragosodiad angenrheidiol, dechreuai ystyried beth oedd ei offer ymarferol yn awr ar gyfer deall pethau. Dyma'r doniau cyffredinol a roir i ddyn, bob dyn, i geisio gwneud y gwaith o amgyffred y Greadigaeth fel profiad personol cysylltiol. Pan fo Calfiniaid yn canfod doniau naturiol wedi'u rhoi i ddynion yn ddi-wahân, boed yn Gristnogion neu'n Seciwlariaid, defnyddiant y term 'Gras Cyffredinol.' A Gras Cyffredinol yw'r gynneddf a ddefnyddir i ddeall popeth.

Ychwanegiad oedd yr hyn a gafodd Pantycelyn ar ôl hyn. Gras o hyd, ond Gras Arbennig yn y galon, gras a oleuai'i ddoniau cyffredin, Gras a oleuai'i gynneddfau naturiol. Dyma'r hyn a elwir yn 'scandal of particularity' (M II, 62 yml.) Soniais am yr ysfa i roi trefn ar fyd a bywyd. Ond gwyddai Pantycelyn, a gwyddom ninnau'n fanylach fod yna drefn eisoes yno, y tu allan iddo. Cyfundrefnwyd y bydysawd oll. Ni chaed Mater haul na'i blanedau heb gyfundrefn ddisgyrchiant, na heb atomau cyfundrefnol, mwy na bywyd heb gelloedd cyfundrefnol, na chorff dynol heb gyfundrefnau organaidd. Ac ymhlith y rhai olaf hyn, ceid cyfundrefn yr ymennydd. A'r ymennydd hwnnw a ddeallai. Ond uwchlaw hyn oll, ceid trefn ddyfnach yr Arfaeth. Ac yr oedd cynneddf arall — Arbennig — ar gyfer deall honno hefyd. Nis ceid yn llawn heb ddeall patrwm y berthynas rhwng bod a Bod.

Sut y mae dyn cyffredin yn deall? Drwy fethodoleg gyfundrefnol seml, drwy ddeddfau sythweliadol trefnus. Rhaid i ddealltwriaeth ddynol ddechrau drwy fod yn gyfuniad o ddwy elfen gyda'i gilydd yn undod: sef *gwahanu/uno=gwahuno*. Nid y naill na'r llall yw: ni ddeallir heb wahaniaeth ac undod rhwng y naill yn y llall yn broses gydlynol. Ffurf arall (ffordd Guillaume) o ddweud yr un peth o fewn Tafod yw bod y meddwl yn ymateb i bopeth yn arbennig ac yn gyffredinol (*particularisation + généralisation*). Profir yr unigol neu'r achlysurol, a phofir ei gysondeb. Uned sy'n cynnwys rhannau cydlynol yw cyfundrefn, felly.

Gwnaethpwyd Llyfr y greadigaeth oll, a llenyddiaeth ei hun felly, yn Gyfundrefn o gyfundrefnau. ‘Nid yw Duw yn chwarae dis,’ meddai Einstein. A rhaid yw dirnad ac amgyffred y cyfundrefnau hynny drwy gyfundrefnu deall.

Dyma’r ffyrdd y dewisodd Duw i’w ddatguddio’i hun i Gristnogion — yn Dri yn Un; yn Anweledig ac yn Weledig; yn Absennol ac yn Bresennol; yn ymwneud â Gwerth, Trefn, a Phwrpas; yn Gynhaliwr ac yn Gyd-ddibynnol; yn Gariad, ac yn Wahaniaeth mewn Undod.

Felly, ar drothwy trafod yr Arfaeth y myfyriai Pantycelyn yn ei chylch, gwiw inni ystyried yr offer deall yr oedd yn *gorfod* eu defnyddio. Ac yn hyn o beth yr oedd yn debyg i bob llenor arall. Ynyswn gyfundrefnau Cyn-dafod (sef yr Archgyfundrefnau) oddi wrth Gyfundrefneg Tafod Iaith am eu bod, a hwythau’n gynieithyddol, yn ddefnyddiol wrth drafod daearyddiaeth a llenyddiaeth a phob gwyddor gyfundrefnol fel ei gilydd.

Cawn weld fod yr offer deall a ddefnyddia ef, — megis *gwahuno* — yn gorfod bod yn bresennol ymarferol ym mhob llên. Ond heblaw’r gyfundrefn ddeall gyffredin hon, y mae’r Cosmos ei hun yno yn gyffredin i bawb ac yn wrthrychol ddeddfol. Rhanna goddrychau a gwrthrychau mewn bodolaeth yr un nodwedd gynhenid rhyngddynt â’i gilydd: cyfundrefnu. Yn hyn oll y mae’r anghredadun a’r credadun i raddau yn gallu deall ei gilydd ym maes Gras Cyffredin. Ond drwy Ras Arbennig y deffröwyd Pantycelyn i’r Offer Deall creiddiol, y Cyn-Dafod neu’r Archgyfundrefnau hyn, er mai ffactorau neu safleoedd neu gyfundrefnau Gras Cyffredinol oeddent.

Offer creadigol oeddent, o safbwynt y disgrifiad o’r Weithred Lenyddol. Mae a wnelo’r Archgyfundrefnau yn y gyfrol hon yn bennaf â Methodoleg. Pan symudwn ymlaen i sylweddoli ac i ddadansoddi Sfferau Ystyr a Themâu Ystyr, cawn weld y rhain ar waith. Dangosant er enghraifft pam a sut y ceir deuoliaeth ysbryd (ffurf) a chorff (sylwedd — sfferau a themâu).

Ond wrth gwrs, fel y gwelsom, y mae’r Absoliwt Goruwchnaturiol a’r absoliwt Naturiolaid yn bur wahanol i’w gilydd. Mae’r naill ar waith yn y llall. Rhaid iddynt ill dau feddu ar ragosodiad neu ragdybiaeth. Ac yno, caed y gwahaniaeth dirfawr. Ar un olwg, y mae Pantycelyn yn yr un sefyllfa â phagan megis Talhaiarn, o safbwynt Gras Cyffredin yr Offer Deall, neu’r Archgyfundrefnau. Galwn y rhain yn Archgyfundrefnau am mai cwmpasog ydynt ac am mai hwy sy’n amodi neu’n cyflyru, yn strwythuro neu’n esgor ar bob cyfundrefn sydd i’w chael. Roeddent ill dau yn llenorion. Mae a wnelom â pheirianwaith sy’n gyffredin i bob thema neu gredo beth bynnag. Ceisio trafod fframwaith ‘gwyddonol’ o ddeall drwy gyfundrefnu yr wyf. Ac yr wyf yn honni bod yr Un ar Ddeg o Archgyfundrefnau a nodaf ac a

esboniaf yn benderfyniadol i'w cael yn null ffurfiad pob rhyw gyfundrefn. Ond i Bantycelyn, yr oeddent hefyd yn bwnc i'w ystyried.

Cyffredin a chwmpasog i bawb, felly, yw rhychwant y Sfferau o Ddeunyddiau a drafodir maes o law. Ar ôl y symudiad meddyliol hierarcaidd o begwn yr Absoliwt i lawr drwy'r Arfaeth (yn y Rhagdybiaeth oruwchnaturiol) i mewn i fyd Natur a'r Archgyfundrefnau ffurfiannol, drwy'r Cytser o Ddeunyddiau a ddsberthir gan ddyn wrth drafod y byd, ni chyfarfyddwn yn effeithiol â'r un gwahaniaeth *cynhwysol* nes cyrraedd Themateg. Dyma'r lle yr â'r Sfferau Deunyddiol Arbennig ar waith. Ar lefel Themâu Cyfundrefnol y down hefyd wyneb yn wyneb â Gras Arbennig sy'n sianelu credadun ac anghredadun i lefelau a fframwaith o gyfundrefnau gweithredol sy'n sylfaenol mor wahanol i'w gilydd â'r gwahaniaeth ansawdd rhwng Absoliwt ac absoliwt cychwynnol. Gwir, ar hyd y daith, fod yna wahaniaeth yn y dull o ymagweddu at bopeth oherwydd Absoliwt; ond o fewn lleoliad yr un Archgyfundrefnau a'r un Deunyddiau dosberthir yn ffurfiol drwy'r lefelau yna. Eto, pan gyrhaeddwn *Themâu* Cyfundrefnol, y mae'r Credadun (Pantycelyn) yn gweithio'n benderfyniadol wahanol o ran Deunydd i'r anghredadun (Talhaiarn).

Hynny yw, yr un fframwaith strwythurol 'allanol' — yr un ysgerbwdd corfforol a syniadol — sydd i'r llenor o Gristion ac i'r llenor o anghredadun, fel gyda gramadeg iaith. Ond erbyn cyrraedd y plot a'r thema a estynnir i mewn i Fynegiant, y mae'r Cynnwys i'r rheini yn ymwahaniaethu, wrth reswm. Daethom i gasgliad annisgwyl, er hynny: fod Archgyfundrefnau a Deunyddiau Pantycelyn yr un fath o hyd o ran strwythur a safle â rhai'r anghredadun (gan gynnwys y rhai esthetig); ond iddo ef ychwanegwyd dimensiwn ychwanegol a ffrwyth gwahanol mewnol a thematig yn y Diben. Yno y mae ei themâu yn lletach ac yn bur wahanol i rai'r anghredadun o ran bodolaeth a defnydd — ac o ran strwythur a sylwedd. Symudwyd o Ras Cyffredinol i Ras Arbennig (a Gras Cyffredinol), a Sgandal arbenigoli.

Mae yna wahaniaeth hefyd mewn difrifoldeb neu ddwyster.

I Bantycelyn, cyfetyb yr Absoliwt, o ran safle a ffaith amodol, er yn gyferbyniol, i absoliwt yr Ego Trosynnol (i'r anghredadun). Cyfetyb arwyddocâd y drefn yn yr Arfaeth (i Bantycelyn) i'r isymwybod o drefn y mae'n rhaid i'r anghredadun ei dderbyn mewn bywyd. Cyfetyb hyd yn oed yr argyhoeddiad ingol o Bechod Gwreiddiol gan Bantycelyn i ryw fath o ymwybod annelwig ynghylch presenoldeb ambell feff hollol 'ddibwys' efallai ynghyd ag angau mwy dirfodol i'r anghredadun. Ond nid oes yr un o'r rhain yn ysgytio'r anghredadun fel yr ysgytient Bantycelyn i'w seiliau. Yr unig eithriad gwir amlwg efallai yw'r ymwybod o farwolaeth (sydd i Bantycelyn yn wedd ar gyfundrefn y Pechod Gwreiddiol). Yn hynny o

beth, y mae'r arswyd a'r gwacter a'r absenoldeb ysbrydol a all lethu'r anghredadun hyd at ing aruthr yn gallu troi'n hyfrydwch pur i Bantycelyn. Rhan yw hynny o'r 'berthynas'.

Ynglŷn â'r Absoliwt, sef awdur yr Arfaeth, oherwydd yr ymbellhau a'r alltudio rhagddo yn y Cwyp, yr oedd Pantycelyn wedi profi *gwahuniaeth* y cadw. Gwelai ef y cudd mewn cyd-destun tragwyddol. Yr oedd maint yr ymostwng a'r dirfawr ymwybod o dlodi ysbryd gerbron Cariad ei hun yn ei holl eithafwrwydd glân yn peri bod cyfeiriad yr holl hierarci ddeallol bellach — er meddu ar gynifer o elfennau cyffredin — yn gwbl wahanol hefyd. Hynny yw, yr oedd y cwbl mewn gwirionedd yn cael ei benderfynu nid yn unig gan Absoliwt y dechrau, eithr hefyd gan Themateg odidog y diwedd.

Down yn ôl felly gyda'n gilydd i ganolbwyntio ar yr Archgyfundrefnau cyfeiriol cyntaf. Gwelsom ble y maent yn mynd yn y blaen. Maent yn mynd i ddadansoddi'r bydysawd, neu'r rhychwant o Ddeunyddiau ac o Themâu Cyfundrefnol er mwyn i Bantycelyn ddeall y gwrthrychau y mae am eu trafod. Os wyf yn gywir, dyma ddarganfyddiad newydd. Ni chredaf fod hyd yn oed seico-gyfundrefnwyr wedi cydnabod y cwlwm hwn.

Ond o ble mae'r Archgyfundrefnau hyn wedi dod? Y maent ar gael ac ar waith yn greedig yn y plentyn cynieithyddol, ac wedi bod ganddo oherwydd yr Arfaeth a Gras Cyffredin. Sythweliadau elfennaidd ydynt.

I Bantycelyn, rhai o briodoleddau'r Duwdod a ddatguddiwyd gan yr Absoliwt yn y Beibl oedd yr Archgyfundrefnau hyn. Eu swyddogaeth hwy oedd ei gynorthwyo ef, drwy ddatguddiad o awdurdod cymeriad y Prif Awdur Creadigol, i amgyffred natur gwerth yr absoliwt yn llawnach i bawb. I ninnau, sy'n efrydu iaith a llên, dyma'r offer cyffredinol arferol ar gyfer deall a dadansoddi popeth yn llyfr y Greadigaeth. Offer sylfaenol yn y *psyche* a ddefnyddir i amgyffred trefn bywyd. Mabwysiedir yr offer hyn i greu trefn gelfyddydol ac i ddeall ystyr trefn. Ac fe'u ceir hwy ar waith drwy gydol yr Hierarci Ddeunyddiau — yn y Sfferau Deunydd, yn y Themâu, megis yn y Motiffau. Y maent ar waith drwy gydol Tafod a Mynegiant.

Mae'r deall dynol yn ceisio chwilio am ystyr drwyddynt hwy yn ei amgylchfyd, ac y mae'n gallu rhagdybio hynny, ac yn wir y mae'r ystyr ei hun *yno'n* uno oherwydd bod cyfundrefn yn y gwrthrych megis yn y goddrych. Trefn yw ystyr, yn y bôn. A hanfod trefn yw iawn berthynas.

Dathlu deall o'r fath yr oedd Williams Pantycelylyn yn ei holl waith, megis mewn dimensiwn ysbrydol.

Pan soniwn am gyfundrefnu, er hynny, sôn yr ŷm am driliynau o ffenomenau sydd ym mhob man ledled y greadigaeth. Ymhlith y rheini mae yna un cwlwm cynnil cynieithyddol o

gyfundrefnau dadansoddi sydd yn arwyddocaol ar gyfer eu deall ag ystyr. Ac yn sgil y rheini, o ran datblygiad, drwy *ddeall* iaith yr enillir y medr i *gynhyrchu* iaith.

Mae'r camre wrth ennill y gyfundrefn ddeall ddechreuol hon yn drefnus. Gellid crybwyll yn enghreifftiol rai o'r offer cyntaf syml ac amlwg a ddefnyddir wrth ddysgu iaith.

1. Mae'r plentyn yn meddu ar y gallu i *wahaniaethu* deall (e.e. tad, mam) fel y tystia'i ymddygiad. Ymateb sythwelediadol cynieithyddol yw hyn, nid rhesymu.
2. Mae'r plentyn yn meddu ar y gallu i ganfod *tebygrwydd* (bras a manwl) ac i weld delwedd ailadroddol (e.e. mam y fan yma a'r fan draw). Unwaith eto, nid rhesymu yw hyn: sythweled cof yw. Mae'r gynneddf yn perthyn i gyfundrefn *negyddu/cadarnhau* wrth ymuno â gwahanu. Gydag 1. uchod daw'n gyfundrefn wahuno gron.
3. Mae'r plentyn yn clywed ac yn adnabod arwyddion, ac yn cysylltu arwyddion (neu amgylchfyd) ag ystyron (arwyddedigion): dyma gam mawr maes o law rhwng Cyn-dafod a Thafod, Cyn-iaith ac Iaith. Cam tuag at symbol yw, tuag at gynrychiolad.
4. Mae'r Cyn-dafod hwn yn rhagflaenu pob iaith. Fe'i hadeiledir nawr yn anwel yn y meddwl. Gellir nodi'r Cyn-dafod yn ôl cyfundrefnau eraill sy'n tyfu megis 1-3 uchod: arbenigoli/cyffredinoli, dibynnu, gweledig/anweledig, presennol/absennol, un/lluosog (dau/tri; deuoedd/trioedd), ymateb i werth/pwrpas. Ychwanegir rhagor eto. Nid adeiledir mo'r rhain gan reswm. Fe'i hadeiledir gan sythweled a chan Ddeddfau cynhenid. A rhoddir 'rheolau' sylfaenol iddynt a wneir yn wrthrychol yn y bydysawd... Yn awr y mae geiriau'n bosibl.

Oni ddylai'r un cwlwm hwn o gyfundrefnau rhagflaenol arwain at un iaith? Ddim mwy nag y bydd deuddyn yn esgor ar glonau o blant. Hyd yn oed gyda chyfundrefn seml *arwyddedig+arwydd=arwyddiant*, gellir cael sawl arwydd ar gyfer yr un arwyddedig, a sawl arwyddedig ar gyfer yr un arwydd. Yn sicr, ceir gwahanol arwyddion mewn gwahanol ieithoedd ac mewn gwledydd gwahanol. Dadansoddir y gwahanu yn wahanol.

Nid o'r tu mewn i iaith, i ddechrau, y canfyddir Cyn-dafod, wrth reswm, er bod modd o'r tu mewn i ieithoedd wedyn sylwi a haniaethu'r cyfundrefnau cyffredin sy'n bod, yn rheolaidd, ac yn rhagflaenol ynddynt. Mae'r cwlwm hwn o gyfundrefnau yn barod cyn gweithredu Ideogenesis. Rhan yw o'r Drefn.

O safbwynt Pantycelyn yn *Theomemphus*, megis gydag Adda, y mae pob ymadawiad â Deddf Duw (er i Dduw wneud y ffin arbennig gyntaf mor aruthr o dila) yn sarhad ar Ei Ogoniant, yn falchder yn erbyn y Daioni. Symbol yw. Mae dyn yn pechu'n erbyn y Drefn yn syml oherwydd y 'gall' ef ei wneud, oherwydd ei bod yno, ac yn arwydd o Dduw. Mewn gwirionedd, nid peth i'w gwestiynu yw Deddf: rhodd gariadus yw, cynhaliaeth amgylchfyd. Darganfyddiad Sythwelediad yn y gydwybod, nid rheswm, yw'r cyswllt i ddyn. Y ffordd orau i sylweddoli'i arwyddocâd yw sylwi ar statws disgyrchiant yn ein bywyd naturiol.

Un o brif swyddogaethau deddf unol yw olrhain priodol berthynas a dibyniaeth y rhan(nau) ufudd.

Offer sythwelediad (datguddiadwy) yw'r Archgyfundrefnau, fel y gwelsom: nid cynnyrch rhesymu mohonynt. Nid cynnyrch ymwybodol mohonynt: fe'u canfyddir neu fe'u darganfyddir 'yno'. Mae'r offer hyn yn gyd-gyfrifol am roi trefn ar dryblith bywyd. Y dyfeisiau hyn sy'n dod o hyd i lwybr drwy'r cythrwbl synhwyrus oll. Mater yw o ddarganfod cyswllt neu berthynas pethau. Maent yn dadansoddi, ac yna'n ieithydda'r deall drwy'i gynrychioli.

Cyflwynir Archgyfundrefnau yn gynnwys. Hwylfydd yn dadansoddi'r Sfferau, y Meysydd Ystyr.

Dyma gyflwr ar ddeall cynhenid, felly, sy'n rhagflaenu rheswm. Meddai Gustave Guillaume (*Principes de linguistique théoretique* 45) amdanynt: 'Le credo qui se passe de tout raisonnement'. Ond credaf fod rhaid inni fynd yn ôl ymhellach hyd yn oed na'r cyfundrefnau hyn at yr Un yn yr hierarci a alwn yn Absoliwt. Wrth inni gymryd ein bodolaeth ein hun yn ganiataol, a derbyn dibyniaeth Gwirionedd ynghylch bodolaeth pethau a'r hyn sy'n digwydd yn ganiataol, y mae a wnelom ag ymwybod mewnol ag Absoliwt hunan-ddibynnol. Ymgysyllta hyn â'r nerth a'r drefn sy'n wrthrychol y tu allan inni. Drwy sefydlogrwydd ymdeimlad â dimensiwn o'r fath y gellir cytuno â'r hyn a ddywed Calfin (*Inst.* I, iii, 1; I, v.1; I, x.3) fod yr Hollalluog ei hun yn ymddangos i'r bod dynol drwy *sensus divinitatis* neu *semen religionis*. Mynegir hyn yng nghyffredinolrwydd crefydd, yn y gydwybod, a'r ofn ynghylch Duw. Dengys McGrath fod y dystiolaeth wrthrychol o hyn yn eglur yn ein profiad o drefnusrwydd y ddaear (M I, v, 1-15). A dadleua ef y dylai'r fath dystiolaeth fod yn hen ddigon i bawb gael rhyw syniad o Dduw (cf. *Inst.* I, x, 1). Nid oes a wnelo hyn er hynny â llwyr adnabyddiaeth waredol o Dduw. Sonia McGrath (M I, 277) yn hytrach am ddiwinyddaeth debyg i hyn, ond sy'n fwy cyfundrefnol na Chalfin, gan Beza: 'Beza's language points strongly towards a natural knowledge of God within human nature which is *innata, insculpta, or insita*'.

Rhagdybiau bob amser yw calon y gwrthwynebiad i Grefydd. Yn wir, hyd yn oed i Gristnogion, gall y cysyniad o 'Drefn' grefyddol fod yn dân ar groen yn aml. Ac i'r Rhamantydd yng nghefnidir Pantycelyn, y mae Trefn (ac yn arbennig Gyfundrefn) yn anathema hysbys. Eto, y gwir yw na all y meddwl weithio'n sylfaenol mewn unrhyw faes onid yn sythweliadol gyfundrefnol. Cyfunir gwahanu (neu ddadansoddi) pethau ynghyd ag uno (neu gysoni) pethau. Ac felly yr ydys yn deall. Gorfodol (gair cas i'r Rhamantydd) yw'r cyfuniad gan y ddau begwn hyn. Ni ellir troi yr un ffordd heb sylwi ar drefn o'r fath ym mhob twll a chornel. Ni ellir deall natur llenyddiaeth hebddi.

Y wedd a gais Ôl-foderniaeth, ers tro, yw 'gwahanu' heb uno. Ymddengys yn 'rhydd' yn 'oddrychol', yn 'wyllt' ac efallai yn 'ddigrif'. Bid a fo am hynny, poblogaidd neu beidio, trefn yw'r peth cyntaf a sefydlodd Duw yn y bydysawd wedi bodolaeth; ac mewn iaith, deall, a meddwl nid oes ond trefn yn sylfaen hyd yn oed i ffug anhrefn yr Ôl-fodernydd.

Ond os rhagdybiau dychmyglon yw gelyn Crefydd, rhagosodiadau gwybod real yw'r pwynt amddiffyn iddynt. Dogmâu yw'r rhagdybiau mawr. Nid oes dogma, onid dogma seciwlar, sy'n ystyrlon i'r seciwlar.

Dichon mai'r ddadl gryfaf yn erbyn y dehongliad 'Rhamantaidd' o Williams Pantycelyn yw ansawdd cyfundrefnol ei feddwl. Roedd ei ymwybod o drefn a chynllun bron yn obsesiynol. Yr oedd y drefn ym mhob man iddo. Ni allai ef symud, fel na ddewisai Duw yntau symud, heb gynllun. Yn ei fryd ef roedd cyfundrefnau'n sylfaen i'r Greadigaeth oll.

*

*

*

Wrth geisio olrhain adeiladwaith meddwl y Cristion a'r awdur Pantycelyn, y mae'n angenrheidiol inni sylwi ar *briodoleddau* Duw, yr Absoliwt ei hunan. Yn wir, drwy fyfyrion ar hynny y daeth Pantycelyn i ddeall, nid yn unig natur yr Un a addolai, eithr hefyd ei natur ef ei hun, ac yntau ar ddelw Duw, a'r greadigaeth y gosododd Duw ei fryd arni.

Dechreusom ninnau'r myfyrdod hwn drwy sylwi ar y priodoledd sy'n llywodraethu'n ffurfiol bob priodoledd arall, sef yr Absoliwt, yr oll yn oll. Dodasom y disgrifiad ffurfiol 'Gwraidd-gyfundrefn' ar gysylltiad cyntaf Hwnnw â'i fydysawd, sef ei Gynllun — Arfaeth y Deunyddiau oll, nid yn unig oherwydd ei bod yn bwysicach na'r un gyfundrefn arall, ond am mai dyma'r cydlyniad, yr un sy'n cwmpasu ac yn ymwneud â chydberthynas pob dim.

Mae Pantycelyn yn *Golwg ar Deyrnas Crist* fel y gwelsom yn dechrau'r caniad sy'n sôn am Greadigaeth Dyn: GWWP I, 75, sef yr Ail Bennod, a Rhan y Chweched.

*Rhyw lyfyr yw'r greadigaeth, aneirif faint ei ddail,
Yn dodi 'maes ogoniant diderfyn Adda'r Ail;
Ei holl briodoliaethau a welir yn ei waith,
A'i ddyfais anchwiliadwy o dragwyddoldeb maith.*

Yn y fan yna y cawn yr allwedd i'n hastudiaeth. Ceisio gweld yr ym 'briodoliaethau' Duw ar waith yn ei greadigaeth, a meddwl Pantycelyn amdanynt ar waith yn ei gyfansoddiadau. Priodoleddau ydynt a gyd-drefnwyd yn greadigol. Y maent yn ymdrefnu'n gyntaf yn ddau fath, sef y priodoleddau ffurfiol a'r priodoleddau cymhelliol. Ceisir trafod y rheini yn y gyfrol hon. A gwelir y modd y mae'u deunydd hwy yn cael ei amodi o fewn yr adeiladwaith cyflawn hwnnw. Yn wir, daw'r ffurf a'r cymhelliad yn ddeunydd hwythau i'w trafod yn y testunwaith hwn.

Bellach, troesom o fewn y Wraidd-gyfundrefn yn benodol at lefel ei Harchgyfundrefnau, un ar ddeg ohonynt (o leiaf), bob un yn cyflyru gweledigaeth a dealltwriaeth Pantycelyn o rai o briodoleddau perthnasol Duw fel y maent yn cyflyru Deunydd a ffurf ei Lyfr Creadigol ei hun.

Yr wyf yn ceisio hunaniaethu a diffinio lefel ffurfiol yr 'Archgyfundrefnau' o'u cyferbynnu â'r Wraidd-Gyfundrefn uchod (yr Arfaeth) ac â'r Gyfundrefn ddilynol o Sfferau Deunydd a Themâu Cyfundrefnol isod. Yr Archgyfundrefnau ym meddwl Pantycelyn yw'r rhai llywodraethol rhagflaenol, a dadansoddol i Ddeunydd (megis gan y Wraidd-Gyfundrefn); a chânt ddylanwad strwythurol maes o law ar y Cyfundrefnau Thematig. Lle bynnag y bydd Cyfundrefn ieithyddol ar waith, fe geir ynddi bob un o'r Archgyfundrefnau hyn. Ond sylwer mor wahanol ydynt yn hyn o beth i Gyfundrefn Thematig. Nid yw Cyfundrefn Thematig, megis *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*, er mor ganolog yw mewn Cristnogaeth, yn bresennol ymhob Cyfundrefn arall yn yr Arfaeth. Dyna i mi yw'r maen prawf gwahaniaethol. Themateg yw hynyna, yn benodol. Yr wyf yn argyhoeddedig fod yna Archgyfundrefnau eraill, heblaw'r un ar ddeg. Yr hyn a wna yma yw sefydlu'r egwyddor a'r swyddogaeth. Ymgyfyngaf yn y fan hon i enghreifftiau o blith clymiad.

Bûm yn ceisio ystyried y cwlwm *Sefydlog/Ansefydlog* er enghraifft fel cyferbyniad strwythurol posibl arall i'w ynysu a'i hunaniaethu'n 'Archgyfundrefn' ar y lefel ffurfiol hon. Un o nodweddion Cyfundrefn yw ei deinameg ynghyd â'i pharhad. Yn sicr, yn isymwybodol, mae hyn yn ddsbarthiad cyferbyniol cyntefig a chyffredin, sylfaenol yn wir i'n hymwybod o fywyd. Deinameg yw'r hyn a esgorodd ar yr egwyddor enwog o 'wyro' a geid gan Sclofsci (yr egwyddor a gyfetyb gennyf i i'r ail yn y gyfundrefn digyfnewid/cyfnewidiol). Ac wrth geisio trafod 'Ffigurau a Throadau Ymadrodd' yn gyferbyniol, dyma'r hyn a awgrymais (yn *Seiliau Beirniadaeth*) fel yr egwyddor lywodraethol wahaniaethol yn y Gyfundrefn arbennig honno. Dyma a geir hefyd yn *Gofod/Amser*. Ond tybiaf fod yna ddwy ffordd arall lle y mae eisoes yn cael sylw. Yn gyntaf, ac yn amlwg, yn *Bod/gwneud*. Ac yn ail, yn llai amlwg, tybiaf (a safbwynt Guillaume yw hyn, wrth dadogi'r term Seico-ddeinameg ar ei weithgaredd) fod y

berthynas rhwng elfennau o fewn Cyfundrefn bob amser yn ddeinamig (oherwydd gwahanu ac uno er enghraifft). Hynny yw, y mae gogwydd delweddol neu feddyliol bob amser yn perthyn drwy symud cyfeirbwynt rhwng safleoedd. Nid strwythurol statig mohonynt: naid yw mewn bodolaeth. I mi dyma'r union nodwedd berthynol sy'n diffinio'r hyn a geir yn ddiarnheul ar waith mewn *Gwahuno*. Dyma'r gwth sydd ym mhob gair ac ym mhob Cyfundrefn ieithyddol i weithredu ac i glymu cysondeb sefydlogrwydd yr uno ynghyd â gwahanu'r amrywiaeth. Fel yna yr anelwyd at y diffiniad o'r Gyfundrefn hon. A thebygaf fod hynny, *Gwahanu/Uno*, yn Archyfundrefn gyferbyniol sy'n sefydlog bresennol ac yn gynhwysfawr ym mhob Cyfundrefn ieithyddol unigol arall. Fy nhybiaeth, o'r herwydd, am *Sefydlog/Ansefydlog*, yw mai cyfnither o gyfundrefn yw i'r Archgyfundrefn 'gwahuno'; a bodlonaf ar ei chanfod am y tro yn nythu o fewn cyfundrefnwaith digonol fel yna, heb fanylu.

Felly y cyrhaeddais y cnewyllyn presennol o un ar ddeg, drwy gynnig a methu a chysylltu. Dichon yn wir — y mae'n bur debyg — fod yna rai Cyfundrefnau eraill sy'n Archgyfundrefnau dilys, llawn haeddiannol o lawer mwy o sylw. Eithr, ar hyn o bryd, teimlaf yn hyderus ynghylch hollbresenoldeb yr un ar ddeg hyn mewn iaith yn arwyddocaol wahaniaethol hefyd ar y lefel lenyddol (a diwinyddol) hon. Dosbarthaf y rhain yn dri dosbarth. Ond y maent yn gorgyffwrdd. Ac felly y byddid mewn Adrannau eraill yn yr astudiaeth. Er enghraifft, gallwn fod wedi cynnwys Cariad yn nosbarth Sffêr Deunydd, ond nis gwneuthum gan fod Cariad Duw mor unigryw, ac yn fwy na Deunydd. Mae mor anniffiniadwy â Duw ei hun. Ond dewisais ei ddosbarthu o dan Gymhelliad. Gallwn fod wedi cynnwys Ffydd gyda'r nawfed Archgyfundrefn, ond dewisais ei dosrannu gyda'r Sfferau Deunydd, oherwydd ei Chynnwys amlochrog.

Ceisio yr ŷm olrhain yn bennaf adeiladwaith meddwl llenyddol Pantycelyn. A throir i sylwi ar ei gyneddfau creedig. Maent yn gyffredin i bawb go normal. Sef y pum synnwyr, ynghyd â'r cof, y rheswm (cyflawn sy'n cwmpasu'r meidrol a'r anfeidrol), y dychymyg ac wrth gwrs *sensus divinitatis* (y synnwyr o Dduw a'r gydwybod). Gyda'r rhain y dosbarthaf yr Offer deall (archgyfundrefnau) sy'n cyflyru Deunydd a Thema.

Sylwasom eisoes ar y trosiad '*Rhyw lyfr yw'r greadigaeth*'. Mae delwedd y 'llyfr' i'r greadigaeth yn arwyddocaol iawn wrth gwrs i astudio llenor — seciwlar neu Gristnogol, a'r cysylltiadau esthetig synhwyrus.

GWWP I, 75 *Ei holl briodoliaethau a **welir** yn ei waith, medd y pennill cyntaf.*

*Ond Dyn sy'n fyd ei hunan, cair **gweld** y Brenin mawr
Yn hwn yn fwy **gweledig** na dim o'r nen i'r llawr.*

76 *Mewn purdeb a gwybodaeth 'r un lun â Brenin nef.*

I'r llenor seciwlar, megis i'r Cristion, 'yn y gweledig y mae'r anweledig yn weladwy.' Felly y mae Mynegiant Duw a dyn: Ef a ni yw pwnc awduraeth Duw.

Mae Pantycelyn yn cyfarch Duw fel yr 'awdur pur', yn meddwl ac yn saernïo, yn defnyddio'i 'anfeidrol ddeall', ac yn gweld dyn ynddo Ef ei hun, a hwnnw'n gweithio ar lun Duw ei hunan. Mae'n gallu darllen llyfr y greadigaeth.

81 *Mae'th archwaeth yn oruchel, rhaid i'th synhwyrâu 'gyd,
A holl bŵerau'th enaid gael eu digoni 'nghyd.*

82 *Yn deall fod fy nelw deg wedi ei rhoddi i ti,
Na rowd i'r anrhesymol erioed mohoni hi.*

82 *Un sugna'th glust a'th lygad, a'th galon yn gytún ...
Mewn rheswm a gwybodaeth, ...*

Byddai rhai o'n beirniaid Cymraeg gynt (fel John Gwilym Jones yn yr ugeinfed ganrif) yn tra-phwysleisio'r pum synnwyr, megis empeirwyr y ddeunawfed ganrif, fel y ceid athronwyr positifaid hwythau ynghynt (yn y ddeunawfed ganrif eto) yn tra-phwysleisio rheswm. Ond at ei gilydd, mwy holistig oedd golwg Pantycelyn ar botensial yr awdur dynol. Ar y lefel gyntaf elfennaidd, gyffredinol i ddynoliaeth ar gyfer llenyddiaeth, — sef y cyneddfau teimladol a rhesymol —, aeth y cwbl ysywaeth yn syrthiedig. A rhan bwysig o'r medrau ganedig hyn oedd hunanymwybod, yn ei holl briodoleddau naturiol a goruwchnaturiol.

82 *A deall 'r wyt dy hunan sy o ardderchocach rhyw.*

Ei ddeall ei hun yr oedd Pantycelyn gan bwyll, wrth bendroni a chwilota trefn ymhlith yr elfennau gwahanol yn y Greadigaeth ac ymysg yr athrawiaethau Cristnogol.

Tri pheth na ddisgwyliwn i efallai eu canfod, wrth ymorol i archwilio adeiladwaith meddyliol Williams, oedd hierarci a gynhwysai

(i) Cytser o Archgyfundrefnau Ffurfiannol;

(ii) Prif Gyfundrefnau diffiniol y Sfferau Deunydd;

(iii) Cyfundrefnau Thematig mewn Mynegiant yn cyflyru ac yn ffurfio *motiffau*.

Ond wedi canfod adeiladwaith y rhain wrthi yn anochel yn ei waith ef, ac yntau'n bur ymwybodol o'u presenoldeb (er nad o'u dosbarthiad), tybiaf eu bod yn angenrheidiol i'w hystyried wrth lunio disgrifiad trefnus o feddylwaith deunyddiol pob llenor. A hyderaf y caf argyhoeddi ambell ddarllenydd o wirionedd y casgliad hwnnw.

Mae a wnelo'r Archgyfundrefnau hyn â sythweliadau sydd gan y meddwl yn orfodol isymwybodol. Y maent yn darparu fframwaith ffurfiol ar gyfer trafod y deunyddiau manwl a ddarganfyddir ac a ddosberthir gan brofiadau o'r byd. Hwy yn y gwraidd yw offer deall llenyddiaeth. Nid hwy yw'r dosbarthiadau o ddeunyddiau, ond y maent yn 'cyflyru'r' modd

ac yn hyrwyddo'r siâp y gwelwn ni'r deunyddiau hynny. Drwy'r llygaid detholus hyn y byddir yn edrych ar y deunyddiau. Ni all y llenor (seciwlar na chrefyddol) na'r diwinydd na'r ieithydd cyffredin eu hepgor, fel y cawn weld.

Bydd cyfundrefn ddiwinyddol, fel pob cyfundrefn gyffredin, bob amser yn ffenomen ddeinamig. Felly Archgyfundrefnau Pantycelyn: cyferbyniadau (negyddol neu estynnol) ydynt bob un bob amser rhwng dwy neu dair elfen o fewn undod neu uned. Fe'u defnyddir iddo'i fynegi'i hun yn weithredol gyferbyniol mewn cyflawniadau effeithiol. Ac fe'u defnyddir bob amser ym mhob brawddeg lenyddol. Y mae'r Archgyfundrefnau, yn rhyfedd iawn, felly, oll yn gyd-bresennol mewn iaith bob cynnig.

Y mae'r un ar ddeg yn unedau strwythurol. Ond y mae rhai ohonynt yn fwy ffurfiol na'i gilydd. 'Ffurf' noeth yw 'testun' y cyfundrefnau yn y grŵp cryno cyntaf, sef (i) *Presennol/Absennol*, (ii) *Anweledig/Gweledig*, (iii) *Un/Amryw*, (iv) *Cyffredinol/Arbennig*, (v) *Ffurf/Deunydd*.

Mae'r ail a'r trydydd grŵp yn dal yn ffurfiau, ond y mae a wnelont yn fwy uniongyrchol â 'Deunydd'. Deunydd yw eu cynnwys bron yn llythrennol. Eto, yn yr ail grŵp mae (vi) *Bod/bod*, er ei fod yn cyfeirio at ffurf eu cynnwys, yn 'bersonol' yr un pryd gan gyfeirio at bersonau hyd yn oed, er bod hynny'n rhoi golwg arnynt mewn ffordd ffurfiol ddigon. Oherwydd ei bod yn gyfundrefn mor ymddangosiadol benodol a diriaethol, fel y cawn weld, y mae presenoldeb ei ffurf yn llai uniongyrchol amlwg — y Mawr a'r bach, megis wrth gymharu ansoddeiriau. Felly, hefyd ei chydymaith, y gyfundrefn (vii) *Bod/gwneud*: (Arfaeth) *dechrau/diwedd*. Mae a wnelo hyn â Chynllun gwaith. Ond fe'i defnyddia Pantycelyn, am ddwy ffenomen yn y Greadigaeth. Yn gyntaf, dyma'r cynllun a lunnir ym meddwl Duw cyn y Greadigaeth mewn Gofod diriaethol. Ond yn ail, fe'i defnyddir mewn Amser am gyflawniad y cynllun hwnnw, yn ddigwyddiadol. Y Potensial a'r Effaith. Hynny yw, yr Arfaeth yw'r fodolaeth sy'n digwydd yn ôl trefn yr arfaethu, yr haniaeth a'r ddiriaeth. Ffurf yw'r rhain ynghylch 'Deunydd' canolog y Creu a'r Cadw.

Mae'r ddwy gyfundrefn fodol yna yn gwyro tuag at fod yn bâr clymedig unigryw yn ôl trefn sy'n weddol agos i *Enw/Berf*. Ond fe erys eto drydydd grŵp o bedair cyfundrefn sef (ix) *Gwerth* (Mawl), (x) *Dibyniaeth/Cynhaliaeth* (Incidence), (xi) Y Gorchymyn Diwylliannol (*Ffrwytho/Goroesi*), (xii) Mwynhad (*Chwennyech/Gwrthrych*) *Diben*. Gwyr a'r rhain oll tuag at Gymhelliad.

Dyma, cyn belled ag y gwelaf i, gyfanswm go gyflawn o Archgyfundrefnau Ffurfiannau Deunydd a ddefnyddir bob man, bob amser, mewn iaith ac mewn diwinyddiaeth ym mhob

cymal. Ond mae'n amlwg fod angen esbonio ac argyhoeddi rhywun fod y fath hollbresenoldeb yn ddilys gywir. Dyna'r dasg seiliol i ni wrth ymdrin â Meddwl Pantycelyn.

Soniwyd am ddwy gyfundrefn ddeunyddiol ganolog, *Bod/bod* — y fertigol (Iachawdwriaeth Cyswllt Munud Awr, ac eto, *Theomemphus* wedi'i adeiladu o fewn hanes llorwedd). A'r *Bod/gwneud* — y llorwedd (Yr Arfaeth Dragwyddol: *Golwg ar Deyrnas Crist* sy'n cynnwys hefyd dröedigaeth sydyn), yn ffrwyth uniongyrchol i'r gyfundrefn o Archgyfundrefnau o'u deutu a'r Absoliwt uwchben. Yn gyntaf, cydiol a pherthynol yw'r ddwy ar y pryd, yn ddirfodol uniongyrchol, rhwng Bod a bod, y Crëwr a'r creedig, y Mawr a'r bach yn bresennol. Dyma berthynas uniongyrchol, yr uchel â'r isod, y Cyfiawnhad. Yn ail, cyswllt deinamig estynedig ydynt mewn amser, achos ac effaith, y Bod yn gwneud, yn gyrru'r ferfol yn ei blaen drwy Sancteiddhad. Cydfodau felly yw'r Crëwr a'r creedig; a dibynna'r ail ar y cyntaf yn ddiymatal ar gyfer bodolaeth a gweithred.

* * *

Mae'n ymddangos eisoes, felly, fod pedair lefel o lywodraethu cyfundrefnol. Cadwer mewn golwg bob amser berthynas gydlynol fertigol yn ogystal ag ymamlygu llorwedd.

I. Yn ben ar y cwbl, goruwch y drefn i gyd, ond yn drefn ei hun wrth gwrs, yr *Absoliwt Tragwyddol*: Tri-yn-Un Difesur a Dwy Natur mewn un Person. Dyma'r lle y gorlywodraethir pob dim; bob Ffurf, bob Deunydd, a phob Cymhelliad, yn gynhwysfawr. Dyma'r un sy'n esgor ar *Wraidd-Gyfundrefn* yn Ei fwriadau. Achos ac Effaith.

II. Yna, ymddengys fod yna, yn y meddwl dynol yn ddieithriad, o leiaf un gyfundrefn ar ddeg yn ddeallol. Gan eu bod yn gyd-bresennol sythweliadol ym mhob peth a wneir, ac yn orfodol felly, gellid eu galw'n *Archgyfundrefnau Cyffredinol*. Tardd eu bodolaeth o Ras Cyffredinol yn yr Arfaeth.

III. Ar y drydedd lefel, symudwn oddi wrth yr Archgyfundrefnau Ffurfiol, Deunyddiol, a Chymhelliol Cyffredinol tuag at ddewis Sffêr Ddeunyddiol o ddiddordeb arbennig a thuag at Ras Arbennig. Yma, deun yn wyneb yn wyneb â'r gwahaniaeth sydd rhwng pobl (a llenorion) a'i gilydd. Yn y fan hon ceir y *Sfferau Deunyddiol cyfundrefnol*. Arolwg yw hyn o'r meysydd meddwl a gweithgarwch (*enw/berf*) sy'n cydadeiladu'r holl weddau ar y greadigaeth. Fel arfer, bydd pob llenor yn tueddu i ddefnyddio tri chlwstwr (neu fwy) o'r rhain yn flaenllaw yn ei waith ar y tro (efallai yn gyson). Ond yr hyn sy'n bwysig i sylwi arno yw bod *gan bob un* o'r Sfferau Sofran hyn, ei brif thema, un Brif Gyfundrefn arweiniol. Hynny yw, ceir Cyfundrefn Ddeddfol yn arbennig ddiffiniol ar gyfer pob sffêr. Y Brif Gyfundrefn ddeddfol a sefydliadol hon sy'n penodoli ac yn trefnu calon y sffêr. Yn achos Pantycelyn, Ffydd a ffurf

Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yw'r Brif Gyfundrefn flaenaf o ran diddordeb, er bod nifer o'r meysydd meddwl a gweithgarwch eraill yn arwyddocaol iddo, megis y Moesol a'r Esthetig.

IV. Symudasom felly o lefel yr Absoliwt Tragwyddol drwy'r Archgyfundrefnau Cyffredinol Ffurfiol a Chymhelliol drwy groesffordd y Sfferau Unigol Deunyddiol at arbenigedd y llenor unigol. Ac yn y fan yna y darganfyddwn, heblaw Prif Gyfundrefnau diffiniol, fod lluo o *Gyfundrefnau Thematig* ieithyddol a llenyddol eraill yn awr yn ymglymu'n storiol bron fel arfer wrth ryw Sffêr (neu sfferau) sofran neu hyd yn oed yn uniongyrchol drwy egwyddorion ar waith wrth ryw Brif Gyfundrefn Gyffredinol. Yn rhyfedd iawn, yn ogystal â'r Sfferau Deunyddiol, dengys gwaith Pantycelyn ei fod yn medru cymryd yn thema nid yn unig y deunyddiau a geir yn y Sfferau, ond yr holl hierarci. Hynny yw, nid yn unig y mae'r Sfferau yn darparu pwnc a swydd i'w awen, ond y mae'r ffactorau yn yr offer deall cyflawn (hynny yw, yr Archgyfundrefnau), megis *anweledig/gweledig*, *presennol/absennol* ac yn y blaen hefyd yn wrthrych cân. Ond yn achos Pantycelyn, *Bod/bod* yw'r Archgyfundrefn, *Ffydd* yw'r Sffêr Ddeunyddiol, a pherthynas Duw a dyn yn Thema arweiniol, megis *Bod/gwneud*. Dyma ni yn awr yn dal ym myd cyfundrefnu. Ac fe all y cyfundrefnau gweithredol hyn ymglystyru'n thematig mewn amser. Ond ni cheir ganddynt yr un ansawdd cyffredinol gorfodol â'r Archgyfundrefnau, ond cyn belled ag yr ymglymant wrth Archgyfundrefnau. Ac fe'u rhoir ar waith. Yn awr, y mae'r Archgyfundrefnau'n siapio'r Sfferau.

Dyma rai o'r Themâu cynddelwaidd unigol i lenyddiaeth gyffredinol ac i Bantycelyn yn arbennig ar lefel Mynegiant: datrys dirgelwch (chwilio), ffoi, teithio, ymladd, brwydr iechyd ac afiechyd, cynhyrchu, caru, adeiladu neu ddiwyllio. Dyma hefyd y plotiau mwyaf cyffredin a sylfaenol (seicolegol a chymdeithasol, moesol ac esthetig) yn ei arwrgerddi a'i emynau, megis mewn llenyddiaeth seciwlar bob un â'i gynddelw o gymeriad gweithredol.

*

*

*

Dyna ni, felly wedi cwrdd â phedair lefel sy'n cydadeiladu ac yn cyflyru pob meddwl ac iaith ddynol. Gwraiddgyfundrefn, Archgyfundrefn Ffurfiol, Sffêr gyfundrefnol (a'i Phrif Gyfundrefn), a Chyfundrefneg Thematig. Dyna gyfanswm, mewn geiriau eraill, y strwythur a elwir yn *Dafod (langue)* mewn Cyfundrefneg hierarcaidd. Adeiladwaith gweithredu'r Deunydd llenyddol. Ac ar ôl hyn cyrhaeddir adeiladwaith dewis mewn *Mynegiant*, sef Thema a Motiff. Hynny yw, ceir cynhysgaeth gyflawn o drefniant yn y meddwl a'r deall sydd yn meddu ar olyniaeth o sefydlogrwydd parhaol a photensial a all esgor ar yr hyn a elwir bellach mewn Cyfundrefn yn *Fynegiant* (parole, discours). Drwy fodolaeth a chydlynid y drefn hon yr amodir ac yr esgorir ar *Fotiffau*, sef yr unedau thematig lleiaf mewn Mynegiant, y deunyddiau creiddiol unigol, a chynnwys mewn chwinciad pob brawddeg unigol. Oddi

wrth ac allan o'r potensial gwreiddiol hwnnw y cyfyd yr effeithiol ffrwythlon hwn. Ar ôl y pedair lefel gyfundrefnol mewn Tafod, y fframwaith mewnol cudd, dyma Fynegiant yn bumed fel petai. Dyna'n fras amlinelliad o holl rychwant adeiladwaith strwythurol Deunydd mewn Diwinyddiaeth, Iaith, a Llên. Dyna o leiaf amlinell o'i hierarci.

* * *

Rhaid imi ymddiheuro am fod angen imi ddal ati i bwysleisio'r gymhariaeth ag adeiladwaith iaith. Gobeithiaf gyrraedd maes dosbarthu Cynnwys neu'r Deunydd ystyrol lenyddol yn fuan. Ond rhaid i mi'n gyntaf sôn am yr *offeryn* neu'r *ddyfais* a ddefnyddiwn oll wrth gyflwyno ystyr y Gair; yr iaith yn llyfr y Greadigaeth.

Lawer o flynyddoedd yn ôl bellach, wrth bendroni uwchben twf iaith plant, fe ddeuthum i'r casgliad fod pob un yn meddwl ac yn siarad oherwydd adeiladu neu ddarganfod *cyfundrefnau meddyliol*. Hynny yw, roedd pob plentyn ac oedolyn yn isymwybodol adeiladu yn yr ymennydd unedau bychain hynod elfennaidd ar gyfer dadansoddi a chyfansoddi realiti, a'r rheini'n raddedig gydlynol. Roedd hi fel pe bai dyn yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn graidd i'r Greadigaeth. Roedd y dull o wneud hyn yn 'gyntefig' iawn. Yn gyntaf, yr oedd y meddwl yn 'gwahuno' fel y gwelsom. Roedd yn wynebu profiad synhwyrus o'r byd, ac yn ei ynysu drwy gyferbynnu'r peth neu'r person neu'r weithred â pheth neu berson neu weithred arall agos. Ond doedd gwahanu ddim yn ddigon. Nid oedd yn mynd i unman ar ei ben ei hun. Âi'n anarchaidd. Cyn bod gwerth i'r broses o wahanu, yr oedd yn rhaid ei gyplysu â chysondeb. Roedd yn rhaid ei sefydlogi (neu debygu). Roedd yn rhaid sylwi ar elfen o ailadrodd. Pe na bai'r plentyn ond wedi sylwi ar y gwahaniaeth rhwng mam a thad, byddai braidd yn ofer heb iddo sylwi ar y gwahaniaeth rhwng mam a'r ford a sefydlogi'r profiad cyntaf ei hun mewn llawnder o fath; ac yna mam a'r ffenest. Nid oedd gwahanu anghytwys yn ddigonol i ddeall. Roedd gofyn, yn wir, roedd rhaid, er mwyn gafael ar ddealltwriaeth o unrhyw fath, sylwi ar sefydlogrwydd hunaniaeth mewn un peth o fan i fan, ac o amser i amser, mewn cyd-destun helaeth. Ar ôl clymu'r ddau brofiad ynghyd, y gwahanu a'r uno, wedyn fe geid uned feddyliol o'r enw 'cyfundrefn'. Dyna undod a gynhwysai gyfatebiaeth neu gyplysiad. Bellach, roedd gan y plentyn offeryn dealltwriaeth, a buddugoliaeth trefn.

Yr hyn a wnâi oedd ffurfio cyferbyniadau yn y meddwl. A'r cyferbyniadau ffurfiol hyn, ar eu mwyaf cyffredinol, ar gyfer dadansoddi profiad o'r byd, oedd yr Archgyfundrefnau yr wyf newydd eu henwi. Nid y plentyn sy'n eu gwneud drosto'i hun: y mae'n cyfrannu o'r un rhagdybiau â phob plentyn a rhieni eraill. Yn sicr, nid fi sy'n awgrymu neu'n llunio'r cyfundrefnau hyn er mwyn llunio 'damcaniaethau', ddim mwy nag y bydd gramadegydd

cyfoes yn creu Cyfundrefn tri-pherson y rhagenw. Y mae ein holl theori lenyddol yno, yn rhoddedig, fel y tri pherson, heb angen ond ei dadlennu.

Wrth imi bendroni uwchben iaith, dyna yn ddiau oedd y darganfyddiad arwyddocaol cyntaf: Archgyfundrefnau. Darganfyddiad oedd gan faban, pob baban normal. Darganfyddiad gorfodol oedd hefyd i lenyddiaeth ac i Bantycelyn.

Ond wrth imi bendroni ymhellach uwchben adeiladwaith iaith, fe ddarganfûm wirionedd arall. Nid casgliad o ystyron ar ffurf rhestr oedd iaith. Nid rhes o eiriau yn unig oedd. Nid hyd yn oed pentwr o gyfundrefnau gramadegol. Caed mewn iaith, hyd yn oed ym mherthynas fecanwaith geiriau â'i gilydd, *hierarci unol*.

Wrth i mi, ar sail analog ieithyddol ffurfiol fynd ati yn awr i geisio ystyried trefn cynnwys/ neu ystyr/ neu ddeunydd llenyddiaeth oll, bu rhaid imi gydnabod bodolaeth dwy lefel gyson hefyd yn adeiladwaith trefn ystyr a deunydd yn y meddwl llenyddol a'r meddwl diwinyddol, a hynny eto mewn hierarci o berthynas.

Mewn iaith, cefais yr hyn a alwaf bellach yn 'archgyfundrefn' ddeall cydlynol yn ogystal â chyfundrefnau 'cyffredin' ar gyfer dadansoddi perthynas geiriau â'i gilydd mewn brawddegau ac mewn ieithoedd unigol. Dyma fath o ymbarél dros yr holl gyfundrefnau eraill. Ac mewn iaith (dan ddylanwad Gustave Guillaume), credaf bellach mai'r 'gair' oedd craidd Tafod fel yr oedd y 'frawddeg' yn graidd i broses Mynegiant.

[Dodaf yma ddisgrifiad technegol o'r 'frawddeg' mewn bachau petryal, am fod 'gramadeg' yn ffenomen led anghyfarwydd y dyddiau hyn. Gellir ei neidio. Ond gwerthfawr yw er mwyn deall y fframwaith a ddefnyddir yn anorfod i fynegi pob meddwl llenyddol neu ddiwinyddol.

Disgrifiwyd gan yr ieithydd Ffrangeg Gustave Guillaume gyfundrefn y 'Rhannau Ymadrodd Traethiadol' (Predicative Parts of Speech). Sef y gyfundrefn gydberthynol gyferbyniol '1. Enw/2. Berf neu Ansoddair/3. Adferf.' Olrheiniais wedyn 'ffurf y frawddeg' yn ôl i berthynas y tair rhan gydberthynol hyn yn y Rhannau Ymadrodd Traethiadol. Cyferbynnid yr uned oll yn driol. A chanfyddid y berthynas rhwng y tair rhan yn ôl egwyddor neu sythwelediad cyntefig neu elfennaidd '*Dibyniaeth*.' Chwaer i ddisgyrchiant oedd hon, y disgyrchiant cyfarwydd yng nghyfundrefn yr haul a'r planedau oll, ar y ddaear, a'r ddibyniaeth ysbrydol a geir mewn Ffydd. Brawddegau Duw o fewn ei Lyfr.

Roedd yr Enw yn yr uned yn *hunanddibynnol*. Ceid ebychiad ynddo o frawddeg un elfen. Wedyn pwysai'r ansoddair neu'r ferf yn uniongyrchol ar yr enw. Dyma'r *cyd-adeiladwaith cyntaf*. Dyma gyfundrefn seml yr elfennau *Enw + Ansoddair*, neu *Enw + Berf*. Y frawddeg ddwy elfen. Wedyn gwnaed un cam pellach. Cymerwyd yr uned gyntefig

newydd honno fel pe bai'n fan cychwyn newydd i estyniad newydd, i uned o fath mwy uchelgeisiol. Ychwanegid un elfen arall. Wele'r frawddeg dair elfen. Cafwyd ail *ddibyniaeth* allanol bellach felly, ddim mwy. Sylweddolid y drydedd elfen derfynol yn y cwlwm hwn ar ffurf gwrthrych y ferf weithiau efallai. Ond *yn ôl safle meddyliol*, yn Ad-ferf. Rhyw elfen a bwysai nid yn uniongyrchol ar yr Enw, ond a ddibynnai, er mwyn cynhaliaeth a chyswllt, ar yr ail elfen. Roedd yr ail elfen honno eisoes wedi pwyso ar elfen hunanddibynnol, gair (sef Enw) a oedd yn gallu sefyll ar ei ben ei hun, yn darparu dibyniaeth o safbwynt geiriau eraill. Yn awr, caed dibynnair ar ddibynnair arall. Defnyddiaf y term Ad-ferf nid yn unig i gynnwys yr Adferf arferol, sef goleddfu berf neu ansoddair; ond yn benodol fel y trydydd safle yng nghyfundrefn Dibyniaeth y frawddeg. Fe all fod yn enw sy'n wrthrych i ferf neu sy'n gweithredu'n adferfol (e.e. yfory) neu mewn ymadrodd adferfol. Dyma'r cyfanwaith brawddegol, wedi'i lunio'n driol ar ddisgyrchiant cydberthynol gyda phob elfen yn meddu ar bwysio gwahanol. Dyna'r 'cyfan', cnewyllyn adeileddol pob brawddeg, cymal, ac ymadrodd.

Tair elfen yn unig. Gall y meddwl dynol ddal delwedd elfennaidd gyferbyniol gron o'r fath yn uned ac ymateb yn sylfaenol isymwybodol iddi os bydd yn ddeuol neu'n driol, neu mewn adeiladwaith o ddeuoedd neu drioedd, heb droi'n ymwybodol. Hwyl sy'n caniatáu inni ddweud popeth drwy ddibyniaeth.

Y tair elfen hyn a ystyrir yn gyfundrefn gyflawn o Rannau Ymadrodd Traethiadol. Hwyl yw asgwrn cefn y frawddeg aeddfed gyflawn. Hwyl yw'r uned sy'n traethu synnwyr. Hwyl a rydd brif gyfundrefn iaith. Dyna ni'n eu dadansoddi. Hwyl sy'n caniatáu inni ddweud popeth.

Y term a ddefnyddiaf mwyach ar gyfer y cyfundrefnwaith sy'n gwneud y gwaith dadansoddol hwn (dibyniaeth yn yr achos hwn) yw'r Archgyfundrefn. Ffurid hyn ym mhob iaith Indo-Ewropeaidd. Yn yr achos hwn, y mae dwy yn amlwg: sef (1) Amryw mewn Un, (2) Dibyniaeth, ar ffurf *Enw*, neu *Enw + Berf / Enw + Ansoddair*, neu ynghyd â'r drydedd elfen (fe'i galwaf yn '*Ad-ferf*'). Rhaid cael un, dwy, neu dair o'r elfennau yna i wneud brawddeg gyfan synhwyrol. Yna, drwy glymu atodiadau dwy neu dair elfen, yn ymadroddion neu'n gymalau, yr adeiledir brawddegau cymhleth. Clymir y tair elfen hyn wrth ei gilydd gan y Cymhelliad i *ddibynnu (incidence)* ac *amryw mewn un*: dyma hefyd hanfod perthynas dyn a Duw. *Maes o law, ceisir dangos mai dyna ffurf y thema a'r motiff hwythau.*]

Ochr yn ochr â'r term Archgyfundrefn, fe gadwaf hefyd y term Cyfundrefn. Yn wir byddaf yn defnyddio'r term 'Cyfundrefn Gyffredin', nid oherwydd Cynnwys distadl y gyfundrefn, a all fod yn aruthr, eithr yn ffurfiol, yn ôl ei safle a'i pherthynas â'r Archgyfundrefn ddefnyddiol. Felly, ochr yn ochr, yn isradd wasanaethgar fel petai i'r Archgyfundrefn sy'n galon i bob iaith, y mae gramadeg iaith yn cynnwys amryw

gyfundrefnau eraill, sy'n llai pwysig, yn llai canolog, ac yn llai angenrheidiol. Er enghraifft, ceir cyfundrefnau cenedl enwau *gwrywaidd/benywaidd*, neu raddau cymharol (cynyddol) ansoddeiriau *cysefin/cymharol/eithaf*. Ac yn y blaen. Galwaf y rheini yn 'Gyfundrefnau Cyffredin' mewn iaith. Y maent fel petaent yn trwchuso neu'n estyn neu'n dyfnhau'r frawddeg, neu'n gyfundrefn sy'n clymu'r frawddeg ynghyd, y Rhannau Ymadrodd Traethiadol. Hwyl a gyflyrir gan yr Archgyfundrefnau. Ufuddhant. Ceir wedyn o fewn cwmpas y Rhannau Ymadrodd Traethiadol gyfundrefn y Rhannau Ymadrodd Trawsdrathiadol — sef yr arddodiaid, cysyllteiriau, berfau cynorthwyol, a rhagenwau.

*

*

*

Roedd yn rhaid imi gyflwyno'r drefn elfennol ieithyddol honno er mwyn ceisio cyflwyno trefn newydd o ddadansoddi deunydd neu Gynnwys llenyddol. Fel y gwelwn maes o law: dyma drefn hanfodol y Thema a'r Motiff.

Cyn hyn, wrth drafod llenyddiaeth, yn rhagymadroddol i'r llyfr hwn bwm at ei gilydd yn gyfyngedig strwythurol wrth drafod trefn 'ffurfiol' llenyddiaeth. Fy nod fu ceisio trafod hynny drwy arddangos, a phrofi mi obeithiaf, fod llenyddiaeth yn gweithio drwy gyfundrefnau ffurfiol o sawl math. Trafodais gyfundrefnau ffurfiol bron yn gyfan gwbl — rhai seiniol er enghraifft (fel odl, cynghanedd) ac yn y blaen yn *Seiliau Beirniadaeth a Meddwl y Gynghanedd*. A cheisiwn ddisgrifio'u cyd-adeiladwaith fel hierarci feddyliol.

Yn yr astudiaeth hon, yr wyf yn ceisio cyflwyno dull 'newydd' o ddisgrifio *trefn thematig* drwy ddarganfod cyfundrefnwaith deunyddiol. Yr wyf am ymdrin â'r dull sydd gan y meddwl llenyddol yn gynhenid o adeiladu'i *Gynnwys* neu o ddadansoddi'i *Ddeunydd*, a hynny ar gyfer llenyddiaeth yn gyffredinol. Y mae llenyddiaeth yn ymwneud â llawer o sfferau ystyrol gwahanol, *sfferau thematig*, megis Seicoleg, Cymdeithaseg, Hanes, ac yn y blaen. Yr wyf am ymglyfyngu'n benodol enghreifftiol i waith barddonol un llenor ac un sffêr, sef i William Williams Pantycelyn; ac yn bennaf i'r maes 'trosgynnol' fel y'i galwaf: Ffydd. Ond byddaf yn awgrymu, — heblaw ei fod yn ymwneud â sffêr benodol, fod i'r trosgynnol hwn arwyddocâd mwy cyffredinol hefyd. Taith byd a bywyd ar echel y drefn Thematig a geir yng ngwaith Pantycelyn. Ac olrheinir hi yn ôl y dulliau o deithio ar hyd yr echel yna.

Mae'r trosgynnol yn faes arbennig yn wir. Y mae'n ymwneud â'r Goruwchnaturiol, y mae'n dwyn i'r fei yr ymarfer o addoli. Saif ochr yn ochr â gweithgareddau a sylweddau ymarferol ac 'is-themâu', yn wahanol i bethau bob dydd. Ond mae'n unigryw hefyd, oherwydd fod awdurdod Duw yn ymwneud â phenarglwyddiaeth a Chreadigaeth pob sffêr. Mae'n effeithio ar bob thema. Diddorol yn y Gymraeg fod gennym yn ychwanegol yn y ferf

fath o ffurf drosgynnol ochr yn ochr â'r tri pherson sylfaenol: gwelaf, gweli, gwêl, ac yna, 'gwelir'. Math o drydydd person cyffredinol yw. Peth felly yw 'trafodaeth'.

* * *

Ceisiais mewn llyfrau eraill gyfeirio at bedwar math ystyrol angenrheidiol mewn Deunydd, wedi'u seilio ar y rhaniad ar '*berson*' rhagenwol mewn iaith. Mae hyn yn berthynas i safbwynt storiol. Credaf fod hyn hefyd yn arwyddocaol wrth ddsbarthu llenfathau telyneg/drama/stori. Yn gyntaf, y tri pherson rhagenwol a sfferol: y fi (*seicolegol*), y ti (*cymdeithasegol*), yr ef/hi (*amgylcheddol*). Ac yna'r all-bersonol o safbwynt cyferbyniad cyffredin â'r tri dimensiwn gorfodol hyn (*trosgynnol*): clywir. Dyna bedair o'r hyn a alwn yn Arch-sfferau, y rhai sydd ynghlwm wrth ddsbarthiad person yn yr Absoliwt. Mae'r bedwaredd sffêr, sef y trosgynnol ('amhersonol' meddid gynt) hefyd yn ffurfiol yn cynnwys ac yn dosbarthu 'trafodaethau' yn ôl llawer o feysydd syniadol eraill heblaw'r trosgynnol, y rhai a alwn yn *sfferau cyffredin* mewn gwyddorau, yn y celfyddydau, ac yn ymwneud â masnach neu weithgareddau beunyddiol bob dydd. Yr wyf yn dewis ymdrin yn benodol ag un o'r meysydd Cynnwys hynny ymhlith y Sfferau, un yn unig er mwyn bod yn benodol, er bod modd ymdrin ag unrhyw un o'r lleill gan ddilyn yr un fethodoleg: sef y bedwaredd.

'Ffydd' sydd gennyf i mewn golwg. Dyna Sffêr ddeunyddiol flaenaf Pantycelyn.

Ac ar sail fy nghyflwyniad byr i Gyfundrefn Iaith, ac wrth droi'n gymharol tuag at lenyddiaeth, un peth newydd fydd — er bod yna gynsail i hyn hefyd o leiaf ers yr Oesoedd Canol — fy mod am awgrymu bod yn *rhaid* i drafodaeth gyfansawdd o Ddeunydd llynyddol gydnabod hierarci gyflawn gydag Absoliwt ar y pen. Wedi ymaflyd yn offer deall, ymaflwn cyn bo hir yn y Deunyddiau. Yr wyf am ddefnyddio'r term *Prif Gyfundrefn* Deunydd yn ogystal â thrafod *Themâu* Deunydd. Eithr mewn hierarci fel hyn, fe sylwn fod yna offer neu orgyffwrdd, a chyswllt cydweol rhwng y lefelau i gyd.

Awn yn fras felly oddi wrth Dafod (y cymharol unol a chaeth) tuag at Fynegiant (y cymharol amrywiol a rhydd). Y Sfferau ar y llwybr ffurfiol hwnnw sy'n gosod y prif ddeunydd mewn gwaith llynyddol gerbron, sef Sffêr feddyliol, a'r Gyfundrefn thematig mewn Deunydd. Dyma safbwynt neu ogwydd a bwriad canolog neu sylfaenol y gwaith. Cawn sylwi fod y Motiffau Unigol yn meddu ar rywbeth tebyg i gyfundrefn thematig mewn Mynegiant brawddegol. Cynneddf cyfundrefn thematig llynyddol yw ei bod fel arfer yn ymgysylltu'n thematig â chyfundrefn(au) arall (neu eraill), ac yn esgor yn uniongyrchol ar Ffurf. Bydd yn rhaid ystyried y rhain wrth drafod sylwedd Deunydd.

Yr wyf hefyd am gymryd gwaith prydyddol pwysicaf Williams Pantycelyn, sef ei ddwy arwrgerdd a'i emynau: yn driawd o gyfansoddiadau enghreifftiol. Ar ben yr hierarci o

gyfundrefnau thematig ynddynt, saif wrth gwrs yr Absoliwt; a saif Hwnnw uwchben pob sffêr ystyrol, boed yn grefyddol neu'n seciwlar. Yr Absoliwt sy'n pegynu ac yn penodoli ystyr fel rhywbeth sy'n bodoli'n sylfaenol yn y bywyd dynol. Yr Absoliwt hefyd sy'n sicrhau perthynas pob un dim yn Arfaeth. Ond yng ngwaith Pantycelyn, Cymeriad byw yw'r Absoliwt.

Gan dreiddio o dan Hwnnw fe geir y gwahanol sfferau meddyliol, tebyg i sfferau deddfol Dooyeweerd. Un ohonynt yw'r un trosgynnol, Ffydd, neu'r sffêr ddiwinyddol a'i chyfundrefnau sydd yn meddiannu gwaith llenyddol Williams Pantycelyn.

O fewn cyfundrefn yr Archgyfundrefnau Ffurf, traetha Pantycelyn ei hun yn uniongyrchol hirfaith ar ddwy Archgyfundrefn ddeunyddiol:

(1) Archgyfundrefn y 'goddrych', sef yn ffurfiol *Absoliwt/Unigolyn, Bod/bod*, neu'n ddeunyddiol *Duw/dyn*. Archgyfundrefn yw hon hefyd sydd wrth gwrs yn treiddio ac yn hollbresennol yn ei waith i gyd; ond dyma a gaiff ei blaenori yn *Theomemphus*. Math o sefyllfa fertigol yw mewn gofod. Yr Enw, mewn perthynas.

(2) Gwraiddgyfundrefn y 'traethiadol' yw'r *Arfaeth*. Mae hon hefyd yn treiddio drwy'r bydysawd. Tebyg i Archgyfundrefn lorwedd yw, ddatblygol. *Bod/gwneud*. Math o ddeinameg yw mewn amser. Heblaw bod yn gynllun ffurfiol, y mae'r Archgyfundrefn hon hefyd yn ddiriaethol ddigwyddiadol. Y Ferf, mewn gweithred. A dyma a gaiff ei blaenori yn *Golwg ar Deyrnas Crist*.

Ac y mae'r ddwy gyfundrefn hyn, fel y gwelwn, ynghlwm.

Cysylltir pob llenor crefyddol neu seciwlar â math o Ffydd sy'n gysylltiedig â'r ddwy.

Mewn gwirionedd, trefnir yr Arfaeth oll yn ôl un Archgyfundrefn ar ddeg (o leiaf) yng ngwaith Williams Pantycelyn, ac yng ngwaith llenyddol pawb. Dyma garfan o ddeall ffurfiol 'llawn'. Yr wyf eisoes wedi crybwyll y ddwy Archgyfundrefn sydd hefyd yn thematig ganolig i'r ddwy arwrgerdd. Ond ceir naw Archgyfundrefn arall. Hynny yw naw cyfundrefn lywodraethol arall. Pump ffurfiol iawn, a phedair yn ymwneud â Chymhelliad.

Yn Archgyfundrefn thematig *Bod/bod, Duw* yw'r rhagdyb i Bantycelyn, *bod* i'r seciwlar. Ond *dyn* yw'r 'tybiwr'. A hyd yn oed i Gristion, nid yw'r naill i'w hystyried heb y llall, oherwydd y mae bodolaeth dyn yn yr hafaliad yn dod â'r ffaith o wendid ac angen a nam gerbron yr Archgyfundrefn lle y mae'n rhaid iddi fod ar waith yn 'gwneud'. Mae'r dyn naturiol bob amser yn gweithio bellach o'r tu mewn i gyd-destun cwmp. Ni allai egni meddyliol Pantycelyn symud o'r Absoliwt i'r motiff heb fod gwacter a llygredd y dyn naturiol ar ei ffordd. Rhaid mynd drwy'r orsaf honno os ydym am aros o'r tu mewn i realiti.

A gŵyr y dyn naturiol hunanlywodraethol fod y dyn naturiol hwnnw yn annigonol. Cais ef feio Duw am fod yn ‘absennol’, os bydd yn clywed am y fath Fod. Ond gŵyr y Cristion mai dyn ei hun sy’n absennol.

Gwreiddir yr Archgyfundrefnwaith hwn mewn Absoliwt. Dilynir yr Archgyfundrefn Ffurfiol gan Sffêr Ddeddfol neu Bynciol, sef Diwinyddiaeth, ac yna, islaw eto, yn yr hierarci, cawn Gyfundrefn Thematig.

Soniais yn y fan yma am ddsbarthiad thematig fras yn y ddwy arwrgerdd, *Theomemphus* (fertigol) a *Golwg ar Deyrnas Crist* (llorwedd). Byddaf am sylwi ar ddsbarth cyffelyb o *fotiffau* — yn yr emynau ‘serch’: perthynas *Duw/dyn*; o fewn emynau ‘teithio’: taith yr *Arfaeth*; felly macrocosmau *Theomemphus* o fewn *Golwg ar Deyrnas Crist*, yn troi’n feicrocosmau yn ymarfer y byd.

Ym mryd anghredadun fel Sartre, sonnid am y twll ‘o siâp Duw’ a oedd y tu mewn i bob dyn: yr angen sy’n aros i’r amddifad gredu mewn rhywbeth y terddir ein cysyniad o foesoldeb a rhyfeddod eithaf ohono. Hwn yw’r cyfeirbwynt eithaf, yr Un, naill ai Duw neu ddyn (yr Ego Trosynnol), y mesurwn ein meddwl wrtho, boed yn seciwlar neu’n grefyddol. Y mae pob myfyrdod yn arwain yn ôl at ragdyb, ac y mae ansawdd y rhagdyb yn penderfynu ansawdd y casgliad neu’r canlyniad. Ond yr wyf am awgrymu, dwll neu beidio, yn y meddwl dynol erys ôl y siâp. Felly, y mae’r hyn a drafodir yn ôl themateg grefyddol yng ngwaith Williams yn gadael olion arwyddocâd mewn llenorion seciwlar hwythau.

‘Ffydd’ a ‘Chredu’ yw’r termau Cristnogol ar gyfer ‘dibynnu’ meddyliol. Term Cornelius Van Til yw ‘rhagosodiad’. Ffydd yw’r egni sy’n gyrru tuag at Gyfiawnhad: nid ffydd ‘bur’ mohoni, ffydd heb gynnwys. Nid ffydd mewn ‘unrhyw’ beth, nid ffydd fel ffenomen. Nid mewn agendor y mae ffydd yn hongian. Nid unrhyw ffydd sy’n arwain at Gyfiawnhad, felly. Mae ffydd dyn ynddo ef ei hunan yn arwain yn anochel at farwolaeth. Ffydd annigonol a ffaeledig yw; hunanoldeb yw ei defnydd, a balchder yw ei chraidd. Yn hierarci Pantycelyn, yr Absoliwt personol-dragwyddol gwrthrychol-oddrychol yn unig yw’r defnydd craidd. Rhoddai Pantycelyn ei ffydd yn yr unig Un a allai ddal y syrthio i gyd. Mae sylweddau’n meddu ar ddisgyrchiant: felly sylwedd yr ysbryd. Ffydd yw Cristnogaeth sy’n dibynnu ar y prif sylwedd.

Yn y berthynas fertigol rhwng yr Absoliwt a’r unigolyn, tair rhinwedd olynol o eiddo Duw a olrheinir mewn modd penodol gan Bantycelyn. Y rhain sy’n cael eu priodoli i ddyn a’u trosglwyddo yn gyswllt rhwng Duw a dyn — cyfiawnder (cyfiawnhau), sancteiddrwydd (sancteiddhad), a gogoniant (gogoneddu). Dyna gynnwys Cariad Duw. Mae ffurf gychwynol y ffydd hon yn amrywio o ran pwyslais: tröedigaeth, aileni, edifeirwch, bob un

yn cyd-gynnwys elfen negyddu ac elfen gadarnhaol. Tair swyddogaeth o eiddo Crist sy'n cael eu priodoli a'u trosglwyddo yng nghyswllt Crist a Christion, ac y dychwel Pantycelyn atynt droeon — Proffwyd (cyffesu'r gwirionedd), Offeiriad (gweithredu a gwasanaethu'r gwirionedd yn ymarferol mewn addoliad), a Brenin (stiwardio ar y ddaear). Dyma etifeddiaeth hawliol deuluol. A gwneir y rhain yn weithredol effeithiol drwy newid ffurfiol ym mhersonoliaeth yr unigolyn: Iachawdwriaeth. Dwy natur mewn un person sy'n gosod Cristion yn fyw o fewn cyd-destun deuol *amser/tragwyddoldeb* yn emynau taith Pantycelyn. Amgylchir Cristion wedyn felly gan y ddeuliaeth anorfod hon yn ei emynau serch.

Ceir perthynas gyfoethog, felly, rhwng Duw a dyn yn fertigol yn *Theomemphus* ac yn emynau'r sythwelediad serchog, yn ddirfodol felly, perthynas sy'n gariad uniongyrchol ar y pryd, ar bob pryd. Ond y mae'r berthynas honno hefyd yn llorwedd, yn *Golwg ar Deyrnas Crist* a'r emynau taith sy'n ymestyn drwy fywyd ac amser tuag at dragwyddoldeb. Mae'r berthynas, felly, yn gyntaf yn sincronig: mae hefyd yn ail yn ddiacronig.

Ac yn hyn o drefn cafwyd gan Saunders Lewis ddelwedd o symudiad eneidol Williams a oedd braidd yn Gatholig o ran ansawdd, ac yn wahanol i'r dehongliad Calфинаidd. Mae'r delweddau Catholig a Chalfinaidd yn gwahaniaethu yn ôl trefn *Cyfiawnhad drwy Ffydd/Sancteiddhad* (yn y drefn yna gan Williams, ond *Sancteiddhad/Cyfiawnhad* gan Saunders Lewis); ac ar leoliad *Uniad* parhaol (sydd ar waith eisoes ar ddechrau'r bywyd Cristnogol gan Williams, ond ar y diwedd yn unig gan Saunders Lewis). Wedyn, mae'r 'Eglwys' fel sefydliad swyddogol yn ymyrryd yn ôl dehongliad Saunders Lewis, lle y mae'n cyd-deithio gyda Williams; Gair Duw yn y galon unigol sy'n ymyrryd yn ôl dehongliad Williams, a wêl yr Eglwys fel Seiat i bobl Dduw, bob un yn offeiriad, yn gynulliad addolgar. Un cyfryngwr sydd ym mryd Williams, ac un aberth yn ddigon: aberthir drosodd a thro ym mryd Saunders Lewis.

Awdurdod a diffiniad yr Eglwys allanol yw craidd y gwahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad. Nid Sefydliad ond Duw yn uniongyrchol, yr Absoliwt yn yr unigolyn, dyna sy'n gwneud Cristion ym mryd Williams. Corff Crist a'i aelodau iddo ef sy'n ffurfio Eglwys. Drwy edifeirwch a Gras Arbennig uniongyrchol drwy un Cyfryngwr, Crist, y ceir iachawdwriaeth a maddeuant. Sefydliad Anweledig yn y gweledig yw'r Eglwys yn cydweithredu i'r eithaf bawb a'i gilydd, a'r awdurdod a'r gwasanaeth yn disgyn oddi wrth Dduw yn uniongyrchol ar offeiriadaeth pob crediniwr. Mae pob Cristion fel y gwelsom yn broffwyd, yn offeiriad ac yn frenin. Felly'r llenor o Gristion.

Mae'n wir fod y teithiwr o Gristion yn dechrau mewn pechod yn gyffredinol, ac y mae'n wir mai Un fydd pob Cristion yng Nghrist yn y diwedd. Ond fesul unigolyn, mae pob

un yn wynebu tröedigaeth, fesul un y mae pob un yn marw ac yn mwynhau undeb llawn. Fesul un y pechir yn ymarferol ac yr arhosir o dan awdurdod pechod, a fesul un yr iachéir. Fesul pob un yr ydys yn gyfrifol; a fesul un yr â'r unigolyn i'r Eglwys. Felly o'r Un at y llawer, a'r llawer at yr Un. Yr hyn sy'n eu huno â'i gilydd yw cyd-ufudd-dod. Mewn ailenedigaeth i'r unigolyn y bydd Duw a dyn yn uno er y gall cydwybod, natur, y Gair, y cyd-Gristion a'i dystiolaeth, ac arall fod yn negesydd — ond Un Cyfryngwr effeithiol sydd, sef Iesu Grist. Dyna'r Undeb yn ei gilydd yng Nghrist. Cwyna Saunders Lewis nad oes gan Williams ymwybod o 'Eglwys'. Ond, fel y gwelsom, y mae'r diffiniad o Eglwys iddynt yn gwahaniaethu'n ddifawr. Peth a wnâi gras Duw yn syml oedd peri i'r unigolyn gerdded i'r Seiat a chydlawenhau gyda brodyr a chwirydd yn y ffydd, a thrwy Grist yn Eglwys, gan gyd-ymostwng i'w gilydd ac i Dduw hyd yr eithaf.

*

*

*

Beth yr ym yn chwilio amdanynt, felly, wrth drafod 'Archgyfundrefnau'? Cyfundrefnau meddyliol gorfodol i lenorion seciwlar neu grefyddol ydynt, sy'n sylfaenol isymwybodol, ac sy'n amodi neu'n cyflyru pob strwythur boed yn ddeunyddiol neu'n ffurfiol. Cyferbyniadau neu gplysiadau unedol meddyliol ydynt. Mae'r rhain ar waith yn ufudd ym mhob Mynegiant.

Fel arfer, nid yw llenorion seciwlar yn myfyrio fawr am bethau felly. Ond i lenor meddylgar ac ymchwilgar Cristnogol fel Pantycelyn, mae ef yn ymwybodol — i raddau helaeth — ohonynt. Fe'u gwêl hwy ar raddfa gosmig. Drwy ffydd y darganfu hwy'n ymwybodol. Ar y naill ochr mae'n effro iddynt yng nghymeriad yr Absoliwt, ac ar y llall ynddo ef ei hun. Trafoda bob un yn ei dro. Felly, ceisiwn ystyried beth y mae Pantycelyn yn ei ddweud amdanynt neu'n gwneud ohonynt, tan gyfeirio hefyd at eu lle yng ngwneuthuriad llenyddiaeth yn gyffredinol.

O fewn amrediad yr Archgyfundrefnau Ffurfiol hyn y mae'r holl gyfundrefnau unigol eraill yn cael eu cartref neu'n tarddu ohonynt. Hynny yw, y mae bodolaeth yr un gyfundrefn ar ddeg hyn, sydd hwythau yn ymhlyg yn yr Absoliwt, hwythau yn benderfyniadol ar gyfer sefydlu neu sylweddoli pob cyfundrefn arall. Yn hynny o beth, y mae yna ryw elfen absoliwt a chynhwysfawr ymarferol ynglŷn â hwy'n gynhenid a rheidiol. Priodol yw ystyried yr Archgyfundrefnau perthnasol i gyd, gan eu bod oll yn amodi ac yn cyflyru'i gilydd a'r themâu a gynhwysir hefyd yn llywodraethu'r holl gyfundrefnau eraill.

Ceisiais enghreifftio peth o'u gweithgaredd eisoes ym mhob cyfrol lle y bûm o'r blaen yn trafod ffurf yn bennaf — *Tafod y Llenor*, *Seiliau Beirniadaeth*, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, a *Meddwl y Gynghanedd*. Hynny yw, y mae a wnelont â siâp ddadansoddol y

syniadaeth roddedig mewn cyfundrefneg oll. Ond yn yr astudiaeth hon, ac yng ngwaith Pantycelyn ac mewn diwinyddiaeth gyfundrefnol hithau nid y ffurf ‘haniaethol’ ar waith mewn ffurf fynegiannol yn unig sydd dan sylw, eithr y ffurf mewn Deunydd syniadol a ddadansoddir, a hynny yn achos Williams yn ddiwinyddol ac yn foisol ymarferol.

Ar draws hyn, yn ail argraffiad *Golwg ar Deyrnas Crist*, gesyd Pantycelyn y Beibl fel pe bai’n ymyrraeth anghymharus yn y rhediad. Ond credaf y gellir esbonio pam y gwnaethpwyd hynny. Dyna’r negesydd arferol. Dyma ddefnyddiau ei Ddeunydd, gwreiddyn y Drefn mewn deddf, cyfamodau, ac athrawiaethau. Dyma’r hyn a daflai oleuni ac awdurdod ar y gweddill, yr awyr a anadlai, y goleuni yr edrychai drwyddo. Un o bynciau’i dystiolaeth a’i fyfyrddod (a myfyrddod ei frodyr Calфинаidd) oedd cyfundrefn tair swyddogaeth Crist a thair swyddogaeth Feiblaidd y Cristion, cyfundrefn a grybwyllais o’r blaen ond y gellid ei nodi mewn trefn wahanol i arfer, sef *Brenin/Proffwyd/Offeiriad*. Mynegiant yw’r hyn a elwais yn rhychwant deinamig unol o’r tair swyddogaeth hyn a ganfyddir yn *Theomemphus* ynghyd â *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dyma’r tair swyddogaeth yr ymwnâi Pantycelyn â hwy fel bardd ac fel gŵr a geisiai ddeall yn ei waith:

1. Brenin: *Arfaeth/Creadigaeth/Rhagluniaeth* [*Golwg ar Deyrnas Crist* yn bennaf], y sawl a ddiwylliai’r ddaear a’i darostwng. Diwyllio’r ddaear oedd y dull a bennodd Duw o’i ogoneddu’i hun.

2. Proffwyd: yn y Beibl a’r Gogoneddiad mewn Emyrnau [Y Duw sy’n llefaru’r gwir; y diriaethu lleoledig mewn hanes, y gweithredydd sy’n ymyrryd ac yn torri ar draws y ddeinameg i gyhoeddi Rhagluniaeth ei ewyllys, a’i natur], y sawl a gyhoeddai’r gwirionedd.

3. Offeiriad: Hyrwyddo perthynas — *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* [*Theomemphus* yn bennaf]. Dyma’r sawl a addolai ac a weddiai. I Euros, oherwydd traddodiad yr Eglwyswyr ‘sagrafenol’ diweddar i fod yn llai pwysleisiol ynghylch cyhoeddi llawnder a manylder eu credo, yr oedd tuedd i bwysleisio litwrgi a’r wedd offeiriadol ar draul y brenin a’r proffwyd. Dyna’r offrwm.

Ond mae’r tair swyddogaeth yn eu tro’n dosbarthu ac yn diffinio’r rhychwant deinamig Calфинаidd. Dyna fframwaith meddwl y Beibl. Ceir cysgod ohonynt gan yr anghredadun.

Ochr yn ochr â’r math triol hwnnw, ceir cyferbynnu deuol elfennaidd cyfredol pellach: e.e. *Gweledig/Anweledig*. Felly y trefnir meddylwaith unol oll, — yn unol, yn ddeuol, neu’n driol.

*

*

*

Yn yr adran hon o'r gyfrol, yr ydym yn canolbwyntio'n sylw ar Offer Deall Pantycelyn. Adlewyrcha'r Archgyfundrefnau hyn, yn ôl pob tebyg, ffurfiant neu strwythurau'r Arfaeth. Hynny yw, dônt ymlaen llaw, cyn llenyddda. Dyma hefyd sy'n trefnu meddwl llenyddol a diwinyddol Pantycelyn. Tuedd ansoffistigedig o ystyried meddwl ac iaith yw'r un arferol amlwg yn ôl y *cynnwys* yn unig. Yr hyn sy'n cynnal ac yn dosbarthu ac yn cyfeirio'r meddwl yw *ffurf* cyfundrefnau'r deall cynieithyddol yn ogystal â'r *cynnwys* a ddadansoddir.

Cyn bod iaith na llenyddiaeth, ceir yn y meddwl drefn sythweliadol. Ar sail hyn, y ceir cyfundrefneg sydd ar gael ar gyfer croesi'r trothwy, ar gyfer esgor ar ddeunydd. Dyma'r broses ieithyddol gyntaf a eilw Guillaume yn *Ideogenesis*, ac yna a ddilynir drwy esgor ar ffurfiolaeth ieithyddol, proses a eilw Guillaume yn *Forffogenesis*. Cysyllta Pantycelyn Archgyfundrefnau Ffurfiol penodol (y rhai sy'n dadansoddi) â phriodoleddau Duw. Mae Penarglwyddiaeth Duw yn ymestyn dros Ffurf felly yn ogystal â Deunyddiau'r Greadigaeth, er mai ychydig o sylw manwl a roddodd ysgolheigion Diwinyddiaeth Gyfundrefnol i Ffurfiâu Duw. Mae gan Dduw ffurf o weithio o'r dechrau cyntaf. Nid oes modfedd o'i waith heb Ffurf. Mae Duw wedi dewis gweithio ym mhobman drwy gyfundrefnu'r Greadigaeth, a deall dyn wedi'i ddilyn drwy gyfundrefnu Iaith a Llên. Un o ffurfiâu Duw yw 'dibynnu arno', 'rhoi pwysau arno' (*incidence* yw term Guillaume).

Drwy'r Archgyfundrefnau y down i ddsbarthu'r lefel nesaf yn Hierarci'r Arfaeth, sef y Sfferau Deunydd. Hwyl sy'n sylfaenu'r gyfundrefn arweiniol neu'r egwyddor ddiffiniol i bob sffêr.

Yr wyf i'n ystyried lleoli Ffurf mewn dau le penodol. Yn gyntaf, y Ffurf a geir yn gynieithyddol mewn Offer Deall (yr Archgyfundrefnau; Cyn-dafod), ac yna'r Ffurf a geir o fewn iaith a ddisgrifir gan Guillaume, sef y broses fwy thematig adeileddol: *Morffogenesis* sy'n dilyn *Ideogenesis*. I Pantycelyn, proses ddeuol oedd hyn yno eisoes i'w deall mewn realiti, ac wedyn o fewn iaith a etifeddodd ac a ddefnyddiodd o'r newydd. Chwiliai am yr egwyddorion anweledig a oedd y tu ôl i'r gweledig.

Diffiniwn yr Archgyfundrefnau Ffurfiol hyn fel amodau Deunydd llenyddol. Mae bodolaeth Ffurf felly, yn achos Deall, yn rhagflaenu bodolaeth Deunydd, oherwydd bod rhaid rhagdybied trefn, a'i rhoi yn ei lle cyn canfod, ffinio, dadansoddi, cyfansoddi, a thrafod cynnwys. Dyma'r fframwaith ar gyfer trefnu Deunydd pob meddwl, boed mewn llenyddiaeth neu mewn diwinyddiaeth. Ac felly, dyma ragdybiau trefnyddol meddwl Pantycelyn yntau: ei ramadeg ieithyddol yn ogystal â'i ddelweddau llenyddol. Y rhain yw'r cyfundrefnau sy'n

rhadflaenol gyffredin ar gyfer pob Mynegiant wedyn: y maent yn elfennaidd, yn isymwybodol, ac yn angenrheidiol.

Y peth cyntaf, felly, sy'n newydd yn y gyfrol hon yw bod yna gwllwm o Archgyfundrefnau neu Offer dadansoddol sy'n rhadflaenu iaith, yn benodol ar gyfer deall. Fe sylwir arnynt yn ymhlygiad y plentyn wrth ymateb yn *gadarnhaol/negyddol* (eto'n rhan o wahuno) i bobl neu i bethau, i gysur ac i anghysur, i gynhaliaeth a dibyniaeth, ac i gyswllt sain â gwrthrych drwy ddynewared (weithiau'n onomatopëig). Sefydlir arferiadau cyson drwy'r cof a fydd maes o law yn ymddisgyblu'n gyfundrefnau deall. A dysg yn fuan fod y byd a bywyd yn llawn o fathau gwahanol o reidrwydd — un o nodweddion penderfyniadol cyfundrefnu isymwybodol iaith a llên.

Ond heblaw newydd-deb y categori o gyfundrefnu deall ac Archgyfundrefnu, y trydydd peth sy'n newydd yn y gyfrol hon yw'r awgrym bod yna gyswllt rhwng y cyferbyniadau sythweliadol *cynieithyddol* hyn a'r ffurfiau sylfaenol sy'n cynnal *Diwinyddiaeth* Gyfundrefnol ac ar waith yn Hierarci Gweithredu Deunydd *lleyddol*.

Fel gyda gramadeg mewn iaith, ceir *cnewyllyn bach* o fecanwaith potensial mewn lleyddiaeth a diwinyddiaeth sy'n ddigonol ar gyfer *amllder penagored* yr hyn y mae angen ei ddweud. Yr oedd Pantycelyn hefyd yma ac acw yn ei waith yn sefyll i fyfyrion am y materion hyn, nid fel offer cyfundrefnu fel y cyfryw, ond fel materion arwyddocaol mewn bywyd ymarferol ac ysbrydol. Y syndod yw bod yr union ffactorau a brofai'n sylfaenol i ieithyddiaeth Guillaume yn rhai y gellir cyfrif eu bod yn ôl yr ysgrythurau yn briodolledau yn y Duwdod.

Heblaw cyfanwaith llorwedd yr Archgyfundrefnau â'i gilydd, ceir cyfuniad fertigol gyfundrefnol â'r Arfaeth a'r hierarci oll. Fel gramadeg, mae yna gydlynid ar ffurf gyfundrefnol ym mhob man i lynu'r rhannau yn y cyfan. O'r herwydd, y cyfundrefnau hyn yw'r offer elfennaidd sythweliadol a fabwysiedir wrth drefnu pob ystyr. Dyma Ffurf gynieithyddol sydd fel pe bai'n fodolaeth nesaf at y Creu. Fe'u profais o'r blaen yn allweddol wrth fyfyrion am yr offer isymwybodol mewn mydr, cynghanedd, odl, trosiadau, stori, a llenddulliau (*genres*).

I Bantycelyn, fel llenor, di-dor yw parhad y cydlynid rhwng yr Archgyfundrefnau a'r Deunyddiau. Daw'r Archgyfundrefnau iddo ef hefyd yn themâu i'w myfyrion. Dônt i drefnu'i athrawiaethau'n ddisgybledig.

Mae'r cyswllt rhwng y cwlwm o Archgyfundrefnau Ffurfiannol a'r Sfferau Deunyddiau yn agos iawn. Er enghraifft, mae'r gynneddf ddynol foesol, sy'n ymgorffori yn y Gyfundrefn a'r Sffêr Foesol Ddeunyddiol *da/drwg* hefyd ynghlwm wrth ei safle

cychwynnol mewn Archgyfundrefn, sef 'Gwerth'. Mae'r gynneddf esthetig *hardd/hyll* hefyd ynghlwm wrth yr un 'Gwerth' ac wrth yr ysfa sefydliadol o drefn gymen a strwythuredig gynganeddus. Mae'r ymwybod o berthynas *Bod/bod* a *Bod/gwneud* yn y berthynas ddynol yn arwyddocaol hefyd nid yn unig i Ffydd a Seicoleg eithr i Sffêr Cymdeithaseg yn ogystal. Cynneddf yw mewn Gras Cyffredinol, ac nid annhebyg yw'r synnwyr o Dduw (*Sensus divinitatis*) sy'n un mewn gwirionedd â'r Ymwybod o Absoliwt eithaf i'r cwbl. Ac felly i lawr drwy *Uchel/Isel*, *Achos/Effaith*, *Tragwyddoldeb/Amser*, *Symudydd/ Symud* drwy gwllwm o Sfferau Deunydd, o'r pen i'r gwaelod. Mae yna gydlyniad rhyfeddol.

Mae Pantycelyn yn pendroni am Sgêm hyn oll. Fe gydnebydd y rheidiau hyn yn seiliau i'w ddealltwriaeth ysbrydol. Er enghraifft, fe gaiff ef fod yr egwyddor o 'amryw mewn un' yn hanfodol i fodolaeth pob cyfundrefn. Purion: undod yw cyfundrefn Gristnogol uniongred Feiblaidd, a etifeddwyd, ac a olrheiniwyd drwy'r canrifoedd a'i derbyn gan Bantycelyn. Pwnc mawr a chanolog a thestun rhyfeddod oedd y Ddwy Natur mewn Un Person yng Nghrist (nid cwbl anghyffelyb i'r ddwy natur a oedd ym mhob Cristion). Gwiriona hefyd ar yr Anweledig a ddaeth yn Weledig, a'r Tri Pherson yn un Duw yn y Drindod. Nid athrawiaethau ymylog mo'r rheini iddo. Canol Cristnogaeth oeddent. Ond yr oeddent hefyd yn allweddol i ddull deall Cyfundrefneg ei hun mewn Ffurf. Try Pantycelyn yr holl Archgyfundrefnau hyn yn Themâu.

Sut ac o ble y cafwyd yr Archgyfundrefnau, sef offer yr ymchwil am drefn? Wrth chwilio sylfeini deall yr iaith, gan dyrchu am y sythweliadau cynieithyddol, rhaid wrth y rhain yn gyneddfol er mwyn llunio cyfundrefn aeddfed mewn deall. Dyma'r sythweliadau anorfod nad ydym yn eu 'gwneuthur'. Gwelwn y rhain oll ar waith mewn gramadeg ac wrth esgor ar iaith. Methais, hyd yn hyn, â dod o hyd i'r un anghenraid arall sydd heb fod mewn iaith ei hun, ond sy'n sail anochel i iaith, er nad wyf yn gwadu nad oes y fath rai.

Sut y cafwyd yr Archgyfundrefnau hyn? O ble y daeth gwneuthuriad eu hegwyddorion, sef offer yr ymchwil am drefn y daethant hwy ohoni? Wrth chwilio sylfeini deall ac iaith, gan dyrchu am sythweliadau di-iaith neu gynieithyddol, bu'n rhaid eu cael yn gyneddfol er mwyn llunio cytundeb aeddfed mewn iaith a deall. Dyma'r holl sythweliadau cyfeiriol nad ydym yn eu 'gwneuthur' yn fwriadol. Gwelwn fod y rhain ar waith yn rheidiol mewn gramadeg ac wrth esgor ar iaith. Y mae, felly, yn codi o reidrwydd pwrpas.

Yn ail, rhyfedd iawn oedd gweld bod y rhain ar waith, yn ymwybodol neu'n isymwybodol yng ngwaith Pantycelyn (megis yn y Beibl) wrth iddo geisio sylweddoli sut a pham y cafwyd trefn yn y Greadigaeth. Gwyddai felly ei fod yn gweithio o fewn trefn ddwyfol.

Arweinia hyn oll felly at 'Fynegiant'. Oherwydd bod y Sfferau mor gyfoethog, yr Archgyfundrefnau cyflyrol mor bŵerus, a photensial y cyneddfau a diddordebau gan ddyn mor helaeth, tuedda'r beirniaid rhamantaidd diweddar i ymhoffi mewn delwedd o dryblith wrth synied am Ddeunydd Mynegiant. Aeth yn henffasiwn i foli'n unplyg. Y patrwm ystrydebol o ddeunyddio yw tuag i lawr, ac ar chwâl. Gormeswyd y meddylwyr rhwydd gan ddelwedd y llwyd, y sgeptig, y negyddol. A rhaid cydnabod arwyddocâd llenyddol y Cwmp. Ond camarweiniol yw hyn. Nid yw wedi cydnabod y lle sydd i 'Dafod' (yr Arfaeth) yn hyn oll. Dihangffordd ry gyfleus yw tryblith. Ac wrth gydnabod gyda boddhad mawr ffrwythlondeb potensial Mynegiant, anghywir fyddai i Feirniad Llenyddol (megis Ieithydd, neu hyd yn oed Hanesydd) fodloni'n ddiog ar daflu'i ddwylo'n ddiymadferth i'r awyr, o leiaf mewn byd, lle y mae goroesi o blaid byw yn reddf gan Ras Cyffredinol.

[Nodyn: Sylwer mai priodoleddau deall yw'r Archgyfundrefnau hyn. Tarddant yn y ddealltwriaeth ddynol o'r Absoliwt. Dylid, wrth gwrs, nodi bod yna lawer iawn o briodoleddau gan yr Absoliwt heblaw'r rhain, megis Hollalluogrwydd, Trugaredd, Cariad, ac yn y blaen, sy'n rhan o'n 'dealltwriaeth' ohono. Ond ymgyfyngwn ni i'r rhai a oedd yn arwyddocaol wrth adeiladu offer dealltwriaeth.]

YR ARCHGYFUNDREFN GYNTAF: GWAHANIAETHU/TEBYGU;

Cadarnhaol/Negyddol; Un/Amryw.

DADANSODDI.

Dyma ni yn awr yn dechrau arolygu'r Archgyfundrefnau fesul un. Dechreuwn mewn man cyfarwydd.

Yr ŷm fel pe baem wedi bod yn y fan hon o'r blaen. Dyma'r offeryn sylfaenol ar gyfer dadansoddi popeth, sylwi ar wahaniaeth ynghyd â chysondeb neu undod.

Eisoes wrth ymdrin â natur yr Absoliwt, yn yr adran 'Rhyfedd o Un — Tri, yr oedd rhywbeth tebyg i hyn yn cael sylw: y gwahaniaeth o fewn Un Duw. Dyna'n union oedd natur yr Absoliwt ei hun. Yma, byddwn yn ymwneud â chyfundrefnau o wneuthuriad dwyfol, ac eto â'r ffaith hefyd fod rhagluniaeth Duw fel pe bai, ar yr un ffurf ond drwy Archgyfundrefn yn awr, yn llywio dyn i feddwl fel hyn, drwy undodau sy'n ddeuol neu'n driol yn bennaf. Offer deall *a* chyfansoddi yw hyn ar ddelw Duw i drefnu Deunydd o wneuthuriad Duw, ac i achosi patrwm o weithredu dynol. Y mae'n amlwg yn offeryn sy'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu *pob* cyfundrefn. Gellir ymateb yn elfennaidd i gyferbyniad dau neu dri'n isymwybodol. Yma y bu'r plentyn yn dysgu preblan.

Ac wrth drafod y cwestiwn o wahuno, o rannau neu weddau o fewn un, pwysig sylwi nad mater o ddewis yw hynny, ond mater o natur gynhenid orfodol trefn gosmig, peth sy'n annifyr braidd yn yr ymateb rhamantaidd ac ôl-fodernaidd. Dyma ni, felly, yn amgylchfyd 'rhaid'. Wrth drafod Archgyfundrefnau, sôn yr wyf am batrymau seiliol anochel o feddwl. Ceisio dadlau'r wyf fod Pantycelyn ei hun i raddau yn ymwybodol o'r cyfundrefnau hyn, er nad mewn modd ymwybodol weithredol ieithyddol bid siŵr, yn ôl fel y'i gwneir yma. Yn sicr, dyma y mae'n eu defnyddio ac yn eu sylweddoli yn ei waith diwinyddol a barddonol.

Un o'r cyfundrefnau isymwybodol mwyaf cyson adnabyddus o fewn iaith a llên yw Un/Amryw. Fe'i profir yn amlwg yn yr holl gyfundrefnau ieithyddol — mewn arwydd + arwyddedig = arwyddiant; mewn ffonoleg — llafariad, cytsain, acen; mewn gramadeg — enw (gwrywaidd/benywaidd; unigol/lluosog); berf (gorffennol/presennol/dyfodol); graddau cynyddol yr ansoddair; a llu o rai eraill. Fe'i profir hefyd yn yr holl gyfundrefnau seiniol mewn Cynghanedd. Mewn gwirionedd, rhan o *ddiffiniad* 'cyfundrefn' ei hun yw gwahuno.

Ceir yn ddiriaethol ddeuoliaeth a thrioliaeth fel arfer mewn iaith a llên; yn ogystal â'r hyn y gellir ei alw'n lluosrwydd (plurality). Undod/deuoliaeth/trioliaeth a geir mewn cyfundrefnau caeedig ieithyddol fel arfer. A hyd yn oed mewn cyfundrefn luosol, cyferbyniad deuol sydd rhwng y cyfundod a'r lluosrwydd gan amlaf — unigol/luosol megis, er

enghraifft, mewn iaith — y gair/geirfa; a gramadeg (neu Dafod) yn ganlyniad unol i amllder o gyfundrefnau. Ar ryw olwg, cyfundrefnau ‘agored’ o fewn deuliaeth gyferbyniol yw’r rhai lluosol hyn: popeth yn amryw mewn un.

Mewn diwinyddiaeth, tardda’r ddealltwriaeth o ddeuliaeth fawr o fewn person y Mab, a’r drioliaeth fawr yn y Drindod. Ac yna, y mae’r holl archgyfundrefnau, yr un ar ddeg ar hyn o bryd, megis y sfferau a’r cyfundrefnau cyffredin oll gyda’i gilydd yn lluosog, i’w cysylltu â’r cydlyniad diderfyn sydd yn yr Arfaeth, mewn un Hierarci Ffurfiol.

Nodwedd go gyson yng ngwaith yr ôl-fodernwyr ers y saithdegau (onid ynghynt) fu’r pwyslais ar wahanu *yn lle* gwahuno. Rhagdyb fetaffusegol ffasiynol yn hytrach na deallol oedd hyn yn eu plith; ymgais i chwalu’r sylweddoliad o Undod ac o unrhyw awgrym o Awdurdod. Fe’i dilynwyd yn anochel yng Nghymru am mai ‘dilynwyr’ syniadol yn hytrach na darganfyddwyr yw ambell grŵp o’n deallusion mwyach, a’r rheini yn ôl traddodiad Saesneg. Gwahuno yw hen anghenraid arhosol iaith a’r meddwl dynol, ffenomen sefydledig megis disgyrchiant y byddai rhywrai’n ei alw yn neo-geidwadaeth. Ond *Un* gydag *Amryw* mewn gwirionedd anochel yw hanfod radicalaidd pob cyfundrefn. Ac ni ellir symud o fewn brawddeg heb gyfarfod â chyfundrefn o’r fath.

Go brin y gellid anrhydeddu’r anghytundeb, a godwyd oherwydd culni’r gogwydd ôl-fodernaidd yn y ganrif ddiwethaf, â’r term ‘dadl’. Gweithred amhosibl oedd pleidio amhenderfyniaeth luosol amddifad fel egwyddor ystyrion. Math o sgrechair diwinyddol oedd na ellid ei gymryd o ddifri. Ni feddai ar yr undod sy’n amgau pob amrywiaeth ystyrion. Nid oedd yn fynych namyn ysfa lancaidd a ymbesgai’n adwaith cydymffurfiol yn erbyn trefn. Ond y gwir anochel yw na ellid trefn ddeallol effeithiol na ffurfio gair na syniad heb ‘wahuno’, heb gyfuno egwyddor undod ag egwyddor amrywiaeth. Tanseilio amhenodol a drylliadaeth unplyg ddiystyr oedd hoffterau ôl-fodernwyr. Ond darparent fan cychwyn defnyddiol inni wrth inni geisio cyflwyno safiad *Golwg ar Deyrnas Crist*. Nod addefedig y gerdd sylweddol honno yw datguddio presenoldeb Crist ym mhob peth. Rhydd yr hollbresennol amrywiol-unol hwnnw, ynghyd â’r Benarglwyddiaeth sy’n galon i’r Arfaeth, olwg sy’n gwbl wrthwyneb o ran natur i’r symudiad meddyliol chwâl a gafwyd ymhlith rhywrai yn saithdegau’r ganrif ddiwethaf.

I mi, ffaith drawiadol a ‘gwreiddiol’ yw bod diwinyddiaeth Gristnogol wrth gyfeirio at Absoliwt, a rhoi’r fath bwyslais ar Dri Pherson y Drindod, ac ar ddwy natur mewn Un person yn yr Arglwydd Iesu Grist, yn gorfodi ystyriaeth ddifrif gyfoes.

GWWP I, 5

Dwy anian mewn un Person briodwyd y pryd hyn, ...

Mewn undeb anwahanol.

(Am drafodaeth ddiweddar ar Gristoleg Dwy Natur mewn Un Person, gw. *Always Reforming*, gol. A. T. B. McGowan, 2006, 67-124.) Dichon mai dyna pam y ceid y fath drefn ddeuol a thriol ar waith mewn cynifer o gyfundrefnau llenyddol ac eraill. Dyledus yw'r drefn honno i argraff Duw wedi'i gosod ar Ei Greadigaeth, ac felly'n anochel ddiddianc i bawb gan gynnwys y dychymyg ôl-fodernaidd. Does dim gwadu'r amllder na'r ffrwythlondeb yn y ffrwydrad o greadigrwydd; ond does dim gwadu chwaith drefn y gellir rhyfeddu at ei chydlyniad yn hyn oll. O leiaf, mae'n gyferbyniad absoliwt.

Yn wrthrychol, sylwn ar gynildeb y tri chyfuniad cyfundrefnol dwyfol, naill ai'n unol, yn ddeuol, neu'n driol (neu'n lluosol) ym mhob math o gyfeiriadau. Y deuol yw'r mwyaf niferus o ddigon mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. I Gristion, y mae'r cyplysiad deuol hwn yn ddigon disgwylidig, ac i'w esbonio o bosib yn uniongyrchol yn ôl Dwy Natur y Mab, a deuoliaeth *Corff/Ysbryd* dyn. Ac yntau'n Un a fu'n gyfryngwr i'r Drindod yng ngwaith thematig y Creu a'r Achub, y Duw-ddyn (i Bantycelyn) yw'r Person a gaiff y prif sylw. Mewn modd seciwlar, fe ellid ei esbonio yn ôl gofynion gorfodol deuoliaeth offeryn deall — *gwahuno/uno, dirnad/amgyffred* ac o fewn uned sythwelediadol elfennaidd. Ond y mae hynny'n adlewyrchu hefyd y dull pegynol moesol a deallol o ganfod realiti'r rhyfel ysbrydol a rhesymegol: *gosodiad/gwrthosodiad; da/drwg*. Bid a fo am hynny, yn ymarferol wrthrychol, dyna'r adeiladwaith cnewyllo i wneuthuriad mwyaf elfennaidd cyfundrefneg oll. Nid oes dim mwy naturiol na bod mecanwaith meddwl yn ymffurfio drwy gymharu a chyferbynnu.

Yr wyf i'n canfod, felly, y cyferbyniadau (neu'n hytrach y cyfundrefnau deuol, sydd hefyd yn cynnwys ôl-osodiadau yn ogystal â gosodiadau) fel gwedd ar fframwaith meddwl Pantycelyn. Ond diddorol sylwi, wrth i Dr Glyn Tegai Hughes ystyried beth oedd ei brif gamp ('What is it that makes the best of them [ei emynau] so memorable?'), iddo honni'n graff, 'The power lies in the stark contrarities: day and night, storm and sunshine, earthly travail and heavenly rest, fear and Christ's protection'. Dyna frwydr fythol gyfundrefnol y Cristion.

Soniwn am ddeuoliaeth isymwybodol gyson. Dyma'r isymwybod na sylwir arno nes inni chwilio beth sydd ar gerdded. Ffurfioldeb cymen yr amryw. Mae'n llai amlwg na'r isymwybod claf y ceisiai Freud dyrchu amdano. Trefn strwythurol iach yw. Diau mai distaw, cadarn, a thangnefeddus yw'r ffrâm hon, megis disgyrchiant. Ond weithiau, y mae'r gyfundrefn ei hun, neu o leiaf y sylweddoliad ohoni yn troi'n fflam:

GWWP I, 291

*Gwaredu'r saint o uffern a phechod drwg ei ryw,
O safn y bedd ac angau, a'u dwyn i fynwes Duw;*

*A'u harwain tros fynyddau a drysni anial syth,
A grea nef y nefoedd yn gân heb ddiwedd byth.*

Arweinia'r ddeuliaeth gyferbyniol hon, *Nef/Uffern*, yn fynych felly at baradocs. Ac mewn paradocs y ceir llawer o rymuster Pantycelyn. Troad rhethregol yw, meddir. Ond fe'i gwreiddir ym mharadocs cyfundrefnol Cristnogaeth a bodolaeth, fel:

GWWP I, 156 *Duw'n mynnu'r iawn hyd adre, Duw'n talu'r dled yn llawn, —
'Run Duw oedd yn diodde' ag oedd yn gofyn iawn.*

Ac meddai Derec Llwyd Morgan am y dyfyniad hwn: 'Paradocs diwinyddol yw'r paradocs ... eithr y mae rhywbeth hanfodol farddonol ynddo (fel sydd ymhob paradocs mawr). Manteisiodd Williams yn wych arno, gan lenwi darnau helaeth o'i gerdd â chyfosodiadau a gwrthgyferbyniadau bywiol, bywiol yn ddiwinyddol a bywiol yn farddonol.'

Un peth yn benodol a wnâi Williams gyda'r deuoliaethau hyn oedd eu personoli'n gymeriadau yn *Theomemphus* ac mewn llyfrau rhyddiaith diweddarach.

Ffurf ieithyddol *Un/amryw* yw pob paradocs. Yn ffurf, nid oes a wnelo ag unrhyw bwnc penodol. Caiff Pantycelyn mai paradocs yw Cristnogaeth oll. Yng Ngwyddoniadur Princeton 598, â Cleanth Brooks mor bell â dweud: 'The truth which the poet utters can be approached only in terms of paradox.' Mae paradocs yn helaethu ac yn lleddfu ein dealltwriaeth o sefyllfa mewn modd cadarnhaol a goleuedig. Mae'r amrywio'n ymuno'n elyniaethus â'r un. Eto, ffurf yw sy'n 'bur' yn ei hanfod disgrifiol ac yn annibynnol ar Gynnwys. Y ddeuliaeth wrthryfelgar sy'n undod yw Paradocs: *gosodiad/gwrthosodiad* — Cyferbyniad sy'n angenrheidiol wrth ddweud y gwir. Gellid ei gyferbynnu â'r cyfuniadau eraill: (1) *Nef/Uffern*; (2) *Gosodiad/Ôl-osodiad* (sy'n tyfu ohono): *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*; (3) *Paradocs goruwchnaturiol* (*Duw anfeidrol/ yn dod yn ddyn meidrol*; *Brenin tragwyddol/mewn preseb tlawd*; *Ordeinio, gan ethol pob peth/ Cyfrifoldeb dyn*; *Yn marw ar y groes/i bechaduriaid gael byw am byth*). Paradocsau sefyllfa yw'r rhain sydd oll yn dibynnu ar y goruwchnaturiol, ac sydd yn ddiffiniol y tu hwnt i ddimensiwn amser a lle.

Trafodais mewn man arall ffyrdd Pantycelyn o drefnu ystyr pob gair: gw. *TyLl* 235-236, 241, 254: ceir deuoliaethau mewn ystyr ffurfiol arall sy'n gwbl gyfundrefnol megis e.e. *arbenigoli/cyffredinoli*.

Dosbarth helaeth o niferus, felly, yw dosbarth y cyfundrefnau deuol. Gwnaethpwyd hwy o egwyddorion a gydnabyddir yn gyffredinol gan ddarllenwyr y Beibl. Ymrannant hwythau yn ddau is-ddosbarth pellach. Y maent yn cyferbynnu â'i gilydd oherwydd y ddwy ffordd sydd gan y deall, gan iaith, a chan lenyddiaeth i gyplysu elfennau. Yn gyntaf, fe ellir gwahaniaethu neu gyferbynnu ar y naill law yn ôl dau begwn gwrthwyneb, megis

Nefoedd/Uffern: safant felly yn wahanol i'w gilydd, megis *Da/Drwg* neu *Gredadun/Anghredadun*. Fe ellir cydnabod ar y llaw arall debygrwydd, neu estyniad dynol a chadarnhad, y naill i'r llall, megis Dwy Natur mewn Un Person, neu yr Hen Gyfamod a'r Cyfamod Newydd. Nid ailadrodd moel a geir yn y rhain, eithr (gyda pheth gwahaniaeth) fath o adain neu ymhelaethiad neu fath o dyfiant cysylltiol. Mae yna Undod yma felly lle y ceir peth cyferbyniad wrth gwrs (lle bynnag y bo geiriau gwahanol), eithr lle y ceir hefyd gyplysiad a fwriedir yn bennaf fel cwblhad o gyfundrefn, megis *Pechod/Marwolaeth*, neu *Gras Cyffredinol/Gras Arbennig*.

Er ein bod yn sôn am egwyddorion a ffurfiau dysgeidiaeth yn y fan yma, fe welir bod y ffurfiau o gyplysu'r egwyddorion yn dilyn fwy neu lai y tair ffordd o gyplysu llinellau mewn barddoniaeth Hebraeg: aralleirio, cyferbynnu, helaethu. Soniwn yn y fan yma am brydu doethineb a mydryddu dameg.

Cafodd Williams, er hynny, ddeunydd crai i'w fyfyrddod cyfundrefnol drwy ddatguddiad neu sythwelediad cychwynnol, — yn wahanol i Wyddonydd sydd yn mynd at Natur fel cam cyntaf gweledig er mwyn darganfod y deddfau a'r cyfundrefnau anweledig. Ceid yr anweledig sylfaenol mewn Goruwchnatur wedi'i ddatguddio i Williams eisoes yn y Beibl ei hun. Chwilio am ddeuoliaethau unol a thriolaethau gwrthrychol unol sydd eisoes ar waith mewn Mynegiant yn y Gair datguddiedig, dyna'i fethodoleg isymwybodol ef. Rhoddedig oedd y Beibl iddo, ac awdurdodol wrthrychol er sylweddoli'i natur farddonol sylfaenol ei hun. Derbyn oedd osgo Williams fel y derbyniai ddeddfau Natur, gan ddarganfod y patrymau cyferbyniol parod o fewn y datguddiad anffaeledig.

Weithiau, gellir cynllunio patrwm rhediad y thema hon o fewn cydbwysedd pennill neu linell. Hynny yw, bydd y Ffurf yn adlewyrchu neu'n atseinio'r Deunydd:

GWP II, 123 *Yn Eden, cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwllith;
 Syrthiodd fy nghoron wiw;
Ond buddugoliaeth Calfari
Enillodd hon yn ol i mi;
 Mi gana' tra f'wy' byw...*

*Y ddraig a sigwyd gan yr Un,
Can's clwyfwyd dau, congwerodd un,
 A Iesu oedd Efe.*

Fel y dywedodd Dr Kathryn Jenkins, 'Mae'r emynydd fel petai'n disgrifio rhyw fath o frwydr gosmig i orchfygu pechod. Cymell ei enaid a wna Pantycelyn i weld yr Iesu buddugol â llygaid ffydd.' Ni cheid yr un drwg heb ei ateb gan y da.

Ceir llu o linellau cyffelyb, nid annhebyg i farddoniaeth Hebraeg lle y clywir tyndra'r cyferbyniad.

GWP II, 215 *Colled, enill pob peth arall*
 Os na 'nillir Di dy Hun ...

Nid oes syched arna'i mwyach
 Am drysorau gwag y byd,
Pob peth gwerthfawr a drysorwyd
 Yn fy Mhrynwr mawr ynghyd.

Neu eto:

GWP II, 225 *Pa un drymach yw fy mhechod*
 Ai gruddfanau Calfari?

Hynny yw, roedd y ddeuliaeth ffactorau hyn yn wedd ar yr efengyl ei hun ac yn sylfaen i'w feddwl barddonol.

Cymerer y pâr *cariad/pechod*. Y mae Williams, fel Herbert o'i flaen, yn eu cyplysu'n anochel:

GWP II, 236 *Dacw gariad, dacw bechod,*
 Heddyw'u dau ar ben y bryn,
Hwn sy'n gryf, hwn acw'n gadarn,
 Pwy enilla'r ymgyrch hyn?
 Cariad, cariad,&c.,
 Wela' i'n perffaith gario'r dydd.

Mae'n farddonol effeithiol, ac yma yn gyplysiad dramatig. Ond nid cyfundrefn ieithyddol anochel mohoni yn y fan hon, er bod Williams yn ei defnyddio'n gyfundrefnus ac mewn gwrthdrawiad teg ac ystyrlon. Nid oes dim rheidiol ynglŷn â'r gwrthdrawiad hwn. Byddai *cariad/casineb, pechod/purdeb* yn gyplysiad tecach, fe ddichon. Ond 'achlysurol' neu arbennig annisgwyl o fewn cyd-destun ar gyfer y gerdd hon yw'r cyplysiad chwithig yn emyn Williams. Dyma'r hyn a alwaf ymhellach ymlaen yn 'fotiff' heb fod yn ddyledus ond i ffurf y Gyfundrefn Thematig (ailadroddedig) 'mewn Mynegiant'. Strwythur meddyliol yw.

Bid siŵr, y mae'r ddeuliaeth ffurfiol (ynghyd â sylwedd deunyddiol a ddisgrifiwn yn awr) yn ymgysylltu'n eglur ag Archgyfundrefn yr *Anweledig/Gweledig*. Mae diriaethu cynhwysol pendant ar gael yn y fan yma, sef y *Duw goruwchnaturiol* a'i *Greadigaeth*. Ond yr un pryd, pan welwn estyniad i hynny yn y dimensiwn *Tafod/Mynegiant*, canfyddwn hefyd fod a wnelom â Ffurf yn ogystal. Thema yw'r ddeuliaeth: cymorth i feddwl hefyd.

Undod, heddiw, fel erioed yn ddiaw, yw'r maen tramgwydd; ac arwahanrwydd, anghrediniaeth, balchder diffyg dibyniaeth (gwrthrych hiraeth y dyn syrthiedig), dyma'r hyn a drechir gan yr undod. Ac yn yr undod profir y cariad sy'n wraidd iddo, cariad yr hiraetha'r Cristion mor daer amdano.

Yn *Hanes Bywyd a Marwolaeth Tri o Wŷr Sodom a'r Aifft*, y mae Williams yn cyferbynnu ar y naill law ddau gymeriad Afaritus a Phrodigalus, ac ar y llall y Cristion. Er mai dau sydd ar un ochr ac un ar y llall, fel hyn y dywed Williams, GWWP II, 120,

'dau ohonynt oedd o'r un ysbryd, yr un diben, a'r un waith, ac yn terfynu eu siwrnai i'r un lle; ond y llall oedd yn amrywio mewn gwaith, diben, ysbryd ac egwyddor. Enw un oedd Afaritus, a gyfenwid felly oddi wrth ei awydd gwyllt am gyfoeth; enw'r llall oedd Prodigalus, am ei fod yn anghynefin afradlon, ac yn gwneud duw o'i fol; ond y trydydd a gyfenwid Ffidelius, ac efe oedd Gristion'.

Drachefn, mae'r hyn a wna Williams, wrth amrywio rhagenwau weithiau, yn codi ystyriaethau lluosol wrth drafod ei gynulleidfa. Mae 'fi' a 'ni' yn fwy na symud rhwng unigol a lluosog. Mae a wnelo â pherthynas bersonol, â chyfrifoldeb, â serchiadau, â chynrychiolaeth, ag agosrwydd. Mae'n fframwaith meddyliol. Ac felly, hefyd mewn ffordd ychydig yn wahanol, y ceir yr amrywio rhwng 'ti' a 'chwi'.

*

*

*

Estyniad arall, mewn gwirionedd, ydyw'r gyfundrefn driol ffurfiol i'r gyfundrefn ddeuol. Dyblir y cyferbynnu, drwy droi cyferbyniad sydd bellach yn undod ac yn endid, sef y ddeuoliaeth unedol, a'i chyferbynnu neu'i hailadrodd ymhellach ac o'r newydd ag un elfen ymestynnol, — yn drioliaeth.

Gellir cynnal y deuol yn sythwelediadol rwydd o hyd yn y meddwl, yn ddelweddol felly, drwy ddal un gyferbyn ag un. A gellir mentro'n sythwelediadol drin y ddeuoliaeth honno ei hun yn syml, fel undod wrth ymestyn ymhellach, tuag at y tri. Gall y meddwl cyffredin gynnal yr uned newydd honno yn anfwriadus o hyd ac yn 'ddifeddwl', gan gael cyferbyniad â'r cyferbyniad. Felly y ceir y gyfundrefn yn ddelwedd driol drwy sythwelediad elfennaidd. Canfyddiad yw tri-yn-un lle y mae'r argraff sydyn a'r ddelwedd yn gydnabyddedig heb gyfrif. Sythwelir y ddelwedd yn syml gyntefig unol. Gellir, yr un modd, gynnal dau gyferbyn â dau, tri gyferbyn â thri, a'u huno neu'u hychwanegu'n elfennaidd reddfol ymhellach. Ac felly y bydd y meddwl yn isymwybodol yn adeiladu'n raddedig gyfundrefnau mwy 'cymhleth', sef drwy strwythuro'n ddeuol neu'n driol gynyddol byramidaid. Ond mecanwaith meddyliol deuol neu driol yw'r offeryn a fabwysiedir yn waelodol o hyd, ie hyd yn oed yn y lluosol hefyd fel y cawn weld. Yn naturiol gyfundrefnol, uwchben y rhif tri (ond yn dal yng ngradd eithaf yr ansoddair), yr hyn a ddelir gan yr isymwybod yn gyferbyniad sythwelediadol yw *unigol/lluosog*.

Gellid cyfeirio at ambell uned driol go adnabyddus yn enghreifftiol, megis *Tair Swyddogaeth Crist* (a'r Cristion) — *Proffwyd, Offeiriad a Brenin*. Byddaf i yn synied fod yna dair cynneddf o dan ymbarél credu Pantycelyn, megis *y deallol, y serchiadol, a'r ewyllysiol*. Ond wrth fyfyrion ym mhrosiect *Beirniadaeth Gyfansawdd*, yn wir o'r dechrau llenyddol cyntaf yn *Llên Cymru a Chrefydd*, a chan aeddfedu rywfaint, gobeithio, erbyn cyrraedd y ddwy gyfrol ar Fawl, bûm i'n canolbwyntio fwyfwy ar driawd Cymhelliad, sef *Gwerth, yr Ysfa am Drefn, a Diben*. Ceir, yn nechrau Genesis, Dduw sy'n sefydlu Gwerth (Da oedd); Duw sy'n dosbarthu popeth yn ôl ei Rywogaeth ac yn sefydlu Trefn (gwahanu Mathau); a Duw sy'n gosod, gerbron dyn, y Diben (ffrwytho ar y ddaear) er gogoniant iddo Ef. Mae'r triawd yma yn eglur gan Bantycelyn.

Gwiw cofio gyda Phantycelyn, wrth i Dduw osod i lawr werth daioni, Ei fod yr un pryd yn gosod i lawr eithafbwynt trefn Moesoldeb. Ond dyna ni yn awr yn cyffwrdd ag Archgyfundrefn gyfredol arall, sef Cymhelliad, sy'n cysylltu Tafod â Mynegiant, Ffurf â Deunydd; a byddaf am ystyried honno yn bumed Archgyfundrefn yn ein cytser.

Ceisiais sôn yn y fan yma, felly, ochr yn ochr ag *un/amryw* fel Deunydd, am gyfundrefnau a oedd yn sylfaenol ddeuol neu driol yn ôl gogwydd y Beibl, ac yn ddiriaeth felly yng ngwaith Pantycelyn. Gellid cynnal undod elfennaidd yn y meddwl fel yna, heb fynd yn rhy ymwybodol. Bid siŵr, fe ellid helaethu wrth ymdroi gyda'r fath ffurf neu batrwm, a hyderir y gellir trafod rhai o'r cyfundrefnau eu hunain yn fanylach, o'u cyferbynnu ag archgyfundrefnau ymhellach ymlaen. Y mae'r fframwaith cynddelwaidd hwn yn gallu dylanwadu ar y meddwl dynol wrth i hwnnw mewn Mynegiant sylwi ar weithgaredd trefn. Yn wir, mae yna ysfa, hyd yn oed mewn Mynegiant, i geisio cadw rhai o ddulliau trefnol Tafod.

Yn ôl Dionysius, ac felly nid ar ganol priffordd uniongredded Cristnogol, urddir rhengoedd yr angylion mewn trefn driol: 1. Seraffim, cherubim, thronau; 2. Dominiynau, galluoedd, awdurdodau; 3. Tywosogaethau, archangylion, angylion. Tebyg mai'r un mor bersonol oedd y patrwm a ganfyddid yn yr eglwys ei hun: hierarch, offeiriad, a gweinidog (neu esgob, presbyter, a diacon). Felly hefyd y sagrafennau: goleuedigaeth, y cynnull ynghyd, a'r ennaint (bedydd, cymundeb:offeren, ac olew). Fframwaith meddwl achlysurol a ymsefydlodd yw hyn oll, dybiaf i, yn gam neu'n gymwys. Dyma'r lle hefyd y gwreiddiai pwrpas hierarcaeth (term Dionysius) sy'n tynnu'r holl greadigaeth yn undeb gyda Duw:—puredigaeth, goleuedigaeth, undeb (neu berffeithiad). Pwrpas y 'gyfundrefn' sydd gan bob cyfundrefn fel y cyfryw yw tynnu pob bodolaeth yn ôl i undeb â Duw. Ffordd o feddwl yw.

Ac felly, mewn Mynegiant ceir tuedd gyson i sefydlu trefn gwllwm yn ddeuoedd neu'n drioedd unol.

* * *

Mewn gwirionedd, mi syniaf mai gwedd ar y gyfundrefn ddeuol *un/amryw* neu *gyfan/rhannau* yw'r hyn a alwaf am y tro yn 'gyfundrefnau lluosol'. Dyma'r gydnabyddiaeth seml fod yna amllder weithiau o elfennau gyda'i gilydd sy'n cyferbynnu â'r undod, megis yn *Eglwys/aelodau; gras/ffrwythau'r Ysbryd*. Yn yr amllder deuol, ymdeimlir â detholiad.

[Nodyn: awgrymaf y term 'lluosedd' (pluralism) i gydredeg â 'relatifrwydd' (relativism), ac i'w cyferbynnu â 'lluosrwydd' (plurality) a 'relatiffiaeth' (relativity).]

Yr hyn sydd gennym yn y cyplysiad cyferbyniol *aelod/eglwys* yw cymhwyso'r gyfundrefn ieithyddol Rhif: megis *ti/chwi*. Ond difyr yw olrhain y modd y mae Pantycelyn yn yr ymddiddan rhwng Mary a Martha yn llithro'n afreolaidd gymysglyd rhwng yr 'unigol' a'r 'lluosog', o'r naill i'r llall, wrth iddynt siarad â'i gilydd. Blerwch oedd hyn, medd rhywun. Yn sicr, mi dybiaf mai isymwybodol ac anfwriadus oedd. Ond diau fod i hyn bwrpas cudd, oherwydd nad lluosogi yw unig na phrif amcan Rhif yn yr achos hwn, eithr cyffredinol efallai, neu agwedd agosrwydd neu ffurfioldeb. Pan lithra *ti* yn *chwi*, yr hyn a wneir yw trawsnewid ergyd yr hyn a wneir oddi wrth y personol cyfyngedig i'r sefyllfa agored gyffredinol. Felly y bydd Williams yn defnyddio cymeriadau unigol mewn modd alegoriaidd neu symbolaidd, er eu cadw'n unigolion yr un pryd. Traethu y mae ef am y *ti* er mwyn i'r *chwi* ddysgu.

Analog yw meddwl Pantycelyn ei hun, felly, i'r bydysawd. Wrth gwrs, nid yw'r ddau yn union debyg gan fod y bydysawd mor eithriadol o enfawr amrywiol, ac yn cynnwys meddwl lawer wrth gwrs heblaw eiddo Pantycelyn, Ond yr un egwyddor neu gyfundrefn hanfodol sydd ar waith yn y naill a'r llall, yr *Un/amryw* sy'n effeithiol, ac yn effeithiol yn ddeuol, yn driol, ac yn lluosol, fel tair gradd gynyddol gymharol yr ansoddair lle y mae'r radd eithaf yn cynnwys 3+.

Ymddengys efallai i rywrai fod a wnelom o hyd â 'lluosedd' noeth (pluralism) yr Ôl-fodernwyr. Ond egwyddor wrthwyneb yw honno. Penagored annibynnol yw ar Undod. Y mae 'lluosrwydd' neu'r lluosol (plurality) ar y llaw arall ynghlwm wrth Undod. Ceir hierarci ynddo: dyma ffrwythlondeb, ac nid chwalfa.

Mae meddwl Pantycelyn, megis y bydysawd, yn hierarci sy'n eiddo i'r Absoliwt, a hwynnw'n Undod ac yn Drindod. Tardd popeth ynddo o Hwynnw. Y Greadigaeth sy'n unol yn ei hamrywiaeth; y sfferau deddfog a sefydliadol o feysydd 'pynciol', bob un yn y meddwl dynol sy'n tarddu o sffêr drosgynnol, boed yn enwol neu'n ferfol; y gyfundrefnau eithriadol

aml wedyn oll ynghlwm wrth egwyddor greiddiol y gyfundrefn gynddelwaidd, sef amllder (deuol, triol) o fewn uned; ac yna'r Cristion unigol, yr aelod personol o fewn yr Eglwys.

Cyfan/rhannau yn ei hanfod yw'r bydysawd, felly, megis meddwl Pantycelyn ei hun. Yn amgylchfyd *iaith/llenyddiaeth*, ceir 'cyfundrefn' gynhaliol *Tafod/Cymhelliad/Mynegiant*. A chynildeb yw Tafod mewn iaith ac ym meddwl Pantycelyn sy'n esgor ar lawnder amryfal luosog ei Fynegiant. Felly, eto, yn achos lefel sfferau deddfog pynciol llenyddiaeth i gyd, a drafodir ymhellach ymlaen: fe geir o fewn awdurdod yr Absoliwt yr hyn a eilw Dooyeweerd yn 'Sfferau Sofran', bob maes yn meddu ar ei hawliau a'i foddau ei hun, yn wir ei 'deddfau' ei hun mewn Tafod, sy'n unigolyddol 'gyd-annibynnol', megis y Sfferau llai eu diffiniad cylchweithiol mewn Mynegiant llenyddol, sydd hwythau yn meddu ar unigolyddiaeth bob un â'i 'rheolau'.

Yn 'Rhan y Pumed', *Golwg ar Deyrnas Crist*, sy'n gân o fawl i amrywioldeb, darllenwn:

GWWP I, 66 *Y rhain ga's eu cymhwyso'n ôl eu hamrywiol le,
I deimlo o hapusrwydd, o'i haelïoni E'...*

GWWP I, 67 *Fel gall ein holl synhwyrâu gael eu neilltuol flas
Oddi wrth yr amrywioldeb sydd 'r hyd y ddaear las...*

*Amrywiol fath ar 'hediaid a greodd e'n y nen,
O'r fwltur fawr 'sglyfaethus i'r dryw a'r wenfolén;
Amrywiol bluf a lliwiau, amrywiol fannau i fyw,
Hwynt oll heb feddu rheswm yn ymgysylltu â'u rhyw.*

*Amrywiol ymborth iddynt, nid yr un peth o'r bron,
Fath lu di-rif eu cynnal ni allai'r ddaear hon;
Amserau a manau amrywiol...*

Ni chafwyd y fath Fawl na theyrnged i amrywioldeb erioed yn hanes Cymru, a hynny mewn arwrgerdd a luniwyd i ddathlu Un.

Ymddengys mai'r amrywioldeb hwn o fewn trefn y ddaear sy'n rhoi'i odidowgrwydd cyfoethog i'r cyfan: sonia Pantycelyn am amllder y gwahaniaethau rhwng coed:

GWWP I, 70 *Rhai ddyry gnau neu 'falau, neu olew, neu ynteu win,
Rhai aeron melys, hyfryd; rhai i ddilladu dyn;
Rhai wrysg, neu gwm, neu sugyn; aroglau ddwg rhyw bren;
At ddodrefn, rhai at longau, neu gaban uwch ein pen.*

Mae'r amrywioldeb lluosog hwn yn troi'n rhestr orfoleddus. Ond yn y fan yma, efallai, rhestr gyferbyniol yw. Rhaid bod y bardd fel ci mewn ffair yn rowndio rhyfeddodau diderfyn helaeth nef a daear. Mae wedi gwirioni ar yr amllder cyfoeth.

GWWP I, 73 *Yn awr mae amrywioldeb yn llanw wyneb byd
I foddio'n holl synhwyrâu ar bob amrywiol bryd.*

Ac yna, yn anochel, try oddi wrth y Greadigaeth, ac yn ôl megis maged tuag at y Groes, o'r llawenydd at y gwrthwyneb; oddi wrth yr amryw at yr Un.

GWWP I, 74 *Galerwch, fryniau uchel, ar un ohonoch chwi,
Calfaria oedd ei enw, bu farw ein Harglwydd ni;
O! cofiwch, greigydd hefyd, fod eich Creawdwr do'th
Ryw ran o dri diwrnod yn gorwedd yn eich croth.*

Fel ym mhobman, hyd yn oed wrth dywallt mawl am yr amrywioldeb creedig y mae Pantycelyn yn mynnu troi at yr Un 'arferol' (iddo ef), y tarddiad a'r adferiad i'r cwbl. Mae hynny ynddo ei hun yn drefn: yn Un i'r llawer, a hynyna sy'n dod â godidowgrwydd.

Medd Pantycelyn yn GWWP I, *Golwg ar Deyrnas Crist* 66 RHAN Y PUMED: 'Ynghylch yr amrywioldeb o greaduriaid yn y môr a'r tir ac yn [yr] awyr, fel nad oes ran o'r greadigaeth heb ynddi liaws o bob math o greaduraid, ac oll yn amrywio oddi wrth ei gilydd, mewn natur, dull corff, maintioli, lliwiau, lluniaeth, trigfannau, gwisgirwydd, ffordd o amddiffyniad, a thueddiadau; ac oll yn dangos doethineb y Creawdwr.'

Dewisais enwi'r gyfundrefn hon fel y gwneuthum oherwydd mai tuedd y gair *amryw* yw pwysleisio'r gwahaniaeth, ond y mae hefyd yn llai na *llawer*: felly digon yn y fan hon yw nodi'r egwyddor.

Gwelir fy mod yn rhoi llawer o bwyslais o hyd ar yr elfen 'uno' yn 'gwahuno', gan mai drylliadau, lluosedd, a chwalfa fu gorbwyslais yr ugeinfed ganrif. Ni wadaf er hynny yr amrywiaeth, y gwahaniaethu, na'r arbenigoli, wrth gwrs. Ond mynnaf mai gwahanu ynghyd ag uno a chydlynu a chyffredinoli yw'r symudiad meddwl *angenrheidol* a disgybledig tuag at iechyd. Mae'r 'llawer' yn ddatliad ac yn hyfrydwch; ond y mae'r *Un/Amryw* yn egwyddor.

Yr enghraifft amlycaf o'r *Un/Amryw* (lluosol) yw'r Arfaeth ei hun.

GWWP I, 23 *Yn ôl terfynu'r amod yn siwr a'i gadarnhau,
Arfaethwyd pob amgylchiad yn perthyn iddo fai.
O'r greadigaeth gynta' hyd at y farn a fydd,
O fewn i gwysel dirgel y Drindod sanctaidd sydd ...*

GWWP I, 24 *Pryd hyn pwrpaswyd iddo gael trefnu oll i gyd
Yr amryw faith droadau fai yma yn y byd,
O'r cwmp yng ngardd Paradwys nes llosgi daear gron,
A'r cyfan i gyflawni oedd yn yr arfaeth hon.*

Ni ellir llai wrth ymwybod â pherthynas yr Undod a'r Amrywiaeth na sylweddoli'n gyfredol gyfundrefn gyffelyb a pherthnasol amlwg *Rhan/Cyfan*:

GWWP I, 36 *Y gwahan a'r rhagoriaeth sydd ymhob rhan o'i waith*

Dyna'r modd ymwybodol yr oedd meddwl Pantycelyn yn gweithio. Ond dyma'r modd isymwybodol hefyd i bob llenyddiaeth.

Sefydliad cymdeithasol yw'r Eglwys. Caiff sylw helaeth gan Pantycelyn. A sefydliad cymdeithasol arall sy'n arwyddocaol iddo yw'r Teulu. Yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* 101-126 ac *Ysbryd y Cwlwm* 416-444, wrth drafod deunydd y Llenor, bùm yn trafod gweddau eraill ar berthynas *dyn/cyd-ddyn*, sef Dosbarth, Rhyw, a Chenedl. Nid oedd gan yr olaf fawr o arwyddocâd i Bantycelyn; ac ychydig a oedd gan y cyntaf; ond yr oedd yr ail yn bwysig dros ben mewn Teulu. Felly, yng nghyd-destun llyfrau cymdeithasol ymarferol megis *Drws y Society Profiad* a *Cyfarwyddwr Priodas*, gorbwysleisio fuasai'r sôn gynt am 'Bantycelyn, y bardd unig'.

Beth oedd ystyr yr uno amrywiol hwn yng nghyd-destun Cristnogol? Dim llai na chymhelliad gwaelodol y Greadigaeth — Cariad, y perthyn cadarnhaol ffrwythlon. Cariad oedd sylwedd yr uno. Priodas.

- GWWP I, 261 *Ac at **Gyfyngwr** hyfryd cyfamod newydd, drud
Sy'n maddau i'r pechaduriaid ffeiddiaf yn y byd...*
- 262 *Un o'r effeithiau darddodd o fynydd Calfari, ...

Oedd teimlo bod y **drefen** sefydlwyd gynt yn rhodd
I **achub** pechaduriaid yn hollol **wrth fy modd...***
- 263 ***Cyflawnder** o bob bendith tu yma a thraw i'r bedd...*
- 266 *Nawr mae yma **lygad symyl** at **un** peth ddydd a nos,
Sef gogoneddu 'm Iesu fu'n hongian ar y **Gro's**;
Ac y mae ei ogoniant yn wastad yn **gytûn**
Â **iechydwrriaeth rasol** fy enaid i fy hun.*

Yn y fan hon, yr anhrefn wedi'i hatrefnu'n un, y ceir gwrthwynebiad Pantycelyn i'r ddrylliadaeth a'r ymwahanu dogmatig llethol a orseddwyd yn yr ugeinfed ganrif. I Bantycelyn ceid undod i wirionedd ac undod i Berthynas yn yr Arglwydd. Yr oedd ei wrthwynebwyr yn *Theomemphus* yn ceisio clymu'u safbwynt wrth ryw un wedd ar ddrylliadaeth bodolaeth. Yng Nghrist y ceid cyfanrwydd seicolegol, cymdeithasol, gwleidyddol, a chrefyddol. Dyma'i Dafod o'r golwg, ffynhonnell rhagdyb ac amod a threfn. Ym mryd Husserl, yr 'hunan' a ddarparai'r rhagdyb yna; ond wynebai ef y ffaith fod yr hunanau bob amser wedi'u trwytho mewn amgylchfyd hanesyddol dros dro. Ni chaed ynddo y pwynt Archimedaid i drosoli athroniaeth i'w sicrwydd terfynol. Tra oedd a wnelai Gwyddoniaeth â deddfau, cyfundrefnau gramadeg a Thafod, yr oedd a wnelai Ffenomenoleg â'r goddrych ac â Mynegiant arbennig. Ni lwyddai'r prif wth yn yr ugeinfed ganrif i feddu ar y gallu i gwmpasu'r haniaeth ynghyd â'r ddiriaeth. Felly, ffenomenolegwyr fel Heidegger a Sartre hwythau. Eu tramgwydd arhosol oedd dwyochredd cyfundrefnus Cristnogol, Ffydd mewn Gweithred; a gwirionedd mewn bywyd bob dydd. Ac wrth gwrs, y Goruwchnaturiol.

Yn achos Wittgenstein, cydnabyddai fod yna reolau i'r gêm iaith, ond nid arhosai'n ddigonol i ystyried y rheini'n seico-systemataidd. Iddo ef, Mynegiant a âi â'i fryd. Tueddai i ogwyddo'n ormodol at eiriau ac amgylchiadau achlysurol ar draul gramadeg unol anweledig. Ffwythiannol oedd ei ddadansoddiad o'r byd: Mynegiant heb Dafod.

Ymddengys i mi fod Jaspers yntau yn doddi Cymhelliad ar y blaen; ac yn y foment ddirfodol, yn yr ymdrwytho ewyllysiol mewn profiad, yn y fan yna y caiff ef yr eglurhad cryf i fynd rhagddi.

Ar ryw olwg y mae holl ddrylliadaeth oddrychol o'r fath yn yr ugeinfed ganrif yn tarddu yn Relatifrwydd Gwirfoddol Nietzsche a Relatifrwydd hanesyddol Dilthey. Ac wrth gyfosod â hynny y safbwynt Cristnogol, ynghyd â methodoleg ieithyddol Guillaume, nid wyf am fychanu na Chymhelliad na Mynegiant fel elfennau gyda Thafod yn y broses ddeall. Y drafferth gyson o anwybyddu arwyddocâd angenrheidiol Tafod a'i gydlyniad a'i undod yw'r rheswm arferol dros y methiant rhagdybiol i amgyffred Beirniadaeth Gyfansawdd. Rhagoriaeth Pantycelyn oedd nid yn unig iddo sylweddoli'r undod, ond sylweddolodd hefyd y rheswm dros yr undod, a'r ansawdd treiddgar a oedd gan yr undod hwnnw: sment a deinameg ymarferol Cariad Duw, a'r gwahuno creadigol yn y Greadigaeth ydoedd.

Bid siŵr, fel y ceisiais ei ddangos drwy gydol *Meddwl y Gynghanedd* (a lle y syrthiodd Dilthey, gredaf i), mi fydd cyfundrefnau'n newid weithiau, ond y mae Cyfundrefn yn aros. Y cyplysiad hwn Un/Amryw, yn anad yr un, sy'n diffinio Cyfundrefn orau. Cyfan yw sy'n gweithio drwy gydlyniad y gweddau neu'r rhannau. Hyn hefyd yw'r maen tramgwydd i ôl-fodernwyr a weithreda yn ôl rhagdyb dogmatig (mae arnaf ofn) ynghylch rhannu, amhenderfyniadaeth, lluosrwydd, ac yn blaen: y penagored rhamantaidd sy'n chwalfa. Hynny yw, yn y Gyfundrefn yn y byd real daw'r ddau yn un, mae'r tri yn un, mae'r lluosog yn un, ac y maent yn milwrio'n erbyn amhosibilrwydd gwahanu o ran egwyddor unochrog fel holl fecanwaith deuol deall.

Dyma, felly, ar ryw olwg y cymhelliad strwythurol mwyaf diffiniol i'r 'Gyfundrefn' fel y cyfryw — yr angenrheidrwydd cynhenid i gyfuno Amryw o fewn yr Un. Y gwrthwynebiad i hwn a arweiniodd at y pwynt isaf ym mywyd beirniadol yr ugeinfed ganrif — dogma unllygeidiog relatifrwydd, llusedd, eciwmeniaeth weinyddol ddisylwedd, cywirdeb gwleidyddol, y gwrthwynebiad difater ffyrnig i'r rhagosodiad y gallai un peth fod yn ganolog gywir, yr esgus am amlhau amheuan ar egwyddor, a'r cibdellni rhag cofleidio ateb pendant. Rhaid (o ran ffasiwn) fu cael chwalfa ansicr o farnau er mwyn sicrhau dihangfa rhag argyhoeddiad; a hyn ym mryd Pantycelyn a gadarnhâi danseiliad yr Enw nad oes enw arall dan y nef drwy'r hwn y gellid bod yn gadwedig.

Fe anweswyd y relativrwydd hwn, fe'i coleddwyd gyda ffyrnigrwydd diymatal. Cydiodd weithiau yn ein harweinwyr crefyddol yn ddigymrodedd. Dyma iddynt ateb yr atebion, y ffordd a enillwyd i'w rhyddhau rhag ffydd eu rhagflaenwyr. Ac nis archwiliwyd yn rhagosodiadol. Treiddiwyd drwy feinwe pob mymryn o'r gymdeithas, ac fe'i dyrchafwyd yn rhinwedd ac yn orthrwm goruwch pob ystyriaeth arall. Gwrthwynebwyd yr 'Uniganedig' o'r herwydd. Ac yn rhyfedd iawn, ymgysylltai hyn â goddrychaeth yr Ego Trosgynnol, sef y dyb na allai gwybodaeth wrthrychol byth fod y tu allan i'r Fi Fawr.

YR AIL ARCHGYFUNDREFN: ARBENIGOLI/CYFFREDINOLI

DADANSODDI

Mae pob enw — tŷ, Tad, drws — yn ‘arbennig’ ac yn ‘gyffredinol’. Y tro cyntaf y clywsom y gair ‘tŷ’, yn ôl pob tebyg yr oedd yn achlysur neilltuol, yn cyfeirio at un tŷ, adeg tywydd neilltuol, mewn mangre arbennig, ac yn y blaen. A hyd yn oed heddiw, wrth ddefnyddio’r frawddeg ‘mae ef newydd gyrraedd y tŷ’, cyfeirio y byddwn ni at dŷ penodol. Yr un pryd, gwyddom fod tŷ yn ffenomen gyffredinol, fod yna fathau gwahanol o dai, ac yn sicr fod gan dŷ wahanol feintiau o ffurfiau a mathau o daclusrwydd a lleoliad. Hynny yw, mae’r gair yn cynrychioli nodweddion gwahanol mewn un ffenomen gyffredinol. Mae’n dibynnu hefyd ba ochr iddo y sefwch: mae amrywiaeth yn tynnu unigol at lawnder. Ac y mae’n amlwg fod arbenigoli/cyffredinoli yn offeryn sy’n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu a chymhwyso *pob* cyfundrefnu.

Felly’r tro cyntaf y defnyddiwyd ‘tad’: dechreuwyd casglu nodweddion ‘tad’ penodol — barf, yn gwenu, cymedrol dal, llais uchel, yno am frecwast ac wedyn yn absennol tan yr hwyr, ac yn y blaen. Ond ceir tadau gan bobl eraill. Pan dyfwn, clywn efallai y defnydd barddonol o Dduw fel ‘Tad’, a’i ofal, a’i gariad, ein tarddiad ynddo, ei berthynas ysbrydol, ac yn y blaen, a gall hynny olygu estyniad rhyfedd i ni.

Hynny yw, mae symudiad y meddwl o’r arbennig i’r cyffredinol ac yn ôl yn brofiad cyffredin iawn mewn iaith. Gwyddom y gall ambell air gael effaith gyffredinol ac arwyddocaol iawn yn ein bywyd — ‘ymadael, priodas, cancr, mab, ennill’. Mae’r effeithiau’n ymestyn o bosib dros flynyddoedd ac ar hyd gofod. Mae cyffredinoli yn fedr arbennig ond cyffredin, ac eto’n hollol waelodol ymhlith y galluoedd ymenyddol. Rhwng dynion â’i gilydd a phethau â’i gilydd, er bod yna briodoleddau sy’n gyffredinol, eto, yr ydym bob un bob amser yn wahanol. Wrth gwrs, dysg y Cristion fod Duw yn trafod pob un yn wahanol debyg ac yn bersonol unigolyddol, ac eto yn ôl anghenion a diffyg haeddiant cyffredinol cyffelyb.

Arbenigoli/Cyffredinoli yw’r gyfundrefn a ddyry Guillaume yng nghalon y broses o ieithyddia, am fod yna duedd gynhenid ieithyddol yn y natur ddynol i ganfod y cysylltiad rhwng yr enghraifft arbennig a’i sefyllfa ailadroddol. Mae’n cyfateb, gredaf i, i ddeinameg *gwahuno* a welsom yn yr Archgyfundrefn Gyntaf; ond neilltua ansawdd y *gwahuno*. Eir oddi wrth y cyffredinol unol ym meddwl yr iaith at yr arbennig wahanol ac yna’n ôl at gyffredinol newydd. [cf. y Chweched Archgyfundrefn am neilltuo mwy deunyddiol].

Mae’r ddelwedd mewn Seico-gyfundrefneg yn cael ei darlunio yn ôl tyndra deuol yn symud o’r mawr i’r bach / o’r bach i’r mawr (megis o’r llydan i’r manwl, ac yn ôl; o’r aml i’r un, ac yn ôl). Mae yn wedd gynhenid ddeallol ar berthynas y Cristion â Duw; oddi wrth Grist

sy'n bopeth yn y Greadigaeth tuag at bechadur tlawd, ac oddi wrth y pechadur cadwedig yn ôl at ei Benarglwydd ef, a Phenarglwydd pawb. Ef yw'r Cyffredinol a ymgawdolwyd.

Yn yr ymwybod o Dduw hollbresennol, cyffredinol, y mae yna amhosibilrwydd i ddyn amgyffred dealltwriaeth o'r fath nes ei fod yn cael ei brofi'n fwyaf penodol, naill ai ym mhethau diriaethol y Greadigaeth, yn Ymgawdoliad Crist, neu mewn profiad personol dirfodol lleoledig drwy'r Ysbryd Glân yn ei galon:

GWWP I, 66 *Fel gallai'r Duw tragwyddol i'w ddodi ei hun i ma's
Yn ei ddi-dranc ddaioni, a'i anghymharol ras.*

Felly y cyflwyna'r Beibl y berthynas rhwng egwyddor Goleuni cyffredinol a'r llestri golau unigol:

GWWP I, 37 *Fe gasglodd ran o'r g'leuni, fe[i] clymodd ef ynghyd
Yng nghorff yr haul gwmpasog yn llusern fawr i'r byd.*

Mae'r oruchwyliaeth o greu ei hun yn weithred benodol arbennig, a'r rheidrwydd i drefnu yn gosod ffiniau ac yn gosod methu dadansoddadwy o fodolaeth arbennig sydd y tu hwnt i'r deall:

GWWP I, 67 *O amryw rywogaethau rodd i'r 'nifeiliaid fod...*

68 *A gweld trwy bob creadur, y gwyllt a'r dof yn un,
Fath anfeidroldeb rhyfedd sydd ynddo ef ei hun,*

Ond yr oedd i'r unigolyn 'Adda' arwyddocâd cyffredinol, rhywogaeth, ac yn ei ddawn i adnabod a gwasanaethu Duw, mewn perthynas bersonol gyfrifol.

GWWP I, 32 *Fy Mab, byd arall crea; ni grëwn ynddo Ddyn,
A hwnnw hilia filiwn filiwnau ar ei lun.*

Ar un adeg, ef oedd dynoliaeth i gyd, gwreiddyn ein DNA, â'i gyfrifoldeb cynrychioliadol ar ein cyfer oll. Er mai cwmp arbennig a lleoledig bersonol a gafwyd yn Adda ac Efa, yr oedd arwyddocâd cyffredinol iddynt fel hynafiaid cyntaf:

GWWP I, 93 *A thyma'r pryd y coll'som y cyfan oedd â bod
Er bywyd, ac er cysur i ni o tan y rhod,
Y dydd y gwnawd bradwriaeth, y dydd y cablodd ef
O ewyllys rhydd ei galon yn erbyn Brenin nef.*

Pan gwmpodd Adda, llygrwyd y DNA i bawb: collwyd y berthynas â Duw.

GWWP I, 92 *A chwmp a fu'r pryd hynny o'r fath effeithiau chwith
Na welwyd ei gyffelyb, na welir eto fyth;
Fel nad yw'r distryw hwnnw y filfed ran mor fawr
Pe byddai mil miliynau yn cwmpo yn yr awr.*

Yr ydym yn deall sefydlogrwydd pethau drwy fod y meddwl yn gwibio o'r cyffredinol i'r arbennig ac yn ôl. Ond fe sylwn hefyd fod yna batrymau cyffredinol dilys o

oddi wrth yr un at yr amryw. Dyma symudiad seico-systematig sy'n gyffredin ym mhob cyfundrefn ieithyddol.

Mewn hanes storiol, mae awduron wedi bod yn ymwybodol iawn o deipiau, cynddelwau, symbolau. A gŵyr Pantycelyn yntau y gwahaniaeth rhwng Howell Harris yn ei farwnad a'r Howell Harris sy'n 'Boanerges' (ynghyd â gwedd ar Daniel Rowland) yn *Theomemphus*. Yn ei Ragymadrodd i'r gerdd hir honno, dywed Pantycelyn:

*Ni ellir ei alw'n alegori, am fod y personau yn wir ddynion, a'r pechodau, grasusau, temtasiynau, a'r lleill o'r gelynion tumewnlol ac allanol yn cael eu doddi yn eu henwau priod, heb un troell-ymadrodd; ac nid oes yma un **fiction** neu ddychymyg, yn unig enw **Theomemphus** yn represento Cristion. Ond oddi wrth yr amryw gyfnewidiadau personau, a phob person wedi ei dynnu orau ag [a] allwyd ar ôl ei alwad, ei waith, ei rasmusau a'i garacter, gellir ei alw yn brydyddiaeth dramatig.*

Mi ellid bod yn sicr fod yna elfennau hunangofiannol ohono'i hun yn y profiadau y mae ef yn eu hadnabod mor dda. Ac y mae'n bur sicr fod Daniel Rowland (ynghyd â gwedd ar Howell Harris) wedi cyfrannu at y darlun o Efangeliws (heblaw Pantycelyn ei hun), fel yr oedd pobl eraill wedi cyfrannu at ei ddealltwriaeth gymeriadol drwy gydol y gerdd. Ac eto, fe ddywed yn ddidwyll (os yn anghywir):

Ni wnaeth na'm profiadau fy hun, na phrofiadau'r bobl a holais ers 24 o flynyddau mewn amryw Soseietis preifat im fawr gynhorthwy, cans gadewais yn ôl fy hun a hwythau, am nad oeddem gyda'n gilydd mewn drwg na da yn ateb cystal i ddyrchafu rhad ras â hanesion yr Ysgrythur Lân.

Yn ymwybodol (neu beidio) o'r hyn a ddigwyddai iddo, ym mryd Pantycelyn, yn anochel yr oedd perthynas y Cyffredinol a ddô'i'n Arbennig yn athrawiaeth sylfaenol — yr Adda a'r Crist, y naill a'r llall, gyda'i gilydd yn gynrychiolwyr gerbron Duw ar gyfer dynoliaeth oll. Fe welai ef hefyd amdano'i hun fod yr hyn a brofodd ef yn rhywbeth a brofwyd i raddau gan yr holl Gristnogion y cyfarfuasai â hwy: canys bu ar goll, a heb Dduw. Ac yna, yr un iaith a lefarai am yr un profiad ar ran yr holl Gristnogion a ddaethai o hyd i'r hyn a gollasid. Yr oedd yn ymwybodol weithiau wrth lunio'i emynau, mai canu ar ran y Seiadau yr oedd, ac mai ni bawb oedd y 'fi'. Cyffredinol ac arbennig oedd grym pechod. Ond Efô oedd yno. A'r Ysgrythur wrth gwrs.

Felly hefyd, i raddau ym mhrofiad y Seciwlar. Llefaru iaith gyffredin a wna. Nid ef ei hun a'i gwna. Fe'i derbynia gan y Meddwl Cyffredin. Ond fe'i gorfodir ef yr un pryd i'w defnyddio yn arbennig, gan yr unigolyn yn unig. Eto, nid oes neb a gyhoedda lenyddiaeth nad yw'r un pryd yn addef ei fod yn ymwneud â mwy nag ef ei hun. Mewn llenyddiaeth seciwlar,

profiad cyffredin i lenor yw disgrifio a mynegi profiad neu berson drwy osodiadau sy'n ceisio math o adnabyddiaeth neu gyd-deimlad sy'n ymestyn ymhellach na'r eiliad ar y pryd. Cyddafod yw pob Tafod: meddwl y gymuned. Ac y mae'r traddodiad yn llefaru drwyddo.

Mae'r ffaith hon yn hanfodol yng ngweledigaeth gosmig *Golwg ar Deyrnas Crist*. Sylweddolwn mai bydolwg ac arolwg a gwmpasa bob pwnc yw crefydd yn ôl ei natur gynhenid. Mae'r trosgynnol, y Penarglwydd, yn ymwneud â phynciau nad ydynt yn unigolyddol nac yn lleol sefydliadol grefyddol. Ni buasai llunio map neu olchi'r llawr yn ymddangosiadol grefyddol; ac eto, gwyddom am yr undod sydd yn cysylltu pob dim â'r holl greadigaeth mewn llawer o weithredoedd syml. Gwyddom yng nghyd-destun Ecoleg bwysiced y pryfetach. Ac yn benodol, y mae pregeth hirfaith Pantycelyn ei hun ynghylch Crist ym mhob peth yn gwbl gynhwysfawr. Nid yw'n alltudio'r distadl, ac nid yw'n cyfyngu i'r un arbennig a'r lleol. Ac eto, yr un pryd, yno y mae: mae'r Mab Absoliwt unigol yn holllywodraethol ym mhob pennill o'r ddwy arwrgerdd. Gwyddai Pantycelyn am Dduw a oedd yn ddirfodol wrth ymwneud nid yn unig â phopeth pell ac agos, oblegid gwyddai yr un pryd am Ymgawdoliad mewn amser ac yn lleoledig fach, a'i adnabod, yn brofiad hollgynhwysfawr yn ei galon ddrylliedig fechan ei hun. Crefydd yw popeth.

Ambell waith, fe welir beirniad yn canmol llenor o bwys am ei fod yn 'gyffredinol' ei apêl neu'i arwyddocâd. Daeth hyn yn ffactor gwerthuso ym mryd rhai beirniaid. Mae gan Dante, neu Goethe, neu Shakespeare, bethau i'w dweud am fywyd neu am gymeriadau neu ddigwyddiadau sy'n 'wir' neu'n 'dreiddgar' neu'n 'gofiadwy' ar gyfer pob cenedl a phob amser. Yr hyn oedd 'coegi' neu 'dyndra' neu 'amwysedd' i ambell feirniad 'modern' yn yr ugeinfed ganrif, hynny oedd y bachog neu'r cryno neu'r diarhebol i T. Gwynn Jones. Fe'i cyfrifid yn rhinwedd neu'n gamp lenyddol i gynhoi llawer yn yr ychydig, a'r cyffredinol yn y cynnil.

Er nad oes modd yn y fan hon ddilyn y ffenomen hon yn ei llawnder i'w gwraidd mewn iaith, dylwn ddweud mai dyma fedr a ddysg y plentyn bach, wrth ennill 'geiriau' neu 'batrymau gramadegol'. Symuda o'r argraff gyffredinol at benodoli defnydd unigol. Adnebydd wahaniaeth, ac yna â oddi wrth hynny drachefn ymlaen i sylwi drwy'r ailadrodd a'r berthynas, at yr hyn sy'n gyffredinol yn y gwrthrych. Mae'n cyffredinoli, felly, wedi arbenigoli, ac yn sylfaenol abl i wynebu bywyd i gyd.

Wrth lenyddu, fe all bardd yn fynych ymdeimlo â'r ffaith fod a wnelo ef nid ag un gwrthrych neu berson neu 'wirionedd'. Cyfathrebu y mae am bobun a chyda phopeth sydd o dan ystyriaeth yn y frawddeg a'r frawddeg. Wrth ddilyn hynt Theomemphus, er enghraifft, mae llawer un [megis Thomas Parry] wedi ymholi ai Pantycelyn ei hun sydd o dan yr ordd,

ynteu cyfuniad o ddau berson, — ynteu pobun. Digon teg yw synied am ysbryd Pantycelyn ei hun wedi dihuo, yn unigol, fod yr ymwybod o bresenoldeb Duw ar waith, a'r berthynas (neu beidio) rhyngddo ef a Duw yn beth byw iddo megis y gall fod i eraill; a'i ddeunyddiau felly yn emosiynol ac yn feddyliol i'w defnyddio ar gyfer eraill. Dyna sut y gwyddai'r sefyllfa o'r tu mewn. Adwaenai bobl eraill ledled Cymru yn dda (yn dreiddgar ac yn llydan) a chanddynt atgofion — neu broblemau — ynghylch y math hwn o amgylchiad. Cydlynai darnau o'r cefndir hwn. Cydailleidai ef hwy. A thrwy fyfyrddod, a chyd-drafod mewn Seiadau di-rif, gwelai fod a wnelai Theomemphus yn benodol â hanes dynoliaeth ac argyfwng y gymdeithas gyfoes ac â phwrpas bywyd, materion a'i hysigai ef yn bersonol; materion a ymffurfiai hefyd yn ieithyddol yn ei Fyngiant. Yr oedd a wnelai â'r cyffredinol, ond â'r arbennig yn gyfredol. Gwyddai am aruthredd ei bechaduruswydd ei hun. Siaradai felly fel Cristion ar ran pob Cristion unigol.

Yr oedd gorffennol y meddwl dynol yn siarad drwy Bantycelyn yn ei bresennol ar gyfer ein dyfodol ni. Rhan oedd ei arwrgerdd am *Theomemphus* o gorff o lenyddiaeth yr oesoedd, er ei bod (fel yr honnai yn ei ragymadrodd) yn gwbl 'wahanol', ac er bod yr un pryd yr hyn a ddwedai'i gymdeithas a'i gefndir diwylliannol a'i wybodaeth a'i bensynnu oll, yn cydailleidu'i gyfansoddiad. Analog o fath yw pob llenyddiaeth. Mae yna symbolau neu gynrychiolwyr ynddi fel sydd ymhob iaith, am nad oes neb yn ynys.

Câi Pantycelyn fwy na gweledigaeth drwy gyfrwng pobl eraill. Câi werthoedd esthetig a moesol, ac iaith. Am fod iaith a llenyddiaeth, ymhlith pethau eraill, yn weithredoedd cymdeithasol, yr oedd y bardd a'r efengylydd yn ei uniaethu'i hun ag eraill, drwy gyd-deimlad a chydymdeimlad. Canai'n ddirfodol amdano'i hun yn ei noethni. Ond canai ar ran ei seiadau hefyd. Yn wir, dyna a geisiai'n ymwybodol. A thrwy'r mecanwaith meddyliol hwn y gwelai ef yn bell. Gwelai Fetanaratif.

Ond digwydd hyn oll yn *isymwybodol* ar ryw wedd hefyd i bob llenor sy'n werth ei halen. Felly y daw'r iaith gyffredinol i lawer yn iaith i un. Ac ym mryd y beirniad, y mae adnabod arwyddocâd y cyffredinol hwn yn wedd ar werthuso. Mae'n wir bod 'llynyddiaeth grefyddol' yn gallu bod yn llenyddiaeth ddefosiynol gyfyngedig sy'n ymwneud ag un sffêr o fywyd; a dyna'r sffêr yr ymwnâi Pantycelyn yn benodol hapus â hi. Ond y mae yr un mor wir fod i bob llenyddiaeth ddimensiwn crefyddol (ac mae'n arbennig o amlwg yn yr hyn a elwir yn 'wrthgrefyddol', sy'n fynych o leiaf yr un mor unffurf â'r 'crefyddol'), a bod y poenau a'r ymdeimladau seiliol a moesol ac ysbrydol yn faterion cyffredinol nad oes modd eu hosgoi. Mae ffoi rhagddynt yn weithred grefyddol gyffredinol. Bydd y dulliau arbennig sydd gan lenor o drin y ffeithiau hyn yn destun myfyrdod i'r darllynydd unigol yntau (sef y beirniad).

Symuda meddwl y llenor, felly, o'r profiad a'r argraffiadau cyffredinol at yr arbennig. Ond wedyn, drwy'r frawddeg a'r gair a'r sŵn arbennig, fe â ymlaen drachefn at y nodwedd gyffredinol fwy penodol. Diriaetha, haniaetha. Mae bywyd ei feddwl a'i iaith yn bwhwman rhwng y pegynau hyn oll, yn anochel ac yn orfodol. Dyma gyfundrefn oesol-hysbys sy'n rhan arwyddocaol dros ben o fodolaeth pob llenyddiaeth. Ac y mae'n bryd i feirniaid ymhel o'r newydd â'r thema hon. Dichon na afaelwn yn *Theomemphus* yn effeithiol nes inni sylweddoli mai Theomemphus ei hun oedd Theomemphus (a Phantycelyn a phob Cristion unigol yn *Golwg ar Deyrnas Crist*), ac wrth gwrs bob un yn ôl ei botensial cyffredinol o'r golwg.

[Tynnwyd fy sylw at dreiddgarwch a natur adeiladwaith y gyfundrefn hon yn ieithyddol wrth ddarllen pennod Guillaume 'Particularisation et généralisation dans le système des articles français' yn *Langage et Science de Langage*, Québec, 1964; gw. hefyd *Principes de linguistique théorique*, 1973; ac mewn llw o'i *Leçons de linguistique*, megis 1973, lle y mae'n hawlio (t. 139) mai symudiad dwbl yn yr isymwybod dynol ydyw. Bûm i yn fynych yn cymhwyso'r egwyddor i lenyddiaeth, megis *Meddwl y Gynghanedd*, 2005; gw. Mynegai o dan 'arbenigoli', 'cyffredinoli'; hefyd *System in Child Language*, 1970, gw. Mynegai. Yn *System* xix, 151, beirnedais Chomsky am iddo sôn am dueddiadau cynhenid yn y meddwl dynol heb eu henwi na'u diffinio, na dweud o ble y deuent, tra bo Guillaume — heb beiriant cyhoedduswydd America — wedi datblygu'r astudiaeth o'r tueddiadau hynny gan eu diffinio a'u henghreffio a'u disgrifio (bron yn anhysbys i'r byd ieithyddol) ar draws miloedd o dudalennau. (gw. bellach *Language in the Mind*, W. Hirtle, McGill - Queen's, 2007). Yn y bôn, gwahanu yw *particularisation* ac uno yw *généralisation*.

Yr hyn a honnaf ar hyn o bryd yw bod y mater hwn mewn llenyddiaeth yn cyfrannu at werth ac yn wir at fawredd a fframwaith y gwaith llenyddol. Tybiaf fod yna faes gwerthfawr a chyrhaeddbell yn y thema hon nad oes modd ei dilyn yn deilwng ar y foment.]

Pan oedd Pantycelyn yn cyfeillachu â'r praidd yn y Seiadau, weithiau fe'i gwelai'i hun yn ei angen, weithiau mewn buddugoliaeth, ond bob amser ymdeimlai ef ag undod â'i gyd-bechaduriaid. Weithiau, llawenhâi o ganfod y ffrindiau a ddaeth i brofiad, ond pan âi allan i'r byd, fe'i gwelai'i hun drachefn yn ddieithryn megis Adda (y *dyn* cyffredinol).

GWP II 284,	<i>Euogrwydd megys cenllif mawr</i> <i>Sy'n curo 'lawr fy mhen ...</i>
139,	<i>Dyn dyeithr ydwyf yma,</i> <i>Draw mae'm genedigol wlad,...</i>
329,	<i>Dyma'r rhai ddaeth i maes</i> <i>O'r cystudd mawr a'r poen;...</i>

Hynny yw, yn efenglydd, fe wyddai fod pob un yn *perthyn* i hil syrthiedig DNA Adda; ac eto, fod pob credadun yn dod drwy fwllch yr argyhoeddiad ar ei ben ei hun, heb neb ond Iesu'n gydymaith. Yr oedd pob un yn wahanol, ac yn fynych yn dod i'r bywyd yn ôl dull ymdangosiadol unigolyddol, ond un oedd yr angen, un y farwolaeth. Cedwid pob un creadur â'r un Gwaed. Yr oedd y dyrfa o unigolion oll felly — yn ysbrydol — yn *priodi'r* un Person:

GWP II, 167, *Ceisiwch wisgoedd y briodas,
 Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw,
 Nid oes enw teilwng arnynt,
 Ond cyfiawnder pur fy Nuw; ...*

Sylwer: mae gan Williams lu o emynau sy'n dechrau 'Fy Iesu, Fy Nuw, Fy enaid,' heb yr un yn dechrau 'Ein Iesu, Ein Duw, Ein heneidiau', am y rheswm ei fod ef yn gweld ynddo ef ei hun y creadur cyffredinol ac yng Nghrist y Duw cyffredinol, ond hefyd am ei fod yn gweld yn y Seiadau y creadur arbennig a'r Duw personol ar waith ynddynt oll fel ei gilydd.

Ymddengys Cyffredinoli (i rywrai) yn weithred soffistigedig, academiaidd bron. Ond wrth gwrs, dyna a wna baban bach yn bur gynnar yn ei fywyd, wrth ganolbwyntio i ddechrau, yn arbenigaidd, ar fron ei fam; ac yna, wrth weld tebygrwydd *ailadroddol* rhwng y profiad unigolyddol cyntaf ohoni a'r fron honno y funud nesaf sy'n bellach i ffwrdd, ac ar amser arall. Yn y tebygrwydd a'r ailadrodd fe geir cyffredinoli. Y mae'r berthynas rhwng yr arbennig a'r cyffredinol eisoes wedi'i sefydlu. Yn ôl pob tebyg yr oedd y gynneddf neu'r gallu i wahaniaethu ynghyd â chysoni yn gynhenid gynieithyddol, yn elfennaidd gyntefig, ac yn gyfundrefn y gellid hongian arni bob cyfundrefn feddyliol arall. Chwarae plant yw cyffredinoli.

Lle bynnag y cysylltir dau wrthrych â'i gilydd drwy gymharu neu drwy gyferbynnu, yr hyn a geir yw Cyffredinoli'r Arbennig. Ceir enghraifft amlwg a diddorol o hyn yng Nghysgodeg (Teipoleg) Williams Pantycelyn. Dyna'r lle y bydd mecanwaith meddwl Williams, mewn traddodiad Piwritanaidd parchus, yn canfod yn yr Hen Destament gymeriadau a digwyddiadau sy'n dwyn tebygrwydd i'r hyn sy'n digwydd i'r Arglwydd Iesu Grist yn y Testament Newydd. Nododd Howell Harris yn ei ddyddiadur wrth gyfeirio at Sasiwn Llangeitho, Awst 1764: 'Mr Wm Wms preached showing ye Saviour as ye type of all ye Types.' Mae gan Dr Glyn Tegai Hughes sylwadau nodweddiadol graff am Gysgodeg. Dywed yn ei gyfrol *Williams Pantycelyn*, 18: 'One of typology's principal functions is to implicate reader — and poet — in the continuing history, in the great scheme of salvation. He becomes, as Theomemphus is later made to say, ...

GWWP I, 274,

*Yn fyr, fy nhad Aletheius, 'rwy'n un â'r Beibil mawr,
Yn un â'r holl ffyddloniaid o gwmpas daear lawr;
Yn un â chyfraith Seina, yn un â'r addewid rad,...*

Casglu Dr Hughes (ibid 20): 'What Pantycelyn sees is the movement of grace in history, and all this is concentrated in his own person.'

Hynny yw, mae ef drwy ras yn derbyn egwyddor gyffredinol yn ei unigolyddiaeth ei hun: (ibid. 36-37) 'The use of Old Testament 'types' implied a continuation in man of certain principles, a reliving of their experiences under the circumstances of the New Covenant, *a repeating again in us of that which God has done before to Israel*, as Donne says.' Priodol cofio fel yr oedd yr unigolyn (Rhamantaidd) gan Bantycelyn yn ymwybodol o fod yn un â'r Eglwys, a'r unigolyddiaeth wedi'i darostwng yn yr Arfaeth aruthr.

Daw Dr Hughes i gasgliad hynod helpfawr sy'n cysylltu crefft ddeunyddiol Pantycelyn â'i brofiad crefyddol:

39 '*What sets Theomemphus apart from Romanticism is that Pantycelyn's poem diminishes the uniqueness of the self in its insistence on representative functions*'.

Dyna 'fi' Williams. O'i ddeall yn ofalus, y mae pob unigolyn sy'n dod yn Gristion, yn cael ei gyffredinoli yng Nghrist, er ei dderbyn yn unigolyn unigryw. Derbynia rodd a gynigir yn gyffredinol. Mae dwy o brif athrawiaethau y myfyrdod Calfinaidd yn rhoi cryn sylw i'r *Alwad Gyffredinol/Y Cymhwysiad Etholedig, a Gras Cyffredinol/Gras Arbennig*.

Iawn y dadleuodd yr Athro Derec Llwyd Morgan mai alegori oedd *Theomemphus* i raddau: 'Beth bynnag a ddyfyd Williams, y mae yn y gerdd rai cymeriadau sy'n ddigyfnawd, sydd yn sefyll dros rywbeth (y pregethwyr?, er enghraifft): gan hynny y mae rhannau ohoni yn alegoriol.' Ond yr un pryd, ceir eraill — *Theomemphus* ei hun ac *Abasis* er enghraifft, y mae Pantycelyn yn eu dilyn lle yr elont. A gwamalu a wnânt. Ymdrechu a llithro'n ôl. Chwilio, a chael peth, a cholli llawer. Mae dadansoddiad Saunders Lewis o'r gwahaniaeth rhwng *Abasis* a *Theomemphus* eto yn nodweddiadol dreiddgar a meistrolgar. Ond nid 'athrylith' (t.138, *Williams Pantycelyn*) sy'n gwahaniaethu rhyngddynt, eithr llwybr profiad ac etholedigaeth. Procio dilysrwydd tröedigaeth a wna Williams; nid colli tröedigaeth a wnaeth *Abasis*, eithr troi'n emosiynol heb ei ddarostwng yn gyflawn. Pe cofiasai Saunders Lewis hyn am Galfin, fod yna wahaniaeth rhwng gwrthgilio a chwymp oddi wrth ffydd, cydnabyddai mai cwmpo o fewn ffydd a wnâi *Theomemphus*; cwmpo heb ymaflyd yn llawn mewn ffydd a wnâi *Abasis*. Ond mae yna dragwyddoldeb o wahaniaeth.

Gellid dal bod Pantycelyn o hyd yn gweithredu ar sail cyffredinoli. Sef cyffredinoli yn ôl gweledigaeth a phrofion ysgrythurol mewn unigolion diriaethol. Athrawiaethau *Gras* a'i

harweiniau i ddeall. Priodola Saunders Lewis y gwahaniaeth rhwng Abasis a Theomemphus i'r ffaith fod yr ail yn 'ymchwilydd': ymchwil eneidegol o ddirif drwy Ras a'i hachubodd. Ond nid sôn am feddwl Calфинаidd a phrofiad Methodistaidd Pantycelyn a wnâi Saunders Lewis yn y fan yna. Ei gamddeall a wnâi oherwydd ei fod yn olrhain yn ôl rhagdybiau cefndir amherthnasol Gatholig. Meddai Saunders Lewis am agwedd Pantycelyn at Abasis: 'Fe'i damniodd oblegid nad oedd Abasis ddim yn fardd.' Dyna un o osodiadau ieuenctid Saunders Lewis. Ni wn a ddwedsai hyn yn ddiweddarach, oherwydd yn achos Abasis fel yn achos pob 'crefyddwr' neu seciwlarwr arall, yr unig reswm dros ei ddamnedigaeth oedd nad ymddiriedodd hyd yr eithaf yng Nghrist. Gŵr heb wir sylfaen oedd, heb adeiladaeth wedyn, taw beth am ddoniau cyffredin ei awen. Gallasai Crist ddweud wrtho, 'Nid wyf yn dy adnabod di'. Canys nid edifarhaodd yn ôl ansawdd absoliwt. Mae diffyg dyfalbarhad hyd y diwedd yn digwydd ym mhob achos felly oherwydd nad oedd y 'dröedigaeth' ei hun yn ddarostyngiad llwyr ddigonol.

Cywir yw'r undod a geir ym mhersbectif cymharu Hen Destament â Thestament Newydd. Cyffredinolir cymeriadau, yn arbennig rhai'r Hen Destament, — Adda, Efa, Moses, Jacob. Felly'r lleoedd: Yr Aifft, Sodom, Tir Nod, Tir Immanuel. Cyffredinolir digwyddiadau hwythau. Ac estyniad o hynny yw canfod arwyddocâd i bawb yn hanes *Theomemphus*.

Cydnabyddir hyn oll ar waith mewn unigolion. Hynny yw, daw'r cymeriadau'n fyw droeon oherwydd i'w profiadau a'u dywediadau ganu cloch dilysrwydd personol. Ond mae pob cyfathrach yn golygu bod y profiad yn cael ei gyffredinoli hefyd. Mae'r broses o sefydlu adeiladwaith ac o'i ddefnyddio yn cynnwys symud yn gyson feddyliol drwy'r cyffredinol-arbennig-cyffredinol. Yn fwy byth felly pan fo awdur yn siarad â phob dyn tan uniaethu pawb â'i arwr. Uniaethir pawb hefyd â chwlwm o egwyddorion moesol.

Yr oedd pob un o'r Archgyfundrefnau ffurfiol yr ym yn eu trafod, felly, yn angenrheidiol ac yn anochel i Williams. Yr hyn a wnaeth Pantycelyn ohonynt oedd troi'r gorfodol yn rhinwedd. Ni ellid osgoi'r Archgyfundrefnau hyn gan eu bod oll yn rhan o wneuthuriad strwythurol deall a mynegi. Ond cysylltai Pantycelyn hwy yn ei brofiad â datguddiad treiddgar am Dduw ac am ddyn. Enghraifft yn unig o hyn oedd y broses gyson cyffredinoli —> arbenigoli —> cyffredinoli. Dadlennodd ef y Cyfundrefnau hyn yn *Theomemphus* megis yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, sy'n sylfaen i ddeall, yn wedd ar adeiladwaith y Crëwr, ar y greadigaeth, ac ar y waredigaeth. Ac fe'u defnyddiai, wrth gwrs, i adeiladu cyfundrefnau gogoneddus mewn Mynegiant. Ymhyfyrdai ynddynt.

Sôn yr ym am gymhleth weadau cymeriadaeth a digwyddiadaeth yn yr arbennig ac yn y cyffredinol, ac am Williams yn cyflwyno cymeriadau i ni a allai fod yn fwy na rhai

alegorïaidd (heb ymadael â chyffredinolion). Yr oedd yna ddigon o ystwythder llydanrwydd yn athrawiaethau unionged Protestaniaeth i gynnwys holl amrywiadau seicolegol cymeriadaeth ddi-ben-draw yn yr unigolyn ac yn y cyffredinol, a'r un pryd i roi persbectif gwirionedd i bob amrywiaeth digwyddiadol.

Ceid gan Williams yn *Theomemphus*, yn neilltuol felly, amrywiaeth eithriadol o bobl ac o brofiadau; ond pawb yn gweithio o fewn cyd-destun cyfundrefnol, a'r deddfau ar gyfer y cyfnewidiol yn fynych sy'n ddigyfnawid.

Lle bynnag y ceisir yn yr astudiaeth hon drafod themâu llenyddol, a'u holrhain o wedd i wedd, ceisir dangos adeiladwaith cydweol o gynllun meddyliol Pantycelyn ei hun, yn gynrychiolydd i bob darlennydd. Nid claddu'r awdur, er mwyn blaendiro'r darlennydd, eithr eu huno. Olrheinir ynddynt fframwaith cydlynol ei feddwl. A dangosir, gobeithio, weledigaeth bensaernïol ryfeddol o gyflawn.

Eto, cysylltir hyn yn anochel â 'Beirniadaeth Gyfansawdd'. Hyd yn hyn, bu a wnelai Beirniadaeth Gyfansawdd â fframwaith bras strwythurau mwyaf llydan a ffurfiol llenyddiaeth. Lle y cafwyd manylu cyn hyn, fe'i cyflwynid yn bennaf yn ôl ei natur 'ffurfiol'. Ond yn *Y Cynllun sy'n Canu* dangosir y berthynas rhwng y dadansoddiad ffurfiol hwnnw ac adeiladwaith 'Cynnwys/neu Ddeunydd' llenyddiaeth. Er mai llenor crefyddol mawr a gymerir i fod yn enghraifft ddiriaethol, dangosir bod y casgliadau am fframwaith ei Ddeunydd ef yn dra arwyddocaol, yn wir yn angenrheidiol, wrth ystyried fframwaith Deunydd i gyd, hyd yn oed yn y maes seciwlar. Yn yr Archgyfundrefnau, cyferfydd Ffurf â Deunydd, Tafod â Mynegiant — yr Amryw yn yr Undod.

Lle y mae Diwinyddiaeth Gyfundrefnol wedi cael ei disgrifio hyd yn hyn fel cydlyniad trefnus, lle y bu pob rhan yn cyfrannu mewn undod ystyrllon cynlluniedig, yn *Y Cynllun sy'n Canu* trafodir natur Cyfundrefnau thematig y mae Archgyfundrefnau diwinyddol yn eu llywodraethu, ac adeiladwaith clystyrol y gwahanol lefelau sy'n cydadeiladu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn hierarci hyd at Fynegiant. A chan bob lefel ei swyddogaeth.

*

*

*

Sôn y bûm hyd yma felly am *arbenigoli/cyffredinoli* fel symudiad deuol strwythurol yn y meddwl dadansoddol wrth ddeall. Ac yr wyf wedi cysylltu hyn â 'gwahuno' (gwahaniaethu ynghyd â gweld tebygrwydd), sef y gyfundrefn wreiddiol weithredol ddadansoddol gynieithyddol a ganfyddaf mewn iaith a llenyddiaeth.

Ond ni ellir llai nag ystyried *arbenigoli/cyffredinoli* yng ngoleuni athrawiaeth ddeuol arall mewn Diwinyddiaeth Calфинаidd, sef *Gras Cyffredinol* a *Gras Arbennig*. Mae a wnelo *Gras Cyffredinol* â pherthynas dyn â'i gyd-ddynion oll ('pawb a bechodd'), a *Gras Arbennig*

â pherthynas dyn â'i Gyd-Gristnogion oll (pob unigolyn a waredwyd). Gras yw'r ddau. Gan mai Duw yw ffynhonnell pob gras, mae yn penarglwyddiaethu felly, ar *Ras Cyffredinol* yn ogystal ag ar *Ras Arbennig*. Wrth gwrs, wrth gydnabod Penarglwyddiaeth, yr ym yn sôn hefyd am Absoliwt sy'n ymwneud â holl gyfundrefneg Ystyr neu Ddeunydd mewn Llenyddiaeth. Gallwn ychwanegu, *at y cyfeirbwynt Absoliwt felly*, y gyfundrefn allweddol hon. [Cyfeiriaf yn gynnill at waith Cornelius Van Til, *Common Grace*, 1947; *Common Grace and the Gospel*, 1972, a phamffledi ar y pwnc 1953, 1955, 1956.]

Pa sythwelediad, pa sylweddoliad, pa ddigwyddiad a ddarganfyddir yn y fan hon?

Ceir croesffordd. Ar hyd un llwybr Cyffredin, fe â dynoliaeth oll (gan gynnwys Williams) ond ar hyd yr Arbennig yr â Cristnogion oll hefyd (gan gynnwys Williams). Eto, nid yr un mwyach yw'r Cristion mewn Gras Cyffredinol â'r Seciular mewn Gras Cyffredinol. Ceir tir cyffredin, ond heb ddim diduedd arno. Wrth golli neu gau allan Ras Arbennig, dyna yw'r absoliwt neu'r cyfeirbwynt eithaf i'r Seciular.

Cyfeirir at Ras Cyffredinol weithiau fel Gras Ataliol. Dyma'r Gras a ddyry Duw fel na bydd dyn ohono'i hun, yn gynamserol, yn ei ddistrywio'i hun ac yn gollwng ei bechod i'r fath raddau fel y bo byw yn annioddefol. Gras Cyffredinol yw'r posibiladau o ddaioni mewn seciularwyr di-Dduw. Mae'n glawio ar y Cyfiawn a'r Anghyfiawn. Rhagluniaeth yw term Pantycelyn am hyn. Trawsffurfir Gras Cyffredinol yn awr yn Rhagluniaeth.

GWWP I, 110 *Mi ganaf am ragluniaeth fy Iesu mawr, a'i sgil
I ddal fy nhroed rhag cwympto mewn llwybrau dyrys, cul ...*

117 *Wel dyma y rhagluniaeth a roes y Tad ei hun,
Bob gronyn bach ohoni yn nwylo Mab y Dyn,
Ar bob rhyw greaduriaid o'r ddaear las i'r nen,
I ofalu am eu bywyd y rhoddwyd ef yn ben.*

Drwy Ras Cyffredinol, y mae yna fath o 'absoliwt' Naturiolaid i bawb, neu o leiaf Natur ac ynddi argraff yr Absoliwt. Hefyd, fe ganfyddir sythwelediadau llywodraethol cyffredin yn yr Archgyfundrefnau: *Anweledig/Gweledig* ac yn y blaen. Drwy'r rhain y mae yna wedd ar Ras Cyffredinol yn yr holl Archgyfundrefnau. Mae'r drefn i Ras Cyffredinol yn dilyn y ddau symudiad cyfarwydd. Dechreua'n gyffredinol i bawb.

GWWP I, 8 *Ordeiniwyd yr holl drefen y[n] natur eang sydd,
Haf, gaeaf, gwres ac oerni, tymhorau, nos a dydd:
Byd cyflawn o fendithion, rhai mawrion bob yr un,
Fel palas hardd dieisiau i wir roesawu dyn.*

Syrth drwy'r cwmp:

GWWP I, 9 *Dioddef i ddyn gwympto trwy eitha' twyll a sgil,
Nes diosg ei holl freintiau, ei barch, a damnio ei hil.*

Ond drwy Ras Arbennig dethol, hynny yw drwy brofiad diriaethol personol-dragwyddol o fodolaeth ac o bresenoldeb perthyn Duw, a brofir drwy'r Ysbryd Glân ar waith fel arfer yng ngair Duw, fe brawf yr ysbryd dynol adfywiedig — sef Pantycelyn — wybodaeth ac adnabyddiaeth o Dduw yng Nghrist. Mae'r profiad hwn o ansawdd Absoliwt goruwchnaturiol yn effeithio'n dreiddgar gyflawn ar yr Archgyfundrefnau oll, fel eu bod oll wedi'u hydreiddio gan yr Ysbryd. Hwn yn awr sy'n gweithio yn y Cristion newyddanedig 'ifanc' ymagwedd ffres at holl gynnwys Gras Cyffredinol. Digwyddodd: ond ni ddarfu.

Cyfodir o'r cwmp oherwydd Gras Arbennig neu ras achubol, lle y gweddnewidir pawb a ddaw at Grist. I Gristnogion, gweddnewidir Gras Cyffredinol yn Ras Arbennig + Gras Cyffredinol: fe'u cyflyrir, fe'u sancteiddir nes cynnwys y naill ras yn gyffredinol yn y llall.

GWWP I, 105 *Pan brynodd ef fy enaid â'r aberth mwya' drud,
A ball ef un drugaredd sydd eisiau yn y byd?*

Felly yn neinameg Gras i'r Cristion Pantycelyn, ystyriaf fod yna ddau symudiad ysbrydol: y naill yn arbenigoli a'r llall yn cyffredinoli. Hynny yw, trawsffurfir Gras Cyffredinol cynhenid gan yr hyn a ddigwyddodd i'w amodi a'i gyflyru gan Ras Arbennig. Nid yw Gras Arbennig yn dileu Gras Cyffredinol; y mae'n ei drawsffurfio. Ni ellir deall na gwerthfawrogi meddwl na diwinyddiaeth Pantycelyn yn llawn heb gynnwys y ddau ras. Wrth geisio trafod Diwinyddiaeth Ddiwygiedig gyfoes, y mae Dewi Z. Phillips (*Faith After Traditionalism*) yn tueddu i glymu un llaw y tu ôl i'w gefn. Mae'n ei wneud heb ymdrin â'r gwahaniaeth hollol allweddol hwn rhwng Gras Arbennig a Gras Cyffredinol. Ac mae hyn o ganlyniad yn debyg i drafod Crefydd heb Dduw neu Gristnogaeth heb Grist, Cornelius Van Til heb ragdybiaetholdeb, neu Plantinga heb *Sensus Divinitatis*.

Gwêl y cyfarwydd fod yr Archgyfundrefnau hyn i gyd, yr wyf yn eu hystyried, sy'n llywodraethu ac yn amodi holl gyfundrefnau ystyr, yn eu tro yn ymwneud â sythweliadau elfennaidd isymwybodol. Felly hyd yn oed yr Archgyfundrefn hon. Beth, felly, yw'r arbenigoli sy'n cychwyn yr Archgyfundrefn arbennig yma yn achos Pantycelyn? Dyma'r dröedigaeth neu'r deffro mewn aileni. Y 'fi' yw'r goddrych i'r sythwelediad hwn, a pherthynas y 'fi'. Deffroir yn ei berthynas bersonol â 'bywyd' ysbrydol: daw'n fyw. Darganfyddir y fi newydd. Mae'n sythweled bywyd newydd:

*Ai am fy meiau i
bu farw Iesu mawr?*

canai John Elias mewn syfrdandod. Drwy ddarganfyddiad — ac ar ryw olwg y mae'r union ran hon o ennyd fel arfer yn isymwybodol — cyfarfyddir â phrofiad y 'fi' ysbrydol

Pantycelynaidd. Bellach, y mae'r holl ymagwedd at fywyd, ym mhob gwedd a modd wedi cael arwyddocâd cyffredinol gwahanol.

O ran Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, fe gais hyn o gyfrol, felly, drwy undod, wneud dau beth. Yn gyntaf, fe gais ddangos ym mha ffordd y cydlynir yr wyddor honno yn Gyfundrefn o Gyfundrefnau: Ffurf yn ogystal â Deunydd. Ac yn ail, lle y bo Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn ymgyfyngu i Ras Arbennig, fe gaiff Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Gyfansawdd gynnwys Gras Cyffredinol hefyd gyda'r Arbennig, a dangos ym mha ffordd y maent yn cydlynu, gan esgor ar holl Sfferau deddfog ynghyd â'u Themâu a Motiffau, i'r seciwlar megis i'r Cristion.

Gwedd weddol ddieithr, felly, ar Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol a drafodir yn y gyfrol hon yw Gras Cyffredinol. Fel arfer, bydd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn trafod themâu *Gras Arbennig* yn benodol. Ond y mae a wnelo'r Cristion â *Gras Cyffredinol* a *Gras Arbennig*; ac y mae a wnelo *Gras Cyffredinol* ag anghredinwyr yn ogystal â chredinwyr. Felly, y mae'r gyfrol hon yn cyflwyno Diwinyddiaeth Pantycelyn fel y mae'n cyffwrdd â phawb oll yn gyfansawdd.

Cyfamod Creadigaeth I	Cyfamod Creadigaeth II
Adda I	Iesu Grist: Adda II
Dynoliaeth yn Gyffredinol	Abraham Moses Dafydd, a'r Hen Gyfamod
Gras Cyffredinol	Gras Arbennig
Y bobl, y ffurfiau a'r deunyddiau (ac eithrio ffydd achubol)	Yr eglwys bersonol deunydd ffydd achubol

Ni flinaf wrth bwysleisio — y myn yr holl Archgyfundrefnau megis y cyfundrefnau cyffredin gydlynu'n gyfannus. Mae *bodolaeth* yr Archgyfundrefnau, yn wir yr holl Hierarci, yn Ras Cyffredinol, yn sefydliad ac yn olyniaeth gyffredinol. Ac y mae Gras Cyffredinol yn ffenomen absoliwt yn yr ystyr y'i rhoddir i bawb, yn ddiwahân orfodol.

Fe all ymddangos yn rhyfedd efallai fy mod yn cynnwys *Duw/dyn* neu *Absoliwt/unigolyn* fel Cyfundrefn Ffurfiol o fewn Gras Cyffredinol. Eto, hyd yn oed (i'r anghredadun), erys perthynas Ffurfiol a photensial wedi'r Cwmp, a hynny heb effeithiolrwydd yr efengyl. Mawl yw braint anghredadun hyd yn oed, am fod mawl yn

adeiladwaith i'r Greadigaeth. Ac fe'i cynigir i bawb. Cyfrifoldeb yw, gras ataliol yw, Penarglwyddiaethol, rhagluniaeth, rhagdyb. Hynny yw, nid oes dianc rhag Absoliwt. Dadleuai Calfin, a dilynwyr megis Van Til, Lecerf, a Plantinga, o blaid *sensus divinitatis*. Hynny yw, gŵyr pob dyn am Dduw, a bod disgwyl ganddo gyfrifoldeb tuag at Dduw. Gŵyr yr anghredadun fel y credadun am bresenoldeb ffeithiau'r bydysawd. Ffurfiâu anghreedig i'r naill a'r llall yw'r Archgyfundrefnau. Trosglwyddwyd hwy gan Dduw. Cafodd y ddau fywyd corfforol. Gŵyr y ddau am foesoldeb ac am achos/effaith. Cyflyrir y creedig gan yr anghreedig. Ar ryw olwg, gellid dweud na *chrewyd* Gras Cyffredinol Trefn erioed. Ceid pob Trefn eisoes yn yr Absoliwt; ac yn yr Arfaeth. Crëwyd y Deunydd(iau) o ddim. A throsglwyddwyd y Ffurf Arbennig a Chyffredinol honno o'r Absoliwt.

Y DRYDEDD ARCH-GYFUNDREFN: ANWELEDIG/GWELEDIG (Arwydd ar gyfer Arwyddedig.

CYNRYCHIOLI

Welwch chi'r peth – y drws – nid y gair – dim ond y profiad – heb air – cyn cael sain i'w gynrychioli – porte, door, drws – yna, clymir sain â'r profiad o'r peth – ac ystyrion yw – mae'r corfforol wedi cael ystyr – dyma air. Oherwydd iddo gael cynrychiolydd, mae'n rhan o fydd deall yn llawn. Dyma ffenomen mor aruthrol o sylm; sy'n un o ryfeddodau mwyaf deall; ac mae'n cerdded wedi cael cynrychiolydd. Mae'n ddrws i'r iaith.

Un dosbarth cyfun yn yr Archgyfundrefnau-Ffurf yw Cynrychioli. Ac ymhlith yr Archgyfundrefnau sy'n Cynrychioli, ceir Anweledig/Gweledig. Cam anferth yn hanes twf yr iaith yw cysylltu ystyr â swm, neu Arwyddedig ag Arwydd. Hynny yw, cysylltir y ddelwedd feddyliol fewnol ag uned synhwyrus allanol. Mae'r weithred ieithyddol o gynrychioli, symboleiddio hyd yn oed, yn sythwelediad syfrdan. Ond nid yw heb berthynas â'r cyferbyniad diwinyddol 'Anweledig/Gweledig'. Fe â delwedd y gwrthrych o'r meddwl i'r wefus. Daw i'r golwg, ond ar ôl bod yn gyntaf o'r golwg.

Pan sefydlir cyfundrefn yn y meddwl sy'n galluogi i rywun ddeall rhai pethau yn ei amgylchfyd a dechrau defnyddio iaith, mae hynny'n golygu fod gan hwnnw *offer anweledig* yn barod ar gyfer *ymarfer yn weledig*. Gwir yw hyn am bob cyfundrefn ym meysydd deall, iaith, llenyddiaeth, a diwinyddiaeth. Mae'r cof yn storio delweddau a syniadau ffiniedig ar gyfer eu defnyddio. Ac wrth eu cadw, ar gyfer ailadrodd, y mae'r meddwl yn darparu cyfundrefn *potensial/gweithredol*.

Calon fy ngwaith ers hanner can mlynedd fu'r Anweledig. Bydd y dyn yn y stryd (os yw'n normal) yn meddwl am Eirfa pan synia am iaith. Purion. Ond bydd yr ieithydd cyfansawdd druan yn dechrau gyda Gramadeg yn aml — y ffurfiant anweledig hwnnw yn yr ymennydd. Dyna un o gynhwysion y Gair ei hun. Gwêl ieithydd Ramadeg hyd yn oed yn y gair unigol (lecsem + morffem). Felly'n ôl pob tebyg, bydd y beirniad llenyddol 'yn y stryd' yn canolbwyntio bellach ar Ddeunydd thematig mewn llenyddiaeth (neu wrth gwrs 'ffurfiau' arddullegol). Ond bydd y beirniad cyfansawdd yn dechrau gyda sylweddoliad llawnach o Ffurf sythweliadol y Deunydd. Hyn sy'n trefnu llenyddiaeth.

Ni welodd neb gyfundrefn erioed. Patrwm yw, trefn strwythur anwel, y gall y pum synnwyr gydag ychydig o berswâd gan Gymhelliad (gwerth, ysfa am drefn, diben) ei droi'n weledig drwy ymwybod â'r gyfundrefn *Ffurf/Deunydd*, gan adael y gyfundrefn *Anweledig/Gweledig* lle yr oedd, i weithio am ddiwrnod arall. I rai beirniaid Rhamantaidd neu Ôl-fodernaidd, ychydig yn anhunanfeirniadol efallai, mae popeth y tu hwnt i'r pum

synnwyr yn anathema, neu'n eithriadol niwlog a di-ffurf. Mae 'cyfundrefn' yn air bygythiol iddynt ac eto'n anathema. Dowch gyda mi, felly yn ôl ein harfer, i fod yn anathema am ychydig mewn ffordd fwy bygythiol nag y dylem.

Mae'r arfaeth oll yn anweledig. Cynllun yw. O'r herwydd, yr hyn y mae'r gwyddonydd yn chwilio amdano yw'r deddfau cudd hyn y tu ôl i'r ffenomenau gweledig. *Anweledig/gweledig* yw'i fyd ef.

Bydd y rhai sy'n gyfarwydd â Beirniadaeth Gyfansawdd a'i delwedd o drefn llenyddiaeth yn gyfarwydd â'r cyferbyniad *Tafod/Mynegiant*. Mae hyn ar waith ym mhob cyfansoddiad llenyddol, yn wir ym mhob brawddeg, ym mhob gair. Dangoswyd bod yna gyflwr anweledig ar iaith ymlaen llaw. Yn fras, gellid dweud mai trefn neu gynllun yw yn yr ymennydd, y gellir olrhain ei ffurf drwy fyfyrto am y Mynegiant sydd yn y golwg. Mae Tafod yn cyflyru Mynegiant. Math o fetamorffosis yw Mynegiant, oherwydd Deunydd. Ni allwn ddeall dim hebdo, ond fe reolir hyn hefyd drwy wahanu a chysoni. Dosberthir.

Mae hyn yn wir ynghylch pob cyfundrefneg ym mhob gwyddor a chelfyddyd yn y byd. Ceir deddfau. Fel yr oedd *Anfod/Bod* yn peri bod bodolaeth ei hun yn dipyn o ddirgelwch annealladwy i esblygwyr llythrennol, felly ceir adeiladwaith 'delfrydol' ymhobman o'r golwg. Ac y mae'r un peth hwn sy'n wir yn y byd creedig deunyddiol, yn wir hefyd oherwydd gras cyffredinol yn y byd ysbrydol. Deddfau deinamig ydynt, deddfau'n esgor ar ddeddfau. Cyfundrefn felly yw dyn ei hun.

Mewn cyfundrefneg, ceir dyrnaid o Archgyfundrefnau sythweliadol sy'n gydbresennol ym mhob cyfundrefn fechan gyffredin. Fe geir o leiaf un ar ddeg o'r cyfryw rai, cyn belled ag y gwelaf i ar hyn o bryd. Hynny yw, cyfundrefnau llywodraethol ydynt, y mae'n rhaid i bob cyfundrefn unigol arall ufuddhau iddynt bob tro. Nid oes dim, am un eiliad, byth o'r tu hwnt i awdurdod pob un o'r rhain heblaw'r Absoliwt neu'r Arfaeth (y Wraiddgyfundrefn: *achos/effaith* ei hun). Honnir eu bod yn adlewyrchu meddwl Duw.

Yn achos *gweledig/anweledig*, y mae Tafod (neu gyfundrefn anweledig) yn adeiladu ac yn storio (neu'n cofio) o'r dechrau cyntaf y patrymau neu'r deddfau sy'n llywodraethu'r Mynegiant yn y golwg. A deddfau sy'n cenhedlu ydynt. Tragwyddolion ydynt mewn amser.

Bu'r ddadl ynghylch *Anweledig/Gweledig* (cf. *Ysbryd/Corff*) wrth wraidd llawer o ragdybiau gan dri dosbarth o bobl yn yr ugeinfed ganrif. Yn gyntaf, ymhlith athronwyr, tyfai pwysigrwydd yn Lloegr empeiraidd i'r Egwyddor Wireddol, a chafwyd sail nid anghyffelyb i ddadl hefyd gan y poblogeiddwyr gwyddonol; a bu'r Rhyddfrydwyr hwythau yn y Colegau diwinyddol a phulpudau Cymru wrth eu bodd i gael unrhyw esgus y ffordd yna i wrthod yr efengyl hanesyddol glasurrol. Nid oedd hi'n ddadl anodd i'w hateb, bid siŵr. Ond aeth apêl

ryfedd yr allanolion a'r corfforol a'r materol yn bur gyndyn ar lefel boblogaidd. Gymaint felly fel yr ymunai'r Marcisiaid yn ddiweddarach hefyd, yn ôl eu harbenigrwydd hwythau, yn y rhuthr hyfryd yma.

Sut bynnag, ceid dau wrthwynebiad go syml a faglai'r Egwyddor Wireddol. Yr oedd yn amlwg fod yr holl ddeddfau a oedd ar waith yn bethau real, ac eto'n anweledig. Ac yr oedd hyd yn oed y rhagdybiaeth ynghylch awdurdod unplyg a phenarglwyddiaethol y synhwyrâu ei hun yn egwyddor nad oedd gan brofion positiffaidd rhesymegol fodd i'w chynnal. Ni ellid profi'r Egwyddor Wireddol yn ôl ei chriteria hi ei hun o fewn dimensiwn amser a lle. Ond Duw sy'n llefaru yw'r Duw Cristnogol ac mae'r Gair yn ei gynrychioli'n weledig.

Cafwyd amryw foddau rhagdybiol ar hyd y canrifoedd i geisio trafod dibynolrwydd y Beibl fel llyfr ymysg llyfrau eraill. Yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceid ymdrechion i danseilio'i arbenigrwydd gan archaeolegwyr fel R.A.S. Macalister a J.G. Duncan, a llawysgrifwyr fel Jean Astruc. Ond daeth darganfyddiadau yn y naill faes a'r llall, i ddirymu'r rhan helaethaf o'r ymdrechion negyddol hynny. Wedyn, yn yr ugeinfed ganrif, cododd mytholegwyr a ffurfiolwyr â'u rhagdybiau cam-gyfundrefnol a gwrthwynebus. Ond erbyn hyn, gydag archaeolegwyr diweddar â'r golwg llai greddfol negyddol ar ran rhai mytholegwyr fel William F. Albright a Geisler a llawysgrifwyr fel Frederic Kenyon a Gleason Archer, ni ellir lai na chydabod yn rhyfedd iawn, os rhyfedd hefyd, mai gwelediad penarglwyddiaethol Pantycelyn yw'r un sydd gryfaf ac wedi treulio orau. Cafwyd gormod o gyfeiliorni ymhlith casglwyr beiau i gymryd yr un ohonynt yn garn heb lawer iawn mwy o ymchwil. Nid oeddent wedi'u gwreiddio yn yr Anweledig.

Yr un pryd, ag yr oedd athronwyr a rhai o'n pwlpudwyr yn gwastraffu amser (a mwy na hynny) yn y cyfeiriad hwnnw, fe fu llenorion ar y llaw arall yn ymboeni am yr anweledig mewn ffyrdd amgen. Beth bynnag am y dylanwadau gan yr amseroedd positiffaidd hynny, a'r dadleuon ynghylch materoliaeth, bu beirdd arweiniol yng nghanol yr ugeinfed ganrif, fel Waldo, Saunders, a Gwenallt, a hyd yn oed nofelwyr a dramodwyr yn ymdroi (o dan amodau) gyda thywyllwch ysbrydol a'r frwydr am ystyr a phwrpas anweledig. Felly, er gwaethaf y ffasiwn yn erbyn yr Anweledig, nid oedd themâu metaffusegol hyd yn oed yn y cyfnod modern wedi ymadael yn llwyr, o bell ffordd. Dyna'r lle yr erys Pantycelyn yn berthnasol.

Wrth gwrs, anweledig oedd y nwydau a'r grymustersau syniadol a roddai i empeirwyr ac i ryddfrydwyr eu rhagdybiau deunyddiol, megis y sylfaenai Pantycelyn ei ragosodiadau yntau ar brofiad dirweddol o'r Anweledig. Dyma un o hoff themâu ymwybodol Pantycelyn.

GWWP I, 7 *Cans Duw sydd anweledig, ac anweledig fydd,
Mae'n trigo mewn goleuni mil purach nag yw'r dydd;
Yng Nghrist y cair ei weled fyth a'i ryfeddu ef,
Ac yma ar y ddaear, a 'fyny yn y nef.*

Cyfeiria *Ioan 5: 39-40* (ac fe wna *Theomemphus* yntau lawer tro, yn arbennig yn ei bennod ar y Beibl) at y modd yr oedd Iesu Ymgawdoledig hanesyddol yn crybwyll y ddelwedd Anweledig a geid yng nghefndir yr Ysgrythurau, ac a'i darluniasai ef mewn cysgodau o bell cyn ei ddod: 'tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain', megis Tafod am Fynegiant.

Felly'n drydydd, yn anochel, y mae'r Anweledig i ddiwinyddion hwythau yn gorfod aros yn ganolog i ragosodiadau.

Anweledig oedd arwr holl bennod gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist* (tt. 3-28). Y Duw sy'n creu'r cwbl yn gyntaf yn ei feddwl, Hwnnw sy'n mynd ati wedyn i'w gyflawni yn y Greadigaeth: 'Y sgêm anfeidrol, dyfeisiwyd plan o ras.' A'r ddeuliaeth hon, *Anweledig/Gweledig*, yw un o'r Archgyfundrefnau gorfodol sy'n cynnal pob thema lenyddol. Mae'n arwyddocaol hyd yn oed mewn ffurf seiniol (odl, mydr, cynghanedd) ac yn arwyddocaol mewn syniadaeth. O ran Deunydd, mae i'w chanfod nid yn unig yn y *materol/ysbrydol* eithr hefyd yn y *moesol/di-foes/anfoesol*, ac mewn *trefn/di-drefn*. Dyma gyfundrefn feddyliol sy'n pwysu ymestyn ymlaen ar draws tair gwedd ar brydyddiaeth Pantycelyn: *Ffurf, Cymhelliad, Deunydd*. Croesawai ef felly thema'r Anweledig mewn Person. Roedd y Sgêm ei hun hefyd yn anweledig.

Ym mhob cyfundrefn ddiwinyddol neu faterol mae'r Anweledig yn bresennol. Anweledig yw Duw: dyna'r Absoliwt, yr ysbryd, yr anweledig, sy'n rhoi undod i bob anweledig. Ond gweledig yw Ei Greadigaeth, y corff mewn Hanes. Felly, yn llythrennol syml, y mae'r cyplysiad anweledig yn gyferbyniad elfennaidd i'r synhwyrâu. Ond defnyddir y cyplysiad rhyfedd hwn mewn amrywiol ffyrdd datblygedig ar sail y cyferbyniad gwraidd hwnnw ei hun. Creadigaeth syrthiedig yw'r Greadigaeth bellach. Ac er nad yw pethau gweledig ynddynt eu hunain yn 'llygredig', felly yr aethant.

Cyhoeddodd Pantycelyn yntau gyfrol mewn rhannau yn dwyn y teitl trawiadol *Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau* ym 1763, 1766, 1769. Beth oedd ef yn ei feddwl? Y tro hwn y mae'r gair 'Anweledig' yn eglur benodol, sef Duw. Ond nid dyna ydyw bob amser, wrth gwrs. Ceir ysbrydion drwg sydd yn anweledig. Dena'r rheini y syrthiedig gweledig hefyd. Yr ydym yn bodoli mewn cyd-destun ysbrydol. Eto, er y cwmp, deil harddwch y Crëwr anweledig i befrio drwy'r Cread. I'r Cristion, sut bynnag, gall ymryson ddatblygu rhwng y Cread hwnnw a'r Crëwr, megis tros-dro a'r tragwyddol, yr arwynebol a'r

dwfn. Eithr, oherwydd Penarglwyddiaeth a holl bresenoldeb y Crist hanesyddol ac oherwydd y berthynas a drefnwyd rhwng y bardd a'i Dduw, Efö ei hun drwy'i Arfaeth sydd ym mlaen meddwl y bardd. Y mae'r emynydd yn ei gyfarch, gan olrhain perthynas y gweledig a'r Anweledig:

GWP II, 270

*Anweledig, 'rwy'n dy garu,
Rhyfedd ydyw nerth dy ras,
Dynn f'enaid i mor hyfryd
O'i bleserau pena' 'maes ...*

*Eto yr ydwyf yn dy garu,
Tu hwnt i welais îs y rhod ...*

*Ac mae'r olwg hyny yn crëu
Yn fy ysbryd rhyw gryfhau,
Gan roi clwyf ar fy mechodau
Yn dy wyddfod, sy'n gwanhau.*

Ysbryd/corff oedd Pantycelyn ei hun am ei fod yn byw mewn sefyllfa ymwybodol *anweledig/gweledig*. Mae'n amlwg na chredai fod popeth gweledig yn ddrwg ddigymrodedd gan fod digon yn ei waith o fawl i bethau crëedig a phobl hefyd, a gweithgareddau o bob math o fewn cyd-destun y ddaear. Yr oedd hyn yn hyfrydwch diau iddo. Nid Gnostig gwrthgreadigaeth mohono. Ni chredaf chwaith ei fod yn Bietist hyd yn oed. Nid oedd am ymneilltuo'n llwyr rhag diddanwch a chwerthin y greadigaeth hon. Nid Duw a wnaeth elyniaeth *Crëwr/creedig*. Beth, felly, yw ei ddiffiniad o arwyddocâd 'gweledig' yn y cyd-destun hwnnw?

Yr oedd 'gweledig' yn y fan hon yn ddigon tebyg i'r modd y mae'n defnyddio'r gair 'byd' yn fynych. Gall olygu y greadigaeth ar y naill law; ond yn fynych, fe gyfeiria at yr arwynebol 'fydol'. Bod 'heb' Dduw oedd y byd 'bydol'. Cyffesai ei fod ar un adeg wedi byw â'i fryd yn union ar allanolion yn unig, y materol, yr hunanol. Hynny yw, y gweledig amddifad oedd. Canolbwyntiai'i ffydd a'i obeithion a'i gariad gynt yn gyfan gwbl ar bethau a oedd yn darfod. Ond wedi caffael 'gweledigaeth' amgen, agorwyd dimensiwn newydd iddo. Effeithiai'r gyfundrefn hon ar ei holl ddealltwriaeth o ystyr y byd a bywyd. Amodai'i ddadansoddiad o fywyd yn ymwybodol ac yn isymwybodol. Canfu fod trefn olynol *Anweledig/Gweledig* yn allweddol: Heb.11:3 'Trwy ffydd yr ydym yn deall i'r bydysawd gael ei lunio gan air Duw yn y fath fodd nes bod yr hyn sy'n weledig wedi tarddu o'r hyn nad yw'n weladwy.' (cf. 2 Cor.4:18). Cynyddai'i brofiad o fywyd. Realiti aruthrol oedd yr Anweledig bob munud i Pantycelyn.

Adnabyddus yw'r ddau emyn sy'n dechrau 'Anweledig, rwy'n dy garu', sef GWP II 270 a 345, y naill yn *Ffarwel Weledig* a'r llall yn *Gloria in Excelsis*. Er eu bod ar fesurau

gwahanol, ac er bod datblygiad yr ail yn fwy cryno, mae yna, wrth reswm, gryn debygrwydd rhwng y ddau, fel pe bai'r cyntaf o fewn pen y bardd neu'n ei ddilyn fel cysgod, a hynny mewn un pennill yn arbennig (a newid y mesur):

GWP II 270 *'Chlywodd clust, ni welodd llygad,
Ac ni ddaeth i galon dyn,
I ddychymyg nag i ddeall
Natur dy hanfod Di dy Hun;
Eto yr ydwyf yn dy garu,
Tu hwnt i welais is y rhod,
A thu hwnt fy nghlust a glywodd,
Neu a welais eto erioed.*

Cymharer:

345 *'Chlywodd clust, ni welodd llygad,
Ac ni ddaeth i galon dyn,
Erioed feddwl, na dychymyg,
Y fath ydwyf Ti dy hun,
Rhagor decach, &c.,
Wyt nag welodd nef na llawr.*

Roedd y weledigaeth hon fel pe bai wedi'i dynnu yntau'n brydyddol yn ôl allan o'r gweledig nes ei fod ef ei hun yn rhannu'r fodolaeth anweledig gyda Duw, yn ôl yn y tarddiant. Canodd un tro emyn: 345 *Oll a'm tyn i o'r creadur*, ac yn union wedyn: 345 *Ti'm harweiniaist o'r creadur* (allan o gors gaeedig y cibdellni cnawd). Gŵyr pawb sydd wedi astudio perthynas *Tafod/Mynegiant*, er mai Tafod yw'r tarddiant, mai'r hyn a wna'r beirniaid yw dechrau yn y Mynegiant, o raid, er mwyn palfalu'n ôl at yr Anweledig.

Mewn gwirionedd, sôn yr ydys am y ddau emyn hyn am o leiaf ddau reswm. Gall *Anweledig/Gweledig* fod yn syml faterol naturiol. Ond gan Williams, yn ddieithriad mae'r gair yn cyfeirio hefyd at ddimensiwn cwbl arall. Dau ddimensiwn cyferbyniol sydd yma, y naturiol (neu'r materol) a'r ysbrydol. Bydd y Cristion yn rhoi blaenoriaeth o raid i'r dimensiwn goruwchnaturiol, gan fod popeth yn dibynnu arno, i bawb. Ond dibynna'r Cristion ar yr hanesyddol a'r Groes ddiriaethol hefyd. Wrth reswm, cais y dyn naturiol amddifad goleddu a cheisio troi popeth i'r gwastad gweladwy. Yn yr ugeinfed ganrif, ymhlith y gwahanol athrawiaethau seciwlar, un o'r rhai pwysicaf — a mwyaf arwynebol fel y gwelsom — oedd positiffaeth resymegol y materolwyr. Yn ôl ei harddelwr enwocaf ym Mhrydain, A.J. Ayer, ni allai'r un gosodiad fod yn ddilys nac yn ystyrion oni bai ei bod yn bosibl ei wireddu'n empeiraidd. Buan y gofynnodd un plentyn a oedd gan yr ymerawdwr ddillad? Syrthiodd Ayer, a llu o gerdiau eraill gydag ef. Sylwyd bod ei egwyddor ei hun, fod iaith wyddonol ei hun yn gorfod cyfeirio at fwy na'r byd gweledig, ffisegol. Rhaid oedd iddi gynnwys hefyd gysyniadau ac egwyddorion. Fel y nododd Hewson wrth gyfeirio at

druenused y ddadl bositifaid, pe bai'n wir ni byddai angen na Galileo na Newton na'r un gwyddonydd arall mewn gwirionedd.

Soniai Calfin am y synnwyr o Dduw (*sensus divinitatis*), sef yr ymwybod (neu'r gydwybod yn ôl Morgan Llwyd) neu'r gynneddf gyffredinol a degir gan rywrai (ond nid gan y mwyafrif llethol) ond a ddatguddia fod yna fath fod â Duw anweledig. Cydnabyddir ei fodolaeth drwy Ras Cyffredinol *sensus divinitatis*, er methu â'i adnabod heb Ras Arbennig. Mae Gras Cyffredinol fel arfer yn rhoi'r pwysau meddyliol ar ofod ac amser. Ond fe'i treisiwyd yn Adda. A rhan o'i swyddogaeth yw gwneud Duw yn hysbys (Ioan 1: 18). Dyma'r 'twll o siâp Duw', sydd y tu mewn i bawb: sef yr angen i gredu mewn rhywbeth sy'n esgor— ar y lleiaf— ar ein cysyniad o foesoldeb. Ond dyma'r twll hefyd a lenwir gan Ras Arbennig, ond y cais eraill ei glytio orau y gallant â Rhyw, Pres, neu Wyddoniaeth ragdybiol amddifad, ac yn y blaen. Cyferbynnir felly *anweledig/gweledig* ym maes Gras.

* * *

Prif thema Gristnogol y gyfrol hon yw'r Arfaeth. Golyga hynny y cynllun ym meddwl Duw *cyn* ei gyflawni yn ogystal ag *ar ôl* ei gyflawni yn y golwg. Fe'i ceid yng Nghyngor Tri-un-Un y Duwdod, a'i sefydlu'n greadigaeth a'i holl hanes o Eden hyd at ei derfyn a'r hen nefoedd a daear yn ymddangos yn drefnus, gan gynnwys Iachawdwriaeth fythol. Mae'r Duw tragwyddol-bersonol yn ffenomen anweledig yn gyntaf. A dyma yn wir destun pennod 1 yn *Gohwg ar Deyrnas Crist*. Ond ar ôl meddwl yr Arfaeth, dyma gyflawniad llwyr wedyn i'r Arfaeth gan ddiriaethu ystyr bellach. Yr Arfaeth, neu'r cydlyniad trefnus wedi'i gyflawni, yw hefyd bob pennod gyda'i gilydd ar waith yn yr arwrgerdd hon byth wedyn. Dyma'r cyfanswm ar bob gwedd a datblygiad yn y gerdd, ymbarél i bob manylyn, o'r atom a'r digwyddiadau lleiaf yn yr electronau hyd at y sêr anweledig (yn gorfforol). Ac yn y manylion yn y ddwy arwrgerdd gan Bantycelyn fe geir trefn ar ffurf Cyfundrefn o gyfundrefnau cyfansawdd Iachawdwriaeth bersonol. Gellir yn deg felly ddefnyddio'r term 'Arfaeth' am y rhan weithredol hon ar ôl dechrau'r Creu, megis 'Rhagluniaeth'.

Felly, Arfaeth yw'r cynllun a'r gweithrediad neu'r hyn a weithredwyd ynghyd: yr anweledig a'r gweledig, yr haniaethol a'r diriaethol. Ac wrth arwain yn hyn o gyfrol tuag at drafodaeth gryno ar amryw o gyfundrefnau'r Arfaeth a'u hierarci, ac wrth geisio diffinio'r term allweddol 'cyfundrefn' ei hun, sy'n bresennol ym mhob gwedd ar yr Arfaeth, gwiw inni grybwyll y ffaith fod yr holl gyfundrefnau hyn yn anweledig real o ran potensial hyd yn oed pan fyddant yn weledig mewn effaith hefyd: yn ffurf ac yn ddeunydd.

* * *

Bu gwyddonwyr, fel y gwelsom, yn gyfarwydd â'r 'Anweledig' hwn erioed. Anodd iawn gennyf ddeall sut yr arweiniodd mudiad yr Ymoleuo (yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif) mor benderfynol gyson at dywyllwch Materoliaeth. Pwyslais rhagdybiol ar Reswm a'r Naturiolaid Amddifad (o'u cyferbynnu â'r Goruwchnaturiol), dyna wedd sy'n 'goleuo'r' Ymoleuo, tan gau'r drws ar y posibilrwydd o oleuni arall. Hynny yw, aeth y cyferbyniad ffrwythlon posibl yn amddifadiad cul ohono'i hun. Symleiddiwyd y ddeuoliaeth unol i fod yn unoliaeth ac yn Undodaeth yn unig, drwy fod gwyddonwyr rhagdybiol anystyriol yn diarddel ymchwil am yr anweledig, o leiaf yn eu tyb eu hun. Ac arweinient yn gyson felly at Fateroliaeth fwyfwy amrwd, at y gweledig yn hytrach nag at y gweledig ynghyd â'r anweledig. Ac eto, ni byddai'r un gwyddonydd o gyfnod yr Ymoleuo byth yn synied am ddeddfau a threfn Natur, sef diben ymchwil gwyddoniaeth, fel pe baent yn ffenomen weledig, er dechrau'r ymchwil gyda'r gweledig. O'r braidd fod yr Ymoleuo wedi goleuo onid ar yr wyneb o safbwynt yr egwyddor hon. Diolch eu bod wedi gwneud pethau eraill.

Ar ryw olwg, felly, er cysylltu'r gweledig a'r allanol â Rheswm a Natur yn eu dyfnder, a'u cyfanrwydd yn dadwneud pob dogma Materolaidd, eto, materoli fu'r duedd ddiwinyddol. Ni ellir namyn synied bod yna ar waith ragdybiau cyndyn anifeilaidd, a gormesol braidd, fod pob dim sy'n bod yn y golwg yn unig. Nwydau corff-ganolog symleiddiad, dybiwn i, yw'r hyn sy'n arwain yr isymwybod 'gwrthryfelgar' dybiedig radicalaidd hwnnw. Weithiau, heddiw, fe dry'n gynddaredd.

Eto, hyn sy'n rhoi i'r gyfundrefn hon swydd fframweithiol yn *oeuvre* Pantycelyn yntau.

Yn *Hosanna i Fab Dafydd* mae gan Bantycelyn gyfres ddi-fwlch o emynau yn dechrau gyda'r pwyslais ar weld, fel pe bai'r profiad a'r synnwyr hwn yn ganolog i'w wybodaeth hanesyddol:

GWP II, 103 *Fy enaid, gwel i Galfari ...*

104 *Edrychw'n draw ar Frenin hedd ...*

Gwêl draw fy Mrenin ar y pren ...

105 *Fy enaid, gwel dy Brynwr mawr...*

Yn y gyfrol ganlynol *Y Môr o Wydr*, y mae ffrwyth y syllu hwn yn diriaethu'n fwy gorffenedig ger ein bron

GWP II, 157 *Can's mae dy harddwch, Iesu mawr,*
Yn fwy na harddwch nef a llawr;
A harddach, harddach fyth o hyd,
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd

- Ym mhen rhyw oesoedd rif y gwllith,
Fe wel y saint Di harddach fyth ...*
- 158 *Nis gall y bedd, er maint ei rym,
Salwino dim o'th degwch ...*
- Nid angel pur ei hunan,
All ddodi'th harddwch mawr i maes...*
- 159 *Tydi yw tegwch mawr y byd,
O gylch i gyd yn gyhoedd;
Yr wyt ti bron, ti fyddi'n awr,
Yn degwch mawr y nefoedd.* cf. GWP II, 176-179

Yn y manau hyn, ymdeimlwn â chyfaniad rhwng yr anweledig a'r gweledig, lle y mae'r meddwl yn ddarfelydd Duw a ymgnawdolodd, a'r Ysbrydol o'r golwg yn nesáu'n faterol drwy'r dychymyg a sancteiddiwyd. Gweledig ac anweledig yw harddwch. Ac eto, nid llygad cnawd Pantycelyn sydd ar waith eithr llygaid ei ysbryd effro: *Ffarwel Weledig* —

GWP II, 266 *Ni welodd llygad dyn erioed,
Ni chlywodd clust o tan y rhod,
Am neb cyffelyb iddo Ef*

cf. GWP II, 329 *Gloria in Excelsis*.

Ym myd beirniadaeth lenyddol, mewn ieithyddiaeth, ac yn sicr yn yr holl wyddorau, sylweddolwyd fwyfwy fodolaeth dwy wedd yn y cyfnod diweddar sy'n ddwfn strwythurol. Soniais fel y dodwyd y termau 'Tafod' yn drosiadol ar y wedd anweledig, y potensial, y cudd, a 'Mynegiant' ar y wedd weledig, yr effaith, yr amlwg. Nid cabledd yw disgrifio'r *Gair/a'r Mab Ymgnawdoledig* fel perthynas nid anghyffelyb. Dyma'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Hynny yw, y mae'n ddigwyddiad annatod sy'n rhan, fel y'i datguddiwyd, o natur ddeuol yr Arfaeth: felly hefyd yr adeiladwyd ar gynllun ac esgor ar sylwedd. Fe'i gwelwyd wedyn gan y Galon: craidd y bersonoliaeth ac organ gweledig.

Lleoli mewn gofod ac amseroli mewn hanes, dyna oedd dwy o weithredoedd anochel y Gweledig hwn.

Wrth i Saunders Lewis archwilio deall Pantycelyn, un wedd nas dadlennodd ond yn ysgafn iawn oedd adeiladwaith diwinyddol y bardd, o'i gyferbynnu â'r teimladol. Crybwyllai'r cysyniad o 'ddiwinyddiaeth gyfundrefnol', mae'n wir, ond âi o'r tu arall heibio iddi yn bur gyflym.

Brysiat ymlaen at gyfundrefn gyfriniol fewnblyg: sef (ym mryd Saunders Lewis) cyfnod puredigaeth, cyfnod goleuni, a chyfnod yr uno. Cyfundrefn mewn profiadaeth oedd, mewn 'ysbrydoled' fel y'i gelwir y dyddiau hyn, yn hytrach nag ymwneud â chynnwys y

deunydd meddyliol. Mynnai wthio Williams tuag at ‘fois yr ymdeimlad digynnwys’; ffasiwn y ganrif ddiwethaf.

Bid siŵr, er mor glasurol oedd bryd Saunders Lewis ar lawer cyfrif, ac er ei barch at Aristoteles, ac er ei gais ardderchog hefyd i gyfundrefnu a delfrydu syniadaeth beirdd yr oesoedd canol yng Nghymru, ychydig o fyfyrddod a gafwyd ganddo am natur y ‘gyfundrefn lenyddol’ na’r ‘gyfundrefn ddiwinyddol Brotestannaidd’ fel y cyfryw. Y gwir yw ei fod wedi byw bywyd ar wahân i Saussure, ac ar y pryd ar wahân i Galfin. Bu ‘ysbrydoledd’ yn ormod iddo am gyfnod.

Yn ogystal, gwir arall oedd bod y rhai a ymroddai o’r tu mewn i’r Eglwys Gatholig ac o’r tu allan i drafod Diwinyddiaeth Gyfundrefnol wedi tueddu i esgeuluso diffinio natur ‘*cyfundrefn unigol*’ a’i hierarci. Canfyddent bid siŵr fod yna gydlynid bras rhwng gwirioneddau’r Ffydd. Cydnabyddent yr undod ‘organaidd’, a dangosent ‘Gysondeb y Ffydd’, fel y dywedai Lewis Edwards. Gwelent banorama cyfan. Wedi gwrando Acwin, pwy a allai lai? Eto, wrth amlinellu’r mawr, anwybyddid y mân. Ni sylweddolwyd ac ni ddiffiniwyd y Gyfundrefn o gyfundrefnau unigol cydlynol, a’r cydlynu y tu mewn i bob un gyfundrefn mewn hierarci ystyrlon. Dyna’r lle y buasai un o gysyniadau pwysicaf Saussure wedi bod yn hylaw, sef y cyferbyniad sylfaenol rhwng ‘Tafod’ (anweledig) mewn iaith fel cydlynid y Gyfundrefn o gyfundrefnau â ‘Mynegiant’. Dyna hefyd a ddangosai cyfanrwydd cytbwys meddwl Williams.

Rhagorai Guillaume ar Saussure ym manylder ei esboniadaeth, a’i weledigaeth, a’r modd y cysylltai Dafod a Mynegiant. Ac ef fydd fy nghyfeirbwynt ieithyddol i. Bydd beirniaid ac ieithyddion Cymraeg yn osgoi Guillaume oherwydd ychydig o astruster. Does ganddynt ddim esgus mwyach ar ôl *Language in the Mind*, Walter Hirtle, Mc Gill-Queen’s University Press, 2007.

Yn fras, gellid hawlio bod yna, y tu ôl i holl ‘Fynegiant’ yr iaith a’r deall yng ngwaith Pantycelyn, ‘Ramadeg’ llywodraethol, isymwybodol, cyffredin gan yr anweledig. Yr wyf innau’n ceisio dadlau yn y gyfrol hon fod angen inni feddwl am Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol mewn modd cyffelyb fel hierarci ffurfiol ddeinamig anweledig. Hynny yw, nid darganfod dadleuon yn gyntaf neu’n bennaf a wnâi Williams Pantycelyn, a’u rhestru na’u trafod yn eu tro yn annibynnol, eithr datguddiwyd iddo (o leiaf yn isymwybodol) egwyddorion fframwaith deall, — ffordd o feddwl, patrwm cyffredin sefydliadol ar gyfer adeiladu *wedyn* ddadleuon a fframwaith syniadol i’w Fawl. Darganfu’r ‘cyfan’ cyn darganfod y ‘rhannau’. Hyn, debygaf, sy’n arddangos un o gryfderau sylweddol Williams Pantycelyn,

peth a roddai iddo aeddfedrwydd a hyder, a mawredd cydlyniad meddyliol eang. Y cydlyniad hierarcaidd hwn yw gwrthrych ein sylw. Eir oddi wrth y cyfan at y gweddau.

Wrth ystyried Diwinyddiaeth Gyfundrefnol felly, mae yna un wedd allweddol ar y dadansoddiad, neu un egwyddor, neu gysyniad ynglŷn â'r maes sy'n hanfodol iawn inni gysylltu â hi. Sef y gwahaniaeth rhwng dau gyflwr neu'r ddwy lefel yr wyf newydd eu crybwyll: y *Mynegiant* (yr enghreifftiau gweithredol yn y golwg) a'r *Tafod* (term technegol a ddefnyddir ar gyfer y drefn egwyddorol ddeinamig o'r golwg). Fe ellir esbonio'r gwahaniaeth sylfaenol hwn, o ddwy wedd neu ddwy lefel fawr ar theori, drwy gyfeirio at erthygl greiddiol gan Meredydd Evans ym *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*, gol. D. Llwyd Morgan, 1991, sef 'Pantycelyn a Thröedigaeth'. Amlinella Dr Evans yn olau iawn adeiladwaith camre'r dröedigaeth glasurol efengylaidd. Dyma'r patrwm datblygiad a genfydd ef: Yr Arfaeth, Galwad Effeithiol, Cyfiawnhau, Sancteiddio, Gogoneddu. Pur gyffelyb yw'r drefn a olrheindir gan R. Tudur Jones yn *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn*, 1987. Mynnir pwysleisio y gall llawer iawn o amrywiaeth ymddangos yn ansawdd y nodweddion mewn tröedigaeth. Mi all cyfnod o argyhoeddiad o bechod er enghraifft fod yn faith neu'n gwta. Fe all natur y gollyngdod neu'r ailenedigaeth a brofir fod yn annisgwyl ac yn sioc neu'n raddol. Ond yna, ychwanega Dr Evans ddwy frawddeg glo allweddol: '*Er yr holl amrywiaeth yn nhröedigaethau'r cadwedigion o ran lleoliad, hyd, dwyster a gwefr, yr un yw'r patrwm diwinyddol sydd yn eu gwneud yn ddealladwy inni, yn ôl Williams. Mynnai nad oes amrywiaeth yn nhrefn y cadw.*'

Ac ar hynny, y mae'r Dr Evans ysywaeth yn gorffen ei ysgrif groyw a phwysig, fel un a welodd wlad o bell.

Ond yn y fan yna y gofynnwn ninnau y cwestiwn Pam? Sut y mae hyn yn bod? Mae yna ddwy lefel yna, mae'n amlwg: un sy'n sefydlog a'r llall yn amrywio ychydig. Ac y mae'r patrwm di-syfl hwn, y ddwy wedd, a'r ffordd y mae'r ddwy wedd hyn yn ymddwyn, y naill yn sefydlog ac yn gyffredin, a'r llall yn ansefydlog ac yn amrywiol unigol, yn cynnig inni batrwm allweddol, patrwm rheolaidd o berthynas fwy cyffredinol i'w brofi ac i'w fabwysiadu yn fframwaith. Mae'n datguddio inni Gyfundrefn o gyfundrefnau, anweledig a gweledig: dau gyflwr. Pam?

Ac y mae'r ateb i'r cwestiwn diwinyddol hwnnw ar gael yr un modd wrth ystyried theori iaith a theori llenyddiaeth hefyd: amrywiaeth yn y golwg (*Mynegiant*), a phatrwm sefydlog ond deinamig o'r golwg (*Tafod*). (Nis ceir gan nac Ayer na Husserl.) Fe geir dwy fodolaeth. Un yw'r cynllun parhaol 'sefydlog' anweledig a rennir yn gyffredinol, a'r llall yw'r peth ar waith yn weledig sy'n amrywio rywfaint o ran manylion ym mhob un enghraifft.

Mae'r naill yn amodol neu'n gyflyrol, a'r llall yn effaith ac yn ganlynol. Er mwyn deall natur Gyfundrefn (a Deddfau) o gwbl, y mae'r amgyffrediad sylfaenol hwn o fodolaeth a dimensiwn dwy wedd fawr — ac yn wir y berthynas yn ddeinamig rhyngddynt — yn hanfodol.

'Schêm' oedd y term a ddefnyddiai Williams ar gyfer Tafod; ac y mae'n digwydd dair gwaith yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. A hwnnw yw'r term sylfaenol a'r cyntaf i'w archwilio. 'Mynegiant' yw'r term am y wedd unigol amrywiol sy'n dilyn, yr un arferol y sylwir arno. Ond dilynwn y camre a enwir gan Dr Evans ychydig ymhellach.

Er bod y cyfundrefnau diwinyddol hyn yn amodi ac yn cyflyru'r emynau oll, yn ddieithriad, nid yr emynau yw'r lle symlaf i'w chwilio.

Mae angen yn hytrach gyferbynnu'n gryno y ddwy arwrgerdd *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus* o ran cynllun a chynnwys, yn ogystal â dangos eu perthynas. Ar ryw olwg, y mae llawer o gynllun yr ail (*Theomemphus*) eisoes yn gynnwysedig yn y gyntaf ac o'r cychwyn cyntaf. Mae'r gyntaf yn dechrau cyn yr ail, wrth gwrs. Yr Arfaeth yw man cychwyn y gyntaf (*Golwg ar Deyrnas Crist*), sef y cynllunio o flaen llaw, ac mae'n olrhain cyfanrwydd bodolaeth. Ond yn yr ail, fe gymerir hynny'n ganiataol: y mae eisoes yn ei lle, 'wedi'i darllen yn barod', fel petai. Yn yr ail felly, y mae'r Cwmp *wedi* digwydd, a phechod yn rhan o drefn bywyd Theomemphus o'r dechrau cyntaf. Ond ar ôl y sylweddoliad o'r ddwy ffenomen yna, yr Arfaeth a'r Cwmp, gellir canfod patrwm go gyffelyb yn natblygiad y ddwy, sy'n cynnwys yr un angenrheidiau, gydag un cyferbyniad eithriadol fawr ac arwyddocaol arall. A hynny oherwydd y ffaith fod y naill gerdd yn ymolygu neu'n goredrych dros y sefyllfa o safbwynt y Ceidwad, a'r gerdd arall *Theomemphus* yn gwneud hynny o safbwynt un o'r cadwedigion. O fewn adeiladwaith y ddwy arwrgerdd hyn y gellir orau ddod o hyd i gyddestun cyson neu fframwaith thematig ac adeileddol syniadol yr emynau. Gosodir paramedrau panoramig. Y Cynllun sy'n Canu.

Os ydym yn mynd i sylweddoli'r paramedrau olynol drefnus a disgybledig hyn yn y Gyfundrefn o Gyfundrefnau sy'n llunio meddwl a deall Williams Pantycelyn ar y naill law, ac sy'n cydailleadu Diwinyddiaeth Gyfundrefinol ar y llall (ynghyd â'r hierarci o gyfundrefnau), yna bydd olrhain y prif gamre'n hanfodol a'r prif egwyddorion yn ddiffiniol. Camre yw pob un o'r rhain i bob Cristion, a haeddant sylw dadansoddol a deallol gan bob darlennydd gofalus. Dechreuir yn *Golwg ar Deyrnas Crist* wrth gwrs, yn rhagdybiol gyda'r bod o Dduw, neu'r ddealltwriaeth o Dduw. Yr Absoliwt. Yna:

A.1. *Yr Arfaeth: Yr Ethol / y Creu* [Anweledig/Gweledig]

Dyma'r 'Cynllun' tua'r cyflawnder. Y mae hefyd yn weithred gan Dduw, yr Arfaethwr. Y mae perygl inni gymysgu termau gwahanol, yn gynllun ac yn weithredu. Ond mwy yw'r perygl o beidio â gweld eu perthynas. Popeth a etholir yw'r Arfaeth, gan gynnwys y Greadigaeth oll; perthynas Duw a dyn, Duw a'r greadigaeth, rhagluniaeth, o fewn Alpha ac Omega; ynghyd â phopeth (o ran perthynas) a gyflwynir o hynny ymlaen, gan gynnwys y gydberthynas, e.e. rhwng elfen greedig (megis dyn) ac elfen greedig arall (megis natur, a chyd-ddyn). Dyma'r ddeinameg mewn amser; y cenedlu strwythurol.

2. *Y Cwymp / Yr Addewid* [Cynt/Wedyn]

O dan hyn o bennawd, cynhwysir y rheidrwydd i gyfrif pob amod ac elfen negyddol; hynny yw, pob ystyriaeth foesol groes; natur perthynas dyn ôl-Adda a Duw; pob colled ac alltudiaeth ac y mae hyn yn gysylltiedig â'r ymateb i hynny o du Duw a dyn — megis angen trugaredd, maddeuant, edifeirwch, ac yn y blaen. Felly y canfyddir angen cyflawn dyn. Dyma diriogaeth Pechod i gyd, arwahanrwydd a theyrnas Satan a marwolaeth. Hyn sy'n ysgogi arbenigrwydd holl drefn yr achub, gan gynnwys yn gyntaf oll yn y cam nesaf *Argyhoeddiad* o Bechod; ac esbonnir Pechod fel Anghrediniaeth yn anad dim, sef anhawster greddfod aruthr y seciwlaryn; ac Ateb Duw. Drwy'r pechod enbyd hwn y cenfydd pob Cristion ogoniant y Crëwr.

B.1. *Tröedigaeth / Cyfiawnhad* [Digwyddiad Mewnol/Allanol]

Mae'r myfyrdod ynghylch y digwyddiad unigryw hwn wedi bod yn helaeth iawn dros y canrifoedd o'r Beibl ymlaen, fel y gellid ei ddisgwyl. Dyma'r drws i mewn i'r Anweledig. Mae'n gyson ar y blaen yn syniadaeth Williams. Mor gyfoethog yw'r myfyrdod amdano fel y ceir amllder o dermau a damhegion i gynnwys dyfnder yr arwyddocâd ac amrywiaeth yr arweddau arno: galwad effeithiol, argyhoeddiad o bechod, goleuo, edifeirwch, maddeuant, credu, undeb â Christ, enwaedu'r galon, ffydd, aileni, aelod newydd, bendithio neu fedyddio â'r Ysbryd, tröedigaeth, prynedigaeth, Cyfiawnhad, Iachawdwriaeth, ac yn y blaen. Mae pob un yn cyflwyno arwedd wahanol ar yr un pwynt yn hanes y Cristion. Bydd yn rhaid inni ddychwelyd i fanylu ar hyn oll, ac i ystyried cydberthynas y cwbl wrth drafod Themateg, gan mai dyma'r gyfundrefn enfawr sy'n cynnal chwe phennod gyntaf *Theomemphus*, heblaw cyfran bwysig o *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dengys fel y try'r gwahanu yn undeb, yn sydyn i bob Cristion, lle y'i cyfrifir drwy'r iawn yn gyfiawn.

2. *Sancteiddhad (proses yn y Cyfiawnhad parhaol)* [Egwyddorol/Ymarferol]

Hanfodol gryno, a sydyn hyd yn oed, fel arfer yw Tröedigaeth, fel bywyd/marwolaeth: yr ysbryd yn bywhau, er y gall y paratoi fod yn estynedig. A chan mai ymwneud â thyfiant a thrafferthion a llawenydd tröedigion yn ystod eu bywyd *wedi* iddynt

ddod yn gredinwyr yr oedd Pantycelyn yn ei seiadau, yna gellid haeru mai ar gyfer y rheini y sgrifennodd ef bron y cwbl o'i waith. Pwyslais deallol i raddau yw Sancteiddhad yn ail symudiad *Theomemphus*. Tystir i hyn gan yr amlygrwydd a roddir i ddadleuon ac i ymrafael safbwyntiol. Hyn (a chyngor ynghylch helyntion priodas i raddau llai) yw asgwrn cefn sylwadau Williams ar y daith drwy'r anialwch, a'i gynghorion yn y Seiadau. Adeiledir yr undeb meddyliol a serchiadol ymhellach yn yr emynau. Paratoad yw Sancteiddhad ar gyfer uchafbwynt yr Uniad.

Dyma felly hanes un diwinydd yn y gwahuno aruthrol a fu'n sylfaen i'w ddeall a'i iaith, megis i ddiwinyddiaeth.

Ceir, bid siŵr, bwyslais gwahanol rhwng *Golwg ar Deyrnas Crist* (a'r emynau mawl) a *Theomemphus* (a'r emynau taith). Ond at ei gilydd, y mae'r cyfundrefnau a'r camre datblygol oll yn perthyn i'r hyn a elwais cyn hyn wrth drafod Cyfundrefneg (e.e. yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* a *Meddwl y Gynghanedd*) yn 'Dafod'. Ac y mae'r dadleuon eu hunain yn perthyn i'r hyn a elwais yn 'Fynegiant'. Tuedda'r dadleuon, ac eithrio'r 'ddadl' fewnol ag Efengelius yn *Theomemphus* i fod yn negyddol. Tuedda'r cyfundrefnau oll i fod yn adeiladol, er eu bod yn gallu cynnwys elfennau cyferbyniol negyddol yn ogystal â rhai cadarnhaol ac estynnol, neu o leiaf rai elfennau sy'n wynebu'i gilydd yn ymddangosiadol wrthwyneb.

3. *Gogoneddu (y Gobaith)* [Cyflawniad Corff yn cyfuno ag Ysbryd o'r newydd]

Os sydyn fu ansawdd troi o farw i fyw, ac os estynedig mewn bywyd oedd sancteiddhad, tragwyddoldeb yw priod gartref syfrdan gogoneddu.

Gogoneddu Crist oedd y weledigaeth fwyaf a gafodd Williams Pantycelyn, gan ddechrau ar unwaith ar ôl darganfod y berthynas â Duw. Dyna'r pen draw hefyd iddo. A hynny a gorfforodd ef yn gynnar yn ei arwrgerdd gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ac wedyn yn *Theomemphus*. A thrwy'r amser, yn anad unlle, yn ei emynau, gyda'r uchafbwynt yn *Gloria in Excelsis*, ceisiai ddangos y fframwaith y derbyniodd ef hynny o'i fewn, yn bennaf yn isymwybodol drefnus. Dyna oedd diben y gyfrol honno. Golwg ar Ogoneddiad Crist ei hun oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* hefyd. Ceir, ar ôl hynny, fel y nodwyd, ugain o benodau yn grwn yn y gerdd hir *Theomemphus*: chwech i sôn am gyfiawnhad dyn, a'r gweddill i arwain dyn drwy faglau lawer, ar lwybr sancteiddhad tua'r gogoniant sydyn.

Yn emynau Williams, yr un pryd, sylwer: ychydig o ymdroi uniongyrchol a wna gyda Chyfiawnhad dyn fel y cyfryw, er bod llawer iawn iawn o sôn am y Groes. Gogoniant cariad Duw oedd y Groes. 'O! sancteiddia' yw cri'r emynau, nid 'O! cyfiawnha', sef — tyred Ysbryd Glân i'n cyfeirio ni tuag at fawrygu Crist. Nid pobl Dduw sef pobl y seiadau, nid yr

Eglwys yn unig, yw Teyrnas Crist, ond yr Arfaeth o'r dechrau hyd y diwedd, sef yr holl Greadigaeth. Felly, wrth syllu ar y Groes y ceid cipolwg ar y gogoniant hwnnw, sef Iesu Grist ei hun, nid dyn a'i angen a'i achub oedd yn flaenaf, onid yn iswasanaethgar i Grist; ond y rheidrwydd i ogoneddu Duw. Dyma'r uchafbwynt i'r Gogoniant a wŷr pob Cristion.

Felly, yn y deuawd o gyfundrefn rannol *Cyfiawnhad / Sancteiddhad* y mae Sancteiddhad yno eisoes yn bont er mwyn ein hatgoffa o'r amynedd a'r dyfalbarhad a'r cyfeiriad a'r diben gwrthrychol tua'r *Gogoniant*, y drydedd ran. Y Gogoniant yw'r cyflawnder cyfreithiol a dreiddia drwy dystiolaeth Duw yn yr ysgrythur, mewn hanes, yn y greadigaeth, yn y gyfraith, yng ngwaith yr Ysbryd Glân. Er mor bwysig yw'r Groes — y digwyddiad pwysicaf erioed (ond digwyddiad ydoedd), ac er bod iddi arwyddocâd tragwyddol — fe'i bwriadwyd ar gyfer goleuo enw Duw ac uno dyn yn dragwyddol. Gogoneddu Duw oedd pennaf swyddogaeth y Groes, ac achub dyn yn ail. Dyna'r syndod, y rhyfeddod sydd mor eithriadol anodd ac eto mor sylfaenol syml inni'i amgyffred. Gogoneddu Duw yw'r diben; Duw'r Tad, yr Un yr ufuddhaodd y Mab iddo; yr Un y cyflwynodd y Mab y cwbl iddo; Duw'r Mab, Oen Duw a gyflawnodd yr aberth i'r Tad; a Duw'r Ysbryd Glân, sy'n ein harwain, wedi cymhwyso'r wybodaeth am y Mab i'n calonnau, drwy Sancteiddhad i ogoneddu'r Un sydd uwch pob digwyddiad a phob cyflwr. Duw a wnaeth y cwbl, y peth nas gallodd dyn. Efô a drefnodd y ddealltwriaeth o'r Tri yn Un, Ef a achubodd, Ef a gymhwysodd. Does dim hawl gan ddyn ynddo'i hun i fod yn y canol o gwbl. Duw a wnaeth hyn oll, i ddirweddu'i ogoniant allblyg ei hun.

Byw yn anweledig felly oedd prif fywyd Pantycelyn. Ceisio olrhain prif gamre'r bywyd anweledig hwnnw y buwyd yn yr ymdriniaeth hon. Dathlu hynny, yn wir hyfforddi hynny os mynnir, fu ei nod.

Rhannau o'r Un Arfaeth oedd yr Ymgawdoliad, y Ddysgeidiaeth, yr Aberth Iawnol ar y Groes, yr Atgyfodiad, Sancteiddhad yr Ysbryd Glân, yr Ailddyfodiad, ac yn wir y Farn sy'n arwain at y Gogoneddiad llawn derfynol. Holl gynllun disgybledig *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ymddengys fel rhestr. Ond mae yna un cynhwysiad pwysig ac od fan hyn. Adeg y Cyfiawnhad, fel y gwelsom, mae yna lawer o bethau'n digwydd yn anweledig — Edifeirwch, Iachawdwriaeth, Aileni, Tröedigaeth, a hyd yn oed dechrau Sancteiddhad — ac un peth tra arbennig sef Undeb â Christ. Mae'r cwbl yn arwain, fel y gwelsom, at Ogoniant Duw. Dyna'r prif wrthrych. Ond sylwer, rhan o'r holl broses hon o safbwynt dyn yw ei fod ef ei hun *wedi'r* uniad — er mor ddistadl yw ar ryw olwg, — *yntau ddyn* yn cael ei ogoneddu mewn uniad mwy. Ef! Beth yw ystyr hynny? Am ei fod wedi'i *uno* â Christ o ran egwyddor ac yn ddechreuol yn y Cyfiawnhad, yn y Cyfiawnhad y mae ef yn dyfalbarhau drwy Sancteiddhad

gyda'r amynedd a grybwyllir yn Iago 5, tua'r *uniad* cyflawn â'r Gogoniant dwyfol mewn gwirionedd; oherwydd yn y Gogoniant syfrdanol hwnnw mae yntau'n cael ei lenwi a'i gymathu'n un ag Ysbryd Duw yn gyflawn dragwyddol.

*

*

*

Rhan bwysig (os isymwybodol) o addysg ddiwinyddol Pantycelyn oedd darganfod y cysyniad enfawr hwn o gyfundrefn anweledig. Un ffordd dda o gamddeall 'cyfundrefn' gan y meddwl rhamantaidd oedd synied bod hyn yn beth artiffisial neu wneuthuredig allanol. 'Gwneud' cyfundrefnau ymwybodol a phrennaidd y bydd swyddogion a chlercod druin. Codi 'cyfundrefnau' addysg, ariannol, iechyd, trafniadaeth ac yn y blaen. Mae'r rhamantydd am ddianc rhag unrhyw awgrym o 'orfodaeth' o'r fath, ac o'r herwydd cais ddelweddu 'cyfundrefn' fel peth oeraidd, peiriannol, ac annynol o waith dyn. Ond dyna'r ymateb diglem. Wrth ymagweddu'n ddiogel felly yn y gornel, llwydda i ffoi rhag yr hyn sydd ar waith. Ymddetyd yn 'rhyddfrydol'. Diau y ceir ambell dro, mewn Mynegiant gweledig, gyfundrefnau artiffisial os bendithiol o'r fath a all fod yn ddigon 'peiriannol' wneuthuredig i amhlesio pob rhamantydd. Ond *mewn Tafod* yr oedd a wnelo Williams â *darganfod* y gorfodol dynol a roddwyd: megis cyfundrefn y gell neu'r atom mewn gwyddoniaeth, ond yn llawn gras arbennig. Dyna'r cartref i Gyfundrefnau Diwinyddol. Estyn cyfundrefn cariadus, gwefreiddiol o'r fath y bydd Duw, drwy'r deall.

Lle bynnag y bo dyn sut bynnag yn ceisio cyfundrefnu pethau allanol lle nad oes cyfundrefn eisoes, hynny yw ffurfio cyfundrefnau yn ymwybodol, er enghraifft mewn gweinyddiaeth, neu'n ffansiol gelfyddydol, y mae a wnelom â ffenomen mewn Mynegiant sy'n bur wahanol i archgyfundrefn ieithyddol neu lenyddol isymwybodol orfodol neu i gyfundrefn ddiwinyddol ddatguddiedig mewn Tafod. Bodolaeth ysbrydol yw cyfundrefn ddiwinyddol ddofn yn ddieithriad, lle y darganfyddir, drwy rodd, drefniant meddwl anochel anweledig sy'n unol â deunydd ysgrythurol, gwrthrychol. Datguddiad yw. Ceisir yn llym ddiarddel pob eithriad i'r ffurf amryw-mewn-un arwyddocaol. Rhaid i'r casgliad ufuddhau i amodau rheolaidd llawen sy'n cyfrannu i ryw brif themâu athrawiaethol sefydlog.

Yr hyn a geir gan Bantycelyn yw dwy lefel (Tafod a Mynegiant) o bwrpas, neu o gyfeiriant i'w waith syniadol. Yr ail, y mae'n wir, yn ymwybodol (ar ffurf dadleuon, a themâu amrywiol, a dathliadau teimladol); ond y gyntaf yn isymwybodol (ar ffurf cyfundrefnau'r arfaeth yn ei ysbryd y tu hwnt i amser). O ran Mynegiant ymwybodol, y mae'n ceisio arddangos cyfanrwydd, wrth gwrs; yn fwriadus. Ei neges yw 'Crist ym mhopeth', yn y cynllun ac yn y gweithredu. Mae yna undod gorfoleddus ac ymwybodol i'w

waith y mae ef yn ei ddatgelu'n llawen sicr. Ond yr un pryd, fe adleisia hyn undod arall, yn isymwybodol, y gellir ei ddatgelu fel ffaith sefydlog a chadarn gudd na fyddai ef, gobeithio, yn gwadu'i hadeiladaeth: undod 'Tafod' anweledig y Diwinydd.

*

*

*

Yr Anweledig a'r Gweledig yn Un mewn Deunydd

Buom yn sôn hyd yn hyn am Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol wedi'i hadeiladu mewn clymau cyferbyniol. Ond does neb erioed wedi gweld cyfundrefn ac eithrio fel patrwm delweddol. Gweld pethau ar ffurf cyfundrefnau a wnawn. Yr hyn a welir yn y golwg yw'r effeithiau, neu'r hyn sy'n bod neu ar waith yn ddiriaethol mewn Mynegiant. Yr hyn sydd o'r golwg yw'r fframwaith hanfodol cyfundrefnol sy'n bod neu ar waith yn ôl egwyddorion sy'n esbonio pam y mae pethau yn ymddwyn fel ar fel. Nid yw'r rhain yn llai ffeithiol. Ffordd yw cyfundrefn ieithyddol ym meddwl rhywun o roi ei ganfyddiad at ei gilydd mewn trefn er mwyn deall rhywbeth. Mae'n gwahaniaethu'n gyntaf ac yna mae'n gweld cysondeb neu debygrwydd rhwng pethau a'i gilydd neu rhwng yr un peth mewn lle neu amser gwahanol. Dyma drefnu'r gwirionedd yn undodau mewn modd grymus. Yn wir, mewn Gwyddoniaeth ei hun, mae'r method gwyddonol bob amser, er dechrau sylwadau yn y gweledig, yn chwilio am yr hyn sy'n gydlyniad o'r golwg: y ddeddf neu'r drefn y tu ôl. Mae'r gweledig yn rhywbeth i'w egluro neu'i ddeall. A'r anweledig (yr wyddor, neu'r egwyddor) yw'r hyn sydd yn ei esbonio yn blwmp ac yn blaen. Dyma fater a ddaeth yn ysgogiad i feddwl yr ugeinfed ganrif.

Yng nghyfnod yr Ymoleuo (*Secular Enlightenment*), yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed, yr oedd yna nifer o athronwyr, er eu holl wrogaeth i wyddoniaeth ymarferol a oedd yn naïf ac yn newyddiaid cymharol ddibrofiad ym maes diwinyddiaeth glasurol soffistigedig. Positifiaid Empeiraidd oeddent. Roeddent yn naïf yn yr un ffordd â'r ôl-fodernwyr diweddar ynghylch absoliwt, ac am yr un rheswm. Bob tro y gwadent yr Absoliwt, dywedent rywbeth absoliwt. Dyma'u diffyg profiad yn y maes ysbrydol. Eto, heb ei wir sylweddoli mewn gwirionedd, yr oedd pob un ohonynt yn *gorfod* gosod yr Anweledig yn y canol. Beth bynnag oedd eu rhuthr i geisio'u cau eu hun o fewn y Gweledig, yr oeddent yn cael eu gyrru yn ddigymrodedd i arddel yr Anweledig, yn rhagdyb neu'n egwyddor neu'n ddeddf yn gyntaf ac yn olaf. Sylweddoli ymhlygion realiti hyn oedd eu gwir anhawster. Bu'r ugeinfed ganrif yn awyddus i ymosod ar yr Ymoleuo; ond methodd â rhoi bys ar y gwir wendid.

Yn yr ymdriniaeth hon yr wyf yn ceisio dadlau bod yn rhaid i bob Gwyddonydd a phob Athronydd (yn y bôn, pob person sy'n bod, ac yn siarad) ar eu haeddfetaf ymwneud â

pherthynas y Gweledig a'r Anweledig. Ac yn y gyfundrefn honno (sef Undod neu Uned feddyliol sy'n cynnwys mwy nag un yn gydlynol), gwiw gwybod mai'r ymwybod Anweledig yw'r Canol a'r Cyntaf o ran pwysigrwydd deallol. A hyn a gyffrôi Williams.

Dechreuer yn ymarferol yn gyntaf gyda'r hyn sydd yn y golwg — digon teg. Ond nid dyna'r hyn yr ych chi na fi yn chwilio amdano. Pan fydd y baban bach neu'r person mewn oed yn dod wyneb yn wyneb ag unrhywbeth, yr hyn y mae'n chwilio amdano yn orfodol yw'r ystyr, y deall, y cysylltiad. Beth yw arwyddocâd hyn? Mae'n sylwi ar y golwg allanol, materol byd siŵr. Ond cyn gynted ag y mae'n wynebu dewis neu her i ddealltwriaeth, ar sail sylwadaeth empeiraidd efallai, mae'n defnyddio'i reddfau, dychymyg, profiad y gorffennol, unrhyw beth y gall i brofi neu arbrofi a chasglu tystiolaeth — er mwyn beth? Cais ddod o hyd (yn sythwelediadol) i esboniad neu esboniwr i adnabod y peth. Mae'n chwilio Patrwm. Mae'n cyffredinoli. Beth yw gwerth neu bwrpas neu natur hyn? Pwy neu beth yw mewn gwirionedd? A sut y'i deallir drwy wahuno? Ceisiodd Ôl-fodernwyr osgoi hyn oll.

Ym mryd Pantycelyn, yr unig fodd dibynnol gerbron anferthedd aruthr y bydysawd mawr a mân, a'i ffenomenau tragwyddol y tu hwnt i gyrraedd, i ateb cwestiwn ynghylch yr achos eithaf, fuasai drwy ddatguddiad hunanwireddol. Y prawf cyntaf (a diwethaf) o Dduw yw'r hyn a ddengys ac a ddywed Duw ei hun amdano'i hun. Does dim dewis. Nid esbonnir Amser ond o'r tu allan i Amser. Mae hynny'n ddigon eglur. Ni fedd neb arall ar yr hawl na'r gallu i ddatguddio Duw heblaw Duw ei hun. Ef yw Rhagdyb y rhagdybiau.

Ef ei hun yn unig sy'n ddigonol. Felly y mae'n ei ddatguddio'i hun mewn Hanes, mewn Cydwybod, mewn Gair, mewn Ymgnauldoliad, mewn Creadigaeth. Mae'n deffroi'r *sensus divinitatis* i berthynas. A Ffydd.

Nid ei syniadau'i hun yw cynhysgaeth Pantycelyn yn hyn o faes, eithr rhodd angenrheidiol.

Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylo Ef. (Salm 19); *A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megis yr Unig-anedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd.* (Ioan 1); *Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy'r proffwydi, yn y dyddiau diwethaf hyn a lefarodd wrthym ni yn Ei Fab.* (Hebreaid 1); *Yr hwn (sef y Mab) yn ddelw y Duw anweledig, cyntaf-anedig pob creadur: canys trwyddo Ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig.* (Colosiaid 1).

Hynyna yw cyfundrefn sylfaenol *Golwg ar Deyrnas Crist*, a *Theomemphus*; y Creu a'r Ail-greu neu Achubiaeth; Tafod/Mynegiant Diwinyddiaeth, a'r cwbl o'r Tafod

Diwinyddol yn yr Absoliwt. O chwilio'r Ysgrythurau a'r Greadigaeth, synhwyrai Pantycelyn mai drwy gyfundrefnau profedig yr oedd yn deall — gwahanu ac uno, arbenigoli a chyffredinolli mewn grwpiau dealltwriaeth y dadlennid hyn yn y Gair. Fel hyn y meddyliai. Mae Duw yn defnyddio cyfundrefnau anweledig o'r fath er mwyn ein cyrraedd yn weladwy, ac er mwyn iddo ddatguddio'i feddwl inni. Ond mewn grwpiau o'r fath yr oedd Ef yn fynych wedi cydareiladu manylion y Greadigaeth, a'r gell, yr organau corfforol, a'r galaethau. Yn y fan hon fe welsom fod y Gweledig a'r Anweledig yn un yng Nghrist ei hun. Cawn weld maes o law, ni a hyderwn, fod yna gyfundrefnau sy'n unswydd yn ymwneud â natur Duw ynddo'i hun, a rhai sy'n ymwneud â'i berthynas â'r Greadigaeth ac â dynoliaeth drwy'r Gair llefaredig, drwy'r Mab (y Gair a wnaethpwyd yn Gnawd), drwy'r Ysbryd ar waith a'r Eglwys. Ac mae'r drefn oll yn unol â ffrwydrad o gariad a gorfoledd.

Oherwydd, yr oedd Pantycelyn yn benderfynol o ddechrau meddwl am wyddoniaeth gyda Christ, yr Un sy'n clymu'r Undod â phob dim. Ac felly, doeth yn ddiau fyddai i ni fyfyrion gydag ef o'r newydd am yr Undod hwnnw a geir o gylch y Drindod sydd ynddo Ef, fel y'i profwyd gan Pantycelyn gynt hyd yn oed cyn iddo ddechrau llenyddiaeth o ddifri.

* * *

Wrth fyfyrion uwchben y ddwy arwrgerdd, *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*, fe welir fod y cwlwm cyferbyniol *Anweledig/Gweledig* yn gyffredin iddynt ill dwy. Yn yr 'Arfaeth', cyn amser (*Golwg ar Deyrnas Crist*, Pennod 1) ni cheid dim o sylweddau'r ddaear na'r nef heb sôn am eu trefn a'u bywyd. Eithr, yn faterol, o ddim felly (yn llythrennol), ond yn ysbrydol ohono'i hun mewn cynllun y mae Duw'n cyflwyno'r greadigaeth, y gweledig o'r anweledig, y drefn, a'r bywyd. Yn yr Ymgawdoliad a'r Achub (*Theomemphus*) drachefn, daw ail berson y Drindod, y Mab Tragwyddol o'r anweledig, yn gnawd i'n plith er mwyn adfer trefn o'r newydd. Yn y naill a'r llall, daw goleuni yn realiti i'r ddaear, *Genesis* 1 ac *Ioan* 1. Daw dyn i gynrychioli Duw, fel y syniad o Ddrws yn cael sain a dod yn 'air' llawn. Pan gafwyd Ymgawdoliad cafwyd cynrychiolydd. Pan gafwyd Croesholiad cafwyd eto gynrychiolydd llawn.

Priodol cofio hefyd, yn y drefn gyflawn derfynol maes o law, y bydd y Greadigaeth hon yn dod i ben, ac yn diflannu. Felly hefyd, wedi'r Esgyniad y bu i'r Mab ddiflannu'n gorfforol yn ein profiad ninnau, o safbwynt cnawd gweledig daearol. Gellid awgrymu rhyw fath o gyfundrefn waelodol fel y canlyn ar gyfer y ddwy gerdd:

anweledig — gweledig — anweledig

Roedd amgylchfyd tebyg ym meddwl Pantycelyn yntau pan ganodd y ddau emyn sy'n dechrau: 'Anweledig, rwy'n dy garu', a'r emyn 'Rwy'n dy garu er nas gwelais'. Ond yr oedd

y bardd yn ymwybodol hefyd o gyfundrefn wahanol i *anweledig/gweledig*. Gwir bod yr holl gyferbyniad sylfaenol i Gristnogaeth ynghlwm wrth ymwybod *goruwchnaturiol/naturiol*. Roedd i bopeth ddimensiwn goruwchnaturiol neu ysgogiad Gras Cyffredinol. Yr un pryd, ym maes Gras Arbennig, yr oedd ffydd a gwirionedd a'r rhinweddau eraill oll yn rasmusau a gâi eu diriaethu mewn gweithredoedd. Nid oeddent yn gyflawn, yn wir, onid yn ddiriaethol. Gellid 'canfod' yr Anweledig yn ymarferol drwy lygaid ffydd a chariad, drwy sythwelediad, yn ymgysylltu â phob peth.

Cyfundrefn yw *Gweledig/anweledig* sy'n perthyn yn benodol i'r Greadigaeth a'r holl Arfaeth (ac o fewn hynny i'r Ymgawdoliad). Dyfais neu gyfundrefn arbennig gyntaf Duw yw hyn a agorodd ohoni'i hun mewn Arfaeth wrth ddyfeisio'r Greadigaeth wedyn. Yn y dechrau, meddir, crewyd y defnyddiau neu'r sylweddau, y diychwanegiad a'r 'diddifodiant'. Fel y dywed Pantycelyn yn ei nodyn rhyddiaith ar ddechrau Pennod II *Golwg ar Deyrnas Crist*, 'Yn gyntaf, *Caos* sef y defnyddiau o bob peth'. Dyma 'silfaenu'r byd i lawr', 'fel yr anadlodd y nefoedd', a dweud 'Bydd'. Bodolaeth bodolaeth fel egwyddor yw'r cam cyntaf.

Wedyn, bodolaeth trefn fanwl (neu'n hytrach, gyfundrefn): 'Pob llun, a gradd, a doniau, pob swyddau yn y nef'. Rhan o'r drefn hon oedd 'dyn': 'Yn ôl y gwir bortread gan Frenin nef ei hun', yn Gyfundrefn o gyfundrefnau. Cyplyswyd y Greadigaeth â'i raglen gyfundrefnol. O fewn hynny y mae'r Arfaeth yn rhoio yn ei blaen. Anweledig yw'r Arfaeth drwyddi draw ar gyfer y trefnu i gyd.

Arfaeth a brawf gwymp yw. Gweledig yw am y tro — ble buom ninnau cyn inni ddod yn weladwy? Ond y mae'r Cristion ar daith tuag at yr Anweledig:

GWP II, 275 *Gorchudd ar dy bethau mawrion*
 Yw teganau gwag y byd,
 Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd
 Yw'm pleserau oll i gyd;
 Gad im' gloddio trwy'r parwydydd
 Tewion, trwodd at fy Nuw,
 I gael gwel'd trysorau gwerthfawr
 Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.

Ar ôl bodolaeth trefn, ceir bodolaeth profi.

Y tu ôl i'r gweledig y ceir y drysorfa anweledig. O fewn yr Archgyfundrefn thematig gyntaf, sef yr Archgyfundrefn sy'n ymwneud â dau oddrych y berthynas, Duw a dyn, mae yna dair gwedd y mae eisiau ymhelaethu arnynt. Yn gyntaf, wrth gwrs, 'Duw':

*Un Duw
eto
Y Drindod*

Tad	Mab Proffwyd/Offeiriad/Brenin	Ysbryd Glân
Perthynas I Crëwr Gwarddwr	Crëwr Gwarddwr	Crëwr Gwarddwr

Yn ail, wrth gwrs, *'dyn'*: yn gyfnewidiol –

Perthynas II Creedig ----- Pechadur -----Cristion cadwedig

Enwir y perthnasoedd anweledig pennaf, sy'n eiddo i'r naill a'r llall.

Ond yn drydydd gyda'r profi, mae'n angenrheidiol inni aralleirio'r trydydd pwynt ffurfiol o fewn y clwm o ddau oddrych thematig i'r ddwy arwrgerdd, sef y *cyswllt sydd rhwng Duw a dyn*, yn fertigol ac yn llorwedd: y bywyd dau-gyfeiriad. Nid eu cyfosod yn unig a wneir. Ceir deinameg yn y perthyn. A 'Gras' yw'r enw ar y ddeinameg gyfeiriol honno. Prin mwyach fod angen ein hatgoffa'n hun fod dau fath o Ras. Sef Gras Cyffredinol, (neu Ras Creedig) Duw, yr hyn sydd ar gyfer pawb yn ddiwahân, megis deinameg bodolaeth, bywyd, trefn, gwerth, pwrpas, a 'mawrion' megis haul a glaw, a 'manion' efallai megis esgidiau a beirniaid llenyddol. Dyna Ras y Greadigaeth gyntaf. A Gras Arbennig, gras a roddir i bechaduriaid dihaeddiant ac annheilwng, pobl a ganfu eu hangen, pobl a hiraethodd am ras ac a blygodd yn ufudd; a edifarhaodd hefyd; ac a dderbyniodd fywyd newydd, bywyd tragwyddol, pobl na allai'u hysbrydoedd farw mwyach, pobl y cyfyd eu cyrff ar y Dydd Diwethaf i fwynhau Duw am byth mewn perffeithrwydd. Gras yr Ail Greadigaeth, y ddolen dragwyddol bersonol.

DUW *Gras Cyffredinol / Gras Arbennig* dyn
-----→

Dyna'r Archgyfundrefn gyfansawdd sy'n flaenaf mewn golwg yn ail arwrgerdd Williams Pantycelyn, *Bywyd a Gwaith Theomemphus*. Yn y fan yna, yr ydys yn diffinio perthynas Duw a dyn, mewn ffordd ddeuol unol.

Bid siŵr, mae'r berthynas hon yn sylfaenol i'r arwrgerdd gyntaf hefyd, *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ond olrheinir y datblygiad yn y gerdd honno yn ôl patrwm o orsafoedd lle y

mae i bob gorsaf ei chymeriad cyfoethog iawn ei hun, sy'n gyfres olynol o gyfundrefnau. Yno y diffinnir cyfanwaith yn ôl perthynas lorwedd rhwng y cynllun i'r greadigaeth ar y dechrau ac i'r bydysawd newydd yn y diwedd.

Dwy daith. Yn *Theomemphus*, 'dyn' yw gwrthrych neu nod hollfeddiannol pob cam o daith unigolyn, drwy'r helbulon i gyd; gyda Duw, Penarglwydd personol fel pe bai'n plygu i'w waredu a'i wasanaethu. Duw'r Gwarddwr yw hwn, sy'n ei ddiffinio'i hun bron yn gyfan gwbl yn ôl 'microcosm' ei gariad ymarferol lleol tuag at ddyn unigol. Taith y bywyd unigol yn ôl perthynas fertigol. Yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, sut bynnag 'Crist' cosmig yw goddrych holl feddiannol pob peth, y Crëwr mawr yn cynnal. Ei waith creadigol drwy gydol ei fodolaeth, gan ei ddiffinio'i hun yn ôl macrocosm ei deyrnasiad dros y bydysawd oll, gan gynnwys dynol ryw, y Crëwr cyson sy'n ymwneud â phob gwedd ar yr holl Greadigaeth mewn amser, gan gynnwys Iachawdwriaeth a'r Greadigaeth yn y fan hon sydd ar daith, pob dawn. Ym mhen taith lorweddol yr Arfaeth cyflwynir pob peth yn ôl i'r Tad Absoliwt.

Soniais fod llenyddiaeth (estron a chartref) a fu o bwys yn yr ugeinfed ganrif, er gwaethaf y Positifiaid a'r Ôl-fodernwyr, ac yn eu dannedd eu hunain fel petai, wedi glynu'n bur gyndyn wrth ddiddordebau ysbrydol neu fetaffusegol. Nid oedd yn bell iawn oddi wrth y cyferbyniad *Anweledig/Gweledig*, a hyd yn oed *Duw/dyn*. Fel arall yr oedd gyda'r Archgyfundrefnau nesaf: *Un/Amryw*, fel y cawn weld. Hiraethai'r llenorion trendi am ymsefydlu yn y chwalfa a'r amhenderfyniadol. Heglent yn wyllt er mwyn dianc rhag pendantrwydd a chredoau eglur a digyfnwid. Ysent am wahanu yn unigol ac osgoi undod. Lle yr oedd ieithyddion a gwyddonwyr eraill yn gorfod olrhain cyfundrefnau neu unedau *un/amryw*, rhagdybiai'r Ôl-fodernwyr megis defaid ar ôl ei gilydd nad oedd ond yr 'amryw' yn y bywyd hwn.

Ymyrrent ag ymwybod â ffurf Cyfundrefnwaith oherwydd rhagdybiau hiraethus neu ragfarnau cibddall 'gwrthryfelus'. Yn hynny o beth yr oedd Pantycelyn yn ôl-ôl-fodernaidd.

*

*

*

Ceisio dadlau'r wyf fod yna gydlynid ac adeiladwaith unol gan Pantycelyn ynglŷn â'i syniadaeth sy'n fwy o lawer nag a geid pe na bai ond yn 'crwydro o bwnc i bwnc'. Mae ganddo yn ei feddwl *ramadeg syniadol* cyflawn, strwythur cyfun sy'n helpfawr wrth ystyried Deunydd llenyddiaeth. Nid tuedd achlysurol ydyw, ond fframwaith llawn o feddwl — ac o feddwl yn ddifeddwl, hynny yw fframwaith sythweliadol yr isymwybod, lle y mae pob rhan yn asio yn ei gilydd. Ac fel y mae gan iaith 'iach' fel arfer batrymwaith gramadegol, felly y mae sgaffaldwaith syniadol Pantycelyn yn cwmpasu pob rhan o fywyd.

Nid casgliad o ddamweiniau felly yw'r hyn a gyflwynir inni. Nid cyfres o ddigwyddiadau yn unig chwaith, er bod hynny yno. Mae'r cwbl yn ffitio i mewn i'w gilydd yn ddiwriad. 'Oherwydd bod hyn eisoes yn wir, yna, y mae hynyna'n wir.' Nid yw'r meddwl yn dod i'r golwg yn ôl 'y gyfundrefn a'r gyfundrefn' achlysurol iddo'i ffansio... yn y llyfr a'r llyfr diweddaraf ... ac ymlaen i'r chwiw yn y llyfr nesaf gan fenthycia yma ac acw fel y mynno... Na: mae'r cydwead o syniadaeth yn adeiladu potensial yr Arfaeth oll a'r bydysawd i gyd yn un gwedd, ac yn ddi-fwlch, mewn fframwaith sefydlog bydeang. Y cwbl sy'n diffinio'r rhan. Mae gan Bantycelyn ffordd amodedig o feddwl.

A sylwer: nid disgrifio adeiladwaith meddyliol un unigolyn yng nghanol y ddeunawfed ganrif yn unig yr ydym wrth archwilio cyfundrefnau diwinyddol Pantycelyn. Dyma oedd cynhyrsgaeth cymdeithas helaeth o bobl mewn llawer gwlad ac amser: o Awstin i Domos Acwin, o Galfin i John Owen, o Turretin i Jonathan Edwards ymlaen i Bantycelyn: cymdeithas gyfundrefngar wir eciwmeniaidd (oherwydd sefydlogrwydd y gwir) dros yr Oesoedd. Unwaith eto, yr ydym yn gweld y diffyg yn nadl Saunders Lewis ynghylch y bersonoliaeth unigol ddigymdeithas dybiedig. Roedd Pantycelyn yn rhan o gymuned ddeallol ddiamser. Yr oedd Pantycelyn yn rhannu hefyd gyda llu o'i gyfoeswyr, o wahanol enwadau, adeiladwaith syniadol cyfan, hynod dreiddgar, yn isymwybodol fel cyfundrefn. Dyma wir eciwmeniaeth. Nid trefn wleidyddol a goginiwyd gan Galfin oedd. Ni wnâi Calfin ond chwilio'r ffeithiau yn yr hyn a draddodwyd. Nid eciwmeniaeth sentimental a gweinyddol yr ugeinfed ganrif oedd hyn, ('dyna neis fyddai uno'), eithr eciwmeniaeth difrifoldeb, o'r galon, ynghylch y ffydd uniongred gyflawn unol a roddwyd. Eciwmeniaeth credu tragwyddol oedd â'r holl enaid yn strwythurol. Dyna'r gymdeithas amlboblog i Bantycelyn, gytûn yn y Gwirionedd. Meddwl a Hanes yn y Beibl oedd angor gwir Eciwmeniaid: *pace* yr ugeinfed ganrif.

Fel y mae Tafod neu ramadeg yn gorfod bod yn llethol o gymdeithasol ac yn isymwybodol gyffredinol, yn fwy felly nag unrhyw theorïau economaidd a gwleidyddol a arddelir, yn union debyg ar ryw olwg felly gyda'r cyfundrefnau meddyliol a adeiladai weledigaeth Pantycelyn. Dyna'r Metanaratif. Hynny yw, nid ceisio olrhain trywydd rhyw ddadl neu syniad unigol yr ydym yn y gyfrol hon, ac nid chwilio llwybr rhyw ffasïwn. Ceisio yr ydys yn hytrach amgyffred cyd-adeiladwaith cadarn mewnol a dwfn gwirionedd bywyd cyfan mewn unigolyn soffistigedig arbennig a fu'n llais i'w bobl ac yn llais ymhlith ei bobl. Ac yr oedd cyd-adeiladwaith hwn yn cynnwys bywyd a marwolaeth, nef a daear, amser a thragwyddoldeb, heb osgoi dim. Traddodiad Awstin-Calfin.

Gyferbyn ag Empeiriaeth yr Ymoleuwyr, gosodai Pantycelyn *Y Synwyradwy/Yr Ansynwyradwy*. Annigonol oedd y ‘Synwyradwy’ fel dimensiwn i hawlio holl brofiad dynoliaeth. Gyferbyn â Rheswm y Rhesymolwyr, gosodai ef nid yn unig apêl Rhamantwyr at deimlad ac angerdd, ond apêl y Gristnogaeth gyfundrefnol at yr holl bersonoliaeth.

*

*

*

Mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, felly, — sy’n esboniad ar hanes — ymddengys i mi fod gan Bantycelyn ddau brif fath o strwythur meddyliol: Cyfundrefnau ac Athrawiaethau. Ar y naill law, mewn Tafod Deunyddiol ceir *cyfundrefnau elfennaidd iawn* mewn cyferbyniad, ac yna themâu sy’n ymestyn megis *ffydd/gweithredoedd; corff/enaid,ysbryd; anweledig/gweledig*; ac yn y blaen. Mae’r cyfundrefnau hyn a llawer arall yn gallu bod yn gyfuniadau sylfaenol deuol neu driol. Ac ar y llaw arall, mewn Mynegiant ceir *athrawiaethau* neu *safbwyntiau neu hanes profiadol datblygedig* o gylch pynciau sefydlog egwyddorol, fel arfer ar ffurf dadleuon estynedig neu frwydrau am Galfiniaeth, Antinomiaeth, Arminiaeth, Sandemaniaeth a.y.b., o fewn math o ffrâm naratif yn ogystal ag ar ffurf motiffau yn yr emynau.

Dyna pam y mae’r gyfrol hon yn symud oddi wrth Gyfundrefneg tuag at Themateg.

Mi all y cyflwyniad deuol hwn ymddangos yn gysyniad dieithr. Ond y mae a wnelo â’r drefn ddeublyg sydd yn yr efengyl, ac â’r drefn ddeuol sydd gan Dduw yn ei ffordd o’i chyflwyno i feddwl dyn. Trefn sgaffaldwaith y Beibl yw, a’r bricwaith ei hun sy’n llenwi’r sgaffaldwaith naratif ac esboniad. Dyma hefyd Ddigwyddiadau a Deongliadau. Gwir nad dyna sut y cyflwynir Diwinyddiaeth gyfundrefnol fel arfer. Yma, ystyriwn Ffurf Deunydd.

Er mwyn deall y sefyllfa feddyliol honno yn iawn, dichon mai’r gymhariaeth fwyaf defnyddiol a byth-gyda-ni yw’r gymhariaeth â gwneuthuriad iaith. Ym mhob iaith, gwelsom y cydlynid yn y meddwl o gyfundrefnau penodol potensial. ‘Tafod’ yw eu teitl technegol. Dyma bethau o’r golwg megis tympau’r berfau, tri pherson y rhagenw, graddau cymharol ansoddeiriau, rhannau ymadrodd, ac yn y blaen, bob un yn ôl natur yr iaith unigol ynghudd yn y meddwl. Dyma gyfundrefn o gyfundrefnau solet a adeiladwyd o’r golwg, i’w chadw er mwyn ei defnyddio dro ar ôl tro yn ôl y galw yn y golwg mewn Mynegiant amrywiol. Drwy gyfrwng y rhain y gellir deall pob peth a ddeallir, gan gynnwys Diwinyddiaeth a phob gwyddor. Mekanweithiau gweddol sefydlog, cyferbyniol sydd o’r golwg, ond undodau yn yr ymennydd, sy’n sefydliadau i’w rhoi ar waith, ond a rennir gan bawb sy’n siarad yr un iaith grefyddol. Bellach, defnyddir y gair Ffrangeg ‘langue’ i ddisgrifio’r Gyfundrefn hon o

gyfundrefnau meddyliol. Ac fe'i cyferbynnir, o ran safle a natur, â chyflwr cwbl arall ar iaith a ddefnyddir, sef 'parole' neu 'discours', y canlyniad, y cyfansoddiad mewn brawddegau, yn y golwg, y weithred. Ar y naill law, ceir yr offeryn sylfaenol ac elfennaidd 'disafbwynt' yn yr ymennydd ar gyfer siarad: y drefn gnewyllol gyffredin. Ac ar y llaw arall, ceir yr ymddiddan goddrychol 'cyfansoddedig' ei hun, y naratif. Byddai'n hawdd iawn i rywun synied mai rhyw fath o fformiwlâu artiffisial yw'r cyfundrefnau diwinyddol esgorol. Ac y mae'n dra phwysig dadrithio'r safbwynt hwnnw ar unwaith. Gwnaf hynny drwy'r un gymhariaeth ieithyddol.

Sylfaen ganolog iaith yw nid geiriau unigol na sŵn, ond y drefn, y fframwaith dynol a chyffredinol sy'n cynnal y geiriau a'u rheoli hwy. Nid fformiwlâu yw'r rhain, ond gramadeg meddwl. Yn wir y mae i'r gair unigol ei hun drefn, fel iaith i gyd. Yn y meddwl, ceir trefn mewn iaith grefyddol sy'n caniatáu inni feddwl yn ysbrydol a deall o gwbl. A does dim mwy dynol na phersonol. Perthyn i hynny y mae cyfundrefnau diwinyddol thematig *Systematic Theology*. Dyma'r drefn neu'r cynllun ar gyfer meddwl ei hun. Y tu mewn i'r fframwaith sefydlog hwnnw y mae'r athrawiaethau a'r gwirioneddau'n cael eu ffurfio yn amrywiol odiaeth, fel y mae brawddegau'n cael eu ffurfio o fewn gramadeg. Nid peth annynol o beiriannol yw gramadeg: rhan o ufudd-dod cynnes y ddaear yw i drefn Duw. Dadlennu trefn ddiriaethol, hanesyddol, hardd Duw yw gwrthrych gwaith Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. Rhed cyfundrefnau drwy'r Beibl a thrwy Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol fel rhannau ymadrodd drwy'r iaith, a thrwy feddwl dyn. Dynol-ddwyfol a chariadus yw'r Gair.

Yr Archgyfundrefnau hyn sy'n darparu fframwaith rheolaidd i gynnal Mynegiant Diwygiedig Protestannaidd. Y cyfundrefnau hyn hefyd yw'r sylfeini sefydlog 'gramadegol' ar gyfer Pantycelyn fel y gall fynegi llu o emynau, dadleuon, neu athrawiaethau datblygedig. Hwy yw'r sgaffaldwaith anweledig y tyf ambell ddadl o'i gwmpas. Dysgodd Pantycelyn amdanynt gan y Piwritaniaid. Gwaith Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, a sail y Beibl, oedd datgelu synthesis unrhyw thema â gweddill themâu'r ysgrythur.

*

*

*

Nid yw pob perthynas '*anweledig/gweledig*' yn union gyffelyb i'w gilydd bob amser. Nid yr un fath yw perthynas y Crëwr a'r creedig â pherthynas Gramadeg a Mynegiant. Wrth ddisgrifio meddwl Pantycelyn, felly, y mae'n hwylus bob amser inni synied am y cyferbyniad hwn rhwng dau gyflwr *syniadol*: fframwaith trefnus yr Arfaeth, a'r cyflwyniad allanol a thematig i'r Cristion unigol sy'n cael ei fynegi o fewn y fframwaith hwnnw. Ac yn y gyfrol hon, fe geisir ymdrin â'r modd y mae'r ddau fath o adeiladwaith hyn ar waith ym meddwl un

Cristion ar ffurf olynol hierarci. Gan fod y disgrifiad o'r cyfundrefnau creiddiol, mewnol yn gymharol newydd, fel Cyfundrefn o gyfundrefnau, fe fydd tuedd o ran pwyslais yn y gyfrol hon i wyro ar y dechrau tua'r wedd honno. Tafod, y patrwm o gyd-gyfundrefnau ymddangosiadol sefydlog: dyna faes pennaf yr ymdriniaeth hyd yn hyn mae arnaf ofn. Ond mynnir pwysleisio yma nad yw 'Tafod' yn 'bwysicach' na 'Mynegiant', fwy nag y mae gramadeg mewn iaith yn bychanu'r brawddegau a gynhyrchir ganddo. Dau gyflwr meddyliol ydynt, y naill yn adeiladwaith sylfaenol yn y meddwl, o'r golwg yn gudd hanfodol, a'r llall yn gynnyrch amlwg, yn y golwg. Y naill mor angenrheidiol â'r llall i'w gilydd, nid gwrthryfelwyr newyddiadurool megis adain dde ac adain chwith mewn gwleidyddiaeth. Mae'r naill yn ddadansoddiad isymwybodol cyfundrefnedig, a'r llall yn gyfansoddiad ymwybodol mwy rhydd. Ac fel y mae Tafod (cymdeithas) a Mynegiant (unigolyn), er yn gwbl wahanol o ran natur, yn cydadeladu undod iaith, gyda'r naill wedd yn gyfan gwbl ddbynnol ar y llall, felly hefyd y ddwy wedd hyn ar Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol. Felly, mewn llenyddiaeth hithau. Yma yr ydym yn trafod Tafod torfol y Deunydd. Bydd diwedd y gyfrol yn gallu gwro tuag at Fynegiant unigol y Deunydd.

Ar y llaw arall, pan ddihunodd enaid Williams, pan ddaeth yr Ysbryd Glân ar ei drywydd i fywhau'i galon, cafodd olwg newydd ar yr Anweledig. Miniogwyd ei feddwl. Cafwyd porth drwodd i'r Anweledig personol dragwyddol. A chymorth i'w finiogi oedd y gyfundrefn ysbrydol baradocsaidd, *Anweledig/Gweledig* yn yr Ymgawdoliad, sef Person godidog y *Duw/ddyn*. Roedd hi fel pe bai'r Ymgawdoliad yn digwydd yn enaid Williams.

Gwelsom emyn cyntaf *Ffarwel Weledig* yn dechrau gyda'r geiriau:

GWP II, 194 *'Rwy'n dy garu, er nas gwelais*

Profodd ef gariad ysol at Un: dymunai gefnu ar y llawer. A chariad a'i hunai ef â'r Un hwnnw. Felly y tri phennill cyntaf i ddathlu dirgelwch diderfyn y Duw anweledig. Ac yna, ddechrau ail ran (4 Pennill olaf) yr emyn:

GWP II, 194 *Mi gaf weled, mi gaf ddeall,
Mi gaf yno berffaith ras ...*

Ac yn y rhan hon o'r emyn, dathlu y mae orfoledd y gweld llawn sydd i ddod, fel y'i deallai ar y pryd, a'r closio at ei Gariad.

Pan dry wedyn at yr ail emyn, y mae'n gallu dechrau drwy weld eisoes a chanmol yr hyn a wêl cyn cyrraedd y bedd: dyma brofiad pwysig newydd a gorfoleddus eto —

GWP II, 194 *Gwyn a gwridog yw fy Arglwydd*

Yr wyf yn synied bod Williams yn anad neb erioed yn y Gymraeg, wedi darganfod y lle helpfawr a gâi gan y synhwyrâu a'r gynneddf ddelwedol am fod gras o bosib o fewn cydestun deallol yn eu bwydo. Cynorthwyent y deall gymaint â chynneddfau rheswm a dychymyg. Roedd mawl hygryw yn gymorth i ganfod undod â Christ. Yr oedd yr ymateb esthetig Beiblaidd yn ogystal â'r ymateb moesol yn ei ddeffroad i'r efengyl wedi'u bywhau eisoes. Ond gellid dyfalu ein bod yn canoli am foment ar y flwyddyn 1762-3. Blwyddyn fwyaf Pantycelyn o bosib. Dyna ail-ennyn y tân yn Llangeitho hyd yn oed cyn ei chyrraedd. Llifodd rhyw 84 o emynau allan o galon Pantycelyn ar unwaith, doedd ef ddim wedi eu disgwyl, yr oedd ef ar ganol canu'n bwylllog yr arwrgerdd *Theomemphus*, doedd ganddo ddim o'r bwriad i adael honno, a dyma nhw'n dod: "Rwy'n dy garu er nas gwelais", 'Cymer Iesu fi fel ydwyf', 'Dere Iesu i'r ardaloedd', 'Yr afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr'. Roedd Howell Harris bellach wedi dod yn ei ôl atynt, ac ymuno yn y Diwygiad Mawr; ac ar gais Harris, dyma Willams yn llunio tri emyn i ddathlu Undod yr amryw. Roedd Harris yn ôl ei arfer yn ddigon parod i syrthio ar ei fai. Ailgyneuwyd *Theomemphus* a'i thynnu i'w therfyn. Dyma hefyd flwyddyn *Ateb Philo-Evangelius* lle y dywedai, (GWWP II, 28): *yr wyf yn cael lle i gredu bod Duw yn yr Eglwys, ac yn ymweled â'i bobl, ond heblaw yr hwyl nefol sydd ar eu hysbrydoedd hwynt yn rhoi eu tafodau yn fywiol i ganmol Duw, mae'r tân hwn yn fflamio allan ym mywyd ac ymarweddiad amryw ohonynt ... Yn ail, nid am bynciau lleiaf y ffydd mae'r bobl yma yn wresog, ond am brif bynciau iechadwriaeth. Ffydd a chariad yw y grasusau pennaf y maent yn llefain amdanynt. Crist a'i rad ras Yr hyn sydd yn fy ngalw, yn drydydd, i ddal sylw ar yr hyn mae Ioan yn ei ddweud: 'pwy bynnag sydd yn addef mai'r Iesu yw y Crist, o Dduw y ganwyd ef'. Mae'r teulu yn un. Yr alwad olaf yw'r un sy'n cyfeirio at gyfundrefn yr Eglwys (Corff Crist)/aelodau: yr Undod o'r golwg i'r llawer yn y golwg. Darganfyddiad newydd i raddau yn y Diwygiad oedd ystyr yr Undod anwel-weledig hwn yn y dweud gan y bobl ar uchaf eu cloch.*

Canlyniad oedd hyn oll i weld yr Iesu y flwyddyn honno, ar waith drwy'r synhwyrâu a'r meddwl. Blaenllymwyd y cynneddfau. Dyma'r Ymgawdoliad personol.

Wrth sôn am weld yr Anweledig, a'r pwyslais synhwyrus, sylwn fel y mae tegwch Crist y flwyddyn honno nid yn gymaint wedi llamu i'r blaen, eithr wedi esgor ar ddimensiwn arall. Eisoes, bid siŵr, yn *Aleluia* ceid amryw emynau a soniai am 'weld Crist'. Uno profiad fu canolbwyntio ar yr Un. Efallai mai'r mwyaf nodedig a garw ohonynt yw (1747):

A, 106

*Ai Iesu mawr, Ffrynd dynol Rhyw,
Wi'n weled fry, a'i Gnawd yn friw,
A'i Waed yn lliwio'r Lle,
Fel gwr dibris yn rhwym ar Bren,*

*A'r Gwaed yn Dorthau ar ei Ben?
Ie, f'Enaid, dyma fe.*

*Ai'm hanwyl Briod welai draw
A Hoelion llymion trwy bob Llaw,
A'u pwyo'n drwm i Dre',
A Bar o Ddur trwy ei dirion Draed,
Ac ynteu'n marw yn ei Waed?
Ie, f'Enaid, dyma fe.*

*Ai fe fu'n maddau idd' ei Gâs,
A'i Waed fel Llif oi Glwyfau 'maes,
Nes agor Drws y Ne',
Rhoi ei Ben tua Llawr gan Boenau llym,
Yn wirion dêg heb yngan dim?
Ie, f'Enaid, dyma fe.*

Gweledig yw Crist hanesyddol o'r fath mewn llawer o'r emynau, er mor gynnar â hyn. Diriaethir y deall mewn synhwyrâu cras weithiau. Yr hyll yn hardd. Yn *Hosanna i Fab Dafydd*, 1751 o hyd, heblaw cael yr Anweledig (Duw) wedi troi'n Weledig yn yr ymgnawdoliad, yn syfrdanol mae'r anweledig bellach yn mynd yn fwy gweledig na dim:

GWP II, 88 *Wrth droi fy ngolwg yma 'lawr
I gyrau'r greadigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wêl fy enaid gwan
Ond Iesu i bwyso arno'n rhan.*

Cafodd Pantycelyn fod ynddo gynneddf, ei enaid, yr oedd ei ymwybod ohoni yn ddatblygedig bellach. Mae'n annog ei seiadau i edrych:

GWP II, 99 *Yma cewch wel'd eich Harglwydd mawr
Yn rhoddi 'lawr yn hollol
Ei Hun i angeu ...
Yna cawn wel'd ein Harglwydd cun, ...*

Mae yna gyfres o bum emyn cyffelyb GWP II 103-105. Beth yr oedd yn ei wneud? Dim llai nag annog ei bobl i feithrin cynneddf eu *dychymyg* i ganfod yr un Iesu, gan nesáu at Iesu Grist â'r synhwyrâu a'r ewyllys. Drwy gynneddf sylfaenol y *dychymyg* disgybledig, y delweddu cyfrifol mewnol ar sail tystiolaeth y Gair, a'r ymrwymo, yr oedd modd canolbwyntio sylw ar yr Un uwchben pob un, a hynny yn fodd i brofi ac i fywiogi profiad a digwyddiad diriaethol pob Cristion ailanedig, sef Uno. Dôï'r Un yn fwy nag athroniaeth, yn fwy nag aelod mewn cyfundrefn. Dôï profiad yn feddwl, drwy synhwyrriad sylweddol megis drwy'r holl gynneddfau.

Yn *Y Môr o Wydr*:

GWP II, 136 *Fy nghof, fy neall, a'm synwyrâu,
Sydd yn mron llewygu i gyd;*

*Ac yn ffaelu cadw eu tref(e)n,
Eisieu gwel'd dy wynebpryd.*

Yna fe ddeil ar yr un perwyl:

GWP II, 157 *Can's mae dy harddwch, Iesu mawr,
Yn fwy na harddwch nef a llawr;
A harddach, harddach fyth o hyd,
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.*

Ond mae yna ddau beth yn digwydd yn *Ffarwel Weledig*. Yn gyntaf, er ei fod yn dal i grynhoi sylw mewn emyn ar ôl emyn ar ôl emyn ar harddwch yr Un, y mae'r sylweddoliad hwn fel pe bai'n ei gario ef bellach i mewn i'r tegwch cyflawn hwnnw. Ceir tegwch mewn delwedd ddiriaethol sy'n cael ei hanfodi, ac yn ei ddenu ymhellach:

GWP II, 197 *Anian nef a dyr trwy rwystrau,
Anian nef a dyr trwy'r tân;
Ceidw ei gyrfa trwy'r creadur
At ei gwreiddyn pur yn mlaen;
Heibio i degwch, &c.,
At y tegwch gwir ei hun.*

Yn ail ran *Ffarwel Weledig* 1766, yr wyf yn ymdeimlo â dwysáu pellach. Eisoës yn *Aleluia* nid oedd wedi ymatal rhag pwysleisio'r gwaed. Ond bellach, symuda i lefel amgen. Nid yn unig y mae'n syllu ar y gwaed, y mae fel pe bai'n ymhyfrydu ynddo. Mae'n gloddesta ynddo. Mae athrawiaeth a phrofiad synhwyrus y 'dychymyg' a ffeithioldeb gwybod yma'n bleth o fewn disgyblaeth y Gair. Ond wrth gwrs, bellach 'dwyfol arall' sydd yma o hyd.

Gwyddys am orbwylais Howell Harris ar y mater hwn. Honnir mai dyma un o brif wrthdrawiadau'r gynnen rhyngddo a Daniel Rowland. Esgus oedd hynny i raddau. Yr oedd Pantycelyn yn yr un gwerysll yn gymwys â Howell Harris yn hyn o beth, ac yn yr iawn. Cymedroldeb a fynnai Rowland yn hyn o beth. Ymatalfa beryglus os dealladwy. Yr oedd y safbwynt diwinyddol ei hun yn gywir gan Williams a Harris, ond maint y pwylais oedd y tramgwydd. Mater peryglus arall. Y gwir yw mai pwylais carismatig gweledigaethus Harris, — dyrchafu proffwydo, canolbwyntio'n emosiynol ar y gwaed, ei awdurdodaeth, ac yn ôl pob tebyg ei genfigen naif o Rowland (safle swyddogol yr ail; a'i ddysg), heblaw ei annoethineb ynghylch cymdeithasu'n ormodol gyda Madam Griffith — dyna a achosodd y gynnen. Fel y ceisiaf ddadlau mewn man arall, cenfigen a gafwyd, yn ddyfnach nag a gydnabyddir bellach oherwydd gwirioni'r cyfnod diweddar ymghylch Rhyw yn trechu 'norm' ehangach y cyfnod cyn-Freud, ac oherwydd i Harris ddifrifoli'n ormodol ynghylch breuddwydion. Roedd Harris, meddwn, yn anghysurus o feidrol. Dynol oedd y Diwygwyr oll.

Ond sôn yr oeddwn am y synhwyr, yn arbennig y gwaed, ac am le delweddu gofalus mewn crefydd ochr yn ochr â rheswm. Peth y gwngai credinwyr unionged, athrawiaethol arno o bosib.

Carwn felly oedi am foment i ystyried yn gryno iawn y lle sydd i'r dychymyg mewn crefydd. Y gwir yw, pan fyddwn yn defnyddio geiriau fel 'Croes, Iesu Grist, gwaed, clwyfau, coron ddrain, Oen', ac yn y blaen y mae'r meddwl o hyd yn delweddu. Nid ffansi ffri yw hyn, ond proses o ddiriaethu 'gwirionedd'. Peth felly yw geiriau: arwyddion. Ni ddylid eu bychanu. Y mae'n 'wir' mewn ffordd wahanol i ffordd y gall rheswm fod yn 'wir'. Ac nid yw'n llai syrthiedig fel cynneddf. Barddonol ymarferol yw. Gall fod yn beryglus pan na pherchir canllawiau'r datguddiedig hanesyddol. Rhan o bwrpas gair yw bod yn arwydd corfforol o arwyddedig, i rithio rhywbeth pan fydd y peth hwnnw'n absennol. *Darfelydd*, nid crebwyll, yw'r 'dechneg' yn hyn o beth. Y ddawn i ddelweddu yn y meddwl 'fel' rhywbeth ar sail rhywbeth. Daw'r Cristion â'r holl gyneddfau yn gaethweision i Grist. Weithiau bydd y 'fel' yn ymestyn yn drosiad byw.

Ond un paradocs ynglŷn â theitl *Ffarwel Weledig* gan Williams: er bod y cyferbyniad gweledig/anweledig yn ôl pob tebyg yn darparu fframwaith meddwl iddo, fe aeth y cerddi eu hunain yn groes i'r disgwyl. Dechreuodd drwy gefnu ar y gweledig, a chroesawyd yr Anweledig. Ond drwyddynt deuai'r anweledig yn weledig. Hyn oedd ei ryfeddod, ei ddarganfyddiad, ei sylweddoliad mawr yn y cerddi hyn. Ymhyfrydai yn y dychymyg cyfiawn posibl o Grist, fel yr oedd ei reswm yn medru gwledda ar yr athrawiaethau gwir amdano, dyna oedd y ddau, yr oedd cnewyllyn y gyfundrefn *anweledig/gweledig* yn darparu llwyfan i'w fyfyrddod synhwyrus cyfan. A'r 'gerdd' felly yn diriaethu'n ddisgybledig.

Rhan yw hyn oll o'r uno personol. Roedd yr *Undod/Trindod*, a oedd hefyd yn *Anweledig/Gweledig* yn arwain at yr *Un/amryw* mewn cyfeiriadau lawer.

Yn y flwyddyn 1762-3, mi gredaf, y dechreuodd Williams Pantycelyn, yn ymwybodol, gychwyn ar yr hyn y gellir ei alw'n llwybr cyfriniol cyfrifol, o'i gyferbynnu â'r goddrychedd ffansiol a gafwyd drwy ysbrydoledd weithiau yn yr ugeinfed ganrif. Yr oedd wrth gwrs yn sylweddoli'n ddeallol fod yna uniad rhyngddo â Christ yn ffeithiol. Digwyddodd hynny pan ailanwyd ef, pan ddaeth yr Ysbryd Glân i'w galon. Gellid sôn fel y llifai gwaed Duw yn ysbrydol mwyach drwy'i wythiennau. Ond er 1762-3 ymlaen, fe wybu hyn yn ymwybodol brofiadol o fewn disgyblaeth ysgrythurol. Fe feddiannwyd ei fryd yn fwy diriaethol. Difrifolodd fwyfwy. Cofleidiodd Grist yn arbrofol. Dwysaodd. Myfyriodd fwyfwy am y datguddiad ohono. Fe'i llanwyd yn ei sgil nid yn unig â serchiadau pwerus, ond â

gweledigaeth effro weddnewidiol. Roedd ei brofiad o'r dwyfol waed yn cael ei gymhwyso'n bersonol iawn i'w sylweddoliad profiadol ddeallol o gariad Crist ato ef ar waith.

Profiad o'r fath, mi gredaf, yw'r unig gyd-destun priodol i ymdrin â chyfundrefnwaith *Un/amryw* y grefydd Gristnogol. Dyma gyfundrefn ddwyfol, bur wahanol i gyfundrefneg arferol dyn, lle y ceir, heblaw cariad rhwng dyn a dyn, gariad rhwng personau'r drindod a'i gilydd, yn ogystal a dynion a'i gilydd, a'r cwbl yn Undod cyd-dreiddgar, ysgrythurol gymdeithasol. Tystia *Llythyr Martha Philopur* (GWWP II, 2) ein bod mewn cwmni go chwithig ar gyfer sôn am gyfundrefnau: '*mor anodd i mi yn awr dewi ag i wraig wrth ddwyn dyn bach i'r byd, heb grio, ochain, a chwynfan; "canys enynnodd tân, a mi a leferais â'm tafod". Ond O hyfryd awr! Pan ydoedd hi fwyaf cyfyng ar fy enaid, gwawriodd dydd arnaf. Ces deimlo mewn munud fod fy mhechod wedi ei faddau*'.

Rhyfedd y funud honno fod yna sail 'cyfundrefnu' i'r fath beth ar waith er ei waethaf. *Pechod/Maddeuant, Meddwl/Teimlo*. Ar yr olwg gyntaf, ac yn y dull henffasiwn o synied, ni fu dim oll mor wrthyferbyniol i gyfundrefn nac mor wyllt chwyldroadol â'r diwygwyr Rowland a Harris. Yn y golwg, yn y corff, gallent ymddangos yn eithafol o anhrefnus. Mewn gwirionedd, mae achwyniad y rhamantwyr ynghylch cyfundrefneg credoau'r diwygwyr 'gwyllt' yn union yr un fath â ffermwr yn y mart yn rhyfeddu pe bai rhywun yn esbonio iddo fod ei iaith lafar ffwrdd-â-hi wedi'i seilio ar liaws o gyfundrefnau gramadegol o lawer math. Fel y mae yna ryddid aruthrol o fewn gramadeg i greu llawer math o frawddegau ac i fynegi teimlad o bob peth, gan drafod ystyr bywyd i gyd, felly y mae'r cyfundrefnwaith o egwyddorion sydd yn gadarn y tu ôl i'r Diwygiadau a'r Emynau Efengylaidd mwyaf angerddol yn isymwybodol drefnus fel y cynhwysent bob peth. Fel nad oes dim byd mwy dynol na gramadeg, felly nid oes dim mwy cariadus na chyfundrefn ddiwinyddol.

Ac wrth synied yn ymwybodol, fel y'i gwnaf yn awr, am y cyswllt rhwng undod â'r Crist byw ar y naill law yn ddeallol ynghyd â'r drefn unol o ddeuoliaeth yn brofiadol mewn cyfundrefn, dylai hyn ein harwain ymlaen i fyfyrion am Unoliaeth gynhwysfawr yr Absoliwt. Ond rhyngom a hynny, saif mater arall hanfodol ynglŷn â'r Absoliwt y mae'n bwysig i Gristion ei gydnabod. Mae yna drioliaeth ryfedd yno i'w hadnabod oherwydd yr Un lle y ceir yn drefn fwyaf y Cariad mwyaf.

Pwyslais Pantycelyn mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol oedd mai yng Nghrist y ceir eglurder y gwirionedd, agosrwydd y gwrthrych, a llawnder y datguddiad. Tyfodd hyn yn fwyfwy dirfodol ynddo. Cyferfydd gwedd pob cyfundrefn ac athrawiaeth felly yn Ei berson a'i waith Ef. Cydlynir holl themâu a threfn bywyd yn Ei aberth iawnol Ef. Hyn, a hyn yn unig, sy'n dyrchafu'r Drefn yn Gariad, a'r Wybodaeth yn Ogoniant. Iesu yno yn Anweledig-

weledig oedd man cyfarfod pob peth. Pan na cheid ond 'gweledig', cyflwr amddifad fyddai. Pan na cheid ond 'anweledig', cyflwr amddifad fuasai. Yr oedd ac y mae'r Crist hwn yn ddiriaethol wrthrychol.

Hwn oedd yn cynrychioli Pantycelyn. Dyma uchafbwynt yr Arfaeth oll. Felly hefyd mae'n sefyll yn lle pobl heddiw. Ei ystyr Ef yw ystyr ambell ddarllenydd. Fel y mae DNA Adda yng nghorff Pantycelyn, felly y mae yn ei gynrychioli'n Ail lle y mae Iesu yn cynrychioli'r Adda hwnnw gerbron y Tad. Mae'r rhyfeddod o 'gynrychioli' mewn iaith mor drawiadol, fel y mae'n drosiad o leiaf sy'n cyffwrdd â'n dealltwriaeth o drugaredd y Mab yn y Weithred Fwyaf Anweledig a Gweledig yn hanes y byd.

Y BEDWAREDD ARCHGYFUNDREFN: ABSENNOL/PRESENNOL

CYNRYCHIOLI

Buom oll yn absennol o'r ddaear hon ar un adeg. Dysgasom Bresenoldeb yma, a hynny i raddau helaeth drwy gyferbyniad Absenoldeb. Hunaniaeth yw'r enw.

Sut y dysgasom gorffori'r profiad hwn mewn iaith a llenyddiaeth? I ba raddau y bu hyn yn fwyd geiriol arwyddocaol i'r oedolyn? Dysgwyd Absenoldeb oherwydd dychryn neu arferiad colli Presenoldeb.

O safbwynt Pantycelyn yr oedd Absenoldeb a Phresenoldeb Duw yn rhywbeth a ddysgodd Adda, ac a fu'n fwy na syfrdandod iddo; a dyna, i Bantycelyn yntau, y cyferbyniad dechreuol mwyaf a brofodd dyn.

Beth sy'n gwneud Archgyfundrefn fel hyn, neu unrhyw Gyfundrefn yn ffactor dealedig mewn Tafod? A beth yr ym yn chwilio amdano onid peth sy'n tarddu wrth gwrs mewn cyferbyniad *cynieithyddol*? Sythweliad elfennaidd synhwyrus ymenyddol yw hwnnw sy'n isymwybodol ac yn gyffredin i bob siaradwr iaith, ac a adweinir drwy ddadansoddiad. Corffora'r sythweliad hwn brofiad mor ddwfn fel y mae'n cynnwys addewid o ddealltwriaeth ynghylch un o egwyddorion syml ond mwyaf treiddgar amlochrog ein bywyd bob dydd. Mae *Presennol/ Absennol* rhywun neu rywbeth yn un o'n profiadau cyferbyniol mwyaf elfennaidd: bod yn y groth/peidio â bod yn y groth; cael/colli. Daw ar warthaf y plentyn ifancaf. Nid oes dim ymwybod byw na deall a ddaw ynghynt. Dyma hefyd y cyferbyniad a geir yn Cynfod/Bod ar ddechrau *Golwg ar Deyrnas Crist*. Buan iawn y bydd y plentyn yn profi'r amgylchiad Mam/Mam wedi mynd. Gall fod yn drawmatig iddo. Mae hi'n peidio â bod iddo yno. Sgrecha'n enbyd. Mae'r baban wedi'i amddifadu o wrthrych angen mawr sylfaenol. Neu'n gyffelyb, gyda digwyddiad llawer symlach: golau/golau wedi diffodd. Ni raid 'meddwl' amdano na chael iaith i fynd ato. Yn y cof, y cyferbyniad hwn yw'r 'peth' a'r 'ddelwedd' ohono a erys yng nghynhysgaeth y meddwl. Fe'i hailadroddir. Oherwydd yr angen a'r caffaeliad, fe ddaw'n sefydliad a beidiodd.

Wrth hawlio sylw hefyd (hyd yn oed drwy sgrechian), ac wrth fynnu cael lle yn yr ymwybod, y mae'r meddwl effro'n mynych gael ei herio gan wrthrychau presennol o bob math. Mae'n galw am ganfodiad penodol.

Syniaf yn gam neu'n gymwys, fod yn rhaid cyplysu hefyd y drefn (yn y sffêr fiolegol) byw/marw, o safbwynt teimlad a gwybod, o fewn cylchwaith cychwynnol *presennol/absennol*, ac ar drothwy'r holl Archgyfundrefnau Ffurfiol sy'n ymwneud â Deunydd. Ystyr bod yn Gristion yw bod yr ysbyrd yn bywhau ac yn bresennol, a'r cyswllt rhwng Duw a dyn yn dod yn ystyrion bresennol. Marw yw'r gwrthwyneb, sef absenoldeb

bywyd yn yr ysbryd: ni cheir yr un ymwybod effro o bresenoldeb perthynas Duw. Yr ydys heb ‘ddod i’r bywyd’. Dim ond tlodion yn yr ysbryd a ddaw i’r bywyd. Yn y cyferbyniad *Absennol/presennol* yr ymdeimlwn â gwreiddyn y cwestiwn o berthynas ac o gyf-un-drefn ei hun. Distrywiwyd perffeithrwydd cyswllt *Duw/dyn* yn anghrediniaeth y Cwyp. Dieithrwyd dyn yn sylfaenol, alltudiwyd ef, bwriwyd ef allan o wyddfod Duw. Gwnaethpwyd dyn yn absennol. Sefydlwyd anghred. A sbwyliwyd yr egwyddor o gyfundrefn normal a ‘greddfoll’, — y drefn gariadus ysbrydol. Felly y cydlynir yr holl Archgyfundrefnau wrth ei gilydd yn y cyd-absennol enfawr.

Mae’r ffurf feddyliol a gynrychiolir felly gan *absennol/presennol* yn un o’n sythweliadau cyferbyniol mwyaf cynnar a chyntefig. Fel y ddi i’r baban yn gynieithyddol, felly mewn iaith hefyd, y mae’r profiad yn dreiddgar. Mae ei gyfraniad i adeiladwaith deall, iaith, llên a diwinyddiaeth yn anfesurrol, am fod ei brofi yn ddigwyddiad mor ddwfn. Fe’i hadeiladwyd yng ngeirfa’r iaith ar ffurf rhagddodiadau megis *an-* a *di-*: cysur, anghysur; pryder, dibryder. Treiddiodd i strwythur gramadeg yn y rhagenw (e.e. person cyntaf/trydydd person) ac yn nhypau’r ferf (e.e. presennol/gorffennol). Ac yn y Wraiddgyfundrefn ddiwinyddol ei hun, oherwydd colli perthynas Duw yn y cwyp, yr oedd anghredu’r Absoliwt, hyd yn oed os nad oedd yn bosibl hepgor ei ddylanwad na’i reolaeth berthynol, wedi effeithio ar ddibynolrwydd bywyd ac ar yr ymagweddu at Wirionedd a phob dim arall byth wedyn. Mae’r dyn naturiol o’r herwydd yn amddifad.

Hongiwyd y gyfundrefn sythweliadol hon, felly, fel holl brif gyfundrefnau gramadeg iaith, ar fachau delwedd egwyddorol gynieithyddol o’r math hwn.

Fe’i ceir drachefn yn ramadegol yn y cyferbyniad cystrawennol *cadarnhaol/negyddol*: Mae Duw yma/Dyw Duw ddim yma. Gwahanu, alltudio, dyna fu’i dynged i Adda, megis i R. S. Thomas. Ac erys y drefn honno o hyd gan ddarparu cyfundrefn ddefnyddiol seml yn fynych mewn iaith a llên: *Comedi/Trasiedi* (Comedi yn ystyr Dante), *Caffael/Colli*.

Mewn llenyddiaeth, y mae cyfundrefn ‘safbwynt storïol’, a’i effaith emosiynol a deallol, hefyd, yn bwysig iawn o fewn y fframwaith hwn. Anifail pur wahanol yw’r stori berson-cyntaf ymrwymedig i’r stori fwy ‘gwrthrychol’ trydydd person. Mae presenoldeb mewn perthynas yn llywio’r holl berthynas syfrdanol o bersonol. Ac fe ymglywir â’i effaith ragenwol anferth gan Bantycelyn ar achlysuron fel hyn:

Presennol: *Iesu, difyrrwch fy enaid drud*
Yw edrych ar dy wedd...

Absennol: *Beth yw’r achos bod fy Arglwydd*

Hawddgar, grasol, yn pellhau?...

neu eto:

Presennol: *Ti dy Hunan yw fy Mhriod,
Ti dy Hunan yw fy Nuw...*

Absennol: *Rwy'n chwennyach gweld ei degwch Ef
Sy uwch popeth is y rhod...*

Hynny yw, dyma gyferbynnu'r ail berson a'r trydydd person rhagenwol. Mae'r dosbarthiad dirfodol hwn, y gellid ei estyn ymhellach o lawer, yn darparu profiad thematig a rhaniad profiad cynhenid yn isymwybod Pantycelyn. Eithr i fardd, y mae'r adeiladwaith ffurfiol hwn yn y meddwl mor ddirgel ddwfn nes bod llu o hyd yn oed ffurfiau seiniol yn dibynnu arno: aceniad mewn mydr, seibiau mewn brawddegau, rhyddiaith/prydyddiaeth, llafariad/cytsain, ac yn y blaen. Ceir elfennau o bresenoldeb/absenoldeb bob tro. Mae'r profiad dirfodol a bortreedir mewn alltudiaeth fywiol yn brofiad llenyddol o gryn bwysigrwydd mewn llenyddiaeth fodern (gw. *Yr Alltud*, A.T. Davies, 1944). Gair mawr i'r plentyn bach yw: 'paid'.

Tuedda materolwyr i synied nad oes angen 'esbonio' bodolaeth ymwybod. Gellid — yn un o'r neidiau esblygol niferus hwylus yna — hepgor ffynhonnell neu achos ffenomen 'hunaniaeth'. I Bantycelyn, yr oedd rhyfeddod Bodolaeth ei hun, cyn meddwl am ddim arall, yn ddeallol ac yn emosiynol wefreiddiol. Felly, bod heb Dduw, a bod Duw yno. Ond roedd yr Achos a'r Drefn yr un mor rhyfedd. Does dim syndod mai'r gair cyntaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist* oedd 'Deffrowch': yn y gyfundrefn hon, presenoldeb yr Achos oedd yr allwedd ffurfiol i fod yn effro iddi, ac i'w phrofi'n ddirweddol. Mae'n amlwg hefyd fod a wnelom â gorfodaeth feddyliol a chorfforol o'r radd eithaf, y daeth Pantycelyn yn ddwys ymwybodol ohoni. Rhan yw o adeiladwaith angenrheidiol mewn iaith a llenyddiaeth a diwinyddiaeth, am fod 'presenoldeb' dirfodol ei hun yn anhepgor i gredu pob profiad. Mae'n effeithio ar bwysigrwydd a dilysrwydd y synhwyrau. Pan ddaeth Crist yn bresenoldeb i Bantycelyn, chwyldröwyd ei fywyd. A phan ystyriwn yr Archgyfundrefnau eraill megis *Ffurf/Deunydd, Gweledig/Anweledig, Cynhaliaeth/ Dibyniant*, ceir o hyd fod *Absennol/Presennol* yn fath o Archgyfundrefn arweiniol glymedig iddynt. Gan mai dadansoddi neu roi trefn ar fywyd yw swydd gyntaf iaith, y mae'n amlwg fod y broses o gyfundrefnu hithau, sy'n anhepgor i'r meddwl, yn ymgysylltu'n adnabod â'r cyferbyniad trawmatig hwn a gymerwn mor ganiataol. *Gwybod/Adnabod*.

Cyfundrefn sythweliadol yw y clymir byd o ymwybod deallol wrthi; megis nid yn unig cyfundrefn personau'r rhagenw (mewn gofod), eithr hefyd dypau'r ferf (mewn amser): gorffennol, presennol, dyfodol.

Mae'r ymwybod trawmatig ac eithafol hwn *Presennol/Absennol* yn dod i'r amlwg ar ffurf *Anfod (pethau)/Bod* ar drothwy'r Greadigaeth: hyn yw hanfod sythweliad.

- GWWP I, 29 *I weld fy Iesu'n gosod seilfaenau'r byd i lawr,
I weld fel yr anadlodd y nefoedd wrth ddweud 'Bydd' ...*
- 32 *Wel trwot gwnaf y cwawl, pan dwedech, **felly bydd** ...*
- 33 *Trwy hynny dannu allan ei ras a'i ryfedd glod
I fydoedd ac i oesoedd sydd heb rifedi **i fod**.*

Ceir gan Bantycelyn ddisgrifiad o'r Creu yn gosod y cyferbyniad dechreuol:

- GWWP I, 33 *Mewn cwmwl fe farchogodd, y cerbyd tanllyd clir,
At wagle nad oedd eto na daear, môr na thir,
Ond t'wyllwch yn teyrnasu, a thywyll nos erio'd,
Heb unrhyw beth o sylwedd oll wedi cael ei fod.*

Treiddgar a gogleisiol wrth fyfyrion am y negyddiaeth neu'r absenoldeb yw'r pennawd a ddyry Pantycelyn ar frig Rhan y Bumed o'r Chweched Bennod (sef yr olaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist*), sef 'Crist yn bob peth yn y mwynhad o bob peth, ac yn y diffyg o bob peth'. Mae Penarglwyddiaeth Crist yn y diffyg ac yn y presenoldeb. Oherwydd sentimentalïaeth tueddiadau dirywiol a dyneiddiol yr ugeinfed Ganrif, bu tipyn o gefnu ar y wedd negyddol geryddol ar Gristnogaeth gan ryddfrydwyr. Dyw pawb ddim yn dymuno cydnabod Barn. Mater o ansawdd argyhoeddiad o bechod yw hyn. Efallai o'r herwydd, fod darganfod y fath sylweddoliad yn peri i Williams ymddangos yn gryfach neu'n fwy mentrus chwyldroadol ei feddwl nag ydoedd. Ond cadwyd y cydbwysedd realistig rhwng y cadarnhaol a'r negyddol yn weddol union tan ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny oherwydd ymwybod presennol/absennol. Ac *Anfod/Bod* yw un o broblemau bythol Esblygwyr heddiw.

Drachefn, wrth drafod mwynhad, y mae Pantycelyn, fel y gellid ei ddisgwyl, yn mynd i bwl y pwnc:

- GWWP I, 171 *Ac edrych arno'n wastad yn fwy godidog sy
Na dim ag mae e'n rhoddi o'r ddaer i'r nefoedd fry,
Ei hun yn fwy na'i roddion, fy holl hapusrwydd mae
Yn cynnwys ym mhob cyflwr yn wastad i'w fwynhau.*

Ynglŷn â'r diffyg mwynhad, yr haerïad a wna Pantycelyn yw bod pob tristwch colli dyweder o ganlyniad i gondemniad y Gyfraith, yn medru ymarweddu yn llawenydd oherwydd y cyswllt presennol â Christ. Gweddnewidia ei bresenoldeb hyd yn oed fuddugoliaeth y farn, er y tosturi eithaf a gynigir ymlaen llaw.

Beth, felly, yw arwyddocâd ysbrydol y cyferbyniad hwn i Gristion (fel i'r Pantycelyn y dihunwyd ei ysbryd)?

Cyn i'w ysbryd ef glywed 'Deffrowch', ni bu ganddo brofiad byw o bresenoldeb yr Absoliwt. Gallai synied fod Duw'n bodoli, wrth gwrs, oherwydd *sensus divinitatis* rhyngwladol. Gallai fod yn bosibl ddigon, yn ddamcaniaethol fodlon. Dyna'r arferiad meddwl, neu'r Metanaratif yn ei ardal yn y gorffennol. Ond profi Ei bresenoldeb, nid gwybod amdano — peidio â chael ei ddiethrio — dyna fu graidd cyntaf y bywyd newydd iddo. Perthynai'n bersonol bellach. Dyna syfrdandod croyw, dirfodol bresennol. Nid oedd dim tebyg wedi digwydd iddo erioed o'r blaen. Agorodd y sianel yn union i fyny yr holl ffordd at yr Absoliwt. Yr oedd felly yn cael modd i newid ei holl agwedd ganolog at fywyd. Daeth presenoldeb y Penarglwydd a Gwardwr golau yn ddirweddol i'w fuchedd, a gweddnewid ei strwythur ymagweddol. Lle y buasai Pantycelyn yn 'naturiol', gwyddai bellach mai goruwchnaturiol oedd hefyd. Roedd presenoldeb yn gwneud perthynas yn bosibl.

GWP II, 361

Wel, Iesu, yw fy Nhŵr, [Wel=Gwêl]
A'i angeu yw fy ngrym,
Ac hebdo, dall a chloff,
A thlawd heb feddu dim;
Am hyn ei hedd, a'i ddwyfol glwy',
A'i gariad, fydd fy nghân i mwy.

Sythwelediad yw 'Wel'. Dyry iddo ei gymhelliad paradocsaid i ganu. Roedd yr un a fu'n absennol bellach yno. Dyma'r chwyldro a fywhaodd gyferbyniad isymwybodol yn ei feddwl:

170

Wel dacw'r Brenin mawr yn d'od, [Wel dacw= Weli di acw]
Mewn rhwysg na welodd neb erioed;
Mae angeu, uffern fawr, a'r bedd,
Yn ofni edrych ar ei wedd.

Llanwyd y bwlch. Mae'r adeiladwaith newydd o fywyd yn cael sail amlwg mwyach yn realiti presenoldeb yr Absoliwt personol. Ac o'r herwydd cymhwysir arwyddocâd pob dim. Coed Duw yw'r coed hyn o'i ddeutu bellach. Haul Duw sy'n codi yn y bore. Gwerthoedd Duw sy'n rheoli'i foesau a graddau pwysigrwydd pob dim.

Gellid dadlau: 'O ie, ond Pantycelyn oedd hwnnw. Dyw hyn ddim yn arwyddocaol i lenor seciwlar cyfoes.' Choeliwch chi byth. Bid siŵr, nid yw doniau cynhenid, medr ieithyddol, dychymyg, deallusrwydd, ac yn y blaen y Cristion ddim yn rhagorach na'r seciwlar o raid. A'r un mor bwysig yw absenoldeb Absoliwt ymwybodol â'r presenoldeb seciwlar i'r golwg cynhwysol ar fywyd: ceir yn ei ragdyb wacter absoliwt isymwybodol. Ond yn ddarwybod, megis y gweithia pob sythwelediad dwfn, y mae golwg hanfodol y seciwlar at fywyd wedi'i amodi'n naturiol, ei wybod neu beidio, gan ragdyb. Fe'i cyflyrir yn hanfod ei ymennydd. Mae fel pe bai heb ddimensiwn yno i wybodaeth am y realiti ysbrydol hwn. Eto

mae marw neu absenoldeb yn gallu bod yn fyw o effeithiol ac absoliwt iddo. Gall fod yn rhagorol-olau oherwydd dylanwadau'r amgylchfyd a doniau Gras Cyffredin, hyd yn oed os nad yw'n meddu ar yr allwedd i lawnder y gwastad dwyfol. Neu gall aros yng nghors damweiniau ac absenoldeb prif brofiadau bywyd. Beth bynnag, ni all ddianc rhag rhagdyb. A gŵyr y storïwr seciwlar yntau yn burion am wahaniaethau sy'n fwy nag arddullegol wrth ddefnyddio 'safbwynt' storïol person cyntaf neu drydydd person (a hyd yn oed yr ail).

Gŵyr y beirniad-ddarllenydd hefyd am nerth 'presenoldeb' yn y delweddau a ddarllena. Cyfranna'r cyfuniad *Absennol/Presennol* at gynhyrsgaeth droadol.

Gwyddai Pantycelyn y profiad heriol bellach o agor y ffenestri — a'r drysau i ddiriaethu ac i fod yng ngŵydd rhywun.

GWP II, 175 *Mae pyrth y nef o led y pen,*
 Mi welaf fôr o waed,
 Y gallaf fi'r ffeiddiaf ddyn
 Yn hollol gael iachad.

Yr hyn wyf yn ei ddadlau yw bod *presenoldeb/absenoldeb* yn fwy yn y bôn na gweledigaeth a datguddiad profiadol personol, sy'n ymwneud ag un athrawiaeth ddiwinyddol. Mae'n fwy wrth gwrs na syniad. Strwythur bywydol yw. Oherwydd ei fod yn sylweddoliad byw a dirfodol a gorfforwyd yn ddwfn yng nghyfundrefn yr ymennydd cyffredin a'r serchiadau, fe'i gwnaethpwyd yn rhan o'r deall a'r iaith a'r trefniant o fydolwg llenyddiaeth. Mae'n sythwelediadol adeileddol yng ngwneuthuriad bywyd ysbrydol drwyddo draw ym mryd Pantycelyn, fel gyda phob Cristion tlawd, yn gymaint felly fel y byddai holl Sfferau ystyr yn cael eu goleddfu ganddo. Fe'i cyd-deimlir mewn synwyrusrwydd byw. Mae'n strwythur meddyliol a theimladol yn y galon. Mae'n ymostyngiad syfrdan.

A chymer y gyfundrefn hon ei lle gyda'r Archgyfundrefnau deall eraill.

Dyma gyfundrefn agweddol felly a weddnewidia yn wrthrychol arwyddocâd pob profiad arall mewn bywyd, boed i'r sawl sy'n effro iddi neu'n ddifater. Diddorol a phwysig yn y cyd-destun hwn yw'r diffiniad o'r 'byd' (bydol) a roddodd D. M. Lloyd-Jones un tro wrth bregethu ar Efengyl Ioan: 'bywyd heb Dduw'. Rwy'n siŵr pe rhoddai ef y peth yn nhermau llawn *Duw/Diafol* yr ychwanegai'n fodlon nad absenoldeb yn unig yw 'pechod', ond grym presennol: llenwir y gwacter gan Frenin Gwacter (*Ioan* 14, 30, oherwydd y mae Tywysog y byd hwn yn dod). Ac mae'r gosb, neu ganlyniad uniongyrchol *absenoldeb Duw* mewn pechod, yn awgrymu alltudiaeth dyn o Eden: dyna glwyf aruthr i Bresenoldeb. Dyna lenwi'r 'bwllch' a adawodd Duw Sartre. Gall absenoldeb fod yn weithredol ymosodol.

Dyma hefyd rym absenoldeb mewn cyfundrefn lle y mae presenoldeb yr Absoliwt yn llywio pob gwerth, trefn, a diben. Byddwn i fy hun yn ddigon bodlon ar y diffiniad o

lenyddiaeth fel ‘Mawl (a ffrwytho) yng nghyd-destun Pechod’. Ond o ran strwythur, yr hyn a wna’r llenor seciwlar yw dirprwyo ‘awdurdod’ arall yn y twll o siâp Duw: sef goddrych neu syniad neu brofiad goddrychol. Mae hyn, o’i ddehongli’n gywir ar waith yn wastad, lle bynnag y bo llynyddiaeth yn blodeuo’n llawn. Bu’r argyhoeddiad hwn a’r ymwybod tyfiannol aeddfed hwn o ‘Bechod’ a phresenoldeb diriaethol pechod yn un o’r ffactorau mwyaf cyfoethog a dwfn a ddatblygwyd gan lenyddiaeth ryngwladol erioed. Dyma un o gyfraniadau pwysicaf llynyddiaeth i’r deall dynol. Mae rhai enwau’n llamu i’r meddwl — *Aeneid* Fyrsil, Dante, Villon, Siôn Cent, Shakespeare, Corneille, Racine, Donne, Milton, *Faust* Goethe, Dostoiefsci, Hopkins, a Saunders Lewis — rhai a drawsffurfiwyd yn llenorion mawr gan yr union fater hwn: yr ymwybod o bresenoldeb ac absenoldeb ysbrydol, grymsterau ar gerdded o’r tu hwnt i’r naturiol, yn negyddol ac yn gadarnhaol. Ac mae’r peth yn amlwg odiaeth yng ngwaith Pantycelyn. Mae hyn yn fwy na realaeth synhwyrus — er bod hynny’n wir: mae’n sylweddoliad o her a chymhlethrydd a symlrwydd bywyd a marwolaeth.

Un o’r dysgeidiaethau allweddol y down ar ei thraws wrth ddarllen *Golwg ar Deyrnas Crist* yw ‘bodolaeth Bodolaeth’: cam cyntaf creadigaeth *ex nihilo* (gw. M I, 159-160) yw’r gorchymyn ‘bydded’. Hynny yw, bydded presenoldeb. Ar ryw olwg, cawn y cyferbyniad yn *dim/peth*. Dyna ystyr rhyfelgri *Golwg ar Deyrnas Crist* — ‘mae popeth yng Nghrist’. Amlygwyd presenoldeb. Dechreuodd Duw ar waith yr Arfaeth — allan o ddim... ond Efô Ei hun a oedd yno. Bydded trefn felly. O’r ‘boed’ i’r ‘defnyddiau trefnus’:

- GWWP I, 33 *Heb unrhyw beth o sylwedd oll wedi cael ei fod*
- 34 *Ar fin y gwagle yna, fel un ar genfor draeth...*
- Ac yno fe agorodd ei enau sanctaidd, pur,*
 ’Be fe, ‘Boed y defnyddiau i grëu môr a thir...
- I’w le y trefnodd, ac felly rhoddodd fod*
 O ddyfnder maith ei allu i’r cyfan sydd erio’ d
- 42 *Beth sydd amhosib’, Arglwydd, i’th anghydmorol rym*
 Pan creaiast fydoedd mawrion fel hyn i gyd o ddim?

Nid yn unig yr oedd y cyferbyniad *Absenoldeb/Presenoldeb* yn sylfaen isymwybodol i Bantycelyn, ac yn deimladol. Mewn rhai o brif gyfundrefnau’r iaith ac yn ei ymwybod o’r Crist byw, yr oedd hefyd fel cyferbyniad gwrthrychol strwythurol yn dreiddgar drwy fodolaeth ac i bob bodolaeth, yn gyd-destun diriaethol. Dyma wawr ymwybod, a hunaniaeth.

Yn ramadegol, wrth gwrs, i Bantycelyn, buasai emynydda’n bur amddifad heb y ‘Nid...’ a ‘Na’...’ Modd oedd iddo ddirnad, a chanfod gwahaniaethau. Mae ambell emyn, megis GWP II, 326, wedi’i sylfaenu ar negydd:

*Nid newid lle, neu amser maith,
Na chroesau, dig na chystudd chwaith...Nis..Nis..Nis..Na..Na..
Nis..Heb....*

Hynny yw, modd absoliwt i ddiffinio yw negydd, neu ddatgan absenoldeb; ac un o reidiau meddwl, efengylu, a moeseg, yw'r gosodiad: 'hyn...ac nid hyn,' 'nid...ond': mae'n arbed dyn rhag eistedd ar ffens eciwmenaidd neu relatif. Mae'r negyddiad ffurfiol gwrthddywedol yn gallu tanio diolch am y cadarnhaol.

GWP II, 382 *Nid oes,
Ni fu, ni ddaw, mewn unrhyw oes,
O gymaint gwerth a gwaed y groes...*

Modd yw 'nid' i gydnabod yr Absennol drwy arwyddo rhwystr; a sylweddoliad gwerthfawr yw mewn byd syrthiedig. Hepgor y negydd hwn, a cheisio ymgynhesu at y cadarnhaol hebddi, fu rhan o sentimentalïaeth y dirywiad 'dyngarol': mewn cynnwys crefyddol yn yr ugeinfed ganrif.

Ar y llaw arall, hawdd, fel gwelai Pantycelyn, oedd cymysgu'r crëedig â'r syrthiedig (yn y gair 'byd' er enghraifft), neu'n hytrach fychanu'r Greadigaeth oherwydd angenrheidrwydd Cadwedigaeth. Mor rhwydd yw disodli Gwir Sylwedd gan y ffug:

GWP II, 340 *Nid oes dim o dan yr wybr
A wna i mi ronyn lles;
Un difyrwch nac un pleser,
Ynte yn mhell, neu ynte yn nes.*

Gall y 'nid', wrth gwrs, o'i defnyddio gyda gormod o frwdfrydedd cibddall dogmatig arwain at isbrisio un wedd fawr ar realiti'r Greadigaeth. Wrth raddio blaenoriaethau, a mynd â'r negydd yn rhy bell, gall pietistiaeth dyfu ac amddifadu'r Cristion ei hun o fendithion godidog Gras Cyffredinol. Mae Gras Cyffredinol mewn gwirionedd yn cyflwyno'r Archgyfundrefn hon i bawb. Mae presenoldeb y dimensiwn hwn yn hollgynhwysol hyd yn oed i'r marw ei ysbryd. Dyna sy'n cyfrif am yr hiraeth am fywyd go iawn.

Wrth geisio esbonio'r gwahaniaeth pwysig rhwng *gweledig/anweledig* a *presennol/absennol*, sylwer bod yr ail yn y pâr cyntaf yn cydnabod 'bodolaeth' a allai fod yn effeithiol. Er enghraifft, yr wyf yn siarad â rhywun, ac yn dweud wrtho, 'rych chi'n bresennol, ond mae gynnoch chi ramadeg yn eich pen sy'n anweledig yn bresennol. Mae disgyrchiant yn anweledig — a phob deddf arall — ond maen nhw'n real iawn, ac yma.' Ac mae rhywun gonest yn cydnabod realedd yr anweledig. Ond os dwedwn fod disgyrchiant yn absennol, sôn yr ym am sefyllfa lawer mwy eithafol, a sylfaenol wahanol. Nid gwadu'i fodolaeth, ond gwadu'i fodolaeth effeithiol 'i mi'.

Felly, dyma yn isymwybodol gyferbyniad dramatig a pharhaol drwyddo draw wrth symud oddi wrth ymwybod â phenarglwyddiaeth yr Absoliwt tuag at un o gyfundrefnau mwyaf diriaethol ei farddoniaeth benbwygilydd. Absenoldeb (Barn) Gwaredigaeth (Crist). Er mwyn gosod arbenigrwydd Williams mewn cyd-destun perthnasol i ni heddiw, diddorol fyddai'i gyferbynnu ef yn betrus ar yr union fater hwn (ac yntau'n 'offeiriad' nas ordeiniwyd, ac yn fardd cynhyrchiol o'r ddeunawfed ganrif), â bardd 'offeiriad' cynhyrchiol arall, un cyfoes trist gan mwyaf, a ordeiniwyd yn yr ugeinfed ganrif. Dathlu can mlynedd o Amau fel fframwaith sefydlog i'r meddwl ffasiynol a wnâi R. S. Thomas mewn cryn dipyn o'i waith crefyddol. Gwrthryfela a wnâi Williams drwy gyfundrefneg yn erbyn can mlynedd o fawrygu'r pum synnwyr a rheswm amddifad yn yr Ymoleuo. Yn lle presenoldeb ymwybod â Duw, yr hyn a wnâi Thomas yntau yn yr ugeinfed ganrif oedd dathlu ei absenoldeb:

*I never thought other than
That God is that great absence
In our lives, ('Via Negativa', cf. 'Directions', 'Senior')*

'Neb' oedd R. S. ei hun, yn ei hunan-gofiant, ac yn byw mewn gwlad absennol. Gweddïai ar Dduw Absennol.

Gan nad yw Natur yn aruthr hoff o wactod, y duedd fel y gwelsom yw llenwi'r gwactod hwnnw â meddyliau dyn:

*Godhead
is the colonisation by mind
of untenanted space. ('Night Sky')*

Dyna a wnâi meddwl R.S. Thomas, sef twtio'r gwagle a adaw-wyd gan 'absenoldeb' Duw â'i syniadau 'dwyfol' ei hun:

*Never known as anything
but an absence, I dare not name him
as god, yet the adjustments
are made. ('Adjustments')*

Mae'r ymadrodd olaf yna yn cynnwys yr holl chwarae a gafwyd gan yr Ego Trosgynnol ym mhwlpudau'r ugeinfed ganrif. Dyma hunanfodlonrwydd y mewnddrychol, ac efallai ychydig o hiwmor prudd am y sefyllfa. Dyma hefyd hiraeth R.S. Thomas am fod yn Ann Griffiths. Yn farddonol dyma hefyd y gyfundrefn yn troi'n angerdd iddi hi, ac iddo ef.

Mewn cerdd arall sonia am —

*the emptiness where God
should have been ('Perhaps')*

Mewn un o'i ganeuon melysaf ar y pwnc, 'Gift', mae ansoddair y llinell olaf yn dadlennu'r un gwacter, 'sourceless light'.

Cawsom, wrth gwrs, yn yr un ganrif honno ganlyniadau go ddifrifol wrth anwybyddu cysgredigrwydd yr Absoliwt mewn ambell le fel Auschwitz a Hiroshima, mewn ysgariadau ac erthyliadau:

*'There is no meaning to life
unless men can be found to reject
love.'* ('Amen' cf. 'Cadenze', 'Echoes', 'Reply', 'Soliloquy').

'Anghredadun' hoffus, didwyll ingol yng ngholer offeiriad oedd ymddangosiad R.S Thomas i mi, nid peth anghyffredin yng Nghymru'r ugeinfed ganrif. Ei gamp fu mynegi, yn well na neb arall yn Saesneg, y teimladau confensiynol gonest ar y pryd am Dduw ymhlith Rhyddfrydwyr Diwinyddol. Lleisio'r agwedd sylfaenol gyffredin a wnâi ef mewn geiriau ffres a berswadiad ddyinion ei fod yn cyflwyno syniadau newydd, sioclyd hyd yn oed. Ond mynegi'r farn arferol yn groyw yr oedd ef. Ar ryw olwg crefyddwr y Sefydliad oedd. Nid Anfod a ddathlai, ond diffyg perthynas. Roedd ganddo *sensus divinitatis*, eithr heb ei ddilyn ond odid.

Drwy *sensus divinitatis*, gallai R. S. ambell dro synhwyro awyrgylch Bod. Dyna'r pryd y clywir rhai o'i ganeuon aeddfetaf. Dyna bresenoldeb 'ymdeimlad' o fodolaeth, lle y ceir yn gyferbyniol bresenoldeb 'mabwysiad perthynas' gan Williams. Dyma'r hyn a alwn yn 'wybod' archolledig, o'i gyferbynnu ag adnabyddiaeth. Credai yn Nuw, ond ddi Hwn ato ar ddelwedd Absenoldeb. Y twll yn siâp Duw.

Cwbl groes oedd ymagwedd Williams. Cafodd ef y sac na feiddiodd neb yn yr Eglwys ddiweddar ei roi i Thomas. Credai Pantycelyn ormod: 'an excess of orthodoxy,' meddai Dr Glyn Tegai Hughes. Ond fel y Beibl, ni wnâi emynau Williams ymdroi gyda 'bodolaeth' yn unig. Ni ellir 'profi' hwnnw heb ragdyb neu ddatguddiad uwch. Cafodd Williams ragosodiad i'w ymateb i Dduw mewn ymweliad ysbrydol datguddiol arbennig. Yr hyn a welodd, fe'i cydnabu oherwydd gwaith yr Ysbryd. Nid presenoldeb Duw yn unig, ond perthyn a oedd yn cyfrif. Yr hyn sy'n rhwystr i gredu yw marwolaeth, bob amser. Hynny yw, marwolaeth ysbrydol. A rhagdybiai'r Williams darostyngedig fywyd, gan symud ymlaen i'w fawrygu heb ymdroi gyda diogelwch *hunangysurlon* ansicrwydd dogmatig a bodolaeth noeth. Profodd ef y gallai ddibynnu ar hyn: hynny yw, ei gredu. Hyn a ragflaenai ymdroi gydag Absenoldeb, ac a ddodrefnai hynny. Symudodd Williams ymlaen felly o 'fod Duw' i 'berthynas â Duw.' A thestun erledigaeth oedd pobl y presenoldeb gan yr absenolwyr.

Mewn gwirionedd, yn hanes y baban bach fel yn hanes Adda, y mae ac yr oedd Presenoldeb yn rhagflaenu Absenoldeb. Ni byddai neb yn *profi* Absenoldeb oni bai iddynt yn gyntaf brofi Presenoldeb o ryw fath. Presenoldeb y fam am y groth oedd profiad cyntaf y

baban, a sgrechai'i hochr hi pe'i collai. Tybed onid *sensus divinitatis* yw'r presenoldeb digonol i'r galon hydeiml brofi wedyn ymylon yr Absenoldeb mawr? Wedi cael Presenoldeb Duw, y mae Pantycelyn yntau yn arddel athrawiaeth glasurol 'Parhad mewn Gras' (Ffil.1:6; Ioan 6:35,39,40: gw. 'Theological themes in the English works of Williams Pantycelyn', Traethawd M.Th, Stephen Turner, Aberystwyth, 1982), peth a fuasai'n dân ar groen Gwrthgalfinydd fel R.S. Thomas.

*Rwyf yn disgwyl, yn ddihangol
Hyfryd gyraedd pen fy nhaith.*

Fframwaith amgen a gafodd Williams mewn cyfarchiad i *bresennol* parhaol:

Rwy'n dy garu, fy anwyl Dduw... (Y Môr o Wydr)

Rwy'n dy garu, er nas gwelais... (Ffarwel Weledig)

Rwy'n dy garu, ti a'i gwyddost... (Ffarwel Weledig)

Rwy'n dy garu, addfwyn Iesu... (Ffarwel Weledig)

Dyma wybodaeth ymarferol Williams a ddarparai Gyfundrefneg baradocsaidd ddechreuol Cristnogaeth. Pan geisiai un athronydd cyfoes gefnogi safbwyntiau ffasiynol R.S. Thomas, ei hoffter greddfoll fu lladd ar Gyfundrefneg; ond i Bantycelyn, yr oedd pob dim yn bodoli o fewn Cyfundrefneg neu Arfaeth, ac yn anad unlle yn y sicrwydd cyfundrefnol *Presennol/Absennol*. Felly y gwelai Williams y pwynt: Cariad oedd y Drefn. Roedd bywyd hefyd yn y Drefn: Cyfundrefneg a ganiataodd fywyd. Roedd presenoldeb i fod felly. Dyna'r efengyl. Sylwer nad Anfod oedd Absenoldeb. Roedd Duw yno; yr oedd yno am wn i hyd yn oed i R.S.. Ond yno yr oedd, nid yma. Yr oedd yr holl Archgyfundrefnau yn bresenoldeb bythol. A hiraethai Pantycelyn am Uniongredded o'r herwydd; ni allai gael digon ohono.

Roedd ar Thomas bid siŵr hiraeth am nas cafodd, fel y prawf ei gerddi 'Ann Griffith', 'The Kingdom', 'The Message', 'Raptor', 'Alive', 'The Moor', 'The County Clergy', 'The Belfry', ac eraill: mae yna leiafrif sylweddol o gerddi annisgwyl o'r fath ganddo sy'n tarfu ar ddelwedd sicrwydd yr Amau, lle y mae'r amheuaeth ddwyfol a geir gan ei *Sensus Divinitatis* yn ceisio trechu'r Cwmp. Gallai hyn roi argraff gref o sentimentalïaeth felly gan mor annodweddiadol yw, er nad dyna oedd. Hiraeth tost fu ganddo am fod yn Bantycelyn, ac am berthynas â'r Dim. Sylweddoli dirfodaeth y gyfundrefn *Presennol/Absenoldeb* oedd cam cyntaf Pantycelyn wrth adeiladu fframwaith canolog a chariadus ei feddwl am fywyd. Wedyn, ceid y cwlwm:

GWWP I, 198

*Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb,
Sicr, cadarn, mawr ei rym;
Na's gall miliwn o flynyddau
Ei dori, neu ei ddadrys ddim;*

*Gwna, fe bery, &c.,
Tra parhao'm Duw mewn bod.*

Perthynas o fath yw presenoldeb. A chiliodd y wybodaeth am hyn gyda thwf gormesol Seciwlariaeth. Daeth presenoldeb Duw yn ffasiynol waharddedig i ddeallusion yn yr ugeinfed ganrif, ac yn sarhad gan seciwlaryr. Chwithig oedd na ddeallent ing pechu'n erbyn Duw personol na gorohian maddeuant. Nid derbyniol i ambell feirniad fod profiad mor ymyrrol syfrdanol yn bwysig yn holl hanes llenyddiaeth ryngwladol. A gŵyr pawb yn dda, os gwaherddir rhywbeth fel hyn yn Saesneg (yn Lloegr), sut y dylid ymddwyn yng Nghymru.

Y BUMED ARCHGYFUNDREFN: DEUNYDD/FFURF

CYNRYCHIOLI

Dyma gyfundrefn arall, y mae'n amlwg, a oedd yn bresennol pryd bynnag yr esgorai Pantycelyn ar iaith a llenyddiaeth. Ni allai osgoi na Deunydd na Ffurf. Gwyddai am y gwahaniaeth rhyngddynt, heb wybod am wahanfa. Mewn cyfrol am Ddeunydd, ni ellir osgoi'r gyfundrefn hon.

A dyma, yn wir, un ffordd o ddisgrifio'r holl gyfrol hon ar ei hyd. Astudiaeth ydyw o fodolaeth a pherthynas gydlynol Deunydd â Ffurf mewn gweithiau llenyddol. Mae'n ceisio esbonio bid siŵr beth yw Deunydd a Ffurf fel cysyniadau ar wahân. Ond hefyd yr un pryd, y mae'n ceisio egluro'u perthynas annatod olynol. Dengys sut y mae Trefn gynieithyddol yn gallu cyflyru, amodi, a llunio Deunydd iaith, a sut y mae Trefn gynieithyddol yn toddi o fewn Deunydd gan ei strwythuro a'i diffinio. A hynny cyn i'r amlwg ddigwydd, hynny yw, cyn i Ddeunydd gyflyru Ffurf ieithyddol/lenyddol mewn Mynegiant. Esbonia sut y mae'r naill yn gwbl anhepgor angenrheidiol i'r llall mewn Deall. Dyma gyfundrefn ddeuol anochel sy'n hollbresennol unol yn y meicrocosm megis yn y macrocosm.

Fe'i cafwyd yn y Creu pan gydluniwyd Trefn a Deunydd gyda'i gilydd. Nid darganfod y Greadigaeth a wnaeth Pantycelyn: fe'i datguddiwyd iddo. Nid oes yr un Deunydd heb Ffurf, na'r un Ffurf yn y Greadigaeth heb ei Deunydd, boed yn faterol neu'n ysbrydol. I Bantycelyn, daeth Ffurf yr Archgyfundrefnau'n Ddeunydd i'w fyfyrdod. Arfaeth mewn Defnyddiau.

O safbwynt plentyn, ac o safbwynt isymwybod yr oedolyn, mae cysylltu Deunydd â'r arwydd seiniol ffurfiol, dyweder ystyr â sŵn ffurfiol, yn rhywbeth sydyn sy'n elfennol iawn, ond pwysig hefyd. Syml iawn ydyw. Eto'r un pryd gall yr esboniad o'r hyn sy'n digwydd ymddangos yn gymhleth ddigon. Hynny yw, mae'r asiad rhwng Deunydd a Ffurf yn digwydd heb sylwi, ond y mae ceisio egluro'u perthynas yn golygu hefyd hen broses weithredol yn y myfyrdod, sy'n sylfaenol gynieithyddol. Drwy arwydd, daw Ffurf i gynrychioli Deunydd.

O'r gell leiaf hyd y bydysawd oll, yr ydym yn gyfarwydd â Deunyddiau, a Ffurf ar y Deunyddiau. Ond y mae ystyried pa un sy'n arwain y llall yn mynnu ymwybod cynhenid yn ein hymateb i brofiad. Cymharer Deunydd a Ffurf mewn iaith, er enghraifft.

Sonia Guillaume am y symudiad ieithyddol mawr o Ideogenesis i Forffogenesis, o'r cynnwys i'r strwythur, ac o'r lecsem i'r rhan ymadrodd (gw. *Language in the Mind*, W. Hirtle, McGill – Queen's University Press, 2007). Beth yw pethau o'r fath?

Bid siŵr, fe all yr efrydydd amatur o lenyddiaeth neu o ddiwinyddiaeth ddweud wrthym — 'Peidiwch a sôn am Ddeunydd a Ffurf. Os yw pethau felly'n bod o gwbl, yr ydym yn gallu'u cymryd yn ganiataol. Dichon eu bod yno, dichon i academydd eu bod yn

ddiddorol; ond yn ymarferol, roedd Pantycelyn yn bwrw ati heb hidio dim oll am broblemau cudd felly.'

Wel, yr oeddent yn bod iddo ef. Cyfundrefn isymwybodol anochel yn y meddwl oedd *Deunydd/Ffurf* mewn llenyddiaeth ac mewn diwinyddiaeth, fel y lleill a drafodwn yn yr ymdriniaeth hon ag Archgyfundrefnau: gweledig/anweledig; presennol/absennol a.y.b. — materion y rhoddai Pantycelyn sylw iddynt, er ei waethaf, a materion sy'n adeiladu'r iaith a'r meddwl dynol, yn anochel o'r golwg, yn gudd; a gallwn yn ddiau fynd ymlaen yn hapus heb wybod amdanynt. Gallwn: 'heb *wybod* amdanynt,' ond ellwch chi ddim bwrw ymlaen *hebddynt*. Yr un modd â 'disgyrchiant' ac 'H₂O' a '3 x 3 = 9'. Fe all y plentyn bach ymdopi heb wybod amdanynt, ond y maent yn hanfodol iddo. Ond nid plentyn oedd Pantycelyn, ac iddo ef caed Ffurf gynieithyddol yn ogystal â Deunydd a Ffurf lenyddol. Caed Duw a oedd yn Dduw Ffurf yn ogystal â Deunydd. Caed Trefn yn ogystal â Phethau yn fater i'w sylweddoli'n fyw, fel y ceisir ei ddadlau ar hyd yr adran hon ar Archgyfundrefnau.

Canlyniad yr ymchwil am drefn isymwybodol mewn dadansoddiad o'r bydysawd, ar gyfer cyfathrebu, yw'r Archgyfundrefn *Deunydd/Ffurf*. Ar ryw olwg, dyna yw pob cyfundrefn ddaearol. Mae'r Deunydd yn ceisio cysondeb rheolaidd a chydlyniad â'r gweddill o'r iaith, yn arbennig o ran swyddogaeth. Ac felly'r Ffurf, er mewn modd gwahanol. Cyn bod Deunydd, fe gaed Trefn Gynieithyddol. Ond, er mwyn mynegi Deunydd, mae'n mabwysiadu Ffurf. Pan ganfu Pantycelyn Fodolaeth, fe ganfu Berthynas.

*

*

*

Gwell imi enghreifftio beth sydd gennyf mewn golwg. Trown yn enghreifftiol at faes 'llenddull' (genre). Yr hyn yr wyf am gyffwrdd ag ef yn awr yw'r cysylltiad rhwng stori a thelyneg, o ran ffurf a deunydd. Wrth drafod gwaith Williams yn yr astudiaeth hon, yr wyf wedi ymglyfyngu fel arfer i'w brif weithiau, sef yr emynau (neu delynegion) a'r ddwy arwrgerdd (stori), sef *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*. Yr wyf yn awr am ddychwelyd i'm hymdriniaethau ar natur ffurfiol gyferbyniol y ddau 'lenfath' yn *Tafod y Llenor* a *Seiliau Beirniadaeth*, sef y Delyneg (Grefyddol) TyLl 159-234 a'r Stori neu'r Adroddiant Storiol (Arwrgerdd) SB 434-454, 471-525. Ceisiais yn y manau hynny gysylltu'r Delyneg Grefyddol yn ganolog â phrofiad y person cyntaf yng ngŵydd y gwrthrych. Cyferbyniais hynny â'r Adroddiant Storiol sy'n sylfaenol 'bell' oddi wrth y gwrthrych mewn trydydd person cynddelwaidd yn gynhenid. Dyna un wedd ar eu Ffurfiâu cyferbyniol. Ceir math o ddigwyddiad wrth gwrs yn y naill a'r llall. Ond yn y naill, canolir ar y berthynas a'r profiad cymharol sydyn (neu gyfres gynnill felly). Ac y mae undod yr adroddiant storiol ar y llaw arall fel pe bai'n fwy estynedig, gyda 'chymeriad' a 'digwyddiadaeth' fwy ymwybodol

(enw a berf). Eto, gellir cyfuno ffurfiau'r delyneg a'r stori, mewn emynau neu mewn epigau, a defnyddio'r naill yn y llall. Taith yw Buchedd Theomemphus, megis Chwedl Peredur, ond gyda rhwystrau a brwydrau mwy modern a meddyliol, dadleuon syniadol a pheryglon seicolegol, a thelynegion dathliadol o bryd i'w gilydd ar hyd y daith.

Stori yw'r ddwy arwrgerdd, *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus* lle y mae'r naill stori a'r llall bob hyn a hyn yn ffrwydro'n ganeuon. Yn y ddwy arwrgerdd, megis yn yr emynau, y mae'r Deunydd (yr hanes storïol neu'r profiad personol teimladol ar y pryd) yn cael ei adlewyrchu yn y Ffurf, mewn gofod ac mewn amser. Mae'r emynau ar y naill law yn ymwneud yn gyntaf â'r berthynas fertigol o brofiad dyn o flaen Duw; a *Golwg ar Deyrnas Crist* ar y llaw arall yn dilyn echel lorwedd yr Arfaeth. 'Fi' yw un o'r arwyr yn fynych, ac y mae'r 'fi' yna'n perthyn ac yn gweithredu, yng ngŵydd y testun. Ond wrth gwrs, rhaid ymatal rhag symleiddio ynghylch na'r Ffurf na'r Deunydd yn y delyneg nac yn yr arwrgerdd. Yn yr emynau taith er enghraifft (o'u cyferbynnu â'r emynau caru fertigol), mae yna osgo tuag at echel lorwedd, er eu telynegrwydd. Yn *Theomemphus* ar y llaw arall, er bod yna bererindod ysbrydol drwy Gyfiawnhad er mwyn canoli ar Sancteiddhad, yma ac acw try'r bardd i ddiolch a moli'n bersonol uniongyrchol mewn canolbwynt disgyrchiant teimladol neu drobwynt sydyn fertigol ar ganol yr echel lorwedd wrth sylweddoli newid perthynas rhwng dyn a Duw. Hynny yw, ceir hen arfer yn hanes llenddulliau — sef Cymysgedd, ond ni thry'n chwalfa: cymysgir cyfundrefnau am fod yna begynau penodol yn eu dal.

Gwyddom ers y Groegiaid, fel y gall llenddulliau solet megis 'y ddrama', ffurf y cyfarfod geiriol rhwng ti a fi yn bresennol, gynnwys hefyd delynegion lle y bydd y 'fi' yn mynegi teimlad ar y pryd o flaen gwrthrych ar ffurf cân, ynghyd â darnau naratif adroddedig (trydydd person). Felly hefyd y mae Mynegiant y delyneg emynyddol person cyntaf i Bantycelyn yn gallu cynnwys mewn Mynegiant elfennau naratif a dramatig, fel y bu'r arwrgerddi hwythau'n cynnwys elfennau telynegol (yn wir emynau a ddefnyddir yn y llyfrau emynau) yn ogystal â darnau dialog. Dyna yw ymarweddiad normal cymysgu llenddulliau Tafod mewn Mynegiant, er bod y safbwynt rhagenwol yn glir ac yn benodol.

*

*

*

Yr wyf am wahaniaethu'n ofalus, sut bynnag, rhwng dwy gyfundrefn bwysig: *Deunydd/Ffurf* a *Synnwyr/Sain* (neu'n fanylach *Arwyddedig/Arwydd*). Mae Deunydd yn bodoli ar wahân i Synnwyr (hynny yw, heb ei ddeall).

Dadansoddiad meddyliol yw Ffurf hefyd o realiti. Nid sŵn yw. Ac yr wyf am ddychwelyd at iaith drachefn er mwyn cael cymhariaeth benodol a hysbys.

Cawn esbonio union natur *Ffurf*, yn gyntaf drwy gyfeirio at enghraifft y ferf. Dadansoddiad yw iaith wrth gwrs. Ac wrth i'r Gymraeg, yn ei strwythur dyfnaf ei hun (nid mewn Mynegiant neu ddisgrifiad geiriol, ond yn ei hadeiladwaith morffemig cynhenid), ddadansoddi profiad amser yn isymwybodol, fe luniwyd cyfundrefn chwechol Gymraeg yn y Modd Mynegol drwy gyfuno dwy ferf (colofn 2 / colofnau 1 a 3).

<i>buais</i>		<i>yr wyf</i>		<i>byddaf</i>
<i>buaswn</i>		<i>yr oeddwn</i>		<i>byddwn</i>

Dyna *Ffurf* tympau'r ferf lawnaf Gymraeg yn forffemig, yn chwe thymp, mewn tri chyfnod, ar ddwy lefel. Lluniwyd y gyfundrefn isymwybodol gan ddwy ferf wahanol wreiddiol. Ond y meddwl cyffredin sydd wedi adeiladu'r gyfundrefn ddadansoddol hon.

'Ffurf' ddeuol, driol, a chwechol safleol oedd y gyfundrefn hon, nid seiniau yn unig. Yr oedd yna *ffurf chwechol* o adlewyrchu meddwl, o drefnu a rhesymu meddwl, ond ar ddwy lefel. Dadansoddwyd amser yn yr iaith yn ôl chwe safle safbwyntiol: deuol a thriol. Ni raid tynnu sylw at y lefel *-wn*, nac at y pâr *bydd-*, na chwaith at y pâr cymharus '*b...s*' pethau sy'n 'diffinio'r' safleoedd. Mae amser ei hun yn 'ddeunydd' go amorffaidd, a gellid ei rannu mewn llawer o ieithoedd yn ôl llawer dull a modd, safle a chyfeiriad, megis sbectwm lliwiau, mewn lefelau. Ond pwnc yw amser hefyd, megis delwedd. Mae'r Gymraeg dros gyfnod o amser wedi dod o hyd i ddull chwechol manwl gydlynol o'i rannu'n ffurfaidd isymwybodol, yn llinell symudol heb drwch. Oherwydd y cyferbyniadau, a chrynodeu y rhannu delweddol, fe'i mabwysiedir yn ddiarwybod gan blentyn. Yn isymwybodol y sylweddolwyd ffurf ar amser. Mewn diwinyddiaeth ceir hefyd y gyfundrefn *amser/tragwyddoldeb; mewnfodol/trosgynnol*. Dyna o leiaf roi un Ffurf i'r un ffenomen. Ffurf isymwybodol ar y meddwl yw. Gellir hefyd, o'r ffurfiau craidd hyn, lunio'n *gystrawennol* wedyn ffurfiau cyfansawdd dadansoddol megis 'yr wyf wedi bod yn gweddio'. Â'r ymdeimlad cudd yn Ffurf ddiriaethol.

Mae'r Ffrangeg yn gyferbyniol wedi rhannu Amser yn bum tymp morffemig yn y Modd Mynegol. Dyna'r *Ffurf* yn y meddwl Ffrangeg sy'n datrys yr un broblem. Ac yn wir, yn dawel bach y mae'r Gymraeg yn ddiweddar (drwy gydlynw 'buaswn' a 'byddwn') gan bwyll, yn dafodieithol i ddechrau, yn atrefnu ac yn dadansoddi'r strwythur cyflawn hwn o'r newydd yn bum tymp; a'r Ffrangeg yn newid tuag at bedwar tymp. Mae'n newid ei ffurf sylfaenol ei hun, felly, o ddadansoddi amser hyd yn oed yn genedlaethol isymwybodol. Ond does dim mewn Amser ei hun sy'n ein gorfodi i gael mwy na dau dymp dyweder, fel a geir yn forffemig mewn Saesneg, neu ddatrys y broblem neu ran ohoni â *thympau Mynegiant* fel gyda'r tympau periffrastig yn y Gymraeg, neu drwy ddulliau eraill. Mae gan bob iaith ei hathrylith ei hun: ei ffurf o ddadansoddi bywyd. Ffurf y Meddwl.

Y chwe thymp morffemig Cymraeg yw'r ffordd y llwyddodd yr iaith yn ei strwythur canolog i 'ddatrys problem tymp' yn ieithyddol er mwyn symud ymlaen yn gystrawennol i ddadansoddi ymhellach, yn gystrawennol. Gan wynebu profiad diriaethol o amser, fe'i dadansoddwyd (drwy wahuno), a dod o hyd i batrwm ffurfiol cymen. (Ychydig yn fwy cymhleth yw'r modd y strwythurodd *gyfeiriad* amser). Dyma gyfathrach Deunydd a Ffurf, y cwbl yn isymwybodol. Dyma Ffurf yn y meddwl.

Mater arall yw Sain neu Arwydd, e.e. ceir dull seiniol gwahanol weithiau o fynegi'r un ffurf. Cymerer y Ffurf feddyliol 'Orffennol' — gwelodd, bu, aeth. Anweledig benodol yw *Ffurf y syniad* o orffennol: peth gwahanol i'r synhwyrâu yw sain. Mae'r ffurf orffennol yn feddyliol sefydlog, ond o fewn y tymp hwnnw ceir dulliau seiniol synhwyrus gwahanol o fynegi'r un ffurf amseryddol yn y meddwl. Terfyniadau gwahanol, ond un tymp. Felly'r gyfathrach rhwng sain a ffurf llenyddiaeth, Tafod a Mynegiant.

Cafwyd cyfundrefnau eraill, digon perthnasol i ddatblygu arwyddocâd cyferbyniol *Enw/Berf* i'w chyferbynnu â *Gofod/Amser*. Ac eto, y mae'r plentyn yn meistrolï hyn oll yn 'ddiymdrech'. Fe'u defnyddir yn isymwybodol. Ond y pwynt yr wyf yn ceisio'i wneud yn awr yw bod modd olrhain Ffurf mewn elfen fel y Ferf am fod gan yr iaith Ffurfiâu meddyliol i drefnu'r ymwybod dwfn o amser. Ac mewn ffordd gyffelyb ddigon y mae cyfundrefnau Ffydd yn ymffurfio. Mae Cyfundrefneg Ddiwinyddol yn cael ei dadansoddi a'i dosbarthu yn unol â ffordd Duw o arwain y meddwl yn drefnus. Patrymwyd cyfundrefnau yn y fath fodd fel y gallai llawnder cymhleth gael ei fabwysiadu drwy sythwelediad Ffydd.

Bid a fo am hynny, awn yn ôl at gyfundrefn fawr y 'gair' mewn iaith. Mae'r ymwybod yn gyntaf yn dod yn effro i sialens Deunydd: lecsem. Yna, daw Ffurf yn orfodol: morffem. Er mwyn adnabod rhyw ddeunydd penodol ynghanol y cyffredinedd, bu'r meddwl yn gwahuno, yn ynysu, yn canolbwyntio'n unigol ar ddelwedd. Nid yw unigoli pob peth, sef gwahanu diderfyn, yn arwain i unman. Ceir ail symudiad wedyn gan y meddwl, tuag at gymharu, cyffredinoli, cysylltu a sefydlogi. Wedi cael y ddau symudiad hyn, yr ydym wedi cael 'gwahuniaeth' Ffurf. Yn awr, gyda'r pâr hwn o arfau mewn un gyfundrefn, mae ffenomen y gair yn bosibl — nid unrhyw air — ond egwyddor y gair, y teclyn, y darganfyddiad. Dyna'r ffordd y defnyddiaf y term 'ffurf' ar gyfer strwythur yn y meddwl, o'i chyferbynnu felly â 'deunydd' sef y ddelwedd *gynhwysol* yn y meddwl. Wedyn, mabwysiedir arwydd allanol (y sain) am yr arwyddedig mewnol.

Ffurf yw un o brif hanfodion pob cyfundrefn, boed yn ddiwinyddol, yn llenyddol, neu'n ieithyddol. Mewn modd dadansoddol tebyg, daw'r isymwybod iaith o hyd i ffurfiâu eraill heblaw amser i gorffori gweddau eraill ar y deunydd— megis rhif, a chenedl ramadegol

gwryw/ benyw, hyd yn oed i ymuno yn y ferf. Hynny yw, patrymau cydlynol ydynt o ddadansoddi bywyd. A'r offeryn a ddefnyddia Ffurf yw'r gyfundrefn.

* * *

Dweud hyn oll yr wyf er mwyn hawlio i lenyddiaeth wedyn, megis i ddiwinyddiaeth, yr un ysfa i ddod o hyd i drefn gydlynol ag a roddir yn gyntaf i iaith a bywyd. A dilynir llwybr cyffredinol tebyg, sef dod o hyd i ffurfiau ffinedig a dosbarthu deunyddiau, am fod trefn safleol yno eisoes mewn perthynas. Gallwn drafod Ffurf y Deunydd llenyddol.

Yn *Theomemphus* Pantycelyn, — mewn llenyddiaeth — mabwysiedir yn isymwybodol ffurf sylfaenol y 'stori', gan gynnwys 'telyneg' a 'drama', a chan gymhwyso'r trefniant triol a geir yng nghyfundrefn driol y rhannau ymadrodd traethiadol.

<i>enw</i>	<i>berf</i>	<i>ad-ferf</i> : fframwaith y frawddeg
<i>cymeriad</i>	<i>digwyddiad</i>	<i>amgylchfyd</i> : fframwaith y stori.
<i>Theomemphus</i>	<i>yn ceisio Duw</i>	<i>drwy anawsterau</i> : fframwaith <i>Theomemphus</i>

Mewn disgrifiad enwog o'r ffurf yn ei Ragair i *Theomemphus*, y mae Pantycelyn yn hawlio — '*Y mae yn ddarn o waith newydd, nad oes un platform iddo yn Saesonaeg, Cymraeg, nac yn Lladin, a'r wn i. Ni ellir ei alw yn alegori, am fod y personau yn wir ddynion, a'r pechodau, grasusau, temtasiynau, a'r lleill o'r gelynion tumewnl ac allanol yn cael eu doddi yn eu henwau priod, heb un troell-ymadrodd; ac nid oes yma fiction neu ddychymyg, yn unig enw Theomemphus yn represento Cristion. Ond oddi wrth yr amryw gyfnewidiadau personau, a phob person wedi ei dynnu orau ag [a] allwyd ar ôl ei alwad, ei waith, ei rasmusau a'i garacter, gellir ei alw yn brydyddiaeth dramatig.*'

Yn *Theomemphus* megis yn *Golwg ar Deyrnas Crist* ceir y gwahanol gyfuniadau o *Deunydd/Ffurf* sy'n ein llywio a'n harwain drachefn drwy'r storïau. Yr ysfa am drefn o hyd sy'n gyrru'r naill a'r llall, a hynny'n drosiadol.

Yn hyn o beth, yn yr 'ymddiddan' hefyd, yn arbennig o du y cymeriad 'Theomemphus', ceir nid yn unig y gair bach diflas 'fi', ond yn y cyd-destun dramatig gyda chymeriadau eraill y person rhagenwol *ti/chwi*; ac yna, mewn 'cyfarwyddiadau llwyfan', yn ogystal ag mewn ymddiddan, fe ddigwydd 'hi' ac 'ef'. Hynny yw, ceir llawnder cyfundrefn y 'safbwynt storïol'.

fi | *ti* | *ef, hi*

ynghyd ag ymwybod olynol o leoli amseryddol 'presennol/absennol'

gorffennol absennol | *presennol* | *dyfodol absennol*

Ac yn arbennig, y mae *Theomemphus* yn mynd drwy yrfa lorwedd, ei arfaeth bersonol, a hynny yn ôl trefn anochel:

<i>cyflwr llygredig</i>		<i>tröedigaeth</i>		<i>cadw</i>
<i>cwmp</i>		<i>cyfiawnhad</i>		<i>sancteiddhad</i>

Neu fel y dywed Pantycelyn ei hun: ‘*Mi feddyliais imi fynd â Theomemphus trwy brofedigaethau neilltuol, gwrthgiliadau, ofnau, dychrynfâu, cydwybod, cwympiadau, codiadau, caethiwed, cysuron, heddwch, rhyfel, llawenydd, gorfoledd, llwybrau gau, llwybrau union, temtasiynau, oddi wrth gyfeillion, gelynion yr Eglwys a’r byd, gau athrawon, gau athrawiaethau, crefydd y deall, gau ymorffwysladau, a holl demtasiynau’r serchiadau, sef caru, casáu, hyderu, tristáu, llawenhau. Yn union neu yn gau, ac amryw o ddrwg a da eraill, nad aeth y Bunyan hwnnw sy’n awr yn y nef ag ef.*’

Ar ryw olwg, math o daith *picaro* sydd ganddo ar hyd echel amser. Nid alegori ymhlith haniaethau ac egwyddorion sydd yma, eithr diriaethau a phersonau unigol, ynghyd â thaith fewnol athrawiaethol a phrofiadol. Cloffyn yw ef, ond y mae’n canu. Eto, rhan o wreiddioldeb *Theomemphus* yw’r ffaith fod amryw ddarnau, o’u cymhwyso’n llinelllog wedi troi’n emynau, heb sylwi arnynt fel petai.

Hynny yw, y mae ef yn ymgodymu ag un o’r prif broblemau theoretig llenyddol. Mae *Bywyd a Gwaith Theomemphus* fel cerdd yn ymgodymu â pherthynas *Arbennig/Cyffredinol* — pa mor bell y gellir unigolyddu neu arbenigoli cymeriad *Theomemphus*, a pha mor bell y caiff ei gyffredinoli. A’r un fath y dadleuwyr. Priodol dyfynnu sylw esboniadol Saunders Lewis: ‘Nid cân wrthrychol mohoni, na cherdd hanes am nac arwyr na chenedl. Gorwedd ei newydd-deb yn ddyfnach.’ Yna, deil Saunders Lewis y gwrthwyneb bron, ‘Gwrandawer ar Williams: ‘Ni ellir ei alw yn Alegori, am fod y personau yn wir ddynion...’

Problem Ffurf yn y meddwl yw hynny oll, a hynny mewn Deunydd.

Hynny yw, y mae *Deunydd/Ffurf* yn gyfundrefn unol yn sylfaenol syml ond yn arwynebol gymhleth yn *Theomemphus*. Mae Williams yn ymgodymu â Deunydd, ac y mae yn ceisio dod o hyd i Ffurf mewn Mynegiant, gan sylweddoli nad deuoliaeth wahân sydd yma, eithr undod deuol. Y mae’r ieithydd Guillaume o hyd yn rhoi pwyslais ar amser y weithred ieithyddol unigol ei hun (sef y gwaith sydyn neu’r digwyddiad mewn Tafod a ddefnyddir i lunio Mynegiant: yr echel rhwng y naill a’r llall), yn ogystal ag ar amser adeiladu Tafod neu’r Gyfundrefn o gyfundrefnau (mewn amser dros ganrifoedd efallai). Un o gampau Williams, fel y dangosodd Saunders Lewis o gymharu diffyg twf cymeriadau traddodiadol y ddrama glasurol â theip y Cristion yn *Taith y Pererin*, oedd creu yn *Theomemphus* gymeriad sy’n tyfu ac yn ymnewid yn unigolyddol o flaen ein hwyneb dros ganrifoedd; ac sy’n ymresymu’n hunanfeirniadol; gan ymchwilio’n ffaeledig, ond yn fuddugoliaethus. Mae’n amlwg ar yr wyneb nad Williams nac aelodau Seiadau yw anferthedd *Theomemphus*; ac eto ef (a nhw)

ydyw. Adwaenom ein hunan ynddo. O ran ffurfiau Mynegiant, ceir gwahanol lendeddulliau — ‘Arwrgerdd’ neu ‘Delyneg Fawl’ neu ‘Farwnad’, — a all ymwneud â’r un Deunydd, megis y fuddugoliaeth dros farwolaeth. Ond y mae pob gwahaniaeth ffurfiol yn dwyn ei arwyddocâd a’i ergyd ei hun.

Yn y berthynas ‘dderbyniol’ arferol rhwng Deunydd a Ffurf, ceir cryn nifer o ystyriaethau dynol. Beth bynnag y bo’r amgylchiadau mewn Mynegiant, elfennau ffurfiannol pwysig bob amser sy’n cyfrif yn sylfaenol am berthynas rhwng llenyddiaeth a darllynydd, pethau fel y dechrau a’r diwedd a gaiff sylw gan Aristoteles megis gan y nofelwyr cyfoes. Ni ellir osgoi chwaith na ffurf na’r deunydd arbennig/cyffredinol.

Yn y fan hon, ceisiwyd yn syml arddangos sut y mae’r Ffurf ddyfnaf (megis tri pherson y rhagenw; neu berthynas enw/berf) yn uno â Deunydd taith neu serch, i’w corffori’n ddeinamig mewn Mynegiant, megis y gwnânt mewn brawddeg.

Felly, ni all llenor, yn ymwybodol weithiau, ond yn isymwybodol yn amlach, ddianc rhag ystyriaethau *Deunydd/Ffurf* am y rheswm syml mai cofleidiad yw pob gair unigol rhwng Deunydd a Ffurf. Mae gan y naill a’r llall ei lywodraeth a’i ddiffiniad ei hun. Gwyddom am yr ystyr lydan sydd i’r gair ‘buwch’ sy’n annibynnol ar unrhyw fuwch neilltuol. Gellir galw’r ‘fuwch’ (ffurf enw, benywaidd, unigol, treigledig) yn ‘cow’ heb ymyrryd â’i Deunydd. Gellid ei lluosogi. Gall effeithio ar wahanol synhwyrau yn ymarferol — clyw, arogl, gweled. Dyna’r cysondeb. Ond ceir ansefydlogi mewn llawer cyfeiriad o fewn elfennau go sefydlog. Yr hyn sy’n sicr yw na ellir ymdrin ag iaith na llenyddiaeth heb gael bod y ffenomen o gyfundrefn *sefydlog/ansefydlog* neu *arbennig/cyffredinol* ar lwybr ein cyfarfyddiad. I’r llenor, wrth drafod *Deunydd/Ffurf*, mae ganddo hefyd ymwybod o gelfyddyd a rhagoriaeth (sy’n tarddu yng nghyfundrefn *Cymhelliad*) sy’n peri iddo drin y cyfuno yn synhwyrus synhwyrol yn ôl safonau. Uno yw natur Ffurf; ac unir yn ymwybod Pantycelyn holl amllder ei Ddeunydd.

*

*

*

Ceisiwyd yn ein dadansoddiad hyd yn hyn nodi rhai o’r offer dadansoddi angenrheidiol. Ac ychwanegwyd yn awr y cyferbyniad neu’r cyplysiad anochel *Deunydd/Ffurf*. Y mae’r naill a’r llall o’r elfennau felly sydd yn yr Archgyfundrefn hon, hefyd ar waith mewn cyferbyniad o swyddogaeth benodol arbennig a threfnyddol o fewn yr holl gyfundrefnwaith a hierarci o gyfundrefnau yn gyffredinol. Heblaw bod yn un o’r un ar ddeg Archgyfundrefn, y mae iddi arwyddocâd fwy treiddgar yn nhrefniant y lleill. Fe’i profir yn hierarci’r symudiad o’r Absoliwt Trosgynnol i lawr hyd at y Motiff lleiaf mewn Deunydd Mynegiant. Ond wedyn o fewn yr hierarci down ar draws Sfferau Cyffredinol mewn Deunydd; ac yna, Cyfundrefnau Thematig mewn Deunydd, a Motiffau Deunydd. Hynny yw,

heblaw bod yn rhagflaenol yn un gyfundrefn ymhlith Pum Archgyfundrefn Ffurf, y mae *Deunydd/Ffurf* yn rhan o ddisbarthiad mawr y lefelau gwahanol oll mewn Bod, ac yn clymu wrth ei gilydd yn hierarci'r Sfferau â'u cyfundrefnau thematig i gyd.

Diddorol sylwi yn hanes y Creu, yn Genesis 1, fel y creir egwyddor neu ffurf Goleuni cyn creu'r Goleuadau eu hunain: sylwedd mewn trefn gynieithyddol barod oedd natur y disgrifiad. Felly'r holl Arfaeth. Ar ryw olwg, y drefn hon yw *Anfod/Bod: Arfaeth/Deunydd/Ffurf*.

Y mae Pantycelyn fel pe bai'n gosod y *ffurfiau cynieithyddol o flaen y deunyddiau*, y *cyffredinol cyn yr arbennig*:

GWWP I, 29-30 *Pob llun, a gradd, a doniau, pob swyddau yn y nef
Yn cael eu bod mewn munud wrth ei orchymyn ef; ...*

*Maintioli'r haul a'r lleuad a'r hydoedd sydd uwchben,
Rifedi swnd y moroedd yn chwarae yn y nen,
Lled, hyd, a maint eu troeon 'nghyd â'u haneirif ri',
A'r nifer anweledig ohonynt sydd i ni.*

Bedwar ar bymtheg o benillion yn ddiweddarach y myn Duw ddatgan:

GWWP I, 34 *Ac yno fe agorodd ei enau sanctaidd, pur,
'Be fe, 'Boed y defnyddiau i grëu môr a thir...
Ac erbyn hyn 'roedd Caos, defnyddiau maith eu stôr...*

Yr wyf i wedi ceisio dadlau bod ein dealltwriaeth uniongred a chlasurol o Dduw ei hun hefyd yn ymorwedd mewn dwy ffordd sylfaenol, yn ôl safle eithaf yr Absoliwt, yn ôl Ffurf y Drindod neu'r ddwy natur mewn Un Person, *ac* yn ôl Deunydd — 'Duw Cariad yw'. Yn wir, y mae'r holl gyfundrefnau a chyfuniadau a geir drwy gydol ein harolwg o adeiladwaith a gweithrediad Deunydd, ar hyd y rhychwant yn dilyn olyniaeth gyfun a chydlynol o'r Absoliwt a'i Arfaeth bob cam i lawr hyd at y *motiffau* distatlaf.

Gellir crybwyll yng ngolau'r ffaith honno fanyn o ymholiad ynglŷn â dewis mesur ar gyfer arwrgerddi megis y ddwy a luniodd Williams. Bob hyn a hyn roedd yn rhaid i Bantycelyn yn ei arwrgerdd droi o naratif i ymollwng mewn diolch. Felly, er ei fod yn ddigon medrus yn y mesur penrhydd neu yn y gwpled arwrol, nid dyna fu'n ddewisol i Williams, ond mesur lle y gallai'r penillion droi bob hyn a hyn oddi wrth eu swyddogaeth arwrol i ddiolch a moliannu'n emynyddol. Nid arwrgerddi arferol amrwd oedd y rhain. Rhaid felly oedd wrth fesur lle yr oedd hyd hir llinellau arwrgerdd yn gallu corffori sioncrwydd emyn. Mae'r berthynas yn dilyn drwodd o'r Archgyfundrefnau i lawr hyd at y *motiffau*.

*

*

*

Awgrymwyd eisoes fod Trefn Gynieithyddol fawr yn rhagflaenu Deunydd ac yn rhagflaenu Ffurf yn yr Arfaeth. Felly hefyd yn y gyfrol hon. Cafwyd, cyn i blentyn yngan brawddeg, cyn i lenor drafod Deunydd, fod ganddo eisoes Drefn Gynieithyddol yn y meddwl i wahanu, yn y canfyddiad o Ddeunydd. Ni ellir iawn drafod Deunydd yn gyffredinol mewn llenyddiaeth, heb yn gyntaf fod Trefn o'r fath ar gael i'w ddiffinio a'i ddosbarthu'n gyflawn ac i'w gynnal yn ddiriaethol.

Felly, yn y gyfrol hon, y mae a wnelo'r holl adran hon sy'n trafod Archgyfundrefnau â Ffurf y Deunydd. Ac mae a wnelo'r holl adran, sy'n trafod Sfferau, Themâu, a Motiffau, â Deunydd yn y Ffurf honno. Ar ryw olwg, dyma'r wedd ffurfiol fewnol ar y Greadigaeth a gafwyd cyn ymaflyd yn y creu allanol. Ond yn y ffurfiau Archgyfundrefnol, cafodd Pantycelyn sylwedd rhyfeddod a gwrthrych dadansoddi deunyddiol gan yr Archgyfundrefnau.

Ceisir felly ddangos felly sut y mae Cyfundrefneg, neu Ffurf, neu Strwythurau cynieithyddol yn fowld ac yn sgaffaldwaith, neu'n ddelwedd batrymol ac gyfer cyfleu 'Deunydd' yn benodol mewn iaith a llenyddiaeth. Mowldir y Deunydd o fewn y Ffurf. Mewn cyfrolau eraill (*Tafod y Llenor, Seiliau Beirniadaeth*), sy'n gweithio'n fwy ffurfiol, dangoswyd sut yr oedd yr un cyfundrefnau cynieithyddol hyn yn esgor ar 'ffurf' bellach ychwanegol mewn iaith a llenyddiaeth. Yn wir, ymddengys fod *Meddwl y Gynghanedd* yn ymwneud â math o Ffurf 'bur', heb Ddeunydd o gwbl. Ond nid felly: ceisir arddangos, yn wir yn natblygiad y gwaith hwnnw, fod a wnelo'r Gynghanedd â chorffori Trefn ei hun fel Deunydd anrhydeddus. Mae'n anrhydeddu Trefn/Ffurf y Gynghanedd ei hun fel pe bai Trefn ei hun yn Ddeunydd i'w fawrygu felly, yn wrthrych Mawl, ac yn egwyddor sy'n weithred yn ogystal â phatrwm sy'n mynnu corff sain. Cynrychiola'r Gynghanedd anrhydedd Trefn Seiniol sy'n adlewyrchu ac yn diriaethu trefn wleidyddol a threfn grefyddol fel ei gilydd. Gorseddir Deunydd y Mawl felly'n ddiriaethol gan Ffurf fawrhydig y Gynghanedd. Ac mewn modd cyffelyb nid cwbl amhriodol fyddai haeru mai prif Ddeunydd rhannau o 'Golwg ar Deyrnas Crist' yw anrhydeddu Ffurf (Trefn, Strwythurau) Duw. Mae'r Cynllun felly'n Gân.

Y CHWECHED ARCHGYFUNDREFN

BOD/bod

(ABSOLIWT/unigolyn; MACROCOSM/meicrocosm, GORUWCHNATURIOL/naturiol)

Adeiladu hierarci o weithredu ieithyddol, llenyddol, a diwinyddol (ayb) yw cyfrifoldeb y cwlwm o Archgyfundrefnau. Ond olyniaeth glwm yw natur hierarci o'r fath a chanddi begynau, yr uchaf a'r isaf. Hyn sy'n caniatáu'r ddibyniaeth ynddi.

Mae'r Archgyfundrefn ymbarél *Bod/bod* yn cynrychioli'r ffaith isymwybodol a fertigol honno mewn pegynau. Archgyfundrefn yw hon sy'n trefnu'r cydlynid yn yr hierarci ar ei hyd. Mewn hierarci sydd bob cam yn tarddu ac yn cael ei llywodraethu gan Absoliwt, ac mewn grŵp cyfundrefnol o 'wenyn gweithiol' sy'n cyflawni'r gwaith o ddiffinio a rheoli'r cwlwm o Archgyfundrefnau hwnnw, gellid disgwyl rhyw fath o Archgyfundrefn gwmpasol o fewn y grŵp sy'n benodol gyfrifol am y 'cyswllt' hierarcaidd hwnnw. Mae yna gyfundrefn sy'n gweithredu fel dolen gydiol yn yr Hierarci; a dyma hi. Ar ryw olwg, cyfundrefn faint yw: anghenraid gwahaniaeth y dimensiwn rhwng Duw a dyn, a'r ymostwng ar y naill ochr a'r llall i'w cysylltu. Ymwneud y mae'r bennod hon â natur perthynas Dau Begwn.

Unigrywiaeth ffenomen yr Archgyfundrefnau yw bod pob un yn y grŵp cychwynnol yn gyd-bresennol ac yn gyd-ddibynnol yn yr Absoliwt yn ogystal ag yn y gwaith canlynol o lunio neu o ddiffinio 'Cyfundrefnau'. O'r herwydd y mae perthynas anghyffredin o glôs rhyngddynt â'i gilydd. Gan mai catholig tebyg yw'r diffiniad ar gyfer pob un o'r Archgyfundrefnau amodol hyn, y mae pob un yn gyd-bresennol yn y lleill. Maent yn fyddin gyd-rymus. Er y pellter o'r brig i'r bôn, ceir agosrwydd. Mae Duw yno ac yma 'gyda ni'.

Mae *Bod/bod* mewn gwirionedd yn allweddol ymhlith yr Archgyfundrefnau hyn oll. Tebyg yw i'r gyfundrefn a genfydd Guillaume yn asgwrn cefn i bob cyfundrefn ieithyddol unigol: sef *Cyffredinol/Arbennig*. Yn y cyswllt hwnnw, Hollgynhwysol yw'r *Cyffredinol* Hollbresennol. Ni ellir cael dim mwy cyffredinol na'r egwyddor o gyffredinoli. Cymerer eto y ddwy frawddeg (1) Mae dyn yn meddu ar bechod; (2) Mae dyn wrth y drws. Sylwer fel y mae 'dyn' yn y frawddeg gyntaf yn cyfeirio at bob dyn, ond yn yr ail at unigolyn. Mae'r 'dyn' cyntaf, felly ar ryw olwg yn anferth. Mae'n cynnwys pawb. Theomemphus o ddyn yw. Crist yw hefyd. Bod a bod yw ei gyd-destun. Rhwng Bod a bod clymir trefn a bywyd y berthynas fwyaf.

Taith ddeall y meddwl babanaidd yw oddi wrth yr oll-yn-oll cynhwysfawr ac anhrafodadwy, a genfydd yn gynnar, i lawr at yr elfen fechan drafodadwy. O'r *Cyffredinol* i'r *Arbennig*. Ac erys y symudiad meddyliol hwnnw byth wedyn pryd bynnag y defnyddir y Gair ac iaith. Wyneb-yn-wyneb ag amlystyraeth, y mae'r meddwl yn ynysu'r rhannau.

Dadleua Guillaume fod pob gair yn cyfrannu o'r un cyfundrefnwaith hwn ac yn dod o hyd i'w le o fewn yr un sbectrwm *Cyffredinol-Arbennig*. Tebyg iawn yw i berthynas *cyfan/rhan* neu *lliaws* (neu fâs, neu dorf)/ a'r *unigolyn*.

Awgrym mawr arall a wnaeth Guillaume. Oherwydd cydlyniad yr holl iaith yn gyffredinol, pryd bynnag y defnyddid un rhan o'r iaith, yr oedd y cyfan o'r iaith yn yr un fframwaith. Caiff pob cyfundrefn unigol leiaf ei harwyddocâd, drwy berthynas â'r Gyfundrefn o gyfundrefnau gyfan hon: Bod/bod.

Yn y pâr o Archgyfundrefnau, *Bod/bod* a *Bod/trefn*, (neu *Bod/gwneud*) y mae a wnelom â phegynau ac ag ansawdd cyswllt holl gwllwm yr Archgyfundrefnau â rhagosodiad yr Absoliwt. Yr uchaf â'r isaf. Y mae a wnelom hefyd â'r ymdeimlad mewnlol neu'r sythwelediad o fodolaeth Bodolaeth a bodolaeth Trefn. Neu'n fwy cryno, *Duw/Arfaeth*. Rhydd y cyswllt fertigol hwn, rhwng *Bod* a *bod*, awdurdod i gwllwm yr Archgyfundrefnau, gan gyflyru'r berthynas hierarcaidd o'r Absoliwt hyd at y motiffau wedyn.

Bod/bod yw'r cyswllt gorfodol felly yr ymdeimlir ag ef wrth gysylltu hefyd un Elfen ac elfen arall, yn arbennig yn ôl maintioli â chysgod y Mwy. A *Bod/trefnu* yw'r ymdeimlad mai uned gydlynol drefnus a gynhyrchir mewn perthynas â gweithredu. Mae *Bod/bod* yn bennaf sefydlog, a *Bod/trefnu* yn ddeinamig yn bennaf. Yn achos *Golwg ar Deyrnas Crist*, megis yn *Theomemphus*, ymdeimlir â pherthynas y dwyfol a'r dynol, y Crëwr a'r creedig. Adlewyrchir a chysgodir un Bod â bod cwblarall sydd ar raddfa lai ond sy'n ei gynrychioli; yr ail yw bodolaeth y greadigaeth neu fywyd dyn. Ni ellir llai na synied bod yna berthynas rhwng Duw â'i greadigaeth, a Duw â dyn, nad yw'n annhebyg i gyfundrefn neu i gyswllt y symbol a'r trosiad, yn ogystal â Sffêr/Thema a drafodir ymhellach ymlaen. Duw yn gadael Ei argraff.

Sôn yr ym am berthynas neu gyferbyniad *Mawr/bach*. Dyma ymdeimlad ffurfiol o ddau fod sy'n perthyn i'w gilydd mewn gwahaniaeth ansoddol. Ymddengys fod *Bod/bod* yn elfennau enwol, wrth gwrs, hyd yn oed personol ac felly ddeunyddiol. Ond yn y fan hon, y berthynas fertigol sydd o dan ystyriaeth. Ffurf feddyliol yw.

Gellir esbonio natur y gyfundrefn hon drwy gyfeirio at y modd y corfforir y cyswllt hwn mewn cyfundrefn ramadegol sefydliadol — graddau cymharol a chynyddol ansoddeiriau: *mawr/mwy/mwyaf* ac *uchel/uwch/uchaf*. Sylwer bod pegwn y radd 'eithaf' –*af* yn y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y 'mwyaf o ddau, neu'r mwyaf o'r tri.' Gwir fod yma gyfundrefn gymharu dwt a sefydlir o fewn cwlwm triol y gwahaniaeth arferol (yn wir, ceir pedwarol yn yr ieithoedd Celtaidd, gyda'r arwydd –*ed* yn dynodi peidio â symud o'r radd). Ond canolbwyntir ar ffrâm y pegynau i gynnal pob cymhariaeth gynyddol sylfaenol. A dyna'r

ddelwedd isymwybodol a'r strwythurol a ddefnyddir yn y sail seico-fecanaidd, mewn rhagdyb i gyfundrefn Graddau Cymharol Ansoddeiriau yn rhyngwladol Ewropeaidd. Yng nghyd-destun Diwinyddiaeth ffurfiol, dyma ddelwedd gyferbyniol y *Macrocosm/meicrocosm*, y synnwyr o'r Goruwchnaturiol dirgel a dychrynus (yn nirgelwch y tywyllwch o bosib i blentyn) ynghyd â'r ymwybod o'i ddiymadferthedd bychan naturiol. Ymgysyllta â *Chynhaliaeth/Dibyniaeth* yr oedolyn a'r plentyn.

Yr wyf wedi gosod y ddwy Archgyfundrefn hyn, *Bod/bod* a *Bod/gwneud* (*drwy Arfaeth*), ar ganol cwlwm yr holl Archgyfundrefnau, nid yn unig am eu bod yn hollbresennol yn y lleill (y mae hynny'n wir am bob Archgyfundrefn), ond am eu bod yn bont rhwng Ffurf a Deunydd, Dechrau a Diwedd. Dyma – yn yr Hierarci sy'n cysylltu'r Cyfan a'r Rhan yn fewnol, ac yn neupen yr Hierarci – yr Absoliwt a'r Motiff lleol achlysurol.

Fe'i canfyddwn yn ymarferol ddigon wrth gyferbynnu'r Pechod Gwreiddiol â'r pechod unigol bychan. Ac yn yr un modd, yn y drafodaeth ar faint neu gwmpas yr Iawn, fel y cofiwn Robert ab Gwilym Ddu wrth sôn am Faint y Duwdod mawr, y mae'n cael ei gymhwyso i angen gwacaol yr unigolyn bach.

I Gristion, mae deffroad y *sensus divinitatis* yn ymwneud â dimensiwn y cyferbyniad syml *Duw/llwch y llawr*, ac weithiau yn drawmatig. Gall ddod yn berthynas o'r herwydd. Pan ddaw, daw ar sail patrwm ffurf barod aruthr wahanol — *Cryf/gwan*. Onid y nefoedd sy'n cyhoeddi gogoniant Duw? Yng ngŵydd realiti profi i'r byw y fath gyfarfyddiad â hwn, dirfawr i galon Williams oedd sylweddoli'r 'gwahaniaeth' rhwng y meicrocosm a'r Macrocosm, rhwng ei fychander ef ac enfawredd Duw. Ym mryd yr Apostol Paul, ac yn y traddodiad Acwin/Calfin, credir bod gan y dyn naturiol ym mhob man, gynneddff sy'n peri math o ymwybod o Dduw, er y gellir ei hesgeuluso, ei hanwybyddu, neu ymosod arni. Deffroir yr ymwybod hwn yn sgil Rhyfeddod ac Arswyd hyd at berthynas gariadus arbennig ym mhrofiad Cristion.

A sydynrwydd achlysurol y glendid eithafol hwn, canfod y sancteiddrwydd eithafol, a meddiannu peth o dragwyddoldeb yng nghyd-destun sarhad tuag at y fath Gariad — dyna bellter o annynoldeb arswydlon trawmatig i feddwl meidrol na allai lai na llenwi Williams yntau â rhyfeddod lethol. Bu'n drobwynt bywyd deallol i'r bardd gwlad hwn. Roedd gwybod hyd fêr ei esgyrn am y Bod dwyfol yn ddigon; ond yr oedd cyswllt presennol cyferbyniol yn symud y profiad y tu hwnt i allu naturiol i ddygymod ag ef. Yr oedd Pantycelyn yn ei sgil wedi cyrraedd y gwahuno eithaf, y gwahuno absoliwt y tu hwnt i bob gwahuno; ac yr oedd y profiad neu'r prawf wedi dod yn gyfundrefn fframweithiol o angerddol yn ei gredo.

Bod/bod o'r fath a gaed yn y *Crëwr/creedig*, hynny yw, yn y ffaith o fodolaeth. Ceid *Bod/bod* yn unedig eto yn yr Ymgawdoliad ei hun; a cheid *Bod/bod* drachefn yn y Waredigaeth a'r Uniad newydd. Sylweddoliad deallol yw hyn oll, sy'n ymyrryd â Ffurf yn ogystal â Deunydd Bywyd.

A gaf danlinellu'r ffaith mai cyfundrefn ffurfiol (yn ogystal â deunyddiol) yw *Bod/bod* yn y cyd-destun hwn. Cyfundrefn yw sydd a wnelo â pherthynas gyferbyniol. Y Ffurf yw'r Deunydd. Gall ymddangos mai'r un ydyw yn union â *Duw/dyn*. Ond cyferbyniad ffurfiol a safleol yw ei ddelwedd yn gyntaf (ac ymhlith yr Archgyfundrefnau) heb roi sylw i briodoleddau personol o gwbl. Mae'r rheina'n bod yn 'ddeunyddiol' wrth gwrs, ond nid ydynt yn ymgyfyngu i ddelwedd gyfundrefnol elfennaidd, fel sy'n briodol mewn Hierarci Ffurfiol i Ddeunydd. Perthynas ddeallol sydd yma rhwng yr elfen lywodraethol gyflawn gynhwysfawr a'r elfen 'ddistadl' israddol, dyna'r math o sylwedd a gyfleuir. A dyna'r realiti ffurfiol a ddadansoddir. Sythweliadol gyntefig yw'r berthynas hon drachefn, ond fe ellir wrth reswm, ei sythweled yn drawmatig ysbrydol.


Hyn yw'r 'Wyneb yn wyneb mawr' ar y naill law ynghyd â'r 'wyneb yn wyneb bach' ar y llall a wêl Guillaume. Dehongla berthynas Tafod fel dadansoddiad o'r Cyfan ar y naill law, a Mynegiant fel dadansoddiad mewn cyfathreb gyda chyd-ddyn ar y llall. Ychydig a feddylir am Dafod wrth gwrs gan y 'dyn cyffredin', a llawer am Fynegiant. Sylwer er enghraifft ar feirniadaeth lenyddol Gymraeg hyd at 70au'r ugeinfed ganrif, a 'dyfodiad' theori. Y cyferbyniad hwn *Bod/bod*, a ysgoga'r ymwybod o'i fychander ei hun, dyna a brawf dyn o ystyried ei *sensus divinitatis*, neu fawrdra eithafrwydd marwolaeth ar y naill law, o'u cyferbynnu â'r 'berthynas' a geir wrth i ddyn gyfathrebu'n gartrefol saff â chyd-ddyn yn gyfartal gyfarwydd. Mae'r meddwl wrth gwrs yn medru, ac yn mynnu, cyferbynnu *Mawr/bach*. Dyma sut yr adweinir ac y dadansoddir natur pethau o'n cwmpas yn fynych. Dyma sut y gwerthusir yn foesol ac yn esthetig gymharol: *da/gwell*. Ac y mae hynny'n ymwneud ag un wedd — y bwysicaf efallai — ar berthynas ysbrydol: y dimensiwn arall.

Gall arwain y balch at ymostwng; a ffurf ysbrydol mewn perthynas a geir y pryd hynny.

Heblaw bod y berthynas rhwng y dechrau Goruwchnaturiol a'r diwedd naturiol yn yr hierarci ieithyddol, lenyddol, a diwinyddol, y mae a wnelo'r Archgyfundrefn hon ynddi'i hun hefyd â pherthynas Duw a dyn yn bersonol ymarferol. Mae'n weithredol hefyd mewn themateg farddonol. Yn achos yr Archgyfundrefn *Bod/bod*, gwelir y pegynau hyn a'r berthynas hon ar waith yn thematig mewn dwy ffordd. Y mae'n brofedig mewn dau ddigwyddiad sylfaenol. Yn gyntaf, yn y *Creu*: yn y *bod* a grewyd ar ddelw'r *Bod*. Ac yn ail,

yn yr Ymgnauldoliad, yn y *Bod* a wnaethpwyd yn *fod* ac a drigodd yn ein plith ni. Mae'r cyntaf yn cael blaenoriaeth yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, a'r ail yn *Theomemphus*.

Gellid hefyd ddisgrifio a diffinio'r gyfundrefn ei hun drwy ddau dyndra'r Tensor Dwbl cyfarwydd:



Daeth y Bod (Mab) yn fod er mwyn i'r creadur (bod) gwahân gael ei uno yn y Bod (Duw).

Dyma'r mabwysiadu sy'n ganolbwynt i brofiad Pantycelyn. Dyma'r ddeinameg.

Strwythur yw'r berthynas honno, er hynny, fel yr Archgyfundrefnau eraill y buom yn eu trafod hyd yn hyn. Ond yn achos *Bod/bod* ymdeimlwn fod a wnelom â'r diriaethol clir mewn cyferbyniad, â'r personol hyd yn oed, â pherthynas bersonol, ac mai ymwneud â phwysigrwydd Deunydd llenyddiaeth yr *ÿm*, yn ogystal ag â Ffurf. Cymorth syml ond gwerthfawr yw yn y broses o feddwl. I Bantycelyn, hawdd oedd cymryd hyn 'yn ganiataol' anochel, fel angor i'w holl weledigaeth grefyddol.

- | | |
|-----------|--|
| GWWPI, 10 | <i>O! foroedd o ddoethineb oedd yn y Duwdod mawr...</i> |
| 11 | <i>Mwy cariad, mwy tosturi, trugaredd, a mwy rhad,
Pa fwya' annhebyg oeddem, mae mwya' gras ein Tad ...</i> |
| 12 | <i>Mae'n gadael y penaethiaid, rai cedyrn cryfion, mawr
Yn edrych gostyngeddwrwydd pryfetach gwael y llawr; ...

O! gariad heb ei gymar! ...</i> |
| 303 | <i>O dere, Iôn tragwyddol! Mae ynot ti dy hun
Fwy moroedd o drugaredd nag a feddylodd dyn.</i> |

Sylwer ar ansawdd posibl y berthynas. Ambell waith, bydd y dyn meidrol yn sefyll mewn braw oherwydd sylweddoliad cywir byw o flaen enfawredd cymharol yr wybren. Dyma ddelwedd ddynol iawn. Mae yna chwilfrydedd cyffredinol ymwybodol neu isymwybodol ynghylch y berthynas *Duw/dyn*, hyd yn oed pan na chredir yn 'Nuw'. Mae'n bur arwyddocaol nad oes dim un posibilrwydd, er llawer ymdrech, i brofi nad yw Ef ddim yn bod. Tardd hynny oherwydd y *sensus divinitatis* ynghyd â'r newid dimensiwn anochel annealladwy. Ond os yw'n bod, yna mae yna bosibilrwydd cryf fod gan ddyn gynneddf — *ysbryd* — a fedr ddeffro iddo, ei adnabod, a *phrofi* perthynas ag Ef. Gall dderbyn Gras. Y gynneddf ddirgel fydeang hon a'r Duw dirgel hwnnw, er gwaethaf pob gwrthryfel, yn wir er

gwaethaf cynddaredd neu ddifaterwch ysol farw yn eu herbyn, sy'n cosi *cydwybod* chwilfrydig dyn.

A'r berthynas gymharus honno, yn safleol ac yn gysylltiol, gyda'r Duw hollbresennol hwn, neu, — i amryw, — Ei absenoldeb 'corfforol', dyna sy'n ymarferol gynhyrfu peth o Fawl mwyaf y byd. Dyna waddol i isymwybod ar ffurf moesoldeb, neu i estheteg ysbrydol. ar gyfer pob llenyddiaeth o werth. Ni thâl ddweud, 'dwi ddim eisiau meddwl am grefydd'. Dyma'r union beth sy'n peri bod llenyddiaeth erioed yn ymestyn tuag at bobl a phethau mewn math o Deyrnged ddwys ar sail gwerth. Bod ysbrydol dirgel yw Duw, er bod yr ysbryd hwnnw yn 'farwanedig' bresennol ym mhob unigolyn o ran perthynas, adeg ei eni. Ac y mae'r ysbryd 'marw' hwnnw'n canlyn pawb, gan gynnwys llenorion seciwlar. Dyma hefyd sy'n amodi ac yn diffinio prif awdurdod bywyd pob dyn, hyd yn oed *Fi/fi*. Cofier: mae natur sylweddoliad Duw yn amrywiol. 'Crea' dyn bob math o ddisodliadau: i rywrai, eu bol yw eu Duw, ac yn eu barnu. Ond mae'r Ysbryd wedi cyflyru arwyddocâd gwerth mewn llenyddiaeth.

Gwreiddir anocheledd hyn yn amlwg iawn yn y Wraiddgyfundrefn gyntaf, sef yr Absoliwt a'i Arfaeth: *Crëwr/creedig* yn begynau dwfn. Daw awdurdod y gyfundrefn arbennig honno i lawr drwy gydol holl strwythur yr hierarci. Dyma'r cynllun nas adweinir. Pery i lawr drwy'r Sfferau Deddfog i lawr i'r Cyfundrefnau Thematig a'r motiffau o'r diwedd, ac yn ôl wedyn. Saif *Bod/bod* mewn perthynas rhwng safleoedd eraill. Er bod y berthynas *Bod/gwneud* yn llorwedd mewn amser, ac yn weithredol, mae hon hefyd yn safleol, ac yn rhan o'r un berthynas fertigol. O safbwynt y llenor difrif seciwlar, y mae'r Wraiddgyfundrefn 'Ddeunyddiol gyntaf' — *Absoliwt/Arfaeth* — y termau ffurfiol, (*Duw/dyn*) — yn cynrychioli eithafbwynt cyfeiriol anochel ei feddwl a'i gasgliadau (neu'n fwy tebyg ei ddiffyg casgliadau ymwybodol) ynghylch dyfnder bywyd. Dyma'r cyswllt rhyngddo a 'bwllch yr Absoliwt' neu'r Wraiddgyfundrefn. Ymatebiad isymwybodol ydyw, yn gyntaf, i'w *sensus divinitatis*. Ac felly, dyma gyd-destun anochel sy'n amodi natur ei lenyddiaeth, er ei waethaf. Cyfeirbwynt eithaf bywyd oll yw, mesur gwerth, pwrpas, ac awdurdod, i'r seciwlar megis i Gristion: *Absoliwt/motiff*.

Hynny yw, nid mater i Gristion yn unig yw'r berthynas *Bod/bod*. Cyfeiria 'Duw' yn y gyfundrefn hon hefyd at y 'bwllch' o siâp Duw: 'duw'r dihangwr' sydd yng nghalon y seciwlar: 'byddwch megis duwiau'. Dyma fframwaith anochel i bawb. Dyma'r absoliwt ymarferol y cyfeiria'r llenor seciwlar yn ôl ato, er mwyn sicrhau bod yna ystyr a phwrpas ar gael, o bosib heb yn wybod iddo, yr Absoliwt o ragdyb ffurfiol sy'n caniatáu iddo fyw am funud arall. Hyn sy'n rhoi iddo ef ac i'r Cristion ddifrifwch ac uchelgais.

Gellid, wrth gwrs, drwy ymdrech, ddychmygu ‘anfodolaeth’ fel ffactor diriaethol. Y Dim. Ar hyn o bryd, wrth drafod cynnwys a natur ‘Disgyrchiant’, er enghraifft, trafodir sut y mae’n gweithio a beth yw: gyrrir ambell wyddonydd i synied y gall mai elfennau o anfodolaeth sy’n ei gario. Hynny yw, dyma absenoldeb bodolaeth sy’n dod yn arwyddocaol weithredol iddo. Pe ceid bod rhyw sail i hynny, yna byddem yn gorfod ystyried ‘bodolaeth anfodolaeth’: hynny yw, fe ddôi anfodolaeth ei hun yn ffactor cyferbyniol mewn bodolaeth, ac ni cheid dianc.

Ond y mae yna un esboniad arall yn ddyledus. Wrth geisio lleoli a chyflwyno holl gyfundrefn fras cyfundrefnau gwahunol iaith, llenyddiaeth, a diwinyddiaeth, yr wyf wedi cael fy ngorfodi i gyferbynnu pegynau ac i ddelweddu hierarci ddynol ac i ganfod cyfunrwydd ar ffurf hierarci, megis yn fras:

1. *Yr Absoliwt a'r Wraiddgyfundrefn (yr Arfaeth)*

2. *Un ar ddeg Archgyfundrefn Ffurfiol (oddi wrth yr Absoliwt).*

3. *Sfferau Cyfundrefnol Deunydd: Gwrthrychau Amrywiol Trefnedig Meddwl a Llên (dan yr Absoliwt).*

4. *Themâu a Motiffau ymarferol (drwy ddedol, ac uno enw a berf), eto oherwydd yr Absoliwt.*

Hynny yw, bu’n rhaid cyfeirio at Absoliwt o flaen pob peth ac ar wahân hyd at y motiffau manaf gweithredol creedig. Un term ar y wedd honno ar Dduw yw’r ‘Ydwyf’; yr ‘Ego Trosynnol’ i’r Seciwlariaid, a defnyddio ymadrodd y Ffenomenolegydd amdano’i hun. Y Rhagdyb. Dyma fi yn awr yn sôn am yr Absoliwt drachefn felly mewn cyd-destun arbennig, yr absoliwt dynol. Gwedd arno yw hyn ar waith ynghyd â’r Arfaeth yn y gyfundrefn o Archgyfundrefnau sy’n amodi Deunydd. Nid Person gwahanol mohono, wrth gwrs. Defnyddir y gair ‘Duw’ ar dro yn wyllt, wrth gwrs, ond yr un Person yw. Dyma’r Absoliwt Mewnfodol, yr Un sydd fel pe bai’n gymeriad o fewn Ei gread ei hun. Mae’n ffordd o synied am yr Un sy’n ymrwymedig o fewn Ei Arfaeth ei hun, ac wrth ei phen, ac fe’i cyferbynnir fel elfen mewn Cyfundrefn o berthynas, yn gyferbyniol â dyn. Yn Gariad pur.

Nid sôn yr wyf am yr efengyl Gristnogol yn unig, ond hefyd am yr ymwybod anochel sy’n gweddnewid ansawdd llenyddiaeth ym mhob man, yr anweledig sydd bob amser y tu ôl i’r gweledig, yn y meddwl bach unigol, *sensus divinitatis*. Dyma’r ymwybod o fod o’r golwg sy’n milwriaethu yn erbyn anfod, tan gael ei ‘gymryd yn ganiataol’. Yr awen ddirfodol sy’n gafael mewn llenor, ac yn ei yrru tua chwllwm. Mae’n gwneud estyn posibilrwydd llenyddiaeth yn fwy nag y breuddwydia’r rhan fwyaf o lenorion.

Cyfundrefn egniol yw *Bod/bod* megis *Mawr/bach*, oherwydd yr eithaafion. Cyfundrefn ddeuol y gall y symlaf o ddyinion normal ei dal yn ei feddwl yn sydyn yw hyn. Gellid meddwl yn arbennig ar adegau dwys, am y dimensiwn aml amlwg o bresenoldeb ysbrydol ac arallfydol sy'n ymguddio'n ddirgel mewn ambell ebychiad sy'n rhewi'n rheg mewn llafar cyffredin. Mae'n gyfundrefn sy'n ymgysylltu â phob cyfundrefn arall yn yr hierarci ac yn ein hamgyffrediad dadansoddol. Mae'n cynnwys goddrych a thraethiad, cyferbyniad ac uniad. Ac mae'r Duw dyrchafedig hwn yn ymostwng; fel y gwna dyn creedig a wŷr gariad. Ceir math o gyfuno rhyfedd hefyd — pryder a llawenydd. Bu'r Duw personol dragwyddol unwaith adeg y creu yn coleddu dyn bach yn llawn, ond chwalodd dyn ei fraint drwy'i falchder a'i ddiffyg dibynnu, er y gall ddysgu eto drwy ufudd ostyngeddwrwydd atgyfodi.

Mae Williams yn cyfrif mai Crist y Duw-ddyn yw'r Arwr canolog ym mhob pennod yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ei olwg Ef sydd flaenaf yn ymestyn o'r Arfaeth hyd y gogoniant. Ond yn *Theomemphus*, dyn pechadurus ei hun yw'r arwr, ac un â'i olwg maes o law ar ei angen ac ar yr ateb a ddarparodd Duw iddo. Yn y naill arwrgerdd (*Golwg ar Deyrnas Crist*), y mae *Crist* yn ddigonol orfodol i bopeth, i fywyd a'r greadigaeth, ac yn drech na'r Cwmp dynol. Y Goruchaf yw sy'n plygu'n isel, heb neb yn is: yr unig ateb. Felly y mae'n darparu Absoliwt llenyddol mewn gwerth, trefn a phwrpas. Ffurf arswydus i Bantycelyn yw'r berthynas sincronig 'Bod/bod'.

GWWP I, 23 '*Ei was yw ef, a'i Frenin.*'

Yn y llall *Theomemphus*, y mae *dyn* yno'n annigonol. Mae arno eisiau popeth, eisiau bod yn dduw yn anad dim, ac wyneb yn wyneb â'r Cwmp ac angau, y mae'n suddo'n Ffawstaidd dan bwysau'i wacter. Dyna'r ddau begwn y traethir amdanynt byth a hefyd; a'r berthynas fertigol rhwng dau Berson/person yw'r allwedd i'r Gyfundrefn Gosmig.

Ond wrth gwrs, mae hyn oll o fewn cyd-destun neu amgylchoedd arbennig: cynhenid dda fu dyn ar y dechrau, a'r berthynas rhyngddo a'i Grëwr yn wreiddiol berffaith, yn unol lân, ac yn ddaionus. Roedd yn pwysu ar ddisgyrchiant ysbrydol. Cariad Goruwchnaturiol oedd y Duw hwnnw. A derbyniodd dyn y cwbl o'r Cariad hwnnw yn ddi-ymholiad mewn Gras Cyffredinol. Estyniad rhwng dau begwn y berthynas yw'r Gyfundrefn helaethedig sy'n ymestyn o'r newydd yn *Golwg ar Deyrnas Crist*; o'r Arfaeth, drwy'r Greadigaeth (a'r uchafbwynt mewn dyn), ac wedi'r Cwmp yr Addewid (ar draws y gwrthryfel cyffredin) ymlaen i Ragluniaeth, y Beibl (Duw nad yw'n fud; hanes gwaith Duw yn Israel-y-corff, ac yn Israel-yr-ysbryd), drwy Iechydwriaeth y saint. Dyma undod i gyfres helaeth o 'fân' gyfundrefnau thematig cyferbyniol bob un o fewn y berthynas aruchel. Yn *Theomemphus* a'r

Emynau, canolir a helaethir ar un rhan ganolog yn yr Arfaeth a'r berthynas anrhydeddus hon. Ac wedi'r ethol yn yr Arfaeth gyn-hanesyddol hon a'r creu, cyrhaeddir yr elyniaeth a'r tri cham mawr thematig (wedi'r argyhoeddiad o angen) rhwng Duw a dyn — Cyfiawnhad, Sancteiddhad a Gogoneddiad yn ymhelaethiad cyfundrefnus o fewn yr Achub gan Grist ar gyfer dyn yn ei dlodi ysbrydol enbyd. Hynny yw, rhoddir y dyn bach yng nghyd-destun y potensial Enfawr. Ffurfiâu ar feddwl ac ar fyw yw'r holl berthnasoedd hyn.

Dyma, er hynny, Thema y themâu; Deunydd y deunyddiau, y peth a gollwyd wrth gwrs yn efengyl gymdeithasol bitw'r ugeinfed ganrif a'i moesoldeb amddifad.

GWWP I, 12 *Anfeidrol ras rhyfeddol! Pe tawai amdano ddyn,
Fe'i swniai'r fud greadigaeth, yn ddiau, bob yr un.*

Gras aruthr a oedd ym mhob rhan o'r gerdd, na wyddai hiwmanistiaeth y ddeunawfed ganrif chwaith fawr amdano. Eto, Gras Cyffredin a fu'n amlwg yn y Creu: Gras Arbennig yn y Waredigaeth ac yn gweithio yng ngwythiennau'r unigolyn, nes ei orfodi i addoli, a pherthyn.

Ac yn sgil hyn adferir y ddibyniaeth lwyr ar Dduw. Hyn o eithafrwydd yw cenadwri Pantycelyn.

* * *

Sonia Cosmoleg *Golwg ar Deyrnas Crist* yn ei bennod gyntaf (GWWP I, 3) am y wedd fodlon barhaol ym 'modolaeth' begynol Duw:

GWWP I, 3 *Yr Alpha oedd yn hapus erioed cyn crëu'r byd,
A'n ôl ei fynd yn danllwyth a bery felly o hyd.*

Hunanddibynnol a hunanwireddol oedd.

Yr oedd y Bod yn fod ynddo'i hun, a'r bod creedig yn dibynnu arno, ond wedi'i freintio gan berthynas greedig.

GWWP I, 4 *Jehofa anweledig, Omega, Alpha mawr,
Ymroddodd ynddo ei hunan yn gadarn iawn yn awr,
I ddechrau gwir gymundeb, gyfeillach rhyngtho ei hun
A chreadur pur, rhesymol sy â'i enw'n awr yn ddyn.*

Digyfnewid yw'r berthynas rhwng gwedd ddwyfol y Mab a'r wedd ddynol ei hun:

GWWP I, 5 *Mewn undeb anwahanol, gwastadol i barhau.*

Yn y berthynas *Bod/bod*, un o'r hanfodion rhyfeddaf yw'r modd y mae'r achos yn dwyn ei briodoleddau i fodolaeth yr effaith,

GWWP I, 6 *Priodoliaethau'r Duwdod yn gyfan bob yr un
Mor belled ag oedd bosibl yn berchen gan y dyn.*

Allan o'r digyfnewidioldeb y ddi'r newidiol: allan o'r tragwyddol, amser:

GWWP I, 11 *Duw cariad yw ei hunan p'le bynna'r hedo ei fryd,*

*Mae anfeidroldeb eang yn cerdded trwyddo 'gyd;
Mewn gweithred o drugaredd mae ef yn llawenhau,
Ac yn faddeuwr pechod yn cael ei alw mae.*

Mae'r digyfnewidioldeb hwn yn hanfod yn ei anfeidroldeb:

GWWP I, 21 *'Nól miliwn o flynyddau mewn myfyrdodau syn
Fyth fuasent yn rhyfygu dod i'r dyfnderoedd hyn,
I feddwl bai cyfiawnder yn rhoddi caniatâd
I newid mymryn lleia' o gyfraith bur y Tad.*

Soniais am y ffordd y creodd Duw ddyn yn gyntaf ar ei ddelw ef ei hun. Ymddengys na allai creadur dderbyn mwy o anrhydedd. Ond diau pan ymgnawdolodd ac yr ymffurfiodd Duw ei hun (yn baradocsaidd, mae'n ymddangos) ar ddelw dyn ei hun, dyma gyfartal anrhydedd, o leiaf: yr Ail Adda, y Duw-ddyn, yn Undod. Angen dyn, ei iechyd, a'i wynfyd oedd yr ymostwng hwnnw i Dduw; a'r methiant i gredu Duw drwy ymostwng i'w ddisgyrchiant yn feddyliol, yn ysbrydol, ac yn gorfforol, dyna fu ei gwmp i ddyn. Bellach, yr oedd y Duw mawr ei hun wedi ymostwng yn fach er mwyn datrys hyn. Arddangoswyd rhinweddoldeb aruthrol gostyngeddwydd yr Absoliwt.

Cydbwysir yn gyfarfyddiad y ddwy natur yn y Greadigaeth ac ym modd yr Ail Greadigaeth. Cafwyd fframwaith.

Adferwyd y berthynas a ddathlwyd mor frwdfrydig ynghynt:

GWWP I, 89 *O! ddedwydd ddyn! O! frenin tan y Creawdwr mawr!
Ar gwbl wnaeth ei ddwylo mewn awyr, môr, a llawr;
Ei ddelw ef a'i gyfar, a'i gyfaill tan y ne'
A gaiff megis y mynno gymdeithas ag efe.*

Y pryd hynny yn y creu cyntaf, fe geid presenoldeb Crist ym mhob man, yn y ddaear, y môr, yr anifeiliaid:

GWWP I, 90 *Ond dyn yn enwedigol! Ie, dyn, dyrchafed lef
Mewn Haleliwias dyblyg o'r ddaear gron i'r nef;
Cans dros y dyn 'mestynnodd ef ar y croesbren mawr,
A thros y dyn gorweddodd yng ngwaelod bedd i lawr.*

Nid oes neb yn y Gymraeg wedi dathlu'r cydiad paradocsaidd hwnnw rhwng dyn bach/mawr a Duw yn fwy nag a wnaeth Pantycelyn. Y canolbwynt hanesyddol a rydd ganolbwnc, craidd, trefnreolaeth, ac uchafbwynt i holl hanes y ddaear ac i hanes Pantycelyn yn bersonol.

GWWP I, 5 *Dwy anian mewn un Person briodwyd y pryd hyn,
Fu farw wedi hynny ar ben Calfaria fryn;
Mewn undeb anwahanol, gwastadol i barhau,
Nad allai un creadur fyth arall i'w fwynhau....*

Imaniwel, creadur â'r Duwdod mawr yn un,

*Disgleirdeb ei ogoniant, ei ddelw ef a'i lun,
Yn 'tifedd ac yn bartner, o fod yn un ynghyd,
O'i gwysel a'i ddirgelion, ei barch a'i glod i gyd....*

- 6 *Nid isel gymwysiadau, ond doniau uchel iawn,
I'r natur greadigol y Duwdod oedd yn llawn...*
- 7 *Ond rhad arfaethwyd undeb rhwng naturiaethau yn un,
Y Gair, y Mab tragwyddol, a Iesu perffaith ddyn....*
- 10 *Arfaethwyd corff amdano i'w wisgo o lwch y byd,
'R un natur fai gan Adda, a'i feibion oll i gyd;
Gwir ddyn o sylwedd dyndod (ond pechod), yr un-rhyw,
Ac ynddo yn gartrefu yr hollalluog Dduw.*
- 22 *Cymysgu nef a daear, y Duwdod mawr ei hun
Yn gwisgo cnawd, gwneud amod, a marw tros y dyn.*

Yn yr Arfaeth hon, gwreiddir cyfundrefneg a natur bywyd dyn yn y berthynas ddwy-
anian hon. Mae'n gynhwysfawr esboniadol mewn llenyddiaeth. Ni wn am yr un gyfundrefneg
seciwlar ar gyfer llenyddiaeth yn gyffredinol sy'n amgenach na'r un a ganfu'r llenor William
Williams Pantycelyn ar gyfer ei waith ef ei hun, ac ar gyfer molwyr llawen-drist y Seiadau.
Un o briodoleddau pennaf perthynas o fewn Trefn greëdig yw.

Bydd rhai Rhamantwyr Diwinyddol yn anesmwyth ynghylch 'Trefn', ac yn rhedeg yn
wyllt tuag anhrefn anarchaidd dybiedig *Agape*. Bygythiad yw Trefn o'r fath oherwydd ei
hansawdd unbenaethol. Ond lle y bo ffydd, buan y diylch am Gariad Trefn y Cadw. Nid oes
dyfnach dealltwriaeth o fframwaith beirniadaeth lenyddol na'r hyn a ddarganfu Williams. A
does dim dwywaith nad rhan o'i frenhiniaeth ef oedd cwmpasu'n feddyliol y weledigaeth
gyfundrefnus o Arfaeth Duw ar gyfer hyn. Fel gyda'r Ddeddf, testun Moliant yw Trefn.

GWWP I, 76 *Ac ef a lywodraetha ar bysg y môr o'r bron,
Pob 'hediaid ac ymlusgiaid, pob 'nifail ar y don;
Fe gyrraedd ei frenhiniaeth trwy'r ddaear yma a thraw,
Ar oll a wêl ei lygad, ar oll a wnaeth dy law...*

'Nawr brenin ar y ddaear yw'r hwn oedd gynnau'n ddim

- 78 *Lle dwedodd wrtho ei Grëwr, 'R hyn oll a weli'n awr
O fewn i'r awyr denau, neu yma ar y llawr,
Cai fod yn Arglwydd arnynt, ac er dyfwyn dy hun,
O ddyfnder fy noethineb y creais bob yr un.*
- 79 *Y Baradwys hon rof iti, hi cyfrif it dy hun
I'w gwarchod a'i llafurio, a bwyta ei ffrwyth a'i thrin;
O bob pren bwyta'n eon, yn llawen ac yn llawn,
'Fydd yma drai nac eisiau na bore na phrynhawn.'*

Ac medd dyn:

80 *Myfi fy hun yw'r brenin sy'r awron ar y byd,
A'r llu di-rif o'm cwmpas sy ddeiliaid imi i gyd.*

Y frenhiniaeth hon sy'n esbonio rhychwant llydan diddordebau prydyddol Pantycelyn, ac ymarferoldeb ei lyfrau rhyddiaith. Ni wn am gyfoethocach disgrifiad o waith pob llenor (Cristion neu seciwlar) na'r tair swyddogaeth a ddethlir dro ar ôl tro gan y bardd hwn. Swyddogaethau Crist; a swyddogaethau'r Cristion, dyma'r disgrifiad delfrydol o weithgaredd llenor. Soniai Gruffydd yntau am y swyddogaeth *broffwydol* (er mai synied am letach diffiniad na'i eiddo ef a wna'r Cristion: cyhoeddi gwirionedd yw hynny), soniai Euros am y swyddogaeth *offeiriadol* (o drafod elfennau mawl ac addoliad, ac yn diriaethu'r ysbrydol), a gwyddom oll am swyddogaeth ddiwyllianol *frenhinol* (yn yr angen i fod yn stiward ar y ddaear, gan 'arglwyddiaethu ar bysg y môr a ffrwyth y tir.') Felly'r llenor. Dyma dair swydd pob llenyddiaeth o werth. Ac onid yr un yw'r sefyllfa i'r beirniad llenyddol yntau? Ni chredaf fod gwell lle i ddechrau myfyrdod dwys am lenyddiaeth a'i deunydd na Chyfundrefneg Diwinyddiaeth Pantycelyn, a pherthynas *Bod/bod* a *Bod/gwneud* yn y driolaeth honno sy'n eiddo i'r Creawdwr a'r creadur.

*

*

*

Wrth olrhain themâu cyfundrefnol o fewn Archgyfundrefn y berthynas *Bod/bod*, mae natur yr ymostwng neu'r ufudd-dod uniongyrchol yn allweddol ar gychwyn pob darlleniad. Ymostwng yw hanfod perthynas berffaith *Bod/bod*. Yn wir, i feirniad llenyddol, ymostwng yw'r allwedd i werthuso. Y ddeuliaeth hon yw'r hyn fel y gwelsom a geir yn y ddwy natur mewn un Person. Felly y saif cyfundrefnau megis *dyn/daear* (greedig), gyda'r brenin bychan yn ffrwytho drwy chwys ei wyneb, yn diwyllio, yn trefnu, yn llywodraethu (ac yntau'n Stiward) y ddaear sy'n ymostwng iddo; *dyn/cymydog* wedyn neu ddyn a'i gyd-ddyn, ac wrth gwrs *yr aelod/yr Eglwys*, yn ymostwng i'w gilydd: yn gyfundrefn(au) cymdeithas; ac yn gysylltiedig â hynny, cymdeithas arbennig priodas *gwryw/benyw* eto mewn cydymostyngiad i'r Brenin mawr.

Mae yna ddau reswm fod yna duedd wedi tyfu ymhlith rhai Cristnogion Beiblaidd yn y cyfnod diweddar i ymwrthod â'r frenhiniaeth ddiwylliannol. Cafwyd teimlad o atgasedd at y 'byd' syrthiedig sydd ar wahân i Dduw gan ymddwyn yn bietistig, yn fynachaid neu'n feudwyaid tuag at gyd-ddynion. Dyma'r pridd y daethant ohono, ac a gwmpodd gyda hwy

oddi wrth yr Absoliwt. Hynny yw, ceir dau reswm pam y mae hen duedd gyffredin i wneud crefydd yn breifat, yn rhywbeth a wna dyn â'i unigedd, ac wrth gwrs yn bersonol neilltuedig gyda Duw.

Yn hanfodol, camddeallir y gair 'byd'. Fe'i defnyddir ar gyfer y blaned greedig ar y naill law. Fe'i defnyddir weithiau i olygu'r 'bydol', y cnawdol amddifad, y materol a'r allanol. Ac fe'i gwrthodir oherwydd problemau diamheuol hynny. Ni lawenheir o'r herwydd fel y dylid yn y greadigaeth syrthiedig. Fe'i hamherchir. Ond ymhellach, ac yn fwy difrifol, ceisir didoli'r ddau orchymyn i garu Duw ac i garu cyd-ddyn fel petaent yn cystadlu â'i gilydd, neu'r cyntaf yn llyncu'r olaf. Anogir dewis. Nid oes amser, tybir, i wneud y naill ynghyd â'r llall. Rhaid cael blaenoriaeth, wrth gwrs. A rhagwelir peryglon difrifol dyneiddiaeth ymwithgar amddifad yn ogystal â phietistiaeth breifat, lle mae'r ail yn llyncu'r cyntaf.

Yr hyn a ddatguddir yn y Beibl, a safbwynt Williams sut bynnag, yw bod yr hyn a wneir i helpu'r lleiaf o'r truenusion hyn, fe'i gwneir er clod iddo Ef. Cyflwr rhoddedig yw'r cariad at Dduw. Proses weithredol darddedig yw cariad at gyd-ddyn. Rhan yw'r ail o'r cyntaf, gwedd angenrheidiol yw tynnu'r sylw penodol a phwysleisiol drwyddo Ef ati hi.

Mae Ef yn ymostwng, dyna un o baradocsau blaenaf Duw.

Mae a wnelom unwaith eto â Phenarglwyddiaeth awdurdodol Duw a Sancteiddhad, a llawnder Cariad. Nid hawdd yw bod yn wylidwrus ynghylch yr hyn sy'n ymddangos mewn dau ymrwymiad gwahân. Sylwer ar ragoriaeth ostyngedig y Crëwr mewn Cariad aberthol at y creedig; ond y mae perygl yr un pryd i'r Gwaredwr ddisodli'r Crëwr a'r Arfaethwr. Mae'r cyferbynnu'n ddilys, ac eto yn galw'n gyson:

GWP II, 270 *Ti wnest fwy mewn un mynudyd
Nag a wnaethai'r byd o'i fron...*

GWP II, 275 *Gorchudd ar dy bethau mawrion
Yw teganau gwag y byd;
Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd
Yw'm pleserau oll i gyd;
Gad im' gloddio trwy'r parwydydd
Tewion, trwodd at fy Nuw,
I gael gwel'd trysorau gwerthfawr
Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.*

Ond plentyn Duw yw'r greadigaeth hithau:

GWWP I, 4 *Yn nyfnder tragwyddoldeb beichiogodd Duw ei hun ...
I gael ei chyflawn esgor er clod i'w enw ef.*

Mae'r ddaear o hyd yn datgan gogoniant Iôr. Y bod a'r Bod.

Ceir cân o fawl i fawredd y Greadigaeth yn *Golwg* GWWP I 88-89. Ond oherwydd cwmp dyn, swydd Iesu Grist oedd ei hatgyfodi hithau hefyd: GWWP I, 89 drwy'i Gariad.

Gosodwyd dyn, felly, hyd yn oed ar ôl y Cwmp (e.e. amser Noa), i fod yn Frenin ar y ddaear hon yn ddirprwyol:

GWWP I, 8 *Ordeiniwyd dyn godidog ar ddaear lawn i fyw,
Yn frenin ar y cwbl, ei hun 'r un lun â Duw;
A'i wisgo â pherffeithrwydd, ac iddo gyfaill de,
Mwy hardd nag un creadur a welid tan y ne'.*

Dyna gyfrifoldeb sy'n parhau. Ond y mae'r creadur wedi ei ddifwyno'n enbyd, fel y sylweddola'r unfed ganrif ar hugain yn fwy globol na'r un ganrif erioed efallai.

Trafodir ymhellach ymlaen yn arbennig yn y Ddegfed Archgyfundrefn, — o dan bennawd y Gorchymyn Diwylliannol — ddarostyngiad swyddogaethol y ddaear. O'r dechrau cyntaf, sylfaenwyd perthynas ryfeddol ymarferol rhwng Duw a dyn. Y berthynas wryfol honno yw'r anrhydedd fwyaf yn y Greadigaeth. Y symud hwn yn ôl ac ymlaen yn doredig-barhaol rhwng y ddau begwn hyn sy'n sefyll yn gefndir i'n her bresennol thematig megis tarddiad llên ei hun: Mawl.

Ond beth yn union yw ystyr bod dyn wedi'i greu ar lun a delw Duw?

Yr ym yn gwybod am rai o nodweddion rhinweddol dynoliaeth, megis maddeuant, hunanaberth, gramadeg iaith (Logos), rheswm, ymwybod o hunaniaeth, ac yn y blaen. Ond cofiwn fod rhai o'r rhain eisoes i ryw raddau yn eiddo i anifeiliaid eraill. Eto ni ellir llai na synied fod yna dair nodwedd, o leiaf, yn benodol ac yn unigryw sy'n unigoli dyn a'i osod ar wahân i'r bodau eraill. Yn gyntaf, ei ysbryd, ac yn ail ei statws, yn drydydd ei swyddogaeth driol. A'r rhain a ddyrchefir gan Bantycelyn. Ni sonnir am yr un anifail amgen yr anadlodd Duw ei ysbryd ei hun ynddo. Dyma fawredd cynhenid diwinyddol Theomemphus. Ei fraint fuasai gwybod Pechod. A phan fywhâ ysbryd y Cristion, pan ailenir ef, fe adferir bywyd yr ysbryd fel na bo dan lywodraeth eithaf Pechod. Pan geir ffrwythau'r Ysbryd, yn gyntaf, blas Duw sydd arnynt. Nid Gras Cyffredinol yn unig yw fel sydd gan yr anghredadun neu gan anifeiliaid eraill. Ffrwythau ydynt er gogoniant i Dduw. Ac yn ail, nid oes yr un anifail a gafodd ei osod i fod yn frenin ar y ddaear megis dyn, ac yn arbennig y dyn sydd yng Nghrist. Mae ganddo botensial. Fe'i mawrygir. Hyd yn oed yn ei ystâd syrthiedig, oherwydd Gras Cyffredinol, erys rhai o briodoleddau y dyn gwryfol ar yr anghredadun ymwybodol o hyd.

Mawredd dyn a mawredd Duw: yn wyneb y cyswllt hwn dychwelwn ymhellach at ddysgeidiaeth fythol Pantycelyn am y Gyfundrefn Biwritannaidd arwyddocaol mewn cymeriadaeth (neu gynddelweddaeth gyffredinol) — ynghylch tair swyddogaeth Crist, sef

Proffwyd (Act 3:22), Offeiriad (Heb 5:6), a Brenin (Salm 2:6; Luc 1:33), yn benodol gan Gyffes Westminster, Pennod 8, Adran 1; a thair swyddogaeth gyfatebol fertigol y Cristion ei hun megis drych iddo.

Yn y berthynas *Bod/bod*, un o'r gweddau a drafodir mewn Diwinyddiaeth Brotestannaidd ers tro yw adlewyrchiad tair swyddogaeth y Mab yntau yn y Cristion ei hun — sef *Proffwyd/Offeiriad/Brenin*. Dyma galon y swyddogaethau ymarferol a briodolir yn grwn ac yn gydlynol gynhenid i Grist. Gellid synied mai delwedd y Brenin yn unig o blith y triawd sy'n arwyddocaol ym *Mawr/bach*. Ond dyma — mewn Protestaniaeth, a chan Bantycelyn — y tair swyddogaeth a ganfyddir ym mywyd y Cristion yntau: y triawd dynol yn cyfateb i'r Triawd Dwyfol. Dyma fwy na strwythur neu gyfundrefn. Dyma uniaethu o fath personol.

Yn ogystal â'r triawd dywed *Mawr/bach* rywbeth hefyd am natur Person Crist ei hun ac am ei waith rhyfeddol: gostyngeddwydd y Duwdod mewn dyn, yn y tair swydd a drosglwyddir.

Dyma gyfundrefn weithiol a gaiff sylw cyson a go arbennig ganddo, ond carwn dynnu sylw at ei duedd fwy nag unwaith i gyplysu yn baradocsaidd y cysyniad o Frenin yn o agos â safle'r Gwas.

GWWP I, 52 *Ond y rhyfeddod mwya' i'r Tad roi ei Fab ei hun,
Mynwesol Fab ei galon i wisgo natur dyn ...*

55 *Ac byth ni allem gredu mewn darostyngiad faint
Oni buasai it fynegi' cans gormod oedd y faint*

Dyma un o gyplysiadau paradocsaidd *Mawr/bach* Duw a dyn. Mae ar gael o fewn cymeriad Duw, rhwng y Personau, ac yng Nghrist, megis yn y Cristion (y pechadur meidrol). Drwy fod yn Was y deuir yn Frenin. Pan ddown i ymdrin â'r Sfferau Sofran yn benodol ymhellach ymlaen, a phan ddaw'n bryd inni sylwi ar y Gyfundrefn Arbennig sy'n diffinio 'Diwinyddiaeth', ceisiwn ddadlau mai'r union gyfundrefn *Fawr/bach* hon *Proffwyd/Offeiriad/Brenin* yw'r glustnod amgen. Wrth i'r Hierarci oddi uchod gyrchu o du'r Absoliwt, i lawr drwy'r Archgyfundrefnau, cyferfydd â hidlydd o Sfferau Sofraniaeth (Sfferau Sefydliadol Deddfog Dooyeweerd). Daw i'r fei felly yn feicrocosm. Dyma'r groesffordd lle y mae'r Cyfundrefnau Cyffredinol i ddynoliaeth oll yn ymwahanu yn ôl doniau a diddordebau a gras arbennig yr unigolyn, mewn meysydd arbennig, sydd bob un yn hunanlywodraethol oherwydd meddu ar ei ddeddfau ei hun. Haenen y dewis yw o flaen y Mynegiant, yr wyneb yn wyneb bach. Yn y fan hon, caiff pob un o'r Sfferau hyn archgyfundrefn ddeunyddiol benodol. A'r Brif Gyfundrefn bersonol, sy'n diffinio Sffêr

Diwinyddiaeth neu Dros gynoldeb yr Absoliwt, yw'r swyddogaethrwydd *Proffwyd/Offeiriad/Brenin*. Cynhwysir yr holl sfferau unigol o fewn Sffêr fawr yr Arfaeth. Yr Un drwy'r Amryw. Yr Amryw mewn Un yn ymarferol.

Y 'Proffwyd' Pantycelyn sy'n cyhoeddi'r gwir. Yr 'Offeiriad' Pantycelyn sy'n cyflwyno aberth moliant. A'r 'Brenin' Pantycelyn sy'n diwyllio'r tir drwy farddoni ac arwain a byw'n gyflawn gymdeithasol feddyginiaethol amaethyddol er clod i Dduw. Felly y ceid yr adlewyrchiad mewn dynoliaeth ar ddelwedd y Mab. Oherwydd, yn nhrobwynt y Deunydd y cyfarfyddwn â dyfodiad Gras Arbennig am ben Gras Cyffredin. Yma yr ail-ymuna Bod â bod, Duw a dyn. Williams a'r Iesu.

Mor gynnar ag A 67 fe gân Williams,

*Ces wel'd mai'r Oen yw'm Brenin bra',
Fy Mhroffwyd a'm Offeiriad.*

Patrwm y Mab (Oen Duw) a rydd y patrwm swyddogaethol i Sffêr gweithgarwch y Cristion yn awr. Derbynia swyddogaethau hyn drwy ufudd-dod.

Sylwer yn *Golwg ar Deyrnas Crist*:

GWP I, 20

*Ac yno tyngwyd Iesu, yn Archoffeiriad mawr,
I farw tros y bobol a gredent ar y llawr.
Y Tad ei hun a'i tyngodd, 'Offeiriad wyt', 'be fe,
'N ôl Aaron ar y ddaear, Melchis'ec yn y ne'.*

Mae'r etifeddiaeth swyddogaethol hon a nodir ar gyfer y Cristion hefyd yn y fan yna yn dod ag arwyddocâd go gyrrhaeddbell, wrth gwrs, pan ystyrir (yn ein hoes ni) y gyfundrefn *aelod/Eglwys*, a'r ffordd y ffurfir neu y penderfynir y rhain. Crynhoir lled y swydd gan Galfin (Inst. IV, xviii, 17): 'Gelwir Cristnogion oll yn "offeiriadaeth frenhinol" oherwydd drwy Grist y cyflwynant offrwm aberth moliant y sonia'r apostol amdano, ffrwyth ein gwefusau i'w enw (1 Pedr 2:9; Heb. 13:5).' Rhaid bod yn wylidwrus wrth gwrs o Sefydliadaeth neu o 'swyddogion' sy'n ceisio monopoli detholedig i offeiriadu, i freniniaethu, neu i broffwydo, boed ar seiliau rhywiol neu beidio, gan fod yr Ysgrythurau'n priodoli'r termau hyn yn uniongyrchol ddiwahân i bob Cristion.

Yn y gyfatebiaeth Ddwylfol/ddynol hon, y mae'r Bod o Dduw yn ei argraffu'i hun ar ddelw'r bod o ddyn.

Mae'r tair swyddogaeth a enwir gan y Beibl, ac a welsom gan Bantycelyn, fel y tair swyddogaeth a geid gan Grist, yr Hwn a ddaeth ar ddelw dyn, ac a etifeddwyd yn eglur gan bob Cristion mabwysiedig a grewyd ar lun Duw, (ac yn llai eglur yn eu cyflawnder gan seciularwyr), yn gosod dyn o'r neilltu ymhlith creaduriaid daear. Y rhain yw ei fwynhad. Dyma'i statws, a'i gynddelwau. Mae'r term 'Proffwyd' wrth gwrs yn y Beibl yn golygu mwy

o lawer na datgan argoelion am y dyfodol. Gan y Proffwyd y ceir yn anad dim y gallu i ddatgan y Gwirionedd yn ddadansoddol ysbrydol. Gan yr ‘Offeiriad’ y ceir y gallu i addoli a moli. A chan y ‘Brenin’ y mae’r hawl i lywodraethu’r ddaear a’i ffrwythloni er gogoniant i Dduw.

Yn fyr, hyn ynghyd sy’n caniatáu fframwaith y berthynas lawn bosibl rhwng dyn a Duw, eu cyd-ddelw unol, pleser uchaf y ddaear hon, heb yr un haeddiant gan ddyn ei hun. Meddai yn *Golwg ar Deyrnas Crist*,

GWWP I, 4 *I ddechrau gwir gymundeb, gyfeillach rhyngtho ei hun
A chreadur pur, rhesymol sy â’i enw’n awr yn ddyn.*

Yr oedd hyn yn wreiddiol yn Ras Cyffredin; y Greadigaeth. Duw yn y byd.

Soniai Williams yn ei ragymadrodd i ail argraffiad *Golwg ar Deyrnas Crist* (GWWP I, 2) ‘Mi chwanegais 100 o wersi [llinellau] ynghylch creadigaeth Dyn, ar ba ben bûm yn rhy fyr yn yr argraffiad cyntaf wrth ystyried mai dyma’r rhan ardderchocaf o’r creadigaeth.’

Sylweddoliad dieithr efallai oedd hyn i rai o’r efengyleiddwyr hwythau ar y pryd, a dueddai eisoes i gefnu ar y Greadigaeth wrth gofleidio’r Waredigaeth.

Rhyfeddol fel yr oedd Cristion ailanedig, mewn ffordd wahanol i Grist ond yn berthynol, yn derbyn yr un tair swyddogaeth â’r Duw-ddyn ei hun. Fel y mae gras yn symud o’r uchod i’r isod yn y berthynas *Duw/dyn*, felly yn y swyddogaethau hynny. Drych graslon yw swyddogaethau Cristion i’r rhai sydd gan ail Berson y Drindod.

Ym Mhennod 6, Rhan 2, *Golwg ar Deyrnas Crist* yn anad unlle y cyflwynir Crist i ni fel *Proffwyd/Offeiriad/Brenin*. Dyma brif gyfundrefn Sffêr Diwinyddiaeth (neu Ffydd) ynghylch swyddogaeth y Duw-ddyn.

Rhan 2: Offeiriad (GWWP 1, 158-161) trefn Aaron a threfn Melchisedec (160)

3: Brenin (GWWP 1, 161-167)

4: Proffwyd (GWWP 1, 168 yml.)

[6: Barnwr Un o Sfferau Deunydd] Ceir naw cyfeiriad at Iesu Grist yn ‘archoffeiriad yn Urdd Melchisedec’ yn Heb. 5-7. A dyna sail Pantycelyn.

GWWP I, 160 *‘...n ôl urdd Melchi’sec fawr
Gynt a fendithiodd Abram mae e’n bendithio’n awr,*

Yn eiriol ei ddioddefaint a’i angau ar y Gro’s.

Cuddir y gyfundrefn driol yn y pennill:

GWWP I, 23 *A Iesu, fy Nghyfryngwr, sydd felly oll o’m Tad,
Y cwbl mae’n feddiannu sydd trwy ei ordinhad;*

*Ei Was yw ef, a'i Frenin, ei 'Ffeiriad mawr di-feth
Ei Broffwyd a'i Flaguryn, a'i 'Tifedd o bob peth.*

I mi, y mae'n gryn ryfeddod bod tair swyddogaeth neu dair cynddelw y Cristion gan Bantycelyn (a'r Beibl) hefyd yn cyfateb i dair gwedd pob llenor cyflawn fel Williams yn rhinwedd y dasg lenyddol driphlyg honno. Hyn eto sy'n cadarnhau i mi mai Diwinyddiaeth yw Gwraiddgyfundrefn Beirniadaeth Lenyddol. Tarddodd llên mewn addoliad.

Mae'r swydd frenhinol yn arbennig o amlwg ym mhennod gyntaf y gerdd, a'r swyddogaeth offeiriadol a phroffwydol yn cynyddu fel y mae'r hanes yn datblygu drwy'r Cwmp a'r angen anfeidrol: felly gyda dyn hefyd.

GWWP I, 79 *Ac arwydd it o hynny [sef o'r rhodd o Baradwys ac arglwyddiaeth dyn]
tydi gai weld yn awr
Bob 'deryn yn yr awyr yn disgyn yma 'lawr,
Pob bwystfil, pob ymlusgiad, a phob anifail glân
Yn dyfod i gael enwau, a 'mostwng o dy flâ'n.

A thrwy awdurdod dwyfol, fe welid dau a dou
[Tybed onid hiwmor Pantycelyn yw 'dau a dou'?]
O adar a 'nifeiliaid yn union yn crynhoi,
Ac yntau, yn ôl eu natur, a'u henwai'n addas iawn,
Cyn pasia'r bwystfil heibio fe gafai enw llawn.
[Ymddengys fod y pennill hwn oll yn fwriadol smala]*

Athrawiaeth y frenhiniaeth yn y fan yma yw'r rheolaethol a ddethlir, gyda'r gorchymyn diwylliannol a roddwyd i Adda, megis i Noa, ac yn y Salmau, ynghyd ag athrawiaeth sancteiddhad, yn sylfaen i Ras Cyffredinol a'r ddysgeidiaeth Gristnogol am ddiwylliant.

Y mae Pantycelyn yn ymwybodol o'i gyfundrefneg hon, ac eto'n gallu'i defnyddio'n fwy ystwyth mewn modd effeithiol.

GWWP I, 163 *Eneiniwyd ef yn frenin, yn broffwyd, ac yn was*

Fe geir Crist hefyd yn filwr o frenin 163-164, yn farnwr o frenin 164, ac yn frenin ar natur 165. Ond y crynodeb cyffredinol mwyaf cyson yw Offeiriad, Proffwyd a Brenin.

Mae trefn y cyferbyniad eithaf (a chyfundrefnwaith) hwn oll yn deillio yn y bôn o Frenhiniaeth Crist, coron y triawd. Cyfraith rasol yw trefn —

GWWP I, 164 *Yn gosod cyfraith newydd i reoli'r nwydau 'gyd,
'Sgrifennwyd yn y galon gynt yn nechreuad byd;
Gwneud deddf y ddraig yn chwilfriw, bob iota fach o'r bron,
Ag oedd yn llwyr reoli o'r blaen y galon hon.

A thyma'r gyfraith rasol sy'n gyflawn yn rhyddhau
O angau du a phechod, ac ofon cas a gwae;
Deddf ysbryd bywyd ydyw, ei llais nefolaidd clywn
Yn trefnu a rheoli'r creadur oll o'i mywn.*

165 *Ond cariad yw pob trefen, ac ysgafn yw pob iau, ...*

Mae'r tinc hwn yn asgwrn cefn, wrth gwrs, i ddwy arwrgerdd Pantycelyn. Hwn yn wir yw'r cnewyllyn cynllun sy'n rhoi cywair i'r canu.

Yn yr emyn enwog 'Arnat Iesu, boed fy meddwl', ceir y llinellau:

*Iesu'n ffrind, a Iesu'n briod,
Iesu'n gariad uwch pob rhai,
Fe yn broffwyd i fy nysgu,
Fe yn 'ffeiriad faddau 'mai.*

Eto: *Dacw'r Brenin yn ei degwch ...*

neu *Pur ganiadau i Frenin Seion, ...*

Cyfundrefn gadarn yw hon, os yn isymwybodol, elfennaidd weithiau. Cyfundrefn oedd i'r Duw/ddyn ei hun gael perthynas ddeunyddiol, ac i bob un o'i blant. Ond yr oedd hyn hefyd yn anrhydeddu dyn yn ei undod â'r Duwdod.

Diau fod Williams wedi cael arddeliad ar fawrygu ardderchowgrwydd dyn. Er gwaetha'r Cwmp yr oedd wedi gweld digon o ddynion naturiol, heb sôn am brydferthwch cynifer o saint, fel y gallai byncio gyda chryn argyhoeddiad:

GWWP I, 75 *Ond Dyn sy'n fyd ei hunan, ceir gweld y Brenin mawr
Yn hwn yn fwy gweledig na dim o'r nen i'r llawr;
Fel pe na bai beth arall ddatguddiai fath yw Duw
Gwneuthuriad dyn ddangosai ei hunan pa fath yw ...*

86 *Ond ei ddoethineb rhyfedd, a'i allu mawr yn un
Yn fwy nag mewn dim arall a welir yn y dyn.*

*Mewn harddwch anghymharol, mewn ardderchowgrwydd gwir;
Mewn breiniol, wych awdurdod; mewn diniweidrwydd pur;
Yn noethion, heb ddim c'wilydd; yn berffaith, heb un bai,
Nac achos benthyg gwisgoedd y creodd ef y ddau ...*

87 *A Duw'n bodloni'n rhyfedd yng ngwaith ei ddwylo ei hun
O eitha'r nen i waered, yn bennaf yn y dyn.*

Mawr oedd ardderchowgrwydd Duw yng nghyweinder y ddaear, ond drych oedd mewn dyn hefyd. Mawr, er gwaethaf popeth, yw dyn, ar ddelw Duw. A hyd yn oed nawr, yn arbennig yn y gell a'r DNA a'r atom a'r electron heb sôn am anferthedd dyfeisgar y bydysawd a'i dipyn deall o hynny, o sylwi ar ddyn, nid ydym ond megis wedi dechrau rhyfeddu at yr orchest y tu hwnt:

88 *Mae megis nefoedd arall gan hardded yw ei lun,
A'i frenin yn ei ganol, yr ardderchocaf ddyn.*

Adeiladwyd ef o ddwy ran *corff/ysbryd* rhyfeddol i fod yn undod cyflawn, er colli'r undod i raddau helaeth yn y cwmp, ac felly mewn marwolaeth yn fwy penodol byth. Mae darlun y Cristion o ddyn yn fwy o lawer nag eiddo'r dyneiddiwr.

Cyfundrefn o gyfundrefnau yw'r corff ei hun (a'r ysbryd). Cawsai Pantycelyn yntau fwy o gyfle na'r rhelyw i wybod am eu manion syn. Yr oedd ganddo gefndir meddygol ymroddedig, a ddaeth yn rhan o'i waith beunyddiol brenhinol. Ac ar ôl dysgu'i grefft, bu'n ei hymarfer am ychydig yn ei gynefin cyn iddo ddechrau efengylu. Hyd yn oed wedyn, tan ddiwedd ei oes, ar ei deithiau hirfaith lawer, gloywai ei sgiliau mae'n debyg a'u hymarfer ar dro mewn tyddynnod yma ac acw ar hyd a lled Cymru wrth wasanaethu'r praid. Rhyfeddai at ddynoliaeth. Y diddordeb gwybodus hwn sy'n esbonio i raddau natur y cyfeillgarwch rhyngddo a Dr William Read o Bont-y-moel a natur ei ddarllen. Yr oedd undod organau'r corff yn gyfosodiad i'r holl gyfundrefnau ysbrydol y bu'n rhaid iddo'u trafod hefyd. Yr oedd dyn ei hun yn bersonol mor weladwy amlwg yn undod, yn gyfundrefn fawr gywrain. Yr oedd yn cynnwys nifer o 'fân' gyd-gyfundrefnau megis cyfundrefn y gwaed, cyfundrefn imiwnedd, cyfundrefn treulio bwyd, cyfundrefn y cyhyrau, a'r gyfundrefn nerfau, a llawer arall, a'r cwbl yn arwain i lawr at gyfundrefn y gell:

GWWP I, 107 *Gynifer nerf a gewyn, gwythïen, arteri
Yn deall am eu lleoedd yn ddistaw yn y bru.*

Thema'r gyfrol hon yma yw bod undod *meddwl* ac ysbryd Pantycelyn hefyd yn gyffelyb, yn fawr a mân, i undod y corff. Cysgod yw cyfundrefnu'r corff o gyfundrefnu'r ysbryd. (Ymhlith ymdriniaethau meistraidd eraill yn ei gyfrol ardderchog *Bread of Heaven*, Eifion Evans, Bryntirion Press, 2010, 17-21, ceir trafodaeth benigamp ar feddyginiaeth gan yr awdur. Yr oedd yn ddrwg gennyf na allwn ddefnyddio llawer mwy ar y gyfrol honno a gyrhaeddodd ar ôl i mi gynllunio a chwpla'r drafft 'olaf' o'r gyfrol hon.)

* * *

Yn Ail Bennod *Golwg ar Deyrnas Crist*, sef pennod y Greadigaeth, yn Rhan 6, fe'n cyflwynir ni yn orfoleddus i goron y greadigaeth naturiol, felly, sef Dyn. Fe'i hanrhydeddwyd mewn modd arbennig gan y Creawdwr

GWWP I, 76 *Perffeithrwydd y greadigaeth, ei thrysor a'i pharhad ...
Cans dyma'r diben pennaf o wneuthur oll a wna'd ...
Fe gyrraedd ei frenhiniaeth trwy'r ddaear yma a thraw.*

Ond pwysig yw'r cyferbyniad rhwng 'statws' Duw a dyn: y drefn ddwyfol/ddynol. Methiant i ddeall bendith ac ystyr hyn oedd ac yw'r tramgwydd i ddyn bellach:

GWWP I, 81 *Creadur yw creadur, Creawdwr wyt, a Duw.*

Ac eto:

87 *O'i fewn yn meddu gwyddor o feddwl puraidd Duw;
Had yr holl gyfraith foesol oedd yn ei galon wiw, ...
Oddi yno yn cael tawelwch, llawenydd pur, di-drai,
Cymdeithas â'i Greawdwr yn wastad i'w fwynhau; ...
Ac ar amserau hefyd cymdeithas cael ag ef
Gweledigaethau hyfryd o D'wysog mawr y nef...*

Bu'r angylion a'r archangylion yn dathlu creadigaeth dyn:

89 *O! ddedwydd ddyn! O! frenin tan y Creawdwr mawr!
Ar gwbl wnaeth ei ddwylo mewn awyr, môr, a llawr;
Ei ddelw ef a'i gymar, a'i gyfaill tan y ne'
A gaiff megis y mynno gymdeithas ag efe.*

Mae yna berthynas gwbl arbennig felly rhwng Duw a dyn. Y gamp o hyd yw adnabod gorchest hon. Gwaith priodol dyn yw clodfori Duw mewn undeb a dibyniaeth. Dros ddyn y bu farw'r Duw-ddyn. Dewisodd Duw ... 'dlodi, a gwawd ac angau du.' Ac anogir dyn i bwysu ar Dduw am bob cynhaliaeth. Cynllun Duw felly oedd cadw undeb rhyngddo'i hun a'r rhai a allai gilio'n bell.

Eto, y pellter anferth! Y pegynau! Rhyfeddod yw synied o ddifri am berthynas *agos/pell* fel un ffactor allweddol rhwng Duw a dyn, rhwng Un mor aruthr fawr a rhywun mor aruthr fach. Ond dyna'r drefn ryfedd, ac yr oedd Pantycelyn yn ymwybodol iawn ohoni.

GWWP I, 28 *Pa beth yw dyn, fy Arglwydd, 'n enwedig beth wyf fi?
Holl ddynol-ryw, beth ydynt i'w perchi gennyt ti?
Cans uwch, a lled, a dyfnach mesurau arfaethol ras
Nag gall un meddwl gyrraedd, na geiriau ddodi 'ma's.*

Buwyd ar draws y canrifoedd yn aberthu wŷn, geifr, bychod, colomennod. Ac yna, daeth Duw ei hun, ac aberthu Oen Duw, gwyrth o ymadrodd. I hyn yr ymgnewdolwyd. Dyma brif waith offeiriadol yr Arglwydd Iesu Grist. Drwyddo Ef rhoddir grasusau arbennig i'r pechadur edifeiriol.

GWWP I, 105 *Ac fel y gwnaeth im ragor ar ben Calfaria fryn
Nag i un creadur arall sydd ar y ddaear hyn; ...
Ond troswyf fi tywalltodd, myfi lygredig ddyn!
Sydd fyrddiwn lawn ffeiddiach na chreaduriaid un.*

Ymetyb ar ôl y Cwmp:

105 *Ond tros y dyn godidog cair gweld ei ofal ef
Yn rhagddarparu iddo o ddyfnder daer i'r nef,
Na tharo ei droed wrth garreg, na blewyn gwympto o'i ben
Heb berffaith adnabyddiaeth Tywysog mawr y nen.*

Gwelwyd y berthynas arbennig rhwng Duw a dyn felly yn yr Ymgawdoliad. A diau fod Pantycelyn yn cyfrif bod Ymgawdoliad Crist yn wedd ganolog ar Ei Ogoniant.

* * *

Yn ei greadigaeth (Gras Cyffredin) ac yn ei waredigaeth (Gras Arbennig) y deuir i amgyffred natur dyn cyflawn. Ceir llawnder yn ei arbenigrwydd oherwydd y ddwy wedd hyn ar yr Arfaeth. Canfu Pantycelyn ei swydd fel Proffwyd yn neuoliaeth y frain i dystio i'r gwirionedd deublyg hwn. Dyma ran o unigrywiaeth Pantycelyn yn ei waith proffwydol.

Er mor gyfarwydd ac er mor ymddangosiadol syml yw'r cyfosodiad yn y gyfundrefn feddyliol *Bod/bod*, rhaid ei chyfrif yn un o'r cyfundrefnau ymbarél mwyaf arwyddocaol yng Nghristoleg Pantycelyn. Disgwyliwn wrth gwrs i'r naill begwn fel y llall fod yn bur ddieithr i'r dyn naturiol modern: pegwn dyn a phegwn Duw. Ond yn ôl eu safleoedd y cânt eu perthynas ffurfiol. Thema yw'r berthynas: drych hefyd i'r weithred lenyddol.

Ac eto, mae i'r dyn naturiol, bob dyn, ddimensiwn cyn-naturiol a goruwchnaturiol, ac anrhydedd syfrdanol o aruchel yn ei naturioldeb. Mae'r Cristion yn effro iawn i hyn. Fe'i crëwyd wrth gwrs yn wreiddiol berffaith, gan Dduw. Ond drwy anghrediniaeth torrodd ar wahân i Dduw. Drylliwyd y berthynas a'r wybodaeth, a dim ond drwy grediniaeth newydd raslon y ceir ei hadfer.

Pechod trwyadl ddifrif ym mhob rhan o'i fywyd a brofodd dyn, drwy anghrediniaeth (neu ddiffyg dibyniaeth) a balchder hunan-ganolog; sef cyflog anochel marwolaeth, ym mhob gwedd a chymal. Ac ni all dyn drwy'i ymdrechion ei hun nac ohono'i hun, ymadfer na deall hyn. Ceir llawer o nodweddion i Bechod, wrth gwrs: hunanlywodraeth hunanol, anhrefn, diffyg cariad. Ond y canol eithaf yw anghrediniaeth. Dyma'r hyn sy'n gwir ddryllio'r berthynas rhyngddo a Duw, ac yn cael ei rhoi yn ei lle gan Archgyfundrefn dibyniaeth.

Anodd i'r dyn naturiol modern sylweddoli maint Arglwyddiaeth Duw a'i ddibyniaeth grediniol gyfan-gwbl arno. Dibyniaeth yw *Bod/bod*. Dechreua'r dyn naturiol o hyd gyda rhagdybiau am ei gyfrifoldeb, a'i alluoedd, a'i arglwyddiaeth ei hun. Tuedda heddiw yn y Gorllewin i gymryd yn ganiataol nad oes dim y tu hwnt i bedwar dimensiwn amser a lle. Ef biau'r rheini. Rhaid i bopeth gydymffurfio â'i gyfyngiadau, a herio'r posibilrwydd y gall fod yna unrhyw awdurdod y tu hwnt i'w dipyn awdurdod meidrol ef. Gwachul yw yn ei ragdybiau. Isel ei ddisgwyliadau. Cyfyngderau ei feddwl bychan ef yw eangderau ei dipyn Ego trosgynnol ei hun.

Beth felly yw'r berthynas greiddiol bellach rhwng Duw yn Ei berffeithrwydd a dyn yn amherffeithrwydd ei angen? Beth yw'r union gyswllt goruwchnaturiol? Mae'r ateb yn syml

ac yn unffordd yn gyntaf, sef Gras a Chariad Duw. Yn nannedd y Cwmp, y mae Duw yn dal i wasgaru'i Ras unffordd yn helaeth, yn ddigonol, yn rhad ac am ddim, ond yn drefnus, ar ddynoliaeth dlawd, yn Gyffredin ac yn Arbennig. Yn achos Williams Pantycelyn, ac mewn Cristnogaeth Ddiwygiedig Efengylaidd yn gyffredinol, tuedda'r Gras a'r Arfaeth hon a phob dim arall i fod yn Grist-ganolog. Nid oes ystyr i ddweud eu bod yn 'ddeddf-ganolog', gan mai cyfrwng yw'r ddeddf, er bod yna drefn. Yn wir, er nad cwbl anghywir yw synied bod Duw'r Tad a Duw'r Ysbryd Glân yn ymddangos yn ymylog i naratif o'r fath, y mae'r fath dybiaeth yn gwbl arwynebol, ac eithrio cyn belled ag y mae hynny'n wir am y Testament Newydd benbwygilydd. Gwedd ar Ras yw'r Ddeddf. Cyferfydd Deddf y Creu a'r Cadw yn y Duwdod ei hun.

Amltra yw un modd o gael cipolwg ar rychwant amryfal tragwyddol y 'Tad' mawr nefol. Diddorol yw sylwi ar rai o'r teitlau eraill a dadogir ar y Tad ei hun, mewn perthynas â'r Mab. Drwy'r amlweddath honno ceir lled awgrym o fawrhydi Duw.

GWWP I, 4	<i>Jehofa anweledig, Omega, Alpha, mawr</i>
17	<i>Cei yma fod yn Goncrwr ac yn Eiriolwr rhad,</i>
23	<i>A Iesu, fy Nghyfyngwr, sydd felly oll o'm Tad, Y cwbl mae'n feddiannu sydd trwy ei ordinhad; Ei Was yw ef, a'i Frenin, ei 'Ffeiriad mawr di-feth, Ei Broffwyd a'i Flaguryn, a'i 'Tifedd o bob peth.</i>
32	<i>Tydi, fy Mab, genhedlais, fy Ngair tragwyddol un, Fy Hanfod a fy Nelw, f'Etifedd a fy Llun; Wel trwot gwnaf y cwblwl, pan dwedech felly bydd; Fy Ngrym, fy Nerth a'm Hysbryd yn dy feddiannu fydd.</i>

Hynny yw, adlais o dair swyddogaeth Duw yng Nghrist yw un cyswllt mawr rhyngddo a'r Cristion ffaeledig. Dyna — gyda 'Gwas' a 'Llun' ac 'Etifedd' — gynnwys unol y berthynas *Duw/dyn*, neu *Absoliwt Mewnfolod/Unigolyn*. Ac eto, wrth gwrs, nid mawredd mewn perthynas yn unig yw o ran maintioli (Ffurf), eithr mawredd ynddo'i hun (Deunydd) o ran ansawdd, mawredd mewn potensial ac mewn effaith.

Neges Pantycelyn fel Proffwyd yn ei ddwy arwrgerdd, yn ei lyfrau rhyddiaith, ac yn ei wybodaeth oedd Cyfiawnhad a Sancteiddhad, Creu ac Ail-greu. Fel y ceir gwir gysylltiad rhwng Genesis I ac Ioan I, felly y ceir cyferbyniad rhwng y geni cyntaf a'r ail eni, Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, Alpha ac Omega. Dyma ddeinameg gyferbyniol y gogoniant drwy Grist yn y berthynas begynol.

'Bydded' oedd gorchymyn cyffredinol cyntaf Duw. A rhodd fawr oedd bodolaeth. Bod-bod. Ond cyn rhoi hynny, Gogoniant ei hun oedd y Duw triol hwnnw a roddai'r

gorchymyn. Felly, cynhwysid peth o ogoniant y Bod Mawr yn y bodoli canlynol o greadigaeth a gafwyd ganddo. Gogoniant oedd ac yw i fod. Felly eto, er i ddyn ymwahanu oddi wrth Dduw, gan dorri'r berthynas fywiol a geid, ni fennodd hyn ddim oll ar *ogoniant* tragwyddol y Duwdod. Mennodd, er hynny, ar berthynas y Duw personol-dragwyddol: bu'n dristwch iddo. Ond digyfnwid yn ei ogoniant oedd ac yw Duw. Felly, o fewn y cyd-destun hwnnw o ogoneddu Duw mewn bodolaeth, y mae'n rhaid inni olrhain holl gyfundrefnau digyfnwid diwinyddiaeth i'w gogoneddu yn Ei wneuthur neu'i weithredoedd. Dathlu hyn oedd diben Pantycelyn mewn bodolaeth.

Gras yw'r ddeinameg fertigol rhwng Duw a dyn: y ddolen a brofir yn y Creu, ac a brofir yn y Cadw. Dyma'r Duw sydd yn dod i lawr, Unigrywiaeth Gristnogol. Nid dyn yn dringo i fyny drwy'i nerth ei hun tua'r Gras ond Duw Mawr sy'n ymostwng i'n tynnu ato. Bid siŵr, byddai anghredadun 'hapus' yn hawlio nad oes lle i'r fath gyfundrefn â *Bod/bod* ddod ar gyfyl ei amgyffrediad ef. Ond y mae absenoldeb Duw ei hun yn ddiosgoi ac yn effeithio ar bob cymal ohono. Tybia'r dyn naturiol mai dyn sydd yn sedd y gyrrwr.

Ond ni ddianc na'r	A. <i>Anghredadun</i>	na'r	B. <i>Cristion</i>	rhag perthynas:
	Bod		Bod	

	bod		bod	

Mae'r A. yn wynebu Bod sy'n ymestyn, ond lle y mae'r bod yn ei uniaethu'i hun yn ddisodlol honedig â'r Bod. Mae'r B. yn cyferbynnu Bod â bod, ond yn darparu dibyniaeth.

Mae'r naill mor arwyddocaol ei phresenoldeb â'r llall, yn gysgod negyddol i'w gilydd. Gan y cyntaf, ceir Gras Cyffredin hunanddigonol; gan yr ail, Ras cyffredinol agored eithr hefyd Ras Arbennig caeedig.

Cafwyd ymgais gan Acwin i uno Natur a Gras, sef y cwlwm rhwng Duw a dyn, neu'r ddau gwlwm, yn gyferbyniad gwahân.

Gras: Duw'r Creawdwr; y nef a phethau nefol; yr anweledig; yr enaid;

Undod

Natur: Y creedig; y ddaear a phethau daearol; gweledig; y corff;

Amrywiaeth

Ond cyferbyniad ffug yw peth felly, sydd fel pe bai heb gydnabod holl bresenoldeb a Phenarglwyddiaeth Duw; neu fel y dwedai Pantycelyn, 'Crist ym mhob peth.' Ym mryd Pantycelyn, y mae Gras ym mhob peth, yn fythol bresennol; ni haeddwyd Natur, — gras yw. A geill ef, felly, ganfod uniaethu Gras Cyffredin a Gras Arbennig.

GWWP I, 107

*Paham na chawsom feddrod cyn im gael enaid byw?
Mi dreng'swn wrth fy ngeni ond o ragluniaeth Duw;
Efe â'i law a'm bwydodd, efe 'm cynhaliodd i
Pan eto'n anweledig yn llechu yn y bru.*

Ynghylch natur enigmatig a dirgel drygioni, ni ellir ond cytuno, ysywaeth: felly y mae bellach. Nid trefn *per se* yw'r unig nodwedd i na moeseg na chelfyddyd. Ond drwy Ras Cyffredinol, trefn yw prif nodwedd sail Tafod a Chyfundrefneg. Pechod hefyd (y Felltith Gyffredinol) yw un o gynhwysion sefydlog celfyddyd ddaearol. Wrth symud i Fynegiant, ymleda'r priodoledau, yn gaeth ac yn rhydd, yn wir ac yn au, o'r herwydd. Drwy'r cwbl, natur Duw, hanfod Ei fod, sef Cariad yw'r Arfaeth. Ni all Ef lai na charu. Gwreiddir Ei ewyllys yn Ei Gariad anfeidrol. Ond ceisiai Rhamantiaeth wneud Rhyddid yn rhinwedd absoliwt iddi'i hun, gan drin y gyfundrefn *Rhyddid/Caethiwed* mewn modd anaeddfed. Aeth cariad yn hen wlanen ddyn-ganolog. Er bod Duw yn 'gaeth' i'w Natur ei hun, wrth gwrs, ni 'allai' ond Duw Ei hun Ei 'ryddhau' i hun', o'i natur gyfiawn sanctaidd. A thrwy drugaredd nis gwna. Eithr 'caeth' i'w Natur yw dyn yntau. Ni all sut bynnag ohono'i hun ei ryddhau ei hun ohoni: Duw yn unig a all wneud hynny. A thrwy drugaredd, fe'i gwna. Felly y canfyddwn weithrediad dirgel goruwchnaturiol Gras Duw yn ei roi ei hun i ddyn bach yn y Greadigaeth ac yn y Duw-ddyn Iesu Grist. Yr un yw'i ras. Mae'n cael ei amlygu yn gyffredin ac yn arbennig, mewn ffyrdd gwahanol (Rhuf. 8: 21), yn dymhorol ac yn dragwyddol, heb alltudio y naill na'r llall o'r gweddau ar yr un peth. Trefn *bersonol* yw'r ddwy natur mewn Un person yng Nghrist.

Dichon nad oes trafferth i dderbyn hyn yn theoretig na'r drefn 'ddeddfol' chwaith. Onid yw Duw wedi gosod deddfau drwy bob rhan o'i gread?

Ond digwyddodd un cyfarfyddiad 'antheoretig' i Bantycelyn a barodd iddo ganu'r cynllun: cafodd fywyd newydd. Ac o'r herwydd, trawsffurfiodd y gyfundrefneg arferol, a llunio Diwinyddiaeth Gyfundrefnol i'w chanu. Yng nghyflawnder yr Athrawiaeth honno, dysgodd ef wers Spurgeon – fod owns o brofiad yn werth tunnell o Athrawiaeth y pen. Ond mor hardd, yr Athrawiaeth. Y mae a wnelo hynny oll, sut bynnag, â maes helaeth mewn Deunydd na cheisir o'r braidd gyffwrdd ag ef yn y gyfrol hon, sef Teimlad, o fewn sffêr Seicoleg, ac wrth grybwyll teimladaeth Rhamantiaeth.

*

*

*

Gweithredol yw brenhiniaeth; llafar proffwydol yw mynegiant o'r gwirionedd; ond sylweddoliad addolgar o berthynas mewn gwahaniaeth enfawr yw ei offeiriadaeth.

Er hyned yw, datblygwyd dadl fawr ynghylch cyferbyniad Acwin *Natur (Gwyddoniaeth)/Gras* ymhellach o'r newydd o fewn Moderniaeth. Ymwrthododd Pantycelyn â hyn. Iddo ef, arhosai'r cyferbyniad *Crewr/y Greadigaeth* yn gyfundrefn arwyddocaol gyfoes fyw. Drwy'r Arfaeth hon, cysylltai Pantycelyn Ras Cyffredinol a Gras Arbennig, *Creu a'r Ail-greu yn un Arfaeth enfawr*, a hynny yn hollol gyfundrefnol — yn yr ystyr fod yna gamre penodol ac iddynt olyniaeth benodol benodedig, a'u cynhwysai hwy ynghyd. Mae'r mater hwn wedi'i drafod hyd yr eithaf ganddo, gyda manylrwydd angerddol a chyda'r gofal dadansoddol angenrheidiol. Yr oedd yn syml syml ar y naill law, ond y tu hwnt i bob deall ar y llall. Doedd dim ymgais i guddio'i fawredd. Camp Pantycelyn oedd trafod Cyfundrefnwaith yn brofiad dwys a meddiannol fyw. Meddyliodd yn ofalus ynghylch cynllun *Golwg ar Deyrnas Crist*. A chynllun oedd a ymwnâi'n benodol â'r berthynas Duw/dyn yn ogystal â Duw/y greadigaeth:

I. 'Plan o ras' Trugaredd cyn bod amser. Caru, sef penderfynu Cadw wrth rag-weld Cwyp dyn.

II Y Mab yn weithredydd pob peth yn y Greadigaeth; a'i ymrwymiad yn y Greadigaeth.

III Cwyp a'r Addewid.

IV Trefn Natur a'i rhyfeddod.

[Ychwanegwyd pennod arall yn ail arg. y gerdd: (Y Beibl), sef y Duw nad yw'n fud.]

V Iesu'n teyrnasu.

Yna'r Iesu'n cyflwyno'r gwaith gorffenedig yn ôl i'r Tad.

O fewn yr olyniaeth fawreddog hon, rhed themâu rhwystrol yn amrywiol eu gweddau ac yn ddeuol gyson a chysylltiol — y fertigol a'r llorwedd:

1. Perthynas bersonol addolgar â'r Crëwr.

2. Ymosodiad ar dri safbwynt rhwystrol.

(i) Diwinyddiaeth Naturiolaid (sef haeru nad oes Crefydd ddatguddiedig ond yn unig mewn Natur).

(ii) Gwadu Dwyfoldeb Crist, a haeddiant ei farwolaeth.

Yn baradoesaidd iawn, wrth gefnu ar ddwyfoldeb y Mab, fe'i trowyd ysywaeth ym myd capeli rhyddfrydol Cymru yn foesylydd dyneiddiol. A bu'r gwyrddroad llipa hwn yn felltith i fodolaeth achos yr Efengyl; ac wrth gwrs i wir sancteiddhad ymarferol (a moesol) yng Nghrist. Nid oedd yn Dduw Goruwchnaturiol i'w addoli.

(iii) Gwadu'r Iawn — unig faddeuant Duw.

Colli perthynas yw gwreiddyn y methu ag amgyffred ansawdd y cyferbyniad *Bod/bod*. Nid gwrthwynebwyd ydynt o anghenraid, hynny yw ‘wrth natur’. Addoli yw'r cyswllt.

Pan sonia'r Cristion am ei gwyp, cwyp yw i'w holl swyddogaethau a'i holl fodolaeth, fel Proffwyd, Offeiriad, a Brenin. Trwyadl yw. Weithiau fe sylwir ar y gyfundrefn ddynol gyflawn a thriol oll yn cwmpo — *Corff/Enaid/Ysbryd*; weithiau yn ddeuol yn unig, *Corff/Ysbryd*, (gan y Cristion), *Corff/Enaid* (gan bawb), yn ôl yr hyn sy'n cael ei drafod ar y pryd. Ymddengys fod yr ‘enaid’ yn cynrychioli'r wedd fewnol ar yr unigolyn. Mae gan bob person enaid a all ymddangos yn fyw: dyna Ras *Cyffredinol*. Ymddengys ar y llaw arall mai Gras *Arbennig* yw'r ‘ysbryd’ byw a newydd, peth a roddir i'r ‘ysbryd’ sy'n farw ynghynt i Dduw, a hynny gan yr Ysbryd Glân ei hun. Dan y Cwyp torrwyd y berthynas ysbrydol gynhenid *Duw/dyn*: roedd y berthynas honno mwyach yn farwanedig. Meddiannwyd y galon, sef craidd bodolaeth y bersonoliaeth (nid y serchiadau'n unig). Dyna ganolbwynt yr holl berson. Fe'i meddiannwyd gan ysbryd y tywyllwch, y bydol (y ‘byd’ weithiau, gan Bantycelyn a'r Beibl), y cnawd. Ar ôl y Cwyp, plant anufudd-dod mwyach yw'r teulu dynol naturiol. Newidiwyd y berthynas. Fe gwypodd pob peth ym mywyd dyn. Enfawr yw'r pechod lleiaf oll, digon i gadw dyn allan o'r Nefoedd, digon i gondemnio'r hen ddaear.

Eithr yr Ysbryd Glân a all fywau'r ysbryd mewn dyn. Yn *Ateb Philo-Evangeliu* (GWWP II, 24-25), medd Pantycelyn, ‘Â'r galon mae credu i iechadwriaeth; bod dynion wedi credu rhyw ffurf o ddifeinyddiaeth, bydded honno mor wir bynnag y bo, os nad yw'r egwyddorion hynny a gredodd ef yn ei ddeall wedi gwreiddio felly yn ei galon, fel y mae ef yn caru Mab Duw, yn gorfoleddu yn ei iechadwriaeth ef, yn ymwadu ag ef hun, codi ei groes, dilyn yr Oen trwy ei holl w'radwyddiadau, nid yw ei wybodaeth ond gwneud iddo ymchwyddo.’

Ond fel y lluniwyd yr holl berson yn gyfan yn y Creu gan holl Fodolaeth Duw, ac fel y collwyd yr holl berson yn y ‘Gwrthryfel Cyffredinol’ chwedl Williams, felly yn y Gwaed, fe achubir y person yn gyflawn (Rhuf. 12: 1-2; Philipiaid 3; 1 Cor: 6: 19). Dyna pam y pwysleisir cyflawnder y ‘person’ gan Bantycelyn, gan gynnwys pob organ yn y corff. Dyna pam na thâl inni chwynnu'r 'Bod' na chyfyngu'r 'bod' yn y dirywiad cyfoes.

Pan achubir, nid achubir y bod yn llawn yn gyntaf onid mewn ‘addewid’, chwedl Williams. Mae'n rhaid i'r ysbryd a'r enaid a gyfiawnhawyd, ac a ogoneddwyd yn y Bod, ddisgwyl iachawdwriaeth lawn i'r corff (Rhuf. 8: 22) gan gyrchu yn syth (pan gwsg mewn angau) i ddeffro, wedi'i dychwelyd yn Nheulu cyflawn y nef. Ac yno eto yr addolir.

Y SEITHFED ARCHGYFUNDREFN: BOD/GWNEUD

(Digyfnwid/Newid; Sefydlog/Symudol)

Dyma gyfundrefn fertigol a llorwedd sy'n cysylltu Duw â'i Arfaeth, yn ogystal â gweithredoedd dyn a gwaith y greadigaeth wrth ei gilydd. Olyniaeth lorwedd mewn amser yw'r Arfaeth sydd er hynny'n bresennol drwy gydol yr hierarci.

Gogwydda *Bod/* at yr enwol *bod*. A gogwydda *Bod/ gwneud* at y berfol. Pan geir Cynllun Cyffredinol cyn-greadigol o'r fath ar waith, gellid disgwyl hefyd Archgyfundrefn yn yr hierarci a gynrychiola ac a weithreda'n drefn ferfol benodol o fewn y grŵp arbennig hwn sy'n ddolen gydiol rhwng y Bwriad a'r gweithredu. Dyna swyddogaeth *Bod/gwneud*. Fel y mae *Bod/bod* yn cynrychioli'r cyswllt personol gofodol rhwng yr Absoliwt a'r Archgyfundrefnau, felly y mae *Bod/gwneud* (heblaw cysylltu'r berthynas â'r Arfaeth) hefyd yn gyfrifol am y cyswllt rhwng yr holl Archgyfundrefnau â'i gilydd mewn gweithrediad amserol.

'Gwneud' yw natur y ddeinameg waelodol mewn Seico-ddeinameg.

Fel pob Archgyfundrefn sy'n werth ei halen, mae *Bod/gwneud* mor isymwybodol anochel nes ei chymryd yn ganiataol. Cysylltwn yn naturiol bron pob 'bod' â 'gwneud', yn enwedig am nad oes byth 'wneud' heb 'fod'. Mae'r cyswllt mor elfennaidd gysylltiedig nes nad yw'n werth meddwl amdano. Ac yn ddisgwyliad isymwybodol sythweliadol, caniatéir i 'bod/gwneud' fod yn archgyfundrefn lywodraethol hynod bwerus, ac yn rhan o'r sylfaen i'n meddwl am ein dadansoddiad o realiti, hyd yn oed er enghraifft yn 'Aros mae'r mynyddoedd mawr'. Y mae popeth a ddigwydd hyd yn oed yn ddidigwyddiad yn rhan o'r 'Gwneud'.

Cynlluniwyd *Golwg ar Deyrnas Crist* gan Bantycelyn gydag ymwybod byw o brosiect ar hyd echel amser. Dramatig yw'r symudiad. Felly rhwng y dechrau a'r diwedd y ceir y cyflwyno gan y Tad i Grist, a'r cyflwyno yn ôl gan Grist i'r Tad. Hanes y byd o'r Cynllunio Gwreiddiol ar gyfer y Greadigaeth, a'r digwydd ymlaen i'r Farn, dyna'r ddeinameg. Mae'r fertigol *Bod/bod* hefyd yno yn berthynas synchronig gyson, a'r llorweddol *Bod/gwneud* hefyd yno yn berthynas ar hyd echel ddiacronig. Mae'n wir, felly, fod y synchronig ar gael ym mherthynas *Golwg ar Deyrnas Crist*, wrth gwrs, ond lledir y naratif yn unol ar hyd echel.

Cafwyd elfen *Bod/bod* yn fwy synchronig amlwg bob cam ar hyd y daith yn achos *Theomemphus*. Dyna'r testun. Eto, er bod y gerdd hon yn bur wahanol, felly — yn ôl perthynas yr Uchel a'r isel, — ni all yr elfen honno ond bod yn ymwybodol gyfredol i batrwm diacronig anochel hefyd, dechrau-canol-diwedd. Y newid ym mherthynas *Duw/dyn* rhwng y dechrau a'r diwedd yw'r ddolen gyswllt iddi eto, y pegynau uchaf ac isaf.

Un o ddarganfyddiadau theoretig canolog Guillaume, darganfyddiad sydd wedi dylanwadu ar syniadaeth ddiweddar ynghylch iaith, yw pwysleisio arwyddocâd amser mewn cyfundrefn. Wedi darganfod y ddeuliaeth Tafod a Mynegiant neu'r potensial a'r effeithiol, sylwodd mai 'proses' yw defnyddio iaith. Yn y weithred o drosi potensial yn effeithiol, neu Dafod yn Fynegiant, ceir meicro-amser. Y mae pob digwyddiad ieithyddol yn gorfodi adeiladu natur 'gair newydd' ar hyd echel amser. Symudir oddi wrth gyfundrefn barod botensial drwy broses o gynrychioli profiad arbennig, gan alw ar y mecanwaith priodol cyfathrebol i ddarparu'r union ramadeg i gyflawni ffwythiant ystyrol, ac i lunio gosodiadau Mynegiant. Mae yna olyniaeth yn y berthynas. Hyn a rydd ddeinamig i'r hierarci lenyddol.

Dyna pam y soniwyd am seico-systemateg iaith fel seico-ddeinameg.

Fel y chweched archgyfundrefn gyferbyniol *Bod/bod*, felly y mae a wnelo'r seithfed *Bod/gwneud* eto â 'pherthynas' y Creawdwr a'r greadigaeth. Ond canolir ar y gweithredu dwyfol yn gyson yn awr, yn fwy nag ar ansawdd perthynas ddynol ar y pryd. Lle y mae a wnelo'r chweched â'r berthynas bersonol a manwl rhwng y Creawdwr a dyn, y creadur, y mae'n debyg hefyd i gyflwr perthynas *Carwr/caru*. Y Grym a'r Gras ar waith. Ceir ar un llaw berthynas yr Uchod a'r is, ar y pryd, sef ymlyniad neu gyferbynnu fel petai mewn gofod, yn synchronig fertigol. Ar y llaw arall y mae a wnelo'r seithfed â'r holl Arfaeth yn ymarferol weithredol, y greadigaeth fywydol ar gerdded mewn amser — y garwriaeth ymddatblygol; ac eto'n drosiadol, y mae'n debyg i berthynas *teithiwr* a'i daith. Y pwynt cychwynnol hollgynhwysol ar y naill law, a'r llinell neu'r hyd a grëir ganddo ar y llall. Y cyflwr a'r broses. Ymlyniad yw fel petai mewn olyniaeth, yn llorwedd. Ac fe geir y cyswllt hwn drachefn mewn perthnasoedd cyfundrefnol megis *Sefydlog/symudol*; *Digyfnewid/newid* a hyd yn oed *Sffêr/thema*.

Yn llythrennol, y mae'r Arfaeth yn cyfeirio at Gynllun gweithredol neu fwriadol ddatblygedig ar hyd echel Amser, ond sydd ei hun y tu allan i Amser, am fod Cynllun haniaethol Duw yn y lle cyntaf yng nghyd-destun Tragwyddoldeb eisoes yn ddiriaethol gyflawnedig.

Mynegiant penodol holl-gynhwysfawr o'r Archgyfundrefn *Bod/gwneud*, dyna yw'r Arfaeth yng ngweledigaeth Pantycelyn. Y mae *Bod/gwneud* wrth gwrs ar waith ym mhob gweithred unigol, ym mhob defnydd o iaith. Pan soniwn am gynnyrch Duw yn yr Arfaeth, cyfeiriwn at y cyflawnder cydynol unigryw. Ond y mae i'r Arfaeth, fel y'i darlunnir gan Bantycelyn, ddechrau a diwedd, ynghyd â thragwyddoldeb cwmpasol. Echel ysbaid amser o fewn tragwyddoldeb yw ei phriod leoliad: prosiect y Mab fel petai. Yn ieithyddol, cyfetyb i'r berthynas frawddegol rhwng Goddrych a Thraethiad, neu'r Enw a'r Ferf: gofod/amser.

Gosodwn y ddwy Archgyfundrefn hyn, 6 a 7, felly gyda'i gilydd, y naill o dan y llall, yr Enw a'r enw, a'r Enw a'r ferf, y Cynhyrchydd a'r cynhyrchu, yr Achos a'r effaith. Ond nid uniaethir y naill â'r llall. Nid y greadigaeth ei hun yw'r Crëwr. Adlewyrchu'r symudiad rhwng Alfa ac Omega a wna'r Arfaeth mewn modd *Anfeidrol/meidrol*. Y cynllun neu'r meddwl ymlaen llaw yw'r Arfaeth cyn y Creu: neu'r 'sgêm' fel y dywed Pantycelyn (GWWP I, 13, 22, 23 a.y.b.). Tarddle'r 'cyfnewidiol' yw y 'Digyfnwid'. Amser yw mewn Tragwyddoldeb, a Thragwyddoldeb mewn Amser, y terfynedig yn yr Annherfynol. Ac y mae myfyrdod Pantycelyn yn ymdroi'n fynych o gylch arwyddocâd *ad infinitum* yr Archgyfundrefn lorwedd ryfedd hon:

GWP II, 311 *Iesu, nid oes terfyn arnat*
 271 *Y mae tragwyddoldeb eang*
 'Nawr yn ddysglair o fy mlaen ...
 Nid oes terfyn ar flynyddau
 Yn y wlad a wela'i draw

Mae perthynas *Digyfnwid/newidiol* hefyd yn hysbys fel trefn ymhlith delweddu Seico-fecaneg Iaith. Fe'i ceir yn eglur o fewn cyfundrefnwaith y ferf, wrth gwrs, er enghraifft rhwng Moddau'r Ferf lle y mae'r Modd Mynegol yn ymrestru fel olyniaeth o *gyfnodau mewn safleoedd* tra bo'r Modd Dibynnol yn cael ei ddelweddu yn ôl lefelau *cyfeiriol* agored.

Gwyddom yn amlwg nad oes modd osgoi gofynion ffurfiol a deallol y pum Archgyfundrefn ffurfiol gyntaf wrth lunio llenyddiaeth nac wrth yngan iaith. Felly nid oes osgoi chwaith ar yr Archgyfundrefnau eraill sy'n eu dilyn, er bod hynny i rywrai yn llai amlwg. Fel y mae'n rhaid i bawb wynebu'r cwestiwn fertigol, rhaid i bawb hefyd wynebu'r seithfed Archgyfundrefn. Bydd pob llenor, cyn llenyddia, yn casglu taith. Ac erys taith gydag ef tra bo'n llenyddia. Y Synchroni a'r Diacroni. Mae pob electron mewn atom ar daith. Y mae'r Seithfed Gyfundrefn fel y Chweched yn brofiadol ddeunyddiol i bawb, a'r un mor ganolog i ffrwythlondeb llenor. Y maent yn gynhenid ac yn cyfrannu yng ngwneuthuriad strwythurol Bodolaeth.

Hyd yn oed os yw'r rhagdybiau dyn-ganolog yn gorfod gwneud y tro (fel *Duw/dyn*) yn y Chweched Archgyfundrefn (wrth ystyried dyn yn absoliwt seicolegol) nid oes osgoi'r cwestiynau a gyfyd y wedd drosgynnol honno ar fuchedd yn ystod y daith wedyn. Nid y dyn unigol yn unig sy'n penderfynu'r daith.

Sôn yr ŷm wrth drafod yr un Archgyfundrefn ar ddeg hyn felly am yr hen hen broblem o *reidrwydd* sydd mor annifyr i oes gonfensiynol Ôl-fodernaidd. Mae dyn ynghlwm wrth yr un ar ddeg, fel y mae'n cysylltu â Disgyrchiant. Hynny yw, y mae pob llenor yn anochel

thematig yn ei waith. Drwy astudio'r prif themâu a'r cyfundrefnau thematig cysylltiedig y cawn glosio at feddwl cynhwysol deublyg y llenor. Gall ymddangos, wrth drafod y ddwy Archgyfundrefn 'thematig' ddeunyddiol (braidd) a drafodir yma, fod a wnelom â gogwydd go arallfydol ac esoterig yn ein hoes oleuedig ni. Ond eu hoffi neu beidio, dyna, yn ein dannedd, ystyriaethau byd y rhaid, hen gynefin a thiriogaeth gyfarwydd Beirniadaeth Gyfansawdd. Gellid gwadu Absoliwt neu Arfaeth, ni ellid eu hepgor.

Fel y ceir gorfodaeth ddiddeuwis i weithio'n ffurfiol drwy wahuno ac ymostwng i gyfundrefnau'r *anweledig/gweledig* a'r *amryw* yn yr *un*, y mae yna hefyd warchae arnom gan gyflyru ac amodi hollol thematig yn y dull o adeiladu Cynnwys cyfundrefnau thematig ar hyd echel. Dyna'r lle y mae athrawiaethu 'rhagdybiol' Cornelius Van Til unwaith eto yn gallu gosod i lawr ganllawiau nid yn unig ar gyfer y Cristion ond i bawb sy'n gorfod gwneud y rhagdybiau thematig cyffredinol hyn cyn mynd ymlaen i lunio cyfundrefnau thematig 'mwy cyffredin' o unrhyw fath. Dengys hyn yr anocheldd o ddod i gasgliad ynghylch rhyw fath o Absoliwt fertigol (yng nghysylltiad pob llenor â rhagdyb neu absoliwtrwydd) ar gyfer buchedd lorwedd (yn ôl amser neu rediad pob llenyddiaeth). Perthynas achos ac effaith sydd rhwng Archgyfundrefn chwech a saith.

* * *

Sôn yr ŷm wrth arolygu cyfundrefnau fel hyn, felly, am Archgyfundrefnau gorfodol a ffurfiol sy'n amodi ac ar ganol pob llenyddiaeth. Yn y defnydd a'r eglurhad ohonynt a geir gan Williams y cawn growyder esboniadol manylach a mwy ymwybodol nag a geir yn unman arall yn y Gymraeg.

Yn strwythurol, yr elfen ferfol sy'n agor y posibiladau thematig ymddangosiadol ddeinamig i'r Archgyfundrefn hon, er bod Guillaume yn synied am ddelwedd symudol yn y meddwl oll ym mhob perthynas.

Wedi sylweddoli'r Bod o Dduw, y peth nesaf a ddysgir yw Ei fod yn 'Gwneud'.

GWWP I, 99 *Ei fysedd sydd yn gyrru'r tymhorau yn y blâ'n,
Cyfnewidiadau'r nefoedd, yr oerni, gwres a thân,
I sugno sudd y ddaear sydd o amrywiol ryw,
I roddi'r llyisiau 'dyfu pe megis baent yn fyw.*

Math o gysgod o waith Duw yw gwaith gan y greadigaeth ei hun:

GWWP I, 118 *A phob creadur eilwaith o tan y nefoedd maen'
Yn dygid ei ragluniaeth anorffen yn y blaen;
Ehedaiid, anifeiliaid, a physg y môr yn un,
A phryfed mân y ddaear, ond yn enwedig dyn.*

Ac yn wir, yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, ar ôl cyflwyno'r Drindod ac yna'r myfyrdod am yr Arfaeth, gweithredu yw'r cwbl a wna Iesu (fel petai) wedi derbyn y cais i gyflawni'r Arfaeth honno. Felly y ceir y sefyllfa baradocsaidd yn 'hanes' y Digyfnawid Dduw:

GWWP I, 73 *Mae ynom ni gyfnawid, am hyn 'mostyngodd ef
I wneud rhyw gyfnawidiad ym mhob peth tan y nef;
Yn awr mae amrywioldeb yn llanw wyneb byd
I foddio'n holl synhwyrâu ar bob amrywiol bryd.*

*Ac eto, oll yn gyfan sydd er anfeidrol fudd,
Sef oerni, gwres, glawogydd, haf, gaeaf, nos a dydd;
'R un rhyw heb un cyfnawid pe byddai i bara 'ma's,
Yr arfer faith ohono a dynnai i ffwrdd ei flas.*

Dyna roi'r dogma ôl-fodernaidd felly o ansefydlogrwydd a newid bythol yn ei gyd-destun mwy cyfun Gristnogol yn gyfundrefn gytbwys:

GWP II, 271 *Di-gyfnawid Gwrthdrysych cariad,
Felly cariad pur ei hun.*

Dyma hefyd yr ail o'r Archgyfundrefnau Ffurfiol mewn Bodolaeth. Y mae a wnelo hyn oll â Gras Cyffredin, sy'n arwain at Ras Arbennig. Y mae *Bod/gwneud* a'r cyfundrefnau perthynol yn tarddu wrth gwrs yn y ddealltwriaeth am yr Absoliwt drachefn, ac yn dwyn Ei nodweddion Ef, Ei fywyd a'i waith yn y Creu ac yn y Waredigaeth. Ond ar sail y priodoledau hyn neu yn ôl eu fframwaith, gwelir hwy ar waith o fewn yr holl agweddau ar hanes y Greadigaeth. Y maent yn gyffredinol iawn. Gellid sylwi bod y ffaith o Gyfundrefnu ei hun, felly, yn sefydlog, ond natur pob Cyfundrefn yn ddeinamig. Mae *Bod/gwneud* hefyd felly yn adlewyrchu *Digyfnawid/Gweithredol (Newid), Gofod/Amser, Fertigol/Llorwedd*.

Gwelir bod cyswllt amlwg rhwng y Wraidd Gyfundrefn *Absoliwt/Arfaeth* a'r hyn a welwn yn y fan hon yn awr, sef dwy Archgyfundrefn arbennig Deunydd: nid amgen *Bod/bod* a *Bod/gwneud*. Mae'r rhain hefyd yn Ffurfiol bid siŵr. Ond ffurf ar Fod personol yw 'Absoliwt' mewnfodol. Ac y mae 'Arfaeth' er ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer cynllun ffurfiol (ymddangosiadol haniaethol) ym meddwl Duw yn soled erioed fel petai, hefyd yn cael ei defnyddio fel term ar gyfer cyflawniad neu gynnyrch diriaethol a sylweddol orffenedig i'r cynllun ar waith; y cynllun sydd wedi rhoio allan yn weithredol ger ein bron fel petai: *Ffurf/Deunydd, potensial/effaith*.

Mae'r Archgyfundrefn *Bod/gwneud (digyfnawid/gweithredol)* yn gyfundrefn Ffurfiol Fodol sy'n trefnu ac yn disgrifio perthynas sydd ar waith nid yn unig o fewn y Duwdod, eithr hefyd mewn iaith, llenyddiaeth, a gweithredoedd Cristnogol. Y mae hefyd ar waith ym mhob cyfundrefn unigol mewn Tafod.

Fe'i hadlewyrchir yn 'sefydlogrwydd' neu 'barhad' pob Archgyfundrefn, ynghyd â'r wedd 'symudol' ddeinamig feddyliol sydd y tu mewn i bob cyfundrefn.

* * *

Cafwyd llawer o drafodaeth ar lenddulliau'r Beibl — llythyrau, damhegion, cyfreithiau, diarhebion, proffwydoliaethau, hanesion, cerddi, ac yn y blaen. Ond teg yn fy marn i fyddai cyfrif mai'r gyfundrefn greiddiol o lenddulliau cyferbyniol fwyaf arwyddocaol ynddo yw —

Dysgeidiaeth/Hanes

Dyma'r lle y mae Duw yn traethu'i feddwl ar y naill law, ac y mae'n gweithredu ar y llall. Ac un o'r athrawiaethau blaenaf cyfatebol yn y bywyd Cristnogol ei hun yw —

Ffydd/Gweithredoedd

Ffydd yw'r ymostyngiad. Golyga estyn dwylo gweigion, — y cyflwr — heb wneud dim ond ymddiried yng ngweithred Duw yng Nghrist. Golyga bwysio arno, heb gyfrannu dim. Hyn hefyd yw'r ystyr gyfeiriol. Dyw'r ymgais i 'wneud' drosto'i hun ddim yn unrhyw fantais i Theomemphus. Perthynas yn unig sy'n caniatáu'r Gweithredoedd. Perthynas yw *Ffydd/Gweithredoedd* sy'n rhan o'r berthynas *Duw/dyn*. Ac adlewyrchir hyn eto yn *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* (Sydynrwydd creiddiol Tröedigaeth a dod i'r bywyd/Parhad mewn Gras).

Mae'r ymwybod bod cred yn weithredol yn gefndir i'r 'dadleuon' a drafodir gan Bantycelyn.

Mae'r ddwy arwrgerdd gan Williams yn cynnwys y cyfundrefnu dwyochrog hwn. Mae *Golwg ar Deyrnas Crist* yn adrodd hanes perthynas Crist a'r Arfaeth o fewn fframwaith o ddysgeidiaeth Gristnogol am y Greadigaeth Dragwyddol. Mae *Theomemphus* yn adrodd hanes perthynas achubol a chyfnewidiol y pechadur unigol a Christ o fewn fframwaith o ddysgeidiaeth am berthynas dyn a Duw. Mae'r naill a'r llall yn gyfuniad o drefn ddiwinyddol ac o stori.

Sylwer ar y cyferbyniad yn *Theomemphus* rhwng y credoau crwn a'r gwirioneddau ailadroddadwy a sefydlog barhaol ar y naill law, a'r hanes ar y llaw arall nad yw'n digwydd ond unwaith mewn un cyfeiriad bythol symudol. Gellid disgwyl y buasai Pantycelyn yn ymwybodol iawn o'r cyferbyniad hwn rhwng sefydlogrwydd diysgog tragwyddol y Duwdod, a symudolrwydd, hyd yn oed ansefydlogrwydd gwamal, pethau'r llawr. Ond y mae'r 'gyfundrefn' yn ddyfnach na hynny. Y mae'r Diysgog yn weithredol. Yn ôl delwedd Guillaume o wneuthuriad Cyfundrefn, y mae'r ddeinameg ar waith yn y rhannau o fewn y cyfan, a rhwng *Tafod/Mynegiant* yn greadigol fyw.

Mewn Seico-fecaneg Iaith, felly, y mae pob cyfundrefn bob amser yn ddeinamig. Yn wir, y mae'r elfen 'mecaneg' yn awgrymu hyn, fel Seico-ddeinameg. Gall un math o strwythureg ymddangos yn statig. Ond y mae Seico-fecaneg yn ddiffiniol yn awgrymu symudiad meddyliol rhwng Tafod a Mynegiant a thrwy'r holl gyfundrefneg, fel y dengys y diagramau arferol megis *Beirniadaeth Gyfansawdd* 283, a *Meddwl y Gynghanedd* 100. Deinameg yr Anghyfnewidiol yw; ac eto —

- GWP II, 182 *Annghyfnewidiol gair y ne',
Ond cyfnewidiol fi;
Am hyn mi safaf, doed a ddel,
Mae'r afael sicraf fry.*
- 378 *Pan syrthio'r ser fel ffigys îr,
Fe bery gras fy Nuw.
A'i faith ffyddlondeb tra fo'r nef,
Annghyfnewidiol yw.*
- 207 *Di-gyfnewid fyth yw ef.*

Ceir amryw enwau disgrifiol ar yr ysgol ieithyddol a sefydlwyd gan Gustave Guillaume — megis Seico-fecaneg, Seico-gyfundrefneg, ac yn awgrymus iawn Seico-ddeinameg. Ond lle y mae adeileddeg (neu strwythureg) fel arfer yn rhoi awgrym o lonydd ac o sefydlogrwydd yn y dadansoddiad, y mae adeileddeg Guillaume yn ffenomen ddeinamig a symudol greadigol. Rhydd ef bwyslais ar y berthynas ddeinamig a symudol rhwng Tafod a Mynegiant a rhwng y rhannau mewn Cyfundrefn. Nid dosbarthiad llonydd cyfosodol mohonynt, ond un sy'n gyrru ac yn esgor ar y llall. Yn achos y gwahanol gyfundrefnau, fe geir gyriant meddyliol mewnol. Perthynas amserol sydd rhyngddynt yn ogystal ag un ofodol. Peth felly yw'r broses lenyddol, yn sylfaenol mewn meicro-amser.

Felly, nid cyfosod Bod/bod yn unig a wneir: rhaid delweddu perthynas pob elfen mewn cyfundrefn yn ôl delwedd o symudolrwydd meddyliol. Ac felly, yn hanfod bod, fe ddelweddir symud, egni, a newid. Hynny yw, ceir Symudydd/symud neu Fod/gwneud, Mater/Egni. Ac y mae'r rhain ymhlith yr Archgyfundrefnau o fewn yr Hierarci sy'n dod â'r elfen ferfol i ganol yr adeiladwaith cyflawn. Wrth amodi, cyflyru neu drefnu Deunydd, y mae presenoldeb a hanfod y ddeinameg ferfol o'r herwydd yn peidio â bod yn 'ddosbarth' o Sfferau yn unig. Fe'i bywheir ac fe esgorir ar Themâu. Fe ddarperir o fewn strwythur yr Hierarci symudolrwydd o un lefel i'r llall, ac o fewn bodolaeth pob lefel a phob Sffêr. Deinameg yw'r craidd. Pan sonia Saunders Lewis am y 'bywyd' a ddisgwylia ef mewn llenyddiaeth, dyma'r elfen y mae'n meddwl amdani.

Dyma orfodaeth neu reidrwydd arall yng ngwneuthuriad neu drefniant Deunydd. A dyma ran bwysig ganolog o swyddogaeth y cwlwm o Archgyfundrefnau. Nid llonydd yw'r

Cynllun sy'n Canu yr ydym yn ei drafod. Mae'r cwbl ar waith o ran egwyddor. A dyma'r lle y corfforir y ffaith honno. A hyn, wrth gwrs, (er na sonia Guillaume am hynny) yw'r *ddadl gyntaf* sydd gan Domos Acwin 'fod popeth sydd ar symud yn cael ei symud gan rywbeth arall' — ar sail Ffiseg Aristotelaidd. A chofiwn am Ddeddf gyntaf Symudiad gan Newton, fod pob corff oni chaiff ei syflyd gan rym yn aros yn llonydd neu'n para mewn symudiad unffurf a syth.

Rhaid pwysleisio nad yw Pantycelyn yn derbyn y dadl hon fel 'dadl' i brofi bodolaeth Duw, gan mai drwy Ffydd a phrofiad personol rhoddedig (Gras Arbennig) y cred ef. Gwreiddir meddwl Pantycelyn nid mewn dadl, eithr mewn Person Absoliwt, hunan-wireddedig a thragwyddol ac mewn gwaith mewn hanes.

Nid llonydd na statig mo'r elfennau mewn cyfundrefn, felly. Yn eu perthynas y maent mewn gwirionedd yn gwbl groes i ddsbarthiad di-fynd. Mewn iaith, dyma'r ddeinameg a adlewyrchir ym mherthynas *Enw/Berf (Lle/Amser)*. Y Creu a'r Achub yw dwy weithred fawr y Duwdod. Cyn y Creu: 'Yr *Alpha* oedd yn hapus' (GWWP I, 3). Ond un oedd y ddwy gan mai perthynas â dyn oedd calon y naill a'r llall:

GWWP I, 4,

*Jehofa anweledig, Omega, Alpha mawr,
Ymroddodd ynddo ei hunan yn gadarn iawn yn awr,
I ddechrau gwir gymundeb, gyfeillach rhyngtho ei hun
A chreadur pur, rhesymol sy â'i enw'n awr yn ddyn.*

Nid amherthnasol yw'r cyferbyniadau a geir rhwng y gyfres garwriaethol (cyflwr) o emynau Williams a'r gyfres deithiol (proses); neu'r ddwy wedd ar yr astudiaeth o iaith gan Saussure *Synchronig/Diacronig*; a byddai Guillaume yn dadlau, oherwydd ei bwyslais ar ddeinameg, mai haniaethad delweddol yw'r synchronig gan mai deinameg yw popeth mewn iaith.

Mae yna berthynas arall rhwng y gyfundrefn hon a'r gyfundrefn *Fertigol/Llorwedd*.

*Ti wnest fwy mewn un mynodyn | Cael mwynhau heb ddim trai
Nag a wnaethai'r byd o'i fron | Pethau bellach fo'n parhau*

h.y. cwympo mewn cariad

cynnal cariad

Yn lle bod dyn yn ymestyn neu'n ymchwyddo i ddyrchafu'i weithredoedd, y mae ef yn plygu ac yn ymwacáu er mwyn derbyn y gwneuthuriad Duw ynddo ef ... O'i galon hefyd y daw pob pechod.

O safbwynt y llenor seciwlar, y mae'r Ail Archgyfundrefn Ffurfiol Fodol hon — Bod/gwneud — yn cynrychioli'i echel o fewn amser na all yntau druan ei hosgoi. Dyma'r llwybr moesol ac ystyrol y mae'n ei ddilyn, ac yn gorfod ei ddilyn, o fewn fframwaith o werthoedd a phwrpasau, ac o fewn y ddau begwn cwbl orfodol a diddewis, geni a

YR WYTHFED ARCHGYFUNDREFN; sef GWERTH/TREFN, Cymhelliad Mawl
CYMHELLIAD

O ran y meddwl sefydliadol naturiol, ni wneir byth ddim gweithred, boed yn yfed gwydraid o ddŵr neu'n chwarae gêm o rygbi, heb ymwybod o Werth. Gwerth sy'n paratoi brecwast i ni. Ansawdd ffafriol sy'n eiddo i rywbeth yw gwerth. Mae cydnabod gwerth yn cynnau deinameg.

Wrth i mi drafod Cymhelliad llenyddiaeth gyda'm cyfaill, yr Athro Walter Hirtle, Athro Ieithyddiaeth o Québec, ac awgrymu bod Cymhelliad llenyddiaeth yn dechrau'n strwythurol mewn sylweddoliad o Werth (*Meddwl y Gynghanedd*), cytunai ef â'r dadansoddiad cyfundrefnol, o safbwynt ieithyddiaeth, drwy nodi'r safle seico-fecanaidd cyntaf hwnnw fel hyn: 1. 'intended message = recognition of value, or something I want to say.' Hynny yw, y mae'r broses greadigol, yn ieithyddol ac yn llenyddol, yn dechrau mewn safle neu ragdyb ansoddol. Dyna leoliad gwreiddyn y dweud. A buddsoddwyd gwerth fel ansawdd byd a bywyd yn y dechrau yn ôl y datguddiad Cristnogol, 'a da oedd'. Rhagdyb neu ragosodiad oedd cyn y Creu, ac wedyn. Ac o ganlyniad, pan geir deinameg ddiacronig, y mae'n ysgogi ac yn cario'i hanfod gyda hi. Try gwerth/trefn yn werthfawrogi/trefnu.

Dechreua'r holl broses a'r holl gyfundrefnwaith ieithyddol, llenyddol a diwinyddol felly mewn cydnabyddiaeth weithredol a threfnus o Werth. Chwilir o blaid ystyr yn y Deunyddiau sylweddol, syniadol, teimladol o'i deutu am yr hyn sy'n werthfawr ar y pryd. Mae yna hiraeth am Werth. Perthyn Gwerth yn gynhenid i bopeth, ac fe'n gyrrir i'w geisio. Apelir at gwlwm yr Archgyfundrefnau Ffurfiol hyn yn y meddwl trefnus i olrhain, i ganfod, ac i weithredu Sffêr unigol yn y Deunyddiau hynny, ac i'w defnyddio drwy foddion elfennaidd. Hynny yw, gwahana a chysona mewn Deunydd yn ôl rhagdyb o raddau mewn Gwerth. Neu mewn geiriau eraill, y mae'r broses lenyddol ei hun oll yn gweithredu mewn Sffêr a Thema yn ôl cymhelliad gorfodol ynghylch arwyddocâd ansawdd y Deunydd ei hun.

Sôn yr wyf yn y fan hon, felly, nid am y *math* o werth sydd dan ystyriaeth, ond am yr egwyddor neu'r radd neu'r *safle* meddyliol moel o Werth. Gwerth cynhenid yw sy'n cael ymateb.

Gall ymddangos yn amlwg mai gyda DEUNYDD yn hytrach na chyda FFURF y dylid cyfrif Gwerth cynhwysol ar waith. Ac eto, mae gan y Ddeddf hefyd ei hyfrydwch a'i harddwch deinamig. Yn sfferau Moeseg ac Estheteg y perthyn Gwerth yn ddiriaethol amlycaf, heb sôn am y Diben defnyddioldebol 'Iwtilitaraidd'. Ond y mae i Werth safle mewn Hierarci strwythurol sy'n amodol. Mae'n ffactor sy'n gorfod bod yn bresennol yn y ddeinameg. Ac felly, ar ddechrau Arfaeth gynieithyddol y saif. Hyd yn oed yng

ngweithrediad Trefn gysefin, rhaid addef priodoldeb Gwerth fel ffactor adeileddol, beth bynnag fo'i gynnwys. Mae'i bresenoldeb hanfodol yn hawlio lle anrhydeddus felly yn *psyche* Pantycelyn cyn llawer o ffactorau personol eraill. Y gwerth yw'r drefn ei hun sy'n ysgogi'r weithred, a'r drefn sy'n ei wasanaethu.

Braf yw sôn am Werth gorfodol safleol mewn cyfnod mor 'theoretig' ddogmatig relativ. 'Da' yw'r Absoliwt yn yr ystyr eithafol hon. Hynny yw, ynddo Ef yn unig y mae daioni'n gynhenid. Oddi wrtho Ef y daw pob daioni arall yn olynol. Da, perffaith dda yw o ran natur. A da yw mewn perthynas. Gwyddai Pantycelyn ychydig am y daioni hanfodol hwnnw drwy'r rhoddion o ddaioni a dderbyniai gan yr Ysbryd, drwy'r rhoi a wnaeth Ef ym mhopeth. Y term am roi daioni i bethau ac i bobl eraill yn ddihaeddiant yw Gras. Ac Efô yw ffynhonnell y daioni hwnnw. Cariad yw'r enw am y weithred a wna yn ei berthynas â phob dim. Heb ras, (i ddyn) heb ddim. Dyma'r cymhellydd. Mae'n rhoi gwerth.

Hyn hefyd oedd y pren mesur. Ond beth a wnâi neu a adeiladai werth? Mor rhwydd y taflwyd hyn oll gan amheuwr balch dechrau'r ugeinfed ganrif. Wrth geisio gwerthuso cyfundrefn, fe gafwyd llyfr ym 1923 gan Arthur Kenyon Roberts, *What is Truth? An Essay in the Theory of Knowledge*, Yale UP, 12-13, a drafodai *gydlyniad* fel un o'r gofynion. Cynhyrfodd hyn fi i ystyried *cydlyniad* yn un o ofynion gwerth yn gyffredinol. Dichon fod yna angen sylfaenol am gydlyniad o fewn y Greadigaeth, a bod yr hyn a gyflawna'r angen hwnnw mewn llenyddiaeth (a'i defnyddiau i gyd) yn werthfawr (M I, 5).

Angen arall mewn deall ac iaith o safbwynt gwerth yw bodolaeth gwirionedd ei hun. Nid gwirionedd llythrennol, croniclaidd, ffotograffig, wrth gwrs, er bod cyfatebiaeth ddibynnol rhwng gair a delwedd yn amheuthun. Ond gwirionedd dychmyglon hefyd am fodolaeth o rywbeth i ddigoni neu gynnal bywyd, a'r ddarpariaeth a roddir. Gwirionedd sy'n cadarnhau ac yn amlygu bodolaeth.

Wedi'r creu, fe ddatganwyd yn groyw gan yr Un a wyddai 'A da oedd'. Treiddiwyd y greadigaeth felly gan Werth o'r herwydd.

GWWP I, 88 *Mae megis nefoedd arall gan hardded yw ei lun,
A'i frenin yn ei ganol, yr ardderchocaf ddyn.*

Yno y ceid popeth yr oedd ei angen arno.

Yn gyfundrefnol y mae Gwerth yn arwain at Weithred; megis *Bod/gwneud*. Ond yn ymarferol, o fewn Cyfundrefn o gyfundrefnau neu Gwlwm o Archgyfundrefnau, mae hyn wrth reswm yn ei osod o fewn trefn sy'n ei gysylltu ag Archgyfundrefn megis *gwahanu/uno*.

Felly, i Bantycelyn, wrth i Grist greu popeth, yr hyn a wnâi oedd corffori neu fuddsoddi daioni, rhoi argraff ohono'i hun o ran natur mewn pethau eraill. Dyna'r gwaith o

sefydlu gwerth a gwerthoedd. A thrwy'r hyn a welir, y daioni dwyfol a fynegwyd yn y greadigaeth, yn ogystal â thrwy gyswllt uniongyrchol graslon a datguddiedig â Duw'r Tad ei hun, y down i ddysgu ychydig beth yw gwerth sy'n weithredol, nid yn unig o ran Cynnwys ond fel safle deinamig cychwynnol hefyd mewn Cymhelliad.

Gwaith trefnol yn ogystal â gwaith deunyddiol neu sylweddol dda oedd creu. Y ddwy ochr i'r un geiniog. Gwaith cydlynu oedd hefyd a dosbarthu, gyda phopeth yn undod amrywiol yn perthyn i'w gilydd. Rhagflaenwyd y gwaith adeileddol hwnnw gan ysfa i bob dim berthyn. Trefn ddaionus yw perthyn yn undod ei hun. Cariad yw'r perthyn dwyfol ynddo'i hun. Cynydda'r gwerth, felly, o fewn perthynas gariadus o'r fath.

A lle y bo deinameg o'r fath ar gerdded, mae yna symudiad tua chyfeiriad penodol. A beth yw'r cyfeiriad hwnnw? Diben. Cyfeirir y daioni drwy drefn rinweddol a dwyfol i gyfeiriad gogoneddu a moliant a gorfoledd yn y ffynhonnell, Duw ei hun. Dyma uchafbwynt llawen uchaf pob bywyd a phob difywyd. Fel yr oedd Gwerth a Threfn yn ffurfio un broses gadarnhau, felly cwlwm unol ar y broses honno oedd y Diben mewn bodlonrwydd.

Gall Trefn ei hun fod yn esthetig werthfawr yn ogystal â bod yn ymarferol werthfawr oherwydd boddhad y cynllun. Felly cyflawnder gorffenedig hefyd, gan fod yr anorffen bob amser yn gadael ymdeimlad o annigonolrwydd. Ffurf hefyd: perthynas rhan a chyfan; perthynas dechrau, canol, diwedd; siâp y cyfanrwydd; rhoddir ymdeimlad o fodlonrwydd yn yr undod cyfathrachol. Ac yna, fel pe bai'n wrthbwynt i'r undod mewn cydlyniad, mae angen amrywiaeth ffrwythlon, i'r meddwl a'r teimlad.

* * *

Un o'r adrannau mwyaf trawiadol yng ngwaith Pantycelyn yw'r lle y mae'n ceisio egluro Gwerth y Cwmp ei hun. Gellid synied bod y Cwmp mor aruthrol enbyd nes bod y peth yn gwbl wrthun. Ni ddylsid byth ei ganiatáu. Ond rhydd Pantycelyn ddarlun o'r Cymhelliad:

GWWP I, 8

*Mae drygau yn dwyn daioni yn fynych is y nen,
Am hynny hwy ddiodefwyd fel dôi daioni i ben ...*

9

*Fel bai trysor[a]u cariad, cyflawnder maith ei ras,
I dannu ei adenydd fel eryr mawr i ma's; ...*

*Fel gallai dorri allan oleuni yn ei rym,
A chariad maith, maddeuol, na all ei atal ddim;
A thostur a thrugaredd, sydd lawer mwy ei hyd
Nag 'gellir eu cydmaru â dim sydd yn y byd.*

*Ac fel caid gweld doethineb diderfyn eto'n stôr
Yn llif dros wyneb daear, a'i led yn fwy na'r môr: ...*

Dyma dreiddgarwch aruthr Ffydd; a dirgelwch wrth gwrs. Yn sgil pechod, mae'n amlwg inni gael y drwg mwyaf erioed, sef drwg y Groes. Ond honno hefyd fu'r Daioni mwyaf fel y gwyddai Pantycelyn. O bob dirgelwch yn y Duwdod, dyma'r dyfnaf. Yr oedd Cariad, megis pechod, yn hanfodol wirfoddol. Yr oedd cost cariad mawr gwirfoddol yn werth mwy na melltith pechod, oherwydd gwirfodd dioddefaint Duw oedd. Pe bai Duw yn atal pechod rhag bod, byddai'n atal dewis rhydd dyn — peth a wnaeth dyn drosto'i hun. Ond agorwyd y llifddorau i aruthredd cariad Duw Ymostyngol yn sgil angen dyn.

Nid yw'r ddadl hon yn gwadu gwir ddrygioni drygioni. Nid yw chwaith yn gwadu cyfrifoldeb dyn. Eithr dengys, o'r persbectif tragwyddol, mai rhaid oedd bod diben gogoniant Duw eisoes yn bresennol ac yn botensial hyd yn oed mewn creadigaeth a ymwrthodai â'r Duw hwnnw.

Mae Gwerth diffiniol felly yn tarddu o ddatganiad Genesis I: 'da oedd'. Ond o ran ansawdd a math, ceir cryn amrywiaeth a graddau yn y daioni. Addoli Duw a'i foli yw coron unol pob gwerth: sef gwerthfawrogiad. Fe'i hadnabyddir mewn cyferbyniad. Wedi'r cwmp, *Mawl/Dychan* yw'r Gyfundrefn briodol weithredol a gwahunol mwyach: un o ddadansoddiadau hysbys llenddullio. Ond y mae'n gysylltiedig â Moeseg, a gwaith y gydwbybod, *Da/drwg*. Yn ei thro y mae Estheteg hithau yn mynnu pwyslais gwahanol, ond cysylltiedig, yn ôl y gyfundrefn *Hardd/Hyll*. Ni ellir gwadu nad yw gwerth materol hefyd, i Gristion (o'i gyferbynnu â rhywrai sy'n meddu ar ffydd wahanol), yn tynnu Economeg hefyd i'r maes. Y mae'r rhain oll yn ymgysylltu â Chyfundrefn y Gorchymyn Diwylliannol. Yma y mae *ennill materol/colli materol; ffrwythlon/diffaith*, yn gyferbyniad creedig ac yn gyfundrefn gymelliadol allweddol. Fel y mae'r Cwmp yn cyffwrdd â phob dim yn y Greadigaeth, felly y mae daioni'n Waredigaeth botensial i bopeth.

Mae'r tri — Gwerth (sy'n safoni Trefn) a Threfn (sy'n cyfeirio Diben) a Diben (sy'n amodi Gwerth) — yn glwm cyfundrefnol digonol mewn Cymhelliad. Ac fel y cawsom ganfod, y maent yn amlwg annatod mewn sawl un, onid pob un, o'r Sfferau Sofran, megis Moeseg, Estheteg, Economeg, yn ogystal â Deddfwriaeth. 'Oherwydd Ef yw ffynhonnell, cyfrwng a diben pob peth. Iddo Ef y bo'r gogoniant am byth.' (Rhuf: 11, 36).

Mae'r Archgyfundrefnau oll yn cael eu 'cynnal' neu'u 'hatodi' (eu hestyn) neu'u ceisio yn esgorol gan Gyfundrefnau Cyffredin Thematig, ac yna ym Mynegiant y diwedd gan Fotiffau. Rhaid cael un Archgyfundrefn yn amlwg wrth hawlio 'Gwerth' fel ffenomen ar y lefel hon bob amser. Ambell waith, amlygir Gwerth yn uniongyrchol drwy gymharu neu

gyferbynnu. A'r pryd hynny, gellir dweud bod y cymharu'n cael ei gorffori mewn cyfundrefn debyg i Gymharu Graddau Cynyddol Ansoddeiriau; *da/gwell*; cf. *mawr/mwy*. Cymharu yw un o gyfundrefnau cynhenid a rhan o ddeinameg Gwerth.

Buom, wrth drafod *Bod/gwneud*, yn sôn o'r blaen am un o gyfundrefnau cyffredin gramadeg, sef graddau cynyddol ansoddeiriau. Perthyn hyn hefyd yn gynhenid gynorthwyol i Archgyfundrefn *Gwerth*. Bellach, anodd meddwl am Werth heb ystyried graddau. Rhagoriaeth yw un o dermau mawr Gwerth, a chymharu yw un o weithgareddau dewis. Mewn Mawl y mae Williams Pantycelyn yn pwysu ar yr angen amhosibl hwn i fynegi'r dihafal:

GWP II, 231 *Iesu, Iesu, 'rwyf Ti'n ddigon,*
 Rwyf Ti'n llawer mwy na'r byd;
Mwy trysorau sy'n dy enw
 Na thrysorau'r India 'gyd ...

182 *Gwell yw'th drugaredd a dy hedd*
 Na'r byd, na'r bywyd chwaith ...

Drwy'r radd gymharol, y mae'r radd eithaf yn ffurf allweddol yn arfogaeth ei Fawl.

Eto er bod y graddio ansoddeiriol yn gyfundrefn ramadegol a llenyddol go ganolog, nid wyf am ei gynnwys fel y cyfryw ymhlith yr Archgyfundrefnau, gan mai'r diffiniad a fabwysiedais ar gyfer 'Archgyfundrefn' oedd cyfrif y ffenomen yn fythol bresennol ledled yr iaith ym mhob un o'i chyfundrefnau, ac ym mhob *motiff* llenyddol. Digonol i'r Archgyfundrefneg yw *Gwerth/Trefn*; mae hynny'n cynnwys gwerth cymharol a dewis, yn darddiadol o ran natur. Nid yw'r gyfundrefn ieithyddol hon — tair gradd gymharol gynyddol (saif y 'cyfartal' i arwyddo ymadawiad â'r cynyddol: cyfwerthedd, arwydd o aros yn yr unfan yw) — yn uniongyrchol unigolyddol, i'm bryd i, yn yr un ffordd ag Archgyfundrefn. Cyfundrefn thematig o fewn cyfundrefn Gwerth yw. A ffrwyth gwahuno.

O fewn Deunydd a Ffurf llenyddiaeth, ymddengys i mi fod Gwerthuso yn nod ac yn un o weithgareddau pennaf beirniadaeth gyfansawdd. Ac yn y triawdau *Tafod/Cymhelliad/Mynegiant* a *Ffurf/Cymhelliad/Deunydd*, y mae gwerthuso yn un o'r gweddau mwyaf arwyddocaol yn ddibennol. Mae llenyddiaeth ei hun yn dechrau gyda gwerth. Heb werth, does neb yn rhoi pin ar bapur, na bys ar gyfrifiadur, na llais o gwmpas gair mewn llenyddiaeth lafar. Mae gwerth o'r fath yn parhau drwy gydol yr amser tan y diwedd. Yn wir, hyd yn oed i'r hanesydd mwyaf lleol, y mae dethol yn ôl rhyw griteria yn broses anorfod gan fod y deunyddiau posibl yn ddifedur.

Diddorol sylwi ar un berthynas arwyddocaol rhwng Gwerth a Threfn. Wrth inni bellach sylwi ar bwysigrwydd llenyddol Williams Pantycelyn, gwelwn fel y mae anocheledd y

canon a thraddodiad eisoes yn rhoi trefn ar ein darlleniad ohono ac o'i gyfnod. Bydd haneswyr ôlfodernaidd ac ôlstrwythurol yn hoffi tanlinellu anarchiaeth hanes, ac fel y mae anferthedd cymysglyd y 'damweiniol' mewn delweddau o'r gorffennol yn gwrthddweud pob trefn hanfodol. Ac felly yr ymddengys bob amser mewn Mynegiant arwynebol (a'i gyfoeth). Ond gŵyr amser Tafod — ac yn yr achos hwn, Gwerth, — y bydd yn rhoi'r anhrefn yn ei lle yn bur benderfynol, gydag ychydig o amynedd. Roedd ei sylweddoliad o werth trefn yn rhagoriaeth.

Canfu Pantcelyn, fel Charles Edwards o'i flaen, yn isymwybodol i raddau, mai Gwerth/Trefn/Diben oedd cyfundrefn greiddiol Hanesyddiaeth. Dyma'r aeddfedrwydd soffistigedig a etifeddodd gan weledigaeth genedlaethol/ryngwladol Israel. Nid hel cawdel a wnâi, yn ddiystyr. Fe'i cyflyrwyd gan ddull strwythurol y deall o weithio'n angenrheidiol, nes sylweddoli athrawiaeth Hanes. Dolen yng nghadwyn gwerth yw pob llenor da.

Ymddengys i mi fod yr ymwybod o werth yn rhagdybied Absoliwt.

Mae gan bawb ragdyb Absoliwt yn ogystal â diben Absoliwt. Ond ceir rhagfarn weithiau yn erbyn y sawl sy'n sylweddoli hynny. O gael gorfodaeth y rhagdyb Absoliwt o Werth a'r diben Absoliwt o fodlonrwydd (neu lawenydd), ddwedwn i, cawn ddau o'r rhagdybiau gorau inni fod yn ymwybodol ohonynt; ... os caf innau yn y fan hon werthuso. Yn y weithred o lenyddda (boed yn Gristnogol neu beidio), oherwydd ei ffynhonnell, anrhydeddir iaith gyda mwy o drefn ac o bwrpas nag mewn llafar cyffredin. Mawrygir trefn mewn sain a synnwyr. Dyrchefir pwrpas i roi cyfeiriad cyfannol i'r cyfansoddiad a chyfeiriad sy'n hyrwyddo bywyd. Y term priodol a ddefnyddiais ar gyfer gogwydd hyn oll oedd Mawl.

Gwerth yw'r hyn sy'n gyrru 'gwneud'.

Oherwydd yr orfodaeth felys hon, gellir casglu bod y fframwaith pum haenen a amlinellwyd gennyf ar gyfer strwythur deunyddiol Pantycelyn yn cydreddeg â'r math o strwythur a fuasai gan seciwlaryn o lenor yntau. Mae'n adlewyrchu symudiad y weithred lenyddol. Ymwneud yr ym mewn diwinyddiaeth a hanesyddiaeth â chyfundrefnwaith cyffredin deinamig o hierarcaidd. Dyna yw 'Arfaeth Absoliwt/Archgyfundrefnau ffurfiol amodol/Sfferau Deunydd/Themâu Deunydd/Motiffau'.

I'r sawl sy'n cael ysfa i wadu gwerthoedd llenyddol, a bod yn 'relatif' (arferiad go anllythrennog bellach), cymorth bob amser yw ystyried y llenyddiaeth salaf. Darpara hyn gyfundrefn gyflawn i ddeunydd llenyddiaeth megis i ddiwinyddiaeth. Gwiw cofio'r elfen o Werth wrth ystyried beth yw'r gwahaniaeth rhwng llafar cyffredin bob dydd a darn o lenyddiaeth gyffredin sâl; neu rhwng darn o lenyddiaeth arbennig o wych ac arhosol a darn o lenyddiaeth boblogaidd dros dro; neu ddigwyddiad parhaol ei ddylanwad mewn Hanes a

gweithred fechan o hanes distadl. Gwiw cofio hefyd faint ac ansawdd llenyddiaeth lafar naratif fedrus. Wrth gymharu'n gyntaf y llafar cyffredin â llenyddiaeth gyffredin sâl, gellid cydnabod un math o ffurf wahanol sydd yn cynnwys dechrau/canol/diwedd, ac elfen o 'wyo' ffurfiau mewnolion ac allanolion. Ond elfen o wyo nerth mewn dychymyg, deallusrwydd, neu fedr ieithyddol sy'n dynodi'r gwahaniaeth rhwng y gwan a'r gwych. Gwyro yw'r hyn sy'n bywio, yn delweddu, yn cysylltu â'r arall, yn canfod y newydd, yn profi'r daionus. Mae'r apêl hon eto yn dod drwy Ras Cyffredin.

Teg holi: pam y mae gwyro neu ddieithrio'n digwydd mewn llenyddiaeth? Onid arall o fewn cyd-destun bywhau yw rheidrydd llenyddia? Pam y gwahaniaeth rhwng llenyddiaeth dda a llafar cyffredin, rhwng y gwych a'r gwachul, rhwng yr hen a'r newydd? Oherwydd bod yna ddimensiwn arall yn bresennol, neu olion neu atgof o'r 'arall' drwy berthynas ag Absoliwt, sy'n barhaol, yn hen ac yn newydd, ac yn benodol wahanol. Ac oherwydd hefyd yr hierarci sy'n cyfannu. Nid popeth sydd yn y golwg. Mewn cyfnodau pryd y bydd y newydddeb dwfn yn gwanychu, gwanychu a wna egni'r llenyddiaeth hefyd. Ond yn isymwybod y traddodiad, ceir cyfathrach rhwng y gweledig a'r anweledig: fe'i cyflyrwyd o'r dechreuadau i fynegi ac i gorffori hen ddimensiwn *sensus divinitatis*. Fe'i hadeiladwyd i mewn i'r cyflwr o lenyddiaeth. Dyna sut y mae llenyddiaeth yn bod — oherwydd y cysylltu ysbrydol hen a newydd cyflawn hwn.

Trafodir y dieithrio creadigol hwn yn y Gymraeg gan Dr Angharad Price *Rhwng Du a Gwyn*, 51-55. A thrafodir y *sensus divinitatis* gan Galfin, Auguste Lecerf, Alvin Plantinga, ac Alistair McGrath. Dyma'r cyd-destun i werth, trefn, a diben sy'n anochel angenrheidiol mewn llenyddiaeth. Hyn sy'n ei ddieithrio o fewn cyd-destun y gelynu bythol. Weithiau, clywid Rhamantwyr yn sôn yn hedegog niwlog am 'ysbrydoliaeth' a 'chfyaredd' llenyddiaeth heb eu diffinio, ac wrth gwrs dymuniad seciwlarwyr yw ffoi rhag diffinio a rhag wynebu'n blwmp ac yn blaen realiti'r fath gynneddf. Ond gŵyr pawb gonest fod y synnwyr hwn o Werth megis *sensus divinitatis*, er mor ffaeledig a gwyrdröedig y gall fod, yn allu unplyg sydd ar waith ledled y byd. Fe'i disgrifir yn ei gweddau diffygiol gan Grefydd Gymharol (ac fe'i trafodir felly gan Williams yn *Pantheologia*). Hyn sy'n codi medr ieithyddol a doniau dychymyg i sylweddoli'r gweledigaethus a'r ystyron mewnol.

Gwir y gostyngir llenyddiaeth o'r ymwybod ysbrydol byw, fe'i camdrinnir, bychenir ei hymarweddiad. Ond gan mai *sensus divinitatis* sy'n ei diffinio a'i gwireddu, nid oes dianc rhagddo. Dadenir drachefn. Fe ddadleuwn i mai gwyro penodol ar sail ymwybod o werth cudd pendant o'r golwg yw'r hyn sy'n sylfaen i ogwydd llenyddiaeth tuag at safon a champ, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig. Bywyd yw'r hyn a gymerwn yn ganiataol ynddi bob eiliad.

Dyma un o'r gweddau mwyaf arwyddocaol lle y saif y Relatifwyr (yn amser Pantycelyn ac yn ein hamseroedd ni) yn erbyn safbwynt a chyd-destun yr Absoliwt. Fe geir ysfa, fel y gwelsom, i beidio â derbyn nid yn unig cyfanrwydd, ond gwerth a rheidrwydd deddfwriaeth ac iawndal hefyd (er gwaethaf marwolaeth a phethau felly). Dyna pam y pleidir yn anghybwys ddogmatig amryw yn erbyn un, gwahanu yn erbyn uno, a diacroni yn erbyn synchroni. Chwihw yw. Ond y mae'r hyn sy'n gynhenid yn beth sy'n aros; a rhaid dychwelyd i'r cyfansawdd yn y diwedd.

Ymsefydla Cymhelliad o'r herwydd yn y cyfansawdd, ac i gychwyn hefyd, yn yr ymwybod o Werth a ddatganwyd nid yn unig yn adeg y creu. Fe'i crewyd yn gyfundrefnol oherwydd ei fod yn dda cyn ei greu, ac arweiniai at Ogoniant Crist am mai dyna ddiben diweddol y Drefn.

GWWP I, 8

*Pob da fu, sy, neu ddyfod wedi ordeinio sy,
Oll ynddo, o ddaear isod, i bellter nefoedd fry;
Mae drygau yn dwyn daioni yn fynych is y nen,
Am hynny hwy ddiodefwyd fel dôi daioni i ben...*

*Ordeiniwyd yr holl drefen y[n] natur eang sydd,
Haf, gaeaf, gwres ac oerni, tymhorau, nos a dydd:
Byd cyflawn o fendithion, rhai mawrion bob yr un,
Fel palas hardd dieisiau i wir roesawu dyn.*

Dyna gyd-sefydlu Gwerth a Threfn. Ond drwy gydol *Golwg ar Deyrnas Crist* y brif thema yn ddiau yw, er rhyfeddu at y greadigaeth a'i chanmol i'r entrychion, gymaint harddach a godidocach yw'r Duw-ddyn Iesu Grist. Bywyd yn wir yw Ef. Rhagora a gwerthusa. Dyma wir Wrthrych pob mawl. Sefydlu'r cysylltiad hwnnw, yn wyneb anferth y greadigaeth a'i phethau, yw prif genadwri Williams, nid yn unig drwy gyfrwng y ddwy arwrgerdd, eithr yn gyson yn ei emynau. Gwrthrychau'r llawr a Gwrthrych y Nef, y Person mwyaf hardd yn y naill a'r llall. A sefydlu hyn yn ei feddwl ei hun yn ddwfn, megis hefyd ym meddyliau'r Cristnogion, yw'r rheswm pam y gallai'r Methodistiaid farw mor dda. Hynny yw, saif Absoliwt yn safon daioni ar galon pob peth.

Heblaw trefn y Greadigaeth, yr oedd trefn y meddwl dynol (iaith a llenyddiaeth ei hun) yn estyniad o'r un gelfyddyd. Dadleuodd Athanasiws fod rhesymoliad dynoliaeth yn adlewyrchu meddwl Duw. Yn y Beibl, ar y naill law, yn y Ddeddf, yn y Salmau a'r Diarhebion, ynghyd â'r llên ddoethineb arall, ac ar y llaw arall yng nghyflwyniad y rhain yn y Testament Newydd, pwysleisir y gallu i gydnabod Duw yn ei drefn greedig. A gwêl Coleridge elfen ysbrydol yn nhrefn rheswm.

Creu perthynas gariadus gydlynol rhwng pob dim yw un o ragoriaethau Gwerth:

- GWWP I, 32 *Gyda gogoniant rhyfedd anfonwyd Iesu 'lawr
O fynwes y Tad nefol lle'r ydoedd ef yn awr,
I grëu helaeth deyrnas, bur, gyson, a chytûn,
Er clod di-dranc, diderfyn i'r Tad ac iddo ei hun.*
- 62 *Cans ef ei hun yn unig, Creawdwr pob rhyw le,
A'r ffrwythlon a'r anffrwythlon sydd tan ei olwg e';
Nid crastir poeth y felltith, na'r oerni taer yn un,
Nid broydd teg y fendith, ond cwmpni Duw ei hun.*

Nid cwbl ddiwerth oedd dadl William Paley, *Natural Theology or Evidences of the Existence and Attributes of the Deity, Collected from the Appearances of Nature* (1802) fod trefniadaeth gain y byd yn adlewyrchu cynllunwaith a phwrpas, ar sail medr rhyfeddol i ddylunio ac adeiladu. Hynny yw, y mae cipolwg ar drefn yn gallu'n harwain i ymhyfrydu yn ewylllys y Crëwr.

* * *

Gwerth oedd Trefn ei hun. Da oedd bod yn drefnus. Gweinai'r holl gyfundrefnau i Werth. Yr her i Bantycelyn (ac yn wir i bawb), ond yn ymwybodol iawn iddo ef, (her y daeth yn fwyfwy ymwybodol o'i hystyr wrth lunio *Golwg ar Deyrnas Crist*), oedd chwilio am Drefn ym mhob gwedd o'r greadigaeth brydferth. Nid yn unig fel 'modd' i gyrraedd rhywbeth arall, y Drefn oedd gwrthrych yr ymchwil a'r edmygedd a'r cariad ei hun. Gwyddai Pantcelyn fel dyn ac fel gŵr a archwiliai'i natur ei hun ac isymwybod dyn, fod yna ysfa ynddo am drefn. Yr oedd hyn yn gynhenid (er yn syrthiedig); ond yr oedd hyn hefyd yn wedd ar y natur ddwyfol ac ewylllys Duw.

Edrychai Duw felly ar drefn ei Gread, ac wrth iddo sylwi mai da oedd, diffiniwyd Ei drefn felly gan Werth.

Sylwn ar y rhagarweiniad i'r Ail Bennod yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, Rhan I

GWWP I, 29 *I'r Meseia, wedi cael ei ordeinio fel hyn yn Ben, ac yn Iachawdwr i'r
byd, yn awr yn cael ei ddanfon trwy allu'r Tad ac ef ei hun i grëu nefoedd a daear a'r cwbl
sydd ynddynt.*

GWWP I, 35 *Fel rhyw ben-saer cyfarwydd, wrth wneud adeilad gwych,
A bortreada'r cyfan yn hollol yn ei ddrych,
Trwy batrwm bychan perffaith o'r holl adeilad mawr,
Dry'r cwbl yn ei ddeall cyn doddi maen i lawr;*

(hynny yw Tafod yn troi'n Fynegiant: Ffurf cyn Deunydd)
Fel hyn y Gair tragwyddol, — y Gair y gelwid ef

*Yr amser bu e'n rhoddi i'r ddaear fod a'r nef,
A gadwodd yn ei feddwl bob iot o'r arfaeth bur
Yr amser rodd ei seilfan i awyr, môr, a thir...*

*Ac yna adeiladodd y cyfan oll i gyd,
Yn union 'n ôl y drefen yr oeddent yn ei fryd;
Dim rhagor oe'nt na phedair dros ben saith ugain awr,
Tra fu e'n gwneud yn berffaith ei greadigaeth fawr,...*

(hynny yw, ansawdd Trefnydd yw Trefn. Trefn yw daioni)

36 *Ac yna rhodd orchymyn, 'd oedd le roi iddo ball,
Am i'r elfennau wasgar y naill oddi wrth y llall;
Rhai 'fyny, rhai i waered, ac felly rhoddodd fod
O ddyfnder mawr ei allu i'r cyfan sydd erio'd.*

*Cyffelyb at gyffelyb gysylltodd ef yn awr,
Goleuni a thân i'r wybyr, a phridd a meini 'lawr;
A'r dyfroedd i'r wybrennau, i'r moroedd lawer mwy,
Ffurfafen yn y canol i dorri rhyngthynt hwy.*

Mae thema 'creu drwy drefn' yn bwysig yn yr Hen Destament (M I, 142-143), ac yn ganlyniad i fuddugoliaeth dros rymusterau anhrefn. Trechu'r chwalfa ydyw: cf. Eseia 40-55. Hynny yw, gwrthdrawiad yw rhwng dwy ochr: Salm 74: 16 – 17. Hyn sy'n arwain ymlaen at y Ddeddf. Llywodraethir pob sffêr, boed yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn gyfreithiol neu'n ysbrydol, gan yr angen am drefn yn erbyn darfod. Y Crëwr yw'r Gwaredwr. Ail-grëwr yw. Ac oherwydd y berthynas arbennig hon, gellid ceisio'r triawd Platonaid — gwirionedd, daioni a harddwch Duw yn nhrefn resymol y byd. Cyfeiria Kepler at ffynhonnell yr ymwybod o gydlynid rhwng meddwl Duw, rhesymoldeb dynol, ac adeiladwaith y bydysawd mewn diwinyddiaeth Gristnogol, lle y ceir cyfundrefnwaith sy'n gyfanwaith trwyadl drefnedig. Dadleua Thomas F. Torrance fod yna harmoni sylfaenol rhwng deddfau'r meddwl a deddfau neu wyddor byd natur. Nid yw hynny'n gwadu nad oes yna wahaniad: hynny yw, mae'r ffurfiau mathemategol, er enghraifft, yn annibynnol ar y meddwl sy'n pendroni amdanynt. Eto, er bod yna fyd o wybodaeth ddeallol a chanfyddiadau ymwybodol ochr yn ochr â'r byd ffisegol a mathemategol, y mae'r naill wedi'i diwnio i'r llall. Dyna sy'n rhoi gwerth i'r drefn, a threfn i'r gwerth.

Roedd Crist, wrth adeiladu'n 'berffaith', yn adeiladu â 'gwerth' trefn; ac i mi, dyna yw swydd y llenor. Dyna Bantycelyn yntau, felly, yn isymwybodol eto yn ei waith, o'i waith ef ei hun, *wrth iddo ef ei hun weithio*. Perffeithrwydd oedd nod Gwerth a Threfn iddo (Sibrydwch hyn wrth y Relatifwyr).

Bernir felly bob amser yn ôl yr Absoliwt. I Bantycelyn, y gwerth eithaf yw'r Duw Hollalluog yn caru'i elynion ac yn ei fychanu'i hun i aberthu ac i ddioddef er mwyn rhoi

popeth i'r dihaeddiant. Duw yw nad oedd ganddo ddim i'w ennill iddo'i hun, yn rhoddi ac yn caru'n llwyr ac yn berffaith. Efô sy'n gosod y safon eithaf ei hun, y pren mesur. Yn hyn y mae'r holl rinweddau ar gael ar gyfer barnu, gan gynnwys harddwch a goleuni deall a ffurf mewn llenyddiaeth a diwinyddiaeth. A chaiff Pantycelyn yr ateb drwy fywyd yng Nghrist.

O safbwynt gwyddonol, nid oes dim o fewn paramedrau gofod/amser a materoldeb gwyddoniaeth naturiol sy'n pwysu'n erbyn y drafodaeth oruwchnaturiol hon, onid ymhonni'n anwyddonol o blaid gwneud gwyddoniaeth yn absoliwt. Beth felly yw'r cymhelliad cyson gwrthwyneb yn y cyfnod diweddar? Mae'r etifeddiaeth ddiwinyddol eisoes sy'n ddigon o ryfeddod, ac yn cydnabod bod dimensiwn arall y tu hwnt i'r amlwg yn well na phosibilrwydd, yn ateb i lawer o broblemau. Mae'n warant i chwilio o ddifrif yn ôl amodaeth briodol y fath ddimensiwn y sonnir amdano. Pam felly y tybir bod gwyddoniaeth yn elyniaethus i ddiwinyddiaeth a bod rhaid bod hynny'n anghywir? Beth yw cymhelliad y gwyddonydd agnostig neu atheistig dogmatig na all brofi'r negydd mawr yn wyddonol nac yn ysbrydol?

Ai ymhoniad di-sail yr Ego Trosgynnol yn unig? Ai ofn i'r 'fi' gael ei disodli? Ai ymgais yw i or-ddyrchafu cyneddfau'r hunan a'i dipyn medrau materol? Yn lle cydnabod anallu dadlennol a gonest yn erbyn egluro bodolaeth bodolaeth, a thrwy osgoi esbonio tarddiad deunyddiau a deddfau, bywyd a pharhad, a deinameg cymhelliad, gwaith go chwithig yw i'r gwyddonydd, yn sicr o fewn amser a lle ei bamedrau'i hun, yw archwilio beth sy'n gyrru'r fath negyddu cwbl ddireswm. Pan fydd yn taeru cywirdeb am ei dybiaethau emosiynol heb brawf, y mae lle mawr i amau'i ysgolheictod. Aros o fewn y naturiol y gellir ei ddeall yw ansawdd ei waith; ac eto, myn ddamcaniaethu'n negyddol y tu hwnt i bamedrau arferol gofod/amser. Anodd gweld sail dros y fath ysfa am ymddygiad all-naturiol, onid yr eglurhad diwinyddol arferol am agenda o'r fath. Efallai fod peth o'r esboniad am y safbwynt all-wyddonol hwn yn y nawfed gyfundrefn.

CYMHELLIAD

‘Perthynas’ yw un o hanfodion diffiniol Cyfundrefneg. Ceir trefn i glymu elfennau wrth ei gilydd o fewn pob cyfundrefn. Ac nid anghywir fyddai synied mai math o Ddibyniaeth yw. Dyna ddiffinio’r math o berthynas sydd o ran natur. Y rhannau’n dibynnu ar ei gilydd ac yn cyd-ddibynnu ar y cyfan. Yn wir, yr un ddyfais sydd hefyd a wnelo ag estyn cydlyniad a chyd-gymorth rhwng cyfundrefnau â’i gilydd fel arfer. Dyma natur pob cyfundrefn a phob perthynas mewn iaith a llên. Gellid ychwanegu o’r herwydd fod yr ymdeimlad hwn o Ddibyniaeth yn cyfateb ac yn cydredeg â Chynhaliaeth drwy gydol Hierarci’r bydysawd benbwgilydd.

Un o nodweddion mawr Cyfundrefn (*incidence*) ysbrydol yw Disgyrchiant Ysbrydol. Dyma un o briodoleddau Absoliwt, fod hon, sy’n gweithredu ar sail eithaf yn gyfeirbwynt i bob meddwl cyfrifol a dynol, yn gynhaliaeth y gellir mynd yn ôl ati neu ymlaen iddi (gw. M II, 4-29). Wrth drafod cwlwm yr Archgyfundrefnau Ffurfiol sy’n amodi ac yn cyflyru Deunydd, yr ydys bellach wedi cyrraedd y grŵp yn y cwlwm hwnnw sy’n fwyaf *cymelliadol* ei swyddogaeth. Crybwyllwyd eisoes yr Ymwybod gweithredol o ‘Werth’ fel Wythfed Gyfundrefn. Bwriedir symud ymlaen i’r ‘Gorchymyn Diwylliannol’, yn y Ddegfed Archgyfundrefn, a ‘Diben’ yn yr Unfed ar Ddeg. A dymunaf nodi yn awr natur y ffenomen gydiol gymelliadol sy’n caniatáu cyswllt ffrwythlon rhwng elfennau neu gyfundrefnau o’r fath â’i gilydd, ffenomen sy’n rhannu yn ddiau yn yr ymwybod gorfodol a chorfforol a fedd pawb o ddisgyrchiant. ‘Disgyrchiant’ yw’r gyffelybiaeth strwythurol ar gyfer Ffydd; neu Ffydd yw’r term ar gyfer Disgyrchiant Ysbrydol. Dyma ffenomen sy’n berthnasol i bob gweithgaredd ar y ddaear gron. Ond yn y grŵp cymelliadol yn anad yr un y ceir y cyfundrefnau hyn sydd a wnelont yn fwyaf uniongyrchol â gyriant cydweithredu.


Os arolygwn y tri maes cynhaliol felly, a nodais mewn Beirniadaeth Gyfansawdd, megis mewn iaith, sef Tafod, Cymhelliad, a Mynegiant, sylwn fod pob un o’r tri hynny yn dibynnu ar ei gilydd. Nid oes diben i Dafod heb Fynegiant. Heb drefn Tafod, bydd Mynegiant ar chwâl. A heb Gymhelliad ni fyn Tafod esgor ar Fynegiant. Ac yng ngrŵp Cymhelliad ymhlith yr Archgyfundrefnau a drafodwn ar hyn o bryd, gellir yn gyfiawn hawlio bod y triawd fframweithiol angenrheidiol yn cynnwys yn annatod yr Ymwybod o Werth/yr Ysfa am Drefn/y Gyriant tua Diben. Ac y mae’r rhain eto yn dwyn perthynas ddibynnol ar ei gilydd.

Wrth drafod Hierarci clymu Ffurf wrth Ddeunydd, ac ar ôl hawlio mai’r Absoliwt yw’r cyfeirbwynt cychwynnol i’r cwbl, gwiw sylwi pa bwynt dibennol yw’r nod i’r holl

symudiad yn y pen draw. Ceir trefn gydlynol lle y mae'r cwbl yn arwain o'r diwedd ymlaen at Ddibyniaeth absoliwt. Prif nodwedd y meidrol, yn ôl yr athronydd mawr Spinoza, yw ei ddibyniad ar yr Anfeidrol.

Beth yw'r uned leiaf gyflawn o fewn rhediad iaith? Ffrwyth yw i'r holl Gyfundrefn hon o gyfundrefnau a fynega ystyr lenyddol. Mewn ieithyddiaeth, y gair (mewn Tafod) neu'r frawddeg (mewn Mynegiant) yw'r ateb priodol. Dyna'r cynnyrch. Mewn theori lenyddol ddeunyddiol (a hyd yn oed yn ddiwinyddol), y *motiff* yw (o leiaf os yw'n ymwneud â chyfundrefn thematig). Dyna'r fricsen ystyrllon gyflawn unigol sydd, gyda'r brics eraill, yn adeiladu cynnwys iaith llenyddiaeth orffenedig i gyd. Dyna'r ffrwyth thematig terfynol, sef y diben ffurfiol i'r holl hierarci ddeunyddiol mewn Mynegiant.

Ac y mae'n dra phwysig sylweddoli, nid yn unig beth yw'r cynnwys sydd i'r fricsen honno, eithr hefyd sut yr eir ati i'w defnyddio mewn adeilad. Ei pherthynas yn yr hierarci. Beth sy'n adeiladu gair yn ymarferol? Onid gramadeg brawddeg? Beth hefyd sy'n clymu bricsen wrth fricsen i lunio thema gyfundrefnol? Dibyniaeth (neu ddisgyrchiant meddyliol) ac ysfa am drefn yw'r ateb. Ni cheir na Thafod na Mynegiant na chyfundrefn thematig na motiff heb hyn. Dibynna Tafod a Mynegiant ar ei gilydd. Dyna drefn anweledig y gŵyr y baban amdani, heb ei sylweddoli'n ddeallol. 'Incidence' yw term yr ieithydd mawr Gustave Guillaume amdani (o'r Lladin *incidens* 'syrrthio ar'). Fe ddangosodd ef o fewn gramadeg y rhannau ymadrodd traethiadol fel hyn :--



(gw. *Language in the Mind*, W. Hirtle, 129-139)

Dangosodd fod y rhain oll yn perthyn i'w gilydd, yn pwysu, yn ôl egwyddor dibyniaeth (incidence): 3 ar 2, 2 ar 1. Yr wyf i wedi dadlau mai dyma'r defnydd hanfodol i'r graidd-frawddeg gyflawn. (*System in Child Language*). Dadleuais mai'r rhain oedd propiau mewnol y prif gymal brawddegol, hyd yn oed ar gyfer adeiladu'r 'ymadrodd' hefyd, a hefyd o fewn is-gymalau. Mae'n frawddeg un-elfen, hunan-ddibynnol i ddechrau: e.e. 'Help'; neu'n frawddeg ddwy-elfen: e.e. 'Cododd Crist', gydag un elfen ddibynnol ar yr hunan-ddibynnol; neu'n frawddeg dair-elfen: e.e. 'Lladdodd Dafydd filoedd', gyda'r elfen olaf (ad-ferf) yn dibynnu ar elfen ddibynnol. Dyna'r diffiniad cyfundrefnol i 'ad-ferf'. Hynny yw, ceir clymwr neu yriant sy'n gwneud yr olyniant yn berthynas; a hynny yw dibyniaeth, — unol, ddeuol, driol. Heb ddibyniaeth, ni ellir ffurfio meddwl cyflawn. Dibyniaeth gyfundrefnol yw dyled Mynegiant i Dafod. Mae dibyniaeth yn un o gynhwysion mwyaf Cariad ei hun.

Dadleuais hefyd (yn *Seiliau Beirniadaeth*) mai dyna yw adeiladwaith sylfaenol y naratif oll (ac y mae rhywbeth tebyg yn wir hefyd ac ar waith yn y bôn yn llenddull ‘trafodaeth’, a phob gwaith llenyddol arall o ran hynny).

1. *Y goddrych (arwr)* | 2. *Y weithred* | 3. *Yr amgylchfyd* (weithiau’n wrthrych)

Mewn stori, ceir prif gymeriad, enw, y disgyrcha popeth tuag ato. Mae yna weithredu wedyn, mae rhywbeth yn digwydd, a dyma’r elfen ferfol mewn stori. Eithr digwydd mewn lle ac amser, a dyna sy’n darparu’r ‘elfen ad-ferfol’ ac yn goleddfu’r ferf.

Dyma’r hanfodion; a phwysant, bob un, y naill ar y llall yn ôl dibyniaeth.

Felly y mae hi’n ddiwinyddol hefyd:

1. *Yr Absoliwt* | 2. *Y Cyfryngu* (sy’n gweithredu ar ran yr Absoliwt) | 3. *Y Pechadur* (yn y berthynas, fe’i diffinnir gan ddibyniaeth ar y weithred)

Disgyrchiant ysbrydol yw’r clymwr. Dyma archgyfundrefn fawr Cymhelliad. Dibyniaeth yw sy’n cysylltu’r *motiff* bach yn nherfyn holl broses thematig llenyddda â’r Absoliwt yn y gwraidd. Dibyniaeth hanfodol yw y ceisiwyd ei dryllio yn Eden.

Mae’n ffaith nodedig bod y frawddeg mewn iaith a’r stori mewn llenyddiaeth (ac os caf ddweud, y delyneg a’r ddrama hefyd) yn dod o hyd i egwyddor ‘dibyniaeth’ i rwymo’u helfennau cynhaliol wrth ei gilydd. Dyna ddangos ei phwysigrwydd cyfundrefnol. Dyma’r ddelwedd ginetig isymwybodol sydd gan bawb fod yna gynhaliaeth i’n pwysau. Gellid synied bod y ddwy gyfundrefn, yr ieithyddol a’r llenyddol, yn ddigon trawiadol i awgrymu arwyddocâd y fath egwyddor, er y buasai’r ffaith ei bod yn ymgysylltu â ffenomen ‘disgyrchiant’ yn peri inni synied am ei chanologrwydd mewn bywyd. Ond yr un egwyddor yw’r hyn sy’n sylfaen i’r profiad Cristnogol ac yn asgwrn cefn i blot y Beibl; ac felly i holl waith Pantycelyn. Fel y byddwn yn gorwedd, yn codi, ac yn eistedd drwyddi draw, heb ymwybod â disgyrchiant yn effro, felly y lluniwn ein brawddegau gyda’r rhannau’n ymsymud ymhlith ein gilydd yn ddiarwybod.

Pwysu ar Dduw yw credu ynddo. Ymddiriedaeth yw hynny yn Ei gynhaliaeth. Drwy Ddibyniaeth ymwybodol, sut bynnag, y’n cyfiawnheir. Ym mherthynas Credoau a ‘Rhadgyb’ yn Niwinyddiaeth Cornelius Van Til, yr un ‘ddibyniaeth’ a geir. Ar y goddrych y pwysa dyn naturiol. Ar y rhadgyb neu’r Absoliwt y pwysa pob dealltwriaeth. Disgyrchiant yw’r ddelwedd fu y tu ôl i’r term Cwmp yn y lle cyntaf. Anghrediniaeth yw gwreiddyn pechod, a’r traed yn mynd ar goll odanom. Dibynnu diffygiol oedd cwmpo. Trefn o ddibyniaeth a sefydlwyd er lles dyn gan Dduw, gyda dyn yn pwysu’n feddylol ac yn gorfforol ar Ei

Wirionedd Ef. Sefydlwyd trefn eithafol o bwysig o'r fath wrth greu dyn. A dyma bennau'r 'plot' yn yr Arfaeth:

Credu		Anghredu		Credu
Undod		Ymwahanu		Adfer yr Undod
Creu		Cwyp		Codi

Dyna brif ddolennau'r Hanes, a'r cwbl yn ôl egwyddor 'Dibyniaeth'. Hyn a rydd ei ystyr i sgrechair Pantycelyn 'Popeth yng Nghrist'. Hwnnw yw canolbwynt disgyrchiant ysbrydol. Mae'n ymestyn hefyd i'r egwyddor fawr o ymostwng: gŵr/gwraig; rhiant/plentyn; llywodraeth/dinesydd; goruchwyliwr/gweithiwr; Crist/eglwys, bob un *i'w gilydd*.

Yn ei araith olaf, meddai Theomemphus:

GWWP I, 397 *Rwy finnau'n teimlo'm hysbryd yn 'maflyd yn y gair,
Rwy'n teimlo pwys fy enaid ar 'aned gynt o Fair.*

Mae'n ddelwedd isymwybodol hollol ganolog felly i'r grefydd Gristnogol. Yn y rhagarweiniad rhyddiaith i bennod gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist*, mae Pantycelyn yn disgrifio'r Arfaeth 'Yn rhoddi'r holl arfaeth hon ar Grist a'i chyflawni, a'i osod yn Farnwr yn niwedd y byd.'

Yn hyn o beth gwelwn berthynas 'Dibyniaeth' drachefn yn y seithfed a'r wythfed Archgyfundrefn, sef *Duw/Arfaeth*. Canai Williams:

GWP II, 364 *Does arall fan i roi fy mhwys,
Ond ar dy addewidion dwys ...*

*Neb is nef ond Ti dy Hunan
Ddeil i fyny f'enaid gwan*

361 *Arno rho'i 'mhwys, doed dydd, doed nos,
Fe'm dal i'r lan tan bob rhyw groes.*

355 *Ar dy fynwes minau bwysaf...*

350 *Am hyn rhof arno 'mhwys...*

Lle y bu Cwyp neu bwys yn y byd ysbrydol ceir Canolbwynt Disgyrchiant ysbrydol.

GWP II, 216 *Fe ro'wd arno bwys euogrwydd,
Pwys na's gall ei ddal mo ddyn ...*

Arglwydd ynot ymddiriedais ...

*'R unig sylfaen 'nawr sydd genyf,
Bwys ar dy addewid drud.*

Dibyniaeth yw'r term neu'r ffordd briodol efallai o synied hefyd am yr Undod sydd o fewn hierarci yn y Gyfundrefn o gyfundrefnau. Mae popeth wedi'i asio wrth ei gilydd gan yr un grym a'r un cydlynad. Ef yw canolbwynt disgyrchiant cariad y Greadigaeth. Yn y

bydysawd ffisegol hwn, chwaraeir yr un rhan yn gorfforol yn union ag y chwaraeir yn y fan hon yn feddylol, gan rym Disgyrchiant. Y ddibyniaeth hon yw priodoledd bennaf y berthynas rhwng y Greadigaeth (gan gynnwys dyn wrth gwrs) a'r Duw Absoliwt. Dibyniaeth — neu ffydd — yw'r cwlwm sydd rhyngom a Duw. Pwyswn yn anochel arno Ef.

Y gair (ac yn ei sgil y frawddeg) yw'r brif gyfundrefn mewn iaith. Dyna'r ddyfais a ddefnyddir yn gyflawn ar gyfer dweud pob peth ac unrhyw beth. Ac fe gyfetyb ei chlwm mewnol, dibyniaeth, i'r un grym, disgyrchiant, sy'n clymu'r bydysawd oll wrth ei gilydd. Mae'n cyfateb yn union o ran swyddogaeth i ffydd, sef yr hyn y'n cyfiawnheir drwyddi gerbron canolbwynt pob dibyniaeth, ein Harglwydd a'n Gwardedwr.

Yr un fframwaith dibynnus ag a geir yn driol ar gyfer y frawddeg (ac ar gyfer yr ymadrodd enwol gyda llaw; 'Duw mawr iawn'), a geir hefyd (fel y cawn weld gobeithio) ar gyfer y *motiff*. Mewn geiriau eraill, yng nghyfundrefnwaith Hierarci'r Absoliwt, y mae i Ffydd neu Ddibyniaeth statws arbennig. Dyma'r clwm fertigol a llorwedd. Yn y fan leiaf ac isaf, dechreu'r ddibyniaeth yn y *motiff*, a ddibynna ar y gyfundrefn thematig/ a'r gyfundrefn gynorthwyol, a ddibynna ar gyfundrefneg y Sfferau, a ddibynna ar yr Archgyfundrefnau, a ddibynna yn derfynol ar y Tri-yn-Un. Drwy gredu y down oll i gadwedigaeth. A hyn yw ystyr hierarci'r cyfundrefnau oll. Hyn hefyd sy'n difrifoli'r Farn.

Mae'r fricsen olaf honno yn yr hierarci sy'n tarddu i lawr oddi wrth yr Absoliwt — sef y *Motiff*, — felly, yn dibynnu hefyd fel cyfanwaith ar Gyfundrefn Thematig sy'n dibynnu ar Gyfundrefn y Sfferau Thematig, Deddfol, a Sefydliadol sy'n dibynnu ar yr Absoliwt mewn gwirionedd, yn ddeinamig. Mae'r Gyfundrefn Thematig fertigol felly yn dibynnu ar yr hyn a eilw Dooyeweerd yn Sofraniaeth y Sfferau (Deddfog); ac mae'r rheina o dan reolaeth Cyfundrefneg yr Un ar Ddeg Archgyfundrefn Ffurf, gyda'r rheini yn dibynnu yn eu tro ar yr Absoliwt Mewnfol. Hynny yw, y mae gennym Hierarci Gyflawn o Ddibyniaeth. Mewn Cyfundrefn o Gyfundrefnau, y mae popeth yn cyd-berthyn, ac yn cyd-ddibynnu, — heblaw'r Absoliwt ei hun wrth gwrs, neu gynrychiolydd yr Absoliwt, sy'n hunan-ddibynnol.

Ffydd, cyfrwng bywhau'r ysbryd marw, yw'r gair diwinyddol arferol ar gyfer Dibyniaeth neu Ddisgyrchiant ysbrydol.

Gan fod y *motiff* thematig wedi'i adeiladu o'r un defnydd â'r frawddeg, a chan fod yna reidrwydd i bob gosodiad a phob uned a leferir yn cyflawn ddilyn y drefn hon, rhaid inni synied fod yna gymhelliad sy'n ei drefnu a'i gynnal a'i yrru a'i gydlynu yn orfodol gyffredinol; ac felly rhaid cyfrif mai 'dibyniaeth' driphlyg yw'r archgyfundrefn atebol honno.

Gwyddai Pantycelyn yntau yn burion ym mhob man am ddisgyrchiant ei enaid: 'Pwyso', 'Cynnal', 'Cyfryngwr', 'Ffydd', 'Credw', yw'r termau allweddol sy'n mynegi ei

berthynas â Duw. *Dibyniaeth lwyr ar Dduw yng Nghrist (iddo Ef) sy'n gwneud ystyr yn bosibl. Disgyrchiant ysbrydol yw hanfod cudd pob perthynas mewn Ffurf, Deunydd, a Chymhelliad.* Beth felly yw credu i Adda ac i ni onid pwysu ar leferydd Duw? Ac onid Uffern hithau oedd pen draw colli hyn?

Mae dibyniaeth yn galon, felly, i'r Ffydd Gristnogol. Ac y mae Pantycelyn yn reddfol yn troi at y ddelwedd honno heb bendroni:

- GWP II, 256 *N'ad fi adeiladu'n ysgafn
 Ar un sylfaen is y ne',
 *Na chymeryd **craig i orphwys**
 Tu yma i angeu yn dy le;
 Ti, fy Nuw, tra f'wyf byw,
 Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.**
- 69 *Yn nghanol cyfyngderau caeth,
 A myrddiwn o ofidiau maith,
 Gad i mi roddi pwys fy mhen
 I orphwys ar dy fynwes wen.*
- 175 *Calfaria fryn yw'r **unig sail**
 Adeil'af arno mwy ...*
- 377 *Ni chaiff bod eisieu byth na thrai
 Tra seren yn y nef,
 Ar neb o'r rhei'ny **roddo'u pwys**
 Ar ei gyfiawnder Ef.*
- 329 *Yn nyfnder t'w'llwch nos
 Mi bwysaf ar ei ras ...*

Disgrifio y mae ef yn y geiriau hyn un o strwythurau mawr ei feddwl.

Cyfundrefn thematig ydyw yn y fan yma, yn esgor ar *fotiffau*. Ac yn y pen draw, yr hyn yw'r Absoliwt o Dduw i Gristion ddibynnu arno, yw'r absoliwt o ddyn i'r seciwlaryn ddibynnu arno wrth drafod Deunydd. Cyffelyb yw'r ffurf. Gras Cyffredinol yw'r ffurf honno o ran safle.

Gwelwn yn y perthnasoedd gwahanol hyn, sy'n adeiladu calon Diwinyddiaeth gyfundrefnol y Ffydd Gristnogol, fod rhai athrawiaethau hollol ganolog yn gysylltiedig â'r cysyniad hwn o ddisgyrchiant ysbrydol o ran Gras Arbennig. Yr Iawn, er enghraifft, Iachawdwriaeth, yr Ymgawdoliad, Prynedigaeth. Cymerer cynllun Pantycelyn ar gyfer ei gerdd *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dechreuir yn y Drindod gyda Duw yn anfon y Mab i greu'r byd (ynghyd â rhagluniaeth, gan gynnwys iachawdwriaeth). Ac yna, ar ddiwedd y gerdd cyflwynir y byd gan y Mab yn ôl i'r Tad. Triphlyg yw'r goddrychau. Ceir deinameg yr Ysbryd rhyngddynt i ddynoliaeth. Ac y mae pob un yn 'dibynnu' neu'n 'pwysu' — er mai cariad bron bob amser yn y Beibl yw ansawdd y 'dibynnu' — ar ei gilydd. Gwasanaethir Tad

fel arweinydd, pwysa'r Mab arno ('Ein Tad'), a gwaith yr Ysbryd Glân yw ein cyfeirio at Grist.

Dyma graidd perthyn.

Oherwydd i Adda anghredu, dryllio'r drefn, ymwahanu oddi wrth Dduw, peidio â dibynnu arno, mae yna rwystr o du Duw cyfiawn rhag derbyn pechadur yn ei ôl heb iawn. Ni all gorffori pechod o fewn Ei drefn, a newid ei safonau a'i undod ynddo'i hun ac ag arall; a rhwystr (o du dyn) difrifol, annatodadwy ohono'i hun rhag Duw. Dim ond Duw a all weithredu a datrys hyn. Dadlennir cyswllt triphlyg felly: drwy'r Duw digyfnawid tragwyddol raslon, yr Eiriolwr neu'r Iachawdwr, a'r pechadur. Yr Ysbryd Glân sy'n gyrru'r pechadur trwy'r Mab at y Tad. Canolbwynt eu Disgyrchiant yw'r Drindod Sanctaidd, y Duw-ddyn perffaith sy'n dioddef dwyster a dyfnder erchyll pob pechod, a'r truan anghrediniol yn pwysu arno yn ei angen eithafol.

Dibynnu yw'r drefn hyfryd a gadwyd ac a ddyfeisiwyd ar gyfer llawenydd. Allan o'r sefyllfa driphlyg hon y cawn emynau Williams am y Cymod yn y gwaed. Beth yw credu cariadus ond pwysu, dibynnu ar Ei gyfamod ef?

GWP II, 88

*GwrthdDrych ni wel fy enaid gwan
Ond Iesu i bwysu arno'n rhan ...*

*F'Arweinydd llariaidd tua thre',
F'Eiriolwr cyfiawn yn y ne'.*

Trafodir y gyfundrefn hon yn llawnach yn *System in Child Language a Beirniadaeth Gyfansawdd*. (gw. 'Mynegai' — Dibyniaeth, Stori, Brawddeg, Rhannau Ymadrodd Traethiadol. Ond y mae'r cyfatebyn ieithyddol 'incidence' hefyd yn arwyddocaol ddeallol: gw. 'Mynegai' *Language in the Mind*, Walter Hirtle, Mc Gill-Queen's University Press, 2007).

* * *

Eto ymddengys cyfundrefn y sfferau fel pe bai'n ein tynnu allan o ymwybod yn *uniongyrchol* â natur drosgynnol y cyfrifoldeb neu'r ddibyniaeth, ac yn ein symud ni i feysydd testunol creedig, a hunanlywodraethol. Yr ydym yng nghanol amllder dyletswyddau pob-dydd. Eithr sylwer fel yr erys trefn dibyniaeth drwyddi draw o hyd hyd amllder beunyddioldeb.

Un o gwestiynau mawr Cyfundrefn o Gyfundrefnau Deall yw ymholi ar ba beth y mae pob cam yn dibynnu? Beth yw'r rhagdyb? Ymhle yn yr hierarci o ddibynnu y safwn?

Yn y ddeunawfed ganrif, symudodd gwrthrych dibyniaeth eithaf y deall rywfaint o fewn ffasiynau meddyliol. Datblygodd tyndra cwbl ddialw-amdano gan Seciularwyr rhwng

Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, a hynny o fewn yr hyn a elwir yn Ymoleuo (*Secular Enlightenment*). Tyndra ydoedd y ceid Pantycelyn yn ei ganol. Hyn oedd y tyndra tybiedig rhwng dysg ddyn-ganolog a dysg Dduw-ganolog, rhwng yr Ymoleuo a'r Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*). Aeth dysg ddyn-ganolog yn ddisgyrchiant i falchderau dyn. Dyma'r 'awdurdod' i rywrai. Gwelai Pantycelyn i graidd yr hyn a oedd ar gerdded. Nid dysg 'newydd' oedd y broblem o gwbl iddo ef, ond rhagdybiau rhai gwyddonwyr a geisiai fynd ymhellach nag y caniatâi'u dysg, i faes metaffusega seciwlar amddifad, dau-ddimensiwn. Cwmpent yn ddi-ddysg yn eu rhagdybiau ynghylch canolbwynt disgyrchiant deallol oherwydd yr Ego Trosgynnol.

Beth oedd cyfeiriad dysg felly? Ble y ceid canolbwynt ei dibyniaeth — ai mewn syniadau goddrychol dyn-gyfyngedig ynteu yn natguddiad ac awdurdod Duw ar waith yn athrylith dyn?

Dyweddodd Pantycelyn mewn geiriau diflewyn sydd wedi dod yn bur enwog erbyn hyn:

GWWP I, 383 *Yn erbyn dysg nid ydwyf, mi wn bod dysg a dawn —
Os hwy na chamarferir — yn berlau gwerthfawr iawn; ...
Ond i'r wybodaeth yma i ragwasnaethu gras...*

384 *Nid dysg wyf fi'n ffeiddio...
Ond am fod dyn heb alwad ...
A dyn yn cael ei ddysgu heb ei gyfnewid ef ...*

Gras Arbennig yw'r hyn a roddwyd i ddod o hyd i Absoliwt dibynnol.

Rhoddai ei fys felly yn union ar y gynhaliaeth lle y cododd yr helbul. Yr oedd ffrwythau Gras Cyffredinol yn cael eu gwyro gan yr hyn y dibynnid arno. Dyma'r sbectol yr edrychid drwyddi. Nid oedd a fynnai'r cwestiynau ddim oll â dysg ddynol — sef maes arferol Gras Cyffredinol. Tynnodd yr Athro Derec Llwyd Morgan ein sylw at agwedd un o Ddiwygwyr pennaf y gorllewin, at yr arwyddocâd deallol: 'Y cynnydd mewn dysg, meddai Jonathan Edwards, yw un o ddigwyddiadau y cyfnod Piwritanaidd. Y mae dysg ynnddi'i hun yn rhywbeth i ymhyfrydu ynddo, oblegid y mae'n llawforwyn ardderchog i ddiwinyddiaeth'. Yn y bôn, ffrwyth yw dysg, a rhan yw o'r gyfundrefn ddiwylliol. Cyfundrefneg ysbrydol yr Oleuedigaeth oedd un o ddatblygiadau mawr y Diwygiad Protestannaidd a Phiwritaniaeth.

Mewn modd tebyg, yr oedd Williams yn gallu bod yn llawdrwm ar Gristnogion a fynnai ym malchder eu profiad fychanu dysg:

*Mae sêl heb ddim gwybodaeth, er ei ymddangosiad mawr
Yn torri ei pherchennog yn ddrylliau mân i lawr.*

Pa ragwelediad y pwysid arno felly? Dyna'r cwestiwn. Nid 'Pa ddysg a oedd yn ddiduedd'? Ond — ble'r oedd y rhagdyb i ddysg? Gan bwy yr oedd awdurdod i bwysio arno? Pa fath o ddysg oedd?

Bu hyn er y ddeunawfed ganrif yn gwestiwn byw.

Erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sut bynnag, o leiaf gydag amheuwyr 'diymholiad' neu all-wyddonol mewn un dimensiwn, cododd yr ystrydeb amheul yn Sefydliad. Nid oedd ganddynt ddim o'r anturiaeth ymenyddol ysbrydol a nodweddaï sgeptigiaid y ddeunawfed ganrif pryd yr oedd cwestiynau anghrediniol yn her ac yn 'newydd-deb' a heb eu cau'n gyfyngedig glep, ac efallai hyd yn oed yn ddull creadigol o feddwl ac o chwilio gwybodaeth ar y pryd. Erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd gwrthod yr Absoliwt a chofleidio ansicrwydd dyn-ganolog yn rhigol ragdybiol i bob Twm, Dic a Harri, lle, ynghynt yn y ddeunawfed ganrif, y caed ffresni o hyd o du'r credinwyr a'r anghredinwyr fel ei gilydd, ym maes rhagdybiaeth. Diflannodd hyn o fewn canrif. 'Bod yn ddiduedd' oedd y myth mwyach. A gwelwyd erbyn yr ugeinfed ganrif yr *avant-garde* diwerthoedd, *dada*, a newydd-deb gwneud er mwyn newydd-deb, yn ffenomen a 'heneiddiodd' ac a 'beiriannwyd' mewn degawd: gwaelod lluddedig y baril. Y ddibyniaeth ar y diddim.

Perthynas rhagdyb a dysg, dyna fater allweddol a danlinellai Pantcelyn yn y pennill:

GWWP I, 228

*'R wy'n gosod ffydd yn flaenaf, 'r wy'n gosod gwaith yn ail,
Os annog i sancteiddrwydd 'r wy'n gosod Crist yn sail.*

Wrth roi'i fys ar y rhagosodiadau a'r sylfeini, tanseiliai Pantycelyn holl ogwydd y 'modernwyr' rhyddfrydig truenus a ddistrywiodd bwlpuadau Cymru wedyn ac a fynnai mai rhagdybiau dyn-ganolog oedd yr unig rai deallol.

Efallai fod yna gais weithiau, yn isymwybodol, i'n perswadio mai Williams, ar ei ben ei hun, oedd yr unig ddarllenydd diwylliedig a fawrygai ddysg ymhlith y diwygwyr Methodistaidd cynnar. A da oedd i'r Athro Derec Llwyd Morgan ein hatgoffa ni: 'Cynhwysai llyfrgell Daniel Rowland yntau gyfrolau gan William Ames, Anthony Burgess, Thomas Goodwin, Benjamin Calamy, yn ogystal â Homer, Fyrsil, Juvenal.' Yr un mor drawiadol oedd y geiriau am Rowland gan J. C. Ryle, yr Esgob Anglicanaidd efengylaidd uchaf ei barch yn ystod y ganrif ar ôl Rowland: *'Even in the little volume of eight sermons which I have, I find frequent quotations from Chrysostom, Augustine, Ambrose, Bernard and Theophylact. I find frequent reference to things recorded by Greek and Latin classical writers. I mark such names as Homer, Socrates, Plato, Aeschines, Aristotle, Pythagoras, Carneades, Alexander the Great, Julius Caesar, Nero, the Augean stable, Thersites, and Xantippe, make their*

appearance here and there ... In this respect I think he excelled all his contemporaries. Not one of them shows so much reading in his sermons as the curate of Llangeitho.'

Gwiw cofio mai cymdeithas fechan o ddeallusion disglair oedd amgylchfyd Williams, ar y dechrau, heb eu hallforio. Ac wrth iddo deithio o dyddyn i dyddyn, ceid peth cwmniâeth cefn gwlad a oedd heb golli, i raddau, eto, ei ruddin meddyliol. Dysgedigion bychain heb eu halltudio. Tyfodd y cnewyllyn hwn drwy ysgolion Griffith Jones a Thomas Charles yn dyrfa pan oedd y Cymry Cymraeg yn barod i roi amser i ddysgu eraill ac i feddwl. Myth grŵp o haneswyr, a chanddynt agenda, fu tybied mai'r dosbarth canol yn unig a 'feddyliai' yn y Seiadau hyn ac yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gwerin ddysgedig wasgar a gaed hwnt ac yma. A deallwyd yr helaeth yn ddigonol.

Er bod y gynulleidfa heddiw mewn llawer o bentrefi fel Llangeitho yn byw mewn cyfnod pryd y mae miloedd o raddedigion bob blwyddyn sy'n gallu manteisio ar Brifysgolion Cymru, yn cael eu hallforio, pryd hefyd mae ein prif sefydliadau nawdd ac Addysg yn cynhyrchu neu'n cefnogi llawer o lyfrau is-safonol, a'r twpeiddio nawddoglyd cyfredol yn y Celfyddydau yn boliticaidd fwriadus, go brin bod llawer iawn o gynnydd deallol ymhlith y bobl sy'n mynychu (neu o bosib ambell un heb fynychu) y capel lleol a fyddai wedi clywed o'r pwlpudd ddysg debyg i'r hyn a daniai galonnau Llangeitho yn nyddiau Daniel Rowland. Caiff ein haneswyr cyfoes gryn waith i'w hamgyffred hwy.

Ym Mhennod XIX, *Theomemphus*, ceir trafodaeth ddigon cyfoes ar bwrpas dysg.

Medd Dr Meredydd Evans amdani, 'Nid oes demtasiwn o unrhyw fath ynghlwm wrth y sgwrs rhwng Theomemphus ac Academicus. Dadl sydd yma, nid temtasiwn...Nid oes i'r trafod gyswllt dirfodol â phrofiadau sancteiddhad Theomemphus.' Gwelaf bwynt Dr Evans, er na chydysyniaf ond i raddau. Syniaf yn gam neu'n gymwys, ym mryd Pantycelyn ei hun, mai dysg a merched oedd y temtasiynau personol pennaf ymhlith y rhai a wynebair Theomemphus. Roedd ef yn ymryson â'r rhain ar ran ei seiadau a'i gyfeillion. Y rhain a'i blinai ef yn bersonol. Câi ei ysu a'i feddiannu gan fwynderau dysg. Gallasai roi'i holl amser iddi. Dymunai hefyd fod yn gwrtais tuag at ddysg. Eto, at ei gilydd, ychydig oedd y cig deallol yn ei ddadl. Tenau oedd rhai o'r 'dadleuon' diwinyddol ffurfiol eraill yn ei waith, megis dadl Sandemaniaeth, a chaent eu cynnal ar lefel bersonol. Diau mai dyna oedd y craidd hefyd. Gofynnai yr un cwestiwn iddo'i hun ynghylch dysg ag a ofynnai wrth ofyn am bob gwedd ar fywyd Sancteiddhad. Ar beth yr wyf yn rhoi fy mhwy? Pa ran sydd i hyn yn yr Arfaeth? Beth yw'r berthynas rhwng Gras Cyffredin a bywyd sant? 'Mater ymylol yw yn y rhan benodol hon o'r gerdd,' medd Dr Evans. Ond dyna'i fater ef yn bersonol feunyddiol. Hyn a faglododd hanes Lewis Edwards, maes o law. Rhan yn unig o'r ddysg oedd y dadleuon

diwinyddol. Wrth feddwl am hyn, yr oedd yn meddwl am fywyd cyffredin bob dydd yn ei brofiad ei hun. Y pwynt yw: rhaid i ddysg hefyd ddod o hyd i'w chanolbwynt disgyrchiant fel holl roddion Duw yng nghanol y symudiadau seciwlar. Mae gan ddysg hithau ei rhagdyb.

Pwysigrwydd Mirandus, fel y dangosodd yr Athro Derec Llwyd Morgan oedd ei fod yn cynrychioli y gŵr goleuedig o Gristion. (Ceir cyflwyniad byr, ond bywiol ddigon, ohono yn y rhagymadrodd i *Pantheologia*, a gyhoeddwyd mewn rhannau rhwng 1762 a 1779). Y lle y methodd Pantycelyn yn hyn o ymchwil oedd yn yr her a roddai bodolaeth dysg ffrwythlon Gras Cyffredin ym mhatrwm meddwl y Cristion cyffredin. Er y parch hwn at ddysg gan Thomas Charles yntau wedyn, ac yna Lewis Edwards, ni cheisiodd neb o'r Diwygwyr a'u dilynwyr rhwng y ddeunawfed a throthwy'r ugeinfed ganrif ddatblygu athrawiaeth drylwyr ynghylch perthynas lawn Diwylliant a Christnogaeth. Gadawyd hyn i ddyneiddwyr rhyddfrydol. Ar ôl Diwygiad 1859, ac yn arbennig erbyn 1904 yr oedd Carismatiaeth Humphrey Jones ac Evan Roberts yn tueddu i arwain pobl ar lwybr pietistiaeth. Gyrrwyd hollt yng nghyswllt gwareiddiad a Christnogaeth. Aeth y Pietistiaid ar y naill law ar wahân i ddysg, a'r dysgedigion yn falch ac ar wahân i fyd yr ysbryd. Dargyfeiriwyd yr hen daeogrwydd Cymraeg, a'r cymhleth israddoldeb ynghylch hunaniaeth ieithyddol neu ddiwylliannol yn gyffredinol, i ymwrthod â'r iaith fwyfwy, a hunanamddiffyn drwy fychanu pwysigrwydd diwylliant yn gyffredinol. Tyfodd crac rhwng profiad ac addoliad neilltuedig ar y naill law a'r hawliau iach sydd gan Dduw ar bob gwedd ar fywyd deallol ac ymarferol.

Collwyd dibyniaeth y ddaear ar foesoldeb gan bobl a amddifadwyd o ddibyniaeth y Greadigaeth ar Benarglwydd. Ond yr hyn a gollwyd hefyd oedd y persbectif Cristnogol ar ddysg, diwylliant, a bywyd cymdeithasol deallol.

Mae problem dysg i rai pietistiaid yn ymgysylltu â'u hamharodrwydd i dderbyn bod pob gwedd ar fywyd yn dibynnu ar Dduw. Ceisir cyfyngu'r pwysu i Ffydd yn unig. Ac y maent yn amharod i dderbyn bod holl ddyddiau'r wythnos yn pwysu'n uniongyrchol ar y Sul, a phob rhan o'n gwaith pob dydd yn dibynnu ar yr Absoliwt. Ysgerir diwylliant a chymdeithaseg rhag perthnasoldeb Penarglwyddiaeth Duw.

Ymhlith efengyleiddwyr di-Gymraeg Cymru ddiweddar y cafwyd am wn i yr adwaith mwyaf naif y gellid ei gael yn unman ynghylch diwylliant am resymau seicolegol digon diniwed: 'Mae'r efengyl yn bwysicach na'r iaith', meddid yn gysurus braf, datganiad mor symleiddiol seicolegol nes bod y negyddiaeth hyd yn oed mor gynnar â'r ddeunawfed ganrif yn codi'r math o amheuan a ddatganai Howel Harris (y lleiaf Cymreig o'r arweinwyr Methodistaidd):

Carmarthen, 10 November 1769

Declared myself ye servant of ye Welsh, & was cutting to such as are ashamed of their Language and Country.

A place by Mathri, 23 May 1770

I was much here too for the old Britons not to swallow the English pride and language, and despise their own, that God is a Welshman, and can talk Welsh, and has said to many in Welsh 'Maddeuwyd i ti dy bechodau'.

Dolswydd, near Pen-y-bont, Radnor, 21 June 1770

Discourse ag[ains]t ye Pride of England com[in]g like a flood, mak[ing] them despise their old Language.

Trevecka, 31 August 1771

Discoursed, how Pride, Luxury &c is coming in among us to Wales like a flood — even despising att last our own Language & learn English to our children before that ancient Language which God has given us, & in this shew[ing] a folly & madness that no other Nation in ye world but ourselves do show.

Perthynai'r fath ddatganiadau i ymgais y Diwygwyr (yn yr Oleuedigaeth a gystadlai â'r Ymoleuo) i gael seiliau Cristnogol-oleuedig i'r diwylliant datblygol cyflawn. Yr oedd y rhan hon o'r Greadigaeth yn gyfrifol amdano. Collwyd llawer o'r gofal hwn, er gwaethaf Thomas Charles, Thomas Jones, a Lewis Edwards erbyn canol y ganrif wedyn. Ond, yn isymwybodol roedd hedyn y gwendid ar gael yn iaith dyddiadur Harris ei hun eisoes ac yn ei atyniad at Loegr, ac yn Inglis Côt Lewi Edwards. Pe cawsem Brifysgol Gymraeg yn y cyfnod hwnnw, dichon y cawsai rhai o'n ysgolheigion amser i bendroni'n helaethach ar y mater hwn, er na fyddwn yn rhy siŵr.

Williams Pantycelyn, yn ddiau, yw'r ffigur mwyaf amlwg a fuasai'n barotach na neb i wynebu'r cwestiwn mawr hwn. Bu Williams yn astudio Crefydd Gymharol, yr oedd ganddo ddiddordebau meddygol a seicolegol, ymhyfrydai mewn gwyddoniaeth, darllenai lenyddiaeth seciwlar; ond nid oedd, oherwydd strwythurau israddoldeb ym myd dysg, yn effro o safbwynt bodolaeth ddiwylliannol i'w genedl fel uned ddiwylliannol (neu wleidyddol); ac nid oedd yr addysg sefydledig ar y pryd yn ddigon safonol i'w oleuo'n helaethach am gyfoeth y gorffennol gartref. Credaf fod sefyllfa ddiwylliannol, addysgol, ac yn anad dim seicoleg Cymru ar y pryd yn tanseilio ystyriaeth bwyllog ar bwnc mor ddwysfawr. Aeth y pwysau seicolegol Cymraeg yn israddol ac yn ddarostyngedig i'r bwlech yn urddas Cymreictod. Yr oedd y ddeunawfed ganrif, o safbwynt hunaniaeth ddiwylliannol, onid o fewn ffiniau hynafiaethol caeedig, gyda'r canrifoedd tlotaf yn hanes Cymru. Yn y ganrif wedyn aethpwyd fwyfwy i bwysu ar fateroliaeth. Osgowyd trafod Penarglwyddiaeth Duw i raddau hefyd; a

chyfyngwyd ar Sancteiddhad a'r gorchymyn diwylliannol a Gras Cyffredin. Cafwyd ffrwd anffodus iawn ymhlith efengyleiddwyr yng Nghymru a fu'n niweidiol i'n bodolaeth ddiwylliannol. Cafwyd balchder ymerodraeth.

Cafwyd bwlch yng nghyfrifoldeb yr uned ddiwylliannol.

Mor rhwydd o fewn cyd-destun ymerodraeth ymwithiol fyddai i seiliau'r gwerthoedd cyfoes y pryd hynny ogwyddo fwyfwy i gyfeiriad Iwtilitariaeth. Bu'r egwyddor o ddibyniaeth yn y *psyche* Cymreig, o fewn teyrnas Gras Cyffredinol, yn ysglyfaeth i ehangder deallol y Cymry. Mor rhwydd gadael cyfoeth darostwng y ddaear i faterolwyr ac i seciularwyr, er y gallasai fod yn waeth. Yma ac acw yn y gyfrol hon yr wyf wedi ceisio mawrygu ehangder diddordebau ac iechyd catholig dysg Pantycelyn. Ond annisgwyl braidd i'w frodyr oedd ei chwechant a hanner o dudalennau ar Grefydd Gymharol. Ni bu yn gyfangwbl dderbyniol i gyfoeswyr a oedd heb fyfyrion fel y gwnaeth ef ar arwyddocâd Rhagdybiaeth ac Absoliwt. Dadleuai Pantycelyn fod angen i ysgolheictod Cristnogol, catholig a chynhwysfawr, bwysu ar fframwaith hierarcaidd uwch ei ben, yn ôl hyd at yr Absoliwt. Digwyddai hyn nid yn unig oherwydd tröedigaeth ac argyhoeddiad, eithr oherwydd rheidrwydd creedig y deall. Roedd y pwysu'n ôl ar yr Absoliwt i Gristion mor orfodol i'r meddwl ag yr oedd disgyrchiant i'r ddaear, a'r awyr i'r anadliad. Dyma wraidd diwylliant rhyngwladol.

Pan ganiatêir i ofn gyfyngu ar ddysg, dechreuir fforffedu peth o Benarglwyddiaeth Duw a hyder y Cristion. Dyma a gafwyd ym mhetruster y Diwygwyr eraill ynghylch *Pantheologia* Pantycelyn. Ni ellid felly barchu (na beirniadu) crefyddau eraill mewn modd gwir gytbwys, heb gyfaddawdu ar natur unigryw Cristnogaeth. Mae'n bur amlwg — hyd yn oed mewn sgrechair Moslemaidd mor gyffredin â 'Mawr yw Duw' — nad y Cristnogion yn unig sy'n gwybod am rai o briodoleddau'r Duwdod. Yn ôl Justin Martyr, *Apologia* I. xlvi, 3; II. x, 2-3; xiii, 4-6 ac Awstin, *de doctrina Christiana*, II, xl, 60-61, ceir agweddau ar yr efengyl ymhlith pobl y tu allan i'r eglwys. Fe'i ceir cyn Crist gan Socrates a Heracleitis. Ceir gweddau ar y Logos mewn athroniaeth a'r gyfraith. Duw yw ffynhonnell pob doethineb. Cydnabyddir hyn gan Galfin, *Institutes* I. iii, 1-2 lle y mae'n defnyddio Cicero (*tota physica scientia*). Nid oes a wnelo hyn â chyflawnder Cristnogaeth unigryw yn yr Ymgawdoliad, y Drindod, a'r Iawn personol. Nid ymgais yw deall gramadeg crefyddau gwahanol yn ddigon i fychanu mewn unrhyw fodd arbenigrwydd perffaith ac absoliwt Cristnogaeth. (M II, 46-52, 63). Ond heb ddysg, heb hyder.

Ymhlith y rhagosodiadau y bu'n rhaid pwysu'n ôl arnynt, ceid penarglwyddiaeth y trosgynnol yn adeiladwaith y sfferau deddfog a sefydliadol. Er gwaethaf ei ddyllanwad, a lled a chatholigrwydd diddordebau Williams o'i gymharu â'r rhan fwyaf o'n Marcsiaid creiriol

cyfoes dyweder, cafwyd rhwyg ar ei ôl, fwyfwy rhwng y meddwl absoliwt crefyddol a'r bywyd deallol 'seciular'. A dichon fod yna fwlch eisoes i'w gael yn gyfundrefnol yn ei feddwl ef ei hun am ei bobl ei hun (y diwylliant cenedlaethol) ac am natur bywyd y llenor yn gyffredinol yn y gymdeithas.

*

*

*

Ymddengys fod ei weledigaeth ef (yn ddigon Calфинаidd) yn annog hefyd '*Fywyd i gyd* drwy Ffydd' heb sylweddoli holl ymhlwgion yr her. Yn yr hierarci y ceisiwn ei darlunio mewn Cyfundrefn o gyfundrefnau diwinyddol, fel a geir yng ngwaith Pantycelyn, ni ellid llai na chydabod dibyniaeth lwyr pob gwyddor a chelfyddyd a bywoliaeth ar yr Absoliwt. Dyma iddo ef oedd un amod ar Sancteiddhad.

Colli'r weledigaeth safleol honno, yn anad dim, a ddrylliodd y cyswllt priodol a chywir wedyn rhwng 'crefyddol' a 'seciular' gan Bietistiaid a Seciularwyr fel ei gilydd, a rhwng Ffydd a Gweithredoedd o bob math. Cyflwynai Pantycelyn Ffydd fel dibyniaeth gyfan gwbl ddigyfaddawd: Crist ym mhopeth ac yn bopeth. Disgyrchiant ysbrydol oedd a yrrai bopeth arall. Allan o Ffydd yn unig y deuai gweithredoedd Cristnogol. A brwydro yn erbyn yr hollt rhwng Ffydd a Gweithredoedd oedd y frwydr o blaid egwyddor dibyniaeth (ac archgyfundrefn Dibyniaeth) yn ei gwedd gyflawn ac unplyg.

Un o reidiau'r Cristion aeddfed yw sicrhau'r cyswllt hwn rhwng ei weithredoedd allanol ac ansawdd a chynnwys ei Ffydd fewnol. Lle y llusga'i ffydd i gornel ar wahân i'r byd ymarferol, yno y mae'n bradychu'r modd y myn Iesu fynd i lawr i ganol y bobl i'w gwasanaethu, ac i wneud daioni. Ond dibyniaeth yw Ffydd aeddfed hefyd gan holl bersonoliaeth dyn, a'r greadigaeth ei hun, bob ewyllys a theimlad a gwybodaeth. Dyna'r gyfrinach y tu ôl i gytgan Pantycelyn yn *Golwg ar Deyrnas Crist* — Crist ym mhob peth. Dyma her Pantycelyn. Dibyniaeth gatholig a phwysfawr pob dim yn y *byd* creedig ar Grist. I raddau helaeth, llwyddodd a methodd Pantycelyn yn hyn o sylweddoliad ymhlith ei gyd-ddiwygwyr.

*

*

*

Dyna'r lle hefyd y daw'r economi a bywyd bob dydd hwythau yn rhan annatod o'r Hierarci. A hollbresenoldeb yr Absoliwt. I ba raddau y mae materion daearol neu 'fydol' felly'n ddarostyngedig i Grist ym meddwl Pantycelyn? Un o rinweddau dibyniaeth gyfundrefnol yw ei bod yn ymwneud â pherthynas Penarglwyddiaeth ar bob dim, — megis economi pobl â'i gilydd. Ni raid ofni'r rhain a'u hystyried ar wahân i Gristnogaeth. Ni raid iddynt ddisodli'r Groes. Gras Cyffredinol yw hyn.

Ystyrier y tlodion, y rhai sy'n dioddef o anghyfiawnder ymarferol. Dyna un o'r pynciau y rhydd y Beibl gryn sylw iddo. Dyna fater ymarferol perthynas â chyd-ddyn. Mae cyfiawnder yn tueddu i olygu caru ac *ymostwng* i gymydog. Yn nhraddodiad efengylaidd y ddeunawfed ganrif yr oedd caethion, cleifion tlawd, a charcharau enbyd yn faterion llosg. Bid siŵr, gwahenid yn aml gyfrifoldeb addolgar yr Eglwys fel sefydliad lleol a dyletswyddau yr Eglwys fel pobl a âi allan o'r adeilad ac a oedd yn byw er lles ei gilydd (ymhlith pethau eraill) chwe diwrnod yr wythnos yng ngoleuni Duw. Ni cheid gwahanu o'r fath gan Bantycelyn. Rhydd *Theomemphus* gryn sylw i berthynas moesoldeb beunyddiol a'r ffydd — heb gyswllt 'pleidiol wleidyddol' amlwg wrth gwrs. Yn *Pantheologia* fe wrthwynebir caethwasiaeth. Yn *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht* pwysleisir i'r eithaf ein dyletswydd tuag at y tlodion. Nid gwahanu ffydd a gwleidyddiaeth oedd y nod i feddylwyr Cristnogol ar y mater hwn, eithr gwahanu sffêr gwladwriaeth a sffêr yr eglwys fel sefydliad. Materion pwysig i'r proffwydi yn y Beibl oedd cyfiawnder cymdeithasol ac anghenion ymarferol, rhyfel a heddwch, a goddefgarwch tlodi. Yn yr ymgyrchoedd hyn ddi'r Efengyleiddwyr a'r Deistiaid at ei gilydd yn unfryd i hyrwyddo bywyd a hawliau'r anffodusion. Ni wahanid yn rhy lym rhwng moesoldeb personol a chymdeithasol, a bywyd yr ysbryd, yng ngweinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Gelwid arnynt i bwysu ar arweiniad Gair Duw.

Yr oedd Cristnogaeth, o ran natur, yn tueddu i sefyll yn erbyn anghyfartaledd, oherwydd blaenori'r ysbrydol. Safai tlawd a chyfoethog, claf ac iach, yn gyfartal yng Nghrist. Dadlennai Cristnogaeth hefyd wendid y cyfoethog, gan na ellid rhoi pwysau ar olud a safle gerbron Duw. Yn feddyliol, y mae Cristnogaeth yn ymwarded â phob dosbarth, gan ogwyddo tuag at ddemocratiaeth ymhlith tlodion yn yr ysbryd. Cawn gyfle i fanlyu ar hyn wrth ymdrin â *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht*. Lle y dibynnai Seicolegwyr ar ideoleg iwtilitaraidd gorfforol, dibynnai Pantycelyn ar Dduw-ddyn ysbrydol gorfforol.

Yn y bôn, sef yn y Farn, canfyddai Pantycelyn unioni anfanteision, a chyfartaledd cyfle fel pe bai:

GWWP I, 178 *Y dysg, y dawn a'r cyfoeth gyfrifir yn gytûn,
A'r dyddiau i'w defnyddio a gafodd pob yr un.*

Tipyn o faldod wrth gwrs fyddai ceisio gosod Williams yr academydd o fewn rhyw fath o ryfel dosbarth, yn yr ystyr anysbyrdol. Ni fynnai gyfeirio'i olygon at ddsbarthiad ac at grwpio gwahanol heb sylwi ar y dosbarth dyfnach, tuag at yr hyn a dybiwn yn briodol ar ôl oes Robert Owen. Nid ar lefel economaidd y mae'n meddwl er hynny: ym Marwnad William Read, dywed

*Colled llai i Ynys Brydain
Golli'r India fawr ei hunan,
Gwell o lawer fuasai iddi
Fod heb dduciaid nac arglwyddi;
Gwell pob cystudd, gwell pob aflwydd,
Na marwolaeth gwas i'r Arglwydd.*

Dyna roi materoliaeth mewn persbectif tragwyddol.

Nid wyf yn sôn wrth gwrs am berthynas neu annibyniaeth swyddogaethol hunanlywodraethol gwleidyddiaeth a chrefydd, bob un yn sfferau sofran ar wahân, fel mathemateg a gwleidyddiaeth. Er bod yna sofraniaeth ffederal i bob sffêr, yr oedd gan yr holl sfferau gyda'i gilydd Benarglwyddiaeth. Felly, yr oedd y Sfferau hynny oll yn gydlynol a chanddynt gyfrifoldeb i'w gilydd. Priodol cofio efallai mai ychydig o'r boblogaeth a feddai ar hawl i bleidleisio yn y dyddiau hynny. Ymddangosai gwleidyddiaeth Llundain o'r herwydd yn bell ac yn amherthnasol hollol onid ym maes rhyfel. Sôn yr wyf yn hytrach am grefydd gron, lawn-feddiannol, ymarferol ei hun bob dydd sy'n gyd-ddibynnol ymhob dim, ac yn cynnwys Gras Cyffredinol. Yn bendant nid wyf yn cyfeirio at rywbeth mor ecsentrig (o safbwynt y 18fed ganrif) â gwleidyddiaeth bleidiol fodern. Yn hytrach, mae a wnelo â'r ymateb isymwybodol, greddfyl bron, a ddylai fod gan Gristion Beiblaidd at yr anghenus a'r tlawd. Mae proffwydi'r Ysgrythur, Eiseia a Jeremeia, yn galw ar bob pobl a chenedl i fod yn gyfiawn tuag at ei gilydd, ac i amddiffyn y gorthrymedig a'r dieithryn, y di-dad a'r weddw. Olynydd teilwng i hyn oedd y gri a glywid yn *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht*.

Mae a wnelo Dibyniaeth â'r ysfa i ddiogelu cyswllt â'r Absoliwt ym mhob peth. Wrth gwrs, dylai Cristion feddwl am bopeth fel Cristion, er gwaetha'r peryglon. Ond nid yw hynny'n gwadu swyddogaethau amrywiol bywyd, yr hyn a alwn yn 'sfferau deddfog'. Un o rinweddau Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, gellid synied, fyddai fod modd arolygu yn ei goleuni gydbwysedd ac amlochredd ymarferol y Ffydd. Dylai fod modd sefyll yn ôl ac ystyried yn bwyllog y lle sydd i bob elfen yn y Ffydd, i bob blaenoriaeth a chyd-dyfiant, i amllder dyletswyddau sancteiddhad, ac i'r angen mawr i beidio â hepgor y rheidiau mawr. O gael map cyflawn, cawn weld yn well leoliad a chyfraniad pob rhan. Dyna fantais olwg ar Gyfundrefn o gyfundrefnau, a Sfferau Deunydd o dan Absoliwt nefol.

Dyma hefyd barhad, yng nghytser y Cyfundrefnau Ffurfiol, i'r berthynas drwy gydol yr Hierarcy â'r Absoliwt. Pwysai pob dim — o ran Ffurf, gan gynnwys Gras Cyffredinol — ar

y Pen. Penderfynid natur gweithredoedd y Cristion gan lawnder ei Ffydd. Dibynnai pob dysg economaidd a dawn wleidyddol ar Grist. Caed trefn oherwydd presenoldeb y Trefnydd.

*

*

*

Bûm yn sôn yn barchus am gyfundrefneg gatholig Pantycelyn yn benodol. Gobeithio imi fod yn gwbl deg, a pheidio â thadogi arno ddim oll o ran presenoldeb nac absenoldeb nad oedd yn ei waith eisoes yn disgwyl amdanaf. Doedd hi ddim yn fwriad dadlennu dim oll onid yr hyn a oedd yno'n wrthrychol.

Ond sôn yr oeddwn hefyd am yr hyn a ganfu ef fel Cyfundrefn neu sgêm o ffydd a oedd ar gael yn blwmp ac yn blaen ac yn barod i bawb a phopeth yn yr ysgrythurau. Ar hyn y rhoddai ef ei bwylais, ar ystyr drefnus yr Absoliwt. Ac yr wyf am awgrymu bod yna wendid yn Williams yng nghyfanrwydd ei ddyletswyddau meddyliol.

Yr wyf newydd dynnu sylw'n arbennig at ei ymagwedd tuag at y 'byd'. Ymddengys hyn yn fater o bwys arbennig; a cheisiais gyffwrdd ag ef rywbryd o'r blaen yn *Llên Cymru a Chrefydd* 372-385. Rhaid rhoi sylw i'r cyferbyniad rhwng y 'bydol' a'r 'byd credig'. Rhaid rhoi sylw hefyd i'r cyferbyniad rhwng 'gras cyffredin' (sef y doniau diwahân i bawb yn y byd) a 'gras arbennig' a roir i bawb sy'n caru ac yn dibynnu ar Grist yn bersonol. Ac y mae'n angenrheidiol, eto ynghlwm wrth hyn, i gofio un o brif nodweddion a hawliau Crist, sef ei Benarglwyddiaeth, nid yn unig ei benarglwyddiaeth ar yr Arfaeth yn ei hanferthedd ac ar iachawdwriaeth dyn, ond ar bethau tymhorol, ar y gwyddorau, y celfyddydau, bywyd teuluol, a llywodraeth gwlad, yn wir ar bob un dim lleiaf, yn weledig ac yn anweledig. Hynny yw, dibyniaeth holl reng y Deunyddiau daearol ar reng uwch yr Archgyfundrefnau Absoliwt. Ynddo Ef ceir canolbwynt disgyrchiant ystyr. Dibyniaeth i bopeth o bethau'r byd!

Ac yn y meysydd diderfyn cyfansawdd hyn, yn yr holl sfferau deunydd, yr oedd catholigrwydd diddordeb Pantycelyn yn anghyffredin o helaeth a haelfrydig, yn arbennig o'i gymharu â'i gyd-genhadon. Gwelai'r berthynas rhwng penarglwyddiaeth Duw ym mhob gwedd ar y greadigaeth a diwylliant. Ac nid yn arwynebol y bu ef yn ymhel â'r meysydd hyn. Yr oedd ef yn angerddol ei ymrwymiad mewn efrydiau deallol, ac mewn hyrwyddo bywyd teuluol a buchedd bersonol iachus, megis yr oedd ef mewn unigolion, pobl o bob gradd gymdeithasol.

Allan o'r catholigrwydd cydymdeimlad hwn, sy'n cwmpasu bywyd oll, y tarddodd yr ymrwymiad cymdeithasol a geid gan William Wilberforce a arweiniodd yr ymgyrch i ryddhau'r caethion, ac ymhlith Calfiniaid Cymraeg, megis Gwilym Hiraethog, Ieuan Glan Geirionydd, Michael D. Jones ac eraill yn y ganrif ar ei ôl. Dibynnai pob daioni ymarferol ar ei ras Ef.

Ond ceisiais bwysleisio un ystyriaeth sy'n ymddangos i mi yn dra phwysig yn y gyfundrefn *ffydd/gweithredoedd*, ynghyd â'r gyfundrefn *dyn/cyd-ddyn*, a hynny yw y cyswllt Cristnogol rhwng y tlodion yn yr ysbryd a'r tlodion materol, rhwng y bywyd ysbrydol a'r bywyd materol, rhwng cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Heb amau am foment mai prif waith Crist ar y ddaear hon oedd marw'n iawnol, y mae'n dra phwysig i bob Cristion ddilyn yn fanwl a deall hanfod ei ffydd ymarferol ymhlith pobl o ddydd i ddydd. Mae'r dystiolaeth a roddodd ef yn ei weithredoedd o natur Duw, a'r hyn a ddywedodd am fywyd cyd-ddibynnol pob dydd yn cael lle canolog iawn mewn gweinidogaeth a ddaeth i gwlwm ac i uchafbwynt ar y groes ac yn y bedd gwag.

Fe'i cyhoeddwyd cyn ei eni yng nghân Magnificat Mair yn mhennod gyntaf Luc: *tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau; dyrchafodd y rhai distadl; llwythodd y newynog â rhoddion; anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw.*

Yn y bregeth gyntaf erioed, yn yr hyn a elwir yn 'Fanifesto Nasareth', dyna'r hyn a gyhoeddodd Yr Arglwydd Iesu Grist:

Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae ef wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.

Gwn y gellir 'ysbrydoli' hyn oll, ac yn iawn y'i gwneir. Ond y mae'r sylw gwrthrychol a roddai'r Arglwydd i dlodion yn fwy na thema isradd: 'bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref, bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf'... A bydd y Brenin yn eu hateb, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch'. Mater ysbrydol yw tloidi allanol ei hun, i Gristion. Bu sylweddoli hyn yn her i efengyleiddwyr erioed.

Dywedir fod a wnelo un o bob un adnod ar bymtheg yn y Testament Newydd â'r tlodion neu fater Mamon ac arian. Yn Luc, felly, y mae un o bob saith adnod yn gogwyddo i'r unrhyw gyfeiriad. Os yw'r ystadegau hyn yn weddol fanwl, a'r traddodiad Iddewig o Jiwibili (Lefiticus) yn dweud rhywbeth am yr agwedd at rannu a chyfartalu a dyrchafu'r tlawd, yn unol â chenadwri Eseia, Meica, ac Amos, yna dyma ymagwedd sylfaenol arwyddocaol i berthynas dyn a chyd-ddyn a'r holl dasg o sancteiddhad yng ngŵydd Duw trugarog a graslon. A gwyddai Pantycelyn yn burion y dylai gweithredoedd fod yn ffrwythau'r Ysbryd er anrhydedd i Dduw. Rhoddai'i ffydd felly i bwyso ar Arglwydd ymarferol iawn, yn arbennig yn ei bortread o Afaritus.

Disgwylir i bob Cristion fod yn broffwydol ei agwedd, yn nhraddodiad Eseia, Jeremeia, Meica, ac ymlaen i'r Arglwydd Iesu Grist. Heddiw, y mae hyn yn golygu gofyn inni ein hun beth fyddai agwedd ein Harglwydd, pencampwr y tlodion at sefyllfa economaidd ac iechydol Affrica, ac at y rhyfeloedd imperialaidd sy'n para o hyd, a'r sarhad i'r amgylchfyd. Ffydd yw ffydd y Cristion sydd o ran anian yn arwain i weithredoedd. Pwysa gweithredoedd ar ffydd: dyna ddisgyrchiant y gyfundrefn honno.

Ac eto yn sicr, er bod rhaid cofio'r ddwy ochr i'r broblem hon, mae ychydig o farwnad enwog Pantycelyn er cof am Dr Read yn druenus anffodus. Rhydd un wedd yn haelfrydig ddisgwyliedig, mae'n wir:

GWP I, 464 *Beth wna'r tlawd sy'n awr yn gruddfan
Yn ei glefyd, wrtho'i hunan?
Pwy rydd gynghor iddo weithian,
Eli a physyg heb ddim arian? ...*

469 *Fe rodd Iesu aur melynion
Iddo megis graian afon,
Ac nis gallai yntau'r meddyg
Gadw dim o'r bais ddauddyblyg;
Ond 'fe ddodai'r noeth yn gynhes,
Ac i ganu yn ei loches;
Ca's hwy'n ol, yn ei gôl, yn lle cwpaned
O ddw'r oer i dori syched,
Dw'r y bywyd yn afrifed.*

Ond dyma'i dramgwydd, sef y segurwyr tlawd:

GWP I, 464 *Gwrandaw, angydd cas di-ffafar,
Pa'm y t'rawaist ddyn gwas'naethgar?
On'd oedd myrdd'r hyd bryniau a bronydd
Mwy eu hoed, a llai eu defnydd?
Pa sawl plwyf sydd yn och'neidio
Am ladd tlodion ag sydd arno?
Hwy gânt fyw, ddiles **grew**, eto symudi
Ddynion doethion, dwys, a heiny',
Yn eu parch, eu grym a'u cyfri'.*

Teg, wrth drafod adeiladwaith ei feddwl, yw sylwi ar y diffygion. Diau mai galwad a rhybudd i'r 'diles griw' oedd hyn. Gwyddom am bobl o'r fath ym mhob cenhedlaeth; a'r peryg yw symleiddio'r angen. Ond, hawdd i'r naif sy'n dymuno camddeall (heb ddarlenn *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht*) fuasai camddeall. Diau mai pregethu yr oedd i rywrai penodol a adwaenai Pantycelyn. Dylsai fod yn Lloyd-George hefyd efallai; ond yr oedd ganddo bwysicach gwaith. Gallwsid disgwyl gwell nag elusen, a mwy o synnwyr cyfiawnder cynhenid yn ddiau.

Eto, ymhlith y cyfundrefnau meddyliol, ym mhatrwm isymwybodol ymennydd Pantycelyn, a oedd yn berthnasol yn y croendeneurwydd a ddisgwyliem ganddo ynghylch tlodi, fe geid cyfundrefn gwerthoedd ac ymwybod ag Arglwydd Gras Cyffredinol. Gwyddai ef yn well na'r rhelyw nad ysbryd yn unig oedd dyn. Gwyddai'n burion am amlochredd *da/drwg, cyfiawn/anghyfiawn* yn gorfforol. Dyma faich mawr iawn i Gristnogion cytbwys, ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain, pryd y mae'r trydydd byd yn dal i ochneidio. Ac y mae mwy o boblogaeth, hyd yn oed yn Unol Daleithiau America, yn byw islaw gwastadlin tlodi nag sydd o boblogaeth yn byw yng Nghaliffornia, y fwyaf poblog o'r taleithiau. Dyma gwestiwn moesol a chrefyddol yn ogystal â chwestiwn economaidd a gwleidyddol, lle y gall meddwl Cristion fethu â phwyso ar Dduw yn gyson mewn dealltwriaeth ymarferol.

Ac felly, nid amherthnasol holi pam na chafodd segurwyr fwy o drugaredd gan Williams? Nid oes gennyf amheuaeth y ceid Williams yn iach yn ei agwedd at gaethwasiaeth (yn ôl *Pantheologia*) ar yr un ochr â John Wesley ym Mryste, prifddinas caethion Prydain (cf. *Thoughts upon Slavery*, 1774) a William Wilberforce, arweinydd y mudiad rhyddhau (a Christion efengylaidd eto o fri). Lol fyddai beirniadu prinder y cyfeiriadau gan Williams at gaethion na hiliaeth gan mor brin oedd y cyfryw bethau o fewn tiriogaeth Cymru (Cytbwys yw sylwadau Alan Llwyd yn *Cymru Ddu Black Wales*, 2005, 43). Eithr, yr un pryd, roedd nifer go lew o segurwyr ag anfanteision ganddynt. Ac yn adeiladwaith ei feddwl, siom yw sylwi cyn lleied o bwys a roddai ar eu hangen hwy.

*

*

*

A gaf geisio clirio un gamddealltwriaeth bosibl?

Nid gwaith Pantycelyn oedd bod nac yn ddi-hysbyddol nac yn gyfewin gytbwys. Nid 'Diwinyddiaeth Gyfundrefnol' yw is-thema'r gyfrol hon, ond 'Pantycelyn a Chyfundrefnau Diwinyddol'. Ceisio'r wyf ddadansoddi a disgrifio adeiladwaith crediniol isymwybodol y Diwygiwr Pantycelyn. Adeiladwyd y fframwaith meddyliol hwnnw ganddo ef â defnyddiau ymddangosiadol ymwybodol — dadleuon, mawl, meddwl myfyriol, astudiaethau, gweddi, darllen, yn ôl ei brofiad ef ei hun. Fe'i hadeiladwyd hefyd gan y Beibl a'r cyfundrefnau meddyliol rhoddedig. Gan bwyll, gosodwyd i lawr foddion amgyffred a chredu angenrheidiol ar bropiau deallol yn yr isymwybod ac yn yr ymwybod. Nid oeddent yn berffaith, ysywaeth. Nid oedd y rheini yn gynhwysfawr, er eu bod yn eithriadol amryddawn. Cymerer pwnc megis Bedydd, sy'n ymylog i rywrai ac yn y canol i eraill. Er enghraifft, ym mhob *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol* gonfensiynol, disgwyliad nid yn unig eitem ar Fedydd, eithr hefyd ar y gorchymyn diwylliannol ac ar gyfiawnder cymdeithasol, hyd yn oed pe bai sylw am drefniant rhyngwladol yn ddisgwyliad annhymig. I ambell Babydd fe all mai Bedydd *ex opere*

operato yn ystod mis cyntaf ei fywyd yw'r peth pwysicaf a ddigwydd iddo byth. Ond yn sicr, mae'n bur anymwybodol o'i arwyddocâd ar y pryd. Yn achos Williams yntau, arhosodd y pwnc yn ddigon isymwybodol wedi'i fedydd ac ychydig iawn os dim arwyddocâd cyrhaeddbell oedd ei Fedydd yng nghyfundrefnau'i ffydd. Rhoddai fwy o sylw i'r tlodion. Diau ei fod yn gywir yn hyn o beth. Ond yr hyn y sylwaf arno yn gyffredinol yn yr astudiaeth hon, felly, yw'r fframwaith ymarferol a gweithredol ymwybodol a geid ym meddwl Williams drwy sylwadaeth anuniongyrchol ac uniongyrchol a chydlynid hanfodol. Ymhle y rhoddai'i bwysau meddyliol pan godai angen tragwyddol am arweiniad? Beth a fu'n dyngedfennol bwysig iddo? A beth oedd fframwaith ei feddwl? Nid dim unigol a ddisgrifiodd ef o anghenraid. Mae yna rai o'r cyfundrefnau neu'r themâu a ddisgrifiaf yma nad oedd ef am eu trafod yn helaeth nac o gwbl weithiau ac yn ôl pob golwg na fuasai yn ymwybodol ohonynt chwaith ped âi ati i lunio Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ffurfiol — ac na chyfeiriai atynt ond yn gwta, cyfundrefnau megis *Gras Cyffredinol/Gras Arbennig*. Ond gobeithiaf brofi mewn ambell le fod rhai o'r cyfundrefnau hyn, a gyfrifaf yn gwbl arwyddocaol, yn arddangos digon o brawf o'u harwyddocâd i Bantycelyn yntau wrth olrhain cyflawn Hierarci ei ffurfiant crediniol a thematig.

Gwnaeth ymdrech fwy na'r rhelyw i seilio'i athrawiaeth ar Benarglwyddiaeth Duw yng Nghrist ac i sicrhau'i fod yn synied am sancteiddhad a bwysai ar gyfanrwydd bywyd. Yr oedd yn meddu yn ei feddwl ar organwaith ac adeiladwaith deallol, cadarn a chrwn, yn sail i holl wylltineb ac angerdd ei ddychymyg. Er gwaethaf y nerth meddyliol hwn gallai fyfyrion o fewn undod cydlynol, ac eto gallai *beidio* â meddwl yn ymwybodol am rai meysydd wrth fynd ati yn drist ac yn llawen ei galon i ymhyfrydu'n dreiddgar yn y profiadau a roddwyd iddo. Cyfrifaf lwyddiant ei arolwg, at ei gilydd, yn rhan o orchest aruchel ei aeddfedrwydd tawel. Canol 'llonydd' a chanol 'gweithredol' yn un oedd canolbwynt ei Ddisgyrchiant.

Y DDEGFED ARCHGYFUNDREFN: Y GORCHYMYN DIWYLLIANNOL

Ffrwytho/Goroesi

CYMHELLIAD

Ar ryw olwg, pan ydym yn sôn am yr Archgyfundrefnau hyn, ymwneud yr ydym â rheidiau cynhenid ac anochel, beth bynnag am yr ansawdd. Felly y mae hi yn achos diwyllio bywyd. Mae'r duedd a'r gwth yn naturiol ddiwrthdro ar gyfer ffrwytho a goroesi. Ac mae peth adeiladwaith meddyliol yno'n barod ar ei gyfer. Ymhlith yr offer amlwg a ddefnyddiwn er mwyn ffrwytho yn ogystal â goroesi, un yw'r cof. Ac ni ellir llai na chydabod ffrwythlondeb gwaith Pantycelyn a'r modd y goroessodd ef ac y derbyniodd Cymru hynny am rai canrifoedd i mewn i wead ei *psyche* a'i chof hithau'i hun. Ffrwythodd y gorffennol Cristnogol yn y bobl.

Mae a wnelo'r Gorchymyn Diwylliannol â chyfundrefn sylfaenol iawn yn y fodolaeth ddynol. Mae hefyd a wnelo â gweithred Duw ei hun yn yr Arfaeth. Dyma'r cenhedlu dwyfol yn esgor ar genhedlu dynol (ac yn wir ar genhedlu gan yr holl greadigaeth). Trosglwyddir neges bywyd o'r ffynhonnell ymlaen i ffynhonnell ar ôl ffynhonnell. Dyma'r ddeinameg i'r 'Trechaf' a geir mewn Goroesiad. Hyn a ragdybir, ac y ceisir ei ddisgrifio mewn Esblygiad, ond nis esbonnir yn foddhaol o ran bodolaeth, trefn, bywyd, na goroesiad ond gan gymeriad a gwaith trefnol yr Achos Cyntaf yn bresennol gyfoes yn y Greadigaeth Drefnedig. Ymddengys mai drwy greadigaeth sy'n ei diwyllio'i hun y dewisodd Duw ei ogoneddu'i hun.

Aeth gwyddonwyr dilys yn yr Unfed Ganrif ar Hugain i synied fwyfwy fod Gwyddor Gwybodaeth (*Information Theory*) yn rhagflaenu Thermodeinameg wrth drafod dechreuadau bywyd. Cyn bod Gwybodaeth yn trosglwyddo neges, rhaid wrth gwrs gael cyfundrefn neu gôd. Mae'r côd yn defnyddio arwyddion megis gwyddor neu symbolau llafar neu weledig. Oherwydd yr egwyddor flaenorol angenrheidiol honno, gwelir bod yna wedd anfaterol i bob cyfundrefn fyw. Er mwyn i fywyd oroesi rhaid i'r wybodaeth aruchel drefnedig ohono gael ei storio ar folecylau helics dwbl y DNA. Nid y gemeg gan y DNA sy'n cyfansoddi bywyd yn sylfaenol, eithr yr wybodaeth ystyrion a storir gan y gemeg folecylaidd. Ar gyfer deall hynny, rhaid sylweddoli nid yn unig olyniaeth a siapiau manylgraff yr asidau amino neu'r côd genedig pedair llythyren, ond sut y'i trefnwyd ef yn gyfanrwydd ystyrion ar gyfer synthesis miloedd o wahanol broteinau. Ar y naill ochr y mae'r proteinau, ac ar yr ochr arall ceir y DNA; ac ni all y naill ochr ei hatgynhyrchu'i hun heb y llall na heb luniant y ffurf. 'Hir oes i ddamweinioldeb', medd y sefydliad allwyddonol yn hapus amheus. Ond trosiad teg yw'r DNA i draddodiad llên. Math o iaith yw. Hir oes i drefn.

Erys geiriau Michael Faraday wrth sôn mewn darlith ddisglair yn 1847 am ei ymchwil mewn electrofagneteg: ‘Felly gan fod ein gwyddoniaeth yn dangos y pethau hyn i ni, dylai ein tywys i feddwl am yr Un a’u lluniodd hwy, oherwydd fe ddywedwyd gan awdurdod a oedd ymhell uwchlaw hyd yn oed y gweithiau a gynrychiola’r rhain, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau ef, ei dragywydd allu a’i dduwdod i’w gweld yn eglur yn y pethau a greodd.’

Yng nghyd-destun Beiblaidd a diwinyddol Pantycelyn, dyna’r cyswllt egniol rhwng Ffydd a Gweithredoedd, nid fel digwyddiad ond fel cyfundrefn. Gras yw nid yn unig yr enw ar y ffenomen a roddir, ond ar y weithred ei hun ar waith, y grym symudol yn y meddwl. Deuol yw gras — y rhodd, a’r ddawn o roddi. Fel cylchdroi’r ddaear, felly yn y meddwl dynol y mae angen math o ffurf symudol i ddynodi cynaeafu personol hefyd. Dylwn esbonio yn y cyd-destun presennol nad y weithred allanol o ffrwytho’n unig benodol yw’r hyn sydd gennyf mewn golwg fel y cyfryw, ond y ffurf feddyliol sy’n ei yrru hefyd, math o osgo seicolegol, a’r ‘orfodaeth’ gynhenid, y weithred bersonol, y ddeinameg sydd ar gael y tu ôl i’r DNA.

Er y gallem yn hawdd werthfawrogi ‘ffrwythwch’ fel gorchymyn llythrennol wrth gwrs ac yn wir o safbwynt ymarferol, ac er y gallem gydnabod mor ymarferol yw, nid ymddengys yn addawol iawn fel term ffurfiol. Ymddengys mor solet synhwyrus ac mor ddiriaethol neu’n flêr *wrth*-haniaethol hyd yn oed. Onid gweithred gyffredinol yw? Pell yw oddi wrth Ffurf fel arfer. Ond biolegol yw; ac y mae’r anghenraid mor drefnus ddwfn, a chyfeiriad y ddeinameg o fod yn greadigol mor llywodraethol yn ein bywyd, nes bod y weithred fel pe bai’n ymwneud â siapio egwyddor a phwrpas yn ein bodolaeth. Ymagwedd benodol neu ddeinameg o fewn Deddf yw. Amlhau.

Yr *ÿm* yn sôn wrth grybwyll Archgyfundrefn Cenhedlu Ffrwyth am bethau cynhenid iawn yn y *psyche* ac yn wir yn y ddaear. Ffenomen yw yn yr un categori bron â’r pethau mwyaf cyntefig, sy’n rhoi peth poen i esbonwyr hiwmanistaidd, megis Bodolaeth ei hun, Trefn, a Hunaniaeth. Dichon fod yn rhaid cynnwys gyda hwy yn awr Ddeinameg bywyd fel rhan sefydlog o’r Cynllun craidd. Mae bodolaeth goroesi yn wedd ar y Ffurf orfodol ei neges a etifeddwyd. Felly, er y gellid synied fel arfer am ‘ffrwytho’ fel gweithred ddeunyddiol yn unig, yr wyf yn dewis ei ystyried mewn perthynas â ‘bod yn greadigol’, ac felly’n wedd ar fwriadau y greadigaeth a’r Crëwr ei hun. Ceir ffrwythau’r Ysbryd, a ffrwythau llên.

Wrth drafod *Bod/bod* a *Bod/gwneud*, mae ffrwytho’n amlwg yn nesu at yr ail gyfundrefn. Y mae hefyd yn cynrychioli’r ddeinameg fertigol. Nid sôn yr *ÿm* am ddeuoliaeth ddisymud ddiegni olynol, felly. Gwedd ddiddorol ar theori Guillaume yw ei fod bob amser yn synied am gyfundrefnau fel ffenomenau deinamig. Sonia am ei waith fel ‘Seico-ddeinameg’.

Felly y try Tafod yn Fynegiant drwy ddeinameg, ac felly y try'r un neu'r ychydig neu'r cyfyngedig o'r golwg yn lluosaid neu'n llawer yn y golwg. Deinameg yw'r 'ffrwytho' neu'r cynhyrchu o'r hedyn. Ffrwytho yw'r cyswllt, neu'r Cymhelliad cynhenid. Mae presenoldeb deinameg ym mhob cyfundrefn yn wedd orfodol ar y potensial sy'n troi'n effaith.

Ym mha ffyrdd, felly, yr ystyriwn mai Archgyfundrefn ffurfiol yw'r gorchymyn Beiblaidd i ffrwytho? O ran natur, y mae'n ymddangos yn bur wahanol i egwyddorion 'haniaethol' megis y cyferbyniadau *absennol/presennol*, *gweledig/anweledig*, *amryw/un*. Ymddengys yn ganlyniad diriaethol, nid gweithred seml, megis ffrwyth corfforol ei hun. Onid Sffêr mewn Deunydd yw?

Ac eto, trefn gynyddol yw: un nodwedd sy'n haniaethu pob un o'r Archgyfundrefnau fel ei gilydd yw eu bod yn gyd-bresennol yn ganlynol ddeinamig ym mhob un o'r Sfferau sy'n eu dilyn. Eto, ni wyddom nid yn unig o ble y daeth y gyfundrefn gyntaf, ond sut y cenhedlodd honno ei phlant. Drwyddynt hwy y creir y cyfundrefnau eraill. Hynny yw, cyfryngau diffinio, adeiladu, cyfathrachu, a rheoli'n gysylltiol ydynt. Patrymau meddwl cyffredinol rhoddedig sydd ganddynt sy'n llywio'r ffordd y trafodir pob un Sffêr yn y byd. A ffrwytho ei hun yw'r weithred ffurfiol sy'n cysylltu'r rhain oll. Cyswllt mewn parhad yw.

Yn wir, un o amryfal broblemau mawr esblygwyr uniongred, wedi iddynt 'esbonio' bodolaeth a bywyd, yw esbonio sut yn union yr esblygodd am y tro cyntaf erioed y weithred genhedlu a'i DNA enwog a'i chyfundrefn gywrain. Nid oes ffrwyth heb gyfathrach.

Dichon fod Pantycelyn yn ymwybodol o'i waith diwyllio egnïol ei hun wrth amaethu, wrth feddygyniaethu, wrth farddoni, ac wrth werthu te. Ond gwyddai'n burion hefyd, hyd yn oed yn Sffêr Ffydd, mai 'wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt'. Sef wrth bregethu ac wrth ganu fel arfer yn ei achos ef. Wrth weithredoedd da, wrth addysgu a gwleidydda, wrth weinyddu a llafurio, wrth wyddona a masnachu, wrth daro tôn, ym mhob man Crist oedd biau'r cwbl ym mywyd Cristnogion. Felly y ceid ffrwytho gan Bantycelyn yn ei ffordd ei hun drwy Ras Cyffredinol a thrwy Ras Arbennig.

Mae'r datguddiad Beiblaidd o swyddogaeth barhaol a sylfaenol dyn ar y ddaear yn cael ei egluro yn y Gorchymyn Diwylliannol, y ddeddf a roddwyd yn gyntaf i'r greadigaeth ei hun, ac yna i ddyn yn benodol: Gen. 1: 22, 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch a llanwch... Gen. 1: 28, 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llenwch y ddaear a darostyngwch hi'. Ar ôl y cwmp, fe'i hailadroddir wrth Noa, Gen.9: 1, 'Bendithiodd Duw Noa a'i feibion a dweud, 'Byddwch ffrwythlon, ... Gen. 9: 7, 'Chwithau, byddwch ffrwythlon ac amlhewch'. Dyma galon y berthynas sydd i fod rhwng dyn a'r ddaear a chyfeiriad deinamig i'w fuchedd. Asiant

i Dduw yw dyn yn hyn o dasg. Cynnyrch gras cyffredin Duw iddo yw diwylliant, a'i swydd normal yn hyn o fyd. Nid mater yw hyn i efengyleiddwyr ei anwybyddu.

Mae hyn ynghlwm wrth y Siarter i ddarostwng: Gen. 1: 28, 'llenwch y ddaear a darostyngwch hi.' Iago. 3: 7, 'Y mae'r hil ddynol yn gallu rheoli pob math o anifeiliaid ac adar, o ymlusgiaid a physgod, yn wir, y mae wedi eu rheoli.' Ailadroddir y swyddogaeth hon yn Salm 6: 6-8, 'Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed: defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion hefyd, adar y nefoedd, a physgod y môr, a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.' Hyn oll a wna dynion er gogoniant i Dduw, neu er melltith iddynt hwy'u hunain.

Disgrifia Dr F. N. Lee effeithiau gwasgaru'r bobloedd ar ôl Tŵr Babel (*The Central Significance of Culture*): *'This divine act of scattering mankind into the various nations throughout the world had at least two very important results. First, it resulted in man's filling the earth, replenishing it, and subduing it, or at least starting to do so in earnest, even as God had originally intended when He gave Adam the cultural command. And second, by channelizing the development of mankind into separate and different languages and nations, God laid the foundations for a vast enrichment of the world's cultures. Each nation would develop its own style of architecture, of philosophy, of poetry ...'* A dyna'r cyd-destun i ystyried ehangder diddordebau Pantycelyn, ac yn arbennig ei gyswllt ef â'r Gorchymyn Diwylliannol.

O fewn y traddodiad efengylaidd, hawdd deall y gorbwyslais mewn ambell garfan ar athrawiaeth ailenedigaeth, cyfiawnhad, ac iachawdwriaeth. Mae i hynny le allweddol yn y ffrwytho. Dyna hau'r hedyn. Gan fod tröedigaeth ac adnabyddiaeth bersonol o Grist yn hanfodol i fywyd tragwyddol, gellir o bosib esgusodi esgeuluso cyflawnder hawliau Crist ar y cyfan o fywyd. Ond yn y traddodiad Calfinaidd ei hun, diogelwyd anrhydedd Penarglwydd Crist. Un o'r ffactorau a gadwodd y cydbwysedd peryglus a'r catholigrwydd bywydol hwn ynghylch hyn oedd cydnabyddiaeth gan Galfiniaid o Amsterdam o arwyddocâd y Gorchymyn Diwylliannol: 'ffrwythwch'. A phery hyn, yn ail fywyd y Cristion, yn ffrwythau'r Ysbryd. Sefydlwyd Diwylliant nid ar gyfer Iachawdwriaeth, ond Iachawdwriaeth ar gyfer Diwyllio Cristnogol.

Sylwer: cyn y Cwmp, y tebyg yw na sefydlwyd ffrwythloni yn benodol ar gyfer goroesi, o raid, eithr i ogoneddu Duw a mwynhad dyn. Ar ôl y Cwmp, mae'r gwaith yn gysylltiedig â chwys yr wyneb a goroesi am gyfnod ar y ddaear, er bod y gwaith hwnnw'n gallu rhoi boddhad a hyd yn oed mwynhad yn achlysurol o hyd.

Cyfundrefn fywydol yw ffrwytho. Mae'n wahanol i'r rhan fwyaf o'r Cyfundrefnau a nodasom, o leiaf ar yr olwg gyntaf, ond yr un mor orfodol. Rhaid bywyd yw ffrwytho. Un o'r cyfundrefnau pwysicaf oll yw ffrwytho mewn Bioleg — cenhedlu fel arfer, ond adnewyddu bywyd, croen, imiwnedd, twf. Nid peth annynol yw cyfundrefn o fath y rheini, boed hynny yn y gell, yn y gyfundrefn glyw, yn y gyfundrefn fwyd neu'r cyhyrau. Ym mhob milimedr o'n bywyd fe geir cyfundrefnau deinamig o'r fath. Felly yn yr ysbryd.

Fel hyn yr aralleiriodd Pantycelyn y Ddeddf gyntaf a roddodd Duw yn uniongyrchol i ddyn, y gorchymyn a fuasai'n angenrheidiol ac yn sylfaenol i ddyn fynegi drwy'r ddaear ogoniant ymarferol i Dduw, ac iddo ef ei hun — wedi'r Cwmp — orosi rywfaint:

GWWP I, 85 *Wel amalhwch a ffrwythwch, a gwnewch yn llawn y byd;
Llywodraethwch, goresgynnwch y ddaear yma i gyd;
Tros bysg y môr, ehediaid, anifail o bob rhyw,
Pob peth roes tan eich dwylo sy â bywyd, neu heb fyw.*

Dyma gyfeiriad naturiol bodolaeth; ac y mae'r corff a'r meddwl yn ufuddhau iddo yn ddjarwybod. Trin y tir (Gen. 1:15) yw ewyllys Duw ar gyfer dyn o ddechrau'i fywyd ymlaen. Nid yn unig hynny yn uniongyrchol, ond fe ddiffiniaf hefyd berthynas dyn â'r gweddill o'r ddaear: 'Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed.'

Stiwardiaeth oedd swyddogaeth dyn yn y byd: dyma'i frenhiniaeth. Nid mater corfforol yn unig oedd hyn. Yr oedd y meddwl hefyd i fod i ddiwyllio (i ddiwylltio) y ddaear: (Diarheb. 1: 2-6) 'i gael doethineb ac addysg, i ddeall geiriau deallus, i dderbyn addysg fuddiol, cyfiawnder, barn, ac uniondeb, i roi craffter i'r gwirion, a gwybodaeth a synnwyr i'r ifanc. Y mae'r doeth yn gwranddo ac yn peri cynyddu mewn dysg, a'r deallus yn ennill medrusrwydd, i ddeall dameg a'i dehongliad, dywediadau'r doeth a'u pwysau.' Yn y gorchymyn diwylliannol y tardd pob iaith a llenyddiaeth. Dyma orchymyn i Williams sgrifennu *Golwg ar Deyrnas Crist* yn benodol. Roedd hyn oll ar ganol ymwybod Pantycelyn, ac yn achos difrif i'w weithgareddau. (gw. fy llyfryn *Palu'r ardd*)

Yr oedd gan Dduw ddibenion, felly, nid yn unig ar gyfer dyn eithr ar gyfer holl ddyfodol y greadigaeth. Meddai Dr Nigel Lee eto (*The Central Significance of Culture*). 'Mae'r Cristion sy'n *cyfyngu*' i grefydd i ennill-eneidiau a mynychu eglwys — er mor fywiol y bo'r rheini — mewn gwirionedd yn cyfyngu rhychwant llawn gwaed y groes, a gollwyd er mwyn "Cymodi *pob* peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd." (Col 1: 20).' Pam y *Cyfarwyddwr Priodas* felly? Pam *Pantheologia*? Bu ymgais erioed i grebachu ar Benarglwyddiaeth Duw ac ar waith sancteiddhad. Roedd rhai Cristnogion Hebreig cynnar yn disgwyl sefydlu teyrnas boliticaidd i'r Iddewon. Yna, ceir heresi Corinth lle y dymunai'r gynulleidfa gyfyngu presenoldeb Teyrnas Dduw i fywyd yr

eglwys yn unig. Sut bynnag, yr oedd Teyrnas Crist, fel y tystiai Pantycelyn yn huawdl, yn cwmpasu holl fywyd y ddaear (Salm 103: 19; Col. 1: 13-20). Ac felly y byddai'r sefydliad yn parhau i ogoneddu Duw i mewn i'r ddaear newydd (Dat. 21: 24, 26; 22: 3, 5).

Amlinellu hynny oedd pwrpas *Golwg ar Deyrnas Crist*; ac ymatebai'r ddaear yn gadarnhaol i fywyd teuluol Adda.

Y mae darostwng y ddaear fel y gwelsom yn waith i'r holl bersonoliaeth. Yn wir, y mae yna reidrwydd i'r deall ddwyn y greadigaeth oll o fewn ein hymgais, megis y mae defnydd o'r dychymyg ac ymarfer â'r celfyddydau esthetig yn ffyrdd priodol, i fod yn ffrwythlon.

Wedi'r cwmp, wrth gwrs, y daeth ffrwytho yn anghenraid er mwyn bodoli o gwbl. Ac yn ei ymdriniaeth ragorol â Chymhellion Llenyddol, yn ei gyfrol *Ysgrifau Llenyddol*, 1951, 36-129, dyry T. J. Morgan gryn bwyslais ar yr ysfa i oroesi fel ysgogiad i lenyddu. Yr oedd Mawl uniongyrchol i'r Tywysog yn wedd ar gynnal y llwyth a threfn y wlad. Fe roir y cymhelliad hwn ganddo yn 'gymhelliad llwythol', sef goroesiad yr hil yn lleol realistig. Roedd Mawl yn fodd i gefnogi'r arweinwyr yn y swydd o hyrwyddo ffrwythlondeb yr ardal. Ond sylwer ar a ddywed T. J. Morgan am hyn yng nghyd-destun peth o Fawl Efengylaidd y ddeunawfed ganrif. Meddai ef: 'Er mor wahanol ydynt o ran arddull a chyd-destun a chyfnod, nid yw marwnadau Pantycelyn yn wahanol yn eu hanfod i farwnadau'r penceirddiaid. Yng ngolwg Pantycelyn yr oedd Griffith Jones a Daniel Rowland a Howell Harris yn dywysogion a fu'n achub eu pobloedd ac yn gyfryngau cadwedigaeth i'w heneidiau, a haeddant sôn am eu henwau yn dâl am hynny.'

Cofia Williams am y gorchymyn diwylliannol nid yn unig iddo'i hun yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, Pennod 2, Rhan 6: GWWP 85. Diddorol sylwi bod y gorchymyn pwysig hwn, ym mryd Pantycelyn, yn cael ei roi i'r Greadigaeth oll yn ogystal ag i ddyn, yn wir drwy ddyn:

GWWP I, 79

*Y Baradwys hon rof iti, hi cyfrif it dy hun
I'w gwarchod a'i llafurio, a bwyta ei ffrwyth a'i thrin; ...
Yr adar ar yr adain ddisgynnai o'r nen i lawr,
Rhyw arwydd o 'mostyngiad a rôl pob 'nifail mawr;
Y llew a'r teigr eon, a'r Behemoth cryf ei hun
Addefai lawn ufudd-dod i bur lywodraeth dyn.*

Dyma swyddogaeth nid yn unig i ddyn yn y greadigaeth, felly, ond i'r greadigaeth oll ei hun. Nid oedd ganddi ddewis. Pan oedd gan Adda (cynrychiolydd pob dyn) ewyllys rhydd, rhydd ydoedd o fewn cyfyngiadau rhydd, fel sydd gennym ni o hyd o fewn deddfau'r ddaear (megis Disgyrchiant). Rhydd i fyw ydoedd am byth o fewn amodau daionus. Cefnodd ef ar

hynny, a daeth o dan lywodraeth marwolaeth ymwahanu. ‘Problem’ Duw oedd hynny mwyach.

Trafodais ychydig ar yr arch-gyfundrefn hon o’r blaen, yn *Llên Cymru a Chrefydd*, 1977, 67-74, a *Beirniadaeth Gyfansawdd*, 2003, 129, a dychwelaf ati eto. Mae’n gosod gerbron, y swyddogaeth sydd yn y greadigaeth i ddyn (ffrwytho), a swyddogaeth dyn i Dduw (dwyn ffrwyth).

Duw
|
dyn_____creadigaeth

Yn hyn o waith, y mae dyn ei hun yn estyniad, yn ddirprwy i’r Crëwr, a’i waith yn estyniad i’r Greadigaeth.

GWWP I, 81 *O! frenin y creaduriaid, 'be'r Crëwr mawr ei ddawn,
Cydymaith wyt ti'n 'mofyn o gymwysiadau llawn; ...*

82 *Nid rhaid i ti [Duw] genhedlu, anfeidrol wyt erio'd,
Ond rhaid i ddyn chwanegu, hyn yw ei amherffaith nod.*

Felly, yn y weithred o ffrwythloni, symudwn o’r fframwaith i’r diriaethol unigol, o’r cyffredinol i’r arbennig, o’r Absoliwt i’r elfen unigol, o’r drefn i’r cynnyrch. Hynny yw, dyma’r hen gyfundrefn ieithyddol ei hun ar waith.

Tafod ----- → Mynegiant

Dim mwy, a dim llai: yr *Anweledig/Gweledig*.

Yn y tabl cryno a roddais tua dechrau’r gyfrol hon i olrhain y daith oddi wrth yr Absoliwt trwy ddyn i gyrraedd y *motiffau thematig* sy’n adeiladu llenyddiaeth i gyd, cawsom drothwy yng Nghyfundrefn y Sfferau Deddfol a Sefydliadol. Cyn hynny, rhoddwyd gan Dduw fframwaith i Un Archgyfundrefn ar Ddeg. Y rhain a fyddai’n amodi’r Deunydd yn ystyrllon. Mae pob un o’r rhain bob amser yn orfodol bresennol ym mhob un o’r Celfyddydau a phob un o’r Gwyddorau, ac yng nghyfeiriad ymarferol pob bywyd daearol, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol strwythurol. Allan o’r fframwaith angenrheidiol hwn y tardd amllder cyfoeth yr holl Gyfundrefnau Thematig Cyffredin. Mewn gwirionedd, wrth drefnu olyniaeth i’r Archgyfundrefnau, f’ysgogiad i osod grŵp y Cymhelliad ar ddiwedd y cwbl oedd sicrhau lle iddo ffurfio trothwy i’r cwlwm mawr nesaf, y Sfferau Deunydd. Trown bellach hefyd oddi wrth gynildeb gramadegol yr Archgyfundrefnau llywodraethol tuag at y Cyfundrefnau cyffredinol unigol achlysurol. Mae Cyfundrefneg ei hun fel egwyddor yn aros yn orfodol o hyd; ond bellach, ymhlith y Deunyddiau, y mae’r Cyfundrefnau a fabwysiedir ar y pryd yn ddewisol, er nad yw’r egwyddor yn ddewisol. Amrywia’r

Cyfundrefnau Thematig yn ôl y pwnc neu'r ffwythiant a drafodir yn y gwaith unigol. Erys yr Archgyfundrefnau ymhob brawddeg, ymhob gair. Ufuddheir i batrymu yn wahanol ond yn gyson. Ceir cyfundrefnwaith *Ffurf/Deunydd, Sŵn/Synnwyr*. Ond wrth droi o Dafod i Fyngiant yn awr, y mae ffrwytho yn golygu esgor ar *fotiffau* unigol o fewn *cyfanweithiau* unigol.

'Darostwng y ddaear' ar ryw olwg (er nad yn y geiriau yna) yw cymhelliad iaith ei hun hithau, yn ôl yr ieithydd Ffrangeg Gustave Guillaume. Defnyddir yr iaith er mwyn creu neu gydnabod trefn drwy ddarganfod trefn. Ac yn ei farn ef, method i lywodraethu'n ddeallol ar ddryswch y ddaear yw ei dadansoddi a darganfod ei chyfundrefnau. Oni tharodd hithau yn y Gair ac mewn trefn ddiriaethol greedig? Yn yr un modd, onid darostwng y ddaear yw rhan o swydd llenyddiaeth?

GWWP I, 8

*Ordeiniwyd crëu daear i sefyll ar ei sail,
Ac arni bob creadur fwy na rhifedi'r dail;
A lloer a haul gwmpasog i losgi yn eu lle,
Sêr pwysig a phlanedau i gerdded yn y ne'.*

*Ordeiniwyd yr holl drefen y[n] natur eang sydd,
Haf, gaeaf, gwres ac oerni, tymhorau, nos a dydd:
Byd cyflawn o fendithion, rhai mawrion bob yr un,
Fel palas hardd dieisiau i wir roesawu dyn.*

*Ordeiniwyd dyn godidog ar ddaear lawn i fyw,
Yn frenin ar y cwbul, ei hun 'r un lun â Duw;...*

Agorir cyfoeth yr holl fyd i'r Cristion, bob pwnc, bob dyfnder. Mewn gardd, trefn sy'n hyrwyddo ffrwyth, yn faterol ac yn ysbrydol.

Ac eto, mae yna frwydr yn y fan hon, a brwydr ddilys o gamddeall sy'n gamdystiolaeth o lawnder a llawenydd y Gwirionedd, oherwydd drwy chwys ei dalcen y disgwylir i ddyn ffaeledig weithio mwyach. Cafwyd ymwahanu. Daeth i fyw mewn cyd-destun o ymryson. Ac mewn pechod mwyach y ceir cyd-destun gwaith llenyddol ei hun. Y perygl yn awr i'r dyn naturiol yw ei fod yn dyrchafu'i feddwl ei hun goruwch Gair Duw. Meddai Dr Francis N. Lee drachefn: '*We Christians should not avoid our culture, as did Tertullian and the later pietists, nor uncritically absorb it all, as did Clement and Origen, but we should cleanse and use all utizable aspects of our modern cultural heritage, as did Augustine and particularly Calvin and the later Calvinists.*' Perygl y Pietistiaid oedd ymbellhau oddi wrth ddyletswyddau diwylliannol a'u gadael yn nwylo'r bydol sydd heb ganfod y dimensiwn ysbrydol. Dyma berygl efengyleiddwyr o hyd.

Mae'n amlwg hefyd yn ôl ei ddiddordebau, ac yn yr hyn a ddywed (yn arbennig mewn troednodiau i *Golwg ar Deyrnas Crist*), fod gan Bantycelyn barch mawr at

wyddoniaeth hithau, cyn belled ag y mae'n ddrych o feddwl Duw. Yn sicr, nid oedd am gystadlu na chreu gwrthwynebiad rhwng y datguddiad naturiol a'r datguddiad goruwchnaturiol. Er mai mwy, wrth reswm, oedd ei barch at y Beibl, gwelai ef wyddoniaeth o fewn cyd-destun datguddiad uwch na'r naturiol difyfyrdod. Cydnabyddai ffiniau meidrol a methiannau gwyddoniaeth wrth reswm. Eithr ni welai anghenraid o gwbl i gyfyngiadau gwyddoniaeth a rhagoriaethau y Beibl fod yn groes i'w gilydd, yn ôl eu sfferau. Gweithiai gwyddoniaeth o fewn ffiniau mesurau *Gofod/Amser* (Space/Time Metric), ac felly o fewn y Paraolyn Pedwar Dimensiwn (Four Dimension Continuum). Ond dyna a wnâi'r Beibl yntau; eithr fe welai Pantycelyn yr un pryd y Dimensiwn Goruwchnaturiol hefyd yn gytûn gydweol drwy hwnnw; ac yn hynny o beth, anrhydeddai wyddoniaeth mewn modd arbennig.

Teyrnas Gras Cyffredin yw priod safle statws y Gorchymyn Diwylliannol, ond rhoir pwrpas iddo gan Ras Arbennig: ffrwythau'r Ysbryd. Mae pob deddf wyddonol yn pwyntio'n ôl at Achos, wrth gwrs. Cysondeb yw sefydlogrwydd gwyddoniaeth glasurol. Ffin hynod o allweddol iddi, felly, yw'r Achos Cyntaf, lle y mae'n rhaid sefyll y tu hwnt i'r maes gwyddonol a chanfod gwreiddyn y ffrwythau i gyd. Ond nid oes dim o fewn gwyddoniaeth noeth (heblaw rhagdybiau) a all wrthbrofi'r safbwynt difrif a arddelai Pantycelyn: *creatio ex nihilo*.

Tueddwn yn ddiau i synied yn aml am ddiwylliant fel rhywbeth sy'n cael ei wneud mewn meddwl, moes ac ymddygiad. Gellir diwyllio'r cymeriad unigol yn ogystal â'r gymdeithas ac amgylchiadau'r gymdeithas. Ond trosiad ydyw, wrth gwrs, i raddau helaeth yn y fan yna, i'r defnydd ym myd amaethyddiaeth. Diwyllio natur, gwrteithio'r tir, dyna'r hyn a weithredir er mwyn meithrin daear ffrwythlon. A chymhwysir hynny at yr unigolyn a'r gymdeithas. O'r braidd fod yna unrhyw faes y tu allan i ddiwylliant nas cynhwysir dan y gorchymyn hwn. Mae'n cynnwys iaith, arferion, credoau, sefydliadau a threfniadaeth mewn meysydd fel masnach a thrafnidiaeth, iechyd a chyfraith, y celfyddydau a'r gwyddorau: y cyfundrefnau a'r Deunyddiau rhoddedig i gyd.

O safbwynt Cristnogaeth, rhan yw diwylliant o benarglwyddiaeth Duw, sy'n cynnwys yr holl Greadigaeth, yn weledig ac yn anweledig, yn gyfnewidiol ac yn ddigyfnewid, o fewn gofod ac amser a'r tu hwnt iddynt, y diwylliant a'r diddiwylliant. Ond y mae credoau a sagrafennau, mawl ac addoliad Cristnogol yn wedd hefyd ar ddiwylliant dyn, o ystyried 'diwinyddiaeth' a 'moeseg' fel sfferau sofran.

Ceir perthynas *uwchradd/isradd* rhwng crefydd a diwylliant. Nid yw Duw yn isradd i unrhyw ddiwylliant nac yn dibynnu arno. Ond gellir diffinio pob diwylliant yn ôl perthynas â chyferbyniad *Duw/duw* (neu *annuw*), yr *Absoliwt/yr unigolyn*.

Yr echel sylfaenol wrth gwrs yw *Diw/dyn*. Ac yn llinach y gyfundrefn honno cyferbynnir datguddiad—a dyfeisgarwch rheswm a galluoedd dynol, yr anfeidrol—a'r meidrol, y goruwchnaturiol—a'r naturiol, Creawdwr—creadur, Bywyd—marwolaeth. Adeiledir diwylliant benbwygilydd gan gydlynad o gyfundrefnau symbolaidd diriaethol.

GWWP I, 89

*O! ddedwydd ddyn! O! frenin tan y Creawdwr mawr!
Ar gwbl wnaeth ei ddwylo mewn awyr, môr, a llawr;
Ei ddelw ef a'i gymar, a'i gyfaill tan y ne'
A gaiff megis y mynno gymdeithas ag efe.*

Ym myd diwylliant, y mae dau symudiad diweddar pegynol sydd wedi ceisio didoli bywyd ymarferol oddi wrth grefydd, sef atheistiaeth 'ffwndamentalaid' a chrefydd ffwndamentalaid. Ers Adda, y mae math o atheistiaeth ymarferol wedi ceisio hawlio mai didduw yw, ('diduedd' yw'r ffordd unochrog a chwerthinllyd y'i disgrifir heddiw), ac mai ar wahân i bob rhagdyb goruwchnaturiol, y ceir diwylliant. Dogmatig yw; ond cafodd fwyfwy o sylw yn y Wasg ddiweddar. Daeth ffwndamentaliaeth grefyddol hithau i gasgliad cyffelyb ynghylch arwahanrwydd, ond ar hyd llwybr ysbrydol gwahanol. Yn wahanol i'r Calfinwyr ar y naill law a'r Blaid ddyneiddiol, ryddfrydol, efengyl-gymdeithasol ar y llall, ni ddatblygodd ymwybod fel y dylsid o'r berthynas ffurfiol rhwng Arglwyddiaeth Crist a'r Greadigaeth fel y'i cafwyd yn yr Ysgrythur. Ac er gwaethaf ei foesyngrymu i'r gorchymyn diwylliannol, yr wyf yn gresynu na chafodd y Calfinydd Pantycelyn yntau, ynghanol ei brysurdebau aml, ddigon o amser i egluro'r ddysgeidiaeth Gristnogol hon yn helaethach mewn rhyddiaith. Rhaid bodloni ar 'Golwg ar Deyrnas Crist'.

Pan gyferbynnwn Ras Cyffredin a Gras Arbennig, ac wrth gofio mai Gras oddi wrth Dduw yw'r naill a'r llall, nid amhriodol yw cyferbynnu ffrwythau'r ddaear â Ffrwythau'r Ysbryd. Trosiad yw Gras Arbennig yn y fan hon o Ras Cyffredin. Ar ôl lefel yr Un Archgyfundrefn ar Ddeg, sut bynnag, sy'n gyffredin i bawb, y mae'r Oruchwyliaeth Greadigol fel pe bai'n tynnu i derfyn ei fonopoli. Dyma'r lleoliad priodol i'r Cwmp, ar ôl yr Archgyfundrefnau a bodolaeth y Sfferau Deunydd. Y rhain a ddifwynir. Gwneir Gras Arbennig yn ddarpariaeth i bawb, ond effeithiol yw wrth reswm yn yr etholedigion yn unig.

Symudwn bellach, mewn Mynegiant, at Gyfundrefnau'r Unigolyn, ac at ddewis o du'r creadur yntau, at ddefnyddio'r Deunyddiau. Er bod llawer o'r cyfundrefnau'n dal yn agored i bawb, ceir hefyd yr hyn y gellir ei alw'n bynciau, meysydd arbenigol, cymysgedd newydd lle y mae'r cyfundrefnau cynorthwyol yn amrywio'n fwy amryddawn ac yn fwy ystwyth o ran pwyslais a dawn.

Ceir hefyd gyda'r ddau fath o ffrwytho ddau fath o fwynhad sy'n agored i'r Cristion; ac arweinir at y rhain drwy ddiwyllio: mwynhad Cyffredin llawnder y greadigaeth a

weddnewidiwyd oherwydd Gras Arbennig, a mwynhad bywyd newydd drwy berthynas neilltuedig yn y teulu nefol. Dwy o themâu mawr y Beibl. Dechreuodd y ddau ar ffurf wedi'i gweddnewid yn yr aileni, pryd y dechreuodd ysbryd Crist lifo drwy wythiennau pawb a gysylltid ag Ef. Gan gofio unigrywiaeth Cristnogaeth, a hawlio monopolaidd Crist, gwiw yw cofio'i Benarglwyddiaeth ffrwythlon yn y ddwy ochr. Ffrwythau'r ddaear a ffrwythau'r Ysbryd.

Mae perygl inni synied fod rhywun fel Pantycelyn sy'n meddu ar ymwybod eglur o'r Gorchymyn Diwylliannol, ac sy'n derbyn hefyd Ras Arbennig yn ogystal â Gras Cyffredin, yn rhannu'r un golwg â rhywun seciwlar ynghylch y gorchymyn amlochrog hwn. Ond gweddus yw nodi'r gwahaniaeth sylfaenol. Mae Gras Arbennig i Gristion yn newid popeth, *hyd yn oed diwylliant*. Ceir perthynas newydd. Ailwelir y gweledig i raddau helaeth o fewn cyd-destun llawnach — sylweddolir ei bresenoldeb a'i wraidd yng nghyd-destun tragwyddoldeb, canfyddir llaw Duw arno; mae plethwaith ei gydlyniad ynghlwm wrth fwriadau Duw; mae ôl Ei ogoniant i'w weld megis drwy wydr tywyll; ceir diben newydd i'r cwbl. Ychwanegwyd dimensiwn. Sylweddolai Pantycelyn, pan wnâi bethau cyffredin yn awr, pam roedd yn eu gwneud, ac i bwy. O'r blaen, byw iddo'i hun y bu yng nghanol Gras Cyffredin; ond bellach, nid o ufudd-dod peiriannol, ond oherwydd trugaredd Duw, ac o ffydd i addoliad. Yr oedd mwyach yn diwyllio'r ddaear o gariad at Grist, ac i'w anrhydeddu. Mae pawb bob amser yn gaethweision naill ai i bethau ac i'r Ego trosgynnol, neu ynteu i Dduw. I Gristion, nid oes dim natur heb ddimensiwn goruwchnaturiol.

Bellach, i Bantycelyn, felly, yr oedd gweithredoedd Gras Cyffredin, a'u ffrwythau, boed yn faterol neu'n gymdeithasol, oll yn cael eu cyflawni o fewn cyd-destun Gras Arbennig. Roedd yn rhan gadarn, felly, o'i fawl a'i ddiolch. Dysgodd o'r herwydd hyd yn oed gyda Gras Cyffredin, nad ei waith ef ei hun oedd y cynaeafu diwylliannol. Roedd Crist yn gweithio ynddo bob amser.

Dyna ffrwythau'r Ysbryd, yr hyn a ddisgwylir gan Ras Arbennig. Ac fel y mae ffrwythau Gras Cyffredin yn arwain at oroesi o fewn cyfyngiadau'r bywyd hwn, felly y mae ffrwythau Ffydd Gras Arbennig (heb fod yn achos i hynny mwyach) yn arwain at weddnewid arwyddocâd ffrwythlondeb popeth, a hynny at oroesi tragwyddol a'r gogoneddu.

YR UNFED ARCHGYFUNDREFN AR DDEG: DIBEN/DIWEDD;
MWYNHAD/GOGONEDDIAD

CYMHELLIAD

Adeiladwyd yn ein bodolaeth y rheidrwydd i gael diben. Does dim dewis. Heb hwnnw, ni wnaem, ni ddwedem ddim. Mae cyfeiriad a deinameg bywyd yn dibynnu ar Ddiben. Mae'n cyfeiriad fel arfer yn dibynnu ar hynny o wybodaeth neu obaith sydd gennym am yr hyn sydd o'n blaen. Ac mae gwybodaeth y gorffennol yn rhagosodiad sy'n cynnal deinameg i'r dyfodol hwnnw. I ni, boed yn Gristnogion neu'n Seciwlwyr, diffiniwyd cynnwys y diben hwnnw fel arfer, gan rywrai, fel 'mwynhad' neu 'fodddhad'. Ond cafwyd ymhlith pobl ddyfnder a llawnder gwahanol, a pharhad a gwasgariad amgen yn y mwynhad hwnnw. Oherwydd y Cwmp, cyfyngwyd a gwenwynwyd y mwynhad fel arfer. Yr hyn sy'n annealedig mwyach yw nid bodolaeth neu safle mwynhad, ond ei drwch a'i ddiffiniad. Mae Archgyfundrefneg yn gymorth i sylweddoli llawnder hynny.

I Gristion, drwy Ras Arbennig, y mae gwahaniaeth anfeidrol rhwng ei Fwynhad ef a Mwynhad yr anghredadun. Uchafbwynt y Mwynhad iddo yw'r Gogoneddiad, a rhaid cyfrif hwnnw o fewn cyd-destun y themateg unigryw wrth drafod ffenomen Thema. Ac eto, hyd yn oed yn awr, wrth ystyried Mwynhad o'r fath, gwiw cofio yn yr Archgyfundrefn, o safbwynt dynol yn bennaf (eithr heb anghofio mwynhad Duw o'r gymdeithas ddynol), fod y safle o ddiben yn yr ystyr letaf oll, boed mewn Gras Arbennig neu Ras Cyffredinol, yn gynhwysfawr orfoleddus.

Mwynhau Duw oedd pen-llad 'syml' Pantycelyn. A chredai ef mai cynnwys y mwynhad hwnnw oedd y peth dirgel a goruwchnaturiol — gogoneddu. Hyn oedd y cydbwysedd glendid a'r perffeithrwydd cyneddfau a chwenychai. Ehangai'r mwynhad mewn profiad a fedrai gynnwys y bydysawd a'r nef. Deall gogoneddu iddo ef oedd deall y cwbl: Duw yn y canol, afiaith Mawl, ac angerdd dyrchafu Duw mewn gair a gweithred. A hyn iddo ef oedd cyrraedd ei ddiben a'i uchafbwynt. Fe berswadir y dyn meidrol, bid siŵr i dderbyn yr arwynebol a'r tila ac yn sicr y tros-dro fel pe bai'n aruthredd profiadol. Ond fel y bu 'gwahuno' yn paradocsaidd ddynodi *dechrau* deall, felly yr oedd mwynhad/gogoneddu i Bantycelyn yn dynodi *diwedd* deall.

Os ydym yn 'mynd' i rywle, neu'n cyflawni unrhyw weithred, mae yna ymdeimlad sylfaenol ein bod yn 'mynd' neu'n gwneud rhywbeth i ryw berwyl. Nid cynnwys (neu ddeunydd) y Diben sydd o dan sylw am y tro, ond bodolaeth, safle, ac ymwybod o reidrwydd diben. Diben fel ffactor adeileddol neu ffurfiol yw'r deinameg allweddol hon, y ffaith ei bod yno, yn wedd ar fywyd, dyna sydd dan ystyriaeth. Hynyna, y *ffurf* hon, yw'r hyn sy'n

cymathu'r deunydd. Yr ydym yn ymwybodol o ddiwedd peth (nos a dydd), a hynny sy'n llywodraethu'n camre.

Cyfundrefnir Omega yn ôl Alpha. Diffinnir Diben gan gyd-fodolaeth y dechrau, ac i raddau helaeth ceir ystyr y dechrau hwnnw, nid yn unig yn yr Arfaeth greadigol, eithr hefyd yn y Pechod ymyrrol. Ond fe fydd y dechrau dwyochrog hwnnw yn arwyddocaol yn y diwedd, megis y mae'r Diben mewn amgylchiadau yn llywio dipyn ar ddechrau y cyfeiriad a gymerir wedi'r dechrau. Ble'r ych chi'n mynd? Y Diben sy'n cyfeirio'r ffordd. Mae'n bwysicach nag o ble'r ych chi wedi dod fel arfer.

Yn y gyfundrefn arbennig hon y'n denir i gwllwm gan gyfeiriad y drefn, sef y Pwrpas. Ac y mae'r golau ym mhen draw'r twnnel yn gallu egluro'r siwrnai i gyd. Diffinia bob deinameg i ryw raddau. Rhydd hwn bwrpas a chysur a llawenydd i'r daith oll. Hyd yn oed yn achos y Groes a'r Atgyfodiad, rhannau ydynt, er mor anferth, o'r Drefn orffenedig, fel y dengys diwedd *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ni bydd diwedd byth ar sŵn y delyn aur.

Yn y gyfundrefn hon o Archgyfundrefnau, ym mryd Pantycelyn, y mae tro arbennig yn digwydd yng Ngwraiddgyfundrefn yr Arfaeth ac yn Archgyfundrefn *Presennol/Absennol* gyda'r 'gwrthryfel cyffredinol' a'r Addewid yn Eden. Nis atebir hyn yn llawn onid yn y Diben. Ni ellir meddwl hyd at hynny ond o fewn cyd-destun y Cwmp. Mae hyn yn newid Archgyfundrefnau Cymhelliad mewn modd treiddgar arbennig. Difwynwyd Gwerth. Darparwyd Gras Cyffredin i bawb, i'w hamddiffyn a'u cynnal yng nghanol y gwyrddroi. Ac y mae'r Ysbryd Glân yn darparu Sancteiddhad i'r Cristnogion, i'w meithrin oll a'u cadw a'u dwyn i'w diben rhag ergydion cyson y Drwg. Ond ymosodir gan yr ysbryd negyddol ar natur a gwrthrych Dibyniaeth iach, megis ar Ddiwylliant. Disodlir y Ddibyniaeth ddwyfol gan hunanddibyniaeth amddifad a chyfyngedig. Gellir defnyddio hyd yn oed yr Efengyl i geisio tanseilio Diwylliant, fel y clywir y sgrechian cyffredin ymhlith rhai efengyleiddwyr — 'Mae'r Efengyl yn bwysicach na'r iaith,' sgrechair imperialwyr. Dyna, weithiau, angof cyfleus ynghylch y Gorchymyn Diwylliannol. Hollt seicolegol *en route* yw hyn. Ond i'r Cristion meddylgar erys y drefn ddibynnol o ogoneddu Duw drwy gydol y Cread a'r Arfaeth.

Wrth ystyried fframwaith mawr o'r fath yn yr Arfaeth, rhwng y Creu a Barn, mae Barn yn begwn anochel. Ac mae eithafbwynt mor absoliwt yn meddu ar statws ffurfiol arbennig yng nghyfundrefnwaith yr Arfaeth:

GWWP I, 174 *Dydd mawr ydyw ei enw, y mwya' fu erio'd*
 O'r pryd ca's nef a daear ac uffern faith eu bod...

Mae dechrau amgyffred yr athrawiaeth ddiwethafol hon, wrth reswm, yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ryw faint o sylweddoliad bach o ddifrifoldeb ac o ofnadwyaeth aruthr pechod

yng ngolwg Duw. Gwir bod llawn sylweddoliad ohono ar hyn o bryd yn ormod inni'n gorfforol. Ni fedrem ei ddal. Fe'n hamddiffynnir rhag hynny gan Ras Cyffredin. Caiff y rhai, a gafodd beth argyhoeddiad o'r drwg a wnaethpwyd yn erbyn Duw, ryw gymaint o ddealltwriaeth o hyn. Ond eithafbwynt ysbrydol a goruwchnaturiol yw sy'n gofyn deffroad mewnol mawr.

Un o'r darnau estynedig mwyaf ysbrydoledig o waith Williams yw'r darn baróc ffrwydrol a lunnir o ddisgrifiad Iesu'n dod i'r golwg ar Ddydd y Farn. Dyfynnaf y pennill cyntaf a'r olaf o'r chwech:

GWWP I, 174 *Ein Iesu mawr ddaw allan o'i balas euraidd, cun,
Y man yr oedd yn eiriol er pan y cwmpodd dyn;
Byddinoedd 'n ôl byddinoedd o angylion pur y nef,
Llu yn arwain llu lluosog fydd yn ei gwmni ef...*

175 *Lle cân archangel cadarn mewn utgorn euraidd, mawr,
Rhy dro oddeutu'r ddaear mewn llai na munud awr
I gasglu rhai a gododd yn bentwr mawr ynghyd,
I gwrdd â'u T'wysog, Iesu, i fyny uwch y byd.*

Clywn am *Seinai/Y Farn*

GWWP I, 177 *Pan deunaw cant o filoedd o bobloedd da a drwg
Oedd gynt tan fynydd Seina yn gweld y tân a'r mwg,
Dim ydoedd i'w gymharu, ...*

Felly y clywn am *wenith/efrau* (GWWP I, 178) y gwahanu dibennol. Diflannodd yr Eclectig. Cafwyd purdeb.

Hawlia Pantycelyn ddiben mewn Rhagluniaeth:

GWWP I, 119 *A chennyt mae amrywiol ddibenion yn yr un,
Yn rhedeg, yn cydweithio, yn cwrddydd yn gytân.*

Beth oedd Diben y Greadigaeth hon oll, felly? A beth oedd Diben y Groes? Dim llai na chyfeirbwynt strwythurol tosturiol a oedd yn anrhydeddu trefn, gan ailsefydlu'r Deddfau yn y Cariad cyfunol. 'Myfi yw'r Drws.' Y drefn derfynol adferedig orffenedig i chwalfa'r Cwmp oedd y Diben.

GWWP I, 146 *A thyna ddiben pennaf gweithredoedd Duw ynghyd,
Gogoniant maith, diderfyn oddi wrthynt oll i gyd.*

Y groes a roddai ganolbwynt i ddealltwriaeth Pantycelyn o Dduw. Hyn a gadwai'i sylweddoliad o berthynas cyfiawnder Duw â'i drugaredd a'i gariad yn y canol. Ac felly dyma i ddyn y newydd gorau.

*

*

*

Ym mhennod gyntaf *Golwg ar Deyrnas Crist*, lle y cyflwynir yr Arfaeth, yn farddonol mae'n wir, ond yn hanesyddol, y mae'r Diben hefyd mewn golwg yn gyson ac yn cael ei fynegi mewn dulliau amrywiol sy'n dod i'r un cwlwm:

- GWWP I, 24 *Sef twyll y sarff a'i hoced, a chwyp y dyn i lawr
'Ragwelwyd a ddiodefwyd o fewn yr arfaeth fawr;
Y cwbl fel câi ddigwydd er mwyn gogoniant Iôr, ...*
- 25 *Y briodasferch landeg sydd hardd i gyd o'r bron,
Y nefoedd newydd sanctaidd a leinw'r ddaear gron;
Pob mellthith wedi darfod, a'r cyfan oll a ddaw
Er clod i'r Iesu drefnwyd yn nhragwyddoldeb draw....*
- A dwyn ei seintiau ffyddlon yn gryno bob yr un
I mewn i nef y nefoedd i weld ei wedd ei hun;
Digrifu'n ei ogoniant rowd iddo cyn y byd,
Ac edrych yn wynepryd ei nefol Dad o hyd.*
- 26 *Sef bywyd a marwolaeth, ac uffern faith a'r nef
Sy'n hongian oll yn gyfan ar ei bwrpasiad ef; ...*
- Pob dyn, pob angel yntho, eu lle, eu maint, a'u llun,
Sydd yn cyflawni diben gogoniant iddo ei hun.*

Efallai, o bopeth yn yr Arfaeth, nad oes dim mor ddisylw o ddydd i ddydd â'r Diben. Eto, y Diben sy'n llywodraethu popeth sy'n arwain ato. A dyry Pantycelyn y rheswm dros hyn — nad diwedd yn unig ydyw:

- GWWP I, 27 *A all fy llygredd dorri, er cymaint yw eu lliid,
Heb bwrpas a ddechreuodd yn hir cyn dechrau'r byd?
Na all: y pwrpas hwnnw o eiddo'r Drindod mawr
Chwilfriwia fy mhechodau 'mhen gronyn bach i lawr.

Resolfo i gyflawni y pwrpas maith i gyd.*

Pam y cyfeirir at Alpha ac Omega mor aml? Oherwydd rhyfeddu mai'r un ydynt.

- GWWP I,
24 *Pryd hyn pwrpaswyd iddo gael trefnu oll i gyd ...
Pryd hyn pwrpaswyd galw plant Adda i gael gras ...*
- 8 *Trwyddo pwrpaswyd creü yn gyntaf rif y gwylith ...*

Ni all y fath batrwm a'r fath ben-draw ond codi mawl mewn enaid tlawd.

- 62 *Y cwbl yn ddefnyddiol i ddwgyd allan glod,
Doethineb, sgil, a meder a roddodd iddynt fod;
Oll hefyd yn addasu eu lle o'r ddaear hon,
Ac ateb y pwrpason y crewyd hwynt o'r bron.*

* * *

Soniasom wrth drafod Seico-Gyfundrefneg am safleoedd: y Diben yw'r union safle sy'n cymell meddwl yn ôl yr holl safleoedd.

Ysgogiad uniongyrchol yr Archgyfundrefn hon a phob un o'i helfennau oedd Gras oddi wrth yr Ysbryd Glân, megis y credai beirdd Cymru gynt yn yr Oesoedd Canol, ac fel y rhannai Pantycelyn yntau eu cred hwy. Priodol, er hynny, yw sylwi beth yw gwerth pwrpasol a strwythurol Diben. Dyma'r drydedd elfen gyfundrefnus yng Nghyfundrefn lawn 'Cymhelliad' i Dduw ac i'r Cristion — *Gwerth/Trefn/Diben*. Fe'i crynhoir gan Bantycelyn wrth gyfeirio at lyfr Rhagluniaeth.

GWWP I, 26 *Pob dyn, pob angel yntho, eu lle, eu maint, eu llun,
Sydd yn cyflawni diben gogoniant iddo ei hun.*

Ymffrostiai, ymlawenhâi Pantycelyn yn ffeithioldeb pwrpas, felly. Nid mater o farn bersonol oedd rheidrwydd pwrpas iddo ef, ond gwedd ar blethwaith bodolaeth. Buasai damweinioldeb ôl-foderniaeth iddo ef yn ysfa faldodus chwiwus, a ddyfeisiwyd yn syml ddireswm oherwydd gelyniaeth gynhenid a disynnwyr dyn tuag at Dduw. Cyfundrefn arbennig yw gan fod ganddi'r swyddogaeth gysylltiol o dynnu popeth ati'i hun.

Dyry lawer o ofod i nodi pwrpas pob dim, o leiaf y rhai dealladwy.

GWWP I, 69 *Rhai lleia' eu budd a'u defnydd sy'n dangos gallu Duw,
Ei faith, di-dranc ddaioni a'i berthynas i bob rhyw;
Y rhai sy'n llawn o wenwyn chwyddedig, glas y sydd.
Er nas gall dyn ei ddeall, yn ddiâu er rhyw fudd.*

Felly holl gynnwys y ddaear:

GWWP I, 64 *Ac mae [yr awyr] o'r fath fownteision, o'r fath fuddioldeb mawr,
Nas gallem fyw na symud, na rhodio hebddi awr;
Anifail, pysg, ehediad, ymlusgiad bach ni chad
Nad yw yn cael oddi wrthi helaethrwydd o lesâd.*

Felly eto'r elfennau uwchben:

GWWP I, 51 *Os gwelwch fôr o ddyfroedd yn 'hedeg uwch ein pen
Ar ysgwydd gref y gwyntoedd yn eistedd yn y nen,
Er cynnydd neu er distryw i'r ffrwythau oll i gyd,
I dywallt barn neu fendith ar afreolus fyd.*

Mae'r greadigaeth yn llawn dop, felly, o bwrpas, fe'i treiddiwyd drwyddi draw.

Wedyn diben amrywiaeth llysiâu:

GWWP I, 70 *Rhai i fodloni llygad o gymysgedig liw,
Rhai i fodloni archwaeth, oll o amrywiol ryw;
Rhyw filoedd i'r arogliaid, ac eto bob yr un
At ddiben godidocach, sef meddyginiaeth dyn.*

Y nefoedd, a'r ddaear, sy'n datgan gogoniant Duw. Sylwer ar yr arddodiaid 'i' ac 'at'. Clywir yn amrywioldeb egniol delweddu Pantycelyn yr egni cyfeiriedig yn neinameg y Greadigaeth.

GWWP I, 70

*Heb un 'r un lliw, 'r un archwaeth, 'r un deimlad, neu'r un flas,
'R un ddull ei ddail a'i ffrwythau o'r llysiâu yn y ma's;
Yn hyn i gyd â'i ddiben i ddodi 'maes i ddyn
Mor fawr, mor ogoneddus, mor ddoeth yw ef ei hun.*

*

*

*

Yr ydym hyd yn hyn, wrth wneud arolwg strwythurol o Archgyfundrefnau Ffurfiol amodol deall, wedi bod yn ceisio ystyried ffurfiau'i feddwl wrth i Williams geisio'n gyson ystyried 'deunydd llenyddiaeth' a 'diwinyddiaeth'. Ac yn gyntaf, strwythurau 'pur' ffurfiol oeddent o archgyfundrefnau a oedd yn unplyg yn eu hymwneud yn benodol â ffurfio meddwl o gwbl, heb gyfeirio (yn uniongyrchol) at Ddeunydd fel y cyfryw. Y rhain a oedd yn *ffurfio* pob deall dynol a phob deunydd creedig. Ar ôl ystyried rhai archgyfundrefnau strwythurol pur, symudasom i ystyried dwy Archgyfundrefn 'ffurfiol' a oedd a wnelai â dwy Archgyfundrefn *ddeunyddiol* ddiwinyddol amlwg, y canolrwydd ar Dduw, — ond nid â'u Cynnwys yn benodol ond â'u ffurf â'u perthynas o hyd yn fwyaf penodol — fertigol (o'r uchod i'r isod) a'r llorwedd (o'r dechrau i'r diwedd) o'r mwy at y llai — dyna *Bod/bod a Bod/gwneud*. Bellach wedyn, troesom at bedair Archgyfundrefn ffurfiol arall, gan ymwneud bob amser â'r ffurfio a geir gan Arfaeth Duw yn Wraidd-gyfunol, ond y tro hwn sy'n gogwyddo tuag at Gymhelliad heb ddynodi deunydd allanol o raid. Dethlir *Gwerth* (cychwyn angenrheidiol y broses); *Hunanddibynnu/Dibynnu*; *Ffrwytho*; a *Diben* (Diwedd y broses).

Ymddengys i mi mai creedig yw'r holl Archgyfundrefnau hyn allan o briodoleddau Duw: hynny yw, perthynant i gyflwr ei feddwl am y Greadigaeth. Ac yn y Mynegiant terfynol mewn amser, *motiffau* ydynt a grëir gan rym a diben yr hierarci hon.

Credaf fod rhaid crybwyll yn y fan hon hefyd natur neilltuaeth a grym Archgyfundrefnau fel cwlwm rhagffurfiol cyflawn, hyd yn oed os darganfyddir rhagor ohonynt (fel y disgwyliaf) i ymuno yn y cwlwm hwn. Mae'n aruthr gwmpasog a chynhwysfawr gyfun. Digwyddant mewn Tafod ac mewn Mynegiant. Nid ydynt yn absennol mewn unrhyw waith llenyddol. Hyn yn benodol sy'n gyrru'r dethol mewn beirniadaeth. Hyn sy'n penderfynu hefyd ba gyfundrefnau unigol sy'n arwyddocaol mewn Mynegiant. Mae'n ymwneud o'r herwydd â'r gyfundrefn werthoedd felly sy'n anochel bresennol. Mae'n penderfynu hefyd ac yn ffurfio'r cyfundrefnwaith oll sydd eisoes yn bwrpas bythol ddirfodol.

Beth felly oedd y cyswllt rhwng yr Absoliwt Mewnfolol a'r unigolyn yn hyn o gyflwyniad? Beth oedd y cwlwm gweithredol rhwng elfennau'r Cymhelliad? Yn syml, Gras. Ym mhob perthynas, ceid deinameg gras o du Duw yn cysylltu ac yn rhoi grym i'r cytser. Fe'i ceir ar waith mewn dau fodd. Yn gyntaf, y gras a gynhyrfai fodolaeth dyn o'r gorffennol. Rhodd oedd bywyd ei hun na fu'n rhaid ei haeddu na'i ennill, megis y gras a gynhaliai'r gwrthryfelwr i ffrwytho. Ac yn ail, wedi'r gwrthryfel yn erbyn Duw, gras drachefn oedd y Waredigaeth, gras penarglwyddiaethol cariadus tuag at y gwrthryfelwr, ac ymlaen i ddyfodol. Dyna pam y soniai diwinyddion am ddau fath o Ras yn y gyfundrefn hon: *Gras Cyffredin/Gras Arbennig*. Roedd y ddau yn cynnwys yr un gyfundrefn gyd-ddibynnol hon, er bod y dibynnu mewn Gras Cyffredin yn fwy 'naturiol' na'r Gras Arbennig. Ffrwyth Gras hwn oll yw'r gyriant tua'r Diben.

Does dim sôn uniongyrchol bid siŵr am derminoleg Gras Cyffredin na Gras Arbennig yn y Beibl. Ond y mae'r ddwy ffenomen eu hunain yno'n eglur. Cafwyd bywyd cyffredin drwy'r 'Cyffredin' a Bywyd Tragwyddol yn yr 'Arbennig'. Darganfyddiad fu'r ddeuoliaeth hon: megis y 'Drindod' yn drioliaeth. Fel arfer, yn achos y cyfundrefnau eraill y buwyd yn eu crybwyll, fe enwir y cynnwys yn eglur yn yr Ysgrythur, a chan mwyaf fe'u cyferbynnir neu fe'u clymir wrth ei gilydd mewn gosodiadau digon penodol. Ond dim o'r fath gyda'r grasusau hyn. Ac eto, nid yw hynny'n beth i synnu ato nac i resynu o'i blegid. Dyma'r norm wrth olrhain cyfundrefnau mewn gwyddorau eraill: felly mewn Diwinyddiaeth. Dysgir am y drefn gan yr hyn sy ar waith ynghudd. Mewn iaith, er enghraifft, does dim disgrifiad nac esboniad y tu mewn i wneuthuriad yr iaith am ffenomenau megis tympau'r ferf na thri pherson arbennig y rhagenw. Rhaid mynd y tu hwnt i iaith. Ac eto, ni byddai'r un gramadegydd Indo-Ewropeaidd yn gwadu bodolaeth y fath bethau'n ffeithiol fel na ddylid achwyn am nad yw Duw wedi manylu ar bopeth felly o'r dechrau. Wrth geisio amlygu cyfundrefnau, yr hyn a wneir fel arfer yw archwilio'r defnyddiau mewn Mynegiant. A oes yn y cynnyrch hwnnw ffyrdd penodol o ymddwyn sy'n ymglymu'n undodau elfennaidd? A oes digon o dystiolaeth ddiffiniadwy o 'Ras' Duw y gellir, er yr undod, nodi'n bendant fod yna fathau cyferbyniol cyson o'i fewn? Os oes, yna, gellir eu derbyn fel ffaith strwythurol egwyddorol. Ac felly, y mae yn achos Gras Cyffredin a Gras Arbennig, hyd yn oed yn y Beibl ac felly gyda Phantcelyn.

Ar ddelw Duw y gwnaethpwyd llun yr anghredadun. Mae hyn – fel llawer o bethau eraill – yn ddiffiniedig y tu hwnt i ddeall. Ni ofynnodd am y fraint honno. Bodolaeth roddedig oedd. Rhannwyd doniau naturiol iddo yn gwbl annibynnol ar unrhyw gredoau. Ond

y mae ei feddwl bellach yn gymysglyd o gywirdeb a chelwydd. Gall wybod am Dduw; yn wir, rhaid ei fod yn gwybod amdano oherwydd y datguddiad eglur ohono'i hun mewn Sensus divinitatis, mewn Natur, yn y Gydwybod ac yn yr Ysgrythur. Ond ni all wybod Duw ond mewn modd cyfyng, cwbl ddiffygiol, gwrthwynebus yn bur debyg, sarhaus, ond yn ddatguddiedig. Mae ei wrthryfel yn erbyn Duw wedi'i ddofi i ryw raddau. Gwna ef 'ddaioni' ambell waith efallai. Ond ni fedr ddeall yn briodol ei ddiben na phwrpas undod gwyddoniaeth, ac ni all ddehongli yn naturiol realiti yn sylfaenol gywir na sylweddoli perffeithrwydd eithafol Duw nac eithafrwydd llygredd anghrediniaeth. Ni all roi cyfrif am fframwaith cyfundrefnol yr hyn y mae'n ei wybod a'i gysylltiadau absoliwt. Eto, er ei fod yn ysbrydol farw, fe all drwy Ras Arbennig ddarganfod y gwir am hynny hefyd drwy gael ei aileni gan yr Ysbryd Glân. Fe all dderbyn, felly, dirgelwch yr Undod. Heb Ras Arbennig o'r fath, *rhaid* iddo o hyd — mewn amgylchiadau arferol — gyfrannu tuag at ddiwylliant y byd, hyd yn oed yn erbyn ei ewyllys. Caiiff drefn i wneud hynny, a rhyw fath o ddiben.

Yr atalfa gyfyngol hon gan Dduw ar bechod digymrodedd penrhydd yw Gras Cyffredin. Ac eto, mae'r Gras Cyffredin hwnnw, a brawf y credadun yntau, yn bur wahanol i Ras Cyffredin yr anghredadun. Mae'n gymysgedd mewn modd gwahanol. Ond daw ato/ati yn gymysg â statws gwybodaeth, maddeuant a llawenydd Duw: ei Ras Arbennig.

Dibynna Gras Arbennig a Chyffredin bob amser ar etholedigaeth Duw. Dyna'r Alpha a'r Omega i Bantycelyn. Ni ellir dibynnu ar ddatguddiad goddrychol yn unig. Ceir cyfathrebu goruwchnaturiol gwrthrychol gan Dduw, a hynny o'r dechrau hyd y diwedd. Hyn a rydd ystyr lawn ac a ddehongla bopeth ym myd natur. Gwelir, felly, fod yna gynllun gan Ras Arbennig (Effes. 3: 2, 8), 'Y mae rhaid eich bod wedi clywed am gynllun gras Duw... I ni, y llai na'r lleiaf o'r holl saint, y rhoddwyd y rhodd raslon hon, i bregethu i'r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist, ac i ddwyn i'r golau gynllun y dirgelwch.' Y cynllun hwn oedd cyfundrefnau Diwinyddol y bu Pantycelyn yn eu dathlu mor ffrwythlon. A dyna destun y gyfrol hon.

Dyma'r cynllun yn fras, felly, i'r Beibl, ac i blot Pantycelyn:

- | | | |
|----------|----------|--|
| 1. Creu | Undod | Deunydd: Gweledig, diriaethu pethau
(Gwerth yn Cymhelliad: Deall a Charu perthynas ddeinamig
Gynhenid) Ffurf: Anweledig, diriaethu deddfau |
| 2.[Cwypm | Gwahanu: | dryllio a gwrthod y ddibyniaeth ar Fywyd: trefn/anhrefn] |
| 3. Adfer | Undod | Diben yn gynhenid o'r dechrau: yr Amryw mewn Un |

Er creù sêr difesur, cofleidio llwch y llawr!

*

*

*

Un o'r darnau mwyaf nodedig o Fawl a geir yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, yw'r un ar ddiwedd Pennod II, pryd y gorchymynna'r bardd i'r holl greaduriaid foli Iesu Grist yn y terfyn fel y'i gwelir yn y Greadigaeth, ac felly ei fwynhau. GWWP I, 89-91. Dyma i efengyleiddwyr un o'r darnau gwir bwysig gan Bantycelyn. Mae'n bur unigryw, wrth iddo danlinellu cyfrifoldeb i ddiwylliant y Greadigaeth. Pwysig yw'r sôn hefyd am ras ataliol ar ôl y Cwyp:

GWWP I, 95 *Ond oll sy'n awr yn sefyll yn gyfan yn y gwa'd,
Trwy eitha' poen i'r Iesu, i ni yn eitha' rhad;
Gwaed brynodd y greadigaeth, dyn aethai'n lân ar goll,
Ac yn y gwaed mae'n sefyll yr awron oll yn oll.*

Gwaredir y Greadigaeth. Enwir 'yr hen gyfamod gwell' fel moddion cadw. Ac un o ddaliadau mwyaf treiddgar Williams yw'r ffordd y dengys y cyswllt rhwng Gras Cyffredin a Gras Arbennig, yn y Ffynhonnell a'r pen draw, ac yn y gwaith o gadw, gan gynnwys diwylliant.

GWWP I, 96 *Oll fuasai'n mynd yn ofer oni buasai Cyfamod Gras ...*

Hyn sy'n 'cadw':

GWWP I, 97 *Ac ef yw gwraidd y cwbl, a'r ffynnon hynny yw
Ym mha un mae pob creadur yn symud, bod a byw...*

Yn y bôn, Gras Arbennig felly sy'n chwennych cynnal, iacháu ac adfer Gras Cyffredin; a threfnu yw gwaith y ddau Ras. Trist yw Cristnogion a'u gwahana. Rhy fynych ymhlith efengyleiddwyr wedi 1904 y bu rhywrai'n hwyrfrydig i gydnabod y gorchymyn diwylliannol yn y cyd-destun hwn. Bychanwyd diwylliant. Mewn gwirionedd, yr un diben sydd i'r gorchymyn diwylliannol ag i'r gorchymyn mawl. Yr un ffynhonnell a'r un diben sydd i Ras Cyffredin ag i Ras Arbennig: sef gogoneddu Duw. Dyna'r Deunydd yn y Diben. Yr unig ras y mae ei angen yn y nefoedd yw Gras Cyffredin, er mai'r unig ras a oedd yn angenrheidiol i fynd yno oedd Gras Arbennig. Rhan o fawl yw diwylliant: dyma uchafbwynt y drefn naturiol. Ond yr un pryd, y diwedd hefyd sy'n cyflyru'r drefn ar y ffordd tuag yno.

Diddorol iawn yw'r darlun o'r nefoedd a gynhwysodd Pantycelyn ym Marwnad Ffidelius *Tri Wŷr o Sodom a'r Aifft*, GWWP II, 158-160: math o hunanfarwnad fel yr awgryma penillion 13-17. Dyma bennill 2, a'i ddathliad o drefn nefol, y mwynhad:

GWWP II, 158 *Ei nwydau oll sydd heddiw heb derfysg yn gytûn,
Yn gryno yn moliannu Creawdwr Nef yn ddyn;
Galluoedd maith ei enaid mewn digymysgedd hoen,
Sy'n swnio'r hymn dragwyddol i'r croeshoeliedig Oen.*

Pwysig yw cofio honiad Pantycelyn am y cyfystyru a geid yn y fan yna

GWWP I, 165 *Ond cariad yw pob trefen... (gw. Mawl a'i Gyfeillion, 69-72)*

Fel y mae *anrhydeddu'r ddeddf* yn awr yn werthfawr, felly y mae'n ymestyn ymlaen i anrhydeddu'r diwedd:

GWWP I, 125 *Fel hyn y deg gair cyfraith efe a'u rhodd ei hun,
Fel byddent byth i bara i gyfarwyddo dyn;
Yr amser oedd yn dywyll, ond mewn amodau gras
Pob gair o'r ddeddf ragorol pryd hynny rowd i ma's.*

Enw ar drefn y dechrau, ac ar y lluniaeth ar y ffordd, yw'r cyfeiriad a geir mewn rhagluniaeth:

GWWP I, 99 *Hon ydyw y rhagluniaeth wyf iddi am wneud cân,
A rodd y Tad tragwyddol yn nwylo Iesu'n lân,
Sy'n troi er ei ogoniant y cyfan fu ac sy
O ddyfnder daer gwmpasog i uwchder nefoedd fry.*

Yn y fan hon y mae cariad Crist ei hun yn ymamlygu mewn trefn ddaionus:

GWWP I, 139 *Nid yw'r defodau lleia' oddeutu'r rhain o'r bla'n
Ddim heb gael i'w cyflawni yn Iesu Grist yn lân.*

147 *Cans y mae ef yn ateb Cyfiawnder yn ei rym
A maith ofynion Cyfraith heb adael heibio ddim...*

Yn hyn o drefn, yn y greadigaeth hon mewn amser, ceir o raid ddechrau a diwedd, Alpha ac Omega. Dechreuir gan Grist yn y dechrau; a Christ ei hun yw'r diwedd, y Pwrpas neu'r Diben, ac unir y cwbl yn uchafbwynt yng Nghrist:

GWWP I, 268 *A yw ei ddeddfau yn annwyl, fel annwyl waed y Gro's?
A ydynt yn hyfrydwch i'ch calon ddydd a nos?*

262 *'R wy'n gweled fod fy Arglwydd yn awr yn cael ei glod
Oddi wrth y ddyfais benna' fu yn y nef erio'd;
Doethineb a thrugaredd, cyfiawnder cryf ei hun,
A chariad a gwirionedd yn ymgofleidio yn un.*

Trefn wrth reswm, a threfn sydd bob amser yn dirwyn i gwlwm, yw'r hyn sy'n cynllunio ac yn cynnal nid yn unig y gyfundrefn hon, ond pob cyfundrefn tuag at gwblhad:

GWWP I, 34 *Ond Iesu a ddistewodd y cynnwrf yma i gyd,
Yr hyn oedd o'r un natur osododd ef ynghyd;
I'w le ei hun y trefnodd, ac felly rhoddodd fod
O ddyfnder maith ei allu i'r cyfan sydd erio'd.*

35 *Pob elfen yn clustfeinio y lleiaf air o'i ben,
Yn fodlon at ufudd-dod i Frenin mawr y nen...*
*Ac yna, adeiladodd y cyfan oll i gyd,
Yn union 'n ôl y drefen yr oeddent yn ei fryd; ...*

Mae'r cylch yn grwn.

GWWP I, 63

*Y bywyd yma sy ynddo i godi i'r awyr fry
Yn gyfan oll sy'n dyfod oddi wrth fy Iesu cu;
Pe'm Iesu giliai oddi wrtho fe gysgai ei ddŵr ynghyd,
Fe ddrewai, ac fe drengai'r creaduriaid sy'n y byd.*

Eisoës, megis yn y dechrau, felly yn nhrefn y Cadw, ceir cyneddfau'r Diben. Os yw *Theomemphus* yn dathlu gwardigaeth dyn, arbenigrwydd terfynol *Golwg ar Deyrnas Crist* yw gweledigaeth yr Arfaeth yn yr holl Greadigaeth.

* * *

Un o gymwynasau mwyaf Pantycelyn wrth osod gerbron ei *Olwg ar Deyrnas Crist*, gan wneud hynny'n gynnar yn ei yrfa, oedd adfer dysgeidiaeth nid y Creu ond y Greadigaeth werthfawr barhaol, drefnus a phwrpaslon oll i le blaenllaw yn y traddodiad Efengylaidd. Y fframwaith yn ogystal â'r llun canol. Dwy ddysgeidiaeth sy'n gymheiriaid i'w gilydd yw Gwardigaeth y Greadigaeth a Gwardigaeth yr Unigolyn. Yn ôl Pantycelyn cyflwynir y cwbl yn ôl gan y Mab i'r Tad yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dyna'i ddiben yn y gerdd honno. Nid Natur a Gras yw'r cyferbyniad hwn, felly, oherwydd dau fath o Ras sydd ar waith — sef *Gras Cyffredin/Gras Arbennig*. Gras yw Natur hithau i Bantycelyn. Priodol cofio bod Gras Cyffredin, o ran gweithrediad, ar waith o flaen Gras Arbennig, ac y mae bob amser yn fwy llydan ei wasgariad. Mae ynghlwm o'r dechrau wrth ddyletswydd i gredu (dibynnu ar) y Gorchymyn diwylliannol, ac wrth sancteiddhad. Dyna briod dasg dyn ar y ddaear, i ddiwyllio, ac i ddathlu Penarglwyddiaeth Duw. Rhydd Ef i ddyn yr awydd a'r gallu i ddiwyllio-ogoneddu, rhydd hefyd drwy ras gynnyrch i'r diwylliant hwnnw. Gras Cyffredin yw awen y bardd yntau. Ac yn y Nef un fydd y ddau ras hyn — megis yn y dechrau. Adferir Gras Cyffredin i bawb o'r saint gyda'i gynnwys Gras Arbennig. Medd Pantycelyn:

GWWP I, 33

*Gogoniant ar y ddaear, ewyllys da yn gytûn
I ddynion gânt eu crëu: tangnefedd i bob un.*

*Trwy hynny dannu allan ei ras a'i ryfedd glod
I fydoedd ac i oesoedd sydd heb rifedi i fod.*

39

*Pob gras a dawn a bendith a dyfant yn y man
Pan bech yn t'wynnu arnaf yn fwy na'r preniau plan.*

Nid yw Gras Achubol yn ymwarded â chyfoeth a bwriadau Gras Cyffredin. Mae yna gyswllt rhwng y Creawdwr a greodd rifedyddiaeth: GWWP I, *rhed goleuni i'n rhifedyddiaeth ni*, yn ogystal â

47

*Pob iaith, a llwyth, a chene'l, o'r ddaear aeth eu sain,
Gogoniant y Creawdwr yn rhoi sefyllfa i'r rhain.*

Sylwer ar y *safleoedd* yn y drefn.

Grasusau cydweithredol a chyd-dreiddiol yw'r rhain oll. Eithr, nid yw hynny'n esgus inni eu cymysgu na'u hesgeuluso. Gymaint mwy cyfoethog bellach ar hyn o bryd yw ei Ras Arbennig na'i Ras Cyffredinol:

GWWP I, 60 *Ond eto ei ras sydd lawer fwy na mynyddau'r byd,
Y bryniau yn y lleuad, a'u pwyso oll ynghyd;
Llydanach na'r gwastadedd, can mwy na gwaith ei law
Oedd marw tros ei bobol ar ben Calfaria draw...*

66 *Fel gallai'r Duw tragwyddol i'w ddodi ei hun i ma's
Yn ei ddi-dranc ddaioni, a'i anghymharol ras,
A'i fwrdd ef gael ei llanw o'r nefoedd hyd y llawr
Gan filiwn o filiynau 'greaduriaid bob yr awr.*

Y gwreiddioldeb yn nehongliad pwysleisiol Pantycelyn o gyswllt y ddau ras, fe ymddengys i mi, yw'r pwyslais a rydd ef ar achubiaeth i'r Greadigaeth hefyd. Gwêl ef y Gwaed a dywalltodd yr Arglwydd Iesu er gwaredigaeth i bechaduriaid edifeiriol hefyd yn estyn ei fendith yn y pen draw i Ras Cyffredin, yn enwedig yng nghohiriad diwedd y Greadigaeth. Hynny yw, os deallaf yn iawn, er mwyn y saint (yn yr ystyr efengylaidd a Beiblaidd), gohirir ychydig ar dranc y greadigaeth ar gyfer pawb yn ddiwahân ... eto ychydig ennyd ... dyma ras goddefgar. Yn y diwedd, rhaid cofio bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi atgyfodi er mwyn achub — heblaw pechaduriaid crediniol — eithr hefyd yr holl greadigaeth yn ddaear newydd ac yn nefoedd newydd, yn fuddugoliaeth lawn. Bydd y ddaear ddarfodedig hon ei hun wedi ei chadw i dân.

GWWP I, 94 *Ond trwy ryw hen gyfamod a wnaethpwyd gynt â'r Tad
Yn nyfnder tragwyddoldeb i brynu dyn yn rhad,
Ar ragwelediad pechod, a'r anferth ddrwg a wnâi,
Gadewid y greadigaeth ryw ronyn i barhau.*

95 *Gwaed brynodd y greadigaeth, dyn aethai'n lân ar goll,
Ac yn y gwaed mae'n sefyll yr awron oll yn oll ...

Ni thyfai gwellt y ddaear, ni chwypai gwllith yr haf,
Ni welid pren yn deilio, nac un blodeuyn braf...*

Gras Ataliol yw.

96 *Holl drefen y greadigaeth, a'i harddwch ffeina' 'ma's,
Oll fuasai'n mynd yn ofer oni buasai Cyfamod Gras.*

97 *Ac ef yw gwraidd y cwbl, ...

Arlwyodd fwrdd i'm cynnal a'm cadw fyth yn fyw
Pan fi wedi fforffetu 'mendithion o bob rhyw.*

Hynny yw, ym mryd Pantycelyn 'y gwaredigol ras' mewn addewid oedd pen draw Gras Cyffredin hefyd. A bwriad 'gwaredigol ras' oedd adfer teyrnasiad Gras Cyffredin llawn.

Oherwydd y cyswllt hwn, nid cyferbyniad llym yw Natur a Gras, nid cyferbyniad yw Datguddiad Arbennig a'r Datguddiad Cyffredinol drwy Synnwyr o Dduw, eithr estyniad y naill i'r llall. Y cyferbyniad llym yw Pechod a Gras, Nefoedd ac Uffern (nid nefoedd a daear), Duw a'r diafol.

GWWP I, 68 (newydd fod yn sôn am yr 'eliffant dysgedig')

*Ac ni wnaeth e'r anifail distadla' yn y ma's
Heb ei neilltuol harddwch, heb ei neilltuol ras,
Heb ei neilltuol rinwedd, a doniau gan bob un
Sy gymwys a defnyddgar at angenrheidiau dyn.*

Ochr yn ochr, felly, â *Gras Cyffredin/Gras Arbennig*, wedi'u cymell gan werth, trefn a diben, priodol yw cofio holl gysylltiadau Gras megis *Gras/Deddf*, a *Parhad mewn Gras Calfinaidd* (Sancteiddhad). Mae gan bob person yn Adda undeb nid yn unig yn y Cwmp ond yn y Greadigaeth hefyd. Drwy undeb arbennig yng Nghrist, yn y Diben enillir yn ôl undeb yn Nuw, fel y gosodwyd yr undeb hwnnw yn yr Arfaeth. Er gwaethaf athroniaeth bwysig Paul/Calfin — *sensus divinitatis* (a gras yw hyn) — gwybod *am* Dduw yw hynny, ni dderbynnir crediniaeth yn Nuw drwy ddatguddiad yn unig, nid gwybod yn unig yw. Gras Arbennig, gwaith yr Ysbryd Glân yn unig sy'n gwneud Cristion, nid ei synnwyr na'i ymdrechion naturiol ei hun. Drwy Ras (Arbennig) yr ydys yn cael 'Natur' yn ei chyflawnder.

Ond wedi cael Gras o'r fath, y mae iddo gynneddf barhau. Dyna'r math o rodd yw:

GWP II, 44 *Mewn cariad, hedd, a gras di-drai,
Yn eiriol dros ei anwyl rai...*

*Blaen-ffrwyth o'r dyrfa ddaw trwy ras,
O gystudd mawr y byd i maes.*

55 *Rhyfeddai'r arfaeth sound ddi-gryn
Tragwyddol gynghor Tri yn Un,
A'm cadwodd ar y llwybr cul
Yng nghanol gwrthgiliadau fil.*

Dyfal-barhad oedd tan y diwedd. Rhagluniwyd yr holl drefn. Fe'i gwnaethpwyd drwy Gariad yn Ddeddf.

* * *

Er pwysiced y Ddeddf — onid hi a ddatguddiai Duw i gynnal ac i drefnu'r Greadigaeth? — ac er mai gras dihaeddiant, rhodd Duw, oedd y Ddeddf ei hun — eto, ceid lle darostyngedig i Ras ym mherthynas Deddf. Roedd y Ddeddf yn cyfeirio'n ôl ac ymlaen. Gras aberthol ydoedd; gras maddeuol. Soniai'r Athro Derec Llwyd Morgan am Williams a'i gymheiriaid yn pregethu 'annigonolrwydd y Ddeddf, heb athroniaeth gras yn llenwi'u llawenydd, bod pwnc Sicrwydd o bwys iddynt, ac Antinomiaeth yn anathema ganddynt'.

Felly hefyd y cyfoethogid y ddealltwriaeth o gyfundrefn Gras mewn modd a oedd yn wir, o fewn amgyffrediad y werin, yn oludog yn ddeallol ac eto ymhell uwchlaw y doeth a'r deallus ar y pryd — megis hyd heddiw.

Ni allai Pantycelyn ganmol Gras yn ddigonol. Gras yw'r Ddeddf. Ond y mae Gras yn drech na Deddfoldeb prenaidd. Drwy ras tragwyddol y sianelir Cariad Duw sydd, o fewn dimensiwn tragwyddoldeb, yn trechu hyd yn oed Deddfoldeb.

Bu'r Gras hwn yn gwbl eglur yn y Greadigaeth, ond oherwydd y Cwmp fe'i datguddiwyd mewn grym llawnach:

GWWP I, 9 *cariad, cyflawnder maith ei ras ... [g]oleuni ... A thostur a thrugaredd ... doethineb diderfyn ... ffyddlondeb difesur ...*

Gras ei hun sy'n uno ac yn cyflwyno'r triawd *gwerth/trefn/diben* yn ogystal â themâu *Theomemphus* a *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dyma gymhelliad o du Duw; Duw sy'n caru ac yn ceisio dyn, dyna sy'n cysylltu'r ddwy gyfundrefn o gyfundrefnau, y fertigol a'r llorwedd, sy'n fframwaith cynhwysfawr i *Theomemphus* a *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dwy ddelwedd fawr Pantycelyn yw'r Carwr a'r Teithiwr. Megis yn *Culhwch*, felly gan Bantycelyn, try'r Daith yn gyfres o brofiadau llorwedd y mae'n rhaid i Bantycelyn ymgodymu â hwy i'w cyflawni (gw. *Tair Rhamant Arthuraid*, 21). Ond yn y caru, yn y teithio, Gras Duw yw ei berffaith gydymaith a'r cwlwm. Ac wrth reswm, yn wahanol i *Gulhwch*, nid drwy'i ymdrechion ei hun y mae'r teithiwr yn ennill dim. Dyna eto ran o wreiddioldeb Cristnogaeth. Gras yw'r diwedd ei hun.

* * *

Mae triawd Cymhelliad (*gwerth, trefn, pwrpas*) yn amlwg allweddol i bob bywyd yng ngwaith Pantycelyn. Fe sefydlwyd pob un ohonynt yn Genesis. Dyma'r ffactorau deall ac ystyr a drôl 'groniclo' neu 'hel sbwriel ffeithiol' yn Hanes go iawn. Lle y bo hanesydd heb yr isymwybod, na'r ymwybod dethol hwn ar waith, na'r ddealltwriaeth a'r dehongliad sy'n tarddu ohono yn fyw, yna hanesydd marw ydyw. Dyma'r triawd isymwybodol yr ymosododd ôl-foderniaeth mor benderfynol isymwybodol arno ac a wnaeth o'r mudiad hwnnw yr adwaith mwyaf distrywiol a brofodd athroniaeth ieithyddol a llenyddol erioed. Crynhôdd hi bopeth a oedd yn negyddu; a hynny yn enw ffasiwn. Rhoddai 'Ddim' yn lle Deunydd. Iddi hi, fel nad oedd *Gwerth* ar y dechrau, nid oedd *Gogoniant* yn y diben. Tybiai rhywrai eu bod yn ymosod ar geidwadaeth anghreadigol traddodiad. Dim ond hwyl oedd, meddent; dim ond cydnabod negyddiaeth. Stynt efallai, fel yr *avant garde*. A dichon fod traddodiadaeth mewn golwg. Ond yr hyn a ddiodeffai oedd y fframwaith a ganiatâi greadigrwydd o gwbl.

Yr ymosodiad hwn a roddodd yn yr ugeinfed ganrif gerddoriaeth heb seiniau, arlunio heb ffurfiau, a llenyddiaeth heb ystyr. Arbrofi ‘anturus, beiddgar, heriol,’ meddai beirniadaeth glwc yr henwr; ‘newydd-deb mentrus’, meddai’r llanc dibrofiad yn druenus drachefn. Ond drwy Ras Cyffredin ac unplygrwydd llygad gwêl y plentyn nad oes gan yr Ymerawdwr ddillad. Tybid nad oedd yn mynd i unman; ond hunan-dwyll oedd hynny hefyd. Tybid ei fod yn rhoddwr eclecticig; ond lleidr oedd.

Ar ryw olwg, myfyrdod rhagflaenol cynamserol fu holl weledigaeth Pantycelyn wrth iddo fynnu’n frawychus o unplyg arddel y drefn barhaol barhaus. Mae’r hyn sy’n wir yn y pennill canlynol am y gyfraith yn wir hefyd am gelfyddyd:

GWWP I, 145 *O ran mai hi (y gyfraith) yw patrwn o burdeb Duw ei hun,
A chopi o’r grasusau nefolaidd roir i ddyn;
Pob gras, a dawn, a bendith o’r nef i’r ddaear gron
Sy’n cael ei wir reoli wrth gyfarwyddiad hon.*

A’r cysylltiad syml hwn rhwng y gyfraith a Chelfyddyd yw’r drefn sy’n seiliad i feddwl y bardd. Megis eto mewn gwyddoniaeth, ym mhob man mae yna ddeddfau:

142 *Heb flino edrych arno, ond ymddifyrru o hyd,
Sef yn y **scheme** anfeidrol o farw tros y byd;
Yn synnu, yn rhyfeddu, yn cwympto wrth ei draed
Wrth weled eu Creawdwr un waith yn gwisgo gwaed.*

165 *Ond cariad yw pob trefen, ac ysgafn yw pob iau...*

Yn y cwlwm triol hwn *Gwerth/Trefn/Diben*, yr olaf sy’n cyflyru ac yn asio’r tri, yn ddiau. Unir y gwahanol gyfundrefnau a sfferau oll yn yr ymwybod o ddiben.

GWWP I, 179 *A thyma’r sentens ola’ a gwymp ar ddynol-ryw,
Na alrir fyth ohoni tra paro nefoedd Duw;...*

180 *Fy enaid, ’n awr rhyfedda wrth weled natur dyn
Yn gwybod holl ddirgelion y Duwdod yn gytûn; ...*

Y diben hwnnw sy’n penderfynu pwrpas y dechrau, a’r holl daith yn yr arfaeth sy’n arwain yn ddeinamig o Alpha i Omega. (cf. GWWP I, 308, 303, 383).

Llawn, felly, yw pob mymryn o’r greadigaeth o ymwybod o bwrpas a gwerth ac ystyr y Creawdwr ei hun hyd y diwedd.

GWWP I, 118 *A phob creadur eilwaith o tan y nefoedd maen’
Yn dygid ei ragluniaeth anorffen yn y blaen;
Ehediaid, anifeiliaid, a physg y môr yn un,
A phryfed mân y ddaear, ond yn enwedig dyn.*

Yn hyn oll, tybiaf fod gan Bantycelyn, y bardd, uchelgais aruthr. A thybiaf fod uchelgais yn briodol i bob bardd difrif. Ni raid i uchelgais fod yn hunanfalch.

Gwedd orfodol ar lenyddiaeth yw'r cwlwm hwn felly, y gyfundrefn yr ymwybyddir â hi, ac sy'n wahanol i bob rhan arall o'r gwaith ac sy'n tynnu popeth at ei gilydd mewn ymdeimlad o 'foddhad' a 'llonyddwch', y pwynt a adeiladwyd o fewn ein *psyche* gyda swyddogaeth unol o fath. (gw. y dimensiwn seciwlar arno yn *The Sense of an Ending: Studies in the Theory of Fiction*, Frank Kermode, OUP, 1967).

Ceisiais innau o'r blaen drafod 'llenfodd' (sef y gyfundrefn o lenddull neu o *genre* sy'n trafod y dosbarthiad clasurol o *Gomedi/Trasiedi, Mawl/Dychan*) ac awgrymais fod a wnelo ef ag ansawdd o fewn cyfundrefn ddeuol. Hynny yw, diffinnir y naill safbwynt gan symudiad mewn amser oddi wrth sefyllfa uchel i sefyllfa isel, a'r llall o sefyllfa isel i'r sefyllfa uchel: hynny yw, fe'i diffinnir yn ôl perthynas ansoddol dechrau a diwedd.

Saf yn ddisyfl o hyd wrth y dadansoddiad o lenddull yn ôl *gofod/amser* a roddais yn *Seiliau Beirniadaeth* 4, 429-454, ac wrth y ddelwedd o amser esgynnol a disgynnol. Ond y mae pwyslais pellach yr wyf yn ei ychwanegu yn y fan hon yn awr ynghylch y 'diwedd'. Mewn theori lenyddol, trafodir yn fynych y modd a'r maint y mae ystyr naratif yn cael ei diffinio gan ei diweddbwynt. Fy awgrym yn y bennod bresennol yw bod dimensiwn 'Cymhelliad' yn ffurfiol bwysig ynddo o ran deinameg a chyfeiriad. Ac ni ellir ei anwybyddu wrth drafod natur ac arwyddocâd mewnlol diben a diwedd llenyddwaith. (gw. ar hyn D. A. Miller, *Narrative and its Discontents: Problems of Closure in the Traditional Novel*, Princeton, 1981; Barbara Hodgdon, *The End Crowns All: Closure and Contradiction in Shakespeare's History*, Princeton, 1991; Francis M. Dunn and Don Fowler (eds) *Classical Closure: Reading the End in Greek and Latin Literature*, Princeton, 1997; Hilary Lawson, *Closure: A Story of Everything*, London, 2001).

Un nodwedd baradocsaid o ogoneddus yn yr Efengyl Gristnogol ei hun, yw bod y *diwedd* arbennig hwn, a gynigir gan Dragwyddoldeb, yn hanfodol *ddiddiwedd* ac yn ddechrau. Ac yno, mae *Mwynhad/Gogoneddu* (sef Goddrych/Gwrthrych) yn dod yn gyfundrefn unol ym myd ansawdd.

Yn y gyfrol hon hyd yn hyn ceisiwyd bwrw golwg dros faterion diffiniau a chynieithyddol fel yr Absoliwt, yr Arfaeth, a'r Archgyfundrefnau Deall. Hynny yw, dyna'r amodi sy'n adeiladu ac yn toi natur y Deunydd i lenor. Ceisir yn y gweddill o'r gyfrol amlinellu adeiladwaith y Deunydd hwnnw ei hun ar waith: ei Sfferau, ei Themâu, ei Fotiffau, a'i Droadau. Yr ydym ar lefel newydd. Ond yr hyn a honnir yng nghyflawnder y gyfrol yw bod yr union amodau hyn, sydd ar gael o ran Ffurfiant yng ngwaith Pantycelyn, hefyd ar gerdded ym mhob gwaith llenyddol. Newidia'u cynnwys o waith i waith bid siŵr. Dewisir materion ar gyfer Mynegiant: dewisir Sffêr Deunydd, dewisir Themâu. Ond y mae'r lefel

gyflyrol hon yn arwyddocaol ddiddeu yn yr un safle i bob gwaith. Ac yn achos Pantycelyn, dadlennir fel y mae'r Archgyfundrefnau oll yn gadael eu hól ar y dewis o Ddeunyddiau, ar y Themâu, y Motiffau a'r Troadau. Yr amodwyr yw'r Archgyfundrefnau.

Y darganfyddiad rhyfedd a wneuthum yn annisgwyl (i mi fy hun) wrth archwilio priodoleddau'r Gyfundrefneg Ddeall (sef yr Archgyfundrefnau mewn iaith a llên) oedd bod pob un o'r rhai arwyddocaol yn destun diwinyddol, ie, yn thema ffydd i Bantycelyn. O ran cyfundrefneg ei hun, dyma nodweddion dadansoddol deinameg cyfundrefneg. Ond o ran diwinyddiaeth, dyma'r themâu canolog yn ei sylweddoliad o ystyr ddwyfol. O ran cynllun, sef y strwythur ei hun, ac wrth ganu'r cynllun Cyffredinol, canai'r cynllun Arbennig.

Felly, dyna'r un ar ddeg o offer dadansoddi a chyfansoddi sydd gan Dduw, a chan feddwl yr un ar Ei ddelw Ef, ar gyfer creu cyfundrefnau yn gyffredinol. Dyna'r Archgyfundrefnau a ddefnyddiwyd yn gwllwm ynghyd, yn ymwybodol neu'n isymwybodol gan Bantycelyn oherwydd eu dirnad hwy yn y Greadigaeth ac yn y Beibl. Bu'n fodd iddo ef (ac i lenorion eraill) ddiffinio natur Ffydd a Deunydd, boed yn Sfferau, yn Themâu, neu'n Fotiffau. Tarddent yn yr Absoliwt, ac fe'u defnyddir hwy bellach ynghyd yng ngwaith diwyllio'r Greadigaeth.

Yn ogystal â bod yn Gyfundrefnau, y mae'r Archgyfundrefnau hyn yng ngwaith Pantycelyn, yn themâu ynddynt hwy a nodir ac a ddisgrifir. Er na bydd llenorion eraill (yn enwedig rhai seciwlar) ddim yn gwneud yr un fath, y mae'r themâu hyn er ein gwaethaf ar gael ym mhob un o'r Sfferau dynol yng nghefn pob meddwl yn isymwybodol.

Ond wrth ddosbarthu lefelau megis Archgyfundrefnau, Sfferau, Themâu ac yn y blaen, ceisio yr ydys mewn llenyddiaeth ddangos seiliau meddwl a'r undodau sy'n gwthio'r meddwl llenyddol bob amser i fod yn gyfanwaith. Dyma'r Undodau arwyddocaol, felly, yn dirwyn tua Diben ym mywyd dyn:

1. *Archgyfundrefneg*: Mae hyn ar gyfer pawb, o bob cyfnod a lle. Bydd llenor yn trefnu bywyd yn undod drwy ymdrin â'r Archgyfundrefn angenrheidiol yn themâu, Ffurfiâu Thematig.
2. *Sfferau*: Dyma arolwg o gyfanswm unol y Defnyddiau ar gyfer pawb, wedi'u dadansoddi yn ôl eu cyfraniad i fywyd. Dyma'r Deunyddiau Thematig.
3. *Metanaratif*: Dyma gyd-berthynas ymbarél Archgyfundrefneg o Sfferau Dynol, megis Crefydd, Gwleidyddiaeth, Moeseg, Estheteg, o fewn undod Ideoleg yn cael ei mynegi. Dyma fath o gyd-destun moddol, boed mor isymwybodol ag y bo, sy'n cyflyru pawb.

4. *Themateg*: Dyma'r rhediadau ystyrol, neu'r undodau delweddol ar waith o fewn gweithiau llenyddol, amser a lle.

5. *Y Llenor*: Hwn/hon sy'n darparu undod thematig rhwng gweithiau llenyddol gwahanol gan yr un awdur. Mae astudiaeth o waith unedig llenor (cyfnod, lle, y dosbarth o bobl) unigol yn perthyn i faes Mynegiant beirniadaeth (megis yn y gyfrol hon) tra bo'r cofiant traddodiadol yn perthyn i Hanes. Ond gweithio a wna o fewn yr un hierarci fynegiannol hon.

Mae'r holl undod yn y weithred lenyddol a'r undod sydd mewn Arfaeth ddiwinyddol yn dod i gwlwm mewn hierarci orffenedig.

B. DEUNYDDIO'R ARFAETH

1. Patrwm Cyflawn Ffurio'r Deunyddiau	376
2. Y Sffêr Ddeunyddiol Gyntaf: <i>Ffydd</i>	414
3. Pedair Sffêr Ddeunyddiol Arall: <i>Seicoleg; Moeseg; Estheteg; Cymdeithaseg</i> 441, 444, 448, 456, 465	
4. Y Sffêr Ddeunyddiol Olaf: <i>Mwynhad</i>	472
5. Metanaratif	492
6. Cyfundrefnau Thematig	513
7. Enghreifftio Themâu Cyfundrefnol	545
8. Thema a motiff	570
(i) <i>Delwedd</i>	571
(ii) <i>Arwyddedig</i>	596
(iii) <i>Motiff</i> [Arwyddedig (ii)]	610
9. Hierarci'r Weithred Lenyddol	644

I. PATRWM CYFLAWN FFURFIO'R DEUNYDD

Cyn y Creu, y Cynllun. Cyn y Deunydd, y Drefn. Wedi arolygu'r offer dadansoddi Deunydd yn y penodau blaenorol, sef yr Archgyfundrefnau, gallwn yn awr ystyried calon y gyfrol hon. Beth yw Deunydd y Llenor ynddo'i hun?

Dyna'r bydysawd i gyd a ddetholir neu a ddadansoddir ac a ddarlunnir ganddo i fod yn gynnwys meddyliol i'w gelfyddyd, ynghyd â'r Absoliwt/absoliwt. Dyna'r ddiriaeth a'r haniaeth y mae ef/hi'n sôn amdanynt. Dyna'r hyn a drefnir gan ei Ffurf. Dyna bob sylwedd y mae'n ei gymryd yn bwnc i'w waith: ei deimladau, ei syniadau, a'i ddelweddau. Fe'u mynegir drwy beidio â bod yn gaos.

Beth yw'r drefn ar y fath amgylchfyd a chyfanfyd amorffaidd?

Mae yna lawer o ffyrdd gwahanol o drafod y fath rychwant — megis yn ieithyddol, yn llenyddol, yn ddiwinyddol, ac yn wyddonol (neu'n ôl ffuglen wyddonol) a.y.b. Er mai canolbwyntio a wnafr ar y llenyddol, yr wyf am ddefnyddio hefyd wyddorau ieithyddiaeth a diwinyddiaeth. Yn y bôn, y mae a wnelom â phob Sffêr.

Os cydnabyddwn fod a wnelo llenyddiaeth â phob deunydd, rhaid inni gydnabod, er mwyn gwneud hyn yn drafodadwy, fod dosbarthu neu wahuno meysydd ym myd ystyr yn angenrheidiol. Dyma'r lle y mae rhywbeth tebyg i Sfferau Deunydd neu Sfferau Moddol Dooyeweerd yn angenrheidiol. Yn y fath Greadigaeth amrywiol, un o'r nodweddion oedd cadw trefn drwy ddadansoddiad o'r fath. Beth bynnag am ateb manwl Dooyeweerd, a'r angen neu beidio i'w adolygu, ni ellir gwadu nad yw'n ymwneud â realiti dosbarthu bywyd arloesol. Yr hyn sy'n digwydd yn gyntaf yn ein dealltwriaeth wyneb yn wyneb ag amllder a lled y rychwant enfawr o Ddeunydd yw ei rannu, ei ddosbarthu, a'i ddadansoddi, gan sylwi ar y coed unigol yn y goedwig. Ac yna ar y goedwig, neu'r coedwigoedd, yn gyfan. Yr arbennig a'r cyffredinol. Y golwg ar Ddeunydd mewn gofod.

Ond yn y bennod hon symudwn ymlaen hefyd o'r Deunydd crai i'r Thema; o ofod i Amser; ac o'r Enw i'r ferf. Dyma hefyd y fwyaf di-Bantycelyn o'r penodau.

Dyma mae'n debyg y bennod fwyaf technegol yn y gyfrol. Cyn lawnsio i'r drafodaeth enghreifftiol o feysydd deunyddiol penodol, ceisir mapio sut y mae delwedd neu syniad neu argraff yn ymfurfio yn y cyffredinedd ac yn troi'n air (Enw); ac yna, sut y mae geiriau unigol yn ymuno â'i gilydd i ffurfio themâu (Berf).

Gobeithiaf imi lwyddo i argyhoeddi'r darllenydd eisoes fod yr hyn a elwais yn Archgyfundrefnau Deall yn adlewyrchu priodoleddau'r '*gyfundrefn*' fel y cyfryw bob amser. Hwy yn awr yw offer dadansoddi bod a bywyd, gofod ac amser. Yr hyn sy'n ddiddorol o

safbwynt Pantycelyn yw ei fod wedi troi'r Archgyfundrefnau hyn yn bwnc thematig iddo'i hun, yn ddeunydd myfyrdod. Anochel oedd iddo'u defnyddio fel Archgyfundrefnau ffurfiol i weithredu'i ddeall ei hun wrth iddo fyfyrion am wirionedd y Ffydd, y gwir y gallai ddibynnu arno ym mhob Sffêr. Ond wrth iddo wneud hynny fe'u troes hwy, drwy ddadansoddi'n Sfferau deunyddiol llenyddol yn gychwynnol ac yn benodol yn Sffêr Diwinyddiaeth o fewn barddoniaeth. Yr hyn a wnaeth oedd sylweddoli o fewn y Sfferau hyn, yn ogystal â bod yna nodweddion cyfundrefn i'w sylwedd, ceir themâu ystyrol ynddynt hefyd, sef pynciau crwn yn wir ar waith i sgrifennu amdanynt, o arwyddocâd dwfn o fewn Ffydd ei hun. Gan eu bod yn briodoleddau i Dduw, ac yn darparu adeiladwaith Deall, yr oeddent hefyd yn sylfaenol i'w ddealltwriaeth ef ei hun o'i berthynas â Christ. Mae 'themâu' yn golygu Deunyddiau o fath arbennig (y Sfferau) wedi'u dosbarthu ac ar waith mewn modd arbennig.

Er bod cyfundrefnau ym mhob man ac ym mhob peth, y mae mwy o lawer o sylwedd mewn Deunydd nag sydd mewn cyfundrefn. Mae yna ddiriaethau eang ac amlochrog potensial. Mae Duw, er ei fod yn defnyddio cyfundrefnau wrth siarad â ni (wrth siarad â mi) yn siarad am fwy o lawer na chyfundrefnau ac am fwy o lawer na'r wedd gyfundrefnol ar bopeth. Ac felly hefyd mewn llenyddiaeth hithau. Fel yr ydym yn edrych drwy Oleuni (heb sylwi arno) i weld y gwrthrychau, gan gymryd y Goleuni'n ganiataol, felly yr edrychwn drwy gyfundrefnau i weld mawr Ogoniant Duw. Er mwyn Mynegi (pwrpas llefaru), gan ddefnyddio Tafod (cyfundrefn ieithyddol y meddwl) heb fynd yn ymwybodol o hynny, felly y defnyddiwn gyfundrefnau sydd eisoes mewn rhywbeth i weld yn benodol y peth ei hun. A rhan yn unig yw o hyd, drwy wydr tywyll; a'n gallu ni bob amser yn gyfyngedig. Siaradwn â'n gilydd am Dduw ar y lefel yna. Ac felly yr ymgymhwysa Duw yntau wrth lefaru'n ddigonol o fewn ein dealltwriaeth a'n sythwelediad, nid yn unig amdano'i hun, eithr am ryfeddod y Greadigaeth hithau.

Yn y Creu y gweithredodd nid yn unig Ffurf Hanes, eithr Ddeunydd Hanes hefyd. Diriaethodd Amser. Troes ei Dafod ei hun yn Fynegiant.

Bellach, wedi ymdroi o raid gydag offer deall, sef y ffurfiau a ddefnyddiai ef wrth drefnu Deunydd, daeth yn bryd inni droi'n benodol at Themateg ddeunyddiol Pantycelyn. Dyma, mewn gwirionedd, brif faes arferol *Diwinyddiaeth*: Themateg. Dyma hefyd un o ddau brif faes *Llenyddiaeth*. Ac y mae'n dechrau yn y Deunyddiau parod. Mewn Deunydd y mae'r ferf yn creu Thema.


Sylwn ar gyfres o symudiadau meddyliol. Ynghynt, o'r Cynllun i'r Deunydd: y Creu. Bellach o'r Deunydd gofodol trefnedig a dosbarthedig i'r Ystyron amserol ar y deunydd mewn cydlyniad ffurfiol: yr Arfaeth ar waith.

Ond y mae hyn yn gofyn i mi ymwneud â phedair ffenomen y mae'n rhaid i mi eu diffinio'n glir. Mae'r rhain yn ymwneud hefyd â phroses lenyddol sy'n ganolog i'r holl arolwg o Ddeunydd mewn theori lenyddol. Sef Sffêr ystyrol (y maes), Semantem (yr uned leiaf o ystyr), Themem (yr elfen leiaf o Thema, potensial ar gyfer cydlyniad), a Thema (disgrifiad o fywyd neu ddeinameg y Sffêr mewn uned aeddfed).

Ceisio olrhain proses lenyddol anochel yr wyf ym maes Ffurf a Deunydd gyda'i gilydd. Gadewch i mi amlinellu'n fras brif amgylchfyd strwythurol Themateg. Mae a wnelo hyn â dau symudiad ystyrol. Proses ddeublyg feddyliol yw, gyda'r naill ochr yn symud yn ddadansoddol o'r Cyffredinol tua'r Arbennig (tan gulhau), a'r ail symudiad yn adeileddol o'r Arbennig tua Chyffredinol arall ond gwahanol (tan ehangu). Cyflwynaf ddiagram disgrifiol i'r gyfundrefn, cyn ei egluro'n fanwl.

Disgrifiad yw'r diagram dwyochrog hwn o brif Gyfundrefn Deunydd llenyddol. Fe'i llunnir yn gyntaf (fel pob cyfundrefn) ag offer deall, sef ag offer llunio cyfundrefnau, yr Archgyfundrefnau Deunydd. Fe'i llunnir yn ail yn benodol, yn gyfundrefn unigol ei hun drwy symudiad meddyliol deuol. Fel cyfundrefn, proses ddeuol yw o wahuno: yn gychwynnol, drwy wahanu'r Bydysawd cyffredinol ystyrol yn Sfferau deunyddiol (yn feysydd pynciol), ac yn ddiwedddol, drwy uno o'r newydd yr adeiladwaith meddyliol ym mhob un o'r Sfferau, neu adeiladu'r uned arbennig leiaf o ystyr â'i chymheiriaid i fod yn atebol i drafod bywyd fel Bydysawd cyffredinol dadansoddedig. O'r dadansoddi i'r cyfansoddi.

Yn y symudiad cyntaf (gwahanu), rhaid oedd i'r Deall (yn y plentyn, yn sefydliadol) ymaflyd yn y Cyffredinol bras, yr argraffiadaeth ddiffiniau yn y profiad cyflawn cymysg o Ddeunydd, a dechrau gwahanu neu ddadansoddi'r amgylchfyd. Gwneir hynny drwy ddsbarthu a chategoreiddio a chanfod fwyfwy benodolrwydd gwahân, tan symud tuag at yr uned ystyrol leiaf. Ac o'r fan yna, symuda ymlaen at gydweithrediad a chyfannu.




Cyferbynnir y ddwy — Sffêr â Thema. Mae a wnelo'r Sffêr â'r dosbarthiad o ystyr 'mewn bodolaeth'. Mae a wnelo'r Thema â'r dosbarthiad o ystyr 'mewn gweithrediad'. Y naill mewn gofod a'r llall mewn amser, y cyntaf yn enwol a'r ail yn ferfol. Symudant tuag at gyfanrwydd y thema yn y Bydysawd, ond oherwydd y symudiad gwahanu cyntaf, pan eir ati i ganfod y Cyffredinol newydd, y mae i'r rhannau mwyach arwyddocâd cyfannol a chyffredinol wedi'u gweddnewid a'u hamodi gan gyflawnder y Thema.

Adeiledir Thema fel brawddeg ar waith. Dyma'r Rhannau Ymadrodd Thematig yn dair elfen: 1. Yr Arwr neu'r Cymeriad (Enw), 2. Y Digwyddiad neu'r Weithred (Berf), 3. Yr Amgylchfyd, y Modd, neu'r Gwrthrych i'r Weithred (Adferf). Mae'r tair yn ffurfio uned weithredol yr ymadrodd thematig o fewn fframwaith dibynnu 1,2,3.

Dadansoddiad newydd ar Ystyr y Deall yw hyn mewn safleoedd sydd ar ryw olwg yn annibynnol ar Iaith, yn rhagflaenu Iaith, ac yn ffurfio'r hyn a alwaf yn Gyn-dafod ynghyd â Thafod. Cyfundrefn deall yw sy'n bennaf (mae'n wir) yn sylfaen i ffurfio Iaith ei hun; ond am mai cyfundrefn *ddeall* yw, y mae'n hanfodol bwysig i sylwi ar ei hunanlywodraeth, ac y gellir ei defnyddio i drafod pob ystyr a holl brofiadau bywyd *cyn* iaith, ac o hyd *ar ôl* datblygu iaith i wahanu rhwng delweddau o bob Sffêr: megis yn ymarferol bob dydd, mewn Diwinyddiaeth (wrth drafod materion a all fod y tu hwnt i iaith i raddau).

Nid wyf am ddrysu'r darllynydd gyda gormod o gysyniadau newydd yr un pryd. Ond credaf mai modd i fod yn fwy diffiniol yn yr esboniad hwn, ac i egluro'r Gyfundrefn Ddeall (sy'n newydd) yn fwy penodol, fyddai drwy'i chyferbynnu ag esboniad (sy'n hen) o'r Gair mewn iaith. Mae'r tebygrwydd yn arwyddocâol, a'r gwahaniaeth yn arwyddocâol.

Dyma yn awr y disgrifiad diagramatig sefydliadol mewn Seico-gyfundrefneg o luniad y 'gair' mewn iaith:



gw. *Language in the Mind*, W. Hirtle, 2007, 137

Yn y symudiad cyntaf, ceisir yr uned leiaf o ystyr ddeunyddiol yn y gair (y semantem): yn yr ail symudiad, ceisir ystyr ffurfiol neu ramadegol i'r gair a gyrraidd aeddfedrwydd — mewn gair cyflawn sy'n rhan ymadrodd traethiadol.

Dylid esbonio mai un lecsem ganolog sydd mewn gair (oni bai'n air mwys fel ysgol, law, cyngor), ond bob amser ceir llawer o semantemau. Y semantem flaenaf neu arweiniol yw'r un sy'n ddiffiniad i'r Sffêr; a cheisir ymhelaethu ar arwyddocâd y gwahaniaeth hwn trwy drafod adeiladwaith y trosiad ymhellach ymlaen.

Mae trafod Deunydd, yn feddyliol, yn golygu yn gyntaf ddarostwng tryblith, amllder, ac ehangder yr effeithiau a wna'r amgylchfyd ar y synhwyrâu ifainc. Profir y tryblith hwn yn gynnar feddyliol gan y plentyn o'r tu mewn i amgylchfyd penodol a symuda'i sylw yn ddadansoddol tuag at ddeunydd mwy penodol. Mae'r gwrthrych unigol hwnnw bob amser y tu mewn i gyd-destun. Rhwng profiad cyfan cynnar o'r bydysawd gweladwy (ar un pen) a'r pwynt deunyddiol lleiaf ar y pen arall, saif y sefyllfa. Proses o wahuno (gwahanu + uno) yw deall o fewn profiad cyffredinol o'r fath. Sôn am symudiad anochel ym meddwl y plentyn yr ydys.

Un wedd ar y gwahanu hwn yw categoreiddio. Ymhlith y gwahaniaethau gwelir gwrthrychau tebyg i'w gilydd. Un o'r ffenomenau sy'n uno pethau'n grŵp efallai yw'r symudol (y byw) neu'r ansymudol (y marw): y bobl a'r pethau. Ceir dosbarthiadau eraill megis sŵn/distawrwydd, golau/tywyll. Ceir nodweddion eglur syml sy'n dosbarthu bywyd yn ôl siâp ac ymarweddiad cyffredinol. Meithrinir adnabyddiaeth felly drwy glymu priodoleddau wrth ei gilydd a'u hailadrodd: dyna yw effaith dosbarthu. Dechreua'r fath weithgaredd ym more oes.

Ceir hefyd ffwythiannau a sefyllfaoedd yn olynol sy'n cynnwys amryfal weithredoedd (a phobl weithiau): megis yn gynnar — deffro a gwisgo, brecwast, ymarfer â'r toiled, chwarae hyn a'r llall, cymdeithasu, mynd am dro, darganfod byd y siôp, byd y stryd, byd y traeth, byd y parc, pobl arwyddocaol ailadroddol, mynd i'r gwely. Ffwythiannau a sefyllfaoedd amryfal amrywiol olynol. Hynny yw, adeiledir math o sffêr profiad amlochrog mewn lle ac amser: bywyd cyffredin a naturiol pob dydd, y Sffêr ddomestig. Ac wrth wneud hynny, meithrinir math o ddeall a ffordd o ddadansoddi. Maes o law, yn ddiarwybod yn ddiau, yn ddigon isymwybodol, enillir holl baraffernalia elfennol y cyfuniad *gofod/amser*.

Sylwn fod yr holl ddosbarthiad hwn o sefyllfaoedd a ffwythiannau eisoes yn bod yn allieithyddol o safbwynt y plentyn; yn gynnar, er yn 'lled' ieithyddol — yn *ddryll* o iaith sy'n gweithredu fel 'iaith' ar y pryd. Y mae'r ystyr yno'n drefnus i raddau yn barod yn

gynieithyddol: yr arwyddedig ar gyfer yr arwydd. Ac felly, ar sail y categorieiddio gwrthrychol hwn yn yr amgylchfyd, fe lwydda'r plentyn fwyfwy i ddsbarthu bywyd.

Perthyn profiad yr oedolyn yntau wedyn ymhellach ymlaen i'r un gyfundrefn sy'n trafod deunydd. Symuda ef, drwy ehangu diddordebau i Sfferau newydd ac i weithgareddau gwahanol a datblygedig. Ac er bod y naid yn fawr rhwng y categorieiddio ifanc mewn bywyd pob dydd a'r dosbarthu soffistigedig ac aeddfed ar Sfferau Deddfog Ystyr yn y byd modern, yr un cymhelliad a'r un fethodoleg ac offer a arferir: gweld gwahaniaeth/gweld tebyg. Graddol yw'r ymledu dosbarthol. Ond hynny sy'n esgor, o fewn gofodau meddyliol pendant, ar y meysydd bras deunyddiol sy'n cydailleadu bodolaeth bersonol a chymdeithasol, ddeallol ac emosiynol ein cymdeithas heddiw.

Wedyn, o'r tu mewn i'r Sfferau Deddfog Ystyr eu hunain yn y byd modern, yr un cymhelliad a'r un fethodoleg a arferir drachefn: gweld gwahaniaeth/gweld tebyg. Graddol yw'r ymledu dosbarthol o Sffêr i Sffêr. Ond hynny sy'n esgor, o fewn gofodau meddyliol pendant, ar y meysydd bras deunyddiol sy'n cydailleadu bodolaeth bersonol a chymdeithasol, ddeallol ac emosiynol ein cymdeithas heddiw.

O'r tu mewn i'r Sfferau gwahanol mawr, sefydlir gweithgareddau cynddelwaidd mawrion yn ogystal â gweithgareddau mân a mynych. Nid llonydd yw Sffêr. Y mae'n botensial llawn o symudiadau corfforol a meddyliol. Y rhain o fewn gofod syniadol amgylchfyd y Sfferau sy'n darparu themâu cynddelwaidd a themâu arbennig a lleol o fewn amser. Dyma ni ar y lefel Thema o fewn yr hierarci ddeunyddiol.

Mae pob dadansoddi ystyrol ar waith ac mewn iaith yn mynd i olygu dosbarthu a chategorieiddio bod a gwneud drwy arbenigoli a chyffredinol. Ac mewn llenyddiaeth, Sfferau (Ystyr) a Themâu yw'r ddau ddsbarth cyffredinol mwyaf arwyddocaol neu'r ddau offeryn potensial penodol ar gyfer y gwaith semantaidd hwn mewn Tafod. Arweiniant at y Motiff ar ffurf brawddeg mewn Mynegiant.

* * *

Yn ei ddadansoddiad o iaith, gosododd Guillaume ddau gyfyngiad arno'i hun. Yn y ddeuliaeth esgorol Deunydd (Ideogenesis) a Ffurf (Morffogenesis), fe ymgyfyngodd ef ysywaeth i'r ail, fwy neu lai i ramadeg. Ac yn y ddeuliaeth Tafod/Mynegiant drachefn, er iddo ddefnyddio Mynegiant i archwilio trefn isymwybodol Tafod, ni cheisiodd roi blaenoriaeth i chwilio natur na chyfundrefneg fwy ymwybodol Mynegiant.

Deunydd a Mynegiant yw'r union ddau faes a anwybyddodd Guillaume i raddau. Yr un pryd, dysgais innau fy holl fethodoleg o Ddadansoddi (wedi'r Ieitheg Gymharol), yn

anuniongyrchol, gan Guillaume. Tybiwn cyn hynny fod pawb yn trafod Mynegiant, ac wedyn mai Tafod oedd y diriogaeth ddraeniog wryfol anamlwg.

Bellach, wrth archwilio Deunydd, mae'n ofynnol inni ddsrannu a sylweddoli'n benodol beth oedd adeiledd a chyfundrefn Ideogenesis (esgor ar syniadaeth), ac ym mha ffyrdd y gellid sylweddoli'n llawnach natur trefn Mynegiant. A'r ddau faes mwy penodol lle y byddaf yn ymdroi'n awr yn hynny o ddadansoddiad fydd Themagenesis (sef cynhyrchu themâu) a Semantoleg (sef cynhyrchu ystyron). Felly y cawn ystyried hefyd Dafod a Chynfyneiant (y trothwy rhwng Tafod a Mynegiant), ac yn ogystal drefn Defnydd Mynegiant.

Pam defnyddio'r term 'Cyn-fyneiant'?

Yr wyf i'n cyfyngu'r term 'Tafod', fel y cofir, i gyfundrefnau isymwybodol strwythurol mewn iaith, gan gynnwys y 'gair' ei hun fel ffurf — yn lecsem neu'n arwyddiant o fewn Tafod. Tafod yw'r strwythur (i'r gair a'i ramadeg) a adeiledir yn y meddwl ar gyfer Mynegiant. Ond nid cyfundrefn yw'r 'Eirfa' ei hun, ond rhestr, rhan o gyfundrefn y Sffêr Iaith a adeiledir yn y cof ar gyfer Mynegiant. Mae'n storfa lac yn y cof ac ar gael cyn Mynegiant, yn ffactor hynod bwysig mewn iaith ymarferol. Nid yw'n rhan gyfrannol o'r Gramadeg arferol. Gellir ychwanegu ati'n ymwybodol. Gall maint a siâp yr Eirfa amrywio gryn dipyn o berson i berson yn yr un iaith yn ôl addysg a swydd.

Ond nid Tafod arferol mohoni. Fel arfer, y mae'r Tafod yn gymharol sefydlog a chynnil ac yn bur debyg rhwng y naill siaradwr aeddfed a'r llall. Mae'n amlwg fod Geirfa mewn cyflwr mwy helaeth ymwybodol na Thafod, ac yn faes sylweddol iawn o ran cynnwys. Gellid ei bathu'n fwriadus mewn iaith. I rai pobl, 'geiriau' yn unig yw iaith, a dim mwy. Felly, cedwir Geirfa yn gyntaf mewn Cyn-fyneiant. Ymddengys fod yr Eirfa at ei gilydd — heblaw'r stoc 'domestig' a thrawsdraethiadol, — yn cael ei storio yn y meddwl, at ei gilydd, nid yn ôl trefn yr wyddor fel Geiriadur, ond i raddau yn ôl pob tebyg yn unol ddsbarthiedig ag arbenigrwydd mewn gwyddorau / celfyddydau / ffwythiannau / sfferau.

Ochr yn ochr â hynny — hynny yw, heb fod mewn Tafod — gosodwn unrhyw gyfundrefnau ieithyddol neu lenyddol eraill a lunnir yn fwriadus, megis ffurfiau mesurol fel y Soned yn yr un categori o Gyn-fyneiant. Pethau a wnaethpwyd yn fwriadus ydynt ac eto nid Tafod 'pur'.

Ac yn drydydd, fe gynhwyswn mewn Cyn-fyneiant yr hyn a alwaf yn Fetanaratif, sef rhagdybiau egwyddorol neu chwit-chwat y gymuned sydd yn all-ieithyddol, ond sydd yn gallu effeithio ar iaith ac ar rai o'i chyfundrefnau, megis Metanaratif o fath Ôl-foderniaeth sy'n gallu difrio bodolaeth trefn a synnwyr a phwrpas. Cyfundrefn agweddol yw.

Brawd yw 'Cyn-fynegiant' yn ei gyflwr gweddol ddiweddar ym mhroses iaith, sef yn bennaf y Storfa o Eirfa yn y cof, i 'Gyn-dafod', yn ei gyflwr gweddol gynnar. Cyn-dafod megis Arch-gyfundrefneg yw'r lle y cesglir yn bennaf y cyfundrefnau deall a'r storfa o ddelweddau a wahunir.

Yr hyn yr wyf yn ceisio'i wneud, ar sail deall Gustave Guillaume, yw ceisio cymhwyso rhai o'i egwyddorion, wrth ymdrin ag iaith, at (1) Gyfundrefnau Deall, (2) Dosbarthu Deunydd Llenyddol.

Weithiau, soniwn am Ragdyb fel anghenraid yn ansawdd y meddwl dynol.

Yn nadansoddiad Deunydd Llenyddol, y mae hyn yn golygu pedair ffenomen: *Absoliwt*, (a'i waith) sef *Arfaeth*, *Defnyddiau Sfferol*, a'r *Archgyfundrefnau*. Gwaith neu Rym Duw yw'r rhain oll. Mae'r olaf yn golygu'r sythweliadau gorfodol, trefnol a rydd Duw i ddyn ar sail yr Arfaeth er mwyn dadansoddi a thrafod bywyd. Gras Cyffredinol ydynt oll a roddir i bawb yn ddiwahân o ran presenoldeb yn adeiladwaith y meddwl.

Ar ôl lefel Archgyfundrefnau, fe geir dewis, gwahanaiaethu o ran ewyllys a chwaeth, ac amrywiaeth doniau a galluoedd ac amgylchfyd gofod ac amser. Mewn Mynegiant.

Dewis un neu fwy o ddefnyddiau sfferol i'w defnyddio. Mae lefel y Thema yn awr yn sefydliad strwythurol; ond mae'r Thema unigol yn ddewisol ac yn wedd ar Fynegiant y llenor arbennig. A gallai'r geiriau digyfnewid/lled ddigyfnewid/cyfnewidiol ddiffinio'r hyn sydd ar waith yn y groesfan hon. Mae'r elfen ddynol yn ymyrryd: y stori ddaaeael. Erys yr elfen ddigyfnewid o fewn y greadigol yn y lefelau eu hunain a'r berthynas hierarcaidd: *Thema Sfferol*, *Metanaratif*, *Motiff*. Ond o fewn pob un ohonynt, mae yna amllder diderfyn o bosibiliadau.

Gan eu bod ar groesfan ffurfiol allweddol, rhaid yw rhoi mwy o sylw nag y dymunwn i'r sefyllfa gyffredinol, a llai o enghreifftiau.

Ar sail y patrwm sydd gan Gustave Guillaume o ddisgrifio genesis geiriau gramadegol (Ideogenesis / Morffogenesis), sef y rhannau ymadrodd, yr wyf innau'n awgrymu, mewn diagram, broses lle y ceir tyndra deuol mewn deunydd llenyddol o safbwynt deall. Cynhyrchir yr Arbennig yn y symudiad ieithyddol gyntaf yno. Galwn hyn yn Lecsigogenesis ym maes iaith. Dyma'r llwybr rhwng y Cyffredinol (Deunydd syniadol y Bydysawd) a'r Arbennig (y Lecsem: sef y wedd syniadol a seiniol ar air unigol). Proses o arbenigoli, penodoli, cyfyngu'n ddelweddol, gwahanu yw hyn. Mae'r broses mewn Deall yn hynod debyg i'r broses mewn Iaith. Cychwynnir yn yr ymwybod o synwriadau a syniadau cyffredinol. Symudir yn feddyliol drwy gategoreiddio Sfferau tuag at unigoli. Ymwneir ag

ystyr yn gyntaf fel pe bai'n 'beth': yr uned leiaf mewn cysyniad o ddeunydd geiriol. Aethpwyd felly o'r cyfan i'r rhan.

Un o gamre mawr sylweddoli Deunydd yn y wedd hon ar y gyfundrefn, yw categoreiddio'n Sfferau.

Dyma'r cam cyntaf yn y broses o Ddeall. Y mae a wnelo'r ail gam â symud tuag at Thema. Dyma broses gyffredinol drachefn lle y bydd Cyffredinol A₂ yn wahanol i A₁. Sylwir ar egwyddorion diffiniol a hanfodion amrywiol y lecsem mewn Iaith (y Semantem mewn Deall) mewn undod newydd: y thema, lle y ceir Rhannau Ymadrodd Thematig. Hynny yw (1) arwr + bod / (2) gweithred + (3) amgylchfyd moddol. Bydd y rhain ar gael ar gyfer ffurfio'r Motiff mewn Mynegiant.

Cyfetyb y Rhannau Ymadrodd Thematig mewn llenyddiaeth i'r Rhannau Ymadrodd Traethiadol mewn iaith (1. Enw; 2. Berf, Ansoddair; 3. Adferf). Y rheini sy'n darparu fframwaith y frawddeg. Cyfetyb brawddeg iaith i'r motiff llenyddol felly.

Mewn symudiad penodol ym meddwl y plentyn, y mae'r lecsem yn cael ei mynegi'n gynnar gan y plentyn yn debyg i ebychair fel 'brawddeg un elfen' yn ei 'iaith' gyntefig. e.e. 'Ma's!' "Dŵr!". Mae'n meddu ar hunan-ddibyniaeth boed yn ferfenw neu'n ansoddair potensial. Nid yw'r plentyn eto wedi sylweddoli'r potensial frawddegol sydd yn y lecsem. Ar y pryd, y mae'r synhwyriad neu'r syniadaeth i gyd yn y fan yna fel petaent yn 'bethau'. Ffenomen wahân yw iaith plant, a fydd yn datblygu'n iaith gyflawn. Eto, y mae yna broses o ddadansoddi eisoes wedi bod ar waith wrth symud o'r Cyffredinol i'r Arbennig, a hynny o fewn Sffêr neu gyd-destun bywyd y teulu a'r cartref. Dichon nad ymwybyddir â natur Sffêr gynnar nes bod yr amgylchfyd yn dechrau ymledu a newid. Ond y mae potensial Sffêr neu amgylchfyd eisoes yn dechrau ymffurfio gyda'r gwrthrychau unigol, teimladol, syniadol; pobl; pethau, gweithgareddau, synwriadau: cylchoedd ystyr olynol. Y mae pob lecsem yn dod i'r fei o fewn amllder amgylchfyd.

Erbyn cyrraedd byd soffistigedig aeddfetach ceir sawl Sffêr ystyrol i'w cyferbynnu a diffinio, heblaw sffêr y Cartref a'r Teulu. Drwy gyferbynnu yn ôl cynnwys Sfferau aeddfed y tyf cyfundrefn y Sfferau'n sefydliad.

Yn y model hwn a ddadlennwn o fewn Ystyr mewn llenyddiaeth, felly, y mae'r Meddwl yn dechrau mewn Bydysawd o syniadau, gan symud yn ddosbarthol drwy'r Sffêr ddeunyddiol ddeddfog hyd at y lecsem unigol mewn iaith (semantem mewn deall) ar hyd echel Gofod. Yna, mewn ail symudiad ar hyd echel Amser dechreua yn y lecsem gan symud drwy Thema at y Rhannau Ymadrodd Naratif neu Thematig.

*

*

*

Yr ydym wedi crwydro i geisio amlinellu prif ffurf y broses o *ffurfio Gair* mewn iaith (yn ôl Guillaume), proses ddigon tebyg (yn ôl Beirniadaeth Gyfansawdd) i *ffurfio Uned Ystyrol mewn deall*. Cyn bod iaith, y mae plentyn yn dirnad ac yn amgyffred rhai pethau, gweithredoedd, pobl. Dyma brofiad sy'n darparu'r Archgyfundrefnau neu'r Offer Deall iddo. Ym maes ystyr, y mae'r unedau deall hyn yn sylfaen nid yn unig i iaith ond i bob pwnc a phrofiad dan yr haul (megis llenyddiaeth a diwinyddiaeth).

Wrth bendroni uwchben cylchoedd ystyr ym myd soffistigedig Deunydd ein cydestun cyfoes, y mae Sfferau Deddfog Sofran Dooyeweerd yn gymorth, gredaf i, nid yn unig mewn Diwinyddiaeth, eithr hefyd wrth synied am y Bydysawd o safbwynt seciwlar. Bwriant frasolwg ar draws holl rychwant Deunyddiau Ystyr. Trefn o Ddeunydd ydynt i bawb.

Y mae Duw wedi rhoi Gras Cyffredinol inni oll i ddeall digon am Ei bresenoldeb, ynghyd â *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw) i ganfod trefn. Pan soniwn am y safleoedd yn y weithred lenyddol megis 'Absoliwt > Deunydd > Cyfundrefnau' yn sylfaenol, yma y sylweddolwn y rhodd o ddechreuadau trefn ystyr, fel y mae bywyd ei hun yn rhodd i bawb; a thywydd, a holl fyd natur; a doniau meddyliol a dychymyglon; a sylweddoliad o 'dda a drwg,' a deall sy'n gwahuno (gwahaniaethu + uno). Yr ydym yn ddiesgus o ran amgyffred digon. Y cwmp – y drwg a'r farwolaeth ysbrydol – hynny sy'n elyniaethus ynom.

Hynny yw, nid ateb oll-yn-oll yw 'cyfundrefn'. Ffurf yw; dyfais neu strwythur yw sy'n wedd ffeithiol ar y Greadigaeth fel y mae Ef ei hun yn Un sy'n Dri. Ni ddylid disgwyl gormod gan Ras Cyffredinol. Gras Arbennig (ynghyd â Gras Cyffredinol) yw'r prif ateb i'r Cristion. Ond ni ddylid bychanu Gras Cyffredinol chwaith. Mae yna ddeall o fath gan bawb (er gwaethaf y Cwmp), a deall cynhwysfawr yw.

Dosberthir Deunydd gan Ras Cyffredinol ym meddwl pawb fel rhodd.

Ceisiasf nodi gwerth safle ei syniadaeth, er (dylwn nodi) nad wyf yn cytuno â phob iot na manylyn ynghylch union gynnwys nac union drefniant theori Dooyeweerd. Ond yn allweddol, y mae ef wedi ceisio ymdrin â Sfferau Ystyr y greadigaeth yn gyffredinol ac yn ddi-hysbyddol. Hynny yw, y mae'n botensial gynhwysfawr (cf. syniad Meillet am Gynllun cydlynol mawr iaith) ac yn synied am Ddeunydd meddwl yn unol, ac fe'i trafoda (er nad yn fanwl) fel Mynegiant o gynllun *vis-à-vis* yr Absoliwt (Guillaume). Mae'r Cyfan yn ymrannu'n swyddogaethau egwyddorol neu wyddonol. Ac y mae gan bob Sffêr ei deddfwriaeth ei hun, bob un *vis-à-vis* ei gilydd yn hunanlywodraethol.

Byddaf yn canfod y Sfferau Deddfog hyn a ddisgrifiai Dooyeweerd fel amgylchfyd Duw ar gyfer ei Orchymyn Diwylliannol 'Ffrwythwch'. Dyma'r gorchymyn cyntaf ar gyfer yr un a grewyd ar Ei ddelw. Gorchymyn yw a ailadroddwyd hyd yn oed ar ôl y cwmp:

gorchymyn sylfaenol y Creu parhaol. Ac yn y Creu hwnnw, yr oedd Duw ei hun fel pe bai'n gosod y patrwm o fewn bydysawd ac yn llewyrchu'n aruthr ryfeddol mewn creadigrwydd celfyddydol a gwyddonol. Yr unig ddwy Sffêr fwyaf arwyddocaol a ychwanegaf at rai Dooyeweerd ar hyn o bryd yw'r Sffêr Ddomestig (a'r drawsfferol) a'r Sffêr Fwynhad.

Ymhellach ymlaen, byddaf yn ymhelaethu ar f'ymateb a'm 'diwygiad' awgrymedig o ddadansoddiad gwerthfawr Dooyeweerd. Ond ar hyn o bryd, carwn nodi tair o'm dyledion. Yn bennaf, mewn cyfundrefneg i Gustave Guillaume a'i ysgol (yn arbennig Valin a Hirtle). Yn ail, i Ysgol Ffurfiolwyr Mosco a Phrag (ar ddechrau'r ugeinfed ganrif) am eu gwaith ar Thema a Motiff. Ac yn drydydd, i Dooyeweerd ac Alister McGrath wrth ymdrin â Sfferau Sofran. I mi, y mae'r tair gwedd hyn yn sylfaenol i ddadansoddi Deunydd Pantycelyn a Deunydd llenyddol yn gyffredinol. Ond nid aeth Guillaume ati erioed i drafod Lecsigogenesis (na Chyn-dafod) gyda manylder. Ni wyddai Ysgol Mosco a Phrag na Dooyeweerd na McGrath ddim oll am Dafod fel y'i trafodwyd gan Guillaume. Felly, y mae'r hyn a ddywedaf yn yr amlinelliad canlynol i gyd yn fenter theoretig ddieithr. Hyd yn oed mewn Seico-systemateg iaith, dyma diriogaeth newydd.

Mae gan yr amlinelliad gyfeiriad arbennig.

Symudwn yn awr o'r Semantem mewn Deall (Lecsem mewn Iaith) tuag at lawnder y Rhannau Ymadrodd Themateg a Motiff. *Ac awgrymir mai gorsaf angenrheidiol ar y ffordd yw'r maes ystyrol neu'r Sffêr Deunyddiol Deddfog a Sofran.* Mae fel pe bai'n sefydledig yng Nghyfundrefnwaith y Cread. Felly gan Bantycelyn. Dyma gyd-destun i'r Thema; o'r Enwol i'r Berfol. *O fewn y Sffêr a'i deddf ddiffiniol, ceir amllder Themâu, hwythau a ddiffinnir yn diriogaethol gan bob Sffêr.*

Ac yna, symudir ymlaen at B2 a'r Rhannau Ymadrodd Thematig sy'n caniatáu i'r motiff, mewn Ideogenesis gyfateb i'r frawddeg mewn Morffogenesis.

Ochr yn ochr â chynildeb Tafod, pan droir at Gyn-fynegiant a Mynegiant fe droir hefyd at helaethrwydd yr Eirfa. Dyma'r amllder mewn bod a bywyd. Fe geir hefyd yr hyn a alwaf yn Ymyrraeth gan Gyn-fynegiant yn y trothwy rhwng Tafod a Mynegiant. Mae'r byd mawr yn dod yn fwyfwy amlwg yn ei fanylder: y newydd cyn-ieithyddol fel petai. Ni all iaith fod yn wryfol wahân wyneb yn wyneb â Deunydd nad yw'n ieithyddol. Symudwn felly o gynildeb ffurfiau Tafod sy'n isymwybodol tuag at ffurfio *cyfundrefnau ymwybodol mewn Mynegiant o fewn Sfferau Ystyr, megis y gyfundrefn ariannol (neu fancio), y gyfundrefn drafnidiaeth, y gyfundrefn gyfreithiol, y gyfundrefn iechyd ac yn y blaen.* Hynny yw, y mae'r cylchoedd ystyr cyntefig a geid yn Nhafod Semantemgenesis yn troi'n fwy soffistigedig ymwybodol mewn Mynegiant ac mewn Themagenesis. Eisoes mewn Tafod cawsom yr

egwyddor o swyddogaethau neu ddigwyddiadau cyfresol, *grwpio gwrthrychol o'r amgylchfyd cydlynol*. Nid oes dim union debyg i Sfferau Deddfog Sofran Dooyeweerd yn y fan yma. Ond ym myd ymarferol Mynegiant, cyfundrefnir y gymdeithas, y gwyddorau, y celfyddydau, y weinyddiaeth. Rhed yr ysfa gyfundrefnu ymlaen o Dafod i mewn i eangderau Mynegiant. Ac y mae hyn yn arwyddocaol i drefnu ystyr. Canlyniad addysg yw hyn, boed yn addysg deuluol neu'n addysg broffesiynol.

Felly, yn ogystal â chael lle mewn Tafod, yn y symudiad rhwng B ac A₂, hynny yw mewn Themagenesis, ni ellir anwybyddu nodi'r arwyddocâd afradlon braidd, mewn cyfundrefnau ymwybodol neu allan ohonynt, a geir gan Eirfa mewn Cyn-fynegiant a Mynegiant. Os caniatawn le i Sfferau Deunydd o fewn Themagenesis, yn sicr, y mae Cyn-fynegiant yn golygu wynebu'r byd anieithyddol amryfal yn ei drefn a'i anhrefn. Ac yma, y mae Mynegiant i raddau helaeth yn meddiannu Geirfa a drefnir hithau mewn Sfferau yn ogystal â Geirfa Drawdraethiadol.

*

*

*

Sylwer ar y gwahaniaeth mewn ansawdd a safle rhwng *Geirfa* a *Thafod*, felly. Rhoddaf grynodedb o'r Hierarci. Yn gyntaf, ceir:

I. *Cyn-dafod*: yr Archgyfundrefnau deall delweddol sydd ym mhob cyfundrefn ac sy'n cael eu storio i bob iaith a sffêr. Dyna'r cyfundrefnu sy'n gynieithyddol, ond yn hanfodol i drefnu iaith.

II. *Tafod*: Y cyfundrefnau gwahanol i iaith yn benodol, sy'n cael eu storio i'r iaith unigol; ffurfiant y gair a'r frawddeg. Wedyn, ceir:

III. *Cyn-fynegiant Geirfa*: y geiriau unigol ar gyfer Mynegiant sy'n cael eu storio'n barhaol (cf. Mesurau Cerdd Dafod, priod-ddulliau, metanaratif).

IV. *Mynegiant*: Ffurfiad y brawddegau, sy'n cael eu defnyddio ar y pryd, dros dro (fel arfer, heb eu storio). O ran y storio yn y cof, mae yna ddau fath o Ddeunydd yn y fan yma, yn wahanol o ran eu hansawdd, i'w storio yn y cof:

I – II. Cynnwys syniadol isymwybodol; llunio'r gair unigol; semantem a lecsem.

III – IV. Cynnwys syniadol ymwybodol; llunio'r frawddeg unigol.

Hoffwn grybwyll un pwynt pellach ynghylch y symudiad rhwng y Semantem (Lecsem/Arwyddedig) tuag at Rannau Thematig: hynny yw, o B i A₂: yr ail symudiad. Yma y gwelwn y gwahaniaeth rhwng mater y gyfundrefn *Gwahanu/Uno* yng Nghyfundrefn yr Archgyfundrefnau Deall ar y naill ben a'r gyfundrefn sylfaenol gyfatebol mewn Tafod gan Guillaume ar y llall sef *Arbenigoli/Cyffredinoli*. Y mae'r gyfundrefn ddeall (gwahuno) yn gyflawn ar waith o hyd ym mhob man yn yr Arbenigoli a'r Cyffredinoli.

Cymerer felly yr ail symudiad meddyliol hwn o'r Semantem at Rannau Ymadrodd Traethiadol. Mae'r term 'Rhannau Ymadrodd' yn awgrymu *rhannu*, gwahuno. Ac eto, dyma ben-draw'r symudiad *cyffredinoli*, hynny yw'r uno a'i berthynas. Ac y mae hynny'n digwydd: y mae'r meddwl yn darganfod, yn datblygu, yn haniaethu, ac yn dod o hyd o fewn y semantem i raddfa letach o sylweddoliad cydlynol lle y ceir undod o ansoddau eang, yn un gyfundrefn. Mae'n cyffredinoli'r propiau cynhaliol mewn Thema. Ac eto, o fewn pob un o'r Rhannau Thematig eu hunain, er eu bod yn corffori egwyddorion cyffredinol mawr, y mae'r meddwl hefyd yn dal i wahaniaethu ac i uno, i ddirnad ac i amgyffred rhyngddynt â'i gilydd.

Arweinir, felly, o'r diwedd at Fyngiant. Pryd bynnag y ceir Mynegiant, ceir cyddestun all-ieithyddol. Mae'r Sfferau a'r Themâu yn ymwneud â ffwythiannau o bob math ac â Metanaratif amgylchfyd. Yn hytrach na Sfferau neu Themâu cynddelwaidd potensial, cawn gylchoedd ystyrol achlysurol effeithiol a chyflawn yn ein meddwl a'n hamgylchfyd.

*

*

*

Er mwyn defnyddio Deunydd neu Ddeunyddiau cyffredinol y Greadigaeth, rhaid eu gwneud yn drafodadwy. Ceisio arolygu'r ym ninnau yn gyntaf ba Ddeunyddiau sydd gan lenyddiaeth, ac yna sut y sylweddolir y rheini mewn llenyddiaeth, neu sut y troir y Deunyddiau crai hyn yn themâu llenyddol ym Mynegiant y llenor.

Ceisiwyd eisoes archwilio'r mecanwaith meddyliol rhagarweiniol Arfaeth → Archgyfundrefnau Cynieithyddol (offer deall) ar gyfer dadansoddi a threfnu ac esgor ar holl ystyr Deunydd a Ffurf. Mae'r cyfarpar hwnnw oll yn ei safle bellach. Yr Archgyfundrefnau yw'r offeryn sy'n cyflyru'r Deunyddiau a'u trefnu'n ddeallol. Yn awr, mentrwn i'r diriogaeth y buom yn anelu ati, sef y Deunydd oll ei hun – sef cychwyn sylweddauidd ein taith ieithyddol. Mae hwn yn cynnwys dosbarthiad meddwl dyn am bopeth diriaethol sydd i'w gael, heblaw llawer o syniadaeth haniaethol a theimladaeth, a threfn gydlynol y deunydd. Symudasom hefyd fwyfwy o fyd *cynieithyddol* Cyfundrefneg i fyd Ieithyddiaeth. Ond yma, y Ffurf gynieithyddol (yr Archgyfundrefnau), i raddau, a rydd ddiffiniad i'r Deunydd a diffiniad i lenyddiaeth.

Wyneba dyn Ddeunydd y Bydysawd oll a cheisir ystyried yn gyntaf sut y troir y profiad hwnnw'n ddywedadwy, yn gyntaf drwy'i ddadansoddi drwy'r Archgyfundrefnau ffurfiol cynhenid. Ac yn ail yn fwy ymwybodol drwy gynrychioli'r Sfferau Moddol (yn ddosbarthau o Ddeunyddiau). Yr oedd angen ar lenor i drefnu deunyddiau'r bydysawd er mwyn eu meddwl yn effeithiol o gwbl, megis y byddai'n rhaid iddo feddwl yn drefnus, os yn fwy isymwybodol, am Ffurf yn derfynol. Dewis gan y Crëwr ei hun oedd creu popeth yn ôl

ei fath. Ond nid yn ôl y dull *rhestrol* a ddilynodd Dooyeweerd y dechreuwyd proses deall deunyddiau o'r fath. Bu Duw yntau bob amser yn cyfundrefnu. Yr oedd angen Methodoleg fwy tebyg i eiddo Pantycelyn. Ceid cynllun o fydysawd: fesul Amryw mewn Un. Ac o du dyn, ceid cyneddfau a phroto-gyfundrefnau digon Beiblaidd, megis *gwahanu/uno*, *gweledig/anweledig*, *amryw/un*, *dibynnol/cynhaliol* a.y.b. Dyna'r offer deall dadansoddol a rowd i Bantycelyn rannu a chydlynu ei ddeunyddiau yntau. Ac mewn Mynegiant, o fewn amgylchfyd gofod ac amser, a than y cymhelliad i gynrychioli ac i ffrwytho o fewn cyddestun *Mawr/bach*, *Bod/gwneud*, *Rhan/cyfan*, hynny yw, gyda help taclau ffurfiol mewn sefyllfa 'bragmatig', dosrennid bodolaeth yn gydlyniad.

Maes o law y ddi dosbarthiad mwy ymwybodol o lawer yn ôl natur y deunyddiau unigol. Derbyniaf gysyniad Dooyeweerd o Sfferau fel gorsaf neu ffactor cyfan yn yr Hierarci feddyliol, hyd yn oed er fy mod yn dod at y mater o gyfeiriad hollol wahanol. Ond mae'r fethodoleg Archgyfundrefnol, a fabwysiadaf yn gyntaf, yr un pryd yn cydsynied â phwyslais Pantycelyn a'r dulliau dadansoddol sydd yn y Beibl. Eithr hefyd, oherwydd Gras Cyffredin – hynny yw, am ei bod ar gael ar gyfer dynoliaeth yn gyffredinol, – y mae'r fethodoleg yn cydredeg ag esboniad sylfaenol ieithyddol Gustave Guillaume.

Pan enir y plentyn, fe'i hwynebir gan aruthredd diderfyn bodolaeth Deunydd. A'r cam cyntaf ar gyfer deall wyneb yn wyneb â'r Cyfan hwnnw yw gwneud hwnnw'n ymarferol dreuliadwy drwy ganfod y rhannau. Symudir yn feddyliol oddi wrth yr agored anfesuradwy i lawr i'r dosbarthiadau dealladwy ailadroddol, am ei bod yn amhosibl trafod yr holl fydysawd yn annethol yr un pryd fel cyfanwaith. Gorfodir dadansoddi.

Sut y gwneir hynny?

Mae yna gymorth eisoes yn y Deunyddiau gwrthrychol eu hunain inni weld sut y llwyddwyd i 'rannu'r' broblem hon cyn y dechrau.

Bu angen dosbarthiad cychwynnol o ryw fath mewn Deunydd. Eithr yn lle categorïau gweddol 'academaidd' a 'datblygedig' deallol fel 'Sfferau' Dooyeweerd, tueddwn i ddefnyddio criteria elfennol dadansoddol yr anghenion dynol, megis yr Archgyfundrefnau, ynghyd â rhai eraill – greddfau neu gyneddfau a ffwythiannau – a ychwanegwn ymhellach ymlaen. Tybiaf fod profiad y 'Sffêr' yn cael ei adnabod gan y plentyn yn gyntaf o fewn Bywyd teuluol a chartref. Y Sffêr Ddomestig. Maes o law, daw'r plentyn i adnabod Sfferau Deddfog Hunanlywodraethol, sy'n ymddangos yn hunanlywodraethol ac yn fwy 'academaidd'. Ond mewn gwirionedd, ceir rhagflas ohonynt yn y Sffêr ragarweiniol. Dibynna'r materion mawr academaidd i gyd ar ddelweddu digon elfennaidd. Felly, mae 'Rhif' yn tarddu o'r sythwelediad *Unigol/Lluosog*, *Un/Amryw*. Mae 'Bioleg' a 'Ffiseg' a

‘Daeareg’ yn tarddu o *Byw/Difyw*, *Teimlad/Syniad*, *Safadwy/Symudol*, ceir ‘Ffiseg’ a ‘Hanes’ mewn *Gofod/Amser*; Ffydd mewn *Gweledig/Anweledig*, *Dibynnol/Cynhaliol*, *Bod/bod*, *Bod/gwneud*, ac o’r cwbl o’r Archgyfundrefnau eraill mewn gwirionedd. Daw’r ‘Cymdeithasol’ o *Gwryw/Benyw* (a’r teulu); ac arweinir ymlaen drwy aeddfedrwydd ac addysg at ‘Amaethyddiaeth’ a ‘Gwyddoniaeth’ a’r ‘Celfyddydau’ o *Diwyllio/Ffrwytho/Goroesi*, sef darostwng y ddaear. Ac mae’r reddf gyntefig a’r awydd i ‘Drefnu’ fel hyn yn gyffredinol ei hun yn ymgysylltu’n ffwythiannol â ‘Gwleidyddiaeth’ ‘Barnwriaeth’ ‘Economeg’ a ‘Gweinyddu’ mewn Mynegiant; ac o fewn ‘Trefnu’, caiff ‘Dadansoddi’ le arbennig mewn ‘Gwyddoniaeth’ ac ‘Iaith’, megis y caiff ‘Iaith’ le eto ar lefel Mynegiant, sef cyfathrach yn amodau ‘Cymdeithaseg’ ynghylch Deunydd.

Hynny yw, yr Archgyfundrefnwyr yw rhagredegwyr y Deunyddiau.

Mae llawer o’r rhain oll yn sylfaenol yn sythwelediadau cynieithyddol ac yn offer deall ar y cychwyn, a heb eu ‘datblygu’ mewn Tafod na Mynegiant. Ond mewn Mynegiant y maent yn ymsefydlu’n llawer mwy soffistigedig, hyd yn oed o ran strwythurau Deunydd. Heblaw’r Archgyfundrefnu cynieithyddol hwn, ychwanegwn griteria mwy greddfol neu gynneddfol, megis cof, delweddu; megis hefyd *Sensus divinitatis* ar gyfer ‘Ffydd’, sy’n cynnwys hefyd *Da/drwg* ar gyfer ‘Moeseg’ a *Hardd/hyll* ar gyfer Estheteg.

Ymatebir i fodolaeth Deunydd yn ôl offer dadansoddol parod a syml o’r fath, felly, yn yr un ffurf ag yr adeileidir Ffurf. Os mai ‘Bodolaeth’ yw Duw fel y mynnai Spinoza (a hynny’n sicr yw, ymhlith gweddau eraill), ‘bodau’ yw’r deunyddiau. Yr Absoliwt oedd safle’r hunan-esboniol, yn Anfeidrol (hynny yw, heb ffiniau a heb ddibynnu ar ddim). Bellach cawsom yr hyn a darddai ac a ddibynnai arno: y Sgêm. A daw’r rhain at ei gilydd, ffwythiant wrth ffwythiant, i ffurfio teuluoedd, i gynyddu yn ôl anghenion dynol.

Credaf fod awgrym Dooyeweerd o ddosbarthu’r Sfferau o’r syml hyd y mwyaf cymhleth yn broses i’w hystyried o ddifrif. Ond ar raddfa eang, ymddengys i mi braidd yn rhy ymwybodol academiaidd, ac yn anaddas (onid mewn Mynegiant ac yn ddiwylliannol) ac onid ar gyfer ambell wareiddiad. Meysydd ffwythiannol ydynt, yn hytrach na phynciau wedi’u graddio yn ôl ‘anhawster’. Eto i mi, y mae’r modd y canfyddid treiddiad yr Archgyfundrefnau Deall yn gyflawn o fewn cyd-destunau gwahanol yn adlewyrchu o leiaf eu sylfeinrwydd hanfodol. Hynny yw, y mae’r Archgyfundrefnau Deall yn arwyddocaol ar gyfer ymagweddu at Sfferau heblaw Iaith.

Sôn yr ŷm yn y fan yma, bid siŵr, am drin Deunydd yn gymharol isymwybodol gan mwyaf. Dilynwn yr offeryn gwahuno a dadansoddi a fabwysiadwyd ar gyfer adeiladu Tafod mewn iaith. Ond priodol cofio, fel y defnyddir amryfal ffurfiau Tafod i weithio’n amrywiol

mewn gwahanol amgylchiadau mewn Mynegiant, felly hefyd wrth drafod Deunydd. Ar y pryd, mewn gwahanol gyd-destunau, ystwytha Deunydd, amrywia yn ôl ffwythiannau mawr a rhai achlysurol iawn, yn gyntaf o fewn amgylchfyd domestig — fel disgrifio pethau syml a chyffredin, cyfarch ein gilydd, dymuno'n dda i'n gilydd, gwylied gêm rygbi, melltithio'r tywydd i'r cymylau, achwyn ynghylch y ddannodd, ceisio dehongli teimlad hollol newydd, dweud jôc — y math o restr ffwythiannol mewn Mynegiant a geid gan athrawon ail-iaith gwrthstrwythurol yn y saithdegau, — a chan Wittgenstein gyda llaw.

Yr wyf am awgrymu dwy ffordd ar gyfer dadansoddi a dosbarthu Deunyddiau. Mae'r naill yn tarddu o'r Archgyfundrefnau, fel yr wyf wedi'i esbonio hyd yn hyn. Mae'r ail, sydd i'm bryd i yn fwy petrus ac ansicr i mi ar hyn o bryd, am ei fod ym myd Mynegiant yn tarddu o'r Sfferau a ddisgrifiwyd gan Dooyeweerd (gyda pheth adolygiad eisoes).

Ond y mae'r cwbl yn Undod yn cydymostwng i'r Absoliwt. Bydd rhai yn gwrthryfela'n erbyn y syniad o gael Ffydd ymhlith y Sfferau hyn. Credir yn briodol mai Ffydd yw'r Sffêr uchaf, y nesaf at yr Absoliwt, a'i bod yn ganol i bob Sffêr arall. Ac eto, gwell gennyf synied mai canoli isymwybodol a wna yng ngwaith dyn yn hytrach na chwmpasu fel yr Arfaeth oll. Yr Absoliwt sy'n cwmpasu. Fel Sffêr, y mae Ffydd, fel y mae'r Sul yn un diwrnod ymhlith eraill, yn meddu ar ffwythiant gwahaniaethol cynhwysfawr penodol sydd yn eiddo i ddimensiwn arall.

Yr Archgyfundrefnau isymwybodol a sythwelediadol sy'n trefnu Deunyddiau yn *Nhafod* Deunydd. Ffwythiannau, sefyllfaoedd, a meysydd semantig ymwybodol sy'n trefnu Deunyddiau ym *Mynegiant* Deunydd. Ond y mae'r naill a'r llall yn arwain y llenor at Themateg ddewisol os cyffredinol.

Ymhellach ymlaen, wrth ystyried perthynas (i) Metanaratif, (ii) Thema mewn Tafod, a (iii) Motiff yn adeiladaeth Mynegiant y Deunydd, byddir yn ceisio dadlau mai'r Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*), o'i chyferbynnu â'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) oedd pennaf Metanaratif Pantycelyn (gyda Rhamantiaeth Gynnar yn ail). Dyma'i amgylchfyd syniadol rhyngwladol. O fewn y cyd-destun hwnnw y datblygodd ef ei ddiddordebau mewn Seryddiaeth, Meddyginiaeth, Opteg, Ffiseg, Seicoleg, y Clasuron a'u hieithoed, Crefydd Gymharol a materion academiaidd eraill, a rhai 'anacademaidd' megis Amaethyddiaeth, Masnach, a Chanu Gwlad. Ond i mi, yr hyn sy'n tanlinellu'r pethau hyn oll oedd ei ymwybod o Sgêm a Chyfundrefnau Diwinyddiaeth.

* * *

Wrth olrhain camre newydd, y mae'n ofynnol inni oedi bob hyn a hyn i sylweddoli ble'r ydym wedi'i gyrraedd ar y daith. Dowch inni ystyried o'r newydd arolwg o'r llwybr

cyflawn tuag at lunio Deunydd gwaith Pantycelyn, a beth sy'n cyfrif ei fod wedi dilyn y math hwn o lwybr i'w lenydd. Gwelwn bellach fod yr Absoliwt ei hun, hyd yn oed, yn Ddeunydd dwyfol i'r meddwl.

Dechreuasom mewn rhagdyb absoliwt a gydnabyddid gan Bantycelyn megis Ffurf yr hyn a ddywedai ef wedyn. Dyma'r *sylfaen* angenrheidiol a oedd ganddo yn isymwybodol ynghylch *gwerth* a *diben* dweud unrhyw beth o gwbl. Dyma'r dewis ymwybodol hefyd a wnâi ef ynghylch yr *awdurdod a gwirionedd* a draethai. Dyna Sffêr 'Ffydd' yn nherminoleg Dooyeweerd. (Arch-sffêr yn fy nherminoleg i). A man a man yw cydnabod, beth bynnag yw'r llygredd neu'r chwarae, fe sylfaenwyd iaith oll a geiriau'n *unswydd orfodol* ar sail ac oherwydd rhagdybied traethu gwirionedd. Roedd yn rhaid i 'datws' gyfeirio at 'datws', ac nid at 'nadredd'. Heb y priodoledd o 'wirionedd' yn orfodol yn yr iaith, nid aem yn bell. Mae'r rhagdyb absoliwt, felly, cyn belled ag y mae yn rhan sicr o'r strwythur, yn fwy o lawer na thebygrwydd. *Dibyniaeth* yw o hyd, o leiaf o ran delfryd neu nod. Treiddiai hyn i lawr drwy holl Hierarci mynegi Deunyddiau.

Ar ôl cyrraedd yr oedran i ddechrau sgrifennu o ddifrif, yr oedd Pantycelyn fel ei gyfoedion wedi dod o hyd i bwynt cyfeiriol a oedd yn awdurdodol yn ei Fynegiant o 'Wirionedd'. Neu yr oedd yr Absoliwt wedi dod o hyd iddo ef, y rhagdyb hyderus a gwybodus a gyflyrai'i '*Olgw ar Deyrnas Crist*'. Yn y bôn, yr oedd y dewis darganfyddedig yn eglur. Ynghynt, yn llanc, caed *dewis* absoliwt. Naill ai 'fe' ei hun, ei synnwyr a'i reswm meidrol, yr 'hunan' yn ben draw awdurdodol i'w brofiad o fywyd, a DIM ARALL; hynny o fewn cyd-destun ymoleuo. Neu ynteu hynny ynghyd â'r 'Absoliwt' goruwchnaturiol o flaenllaw yn yr Oleuedigaeth, ynghyd ag egwyddor 'cyfundrefnu'. Dyna oedd dewis ei ragdyb neu'i gyfeirbwynt eithaf, yn ifanc. Er mwyn glynu wrth swyddogaeth sylfaenol iaith, o draethu gwirionedd, yr oedd yn rhaid cael rhagosodiad ymarferol o'r fath y gallai *ddibynnu arno*, hynny yw y man i'w berson cyflawn ymddiried – sef ffydd neu ddisgyrchiant ei feddwl – gan fod yn ymwybodol ac yn isymwybodol gynaledig ganddo. Dyma'r tarddiad i'w ddefnydd o iaith o hynny ymlaen wrth iddo ddadansoddi'r byd, a'i amgyffred. Dyma safon seiliol i'w gred mewn ystyr. Buasai rhagdyb naturiolaid ei blentyndod yn annigonol, yn gelwydd, ac yn unochrog gyfyngedig o safbwynt ei wybodaeth oleuedig. Bellach, caed aeddfedrwydd newydd. Gweithio o fewn dimensiwn meidrol y buasai. Yn y gwaith hwn o geisio dadansoddi a deall y byd amorffaidd ac amrywiol, fe ddefnyddiasai Pantycelyn rai offer syml odiaeth, sythwelediadau arferol cynieithyddol yn ei feddwl yn gyntaf. Drwy'r rhain y llwyddai i ddod o hyd i drefn drwy'r gymysgedd argraffiadol anferth. Yr Archgyfundrefnau.

Symudwn felly o'r Absoliwt a'r Arfaeth at yr offer meddyliol dynol, sy'n adlewyrchu natur yr Absoliwt a'r Arfaeth; ac ailenwn bedwar. Priodoleddau gan y Crëwr ydynt, nid priodoleddau gan y Greadigaeth ydynt.

Beth yn union oedd natur y cynneddfau elfennaidd hyn a ganiatâi iddo nid yn unig ddeall, ond yn fuan iawn i adeiladu iaith (yn eu holl bŵer gramadegol) er mwyn 'dweud popeth'?

Yn gyntaf, dibyniaeth y rhagdybio ei hun (a ddibynnai ar absoliwt), fel y gallai ddibynnu yn eu tro ar Ras Cyffredimol synhwyr, rheswm, ac ar iaith ei hun mewn cynhaliaeth. Dibyniaeth oedd yr offeryn deall pennaf a esgorai ar ffydd ac a ymgysylltai â hi. Gallai hyn yn fynych iawn ymddangos ar ffurf *sensus divinitatis*, y synnwyr o Dduw sy'n waddol i bawb drwy'r byd. Gwybod *bod* Duw yno – drwy ryfeddod y Cread a'r drefn a'r ymwybod o foesoldeb. Nid oedd hyn ond yn wybodaeth heb unrhyw brofiad o *berthynas* effeithiol. Gallai fod ganddo sut bynnag gyfeirbwynt o sicrwydd, sefydlogrwydd lle y ceid rhagosodiad trefn. Dibyniaeth a'i haddysgai.

Yn ail, ei ysfa i ddod o hyd i drefn gwahuno – sef y medr i ganfod gwahaniaethau rhwng pethau, ac yna, ynghlwm ynddo y medr i ganfod tebygrwydd, gysondeb ailadrodd. Byddai 'gwahuno' 'n aros fel medr treiddgar drwy gydol ei brofiad o ddeall iaith a llên i gyd. Roedd yn sylfaen i feddwl er gwaethaf rhagdybiau amddifad a ffug Ôl-foderniaeth fythol bresennol hyd yn oed y pryd hynny. Dyma'r cyferbyniad *tebyg/annhebyg; da/drwg*. Er mwyn trafod Deunydd o gwbl, yr oedd yn *rhaid* defnyddio'r gynneddf hon i gyffredinoli ac i gydlynu yn ogystal â gwahanu; a throi'n ôl ati'n wastad. Felly yr oedd hi gydag anghredinwyr hwythau hefyd, – nes bod pobl lai cynhwysfawr o'r fath yn deall ei hangen, ei rheidrwydd. Byddai 'angen' neu 'reidrwydd' ei hun yn profi'n un o ffactorau eraill ar gyfer dadansoddiad i bawb: yn un ar ddeg (o leiaf) o archgyfundrefnau, fe ymddengys. Dyma ffurf yn awr, 'gwahuno', sy'n gwbl semantaidd angenrheidiol er mwyn mestroli 'Deunydd'. Sythwelediad ydyw yn y meddwl. A thebyg mewn ffordd ddigon gorfodol yw swyddogaeth holl Archgyfundrefnau deall.

Yn drydydd, ceir gallu i ddelweddu, ac i storio'r delweddau yn y cof.

Ac yn *bedwerydd*, sylweddolwn fod gennym ffactor wedi bod ar waith drwy gydol yr amser yn ddiarwybod, a dardda o'r ail gynneddf drefngarol uchod ('gwahuno') ymlaen. Dyma'r gynneddf i gydnabod yn y meddwl – yr amryw yn y macrocosm unol, y ddau neu dri yn *un*. Dysgodd y meddwl gyfundrefnu'r deall ac uno mewn Mynegiant. Gallwn bellach gyfdaeiladu cyfundrefn â chyfundrefn. O hyn ymlaen, fe fyddem yn gallu deall pob Deunydd

a dweud pob Deunydd, gan bwysu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng Cyfundrefnau ar iaith. Ni bu Rhamantwyr (na'u disgynyddion yr Ôl-fodernwyr) yn hoff iawn o'r syniad hwn o Drefn. Ond felly y mae hi.

Sylwer: ymddengys fel pe baem yn dal i drafod Ffurf hyd yn hyn. Ond mewn gwirionedd, trafod y buom yr offer *angenrheidiol*, *gorfodol*, ar gyfer meistroli a threfnu a didoli *Deunydd*. Dyna bedwar o offer cysefin meddwl. *Heb y rhain y tu ôl, jwngwl fyddai Deunydd. Ond fe gafwyd ynddynt offer llunio cyfundrefnau*, strwythur i ddidoli ac i gynnal y Deunydd.

Trafod y buom offer a strwythurau a oedd yn gynieithyddol. Dyna daclau deall ar gyfer Deunydd. A diddorol i mi oedd sylwi bod llawer o'r cyfundrefnau ffurfiannol hyn yn cael eu trafod yn benodol gan Bantycelyn fel cyfundrefnau diwinyddol. Hynny yw, daethant yn ddeunydd i'w fyfyrdod deunyddiol ef. Hwyl sy'n rhagflaenu cyfundrefnau fwyaf cwmpasol *Tafod* ei hun: sef *Ideogenesis/ Morffogenesis* (Lecsem/Morffem), sy'n esgor ar *Dafod/ Mynegiant*.

Arolygu y buom felly yr holl Archgyfundrefnau strwythurol ar gyfer dadansoddi deunydd iaith a bywyd yn benodol.

Ble y mae hyn oll wedi bod yn y digwydd? Gallwn ddodi'r enw 'Cyn-Dafod' ar yr hyn sy'n trafod strwythuro deall yn yr Arfaeth cyn iaith. Ac eithrio'r cysylltu neu'r perthyn rhwng yr arwyddedig a'r arwydd, trafod hyn oll a wnaethom yn y meddwl. *Tafod* yw'r term ar gyfer y wedd sefydledig ddyfnaf ar iaith (a llên) lle y gweithredir y cyfundrefnau mwyaf elfennaidd hyn o fewn Cyfundrefnwaith un iaith ar y tro. Y rhain yw'r cyfundrefnau cyffredin, rhyng-ieithyddol, sef y cyfundrefnau mwyaf cywrain mewn *Tafod*. Perthynwn felly, i lwyth y meddylegwyr (*mentalists*); ac yr ydym felly i fod yn elynion rhonc i faterolwyr, meddent hwy, na ddylent gredu mewn deddfau anweledig a phethau felly. Dim ond ar arferion. Ond yr oedd un o gynneddfau'r meddwl anweledig yn arbennig drwy gydol y broses allweddol o adeiladu iaith, sef y cof (y gynneddf i gofnodi neu storio hyn oll) yn cadw'r argraffiadau synhwyraidd yn y meddwl o'r golwg (ynghyd â geirfa), yn barod i'w hailadrodd, yn gynneddf a ddefnyddiasom eisoes ar gyfer rhan ôl y ceffyl syrcais 'gwah-uno'. Y meddwl yn mynd at y synhwyrau. Rheidrwydd eto i ni yw'r cof. Dyma wedd eithriadol a gorfodol wrth drosglwyddo'r gweledig i'r anweledig, ac er mwyn cyffredinol neu rannu iaith rhyngom a'n gilydd, bellach ym mynd y gweledig. Ond tueddir i drefnu hwnnw hefyd.

Mae'r camre hyn oll hyd yn hyn yn syml odiaeth. Ac rydym ni wedi bod yn crynhoi'n gynnill, megis plant, yr arolwg a wnaethom yn fwy helaeth ynghynt o Archgyfundrefnau. Ni wiiw i ni er hynny gamu ymlaen heb grybwyll eto yr amlwg, sef bod yr Archgyfundrefnau

hyn a'r lleill ar waith gyda'i gilydd yn undod *yr un pryd*, ffaith sy'n arwyddocaol ddigon, fel y prawf y gweddill o'r ymdriniaeth. Mae'n amlwg, er enghraifft, ein bod wedi bod yn awr drwy gydol y bennod newydd hon yn trafod y gyfundrefn *Ffurf/Deunydd* heb ei henwi. Cawn sylwi fod y gyfundrefn *Cyffredinol/Arbenig* hefyd yn anochel ynghlwm wrth wahuno, 'gwah-' yn ymgysylltu ag arbenigoli, a'r 'uno' sy'n angenrheidiol wrth gyffredinoli (drwy gysondeb). Amlhau cyd-ddigwydd sy'n gymorth i lunio teuluoedd o'r delweddau yn y cof.

Wedi'r trefnu cynieithyddol (deall), trown yn awr i'n cam uniongyrchol cyntaf i mewn i iaith, ar ffurf Tafod Deunydd. Gweithredir hyn yn gyntaf drwy glymu sain (*arwydd*) wrth ddelwedd (*arwyddedig*). Dyma gam semantaidd mewn iaith, sy'n mynd â ni i galon Tafod. Dyma'r gynneddf i symboleiddio, cysylltu delwedd â sŵn: fel y dywedai Guillaume – yr *arwyddedig* a'r *arwydd* yn llunio'r *arwyddiant* gyda'i gilydd, deuoliaeth yn undod, gan beri i wrthrych, a wahunwyd gan y meddwl, ddwyn label neu gynrychiolydd. Unwaith eto, yr oedd gennym amryw yn ymwneud ag uned. Ond y tro hwn gwnaethom gam chwyldroadol: fe ddaethom â'r gweledig i'r fei. Gwnaethom y cam chwyldroadol o gysylltu'r anwel â'r gweledig.

Bid a fo am hynny, hwylustod angenrheidiol oedd arolygu o'r newydd rai o'r Ffurfiâu hyn er mai symud ymlaen at y Deunydd, *yr arwyddedig*, a wnawn yn awr. Ceisiwn ystyried sut y cyfundrefnir ac yr amodir Deunydd. Beth sydd a wnelo Archgyfundrefnau Strwythurol yn uniongyrchol â gwybod y Deunydd? Yn syml, y strwythurau hyn y buom yn eu trafod (Archgyfundrefnau) sy'n dosrannu neu'n dosbarthu — mewn Cyn-dafod — debyg gyda thebyg, y rhain sy'n carfanu hefyd ac yn cyfundrefnu ac yn cyffredinoli mewn Tafod. Y rhain sy'n *ffurfio* 'r Deunydd yn rhannau mewn cyfan.

Yn gyntaf, byddant yn esgor ar y lecsem, ac yna yn dosrannu'r Eirfa yn ôl Meysydd Ystyr cyffredinol iawn, yn ôl Sfferau Ffwythiannol a Deddfog, y moddau gwahanol y treuliwn ein hamser ynddynt. Ceir gormod o ffwythiannau a sefyllfaoedd manwl mewn bywyd wrth gwrs i'w trefnu'n effeithiol heb fod y meddwl dynol yn eu trafod yn ôl eu natur ddosbarthol pynciol a'u defnyddioldeb gwahân. Dyna'r cam uniongyrchol cyntaf wrth i feddwl ymdrin â Deunydd – canfod pa wedd ar weithgaredd dynol y mae pob gwrthrych neu weithred yn perthyn iddi. Ac wrth reswm, disgwyliwn orgyffwrdd a goferu; cawn ddisgwyl rai Enwau a Berfau canolog *cyffredinol* megis 'bod' a 'gwneud', 'peth' a 'dyn' sy'n perthyn i bob gweithred, a rhai mwy *arbenigol* fel 'godro' neu 'gloddio'; 'peiriannydd' ac 'ocsigen' nad ydynt ond yn naturiol berthyn i rai cylchoedd dethol. Dyma natur Geirfa. Y mae'n draws-strwythurol.

Yng ngwaith y meddwl wrth ddsrannu Deunydd yn gategorïau ystyrion cyferbyniol, cawn ein bod yn cadw mewn cof yr ymwybod y sylwasom arno o'r blaen, sef 'angen' neu 'reidrwydd' trefn bywyd. Pan oeddem yn arolygu y cyfundrefnau ffurfiol (Archgyfundrefnau) a fyddai'n amodi canfod Deunydd, ceisiwyd hunaniaethu cyfundrefnau anochel, i'r Cristion ac i'r Seciwlaryn. A glynwn wrth yr anocheledd hwn o hyd yn awr wrth drafod anferthedd 'Deunydd'. Hyn sy'n mynd i'n harwain at brif arwyddocâd Deunydd wrth symud tuag at Fynegi llenyddiaeth, sef Themateg – a themâu cyfundrefnol – yn arbennig rhai Pantycelyn sy'n esgor ar y Motiffau, sef yr elfennau thematig lleiaf a'r frawddeg. Ni ellid deall na defnyddio'r un o'r rhain heb yn gyntaf fod y meddwl wedi isymwybodol drefnu'r cwlwm defnyddiol o sythwelediadau neu gyfundrefnau ffurfiol cynieithyddol a drafodasom hyd yn hyn. Ond mae angen rhoi rhybudd (gweddol amlwg): gellid cyferbynnu'r Archgyfundrefnau Strwythurol â'r Sfferau Deunydd. Digwydd yr Archgyfundrefnau ym mhob Tafod a Mynegiant. Potensial i wahanol Fynegiant yw'r Deunydd. Gellid dewis yn awr. Cynhwysir popeth o fewn potensial Deunydd Llenyddiaeth, ond nid yw'n weithredol ond yn ôl y pryd. Ar ryw olwg, ychydig iawn o'r Sfferau hyn a ddefnyddir o ddifrif gan Bantycelyn – gan neb. Ond fel yr Archgyfundrefnau, y mae'r Sfferau i gyd yn eiddo i bawb, yn Ras Cyffredin.

Felly, symudiad cyntaf y meddwl ym maes deall ystyr yw troi'r bydysawd yn drafodadwy, dadansoddi neu ddsbarthu'r meysydd ystyr, categoreiddio sfferau, ymdeimlo â Chynnwys yn fwy lleol na'r tryblith o argraffiadau diderfyn, ffinio cylchoedd Deunydd. Yr wyf yn canfod deuoedd o ddsbarthu mawr yn y fan hon – y pethau a'r gweithredoedd, y sfferau deunydd a'r themâu ymarferol; gofod ac amser.

Pen draw deunyddiol y symudiad dosbarthol hwn i'r deall cyntaf yw'r Semantem (yr uned leiaf mewn ystyr). Yn symudiad cyntaf y meddwl, y bydysawd sy'n llywodraethu a'r hunan fel pe bai'n oddefol mewn gofod. Rhennir yr elfennau. Ceir yn yr un lle mewn iaith, y lecsemau, yr enwau, y cynrychiolwyr gofodol.

Yn yr ail symudiad, ceir yr hunan sy'n llywodraethu ac yn rhydd ym mydysawd amser. Symudiad at y rhan fu'n gyntaf; ac fe arweinir at gyfannu yn yr ail symudiad. Dyma gydlynu lecsem â lecsem, yn rhannau ymadrodd ymarferol.

Gan fod y dadansoddi o Sfferau'n gorfod rhoi sylw i Ofod ac Amser, i'r Fertigol a'r Llorwedd, i'r Unigolyn a'r Dosbarth, gellid gweld sut y mae'r meddwl yn ymddwyn ac yn mynd ati i ddelweddu Cynnwys neu Ddeunydd. Dyweder mewn Sffêr megis Bioleg, ac enghraifft deuluol megis 'Blodeuyn': ceir dadansoddiad fertigol i'r unigolyn – coesen,

blaguryn, deilen, pail a.y.b. yn ogystal â chyswllt llorwedd â'r dosbarth — tiwlip, rhosyn, blodyn meny, meillionen, llygad-y-dydd a.y.b..

Diddorol fod yr iaith Gymraeg ohoni'i hun fel pe bai wedi gogwyddo enwau i fod yn fenywaidd (at ei gilydd) pan gyfeiriant at elfennau lle a gofod: gwlad, teyrnas, ac enwau gwledydd, 'tref', 'dinas', ac enwi trefydd a phentrefi, afonydd, mynyddoedd a bryniau, iaith ac ieithoedd, cymunedau megis y genedl, y werin, y bobl, y dyrfa, y gynhadledd; a bod yna duedd (er yn llai penodol) i amser fod yn wrywaidd: a'r tymhorau, mis a'r misoedd, dydd a'r dyddiau, y gwynt a chyfeiriad y gwyntoedd. Dyna awydd dirgel isymwybodol i ddsbarthu.

Yr wyf yn bur sicr bod y Gyfundrefn o Sfferau Deddfog gan Herman Dooyweerd fel y mae ac a gymhwyswyd yma yn betrus o'r newydd, yn dal yn annigonol, o ran dull y dosbarthiad.

Mynegiant o restr yw, yn bennaf. Yr wyf eisoes wedi enwi'r Sffêr ragarweiniol — y Teulu a'r Cartref, neu'r Sffêr Ddomestig a Thraws-sfferol. Yr wyf yn anesmwyth ynghylch Barnwriaeth, ac yn rhag-weld ei dileu, neu gynnwys lluo o feysydd cyndogol gyda hi. Yr wyf yn rhag-weld ychwanegu gweithgareddau neu ffwythiannau cyd-ddyn niferus eraill, megis Gwasanaethu, Meddyginiaethu, Elusenna. Syniaf yn bur sicr hefyd fod Chwarae (corfforol/meddyliol, chwaraeon bwrdd, chwaraeon cof, ac 'ar ei ben ei hun/ mewn tîm' a.y.b.) yn weithgaredd dynol sy'n eithafol bwysig o fewn Mwynhad. Syniaf fod gormod o ôl y cyfnod modern a'r byd datblygedig ar y cwbl o'r rhestr fel y mae ar hyn o bryd. Nid yw'n ddigon elfennaidd. Ac eto, tybiaf fod y math hwn o fraslun yn gymorth anochel, ac yn gydnabyddiaeth ddiffiniedig o'r math o feysydd syniadol a wyneba bob llenor o ran Deunydd. Ymddengys fod rhyw fath o ddadansoddiad o'r fath fel pe bai ynghudd yn yr ymwybod dynol oherwydd ymarferoldeb trefnu. Syniaf hefyd mai anghenraid ar gyfer pob un o'r Sfferau hyn yw nodi deddf ddiffiniol yn arweiniad iddi. A bydd yn rhaid dod yn ôl at hyn yn fwy manwl ymhellach ymlaen.

Sut y syniwn am hyn fel modd i arolygu ffwythiannau a diddordebau rhywun fel Pantycelyn? Beth yw canlyniad y benarglwyddiaeth gwmpasog ar natur yr holl sfferau a gyflyrir ac a amodir gan ei hawdurdod yn ei waith ef? Beth yn benodol yw ei heffaith ar lenyddiaeth? Wrth gwrs, y mae ef yn fwy soffistigedig na'r rhelyw yn ei ymwybod o bwyslais yr Absoliwt. Nid yw wedi cau'i feddwl fel y gwnâi'r Ymoleuwyr, yn ôl eu cyfuniad triol (i) Fy Mhum Synnwyr, a (ii) Fy rheswm, a (iii) Dim Byd (sef yr Ego Trosgynnol). Holai ef ragdybiau (iii). Yn wir, digwyddodd profiad iddo yn ddiriaethol a fywhaodd ei 'ysbryd' i

sicrhau rhagosodiad bywyd-newidiol yn lle'r rhagdyb Ymoleuol ddi-brawf. A diddorol ei gymharu yn hyn o beth â diniweidrwydd yr anghredadun syml modern sy'n derbyn myth y 'Gwyddonydd hollalluog allwyddonol' ynghylch absenoldeb. Fel arfer, nid yw'r anghredadun yn ymwybodol o gwbl o'i ragdyb naturiol na'i absoliwt diarchwiliad yn yr Ego Trosgynnol, nac yng nghyfyngder ffydd mewn rheswm a'r pum synnwyr. Clywir gwyddonwyr yn ceisio dadlau'n falch yn erbyn y goruwchnaturiol ag offer naturiol, pethau na wnâi gwyddonydd ymwybodol a dilys gydwybodol go iawn byth, fel petaent yn dadlau am dyfu tatws yng nghyd-destun seryddiaeth. Gwarthus o anneallus a sarhad ar wyddoniaeth yw cymysgu dimensiynau, heb drafod tebyg gyda thebyg. Eto, hyd yn oed o fewn maes achos-ac-ffaith, dengys Pantycelyn anocheled yr hawl o fewn cyd-destun deddfau cyn-naturiol 'i drafod deinameg gyn-wyddonol (Arfaeth): Absoliwt (achos eithaf; rhagdybioldeb, gwerth, diben.); /cyfundrefneg; bodolaeth deunydd (atom);/ bywyd organaidd (cell); trefn cenedlu; sylweddoli hunaniaeth (diddwytho, ystyr, cydwybod). Adeilad amddiffynnol yn erbyn anhrefn a diffyg pwrpas Materoliaeth oedd hierarci feddyliol Pantycelyn.

Yr hyn a wêl Pantycelyn yw anghenraid Cyn-wyddoniaeth, a ffaith

- (i) Hunanddatguddiad a hunanwireddiad Duw;
- (ii) *Sensus divinitatis*, sef y synnwyr cyffredin bydeang os syrthiedig ar gyfer ymwybod â bodolaeth Duw;
- (iii) Presenoldeb y Cwmp; rheidrwydd hanesyddol ffaeledigrwydd, afiechyd, ac angau; diffyg perffeithrwydd hyd yn oed gwyddonwyr.
- (iv) Rheidrwydd bywhau'r ysbryd dynol marw fel y bo *sensus divinitatis* yn ymateb i fwy na 'bodolaeth', eithr i berthynas hefyd.
- (v) Cyfundrefneg ddeallol.


Dyma'r cyd-destun rheidiol i gerdd aeddfed, y rhagdybiau hunanfeirniadol a datblygedig a arddelai'r dyn ifanc o Bantycelyn. Ochr yn ochr â hwy y ceir yn (i) uchod y gwelediad personol o Benarglwyddiaeth Duw yng Nghrist sy'n ffurfio asgwrn cefn i draethiad 'Golwg ar Deyrnas Crist', lle y mae'r Goruwchnaturiol yn cyflyru'r holl naturiolaeth. Pwysig sylwi ar ddyfnder anallu'r anghredadun, i sylweddoli bod ganddo absoliwt yn rhagdyb o gwbl. Fel arfer, fe eilw ef ei duedd i ddilyn y pum synnwyr neu reswm yn 'ddidueddrwydd'. Mae'n ei gau'i hun yn ddogmatig o fewn 'yr amlwg.' O'i gyferbynnu, y mae Pantycelyn yn arddel y cyneddfau naturiolaidd hynny yn ogystal ag Absoliwt goruwchnaturiol a chyfundrefneg, gan wybod hynny. A'i wybodaeth fwyaf yw bod Crist yn ei garu.

Pan drown oddi wrth ‘Ffydd’ (naturiol neu oruwchnaturiol) i fwrw golwg ar draws y Sfferau Deddfog eraill (a’u plant ‘sefyllfaoedd’ a ‘ffwythiannau’), cawn fod diddordebau deallol personol Pantycelyn a’i Ddeunydd llenyddol yn cwmpasu nifer helaeth – meddyginiaeth, seryddiaeth, llenyddiaeth, diwinyddiaeth, ffermio, crefydd gymharol, cynghori teuluol, ayb. Mae’n wir ei fod yn unigolyddol, fel y dywedir o ran ei agwedd a’i deimlad a’i feddwl ynghylch hyn oll. Ond y mae’r lled catholig sylweddol yn ei ymrwymiad i hyn i gyd yn un o’r rhesymau a oedd gennyf dros ei ddewis ef yn anad neb i fod yn enghraifft benodol ar gyfer astudio Deunydd llenyddiaeth oll o fewn holl broses ddisgrifiol Beirniadaeth Llenyddol Gyfansawdd. I eraill ohonom, nid yw’r meddwl mor llydan o fyw. O safbwynt disgrifio a dadansoddi cynnwys cyflawn llenyddiaeth, fel y cyfryw, y mae i arolygu, disgrifio, a dadansoddi Deunydd, a chynrychioli bob un le, – er y gall Ffurf ei hun fod yn llawer pwysicach wrth werthuso.

* * *

Nid y profiadau noeth felly a fynegir mewn iaith, ond dadansoddiad o brofiadau oherwydd dosbarthu grwpiau, sy’n ffinio sfferau. Nid ysgerir profiad oddi wrth athrawiaeth a hanes.

Ac fe fwydir ymlaen a thuag yn ôl, Dafod yn llywodraethu Mynegiant, a Mynegiant yn adeiladu neu’n goleddfu Tafod drwy arferiadau sy’n troi’n sefydliadau.



Cymuned o syniadau yw Sffêr. Mae’n sefydlog o ran egwyddor, ond yn cyfuno ac yn symudol o’i mewn. Ceir math o ffiniau syniadol yn ffurfio cydlyniad enwol nid oherwydd gramadeg eithr oherwydd cysyniadaeth. Y tu mewn i bob Sffêr ceir llu o gyfundrefnau. Yr analog addas os eithafol ar gyfer Sfferau Ystyr (er mor eithafol yw’r awgrym) yw’r Corff a’r Organau: anadlu, treulio bwyd, cyhyrau, ac yn y blaen. Yn anad dim, y DNA. Felly y mae hi ym mhob Sffêr Ystyrol. Cymerer y Sffêr Esthetig. Mae gan bob un o’r celfyddydau ei chyfundrefnau’i hun o’i mewn. Mae gan Gelf Weledol ei lliwiau cyflenwol, yn ôl nerth a chryfder y tonfeddau goleuni; persbectif; siâp. Yna, Cerddoriaeth gyda chyfundrefnau cytgord ac anghytgord, dirgryniadau nodau yn ôl cynnydd rhifyddol union, themâu ymadroddion, tonyddiaeth (ac annhonyddiaeth). A chlymir y rhain oll wrth werthoedd undod a threfniadaeth a phwrpas. Mae gan lenyddiaeth hithau ffurfiau i’r arwyddedig (trosiad, coegi, gormodiaith, lleihad), a ffurfiau i’r arwydd (odl, mydr, cynghanedd); a chawn yn y

naill a'r llall ffurfiau sy'n dwyn nodweddion cyfundrefnol, gan eu bod naill ai'n gyfundrefnau rhannol neu'n gyfundrefnau llawn. Yna, y mae'r berthynas rhwng y rhan a'r cyfan, a'r llenddulliau yn gyfundrefnus, ynghyd â dosbarthu'n ôl *gofod/amser* a *deunydd/ffurf*.

Felly hefyd y mae'r Sffêr Esthetig *Hardd/Hyll* yn darparu diffiniad neu gyfundrefn arweiniol sy'n llywodraethu Un corff gan ymgysylltu â'r Llawer o gyfundrefnau organaidd. Ond ym mhobman ceir cyfundrefn mewn Ideogenesis megis mewn Morffogenesis hyd at y manylyn lleiaf, megis mewn Ffiseg a'r amryfal Sfferau Ystyr eraill.

* * *

Wyneb yn wyneb â'r dosbarthiad rhyddieithol a wneir o Ddeunydd yn y gyfrol hon, ac a gafodd ei lunio gyda phob llenyddiaeth seciwlar a chrefyddol mewn golwg, y mae'r hyn a wna Pantycelyn o ran yr amrediad yn '*Golwg ar Deyrnas Crist*' yn weithred bur uchelgeisiol. Ni wna dim llai na bwrw golwg yn brydyddol dros ddosbarthiad catholig o'r holl Ddeunyddiau, a thraethu'r argraff greadigol a gaiff bardd sylwgar naturiol a goruwchnaturiol ei fryd. Wedi'u cyflwyno'n fawrhydig i'r Absoliwt ei hun yn y Bennod Gyntaf, dyma beth o'r disgrifiad o'r hyn a wna'r Ail Bennod yn ôl ei gyflwyniad: '*Yn gyntaf, Caos, sef y defnyddiau o bob peth; ac yno yn tynnu pob elfen i'w le ei hun, yn codi'r gwres i'r haul a'r sêr gwibiog, ac yn gwneud y rhain a'r planedau eraill, yn rhwymo'r pridd ynghyd yn un belen fawr, yn gosod sugn yn ei chanol, ac yn ei henwi Daeear, ac yn llanw'r ddaear hon, y môr, a'r awyr o bob creaduriaid; ac yn olaf, yn creû dyn yn ben ar y cwbl mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd ac awdurdod ar y creaduriaid; yn ei enaid a'i gorff ar ei ddelw ei hun.*'

Mae'r datganiad Beiblaidd yn y fan hon am ddyn bach mewn byd bach sy'n ganol personol i fydysawd yn wahanol i ddadansoddiad ffeithiol arwynebol: ond panorama o ryfeddod yw ym mryd Pantycelyn:

*Maintioli'r haul a'r lleuad a'r bydoedd sydd uwchben,
Rifedi swnd y moroedd yn chwarae yn y nen,
Lled, hyd, a maint eu troeon 'nghyd â'u haneirif ri',
A'r nifer anweledig ohonynt sydd i ni.*

Y mae'r Absoliwt yn y fan hon yn debyg i'r Goleuni yn y prism, sy'n ffynhonnell eithaf i'r enfys neu brism o gread oll, fel y'i disgrifiwyd gan Waldo yn 'Eirlysiau'. A dyma ddyn yn dod, Adda, wedi'i eni i ymhyfrydu mewn trefn a mwynhau Deddfau prydferth a'r Deunyddiau oll. Try Pantycelyn wedyn yn Rhan y Bumed (GWWP I, 66 yml.) i draethu

'ynghylch yr amrywioldeb o greaduriaid yn y môr a'r tir ac yn yr awyr, fel nad oes ran o'r greadigaeth heb ynddi liaws o bob math o greaduriaid, ac oll yn amrywio oddi wrth ei gilydd, mewn natur, dull corff, maintioli, lliwiau, lluniaeth, trigfannau, gwisgirwydd, ffordd o amddiffyniad, a thueddiadau; ac oll yn dangos doethineb y Creawdwr.'

Mae Pantycelyn yn wynebu problem Ôl-fodernaidd, Amrywiaeth. Yn y fan hon, y mae Pantycelyn yn mynd ati i arolygu'r Deunyddiau Deddfog (hynny yw, pob dosbarthiad yn ôl ei briodoleddau trefnus ei hun) yn fwy ymwybodol. Yn wahanol i gynildeb egwyddorol syml y deddfau strwythurol y mae'r Deunyddiau dosbarthedig hyn o ran potensial yn sylfaenol ddiderfyn, ac o'r herwydd fel petaent yn perthyn yn nes i ddimensiwn Mynegiant. Ond ei 'reddf' yw eu darostwng i gynildeb trefn drwy chwilio am egwyddorion cryno. Mae'r amllder mewn 'plan'.

Mae'n gwbl amlwg fod Pantycelyn ar sail y datguddiad wedi dosbarthu'r greadigaeth yn ei feddwl yn feysydd cyffredinol yn ôl egwyddor ei hanian, ac wedi mwynhau eu trefn, am fod trefn Feseianaidd i'r cwbl. Mae yna drefn olynol a threfn ofodol:

GWWP I, 31 *Fel creodd y Meseia hwy ac aneirif stôr
Creaduriaid ar y ddaear, creaduriaid yn y môr,
Pysg, 'hediaid ac ymlusgiaid, bwystfilod bob yr un
O uwchder nen i'r dyfnder, yn ola' i gyd y Dyn.*

GWWP I, 36 *Cyffelyb at gyffelyb gysylltodd ef yn awr,
Goleuni a thân i'r wybyr, a phridd a meini 'lawr;
A'r dyfroedd i'r wybrennau, i'r moroedd lawer mwy,
Ffurfafen yn y canol i dorri rhyngthynt hwy.*
*Yr awyr las fe'i cododd uwch mesur fry i'r lan,
Tu hwnt pob mesur eilwaith lledanodd hi i bob man;
Diderfyn yw ei chwmpas, a bydoedd eang sy
Yn wyllt yn rhedeg troeon gwastadol yn eu bru.*

Try at goed:

GWWP I, 70 *'D oedd fforest wyllt Lebanon o gedrwydd oedd yn llawn,
Brasil neu Gini wresog sy â choedydd anferth iawn,
Ddim rhagor na'r mieri a'r ysgall gwael eu rhyw
Yn swnio 'maes ddoethineb ac anfeidroldeb Duw.*

Yna'r creaduriaid:

GWWP I, 71 *A'r siarc 'sglyfaethus, creulon sy'n difa o'i flaen o hyd,
Y porpes mawr a'r tortois, sy â'r gragen werthfawr, ddrud;
A hwnnw gariodd Jona yn union ar ei hynt
O Darsus tua Ninif' o fewn yr oesoedd gynt.*

Nid wyf, wrth gwrs, wedi dyfynnu ond tamaid i aros pryd o oramllder Williams. Arolwg hynod gynhwysfawr ydyw yn y diwedd o'i brofiad dyfnddwys o'r helaethrwydd dosbarthedig o Ddeunyddiau bodolaeth.

Dathliad o'r Deunyddiau ydyw, wrth gwrs. Catalog o rialtwech yw arolwg *Golwg ar Deyrnas Crist*. Mae Pantycelyn bron yn chwerthin wrth sylwebu ar yr amrywiaeth anhygoel, yn arbennig wrth ddethol neu gwrdd â'r anifeiliaid, y coed, creaduriaid y dwfn, y gwrthrychau sy'n addurno'r wybren, mae'n rowndio'r rhain fel plentyn mewn ffair. Rhyfeddod y greadigaeth a'r Dychymyg a'i dyfeisiodd, dyna galon ei destun. Ond y mae oll mewn trefn. Dethol, ddwedais i; ond y mae'r holl brif egwyddorion yno.

Wyneb yn wyneb â Deunydd y llenor, nod ac ysfa'r beirniad neu'r darlennydd beirniadol rhesymol o hyd yw ceisio ymdeimlo â'r undod sy'n gwlwm i'r amryw. Chwilia yn anorfod am yr undod sydd rhwng dechrau, canol, a diwedd Deunydd. Datgela'r beirniad asiadau mân a mawr rhwng Deunydd a Ffurf, ac o fewn y naill a'r llall, y rhannau a'r cyfan. Olrhain y llwybr unol a wna. Ac y mae'n arwain at Berson. A hyn yw prif gymhelliad isymwybodol ei fodolaeth.

Cynilo dewisol fydd ymateb llenorion yn gyffredinol i amllder o'r fath, wrth gwrs, a thrwy ddethol y ceir y sicrwydd. Drwy ailadrodd y dewis y sefydlir traddodiad, megis yr adeiledir Tafod gan Fynegiant. Ond nid ar draul yr amryw. Y berthynas rhwng yr undod a'r amryw yw un o'r priodoleddau a ddyry fywyd a lliw ac egni dychmygol yn Neunydd llenyddwaith. Yn null Uno ac Amryw y deuir o hyd i Ddeunydd cwmpasog celfyddyd. Felly, er y parch enfawr sydd gan fodolaeth tuag at yr undod, a hyn yn y bôn sy'n anochel hanfodol mewn iaith ac mewn llenyddiaeth, marw yw pan fo'n unffurf. Amddifad yw heb y lluosrwydd. Y tyndra a'r cydweithrediad, y gwrthdrawiad a'r cariad rhwng y ddwy wedd, yw'r hyn a rydd i iaith a llenyddiaeth eu nerth a'u hysbryd. Math arbennig o undod yw, felly. Hollbresenoldeb y cydlyniad yw'r lle y methodd llawer o theori chwarter olaf yr ugeinfed ganrif. Yn hyn o beth, y mae i gasgliadau Pantycelyn arwyddocâd cyfoes.

Fy ngwaith i yw nodi'r ffordd y daethpwyd o hyd i olyniaeth anochel seml yng nghanre mawr yr hierarci ffurf yn y broses o esgor ar Ddeunydd llenyddol dan Absoliwt: y cyfeirbwynt eithaf, y rhagdyb; Arfaeth: yr ymwybod o drefn a deddf; Archgyfundrefnau: amodwyr ffurfiol dadansoddi; Sfferau: y dosbarthiad deunyddiol; Themâu: y gweithredu deunyddiol. Dyna'r fframwaith a ddilynodd Pantycelyn o raid, ac a ddilyna pob llenor normal, yn isymwybodol o sydyn amodol.

Y tu mewn i bob un o'r Sfferau Deddfog a nodwyd yn yr Hierarci, ceir lluosrwydd o wrthrychau fel arfer, yn ceisio cydlynu mewn dosbarthiad. Felly, wrth geisio archwilio adeiladwaith yr undod mewn Deunydd, dechreuwyd bob tro yn yr Un absoliwt. Fel y sylwasom, cais y seciwlwr ddisodli hwnnw â duw arall, rhagdyb yr Ego Trosgynnol, awdurdod y goddrych, yr empeiraidd elfennol, rheswm gofod ac amser, dyma'r absoliwt

cyfyngedig iddo. Ond o ran Ffurf a Deunydd, ni all llenyddiaeth Gymreig na beirniadaeth (hynny yw, darllen gofalus ac ystyriol) ddianc rhag y rhagdybiau nac osgoi'r adeiladwaith isymwybodol rhagosodedig sydd wrth wraidd traddodiad iaith a llenyddiaeth bob amser, ac yn cwmpasu Goruwchnaturiol a Naturiol. Rhaid i'r beirniaid seciwlar hwythau os ydynt yn feirniaid cydwybodol geisio cydnabod y defnydd o hyn oherwydd cyfoeth profiad y gorffennol sy'n dal gyda ni. A gwnânt hynny hyd yn oed yn ôl y telerau beirniadol posibl o fewn dimensiwn a rhagdybiau dieithr sydd weithiau'n wrthun gynddeiriog. Rhan arwyddocaol o amgylchfyd yr etifeddiaeth honno yw Pantycelyn.

Felly, yn yr amlinelliad presennol, saif Sfferau Deunydd hanner ffordd rhwng Cyn-Dafod yr Archgyfundrefnau Strwythurol a Chyfundrefnau Thematisg Mynegiant. Yn debyg i Archgyfundrefn, ceir ym mhob Cyfundrefnwaith Sfferol Gyfundrefn ddiffiniol sydd ar flaen pob Sffêr Ddeunyddiol. Mae'n bresennol ym mhob gweithgaredd o fewn y Sffêr, ac yn llywodraethol o dan oruchwyliaeth yr Absoliwt.

Rhydd ail bennod *Golwg ar Deyrnas Crist* gyfle i esbonio'r gwahaniaeth hanfodol rhwng natur fewnol yr Archgyfundrefn strwythurol (Cyn-Dafod) a'r Sfferau Cyffredin Deunyddiol (gan gynnwys Ffiseg).

Crynhown y panorama hwn.

Mae ARCHGYFUNDREFNAU cynieithyddol deall ac iaith, megis 'Gwahuno' a'r 'Amryw-yn-Un', yn aros yn sefydlog hyd heddiw. Maent yn rhyngwladol, hyd yn oed y tu hwnt i'r gwledydd datblygedig. Mae'r olwg hon gan Bantycelyn mewn Tafod wedi aros yn ddigyfnewid erioed. Dyma wyddor isymwybodol llenyddiaeth hithau. Ni lwyddwyd hyd heddiw i wella ar yr hyn a wyddai Pantycelyn am 'fodolaeth Bodolaeth', am 'fodolaeth trefn', am 'fodolaeth bywyd', na hyd yn oed am 'fodolaeth hunaniaeth'. Ac mae ei offer ar gyfer adeiladu llenyddiaeth (drwy ddeall ac iaith) hefyd wedi aros yn sythweliadol hyd heddiw. Erys hyn hefyd yn y ddelwedd ryngwladol. Mae'r rhain yn eu mewn-gyferbyniad yn gallu darparu themâu.

Felly y mae hi pan ddown at SFFERAU Cyffredin Deunyddiol, a Sffêr Iaith. Ond felly y bydd hi mewn Mynegiant hefyd. Yr oedd ef hefyd – ac yr ydym ni – yn gallu gweithio o fewn amgylchfyd dewisol gyfnewidiol (a thrahaus fel Ffawst, os caf ddweud) yr Ego Trosgynnol a gwyddoniaeth allwyddonol. Erys safle Tafod Iaith wrth gwrs yn weddol sefydlog. Ond ymatebai Pantycelyn i ofod-amser yn ôl rhagdybiau Newtonaidd. Erbyn hanner ffordd drwy'r ugeinfed ganrif, profwyd Newton i raddau bach yn anghywir gan Einstein. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, (wedi gosod drychau ar y lleuad), profwyd bod Einstein yntau ychydig yn anghywir mewn rhai gweddau. Felly yr â gwyddoniaeth yn ei

blaen. Newidir Mynegiant o ddegawd i ddegawd bellach. Mae Ffiseg y mân a'r mawr (yr atom a'r galaethau) yn faes i'w drafod yn ymwybodol gyfnewidiol, megis Bioleg. Ac ar ryw olwg, yr ydym o'r herwydd wedi symud o ffeithioldeb realaidd yr Archgyfundrefnau i ddychymyg a throsiadau cyfnewidiol Mynegiant *wedi'u seilio* ar ffeithioldeb digon cywir. Ond erys y Sfferau eu hunain yn sail i iaith a llên megis yr Arfaeth. Fe'i cysylltid gan Bantycelyn â Chyn-natur.

Hynny yw, erys Sffêr Ffiseg er enghraifft yn faes astudiaeth a bodolaeth benodol, oherwydd erys y brif Gyfundrefn sy'n ei diffinio'n o sefydlog. Eithr ymgyfnewidia'r THEMÂU sydd y tu mewn iddi. Mae gan bob un ei Deunydd ei hun a'i swyddogaeth o fewn y Sffêr.

Ond y mae'r naill Sffêr a'r llall yn gweithredu o fewn Hierarci. Hynny yw, y mae delwedd Pantycelyn o 'Sgêm', sef undod sy'n cwmpasu'n gydlynid rhwng y lleiaf a'r mwyaf yn dal yn ddilys am ei fod ynghlwm wrth ragosodiadau cadarn ei Ddiwinyddiaeth. Y gwir yw, wrth gwrs, fod gwyddonwyr pan droediant yn eofn y tu allan i ofod-amser, wedi mentro ymadael, yn allwyddonol eu method, â'u maes eu hunain, i gofleidio dimensiwn arall ym myd trosiadau gofod-amser a Mynegiant. Chwenychant amodau Tafod, heb ei ragdybiau.

Ar lefel celfyddyd, canfyddai Pantycelyn yr Archgyfundrefnau sefydlog ar waith mewn Tafod, ond yn cael eu defnyddio'n ansefydlog mewn Mynegiant drwy Themâu, gan wybod y gwahaniaeth.

Gyda'r Archgyfundrefnau buom mewn gwirionedd yn ymdroi yn Nimensiwn yr arfaeth o hyd. Dyna'r Ffurf a'r Cynllun sydd ym meddwl Duw, fel y'u datguddiwyd yn y Gair. Dyma'r amodwyr yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ond rhan o'r Ffurf honno ei hun yw Deunydd/Ffurf. Hynny yw, arfaethwyd sylwedd i gyd-weddu â'r strwythurau cynieithyddol hyd yn oed wrth feddwl o fewn y Goruwchnaturiol. Cafwyd bellach mewn iaith yr elfen o Reidrwydd yn y Deunydd crai: ac yna, symudodd y Deunydd i fabwysiadu Ffurf.

GWWP I, 34

*Ac yno, fe agorodd ei enau sanctaidd, pur,
'Be fe, 'Boed y defnyddiau i grëu môr a thir';
A phrin y gair ddaeth allan, nes parod oedd yn awr
Bob amryw beth oedd eisiau i grëu y nef a'r llawr.*

Mae'r Deunyddiau hyn, fel y cawn weld wrth drafod Sfferau Sofran yn fanylach, yn ymrannu'n wahanol 'fathau', er bod bodolaeth Bodolaeth a Deddfau, yn aros yn faterion pur ddyrys i'r seciwlarwyr eu trafod gyda damcaniaethau'r Oes. Ond i Bantycelyn y bardd, yr oedd yn bwysig o safbwynt absoliwt, iddo adnabod datguddiad, ac nid priodol iddo ei fflyffian.

Hyd yn hyn, y Meddwl Cyffredin at ei gilydd, fu testun ein hymdriniaeth, mewn gwirionedd, ie hyd yn oed gyda'r Deunyddiau. Fe'i rhoddwyd gan Ras Cyffredin. Am yr Archgyfundrefnau meddyliol blaenaf a roddwyd i Adda, fe'u rhoddwyd yn DNA hierarcaidd pawb. Dyna'r cyfundrefnau creedig, y rhai a ddefnyddir ar gyfer pob gweithred ddeallol, ac y maent yn dal gyda ninnau heddiw, ar ffurf syrthiedig wrth gwrs.

*

*

*

Yn annisgwyl, pan ddechreuais ar y dasg o archwilio adeiladwaith cydlynol meddwl Pantycelyn, edrychwn ymlaen at ymdroi am flynyddoedd gyda Gras Arbennig. Ond fe gefais yn ei waith y cytser o Archgyfundrefnau llywodraethol cyffredinol yn amodol gynieithyddol ar hyd y llwybr, â'i liw ef a'i grediniaeth ef yn eu trawssffurfio, a'i ymwybod yn eu disgrifio. Nid yn unig yr oeddent yn helaeth angenrheidiol yn eu lleoliad rhagdybiol, ond roedd eu cyfanwaith cydlynol yn destun i'r dweud am y greadigaeth. Efenglydd catholig oedd ef.

Nid fel hyn y bwriedais i'r gyfrol hon fod yn wreiddiol. Tybiwn cyn dechrau, ar lefel lawer mwy arwynebol, y byddwn yn archwilio'r dadleuon mewn Mynegiant diwinyddol ar y pryd, a sut y datrysodd meddwl Pantycelyn (yn achlysurol) rai problemau athrawiaethol unigol yn ei brofiad ei hun. Ni feddyliwn y byddai'i waith ef yn dadlennu cyfundrefnau Gras Cyffredin i bob Deunydd a phob Mynegiant, yn ogystal â Gras Arbennig. Ni feddyliwn ond am themateg y cyfundrefnau Deunyddiol gwahân ac arferol grefyddol. Gras oedd canol Diwinyddiaeth Gyfundrefnol go iawn gynt. Ni syniwn i y byddwn yn gorfod ystyried peth o'r rheini o dan bennawd Mynegiant yn hytrach na Thafod. Fe'm hataliwyd gan y sylweddoliad o undod y ddwy lefel, a'r berthynas rhyngddynt: Gras Cyffredinol cyn y Creu/Gras Cyffredinol yn ystod y Greadigaeth, ynghyd â Gras Arbennig wedi'r Cwmp, gyda Gras Cyffredinol ar ôl diwedd y Greadigaeth. Bu'n rhaid felly ychwanegu Cyfundrefneg y Sgêm gyfan o fewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol am ei bod eisoes yno ynghudd. Bu'n rhaid ystyried Ffurf gydlynol meddwl Pantycelyn.

Tyfodd famgyffrediad o Ras Cyffredinol.

Gweddnewidiwyd y cynllun disgwyliedig wrth ddilyn y ffeithiau. Caf fod yna strwythur Tafod i bawb, a Mynegiant i bawb, ond bod natur yr Absoliwt yn amodi'r Tafod, cyn y Mynegiant yn gynhwysfawr, ynghyd â Sffêr Ddiwinyddol fwy soffistigedig.

Tybiwn mai'r math o lyfr a gawn fyddai un a chwiliai'r hyn a ddatganai Pantycelyn mewn llinellau fel y rhain:

GWWP I, 227

*Chytuna' i ddim â Baxter sy'n rhannu'r cyfiawnhad,
Na Chrisp sy'n doddi'r gyfraith yn hollol tan ei drâ'd;*

Yr oedd Baxter yn ddisgybl i William Ames. Pwysleisiai Ames, nid yn annhebyg i Galfin, y ddwy ochr i Gyfamod Gras – yn gyntaf, Cyfamod y Drindod i achub yr etholedigion ac yn ail y cynigiad o ras yn yr Efengyl i bawb sy'n edifarhau ac yn credu. Yna, es ati i astudio Baxter, ac Amyraldiaeth, yna Tobias Crisp, ac yn y blaen, gan droi'n ôl yn gyson at Owen Thomas a Gwili, ac wrth gwrs R. Tudur Jones. Rhoddodd dadleuon o'r fath ffrwythlondeb i drafodaeth. Fe'm harweiniwyd i at Alleine a Bayly, Vavasor Powell, Morgan Llwyd a Stephen Hughes. Wedi sylwi ar yr Archgyfundrefnau cynieithydol ar waith yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, sut bynnag, pethau a oedd yn trefnu pob cyfundrefn arall ac yn amodi holl themâu gwaith Williams, penderfynais mai priodol fuasai troi ar y pryd, yn eu goleuni hwy, yn ôl at yr un dadleuon hynny, gan dybied o hyd mai yn y cyfeiriad rhestrol hwnnw y cawn ateb i'm hawydd i ddisgrifio syniadau cydlynol Williams. Hynny yw, disgwyliwn o hyd arolygu rhychwant meddwl Pantycelyn drwy fwrw golwg dros restr o safbwyntiau diwinyddol a oedd yn rhyngieithyddol. Symudwn o bwnc i bwnc yn ôl y pynciau llosg felly yn y cyfnod hwnnw. Ond ddi'n fwyfwy amlwg i mi wrth ddarllen *Golwg ar Deyrnas Crist*, fod Pantycelyn ei hun yn fwy gwreiddiol ac wedi darganfod cydlyniad mwy cyffredinol a sylfaenol. Fe'i syfrdanwyd ef gan gyfanwaith celfydd Crist: Sgêm. Safodd ef yn ôl. Roedd y dystiolaeth ei hun yn gofyn i minnau sefyll gydag ef ac archwilio'r cydgysylltu deallol hwn mewn modd hierarcaidd. Eithr wedi sylweddoli wrth olrhain rhagdybiau Williams fod angen camu drosodd o ddisgyblaeth y Cyfundrefnau Ffurfiol cynnil i blith helaethrwydd o bynciau a themâu a dadleuon a chyferbyniadau safbwyntiol a datganiadau dogmatig, ymholwn yn ddwys ymhle'r oedd y cydlyniad hwnnw? Beth yn union oedd y bont drosodd o Archgyfundrefnau strwythurol i Ddeunydd llenyddol? A oedd yna drefn amgenach ac adeiladwaith yn gydlynol yn y Deunydd? Sut yr oedd Williams – a phob un arall o ran hynny – yn gallu cysoni a chysylltu'n grwn ein gwahanol ddulliau o wahuno bywyd â llwybrau thematig? A oedd yna berthynas gyfansawdd yn yr holl 'ddadleuon', ynteu ai cymysgedd a chawdel a rhestr ddigyfundrefn oedd hyn? Artist oedd Williams. Gan bwyll, sylweddolwn fod yn rhaid dechrau ymhell oddi wrth y llusedd. Yr oedd Pantycelyn ei hun wedi canfod trefn hanfodol. Onid oedd Duw ei hun wedi dewis gweithio drwy gyfundrefnau crwn mewn Natur o hyd, ac wedi darparu yn yr Archgyfundrefnau ffurfiol hwythau fodd ac allwedd i ganfod ac i lunio cyfundrefneg gyflawn i feddwl hardd ynghylch Deunydd llenyddiaeth oll hefyd?

Ond sut y gallai cyfundrefneg go gynnill o'r fath fodoli a gweithredu mewn Creadigaeth gyflawn mor gyfoethog amlochrog?

Yna, yn y pendronod hwnnw amlygai Pantycelyn egwyddor y cyfundrefnau. Fe gofiais hefyd am Sfferau Deddfog Dooyeweerd mewn dosbarthiad ystyrllon wrth arolygu moddion o brofi deunyddiau dyn ar y ddaear. Dyma ddatganoli'r Ymerodraeth o Greadigaeth, fel y sylwodd Pantycelyn yntau ar amllder y drefn hithau. Arweiniai hyn at drefn llên. Cyfarfyddai'r Artist â'r Gwyddonydd yn y Cristion.

Cofiw'n hefyd, o safbwynt Themateg, am Propp a'r *Motiffau*.

Ac fe ddaeth dau gam pellach yn amlwg i'm hanesmwytho i. Yn gyntaf, presenoldeb yr hyn a alwn yn BRIF GYFUNDREFN I DDIFFINIO POB SFFÊR DDATGANOLEDIG. Beth bynnag am yr amrywiaeth o gyfundrefnau eraill a fyddai ar waith o fewn y Sfferau, yr oedd yn rhaid cael un gyfundrefn allweddol a diffiniol o leiaf ar y blaen ym mhob un a oedd yn 'neilltuo' natur y Sffêr arbennig honno ei hun ac y ei diffinio. Dyma'r gair ardderchog 'rhaid' eto. Yr oeddwn yn ôl ym maes realiti. Gwelsom 'raid' eisoes gyda'r Archgyfundrefnau Strwythurol; OND RHAID OEDD HEFYD GYD-DDEFNYDDIO POB DEUNYDD Â CHYFUNDREFN THEMATIG. Yr oedd hwnnw yn 'rhaid' gwahanol. 'Rhaid' ydoedd i lenor neu i ddiwinydd yn awr dramwyo'n weithredol drwy'r holl gytser hwn yn anochel isymwybodol er mwyn darganfod bywyd pob un drefn gyfundrefnus yn ei thro. Offer dethol ffurfiau Deunydd oedd y strwythurau hynny i drefnu Deunydd yn rheolaidd gytûn mewn dosbarth ac mewn bodolaeth weithredol ar y pryd. Sut y cafwyd 'rhaid' newydd, felly, gyda'r Deunydd amrywiol a gwahaniaethol hwn mor amryfal? Yr oedd y Deunydd yn rhy luosog i'w storio mewn Tafod ffurfiol isymwybodol. Onid maes Geirfa oedd hyn oll, ac yn fythol newidiol? Onid oedd hyn yn cyfateb i Ddeunydd llenyddiaeth i gyd?

Yn gyntaf, fe'i ceid drwy ddiffinio hanfod swyddogaeth pob dosbarth Deunyddiol yn angenrheidiol er mwyn trefnu hunaniaeth pob sffêr, yn ddeddfog unigol. Hynny yw, yn wahanol i'r Archgyfundrefnau a oedd gyda'i gilydd yn gyd-angenrheidiol ar gyfer pob pwnc i drefnu bodolaeth Cyfundrefnau cyffredin, yn awr gweithid fesul Sffêr. Rhaid fyddai gweithio yn ôl yr hyn a drafodid gan y pwnc ar y pryd, bob un yn ynysig semantaidd, yn ôl ei ddeddf ddiffiniol hunanlywodraethol ei hun. Byddai Prif Gyfundrefnau allweddol gwahanol y Sfferau Deall mewn Tafod yn gweithio mewn modd tebyg o fewn grwpiau neu themâu neu gylchoedd i gwmpasu dosbarth ystyrllon. Ar gyfer pob Sffêr ceid un brif gyfundrefn ar waith yn ôl ei ffwythiant ei hun.

Wedi cydnabod o hyd mewn Deunyddiau elfen o gynildeb cyfundrefnol crwn o'r fath mewn dosbarth ac mewn bodolaeth weithredol, dyma gorffori'r ffaith yn adeiladwaith Tafod – a 'rhaid' – yn yr ymgais hierarcaidd i ddod o hyd i drefniant syniadol isymwybodol Pantycelyn. Adeiladwaith neu Dafod ydoedd ar gyfer gweithredu unigol mwy rhydd. Dyma

hefyd symudiad i gyfeiriad Mynegiant. Ac felly, teithid ymlaen yn awr oddi wrth fodolaeth y Sfferau tuag at y *themâu cyfundrefnol* a *motiffau* bob amser yn drefnus o fewn Deunydd. Ac un o nodweddion *motiffau* oedd eu bod weithiau'n ymffurfio'n deuluoedd. Ceid bod y rhain yn grwpio o gwmpas Themâu penodol. Ceid rheoleidd-dra ac ailadrodd ac aralleirio o hyd. Ac yr oedd y themâu yn digwydd, fel y sylwasom, o fewn meysydd Deunydd 'hunanlywodraethol'. Hynny yw, yr oedd math o drefn neu o gyfundrefnau'n digwydd ar gyfer amllder yr amrywiaeth mewn Mynegiant, er mwyn cynorthwyo deall.

Nid cyfundrefnau datblygedig oedd y Motiffau mân eu hunain. Pethau diriaethol, solet, ymddangosiadol wasgaredig yn y synhwyrau oedd y rheini o fewn y themâu cyfundrefnol. Cynnyrch terfynol clymedig oedd yr unedau thematig bychain hyn, y *Motiffau* hwythau, o fewn themâu o fewn Cyd-sfferau Deunydd. Weithiau byddent yn aruthrol o amrywiol ddigyswllt anarchaidd i bob golwg. Ond weithiau byddent yn ymbatrymu fel petai, a phob amser mewn trefn. Oni raid oedd bod cyfundrefnau hefyd o fath y tu ôl i rai lled aralleiriol, ac yn glymbleidiol ymhlith y *motiffau*? Eithr nid yn unig mewn Tafod yn grwn: yr oeddent bellach yn rhy rydd a phersonol a thros dro. Rhaid oedd bod Mynegiant hefyd yn gynneddfol yntau'n dal i geisio trefnu cyfundrefnau (Mynegiant) iddi'i hun. Mae yna ysfa am drefn ble bynnag drwy'r Greadigaeth.

Cyfundrefnau mewn strwythurau o fath a oedd yn eu rheoli a'u cyflyru drwy gydol yr Hierarci, hyd yn oed mewn Mynegiant. 'Arferiadau' o fath a gaed ar gyfer Mynegiant, ond arferiadau achlysurol, a ddaliai o hyd o dan hudoliaeth Undod. Darparai'r strwythurau Deunydd hyn y 'Cyfundrefnau' thematig bellach, ddwedwn i. Safai'r rheini yn anweledig y tu ôl i'r *Motiffau*. A dyma hwy felly yn llenwi bwlch mewn modd anochel yn yr hierarci, ac yn datrys y darn olaf yn y jig-so.

Gwelsom 'Gyfundrefnau mewn Mynegiant' o'r blaen wrth drafod yn gyfredol un lefel ym *Meddwl y Gynghanedd*: e.e. y mesurau; cymeriad ar ddechrau llinellau; odl enerig; cyhydedd. At ei gilydd, roeddent yn fwy ymwybodol na chyfundrefnau Tafod y Gynghanedd. Rhan o'n gwaith bellach oedd pennu pa gyfundrefnau a oedd ar waith yn gyfredol wrth ddarganfod *Themâu* a *Motiffau* yng ngwedd Deunydd. Ym maes Mynegiant, y mae'r Deunydd mor amlochrog amrywiol â'r Ffurf.

Mae'r patrymwaith oll yn awr drwy gwlwm cyfundrefnau deunyddiol neu thematig yn amlinell o feddylwaith unrhyw lenor. Cawsom o'r herwydd *Gerdd Dafod* Thematig felly. A deallem natur 'rhyddid' amrywiol y *Mynegiant* yn ei sgil.

*

*

*

Hyd at y Deunyddiau, buom yn sôn am Ffurfiâu cynieithyddol oherwydd bod Duw yn ei ddatguddio'i hun fel Duw trefnus. Ac felly hefyd y rhydd drefn i'r meddwl dynol. Ond pan ddown at Sffêr Ffydd, fe ddown wyneb yn wyneb â *Natur* Duw, a pherthyn gwahanol hollol. Nid Duw amhersonol haniaethol yw'r Duw Absoliwt y buom yn sôn amdano. Duw'r perthyn yw. Delweddir Ef gan Bantycelyn fel Duw personol, creadigol. Iddo Ef, dyma'r Creawdwr a'i carodd, ac ar ffurf y Mab a'i rhoddodd ei hun dros bechaduriaid. Fe'i cyflwynir i ni mewn dwy thema, y naill sef Hanes y Greadigaeth yn 'Golwg ar Deyrnas Crist' a'r llall sef hanes y Waredigaeth yn 'Theomemphus'. Duw Goruwchnaturiol a gwmpasai'r Naturiol, trefn Cariad.

Wrth nesáu at ddwy brif thema Pantycelyn fel hyn, sydd o anghenraid yn ymwneud â'i Ffydd, dichon nad cwbl newydd yw dosrannu'i Ddeunydd yn ddwy ran, y Creedig a'r Gwarededig (neu beidio). Ac y mae iddynt, ill dwy, ran arwyddocaol hefyd, nid yn unig wrth amlinellu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol a Beiblaidd yn gyffredinol, eithr hefyd hyd yn oed wrth ystyried natur agwedd y dyn seciwlar tuag at yr Absoliwt a thuag at yr Absoliwt a'r Deunydd yn ddeuol. Ceir yn niwedd y broses o lenydd, gan Bantycelyn, adlewyrchiad panoramig o'r hyn a oedd yn botensial o'r dechrau.

Yn gyntaf, mae'n golygu mai Duw yw'r Creawdwr. Hynny yw, esbonnir unoliaeth. Duw yw Hanfod, Achos, a Tharddiad *bodolaeth* a threfn a bywyd pob dim. Yr amgylchfyd oll. A mynegir hyn yn blwmp ar ddechrau *Golwg ar Deyrnas Crist*. Felly, Ef yw Creawdwr yr holl Sfferau Deunydd yn ddiwahân, gan roi iddynt eu swyddogaeth a'u trefn.

Yn ail, mae'n golygu *perthynas* dyn yn benodol â'r Absoliwt, a dyn bellach mewn cyflwr gelyniaethus neu ar wahân i Dduw yn gynhenid. Hynny yw, mae a wnelo â swyddogaeth Duw fel Cynhaliwr, ac felly fel Gwaredwr. Mynegir hyn yn *Theomemphus*, yn ogystal ag yn rhan o *Olgw ar Deyrnas Crist* sy'n weddill ar ôl dilyn y Creu a'r Gwrthryfel. Yma y cynhwysir y modd y mae Duw yn trafod pechod ac yn perthyn i ddyn.

Mae'r ddeuoliaeth hon yn golygu deuoliaeth ystyr 'Ffydd'. Ar y naill law, y mae 'Ffydd' yn cydsefyll gyda'r Sfferau Deunydd eraill, ac yn cynnwys bellach yn negyddol yr hyn a elwir yn Anffyddiaeth. Ond mae Anffyddiaeth yn golygu mewn gwirionedd yn y gwraidd Oddrychaeth Absoliwt y 'Fi' fawr, yr Ego Trosgynnol ac Empeiriaeth faterol. Dyma ragdyb absoliwt Pethau (Ffenomenoleg) a Rheswm Amddifad. Mae 'Ffydd', felly, yn cydsefyll â Deunyddiau eraill yn y Greadigaeth fel ffenomen. Eithr y mae'n golygu hefyd ragdyb a swyddogaeth unigryw sydd a wnelo â pherthynas â'r Absoliwt hollgynhwysfawr ac ystyr yr Arfaeth oll. Yn ymateb y seciwlar, y mae wrth gwrs a wnelo 'Ffydd' â'i absoliwt ef ei hun, neu â dimensiwn naturiol. Cofia'r credadun fod Ffydd yn golygu nid yn unig credu *bod* absoliwt, ond y dibyniant hefyd.

A'r ffordd orau a mwyaf dealladwy a theg i gyfleu hyn oll yw ffordd y bardd. Â ef o gam i gam mewn Mawl.

Yn yr Adran ganlynol sy'n canollbwyntio ar Ddeunydd, trafodir yn gyntaf y 'Sfferau' Deunydd creedig. Wedyn, o dan Gyfundrefnau Thematig bwrir golwg, drwy ganollbwyntio ar 'Themateg' Pantycelyn, dros weithredoedd Duw yn ei berthynas â dyn yn gyffredinol, ac yn arbennig yn ei gyflwr syrthiedig. Ac yn olaf, o fewn y Gyfundrefn unigol – yn arbennig y Rhannau Ymadrodd Naratif, - trafodir y 'Motiffau', brics bach Thema.

* * *

Croeswn drothwy pwysig wrth symud o haenen feddyliol strwythur yr Archgyfundrefnau cynieithyddol i faes Deunydd – Sfferau Deunydd a Themâu Deunydd. A diddorol sylwi fel y mae Guillaume yn ei waith wedi ymatal, at ei gilydd, yn ei holl *oeuvre*, rhag trafod yn fanwl Ideogenesis yn y gyfundrefn ieithyddol gyntaf (*Ideogenesis / Morphogenesis*), er ei fod yn ymdrin â bodolaeth y symudiad o safbwynt ieithydd sy'n arolygu'r traws-symud o Dafod tuag at Fynegiant.

Pan soniai Guillaume am *Dafod/Mynegiant* fel yr *Wyneb-yn-wyneb mawr/wyneb-yn-wyneb bach*, sef dyn wyneb yn wyneb yn ffurfiol â'r Bydysawd (Tafod)/ ac wyneb-yn-wyneb â chyd-ddyn (Mynegiant), siarad yr oedd fel ieithydd pur a seciwlar am ddadansoddi a chyfansoddi ffurf. Fe wynebai Pantycelyn yntau gyferbyniad cyffelyb ym myd Deunydd. Ond, yn gynieithyddol, yr Absoliwt a'r Arfaeth oedd yr *Wyneb-yn-wyneb mawr* iddo ef: yr oedd yn lletach ei gynllun felly na man cychwyn Guillaume, wrth reswm, ac yn tyrchu'n ôl at y Wraidd-gyfundrefn gyn-ieithyddol. O ganlyniad y mae ei olwg ar Fynegiant hefyd yn wahanol.

Trown yn y fan hon i sylwi ar Themâu Deunydd. Ond adeileddwr oedd Pantycelyn yntau yr un fath: strwythurwr mewn Diwinyddiaeth. Trafferth adeileddwyr neu strwythurwyr seciwlar yr ugeinfed ganrif, yn hanes theori llenyddiaeth, oedd nad aent ddigon ar ôl Tafod. Byr fu eu gyrfa o'r herwydd. Cawsant fformiwla Saussure ynghylch perthynas sain a synnwyr er mwyn dod o hyd i'r 'Gair'. Ond yr oedd hynny'n annigonol hollol heb Dafod (a deinameg Guillaume). Nid oes i'r gair 'Gair' wir aeddfedrwydd seciwlar nes iddo gael lle mewn gramadeg. Heb Dafod nid yw strwythuro Mynegiant yn mynd i unman, namyn yn argraffiadol.

Felly, cyn iddo drafod Deunydd, yr oedd gan Bantycelyn ei drefn gynieithyddol. Ar ryw olwg, tywalltwyd y Deunydd i ffurf barod honno cyn mynd yn ei flaen i ddatblygu Ffurf ieithyddol. Mewn geiriau eraill yr oedd llenor yn meddu ar Ffurf cyn iddo lunio'r Deunydd,

ac wedyn, fel siaradwr. Mae yna olyniaeth *Ffurf gynieithyddol/ Deunydd ieithyddol/ Ffurf ieithyddol*.

Felly hefyd y mae hi yn achos y seciwlarydd. Fel y mae'n rhaid iddo ef/hi gael absoliwt, er nad yw'n hoffi'r syniad, ac Archgyfundrefnau cynieithyddol (er nad yw ceidwadwyr yn aruthr hoffi'r syniad hwnnw chwaith), felly pan ddaw at lefel Deunydd llenyddda, y mae'r seciwlarydd yn yr un safle â'r Cristion o safbwynt ffurfiol. Gall cyfeiriad neu naws y ffurf fod yn wir wahanol, ond y mae ffurf fel sefydliad yn aros. Ceir y gwahaniaethu gwreiddiol nid yn y fan hon o ran Cynnwys, eithr eisoes yn natur yr Absoliwt (absoliwt) ac ym Mynegiant y Sfferau ystyr. Ceir corff o amodi cynhenid y tu ôl ar lun *Arfaeth/Ffurf* ac *Arfaeth/Deunydd*.

Cyffelyb (i raddau) yw'r hierarci gynhwysfawr yn y broses o lunio Deunydd a Ffurf mewn Mynegiant, boed yn grefyddol neu'n seciwlar, hyd yn oed gyda Sfferau Deunydd. Yr un Sfferau sydd ar gael i'r ddwy ochr. Ac mae'r holl bwyntiau yn y broses yn eiddo i'r crefyddwr ac i'r seciwlarydd fel ei gilydd, ac i'r Cymro a'r Americanwr, er bod agwedd neu ansawdd y cynnwys yn amrywio. Dilynir yr un cynllun cyffredin i esgor ar Ddeunydd. Ac mewn Diwinyddiaeth dynodir y ddawn i wneud hynny fel rhywbeth sy'n tarddu mewn Gras Cyffredinol. Gras Cyffredinol yw'r holl Hierarci sy'n esgor ar Ffurf ac ar Ddeunydd a ddisgrifir yn y gyfrol hon. Hyn sy'n cyflyru'r themâu.

Dyna'r adnodd ffurfiol sydd ar gael ar gyfer pawb, boed yn gredadun neu'n anghredadun.

Ond wrth gwrs, mae natur y cynnwys – nid bodolaeth y cynnwys – yn wahanol ar hyd y llwybr, gan ddechrau yn yr Absoliwt/absoliwt. Ac felly, ar ryw olwg, y mae'r ymrannu'n cwmpasu pob pwnc a thema; ond y mae'n arbennig o amlwg gyda'r uniongyrchol grefyddol.

Hynny yw, oherwydd y broses hierarcaidd, mae gan Ddeunydd drefn, drwy ffurfiant perthynas yr Absoliwt a'r Archgyfundrefnau Ffurfiol neu Ffurfiannol, ac ymlaen. Ond y mae gan bob deunydd hefyd ffurf ynddo'i hun ac ohono'i hun. Mae yna feysydd, moddau, neu Sfferau rhyngwladol ar Ddeunydd. Fe'u trefnir hwy drwy ddeddfau arweiniol neu ddiffiniol yn ôl swyddogaethau gwahanol sy'n dosbarthu'r Cynnwys.

Yng nghyd-destun 'gwyddonwyr', sy'n hapus fentro'n rhagdybiol y tu allan i ofodamser a rheswm, mae'n bwysig trafod yr eithriadau neu'r problemau sfferol mewn Deunydd Llenyddol. Cymerer 'statws' Ffydd (Diwinyddiaeth), Moeseg, Ffiseg, Iaith a Llenyddiaeth. Mae Diwinyddiaeth yn ystyried arwyddocâd gweledig ac anweledig materol ac ysbrydol pob peth, gofod ac amser, a thragwyddoldeb. Mae Iaith a Llenyddiaeth hwythau

hefyd yn gallu trafod pob Sffêr. Ond nid felly Ffiseg. Trafod maes cyfyngedig neu wedd arbennig ar fodolaeth neu feddwl a wna honno heb sicrwydd gwybod cydlynol.

Dathliad o ffurf Iaith yw Llenyddiaeth. Un o emynau mwyaf nodedig y casgliadau o *Aleluia* yw'r emyn ar dud. 19-23. Sylwer ar y bedwaredd ran, sy'n dechrau â'r llinell 'Sancteiddrwydd im', yw'r Oen dinam'. Mae'n gerdd hir o 34 o benillion mewn pedair rhan. Rhydd ddiffiniad cynhwysfawr odiaeth o Grist, ac fe'i hamgylchir gan holl Gyfundrefneg Ddiwinyddol. Eto, y mae'r cwbl yn canu. Mae'r meddyliau'n gynghanedd bur ac yn sicrwydd gorfoledd. Yn holl gyfundrefnwaith ei feddwl, dathlu sefydlogrwydd Gwirionedd y Beibl yw byrdwn Pantycelyn.

* * *

Cyhoeddir erbyn diwedd yr amlinelliad hwn o Hierarci Deunydd, symllder gwneuthuriad y frawddeg a'r *Motiff* ieithyddol yn ogystal â'r llenddull mewn Mynegiant. Wrth droed yr Hierarci saif yr elfen fechan hon. Ond y tu ôl iddi, gan ei hamodi, saif holl gyfundrefnwaith iaith a llên, yn ffurf ac yn ddeunydd. Â'r offer elfennaidd sythweliadol hyn, y mae'r weledigaeth a'r dychymyg dynol yn llwyddo i gwmpasu gwreiddioldeb amrywebau di-ben-draw y Greadigaeth, megis gyda gramadeg yn holl gyflawnder yr iaith. Ymestynnir drwy amllder geirfa i lawnder llenyddiaeth.

Y fframwaith thematig cwmpasog hwn (megis y fframwaith storïol) yw'r un ar gyfer y frawddeg aeddfed a'r motiff. Triol yw, ac Unol yw â fframwaith y rhannau ymadrodd traethiadol: Cymeriad/Digwyddiad/Amgylchfyd neu Wrthrych. Dyma rannau ymadrodd deunydd, a'u cydlyniad mewn dibyniaeth. Ac oherwydd Tafod, a'i adeiladwaith cywraint-sympl o adeileddau canolog, y medrir gwylid ffrwydro'r helaethrwydd Mynegiant wedi'i angori mewn trefn. Allan o'r 'ychydig' awdurdodol mewn Tafod y daeth cyfoeth Mynegiant yn achos Pantycelyn. Daeth iddo gannoedd o delynegion amrywiol, arwrgerddi, marwnadau, prydestau, 'nofelau', llythyrau, traethawd trwm ac astudiaethau bach ymarferol, hacwaith a gwaith ysbrydoledig egnïol y cwbl wedi'i wreiddio mewn cyfundrefnwaith syniadol solet a chyffredinol. Felly gellir dweud: 'drwy elfenoldeb diniwed y llenddull a'r frawddeg gyffredinol y tarddodd llenyddiaeth oll'.

Wedi ceisio rhoi yn ei le fel hyn fraslun o Hierarci adeiladwaith Deunydd y paratoad meddylol, bydd yn briodol symud ymlaen i drafod y Themâu 'lleol', y deunydd ar waith mewn dosbarthiadau trefnus. Ond gwiw cofio y buasai Pantycelyn yn cydnabod bod y symllder trefn hwn, os yw'n gywir, yn cael ei adleisio yng ngwneuthuriad syml hierarci diwinyddiaeth hithau. Yr oedd 'bywhau'r ysbryd dynol' drwy waith yr Ysbryd Glân, gan mor elfennaidd oedd, ar gael hefyd ar gyfer y symlaf o bobl. Yr oedd term technegol megis

Cyfiawnhad yn golygu gwaith gorffenedig potensial ‘berffaith’ i’r gwerinwr diaddysg megis i’r ysgolhaig. Ac allan o’r adferiad syml hwnnw a’r sythwelediad a’r drefn, agorwyd o’r newydd berthynas â Duw; mor elfennaidd, mor ostyngedig. Ni all neb ddeall y cwbl sy ar waith; ac eto, er ymestyn wrth gwrs ymhellach o lawer na bywyd hyd y mwynhad mwyaf, dilynai sancteiddhad a gogoneddiad yn ‘syml’ drwy’r cymhlethdod oll. Canfuwyd Penarglwyddiaeth Duw yn y gwraidd. Sylweddolwyd fwyfwy dreiddgarwch Ei arwahanrwydd. Profwyd llawnder cariad Duw. Heriwyd y byd cyflawn. Ac fel llenyddiaeth (ac iaith), yr oedd a wnelo diwinyddiaeth o’r herwydd â phob cornel o’i fywyd. Ac ni ddylai o ran natur o’r herwydd fod yn llai na chynhwysfawr o ran estyniad posibl y meddwl dynol, duwiol. Fel y daeth amllder Mynegiant allan o grynoder Tafod, felly i Bantycelyn daeth amllder gofod ac amser y Greadigaeth allan o’r Sgêm.

II Y SFFÊR DDEUNYDDIOL GYNTAF: FFYDD

(Cyfundrefn arweiniol — *credu/anghredu*)

Perthynas Duw a dyn yw Ffydd. Yn achos y Seciwlarydd, dibyniant dyn arno ef ei hun yw.

Ni bydd gwyddonwyr allwyddonol cyfoes sy'n ymhoffi mewn newyddiadura yn cymryd Ffydd o ddifri. Mae hynny'n beth rhyfedd gan mor gyflawn yw eu dibyniaeth ar ragdyb anweledig. Mae a wnelo Ffydd yn sylfaenol â dimensiwn perthynas ddeddfol *goruwchnaturiol/naturiol*, gan mai ystyr y fath ragosodiad yw bod a wnelo ef â 'dewis' egwyddor anwel y tu allan i amser a lle daearol. Nid yw Ffisegwyr yn anghyfarwydd mwyach â'r posibilrwydd hwn o 'ddimensiynau' heblaw'r un 'naturiol' amlwg. Ond nid oherwydd Rheswm y gwrthodir wynebu 'Ffydd' — a'i chysylltiad heriol â'r Crëwr (neu'r Achosydd, y Symudydd) cyntaf, Trefn yr Hollfyd (cyfundrefn yr atom, cell, organau), Bodolaeth Deunyddiau, Bodolaeth Bywyd (Cyfundrefnol gan gynnwys deall a gramadeg iaith), Hunanymwybyddiaeth Feirniadol a'r Gydwybod Foesol, a Gwth cyfeiriol creadigol datblygiad. Ystyr 'credu' i Bantycelyn oedd dibynnu neu ddisgyrchu'n ysbrydol ar Fod Personol-Dragwyddol. Sylweddolwyd hyn erioed gan ddynoliaeth oherwydd bod gan ddyn synnwyr o Dduw (Gras Cyffredin), ac yn amgenach oherwydd darparu i rywrai Fywhau Ysbrydol (Gras Arbennig). Dibynnai Pantycelyn ar Dduw yn y Greadigaeth a'r Waredigaeth.

Os na chymerir *credu* a'r *ysbryd* o ddifri, mwy o lawer yw'r ysfa gan Allwyddonwyr i beidio â chymryd *anghredu* o ddifri. Dyma'u pechod gwreiddiol. Fel y dibynnai dyn ar ddisgyrchiant daearol, felly y dibynnai hefyd ar ddisgyrchiant ysbrydol yn ei berthynas negyddol â Duw. Cafodd dyn gyfle syml i sylweddoli llawnder gogoneddus yr ail ddibyniaeth hon, a gwybod mor eithafol oedd canlyniad a natur ei gwrthod. Pechod (sef marwolaeth perthynas) oedd ystyr yr anghredu. Darlunnir i ryw raddau anferthedd y Cwypw hwnnw gan Bantycelyn ym mywyd a gwaith Theomemphus. Os yw dyn yn etifeddu'i gyneddffau a'i ddoniau cadarnhaol gan Adda, nid syn yw bod Pechod (a Marwolaeth) hefyd yn rhan o'r felltith a ddewisodd ef iddo'i hun, melltith a adnewyddir ym mhob cenedlaeth drwy anghredu braidd yn anwreiddiol. Methu â dibynnu ar Dduw yw gwreiddyn Pechod gwreiddiol.

Yr atgyrch naturiol yw rhoi'r bai ar Dduw am iddo ganiatáu ewyllys rhydd i Adda, ac am i ddyn ddwyn melltith, ac nid yn unig arno ef ei hun, eithr hefyd ar y Greadigaeth. Cais allwyddonwyr llythrenolaidd sôn fel y profwyd bellach drwy seryddiaeth neu 'oleuni gwybodaeth fodern' nad dyn yw coron y Greadigaeth. O leiaf, daliant ati i chwilota am ei amgenach. Bychenir cyfrifoldeb dyn am y drwg a wna iddo'i hun, i'w gyd-ddyn, ac i'w

amgylchfyd ym mhob cenedlaeth. Ceisir symleiddo cyfundrefn berthynol *Penarglwyddiaeth Duw / Cyfrifoldeb dyn* drwy fynnu rhesymu, o fewn amser a lle, fater sy'n amlwg yn perthyn i'r dimensiwn tragwyddol. I'r anghredadun, esgus yw cynnal ei greddo mewn gwacter ac absenoldeb, diffyg pwrpas ac ansicrwydd. Dyma bethau sy'n fath o amddiffyniad rhag Duw, gan Ei feio Ef yn gyfleus am bob poen a chamgymeriad, balchder a chabledd. Gwahanu ac alltudio cosmig oedd yr hyn a ddilynodd o raid i Adda wrth wrthod disgyrchiant ysbrydol. Ceisid gosod o'r herwydd gyfrifoldeb am bob ffeidd-dra dynol ar Dduw. 'Gweithred Duw' yw'r term cyfreithiol, bob amser, am ddigwydd *negyddol* na ddeallir ei darddiad. Ond yr hyn a wneir mwyach yw mynnu 'rhesymu' hygoelus yr un-dimensiynol yn symleiddiol tost, a chofleidio relativrwydd yn unplyg.

Yn achos y Cristion, datguddir ail gyfle yn ei berthynas â Duw a bywyd tragwyddol. Ond unwaith eto, rhoddir gwybod mai sôn yr ydys am fywd yn ei lawnder absoliwt.

Yn achos y Cristion, datguddir ail gyfle yn ei berthynas â Duw a bywyd tragwyddol. Ond unwaith eto, rhoddir gwybod mai sôn yr ydys am fywd yn ei lawnder.

Felly y gwelwn fod a wnelo Ffydd i Gristion â mwy nag addoli Duw a dibynnu arno ar un diwrnod yn yr wythnos, ond ag ymarferion Ffydd bob eiliad ar hyd yr wythnos, ac ymhellach â'r dimensiwn sydd i bob Deunydd arall yn ei fydysawd yn y Tragwyddol bersonol. I'r Seciularwr yntau hefyd, wrth gwrs, y mae a wnelo yntau â holl ymarferion ei Ffydd yn yr Ego Trosgynnol saith diwrnod yr wythnos.

Eto, wrth i lenor o unrhyw ffydd feddwl Deunydd llenyddol, y mae ei feddwl yn meddiannu ffurf ddirnadol o raid. Edrycha ef yn reddfodol drwy drefn. Mae ganddo ffydd isymwybodol mewn trefn. A byddwn i'n dadlau fod y dosbarthiad deallol hwn o Ddeunydd, sydd ganddo, yn darparu hefyd ddelwedd o fywd. A bywyd yw hwnnw a gydlynir ac a fynegir drwy holl gyfundrefnau deallol isymwybodol ac ymwybodol bodolaeth.

Cyfundrefnu 'ffurfiol' fu prif thema fy ngwaith academiaidd innau erioed o *System in Child Language* hyd *Meddwl y Gynghanedd*. Chwiliwn am gyfundrefnau Ffurf (gan gynnwys Ffurf Gynhaliol) sy'n bod yn isymwybodol mewn iaith a llên (a chan gynnwys beirniadaeth lenyddol). Dadleuwn mai drwy gyfundrefnau y byddwn yn meddwl oherwydd bod holl atomau'r bydysawd, a holl organau'r corff, ac iaith hithau yn gyfredol. Hynny yw, drwy wahuno (drwy wahanu a thrwy gysoni; drwy gyfuniadau cyferbyniol; drwy unedau cyd-dibynnol) y deallwn. A dadleuwn hefyd fod Ffurf gyfundrefnol Cyn-Dafod yn rhagflaenu Deunydd.

Dyna amodau cynnil Ffurf, felly. Perthyn Deunydd llên ei hun i nifer anghynnil iawn o themâu o fewn Sfferau cymharol gynnil. A pherthyn y rheini i Fyngiant.

Ym maes Diwinyddiaeth, yr oedd gan William Williams, Pantycelyn adeiladwaith meddyliol tra datblygedig. Roedd peth ohono'n ymwybodol, peth yn isymwybodol; peth yn gyffredinol i ddynoliaeth, peth yn eiddo i Gristion yn unig. Ac felly, roedd ganddo ei Ffurf Ddeallol yn amodi'i Ddeunydd; a'i Ddeunydd ieithyddol yn amodi'i Ffurf. Treiddiai'r naill drwy'r llall. Cydredent yn gyfochrog ar y pryd â rhagdybiaeth 'Ffydd' yr empeirwyr. Yr oedd gan y rhain hwythau hefyd eu ffydd a'u habsoliwt.

Ar ryw olwg, nid oes y fath beth ag 'anghredinwyr' go iawn. Mae pawb yn credu'n ffyddlon eu bod yn byw, ac yn deall, ac yn dibynnu ar hynny. Mae pawb yn weddol sicr nad yw bywyd yn ymarferol heb gydnabod yn gytûn mai mai 'buwch' yw'r disgrifiad o fuwch. Mae gan bawb ei fframwaith wrth ymwneud â'r Gwir mewn iaith. Fel y canfu Wittgenstein, fe ddibynna amheuaeth ar sicrwydd.

O ran ffurf hierarcaidd ei feddwl, dyna i Bantycelyn oedd Gras Cyffredin. Iddo ef, yr oedd yn rhannu hynny gyda phob llenor arall.

Gan fod y gyfrol hon yn cyflwyno theori o fodolaeth llenyddiaeth sy'n dechrau drwy gydnabod rhagdyb *Absoliwt/absoliwt*, ac yn gorfod cael ei hadeiladu yn ôl strwythurau cwmpasol sy'n cael eu hamodi yn ôl yr herwydd, y mae ceisio dechrau trafod Deunyddiau'n uniongyrchol drwy Ffydd yn gymorth diffiniol. Ni raid wrth gwrs i lenor yn ei waith drafod Ffydd yn uniongyrchol fel Deunydd o gwbl, ond mae'n ymwneud â'r mater er ei waethaf. Dyna'i sail dros gredu unrhyw beth. Rhaid iddo wreiddio mewn Absoliwt ac mewn Archgyfundrefnau, eu hoffi neu beidio. Pwysig yn awr yw cyferbynnu grym Ffydd fel rheidrwydd cyffredinol â Ffydd fel *un* o'n Cynhwysion neu Bynciau posibl. Ni all neb yn strwythurol ddianc rhag arwyddocâd llenyddol Absoliwt nac Archgyfundrefnau cydlynol. Gweithred absoliwt fyddai honno ynddi'i hun. Dyna ran hefyd o'r Hierarci feddyliol orfodol. Ond y mae'n rhydd wrth gwrs i anwybyddu'n hwyliog hapus y *pwnc* o Ffydd, er nad dylanwad Ffydd. Ffydd fel testun uniongyrchol sut bynnag sydd dan sylw yn yr adran hon, nid Ffydd fel cymhelliad neu rym amodol, ond Ffydd fel Sffêr Deunydd. A Ffydd o lawer math. Ffydd yn yr Ego Trosgynnol neu yn y Gwrthrych personol-dragwyddol yw'r ddwy wedd gyffredinol letaf yn hanes Cymru.

Ar ryw olwg, nid yw Ffydd yn Sffêr yn yr ystyr sydd gan yr un o'r sfferau eraill. Saif yr Absoliwt wrth gwrs goruwch y cwbl. Ac fe geir Ffydd (gan gynnwys ffydd yr Ego Trosgynnol) yn ddylanwadol drwy gydol yr hierarci. Ond o gynnwys y wedd ddefosiynol ar Fywyd yn Neunydd ein meddwl, megis gyda'r 'dydd' sanctaidd, y mae hyn yn *wahân neu'n wahanol ei swyddogaeth*, yn anfeidrol felly, yn ymwneud yn uniongyrchol â mater Ffydd ei hun, sy'n hanfodol ddigryfnid, yn ochr dyweder Sfferau Mathemateg ac Iaith sy'n newid o

ddydd i ddydd. O safbwynt Deunydd (wedi cofio'i darddiad yn yr Absoliwt, a blaenoriaeth swyddogaeth Ffydd mewn perthynas ragosodiadol i bob dim arall), teg efallai ei chyfrif yn 'Sffêr'. Felly y gwna Cristion yn ei ymddygiad.

A ellir cymharu ffydd y llenor (seciwlar neu Gristnogol) â'r Ffydd a geir yn Beibl? Gallwn o ran safle mewn olyniaeth. O ran perthynas â'r Absoliwt Cristnogol/Ego Trosgynnol, y mae'r *drefn* yn gyffelyb mewn Gras Cyffredinol, megis rhagosodiad/rhagdyb. Gwirionedd fframweithiol yw'i fodolaeth. Rhaid i'r llenor seciwlar neu'r Cristion fel ei gilydd ddibynnu yn y pen draw ar Absoliwt/absoliwt. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau yn anfeidrol, bid siwr, ac yn gyferbyniol eithafol. Ond oherwydd bod y naill a'r llall yn ben draw angenrheidiol, yn Absoliwt neu'n absoliwt, y mae'n gyfeirbwynt gwirionedd y mae angen ei gydnabod gyda difrifoldeb dwys o ran swyddogaeth mewn diwylliant. Mae'n safle allweddol yn hierarci'r meddwl.

Mae gan bawb Ffydd o ryw fath, mewn rhywbeth. Yn wir, y mae gwrthwynebiad ymosodol tuag at Ffydd yn fath treiddgar o Ffydd. Ond gellir ymatal yn llwyr rhag trwyno a thyrchu neu ymdroi ym mherfeddion Ffydd megis Cristion ymrwymedig. Gellir trafod popeth arall ond Ffydd a bod yn llenor rhagorol; ac ar y llaw arall gellir cymryd Ffydd neu fyth neu ystyriaethau ysbrydol yn wrthrych myfyrdod a chreadigol yn 'ddi-ofn'. Ac yn wir, rhan yw hynny o Ddeunydd pob dydd llawer o bobl ledled y byd.

Ac y mae'r pwnc ei hun yn gallu treiddio drwy'r feinwe ddynol i'r fath raddau, yn dwp neu'n ddeallus, yn negyddol neu'n greadigol, fel y gallo ar dro gyfoethogi a dyfnhau'r ddealltwriaeth o bobl a bywyd a byd i'r fath raddau fel y bydd llenyddwaith yn cael ei ddyrchafu. Ar y llaw arall, fe ellir palu arni'n bropagandaidd ddiflas ac yn bietistig ddiddychmyg nes culhau a diflasu pawb a'i gwrendy, hyd yn oed y credinwyr.

Gall effeithiau Ffydd o ryw fath fod yn ymwybodol neu'n isymwybodol fel y bydd yn gweddnewid natur y gwaith yn enfawr. Yn y Gymraeg, y mae'r ffydd Gristnogol unplyg, ansentimental, a sylweddol yn fynych wedi profi'n bŵer cyfoethogol greadigol yn hanes Saunders Lewis, Waldo Williams, Islwyn, Ann Griffiths, Pantycelyn, Dafydd Nanmor a Dafydd ap Gwilym, a Gruffudd ab yr Ynad Coch. Bu'n ffactor canolog yn y traddodiad llenyddol Cymraeg. Rhan yw o arbenigrwydd ein llên. Ni chafwyd erioed mewn anffydiaeth y fath dreiddgarwch angerddol.

Rhoddai Pantycelyn ei fryd, nid yn aml, ond fel arfer, a bron yn ddieithriad ar grefydd fel Deunydd. A châi hynny effeithiau amryfal arno. Er iddo ymwneud â Sfferau Ystyr eraill, ac er bod ganddo wanc am wybodaeth o lawer math, teg dweud i Bantycelyn syrthio'n gynamserol o dan hud egwyddor Kierkegaard, 'Purdeb calon yw ewyllysio un peth.' Nis

denwyd ef erioed gan gelwydd relativrwydd, na chan ddiffyg argyhoeddiad ffug eciwmeniaeth eclecticig, hyd yn oed yn *Pantheologia*. Iddo ef, un golau a geid ym mhen draw'i dwannel: Iesu Grist.

Eto, yn y bennod hon, Ffydd fel ffenomen sy'n Ddeunydd priodol i lenyddiaeth yw ein priod sylw, a hynny o fewn fframwaith hierarcaidd o gyfundrefnau sy'n gwreiddio yn Rhagdyb y rhagdybiau, yr Absoliwt.

Gwelsom fod gennym wrth law bellach adnodd o Archgyfundrefnau cynieithyddol i drafod y greadigaeth. Ond beth yw'r cysylltiad rhwng y Gyfundrefneg honno a'r realiti o'n cwmpas? Hynny yw, ceisiwn olrhain y berthynas rhwng Cynnwys Sylwadaeth, sef Deunyddiau'r Greadigaeth, a'r deddfau a'r ffurfiau a'r cyfundrefnau lleol sy'n eu cynnal. Sut y defnyddir yr Archgyfundrefnau Ffurfiol i ddadansoddi ac i amgyffred a defnyddio'r Deunyddiau? Dyma'r offer cyntaf sydd yn rhoddedig i'r meddwl dynol i lywodraethu'r holl Ddeunyddiau hyn. Pa fath o awdurdod sydd ganddynt? Sut y maent yn mynd i reoli'n meddwl oll am y byd?

Gwahuno a wna'r Archgyfundrefnau. Maent yn bod ac yn gweithredu drwy wahaniaethu a thrwy uno, drwy arbenigoli a chyffredinoli.

Y maent yn negyddol, yn gadarnhaol, ac yn ofynnol.

Maent yn dilysu bodolaeth (neu anfodolaeth) hefyd, gan ganfod pa synnwyr empeiraidd sy'n effeithiol. Mae'r holl Gyfundrefn o gyfundrefnau'n dilyn deunydd drwy brofi a yw'n ailadrodd neu beidio. A oes ganddi gysondeb? A oes rhannau yn y cyfan? A oes cyfan i'r rhannau? Ac a yw o werth wedi'r cwbl? Sut? Ni ellir ateb yr un o'r rhain heb Ffydd.

Y mae'r Archgyfundrefnau yno er mwyn darganfod ac er mwyn rhoi trefn. Ond sylwer, er bod hyn oll yn dechrau yn yr empeiraidd, fod y Gyfundrefneg yn arwain oddi wrth yr enghreifftiol unigol tuag at yr egwyddor, oddi wrth yr achlysurol at y sefydlog. Ni fodlona ar fodolaeth yn unig. Chwilia arwyddocâd. Chwilia werth. A chwilia ddiben. Felly y mae'r Archgyfundrefnau yn rhan o fywyd. Nid haniaethau mohonynt yn unig. Dulliau o weithredu ydynt, yn ogystal â chyflwr mewn bodolaeth. A dônt at ei gilydd yn undod Gras Cyffredinol, ac y mae gan bawb ffydd ynddynt.

Gwedd ar y broses greadigol gyffrous hon yw symud oddi wrth y gweledig tua'r anweledig, oddi wrth yr empeiraidd amlwg tuag at y ddeddf anamlwg, oddi wrth fater i'r meddwl, oddi wrth yr allanol at yr ysbrydol. Nid yw'r soffistigeiddrwydd hwn yn llai dilys yn y bod dynol. Parhad yw o adnabod realiti ac o ddefnyddio'r holl gyneddfau i ddygymod â chyfanrwydd bodolaeth. Dyma holl bersonoliaeth dyn felly yn blodeuo, yn ffrwythloni, gan symud oddi wrth synnwyr corfforol at synnwyr ysbrydol (*sensus divinitatis*). Dyna'r ffordd y

bydd y bod dynol yn ymateb i'r Greadigaeth. A dyna'r ffordd hefyd y bydd y beirniad llenyddol cyfansawdd yntau yn ymateb i Ddeunydd llenyddwaith.

Felly, yn y gyfrol hon, am y tro cyntaf erioed, yr wyf wedi defnyddio'r term 'Archgyfundrefnau'. Mae hyn yn didoli grŵp o ryw ddwsin efallai (a mwy) o gyfundrefnau ffurfiol o eiddo Pantycelyn sy'n gyd-orfodol bresennol ym mhob cyfundrefn arall sydd i'w chael. Sylwasom ninnau ar un gyfundrefn ar ddeg sy'n diffinio natur ffurfiol pob cyfundrefn sy'n bod, a honno dan eu rheolaeth. Hwyl hefyd sy'n lliwio pob ymdrech i drefnu Deunydd yn ôl cyfundrefnau diffiniol. Tybiaf efallai fod mwy nag un ar ddeg.

Ond fel y mae a wnelo Archgyfundrefnau â Ffurf, felly y mae a wnelo Sfferau Deddfog hwythau â Deunydd er mai'r rhai cyntaf sy'n arwain yr ail, ac yn eu hamodi. Yr wyf hefyd felly'n benthycu cysyniad gan Herman Dooyeweerd, sef Sfferau Deddfog. (Defnyddiaf 'Deddfol' gyda 'Deddfoldeb'; 'Deddfwrol' gyda 'Deddfwriaeth', a 'Deddfog' gyda 'Deddf'). Ac yr wyf yn eu gosod hwy yn drydedd lefel yn yr Hierarci, o dan yr Absoliwt (neu'r Wraidd-Gyfundrefn) a'r Archgyfundrefnau Ffurf cynieithyddol. Yr wyf hefyd yn awgrymu bod a wnelont yn uniongyrchol â Deunydd mewn Iaith a Llên, eithr yn cydlynu yn hytrach na chyferbynnu â Ffurf y Meddwl mewn Archgyfundrefnau. Dewisaf yn betrus eu carfanu ychydig yn wahanol i Dooyeweerd. Y Sfferau hyn sy'n dadansoddi Deunydd Bodolaeth ac yn esgor ar Themâu unigol.

Ond mae fy null i o ddadansoddi hefyd yn peri imi barhau i'w disgrifio'n gyfundrefnol, gyda Phrif Gyfundrefn(au) ar flaen pob Sffêr, a'r Brif Gyfundrefn honno (neu'r Prif Gyfundrefnau hynny) yn diffinio natur a phwnc y porth i mewn i bob Sffêr. Dadansoddiad, o ran bwriad, yw'r Gyfundrefn hon o Sfferau o holl gyfundrefn ddeunyddiol y meddwl dynol.

Cysylltaf y Brif gyfundrefn ddiffiniol ym mhob Sffêr â Thafod, a'r Cyfundrefnau eraill o fewn y Sffêr â Themâu Cyfundrefnol Mynegiant. Fel Tafod, y mae Prif Gyfundrefn mewn Deunydd yn gyffredin i'r holl gymdeithas, yn gryno ac yn 'sefydlog'. Mae hefyd yn hierarcaidd.

Mae'n hanfodol, felly, gyferbynnu'n ofalus y ddwy Gyfundrefn lydan hyn: (1) *Cyfundrefn yr Archgyfundrefnau*, offer deall sy'n dadansoddi'r holl gyfundrefnau ffurfiol a weithreda'r broses o gyfundrefnu; a (2) *Cyfundrefn y Sfferau*, sef meysydd y Deunydd. Gwelwn gyda'r ddwy gyfres o gyfundrefnau hyn mewn iaith fod y gyntaf (Ffurf yn benodol) yn amodi ac yn cyflyru'r ail (sef Deunydd yn ôl Ideogenesis ac wedyn Ffurf yn ôl Morffoleg).

Nid oes gan lenor ddewis namyn i ufuddhau iddynt neu gydweithredu â holl rychwant ffurfiol yr Archgyfundrefnau. Ond dewis a wna pa un neu ba rai o'r Sfferau Deunyddiol y mae ef yn ymrwymedig iddynt mewn Mynegiant. Mae gan y sfferau Deunyddiol bob un ei natur ei hun. Ond y maent hefyd yn cael eu natur ac yn cael eu diffinio yn ôl eu safle mewn Hierarci, ac yn ôl eu perthynas â'r gweddill oll o'r dechrau hyd y diwedd.

Gosodir o'r newydd yn Hierarci'r Weithred Lenyddol, ar ben popeth oll, y Gyfundrefn sydd a wnelo â'r eithafbwynt, y cyfeirbwynt eithaf, sy'n arwain at y cyfanswm a ddaw wedyn: sef —

I YR ABSOLIWT

YR ARFAETH: Y WRAIDD GYFUNDREFN

II ARCHGYFUNDREFNEG FFURFIOL (11 o Archgyfundrefnau yn enghreifftiol)

III Y SFFERAU DEUNYDDIOL (17 ohonynt yn enghreifftiol)

IV a V Y CYFUNDREFNAU THEMATIG, (wedi'u cyflyru gan FETANARATIFAU), A'U MOTIFFAU (diddiwedd)

Y fframwaith hwn o lefelau (sy'n sefydliad meddyliol) yw'r hyn sy'n ffurfio'r hyn, yn ôl dull dadansoddol Saussure a Guillaume, o bosib a elwir yn Dafod. Dyma storfa strwythurol yn y meddwl dynol a rennir gan bob un yn gyffredinol, i ryw raddau ac o fewn mesur o amrywiol soffistigeddedd. Maent yn orfodol y tu ôl i'r holl broses o drafod Deunydd ac o Fynegiant; ac yno y ceir hwy gyda'i gilydd.

Yr wyf i raddau helaeth wedi dilyn Sfferau Deddfog, fel y'u ceir gan H. Dooyweerd yn ei bedair cyfrol fawr, a gyfieithwyd o'r Iseldireg i'r Saesneg dan y teitl *A New Critique of Theoretical Thought*. Mae ef yn eu disgrifio fel gweddau ar y Greadigaeth, fel Sfferau deddfog cyferbyniol, a chan bob sffêr ei chyfundrefn ei hun o ddeddfau priod a diffiniol. Dosbarthiad swyddogaethol neu ffwythiannol yw. Credaf fod ei ddull ef o ddsbarthu'r rhain yn eithriadol o ddiddorol, ac yn destun i lawer o drafodaeth. Gan fod a wnelwyf i'n bennaf yng ngwaith Pantycelyn â Sffêr Ffydd, ni wiw i mi gael fy nenu i arolygu ond peth o'r gweddill yng ngoleuni honno.

Rhoddaf ar y brig bob amser, yn gyntaf ac yn gyflawnaf, y fwyaf cymhleth o'r Sfferau Deddfog hyn, sef Ffydd (neu Ragdybiaeth), ac y mae Dooyeweerd yn doddi ar y gwaelod y symlaf oll, sef Rhif. Ond carwn yn ddiymdroi nodi'r cyntaf o'm casgliadau. Ymwneud â Deunydd a wnânt oll yn y gyfundrefn *Deunydd/Ffurf*. I mi, ceir dau fath o 'Ddeunydd' — *Anweledig/Gweledig, Ysbrydol/Materol*. Gellir sôn hefyd am Dduw yn

nhermau Deunydd fel ‘Cariad’, ac mewn Ffurf fel ‘Absoliwt’ a’r ‘Tri-yn-Un’. Felly y ceir Sfferau, yn greedig, y diwinyddol, moesegol, barnwriaethol, esthetig, economaidd, cymdeithasol, ieithyddol, hanesyddol, dadansoddol, seicolegol, biotig, ffisegol a symudol, gofodol, rhifyddol. Hynny yw, nid wyf yn ymwneud â ‘Deunydd’ ar lefel faterol ddiriaethol weledig yn unig. I mi, nid y synhwyrâu empeiraidd yn unig biau Deunydd.

Yr wyf hefyd wedyn yn cynnwys o fewn y dosbarthiad newydd hwn beth o’r brif gyfundrefn (yn fy marn i) a berthyn i’r Enw (neu i’r rhagenw) o safbwynt gramadegol. Sef ei leoliad meddyliol, vis-à-vis y Ferf yng nghyfundrefn y Rhannau Ymadrodd Traethiadol: *Enw/Berf*, nid amgen *Gofod/Amser*. Felly, wrth ddsrannu o ran ffwythiant enwol, yr wyf hefyd yn nodi’r elfen ferfol gyfatebol, mewn cromfach yn achos dyn, a hynny oherwydd bod Dooyeweerd yn gweld pob Sffêr enwol yn cynnwys ynddi’i hun y duedd (ar wahân i ambell ffurf bosibl fel y canu gwirebol) i fod yn weithredol hefyd mewn ffwythiannau.

Yn drydydd, yr wyf wedi cymryd yn sylfaen i’m prif ddsbarthiad, ar sail y cyfundrefnu hwn a grybwyllwyd, fath o ddsbarthiad a gafwyd gan Dooyeweerd: ei Sfferau Deddfog. Neu, efallai yn ôl term Beirniadaeth Gyfansawdd, ‘Moddau Gofodol o ddefnyddio amser’. Credaf fod y fethodoleg o archwilio natur ddeddfog ‘hunanlywodraethol’ y Deunyddiau hyn yn ddefnyddiol, ond yr wyf yn sicr, fod, er gwaethaf fy niwygiad ohoni, angen miniogi’r union ddsbarthiad ffwythiannol gwreiddiol hwnnw o hyd.

[Dylwn nodi yma y byddaf i’n tueddu i gyfrif pob Sffêr yn ddsbarth neu’n enw ar gylch ystyrol, ac i neilltuo’r gweithgareddau o’u mewn i’r hyn a alwaf yn Thema.]

Gyda’r dosbarthiad olaf a ysbrydolwyd gan Dooyeweerd, dylwn nodi ein bod yn symud oddi wrth y cyfundrefnau Ffydd y buom yn eu trafod hyd yn hyn, wedi’u seilio ar sythwelediadau, at ddsbarthiad llawer mwy ymwybodol. Yn wir, honnwn ein bod bellach yn ymwneud â Chyfundrefnau arweiniol Deunydd mewn Tafod sy’n arwain at Ddeunydd Mynegiant. Hynny yw, meddylwaith Mynegiant (nid Tafod) yw pen draw Deunydd, ac y mae holl amodau Ffurfiol Tafod yn ei gyflyru, er bod y cyfundrefnau arweiniol neu ddiffiniol yn glynu wrth Dafod. Ceir i gyd:-

ARCH-SFFÊR yr ABSOLIWT, (UN) Ffydd (*Dibynnu/Colli Dibyniaeth; CREDU; Perthynas; Ymwybod o ragdyb eithaf neu sail neu gyd-destun Absoliwt i bob dim; Duw/gelyn; Proffwyd/Offeiriad/Brenin; Mwynhad yw Sffêr ymarferol eithaf Ffydd/ffydd. A Gogoneddu yw uchafbwynt Mwynhad.*) Ffydd yw yn ei llawnder yn yr Un sy’n cwmpasu Popeth.

I *Arch-sffêr Fi*

- (a) *Seicoleg* (*Hunaniaeth* – *Fi a'r hunan*; goddrychol/gwrthrychol; meddwl/teimlo/ewyllysio; iechyd meddwl/afiechyd meddwl; rhyw, teulu)
- (b) *Dadansoddiad* (*Gwahuno*, sythwelediad, cyfundrefnu, rhesymu, dosbarthu)
- (c) *Moeseg* (*Gwahaniaethu Da/drwg*, Caru)
- (ch) *Estheteg* (*Hardd/hyll*; Ceisio cynghanedd i'r deall ac i'r synhwyrâu)
- (d) *Egni Corfforol/Meddyliol* (*Deinameg bersonol*: gweithredu iwtilaraidd, gweithredu pleserus; chwarae, gwaith, iechyd)

II *Arch-sffêr Ti Cyd-ddyn Cymdeithas* (Fi, ti, hi; Un/Llawer)

- (a) *Cyfathrebu* (*Iaith*: Tafod/Mynegiant; Ffurf/Deunydd; Symboleiddio)
- (b) *Barnwriaeth* (*Cyfiawn/anghyfiawn*; yr angen i unioni yn ôl deddfau; Gwleidyddiaeth)
- (c) *Economeg* (*Cynilo*: ennill eiddo/colli eiddo; Masnach)
- (ch) *Hanes* (*Datblygu'n ddiwylliannol*; Gorffennol/Presennol/Dyfodol; Cof; Amser daearol/Amser Cosmig)

III *Arch-sffêr-Hi*

(*Diriaethu a haniaethu amgylchfyd natur*; 'hi' megis 'mae hi'n glawio')

- (a) Daear *Byw/marw* (Bioleg; anifeiliaid/llysiâu: y Gell [cnewyllyn + cromosomau, genynnau]: (Daeareg-Gemeg: Carbon/digarbon; Atom [cnewyllyn + proton, newtron]; molecwl.)
- (b) Dŵr hylif Bioleg-Gemeg; creaduriaid môr ac afon; llysiâu môr ac afon, y gell; atom)
- (c) Awyr: nwy (seryddiaeth a disgyrchiant. Anifeiliaid, pryfed, planhigion, y gell; atom)

(*Haniaethu a sylwi ar egwyddorion*: cyfundrefn; yr atom)

- (a) Ffiseg Grym (Cemeg Ffisegol: *Grym disgyrchiant/grym electrofagnetig*: symud, ynni,)
- (b) Ffiseg Gofod (*Gofod/Amser*; mater/gwagle; safle)
- (c) Rhifyddiaeth (Ystadegau; un/dau/tri fel unedau cyfundrefnol elfennaidd; *lluosi/rhannu*; *ychwanegu/tynnu*)

Mae'r holl gyfundrefnu ym mhob Sffêr yn dibynnu ar yr Arch-sffêr. A dyna pam yr wyf wedi lleoli'r amlinelliad hwn o ddsbarthiad y Sfferau Deunydd unigol o fewn yr Adran hon. Fe lywodraethir Deunydd gan ddibyniaeth (Rhagluniaeth).

Crybwyllais ynghynt fod yna yn hanes y baban (yn gynieithyddol ac yn ieithyddol) yr hyn a alwaf yn Sffêr ragarweiniol ymarferol, Sffêr y Teulu a'r Cartref, y Sffêr Ddomestig. Mae a wnelo hyn â chnewyllyn o weithredu gwaelodol pob dydd (megis bodolaeth ei hun, eistedd a chodi), gan gynnwys geiriau o bob math — berfau megis bod a gwneud, a'r Rhannau Ymadrodd Traethiadol (megis y cysylltair a/ac) — sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnwys potensial llawer o'r Sfferau aeddfed. Mae hyn ar lefel Deunyddiau traws-sfferol megis Iaith Plant ar lefel Iaith. Fel y cawn weld, gellid cynnig awgrymiadau o sfferau pellach.

* * *

Oherwydd ei chyferbyniad â'r Arch-sffêr gyntaf o ran statws a pherthynas, gosodaf Seicoleg yn ail, yn nesaf at Ffydd. Hunaniaeth yw'r ymwybod o fod yn hunan. Mae a wnelo hyn hefyd â'r ysbrydol. Dyrchefir hyn gan ddyn syrthiedig i fod yn absoliwt balch. Dyma'r Ego Trosgynnol i hwnnw, y cyfeirbwynt eithaf. Dyma hunanoldeb rhyw, a'i lawnder mewn Cariad amlochrog. Fe'i ceir ar wedd gostyngeddwydd a thrais. Sylwer ar y modd yr ymwybyddir â phechod yn y Sffêr hon o'i chyferbynnu â Sffêr Moeseg. Mewn Moeseg, y mae a wnelo â gwerthoedd da a drwg, ac yn benodol â pherthynas dyn a dyn, ar wahân i ryw, a dyn a'i amgylchfyd Ac â Chydwybod. Ond un o'r priodoleddau dynol goruchaf yw hunaniaeth, math o hunan-hyder, yr arbenigrwydd unigolyddol yn y cof, a'i deimlad a'i berthynas â phob dim o safbwynt personol, dirfodol hyd yn oed.

Yn yr Arfaeth, ochr yn ochr â bodolaeth, trefn (cyfundrefn), a bywyd, mae hunaniaeth yn un o'r sylweddoliadau creedig ac yn un o'r doniau mawr. Fe'i cyfrifir gan esblygwyr ffundamentalaid fel 'un o neidiau mawr esblygiad'. Hynny yw, mewn amgylchfyd anhunanfeirniadol, ni ellir ei hesbonio. I'r Cristion, y mae a wnelo hunaniaeth aeddfed a datblygedig oedolyn, yn gyntaf, â pherthynas dyn a Duw, yr hunan a fi (sef y berthynas rhyngof a fi fy hun), a dyn a'r byd: sef y goddrych a'r gwrthrych. Mae'n caniatáu hunanfeirniadaeth, tosturi, maddeuant, a'r gwahaniaethu rhwng serch a chariad. I'r dyn naturiol syrthiedig, gweithreda fel absoliwt ffydd i gystadlu â'r Absoliwt, neu i'w ddisodli. Ond dynoda goron bwysig ar ddynolrwydd. Yr hunan wedi'r cyfan yw'r gyfundrefn bersonol sy'n llywio gwahuno a'r cyfundrefnu yn yr undod mewnol sy'n gwneud y person dynol. Mae'n canoli ar 'y galon' yn yr ystyr Feiblaidd, craidd y bersonoliaeth.

Mae'n ein hatgoffa am ymadrodd enwog gan Bantycelyn ynghylch y Fi y cenfydd ef ei pheryg yn ei emynau: 'y gair bychan atgas hwnnw, y [Fi] sydd yn ambell un ohonynt'

(*Rhai Hymnau a Chaniadau*, 1757), ond a oedd yno yn y lle cyntaf drwy Ras Cyffredin oherwydd y bywioldeb dirfodol. Yma y clywn hefyd *Cyfarwyddwr Priodas a Drws y Society Profiad*.

I'r credadun yntau y mae ei seicoleg yn ail i'r ffydd ac yn arwain at nifer o Sfferau Deunydd eraill. I'r anghredadun, dyma orsedd deall llawer o agweddau ar fywd beunyddiol.

Beth yw'r Sfferau Deddfog hyn?

Benthycwyd y term gan Dooyeweerd, er na ddilynwyd mohono ym mhob un wedd. Meysydd ystyr mewn amser ydynt, a gweddau ar gynnwys bodolaeth. Mae gan bob un ei deddfau diffiniol a'i dull o fodolaeth a'i swyddogaeth ei hun. Nid dadansoddiad gwyddonol naturiol mo hyn ar hyn o bryd, ond dadansoddiad o'r ymwybod 'cyntefig' cyffredin a'r myfyrdod llenyddol. Mae pob gwedd ar y greadigaeth yn ddarostyngedig i ddeddf, ac y mae dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng meysydd o'r fath yn ddyrys. Ond gwyddom yn sythwelediadol fod yna Sfferau o Ystyr ac o weithredu sy'n dosbarthu bywyd. Yn hanes Dooyeweerd cafwyd amrywiaeth yn y nifer o foddau deddfog a gymeradwywyd. Ac felly gyda finnau hefyd. Mae diffinio neu ddsbarthu yn mynd i ddibynnu ar darddiad, ansawdd, neu ffwythiant. Ac mae goddef gorgyffwrdd yn anochel. Peth arall sy'n peri penbleth yw olyniaeth benodol eu perthynas bob un. Ar ba egwyddor yr awn ati i ddsrannu'r deunyddiau yn ôl y ddolen rhyngddynt, neu'r tebygrwydd neu'r grwpio haniaethol? Tueddai Dooyeweerd i ddilyn o'r syml i'r cymhleth, o'r ffisegol i'r haniaethol; ac yn ôl anifail, planhigyn, a'r peth materol. At ei gilydd, ni fanylir yn y gyfrol hon ar y Sfferau Naturiol allddynol. Gan mai trafod perthynas Ffurf a Deunydd yn gyffredinol yr ydys yn y gyfrol hon, gan ganoli ar ryw bump o sfferau penodol yn niddordeb Pantycelyn — Ffydd (Rhagdyb), Moesol, Esthetig, Cymdeithasol, Mwynhad, — nid yw o dragwyddol bwys i mi geisio pennu union leoliad a threfn pob un o'r Sfferau eraill. Ond fel y mae'r Arfaeth yn Rhagdyb i'r Hierarci yn fertigol, felly y mae Ffydd yn rhagdyb i'r Sfferau Deunydd oll yn llorwedd mewn gofod/amser. Credaf y bydd dosbarthu cywir yn bwnc anodd i'w ddatblygu.

Mae'n bwysig tanlinellu hyd yn oed gyda llenyddiaeth seciwlar arwyddocâd Ffydd o fewn cyd-destun y gyfundrefn gyflawn hon o Sfferau. Drwy'r Sffêr honno yr edrychir ar yr holl Sfferau eraill gyda rhywfaint bach o sicrwydd yng ngoleuni'r Absoliwt. Dyna 'ragdybiaeth' pawb. Gan fod a wnelo Ffydd hefyd â'r Absoliwt ar frig popeth ac â'r un ar ddeg Archgyfundrefn ffurfiol, hefyd (drwy'r Absoliwt/yr unigolyn) mae'r gair 'Pwnc' yn amhriodol ar ei chyfer. Nid un 'mater' i'w drafod ymhlith eraill fuasai, megis yn ôl tybiaeth rhai. Eglurhad hollol amhriodol a diniwed fuasai hynny. Erys bob amser yn *ddimensiwn* a rhagdyb bythol bresennol i bob pwnc. Arwynebol fuasai ystyried effaith Ffydd fel un maes

diddordeb yn unig gan mai dyma'r Sffêr lywodraethol ar y Sfferau deddfog. Nid elfen ddewisol mewn diwylliant yw Ffydd. Mae'n un o themâu amgylchfyd a hanes, yn orfodol. Ond fel gofod ac amser, dimensiwn yw sy'n treiddio'n ddiddianc drwy gyfeiriad ac ansawdd ac ystyr a phosibilrwydd bodolaeth oll. Dyma'r rhagdyb i bopeth. Ac fel gofod ac amser, er y gellir eu hanwybyddu'n hapus braf fel pwnc trafod, nid oes dim a wneir ar y ddaear lle nad yw'n bresennol.

Yn achos llenyddiaeth felly (un o is-gynhyrchion iaith), y mae 'bodolaeth' a 'goleuni' a 'threfn' a 'gwerth' y gwaith yn cael eu hanochel gyflyru gan dreiddiad y math o ffydd sydd gan lenor. Nid sefydliad ar gornel y stryd yw Ffydd. Mae ansawdd ffydd unrhyw berson — boed yn Dduw Cristnogol neu'n Ego Trosynnol — yn amodi'i holl fywyd. Mae gwerthoedd rhywun a'i weledigaeth am feinwe ac awdurdod bod, ym mhob cyfeiriad, yn cael eu cyflyru gan ffydd.

Nodwedd arall sy'n drawiadol ynghylch gwastad y Sfferau yw bod pob Sffêr Gyfundrefnol megis mater ei hun yn anninistriol i bawb o fewn amser. Dyna fodd o fodolaeth sy'n treiddio drwy ffaith bywyd. Gellir newid ffiniau'r Sfferau, ni ellir dileu eu Cynnwys tan ddiwedd y byd.

Pwysig hefyd wrth ddiffinio'r holl wastad (bob Sffêr) yw crybwyll ei lleoliad yn yr Hierarci. Saif y cwbl (fel Geirfa) ar drothwy Mynegiant, fel y saif yr Absoliwt uwchben Tafod a Mynegiant. Ond moddau deddfog sylfaenol mewn Deunydd yw'r Sfferau: ceir deddfwriaeth ym mhob man, felly.

* * *

Cyn y bennod hon, buwyd yn sylwi ar Gyfundrefnau mewn Tafod, — Archgyfundrefnau Ffurfiol cynieithyddol a safleoedd arweiniol ac ansoddau diffinio Sfferau'r Deunydd. Ymhellach ymlaen, cyrhaeddir Mynegiant. Trown erbyn hynny drwy Ddeunydd at gyfundrefnau arbennig ac afrifed o fath arall, mwy ymwybodol. Ac ym myd Deunydd llenyddol trown yn benodol at Gyfundrefneg Thematig. Dylanweddir ar hyn gan Arch-sfferau Deunydd wrth gwrs, yn ogystal â chan Archgyfundrefnau Ffurfiol cynieithyddol. O'r tu mewn i'r Sfferau Deunydd, deuir o hyd i Themâu. Y rhain wedyn sy'n esgor ar Fynegiant Motiffau. Ni wneir yma ond crybwyll beth ydynt, ynghyd ag ambell enghraifft ddatblygedig, yn syml er mwyn amlygu cyfanrwydd cyfansawdd yr Hierarci sincronig yng ngwaith Pantycelyn. Tardda'r prif themâu mewn Cymhelliad: fe'u rheolir gan yr angen i ddod o hyd i drefn y tu hwnt i'r anhrefn. Perthynas briodol yw'r nod. Mynegir y rhain wedyn mewn llenyddiaeth drwy Fotiffau. Dyna'n Hierarci'n ymffurfio.

Pan drown at y diwedd, sylwir ar y Motiff cyfundrefnol cryno *Duw yn caru dyn/ dyn yn caru Duw*, ac yn ail, *teithiwr tua'r gogoniant* (dechrau, canol, diwedd); yr emynau serch a'r emynau teithio. O'r tu mewn i Sffêr Ffydd, felly, try'r Cyfundrefnau Thematig felly yn y man yn Fotiffau amryfal a lleoledig mewn Mynegiant, megis 'Rwy'n dy garu fy annwyl Dduw' ac yn yr ail 'Arglwydd, arwain drwy'r anialwch'. Dyma'r ddwy ddelwedd gynddelwaidd o ddyn gan Bantycelyn: y Carwr, a'r Teithiwr, perthyn a gweithredu: *Bod/bod* a *Bod/gwneud*. Delweddir Crist hefyd yn amlwg yn y Carwr; ond canfyddir hefyd fath o ddelwedd 'teithiwr' hyd yn oed i Grist ei hun yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Symudwyd o'r pwynt lle y cyflwynir cyfrifoldeb yr Arfaeth iddo drwy droeon y rhod hyd nes y cyflwynar Mab y Deyrnas yn ôl i'r Tad. A cheir delweddau swyddogaethol eraill nid annhebyg yn emynau Pantycelyn, megis 'O Iesu'r Meddyg da', 'Iesu 'Mrenin mawr'. Sylwer bod pob un o'r rhain ar sail thematig yn fotiffau unigol yn disgrifio'r un Person: motiff enwol; teitl delwedd. Ond nid dyna i Bantycelyn Fotiffau cynddelwaidd gofod ac amser, fel y Carwr a'r Teithiwr. Lle y bo Motiff yn ddelwedd sy'n cael ei chynnal neu'i hailadrodd neu'i haralleirio mewn Mynegiant, yna gellid ystyried bod y Motiff hwnnw fel pe bai'n adeiladu Cyfundrefn Thematig arwyddocaol iddo'i hun mewn Mynegiant, sy'n ymestyn yn ôl at yr Arfaeth.

Sylwer fel y mae dwy ddelwedd gynddelwaidd y Carwr a'r Teithiwr yn cydberthyn yn fertigol hefyd o fewn cyflawnder yr Hierarci. Yn y wraidd gyfundrefn, ceir yn gyntaf berthynas fertigol; yr Absoliwt a'r creadur, ac yn ail, ceir y berthynas lorweddol lle y mae'r Arfaeth yn rhoi cychwyn ar broses drwy'r greadigaeth sy'n para hyd ddiwedd amser: *Bod/bod* a *bod/gwneud*.

Etifeddir y ddeuoliaeth wraiddgyfundrefnol hon gan ddwy o'r Archgyfundrefnau Ffurfiol mawr. Ffurfiol yw'r holl Archgyfundrefnau. Ond o'r Un ar Ddeg a nodais, saif y ddwy hyn ar wahân yn ganolog wrthrychol. Maent yn fwy na Ffurf, ac yn fwy na Deunydd. Ceir dwy sy'n ymddangos yn eithriadau. Ac ar un olwg, eithriadau ydynt: rhai gwahanol i bob Archgyfundrefn arall, am eu bod yn amlwg ddeunyddiol-ffurfiol. Sef y *fertigol/llorwedd* yn achos '*Absoliwt/unigolyn*, mewn perthynas enwol, a'r *Arfaeth*. Onid Deunydd yw'r Ffurf ei hun yn y fan honno?

Mae pob ffurf arall o blith yr Archgyfundrefnau yn amhenodol ddiwedddeunydd gyfyngedig yn yr ystyr eu bod ynghlwm yn ffurfiol wrth bob un o'r Sfferau deunyddiol sy'n eu dilyn. Ac y mae'r *fertigol/llorwedd* yn achos *Absoliwt/unigolyn* | yr *Arfaeth* yn ymddangos yn gyfyngedig glwm wrth un Sffêr Ddeunyddiol, sef 'Ffydd'. Ac eto, y mae a wnelo'r Sffêr hon â llywodraethu nid yn unig ar y Ffurfiâu eraill eithr ar y Deunydd arall hefyd. Cyferbynant yn y ddau Ddeunydd eithaf — *Bod/bod*. Ac yna, llywodraethant ar waith a

chynnyrch y Sfferau eraill. Nid oes Sfferau deunyddiol eraill sy'n llywodraethu'n dotalitaraidd fel hyn ar unrhyw Archgyfundrefnau na Sfferau eraill.

Sut y mae hynny'n bod?

Y gwir, wrth gwrs, yw nad unffordd yw cwlwm y Sffêr gyntaf. Yn y bôn, caiff y Sffêr ddeunyddiol hon ei sylwedd yn uniaethol oddi uchod yn yr Hierarci, gan yr Absoliwt, ac edrycha yn ei blaen at y Themâu cyfundrefnol. Er mai term ffurfiol yw Absoliwt, y mae'r Absoliwt ei hun hefyd yn fwy na safle ffurfiol: mae yn Fod personol-dragwyddol. Mae yn sylwedd ysbrydol ar waith. Felly, cyfeirbwynt unigryw yw, pont gyswllt cwlwm gweithredol yr holl Sfferau.

O ran eu natur hanfodol, mae'r nodweddion yn gyd-bresennol nid yn unig mewn Ffurf, eithr mewn Deunydd hefyd o ran diffiniad. Y mae'r Absoliwt yn ddiffiniol am ei fod yn fythol bresennol ym mhob peth, ar bob lefel yn yr Hierarci. Y mae'n gyfeirbwynt eithaf i bopeth; y mae hefyd yn gyfanswm i bopeth yr un pryd. Dyna yw arwyddocâd 'Absoliwt'. Ac felly, dyma linydd arian sy'n rhedeg drwy bob lefel ar yr Hierarci benbwygilydd.

*

*

*

Cyfanwaith cyfundrefnol yw'r holl Hierarci hon. Nid oes yr un cam yn y cyflwyniad i'w ystyried onid yn ôl ei berthynas â'r cyfan. Rhan o gyfanwaith, sy'n derbyn ei harwyddocâd yn ôl ei lle yn y cyfanwaith hwnnw, yw pob un datblygiad yn yr esboniad. Pam ysgrifennodd Pantycelyn *Golwg ar Deyrnas Crist* felly? A pham y lluniodd ef honno yn gyntaf ac o flaen *Theomemphus*? A'r un ateb sydd i'r ddau gwestiwn: y maent fel pe bai'r ddwy gerdd o ran natur o fewn cyfansoddiad ei gilydd oherwydd nad oes modd nodi dim yn yr ail yn ystyrllon briodol onid o fewn Darlun Cyflawn y gyntaf. Hoffaf un o sylwadau cymharol brin Van Til ar ieithyddiaeth: 'Mae ystyr geiriau'n tarddu o'r gyfundrefn gyflawn y maent yn rhan ohoni.' Mae pob Sffêr o fewn yr Arfaeth, wedi'i hamodi gan werth, trefn, a phwrpas Diwinyddiaeth yn gyfundrefnol gyflawn, — felly y deallwn 'ffeithiau': yn ôl y gyfundrefn feddyliol neu'r byd-olwg (gan gynnwys rhagdybiau) sy'n gyd-destun iddynt. Wrth gwrs, nid pob darllynydd na llenor, na hyd yn oed athronydd a fydd yn effro i'w ragdybiau ei hunan, ysywaeth. Aeth rhagdyb 'niwtraliaeth' yn ddiniwed drech na hwy, ac yn ormesol felly. Onid dyna sy'n 'naturiol'? Ond gwyddai Pantycelyn fel Paul, beth oedd ei ragosodiadau ar ôl i'w ysbryd gael ei fywydu (2 Cor. 10: 5) — a'i fod yn cymryd pob meddwl yn garcharor ufudd i Grist. Gwyddai Pantycelyn, yn ôl pob tebyg, mai bwriad Diwinyddiaeth Gyfundrefnol oedd chwilio cysylltiad gorfodol y rhannau oll (er iddi fod braidd yn ysgafn gyda Ffurf). Wrth iddo ysgrifennu *Golwg ar Deyrnas Crist* ac ystyried y gyfundrefnau a geid yn y bydysawd ar bob llaw iddo, ddi i ddeall yn amgenach sut y ceid y tu

ôl iddynt Rym a oedd yn undod ar y lluosrwydd; yn Drindod mewn modd cyfartal absoliwt a adwaenid drwy Ffydd.

Dyna a gyfrifai am gyffredinolrwydd ei feddylwaith.

Yn sgil ei ddiddordeb seicolegol, gwyddai Pantycelyn hefyd fod gan y bersonoliaeth ddynol wybodaeth a oedd yn sail i'w gweithredoedd a'r gallu i drefnu'r meddwl. Gwyddai fod ei bobl yn y Seiadau yn amrywio yn ôl eu hanianawd wrth gwrs, — yn ddeallol, yn deimladol, yn ewyllysiol; ac eto, roedd pob meddwl unigol yn yr un cwch. Angorid yr amrywiaeth hwnnw yn undod drwy bob person mewn Hierarci. Dymunai Pantycelyn er eu mwyn hwy, ac er ei fwyn ei hun, ganu math o Ddiwinyddiaeth gyfundrefnol a oedd ar ffurf Mawl i Dduw, i gynorthwyo trefn yr ymwybod eang hwnnw. Ac wrth wneud hynny roedd model Acwin/Calfin (fel y'i disgrifiai Alvin Plantinga), yn frawd i draddodiad Awstin/Calfin a nodais yn *Llên Cymru a Chrefydd*) wrth law gyda'r Piwritaniaid mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn gymorth iddo ganfod yn eglur yr hyn a oedd yn unol gyffredin, yn feiblaidd, yn hanesyddol aeddfed, ac yn gadarn mewn ffydd. Felly y llwyddai i ddiogelu ei bobl, a darparu amddiffyniad ymarferol yn fewnol ac yn allanol wrthrychol yn erbyn yr heresiau goddrychol.

Heblaw nodi *Diwinyddiaeth* neu Ffydd (sef Deddf Ddwylfol — perthynas dyn a Duw) fel Arch-sffêr ddeunyddiol i Bantycelyn — a hynny'n ddiau sy'n bennaf amlwg — ceir amryw o'r sfferau eraill o'r rhai a enwai Dooyeweerd sy'n berthnasol iawn yng nghrynsyth holl waith y bardd. Maent yn gydblethog â diwinyddiaeth, ac yn aml yn cael eu cwmpasu gan Ddiwinyddiaeth, megis, yn amlwg, *Foeseg*, *Estheteg*, a *Chymdeithas*. Mae'r tair Sffêr hyn yn gorgyffwrdd yn barhaus, bid siŵr. Ond mae diffiniad pob un yn mynnu ein bod yn eu trin yn hunanlywodraethol o fewn Penarglwyddiaeth 'hunanlywodraethol'.

Absoliwt/unigolyn yw Prif Gyfundrefn ddiffiniol Diwinyddiaeth ddynol; *da/drwg* sy'n arwain Moeseg (Y Ddeddf Foesol: perthynas dyn a chyd-ddyn); a *hardd/hyll* yw'r Brif Gyfundrefn arweiniol i Sffêr Estheteg. Mae Estheteg Pantycelyn yn ein harwain i ystyried cyfansoddiad ei ddelweddau adeileddol, yn gymeriadau ac yn ddigwyddiadau, yn ogystal â'i droadau ymadrodd a'i ddychymyg. Mae a wnelo ei Foeseg â Chymdeithas hefyd, ac â pherthynas pobl â'i gilydd *dyn/cyd-ddyn*, sy'n cynnwys *gwryw/benyw*, (*Cristion/Eglwys*), a *dyn/y greadigaeth*. Ond wrth gwrs, oni chanfyddir deddfau moeseg fel gwedd ar feddwl digyfnawid Duw, yna chwiwus a damweiniol o oddrychol yw i Gristion fel Pantycelyn. Hynny yw, Ffydd yw'r Arch-sffêr.

Crybwyllwyd dau ragflaenydd i'r clwstwr o Archgyfundrefnau Ffurf cynieithyddol, sef *Absoliwt/unigolyn* (*Bod/bod*) sy'n sincronig ac yn cyfleu perthynas uniongyrchol ar y

pryd, a'r *Arfaeth* sy'n ddiacronig, ac sy'n cyfleu math o daith gyda Duw. Yn y cynllun Beiblaidd, hynny yw, yn ôl y patrwm hanesyddol o waith Duw fel y'i cyflwynir yn yr Ysgrythurau, ac a gorfforir yn ei waith gan Bantycelyn, ceir Arfaeth a dwy Thema gyfundrefnol ac arweiniol ynddi, sef *Creu/Cwyp/Cymod (Golwg ar Deyrnas Crist)* a *Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddiad (Theomemphus)*. At ei gilydd, wrth ochr y cylch diwinyddol, yr ydys yn synied am foeseg gyffredin fel y maes sy'n trafod cyfiawnder rhwng dyn a chyd-ddyn. Ond gyda moeseg Gristnogol, y mae rhywun yn cael ei gyfrif yn gyfiawn am fod Duw yn ei ddweud ac yn ei wneud felly; os carwn gyd-ddyn, fe'i gwnawn yn benodol oherwydd gras Duw a'i gariad Ef tuag atom ni, a'r rheidrwydd sylfaenol i ogoneddu Duw. Cawn *dyn/cyd-ddyn* yn sgil *Absoliwt/unigolyn*.

Wrth sôn am gydlyniad o'r fath rhwng sfferau *Diwinyddiaeth/Moeseg/ac Estheteg*, priodol cofio'r cyswllt rhwng y tair hyn a Seicoleg ac Archgyfundrefnau Cymhelliad hefyd. Ni sylweddolir ond undeb annatod rhyngddynt oll.

Hawliwyd bod a wnelo Diwinyddiaeth ag arolygu pob dim. Hynny yw, cynhwysir pob peth yn Nheyrnas Dduw, a chais Cristion edrych ar y cwbl fel pe bai 'drwy lygaid Duw', neu fel y dadlennwyd golwg Duw ar gydlyniad Ei Deyrnas. Pan aeth Einion Offeiriad ati i lunio'i *Ramadeg*, felly, yn dair rhan — Iaith, Llenyddiaeth a Diwinyddiaeth, yr hyn a wnâi mewn gwirionedd (a chofio mai Sffêr atodol neu is-sffêr mewn Mynegiant oedd Llenyddiaeth i Sffêr Ddeddfog yr Iaith), oedd nodi'r union dri 'phwnc' a oedd yn cael cwmpasu a chynnwys, o fewn eu harolwg ystyrol, bob dim y gellid gwybod amdano.

Cymerer Sffêr nad arferir ei chysylltu â Diwinyddiaeth, sef Sffêr 'gofod'. Fe geir dan begwn cyfeiriad (y llinell mewn amser) a thri dimensiwn: *fi/ti/ef*, ac fe gawn weld mor bwysig y gyfundrefn honno mewn diwinyddiaeth thematig. Mae'r ymwybod hwnnw ymhlyg ym mhob defnydd o'r cysyniad 'gofod'. Fe ddwedwn i fod hyn yn cynnwys, eto'n arweiniol, yr ymwybod o sefydlogrwydd, o'i gyferbynnu â'r ymwybod o symudolrwydd a ddiffinia amser, a hynny o fewn dau gyfeiriad. Ond gwedd ydyw mewn iaith, a gwedd mewn diwinyddiaeth.

Sôn yr ym am Hierarci gyflawn. Mae'r Sffêr 'Ffydd' sy'n ganolog i waith Pantcelyn yn neilltuedig, fel y gwelsom, am fod y Brif Gyfundrefn hon hefyd yn Wraiddgyfundrefn, hynny yw, yn ymwneud â'r Absoliwt. Arch-sffêr yw sy'n gydlynol wrth yr Archgyfundrefnau. Deunydd cyfundrefnol yw hefyd o ran sylfaen i agwedd fythol y meddwl seciwlar yn gyflawn. Ac yn ogystal, darpara hefyd Gyfundrefnau Thematig a fydd yn parhau maes o law fel *Motiff*, mewn Mynegiant.

*

*

*

Yng nghyd-destun dosbarthiad Dooyeweerd o Sfferau Deunyddiol Deddfog a Sofran, carwn grybwyll un o syniadau Wittgenstein.

Yn ei gyflwyniad rhagorol i *Wittgenstein*, 1980, trafoda Walford L. Gealy y cysyniad enwog am chwaraeon iaith. Ceir yno ddau ddehongliad. Yn gyntaf (t.72) esbonnir ffwythiannau beunyddiol a chyffredin fel 'chwaraeon', a thrafodais y rhain yn *Taliesin*, Gaeaf 2008. 112-116. Mae'r rhestr yn debyg iawn i'r ffwythiannau a feddiannodd fryd didactegwyr di-drefn iaith Cymru yn niwedd y ganrif ddiwethaf. Ac megis yr oedd Wittgenstein yn dehongli iaith fel Deunydd yn unig, (gan anwybyddu Ffurf, oherwydd anwybodaeth neu ddiffyg diddordeb, neu'r ail yn cynnwys y cyntaf): felly ysywaeth (yn ein hargyfwng enbyd) didactegwyr Cymru. Ond ar dud. 74-5 cyfeiria Walford Gealy at ddehongliad arall: 'Math o gêm iaith yw celfyddyd, sy'n cynnwys amrywiaeth helaeth o weithgareddau fel barddoni ac adrodd barddoniaeth, cyfansoddi cân a'i harwain neu ei chanu, arlunio, cerflunio, pensaernïaeth ac yn y blaen. Math arall o gêm iaith yw gwleidyddiaeth, sy'n cynnwys pethau fel etholiadau, gwneud cyfreithiau, gweinyddu cyfraith, trefnu economi ac yn y blaen. Math o chwaraeon iaith yw moesoldeb a chrefydd ... Wrth bwysleisio awtonomi pob chwarae, ceisiodd Wittgenstein ddangos bod ei resymu yn fewnol iddo ac nad oes yna "reswm" sy'n annibynnol arno neu'n ei drosgynnu.'

Dyma Sfferau Dooyeweerd, i raddau, fel y gwelir. Mae Dooyeweerd yn trafod y mater pwysig hwn dros nifer o gyfrolau sylweddol. Mae ef wrth gwrs yn canfod perthynas rhwng holl gyflawnder y Sfferau â'i gilydd, ac â gweddau eraill ar iaith. Rhan o gydlynid yw pob un. Ond cyd-sylweddolodd y ddau fod pob gêm yn gyflawn ac yn meddu ar ei phwrpas o'i mewn ei hun. Ond gwêl Dooyeweerd bwrpas trosgynnol hefyd, Absoliwt, lle y mae Wittgenstein, fel yr awgryma'r trosiad 'gêm' fel pe bai heb fynd i unman, heblaw efallai ei 'hennill' o fewn ffiniau gêm. O fewn y gêm y ceir y bodlonrwydd. Eto, ceir rheolau i'r gêmiau gan y naill athronydd a'r llall, ac ni rydd y naill na'r llall hanner digon o sylw i *gyfundrefn* o gêm, sef natur y rhannau o fewn llawnder yr undod, y Ffurf, y Tafod a'r Mynegiant. Mynegiant ac ymwybodol yw rheolau'r gêm i Wittgenstein, a gellir eu newid yn fwriadus; y mae Sfferau Dooyeweerd yn fwy isymwybodol, ac ni ellir eu newid yn fwriadus. Ond y mae'r naill a'r llall yn dosbarthu. Yn gyntaf, defnyddiai Wittgenstein y trosiad o debygrwydd teuluol i grwpio yn ôl sefyllfa, patrymiad, maint, nifer y chwaraewyr, meddyliol/corfforol, pwrpas. Ond ymhellach ymlaen, tueddai'n amlach i sôn am gategoriâu. Ond dosbarthwyd y Sfferau a'r deunyddiau yn ôl cymhlethrwydd eu natur gan Dooyeweerd. Er bod Dooyeweerd yn fwy trwyadl, y mae gan Wittgenstein, er gwaethaf ei ragdybiau naturiolaid, lawer iawn o fyfyrddod dadansoddol treiddgar, na thâl i'r sawl a astudia'r maes hwn ei anwybyddu.

*

*

*

Un o gyneddffau pennaf Cyfundrefnau, megis Archgyfundrefnau cynieithyddol, yw eu bod yn ymwneud a'i gilydd i ffurfio clystyrau. Yn hyn o symudiad, dyledus ydynt yn allanol i'w ffurf fewnol, ac i egwyddor ffurfiannol ysol *Un/amryw*.

Mae'r cydlynu hwn i'w weld o fewn yr Absoliwt Cristnogol, sef y Drindod. Y mae hefyd i'w weld drachefn ar y lefel uchaf yn y Duw-ddyn Cristnogol, Crist, yr Ymgnawdoliad sy'n arwyddo uniaethu Duw â'r greadigaeth, dwy natur mewn Un Person.

Sylwer ar yr un Archgyfundrefn ar ddeg a nodaf (5 + 2 + 4) oll yn ffurfio 'cytser' gyda'i gilydd oherwydd cyd-swyddogaeth. Gan eu bod oll, gyda'i gilydd yn bodoli o fewn ffurfiant pob un Archgyfundrefn Ddeall arall, a chan fod cyd-bresenoldeb o fewn 'undod rhaid' yn eu gwneud yn gyfundrefnol, hwy sy'n cydamodi pob is-gyfundrefn arall yr un pryd. Nid term technegol yw cytser. Term hwylus yw i gyfeirio at y clwstwr a fabwysiedir o fewn y Cyfundrefn o gyfundrefnau ac a ddefnyddir gyda'i gilydd yn gysylltiol ar y pryd. Gan fod pob peth yn rhan o Undod mawr, rhaid inni ddisgwyl cael rhai grwpiau o gyfundrefnau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn fynych yn fwy na chyda rhai eraill. Dyna yw anianawd 'cytser'.

Ffordd arall o gyfleu'r ymglymu hwnnw fyddai cymryd enghraifft benodol, a'i dilyn ryw ychydig, nid i'r pen oherwydd nad oes yr un gyfundrefn yn y greadigaeth lle na bydd y gyfundrefn hon yn gallu ein harwain o gylch popeth. Dilynw'n ychydig o'r trywydd a esyd Pantycelyn i ni yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. A chymerwn yr ail Archgyfundrefn: *Anweledig/Gweledig*. Dyma'r union gyfundrefn sy'n gweddu ar gyfer cyferbynnu dwy ran gyntaf yr arwrgerdd: *Arfaeth/Creadigaeth*. Yr 'Arfaeth', yn gryno, ac o safbwynt dealltwriaeth gyfyngedig ddynol, oedd y cynllun ym 'meddwl' Duw ar gyfer y greadigaeth ei hun. Ond diriaetha'n synhwyrus y cynllun hwnnw. Troir cynllun yn weithred ac yn ddeunydd (Mynegiant), a'r ysbrydol yn ddeunydd corfforol. Hynny yw, dyma'r cyferbyniad ar wedd arall, rhwng y *Goruwchnaturiol* a'r *Naturiol*.

Ond islaw'r Archgyfundrefnau Ffurf, y mae Sfferau Deunydd a'r Themâu Deunyddiol yn cyd-ymuno. Y mae'r Arfaeth yn esgor ar batrwm *Creu/Cwyp/Codiad*, ac y mae'r Greadigaeth yn ein hatgoffa am *Grëwr/Creadigaeth*. Y mae hefyd yn ein cysylltu â'r Archgyfundrefn ddeunyddiol *Absoliwt/unigolyn*. Un o'r cyfundrefnau ffurfiol pwysicaf, cysylltiedig â hyn, yw'r nawfed a nodaf, sef *Hunan-ddibynnwr/Dibynnwr*, sydd hefyd yn ein harwain o gytser i gytser.

Pe dilynem y gyfundrefn Arfaethol *Creu/Cwyp/Cymod*, caem fod yr Eglwys ar hyd y canrifoedd wedi myfyrio'n gyfoethog iawn o gylch pob un ohonynt. Gwyddai a chanfyddai llenorion diweddar y Gorllewin, o Ddostoiefsci drwy Baudelaire hyd at Emily Dickinson,

mor oludog ac mor angenrheidiol oedd yr ymwybod o bechod neu o gwmp i bob llenor o bwys. Soniasom o'r blaen am Dante, Goethe, Shakespeare, Saunders Lewis, — gwyddent oll fod ymwybod o bechod (a'i gyflog marwolaeth) yn un o'r ffactorau dwysaf yng nghymhelliaid trefn a llenyddiaeth. Ac nid oes yna'r un grefydd debyg i Gristnogaeth o ran cyfoeth ei dwyster mewn sylweddoliad o arwyddocâd, a pherthynas y ffenomen ysbrydol bersonol hon, o amherffeithrwydd gerbron Duw.

Byddwn maes o law yn lled ddilyn rhai llinynnau ysbrydol drwy'r Arfaeth. Maent yn hanfodol ddiderfyn.

Wrth ddilyn rhai llinynnau dethol mewn clwstwr megis *Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddiad* (bob un yn arwyddo perthynas fertigol) sydd o fewn yr Arfaeth honno, fe gawn o raid ddyfnderoedd na cheisiai Pantycelyn fynd ati i'w dehongli bob amser, er eu crybwyll. Pe dymunid gwybod ei feddwl athronyddol ef am ystyr fewnol y rhain, y gyfrol Gymraeg fwyaf hwylus o bosib fyddai Geiriadur Charles. Swydd Pantycelyn oedd dathlu'r traddodiad hwnnw oll ymlaen llaw ac wedyn ar gân.

Dyna iddo ef ddiweddbwynt neu uchafbwynt y byd 'ysbrydol': gogoneddu. Wrth gwrs, fe âi pobl, a dlodwyd rhag hyn oll, ac a farweiddiwyd gan 'ryddfrydigrwydd' goddrychol a'r Ego Trosgynnol, i wadu nad oedd y fath beth ag 'ysbryd'. Ac iddynt hwy weithiau, o ran ymwybod, gallai hynny fod yn wir. Term y Beibl oedd bod eu hysbrydoedd yn 'farw'. Hynny yw, ni ddathlent gyfathrach fyw rhyngddynt a Duw pob bywyd. Ond o golli bywyd yr ysbryd, collasant — heblaw mater bach fel bywyd tragwyddol — ddealltwriaeth hefyd o'r tu mewn ynghylch cryn gyfran o brofiad llenyddol y gorllewin, ac aeddfedrwydd personol digonol i fod yn glustdenau fyw i ystyr llawer o glasuron celfyddyd.

Ceisio trafod yr wyf adeiladwaith meddyliol ein prif fardd rhwng yr oesoedd canol a'r ugeinfed ganrif — Pantycelyn. Dadlennu adeiladwaith ei Sfferau Deunyddiol sy'n esgor ar Themâu Deunyddiol ac yna ar Fotiffau yw'r nod. Ac y mae ef yn rhannu'r un Gyfundrefn o gyfundrefnau llenyddol nid yn unig â'i gyd-emynwyr, eithr hefyd â thelynegwyr (a llenorion) yn gyffredinol. Eto fe wnaeth rywbeth arall heblaw emynydda, rhywbeth sy'n ei osod ar wahân i bob llenor yng Nghymru. Fe wnaeth ef mewn dwy arwrgerdd arolwg o Hierarci strwythurol yr union Ddeunyddiau Meddyliol sy'n sylfaen go ymwybodol i'w waith ei hun i gyd. Clymodd ynddynt Gyn-wyddoniaeth a Gwyddoniaeth, Goruwchnatur a Natur.

*

*

*

Tua'r flwyddyn 1750, ac yntau'n 33 mlwydd oed, cafodd Williams Pantycelyn, dybiaf i, weledigaeth enfawr. Yr oedd wedi gorffen y chwe rhan o *Aleluia*. Profodd rwyg trist ac anffodus ymhlith arweinwyr y Diwygwyr. Daeth yn bryd iddo ailfeddwl ble y safai ei fywyd.

Yr oedd ef wedi cael ei fagu o fewn fframwaith Cyfundrefnol ac wedi dod yn sydyn i'w phrofi'n fwy na 'dealltwriaeth'. Daeth hi'n fawlgan o brofiad iddo. Yr oedd prif ddiwinyddion uniongred a chlasurol y canrifoedd, boed yn Gatholigion fel Awstin a Thomas Acwin neu'n Brotestaniaid fel Calfin, oll wedi canfod yr undod a'r cadernid mewn athrawiaeth Gristnogol, peth a brofai ef yn feunyddiol bellach yn wedd ar ei fywyd a'i feddwl barddonol ei hun. Yr oedd y drefn gyson a chydlynid cymen mewn dau faes, yn arbennig ym mryd y Piwritaniaid, sef rhagflaenwyr deallol Pantycelyn yn yr Arfaeth ac mewn Cadwedigaeth, wedi cael eu holrhain a'u disgrifio dro ar ôl tro. I Bantycelyn bu hyn yn ysbyrdoliaeth newydd. Aeth yntau un cam ymhellach na hwy.

Ac yntau bellach yn fardd 'defnyddiol', ac yn emynydd a dyfasai'n weledydd ar ôl cyfres o gyfrolau bychain gwasanaethgar *Aleluia*, dyma Williams yn troi'i ddawn i wneud peth anghyffredin o uchelgeisiol: darganfu ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol ar gân. A chorfforodd y cyfundrefnu hwnnw mewn Gogoneddiad, mewn emynau gorfoleddus niferus. Fe feddiannwyd ei fywyd am rai blynyddoedd gan y brosiect anfwriadus gyfundrefnol hon. Bu'n astudio'n ddiwyd ac yn myfyrio'n ddifrif hyd at lesgedd. Ac ymagorodd yn awr yn ffrwythlon nid yn unig mewn dwy arwrgerdd, *Golwg ar Deyrnas Crist* 1751 a *Theomemphus* 1764, eithr mewn emynyddiaeth gydlynol.

Er ei fod eisoes yn *Aleluia* wedi cynhyrchu mewn rhannau gasgliad digonol o emynau, caneuon pop at iws gwlad, ailgydiodd yn y gwaith hwnnw o emynydda am na allai lai, a hynny mewn fframwaith newydd: *Hosanna i Fab Dafydd*, 1751-1754; ac yn arbennig *Y Môr o Wydr*, 1761 (hyn ar gyfer achlysur y Diwygiad Mawr 1762); *Ffarwel Weledig*, 1763-1769; *Gloria in Excelsis*, 1771-1772. Y tri chasgliad diwethaf yw rhan ganol a seiliol i'w arolwg diwinyddol. Dyma'r gwaith triphlyg pwysicaf a gyflwynodd ef bellach i Gymru, wedi'i uno yng ngrym ei benderfyniad i ogoneddu Crist uwchlaw pawb, a hynny o fewn fframwaith cyfundrefnol: dwy arwrgerdd a llu o emynau yn un brosiect fawr.

Y mae yna un peth y dylwn ei danlinellu o'r newydd ynglŷn â'r ddwy arwrgerdd hyn. Heblaw eu bod ar fydr ac yn dra diwinyddol (bron yn rhyddieithol felly ar dro), bob hyn a hyn wrth ymlwybro yn ei flaen y mae'r awdur yn gwneud rhywbeth tebyg i Paul yn ei drafodaethau athrawiaethol dwys yntau. Arfer Paul yn ei Epistolau, yn sydyn, ar draws trafodaeth ddofn a deallol drom, fydd sefyll yn ei ôl dro. Yn syfrdan, mae'n troi oddi wrth yr ymdriniaeth â dysgeidiaeth gyfundrefnus ac yn codi'i galon mewn epiffani buddugoliaethus i'r Arglwydd. Ni all ymatal. Yn ei syndod a'i ryfeddod a'i gariad enfawr at Grist, yn ei sylweddoliad o harddwch a daioni ac aberth yr Arglwydd, y mae ef yn troi i ganmol o'r galon (ac i ogoneddu ...) beth? wel Trefn. Felly hefyd, ar raddfa lai, Pantycelyn yntau. Yn y gyfrol

hwylus *Emynau a'u Hawduriaid* gan John Thickers, gol. Gomer M. Roberts, 1961, 185, yn yr eitem ar Williams, ni allwn ond sylwi ar y ffaith fod yna nifer o emynau ar gael gan Williams — yn llyfr rhagorol y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaid — sy'n ddedoliad o 'emynau' nas bwriadwyd i fod yn emynau o gwbl, a hynny ar fenthyg gan y ddwy arwrgerdd hyn, *Golwg ar Deyrnas Crist* (chwe 'emyn') a *Theomemphus* (chwe 'emyn' arall). Nid oedd prinder o emynau bwriadedig go iawn gan Williams wrth gwrs, mewn llyfrau emynau confensiynol eraill ganddo, nas cynhwyswyd yn y *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaid*. Ond fe gafodd defnyddwyr y gyfrol safonol honno, gan eu hawdur mwyaf adnabyddus am dros hanner can mlynedd, nifer o gyfresi o benillion hwylus a hwyliog allan o'r ddwy arwrgerdd, darnau a wisgai ac a weithredai fel emynau ond a fuasai ynghudd dan blygion y cerddi hir diwinyddol ynghynt.

Soniais am ddwy gyfundrefn ymbarél enfawr sy'n cael sylw cyson gan ddiwinyddion yr oesoedd. Ac y mae'r ddwy arwrgerdd nodedig *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus* yn ymwneud â'r ddwy gyfundrefn ymbarél hyn. Y mae'r naill yn taenu cynllun a champ y Greadigaeth ger ein bron, gan gynnwys y rhagluniaeth sy'n penderfynu ac yn cynnal y drefn honno drwy hanes, a'i chwmp wedyn, a'r cymod neu adferiad mewn amser drwy Iesu Grist, tan arwain ymlaen at undeb llawn â Duw a gogoniant ynddo Ef. *Bod/Gwneud*. Mae'r gerdd hir gyntaf felly'n rhoi hanes aruthrol banoramig, hanes popeth o safbwynt ysbrydol, lle y mae'r Crist cosmig yn dechrau mewn perffeithrwydd ac yn ei wneud ei hun yn Bechod eithafol (o bopeth) nes codi i ddyrchafiad eithafol drachefn. Ond wedyn, fe luniodd ef ail arwrgerdd (o fewn profiad Gras Arbennig), ynghylch Trefn y Cadw yn benodol, sef *Theomemphus*, un a ddechreuodd yn bechadur ac a orffennodd mewn perffeithrwydd unedig: *Bod/bod*. Yn y gerdd gyntaf, Iesu Grist oedd yr arwr: yn yr ail, Theomemphus. Mae'r arwr meidrol yn dechrau yng nghanol bodolaeth pob pechod erchyll, ac yn eithafol o isel ei gyflwr amddifad. Fe'i holrheinir drwy lawer camwri a heibio i lawer rhwystr i dderbyniad llawn gan Grist ac i'w iachâd erbyn y Gogoniant. Er mai'r berthynas fertigol yw craidd yr ail arwrgerdd bob cam, mae'r gerdd hon hefyd yn dilyn echel llorwedd. Yn y ddwy gerdd hyn, hynny yw ar gân felly ac nid mewn rhyddiaith fel diwinyddion mawr yr oesoedd, y mae Pantycelyn yn cyflwyno inni ddwy ran brydyddol ei Ffydd gyfundrefnol unigryw ond traddodiadol ei hun. A'i chanu a wna. Dyma'i ffordd gynhenid ef o ogoneddu Duw ac o ymateb i gyfundrefneg ddiwinyddol yr un pryd. Canai'r Cynllun.

Hynny yw, os caf gysylltu'r testun â'r archgyfundrefn a gyfrifai Williams yn amlwg sylfaenol i'w waith oll — *Anweledig/gweledig*, fe sylwn arno nid yn wrthrychol yn unig, ond

yn oddrychol hefyd ac yn gyfarwyddyd ewyllysïol i'r gymuned ddeallol, tan ddarparu meddylwaith ymarferol wrth droi fframwaith ei fyfyrdod.

Cafwyd llawer cyfeiriad yn Niwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol y gorllewin at y ddau faes hyn, sef at Gyfundrefn yr Arfaeth ac at Drefn y Cadw. Fe glywir yn benodol am y rhain ac fe'i gwyddom drwy eu hymdriniaeth helaeth gan bobl fel Karl Barth, Siôn Calfin, a Thomas Acwin. Ond ceir cyfeiriad ychydig yn wahanol yng ngwaith Pantycelyn. Fe'u clywir yn ei emynau, ar waith wedi'i anrhydeddu a'i flaendiro ac mewn dau arolwg prydyddol hir, — ar ffurf Mawl uniongyrchol. Oherwydd, gwelodd ef, wrth ochr Cyfundrefn yr Arfaeth a Threfn y Cadw, gyfundrefn arall glwm. Ar ryw olwg, perthyn Cyfundrefn yr Arfaeth a Threfn y Cadw i fyd amser, o fewn cylch hanes. Eithr, yr un pryd, y mae rhywbeth arall ar waith y tu allan i hanes. Gŵyr pob Cristion amdano yn y bôn. Nid yw ei realiti yn ddieithr nac yn newydd. Y newydd-deb yw i Bantycelyn gynnwys yr Arfaeth a'r Cadw o fewn ei ddetholiad triphlyg. Hynny yw, o fewn Cyfundrefn y Weithred Lenyddol, Mawl.

Lluniwyd y ddwy arwrgerdd ar hyd echel amser. Ond mae'r ddwy arwrgerdd yn gorffen ac yn cael eu cyflenwi mewn Gogoneddiad bythol. Mae yna ddechrau a diwedd cyfundrefnol iddynt. Mae yna gynllun olynol o'u mewn yn arwain at hynny. Nid yn gaeedig y cyflwynir yr emynau o fewn cynllun. Yn eu perthynas â'i gilydd, ymddangosant yn achlysurol, mae'n wir, ond y mae'r achlysuron o ran potensial yn afrifed benagored ac yn gorfod sefyll o ran ansawdd ochr yn ochr â'r ddwy gyfundrefn gaeedig yn y ddwy arwrgerdd, yn gorff o Fawl gwahanol ei natur wedi tyfu allan o brofiad deallol a serchiadol unol. Ac eto, troir y ddwy Arwrgerdd athrawiaethol hwythau yn emynau afieithus ar dro blith draphlith â'i emynau eraill yn ddathliad enfawr.

Pe trafodid Cyfundrefneg Ddiwinyddol heb roi Mawl a Gogoneddu a mwynhau Duw ar y dechrau, yn y canol ac yn y diwedd, ac mewn dimensiwn arall, er cywired ac er llawned y pwyntiau a grybwyllid a'r cyfundrefnau a drafodid, gellid dweud bod y galon ar goll. Gogoneddu yw'r gyfundrefn efengylaidd *par excellence*. Sef dyn yn gogoneddu Duw, a (syfrdandod!) Duw yn gogoneddu dyn o ran natur a safle. O ran Cyfundrefnaeth a swyddogaeth, y mae peth felly yn gorfod cael ei ystyried ar wahân; oherwydd yng nghyfundrefn yr Arfaeth, elfen mewn perthynas yw gogoneddu. Uchafbwynt a chlo cyfundrefnol yw o'r tu hwnt i'r cyfundrefnau cyffredin. Hyn sy'n trawsnewid myth y deall a myth y drefn, o fod yn 'oer', yn ffenomen fyw. Ac felly y'i trafodir gan Bantycelyn, gan nodi hefyd fod y naill a'r llall, Arfaeth a Chadw, bellach yn gymwysedig yn Neunydd tragwyddol y Mawl am byth. Cynnyrch Cariad yw Cyfundrefn; a ffurf Cariad (Un sy'n Amryw) sydd i'r ddau.

Yn y triawd, Ffydd, Gobaith, Cariad hwythau hefyd, fe ddiflanna angen Gobaith yn y dimensiwn newydd wrth gwrs. Erys Ffydd yn yr ystyr o ymddiried yn yr Anweledig, er y bydd dibyniaeth y Cristion ar Dduw yn aros yn norm i'r berthynas. Ond ni bydd angen Ffydd sy'n 'warant' o bethau y gobeithir amdanynt. Bydd Cariad bellach yn goron unigryw dragwyddol. Tebyg i Ogoneddiad a Harddwch. Hynny yw, mae anian neu ansawdd y Gyfundrefn 'Gogoneddu' a brawf y rhai sydd yn y Crist croeshoeliedig, ac sydd eisoes i'w harchwaethu yma i raddau gan y Cristion byw, yn peri gofyn ystyriaeth wahanol gan y ddwy arwrgerdd. Felly, hefyd y gwahaniaeth yng nghyfundrefn y rhinweddau a gyferbynna Paul, y rhai y gellid cyferbynnu'n gyfundrefnol fel hyn:

<i>Gobaith</i>	<i>Ffydd</i>	<i>Cariad</i>
Yr elfen ddisgwyl orffenedig	(a) Parhad yn y ddibyniaeth yn Nuw, ond wyneb yn wyneb (b) Gorffen y ddibyniaeth ddaearol ar Anweledig o ran ffurf	Para byth mewn gogoneddiad cyd-bersonol

Gyda Ffydd yn sefyll hanner ffordd, felly, o ran ffurf rhwng y naill begwn a'r llall, y tri gyda'i gilydd yw'r gogoneddiad.

Mwyach, gellir casglu, yn sgil cyfanwaith Pantycelyn, na cheir cyfundrefn byth heb ei phegynu. Mae ymdeimlad yr Absoliwt yn darparu fframwaith delfrydol eithafol sy'n ysgogiad ystyrol i strwythur cyfundrefn.

* * *

Wrth amlinellu Cyfundrefneg yr Un Archgyfundrefn ar Ddeg a nodais o flaen y Sfferau, yr wyf wedi meiddio'u cysylltu â'r gair cyfrin 'rhaid'. Ym mryd y llenor, dyma fframwaith meddwl nad oes a'i hosgoa, mae arnaf ofn. Math o ddeddfolrwydd 'anghynnes' i'r dyn naturiol yw hyn y byddai gwyddonydd yntau yn chwilio amdano, er croesed ac er gwrthuned y bo ym mryd y dyn 'rhydd' yn y Cyfnod Rhamantaidd. Er hynny, gair mwy cydnaws arferol byth i ni, er ein plentyndod ymlaen, yw'r gair rhamantaidd a Christnogol 'rhydd', gair a all fynd yn wag o ystrydebol; ond gair yw yn y cyd-destun Cristnogol, sy'n grisial ddiriaethol.

Ac wrth ystyried yr Un ar Ddeg Archgyfundrefn honedig hyn, y cwlwm mwyaf dadleuol, a mwyaf arallfydol o amhosibl, yw'r awgrym ynghylch cyfundrefnwaith deuol Deunydd. Mae honni bod *rheidrwydd* crefyddol ar waith yn y dadansoddiad o Gynnwys gwaith *pob* llenor o bwys yn dramgwydd naturiol i'r anianawd gwrth-grefyddol. I agnostig, ymdengys mai anathema fuasai addef bod ganddo yntau ei absoliwt a'i dduw, yr Ego trosgynnol.

Wrth gwrs, mae gan bawb ohonom ddealltwriaeth o'r gwrthwynebiad seciwlar anochel hwn i 'orbwyslais' ar arwyddocâd crefydd mewn llenyddiaeth Gymraeg. A chydymdeimlad hefyd. Ond mae gennyf sawl rheswm dros ddal ati i ystyried bod Cyfundrefneg Pantycelyn yn ffurfiol ac yn ddeunyddiol berthnasol nid yn unig ar gyfer llenorion cyd-grediniol, eithr hefyd ar gyfer y rhai sydd heb 'ddim' o'i ymrwymiad ysbrydol ef. Dyma bum rheswm.

1. Ffynhonnell ac ysgogiad cyntaf llên, fe ymddengys, fu crefydd. Dyma, yn ôl pob golwg, ledled y byd, a gymhellodd yr ymdrechion cynharaf i lunio telynegion, gweithiau dramatig, a chwedloniaeth. Fe'i ceid yn y gwraidd oherwydd rhyw ddifrifoldeb gwaelodol ynghylch y cudd a'r anesboniadwy, megis bodolaeth, trefn a bywyd. Darparasant fframwaith i'r dyfodol. Yr oedd angen gwybod rhagdyb ac absoliwt. Dyma ragffurfio diffiniol.
2. Tuedd llenyddiaeth ddifrif a phwysig hyd y cyfnod ddiweddar fu gogwyddo tuag at themâu ysbrydol a moesol. Ie, o'r dechreuad hyd heddiw, mae gweithiau llenyddol mwyaf myfyriol y byd yn ymwneud â themâu a phroblemau hanfodol ysbrydol.
3. O blith y sfferau sefydliadol, thematig, a deddfog (heblaw iaith a'i his-sffêr llên i raddau), y diwinyddol yw'r unig un sy'n hawlio ymwneud â phob un agwedd ar fywyd, y dywedadwy a'r anddywededig, a hyd yn oed yn hawlio awdurdod drostynt. Hynny yw, dyma'r unig sffêr sy'n holl-gynhwysol, yn ôl ei ddiffiniad, ac felly'n anochel ystyrion ei pherthynas â phob sffêr arall.
4. Mae'r ddadl ynghylch rhagdybiau anochel ar sail *sensus divinitatis*, yn ein darbwylllo bellach nad yw didueddrwydd ddim yn ddewis dilys. Nid yw eistedd ar ben llidiart yn llwybr dihangfa, gan fod y safbwynt diniwed hwnnw ei hun hefyd yn 'cymryd ochr'.
5. Gallai anghredadun ddadlau bod yr amgylchiadau bellach yn ein hoes oleuedig ni yn gyfangwbl wahanol. Onid dyma eithriad o gyfnod seciwlar? Onid yw pawb mwyach o America i Iran yn ddigrefydd? Eto, tybiaf mai dyletswydd y dyfodol fydd dyfarnu a yw'r oes fodern seciwlar bondigrybwyll wedi mennu un iot ar ddeunydd thematig llenyddiaeth. Ar hyn o bryd, ni chyraeddasom y sefyllfa lle y gellid bod yn hyderus o gwbl ein bod wedi dianc rhag arwyddocâd ac awdurdod y meddwl crefyddol. Ni chyrhaeddwyd y sefyllfa lle nad yw'n amlwg nad yw seciwlariaeth yn grefydd.

Ac yna, wrth gwrs, wrth drafod yr Archgyfundrefnau Ffurfiol yn ogystal â'r Sfferau Deunyddiol, sôn yr ym am Ras Cyffredinol. Rhaid i'r anghredadun felly wynebu'r holl Sfferau hefyd.

*

*

*

Moddau o dreulio amser yw Sfferau Dooyeweerd i gyd mewn categorïau o wrthrychau, ac eithrio'r Sffêr ddiwinyddol, sy'n cynnwys amser a'r absoliwt tragwyddol. Mae'r cwbl oll yn ymwneud â dyn; ymwna'r pump isaf — seicoleg, biotig, ffisegol a symudol, gofodol, a rhifyddol, — ag anifail hefyd; y pedair isaf â phlanhigion, a'r tair isaf â'r ffisegol. Nid wyf yn siŵr o gwbl a yw rhestr Dooyeweerd yn gyflawn na'i ddosbarthiad yn foddhaol, na chwaith beth yw'r ateb terfynol. Wrth iddo ddosbarthu'r rhain, a nodi eu safle deddfog, a'r bodau daearol sy'n ymwneud â phob un, anodd peidio â chael peth ymryson ynghylch manylion. Gellid nodi mai anodd peidio â chaniatáu i'r anifail gymdeithasu er bod Dooyeweerd yn cyfyngu'r modd hwnnw i ddynoliaeth. Eto, ni waeth am hynny am y tro. Ymddengys fod rhywbeth cyffelyb, i'r rhestr a'r dosbarthiad hwn, ac yn arbennig y syniad o foddau deddfog, a'r angen i ddosbarthu'n gyffredinol, yn ystyrlon anochel wrth wynebu Deunydd tra amlochrog; ac ymarferiad hwylus yw i ddeall rhychwant gweithgareddau'r meddwl a'r profiad dynol. Dyma rywbeth tebyg i'n hamgylchfyd amrywiol ymddangosiadol gymhleth.

Er fy mod yn cyfeirio at y Sffêr ddiwinyddol yn benodol gyntaf wrth ystyried gwaith Pantycelyn, nid oes dwywaith nad oedd a wnelai ef hefyd nid yn unig â'r ddiwinyddol eithr yn bur helaeth â'r wyddonol a'r foesegol, yr esthetig, y gymdeithasol, yr ieithyddol, yr hanesyddol, y ddadansodddol, y seicolegol, ac wrth gwrs hefyd mewn iawndal â'r farnwriaethol. Ac yn y diwedd â'r diben o fwynhad tairochrog, o gyd-ddyn, amgylchfyd, a Duw. Felly, nid oes dwywaith nad oedd y Sfferau eraill a enwir yn goferu o fewn meddylfryd y llenor arbennig hwn, yn sylfaenol gan eu bod i'w cael ym mhobman, er eu bod yn fwy soffistigedig yn y gwledydd datblygedig. Dyna pam yr hawliaf, er mai crefyddol (yn wir, am mai crefyddol gyfansawdd) oedd bryd Pantycelyn, fod rhychwant ei arwyddocâd yn orfodol i feirniadaeth hefyd o safbwynt ystyried llenyddiaeth yn gyffredinol.

Yn y dadansoddiad o olyniaeth feddyliol y camre mewn gweithred ddeunyddiol lenyddol, ceir — o leiaf — ddwy hierarci. Yn gyntaf, y mae'r cwbl o'r weithred ei hun yn hierarci wrthrychol. Arweinia o'r Absoliwt hyd at y Motiff. Mae pob cam yn y broses yn adrodd yn ôl i'r Pencadlys hefyd drwy gyfrwng yr orsaf o'i flaen. Dyna hefyd brif rediad y gyfrol hon.

Ond yn ail, ceir o fewn un o'r camre mwyaf arwyddocaol, sef cyfarfyddiad Ffydd â Sfferau deunyddiol, sef testun ein myfyrdod yma ar hyn o bryd, hierarci arbennig a mewnlol. Amlinellwyd sbectrw m y Sfferau hyn mewn dull olynol ac ystyriol gan Dooyeweerd. Ond oherwydd ychydig o anesmwythyd gennyf ynghylch cynwysfawredd yr amlinelliad hwn, nid wyf yn ei gynnig ond fel sylfaen trafodaeth, gan grybwyll ambell bosibilrwydd petrus. Ond

cadarnheir peth o'r sbectwm gan Alister E. McGrath (M II, 209, 217, 219, 220, 224, 234, 280-287; III 82-84, 143-149). Sonia ef am y gwyddorau naturiol ar ffurf hierarci. Gwêl olyniaeth fel hyn: Ffiseg→Cemeg→Bioleg→Cymdeithaseg. Cyfeiria at ddadl Roy Bhasker (1998) fod pob stratwm boed yn ffisegol, yn fiolegol neu'n ddiwylliannol, i'w gyfrif yn 'real' agored i'w archwilio yn ôl dulliau sy'n addas i'w hunaniaeth unigolyddol (M II 195-244). Â'r ddadl hon yn y cyfnod diweddar yn ôl at gyfrol gan Michael Polanyi (1966) a ddatblygodd hen syniad o fydysawd hierarcaidd, a gynhwysai lawer o lefelau, gyda phob un yn gweithredu o dan lywodraeth rannol yr un o'r blaen. Arbenigrwydd Bhasker (fel Dooyeweerd mewn ffurf wahanol) yw'r cyd-bwyslais, gyda'r gwyddorau Biolegol a Moleciwlaidd, o'r gwyddorau Seicolegol a Chymdeithasol. Tyn McGrath sylw at yr haenau mewnol i'r prif sfferau, megis o fewn y gwyddorau ffisegol (M II, 281). Er bod gan bob un o'r gwyddorau hyn ei methodoleg ei hun, gwiw cofio bod rhai egwyddorion sy'n gyffredin i bob un fel yr awgrymwyd yn y drafodaeth ar Archgyfundrefnau.

Dichon mai ysbrydoliaeth y wedd honno ar ddiwinyddiaeth oedd gwaith Westcott yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Medd McGrath (M III, 83-84): 'The affirmation of a stratified creation is entirely in keeping with the Christian understanding of the world. Brooke Foss Westcott (1825-1961), one of the most creative Anglican theologians of the nineteenth century to give sustained attention to the doctrine of creation, was adamant that the notion of a stratified (or 'hierarchical') natural order was entirely consonant with the biblical witness and Christian tradition. There is, he argued, a "hierarchy of sciences, which we severally subordinated one to another, and each regulated by its peculiar laws." Theology is the highest of such sciences, such as biology and chemistry. And precisely because it stands at the apex of the hierarchy of sciences, theology is able — and obligated — to "take account of the whole" — that is to say, to offer, as best it can, a total vision of the God who is known in creation and redemption, to which the lesser sciences drew witness.'

Diddorol sylwi ar natur y berthynas o fewn yr hierarcau hyn. Yn ôl Dooyeweerd, dosberthir yn ôl graddfa symlrwydd (sy'n tueddu i fod yn annigonol). Yn ôl Polanyi mae'r un uwchben yn gweithredu rheolaeth ymylog ar yr un sydd islaw — o fewn y Sfferau. Ond o fewn y weithred lenyddol, perthynas achos ac effaith sydd gan bob un, a pherthynas hanfod canolog: e.e. Crist → Bodolaeth a Threfn y Greadigaeth (Deuoliaeth → Corff/Ysbryd; Dibyniaeth) → Archgyfundrefnau (Agweddau ar gymeriad y Greadigaeth a'r Creawdwr) → Sfferau (Bodau Creedig) → Deinameg Thematig (Sfferau ar waith) → Motiffau (Rhan/Cyfan). Yr ydym yn ymwybodol o Ffydd, felly, drwy gydol yr Hierarci, yn ddolen

gydiol, yng Nghrist, yn ddisgyrchiant i fywyd dyn, yn flaenaf yn y Sfferau, ac yn rhagdyb i lenyddiaeth oll. Mae'n gynnyrch Gras Cyffredinol a Gras Arbennig.

A36-37 Ffydd ydŷw'n sicr sail y Daw,
 'Rhyn 'wi'n ei ddisgwyl oddidraw,
 Fy Ngadarn sicrwydd yw am Nôd,
 Or peth nis gwelodd neb erioed...

Rwi'n gweld peth yn gyddiedig Sŷdd,
I lygaid Cnawd yn blain trwy ffŷdd,
Fy Rheswm balch a orfu do'd,
Or Diwedd' lechu dan fy Nhroed.

III. PEDAIR SFFÊR ARALL

Wrth arolygu Sfferau Deunydd llenyddiaeth, bu'n rhaid neilltuo Sffêr Ffydd, nid oherwydd mai Pantycelyn oedd Pantycelyn, ond oherwydd bod pob llenor drwy Ras Cyffredin yn cael ei gyflyru mewn Deunydd gan natur ragdybiol ei absoliwt. Eto, y mae Sffêr Ffydd Gristnogol yn neilltuedig o ran awdurdod yn ei pherthynas â'r sfferau eraill oherwydd Gras Arbennig.

Nid wyf yn bwriadu disgrifio lle pob un o Sfferau Deddfog Dooyeweerd yng ngwaith Pantycelyn. Credaf fod yna swyddogaeth yno i bob un — er nad yw hynny'n wir ar gyfer pob llenor, onid yn rhith eu cefndir. Ond ceisio yr wyf amlinellu natur ac adeiledd deunyddiau cyffredinol llenyddiaeth drwy eu henghreffio'n gynnil yng ngwaith penodol llenor unigol, sef Pantycelyn. Dadleuaf fod yna batrymwaith egwyddorol ar gael, yn y lefelau strwythurol gwahanol mewn undod hierarcaidd, ac ar waith mewn llenyddiaeth drwyddi draw. Digon felly am y tro yw amlinellu fframwaith yr hierarci honno mewn astudiaeth gyflwyniadol.

Yr wyf yn dethol, o blith y gymuned Sfferau, chwech. Eisoes cyfeiriais at Ffydd, yn sffêr a oedd yn cyfateb i'r rhagosodiad angenrheidiol yn adeiladwaith deunydd meddwl y llenor hwn: sef yr Absoliwt/absoliwt. Safai'r Absoliwt yn wrthrychol ar wahân, er ei fod yn dod yn oddrychol i'r llenor unigol, megis i'r darlennydd unigol. Dyna darddiad a chynheilydd ac ystyr-roddwr pob Sffêr yn yr Arfaeth.

Symudwyd eisoes yn yr Arfaeth i drafod yr offeryn dadansoddi a chyfansoddi yng ngweithred ddeallol y llenor: sef yr Archgyfundrefnau. Y rhain a ddsbarthai ac a drefnai yr holl weddau ar bethau ac ar ddeall wedyn. Hwyl a benderfynai ffurf Deunyddiau. Ond yr un pryd yr oedd y rhain eisoes yn bont drosodd at y Sffêr ddynol nesaf ar ôl Ffydd, sef Seicoleg. Gan mai dyma'r wyddor sy'n ystyried y meddwl a'r bersonoliaeth, fe'i cyflwynwyd fel cwlwm o gyfundrefnau dadansoddol ei hun, a chwlwm o offer deall. Ond mewn gwirionedd, hon sy'n darlunio sylfeini normalrwydd ac iechyd y bersonoliaeth. Allan o Seicoleg, neu o fewn hon, y tardda'r Sfferau dynol canlynol a drafodir, sef Moeseg, Estheteg, a Chymdeithaseg. Mae'r pedair yn dod atom yn gwlwm.

Y mae a wnelo Sfferau Deddfog Dooyeweerd â mwy o lawer na rhestr o bynciau academaidd. Nid rhestr ydynt o ddiddordebau deallol. Mae a wnelont â gweddau cydlynol ar fodolaeth.

Cymerer er enghraifft yn eu tro A. *Seicoleg*. Tardda hyn yn yr (is)ymwybod o hunaniaeth. Yma yn ôl pob tebyg ceir un o gampau a rhan o arbenigrwydd dynoldeb. Ymgysyllta â'r ffaith fod dyn yn ymwybodol o'i fodolaeth feddyliol a theimladol ei hun. Mae'n gallu

myfyrio am ei fodolaeth a'i euogrwydd, am ei orffennol anianol ei hun a gorffennol ei rieni, a'i gynlluniau ar gyfer ei fywyd ddydd Iau nesaf, yn wir am y ffaith ei fod yn byw o gwbl. Sylwa ei fod yn fwy ceintachlyd na Dai ar draws yr heol, a bod ganddo duedd anffodus i gollu cwsig.

Cymerer wedyn B. *Moeseig*. Dyma sylweddoliad o werthoedd nas cysylltir â llygaid y dydd, onid gan y beirdd. Mae pwysu a mesur caredigrwydd rhywun, a'r cwestiwn o gyd-deimlad ac o drugaredd tuag at blant yn Angola sy'n newynu, yn nodwedd ddynol annisgwyl arall. Moddau ar y fodolaeth ddynol yw'r fath fyfyrdod â'r ddwy Sffêr hyn Seicoleg a Moeseig, er bod profion o gydymdeimlo a hunan-aberth ymhlith anifeiliaid. Eto, mae'n debyg nad erys dafad ar ddi-hun oherwydd argyhoeddiad o bechod, ac ni feddylia am faddeuant.

Ystyriasom eisoes Ffydd, y posibilrwydd o ddimensiwn goruwchnaturiol fel ffynhonnell i'r Sfferau eraill. Gall hyn, oherwydd *sensus divinitatis* nid yn unig ymagor i sylweddoliad o Fod ysbrydol ac o gynneddf fewnol a all ddwyn perthynas ag Ef. Fe all arwain i amgyffred hefyd y ddibyniaeth angenrheidiol ar Wirionedd a Phwrpas. Cyfyd ymwybod o dragwyddoldeb. Hynny yw, y mae'n codi 'gwerth' dynoliaeth uwchlaw angenrheidiau bodolaeth y cerrig a'r anifeiliaid gwylltion. Cyfyd ystyriaethau am fywyd heblaw'r dimensiwn corfforol allanol ond heb ddefnyddio arwyddocâd hwnnw. Ffydd yw'r Sffêr hon y tardda Seicoleg a Moeseig ohoni. Ffydd, hefyd, wrth gwrs, yw pob cynhaliaeth y sylweddolwn ddibynnu arni: anweledig yw a fynegir yn weledig.

Moddau o fodolaeth yw'r rhain. Y maent yn lletach o lawer na 'phynciau' megis 'Cyfrifyddiaeth' neu 'Astudiaethau Theatr'. Y maent yn uwch na mater. Treiddiant drwy ddadansoddiad o hanfod dynoliaeth ar raddfa gyffredinol. Dyrchafant fodau dynol. Eto, na fychaner wrth gwrs yr is-weddau: mewn Cyfrifyddiaeth, y mae'r holl gwestiwn o rif, a chyferbyniad, a grwpiau rhifol; ac mewn Drama — y delweddu tri dimensiwn o berthynas, a'r atgynhyrchiad dychmygus o fywyd. Y mae ymddygiad neu gysyniadau o'r fath yn adlewyrchu cynneddfau dyfnion pwysig. Yn wir, moddau meddyliol traddodiadol yw'r rhain o fewn Sfferau ehangach: is-sfferau.

Ac C. *Estheteg*. O'r braidd bod angen dadlau mor ddynol yw estheteg; a'r lle nid yn unig i'r synhwyrâu o'i mewn — gweld a chlywed yn arbennig — eithr hefyd i'r ymwybod o hyfrydwch ffurf. Dyma'r ymwybod teimladol o Gynghanedd. Fe'i ffurfir gan deimlad o Ffurf. Peth yw na raid iddo fod yn 'ddefnyddiol'. Go brin y bydd ein defaid diarhebol yn ymatal rhag deintio'r borfa am funud er mwyn edmygu'r olygfa.

Wedyn, CH. *Cymdeithaseg*. Ni byddwn yn gwadu nad oes y fath beth â chymdeithas ymhlith defaid, boed yn deulu neu'n braidd. A morgrug, yn sicr. Ond y mae 'ymwybod' o

natur Cymdeithas a chymdeithas o gymdeithasau — arwahanrwydd gwahanol gymdeithasau diwylliannol (fel cenhedloedd) a chanddynt gyfraniad amrywiol i ddiwylliant y byd, cymdeithas credinwyr neu feirdd, ac yn y blaen — hynny yw, cymeriad Cymdeithas fel ffenomen ddeallol o ddsbarthiad sy'n adlewyrchu perthnasoedd creadigol amgenach na'r materol — yn ymddangos yn greadigaeth ddynol go nodedig.

A. SEICOLEG: Cyfundrefn arweiniol: *Y Fi/Arall*

Dyma'r nesaf at Ffydd o'r holl Sfferau dynol. Ymwybod o 'fi' ac o'n hanian mewn perthynas ddynol neu anifeilaidd.

Dynodaf hyn fel math o arch-sffêr bron, oherwydd yr ymryson sydd ar ran yr Ego Trosgynnol i'w ystyried ei hun yn absoliwt, ac i ymffurfio felly yn hierarci'r seciwlaryr mewn modd sy'n ymestyn yn ôl i'r dechreuad. Cyfetyb Ego o'r fath, yn un safle blaengar hierarcaidd i'r seciwlaryr, megis yr Absoliwt i'r Cristion. Ac y mae Pantycelyn yntau yn ymwybodol iawn nid yn unig o werth yr hunan, eithr hefyd o'i berygl ymhongar. Eto, un o fawr gyneddfau neu o safleoedd anrhydeddus yr Arfaeth oll iddo yw hunaniaeth. Saif, ochr yn ochr, yn yr ymwybod dynol, â mawrion ffenomenau megis 'bodolaeth', 'trefn', 'bywyd', a 'chydwybod'. Dyna rai materion a bair inni sefyll yn ôl a holi: 'O ble y daeth y rheini yn y pen draw?' Yn arbennig hunanfeirniadaeth, a theimladau croes i hunanoldeb.

Gwelir fy mod yn neilltuo Seicoleg i fod yn arch-Sffêr ychydig yn fwy cynhwysol na rhai o'r sfferau eraill, yn hytrach na'i hystyried yn Sffêr Ddeddfog gyfysgwydd â Moeseg ac Estheteg. Gwyddor na chyffyrddwyd â'i hymyl â manylder cyfundrefnol cadarn eto yw Seicoleg. I mi, y mae a wnelo Seicoleg yn uniongyrchol â'r ddwy yna drwy ragenw gramadegol. Ei maes yw perthynas y fi a'r ni a'u hunaniaeth. Cwmpasa 'hunan' drefn y meddwl. Mae hyn wrth gwrs yn golygu iechyd yn ogystal ag afiechyd y meddwl hwnnw. Mae'n gynhwysfawr cyn belled ag y mae'n cynnwys Moeseg ac Estheteg. Y mae hefyd yn cynnwys perthynas â'r medr dadansoddol, sydd, fel y gwelsom yn cwmpasu'r medr i resymu yn ogystal ag i ddadansoddi a chynrychioli cyfundrefnau. Mae'i rhychwant yn cwmpasu perthynas y meddwl â'r teimlad a'r ewyllys. Ceir ei gwreiddiau fel gwyddor yng nghyfanswm yr Archgyfundrefnau deall.

Yn hyn o beth, y mae Seicoleg megis Cymdeithaseg (rhyw fath o arch-sffêr i'r 'ti') yn fwy eclecticig braidd na Moeseg ac Estheteg. Cafodd diddordeb personol Williams mewn Seicoleg (e.e. *Drws y Society Profiad, Theomemphus*, ac amryw o'r gweithiau rhyddiaith) gryn sylw yng ngwaith craff Saunders Lewis, Yn fy marn i, oherwydd i'r beirniad bwysu'n ormodol ar Freud a'r wedd glaf ar Seicoleg, y mae angen ei hailystyried o'r newydd o'i chwyr.

Cyn trafod Seicoleg Pantycelyn hyd yn oed yn gryno iawn, mae mawr angen ailystyried Seicoleg Adfywiad (Diwinyddol Cristnogol) fel ffenomen, a hynny gan Gristnogion, nid yn gymaint i ystyried effaith economaidd, wleidyddol, na 'thactegol' yr adfywiad, na chwaith o ran gwawd newyddiadurol tuag at allanolion yn unig. Gwnaethpwyd tipyn o hynny eisoes. Y gwir yw bod yr adfywiadau mawr a dyfnaf eu dylanwad wedi *gorffen* a *dechrau* mewn amgylchiadau materol digon tebyg. Mae gennym gyfresi o bregethau gan bregethwyr — cyn

adfywiad, yn ei ystod ac wedyn — ac ni chanfyddwn chwaith ddim gwahaniaeth yn eu harddull na'u cynnwys. Dichon na chaniatêr i fyfyrwyr mewn ambell sefydliad addysgol grybwyll gwaith yr Ysbryd Glân o fewn testun Hanes. Er hynny, dangoswyd i ni'r Cymry gan R. Tudur Jones (ymhlith eraill) fod ysbrydoledd dyn yn fwy na gwedd ar ei bersonoliaeth, eithr yn rhan hefyd o'i Hanes academaidd. Mae mawr alw am archwilio'r newid a gafwyd ym mywyd y rhai a brofodd y diwygiad, — eu bywyd meddyliol, teimladol, ac ewyllysiol. Nid oes angen diffrïo o raid y paratodau amgylchiadol rhagluniaethol megis y cefndir economaidd. Pan gafodd ysbryd yr Eglwys Gristnogol brofi baich, ar ddau gyfnod yn ei hanes, ynghylch gweithio'n broseltyg, cyfleus odiaeth oedd bod y fyddin Rufeinig wedi gosod ffyrdd yn eu lle, yn brydlon barod yn y cyfnod cyntaf, a'r ymerodraethau gwancus Ewropeaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr ail gyfnod wedi ymledu i bedwar ban byd. Pan ddaeth Protestaniaeth hithau adeg y Dadeni a phwysleisio swyddogaeth ganolog Ysgrythur, cyfleus oedd eto fod y Wasg Argraffu wedi'i dyfeisio. Nid oes amau fod paratoi'r amgylchiadau addas yn hwylus i bawb gan gynnwys haneswyr. Ond nid amhriodol hefyd ynghanol yr allanolion yw deall y pethau mwyaf arwyddocaol a fu ar gerdded, megis rhagluniaeth a'r hanes ysbrydol. Beth am ddatblygiad *deallol* personol o fewn y bobl, a hynny nid yn unig yn foesol neu'n gymdeithasol?

Budrwyd y dŵr gan rai haneswyr ychydig efallai oherwydd rhagdybiau seciwlar a naturiolaid. Ond y mae seicoleg ddiwygiadol Williams yn disgwyl ymdriniaeth letach o lawer na phennod mewn cyfrol fel hon. Ac amau'r wyf na rydd llawer o ddamcaniaethau Freud fawr o gymorth pan wneir y gwaith hwnnw yn gytbwys. Ni all rhai stumogi presenoldeb yr Ysbryd Glân wrth gwrs, ond dyna wedi'r cwbl oedd dealltwriaeth Pantycelyn am bethau. Ar Orffennaf 8, 1741, bu ei arwr Jonathan Edwards yn pregethu yn Enfield, Connecticut, ar ffiniau Massachussets, a gorchfygwyd ei wrandawyr gan argyhoeddiad enbyd o bechod nes gweiddi am drugaredd. Roedd ef eisoes wedi pregethu'r un bregeth yn ei gapel ei hun, a ddi i'w phregethu eto sawl tro mewn mannau eraill ond heb yr un effeithiau rhyfeddol. Fe'i pregethai heb air yn y fan honno am drugaredd Duw (er iddo ychwanegu hynny ar droeon eraill). Ond bu'r gwirionedd yn aruthr yn Enfield. Rhy symleiddiol a rhagfarnllyd yw'r esboniadau materol.

Ni cheir trôedigaeth ddwys heb newid meddwl. Ac y mae'r busnes o newid meddwl yn effeithiol yn golygu mwy na chynhyrfu teimladau. Nid oes newid meddwl i Gristion heb sylfaen mewn digwyddiadau hanesyddol. Ond diwinyddol yw hanfod trôedigaeth hefyd: dyna'i thrangwydd. Ac ni ddeallir diwinyddiaeth, heb fod yr egwyddor o Wirionedd absoliwt o dan ystyriaeth. Gall yr un datganiadau ynghylch Pechod, Iawn Crist, a'r Atgyfodiad gael eu

cyflwyno droeon, heb i'r Ysbryd Glân eu cymhwyso i fywyd rhai mewn cynulleidfa. Gall rhywrai gyffroi dros dro. Ond gall rhai eraill ddeall, ac o ddeall, blygu, ac o blygu, ymhyfrydu oherwydd bod pŵer heblaw'r hunan ar waith, pŵer sy'n gallu arwain at orchfygu cenfigen, a pharchu perthynas deuluol, mawrygu statws gwagedd, a threchu ymddygiad gwrthgymdeithasol, pleidio gwrthgaethwasanaeth a hyrwyddo iechyd corfforol, ac yn anad dim meithrin sancteiddrwydd cymeriad ac addoliad dwys a phellgyrhaeddol.

Wrth ystyried y gall yr un person fod yn dri — fi, ti, hi, gwelwn nad oes rhaniad gormodol i fod rhwng 'fi' a 'thi', yn wir mai mewn dau neu dri yr esbonnir 'fi'; a chan mai adlewyrchiad o Drindod yw hyn, hawdd gweld fel y mae caru cyd-ddyn yn adlewyrchiad hefyd o berthynas 'fi' yr Absoliwt, gan estyn y Seicoleg.

Nid wyf yn gwadu ffactorau corfforol a materol o fewn y darlun cyfan hwn. Ond carwn danlinellu'r dimensiwn arall. Carwn rybuddio ynghylch rhagdybiau seciwlar ffasiynol. Yr oedd Pantycelyn yn credu mai'r Ysbryd Glân a oedd yn ganolog arwyddocaol yn yr Adfywiad. Ni wn am yr un hanesydd Cymraeg heddiw sy'n fwy deallus yn y maes hwnnw na Phantycelyn. Mae'r athrawiaeth soffistigedig am yr Ysbryd Glân yn ddwfn ddatblygedig wedi'i hefrydu ers canrifoedd lawer. Ac felly, ysgolheigaidd anghyfrifol fuasai ceisio adolygu naws a meinwe'r diwygiad ar sail argraffiadau diweddar Ôl-Finneyaidd, Ôl-1904, ac allanolion arwynebol yn unig, heb hefyd gynnwys safbwynt Pantycelyn yntau ei hun o ddifri. Tlawd iawn yw'r seciwlarwr a fyn i'w ragdybiau'i hun ei rwystro rhag cyd-deimlo a chyd-ddeall safbwynt y gwrthrych a astudia. Mae'n esgeulustod academiaidd eithafol y mae mawr angen ei amau a'i archwilio'n drwyadl ei hun, oherwydd bod ymagwedd Pantycelyn yn amlwg arwyddocaol fel ffactor cyfundrefnol yn yr hyn a ffurfiai'i syniadaeth a'i gyfnod. Haedda fwy na chilsylw troednodyn. *Yr Ysbryd Glân* oedd teitl cyfrol ddefosiynol bwysicaf R. Tudur Jones, o bosib hanesydd crefyddol mwyaf Cymru erioed; ac nid yn ysgafn y dylai ysgolheigion ystyriol a chyfrifol diweddar ymdrin â'r pwnc hwn heb gofio amlochredd y pwnc a ddadlennwyd yn y gyfrol fechan honno. Gall haneswyr arwynebol sy'n osgoi ysbrydoledd eu hunain fod yn sarhad ar hanes. (Ceir cyflwyniad cynhwysfawr — hynny yw, gan gynnwys y wedd oruwchnaturiol a'r naturiol — yn 'Diwygiad 1762 a William Williams Pantycelyn' I a II, gan R. Geraint Gruffydd, yn *Cylchgrawn Hanes MC*, 54, 68-75; a 55, 4-13, 1969-70; a hefyd yn *Knowing the Times*, D. M. Lloyd-Jones, 'Conversions: Psychological and Spiritual', 1989. Gweler hefyd *Revival and Revivalism*, Iain H. Murray, 1994; a *Genius, Grief & Grace*, Gaius Davies, 2008. Gwaith penodol Pantycelyn ar hyn yw *Llythyr Martha Philopus 1762* ac *Ateb Philo Evangelicus 1763* yn GWP II, 447-478.) Annoeth amharchu dehongliad goruwchnaturiol, fel amharchu ffactorau naturiolaid.

Camgymeriad yw anwybyddu'r angen i fod yn holistig. Mae'r cam drosodd o Seicoleg i Foeseg, Estheteg, a Chymdeithaseg yn gam rhwng lefelau. Ond hawdd gweld y cysylltiad. Wrth sylwi er enghraifft ar ddsbarthiad Trefniant Bydeang Iechyd, sefydlwyd patrwm ar bedair lefel o salwch: 1. Patholeg: yn ymwneud â'r organau personol; 2. Niweidiant: abnormaledd yn adeiledd y corff cyfan; 3. Gweithgaredd ffisegol: cyfyngiad ym mherthynas yr unigolyn a'r amgylchfyd; 4. Cyd-ymwneud: amharedd ar berthynas pobl yn y cyd-destun Cymdeithasol. Yn ei llencyndod yr erys Seicoleg o hyd fel y gwelir yn y rhestr honno. Mae i Ffydd hithau le mewn seicoleg, cymdeithas, syniadaeth, hanes, a deddfau. Sôn yr ym am Sfferau sy'n cydblethu drwy'i gilydd. Diddorol yn hyn o beth yw ystyried y berthynas rhwng meddwl yr iaith yn yr unigolyn, yn ôl ffurf 'sefydlog' Tafod, a'i feddwl sydyn ar y pryd mewn cyfathreb, sy'n dod ac yn 'diflannu'. Er ein bod yn honni bod a wnelo Iaith (Tafod) ag wyneb-yn-wyneb mawr yr unigolyn â'r bydysawd mewn dadansoddiad, a bod a wnelo Iaith (Mynegiant) â'r berthynas gymdeithasol rhwng dyn a dyn, eto y mae Tafod yntau ei hun yn fater cymdeithasol. Fe'i rhennir rhwng un ac un. Y cydlyniad hwnnw, yn wir, sy'n ei wneud yn Iaith. Hynny yw, rhy lac yw bodloni ar syniad am iaith fel 'modd i gyfathrebu': gall fodoli mewn cymdeithas ac yn bersonol wrth fodoli ym meddwl A ar yr un adeg ag y bodola mewn Tafod ym meddwl B. Wedyn, mewn Mynegiant, y mae'n ddigwyddiad ar y pryd. Eto, drwy lenyddiaeth, try'n brofiad sy'n aros drwy'r oesoedd. Profiad a ddeallai Pantycelyn yn well oherwydd cyfarfyddiad ei gefndir meddygol â'i fywyd ysbrydol.

Wrth ystyried perthynas Ffydd â Seicoleg, o fewn yr hierarci, ni ellir llai na chasglu bod y cwestiwn yn codi i bawb: onid yw *sensus divinitatis* yn wedd ar adeiladwaith y *psyche* dynol? Nid yw'r ffaith fod rhywrai'n ei atal neu'n ei fygu mewn anwybodaeth dybiedig yn broblem ddieithr i seicolegwyr, gan fod digon o dystiolaeth iddo ledled y byd. Mae problem 'pechod' hefyd yn hysbys, er bod yna ymgais, y mae'n hawdd ei deall, i wasgaru neu ddatod y ffenomen yn amrywiaethol, a cheisio ymwared â'r undod drwy amlhau gweddau. Yr hyn a wnâi Pantycelyn yn ei ryddiaith a'i arwrgerddi wrth ymhél â threfn, oedd nid gwadu'r amllder na'r chwalfa, eithr canfod, yn wir rhagdybied, cydlyniad y gwyddorau naturiol oll.

Mae angen i haneswyr ysgolheigaidd, a fyn drafod Diwygiad, amgyffred y rhagdybiau goruwchnaturiol yn llawnach ac ymwadu â'u meddylfryd newyddiadurol.

B. MOESEG: *Cyfundrefn arweiniol neu ddiffiniol*: Da/Drwg

I mi, y mae'n hynod ddiddorol, hyd yn oed mewn oes sy'n ysu eisiau bod yn ddi-foes ac yn sgeptig, sut y mae cynifer o storïau ac o ddramâu wedi'u seilio ar y gwrthdrawiad rhwng 'da'/drwg, 'goleuni'/tywyllwch. Dyma frwydr oesol mewn llenyddiaeth, er y dechreuadau cyntaf yn ddiau, ac am resymau amlwg yn 'Theomemphus'. Dylanwad pwysig yw'r gyfundrefn hon ar ffurfiad llenddulliau *Trasiedi/Comedi*; *Mawl/Dychan*.

Mae'r parhad o'r thema yn dibynnu ar barhad Gras Cyffredinol. Trafodir hwnnw yn ddeheuig gryno gan Dr Goronwy Wyn Owen (*Rhwng Calfn a Böhme*, 99-100, 104). Ond dibynna hefyd ar barhad pechod, cysyniad sy'n gas gan lawer un ar ôl cyfnod a fu'n iwtopaidd a'r un pryd sy'n anesmwyth ynghylch pob dim sy'n aroglu o'r hyn sy'n foisol ysbrydol. Mae'n dibynnu hefyd yn ddieithriad ar fodolaeth rhyw fath o gydwybod, gyda chryn ystwythder yng ngoleddfiadau honno. Gwelai Morgan Llwyd gysylltiad rhwng y Gydwybod, sy'n para gan ddarllenwyr, a'u *sensus divinitatis* (gw. eto ibid 7, 44, 97). A rhydd y Llwyd sylw i'r ffenomen hon yn *Gwaedd ynghymru yn wyneb pob cydwybod*.

Fe'i sylfaenwyd yng nghydwybod y dyn cyntaf a grewyd. O gylch y Sffêr hon y ceir perthynas yr Absoliwt a'r unigolyn a sgrifenna ar sail y gydwybod honno. Mae ar waith, felly, o'r cychwyn cyntaf ac wedyn yn y gyfundrefn *dyn/cyd-ddyn* ar yr ail lefel fel petai. Gŵyr hyd yn oed y seciwlar am hyn drwy Ras cyffredinol a *sensus divinitatis*. Drylliwyd y gyfundrefn hon gan anghrediniaeth dyn, wrth gwrs.

Mae'n anochel fod Pantycelyn, wrth ystyried Moesoldeb, yn ei ganfod yng nghyd-destun y Cwmp. Yr oedd a wnelo â pherthynas dibyniaeth dyn ar Dduw. Yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, trawma i'r greadigaeth fu'r Cwmp. Yn *Theomemphus* eir at wreiddyn y cwmp hwnnw yng nghwmp y byd dynol: trawma i Theomemphus fu. Yr oedd angen eu hadfer ill dau drwy brynedigaeth. Effeithiwyd ar holl feinwe dyn a daear. Anhrefn oedd rhan y naill a'r llall. Trôï'r holl ffenomen o gylch disgyrchiant ysbrydol.

Ond sonia'r athrawiaeth ddiwygiedig o Ras Cyffredinol am drugaredd arhosol, am gariad Duw'n caniatáu gras ymataliol rhag i ddyn gael ei ddistrywio'n llwyr, fel y byddai ganddo *sensus divinitatis* a modd i adnabod rhywfaint o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg, a thrwy ewyllys a chydwybod ddarganfod peth daioni a gwirionedd. Erys o hyd fframwaith elfennol o drefn, a'r medr i'w hadnabod rywfaint, ac archwilio deddfau natur.

Sonnir hefyd wrth gwrs am Ras Arbennig a ddarparwyd ar gyfer pawb a gredai, hynny yw pawb a brofodd adfer treiddgarwch disgyrchiant ysbrydol.

Ond perthynas agos, ac, ar rai ystyron, diffiniad miniocach i ni bellach yn ein hiaith gyfoes, lle y gwanhaodd y gair 'da', yw'r pâr *perffeithrwydd/amherffeithrwydd*. Gall y rheini

hefyd wanhau o ddefnyddio gradd gymharol amhriodol. Dyna'r gofynion cyfundrefnol absoliwt, mewn gwirionedd. Yn y ddadl fythol ynghylch trefn *cyfiawnhad/sancteiddhad* y mae perffeithrwydd gorffenedig 'cyfiawnhad' yn weithred-gyflwr absoliwt. Diau fod 'cyfiawnhad' yn rhan hefyd o'r broses gynyddol o 'sancteiddio'. Ond yn nigwyddiad 'cyfiawnhad', y mae ansawdd y priodoli i Grist drwy Ras Arbennig yn wahanol i broses lai cyfyngedig fel 'sancteiddhad' lle y mae ymroddiad, ac ymostyngiad, ac ymrwymiad y Cristion ei hun (er yn bresennol mewn cyfiawnhad) yn parhau drwy gynhafiaeth yr Ysbryd Glân mor hanfodol ar hyd ei oes. Felly cafwyd graddau o sancteiddhad; ac nid oes graddau o gyfiawnhad.

Y gyfundrefn thematig o dwf cytûn *cyfiawnhad/sancteiddhad*, yn anad yr un, yw'r cyswllt rhwng *Golwg ar Deyrnas Crist a Theomemphus*. Y mae, felly, yn briodol fod pob darlennydd diwylliedig Cymraeg – er mor gynddeiriog wrthun y bo Diwinyddiaeth i rywrai bellach – yn hyddysg ynghylch y drefn seml a sylfaenol hon. Rhan yw o ddiwylliant y Cymro ers y Diwygiad Protestannaidd. Mewn gwirionedd, yn baradocsaid ddigon, gall ymddangos nad oes a wnelo *cyfiawnhad* ddim oll â moeseg yn yr ystyr arferol, yn y ddwy arwrgerdd hyn. 'Perthynas' ydyw'n gyntaf rhwng Absoliwt a'r unigolyn: cyfrifir pechadur yn gyfiawn, nid oherwydd dim a wna gan mai amhosibl iddo unioni neu dalu am fod ar wahân i Dduw, ac y mae gofynion Duw i'r sawl a ddaw i'r teulu nefol, sef 'perffeithrwydd' y tu hwnt i'w allu eithaf. Fe'i cyfrifir yn gyfiawn yn syml oherwydd iawn a dalwyd gan Grist. O'r herwydd fe'i cyfrifir yn 'dda' hefyd, ie yn berffaith gyfiawn o ran derbynioldeb yn rhinwedd gras y gwaed a roddwyd. Diddorol odiaeth yw'r gair *cyf-iawn* felly o safbwynt cyfundrefnol; ac yn hyn o beth y mae'r Sffêr hon yn ymgysylltu â'r Sffêr farnwriaethol. Cyf-iawn, cydbwysedd: unionwyd y berthynas drwy dâl digonol, a saif y ddwy ochr 'gyda'i gilydd'. Mae'r glorian yn union deg drwy ymostyngiad a chodi, drwy ddibynnu ac adfer trylwyredd, a thrwy dderbyn daioni Crist.

Eto, y term 'sancteiddhad' yw'r term priodol foesol, o safbwynt moeseg ymarferol bob dydd y Cristion. Y neilltuo ar wahân i bechadurusrwydd etifeddol ac amgylcheddol yw, – hynny'n negyddol; a'r adeiladu sanctaidd drwy ymdrechion ffaeledig i glodfori Duw mewn meddwl a gweithred – yn gadarnhaol ar sail hynny. Sancteiddhad sy'n 'digwydd' ddechrau adeg cyfiawnhad. Dyma hefyd sy'n dilyn, i'r sawl a wnaethpwyd mewn un munudyn (o bosib) yn Gristion drwy Gyfiawnhad (edifeirwch, aileni, uno). Gwaith yr Ysbryd Glân yw sancteiddhad yn yr enaid unigol.

'Perffeithrwydd' yw nod arswydus y naill a'r llall, ac yn y term hwnnw y gwelwn drachefn y cyswllt rhwng y moesol, yr esthetig, a'r barnwriaethol. Ceisiwyd droeon ym

Meddwl y Gynghanedd (e.e. 450-451, 516) grybwyll arwyddocâd ymwybod cyffelyb o ddelfryd perffeithrwydd esthetig yn natblygiad *Cerdd Dafod*.

Adlewyrchir natur y gyfundrefn *da/drwg* yn y Gyfraith, sef y *Dengair Deddf*. Neilltuwyd bellach Ddeddf Gwlad i gyfrifoldeb y Wladwriaeth pan ddaeth gwladwriaeth Israel i ben ychydig cyn cyfnod Iesu Grist; newidiwyd ystyr Israel. Rhannwyd y Sfferau Deddfol rhwng y Wladwriaeth, a'i chyfreithiau, a'r Eglwys a'i deddfau ysbrydol. Cynghorir parchu Deddf y Wlad bellach heblaw Deddf yr Eglwys. Mae natur cosb hefyd yn wahanol. Dyna arolwg bras o strwythur Moeseg — i'r llenor, ac i Bantycelyn.

Mae'r Gyfraith Foesol yn ddiau ynghlwm wrth ansawdd ac awdurdod y Beibl ym mryd Pantycelyn. Hynny yw, datguddiad yw o dda a drwg, ac ynddo ddimensiwn dwyfol.

GWWP I, 121 *Fy Iesu yw mêr y Beibil, 'does bennod nad yw'n sôn*
O bell neu ynteu o agos am groeshoeliedig Ô'n ...

A dyma Lyfyr statut y deyrnas faith, ddi-lyth
Ag sydd â chyfraith sicir i bara ynddi byth;
Pob rheol yma'n sanctaidd, pob lein yn berffaith bur,
Pur reol ein crediniaeth o fewn i'r anial dir ...

Fel hyn y canwyd am y cysylltiad rhwng cyfraith a gras:

GWWP I, 125 *Fel hyn y deg gair cyfraith efe a'u rhodd ei hun,*
Fel byddent fyth i bara i gyfarwyddo dyn;
Yr amser oedd yn dywyll, ond mewn amodau gras
Pob gair o'r ddeddf ragorol pryd hynny rowd i ma's.

Er mwyn deall cyfundrefneg Williams, a'i barch at gyfundrefneg, rhaid sylweddoli beth oedd ei ymagweddu dwfn at y gyfraith drwy'r gydwybod. Peth i'w barchu oedd cyfraith gwlad. Peth i'w anrhydeddu a'i wisgo a'i gredu a'i foli yn y galon oedd Deddf yr Arglwydd. Cyn y Cwmp, yr unig ddeddfau dynol uniongyrchol oedd credu a diwyllio. O leiaf, credu (fe ymddengys i mi) oedd yr arwyddocâd cynrychioliadol o *beidio* â bwyta o ffrwyth pren arbennig, gan *ddibynnu* ar Air Duw. Dyna oedd ymateb yn negyddol, ond yn ufudd ddiraffferth gadarnhaol. Anghredu Duw, ei gyfrif yn gelwyddwr, rhoi pwys ar gredu'r Diafol (y celwyddwr oedd ystyr Diafol) yn ei le, dyna yw ysfa craidd y Cwmp, beth bynnag oedd y cymhelliad, — megis balchder y fi, a gwrthryfel, o hyd. A diwyllio'r tir a'r anifeiliaid oedd y gorchymyn arall, gan ymateb yn gadarnhaol.

Perthynas oedd ystyr y ddau, — ac nid oes neb a eglura hynny'n well na Phantycelyn — y naill a'r llall yn ymwneud ag ymostwng ac ufudd-dod, sef cydymffurfio â meddwl Duw. Rhan oedd y rhain o'r hyn y gellid ei alw'n 'Ddeddf Naturiol', y math cyntaf o ddeddf, y drefn gyflawn iach a sylfaenodd Duw cyn y Cwmp, a gynhwysai hefyd drefn Ffiseg a

Mathemateg ac eraill. Cynnyrch Gras oedd y ddeddf, a dyna a arhosai. A chariad oedd hanfod y Ddeddf fel y dangosodd Iesu Grist mewn gair a gweithred (Ioan 14: 27; Rhuf. 13: 9-10).

Y 'Ddeddf Foesol' oedd yr ail fath o ddeddf, felly, y math a gyflwynwyd wedi'r Cwmp. Fe'i bwriadwyd i adfer ac anrhydeddu trefn. Mae'r ddau fath hyn o ddeddf wedi'u bwriadu i barhau (Math. 5: 18) ac i fod ar gyfer pob un. Yn hynny o beth, y mae a wnelont ag adeiladwaith y byd a'r adeiladwaith cywir ar gyfer y gydwybod. Maent yn angenrheidiol i bawb yn ddiwahân. Maent yn ymwneud â'u perthynas â Duw, ac â'u perthynas â'u cyd-ddyn.

Fe alwn y ddau fath hyn o Ddeddf yn Dafod: mae'n rhan gynhenid, orfodol ac angenrheidiol o fywyd; ac mae'r ail yn cynnwys sythweliadau'r math cyntaf o ddeddf. Ynglŷn â'r ddau fath arall o Ddeddf, sef y Suful a'r Seremonïol, pethau dros dro ydynt, 'cyfreithiau'; a gellir eu newid mewn Mynegiant: e.e. gyrru ar ochr dde'r heol, ymddeol yn 65 oed, datblygu gwisgoedd, neu ddatliadau digwyddiadau a.y.b.

Mae'r holl gyfundrefn o Ddeddf ei hun ynghlwm wrth yr angen i gredu, ac i bwysu arnynt. Mae'i dimensiwn ysbrydol yn amlwg, er gwaethaf protestiadau seciwlar. Mae yna angen ar bawb i gredu, hynny yw i ddibynnu ar egwyddorion ac ar berthynas â phobl eraill, ac wrth gwrs ar Dduw. Symleiddiad yw'r Deg Gorchymyn o ewyllys Duw ynghylch dwy wedd ar y berthynas honno. Dathliad o ymdrech Pantycelyn i geisio hyn yw ei emynau taith.

Wrth olrhain perthynas y Dechrau a'r Diwedd, Duw a dyn, Creu-Cwmp-Codiad, y mae'r Cwmp (Colli Perthynas) yn ganolog. Yn wir, ni fodolai Diwinyddiaeth heb bechod. Ac ym mryd Saunders Lewis yr oedd pechod yn galon i lenyddiaeth hithau. Torri perthynas glòs (sef cyfundrefn) fu effaith y pechod gwreiddiol, a chadw'r berthynas doredig yw pechod heddiw. Goruwchnaturiol yw'r esboniad a roddwyd mewn modd digonol ar gyfer rhywbeth a erys o fewn dimensiynau'r bywyd hwn yn fater sydd y tu hwnt i ddeall naturiol. Fel y derbynia'r baban fywyd heb ei esbonio, felly y cydnebydd pob oedolyn effro bechod heb wybod ei ddyfnder. Rhydd y Beibl esboniad ysbrydol ('barddonol'). Mae'n fwy na theori cyfraith. Mae'n fwy na negyddu. Perthynas newydd ac ofnadwy yw. Drylliwyd y berthynas o gyd-ddealltwriaeth lân, ond esgorodd hyn ar y Waredigaeth, a gogoniant y Groes. Cais y drwg ddryllio trefn berthynas ddaionus Duw. Yn gyntaf oll, mewn Moeseg seml, rhan yw'r drwg o gyfundrefn: da/drwg. Y Ddeddf unol mwyach sy'n dangos inni'r da yng 'ngoleuni'r' drwg. Ond wrth gwrs, camgymeriad fyddai synied ein bod yn gallu esbonio holl feddwl Duw wedyn. Priodol i bawb meidrol ymostwng gerbron yr Un sy'n dragwyddol. Ei feddwl ef yw hyn, a'r tu hwnt i bob rhyfyg a haerllugrwydd dirnadaeth. Felly bodolaeth y sarff. Cais dyn o hyd ddeall dioddefaint: hoff ganddo feio Duw. Gwelsom eisoes fel y mae 'gweithred Dduw' yn y gyfraith bob amser yn ddrwg. Ond balchder yw peth o hynny, wrth gwrs, er mai priodol

yw gwneud ein gorau fel y gwnâi C.S. Lewis ac Alvin Plantinga i amgyffred y bwystfil. Nid 'cop-out' yw addef na allwn ddirnad popeth annealladwy sydd ar gael, a chydabyddwn ein terfynoldeb mewn anwybodaeth. Drwy uniongrededd Beiblaidd sylweddolir mai 'er gogoniant i Dduw' y mae pob dim; ac yn wir, gŵyr Cristion ychydig am hyn drwy sefyll ger dirgelwch y Groes. Ni pherthyn i Wyddonydd, i Ddiwinydd, nac i Theorïwr Llenyddol ddeall pob dim, er mai darostwng pob peth i'n galluoedd prin ni yw ein nod anghyraeddadwy ar y ddaear. Gwybod digon yw'r her.

Gwelwn fod Pantycelyn, fel llenor a ymwnâi â Sffêr Moesoldeb, yn fwy soffistigedig na'r llenor cyffredin diweddar. Deallai foes ar lefel ysbrydol. Diau felly fod angen diffinio dealltwriaeth Pantycelyn o berthynas moesoldeb â Gras Arbennig. Arferwn gysylltu *da/drwg* â Gras Cyffredin. Soniwn am ddyn seciwlar fel 'dyn da, moesol, cywir'. Ac yn sicr, drwy Ras Ataliol a thrwy wasgaru doniau cymeriad ar led yn ddiwahân, gellir profi Gras Cyffredin Duw yng nghalon credadun ac anghredadun. Ceir bywyd cynorthwyol yn yr ysbryd wrth frwydro â'r cnawd. Ond rhoddir perthynas ychwanegol yng nghydwbybod y Cristion. Gwasgerir ysbryd Person Crist dros gredadun ffaeledig gwan, a hynny'n ychwanegol at Ras Cyffredin tan weddnewid diben ac ansawdd y gras hwnnw. Os yw'r profiad o Ras Arbennig yn ddilys, bydd y Gydwybod yn awyddus i ufuddhau ac i weithredu yn unol ag ewyllys Duw. Try Moesoldeb yn berthynas. Mae'n cynnwys Cyfiawnhad a Sancteiddhad. Dathla Pantycelyn y berthynas gyfareddol hon drwy'i emynau serch.

Lle bynnag y bo meddwl Pantycelyn yn ymwneud â gweithgareddau ymarferol o'r fath, mae llaw Moesoldeb yn bur agos ato. Ac iddo ef, er bod brwydr Cyfiawnder sylfaenol drosodd, y mae brwydr Sancteiddhad yn dal yn daer yn ei emynau, yn ei farwnadau, a'i lyfrau rhyddiaith, ac yn ail thema fawr 'Theomemphus'.

Rhennir y Deng Air yn ddwy lechen: *Duw/dyn* a *dyn/cyd-ddyn*. Ond cysylltwyd y llechen gyntaf â'r deddfau seremonïol – enwaedu ac aberthu – hyd at yr Arglwydd Iesu Grist pryd y cyflawnwyd hwy'n derfynol. Bellach, y mae'r berthynas ddeddfol yn parhau drwy berthynas â Christ.

Egwyddorion yw sylfaen yr ail lechen, sy'n cael eu gweinyddu i raddau drwy gyfraith gwlad bellach, bob gwlad sofran â'i hawdurdod ei hun. Ac anogir Cristnogion bellach i gynnal trefn a chyfraith wladol eu cenedl eu hun. Ond y maent gyda'i gilydd yn fwy na chyfraith gwladwriaeth, gan fod a wnelo'r llechen gyntaf â charu ac anrhydeddu Duw, a'r ail lechen â charu ac anrhydeddu dyn drwy hynny. Dyma ail thema fawr 'Theomemphus'.

Dosberthir y Ddeddf felly, yn gyfundrefnol. Prif Gynrychiolydd Cyfundrefnaeth, ar ôl Calfin ac yn yr ail ganrif ar bymtheg, oedd Francis Turretin (1623-87), gyda'i waith *Institutio*

Theologiae Elencticae. Mae hyn yn helpfawr wrth ystyried y newid o'r Hen Israel (Israel Enwaediad yr Hen Destament) a'r Israel Newydd (Israel yr Ysbryd, Israel fydeang Enwaediad y Galon yn y Testament Newydd). Mae Turretin yn cymeradwyo ystyried Deddf Duw yn ôl yr hen dair ffurf: *Moesol*, *Seremonïol*, a *Siful*. Mae'r 'Moesol' yn barhaol, yn fynegiant o gymeriad sanctaidd Duw, yn yr Israel ddigyfnawid. Mae'r 'Seremonïol' wedi dod i ben yn aberth yr Arglwydd Iesu Grist. A pheidiodd y gyfraith 'Siful' gyda'r Hen Destament gyda'r agoriad i'r holl genhedloedd, a gwasgerid yr hen Israel, pryd y cymhwysid egwyddorion sylfaenol y Deg Gorchymyn o fewn dwy egwyddor crynodeb yr Efengyl Gristnogol i genhedloedd gyfreithio'n ddisgybledig mewn cariad: dyma gyfrifoldeb gwladwriaeth.

Yn Sfferau Dooyeweerd, mae 'Moesol' yn golygu'r egwyddorion sylfaenol a gorfforir yn ymddygiad y Cristion o fewn cymdeithas y bywyd personol. Mae'r 'Seremonïol' wedi'i gorffori bellach yn nhaliad yr Arglwydd Iesu Grist a'r priodoli o gosb Crist i'r credadun, fel y cyfrifir yr egwyddor o dâl am drosedd ei bobl yn ei gyfiawnder a'i ufudd-dod Ef. Ac fe'i cafwyd yn farnwriaethol yn y gwaed a'r felltith a dalwyd ar y Groes. Felly cyfrifir y Siful bellach yn fynegiant i ran o'r Sffêr Wleidyddol.

Awgrymaf y gellid dosbarthu'r gweithgareddau moesol gan y Gydwybod yn gyntaf, yn ôl fframwaith cyferbyniol *geni/marw*: ac yn ail yn olynol.

<i>Geni</i> (llwyddo)	<i>Marw</i> (methu)
—→ Comedi	—→ Trasiedi
Arbed bywyd, hyrwyddo cyfoeth, caru (priodi) Cymod	Llofruddio, lladrata, godineb Ymladd (gwrthdaro)

Canfyddir rhai o'r gweithredoedd corfforol mwyaf cynddelwaidd yn ymamlygu ar lefel themateg hefyd rhwng y rhain drwy'r Beibl a Phantycelyn. Profir rhai themâu go gynddelwaidd perthnasol —

Hela, teithio, chwilio
Tyfu (meithrin, masnachu)
Cystadlu, brwydro, iacháu, trechu

Comedi (yn yr ystyr Ddanteaidd) yw *Golwg ar Deyrnas Crist* megis *Theomemphus*: hynny yw, ceir cyfeiriad cadarnhaol, adeiladol. Yn gyfundrefnol, nid oes yna negyddu nes adeiladu'r gyntaf. I Bantycelyn, o fewn fframwaith o Gomeddi fuddugol y digwydd Trasiedi.

Drwy gyplysiad o'r ffactor goddrychol a'r ffactor traethiadol (neu'r enwol a'r berfol), y mae'r cymeriadau a ddiffinnir gan y sfferau sefydliadol yn ymuno â ffactor y gweithgareddau hyn i esgor yn y meddwl ar gyfundrefnau deunyddiol (themateg). Dyna'r hyn

sydd ar gael ac ar waith yn strwythurau Tafod Deunydd, y strwythur unigol yw sy'n esgor ar amllder amrywiol.

Amrywiadau lleoledig wedi'u mynegi o hyn yw'r *Motiffau* unigol. Ac allan o'r gronfa botensial o Ddeunydd ac o Ffurf sefydliadol y tardd y brawddegau (ac ymadroddion) unigol a gynhyrchir yn ôl eu perthynas â'r Hierarci.

Y mae fel pe bai pob lefel o gyfundrefn, o'r Absoliwt Cyffredinol i lawr drwy'r Archgyfundrefnau Strwythurol, a thrwy'r Sfferau Cyfundrefnol Deunyddiol at y Cyfundrefnau Thematig, oll wedi dod at ei gilydd i fod yn botensial neu'n gynhafiaeth gynyddol i'r frawddeg seml ac i'r Motiff neu'r uned thematig leiaf yn eu hamlder diderfyn: y Mynydd yn esgor ar y llygoden, yr Hierarci yn gweini ar y motiff.

Pan soniwn am sffêr Moesoldeb, felly, sôn yr ym am ffurf fewnol ac ymarferol yr ymwybod moesol, ei phresenoldeb. Nid ymddygiad yw yn ganolog, ond perthynas gydymffurfiol ag ewyllys Duw. Fe all y cynnwys amrywio yn ôl diwylliant, yn wir yn ôl yr unigolyn. Ond bydd swyddogaeth y sffêr, yn aros yn ymataliol, yn oleuol, yn ôl y synnwyr bod yna berthynas rhwng ewyllys yr unigolyn ac ewyllys cyd-ddyn, a rhwng yr unigolyn a gwerthoedd sefydlog Duw. Mae a wnelo â'r wybodaeth sy gennym o'n hunaniaeth a'r gydwybod fwy gwrthrychol sy'n 'hofran' yn wrthrychol. Mae a wnelo ymddygiad â gwybod.

Byddem yn disgwyl, yn enwedig ar ôl llwyddiant Milton yn darlunio cymeriad Satan, y caem wrthdrawiad cynddelwaidd cyffelyb tua dechrau *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus* rhwng Duw a Satan. Ond y mae meddwl Pantycelyn yn y naill a'r llall yn pwysu ar gyfrifoldeb dyn a gras Duw. Y tu ôl i'r llenni y llecha'r Diafol. Dyna sy'n ysgogi cwmpo yn *Golwg ar Deyrnas Crist*; ac yn *Theomemphus*, serchiadol ac athrawiaethol yw brwydr foesol yr arwr. Mae hefyd yn gorfod wynebu gwendid credu a llesgedd y galon. Brwydr argyhoeddiad yw'i ddechrau yn yr arwrgerdd *Theomemphus*, rhwng ei ddrygioni cynyddol oddi ar ei eni, ac yna yn erbyn her Boanerges. Caiff ei ddihuno i bechod, heb ei ryddhau. Ac yna, mewn cyfres o bregethau caiff gyfres o frwydrau, megis yn erbyn hepian (Seduces), nes i Boanerges ddychwelyd i daranu o'r newydd yn ei erbyn. Wedyn, mae Orthocephalus a Schematicus yn ei gladdu mewn anialwch meddyliol. Caiff neges unochrog yn dilyn gan Arbitrius Liber, nes i Evangelius ddod i'w rhyddhau. Sylwer mai athrawiaeth dda ac athrawiaeth ddrwg, ynghyd â phrofiad o fywyd newydd yng Nghrist a llesgedd ysbryd, dyna natur gwrthdrawiad *da/drwg* yn rhan gyntaf hanes Theomemphus. A'r ail gyfres o frwydrau yw yn erbyn serchiadau a nwydau anaeddfed a ffolinebau'r galon: Philomela, Jezebel, a Philomede. Rhwng y cwbl, eir yn symbolaidd i graidd y frwydr feddyliol a'r frwydr gorfforol. Mae'r profiad moesol yn ddwfn cyfoethocach o'r herwydd.

Ac mae'r cwbl o fewn adeiledd cyferbyniol.

C. ESTHETEG: *Cyfundrefn arweiniol* — Hardd/Hyll (*Cynganeddus/di-drefn*).

Pwysig cofio yn y byd syrthiedig hwn fod yr ‘hyll’ yn gymaint rhan o gyfundrefn esthetig ag yw’r ‘hardd’, fel y mae’r ‘drwg’ yn gymaint rhan o gyfundrefn foesoldeb ag yw’r ‘da’. Gwiw cofio hefyd y cyswllt, o fewn yr un Gyfundrefn o Sfferau, rhwng yr Esthetig, y Moesol, y Cymdeithasol, a’r ymwneud hefyd â Sfferau eraill. Gellid crybwyll y gymhariaeth â gwladwriaethau o fewn yr un Undeb cyfandirol — neu Daleithiau o fewn yr un Wladwriaeth, — oll efallai’n meddu ar yr un polisi tramor, ar yr un polisi at yr amgylchfyd, a rhai gweddau eraill, — yn fodd i gofio mai hylifol yw’r cyswllt rhwng y Sfferau hyn. Ond hunanlywodraethol ydynt oll yn ôl y Ddeddf arweiniol unigolyddol. Dyma droad neu ddelwedd deg i’n dealltwriaeth ddiffiniol.

Yn baradocsaid, ar gyfer Sfferau Deunydd, Sffêr yw’r esthetig a dry Ffurf ei hun yn Ddeunydd i fyfyrion amdano. Gall bardd *gorffori’r* hardd, sef bod yn hardd, a hefyd *drafod* yr hardd fel pwnc. Fel pob Sffêr Ddeunyddiol, y mae iddi ddeddf neu gyfundrefn arweiniol, Prif Gyfundrefn. Mae honno’n sylfaenol, yn rhan o feddwl Duw: Math. 6: 29; Genesis 2: 9. Ac felly, y mae hefyd iddi wedd Tafod a gwedd Mynegiant ar y gyfundrefn honno. At ei gilydd, apelia gwedd Mynegiant mewn Llenyddiaeth at y synhwyrâu, er bod y deallol yn cael lle hefyd. Ac ym mryd Pantycelyn, beth bynnag a ddywed yr argraffiadau cyntaf a gawn, does dim dwywaith nad yw sain a phlethwaith clywedig ei emynyddiaeth — megis cyffyrddiadau cytseinedd yn *Aleluia* a gwedau seiniol (rhythmig yn arbennig), gyda chydbwysedd semantig rhai o’i emynau diweddar a phwyslais neu acen ym mhob man — o bwys iddo. Felly hefyd adeiladu cyfannau. Apelia Tafod mewn llenyddiaeth wedyn at ymwybod Pantycelyn o ffurfiant ei hun, adeiladwaith syniadol, a chymhendod y cydadeladwaith cyfundrefnol meddyliol. Roedd ganddo hoffter gorfoleddus o’r Drefn ddwyfol, ac roedd yn ymwybodol ymserchu mewn ‘sgêm’ yn arbennig wrth fyfyrion am gyfanwaith. Hyfrydwch oedd cydlyniant. Ceid math o estheteg felly mewn Tafod (neu Gyn-fynegiant) yn ogystal ag mewn Mynegiant.

O’r herwydd, ceir deuoliaeth esthetig: syberwyd a chynghanedd trefn neu Dafod (a Mynegiant), a sylwedd i ddiddanu gwerthfawrogiad y synhwyrâu yn ail. Diriaethwyd Ffurf yn Ddeunydd drwy’r Sffêr hon. Rhyfeddai ef ymhlith pethau eraill at brydferthwch Rhagluniaeth a ffurf y Sgêm.

Yn ei ymdriniaeth â Phantycelyn, un o ffaelecteddau Saunders Lewis oedd dyrchafu delwedd glasurol yr Oesoedd Canol yn ddelfryd cystadleuol, heb dreiddio’n ddigonol i lawnder estheteg gadarnhaol Pantycelyn yn harddwch ei deimlad yn y ddwy wedd, — oherwydd credaf fod yna gamp glasurol ar adeiladwaith meddyliol ei athrawiaethau. Yng

nghanrif Freud, rhoddid llawer o bwyslais gan Saunders Lewis ar synwyrusrwydd y llanc, wrth gwrs, a thueddiadau rhywiol llencynnaidd. Ond pwysicach i Williams oedd y cydbwysedd a disgyblaeth feddyliol a harddai ei syniadaeth; ac yr oedd ef yn bendant ymwybodol o gyfeiliornadau nid anghyffelyb yn y maes hwnnw: cf. Phil. 4: 8, ‘Beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn.’

Eto, ped aem ati (ar ôl yr ugeinfed ganrif) i geisio archwilio Estheteg Williams, credaf mai'r nodwedd amlycaf o hyd ar yr wyneb a ganfyddem fyddai'i synwyrusrwydd. Dyma'n ddiau un o'r gweddau hanfodol ar yr hardd. Y synwyrusrwydd yw'r hyn a arddangosai'r prif wahaniaeth cynhwysol rhwng Williams a bron pawb o'r emynwyr a'i rhagflaenai.

Nid yw'r ail nodwedd hon i mi beth bynnag yn gwbl amddifad o synwyrusrwydd, sef y drefn gymen, y cydbwysedd, y cydlyniad hardd yn feddyliol, y modd y mae'r holl themâu cyfundrefnol yn ymuno â'i gilydd ac yn cydsymud mewn aeddfedrwydd. Gwedd bwysig iddo oedd dirnad fframwaith trefn yn y mawr ac yn y mân: clywir y cyngor ganddo yn ei ragymadrodd i *Ffarwel Wledig*:

GWP I, 193 *Darllen yn Saesneg, os nad allant ddarllen mewn ieithoedd ereill, bob llyfrau o brydyddiaeth addas a allont gyrraedd, er mwyn helaethu eu deall, i adnabod prydyddiaeth — pa le y mae ei thegwch hi yn gorffwys, at ba ddiben y mae, a'r amryw reolau sydd yn perthyn iddi.*

Perthyn i'r wedd glasurol honno y mae ei hunan-ddisgyblaeth ddiwinyddol.

A'r drydedd wedd bwysig ar Estheteg oedd yr elfen ddirfodol, yr ymdeimlad o bresenoldeb dirweddol dimensiwn ysbrydol: mae hyn yn cysylltu â'r ymdeimlad dramatig byw a chyn bwysiced o ran cymhelliad â sicrwydd ffydd. Fel hyn y dywed ef yn y rhagymadrodd i drydydd argraffiad *Aleluia*:

GWP II, 22 *Yr wyf yn cyfaddef fod rhai (er nid llawer mewn cymhariaeth) o'r Hymnau cyntaf hyn, cuwch o ran sicrwydd ffydd, hiraeth am ymddatod, llawenydd ysbrydol, ynghyd â choncwest ar elynion, nas gall Cristnogion gweinion yn hawdd eu canu; a hynny a ddigwyddodd nid cymaint am fod yr Arglwydd yn cadw fy enaid fy hun mewn hwyl weddol yr amser hynny, ond yn bennaf am fod yr ysbryd hynny wedi cael ei dywallt yn ehelaeth iawn ar dduwiolion, at wasanaeth pa rai yn bennaf y cyfansoddwyd hwynt; amryw o ba rai sydd yn awr yn gorwedd yn y llwch. Ond anghenraid yw i mi amddiffyn fy hun mewn rhan yn hyn, trwy ddadlau o'm plaid:—*

Yn Iaf, Fod sw'n amrywiol iawn o'r Salmau, os nid y rhan fwyaf, o'r ysbryd hwn o sicrwydd ffydd, concwest ar elynion, ac ymffrost dduwiol; — Caniadau Solomon sydd yn

llawn o gariad, mwynhad, a sicrwydd ffydd; a hyd yn oed Galarnad Jeremi ei hun sydd yn gweiddi allan, Yr Arglwydd yw fy rhan, medd fy enaid...

Ac yn olaf, Nid oes a gân yn hwylus ond sydd wedi profi Duw yn dda iddynt; ond eto mor belled y mae'r dymer hon heb ddim golwg ar waeledd dyn, ardderchowgrwydd y Cyfamod Newydd, ac ar ogoniant, doethineb, ac anfeidroldeb yr iechydwrriaeth yng Nghrist, nid yw yn cytuno â'r Gair, na gwir brofiad; ac yr wyf yn ceisio credu nad oes yma un Hymn o'r fath. Ond yr wyf yn addef (er) pan ddeuthum i adnabod mwy ohonof fy hun, a gweled mai Aifft o dywyllwch, môr o aflendid, byd o falchder yw dyn, i'r iechydwrriaeth yng Nghrist i gael ei ddyrchafu gennyf i radd uwch, ac i ddyn a'i ddoniau gael eu diystyru yn rhagor; ac mi wnes fy ngorau, pa beth bynnag fyddai natur yr Hymn, — achwyniad, erfyniad, ymffrost dduwiol, neu fawl, — fod Crist yn ganol-bwynt i'r cwbl.

Drachefn yn ei ragymadrodd i *Ffarwel Weledig*, mae'n dychwelyd i'r un cywair: GWP II, 193, *Darllenent drachefn a thrachefn lyfrau y Proffwydi, a'r Salmau, y Galarnad, y Caniadau, Job, a'r Datguddiad, y rhai sydd nid yn unig yn llawn o ehediadau prydyddiaeth, troell-ymadroddion, amrywioldeb, esmwythder iaith, a chyffelybiaethau bywiog, ond ag ysbryd hefyd ag sydd yn ennyn tân, sêl, a bywyd yn y darllenydd tu hwnt (am mai llyfrau Duw ynt) i bob llyfrau yn y byd. 4. Peidio gwneud un Hymn fyth nes y byddont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbryd Glân; a'r Ysbryd hwnnw a fydd barod i fendithio ei waith. Amen.*

Trafodwyd y wedd hon ar ei waith mewn man arall o dan y gyfundrefn *Presennol/Absennol*. Ond go brin y bu ef yn meddwl yn aml uniongyrchol am yr un o'r ddwy wedd yna o ran estheteg ei waith. Eithr yn esthetig, nid oedd yn ddiaddysg o bell ffordd.

Gyda rhywrai yn y sffêr esthetig (un o sfferau arwyddocaol Williams — gyda Ffydd a Moeseg ac ambell un arall) y mae Ffurf weithiau yn cael cryn flaenoriaeth ar Ddeunydd. Er enghraifft, gall y gyfundrefn *Un/Amryw* gyfrannu at yr adnabyddiaeth ddyfnaf o gymhendod, cydbwysedd, perthynas foddhaus yr Hardd ei hun yn yr isymwybod. Dyma'r lle y mae perthynas y Drindod Absoliwt, a'r ddwy Natur ym Mherson Absoliwt y Mab yn cyfrannu at y drefn sy'n bodloni'r ymdeimlad esthetig. A dyna'r pwynt union lle y mae fy ngwrthwynebiad cyson i'r safbwynt Ôl-Fodernaidd yn caru pori — gwahanu, amhenderfynoli, lluosedd, tanseilio, dryllio, ac yn y blaen, oll yn arddangos y diffyg sylfaenol esthetig a threiddgar yn y theori yna. Yr hyn a wnâi Ôl-Foderniaeth oedd gwneud ansicrwydd, a'r wahanfa yn absoliwt. Gwnâi harddwch hefyd yn relatif, ac felly ei droi'n amwys oddrychol. Yr hyn a wnâi Pantycelyn oedd sylweddoli Undod a Gwahanu gyda'i gilydd yn egwyddor absoliwt amodol, wedi'i gwreiddio yn y Greadigaeth gan yr Absoliwt, y Tri-yn-Un a'r Ddwy Natur mewn un

person ac yn y Gair (y Duw-ddyn). Nid ‘un’ yw egwyddor benderfynol yr hyn sy’n esthetig lwyddiannus: nid amrywiaeth chwaith. Ni wna’r naill na’r llall yr absoliwt ar ei ben ei hun. Rhaid cael yr Un ynghyd â’r Amryw. Dyna’r sail Gristnogol i feddwl ac i ddeall esthetig — gwahuno cyflawn; a ffug yw theori sy’n ceisio dyrchafu’r naill heb y llall, fel y mae’n ffug bod mor sicr ynghylch ansicrwydd, a heb fod yn sgeptig ynghylch sgeptigiaeth. A dyna pam y mae cydnabyddiaeth gyson o’r Drindod ac o ddwy Natur y Mab yn gyfeirbwynt Absoliwt i Werth, Trefn a Diben meddwl Pantycelyn. Gwedd yw ar ei bensaerniaeth esthetig.

Mae’n mawrygu o’r herwydd egwyddorion cydberthynol. Yn wir, y mae ‘cydberthyn’ yn un o’i nodweddion. Mae’r egwyddorion amrywiol hyn yn amrywio o ran amlygrwydd neu werth yn ôl y gwaith unigol. Am y tro, gadawn yr egwyddorion heb eu diffinio: symlder/cymhlethrwydd; trawsffurfio (neu newid)/parhaoldeb (neu gysondeb); traddodiad/y newydd (neu’r annisgwyl); naturiol (a chorfforol)/goruwchnaturiol (ac ysbrydol); trefniant (a dethol)/cymysgedd (ac amllder); y lleiaf a’r mwyaf.

Yr hyn yr wyf yn ceisio’i ddadlau yw bod yna Batrwm neu Sgêm y tu ôl i’r Greadigaeth a brofai meddwl a synhwyrau Pantycelyn. Yr oedd ef hefyd yn ymwybodol o fodolaeth hynny, ac o’i threfn hierarcaidd olynol. Gwyddai hefyd yn nhreiddiad ei feddwl am bresenoldeb y ffactorau esthetig a gyfundrefnai hyn oll yn ei weddau deunyddiol. Adeiladwyd ei feddwl gan hyn. Ac i mi, y mae’r modd thematig y trafododd ef y sgêm mor gymen, mor gytbwys grwn, ac yma ac acw mewn mawl a gorfoledd, yn un o brif gampau esthetig Cymru yn y ddeunawfed ganrif.

Gwedd ar ei orchest esthetig oedd adeiladwaith ei feddwl, a’r modd ymwybodol y cwmpasai ef gydblethiad y Greadigaeth. Ceisiwyd amlygu hyn yn yr offer yr ymwybyddai â hwy ac a drafodwyd wrth amlinellu’r Archgyfundrefnau Ffurf, a bellach yn y Sfferau Deunyddiol (bob un â’i chyfundrefn arweiniol neu ddiffiniol). Pensaer y Greadigaeth oedd Crist. Ac nid oes dim dwywaith gennyf fod y parch at drefn greedig hardd yn ei *Olgw ar Deyrnas Crist* wedi sicr dreiddio i’w gydwbybod esthetig ynghylch helaethrwydd y bywyd hardd.

Ble, sut bynnag, mae’r ‘Gwirionedd’ yn hyn oll? Fe’i ceir yn yr ymateb i harddwch deunyddiol. Cofiaf air gan Valin yn ei Ragymadrodd i *Principes* Gustave Guillaume 1973, yn awgrymu *fod a wnelo Gwirionedd â ffurf y deunydd* — cymhwysid i wrthrych haniaethol — yn ôl synnwyr esthetig. Felly ‘truth-beauty’ Keats.

Perthyn Ffurf i Sffêr Estheteg mewn ffordd wahanol i Foeseg neu i Gymdeithaseg. Ac eto, wrth gwrs, nid yw Deunydd yn gyfan gwbl amherthnasol. Meddai Awstin am berthynas

Trefn a Deunydd yn ei Gyffesion (XI.v.7): ‘Y mae’n doddi ffurf ar bopeth sy’n bodoli ac yn meddu ar sylwedd — megis pridd, maen, pren, aur neu unrhyw ddeunydd o’r fath.’ Cyfuniad yw.

Soniai Plato yntau am y triawd — gwirionedd, daioni, a harddwch. Ond anodd meddwl am y rhain ar wahân i’w gilydd. Rhydd Alister McGrath le amlwg i Harddwch yn ei *A Scientific Theology I*, 232-240. A dengys ef fel yr oedd Awstin ac Acwin yn canfod harddwch cymeriad Duw yn harmoni a threfnusrwydd y Greadigaeth; ac enwa Hans Urs von Balthasar fel y diwinydd soffistigedig yn anad neb yn yr ugeinfed ganrif a ddadlennodd harddwch yr Absoliwt. Hyrwyddo rhyfeddod a wna Harddwch. Ac meddai McGrath (M II 88): ‘The sense of wonder which is evoked *before* any rational reflection takes place must be seen in terms of both the natural resonance of the human imagination with the mind of God as expressed in creation, and in terms of a symbolic role as a pointer to the God who created both nature and humanity, and who will bring all things together in the final consummation.’ Trafodir perthynas estheteg â Gras Cyffredinol gan Jeremy S. Begbie, yn *Voicing Creation’s Praise: Towards a Theology of the Arts*, Edinburgh, 1991, 83-93.

Y brif gyfundrefn ym mhob sffêr ddeddfog, sef y gyfundrefn ddiffiniol i’r sffêr, yw’r un sy’n eiddo i Ras Cyffredinol mewn Tafod, ac i bawb. Diau fod yna gyfundrefnau eraill o fewn y sfferau deunyddiol hyn, a chynnwys helaeth. Ond soniaf fod y rhain eisoes yn arweiniol yn darparu themâu cyfundrefnol cyffredin, y rhain sy’n trefnu meddwl yr artist. Yr adeiladwaith athrawiaethol hwnnw am y Greadigaeth oedd fframwaith ac asgwrn cefn Williams wrth lunio emynau ac arwrgerddi. Ac ymddengys, er gwaethaf pob methiant personol, ei fod yn ymwybodol o gywreinrwydd lluniaidd y meddylwaith a etifeddodd gan ei draddodiad o ddysg ddiwinyddol. Troes yr hyn a oedd yn isymwybod i lawer llenor yn ymwybod effro iddo ef ei hun.

Rhydd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Pantycelyn, felly, ffurf hierarcaidd unol i’w themâu. A hynny efallai yw pennaf cyfraniad yr ymdriniaeth bresennol hon, os oes un o gwbl, i faes Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. Olrheinir siâp hierarcaidd i’r wyddor ffurfiol honno ar waith. Enwir y drefn weithredol. Arwyddocâ Absoliwt. Enwir yr Un Archgyfundrefn ar ddeg diffiniol sydd ar waith ym mhob Diwinyddiaeth Gristnogol yn gyflyrol, dwy o leiaf yn ddeunydd thematig diriaethol gwmpasol; a hyn ar gyfer llenyddiaeth hithau yn gyffredinol. Enwir hefyd y brif gyfundrefn arweiniol i bob un o’r Sfferau Deddfog. Ac yna, dengys beth yw natur y Gyfundrefnau Cynorthwyol a’r math o Gyfundrefnau Thematig Cyffredin sy’n tarddu ohonynt, er y gall pwyslais a hunaniaeth rhai o’r Gyfundrefnau Cyffredin hyn amrywio o Gristion i Gristion, ac o lenor i lenor. Mae hyn oll yn

arwain at Fyngiant Thematig mewn motiffau. Ac wrth gwrs, lleolir Cyfundrefn y Sfferau o fewn y symudiad meddyliol hwn wrth ganolbwyntio ar un llenor, lle y ceisiwyd Cynghanedd feddyliol. Hardd ydyw trefn o'r fath ynddi ei hun, gan symud o harddwch ffurf Tafod i harddwch synhwyrus Mynegiant. Yr oedd gan Bantycelyn feddwl hardd.

Gan fod beirniaid wrthi, yn newyddiadurol efallai, yn ceisio gor-wleidydda popeth er mwyn gweld y cysylltiad rhwng yr esthetig ar y naill law a'r cymdeithasol neu'r economaidd ar y llall, gwiw i'r Cristion yntau fynnu canfod heddiw undod y Sfferau oll, yn nannedd hynny, ac eto urddas hunanlywodraethol pob un. Y maent oll yn gyd-berthnasol i'w gilydd, gan gynnwys y gwleidyddol. Ac eto, nid oes yr un yn 'ymyrryd' â'r llall. Yn ddeddfog, y mae gan bob un ei chymeriad a'i chymdeithasol eu hunain. Ond fe dderbyniant egwyddor lywodraethol ar wahân gan yr Absoliwt. Eto, i gyd oherwydd yr undod hwnnw y maent yn cydweithredu ac yn cyd-daro, yn wir yn cydlifo i'w gilydd, heb golli'r deddfau arweiniol yn y Sfferau.

Felly, yn y pen draw nid yw'r cymdeithasol (neu'r gwleidyddol) yn ymyrryd â *chraidd* yr esthetig, ond fel y mae'n cyfrannu ystyriaethau ar gyfer cynnal y cymdeithasol, y naill a'r llall yn ôl ei gyfundrefnau'i hun, oherwydd eu cydberthynas â'r uwch.

Ymhllith y Sfferau, nid wyf yn ystyried yr esthetig nac yn addurn nac yn atodiad dewisol achlysurol i ddim byd. Mae'n orfodol adeileddol fel y lleill. Nid oes neb cymharol normal a gaiff ddianc rhag ymwybod â'r hardd neu'r hyll, er bod modd peidio â sylwi neu beidio â pharchu mewn cyd-destun felly. Mewn cyfrol ddiddorol ddiweddar ar estheteg, *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod*, 2006, hawlia Sioned Puw Rowlands, 'diystyrwyd yr esthetig yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf.' Ac y mae ei hymdriniaeth hi â'r maes wedi bod yn gaffaeliad gwerthfawr i feirniadaeth Gymraeg. Ond o fewn ei gyd-destun ei hun, fel y gobeithiwn ei weld, yr oedd Pantycelyn, sef y mwyaf di-estheteg o feirdd (gellid tybied), yn cerfio'i estheteg feddyliol yn gwbl wahanol i'r draddodiadaeth uchelwrol. Yn y byd sydd ohoni, 'driffio' y bydd ymwybod llenorion o ran tybiaeth. O fewn cyd-destun ysbrydol y Cynnwys, fe fynnai Pantycelyn fod pob sffêr yn ddieithriad yn eiddo cymen a theg ddisgybledig i lenydd, ac mai rhyfeddod oedd disgyblaeth adeileddeg y sgêm.

Ymddengys felly mai Estheteg, yn anad yr un sffêr, sydd â 'Ffurf' yn flaenaf mewn golwg neu yn y galon. Edrych a wna tuag at Ffurf er y gellir ysgogi'r awydd i lenydd o gyfeiriad Deunydd. Peth yw a chwilia harddwch drwy Ffurf, hyd yn oed drwy Ffurf y Deunydd. (Trafodir Estheteg o safbwynt Diwygiedig, gyda chyfeiriad arbennig at Abraham Kuyper a Herman Bavinck yn *Voicing Creation's Praise*, Jeremy S. Begbie, Edinburgh, 1991.)

Sonnir weithiau am grefft ffurfiol fel pe gellid gwella'r grefft yn annibynnol ar Ddeunydd. Gall ffurf olygu mydr a chynghanedd ac odl. Gall olygu hefyd gynllunio datblygiad a chydlyniad cyfanwaith meddyliol. Ac nid oes amheuaeth nad oedd cryn feddwl y tu ôl i batrymwaith cyfannu *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*. Ac nid cynllunio arwynebol mo hynny ond cynllunio thematig dwfn. Gall perthynas y rhannau fod yn gydweol ailadroddol ac yn adleisiol, yn gyferbyniol neu'n uchafbwyntiol. Eto, i'r awdur, y mae'r cyneddfau a'r cyfundrefnau oll yn toddi i'r ysbrydol, er bod modd synied am y sfferau gwahanol yn eu tro.

Nid cydnabod hunanlywodraeth Sffêr Esthetig ar Sffêr Foesol neu Gymdeithasol yw'r drwg, felly. Ymfalchïwn yn eu hunaniaeth bob un. Ac eto, toddant i'w gilydd. Gall y diffinio arwahanol fod yn effeithiol ochr yn ochr â chydweithredu a chyd-ddylanwadu. Priodol yw sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng Tafod y cyfundrefnau cydlynol hyn a'r Mynegiant cydlynol ymarferol. Er enghraifft, teg mewn Mynegiant fyddai dweud: 'nid oes y fath beth mewn celfyddyd â'r un ffurf gyda gwahanol ddeunydd' (G.N.G Orsini) ... Ond tybed? ... Ai Mynegiant yn unig sydd mewn golwg? Sylwer: cynllun o gyfatebiad yw cynghanedd heb enwi yr un gytsain. Felly, gall yr un Gynghanedd hanfodol drafod pob pwnc a'r un ffurf frawddegol fynegi gwahanol gynnwys. Safleoedd, neu bwyntiau seiniol mewn Tafod, dyna sydd yma; a grymoedd; a gellir eu llenwi â seiniau penodol mewn Mynegiant. Perthnasoedd rhwng pethau sy'n gwneud 'ffurf' estheteg mewn Tafod. Cynllun yw. Ac eto mewn Mynegiant, byddai gosodiad yr Athro Orsini yn llygad ei le, wrth gwrs. Ond, mewn Tafod, y mae cyfundrefneg Estheteg yn bodoli yn annibynnol ar Foesoldeb neu ar Gymdeithas. Sffêr sofran yw. Ac nid oes Mynegiant llenyddol heb Dafod 'gwahân' a chanddo'i swyddogaeth a'i nodweddion priodol ei hunan ynddo.

Anghenraid, yn ddiau yw i'r sawl sy'n darllen Pantycelyn, farnu yn ôl yr holl sfferau priodol. A phriodol barnu *Golwg ar Deyrnas Crist* yn ôl y criteria esthetig, moesol, cyfathrebol, dadansoddol, barnwrol, egnïol, a diwinyddol sy'n eiddo iddi. Gall problem godi ymhlith ysgolheigion sy'n arbenigol astudio llenyddiaeth pan na fydd beirniaid o'r fath yn gwir ymddiddori mewn llenyddiaeth ond yn ei darllen o safbwynt gwleidyddiaeth ideolegol gyfyngedig, dyweder, neu fel hanesydd gwrthgrefyddol neu olygydd testunol. Deunydd 'ffeithiol' bron bob amser yw'r atyniad, yn hytrach na *Deunydd/Ffurf*. Tybiaf mai Ffurf Tafod ynghyd â synwyruswydd neu ffurfioldeb Mynegiant yw maes pennaf ac arbenigol yr Estheteg. Ond nid dyna'r unig ystyriaethau. *Deunydd/Cymhelliad/Ffurf* yw maes priodol y Beirniad Cyfansawdd. Gyda rhai, mewn cyfrolau cyfyngedig diweddar, ciliodd y gwerthuso llenyddol a'r mwynhad, ysywaeth, am resymau y byddai'n wiw eu harchwilio. Ymhlith Ôl-

foderniaid, ysywaeth, prin bellach yw'r diddordeb mewn Ffurf synhwyrol. Ond ni ellir osgoi'r synhwyrâu, gan gynnwys y synnwyr o harddwch Ffurf a synnwyr cyffredin. Y mae i bob un o'r Sfferau ei diffiniad ei hun, ac os mentrir pwysu a mesur Ymennydd yr Emynydd yn ôl y wedd esthetig, dylid gwneud hynny yn ôl y Brif Gyfundrefn sy'n briodol i'r Sffêr honno. Yn y fan yna, y mae Estheteg yr emynydd yn cael ei chyfyngu yn ôl criterion celfyddyd.

Blodeua'r synwyrusrwydd wrth gwrs yn y Mynegiant; ac yn sicr, y mae i'r synhwyrâu gysylltiad â'r greddfau. Dyna wedd ar y bersonoliaeth sy'n arbennig archolladwy yn wyneb y Cwmp. A gwiw y tynnodd Saunders Lewis ein sylw at amgylchiadau eidulion Adda ac Efa yn *Golwg ar Deyrnas Crist*: 'Yn stori Adda ac Efa — stori cariad cyn y Cwmp — y mae Williams yn sefyll a'i osod ei hun dro gyda Theocritus mewn byd nad oes ynddo na phechod nac euogrwydd, lle y mae Duw yn rhodio mewn gardd megis Gwydion yn llunio merch o asgwrn a blodau â'i ddwylo.

*Mor deg ac mor garuaidd, mor nefol ac mor hardd!
Blodeuyn pur y blodau, a ffrwyth holl ffrwythau'r ardd...*

*Cans tegwch pob creadur oedd yn ei hwyneb cun
A miloedd maith yn rhagor 'nawr wedi ei gasglu'n un; ...*

*Nes daeth rhyw wres o gariad yn gymwys fel y tân
I mewn i galon Adda, nas teimlodd ef o'r blaen,
A goglais yn ei enaid, dim pellach a'i boddhâi,
Oni chât drigo yn wastad yn unig man y bai.'*

(*Meistri'r Canrifoedd*, 278)

Pan sonnir am bob un o'r Deunyddiau, 'naïf' neu 'wryfol' yn eu tro felly, sôn yr ym hefyd am fyd creedig di-lwgr a lychwinwyd. Hynny yw, caed Deunydd Esthetig yn benodol o fewn Deunydd Ffydd.

Mae gan Saunders Lewis yn ei gyfrol *Williams Pantycelyn* bennod ar 'Yr Estheteg Gymraeg'. Dyma un o'r traethiadau disgleiriaf o feirniadaeth yn y Gymraeg, ac o fewn rhai cyfyngiadau pwysig detholus o bosib mewn unrhyw iaith. Deil yn 'wir' o hyd ar ryw olwg. Ac eto, llwyddodd i golli pwynt a oedd yn dra amlwg drwy beidio â chyd-edrych gyda Williams: 'Yn ôl damcaniaeth Williams y mae llenyddiaeth yn ddull o fyw. Nid diddanwch yw ei diben, ac nid ganddi ei hun y mae ei gwerth hi. Cyfyng yw hi i feddiannu bywyd yn llwyr, i ddal profiad yn bendant fel fflam ... A'r profiad sy'n bwysig.'

A gaf fentro ateb hyn ymhellach, yn ôl a dybiaf fel y byddai ateb Williams ei hun?

Nid y profiad a oedd yn bwysig iddo ond y gogoneddu. Nid oedd llenyddiaeth, iddo ef, yn ddull o fyw, nid yn benodol, eithr yn gynnyrch i fyw. Nid cyfrwng oedd i ddal profiad.

Yr unig beth a wir gyfrifai iddo oedd clodfori Crist. I Hwnnw yn uniongyrchol y canai. Yn Hwnnw y câi goron harddwch. Ac yn yr union ddiben yna yr oedd yn byw a bod. Hynny a gyflyrai bob dim arall iddo ef yn undod. Nid yn y ‘llenyddiaeth’, ac yn sicr nid yn y profiad: isgynnyrch oedd y profiad a’r llên. Nid ef ei hun na’i waith oedd yn gyntaf, er gwaethaf y fi ... y fi, byth a hefyd. Roedd arno gywilydd am y fi. Âi heibio i’r cyfan hwnnw at y gwrthrych a’r gwrthrychol llawn. Ac oherwydd hynny yr ysgrifennai’n ‘anoddrychol’ (o ran cymhelliad). Gweithredoedd Crist — ie hyd yn oed yn y pechadur — a ddôï i’r blaen. Enghraifft oedd Williams, enghraifft yn unig, yn ddistadl ddigon, o ryfeddod hardd gwaith gwrthrychol ei Waredwr.

Bu Saunders Lewis yn fylchog iawn felly mewn un cyfeiriad; a phe rhoesai sylw i’r hyn a ddywedai Williams ei hun, yn hytrach nag i lyfrau cyfoes am eneideg a Phabyddiaeth, ni buasai wedi cyfeiliorni gymaint: ‘Yn y llenyddiaeth Brotestannaidd, dyna’r ymgais gyntaf i roi dosbarth ar brofedigaethau’r meddwl a’u darlunio’n fanwl. Mewn eneideg bu diwinyddiaeth Protestannaidd bob amser yn wan, a dyna lle y mae cryfder eithriadol Williams.’ ‘Y mae ei eneideg, ffrwyth ei brofiad a’i feddwl ei hun yn gwbl anghalfinaidd.’ Un bwlch mawr yn astudiaeth orchestol Saunders Lewis oedd y llenorion a gyfrifwyd gan rai fel y rhai mwyaf dirmygedig a fu yn Lloegr erioed. Llenorion defosiynol ac athrawiaethol athrylithgar oeddent. Yr oedd Williams yn dwlu arnynt ac yn pori ynddynt yn gyson. Roedd yn fwy deallol ddyledus iddynt nag i ddim arall ond y Beibl, sef y Piwritaniaid — Baxter, Goodwin, Gill, Owen, Flavel, Alleine, Sibbes, Watson, Vavasor Powell, a dwsinau o rai cyffelyb. Dyna bennaf darllen Williams; meistri athrawiaethol, profiadol, ac ymarferol. Athrylithoedd oll. Dymunai fyw bywyd hardd, fel y gwnaent hwy. A’u cyngor cyson ac ysbrydoledig hwy oedd mai drwy’r gwrthrychol y mae trechu’r goddrychol, drwy droi tuag allan y mae darostwng y mewdol, ac mai ewyllys a meddwl Duw oedd yr ateb i ddyn a’r fi. A hynyna oedd gwers ganolog y ddwy arwrgerdd, a chyfrinach estheteg emynyddiaeth Williams. Hyd yn oed yn y ddeuliaeth ragdybiol *Duw’r Absoliwt/ yr Ego Trosgynnol*, darfodedig a chyfyngedig oedd yr ail, ond ni allai’r cyntaf namyn bod yn berffaith.

CH. CYMDEITHASEG: *Cyfundrefn arweiniol* — Dyn/Cyd-ddyn.

Dosbarth o sfferau yw hyn eto, neu Sffêr a chanddi is-sfferau: neu gyd-sfferau, Cyfathrebu; Economeg; Hanes.

Nid oedd, cyn belled ag y gwyddom, ddim ddiddordeb gan Bantycelyn mewn gwleidyddiaeth fel maes gweithgarwch. Mae hynny'n ei wneud yn ôl un meddylfryd confensiynol cyfoes yn 'geidwadol'. Yr oedd ganddo faich personol dros y tlodion a thros gaethweision, mae'n wir. A baich ymarferol dros iechyd ei gyd-ddynion. Yr oedd parch arbennig at ferched ganddo. Ac yn sicr, o safbwynt cydraddoldeb fel egwyddor gerbron Duw, nid oedd 'dosbarthu cymdeithasol' o'r fath yn blino dim arno. Dyrchafwyd pob Cristion i statws brenhinol, yn gyfartal.

Os oedd ganddo ymwybod o ddsbarth cymdeithasol, nid oedd hwnnw'n ymwneud â cyfoeth materol o gwbl, nac â phleidleisiau.

O fewn cyd-destun ein meddwl confensiynol cyfoes ynghylch 'adain dde ac adain chwith', y mae labelu Pantycelyn yn her go annifyr. Tybir yn rhy aml mai ceidwadol oedd. Ond ym mryd ei elynion ar y pryd diau mai elfen radical, chwyldroadol hyd yn oed, fu ef yn y gymdeithas. Perygl oedd i drefn a chyfraith. Gŵr hefyd oedd ef i'w rwystro rhag mynd yn 'offeiriad' i braidd — megis yr oedd yn wir am Rowlands a Harris hwythau. Aberthai ddyrchafiadau anrhydeddus yn y Sefydliad er mwyn gwrthryfel ei bobl. Rebel oedd.

Yn y cyd-destun hwnnw, dylwn ddweud gair ynghylch camddealltwriaeth o safbwynt Beirniadaeth Gyfansawdd, gan y gallai pwyslais Pantycelyn ei hun ar Gyfundrefneg roi'r label 'neo-geidwadol' arno, druan. Gwan fu Ôl-foderniaeth yn ei dealltwriaeth o bob arwyddocâd metaffusegol cyfansawdd. Nid adwaith yn ei herbyn hi a'i nihiliaeth a'i relativrwydd oedd cyfundrefneg chwaith gan fod yr egwyddorion a hen goleddai honno eisoes ar gael cyn yr ugeinfed ganrif. Gwybuwyd am ddelfrydau sefydlog ddigyfnewid 'sicr' (ac yn wrthun felly) o ran ansawdd. Ffansïol o ddisytyw fuasai cyfeirio at Gristnogaeth Pantycelyn fel mater 'ceidwadol'. Roedd hi fel pe baech yn cyfeirio at Dduw, oherwydd cynnal deddfau bodolaeth yn dragwyddol ddigyfnewid, fel pe bai'n aelod (heb lawn dalu) o'r Blaid Geidwadol. Drueni ei fod yn digyfnewid gadw disgyrchiant heddiw, disgyrchiant yfory; dyna adweithiol! $A + 2 = 4$ — heddiw a'r un fath yfory! Och ni! Ceidwadaeth!

Cododd Beirniadaeth Gyfansawdd yn saithdegau'r ugeinfed ganrif, yn ymateb cyfredol wrth ochr esteteg Ôl-foderniaeth (unochrog), yn erbyn deuoliaeth hollt Moderniaeth. Ceid eisoes gan y Modernwyr raniad seicolegol yn eu rhengoedd. Rhaniad ydoedd weithiau o fewn *oeuvre* yr un llenor. Er enghraifft, ceid y 'chwâl' yn dreiddgar drwy'r 'Waste Land', tra oedd undod yn drech yn y *Quartets*. Felly, y ceid cyferbyniad neu

hollt nid annhebyg yn Rilke yntau, a'r Yeats diweddar. Credaf mai'r hyn a wnaeth yr Ôl-fodernwyr oedd cydio yn yr hyn a oedd yn rhagdyb chwâl gwrth-resymol ymhlith y Modernwyr, a'i goleddu. Yr hyn a wnâi Beirniadaeth Gyfansawdd oedd cydio yn undod a gwahanu'r Modernwyr, gan gydnabod peryglon y chwâl a'r unffurfiol, ac eto gan gydnabod yr hen ddeuoliaeth angenrheidiol gynhenid negyddol/cadarnhaol. Heb anwybyddu'r amryw na'r un, coleddid 'gwahuniaeth'. Hynny yw, yn groes i Lyotard, cydnabyddid deddfau bodolaeth, a oedd yn ystyfnig barod, heb deimlo'r un anghenraid i gefnu ar natur *sefydlog/ansefydlog* pob llenyddiaeth. Nid 'adwaith' yn erbyn Ôl-foderniaeth oedd Beirniadaeth Gyfansawdd, felly, ond cydnabyddiaeth gyfredol. Methai theori Ôl-foderniaeth â ffitio gwyddoniaeth, rywfodd. Nid oedd yn ffitio chwaith ddeddfau digymrodedd beirniadaeth lenyddol. Gellid cywiro'r ddealltwriaeth o ddeddfau wrth gwrs; ond ni ellid hepgor deddfwriaeth. A rhan bwysig o drefn dyn oedd trefn gymdeithasol: amrywiaeth o fewn undod.

Ni châi Crisnogaeth anhawster i fod *yn* y byd, heb fod *o'r* byd.

Crewyd dyn i gymdeithasu o'r dechrau. 'Nid da bod dyn ar ei ben ei hun'. Fe'i gwnaethpwyd i sefydlu teuluoedd, i godi dinasoedd, i gydweithio mewn diwylliant yn ôl doniau amryfal, ac i wasanaethu a choleddu cyd-ddynion, boed yn gymdogion neu'n elynion, gan gyflawni anghenion ei gilydd. Gŵr cymdeithasol oedd Pantycelyn yntau. Prin bod llawer ers amser y glêr wedi cyson ymweld â mwy o gymdeithasau na Phantycelyn — er mai eu galw'n 'soseietis' a wnâi ef. A phrofai dosturi'n ddwfn at ei gyd-ddynion.

Clywn bwyslais a gwerthoedd Pantycelyn ar lefel gymdeithasol yn ei Farwnadau:

- GWPI, 464 *Beth wna'r tlawd sy'n awr yn gruddfan
Yn ei glefyd, wrtho'i hunan?
Pwy rydd gynghor iddo weithian,
Eli a physyg heb ddim arian?
Bellach rhaid resolfo marw,
Yn y bedd mae'r Doctor hwnnw
Roddai'n rhad, ddi-nacâd, gynghor a moddion,
I'r dolurus, gwan a gwirion,
Yn eu gofid a'u hanghenion.*
- GWPI, 488 *Dysg ac ymborth, gwisg yn gryno,
Gafodd torf o dlodion yno,
Rhwing y coedydd caent yn odiaeth
Glywed geiriau'r iechydwrriaeth.*
- GWPI, 519 *Bwyda'r n'wynog, disychedu,
A dilladu'r noeth a'r gwan,
Ydoedd pleser pena' Marg'et,
Dyna ei doniau, dyna ei rhan;
Hi r'odd siampl hardd o fywyd,*

*Ac hi droediodd lwybr gwiw,
Ac fe gofir am ei henw
Tra fo'r oes sy'n awr yn fyw.*

Dyfynnaf Alan Llwyd, *Cymru Ddu/Black Wales: A History*, 43: ‘Doedd Pantycelyn ddim o blaid caethwasanaeth. “Diau yw nas gellir fyth amddiffyn na chyfiawnhau y fath draffig â hwn,” meddai. Un o gamweddau caethwasiaeth yn nhyb Pantycelyn oedd y ffaith fod “llawer o’n planwyr ni yn America” yn ffurfio “cynghrair â’i gilydd i beidio gwneud Cristnogion ohonynt, rhag ofn iddynt ddeall bod y grefydd Gristnogol yn gorchymyn i bawb i wneuthur fel y dymument i eraill wneuthur iddynt hwy, ac yn ganlynol y disgwyliant gael triniaeth fel dynion, ag sydd â’r un Duw ac â’r un Crist wedi marw drostynt”.’ Ef, yn llenor mwyaf poblogaidd Cymru, a arweiniodd y meddwl Cymreig yn erbyn Caethwasiaeth gyda’r gyfrol *Berr Hanes o’r Pethau mwyaf hynod Ym Mywyd James Albert Ukawsaw Groniosaw, Tywysog o Affrica, 1779*. Ac nid damwain yw hi mai yn y gyfrol honno y cyhoeddwyd y gerdd *Gloria Scripturarum*. Perthynai Williams i’r un symudiad â John Newton a Wilberforce a Hannah More. Ond yr oedd hyn cyn bod yna ymgyrch trefnedig ym Mhrydain yn erbyn y fasnach gaethweision.

Prin y gellid cymryd Saunders Lewis o ddifri wrth sôn am ‘ddiffyg cymdeithas’ Williams, ‘Yr un peth nas darganfu Williams erioed, sef y syniad Cymreig am gymdeithas ac am natur gymdeithasol barddoniaeth ... Prin y ceir ganddo syniad am gymdeithas Gristnogol ... *Golwg ar Deyrnas Crist* a ddengys y diffyg meddwl cymdeithasol hon ar ei ddiwinyddiaeth yn egluraf. Bwriad y gerdd yw canu am deyrnasiad Crist ... Os tlawd yn ei synied ef o eglwys a chymdeithas, hyn a etifeddodd ef ... Y pwynt yw nad oedd dim yn ei feddwl *yn awr y cyfansoddi* namyn ef ei hun a Duw.’ A’r Arfaeth, ychwanegwn i, yn ei isymwybod, a’i Frenhiniaeth, a’i ran mewn sancteiddhad ymarferol gerbron baich y 'byd'.

Roedd yn amlwg wrth gwrs i Saunders Lewis nad oedd neb o flaen Williams wedi sgrifennu llyfr yn y Gymraeg o safbwynt ‘Cymdeithaseg’ Gristnogol, megis *Drws y Society Profiad*. Sgrifennai’i lyfrau emynau er mwyn canu cynulleidfaol, ac ar gyfer eglwysi lawer. Pynciai mewn marwnadau a lleisiai hiraeth cymdeithas. Ond nid dyna ‘gymdeithas’ yn ôl dealltwriaeth Pabydd na Marcsydd. Cymdeithas ‘brofiad’ oedd hon. Dôi pobl at ei gilydd i rannu gofidiau ysbrydol, i dreulio oriau gyda’i gilydd mewn ceginau ffermydd dan sang, i weddio dros ei gilydd, i gydymdeimlo, i gyd-ddatrys problemau personol, i dderbyn cariad cymdeithas, i gyd-ganu. Ni bu pobl erioed mor glymedig nac yn toddi gorfoledd y naill yn y llall fel y gwnâi’r rhain. Gellid dychmygu rhai beirniaid diddychymyg yn sibrdw geiriau fel ‘hysteria torfol’ hyd yn oed. Yn sicr, yr oedd Pantycelyn yn ffanatig gymdeithasol.

Paratoi a thraddodi yn unigolyn, ac am ei weithredoedd ysmala'i hun yn aml, a wnâi'r Pabydd Dafydd ap Gwilym, er gwaethaf ei swydd gyhoeddus: *cyd-ganu* a wnâi Williams er gwaethaf ei unigolyddiaeth honedig. Ef fu ac yw awdur mwyaf poblogaidd Cymru erioed. Canai ar gyfer canu eraill. Fel hyn y dywedai ef am ei gydganu yn ei drydydd argraffiad o *Aleliwia*: 'fe ddylai y cyfryw a fo yn eu rhoi hwynt, os posibl yw, fod yn gydnabyddus yn gyffredin pa fath yw o bobl sydd yn eu canu — pa un ai bod lle i obeithio bod llawer ohonynt yn dduwiol ai peidio; neu os ydynt yn dduwiol, pa un ai rhai amheus, llesg, neu rai cryfion, ffyddiog ydynt hwy; ac hefyd pa un ai mewn hwyl o ddiolch neu mewn hwyl o weddi y maent; ac yn olaf, pa un ai yn fwy marw o ran eu teimlad yn bresenol, neu yn fwy byw y maent; ac yn ganlynol, rhoi hymn i maes ag a fo yn perthyn fwyaf addas i'w cyflyrau.' Ar ryw olwg, cyfansoddiad y *society* oedd emyn Williams gymaint ag ydoedd o waith ganddo ef ei hun. Ond nid ei *society* ef oedd *society* Dafydd ap Gwilym.

Ond pan fo beirniad mor ddeallus â Saunders Lewis yn camgymryd mewn modd mor eithafol, ac yntau'n Gristion, wrth ochr atheistiaid gwleidyddol y disgwylid camgymeriadau dealltwriaeth o'r fath ganddynt, mae eisiau gofyn y cwestiwn pam. Y gwir yw — oherwydd hanfod y ffydd Babyddol a'i syniad am 'Eglwys' a'r obsesiwn ynghylch awdurdod y swyddogion Eglwysig a chanoligrwydd y drefn allanol, y mae'n hawdd lleihau'r pwyslais ar gymdeithas dduw-wneuthuredig. Fe dynnid honno ynghyd yn fewnol ac a wnaed yn un yn syml oherwydd canoligrwydd y cydbrofiad uniongyrchol o deyrnas Crist. Dim ond drwy ddolen Crist, nid drwy awdurdod swyddogion, ac nid yn uniongyrchol gan ei gilydd, ond drwy gyffredinedd y cyswllt â Christ ei hun, y ceid bod yn aelod o'i gorff. Crist yn unig oedd hefyd a'u gwnâi oll yn un bobl. Ynddo Ef y ceid yr Archoffeiriaid, a phawb o'r Cristnogion yn Offeiriaid. Bu'r syniad yn chwyldroadol erioed; ond nid yw'n adeiladu llai o gymdeithas. Gwnaethpwyd hwy'n uned dynn drwy gyfrwng yr un cwlwm eithafol a chyflawn. Hyn, a hyn yn unig, nid bedydd na swyddog, na chofrestru na gwleidyddiaeth a ddiffiniau'r gymdeithas honno, eithr cyd-bechu, cyd-waredigaeth, cyd-foli, cyd-ymostwng, cyd-gredu athrawiaethau, cyd-fwynhau profiad bywiol o berthynas annatod â Christ. Dyna'r eglwys Bantycelynaidd yn gron. Dyna wir Eciwmeniaeth. Dyna'r Efengyl gymdeithasol ar ei ffurf Gristnogol.

*

*

*

Canfyddwn yn y fan yna bedair o'r Sfferau Sofran Deddfog, — y seicolegol, y foesol, yr esthetig, a'r gymdeithasol — a bwysleisiai Pantycelyn. Sylwn hefyd fel yr oedd yr Archgyfundrefnau'n llunio ac yn diffinio'r Sfferau hyn yn ddadansoddol mewn Ffydd. Gadawn y Sfferau hynny yn awr, ond nid heb danlinellu fel yr oedd yr Archgyfundrefnau'n gwau drwy bob pwnc.

Bellach, y mae modd esbonio'n enghreifftiol efallai y rhan sydd i'r Archgyfundrefnau *vis-à-vis* Deunydd y berthynas rhwng y ddwy garfan, sut y mae'r naill lefel ffurfiol yn ymwneud â'r lefel ddeunyddiol. Beth yw perthynas Archgyfundrefnau mewn Deunydd Sfferol? Fe'u clymir yn Hierarci, a rhoir ystyr iddynt, gan yr Absoliwt.

Swyddogaeth yr Archgyfundrefnau yw diffinio'r ffurf y mae'r Absoliwt yn ymwneud â phob Deunydd ym meddwl y dyn cyffredin megis i'r llenor, yn wir ym meddwl pawb. Mae'n dosbarthu. Pob peth yn gwllwm. Cymerer un enghraifft ddistadl ymddangosiadol gyffredin o blith y Deunyddiau tybiedig seciwlar: sef y *Sffêr Fiotig a'r Gemegol* o fewn hynny — 'dŵr'. Mae'n bwnc mor gyffredin ar y ddaear. Gall fod yn ddelwedd ac yn sylwedd. Peth bach yw. Gall ymddangos yn bwnc chwerthinllyd o safbwynt dwys ddiwinyddol. Ond mae Pantycelyn yn cydnabod ei le cosmig.

GWWP I, 61 *Fe wnaeth afonydd mawrion i ddisychedu'r llawr,
Yn fywyd i'r greadigaeth aneirif, lydan, fawr,
I lanw'r môr o ddyfroedd yn magu'r pysgod sydd,
A llonni'r pell bererin wrth deithio yng ngwres y dydd.*

Nodwn yn gryno, yng ngoleuni hynny, yr Archgyfundrefnau cyflyrol a'u swyddogaeth berthynol yn hwn, a chymryd enghraifft sy'n wedd ar y Sffêr Ddomestig a thraws-sfferol, ond sy'n amlwg yn y Gymdeithas:

1. *Presennol/Absennol*

Dyma gyfundrefn sy'n amodi bodolaeth hanfodol. Pe cysylltem y gyfundrefn ffurfiol hon â dŵr, mae presenoldeb ac absenoldeb ac absenoldeb yn fath o elfen Feiblaidd sy'n sylfaenol arwyddocaol. 'Bydded' bywyd oedd diriaethu daear ynghyd â'r dŵr mwyaf distadl syml ei bresenoldeb ymarferol yn Genesis.

2. *Anweledig/Gweledig*

Cymerer dadansoddiad a gwneuthuriad cemegol dŵr. Mae iddo ffurf sy'n hollol haniaethol ei fformiwla. Gellir disgrifio'i hanfod tryloyw, ei gyfansoddiad haniaethol ac egwyddorol. Ac eto yn unol â'r fformiwla y mae'n aros yn hylif gerbron y llygaid yn ddiriaethol, yn rhedeg, yn yfedig, ac yn wlyb. Mae'n llythrennol ac yn drosiad. Dyma drefn.

3. *Un/Amryw*

Yn fformiwla'r dŵr, ceir nwyon sydd yn ôl cyfartaledd priodol yn rhannau mewn cyfansoddiad gan ffurfio a chan esgor ar undod yr hylif. Ceir perthynas fewnol rhwng elfennau. Mae'n ddewisol i groesawu'r amryw i'r un eglwys. Try o iâ i lif, ac o ager i law.

4. *Cyffredinol/Arbennig*

Wrth drafod y fformiwla yr ydym yn ymwneud â phob dŵr. Gellir mynd o enghraifft i enghraifft o ddŵr, o iâ i lif, o ager i law, a dod i gasgliad sy'n wir am bob un. Clymir meicrocosm mewn Macrocosm. A cheir yn y Dilyw ei hun y cyffredinoliad cyferbyniol llawn rhwng dŵr a daear.

5. *Ffurf/Deunydd*

Sôn y buom yn ddeuol — am Ddeunydd, sef 'dŵr' gweledig; yn ogystal ag am ei ffurf, sef H₂O. Dyma'r Deunydd sy'n trefnu tiroedd ac yn bwydo tiroedd; lluniai Ddaeryddiaeth a Daeareg.

6. *Bod/bod*

Mae i'r peth bach, y creedig, berthynas â'r Creawdwr, y Bod mawr yn yr Arfaeth. Dyna'r berthynas a drafodir yn bennaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist* wrth gydnabod ei arwyddocâd mawr yn y Greadigaeth, a'r hyn a wna fod dynol yn ddyn byw.

7. *Bod/gwneud*

Nid digwyddiad unwaith am byth, megis y cyswllt cyflyrol yn y Creu yw, ac nid dyna'r unig berthynas lle y mae i ddŵr le yn yr Arfaeth: y mae'n perthyn ac yn cyflawni cydswyddogaeth yn y Greadigaeth mewn amser, mewn trai a llanw, wrth ddarparu maeth i anifeiliaid ac i blanhigion, ac yn hanes bywyd dyn megis wrth gerdded drwy'r Môr Coch. Mae'n gwneud ei waith. Fel y mae 'dyn' yn amlwg ei berthynas â'r Absoliwt o ran y Creu yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, y mae 'dŵr' yn amlwg symbolaidd yn ei berthynas ymarferol mewn bedydd â bedydd yr Ysbryd Absoliwt yn y Waredigaeth (*Theomemphus*). Gwyddai Creawdwr nef a daear beth oedd syched.

8. *Gwaith/Trefn/Diben*

Mae gwerth dŵr i fywyd yn hanfodol. Ceir trefn i'w ddefnydd. Gellid sôn am y cylch dŵr, glaw, môr, ager (cymylau); ac wrth gwrs yn ffurfiant rhew. Ni raid manylu ar y diben, gan fod y gwerth a'r drefn yn arwain at ddarparu'r hyn sy'n sylfaenol i hyrwyddo bywyd ar y ddaear.

9. *Dibyniaeth/Cynhaliaeth*

Fel yr oedd dŵr yn dibynnu ar y Creawdwr ac ar ei Arfaeth ryfedd, felly y mae'r ddaear a dyn yn dibynnu ar y dŵr: ar lefel gyfredol annaeorol y sefydlwyd bedydd, cf. Ioan 3: 5; a gallu Crist i roi 'dŵr bywiol' 4: 10, 11; cf. Ioan 5: 8, yr Ysbryd, y dŵr a'r gwaed; a Dat. 21: 6 dŵr y bywyd. Dŵr glendid sy'n symbol o gynhaliaeth.

10. *Y Gorchymyn Diwylliannol (Ffrwytho/Goroesi)*

Amhosibl yw ffrwytho heb ddŵr. Mae swyddogaeth pob deunydd yn cyfrannu rhyw ran at gyfanrwydd y ffrwytho, neu'n berthnasol iddo, yn negyddol neu'n gadarnhaol.

11. *Diben*

Dyma'r bodlonrwydd a geisir ac a geir mewn cyflawniad i'n bywyd. Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn blaen, neu'n gymysg â phethau eraill, y mae dŵr yn ddefnyddiol ac yn bleser yr ŷm yn diolch amdano. Mae'n bleser yn esthetig yn fynych. Cynnwys pleserau hamdden hyn, ac fe geir mwynhad. Ond ysgoga fawl.

Dyma un ar ddeg o offer deall, o gyfundrefnau cyflyru neu ddiffinio sy'n unol bob amser mewn dŵr: clywch Bantycelyn yn ei ymwybod o undod –

GWWP I, 61 (am yr afonydd)

*Ac oll a wnawd gan fysedd yr adeiladydd mawr
O fewn i derfyn natur mewn awyr, nef, a llawr
Sydd yn anfeidrol drefnus, yn wych, yn hardd i gyd,
Yn abal sugno ein calon at yr un wnaeth y byd.*

IV Y SFFÊR DDEUNYDDIOL OLAF: MWYNHAD

Dyma'r wedd ar waith Pantycelyn a roddodd y wefr fwyaf i mi. O ran Thema, dyma'r Sffêr lle y cyrhaeddodd ef ei anterth a lle y cafwyd ei wreiddioldeb mwyaf ysbrydoledig. Mae hon yn Sffêr sy'n bur wahanol o ran natur i bobun arall, ac, er gwaetha'r Catecism Byr, nid yw'n digwydd yn hierarci Dooyeweerd. Ac felly, y mae'n rhaid i mi gyfiawnhau'i le yn Nosbarth y Sfferau.

Mae Sffêr Mwynhad yn cysylltu â phob sffêr o weithgaredd arall, gan mai mwynhau Duw yw pwrpas popeth creedig. Ac eto, gwyddom fod yna raddau o fwynhad, ac ansoddau o fwynhad ac o ddiffyg mwynhad. Po gyfoethocaf yn faterol y daw trwch y boblogaeth ar gyfartaledd mewn rhai gwledydd, yn ôl ein barn gyfoes, mwyaf o gyfleoedd amrywiol a sylw a roddir i ddi-ddanwch. Daw yn ddiwydiant, yn wir yn sawl diwydiant. I rywrai, daeth mwynhad corfforol yn bwrpas i fywyd, yn brif feddwl i'n blynyddoedd, yn bwysicach na theulu.

Ond deil y Cristion fod yna fwynhad sy'n berffaith, yn gryfach neu'n ddyfnach na'r un arall, yn fwynhad dilychwin, heb falchder na hunanoldeb. A chan mai cyflwr a phroses yw, sydd mor gydlynol yn ein gweithgaredd, fe ystyriwn mai Sffêr unigryw o deimlo a gweithredu amrywiol yw. Bid siŵr, y mae'n ymddangos yn gwbl wahanol o ran natur i'r sfferau eraill, ond y mae hynny'n wir am Ffydd a Bioleg; eithr y cwestiwn a ystyriwn yw a oes maes cynhwysfawr a threiddgar bwrpasol y gellir ei ddiffinio'n angenrheidiol i fywyd o fath cymharol debyg y mae modd ei ddiffinio'n wedd neu'n fodd goddrychol ar ymagweddu yn ein gweithgareddau i'w ddefnyddio gyda pherwyl tebyg unol. Mae mwynhad fel y cyfryw yn ffenomen gyffredin, wedi'r cwbl, i gredinwyr ac i 'anghredinwyr' fel ei gilydd.

Bûm yn petruso rhwng y geiriau 'Mwynhad' a 'Chariad' sy'n derm mwy allblyg a chynhwysfawr. Ond gan fod 'Mwynhau' yn cyfleu'r ffactor gwan yn ogystal â'r cryf, ac yn cynnwys mwy o bethau dibwys yn ogystal â'r pwysig y gellid eu profi, tybiais ei fod yn fwy atebol i gyfleu lled y maes systematig yn gyffredinol. Ffactor yw hyn, fel yn yr holl Sfferau eraill, sydd ar gael i bawb. Mae gan yr hedonist ei fwynhad naturiol. Ymddengys hefyd mai cyfanswm anochel arbennig yr ymateb graslon i Ffydd, Moeseg, Estheteg a Chymdeithaseg yw 'Cariad': dyna derm am ansawdd dwyfol-debyg cwbl gynhwysfawr, ond bod 'Mwynhad' yn canolbwyntio ar y derbyn.

Fel y mae pob un o'r Sfferau yn ymgysylltu yn yr hierarci â phen draw'r Absoliwt, priodol drachefn sylweddoli deuoliaeth y berthynas: Duw yn mwynhau dyn, a dyn yn mwynhau Duw. Dyma ben draw Ffydd. A chais y dyn seciwlar ddigoni'i fwynhad ynddo ef ei hun, ei absoliwt ei hun. Mae'n Sffêr ddibennol sy'n bresennol ar hyd y daith.

Dyma Ddeunydd ymddangosiadol emosiynol, ond yn gynhwysfawr iawn ac yn rhagori ar emosiwn. Cyfetyb yn nhiriogaeth profiad i ragdyb Ffydd ym meysydd deall ac ewyllys, y naill ar y dechrau a'r llall ar y diwedd. Dynoda gyflwr profiadol bersonol a all gyffwrdd â'r cyfan o fywyd. Os Cariad yw coron y rhinweddau, dyma'r Sffêr fwyaf llydan ymhlith y serchiadau cadarnhaol, a hynny oblegid bod pob dim arall, boed yn ddeallol neu'n ewyllysiol, yn cyfrannu ati.

Os mwynhau Duw yw pen-lled a phen-draw uchafbwyntiol y Cristion, nid annheg ei gyfosod a'i gyferbynnu ag Uffern y pechadur coll. O fewn cyd-destun Cwyp, sef y negyddu syrthiedig, y canfyddir ei le yn yr adeiladwaith cyfundrefnol.

Mae'n wir fod a wnelo Mwynhad â rhai gweithgareddau distadl ac 'ysgafn' iawn bob dydd — megis â diwydiannau fel Twristiaeth, Ffilmiau, a Diddanwch Llwyfan. Pam lai? Ond y mae'n ffynnu hefyd ymhlith y rhai sy'n cael boddhad a phwrpas aruchel mewn crefft a chelfyddyd a chymdeithasu. Bydd y sawl sy'n profi llawenydd yn y gwyddorau yn gwybod am y cyflwr hwn. Dyma wrth gwrs hefyd sy'n gysylltiedig nid yn unig â chyfathrach rywiol, eithr yn ogystal â diddanwch teuluol a chyfeillgarwch. Rhydd wobwr i elusenwyr a chymwynaswyr. Mae'n Ddeunydd emosiynol sy'n cwblhau diben pob dim. Dyna ffrwyth y cyfarfyddiad rhwng credadun a'i Dduw. Mor llydan ym myd teimladaeth yw, mor arwyddocaol i weithredoedd, mor hyfryd mewn bywyd beunyddiol, nes fy mod yn synied — yn wahanol i Dooyeweerd — fod yn rhaid ei flaendiro a'i ddynodi'n uchafbwyntiol yn Sffêr sofran emosiynol sy'n gwbl arbennig a phenodol. Nid yw'r ffaith ei bod yn ymddangos mor amlochrog gadarnhaol o ran cynnwys ystyrol yn rhwystro'r argyhoeddiad ei bod hefyd yn treiddio drwy 'feysydd' gwahanol ac eto'n nodedig ynddi'i hun, ac yn unigryw wahanol o ran natur. Fel y saif Ffydd ar ddechrau'r cytser o Sfferau, hyn sy'n clymu'r diwedd mewn boddhad neu'n wrthwyneb yn yr absoliwt.

Fe'i gosodaf yn ddrych daearol union i Ogonedd. Eithafbwynt cyswllt dibyniant yw.

Mae'n bwysig cydnabod hyn ymhlith y Sfferau ystyrol, er hynny, am ei bod yn rhoi i'r cwbl agwedd mor adeileddol sylfaenol. Fel y rhydd Ffydd gychwynfan arweiniol i gyfundrefn y Sfferau, felly y rhydd Mwynhad ddiweddfan. Er ysgafned y gall fod, nid yw bodolaeth y cyflwr yn ystyriaeth ysgafn. Rhydd gymhelliad a phwrpas o ran natur i bob Sffêr mewn gweithgaredd dynol a dwyfol. Mae'n ffactor adeileddol yn ein profiad.

O ran deddf neu sofraniaeth, fel Ffydd, y mae iddo le ym meysydd Gras Cyffredin a Gras Arbennig, ac yn cael ei uchafbwynt yn niben bywyd, sef Mwynhau a Gogoneddu Duw. Eto, yn emosiynol y mae'n hawlio blaenoriaeth gynhwysfawr ar yr emosiynau i gyd fel math

o goron arnynt. Dyry gyfeiriad i fyd teimlad yn yr ystyr ddyfnaf. A hynny yw ei sofraniaeth seml. 'Eto, bydd y wlad yn cael gorffwys ac yn mwynhau ei Sabothau.' (Lef 26: 34)

Connoisseur mewn Mwynhad oedd Pantycelyn. Gwyddai am bleserau o bob rhyw, corfforol, deallol, ysbrydol. Pwysai a mesurai'r 'teganau' bob dydd o'i oes. A deuai i gasgliad ystyriol ond cwbl ddiamwys:

GWP II, 196 *B'le enynodd fy nymuniad?*
 B'le cas fy serchiadau i dân?
B'le daeth hiraeth im' am bethau
 Oeddwn yn gashau o'r blaen?
 Addfwyn Iesu, &c.,
'R cwbl ydyw gwaith dy law.

197 *Heibio i degwch*
 At y tegwch gwir ei hun.

213 *Golwg, Arglwydd, ar dy wyneb*
 Sydd yn codi'r marw o'r bedd.

Ni ddathlwyd erioed bleserau o unrhyw fath i'r graddau a wnaeth Williams:

219 *Mi ro'wn y byd ac oll sy ynddo'n awr*
 Am dy fwynhau un fynydd fach o'r awr.
 Mae golwg arnat lawer iawn yn well
 Na llawnder trysor yn yr India bell.

Gwyddom fod pleser neu foddhad yn digwydd mewn llawer amgylchfyd ac ar lawer lefel. Gall chwarae corfforol neu feddyliol roi pleser cyntefig, neu weld rhai o ryfeddodau natur, gartref neu dramor. Ond rhaid symud i ddimensiwn arall i fwynhau profiad 'y dwyfol farwol glwy.' Dim ond aileni i ddimensiwn amgen a ganiatâ hynny. Gellir difwyno pob mwynhad arall gan hunanoldeb a darfodoldeb. Ond pan gyflawnir y pleser a roddwyd i Bantycelyn, purir a blaenllymir pob mwynhad. Agorir drws yn y bersonoliaeth a glöwyd, a mynd i mewn i etifeddiaeth o fwynhad na wŷr y byd cyffredin amdano. Fe allai seciwlar yn gael ei fwynhad mewn dull gwahanol. Ond yn feddyliol, yr hyn a ddymuna'r Cristion a'r seciwlar fel ei gilydd yw sicrhau mwynhad eithaf, y bodlonrwydd, y llawenydd yn y fan yna. O fewn fframwaith y broses o drafod Deunydd, dyma a ddodai pob meddwl yn ei le. Yn rhychwant y profiadau dynol, mae'n perthyn i Ras Cyffredin: mae'n perthyn i Ras Arbennig.

Rhan, felly, yw hyn o'r Sefydliad cyfundrefnol cyfansoddiadol ac o berthynas; GWP II, 150 teitl Hymn CCCXVI Mwynhad o Dduw yn Nerth a Goleuni.

A gellid synied mai *Gwrthrych/Mwynhau* yw gwneuthuriad y Deunydd yn hwn. Ceir cynneddf gennym sy'n mynnu ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol. Ym myd Moeseg ac ym myd Estheteg y mae natur gwrthrych y Mwynhad neu'r Diflastod yn amlwg. Ond y mae'r holl Ddeunyddiau cyferbyniol yn agored iddo, megis yn achos Ffydd.

Er bod chwaeth yn fedr amlwg yn synhwyrol, y mae Mwynhad yn llawer mwy nag ymateb syml, ac yn ymwneud â'r holl gyfansoddiad a llawnder gwerthoedd, ac â pherthynas ddwyochrog. Y gwir yw bod chwaeth manylion Mwynhad yn amrywio rywfaint o gyfnod i gyfnod ac o genedl i genedl. Ond ym mhobman dibynna ar y medr i wahuno. Mwynhau Duw yw'r mwynhad absoliwt rhyngwladol a pharhaol. A chan mai Crist yw Deunydd Duw, fel y mae Absoliwt a Thri-yn-Un yn disgrifio'i Ffurf, mwynhau Cariad Crist yw natur y gynneddf iach ym mryd Pantycelyn.

Relatifrwydd neu ddifaterwch yw marwolaeth Mwynhad, ac ymrestrant gydag ymateb Diflastod. Er mor bwysig yw negyddu yn hyn o weithred, y cadarnhaol sy'n rhoi'r Mwynhad o fewn y cyd-destun o negyddu. Fe'i hanwybyddwyd gan Dooyeweerd; ond ni lwyddwyd eto i gracio rhestr y Deunyddiau Sfferol yn foddhaol nac yn derfynol esboniol. Hawdd gweld rhai yn y traddodiad Pietistig yn mynd o'r tu arall heibio i 'fwynhad', a'i danbwysleisio. Ond nid yw'r ysgrythur yn osgoi cydnabod y mwynhad ysbrydol eithafol sydd ar gael.

Ym mryd Pantycelyn, y mae ei fwynhad ef o'r efengyl yn hyfrydwch aruthrol a gâi ef ac eraill yn y Diwygiad, ac yn gynhysgaeth ganolog i'w emynyddiaeth. Oni cheid pleser uwch na dim wrth glodfori Duw yn ei waith beunyddiol? Yr oedd hyn hefyd wrth gwrs yn ddyletswydd iddo.

Bydd y Cyffesion Ffydd hwythau yn annog inni sylweddoli mai pwrpas bywyd yw 'gogoneddu Duw a'i fwynhau ef yn dragywydd'. Hedonistiaeth ysbrydol fel petai yw hyn, a gwedd ar y Nefoedd. Ond yn y gorlan Gristnogol, nid oes mwynhad heb hunanddisgyblaeth. Ni cheir mwynhad priodol ond yn gyfreithlon, hynny yw, heb fod ar draul neb arall, a heb fod ar wahân i ogoniant Duw a dibyniaeth arno. Pleser, ei hun, yw canfod gwirionedd ac eglurder yr efengyl: hyfrydwch yw ceisio dyrchafu Duw yn ein golwg. Rhoddwyd hyn yng Ngramadegau'r Penceirddiaid yn un o brif ddibenion barddoniaeth — 'swydd prydydd yw moli ... i ddigrifhau llysoedd a diddanu gwyrda a rhianedd.' Y seiadau yn y ddeunawfed ganrif oedd llysoedd y bobl.

GWWP I, 251 *O! dere, hyfryd fore, gad im gael dy fwynhau*

Sylwer sut y gosodwyd prosiect yr Arfaeth i'r Mab gan y Tad yn *Golwg ar Deyrnas Crist VI*:

GWWP I, 3: *'I'r Tad yn Nhragwyddoldeb, cyn eto grëu nef na daear, osod ei Fab ei hun i fod yn bleser a hyfrydwch iddo, yn arfaethu ei wisgo â natur ddynol.'* Hynny yw, nod yr Ymgawdoliad oedd hyfrydwch. *'Ac er mwyn helaethu ei ogoniant ei hun a'i Fab, yn crëu dyn ... A thrwy'r un arfaeth hefyd (trwy gyngor ei ewyllys), naill ai yn dioddef neu'n ordeinio y cyfan sy'n bod, er datguddio gogoniant.'*

Diddorol yn yr adroddiad a rydd Pantycelyn o'r Creu fel y sefydlir yr elfen o fwynhad yn hanfod yn y weithred, drwy fod y Mab yn cael ei ethol i gymuno â'r greadigaeth:

GWWP I, 5 *A hyn a wnaeth yn bennaf fel gallai ei hanfod bur
Gael ymbleseru ynddo fwy nag mewn môr na thir*

Mwynhad yw'r disgrifiad priodol a rydd Pantycelyn i berthynas personau'r Duwdod:

Yn wastad ymhyfrydu, un beunydd yn y llall

Ymbleserai Duw yn ei Gread a'i Arfaeth, fel pe bai'n sefydlu gwir hanfod mwynhad o fewn y berthynas honno:

GWWP I, 15 *A threuliwyd oesoedd heibio i'r Drindod mawr yn un
I weld i ymbleseru ei ddyfais faith ei hun.*

Y datguddiad gorau o Fwynhad fel Diben a Chymhelliad ac Uchafbwynt bodolaeth y Cristion yw Rhan y Bumed yn y Bennod Olaf (y Chweched) yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dyma'r pennawd a ddodir ar flaen y Rhan hon: '*Crist yn bob peth yn y mwynhad o bob peth, ac yn y diffyg o bob peth.*'

Ar ôl paentio'r Mwynhad yn *Golwg ar Deyrnas Crist* VI (5), try Pantycelyn yn Rhan VI i sôn am ddychrynfeydd y Farn. Yna, yn VI (7 a 8) mae'n dychwelyd drachefn at y gorfoledd:

GWWP I, 181 a 189 '*Crist yn presentio ei Eglwys i'w Dad, Gwynfydedigrwydd y Saint ar ôl Dydd y Farn.*' a '*Crist yn rhoddi y Deyrnas i'r Tad.*'

Dyma yn wir epiffani na chyrhaeddodd Pantycelyn erioed mo'i uwch. Ac y mae'n uchafbwynt gogoneddus i'r gerdd gyd-wastad fwyaf a luniodd ef erioed. Yn Rhan y seithfed yr ail linell, dywed: 'Mewn gobraith y dof finnau ryw amser i fwynhau.' Mae'r pum pennill agoriadol, beth bynnag a ddywed yr atalnodi, yn un fawreddog. Ebychiad yw o orfoledd. Dychymyg yw i gyd bron. Diau fod peth dylanwad gan Lyfr y Datguddiad, ond Williams ei hun sy'n bresennol yn y dathliad hwn, ac y mae ei ddisgrifiad yn siŵr o fod yn agos ato.

GWWP I, 189 *I edrych ar ei ogoniant ryw oesoedd rif y gwllith.*

Pa fath o olwg ar feddwl Pantycelyn, felly, y buom ni'n ei harchwilio hyd yn hyn? Cyfran go sylweddol, gobeithio. Ceisiwyd archwilio safle a pheth o swyddogaeth yr Absoliwt ac adeiladwaith y cyfundrefnau a oedd yn cael eu rhannu gan y rhan fwyaf o brotestaniaid 'clasurol' yn y cyfnod euraid, a chael y cyfundrefnau yn y Sfferau Deunydd ynghlwm wrth Fwynhad ac ymgysylltu â Gorfoledd. Da ein hatgoffa ein hun fod Pantycelyn am fwynhau marw. Roedd hyn oll yn rhannu trefn enfawr ei ymennydd.

Dyma'r drefn a oedd yn cynnal corff ei syniadaeth ar y pryd: cyfundrefnau cyffredinol a chyffredin a rennid bob amser yn annigonol, bob amser yn dameitiog ymhlith

rhai o'r bobl fwyaf meddylgar o bob dosbarth yn ein gwlad am gannoedd o flynyddoedd. Eu meddwl cyffredin, crefyddol hwy, nid yn unig am fodolaeth y Tri-yn-Un, ond o fewn cydestun perthynas bersonol ag Ef, am Ei waith rhyfeddol. Crwydrent yn felys ymhlith y gwirioneddau. Aroglent hyfrydwch ar bob llaw wrth gwrdd â'r saint. Mwynhad oedd meddwl hyn, a'i gredu, a'i weithredu. Un o rinweddau Pantycelyn oedd cwmpasu hyn oll yn gyfansawdd mewn meddwl Cristnogol Clasurol Hanesyddol. Iddo ef, dyma grefydd y mwynhad mawr.

[Bob hyn a hyn, byddaf yn gollwng yr ymadrodd 'Cristnogaeth Glasurol Hanesyddol'. Soniais yn *Llên Cymru a Chrefydd* am 'draddodiad Awstin-Calvin' fel asgwrn cefn neu brif wth crefydd Cymru tan 1900. Nid wyf yn meddwl namyn yr un fath â'r Calfiniad Plantinga sy'n enwi'r 'model Calvin/Acwin'. Mae hyn yn ei fryd ef yn cwmpasu, heblaw'r ddau yna — Luther ac Awstin, Menno Simons a Karl Barth, y Fam Teresa a Sant Maximus y Cyffeswr, Billy Graham a Sant Gregor Palamas. *Hwylustod yw diffinio profiad yn ôl y rhain sy'n cydnabod mai personol a goruwchnaturiol yw Duw, perffaith, hollwybodol, hollalluog, cwbl gariadus; bod dyn yn naturiol mewn pechod yn erbyn Duw; bod Duw wedi trefnu gwaredigaeth drwy ddioddefaint, marwolaeth, ac atgyfodiad Iesu Grist, Arglwydd a oedd yn ddyn llawn ac yn ail berson yn y Drindod.* O'r braidd y byddwn yn hawlio *nad oes* yr un 'meddwl' Cristnogol i'w gael yn angenrheidiol y tu allan i'r gorlan yna. Ac eto, ni pherthyn i mi farnu peth mor ddifrifol, wrth gwrs, er na raid coleddu llusedd, er mwyn cwmpasu rhywun sy'n dilyn llinyn arall.]

Nodwyd nifer o'r cyfundrefnau a luniai feddyliau Pantycelyn mewn modd mor gymen, mor hardd bleserus. Ond wrth gwrs, yr oedd y pwyslais neu'r gogwydd ganddo yn unigolyddol hefyd wrth ddethol ac wrth ystyried yr hyn a oedd yn arwyddocaol iddo'i fynegi o ran pleser. Nid rhestru cyfundrefnau a wnâi y pryd hynny, nid hyd yn oed eu defnyddio yn union yr un ffordd â neb arall ar y pryd. Fe'u mynegai mewn prydyddiaeth ddathliadol a oedd weithiau'n wefreiddiol o newydd.

Ac eto, o fewn y fframwaith go sefydlog, a go ddogmatig hwn, — fel y bydd siaradwyr yn eu hymddiddan ingol yn cynhyrchu Mynegiant hollol wahanol i'w gilydd, — felly y bu y math o emynau ac o arwrgerddi ac o ryddiaith a sgrifennai Pantycelyn yn amrywio lawer. A gallai felly fod yn gwbl unigryw. Mynnodd lunio arolwg neu banorama hanesyddol o fywyd, yn ei fannau uchaf ac isaf mewn dwy arwrgerdd yn benodol mewn modd cynhwysfawr o wreiddiol. Nid bob amser yn 'glap hapus', ac nid bob amser yn synhwyrus gelfydd. Ond yr oedd y cyfansoddiad o fyfyrdod yn ddiddanwch. Ac wrth ddechrau darllen ei gasgliadau cyntaf o'i emynau, sef *Aleluia*, buan y gwelir bod Pantycelyn

yn gogwyddo'n gyson o ran manylion, eto yn od o unochrog, hyd yn oed yn wyrdröedig unplyg efallai, yn y themâu a'i meddiannai ef. Mewn emyn ar ôl emyn, yn ddiymatal ar y dechrau, y mae'n mynnu ceisio mynegi hiraeth am ymddatod. Hyn sy'n rhedeg yn ddyfal o dan rediad llawer emyn, bron yn ddieithriad. Yn y rhan fwyaf o *Aleluia* dyma'r prif onid yr unig destun. Mae'n hawlio sylw gennym.

Ai uchafbwynt mwynhau yw peth felly? Onid dyna'r ochr ymddangosiadol ddu i'r mwynhad Cristnogol? Nage: mae maint mwynhad yn dibynnu ar faint yr hyn a fwynheir.

Hynny yw, daeth yn bryd inni sylwi nid yn unig ar y cefndir cyffredin i'w waith, cynheiliaid prif gorff ei ymagwedd feddyliol, y cyfundrefnau, ond ar y gwyrriad od tua'r diben a'r arwyddocâd personol a pharadocsiaid a ystyriai ef yn destun neu'n genadwri benodol ar gyfer ei bobl, a hynny yn y modd mwyaf difwynhad, gellid ei feddwl — 'Hiraeth am farw'. Onid prif thema hollol dywyll ac isel oedd hyn? Ai diddanwch oedd peth felly? Ac fel testun gorfoledd, tybed onid ychydig yn anwedus oedd? Fe'i cyflwynai nid oherwydd dyfalu neu dybied, eithr oherwydd gwybod eisoes, hyd ei wreiddiau, hyfrydwch yn y bywyd tragwyddol yng Nghrist. Yn Sffêr Mwynhad y mynnai Pantycelyn y dylid gosod marwolaeth. Dathlu ymadael, gorohian oblegid mynd drosodd, moli'r bedd a wna, dyma'i gymhelliad! Mwynhau'r tamaid yn awr i aros pryd. A chroeso! Ond ai'r marw oedd y diben?

Câi ryw faint o ragflas wrth feddwl amdano. Yn wir, roedd y paratoi'n rhoi ysbrydoliaeth. Ond gwelir, wrth ddarllen yn ei flaen fod Williams, heblaw ysgrifennu'n uniongyrchol am farw ac ymddatod a mynd drosodd, hefyd yn cysylltu hynny â'r brif ddelwedd fframweithiol hollol obsesiynol yn ei waith, sef delwedd y daith. Wedyn, y mae'r ddelwedd honno yn ymgysylltu ac yn gwau drwy ddelweddau eraill a geir ganddo, y meddyg, y carwr, yr ardd. Dyna, i mi, yw un o'r pethau mwyaf unigryw yn ei gasgliad cynnar *Aleluia*. Prentiswaith yw'r gyfrol gyfresol gydag ambell eithriad syfrdanol. Dyw ef ddim eto wedi cyrraedd ei fawredd. Mae ei arddull hynod, ei ramadeg a'r eirfa ddynol flêr ffwrdd â hi, yn y gyfrol honno yn bur wahanol i'r hyn a ddaeth wedyn; mae olion y gynghanedd rydd yn bwysig. Ond hyn, yr hiraeth am farw, dyna'r peth mwyaf od ac amheuthun i w'r ifanc. Beth oedd ar y crwt? Ni allai hwn ddianc rhag y mater, rywsut. A chyn gynted ag y sylwir arno, mae'n anodd peidio â chadw'r llygad oddi arno.

Cyhoeddwyd *Aleluia* yn rhannau. Yn y gyntaf, nid oedd ond naw emyn; a Daniel Rowland o bosib oedd awdur dau o'r rheina. 'Casglwr' oedd swyddogaeth William Williams. Sylwer ar Hymn IV fel y mae'n darlunio'r Cristion, yn crio am waredigaeth rhag y bywyd presennol hwn:

A (i) IV *O clÿw fy Ngwaedd, a gwêl fy Ngwêdd,*

*Fel Hýdd am Ddŵ'r 'rw'i'n brefû am Hêdd:
Tyr'd O fy Nuw! neu c'od fi uwch Nen,
I'th fwynhâu'n llwŷr o fewn i'r Llen...*

*Llêf 'maes ar frŷs, fy Nghalon friw;
Nês d'od yn dæg i Windŷ Duw ...
Yn bŷr heb Len, gael gwel'd fy Nghrist;
A myned trwy fy hôll Ofŷd trist.*

*Nês gwawrio'n dda'r trag'wyddol Ddŷdd,
At Iesu'n rhwŷdd ai f'Enaid rhŷdd.*

Hynny yw, fel mor aml, gan Bantycelyn, y diwedd sy'n cyflyru'r dechrau. Aroglwn ei dinc: yr awydd am fwy o fwynhad. Beth yw hyn? Mae'r ateb yn syml, gredaf i. Marw yw un o'r ddau neu dri *phwnc* mwyaf taer angerddol mewn bywyd i bawb ohonom, onid y prif bwnc i lawer un. Yn y ddeunawfed ganrif, gyda theuluoedd mawrion a heintiau enbyd yn rhemp, roedd angau'n ymwelydd ffyddlon ac adnabyddus ym mhob cartref bron. Yn llanc ifanc deallus, nad oedd am ddianc rhagddo drwy bylu'i ymennydd, yr oedd am amgyffred hyn yn union. Deuai i sylweddoli fwyfwy fod hyn yn ddyfnach na'r hyn a ymddangosai ar yr wyneb. Yr oedd iddo ddimensiwn ysbrydol mwy eto, yn ymarferol yn y bywyd hwn. Yr oedd ganddo ddehongliad sylweddol hynafol ar ei gyfer. Caed meddwl dwys am hyn drwy'r oesoedd, a chan Williams yn anad neb. Gŵr oedd a gafodd gipolwg ar y golau ynddo. Pan ganaf gydag ef 'Fe'm ganwyd i lawenydd uwch,' ni allaf lai na chofio geiriau Spinoza: 'Teimlwn a gwyddom ein bod yn dragywydd.'

Ac yr oedd yr hyn a ddarganfu yn syfrdanol iddo. Ar yr wyneb, ac ar yr olwg gyntaf i'r seciwlar, wrth gwrs, brenin braw oedd angau. Ymddangosai nad oedd dim yn waeth. Yr oedd yn hyll, yn greulon, ac yn ffiائد. Dyma'r gelyn, yn wir. Gwir nad y braw hwn yn awr a'i harweiniodd i fod yn Gristion. Fe ddaethai'n Gristion am iddo ddarganfod realiti llawenydd Duw, a chyfarfod â gwirionedd canolog ynghylch ei berthynas galed a gelyniaethus ef ei hun â'r Duw hwnnw. Daeth yn Gristion am iddo gael ei oleuo a'i ddarostwng — a'i ddyrchafu. Cafodd faddeuant. Ond fe finiogwyd ei synhwyrau ysbrydol y pryd hynny yn fywiol. A deffrowyd ei ddealltwriaeth am ryfeddod llawnder dimensiynau bywyd ar ei hyd. Yn sgil hynny, ac yn sgil y credu real newydd, y cyfarfod golau, y ffeithiau diymdroi heb lol amau gwastraffus annwyl, agorwyd llygaid ei enaid led y pen; a chanfu farwolaeth o'r newydd. Daeth Iesu'n fyw. Mor brydferth. A pharodd y gwelediad newydd hwnnw iddo brofi gwefr hollol annisgwyl. Canfu, fel na chanfu ddim arall mor loyw, fod y Duw-ddyn hardd hwn a adwaenai bellach ryw ychydig, wedi trengi'n ffiائد gan gymryd ar ei ysgwyddau'i hunan holl erchylltra pechod y byd, ei bechod ef, ac wedi profi'r angau du er mwyn cyfiawnhau holl lygredd y dynol-ryw a dry ato. Ac wedi atgyfodi, y cyntaf o lawer. Yn

nhrefn oruwchnaturiol hollol gyfareddol y greadigaeth, corfforwyd y ddyfais ryfeddol newydd hon. Fe'i gwelodd. Hwn. Agorwyd i'r bardd ifanc ddimensiwn deallol ysbrydol real newydd. Ac yntau bellach yn agored i ddealltwriaeth ddyfnach o ddirgelwch bywyd nag erioed a dybiai'n bosibl, ac wedi cael clem bellach am wirionedd y dadleuon annealladwy a glywsai droeon yn y capel Piwritanaidd gartref, gynt, dechreuai ddirnad fwyfwy, a mwyfwy, beth yn union oedd ateb Duw ei hun i frenin braw. Defnyddiai ei ymennydd deffröedig. Credodd efengyl berffaith. O safbwynt llenyddol, yr oedd yn corffori gwerth, trefn, a diben, ac yn sicrhau undod i'r Defnyddiau oll. Canolbwyntiai'n ymrwymedig ar Berson.

Fel y trodd Duw drachwant dyn am fawredd materol a phwysigrwydd cnawdol a chyfoeth allanol beniwaered yn llaid y stabl ym Methlehem, felly yno ar y groes lle y cosbwyd y Duw-ddyn, ac yn yr ogof wedyn lle y gosodwyd ei gorff trancedig, yno y cododd bywyd newydd ynghanol marwolaeth greulon ar ei mwyaf erchyll. Trowyd angau beniwaered ger ei fron. Ac yno, yn llachar ac yn lân loyw y datguddiwyd i'w ymennydd y nefoedd ei hun y medrai ef hiraethu amdani mwyach. Cafodd olwg newydd a rhyfedd ar ei ddiben.

Mwynhad? Gair diffiniol hefyd i Fwynhad yw Cariad yn ei achos ef. Yr oedd y Mwynhad gwrthrychol ynghlwm wrth fwynhad goddrychol ei gyfansoddi.

Pan fuom yn trafod un arall o Archgyfundrefnau Duw, soniasom am *Deunydd/Ffurf*, sy'n bresennol ym mhob man. Un o'r nodweddion amlwg sy'n eiddo i Ffurf yw Tri-yn-Un: un arall yw Absoliwt. Dyna ddweud ffurf Duw yn blwmp ac yn blaen. A ellir bod yr un mor blwmp ynglŷn â Deunydd Mwynhad? Gallwn: 'Cariad dwyfol', y peth hwnnw sy'n cynnwys ac yn pontio. Dadleuir, wrth sôn am Fodolaeth, fod y Cristion yn gorfod ymofyn mwy na chredu bod Duw yn bodoli: rhaid cael Perthynas. Ffynhonnell perthynas a threfn yw Duw. Mae yna berthynas yng nghraidd Cristnogaeth — perthynas Duw a dyn, dyn a dyn, dyn a'r ddaear; ac o fewn y Duwdod ei hun, yn y cnawd, ceir Cariad ffynhonnell rhwng Tri Pherson y Drindod. Ioan 5: 20, 'Oherwydd y mae'r Tad yn caru'r Mab'. Dyw'r gair 'Perthynas' ei hun ddim yn ddigon: ymddengys nad yw ond yn drefn dechnegol. Heb feddu ar ei natur hanfodol ei hun, dyw'r gair 'perthynas' ddim ond yn 'ffurf' eto. Gair amddifad fyddai 'perthynas'. Cariad yw Duw, a chyd-fwynhad; ansawdd y berthynas yw hyn, nad yw perthynas yn werthfawr heb ei hamlygu; mwynhad aruchel yw effaith y berthynas... A chysgod gwir os aruthr ffaeledig o hyn yw'r mwynhad seciwlar, er mor ddarfodedig.

GWP II, 216 *Cariad fydd yn sylfaen gadarn*
 O bob anthem yn y nef...

223 *O gariad anorchfygol, maith,*
 Heb gymhar iddo'n bod!
 Cariad i angel ac i saint,

O annghydmorol nod!

Dywed Williams ei hun mai dyna yn fanwl yw achos mwynhad, bod yn hwn:

GWP II, 214 *Tyred, Arglwydd, â'r amseroedd,
Mae fy enaid am fwynhau,
Pur dangnefedd heb dymhestloedd,
Cariad hyfryd a di-drai.*

Mae hyn, gredaf i, yn gymorth dihafal i ddeall beth yw ysbrydoliaeth neu natur gwir fwynhad o lenyddiaeth ar ei chyfoethocaf, ym marn y beirniaid llenyddol cynnar, ac o fywyd afieithus ar y ddaear. Mae hyn yn enwi ffynhonnell pob diddanwch iach. Dyma galon diddanwch ysbrydol ar ei uchaf, peth a burwyd ac a ymwardodd â phob llwgr. Dyma yn wir destun holl waith Pantycelyn. Undeb â'r Gwefreiddiol a drôl linyn o eiriau yn awenyddol.

Yn *Aleluia* cawn yr emyn llawn cyntaf sy'n sôn am bererindod y Cristion, y ddelwedd a'r gyfundrefn thematig fwyaf hollbresennol o bobun yng ngwaith Pantycelyn. Byddwn i'n ystyried hyn yn llenyddol (*genre*) ynddi'i hun mewn Mynegiant. Fe'i dilynir gan 'Hymn VI, yn cynnwys hiraethlon Ddymuniad y Cristion, i foliannu'r Arglwydd Iesu, am ei ddwyn o'r Aifft, i Gânaan; o Gaethiwed i Rÿdd-did.' Yna, yn Hymn VII, mae yn cynnwys Gweddî'r Cristion am Nerth yn erbÿn Pechod, ac i barhâu yn ei Bererindod ... yn Hymn VIII, mae yn cynnwys 'Hiraeth y Cristion am fôd gyd â Duw', ... Hymn IX, Ar yr un Ystyriaeth.'

Beth yw arwyddocâd thematig y ddelwedd benodol hon? Dim byd amgenach na hiraeth tost am ymddatodiad er mwyn uno, dathliad y ffaith anorthrech y byddai'r bardd cyn bo hir yn cofleidio'r Iesu wyneb yn wyneb. Dilyner ymlaen i'r ail gyfrol: I. Hiraeth y Cristion am fynd i Ben ei daith; II. Dedwyddwch y Sant ar ôl Marwolaeth, ac yn y blaen, rhyw newid bach ar y geiriad, ond yr un yw'r thema. Beth yn y byd y mae'n ei wneud? Paratoi a meithrin ei bobl ar gyfer y diflas anochel? A yw'n ceisio cysuro'n ofer y colledigion? Ynteu yn hytrach ymhyfrydu mewn gwybodaeth newydd, dim arall? Codir yr enillwyr ar eu traed drwy ddweud ffaith. Felly ymlaen drwy'r gweddill o rannau *Aleluia*, ac ymlaen i'w gyfrolau pwysicaf yn ddiymatal.

Ffrwyth profi ymrwymedig dirfodol fyw yw. Amrywia'r amgylchiadau ar gyfer teithio. Ceir maglau a pheryglon ar hyd taith y pererin hwn, ar ei ffordd anorfod tua'r diwedd daearol a'r dechrau nefol. Cawn yn gyfatebol ddelwedd yr ardd hefyd a'r wledd droeon eraill ar gyfer y diben. Daw'r Meddyg mawr yntau yn ddelwedd achlysurol sy'n sicrhau Iachawdwriaeth derfynol, a'r lle heb nac afiechyd na phoen: rhan 3, VI. Ond siwrnai o brofiad tuag at gael mwy yw pob un. Yr oedd yn ei hyfforddi'i hun i ymrwymo.

Canai ef y diwedd o hyd ac o hyd. Wrth ddarllen drwy'r rhan-gyfrolau o *Aleluia*, ymdeimlir â ffurfioldeb cymharol ddisgybledig a hunanreolaidd y canu hwn ambell dro.

Mae'n meddu ar dinc weithiau braidd yn glasurol a gwrthrychol. A'r hyn sy'n syn yw bod cryn dipyn o'r canu yn sôn am brofiadau dwys y Cristion ar bererindod. Hynny yw, y 'fi' sydd yn y canol braidd, er bod Crist yn ddiben amlwg. Yna, down at Emyrn IX yn y drydedd gyfrol. Yn sydyn, newidia'r awyrgylch. Nid un o'r emynau mawr yw. Ond mae yna ansawdd newydd, llawer mwy teimladol. Mae'n hoelio'i sylw ar berson Crist, a rhywsut gwefreiddir y lleferydd mewn modd nas cafwyd hyd yn hyn. Roedd calon yr emynydd wedi toddi yn yr emyn ei hun, a gwyddai ef hynny:

*Trywanwyd do, fy Mhrynwr rhâd
Nes daeth o'i Galon Ddwr a Gwaed;
Yn ffrwd fel Afon bûr:
Ac ar y llawr i wel'd yn llyn,
Yn frwd, ar ben **Calfaria** fryn;
O Tôdd fy Nghalon Ddûr.*

Dyma'r tro cyntaf iddo wneud dioddefaint gwrthrychol a goddrychol Crist yn galon i destun cân. Dôï achwyn maes o law am ei fod fel pe bai'n mwynhau gwaed. Ond fe gyfoethogwyd ei olwg ar farwolaeth ei hunan oherwydd marwolaeth ryfeddol Iesu.

Fe'i dilynir gan emyn gafaelgar arall. Cyfarchiad uniongyrchol, eithafol o syml i'r Iesu yn y fan hon eto. Ac mae'r effaith yn ysgafn ysol —

*Gwel dy anwyl Wÿn yn 'madel
Bydd wrth rhaid
Ini'n Blaid,
Iesu, paid an gadel.*

Hynny yw, mae'r emynydd yn dechrau un arall o'i emynau taith. Ond y tro hwn, emyn ar gyfer diwedd y gwasanaeth yw. Mae'r praidd yn ymadael â'r cwrdd lle y buont ar ryw olwg yn gynnes ac yn gymharol 'ddiofal' mewn corlan. Ac y maent yn cyrchu allan i'r ymosodiadau. (Efallai mai emyn angladd yw.) Mae'r daith drwy'r anialwch yn cymryd arno'i hun gymeriad arbennig, ymarferol. Dyna ddiwedd y drydedd ran (neu gyfrol). Mae'r bedwaredd gyfrol yn dechrau gyda hyder gwahanol. 'Rhifwyd' yr emynau yng nghyfrlau 1-3. Nis rhifir hwy mwyach.

Sylwyd gynnau ar y llinell 'O Tôdd fy Nghalon Ddûr' mewn emyn tua diwedd y drydedd gyfrol. Ar ddechrau'r bedwaredd ceir emyn 11 pennill, bob un yn gorffen â'r un llinell honno. Dyma'r emyn sy'n manylu fwyaf hyd yn hyn ar ddioddefaint a gwaed Crist. Ceir hefyd yn Rhan IV weddol hir (34 pennill), 'Crist, Doethineb, Cyfiawnder, Sancteiddrwydd a Phrynedigaeth eu Saint' fel pe bai ef newydd sylweddoli mai caniaeth Crist-ganolog, hyd at obsesiwn felly, fydd ei genadwri. Ac yna, mewn bwrlwm gan ragweld

‘Crist yn bob peth’ fel y mae yng ‘*Ngolwg ar Deyrnas Crist*’, y mae yn gosod ei *apologia*. Crist a marwolaeth, Crist mewn marwolaeth, Crist uwch marwolaeth. A'r ymrwymiad.

Diddorol sylwi fel y ceir hefyd ochr yn ochr â hyn fwy o ganeuon ‘achlysuron’ penodol ymarferol: adeg anhunedd [t.4], i’w chanu yn y bore [t.6], wrth fynd i gysgu [t.8], i’w chanu ar ôl y Sacrament [t.31]; wrth ymadael â ffrind [t.35] ac ar gladdedigaeth [t.46]. A rhai penodol arall ‘Am barhad mewn gras’ [t.9], Harddwch yr Eglwys [t.45]. Ymleda’r athrawiaethau mewn ymarferoldeb ym mhob man.

Ond disgyrchu a wna drwy’r amrywiaeth cynyddol oll o weddau ar yr efengyl, at y pererindod tua’r nefoedd, a’r hiraeth sydd am fwynhau’r Iesu’n llawn yno. Cariad cyflawn Crist oedd y nod, y cwlwm yn y diben. Gorffennodd *Aleluia* ym 1747 gyda’r chweched ran, ond nid yr olaf. Dyna gynnyrch tair blynedd: 27-30 oed. Ond ym 1749 tociodd lawer o’r emynau hyn, atrefnodd rai eraill, ychwanegodd, a chyhoeddi argraffiad newydd o’r casgliad oll, bellach yn cynnwys 161 o emynau. Yn eu plith, yn yr ail argraffiad hwn, cafwyd dau emyn nodedig iawn : ‘O’r diwedd fe iachaw’d fy nghlwy’ a ‘Ffordd newydd ’wnawd gan Iesu Grist’. Yn y cyntaf, ceir un pennill syfrdanol. Fe’i gwelais am y tro cyntaf ar fedd ym mynwent Eglwys Llanbadarn. Cefais sioc:

Dyma gyfarfod hyfryd iawn.

Bedd! Yr un hen thema sydd, *Myfi yn llwm a’r Iesu’n llawn* ...Fe’i dyfynnais ynghynt. Ond cyfyd yr un pennill hwn o ran dychymyg a chreffit ben ac ysgwyddau uwch dim a sgrifennwyd mewn canu rhydd yn y Gymraeg erioed hyd at y funud yna. Chwiliwch amdano.

Mae’r ail emyn yn cynnal y thema’n well, ond wrth gwrs nid yw’n rhagori ar yr un pennill hwnnw, er gwyched yr ail:

GWP II, 82 *Ffordd newydd wnawd gan Iesu Grist*
 I basio heibio uffern drist,
 Wedi ei phalmantu ganddo fe
 O ganol byd i ganol ne’.

 Agorodd Ef yn lled y pen
 Holl euraidd byrth y nefoedd wen,
 Roi rhydd-did i’w gariadau Ef
 I mewn i holl drigfanau’r nef.

 Gwnawd llwybr rhydd, ’does rwystr mwy
 Nas gall credadyn dori trwy;
 Gelynion hyll y ro’w’d dan ei draed
 Ac angeu’n ffrynd trwy rin y gwaed

Beth oedd cymhelliad Williams wrth fynd ati i lunio’r emyn syfrdan hwn?

Diddorol sylwi nad llenwi ambell egwyl yn y seiat oedd defnydd cyntaf y canu tua Rhagfyr 1736. Ond fel arall — hwyl bur: cynnal sesiynau er mwyn canu pop i Waredwr (sef salmau i ddechrau), dyna'r cyfle penodol canolog i seiadau weithiau. 'Ai fy nyfais i,' holai Harris, 'oedd canu salmau fel moddion i gael cadw seiat?' Dilynwyd y canu salmau hwn yn fuan gan ganu emynau (ynghyd â 'chyngori' athrawiaethol). Mwynhad oedd addoli i bawb yn anad dim.

Ar ddechrau ail rifyn *Aleluia* 1745 dywed Williams mewn rhagair: 'yscrifenais attoch ychydig Hymnau wedi ei cyfansoddi oreu ag allwyd at swm a Iaith yr 'Scrythurau, fel am ei bod ar Gân y byddant yn gynt yn rhedeg ar eich Côt, ac yn fwy parod y weithio ar eich Serchiadau; yr hyn oedd un Achos yr yscrifenwyd Llyfrau a Phenodau yn yr hên Destament, a pheth o'r newydd, ar Gân.'

Ond does dim dwywaith nad ar gais nac o ran gwasanaeth ymarferol i'w Seiadau y lluniai Pantcelyn ei emynau. Nid oherwydd ysbrydoliaeth fewnol bersonol ysgrythurol, er na byddwn yn drwgdybied ei fod, wrth i'r gwaith gydio'n llawn ynddo erbyn diwedd *Aleluia*, yn cael ei yrru, yn ddiymwrthod mae'n siŵr, i ganu a chanu o'r galon. Dyma'i sylwadau yn y Rhagymadrodd i drydydd argraffiad *Aleluia*:

Y Pêr Ganiedydd II, 64 'rwyf yn Cyfaddeu fod rhai (er nid llawer mewn Cymmariaeth) or Hymnau Cyntaf hyn cywch o ran *Sicrwydd Ffydd, Hiraeth am Ymddattod, Llawenydd ysprydol ynghyd a Choncwest ar Elynion* nas gall Cristnogion gweinion yn hawdd eu Canu; a hynny a ddigwyddodd nid cymmaint am fod yr ARGLWYDD yn cadw fy Enaid fy hun mewn Hwyl weddol yr Amser hynny, ond yn bennaf am fod yr Yspryd hynny wedi cael ei Dywallt yn ehelaeth jawn ar Dduwiolion at Wasanaeth pa rai yn bennaf y Cyfansoddwyd hwynt; amryw o ba rai sy nawr yn gorwedd yn y Lluch. Ond anghenrhaid yw im amddiffyn fy hun mewn rhan yn hyn, trwy ddadleu om plaid i fod swm amrywiol iawn or Salmau, os nid y rhan fwy, or Yspryd hwn o *Sicrwydd Ffydd, concwest ar Elynion, ac Ymffrost dduwiol*; Caniadau Solomon sydd yn llawn o Gariad, Mwynhad, a Sicrwydd Ffydd; ac hyd yn od Galarnad *Jeremi* ei hun sydd yn gweiddi allan **yr ARGLWYDD yw fy rhan medd fy enaid**. Yn 2 eglur yw mae Dyled y Saint yw yn hytrach ymestyn i fynu mewn Profiad at Hymnau o *Sicrwydd Ffydd, Mwynhad, Llawenydd ysprydol, a goruwchafiaeth ar Elynion* na cheisio cael holl Ganiadau'r Eglwys at Amheuaeth, Tywyllwch, a Llesgedd. Ac yn ola nid os a gân yn hwylys ond sydd wedi profi DUW yn dda ynddynt; ond etto mor belled y mae'r Dymmer hon heb ddim *Golwg ar Waeledd Dyn, Ardderchawgrwydd y Cyfamod newydd, ac ar Ogoniant, Doethineb, ac*

anfeidroldeb y Iechawdwriaeth yng Nghrist, nid yw yn cytuno a'r Gair, na gwir Brofiad, ac yr wyf yn ceisio credu nad oes yma un Hymn o'r fath. Ond yr wyf fyth yn addeu pan yn daethym i adnabod mwy o honof fy hun a gweled mai Aipht o Dywyllwch, Mor o Aflendid, Byd o Falchder yw Dyn, ir Iechawdwriaeth yng Nghrist i gael ei durchafu genni i radd uwch, ac i Ddyn ai Ddoniau gael ei ddiusturu yn rhagor, ac mi wnes fy ngorau pa beth benna fyddai Natur yr Hymn, Achwyniad Erfyniad, Ymfrost dduwiol, neu Fawl, fod Crist yn ganol Bwynt i'r Cwbl; ac mi wn bod nifer Fawr o Hymnau yn yr Elfen hon o Glodfori'r Iechawdwr ei Berson ei Swyddau ei Naturiaethau ai Waith yn ol y Coppy a roddir ini yn y Datguddiad; yr hwn yw y Cyweiriaf i gyfansoddi Hymnau wrtho at oes y Testament newydd, heb gofio agos Cymmaint am yr hyn a weithiwyd ynom ni o Ras, Ffydd, a Phurdeb. Ac o bossib gymaint arall yn Achwynion ar, a Gweddi yn erbyn Angrediniaeth, Calon Galedwch, Profedigaethau'r Byd, y cnawd, a Satan; fel y gall y rhai gwanna, ar llesga ag sydd yn Fyd o Amheuaeth, os yn unig y maent yn ymofyn am Grist, ac yn gofydio am ei Pechod i'w canu yn hawdd, ac yn gydwybodol.' [Fi biau'r llythrennu italaidd cyffredin yn y darn lle yr enwir themâu.]

Mae'n amlwg fod yna gyd-deimlad (empathy) rhwng Williams a'r bobl. Sianel oedd ef, cyfrwng, i raddau o leiaf, i ddigwyddiad cytûn, i symudiad rhyfeddol addolgar o fewn yr eglwys. Lladmerydd medd ef. Estyniad felly i'r 'Meddwl Cyffredin'. Un pwynt bach ond awgrymus ym mrawddeg olaf ond un y dyfyniad diwethaf yna. Dychwela ef at ddelwedd y daith, a'r teithiwr yn ymlwybro o Aiff o dywyllwch. Tueddwn fel arfer i synied am y daith honno fel bywyd bob dydd y Cristion, ynghyd â'r digwyddiadau a'r maglau allanol yn disgyn ac yn ymosod arno. Ond yn y fan hon, y mae ef yn ei ddehongli fel taith fewnol, ac yntau'n siwrneio drwy Aiff o dywyllwch a môr o aflendid yn ei galon ei hun tuag at lawenydd.

Wrth i'r seiadwyr gyd-deithio, canent i'w calonnau gyd-lawenhau, a 'mwynhau'.

GWP II, 334 *Iesu, difyrwch fy enaid drud*
 Yw edrych ar dy wedd;
Ac mae llyth'renau dy enw pur
 Yn fywyd ac yn hedd.

A than dy aden dawl bur
 'R wyf yn dymuno byw
Heb ymbleseru fyth mewn dim,
 Ond cariad at fy Nuw.

Mae'n wir fod Pantycelyn yn ei emynau yn rhodio ar hyd holl amrediad y berthynas Gristnogol. Ond *mwynhau* Duw bob amser, rywsut, yw'r dimensiwn sydd ar ganol ei

brofiadau a'i athrawiaethau. A llawenydd, gorfoledd, y rheina sydd — a'r rheina ddylai fod — yn y canol yn deg ynghyd â gogoneddu ac ufuddhau ... oherwydd bod ymostwng ac addoli yn weddau anochel ar yr hyfrydwch ei hun.

GWP II, 364 *O boed fy mhleser bellach byth*
 O tan ei aden wiw;
Na foed difyrwch genyf mwy
 Mewn dim ond yn fy Nuw.

Drwy gydol ei yrfa, fe fu gan Williams ddwy gynulleidfa, a dau bwrpas cyferbyniol yn bennaf. Effeithiodd hyn ar ei arddull i raddau. Effeithiodd ar ei destun a'i hwyliau. Yn nechrau'i yrfa, sef yn ystod bron y cwbl o *Aleluia*, roedd yn ymwybodol iawn ei fod yn gwasanaethu'i bobl o flaen ei lygaid, tan eu harwain hwy, yn mynegi'u hangen ar eu rhan hwy, yn darparu defnyddiau ar gyfer eu cyflenwi mewn mudiad, yn darlunio'u profiadau, yn gweini eu pryderon, ac yn eu cynnal yn eu golwg ar eu bywyd bob dydd wrth iddynt ymlwybro tua marwolaeth. Ond yr un pryd, gwyddai o'r dechrau cyntaf nad canu iddynt hwy mewn gwirionedd, ac nad dweud *Aleluia* (1744-1747) ar eu rhan hwy yn unig yr oedd ef. Yn raddol, tueddai i anghofio mwyfwy amdanynt, ac i sylweddoli ei fod yn pyncio *Hosanna i Fab Dafydd* ei hun yn benodol. Duw yn Iesu Grist, yn fwyfwy, oedd ei unig gynulleiddfa. A diau fod y gynulleidfa'n amodi llenyddiaeth. Rhwng 1751-1757, gyda *Hosanna i Fab Dafydd* a *Rhai Hymnau Newyddion*, gwyrodd yn bendant o ran gwrthrych i ganolbwyntio'i sylwedd o ran myfyrdod ar Grist ei hun, a'r un pryd trô'i galon a'i holl fryd o ran serchiadau a meddwl at ei Arglwydd a'i Anwylyd. Âi'n fwyfwy obsesiynol i gael ei lenwi gan Hwnnw, ac i bendroni am Ei berson. Ar ei fol, gerbron yr Iesu, llanwyd ei enaid fwyfwy gan ryfeddod ynghylch yr Un hwn, a bron iddo anghofio weithiau nad oedd ond yn darparu tipyn o ddefnyddiau canu i'r bobl.

O ran crefft ar y dechrau, yn *Aleluia* yr oedd y 'Meddwl Cyffredin' i raddau yn ei gynnal, a chrefft draddodiadol y canu rhydd cynnar a gaed, gyda chyffyrddiadau o gynghanedd neu o ogynganedd ac o odli mewnol, yn wedd ar ei berthynas â'r werin. Hwyl a sefydlodd iddo'i gywair a'i ieithwedd; ie, a'i destun. Ond o'r *Môr o Wydr* ymlaen, cefnai fwyfwy ar hyn hefyd, gyda phendantrwydd eglur, ymryddhâi yn hyderus yn yr awen, câi'i gario gan ysbrydoliaeth yn dynerach, ffrwydrodd ei fyfyrdod am berson Crist. Nid yw'n syn mai ym 1762, *Caniadau (y rhai sydd ar y Môr o Wydr)* y cafwyd — os nad y cyfrwng — yr achlysur, — o'i gyhoeddi, — i Ddiwygiad Mawr godi yn Llangeitho, y diwygiad mwyaf newydd a threiddgar a ddigwyddodd erioed yng Nghymru, mae'n debyg, ymhlith yr ugeiniau a gafwyd.

Nid wyf yn siŵr, hyd yn oed erbyn y *Môr o Wydr* 1762, a oedd ef ei hun yn sylweddoli'n llawn beth a oedd wedi digwydd nid yn unig yn fewnol iddo ef, ond yn allanol iddo. Ond yn sgil effeithiau llachar cyhoeddi'i gasgliad mawr cyntaf, ac o fyfyrion am y digwyddiadau hyn a'i ran ef ynddynt, yn *Llythyr Martha Philopur at y Parchedig Philo Evangelius eu Hathro* 1762, yn y flwyddyn 1762-3, blwyddyn ryfeddaf bywyd Williams, lluniwyd 84 o emynau ar gyfer rhan gyntaf *Ffarwel Weledig*. Daliai'r bwrlwm o hyd er yn llai; a chyhoeddwyd ail ran (85 o emynau) *Ffarwel Weledig* ym 1766. Meddai ef yn y rhagymadrodd i'r gyfrol hon:

GWP II, 192 *Er mai ceisio tynu at yr un sylwedd, ac at yr un athrawiaeth, y mae y rhan fwyaf o'r Hymnau a gyfansoddwyd eisoes, eto fel y maent wedi eu gwisgo â phrofiadau newyddion, goleuni newydd, troell-ymadroddion, a mesurau newyddion, mae eu hamrywioldeb, yn llaw yr Ysbryd tragwyddol, i gyffroi teimlad o gariad Duw.*

Dyma un o'r brawddegau pwysicaf a luniodd i ddisgrifio'r broses dechnegol a ddigwyddodd iddo fel bardd. Gŵr dan law arall yn grwn oedd ef mwyach. 'Newydd' oedd y cwbl, fe'i gwyddai: mae'r gair yn digwydd dair gwaith yn y frawddeg. Trobwynt syn oedd iddo. Nid sgrifennu i'r seiadau yr oedd ef mwyach yn unig, ac nid sgrifennu'n benderfynol i Dduw yn unig. Yr Ysbryd Glân (gredai) a oedd fel pe bai yn sgrifennu drwyddo ef. Y Cymhelliad hwn a barai i Williams ganu yn y *Môr o Wydr* rai o emynau mwyaf syfrdan ei yrfa — 'O am Nerth i dreulio'm Dyddiau', 'Pam y caiff Bwystfilod rheibus', 'Dyn dieithr ydwyf yma', 'Cheisiais Arglwydd ddim ond hynny', 'Deuwch Hil syrthiedig Adda', 'Mi dafla 'maich oddi ar fy ngwar', 'O rhosyn Saron hardd', 'Ti Iesu ydwyt oll dy hun', 'Tydi fy Arglwydd yw fy rhan', 'Wel dyma'r eiddil, dyma'r gwan', 'O tyred ysbryd sanctaidd pur', 'Rwy'n chwennych gweld ei degwch ef', ac 'Iesu, ti yw ffynnon bywyd'. Rhyfeddod ar ôl rhyfeddod. Yr oedd ef ar ei uchelfannau. Ni chafwyd erioed ganddo o'r blaen y fath orfoledd rhydd a nerthol. Ac yr oedd ei iaith bellach mor atebol finiog a hyderus fachog: cyfarfu â chelfyddyd a fedrai fynegi ar bennau'r mynyddoedd ysbrydoliaeth ysol angenrheidiol. Ni chafwyd yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd gyffelyb raeadr o hyfrydwch geiriol.

A chanai ei bobl gydag ef, gan fwynhau'n ddwys ddifrifol o'r diwedd. (Ar y lefel seciwlar, ni ellir llai na synied bod y mwynhad sy'n eithafbwynt absoliwt ac sy'n diffinio diben llenyddia yn gorfod bod yn gysgod go welw o'r Mwynhad cwmpasol yr wyf yn ceisio'i ddisgrifio nawr).

Parhâi ei sylw yn y rhagymadrodd i *Ffarwel Weledig*: 'Peidio gwneud un Hymn fyth nes y byddont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbryd Glân, a'r Ysbryd hwnw a fydd barod i fendithio ei waith'. Gwyddai rywbeth bellach nas gwyddai ef adeg yr

Aleluia. A gwyddai llenyddiaeth Gymraeg fod athrylith yn ei mysg, a chanddo noddwr pur wahanol i noddwyr yr Oesoedd Canol; na, yr un noddwr, ond y berthynas yn wahanol.

Cyfeiriais gynnu at *Lythyr Martha Philopur*, cyfrol o ryddiaith a sgrifennodd ym 1762 i amddiffyn ei bobl rhag beirniaid anochel ac i esbonio i'r praid natur y cynnwrf a ddigwyddodd yn y Diwygiad Mawr. Ond rhan ganolog o'r Diwygiad hwnnw oedd ei emynau ef ei hun. Felly, i raddau yr hyn a gawn yn y llyfr bach hwnnw oedd eglurhad o natur yr hyn a geid yn ei emynau ef bellach: GWWP II, 3 'Mi feddyliais mai ynfydrwydd oedd hyn, ond yn awr y gwelaf mai gallu Duw a doethineb Duw ydyw ... Mae 'nghnawd a'm hesgyrn yn gorfoleddu yn y Duw byw. Y funud gynta y caffwy' gyfleustra, a chariad yr Arglwydd yn llosgi o mewn i mi, ac i minnau roi rhyddid i'm nwydau ysbrydol, mae yn naturiol i mi weiddi mawl yr Arglwydd, bendithio a chanmol fy Nuw, llamu a neidio o orfoledd, yn y fath iechydwrriaeth fawr â hon, nas adnabûm i erioed o'r blaen. Yn yr amser hyn mae'm cof yn fwy bywiol, a 'sgrythyrau yn llifo i mewn iddo yn anorffen, *oll at yr achos o foliannu Duw am ei rad ras.*' Italeiddiais ei gymhelliad. 'Mae fy synhwyrâu i yn fwy buan; yr wyf yn deall pethau Duw yn fwy golau; mae'm rheswm a'm holl nwydau mor gyfan yn eu trefn'.

Yr wyf yn falch i gael dyfynnu'r brawddegau hyn yn yr un gyfrol ag sydd fel petai'n canoli'i bryd ar gyfundrefnau diwinyddol Pantycelyn. Yr oedd y cyfundrefnau yn gallu chwethin yn orfoleddus. Mae'n briodol cofio'r cyfuniad, y cyplysiad, a'r cydlyniad rhwng meddwl a theimlad, rhwng sylwedd ac angerdd, rhwng profiad ac ymarfer, rhwng trefn a gogoneddu. Yn wir, dyna i raddau ystyr y term 'dwbl-baril' 'Methodist Calfinaidd'. Dwy ochr: y ffurf a'r cynnwys. Gyda'i gilydd, wedi'u hasio gan Gymhelliad. Gwreiddiwyd Pantycelyn mewn trefn ddiwinyddol; a blodeuodd mewn profiad buddugoliaethus. Dyna siâp ei feddwl a siâp ei awen.

Sonia am y trobwynt hwnnw a ddigwyddodd yn *Hosanna i Fab Dafydd* yn y flwyddyn y cyhoeddodd ef yr ail ran i'r gyfrol honno, sef 1753, a dechreuodd Williams gyfansoddi'i waith mwyaf uchelgeisiol mewn prydyddiaeth, sef *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ffrwyth mwynhad Williams yr ysgolhaig oedd hyn i raddau helaeth. Dywedodd Thomas Charles, 'Astudiodd gymaint wrth gyfansoddi y gwaith hwn, yn bennaf, fel yr effeithiodd yn niweidiol ar ei iechyd.' Diau mai yn y cyfnod hwn yr aeth ati, sef y blynyddoedd 1751-1753 yn benodol, yn gyfredol gyda'r cyffro newydd yn hanes ei brydyddiaeth, i ehangu cyd-destun ei wybodaeth, yn arbennig yn wyddonol ac yn ddiwinyddol. Hynny yw, mynnodd feithrin disgyblaeth ddeallol o ran cynnwys ochr yn ochr â bwrlwm ei 'wylltineb' emosiynol, yn naturiol ac yn oruwchnaturiol. A hyn oedd nodwedd gadarn Diwygiad 1762 o'i gymharu â diffyg sylwedd athrawiaethol Diwygiad 1904. 'Nid pawb sy'n gwirioni'r un fath', meddai un

o'n hemynwyr diweddarach. Nid oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* yn delynegol lwyddiannus nac yn adeiladwaith cymen; ond taenodd y meddwl cefndirol crwn gerbron, a'r meddwl hwnnw yn benodol yw'r gamp.

*

*

*

Yn y Marwnadau hwythau profir, yn y Mawl, ychydig o'r mwynhad a wybu Pantycelyn yng nghymdeithas ei gyd-ddynion. Mawl yw'r rhain drachefn, eithr i lwch y llawr. Mae pump o'r marwnadau yn well o dipyn o ran aeddfedrwydd na'r gweddill, sef y tair i oedolion: yr un i Howel Harris, yr un i Grace Price, a'r un i Daniel Rowland. Dyma roi ar gof ddi-ddanwch pobl Dduw. Ond dichon mai'r ddwy farwnad i bobl ifainc yw'r rhai sy'n plicio awen ddychymyg Williams fwyaf: ac yn y naill a'r llall, cyfarch y fam yn benodol y mae: Ann Pugh o Langamarch, wrth golli'i mab Rhys yn 22ain oed; a Margaret Lloyd o Gaer, wrth golli'i mab Dafi yn ddeng mlwydd oed. Mae ychydig mwy o ddychymyg yn y rhain (ac i raddau, mae'n wir am ei gerdd er cof am ei ferch ei hun Maria Sophia) nag sy'n amlwg yn ei gerddi er cof am oedolion. Mewn gwirionedd, saif y marwnadau oll yn y traddodiad baledol, yn hytrach nag yn y traddodiad emynyddol. Mae'r naill linach a'r llall yn ganu poblogaidd wrth gwrs. A diau eu bod yn cael eu cyhoeddi'n unigol, a'u dosbarthu mewn modd digon tebyg i'w gilydd. Yr un yw eu naws a'u harddull weithiau â'r baledi seciwlar. Mae hyd yn oed teitl un o'r marwnadau yn cadarnhau'r tebygrwydd: 'Yr Ystorm a'r Llifddwr yn 1781, ... i Bedwar Dyn ag oedd mewn Gweddion a Mawl yn Addoli, pan yn Ddisymwth yr Ysgubodd y Llif y Ty a Hwythau Ymaith; a chan Ragweled eu Diwedd Hwy a Gredasant ac a Fendithiasant yr Arglwydd.' O bryd i'w gilydd, ceir peth dialog a sôn am ddigwyddiadau yn hytrach nag athrawiaethau yn y cerddi hyn. Byddaf yn synied mai fel pe baem yn darllen baledi y dylem eu darllen hwy yn oddefgar gartrefol: digon tebyg oedd y dull 'achlysurol' o'u llunio. Ac o'u darllen felly, credaf fod y pump a enwais, a hyd yn oed amryw o'r lleill, yn hynod, ac yn wir, yn sefyll yn uchel fywiog a sylweddol ymhlith y traddodiad baledol yn y ddeunawfed ganrif. Yn wir, syniaf mai'r llyfr gorau i ddeall cywair a chymdeithas a bwriad y marwnadau hyn gan Bantycelyn yw llyfr gwerthfawr Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*. Y gwahaniaeth pennaf rhwng y baledi 'moesol' a Marwnadau Pantycelyn, yw bod yr ail yn fwy soffistigedig yn ddeallol. Awgryma Dr Thomas Parry yntau y perthyn baledi'r De 'i ganu rhydd a chrefyddol Williams Pant-y-celyn', fel pe bai yna drafndiaeth ddwyffordd rhyngddynt.

Gallwn fwynhau marwnadau gan y bardd hwn. Ganwyd y cwbl, a chanwyd y cwbl mewn Cariad. Rhoddodd Duw i ddyn y gynneddf i fwynhau hyd yn oed 'y gelyn olaf'. Mae'n cael profi bodlonrwydd ym myd natur, gan gynnwys trefn natur. Mae'n profi hyfrydwch yn y

meddwl, gan gynnwys deddfau glân bodolaeth. Ond yn anad dim, o brofi Duw, y mae'r mwynhad o gymdeithas yr Absoliwt yn absoliwt. A Williams a feddiannodd y pegwn meddyliol hwnnw yn well na neb o'n beirdd.

Gwir ddiben y Cristion yw nid Mwynhad Cyffredin, serch hynny, nid achubiaeth dynion, nid ymhyfrydu yng nghymdeithas y saint, eithr Mwynhad anghyffredin arall, sef Gogoneddu Duw. Troi at Dduw, nid troi i mewn at ddyn yw ei nod priodol. Try'r Mwynhad at Wrthrych tragwyddol, at Berson dwyfol. Mwynhad sydd yn bod hefyd y tu allan i'r corff.

Sylwer, er hynny, fod a wnelo pob un o'r Archgyfundrefnau Ffurfiol a'r Sfferau Deunydd â Gras Cyffredin. Hynny yw, y maent yno i bawb, ar ryw wedd, o ran paramedrau adeiladol, ar gyfer credinwyr neu anghredinwyr fel ei gilydd. Felly gyda Mwynhad. Mae ansawdd y Mwynhad ffrwythlon sydd ar gael i gredinwyr yn cynnwys y cwbl o Ras Cyffredin yr anghredadun; ond y mae yna ddimensiwn ychwanegol iddynt, ac mae'r ychwanegiad hwnnw yn gwednewid ansawdd ac arwyddocâd y Gras Cyffredin. Felly, i Bantycelyn roedd Gras Cyffredin i fod yn bresennol ym mhob teulu, y teulu seciwlâr a'r teulu Cristnogol; ond drwy Ras Arbennig fe ddisgwyliid i sancteiddrwydd y teulu Cristnogol roi dimensiwn arall iddo, y Gorfoledd yn angau'r Cristion.

Dyma'r gyntaf a'r olaf o ran safle a pherthynas o'r Sfferau Deunyddiol, diben y cwbl. A gaf bwysleisio unwaith eto — er na bydd neb yn fy nghredu i — mai 'safle' cyfundrefnus a gorfodol yn hyn oll yw *Mwynhad/Diflastod*. Man feddyliol a theimladol ydyw mewn cyfundrefn o gyfundrefnau nad oes neb yn gallu'i hosgoi. Pwynt yw mewn strwythur. Wrth gwrs, yr wyf yn crynhoi fy sylw yn enghreifftiol ar Williams Pantycelyn. A thrwy drugaredd, Cristion oedd hwnnw. Ac ymhlith y pethau a sgrifennai ef, fe geid cryn nifer o emynau. Fe allai seciwlaryn yntau gael ei fwynhad mewn dull ychydig yn wahanol, ddwedwn. Ond yn feddyliol, yr hyn a ddymuna'r Cristion a'r seciwlaryn fel ei gilydd yw sicrhau mwynhad, y bodlonrwydd, y llawenydd, yn y safle yna. O fewn fframwaith o broses o drafod Deunydd, dyna a ddoda pob meddwl yn y safle eithaf. Rhan ganolog yw Gras Cyffredin o'r Sefydliad cyfansoddiadol.

Hynny yw, daliaf mai'r un fframwaith sydd ar waith, yn yr Hierarci i Gristion ac i seciwlaryn, yn yr un drefn olynol: yn arwain at y *Mwynhad/Diflastod*. Ni ellir newid drosodd yn olyniaeth y lefelau yr haenen gyntaf â'r bumed, na'r bedwaredd â'r ail. Ceir trefn angenrheidiol gyffredin yn yr Hierarci. A nod yr astudiaeth hon yw arolygu'r Hierarci honno, gan fanylu ar un llenor a'r modd y mae ef wedi bod yn fwy ymwybodol na'r cyffredin o'r manau hyn i gyd yn ei ddullwaith.

Mae'r 'diwedd' yn safle strategol i bob gwaith, gan ei atalnodi a chan grynhoi'r egnïon meddyliol. Cwlwm yw. Ac yn achos Pantycelyn, cwlwm yw wedi'i glymu'n derfynol mewn Rhyddid.

Negydd 'egnïol' i Fwynhad, mae'n ymddangos, a gefaill seciwlar yw Relatifrwydd neu ddifaterwch, ac ymrestrant gydag ymateb Diflastod. Eto, er mor bwysig yw negyddu gan y rheina yn hyn o weithred yn ystod y ffasiwn cyfoes, y cadarnhaol i Bantycelyn sy'n rhoi'r Mwynhad hyd yn oed o fewn y cyd-destun o negyddu a gorchfygu.

V [METANARATIF]

Gosodaf bennawd y bennod hon rhwng bachau petryal. Nid yw'n perthyn i'r *hierarci* ieithyddol strwythurol fel yr adrannau 'llynyddol' eraill yn y gyfrol. Ymyrraeth yw gan y gymuned ddiwylliannol. Mae math o berthynas rhyngddo â Sffêr Cymdeithas. Cwlwm o ragdybiau barn a rhagfarn yn y gymuned yw. Fel y mae awduron unigol yn rhoi gwedd bersonol ar waith yr Ysbryd Glân yn llyfrau unigol y Beibl, felly y mae anghenion yr amseroedd gwahanol i'r emynwyr yn eu gwaith hwythau. Metanaratif 'Cymdeithasol' mewn Mynegiant yw yn hytrach na Ffurf na Deunydd llynyddol benodol i'r unigolyn. Cyd-destun lleol ac amserol yw. Fframwaith meddyliol yr Amseroedd yw ac agenda'r isymwybod. Cyfrifir yr 'Ymoleuad' (*Secular Enlightenment*) er enghraifft yn y ddeunawfed ganrif yn Fetanaratif (fel y mae'r Oleuedigaeth hithau gyferbyn â hi). Cyfrifaf innau 'Ramantiaeth' hefyd yn Fetanaratif nid anghyffelyb. A Marcsaeth ymhellach ymlaen. A Rhyddfrydiaeth ddemocrataidd. A Christnogaeth hithau yn gyson amserol. Ymddengys ein bod gyda symudiadau o'r fath yng nghanol symudiadau syniadol a theimladol Hanes Llenyddiaeth.

Dyna stori'r amser amdano'i hun, gyda'r awduron yn gymeriadau drwy'u digwyddiadau meddyliol a theimladol a'u cyflead o'r amgylchfyd yn ceisio llunio math o hunan-gofiant amdanynt hwy'u hunain. Ac o fewn yr hunan-gofiant hwnnw y maent yn ddjarwybod yn sgrifennu'u delwedd o'r byd.

Eto, wrth drafod Sfferau, buom yn trafod Sylwedd Sffêr a Gweithred Sffêr fythol bresennol sy'n fwy sefydlog. Ymhlith y Sfferau, trafodwyd eisoes Gymdeithaseg. Ac y mae gan honno strwythur deuol a thriol pan fydd ar waith, sef yn gyntaf y gweddau *Enwol* a *Berfol* mewn iaith; bod a gwneud. Dyma strwythur cyffredinol i Fetanaratif Ond mae a wnelo Metanaratif hefyd mewn modd arbennig â'r wedd *Adferfol* — yr Amgylchfyd i'r Deunydd sy'n ei gyflyru'n ddirfodol, boed yn Sylwedd neu'n Weithred. Maes Metanaratif yw credo sefydliadol, naws, ffasiwn a chywair y cyd-destun eang. Dyma symudiad meddwl rhagdybiol sy'n cyflyru diwylliant lleoledig benbaladr. Dyma hefyd amgylchfyd Cymhelliad. Gosodaf 'Fetanaratif' yn y fan yma oherwydd bod yn rhaid iddo yn gymdeithasegol ragflaenu Mynegiant a Dewis arddull. Y ffenomen all-llynyddol hon sy'n lliwio rhagfarn y Deunydd a chyfeiriad y Themâu. Erys y *fframwaith* Deunyddiol mewn llynyddiaeth yr un fath, yn ôl y patrwm a osodais (yn fy marn i wrth gwrs), tan arwain o'r Absoliwt i lawr i'r motiff; yr un ffurf i bawb. Ond y mae'r Metanaratif yn torri ar draws hyn ac yn ei wyro i gyfeiriad ideolegol mewn amgylchiadau cymdeithasol. Ffordd o edrych yw: cyfeiriolwg. Osgo neu ddiben y cyfanwaith yw'r hyn a effeithir gan Fetanaratif. Ac fe'i cyflyrir felly o'r brig i'r bôn.

Gwedd gynhwysfawr egwyddorol sy'n ei ddiffinio'n Fetanaratif. A gellid dadlau am iawnder neu beidio hynny. Er enghraifft, 'Imperialaeth' a'i chyfatebyn Cymreig 'Israddoldeb'. Ceir hyn yn seicolegol, yn economaidd, yn ieithyddol, yn weinyddol, yn gyfreithiol, yn ôl patrwm trafniadol, ac yn ôl cysylltiadau rhyngwladol. Grym llydan pwerus yw yn y meddwl cymdeithasol. Ond a yw'r imperialaeth mewn dylanwadau crefyddol hefyd yn ddigon i'w wneud yn Fetanaratif cynhwysfawr o fath yn yr amgylchfyd ysbrydol? I mi, ffydd yw'r maen prawf: o leiaf, ystyriaethau ysbrydol 'dibynnus' sy'n pennu bodolaeth Metanaratif yn yr amgylchfyd gwrthrychol uwchamserol. Gall Metanaratif bennu cynhaliaeth ragfarnol yr amgylchfyd hwnnw. Ac o fewn Sffêr Ffydd, ceid yng nghyfnod Pantycelyn ddau symudiad Metanaratif penodol, sef yr Oleuedigaeth a Rhamantiaeth. Dylanwadau oedd y rheini. Ond statws personol iawn oedd bodolaeth a pherthynas Cristnogaeth ei hun a Chariad ufudd-dod Cristnogol oherwydd llawnder absoliwt, o fewn cymdeithas y Saint: peth gwahanol llai llywodraethol oedd naturioldeb y profiad Goleuedig neu Ramantaidd. Iaith oedd Cristnogaeth: acen yn yr iaith oedd Metanaratif arferol.

Yn Sffêr Iaith, ceir olyniaeth uniongyrchol sy'n arwain i Lenyddiaeth. Ond ar y ffordd, o safbwynt Deunydd (Geirfa yn amlwg), gall Sfferau eraill fynnu sylw heblaw ac o fewn iaith. *Yn* yr iaith, ond nid *o'r* iaith. Y maent yn ddewisol, ac eto y maent yno ar gyfer pawb. Galwaf leoliad y cyfryw ymyrraeth yn Gyn-fynegiant. Tebyg mai dyna hefyd yw lleoliad Metanaratif yn hierarci Llên.

Wrth olrhain olyniaeth Hierarci Deunyddd llenyddol o'r Absoliwt i lawr drwy'r Arfaeth a'r Archgyfundrefnau Deall hyd at y Sfferau, cafwyd undod diymyrraeth. Ond yr ydym yn nesáu yn awr at Fynegiant. Yr ydym yn troi fwyfwy oddi wrth strwythur y Meddwl Cyffredin sefydlog at yr unigolyn mewn amser a lle. Bellach, y mae dewis deunyddiol yn ymamlygu. Ac yn y fan hon fe deimlwn fwyfwy o ymyrraeth gan ragdybiau dyn-ganolog a chan ragfarnau cymdeithasol negyddol. Os yw ein disgrifiad yn glynu wrth yr hyn sy'n hanfodol fewnlennyddol o ran rheidrwydd, dyma ystyriaeth sydd fel pe bai'n all-lenyddol. Yn y ddihangfa i Hanes (rhag gwerthuso) gan feirniaid llenyddol sydd heb ormod o brofiad o greadigrwydd llenyddiaeth, dyma un o'r hoff borfeydd. Un o blant Hanes syniadol yw Metanaratif.

Beth yn union sydd mewn Cyn-fynegiant (lle y lleolir Metanaratif) o'i gyferbynnu â Thafod? Dyma'r cof cymunedol deunyddiol gyfnewidiol. Hanes nid cyfundrefn a'i gyr. Y mae'n cynnwys gwybodaeth a phrofiad y gymuned mewn meysydd deunyddiol o lawer math. Y mae'n cynnwys, felly, yr Eirfa 'dymhorol', hynny yw yn ôl anghenion cyfnod. Y mae'n cynnwys hefyd ragfarnau neu ragdybiau cyffredinol y gymdeithas ar y pryd, yr hyn a

elwir weithiau'n Feddwl yr Oes, megis yr Oleuedigaeth, Rhamantiaeth ddemocratig, a.y.b.. Mewn llenyddiaeth y mae'n cynnwys confensiynau a defodau Barddoneg ac Arddulleg ffasiynol. Mae yna wth yn hyn oll i fod yn gyfundrefnol gyfoes oherwydd bod hynny'n gynhenid mewn dyn. Ac nid syn yw bod y dyn ymwybodol ac ymarferol yn ei waith bob dydd yn gallu esgor yn ymwybodol ar gyfundrefn ariannol, ar gyfundrefn iechyd ac yn y blaen — hynny yw, cyfundrefnau ymwybodol y gellir eu newid a'u cymhwyso'n fwriadus yn ôl anghenion a rhagfarnau Mynegiant ar y pryd. Nid fframwaith yw a all gynhyrchu cyfundrefn amserau'r ferf yn ymwybodol mewn Tafod. Ond drwy gyfundrefn yr ym yn fyw, yn isymwybodol ac yn ymwybodol. Hynny yw, y mae'r cof cymunedol yn gallu mabwysiadu arferiadau sy'n fwy arwynebol na'r cyfundrefnau sythweliadol isymwybodol, ond wedi'u gwreiddio yn rhai o offer dadansoddol dwfn y *psyche* dynol: strwythurau syniadol Mynegiant. A'r Cyn-fynegiant hwn yw'r hyn sy'n cyflyru ac yn darparu Deunydd hefyd ar gyfer Mynegiant ar y pryd. Agwedd organaidd yw at fywyd.

*

*

*

Wedi dosbarthu neu gategoreiddio'r gwahanol weddau ar Ddeunydd, y mae gennym bellach fath o Syniadaeth botensial helaeth a chyfun ar y pryd, sy'n cymathu sawl Sffêr, sydd hefyd yn fath o Gymdeithas o gymdeithasau syniadol mewn iaith. Y mae iaith yn mentro allan i'r byd mawr ac yn wynebu amgylchfyd amrywiol. Amgylchfyd deunyddiol a syniadol yw, efallai dros-dro. Y mae iaith, ar ffurf llenyddiaeth, yn wynebu cyd-destun amlochrog wedi'i wahuno'n allieithyddol ac yn ieithyddol. Mae'r Eirfa ei hun yn ymestyn drwy hyn. Croeswn drothwy tua Mynegiant uniongyrchol. Os oedd *Tafod* yn cynnwys Ffonoleg, Semantoleg, a Morffoleg, y mae Cymhelliad yn awr yn arwain tua *Mynegiant* mwy chwiwus sy'n cynnwys Cystrawen, Geirfa, ac Arddulleg. Eto, cawn hefyd fath o drefn Cyn-fynegiant sy'n amrywio o awdur i awdur.

Ond nid ffurfiau ieithyddol yn unig sy'n ymyrryd yn yr Hierarci.

Y mae hefyd yn cynnwys Ideoleg gymdeithasol, wleidyddol neu grefyddol, a rhagdybiau seicolegol, gwleidyddol, a chrefyddol. Dyma felly yr hyn a ffurfia'r hyn a elwir gan yr Ôl-fodernwyr yn Fetanaratif. Dyma fyd rhagfarn a chwaeth mewn 'pleidiau' llenyddol. O saithdegau'r ugeinfed ganrif tan ddegawd cyntaf y ganrif hon, 'Ôl-foderniaeth' oedd y Metanaratif ffasiynol gan rywrai, pryd y pwysleisid fwyfwy arwyddocâd 'gwahaniaethau ar draul undod', 'anhrefn ar draul trefn'. Rhyw fath o Ramantiaeth besimistig oedd Ôl-foderniaeth. Rhyddfrydiaeth heb ganllawiau oedd. Dogmâu newyddiadurol yr *avant-garde* oedd, bellach wedi syrffedu. Eto, y mae cyd-symudiad ideolegol o'r fath yn fater i'w gymryd o ddifri wrth drafod deunydd llên. Yr ydym yn wynebu ffasiwn testunol.

Pan soniaf am Fetanaratif, sôn yr wyf felly am gyd-destun cymdeithasol neu gyfnodol amodol. Mae Metanaratif yn gwlwm o ragdybiau sydd ar waith. Mae'n cyflyru'r llenorion o fewn cymuned lenyddol benodol. Yn fynych, mae'n effeithio ar eu themateg — nid yn gymaint o ran deunydd crai'u themâu, ond o ran yr ymagweddu at y themâu hynny. Yr oedd yr Oleuedigaeth i ymennydd Pantycelyn yn Fetanaratif. Hynny yw, daliai'r parch at wyddoniaeth, dysg, rheswm, a phrofion empeiraidd yn bwysig iddo ef ar y pryd, bron fel yr oedd i'r Ymoleuo seciwlar. Ond gwahanol oedd ei absoliwt. I'r Ymoleuwyr, yr Ego Trosgynnol oedd eu Habsoliwt/absoliwt. Felly'r Ôlfodernwyr. Iesu Grist oedd Absoliwt Pantycelyn.

Yr oedd Rhamantiaeth Gynnar hefyd yn fath o Fetanaratif cefndirol newyddeni i Bantycelyn, gyda phwyslais ar serchiadau ac awydd i adweithio i raddau yn erbyn rhai defodau caeth ac oer mewn traddodiad, bron fel y Rhamantwyr seciwlar. Roedd ef yn rhan o'i oes, a'i oes yn rhan o ymennydd yr emynydd yntau, mewn ffordd negyddol ac mewn ffordd gadarnhaol. Ond yr oedd hefyd uwchlaw ei oes.

Gellid delweddu cyfanrwydd personoliaeth Pantycelyn yn ôl pwyslais Metanaratif fel hyn. Digon posib fod ei ddau Fetanaratif yn perthyn i ddeuoliaeth ystwyth-botensial o fath hyn:

Ymennydd Chwith	Ymennydd De

Gwyddoniaeth	Celfyddyd

Yn Hierarci Tafod-Mynegiant felly, neu Absoliwt-Motiff i Bantycelyn, ceir ymyrraeth yn awr o'r tu allan, ymyrraeth sydd braidd yn anllenyddol ac yn perthyn fwyfwy i 'amgylchiadau' llenyddia. O leiaf, ni ellid ei dosbarthu gyda'r cyfundrefnau ffurfiol na'r Deunyddiau cynhwysol. Oni bai fod ei ansawdd mor bellgyrhaeddol gellid synied mai mater o gyflyru deallol ysbrydol yw sy'n perthyn o fewn cwlwm o syniadau cymdeithasol. Ac y mae'n digwydd yn gymelliadol cyn cyrraedd Mynegiant unigol.

Nid dyma'r lle i olrhain cwmp yr Ymoleuo seciwlar, a'r ffydd gynyddol a gaed mewn rheswm hunan-lywodraethol rhwng y ddeunawfed a dechrau'r ugeinfed ganrif. Cyfrol Peter Winch, *The Idea of a Social Science* (1958) oedd y trobwynt wrth ei astudio. Dangosodd fod data i gyd yn gorfod cael eu hystyried o fewn cyd-destun dehongliad. Erbyn cyfrol Gary Saner-Thompson a J. W. Smith, *The Unreasonable Silence of the World: Universal Reason and the Wreck of the Enlightenment Project* (1997) arddangoswyd i gymaint graddau yr oedd canonau rhesymolrwydd 'cyffredinol' dybiedig yn ethno-ganolig.

Cynnyrch Ewrob-benderfynedig fu'r Ymoleuo. Methodd â chytuno pa egwyddorion a oedd yn anwadadwy gan bobl resymol. A daeth yn gocyn-hitio i Fetanaratif Ôl-fodernwyr.

Ni honnodd Cristnogaeth erioed iddi ddechrau heb fod ynghlwm wrth ddatguddiad goruwchnaturiol i bobl benodol ac amseroedd penodol. Dechreuodd y Beibl yn all-faterol gyda hanes Creawdwr yn esbonio bodolaeth trefn a sefydlogrwydd daear allanol, bob dim ar lun hierarci. O fewn y traddodiad Beiblaidd Cristnogol hwnnw caed tuedd ddiwinyddol wyddonol o Athanasius hyd Alister E. McGrath. Ac meddai'r olaf (M II,75): 'The scientific tradition recognises that the natural world has a rationality which human rationality can discern and systematize; Christian theology, however, offers an explanation of why this is the case.' Cafwyd pontio rhwng efengyl Palesteina a diwylliant Groeg. Bu Justin Merthyr yn dadlau bod Socrates yn adnabod Crist mewn rhan, ond ni chaed cyflawn wybodaeth o bethau Duw namyn o fewn y traddodiad Cristnogol. Pontiwyd er hynny Plato, Acwin, a Barth: Gras Cyffredinol a Gras Arbennig.

Yn achos Pantycelyn, caed cefndir pontiol o'r fath rhwng y Dadeni Dysg a'r diwygiad Protestannaidd. *Camarweiniol yw'r cysyniad o fwllch rhwng y Diwygiad Protestannaidd (y Piwritaniaid yn arbennig) a'r Diwygiad Methodistaidd*. Yr oedd gwreiddiau Pantycelyn eisoes yn y Piwritaniaid.

Ymhlith rhagflaenwyr yr Oleuedigaeth Gristnogol, cafwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif, ddau Sais a osododd gerbron egwyddorion i'r hyn a elwid yn 'physico-theology'. Cyhoeddodd John Ray *Wisdom of God Manifested in the Works of the Creation* (1691) a *Physico-Theological Discourses* (1692), ac yn bwysicach — gyda dylanwad uniongyrchol ar Bantycelyn — William Derham, *Physico-Theology* (1713: fersiwn o Ddarlithiau Boyle) ac *Astro-Theology* (1715). Cyfeiriai Jean-Alphonse Turretin at y rhain wrth ddadlau bod doethineb y Creawdwr yn cael ei amlygu yng nghynllunwaith y byd. Ei dad (y Francois Turretin enwocach) a gyfrifir bellach yn dad i Gyfundrefneg Ddiwinyddol ddiweddar. Er parchu'r cefndir hwn, yr oedd Pantycelyn yn feirniadol o'r duedd i wneud tystiolaeth Natur am Dduw yn sylfaen crefydd. Rhagorach ym marn Pantycelyn oedd yr aberth ar y Groes na'r Greadigaeth. Yn ei erthygl gampus ar 'Ddiddordebau Lleyg Pantycelyn' (*Llên Cymru* III, 210) cyfeiria Alwyn Prosser at yr hyn a ddywed *Aurora Borealis* (1774) fod gan y gwyddonwyr 'lawer i ddywedyd am natur y mellt, y taranau, daeargrynfau, mynyddau tanllyd, ac amryw bethau dychrynlyd yn y nef, a'r ddaear; ond am yr hyn wyf yr awr hon yn sôn, ni feddant ond goleuni ag sydd yn berffaith dywyllwch.' Hawliai Prosser, 'cre dai Williams, fel Baxter o'i flaen, nad oedd unrhyw berygl oddi wrth wybodaeth tra byddai ym meddiant dynion o ras a than lywodraeth yr Ysbryd.'

Ond ym mryd Pantycelyn, nid help oedd gwyddoniaeth i gredu yn Nuw: help oedd Duw i ddeall trefn a phwrpas a tharddiad all-faterol gwyddoniaeth. Dyna hefyd farn y gyfrol hon.

Os nad oedd Pantycelyn yn ceisio defnyddio dechreuad a threfn naturiol i brofi bodolaeth a dylunyddiaeth Duw, beth oedd ef yn ei wneud? Iddo ef, yr oedd y Creawdwr nid yn unig yn 'llenwi'r bylchau', yr oedd yn sail i'r cydlyniad. Yr oedd y Greadigaeth felly'n amlhau'r ymateb posibl i'r Creawdwr. Yr oedd Pantycelyn yn miniogi hyn nid i dystiolaethu i fodolaeth Duw ond i fwynhau bodolaeth Duw. Gwir bod rhai'n dal i ddefnyddio prawf y dyluniad i raddau. Meddai Paul Davies, *God and the New Physics*, New York, 1984, 189: 'The seemingly miraculous concurrence of numerical values that nature has assigned to her fundamental constants must remain the most compelling evidence for an element of cosmic design.' Yn M III, 196-198 rhydd Alister McGrath bedair enghraifft o gysonion cosmolegol sylfaenol sy'n enghreifftio'r 'fine-tuning' mewn cynllunwaith anthropig sy'n cadarnhau'r perspectif theistig. Ond atodiad amlwg i Pantycelyn yw'r Greadigaeth Naturiol hon i Grist sy'n gyn-gosmig. Bu i'r darganfyddiad hwnnw weddnewid yr Ymoleuo, felly.

*

*

*

Yr ydym yn ceisio ystyried Hierarci'r Weithred Lenyddol Ddeunyddiol. Hynny yw, yr ydym yn ceisio disgrifio pa lefelau cyflyrol, yn eu tro yn olynol, y mae'n rhaid i'r meddwl eu trafod wrth lenydda a beirniadu. Pa ffactorau sy'n arwyddocaol? Beth na ellir ei osgoi? Beth sy'n wir ddylanwadol yn y meddwl wrth weithredu Deunydd ym meddwl y llenor? Pa lefelau sy'n cyfrannu at ddwyn llenyddiaeth i fwcwl?

Y ddadl sydd gennyf yn y bennod hon yw bod yna lefel ddylanwadol a chyflyrol yn Hierarci Deunydd — mewn Cyn-fynegiant. Cyfetyb ym maes Mynegiand cymdeithasol i Gyn-Dafod ym maes Tafod. Dyna'r Metanaratif sy'n rhan o hierarci ddi-dor.

Fe gofiwn Gyn-Dafod. Cyn bod Iaith ei hun ar waith, gwelsom fod yna egwyddorion deall ar gael. Gwelsom fod y meddwl yn ymffurfio'n gynnar i sefydlu offer, nad oedd yn benodol ieithyddol, ond a oedd yn orfodol angenrheidiol ar gyfer ieithydda, megis Gwahuno. Yr oedd y rhain yn orfodol i ddeall ac yn orfodol i adeiladu iaith a llenyddiaeth. Ceisiwyd, wrth drafod Archgyfundrefnau Deall, benodoli'n eglur rai o'r offer cwbl anochel hynny sy'n sylfaen i iaith ac i Lenyddiaeth er nad ydynt yn benodol neu'n gyfyngedig i'r ddau faes yna. Ceir Cyn-dafod Archgyfundrefnau yn sylfaenol ym mhob iaith a llenyddiaeth, yn Indo-Ewropeaidd o leiaf. Mae'n orfodol, yn ddigyfnewid, yn sefydliad rhyng-wladol union-debyg. Drwy'r Archgyfundrefnau hyn, cynhyrchir Tafod unigolyddol a gwahanol ond tebyg i bob iaith Indo-Ewropeaidd sy'n esgor ar ramadeg y Gair a'r Rhannau Ymadrodd. Mae yna

amrywiadau posibl rhwng yr Ieithoedd, ond y mae Tafod yr iaith unigol ynnddi'i hun yn weddol sefydlog ac yn ffenomen gyffredin i'r gymuned ieithydol. I Bantycelyn, yr oedd yr egwyddorion neu'r deddfau a luniai Gyn-dafod yn weddau ar yr Arfaeth a oedd mor bwysig yn ei feddwl.

Ond pan drow'n o *Gyn-dafod* i ystyried *Cyn-fynegiant*, y mae a wnelom â ffenomen yr un mor orfodol, yn wahanol, ond yn gofyn ystyriaeth yr un mor gyffredinol. Cyn-fynegiant yw Metanaratif ei hun, gan ei fod yn dra chyfnewidiol, ac yn dibynnu ar safbwyntiau unigolion. Dyma ni ar lefel lawer mwy ymwybodol. Ceir amryw ffactorau ar waith. Megis Geirfa er enghraifft. Nid eir yn bell mewn iaith na llên heb Eirfa. Hyd yn oed i feirniad llenyddol sy'n trafod Pantycelyn, bydd Geirfa yn ffactor arwyddocaol. Dyma'r stôr, amrywiol ei rychwant o lenor i lenor, ac o Sffêr i Sffêr, nad oes terfyn na chfundrefn *Dafod* iddi. Gwir y gellid ei dadansoddi yn ôl Sfferau Sofran Deunydd mewn dosbarthiadau amorffaidd helaeth, ac yn ôl sefyllfaoedd a ffwythiannau defnyddiol. Ond mae'n wahanol i Ramadeg, er bod gan y Gair unigol ei strwythur cyfundrefnol (Lecsem + Morffem; Arwyddedig + Arwydd) o'i mewn.

Cawn weld fod y Metanaratif hefyd yn ymyrryd yn olyniaeth yr Hierarci Mynegiant. Y Metanaratif sy'n penderfynu ai Absoliwt ynteu yr hunan sy'n rheoli; ai golwg naturiol neu oruwchnaturiol sy'n cael blaenoriaeth; pa ffactorau rhagdybiol yn y gymuned syniadol a all gyflyru pobl, sydd mor aml am gydymffurfio, yn erbyn cysyniadau hunan-bleserol. Ceir fframwaith meddwl sy'n llawer mwy ymwybodol na Chyn-dafod, yn llawer mwy dewisol a chyfnewidiol, yn wahanol yn bersonol. Grym sy'n amodi Deunydd yn dyngedfennol yw Cyn-fynegiant.

Yr ydym felly yn troi oddi wrth Gyn-Dafod a Thafod tuag at Fynegiant ymarferol ac achlysurol. Byddwn bellach yn esgor ar Frawddegau. Ond ar lefel lawer mwy arwynebol na Thafod, gwyddom fod y meddwl yn hel adnoddau sy'n ddigon ffasiynol, ac eto'n fwy unigolyddol. Ceir cymunedau sy'n tueddu i dynnu at ei gilydd, ond nid gyda'r math o unffurfiaeth a brofir weithiau'n gliriach ar lefel y Tafod cenedlaethol. Mewn Cyn-fynegiant, gellir cael er enghraifft dueddiadau ar y cyd mewn Arddull ond yn wahanol o ran cynnwys. Hynny yw, ceir posibiladau cystrawennau amrywiol yn y Frawddeg (yn ôl hyd neu bwyslais), ac o fewn detholiad geirfaol llafar neu lyfr, yn ôl llenyddoldeb a ffurfioldeb — y cwbl yn unol â fframwaith Tafod — y gynhysgaeth ddeunyddiol o ddewis. Eto, yn arddulliol, ceir gwahaniaethau dosbarth, oedran, ac ymagwedd ffasiynol.

Ac y mae'r holl Hierarci hyd yn hyn, gan gynnwys Absoliwt, a bywiogrwydd ymwybodol Archgyfundrefnau, ac adeiladwaith y Sffêr Deunydd, yn mynd i gael eu

heffeithio yn awr gan Fetanaratif Gwerth/ Trefn/ Pwrpas. Mae hyn yn amodi Themâu a Motiffau. A gall wneud hyn i raddau mewn cyd-destun cymunedol gwerinol yn ogystal ag yn unigolyddol. Gall unigolyn cryf wrthod y Metanaratif ffasiynol hwn; ond y mae'n anodd onid yn amhosibl iddo/iddi wrthod bodolaeth neu lefel rhyw Fetanaratif neu'i gilydd, fwy nag y gall wrthod tri pherson y rhagenw neu fodolaeth botensial ad-ferf.

Mewn Cyn-fynegiant, yr oedd Pantycelyn wedi darganfod themâu diwinyddol y gymuned Galfinaidd efengylaidd. Y rhain a gyflyrodd themâu i'w Fynegiant, ac yn y cythrwbl a'r cyd-finiogi arfau, ysgogwyd ef yn ddeinamig i gyd-adeiladu ymhellach y Metanaratif yr oedd eisoes yn rhan ohono. *Y rhain (Diwinyddiaeth Gyfundrefnol gan mwyaf) oedd un o'r dolennau praffaf rhwng y Piwritaniaid a'r Methodistiaid, y Dadeni a'r Oleuedigaeth.* Cyfunent Drefn yr Oleuedigaeth â Serchiadau Rhamantiaeth Gynnar.

Mewn man arall, sef yng nghyfres 'Yr Adolygiadau Hwyr' (28-36) a gyhoeddwyd yn *Barddas* 2008-10, bûm yn disgrifio rhai o'r Metanaratifau perthnasol a ganfyddir yng ngwaith Pantycelyn ac a drafodwyd gan Saunders Lewis yn ei gyfrol arno. Nid eu disgrifio'n bennaf yw fy nymuniad yn y gyfrol hon, eithr eu lleoli, nodi eu harwyddocâd yn yr hierarci, eu perthynas o ran trefn, a hefyd ddiffinio swyddogaeth Metanaratif o fewn adeiladwaith olynol a meddyliol y llenor. Sef pob llenor, fwy neu lai. Oherwydd os yw llenor yn fyw ymwybodol o'i amseroedd ac yn ymdeimlo â chefnidir amseryddol mewn traddodiad, yna y mae rhyw fath o ymateb i Fetanaratif neu i farn gyhoeddus, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn sicr o ymamlygu. Dyna'r arddull a ddysg.

Hynny yw, wrth sôn am Fetanaratif fel un ymbarél o hunan-sythwelediad yn adeiladwaith Deunydd llenyddol, pennu gwedd ddeinamig gyfrannol arbennig yr ydys mewn strwythur meddyliol. A dyna yw priod fwriad y drafodaeth bresennol. Amgylchfyd manwl ac unol yw Metanaratif. Cwmpasa a chyflyra'r llenor a'r un pryd fe'i cysyllta â phobl eraill. Ni all ef ei osgoi na'i ddifa. Ffaith strwythurol mewn sylweddoliad deunyddiol yw, a gorsaf ar daith ddeallol. Felly y bu ac y mae metanaratif megis Ymoleuo, Rhamantiaeth, Cristnogaeth, Democratiaeth ryddfrydig, a Marcsaeth, o leiaf yn eu strwythurau a'u hallanolion.

Er mai unigolion sy'n cyfrannu pwyntiau neu bytiau at Ddeunydd pob Metanaratif, yn y pen draw etifedda lawer o orffennol disylw, ac ymuna â'i gilydd yn isymwybodol i ffurfio pob o gyfanwaith Metanaratif syniadol. Y mae Metanaratif ei hun o'r herwydd yn fath o Sefydliad Cyfun cymunedol. Cyflwynna fframwaith sydd, wrth gwrs, yn ymddangos yn amorfffaidd, fel y gwna ffenomenau cymdeithasol yn fynych sydd heb fod yn sefydliadau. Ond gellid awgrymu fod yna rai gweddau ar Fetanaratif sy'n hanfodol seiliol, ac yn adlewyrchu math o gyfundrefnu cymelliadol, yn ôl tair rhan neu dri gwth yn y 'meddwl

cyffredin’: sef gwerth, trefn, a phwrpas. Yn y cyfuniad o Dafod Iaith a Chymhelliad, ceir grym cyfanrwydd.

Yn 70au’r ugeinfed ganrif, daethpwyd i gwllwm â thuedd a fu ar gerdded ers dyddiau Eden. Yn ymwybodol, cafwyd adwaith Ôl-fodernaidd mewn beirniadaeth lenyddol yn erbyn hunanfodlonrwydd balch yr Ymoleuo (*Secular Enlightenment*), ac o blaid diffyg trefn, diffyg gwerth absoliwt, a diffyg pwrpas absoliwt. Math o eithafu ar ryddid a hunanganolrwydd y Rhamantwyr oedd y datblygiad hwn. Gwrthryfel llancaidd neu faterol yn erbyn y genhedlaeth cynt. Aethpwyd i gredu bod y mathau o ddisgyblaeth a geid mewn Goleuedigaeth wrthrychol a Chlasuraeth, yn arbennig, yn gaethiwed amhriodol. A cheisiwyd caethiwed cyfreithiol arall a elwid yn rhyddid.

Pan geisiwn ddisgrifio a dadansoddi Metanaratif, i’n hatgoffa’n hun pam y mae hyn yn digwydd ym maes Cyn-fynegiant, canfyddwn mai math o Fynegiant Agweddol yw ar ran meddwl cymunedol. Mewn Ôl-Foderniaeth, ni chanfuwyd uniaeth Deddf a Chariad, Rheswm a Rhyw; ond cafwyd ymagweddu at bob un.

Digon teg dechrau gyda’r symudiad deallol symlaf: yn yr Ymoleuo, ‘*Rheswm* (cyfundrefn), *Empeiriaeth*, *Dim byd*’ (yn ôl yr olwg ‘ddiduedd’ gan seciwlarywyr diniwed, ond sy’n cuddio realiti yr Ego Trosgynnol yn yr olaf o’r tri phegwn). Dim byd yw’r ymholiad rhagdybiol neu absoliwt. Heblaw symudiad yr ymwybodol yn y safbwynt hwnnw, gwiw cofio bod ymbarél y farn gyhoeddus yn cynnwys mwy o lawer na safiad cyffredin deallol. Yn y cyfnod modern, y mae ffasiwn a chwaeth yn gynyddol bwysig, a’r gwrthdrawiad gwleidyddol meddyliol rhwng *ceidwadol/rhyddfrydol* yn gwamalu’n niwlog.

Mae materion o’r fath yn llunio grym cymharol syml a gymerir yn ganiataol. Hyn sy’n pontio yn yr hierarci rhwng cyfrifoldeb y gyfundrefn arweiniol yn y Sffêr Ddeunyddiol ymlaen i gyflyru’r Themâu sy’n cael eu hesgor. Mae i’r Metanaratif hwn safle unigryw felly yn y ‘meddwl cyffredin’ gweithredol o ran yr olyniaeth hierarcaidd. Ac mewn adeileddeg, felly, ‘safle’ yw un o briodoleddau Metanaratif o fewn symudiad cyfeiriol. Ac ynddo’i hun, y mae iddo undod a gyfansoddir gan gyferbyniad ac atodiad o ryddid ‘amgenach’, heb ddianc bid siŵr rhag caethiwed. Dyna adeiladwaith dau o’r Metanaratifau hyn sy’n arwyddocaol i Bantycelyn:-

<i>Cyffredinol</i> → <i>Arbennig</i>	<i>Arbennig</i> → <i>Cyffredinol</i>
<i>Ideogenesis</i>	<i>Morffogenesis</i>
A. Goleuedigaeth (Gras)	Rhagdyb ffeithiau ffydd cyfundrefn profiad gweithred
B. Rhamantiaeth Gristnogol	Credu profiad rhyddid natur serchiadau

Yn yr hierarci Ddeunyddiol, sut bynnag, un ffactor adeileddol ac ewyllsiol sy'n dod i'r golwg yn awr. Allweddol arwyddocaol, ar lefel y *Metanaratif*, yw: sef cwestiwn o Ddewis. Rhaid gwneud dwy egwyddor yn gwbl orfodol eglur. Nid oes dim dewis o gwbl ynghylch:

(1) Cynnwys cyfanwaith yr Hierarci sy'n cynnwys yr Absoliwt/absoliwt: hynny yw, y mae'r holl gamre meddyliol wrth esgor yn y pen draw ar Fotiff yn ddiosgoi. Nid yw'r Cristion na'r Seciwlaryn yn gallu dewis hepgor yr un o'r camre hyn.

(2) Y mae trefn eu holyniaeth yn orfodol yr un fath. Nid oes modd datod nac atrefnu safle yr un o'r camre.

Ond o ran gallu dirnadol ac o ran dewis deunyddiol fe geir dau bwynt gwahaniaethol lle y mae'r gwahanu'n digwydd o ran ymwybod ac ansawdd, y naill mewn Tafod a'r llall mewn Mynegiant. Ac ailadroddaf batrwm yr Hierarci er mwyn egluro ble yn union y mae'r gwahanu hwn yn digwydd:

(a) *Ymwybod*: Mae a wnelo hyn â phellter yr ymwybod oddi wrth yr Absoliwt a lled ymarferol y *Tafod*, a beth yw trefn meddwl am y greadigaeth i'r Cristion: dyna yw'r hierarci:

(i) Absoliwt Trosgynnol-dragwyddol: *sensus divinitatis* — (ii) Creu Arfaeth (Deddfau) — (iii) Creu bodolaeth — (iv) Creu Deunyddiau (y dosbarth creadigol) — (v) Bywyd — (vi) Hunaniaeth ac iaith (absoliwt seciwlar) — (vii) Sfferau Deunydd Deddfog, a sbectrwm y meddwl dynol, gan gynnwys Sffêr Grefyddol.

Yn y gyfres hon, *Hunaniaeth* yw'r trobwynt gwahaniaethol. Paid ymwybod y seciwlaryn â'r gallu i fynd yn ôl ymhellach na hunaniaeth. Hynny yw, gweithreda'r hunan fel absoliwt trosgynnol iddo. Tybiaeth, nid realiti, yw'r hyn a osodir ar frig yr Hierarci ar ffurf 'absoliwt'. Mae a wnelo cymod hefyd â chynnwys ansoddol deallol y *Mynegiant* yn y lefelau nesaf.

Felly, ceir y sefyllfa ym meddwl y seciwlaryn lle y mae'r Ego Trosgynnol yn gweithredu'n 'absoliwt' fel pe bai ar y brig gyda'r Absoliwt o ran cyfanrwydd yr hierarci. Ond yn ymarferol, nid yw'n ymwybodol o olyniaeth y camre rhwng yr Absoliwt (i) a'r Hunaniaeth (vi). Uniaethir y cwbl oll yn yr hyn a elwir yn 'un o'r neidiau esblygol enfawr y mae'n rhaid eu dychmygu a'u credu' megis bodolaeth, trefn (*yr atom*), bywyd (*y gell*), *tarddiad cenhedlu*, ymwybod, sef bwganod caniaol y gwyddonwyr allwyddonol.

(b) *Ansawdd*:

Cyraeddasom yn awr yn yr hierarci uchod y (viii) [Metanaratif] — (ix) Themâu — (x) Motiffau. Mae Ymennydd yr Emynydd a'r Seciwlaryn fel ei gilydd yn gorfod ymateb i'r holl sbectrwm o Ddeunyddiau yn awr yr un fath yn ôl y tri cham neu safle hyn; ond wrth gwrs, y mae natur y cynnwys yn gwahaniaethu. Dyma'r ail bwynt, a'r un sydd a wnelo'n fwyaf penodol â llenyddiaeth. I mi, y mae'n nodedig fod y trobwynt mewn Tafod hyd yn hyn (y meddwl cyffredin fel arfer) yn drobwynt i unigolyn, a'r trobwynt yn awr mewn Mynegiant (y meddwl unigol fel arfer) yn drobwynt cymunedol.

Arbenigrwydd Pantycelyn yw bod pob un o'r camre hyn o ran safle mewn Tafod a Mynegiant yn eglur ac yn ymwybodol yn ei waith. Hynny yw, nid ydynt yn bodoli fel camre yn unig, fel yng ngwaith y rhan fwyaf o lenorion eraill; ond y maent yn eglur i'w ymwybod ef. Er nad yw'n traethu hynny yn fwriadus uniongyrchol am nad dyna'i amcan, y mae ef yn gwybod amdanynt oll.

Ymbarél o Themâu yw *Metanaratif*. Mae ei fanylion yn sylwedd i ddadleuon (Arminiaeth, Antinomiaeth, Sandemaniaeth). Cyfanswm yw o ragdybiau arweiniol sy'n ymglymu'n fath o gymdeithas syniadol, yn ôl rhagdybiau'r unigolyn. Fe all fod yn gwllwm dros dro fel Ôl-foderniaeth, neu fe all ymestyn dros drai a llanw'r canrifoedd fel Cristnogaeth, Goleuedigaeth a Chlasuraeth. Ymateb llydan esboniadol ar fywyd yw; ac fel arfer llewyrcha yn ystod cyfnod hanesyddol penodol.

Er gwaethaf amlder syniadaeth, rhagdybiau, a themâu Pantycelyn, diffinnir un rhaniad sylfaenol ymhlith yr esboniadaeth hon gan y profiad Cristnogol ei hun — lle y ceir ar y naill law y rhai y dihunwyd eu hysbrydoedd gan Dduw, ac ar y llall y rhai nas dihunwyd ac a erys am gyfnod neu am byth yn farw o ran adnabyddiaeth ysbrydol. Gellir wrth gwrs gredu bodolaeth Duw, heb brofi perthyn a bywyd. O ran amrywiaeth, teg cydnabod bod y garfan, sydd yn brofiadol yng Nghrist, yn gallu gwahaniaethu gryn dipyn o ran pwyslais a chefnidir ac ymarweddiad, hyd yn oed yn ôl dealltwriaeth a syniadaeth, ond ddim cymaint efallai ag yr amrywia seciwlariaeth. Eto, ceir cysondeb yn y naill a'r llall. Ceir y cyferbyniad yn natur yr Absoliwt/absoliwt. Sylwer er enghraifft ar ddisgynyddion ysbrydol di-sigl y rhwyg a gafwyd yn hanes Adda'i hun rhwng Duw yn y canol a dyn yn y canol. Pery'r ail elfen yn y cyferbyniad hwnnw — sef yr Ego Trosgynnol (y Fi Fawr) ymlaen hyd at Ffenomenoleg yr ugeinfed ganrif (ac wedyn) — lle y clywir o hyd y cyferbyniad rhwng y Gwrthrychol (Absoliwt) a'r Goddrychol (absoliwt); yr awdurdod datguddiedig o'r tu allan, a'r profiadau, syniadau, a dymuniadau a geir gan ddyn yn unigolyddol. Tuedd Husserl yw'r ail.

Ond, nid yn anarferol y clywn duedd syniadol unol neu dueddiadau unol yn ôl cyfnod. A dyna'r Metanaratif.

Yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf, sefydlwyd 'Metanaratif' fel math o derm gwawd i rywrai. Fe gyfeiriai gan amlaf at yr Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) y peth y ceisiwyd ei gyfrif yn 'hen ffasiwn'. Yr oedd unrhyw fath o esboniad cyffelyb o fywyd llydan a ymffurfiai'n arolwg cyfan yn ffurfio 'Metanaratif'. 'Näif' oedd undod rheswm i'r person ôl-fodern. A chyfrifid hyn yn symleiddiol awdurdodol. Yr oedd peth felly yn '*passé*', meddent. Yr ydym heddiw mewn oes o anundod a thameitiach anhrefnus yn y celfyddydau, yn arbennig mewn theori. Arlunio sydd yn y sefyllfa waethaf, efallai, am resymau addysgol. Safai ambell Fetanaratif yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o blaid cynnydd a pherffeithiad dyneiddiol, megis myth Iwtopaidd Cynnydd gwyddonol a Marcsaeth. Ymhlith y metanaratifau optimistaidd o'r fath y cyfrifid Cristnogaeth. Yn lle'r rhagdybiau mawreddog hyn, gosodid mwyach rhagdyb eithaf dogmatig, os gwirion, y mininaratif — y tros dro, y relatif, y lluosedd a ddaeth yn awdurdodol. Dyma'r Brawd Mawr-fach mwyach ymhlith beirniaid ofnus.

*

*

*

Felly, gan fod yr Ymoleuo wedi tueddu gynt i orseddu egwyddorion penodol, sef Rheswm dyn neu ei Synhwyr — 'a dim arall' — dechreuid mewn oes wrth-oleuedig ddathlu'r afreswm, y swrealiaid, a'r abswrdd, amhenderfyniadaeth, lluosedd a chwalfa.

Ceisio lleoli Pantycelyn yr wyf yn awr yng nghyd-destun ein blinderau cyfoes.

Am fod fy ngolwg i ar lenyddiaeth yn tueddu i ymgysylltu â natur iaith, a chan fod iaith oll ynghlwm wrth y cysyniad o gyfundrefn (dau neu dri yn un), mentra 'Undod' i mi fod yn ffactor mwy o lawer na rhagdyb ym mryd gwrthwynebwy. Daeth yn fwy hyd yn oed na ffasiwn neu chwiw ardderchog. Gwedd ar fodolaeth yw. Nid oes bodolaeth yn un man heb gyfundrefn. Daethpwyd wyneb yn wyneb â wal ddiflas ac anghyfleus ffeithiau. Amddiffyniad i ffeithiau felly yw *Ôl-ôl-foderniaeth*. Gan fod fy nghasgliadau llenyddol yn cael eu llywio gan y Logos, nid yw'n syn fod fy rhagdyb ynghylch amrywiaeth mewn undod, hefyd yn cael ei atgyfnerthu gan Gristnogaeth.

Felly, mewn Beirniadaeth Gyfansawdd, sydd hefyd yn fath o 'Fetafeirniadaeth' ceir tuedd i arolygu adeiladwaith llenyddiaeth yn ôl Ffurf a Deunydd, ynghyd â Thafod, Cymhelliad, a Mynegiant, gyda Gwahuno o fewn popeth. Tueddir i ymhoffi braidd yn yr hyn a wawdir. Daeth 'amryw mewn un' yn fath o ragdyb cyfeillgar. Ac o'r herwydd, wrth astudio Williams Pantycelyn, fe'i canfyddaf yn tyfu ac yn arolygu bywyd yn ôl Metanaratif anochel lletaf Yr Oleuedigaeth: *Golwg ar Deyrnas Crist*, Meddyginiaeth, Crefydd Gymharol, Amaethyddiaeth, Opteg, Masnach. Ond gellid synied am Bantycelyn yn byw ac yn bod drwy ymhyfrydu mewn dau neu dri Metanaratif yr un pryd â'r Gristnogaeth, yn rhan o'i

Gristnogaeth. Ceid am resymau hanesyddol yn gyntaf Fetanaratif cyffredin yr Ymoleuo, lle y ceid y triawd *Rheswm/Y Synhwyrâu/a Dim Byd* yn cael ei ddisodli gan Fetanaratif yr Oleuedigaeth – *Cyfundrefn/Y Synhwyrâu/a'r Datguddiad Goruwchnaturiol Cristnogol*. Dyma a roddai iddo ef bwyslais a dealltwriaeth o drefn ac Arfaeth glasurol. Ond yn ail, ceid Metanaratif Rhamantiaeth Gristnogol lle y rhoid bri ar Ryddid a Phrofiad Serchiadau yr Unigolyn. A cheid felly gyd-daro, hyd yn oed aroglau o wrthdaro, ym meddwl Pantycelyn, ar groesffordd Clasuraeth Gristnogol (drwy'r Piwritaniaid) a Rhamantiaeth Gristnogol. Nid dyma'r unig Fetanaratifau ar y pryd yn y gymdeithas. Gellid crybwyll Diwydiannaeth ddatblygol newydd ar y gorwel, ynghyd ag Iwtilitariaeth egnïol faterol. Roedd bwlch Metanaratif y rhain yn arwyddocaol ond yn y cefndir, yn dawel, am mai materol gyfyngedig oeddent at ei gilydd. Dyma amgylchfyd meddyliol Diwygiedig Williams Pantycelyn. Dyma a gyflyrai'i feddwl a'i deimlad. Hyn a'i harweiniodd hefyd wrth iddo feithrin a sefydlu delwedd amlochrog o wirionedd bywyd. Dyma o'r herwydd fframwaith i feithrin meddwl o'i fewn. A hyn a ddarparodd iddo'i gyd-destun.

Oherwydd y cyfuniad hwn, roedd rhamantiaeth Ymennydd yr Emynydd yn gallu anrhydeddu'r serchiadau heb aberthu cyfundrefn. Tuedd rhamantwyr Ôl-fodernaidd oedd lladd ar drefn a disgyblaeth a deddf yn anhunanfeirniadol, tan amddifadu'r bersonoliaeth o'i fframwaith dynol, a thybied mai colli'r pen, y galon a'r cariad oedd rhoi bryd ar 'arfaeth' Duw. Ymgyfyngid i 'serchiadau' Cariad yn unig, heb ymhyfrydu yn 'nhrefn' Cariad. Dylanwad Rhamantiaeth oedd hynny. Nid felly Pantycelyn. Caed ganddo ef yr iechyd cyfansawdd — gorfoledd y serchiadau a chariad at ddeddf ganolog y greadigaeth oherwydd ei wreiddiau, llenyddol a diwinyddol yn y Beibl. Dyna'i ddiniweidrwydd a'i soffistigeiddrwydd a'i arddull.

Oherwydd y parhad rhwng y Diwygiad Protestannaidd a'r Dadeni Dysg, gellid disgwyl pont rhwng yr Ymoleuo a'r Oleuedigaeth hefyd. Rhoddai'r naill a'r llall bwyslais ar brofiad, ar optimistiaeth i'r dyfodol, ac ar ymrwymiad cymdeithasol. Yr oedd plaendra cryno'r pregethu a'r cydymdeimlad â dyngarwch (gan gynnwys banio caethwasaeth) yn yr Oleuedigaeth yn cyfateb i ogwydd Ymoleuo. Ond os oedd gwynfyd yn y dyfodol i'r Cristion, nid oedd ond yn realydd ynghylch cyflwr syrthiedig cyson ac anobeithiol dyn yn awr. Yr oedd y pwyslais cyfyngedig i Reswm Amser-a-Lle, gyda gorddyrchafu cynneddf ddynol ffaeledig o'r fath ymhlith Ymoleuwyr, hefyd yn cael ei ddisgyblu'n feddyliol gan ddatguddiad ysgrythurol y Goleuedigwyr.

Gwyddai'r Oleuedigaeth Gymreig yn burion am yr Ymoleuo (Yr Ego Trosgynnol). Meddai Pantycelyn [*Golwg ar Deyrnas Crist*]: 'Nifer fawr o Ddynion yn Berchen Dysg a

Rheswm' a honnai 'nad oes Crefydd ddatguddiedig ond yn unig yn Natur.' Yn garedicach efallai, gellid synied mai Deistiaid oeddent (fel Iolo Morganwg) ac iddynt gredu mewn Gras Cyffredin, ond yn ddibechod (o leiaf yn ôl y diffiniad Cristnogol o bechod). Bodlonent ar ymwybod â Duw, heb Dduw-ddyn. A thrwy Gristnogaeth yn unig y deellid Pechod cynhwysfawr yn erbyn Duw. Yn yr Oleuedigaeth, cyfrifid fel arfer mai Cyfundrefn/Rheswm a'r Synhwyrâu Empirig oedd y ffactorau arwyddocaol ynghyd â Datguddiad. Ond credaf fod gormod o le wedi cael ei roi ganddynt i Reswm. 'Sythwelediad' oedd y gynneddf ar gyfer canfod, nid yn unig wrth sylweddoli *pethau* ond hefyd ar gyfer *cyfundrefnau*. 'Cyfundrefn' ar dân oedd nod eu hymchwil, mewn gwirionedd. Pan geisiwyd deall deddfau gwyddonol, a chanfod gwneuthuriad yr atom, y gell, a'r bydysawd, a phob dim arall, yr hyn a oedd yn ganolog oedd nid rheswm, er mor werthfawr hynny, ond y 'canfodiad' o *drefn* barod ddiriaethol yno, a'r rheswm (fel y synhwyrâu a'r sythwelediad) yn medru ei darganfod drwy ei hwynebu.

Dylem oleddfu'r pwyslais ar Reswm, felly. Cafodd y ddawn honno gryn amlygrwydd yng nghyfnod Pantycelyn; ac nid oedd gan Gristnogion lai o barch ati na chan anghredinwyr. Ond oherwydd bod Rheswm yn yr awyr ers tro, daethpwyd i'w fawrygu yn rhy ymwybodol amddifad. O ganlyniad, fe'i rhoddwyd yn ei le gan amryw Gristnogion, a sylwi ar gyfyngderau gofod/amser. Yn eu bryd a'u bywyd hwy, yr oedd ffactor mwy treiddgar wedi dod i'r fei. Nid rhesymu yn unig yw cyfundrefnu, os o gwbl mewn Tafod. Ni resymolir i sylweddoli symlder gwahanu+uno=gwahuno, sef sylfaen iaith a'r atom a'r gell, a 'chyfundrefn' ei hun. Sythwelir y ffenomen ryfedd hon. Gwir yw — o'i sythweled. Roedd dehongliad Coleridge o Reswm, gredwn, yn dipyn nes at ei le.

Felly mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol.

Ni resymai Pantycelyn Benarglwyddiaeth Duw a chyfrifoldeb dyn yn y dull materol. Ni resymid (yn ôl amser a lle) 'Y Duw tragwyddol' gan 'ddyn meidrol'. Ni resymid bod yn rhaid i'r pechadur farw er mwyn byw; nac i Grist farw er mwyn i bechaduriaid gael bywyd tragwyddol. Yr oeddent yno yn ddatguddiad. Rhodd oedd yr wybodaeth. Y tlodion yn yr ysbryd sy'n etifeddu'r ddaear. Drwy blygu i'r gwaelod y dyrchefir pawb ohonom i weld dros yr ymyl. Pan wyf yn wan, yna yr wyf yn gadarn. Sylwer: 'cyfundrefnau' paradocsaidd ymddangosiadol afresymol ydynt i gyd. Ac eto, undod yw pob un o'r gwirioneddau hyn. Cyfundrefnau ffeithiol ydynt a roddir. A dyma *ansawdd* Diwinyddiaeth Gyfundrefnol 'resymol' a dderbynnir. Fe'i gwelir. A rhyfeddir.

Dyma amgylchfyd meddyliol Diwygiedig Williams Pantycelyn. Dyma a gyflyrai'i feddwl a'i deimlad. Hyn a'i harweiniodd hefyd wrth iddo feithrin a sefydlu delwedd

amlochrog o wirionedd bywyd. Dyma o'r herwydd fframwaith i feithrin meddwl o'i fewn. A hyn a ddarparodd i Ymennydd yr Emynydd gyd-destun. Cyfundrefnau uwchnaturiol rhoddedig oeddent. Oherwydd y cyfuniad hwn, roedd rhamantiaeth Pantycelyn yn anrhydeddu'r serchiadau heb aberthu cyfundrefn. Tuedd rhamantwyr Ôl-fodernaidd oedd lladd ar drefn a disgyblaeth a deddf yn anhunanfeirniadol, tan amddifadu'r bersonoliaeth o'i fframwaith dynol. Ni ddeellid mai colli'r galon a'r cariad oedd rhoi bryd ar 'arfaeth' Duw. Ymgyfyngid i 'serchiadau' Cariad yn unig, heb ymhyfrydu yn 'nhrefn' Cariad. Dylanwad Rhamantiaeth oedd hynny. Nid felly Pantycelyn: caed ganddo ef yr iechyd cyfansawdd — gorfoledd y serchiadau a chariad at ddeddf ganolog y greadigaeth oherwydd ei wreiddiau clasurol, llenyddol a diwinyddol yn Rhagfynegiant y Beibl. A hyn a arweiniodd at dywalltiad o Ysbryd Duw. Gweddnewidiwyd Rhamantiaeth gan Glasuraeth a Goleuedigaeth.

O gyfnod Williams hyd hanner ffordd drwy'r 19G, yr oedd tri symudiad meddyliol yn eplesu ac yn berwi — sef parhad yr 'Ymoleuo' (neu'r Oleuedigaeth, yn achos Cymru), y 'Mudiad Rhamantaidd' ifanc, a'r 'Chwyldro Diwydiannol' ifanc, ill tri yn dwf cadarn. Meddwl y byddaf i yn awr am yr olaf yn nhermau ysbrydol, mewnlol a deallol, yn bennaf yng nghyd-destun syniadaeth. Does dim dwywaith i hyn yma fod yn dreiddgar ac yn rymus mewn amryfal ffyrdd. Gwnaeth lawer o ddrwg ac o hagrach materol, a llawer o ddaioni economaidd. Yn yr olwg boblogaidd, technoleg oedd pennaf ystyr gwyddoniaeth. Hyn yn wir oedd yn ymarferol, o leiaf ar yr wyneb. Ond o du barddoniaeth, pryd y ceid prydyddiaeth ysbrydoledig a chelfyddydol, ychydig y soniai beirdd am Wyddoniaeth allanol onid mewn baledi. Er pwysiced y Chwyldro Diwydiannol o safbwyntiau newyddiadurol arwynebol o bragmatig a phoblogaidd, dichon nad oedd y beirdd praffaf wedi sylweddoli'r profiad peiranyddol yn wir fyw. Bydd haneswyr, mor aml mewn traddodiad newyddiadurol, yn gorbwysleisio'r allanolion, wrth gwrs. Yn faterol, dichon fod yr haneswyr naturiolaidd yn lled gywir yn hyn o bwyslais. Trawsffurfiwyd cymdeithas o'r brig i'r bôn yn gorfforol. Gweddnewidiwyd pob cornel o'r tirwedd. Ond fe gripiodd y dyn llawn ddynol yn ôl yn isel i'w gornel, a chyfrif hefyd ei aur ysbrydol. A daeth y beirdd i'r casgliad fod yr aur hwnnw yn fwy gwerthfawr na'r farchnad stoc. Roeddent yn llygad eu lle fel pobl; eithr gwyddai'r bardd Pantycelyn a'i ddilynwyr fod dweud 'na' yn rhan o Fetanaratif Cristnogaeth hefyd, a bod y cythraul ar waith yn arwyddocaol iawn, mewn rhagdybiau cyfoes tyfiannol, ac na wiw claddu pen. Dywedai 'na', felly, wrth Fetanaratif Iwtilitariaeth.

*

*

*

Trwm ei ddylanwad wrth lunio Metanaratif Pantycelyn oedd y fframwaith ysgrythurol. Mae'n amlwg fod y Beibl megis gwaith Pantycelyn ei hun yn cael ei amodi a'i

fynegi o fewn cyfundrefnau absoliwt deall ac iaith. Ac y mae hynny'n golygu bod y Deunydd a gynhwysir, ac a fynegir, yn cael ei reoli a'i gyflyru gan yr archgyfundrefnau llywodraethol, megis er enghraifft yr 'unedau sy'n cynnwys amrywiaeth'. Heblaw strwythur *amryw/un* yn blaen, ond ymhellach, o fewn amgylchiadau iaith a llên, gellid hawlio bod yr 'amryw' hyn yn sylfaenol dwt, naill ai'n ddeuol neu'n driol. Dwg hyn ystyriaeth fetaffusegol y Ddwy Natur mewn un Person, a'r Tri-yn-Un lle yr oedd cyferbynnu dau neu dri hefyd yn isymwybodol mewn cyferbynnu sythwelediadol. Yr ydym sut bynnag yn ein harolwg wedi cyrraedd lefel Mynegiant, wrth ddewis Deunydd. A golyga hynny o ran Deunydd, heblaw'r amodau a osodwyd gan ffurf isymwybodol, ein bod yn archwilio Sfferau Deunydd, Themâu, a Motiffau yng ngoleuni Themateg Gristnogol arweiniol, a hynny yng ngoleuni Metanaratif hefyd.

Heblaw dilyn y drefn Hierarcaidd o lefel i lefel ieithyddol i lawr o'r Absoliwt hyd y Motiff yn unplyg, gwiw fu crybwyll ar drothwy Mynegiant arwyddocâd yr amgylchfyd syniadol a materol sy'n gallu effeithio ar y *detholiad* o Ddeunydd a'i *themateiddio*. Hynny yw, y mae metanaratifau cymdeithasol amlycaf y cyfnod neu'r traddodiad yn dwyn arwyddocâd mawr i'n dadansoddiad o ddeunydd llenyddiaeth. Cyfranna holl amrediad isymwybod ac ymwybod cymdeithas feddyliol Pantycelyn, o Dafod hyd Fotiffau Mynegiant, at aeddfedrwydd ei 'Olgw ar Deyrnas Crist', yn arbennig efallai yn ôl yr Oleuedigaeth a Rhamantiaeth mewn Cristnogaeth. Gogwydda fwyfwy at yr ymwybodol.

Dyna pam y ceisiwyd diffinio Metanaratif felly: fframwaith ystyrol Cyn-fynegiant cyflawn sy'n cynnal Themateg Mynegiant yn y gymdeithas, a chydwead y themâu yn eu hymgais i fod yn ddi-hysbyddol cydlynol.

Wrth drafod Deunyddiau llenor unigol megis Pantycelyn, felly, y mae'n briodol sylwi ar yr Ideoleg a'r rhagdybiau a rennid ganddo ef a'i gymheiriaid. Fel Cristion a Llenor, cofleidiai hefyd y Metanaratif serchiadol unigolyddol a gofleidid gan ddeallusion ysbrydol eu byd: sef Rhamantiaeth Ddemocrataidd. Gyda'i gilydd, felly, yn baradocsaidd fe geir ffurfiant, o fewn cyd-destun Cristnogaeth, yr Oleuedigaeth Ramantiaidd. Ac eto, o fewn Tafod.

Yn y ddiwinyddiaeth Ôl-fodernaidd dan gynffon yr ugeinfed garif, un o'r dogmâu ffasiynol chwâl gan y Sefydliad felly fu ymwarded â'r Ideolegau Mawr hyn. Adweithid yn erbyn rhith y 'Metanaratif', nid oherwydd unrhyw gred na chynnwys penodol, ond oherwydd cyfanrwydd y fath beth. Metanaratif oedd yr adwaith yntau. Ni chaed dadl ddeallol ddilys yn erbyn 'Metanaratif' er gwaetha'r gwynt agweddol. Chwiw a ffasiwn oedd yn y cyfrwy. Cristnogaeth, Marcsaeth, Goleuedigaeth a'r Ymoleuo, allan â nhw! Ac i gydymffurfwyr 'eciwmnaidd' hylwnc sy'n ysol eisiau dilyn y chwiw eclecticig, yr oedd hyn oll yn gyfaredd. Arbedai feddwl. Yr oedd hyd yn oed yn boliticaidd gywir gan grefyddwyr rhyddfrydol i

beidio â dweud ‘na’. Rhagdybiwyd bod unrhyw osgo i arddel undod â’r cadarnhad cyflawn yn gofyn am drwbl. Ac wrth gwrs, gwyddom oll fel y gall unbennaeth a gwrthwahanïaeth unbenaethol hyrwyddo marwolaeth a difodiant syniadol. Ond newyddiadurol braidd, yn y cyd-destun Ôl-fodernaidd, oedd y sgrecheirio tameidiog hyn yn erbyn yr esboniadau cyflawn ‘mawr’. Oherwydd y tameidio, aeth efrydu gwaith ein prif lenor rhwng 1536 a 1902 o safbwynt llenyddol yn anathema bron.

*

*

*

Math o thema yw Metanaratif sy’n ymestyn ymhellach na gwaith llenyddol unigol. Cyfansoddiad yw sy’n meddiannu cymuned y tu hwnt i lenyddiaeth.

Wrth sôn am yr Ymoleuo ac am Fetanaratif yn nhermau Themâu Cyfundrefnol a Chyfan, yr wyf am awgrymu bod dadansoddi Deunydd llenyddol yn gorfod ymledu ymhellach na llenddull cyfyngedig neu gynnwys y gwaith unigol. Ceid cyfan syniadol yng nghyfnod Williams a ymledai ymhellach na cherddi gwahân neu lyfrau sengl. Ceid syniadaeth yn yr amseroedd a oedd yn cwmpasu’r potensial deallol i gyd.

Trefn oedd. Eto yr wyf am awgrymu mai darganfod o’r newydd, gyda sbonc ffres, werth ac arwyddocâd y ‘*cyfundrefnau*’ oedd yr union allwedd newydd i hyn hefyd. Ar ddechrau’r cyfnod, yng ngwaith Descartes, dyma’r trydydd pwynt a wnâi hwnnw wrth astudio methodoleg hierarcaidd gwyddoniaeth —

Yn drydydd, trefnu fy meddyliau, gan ddechrau gyda’r gwrthrychau mwyaf syml a hawdd eu deall, er mwyn esgyn bob yn dipyn ac megis o gam i gam hyd at wybodaeth o’r pethau mwyaf cymhleth; a chan osod trefn hyd yn oed y pethau hynny nad ydynt yn naturiol yn dilyn naill y llall.

Ac yn olaf, gwneuthur cyfrifiad mor gyflawn ac adolygiad mor gyffredinol ym mhob amgylchiad fel y byddwn yn sicr o beidio â gadael dim byd o’r cyfrif.

Bu Descartes yn cyfoesi gyda’r Piwritaniaid; ac yr oedd eu hawydd hwy (fel Turretin yntau) — nid i *wneud* cyfundrefnau, ond i *ddarganfod* cyfundrefnau Beiblaidd (a oedd eisoes yn cydadeladu ac yn cydlynu’r greadigaeth), yn rhan bwysig iawn o etifeddiaeth Williams.

Dyna’r Cyfanrwydd lle y dechreuwn sylwi ar Ddeunydd manwl Pantycelyn. Y cyd-destun metanaratif newydd. Y ffaith o gyfundrefn — sef Ffurf — oedd un o’r Deunyddiau mawr arwyddocaol i Bantycelyn. Y Sgêm anochel i feddwl oedd y deunydd, i raddau. Gwedd ar gamp Williams oedd cyd-ddal y cyfanrwydd — yn Gyfundrefn o gyfundrefnau — yn ei feddwl cwmpasog diwinyddol wrth iddo fynd at y themâu mawr a mân Cristnogol.

Tebyg fu’r rhagfarn yn erbyn Metanaratif i’r ymwadu Ideolegol fel y cyfryw. Nid sgrifennu’n ymwybodol yn ôl thema a luniai Fetanaratif y fath ragfarn, ond cyflyru. Peth

fydoedd a wnaeth gryn ddrwg yng Nghymru yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Ymwadwyr arwynebol oedd y perygl, y Sefydliad a oedd yn ddall i'w rhagdybiau eu hunain, — y rhai 'diduedd' fel y'i dywedir. Tybir bod ymddwyn yn ddof eciwmenaidd ac yn dybiedig ddiargyhoeddiad yn boliticaidd gywir, ac yn rhyddfrydol gymedrol 'amlfydd'. Roedd yn hunandwyllodrus ddiuedd ynghylch dihangfa rhag ideoleg benodol. Cibddallu oedd hyn. Yn sicr nid oedd yn 'soffistigedig' oddefgar yn ôl y dybiaeth arferol o'r gair, er gwaethaf yr ymhoni. Yr hyn sy'n effro soffistigedig yw bod yn *ymwybodol* fyw i bwysau safbwynt naturiolaid dyweder. Heb yr ymwybod llydan yr ydys yn bwl ac yn aml yn eithafol naturiol heb sylweddoli hynny. Nid yw'r sawl sy'n ymrwymedig yn y rhagfarnau rhyddfrydol 'gyffredin', neu mewn dyneiddiaeth hedonistig 'gyffredin', yn cael dianc rhag tueddrwydd, na rhag ideoleg hunan-ganolog. Y cwbl a feddianna yn y cyfeiriad hwnnw yw anwybodaeth am ddimensiwn arall. Rhagorach mewn un cyfeiriad yn ddeallol yw'r ideolegydd, sy'n ymwybodol fyw i'w ragdybiau gwleidyddol neu grefyddol gwyrddroedig, na'r cyfeiliornydd cywir-wleidyddol ymerodrol a disylweddoliad. Mae'n fwy effro, yn fwy hunanfeirniadol, hynny yw yn fwy soffistigedig sylweddol ynghylch rhagdybiau.

Nid iechyd felly yw bod yn dybiedig ddiuedd, ond afiach a heintus. Carwn awgrymu bod Williams wedi llwyddo i uno'i Fetanaratif teimladol â'r Oleuedigaeth, sef Rhamantiaeth Glasurol. Ac nid dyma'r tro cyntaf i rywun grybwyll y term hwnnw yng ngŵydd Williams. Ond carwn dynnu sylw at y paradox yn Ymennydd yr Emynydd.

Yn ei astudiaeth o *Williams Pantycelyn*, rhoddai Saunders Lewis fwy o le nag a wnawn i i 'Ramantiaeth'. Tueddir gan haneswyr diweddar i bwysleisio cyfnod wedyn, y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel priod gartref Rhamantiaeth. Eto'r gwir yw, gan fod yna ddatblygiad diwniad, gellid yn ddigon teg ganfod nifer o briodoleddau tybiedig wrth-resymol — megis pwyslais ar y goddrychol gariadus ac ar deimladaeth euog — eisoes ymhlith y rhai a elwir yn gyn-Ramantwyr neu'n Rhamantwyr cynnar yn y ddeunawfed ganrif. Ceir y fath symudiad ledled Ewrob, er na fynnwn orseddu Pantycelyn mewn cyd-destun Ewropeaidd lletach na Phrydain (ac America) onid yn ei Galfiniaeth.

Down i ystyried rhai o'r pwysleisiau profiadol hyn pan drown at themâu penodol. O safbwynt olrhain trefn mynegi Deunydd gan Bantycelyn, gogwyddaf at ei ddiddordebau deallol ac at y ffurfiau meddyliol a adeiladai'i fframwaith meddwl. Neilltuaf 'Deimlad' yn bennaf felly i fydoedd themateg a motiffeg. Ond credaf hefyd fod y gallu i gyfuno trefn clasuraeth a rhyddid Rhamantiaeth, ynghyd â deall yr Oleuedigaeth a theimlad y Democratiaid newydd, yn tarddu o olwg gyfansawdd Cristnogaeth ar fywyd. Cristnogaeth

‘soffistigedig’ oedd ei Fetanaratif eithaf. Yr oedd hyn iddo ef eto yn drefn. Nid Rhamantiaeth oedd *prif* Fetanaratif Pantycelyn.

Perthynai Williams yn ganolog i fudiad yr Oleuedigaeth yn fwyaf penodol. (Enghraifft ddiddorol ohoni, ac ar wahân i briffordd Methodistiaeth, oedd William Morris, Môn, o leiaf yn niwedd ei fywyd.) Cychwynnwyd y mudiad hwnnw yn fwyaf ymwybodol, ddwedwn i, (o’i gyferbynnu â’r Ymoleuo) gan Jonathan Edwards, yr athronydd mawr a’r diwygiwr Americanaidd. Meddyliwr oedd ef y cyfieithodd Pantycelyn un o’i lyfrau i’r Gymraeg. Roedd John Wesley yntau hefyd yn perthyn i’r Oleuedigaeth, fel y sylwodd David Bebbington, ac yn efrydu gwaith Locke yn ddwys reolaidd. Ond yr oedd y rhain oll yn meddu ar ragflaenwyr deallol praff megis Copernicws, Pascal, a Newton. Eginyn oedd y Diwygiad Efengylaidd i’r Diwygiad Protestannaidd o’i flaen.

Tyfodd peth o gatholigrwydd y mudiad o Oleuedigaeth (Christian Enlightenment) i raddau allan o’r Ymoleuo. Yng ngolwg yr Ymoleuo, ar ôl cyfnod ac etifeddiaeth Rhesymoliaeth — ceid, heblaw Locke, athronwyr megis Hume a Kant, — ac ym mryd y rheini, pum synnwyr oedd absoliwt Empeiriaeth. Dyna ddyrchafu’r Ego, mewn modd gwahanol i’r Rhamantwyr. Yng ngolwg yr Oleuedigaeth sut bynnag, (o’r tu allan), Duw-ddyn oedd yr Absoliwt dihysbyddol a ddisodlai brif ragdyb yr Ymoleuwyr. Ef oedd y rhagdyb, nid dyn, oherwydd hunanddatguddiad a hunanwireddiad Duw. Rhedai’r ddwy ffrwd hyn yn gyfredol hyd heddiw, gydag ambell flip fel Ôl-foderniaeth.

Perthynai’r Oleuedigaeth yn gynnar felly i’r Ymoleuo, megis y Diwygiad Protestannaidd i’r Dadeni Dysg; neu’r crefyddol (a gwmpasai’r seciwlar) i’r seciwlar moel. Ac ychwanegai’r Oleuedigaeth y sylweddoliad o ddau synnwyr byw arall (o leiaf), heblaw’r pump corfforol, sef *sensus divinitatis* (y synnwyr o Absoliwt awdurdodol goruwchnaturiol) a’r Gydwbybod Foesol, ac ymlaen at reswm a synhwyrau y pwyslais newydd.

Yn yr ugeinfed ganrif, ymhlith y rhai a arddelai olyniaeth yr Ymoleuo, ac a geisiai bwysu a mesur hanes a’i themâu, ceid sawl safbwynt yn ei dro — yn ôl hil, dosbarth cymdeithasol, rhyw (gender), addysg a diwylliant. Mae’r olaf yn esbonio graddfeydd troseddol, datblygiad economaidd, a strwythur dwfn perthnasoedd rhyngwladol. Ond fe barhâi trafodaeth yr Oleuedigaeth o hyd, gyda Christnogion a fynnai fanteisio ar yr holl gynneddau — yn ogystal â Chof a Rhesymeg — yn eu cysegru oll i foliant.

Yr Oleuedigaeth a roddodd i Williams ei ymagweddu clasurol. Diwygiad o Ddadeni oedd.

Sylwer: er ein bod wedi cyfosod yn y fan hon yr Oleuedigaeth a’r Ymoleuo gyferbyn â’i gilydd ar lefel Metanaratif, fe geir gwreiddyn ffurfiol y cyferbyniad hwnnw ynghynt o

lawer yn olyniaeth Hierarci Deunydd. Yn wir, gellid dadlau bod y rhaniad i'w gael yn Rhagdyb y rhagdybiau, sef Absoliwt/absoliwt. Nid yw pethau'n gyfan gwbl syml fel yna, oherwydd prinder anymwybodol yr absoliwt seciwlar — nid o ran hyder, — eithr o ran 'gwybodaeth' wyddonol go iawn ynghylch popeth sy'n rhagflaenu hunaniaeth. Ymhonni sy'n cynnau Ymoleuo.

Wrth olrhain hierarci'r Weithred lenyddol o ran Deunydd mewn Mynegiant, rhaid i lenor Cristnogol neu lenor Seciwlar, yr Oleuedigaeth a'r Ymoleuo fel ei gilydd, gychwyn mewn Absoliwt/absoliwt. Dyna sy'n pennu gwerthoedd, trefn a phwrpas. Dyna sy'n pennu'r ymwybod o 'iaith yn ceisio dweud y gwir'. Dyna'r rhagosodiad sy'n dynodi hefyd darddiant yr Hierarci. Cyffredin yw'r rhai sy'n taeru, wrth gwrs, nad oes ganddynt ddim absoliwt. Ond naifder yw hynny: gwelsom fod y gosodiad hwn ei hun yn absoliwt.

I Saunders Lewis, yr oedd adnabyddiaeth o'r Absoliwt/absoliwt a'i hierarci yn ganolog i'w feirniadaeth lenyddol ac i'w sylweddoliad o draddodiad. I'r seciwlaryn, mae'r term a roddodd Edmund Husserl i ni yn yr ugeinfed ganrif, sef yr Ego Trosgynnol, yn gwneud y tro yn rhagorol i'r absoliwt seciwlar. Husserl oedd tad Ffenomenoleg fodern. Mynnai mai'r unig beth y gellir bod yn sicr ohono oedd ein hymwybod o'r byd. Dyry ef bwyslais arbennig i'r ymwybod gweithredol o fodolaeth pethau, tan ffurfio a 'bwriadu'r' byd. Dyma ffynhonnell ein dealltwriaeth o'r byd hwnnw. Ceir ysgrif ragorol ar Ffenomenoleg yn *Hanes Athroniaeth y Gorllewin*, gol. J. Daniel a W.L. Gealy.

Ond er bod y Cristion ac Egoau Trosgynnol Cymru yn rhannu safle Rhagdyb y rhagdybiau yn awdurdod absoliwt, ac yn wir yr hierarci ddeunyddiol lenyddol sy'n dilyn, mae'r ymwybod o gyfoeth yr hierarci yna a'i hystyr yn gwahaniaethu. Yn hierarci'r Cristion, fe geir esboniad dros undod Arfaeth i'r Greadigaeth (neu reidrwydd trefn), ynghyd â Bodolaeth bodolaeth, Deunyddiau, Bywyd oll yn dilyn yn olynol ystyrlon ac yna'r Ymwybod ei hun yn eu dilyn hwythau. O ran esboniadaeth, tuedda'r seciwlaryn i fflyffian olrhain ac egluro'r realiti yna. Ceisiant ddadlau o blaid esblygiad bywyd bid siŵr; ond osgoant, o ran effeithiolrwydd, egluro bodolaeth a ffynhonnell bywyd cenhedlol y gell a threfn yr atom a'i rhagflaenai. Nid yw hynny'n rhwystro gwyddonwyr allwyddonol hyderus rhag taeru am absenoldeb dogmatig rhai materion, megis Absoliwt. Ond diffyg profiad diwinyddol yw hynny. Sonnir yn hwylus am 'neidiau esblygol anferth' yn wyneb amhosibilrwydd cynhenid profi bodolaeth Duw yn ôl rhagdybiau empeiraidd amser a lle.

Symuda'r Cristion — fel Pantycelyn a Saunders Lewis — o'r Absoliwt i'r llenyddwaith, o'r gwrthrychol i'r goddrychol, ac o'r uchod i'r isod, yn ôl sicrwydd

datguddiad a pherthynas. Cais y seciwlaryn ymdrechu oddi isod i'r uchod, gan ei lusgo'i hun o'r goddrychol i'r gwrthrychol.

Fel y mae Tafod Iaith yn newid yn ddisylw dros gyfnod o amser (soniais droeon e.e. am gyfundrefn chwe thymp y ferf yn y Modd Mynegol yn troi'n bump yn y rhan fwyaf o dafodieithoedd Cymraeg y dyddiau hyn), felly y mae Metanaratif yn newid, nid yn unig yn y gymdeithas, ond yn ddiarwybod yn yr unigolyn, sef adeiladwaith cyffredinol ei themâu. Felly y newidir o oes i oes mewn esblygiad llinynnog hefyd. Dyna'r ansefydlog o fewn sefydlogrwydd yr Archgyfundrefnau.

Pan gâi Pantycelyn brofiad uwchnaturiol a naturiol, sef bob dydd, yr oedd yn ei ychwanegu at y fyd-syniadaeth a oedd ganddo eisoes. Hynny yw, dysgodd o fewn ei amgylchfyd syniadol llawn gydlyniad o brofiad. Wrth iddo gael teimlad neu wybodaeth newydd, fe ymledai'i Fetanaratif ei hun; ac wrth iddo ef ei hun ymateb i'r rhain, ychwanegai yntau at y Metanaratif cymdeithasol yn ei amseroedd. Mae ei feddwl, felly, yn mewnnoli ac yn allanoli mewn cyflwr cyflawn parhaol.

Sffêr foddol yw 'Ffydd'. Ond y mae unigrywiaeth Cristnogaeth fel Metanaratif (ac Absoliwt) yn ei neilltuo. Canola nid ar syniadaeth a ffeithiau (er bod yna syniadaeth a ffeithiau), ond ar ganfod person: *Duw-ddyn*. Ymuna â dau ddimensiwn ynghyd sef *Goruwchnaturiol/naturiol*. Daw cyfeiriad dawn ac awdurdod o'r uchod i'r isod, nid o'r isod i'r uchod, ar ffurf Gras. Ymrwymir mewn *perthynas* bersonol dragwyddol. Nid un Deunydd neu Sffêr yw maes ei hawdurdod, ond pob Deunydd a Sffêr. Er ei bod o ran potensial yn agored i bawb yn effeithiol, eto, cyfyngedig a dewisol (oherwydd gras arbennig a chyfrifoldeb personol) yw'r pechaduriaid tlawd sy'n plygu'n barhaol mewn undeb. Ffydd ydyw'r Deunydd gogoneddus; a fframwaith cymelliadol trefnus a chariadus iddi yw'r Metanaratif.

VI CYFUNDREFNAU THEMATIG

Dyma ni bellach wedi cyrraedd yr hyn a gyfrifir fel arfer yn Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol. Ni bydd yr wyddor honno, ysywaeth, fel arfer yn rhoi dyledus barch i Benarglwyddiaeth Duw ar *Ffurf*. Mae hefyd yn tueddu i feddwl am Ddiwinyddiaeth Drefnol *mewn themâu*, heb o anghenraid weithio yn ôl *cyfundrefnau*. Cyfres o destunau yw. Undod hierarcaidd yw Cyfundrefn o Gyfundrefnau Cyfansawdd, sy'n cynnwys Themâu.

Yr hyn yw melodi i gerddorion, hynny yw thema i lenorion. A'r thema ddyfnaf, dreiddgaraf a mwyaf meddiannol a chynhwysfawr, y thema sy'n cynnwys pob thema, i Bantycelyn yw nid taith, er bod hynny'n ffurfio echel i gymaint o'i waith; eithr perthynas, carwriaeth. Taith tuag at berthynas yw teithiau di-rif Pantycelyn. Perthynas hefyd yw hanfod cyfundrefn. Er mwyn sicrhau perthynas y mae Duw ei hun yn barod i fynd i'r eithaf, a'i Fab yn barod i farw. Perthynas yw a geir drwy gwympto mewn cariad, drwy feddyginiaeth, drwy ganu, drwy dderbyn rhodd. Darlunnir gan Bantycelyn yn ei arwrgerddi a'i emynau fathau gwahanol o berthynas (a diffyg perthynas); a gellir eu crynhoi yn yr un gair 'Cariad'. Ond gŵyr Pantycelyn fod Duw ei hun yn diffinio'r gair 'perthynas' drosodd a throsodd mewn geiriau ac mewn gweithredoedd amrywiol. Mae Ef hyd yn oed wedi seilio'r Greadigaeth ar egwyddor berthyn y 'Gyfundrefn', sy'n gysgod o'r berthynas fewnol honno. Cariad o fath arbennig yw. Math dwyfol o undod yw perthynas gywir, megis rhwng y Mab a'r Tad. Mae arni bersawr glân a phur, ffrwythlon a bywydol. Ceisio deall y berthynas honno yw pwrpas iaith a llenyddiaeth a diwinyddiaeth yn y bôn. Cyfundrefnu personol yw. Perthynas mewn Tafod: perthynas mewn Mynegiant hefyd.

Bydd y pechadurusrwydd dynol yn ceisio'i orau glas i'n hatynnu i wyro i unrhyw gyfeiriad arall er mwyn ei hosgoi wrth gwrs. Defnyddia dwpdra ac anwybodaeth, hunanoldeb a blys, unrhyw arfogaeth. Ond y berthynas yw'r *un* peth. Dyna'r undod a geisiai'r Cyfrinwyr erioed; a thry holl feddwl y Beibl o'r Creu drwy'r Cwmp hyd y Cadw o amgylch yr un peth hwn. Esbonio hyn i ddyn truenus, a dathlu cyf-un-drefn (gair gwefreiddiol a chynnes) er mwyn goleuo natur Duw ac angen dyn, yw holl ergyd themateg Pantycelyn, megis cyfansoddiad y Beibl ei hun. Mae'n canu cynllun. Ac wrth gwrs, perthynas aruthr, ysbrydol a chorfforol gyflawn a pherffaith yw'r berthynas ryfeddol hon; ac nid oes geiriau — er cynifer o'r rhain a rydd Pantycelyn i'r dasg — sy'n ddigonol iddi hyd dragwyddoldeb. Fe'i ceir drwy hiraeth ac ymostwng llwyr, a thrwy ufudd-dod cyflawn ac ymhyfrydu. Moli'r berthynas honno gyda deall yw canolbwynt diddanwch ac egni y llenor y mae ei galon yn adnabod ei

Arglwydd. Egluro honno yw uchafbwynt a holl ddiben llenyddiaeth beth bynnag y bo'i phwnc. Nid credu *bod* Duw yw credu yn Nuw, ond *bod mewn perthynas*.

Ar ryw olwg, cyf-un-drefn yw priod *thema* Pantycelyn. Trefn gariadus yw. Beth, felly, sy'n gyffredin rhwng thema 'Golwg ar Deyrnas Crist' a 'Theomemphus'? Yn yr ymchwil am drefn rhag anhrefn neu drwy anhrefn, fe geir llu o rwystrau o bob math sy'n mynegi'r gelyn anhrefnol. Ond ym man canol y thema, yr Ego Trosgynnol yw'r rhwystr hanfodol, balchder a hunanoldeb a thwprdra anwybodaeth, a marwolaeth ysbryd yr Ego. Yn y bôn, yr un rhwystr yw pob rhwystr, o'i ddiffinio yn ôl ei bwrpas. A'r un drefn sydd — perthynas iach rhwng dyn a Duw, sy'n darddiad i berthynas dyn â'i gilydd, dyn â'r greadigaeth. Y Gomedi ddwyfol (yn ôl terminoleg Dante) yw dod o hyd i'r drefn ddiogel honno. Y drasiedi ddynol yw methu. Y Gomedi ddwyfol yw'r thema ganolog i waith Pantycelyn: mae'n sylfaen gynddelwaidd i bob llenyddiaeth. Amrywebu personol, gweithredol, ac amgylcheddol yw'r hyn sy'n gwahaniaethu neu'n gwyro o fewn y thema honno. Canfu Williams, felly, yn hyn o dasg, thema lywodraethol dynoliaeth.

Sôn am thema gynddelwaidd ganolog i ddynoliaeth yr wyf yn y fan hon. A rhaid rhybuddio rhag symleiddio a rhag anghofio bod hon yn cael ei hamodi a'i chyflyru yn gyntaf gan yr holl hierarci a arweiniodd ati, wedyn gan y Metanaratif, ac yna gan amgylchiadau Mynegiant ar y pryd. Mewn hierarci, sôn yr ym yn bennaf am safleoedd a chyfeiriad y ddeinameg: dyna'r hyn sy'n gyffredin i'r Cristion ac i'r anghredadun. Ond yr un yw'r gwth.

Gellid mapio'r thema fel hyn: i Bantycelyn:

Absoliwt → trefn → gwahanu

Anhrefn → ceisio'r adferiad a gynigir → Llwyddiant Absoliwt (mewn uno)

Mae'r gair arweiniol (â llythyren fawr) 'Absoliwt' yn rhoi ac yn diffinio cyd-destun i'r holl thema. Mae hyn yn arwain at ganlyniad o fewn yr un dimensiwn.

Pan symuder at thema'r anghredadun, ar y llaw arall, cedwir yr un safleoedd a'r un ddeinameg. Cedwir y fframwaith thematig, mae'n wir. Ond dechreuir mewn ansawdd gwahanol, ac yna gorffennir yn yr un dimensiwn meidrol, boed yn fethiannus neu'n 'llwyddiannus' o fewn safonau'r dimensiwn hwnnw. Ceir amryweb arwyddocaol. Lle y mae'r Cristion yn synied am Absoliwt, bydd yr anghredadun yn synied am absoliwt cysgodol gwag yn yr un lle: yr Ego Trosgynnol. Dilynir hyn gan Arfaeth neu drefn ddynol; ond oherwydd natur yr Absoliwt, y mae hynny'n newid ansawdd y weledigaeth honno. Pan sonnir am gynllwyn neu gynnwys Arfaeth, y mae aruthredd meddwl Duw, y dyfnderoedd a'r

cymhlethdod dihybydd a thragwyddol, yn gorfod bod yn gywreinder ymhell y tu hwnt i dipyn anwybodaeth dyn ynghylch y DNA y dyddiau hyn, a'r tu hwnt i 'lawnder' presennol y galaethau, ac yn y blaen. Yng ngoleuni'r tragwyddol, mae dimensiwn y gwahanu a'r anhrefn, yr adferiad a'r llwyddiant neu'r methiant (mawr) oll yn ymddangos ym maes yr anghredadun — er creuloned y dyfarniad — megis chwarae plant ac ymffrost hurt galluoedd dyn, megis baban yn sgrechian yn ei bwysigrwydd. Sut y gall y corff a'r meddwl a'r ysbryd meidrol ddal arwyddocâd yr hollt rhyngddynt a'u Crëwr pur a dihalog?

Daw Themâu Cynddelwaidd cyffredin mewn llenyddiaeth — hela, chwilio, caru, iacháu, brwydro — megis pumed cam yn yr Hierarci yr ydym eisoes wedi bod yn ei hamlinellu. Tyfant allan o'r Sfferau Ystyr sy'n darparu'r sylwedd a'r amgylchfyd ar eu cyfer. Y Sffêr gynhenid gyntaf a nodwyd gennym yn rhagarweiniol ac yn drawsgyfeiriol o ran ystyr wedi'r Ddibyniaeth anedig, sef Sffêr ddomestig (y teulu a'r cartref), oedd y Sffêr gyntaf a ddysgwyd, yr un a ddiffiniodd neu a sefydlodd gysyniad Sffêr fel y cyfryw i'r plentyn. Ond y mae pob un o'r Sfferau yn eu tro, o ran egwyddor, yn gallu darparu amgylchfyd amser a lle i'r themâu a fabwysiedir bellach. Yn y Cymhellion a'r Archgyfundrefnau cynhenid uwchben y Sfferau y deuir o hyd i amodwyr themâu naratif, a'r grym sy'n gyrru thema fel y cyfan drwy'r Sfferau.

Yr ysfa am Drefn gariadus (hyd yn oed am Gyfundrefn) yw'r un ganolog a chyson. Dyna'r gwir, beth bynnag y bo'r amgylchiadau rhwng dyn a dyn, (cymdeithaseg), neu o fewn iechyd personol (bioleg), yn undod y teulu (seicoleg), neu ynteu yn y Mwynhad (diwinyddol). Ac yn y Themâu cynddelwaidd a enwasom mewn amgylchiadau Mynegiant y deuir o hyd i'r rhamant a'r stori dditectif a'r cyfresi teledu am ysbytai, a'r teithio oll. A cheir ysfa o hyd i adfer y canlyniad, i sefydlu'r Undod priodol i'r Amryw. Rhan o hyn oll yw Mawl (boed i Dywysog neu i Natur neu i Ferch), gorseddu gwerthoedd a chyflawni'r dibenion trefnus bywyd. O ganlyniad hefyd bydd ymchwil a helpa, carwriaeth a brwydro, adfer iechyd meddygol a choncro anawsterau natur, oll yn tarddu o'r ysfa ganolog hon am drefn neu gyfanrwydd i ddarparu cyfeiriadau ystyrllon mewn naratif ac i drechu rhwystrau. Dyma rai o'r Themâu Cynddelwaidd sy'n tarddu o'r hierarci unol y buwyd yn eu disgrifio drwy gydol yr astudiaeth hon. Dyna'r Themâu a oleddfir gan Bantycelyn ac a geir gan yr Archgyfundrefnau neu Ragdybiau, Gwerth a Bod, uwch eu pen. Nid creu Bod heb berthynas a wnaeth Duw.

Yn nhermau ieithyddol Guillaume, yr hyn y bu Iaith yn ei wneud oedd ceisio trefn yng nghanol cythrwbl ('turbulence'). A dibyniaeth ('incidence' yw term Guillaume) ydyw calon y drefn honno: sef un elfen yn dibynnu (rhoi ffydd) ar elfen arall tan greu undod. Hyn yw calon themâu llenyddol. Yn nhermau diwinyddol Pantycelyn, y Cwmp yw'r cythrwbl, yr

Arfaeth yw'r drefn, a Dibyniaeth ffydd yn y cyd-destun yna yw mam y cymhellion oll. Hi yw'r cwlwm hanfodol rhwng dau, a rhwng yr un a'r amryw, calon trefn.

*

*

*

Ymdriniaeth B. Tomasiefsci 1925 ('Thématique' a ailgyhoeddwyd yn *Théorie de la littérature*, T.Todorov, 1965) oedd yr ysgrif arloesol ar Themateg. Mae ef yn y fan yna yn hawlio mai'r syniad cyffredin neu'r egwyddor unol mewn strwythur ffuglennol oedd y thema. Mae thema hefyd, wrth gwrs, yn dynodi symudiad syniadol sylweddol mewn trafodaeth. Syniadaeth ddatblygol o fewn Sffêr yw Thema.

Fe ddilynwyd Tomasiefsci yn bennaf gan V. Sclofsci a B. Eichenbaum. O'u blaen hwy yr oedd Vladimir Propp yn 20au'r ugeinfed ganrif wedi arloesi ym maes strwythuraeth storïol. A'i deulu deallol ef oedd Greimas, Bremond a Todorof.

Parhaodd y Ffurfiolwyr neu'r Strwythurwyr eu gwaith i mewn i ddechrau'r 70au, pryd y cafwyd tro go anffodus. A gellid rhoi bys, dybiaf i, ar union bwynt dechreuol yr ymddatodiad. Trowyd oddi wrth *Un/Amryw* at *Amryw* yn unig. Dadleuais o'r blaen mai *gwahuno* yw sylfaen hanfodol a digwafers deall ac mai hynny sy'n darparu ffurf iaith a llên. Hynny sy'n caniatáu bodolaeth a bywyd ymarferol. Ond ceisiwyd bellach orseddu *Amryw* amddifad neu ddiffyg perthynas (o ran hwyl weithiau gan yr *avant garde* diweddar — triwn y liwt yna!), nid oherwydd unrhyw gymhelliad deallol, rhesymol, nac ieithyddol, eithr yn syml fel math o her lencynnaidd, 'newydd-deb' ffug peiriannol, dogma honedig 'wreiddiol' gwallgofrwydd ffasiynol hoffus. Neu felly yr ymddengys yng ngolau dydd. Mewn gair, trendiaeth, a droes yn wrth-thematig wneuthuredig. Hynny yw, nid gwyddor ddifrifol neu astudiaeth academiaidd gyfrifol oedd hyn mwyach, ond ymgyrch emosiynol neu ragdyb ddiwinyddol. Troesant 'gwahanu amddifad' yn ideoleg 'gwah-' yn erbyn 'uno'.

Dyma thema nodweddiadol Ôl-foderniaeth. Dyna'r cyd-destun i'n darlleniad o Bantycelyn yn nechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Mewn gwirionedd, ffug lencynnaidd oedd osgoi'r ymateb dynol cynhenid i ffurf angenrheidiol iaith a thestun. Mae ymateb dynol cyflawn yn anochel geisio dod o hyd i synnwyr cyson, yn ogystal ag i amrywiaeth, hyd yn oed mewn cerdd ddadäistig hollol ddrylliedig. Dyna'r ffordd y mae'r meddwl dynol naturiol yn gorfod tueddu, er mwyn deall, er mwyn byw. A'r gwir oedd, wrth orseddu damweinioldeb, y neidiai'r Ôl-foderniaid dros ben y dystiolaeth gyfundrefnol gynhenid am iaith a llên, *cysondeb/anghysondeb, un/amryw*. Mynnent ddogma amhenderfynoldeb a drylliadaeth drwy naid yr afreswm dihangol. Caent gysur trendi mewn chwalfa ystyr, yn ddiau, ond ar draul natur iaith a deall eu hun. Caent ymdeimlad o rym. Gellid mwynhau chwaraeon parti Derrida, Lacan, Foucault, a Barthes,

efallai, hyd nes y sylweddolir mai'r un gêm drosodd a thro a chwaraeir o hyd. Maent yn gyson yn dibynnu ar eu hanghysondeb, yn lle cydnabod eu bod yn gorfod wrth wneud hynny drafod cysondeb yn ogystal ag anghysondeb, y cwmp a'r ateb. Oni ddangosodd Wittgenstein ei hun fod amheuaeth yn dibynnu ar sicrwydd?

Ceisiwyd mewn Beirniadaeth Gyfansawdd roi bys ar y bwlech yn y ddelwedd ddrylliog hon, drwy dynnu sylw at anocheledd Tafod mewn iaith a llên. Trafferth strwythurwyr yn fynych yn y saithdegau, gwaetha'r modd, ac Ôl-fodernwyr bob amser, oedd naill ai anwybyddu arwyddocâd Tafod, neu ei gymysgu â Mynegiant, heb ganfod natur eu perthynas. Cyfundrefn oedd hanfod Thema hefyd.

Felly y mae hi'n sicr, yn achos *Theomemphus*. Er ein bod yn dilyn un rhediad, un thema, a honno'n dilyn hynt un cymeriad drwy drybini ei wacter duwiol a'i ddiffyg adnabyddiaeth o'r Creawdwr, fe'i dilynir drwy'r datguddiad a'r darganfod a'r deall ymlaen tua pherthynas lawen a gogoneddus. Eto, nid un yn unig sydd yma chwaith wrth gwrs, nid un person, nid un daith, nid un sefyllfa seml a chyntefig elfennaidd. Ond pawb a phopeth. Symudir o'r arbennig unig i'r cyffredinol llawn. Un arall. Ac ni edy Williams inni fodloni ar yr arwyneb. Yn y dadleuon, myn ef ein gosod yng nghyd-destun yr Ymoleuo, ac ateb yr Oleuedigaeth i hynny. Hyn a rydd berthnasoldeb y gerdd i'n cyfnod ni, a phriodoledau cyffredinol parhaol y gerdd yn syniadol. Ni edy i'r Ymoleuo ddianc yn ddianaf wrth i hwnnw, yn drosgynnol ddi-reswm ac yn oruwch-empeiraidd, hawlio'r trydydd ffactor yn fetaffisegol yn y triawd 1. rheswm / 2. synhwyrâu / 3. dim arall. Yr Ego Trosgynnol yw enw cywir y trydydd i'r Ymoleuo.

Ceir brwydr fythol rhwng 'pethau' ysbrydol, rhwng yr hyn sydd yn y golwg (y ffenomenau, yr ymddangosiadol) a'r hyn sydd yr un pryd o'r golwg. O leiaf, ceir brwydr pan honnir bod y goruwchnaturiol yn wedd ar *ymwybod* rhai, a'r gwadiad yn wedd ar *ymwybod* rhai eraill.

Thema gyson gan Bantycelyn yw'r ymrafael rhwng y gweledig a'r Anweledig — try at Archgyfundrefnau yn thema. Fe'i gwna yn fynych.

Sylwer ar Ffenomenoleg, er enghraifft, theori ffasiynol a fabwysiadodd ambell un yng Nghymru (hyd yn oed un o 'sêr' y Cynulliad). Edmund Husserl, tad y theori, a honna nad oedd dim y gellid bod yn 'sicr' ohono ond ein hymwybod ni ein hun o'r byd. Yr oedd yn *sicr* o'r egwyddor honno, sylwer. Ar ba sail? Hawdd ar yr wyneb ddeall yn ddynol y fath ddamcaniaeth fewnblyg â'r Ego Trosgynnol. Ond wrth gwrs, heb fod yna 'Dafod' cyfatebol mewn un person i 'Dafod' ym meddwl person arall, ni cheid cyfathrebu'r fath osodiad rhwng pobl. Yn wir, pe nad arhosai'r Tafod cymdeithasol hwnnw yn weddol gyson a chyffredinol

yn y naill feddwl a'r llall, ac yn ein hymwybod ein hun ynghyd ag ymwybod rhywun arall dros gyfnod o amser, ni cheid deall chwaith. Hynny yw, o'r golwg yn ymennydd siaradwr Cymraeg arall, yr un pryd gellid bod yn weddol sicr fod yna ryw wedd ar ramadeg tebyg i'r hyn a ddefnyddiaf i nawr yn drech na'r Ego. Nid ynys o unigolyn yw darlennydd chwaith, ond perthynas. Nid ymwybod amddifad unigolyddol mohono. Nid oes gan yr ymwybod chwaith fodd i gywir wadu ymwybod ysbrydol neb arall.

Tuedda Ffenomenoleg (a Beirniadaeth Ymateb-Darlennydd, ei merch fach) i grynhoi sylw ar Fyngiant, ac i dybied mai drwy'r gwaith penodol hwnnw *ar y pryd* yn unig yr adeiledir ym meddwl rhywun arall feddylwaith y darlennydd ei hun. Ond gŵyr y sawl sy'n darllen englyn, dyweder, y gall darlennydd feddu eisoes ar ramadeg ac o bosib ar wybodaeth oddefol lydan ac amlochrog am Gerdd Dafod, ar wahân ac ar gyfer llenyddweithiau eraill yn gyffredinol. Ni raid i bopeth yn y cefndir hwn ddigwydd ar y pryd mewn 'ymateb'. Nid yw englyn unigol yn cynhyrchu profiad penodol unigryw yn gyflawn *ar y pryd* o'r dechrau i'r diwedd: cymryd un rhan mewn cymdeithas barhaol o brofiad a wna, mewn Metanaratif o Ffurf a Deunydd. Erys realiti'i ffurf gyffredinol ar gyfer pryd arall.

Ond byddai Pantycelyn, a Christnogion y Seiadau, yn mynd ymhellach. Mae pob darlennydd Cristnogol yn dod â llwyth o weledigaeth ac ymwybod sy'n gyffredin rhyngddo a meddwl yr awdur, ac â rhagfyngiant y Datguddiad Beiblaidd. Dyma'u Metanaratif. Mae gan y naill a'r llall, y darlennydd a'r awdur, bechod gwreiddiol yn ei ymwybod. Hynny yw, maent ill dau yn dechrau bywyd yn ysbrydol farw. Maent eisoes wedi'u geni unwaith ac yn medru darllen iaith. Meddant ar *sensus divinitatis* ac ar gydwbybod, ar fywyd, ac ar ysfa am drefn. Rhannant ddynoliaeth. Ond profasant enedigaeth ysbrydol newydd. Byddai dadadeiladwr yntau'n cydnabod bod gennym ymwybod o wahaniaeth ac o unigrywiaeth, ond heb sylwi'n ddigonol ar sefydlogrwydd neu gysondeb hanfodol y sefyllfa ddynol nac ar ei photensial. Lle y bu'r Beirniad Newydd yn y tridegau yn ceisio'r undod mewn gwaith llenyddol, ddi'r Dadadeiladwr yn y saithdegau i geisio'r lluosedd a'r amhenderfyniaeth. Ond daw'r Beirniad Cyfansawdd yntau yn yr unfed ganrif ar hugain i gydnabod y naill wth a'r llall; ynghyd ag archwilio'r Cymhelliad.

Mewn gwirionedd, Metanaratif a sylfaenwyd ar ragdyb au oedd Ffenomenoleg.

Yr wyf yn ystyried, er hynny, fod un wedd ar Feirniadaeth Ymateb Darlennydd a blediwyd gan Wolfgang Iser megis yn *Y Weithred o Ddarllen* (1978) yn cyffwrdd yn arwyddocaol i ryw raddau â'r math o theori gyfansawdd a drafodais i ym *Meddwl y Gynghanedd* (yn benodol yn yr adran ar Gyfundrefneg) lle yr arddangosaf sut y datblygwyd Cynghanedd yn gyfundrefn newydd allan o gyfundrefn yr Ogyghanedd drwy drawsffurfiad

sythwelediadol, o *gestalt* i *gestalt*. Priodol yw cofio nad mynd o fwch i fwch yw hynny, er bod yna elfen o ysfa i gyfannu. Y gwahaniaeth dwfn rhwng y Safbwynt *gestalt* ar ran Iser a'r safbwynt cyfansawdd a arddelaf i yw bod a wnelo'r ail â llawnder natur Tafod, Cymhelliad, a Mynegiant. Ymgyfyngu yw ymagwedd Ôl-foderniaeth at ei gilydd, yn gyson mae arnaf ofn. Dyna'i phenderfynoldeb.

Gellid synied efallai fod beirniad strwythurol yn dod at lenyddiaeth gyda rhagdybiau rhy barod. Ond byddai beirniad cyfansawdd yn hawlio — oes, mae yna gyfundrefnau parod yn dy ben di, yn fy mhen i. Eto, oherwydd mai Mynegiant yw porthladd cyntaf y beirniad cyfansawdd, mae'n angori'n gyntaf yn amryfaldeb y testun. Mae'n dilyn y themâu sydd o fewn y testun hwnnw lle bynnag yr arweiniant. Caeedig (neu gymedrol gaeedig) yw Tafod: agored (neu gymedrol agored) yw Mynegiant. Mae angen y naill ar y llall. A gellir dygymod felly â gwrthddywediad ac undod, afreoleidd-dra a deddf; ffrithiant a chlasuroldeb, a ffurfiolaeth unigol a'r cymdeithasol. Yn wir, cyfanrwydd dynoldeb yw'r hyn a wyneba pob beirniad, er nad yw pobun yn barod i'w ymarfer. A hynny hefyd a wyneba Beirniad Cyfansawdd. Dyna'r rhannau yn y cyfan. Dyna'r ddeinameg mewn thema. Ni chaeir yr un thema o ran sffêr na strwythur rhag y llenor Cristnogol.

Strwythur y prif themâu neu'r themâu cynhaliol ym Mynegiant llenyddiaeth, dyna'r hyn sydd mewn golwg wrth imi sôn am gyfundrefnau thematig. Dyna'r llinynnau sy'n tueddu i ddal rhediadau llawn ddatblygedig wrth ei gilydd. Gellir cael themâu unigol, neu gyfundrefnau eraill mwy 'lleol' (megis motiffau e.e. neu drosiadau) nad ydynt mor gynhenid ddatblygedig o fewn llenyddiaeth. Ond gellir sylweddoli hefyd weithiau fod un gyfundrefn thematig yn amgylchu a chyfannu'r llenyddwaith yn llawn, neu ddarnau helaeth ohono, o leiaf. Thema o fath hefyd, gydlynol weithiau, sydd wrth raid o fewn pob un o'r Sfferau Sofran Deddfog (dyna yw'r Thema Gyfundrefnol Arweiniol). Ac y mae wedi'i threfnu gan y clwstwr cyfan o Archgyfundrefnau.

Ond beth sy'n gwneud thema yn 'gyfundrefnol' o gwbl? Rhaid i'r defnydd gael ei amodi'n unol â'i strwythurau'n gyflawn gydlynol, yn rhannau mewn cyfan. Mewn un neu fwy o'r *Sfferau Deunydd*. Rhaid hefyd iddo gydymffurfio ag amodau'r holl Archgyfundrefnau felly uwch ei phen, ac yn bennaf gan Amryw yn Un. Felly y mae hi yn achos y ddwy thema gyfundrefnol gynhaliol y mae Pantycelyn wedi'u darpar i ni yn ei arwrgerddi, ac y rhown y sylw pennaf yn enghreifftiol iddynt: Arfaeth a Gwardigaeth (neu Gyfiawnhad/Sancteiddhad); Creu/Cwymp/Codi.

Peth arall sy'n cyflyru themateg o ran Deunydd yw'r *Metanaratif* sy'n digwydd ar y pryd. Er enghraifft, fel y gwelsom, am ychydig o flynyddoedd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif,

cafwyd gormes Metanaratif Ôl-foderniaeth a pheth rhagfarn yn erbyn yr Ymoleuo. O fewn meddwl Pantycelyn yntau, mi gaed tyndra rhwng dau Fetanaratif, sef Goleuedigaeth (nid Ymoleuo) a Rhamantiaeth Ddemocrataidd. Dyna un sefyllfa gefndirol o leiaf, i adeiladwaith ei themateg. Cyfundrefneg resymegol oedd rhan bwysig o ansawdd yr Oleuedigaeth a wybu Williams. Darparai'r Oleuedigaeth iddo thema ymbarél gyflawn: darparai Rhamantiaeth iddo themâu unigol lleol serchiadol.

* * *

Y trydydd peth sy'n cyflyru Themateg Gyfundrefnol yw'i lleoliad hi yn *Hierarci Deall*. Gwelsom fel y gellid cynilo llwybr fertigol Pantycelyn mwyach o'r Absoliwt i lawr hyd at y Motiff drwy chwe haenen ac un llinyn euraid: sef

- I. Absoliwt/Arfaeth
- II. Bod/bod a Bod/gwneud (Archgyfundrefnau)
- III. Sffêr Deunydd: Ffydd (yn bennaf yn achos Pantycelyn)
- IV. Metanaratif (Goleuedigaeth/Ymoleuo)
- V. Thema: Perthynas ddeinamig drwy botensial ffurf — Arwr / Digwyddiad / Amgylchfyd neu Wrthrych [h.y. mae gan themâu drwy'r Rhannau Ymadrodd Thematig yr un adeiladwaith â'r stori]: Taith; Cariad.
- VI. Motiff: Arwr / Digwyddiad / Amgylchfyd [h.y. mae gan fotiff yr un *adeiladwaith* canolog â'r Ymadrodd a'r Frawddeg]: Gweithred unigol yn fwriad.

Saif y *Thema* yng nghanol y Thema-genesis ymarferol, o fewn Sffêr Deunydd, ac mae'n esgor ar Fotiffau mewn Mynegiant. Mae'r safle a'r amgylchfyd yn yr Hierarci yma yn amodi'r themâu, yn fertigol ac yn llorwedd ac yn rhoi iddynt eu *Bodolaeth*. Hynny yw, dyma un arall o'r dolennau cydiol rhwng Williams a'i gyfoeswyr seciwlar. *Natur* hynny a'u gwahaniaetha, sef lliw personol eu Metanaratif.

Yn y bumed haenen, ac yn llorwedd yn y gyfundrefn fynegol, fe ddadleuwn i fod Thema yn meddu ar yr un drefn gyfundrefnol driol â Naratif: *Goddrych/Gweithredu/ Modd Amgylchfyd*.

Wrth droi o Dafod neu Strwythuraeth hanfodol Llenyddiaeth tua'r Deunydd neu'r Mynegiant, mae'n briodol cofio bod Cyd-destun tymhorol, y ffasiynau meddwl cyfoes, a'r amgylchfyd syniadol llywodraethol (Metanaratif) yn cyflyru'r llenor unigol a llenyddiaeth yn gyffredinol, yn negyddol ac yn gadarnhaol. Yn yr astudiaeth enwog *Williams Pantycelyn*, gan Saunders Lewis, y mae'r awdur yn neilltuo pennod gyfan i drafod Rhamantiaeth. Dyma, yn ei

fryd ef, oedd y mudiad a oedd yn dechrau brigo i'r golwg yng Nghymru ac yn rhan bwysig o feddylfryd Pantycelyn ar y pryd. Ond i raddau, adwaith oedd honno yn erbyn Rhesymoliaeth. Rhagflaenai'r Ymoleuo Ramantiaeth o ran Cymhelliad negyddol. Ac i Bantycelyn, mynnai le i'r synhwyrau a rheswm yn thema perthynas y Cristion a'r Duw-ddyn; mynnai ryddid iddo gael mynedfa uniongyrchol i'w undeb â Christ, rhoddai fuddugoliaeth yn nherfyn ei deithiau.

Ym mryd theorïwyr ôl-fodernaidd diweddar, yr hyn a gysylltir â'r ddeunawfed ganrif fel math o Fetanaratif i'w gynnal (dyweder ym marn Habermas), neu i adweithio yn ei erbyn (ym mryd Lyotard) yw'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*). Mae a wnelo perthynas yr Ymoleuo a'r Oleuedigaeth â rhagdybiau thematig go bwysig i Bantycelyn, ac â pherthynas y gwrthrychol a'r goddrychol. Mae ganddynt ill dau gyffelyb strwythur o waith Gras Cyffredinol.

Wrth symud fel hyn drwy'r hierarci, o'r Sfferau Deunydd (a'u prif gyfundrefnau), sef bodolaeth y gwahanol foddau ar y Greadigaeth, i lawr i'r Themâu Cyfundrefnol mwy cyffredin benodol, ac i lawr eto, fe symudir o Dafod i Fynegiant, o'r Cyffredinol i'r Arbennig, o'r Cyflwr drwy'r Broses.

Adnoddau cyffredinol a chymharol sefydlog yw'r Sfferau, ac y mae gan bob un ei chyfundrefn ddiffiniol ei hun. Symudir hefyd, felly, o Sfferau i Ffwythiannau mewn Mynegiant. Cyfyngedig yw'r nifer o Sfferau. Y mae'r Ffwythiannau (megis y Motiffau) fel petaent yn ddiderfyn. Dyma felly symud o Ddeunydd diffiniol i Ddeunydd gweithredol agored. Ac agorir felly y llwybr i Themateg. Wrth i Thema yn y meddwl droi'n Fynegiant thematig gweithredol ac yn Gynllwyn, symudir o'r mewnol i'r allanol.

A beth yw'r 'gwneud' a wna'r Mynegiant? Fe ddadleuwn mai symud a wna oddi wrth y syniad; ac edrydd am ddigwyddiad; disgrifia ddeinameg 'peth' neu gymeriad; mynega deimlad. Diriaetha.

Eto, ffurfiau digon realistig sy'n gwneud safleoedd Tafod. Brawddegau a lunnir ag Arwyddiannau (geiriau) sy'n gwneud Mynegiant. (Arwyddiannau yw'r lluosog i Arwyddiant = Arwydd (Sain) + Arwyddedig (Ystyr).) Rhan ymadrodd yw pob gair yn ramadegol. A llunnir y frawddeg normal gnewyllog gyflawnaaf yn ôl perthynas ffurfiol y Rhannau Ymadrodd Traethiadol:

<i>Enw</i>	<i>Berf/Ansoddair</i>	<i>'Adferf'</i> (o bosib, gwrthrych)
Hunan-ddibynnol	dibyniaeth, y radd gyntaf	o ran perthynas dibyniaeth yr ail radd

Dyma fel y gwelsom y ffurf hanfodol a'r strwythur ffeithiol ar gyfer y Stori mewn Theori Gyfansawdd. Ac ar ryw olwg, chwilio am 'Stori' neu am Drafodaeth Syniadol

ddatblygol y bydd y sawl sy'n ceisio mewn un o'r Sfferau Deddfog Deunydd adnabod y gyfundrefn thematig. Dyna a wnawn ninnau yn awr wrth chwilota yn sffêr Diwinyddiaeth (neu Ffydd) am y Symudiadau ystyrol. Stori oedd y Rhagluniaeth a'r Creu (*Golwg*): stori hefyd y Waredigaeth (*Theomemphus*).

*

*

*

Yn nesaf at Semantem-genesis (cynhyrchu dosbarth deall), mae themâu yn perthyn i'r ail fudiad mewn deall, ac yng Nghyfundrefn Thema-genesis (cynhyrchu themateg deall). Yn y symudiad cyntaf, eir o'r Cyffredinol (y bydysawd o syniadau) tuag at yr Arbennig (sef y lecsem neu'r semantem). Ceir gwth tuag at ddosbarthu a chategoreiddio, cyn cyrraedd y gair neu'r uned ddeall leiaf ac unigol. Hanner ffordd rhwng y bydysawd o syniadau a'r semantem ceir y Sfferau o Ystyr. Ond yr ail symudiad yw Thema-genesis. Dyma'r symudiad meddyliol o'r Arbennig (themem) i'r Cyffredinol (thema). Mae yna lawer yn digwydd yn y fan hon. Ond un datblygiad mewn twf ieithyddol o bwys mawr yw haniaethu. Un o gampau'r meddwl dynol, — er i'r Rhamantwyr brofi'n nerfus ynghylch hyn, ond nid Pantycelyn, — oedd y gair '*haniaethol*'. Y mae i'r gair '*haniaethol*' safle anrhydeddus ym maes Themateg. Gall grynhoi natur thema: mewn geiriau megis Sancteiddhad, Cenfigen, Cariad aeddfed, Hiraeth. Dyna rai o haniaethau thematig Pantycelyn. Fe'u ceir mewn gweithredoedd diriaethol.

Olynydd arall sy'n perthyn i'r gwth haniaethu a chyffredinoli hwn ar ystyr yw'r Alegori a'r *Trosiad*, mater arall o gryn bwys i Bantycelyn. Yr hyn sy'n digwydd i iaith wrth drosiadu (fel y cawn weld ymhellach ymlaen) yw bod y gair arbennig (y lecsem) yn cael ei ddadansoddi'n ôl ei hanfodion (semantemau). Gelwir yr uned 'leiaf' o ystyr o fewn gair (Lecsem) yn Semantem. Dyweder mai *Oen Duw yw Iesu Grist*: ynddo Ef, mae yna hefyd aberth gwaed, mae yna lendid di-nam, mae yna addfwynder — felly yn yr oen cyffredin hefyd. Dyna semantemau cyffredin perthynol. Ond ceir gwahaniaethau hefyd. Anifail bach diymadferth yw 'oen': Duw-ddyn hollalluog yw Crist. Hynny yw, *cyfundrefn yw trosiad lle y ceir gwahaniaeth + undod*. Ond ceir unedau ystyr hefyd — semantemau sy'n haniaethau — ac sy'n uniaethu dwy lecsem neu fwy.

Yn drydydd, o fewn Thema-genesis, haniaethir y Thema yn strwythurol (megis yr haniaethir ymadrodd mewn iaith yn Rhannau Ymadrodd Traethiadol: Enw/Berf/Adferf; yn Rhannau Ymadrodd Cyffredinol i bob Thema: sef 1. Arwr (neu Oddrych) / 2. Gweithred neu Digwyddiad / 3. Amgylchfyd Moddol.) [Dylwn ddweud: ceir yng ngwraidd y cyswllt rhwng y ddau symudiad, sef yn yr Arbennig mewn iaith plant, lecsem sy'n ymddwyn fel 'peth', heb ddatblygu'n rhan ymadrodd eto yn yr iaith aeddfed mewn brawddeg ddwy elfen].

*

*

*

Soniais o'r blaen, gan fod a wnelo'r gyfrol hon i raddau â meddwl cyfundrefnol Pantycelyn — *Y Cynllun sy'n Canu* — y mae a wnelo hefyd mewn gwirionedd â'i ffordd ef o sylweddoli'r hyn a elwir, yn draddodiadol, yn 'Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol'. Mae yna gysylltiad rhwng y naill a'r llall. Ond nid yr un ydynt. Tuedda Diwinyddiaeth Gyfundrefnol i restru a thrafod themâu fesul un. Galwaf y dull a olrheiniad yn y gyfrol hon, am fod a wnelo yn bennaf â pherthynas yr Absoliwt a'i Arfaeth, yn Ddiwinyddiaeth Gyfansawdd.

Nid rhestr daclus, yn syml, o athrawiaethau Cristnogol yw Diwinyddiaeth Gyfansawdd, fel y deallaf i'r Wyddor, ond cydlynid o athrawiaethau olynol neu berthynol lle y mae i bob athrawiaeth ei safle adeileddol a hierarcaidd o fewn y cyfanwaith unol, yn Ffurf a Deunydd. Cyfundrefn o gyfundrefnau hierarcaidd yw gyda pherthynas arbennig rhwng y lefelau. Dyna fy mhwyslais i: yr undod deinamig. Nid y rhestr. Mewn Diwinyddiaeth Gyfansawdd, sy'n arwain at fotiffau a gweithredoedd unigol, canfyddwn lefelau lleoledig yn eu tro a dry'n awr yn 'Gymeriadau', yn 'Weithredoedd' ac yn 'Amgylchfyd' mewn Themateg, yn ôl olyniaeth na ddeallir ei harwyddocâd onid y tu mewn iddi'i hun: hynny yw, mewn Cyfundrefn o gyfundrefnau:

1. Penarglwyddiaeth yr *Absoliwt* o ran safle.

Dyna'r Cydlynid, hynny yw yr Un sy'n uno ac yn cwmpasu pob dim. Dyna'r Un nad oes yr un o'i flaen y cyfeirir yn ôl ato ac y cyfeirir ymlaen ato, y dechrau a'r diwedd. Tarddiad, cwmpasydd, a diben pob bodolaeth ac ystyr. Meddwl yr Absoliwt hwn (a'i weithredoedd) yw'r Arfaeth. Y Gwir.

2. *Archgyfundrefnau* Ffurf (greedig)

Dyna'r gweddau llywodraethol, sydd yn 'ffurf' yn yr Absoliwt, ac a adlewyrchir neu a argreffir ar feddwl a gweithredoedd. Dosbarthwn y rhain yn gyd-bresennol bob amser ym mhob man. Y cysyniad am y rhain sy'n amodi pob Deunydd. Cyfundrefnau ydynt a roddir: cynnyrch cynllun yr Absoliwt.

3. Dosbarthiad ar *Ddeunydd* (Mater): Mae dosbarthiad Deunydd y Greadigaeth yn ffaith mewn Mynegiant hefyd ar ffurf *Sfferau*. Strwythur ffwythiannol yw'r dirfodi cyntaf. Mae'n sylwedd sy'n bod mewn gofod ac amser.

4. Try'r dosbarthiad ar *Ddeunydd* yn *Themâu* ar waith mewn Cyn-fynegiant drwy'r cyfuniad Enw/Berf/Adferf ynghyd â'r dolennau geiriol, sef y Rhannau Ymadrodd Trawdraethiadol — cysylltir arddodiad, rhagenw, isferf, bannod. Cyfundrefnau Deunydd, i'm barn i, yw'r awgrym fod yr Absoliwt yn gyntaf yn llywodraethu ar Ffurf sy'n amodi'r Deunyddiau, er mai drwy Ddeunydd yr adnabyddir Ffurf. Hynny yw, try 1x2x3 yn 4.

5. Mynegir y rhain yn *Fotiffau* yn derfynol: yr unedau ystyr lleiaf; gydag ymarferoldeb y rhan o fewn y cyfanrwydd, enw/berf; gofod/amser.

Ni ‘ddyfeisir’ cyfundrefnau mewn Tafod: darganfyddir hwy. Dyfeisir cyfundrefnau mewn Cyn-fynegiant. Yr wyf am drafod Cyfundrefneg Diwinyddiaeth, gan arwain at faes Diwinyddiaeth gyfansawdd drwy offeryn y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd lawer, – sef Cyfundrefnu. Astudiaeth yw hon felly o natur neu siâp y Gyfundrefneg benodol a gaiff Pantycelyn mewn archwiliad o’r Beibl er mwyn dod o hyd i gydlyniad hierarcaidd awdurdod a chydberthynas y syniadaeth. Dyma hefyd ansawdd y cyflawnder trefnus sy’n peri bod Diwinyddiaeth yn dod at ei gilydd ac yn bosibl o gwbl, ac sy’n peri ei bod yn ‘gyfansawdd’. (Fe’i hitaleiddiaf o’r herwydd.)

Sut y mae’r Gyfundrefneg hon oll yn olyniaeth sy’n cydberthyn?

Rhaid pwysleisio nad fi sy’n cyfundrefnu neu’n creu’r ffurf hon neu’r ffurfiau hyn. Y maent yno eisoes. Am inni symud o gylch Ffurf (Archgyfundrefnau) i gylch Deunydd, ni feddyliwn am Ddeunydd ond yn gyfundrefnol, drwy wahaniaethu a thrwy uno (neu gysoni) effeithiol a thrwy Fynegiant. Ffurf yw sy’n amodi: dyna’r cartref cynhenid. Try’n iaith mewn modd sefydlog, ac ni fyn wneud dim heb ei chyflyru: bellach, Deunydd sy’n ceisio Ffurf. Dadlennu rhywbeth sydd eisoes yn bod yr wyf. Arfaeth. Nid ‘creu’ wnawn Ddiwinyddiaeth Gyfansawdd chwaith. Dyna gamddealltwriaeth ronc. Y peth cyntaf y mae angen ei sylweddoli, mewn theori, am gyfundrefneg Diwinyddiaeth neu Feirniadaeth (fel gramadeg iaith), yw mai rhoddedig yw’r Ffurf. Chwerthinllyd fuasai synied mai ‘lunio’ cyfundrefn disgyrchiant a wnaeth Newton, nac mai Faraday a wnaeth y berthynas rhwng cerrynt trydanol a’i ymddygiad cemegol. Ac mae sôn am ‘lunio’ cyfundrefn Beirniadaeth Gyfansawdd neu Gyfundrefneg Diwinyddiaeth yr un mor wirion, onid ar lefel Mynegiant. Rhaid i bethau gydberthyn eisoes, neu ni byddai na gwyddoniaeth nac iaith na diwinyddiaeth yn bosibl. Yn y Beibl, corfforwyd y drefn, yn ogystal â’i disgrifio, mewn gweithredoedd, mewn disgrifiadau, mewn cyfreithiau, am mai drwy berthnasoedd y crewyd bodolaeth.

Gwelir, drwy’r hyn sydd mewn golwg, yr hyn sydd o’r golwg. Cymerer er enghraifft dri pherson y rhagenw yn Gymraeg, ac adeiladwaith y gyfundrefn bwysig honno o fewn Gramadeg. Nid ‘lunio’ cyfundrefn o’r fath a wna neb, wrth ei defnyddio nac wrth sôn amdani. Dyna gamddeall llwyr eto ar ffaith seml a gweithgaredd dadansoddiad. Nid ‘dehongliad’ yw, yn ôl yr hiraeth rhyddfrydol am beidio â chael un ateb pendant. Gellir ei datgelu neu’i darganfod, neu’n fwy elfennol ei sylweddoli a’i chywiro os oes rhaid.

Defnyddio'r hyn sydd eisoes yn rheidiol fod a wnawn. Ac wrth gwrs, y mae ei hadeiladwaith yn gyflyredig gan yr Archgyfundrefn Ffurfiol Un/Amryw.

Mewn modd tebyg, nid dyfeisio'r Hierarci a wneir, eithr ei darganfod. Ac y mae olyniaeth yr Hierarci sy'n dilyn i lawr o'r Absoliwt i Fotiff creedig a rhagluniol yn y byd yn un o brif themâu Pantycelyn. Dyma'r Cynllun ei hun a fyn ganu'n thematig.

Cymerer Archgyfundrefn *Gweledig/Anweledig* fel y'i ceir eto mewn iaith. Down i gyd wyneb yn wyneb â'r gweledig mewn Mynegiant. Amrywia o berson i berson; ac o funud i funud mae'n synhwyrus amlwg. Ond ni chymer ond ychydig o fyfyrddod i ganfod bod yna y tu ôl iddo, o'r golwg, fecanwaith gweddol sefydlog, rhwng person a pherson, sy'n meddu ar y gallu ystwyth i gynhyrchu brawddegau gan y meddwl cyfundrefnol — sef Tafod, sydd ynghudd ragflaenol yn yr ymennydd. Cyflyrau gwahanol o ran natur yw Tafod a Mynegiant.

Creadur sy'n meddwl drwy gyfundrefnau yw dyn: Gwahanu/Uno. Felly hyd yn oed gyda Deunydd. Gan bob unigolyn fe geir y meddwl trefnus 'cyffredin' ac 'anwahanol' – a'r unigolyddiad creadigol sy'n esgor mewn Mynegiant ar enghreifftiau neu weithredoedd neu frawddegau gwahanol. Nid ni sy'n gwneud nac Arfaeth nac Archgyfundrefnau, felly, mewn nac Iaith na Diwinyddiaeth. Na Sfferau Deunyddiau chwaith. Nid 'fy syniad i' yw cyfundrefn. Yn yr astudiaeth hon yr wyf yn ymwneud â phroses parod sy'n disgrifio (1) adeiladwaith iaith gan gynnwys Tafod, (2) adeiladwaith pob llenyddiaeth (gyda sylw arbennig i leoliad a chydberthynas fewnol Deunydd Pantycelyn), a (3) adeiladwaith diwinyddol. Bid siŵr, nid amlwg barod yw pob cyfundrefn. Gallai'r unigolyn fynd ati weithiau mewn Mynegiant i 'lunio' cyfundrefnau ar y pryd. Yn wir, dyna'r lle y chwilia beirniaid Mynegiant. Ond y tu ôl i'r cyfan hwnnw ceir cynllun trefnol arall lle y chwilia beirniad Cyfansawdd hefyd.

Hyn eto sy'n parhau i adeiladu a mynegi themâu. Brawddegau deunyddiol sy'n ymestyn.

Pan gyrhaeddir Deunydd a'r Sffêr 'Ffydd', gwyddom fod a wnelom, nid yn unig â'r gyfundrefn arweiniol ddiffiniol, ond hefyd â holl themâu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol fel maes eang, fel y'i hamlinellwyd o'r tu mewn i'r athrawiaethau diwygiedig gan ysgolheigion megis Bavinck a Berkhof. Dyma diriogaeth helaeth a thra datblygedig Diwinyddiaeth Glasurol Brotestannaidd. Themâu cyfundrefnol yw asgwrn cefn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol, sydd at ei gilydd heb eu sylweddoli'n gydlynol hierarcaidd: y Benarglwyddiaeth ar y Sfferau Deunydd ar waith yn drefnus.

Gan mai amlinellu fframwaith esgor ar Ddeunydd yw nod yr astudiaeth hon, drwy nodi rhai enghreifftiau ni byddaf yn ceisio trafod hyd yn oed yn gynnil holl rychwant y maes

hwnnw. Ni wneir yma namyn crybwyll ambell thema'n enghreifftiol, a manylu ychydig ar Brif Themâu *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus* a'r emynau yn benodol.

*

*

*

Yn y byd seciwlar, ymhlith theorïwyr llenyddol, cafwyd tipyn mwy o fyfyrion rhyngwladol uwchben Themateg Gyfundrefnol nag a gaed am y Sfferau Deunydd sofran. Ac wrth gwrs, ni chrybwyllwyd Archgyfundrefnau Deall. Yn y gweithgareddau seciwlar, bu diwydrwydd yn y maes mewn dau gyfnod ac mewn dau ranbarth. Fe'i cafwyd yn gyntaf o du Ffurfiolwyr Moscow a Phrag, pobl megis Eichenbaum, Propp, Sclofsci, a Tomasiefsci: digwyddodd hynny yn ail a thrydydd degawd yr ugeinfed ganrif. Ond rhoddwyd taw ar y cyfryw ddwli gan wleidyddion: mae pobl sy'n trafod Ffurf yn beryg bywyd. Wedyn, rhoddodd adeileddwyr Ffrangeg, fel Barthes a Genette a Greimas a Todorof yn y chwedegau a'r saithdegau'n arbennig, eu tro sylwgar hwythau i'r astudiaeth honno.

Er bod hyn oll yn werthfawr hefyd o safbwynt themateg strwythurol i lenyddiaeth grefyddol, megis i lenyddiaeth seciwlar, rhoddwyd cryn sylw penodol i themateg grefyddol ers tro byd mewn ffordd fwy arbenigol. Gellid dadlau mai dyna a fu gan Galfin, yn ei *Gyfundrefneg (Institutes)* a hefyd yn holl draddodiad Diwinyddiaeth Gyfundrefnol Cymru – megis yng Ngeiriadur Charles ac yng ngwaith George Lewis. Ni chafwyd dim tebyg gan seciwlarwyr yn eu lenyddiaeth hwy. Cafwyd gan y Cristnogion werthuso thematig.

Yn wir, tybiaf yn hanesyddol fod yr ymarfer esboniadol, mewn beirniadaeth lenyddol, o ymdrin agos gyda'r 'Darn ei Hun', wedi'i etifeddu gan draddodiad Esboniadaeth Feiblaidd.

Hyn yn ddiau a geid yn gefndir i Bantycelyn. Mae yna gyfoeth o awgrymusedd am y themâu hyn o hyd gan Ddiwinyddion Cyfundrefnol adnabyddus diweddar megis Berkhof, Bavinck, a Hodge. Ond yr wyf i'n mynd i sôn yn bennaf am ddwy thema sylfaenol iawn yng ngwaith Pantycelyn ei hun, sef y ddwy thema a gymerodd ef i fod yn batrwm adeileddol i gynnal dwy arwrgerdd y Diwygiad: datblygiad y Greadigaeth yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, a'r datblygiad o waredigaeth Crist i'r Cristion hyd ei ogoneddiad yn *Theomemphus*. Gan Bantycelyn, gellid dadlau fod yna ddwy ddelwedd benodol sydd ar waith yn fynegiant neu'n gyfeiliant i'r ddwy thema hyn yn ei emynau – cynddelw'r Daith (a'r teithiwr) neu'r ymchwil sy'n arwain tua'r Gogonedd; a chynddelw'r Caru (a'r carwr) sydd eto'n fath o daith ac yn arwain tua'r un Gogonedd. Ar gyfer y naill a'r llall, y daith a'r caru, yr echel arwyddocaol yw tröedigaeth. A'r hyn sy'n digwydd yn gyfundrefnol mewn tröedigaeth yw troi o un dimensiwn i ddimensiwn arall, o'r naturiolaidd amddifad i'r goruwch-naturiolaidd. Edifarheir. Deffroir yr ysbryd.

Gellir yn gyfiawn hawlio bod gwaith pwysicaf Pantycelyn i'w gael mewn dwy ran – sef yn (a) y ddwy arwrgerdd gyda'i gilydd a (b) yn yr Emynau. A dichon fod y dulliau o'u darllen hwy ill dwy, mewn modd cydymdeimladol, yn gyferbyniol wahanol.

Yn achos yr arwrgerddi, golyga ymaflyd yn feddyliol yn y 'llydan' gan symud at y 'cul', sef ymateb i'r cyflawn neu'r crynder cwmpasog a nesáu drwy hynny yn feddyliol at rai o'r rhediadau neu'r llinellau unigol o fewn hynny. Camgymeriad fuasai disgwyl ganddo, mewn cerddi hir, gyfres neu ddilyniant diymatal o delynegion, gyda'r ysbrydoliaeth lachar yn ymgrynhoi'n lleol yn rhibyn afieithus ysgafn neu'n brydferth gryno o gam i gam. Mae llydanrwydd yr ymateb i'r arwrgerddi ar ryw olwg yn adlewyrchu'r ffordd gyfansawdd y caraf feddwl am ymagweddu at waith Williams yn gyffredinol. Mi gredaf mai'r ymagwedd briodol yw ymateb i'r Hierarci feddyliol gynganeddus a chadarn a hardd sy'n cwmpasu ei fyfyrdod datblygedig am fywyd, a thrwy hynny ymsymud yn uchelgeisiol drwy gydol ei waith at y manylion.

Wedi ymarfogi'n ymarferol, troer at symudiad unigol o fewn yr arwrgerdd 'Golwg ar Deyrnas Crist', dyweder, a sylwer ar yr undod rhyfedd a'r modd y mynegir *Crist ym mhob peth*, anferthedd y presenoldeb personol dragwyddol hwnnw drwy holl wead lleol amlochrog a fertigol ei weledigaeth arwrgerddol, bob rhan o'r Greadigaeth. Dyma aruthredd y Duw-ddyn yn pefrio o wedd i wedd drwy'r bydysawd, a chyda Christ yn arwr. Felly, symuder yn feddyliol tuag at y penodau a'r rhannau unigol, o'r cydlyniad llydan at y mwy lleol yn natblygiad llorwedd yr olwg fawr ar Deyrnas Crist, nes ymdeimlo yma ac acw â'r rhediadau mwy manwl byth. Gall y rhain fod yn delynegol hyd yn oed, yn llinellau neu'n ymadroddion trawiadol cynnil, neu'n Fotiffau. Dyna, i mi, yr hyn a hawlia'r arwrgerdd hon.

Gwahanol o ran strwythur thematig ar ryw olwg yw 'Theomemphus' hithau, gyda'r ddau symudiad y tro hwn. Wedi ymbalfalu, drwy rwystrau yn sydyn o'r diwedd, derbynnir y *Cyfiawnhad*, gydag argyhoeddiad eithafol o bechod. Yna, wynebhir cyfres o olygfeydd newydd yn y frwydr wrth ymsymud drwyddi ymhellach allan o anferthedd gafael ei ymerodraeth faterol, tan gael math o ollyngdod i *Sancteiddhad* baglog. Nid oes ymwardd yn llwyr chwaith â'r maglau a'r dryswch a'r temtasiynau tan Ogoniant y diwedd eithaf. Dyma arwrgerdd bersonol felly y ddau symudiad cynyddol flingol, ynghyd â'u Nod.

Yn achos yr emynau, sut bynnag, dechreuwn fel arfer, bob tro yn yr ail safle fel arfer yn Sancteiddhad y mawl, yn unigol, yn gynhesol gryno, grwn. Atgof yw'r cyfiawnhad y diolchir amdano. Mae gan bob emyn mewn Sancteiddhad ei gymeriad a'i genadwri ei hun, efallai'n ymdroi o gylch un ddelwedd benodol, neu o leiaf un rhediad byw myfyriol. Sylwn efallai ar deulu o emynau, y rhediadau go gyson cyd-amrywiol ac ailweol: dyweder, y caneuon serch i

Grist. Ceir un garfan ohonynt yn ei bresenoldeb, sef grŵp y ‘ti’, y telynegion mawl syml, ac yna’r garfan arall yn profi’i absenoldeb a’r disgwyl mawr amdano, grŵp yr ‘ef’, y telynegion hiraethus. Neu ynteu un grŵp arall eto, ymddangosiadol gyferbyniol, megis emynau’r daith, fel arfer drwy’r ‘fi’, drwy anialwch mewnol, dros fynyddoedd mewnol, ar y môr mewnol, ar draws drysi mewnol, mewn unigedd mewnol ac yn y blaen. Ond mae pob emyn, a phob dosbarth o emynau, yn ymlynu wrth ei gilydd fwyfwy. Yn fynych, ffurfiant ddilyniant achlysurol neu grŵp o emynau gyda’i gilydd wedi’u cynhyrchu ynghyd tua’r un pryd gan fynegi cyfnod arbennig o ysbrydoliaeth neu o fyfyrddod clòs ynghylch epiffani thematig penodol; weithiau yn yr un mydr. Ac yna, ar draws datblygiad cynnyrch emynyddol sylweddol ei oes, ceir cysondeb cyflawn os cynyddol ac aeddfed sy’n mynegi profiad ei fywyd hir. Bywyd o orfoledd ac o alar oedd, o lawenydd ac o dristwch, gyda myfyrddod dwys ei gymdeithas ynghylch y dimensiwn ysbrydol.

Fe dybiaf i, yn sicr, fod yna gryn wahaniaeth rhwng y math o arwrgerddi a geid gan Fyrsil a Milton ar y naill law, a Phantycelyn ar y llall. Arwrgerddi urddas y Stiltiau dosbarth bonheddig a geid gan Fyrsil a Milton: arwrgerddi’r werin ‘addysgedig’ yw ‘Golwg ar Deyrnas Crist’ a ‘Theomemphus’. Fel arfer, ond nid bob amser, llunnid arwrgerdd yn y gorffennol o fewn cyd-destun aristocrataidd. Arwrgerddi’r ‘cyffredin’ oedd dwy arwrgerdd Pantycelyn gan osgoi yn gyntaf y geiriau anarferol neu hynafol. Ac eto, yn baradocsaid, fe gaed enwau priod Lladinaidd ar dro ar ei gymeriadau. Nid gwerin datws oedd y werin, nid yn unig. Gwerin oedd heb ei thenuo’n ddeallol gan ymfudo. Cafwyd y naill nodwedd gan Bantycelyn weithiau oherwydd diffyg Cymreictod deallusol ei addysg gartref, Cymraeg y gegin a’r fro. Ceir y llall yn tarddu o glasuroldeb ei addysg ysgol, geirfa ddeallol yr Academi a’r dosbarth canol. Ond gwiw cofio bob amser mai gwerin newydd addysgedig a llythrennog ddigon, i raddau, oedd amryw byd ymhlith ei gyhoedd, o leiaf mewn llenyddiaeth Hebraeg a Groeg (yn gyfieithiedig gyfyngedig) — diolch i Griffith Jones — a gallai cyfeiriadaeth Feiblaidd a hyd yn oed athrawiaethau cymharol ddyrys fod yn bur gyfarwydd iddynt.

Yn yr un modd, teg yw cyferbynnu y math o delynegion a geid yn emynau Williams â’r math o delynegion a geid gan delynegwr rhamantaidd caboledig y parlwr fel R. Williams Parry. Canu gwerin a geid eto yn emynau Williams. Llac oeddent, ailadroddol, llafar, gyda pharodrwydd weithiau i ddefnyddio ymadroddion parod ‘ystrydebol’, rhythmau rhwydd, a throsiadau cymharol dreuliedig. Mae’r canu myfyriol unigol ar y llaw arall, yn caniatáu ystyriaeth araf synfyfyrgar, tra bo’r canu gwerin seciwlar ar gyfer y dyrfa fel arfer yn tueddu i fynnu ymateb neu ddealltwriaeth sydyn a hawdd. Ond oherwydd y fframwaith cyfundrefnol cyfoethog o brofiad ysbrydol, try canu gwerin Pantycelyn yn fyfyrddod soffistigedig iawn.

Yn arwrgerddi Pantycelyn, yn ogystal ag yn ei emynau, fe geir ymadroddion ‘stoc’ megis y beunyddiol ‘yn y bore a’r prynhawn’. Byddai ar fardd cyffredin a di-nod yn y cyfnod diweddar, a hwnnw’n llai gwerinol naturiol, gywilydd o’u harddel. Fe geir felly gan Bantycelyn y llinellau ‘disgwylidig’ gefn ceffyl lle y byddai bardd fel Saunders Lewis dyweder yn darparu llinellau annisgwyl i ni, llinellau’r gadair freichiau sy’n ein synnu ond yn rhoi cyfle i ni feddwl amdanynt. Ac eto, fel y gwelwn wrth drafod ei Fotiffau, mae gan Bantycelyn yntau y ddawn i’n synnu droeon hefyd gan ymadroddi gafaelgar. Ei weledigaeth a greai’r rhain. Ac fel y gwelwn hefyd wrth fyfyrion am wead ei Gynnwys, y mae sylwedd ei feddwl yn ddwys, yn hyfforddedig ond yn dra datblygedig.

Hynny yw, yr oedd themâu’i werin Fethodistaidd ef yn arwrol ddeallol. Dwy arwrgerdd uchelgeisiol y Diwygiad oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*. Cynhwysent themâu a phobl arwrol. A dyma ddwy thema fwyaf y grefydd Gristnogol. Ac nid cwbl anghyfrifol honni mai arwr ideolegol a gynrychiolai’r gwerinwr Cymreig o Gristion yn ei gyfnod rhyfeddaf oedd Theomemphus ei hun.

Wrth ystyried dwy thema gynhwysfawr Pantycelyn, y mae a wnelom â dwy thema gyfartal o ran natur, eto’n facrocsm-a-meicrocosm — Hanes y Greadigaeth a’i hachub, a Hanes dyn a’i achub; ac y mae’r naill yn gynwysedig yn y llall. Mae’r naill hefyd yn gysgod o’r llall.

Ni bydd efengyleiddwyr weithiau yn ymdroi gyda gwardigaeth y bydysawd, nac yn meddwl am ei achub rhag anhrefn. Ond sonia Thomas F. Torrance (*The Christian Frame of Mind: Reason, Order, and Openness in Theology and Natural Science*, Colorado Springs, 1989, 103): ‘In Christian theology, that redemption of the universe is precisely the bearing of the cross upon the way things actually are in our universe of space and time. It represents the refusal of God to remain aloof from the disintegration of order in what he has made, or merely to act upon it “at a distance”. It is his decisive intervention in the world through the incarnation of his Word and love in Jesus Christ. In his life and passion he who is the ultimate source and power of all order has penetrated with the untouchable core of our contingent existence in such a way as to deal with the twisted force of evil entrenched in it, and thereby to bring about an atoning reordering of creation.’

Dwy thema gynhwysfawr; ond un Groes. Dau gylch, ac un Canolbwynt, ac un Greadigaeth newydd. Nid isradd yw dysgeidiaeth *Golwg ar Deyrnas Crist*; ond ffordd yw o ddeall *Theomemphus* yn well. Ffordd lawnach yw o amgyffred mwy na thröedigaeth yr unigolyn ar lefel hunanol yn unig. Ac wrth gwrs, yn y ddeuoliaeth gyflawn hon y daw efengyleiddwyr i amgyffred bwriad Duw a’r diwedd yn gyflawnach, a hefyd ceir un cyswllt

arall sy'n gyffredin i'r ddwy lefel (yn negyddol), sef Pechod (Diffyg Disgyrchiant ysbrydol — hynny yw, Dibyniaeth, un o nodweddion Cyfundrefn).

Mae Pantycelyn yn mynnu dyrchafu Crist yn ganolog ym mhob peth — yn y Greadigaeth ac yn y Waredigaeth. Canologrwydd Crist, i mi, yw'r pennaf nodwedd yn Niwinyddiaeth Karl Barth; a hyn sy'n ei gwneud mor ddeniadol. Meddai ef yn *Church Dogmatics* (II 12, 52-3): 'When Holy Scripture speaks of God, it concentrates our attention and thoughts upon one single point and what is to be known at that point ... from first to last the Bible directs us to the name of Jesus Christ.' Ond, er cytuno, nid yw Pantycelyn yn ofni sôn am gamp Crist yn y Greadigaeth, ac arwyddocâd beunyddiol hynny i bob credadun. Bid siŵr, y mae Pantycelyn yn gosod Crist ar wahân i bopeth mewn hunanddatguddiad unigryw. Nid uniaethir ef â'i Greadigaeth. Gyda Barth, sut bynnag, y mae ef yn gweld arwahanrwydd Crëwr, a'r Greadigaeth wahân-gysylltiedig fel pe bai'n rhwystr rhag cydnabod hollbresenoldeb effeithiol Crist a'i annhebygrwydd yn nhrefn a harddwch Ei greadigaeth.

Cyferbynia McGrath (M I 273-7) Barth yn y fan hon, â'r ddau, Calfin a Beza. Gwêl McGrath, megis Torrance o'i flaen, fod y Greadigaeth a Diwinyddiaeth Naturiol yn wedd ar ddiwinyddiaeth ddatguddiedig. Dyma safbwynt Pantycelyn, ac felly Athanasius yntau. Cynhwysir realiti gras dwyfol o fewn gwirionedd y greadigaeth ddwyfol. Hynny yw, rhan bwysig o lawnder goleuni'r datguddiad ei hun yw gwirionedd cynhenid y greadigaeth. Rhan o hunanddatguddiad Duw yw.

Dyna sy'n esbonio cyfochredd y ddwy arwrgerdd *Golwg ar Deyrnas Crist a Theomemphus*, a chyfochredd y ddwy thema gynhwysfawr — Creadigaeth (ac achub y Greadigaeth) a Dyn (ac Achub Dyn). Crist yw'r Un y gwnaethpwyd popeth drwyddo (y logos cynfodol) a'r Un a wnaeth bopeth yn newydd (y logos ymgnawdoledig). Ceir dolen rhwng diwinyddiaeth naturiol a diwinyddiaeth gyfundrefnol, a rhwng yr astudiaeth o natur a'r astudiaeth o Grist. Dwyochredd yw hyn a achosodd dramgwydd yn rhy aml i Gristnogion ailanedig.

*

*

*

Gair ychwanegol, felly, i ddiffinio 'thema'. Y gwelediad neu'r syniad cyffredinol cynhaliol a ddatgelir mewn gwaith llenyddol, dyna yw ei brif thema. Ni raid i hyn fod yn gasgliad moesol. Efallai y bydd rhes o ddigwyddiadau (neu feddyliau neu deimladau) yn cydailleiladu i lunio rhediad delweddol am rywbeth ystyrion. Dyma'r ddeinameg neu'r egwyddor estynedig sy'n rhoi undod i waith, neu i ran o waith.

Fe awgrymais eisoes mai un thema (y brif thema ddywedwn i) yn *Theomemphus* yw Cyfiawnhad yr arwr gan Grist sy'n ei arwain yn syth drwy holl faglau a rhwystrau

Sancteiddhad i Ogoneddiad. Dyna'i chrynhoi mewn termau cyffredinol diwinyddol. Ffordd arall fyddai geirio'r un peth mewn termau mwy diriaethol, a byddai hynny'n tynnu'r gwaith fwy at yr ymateb a gaiff stori am daith neu ymchwil drwy rwystrau.

Awgrymaf fod *Golwg ar Deyrnas Crist*, hithau ar y llaw arall, er ychydig yn fwy cymhleth, hefyd yn hanfodol syml. Ceir fframwaith 1. Y Tad yn cyflwyno'r Deyrnas i'r Mab. 2. Yr Arfaeth yn nhaith y Mab: sef Creu, Cwmp, Codi (Perthynas, Colli, Adfer). 3. Y Mab yn cyflwyno'r Deyrnas yn ôl i'r Tad. Tybiaf y gellid bron bob amser grynhoi 'Thema' fel yna: mewn brawddeg neu ddisgrifiad cryno sy'n cyferbynnu neu'n estyn yn ddeuol neu'n driol fel arfer, neu'n gyfuniad o ddeuolion neu driolion.

Mewn stori, drama, neu arwrgerdd, y mae'r swyddogaethau enwol a berfol ar y blaen, er bod yr adferfol (lle ac amser) bid siŵr yn cael lle hefyd. Yn y delyneg, y mae'r ansoddeiriol a'r adferfol fel swyddogaethau (nid fel rhannau ymadrodd bid siŵr) yn dod i'r blaen, er bod yr enwol (y fi yn fynych) a'r berfol ar waith yn gyfredol.

A derbyn ein bod yn gwybod felly beth yw 'Thema', mae'r cwestiwn yn codi beth yw 'thema gyfundrefnol'. Yn yr ymadrodd hwn, y mae'r gair 'thema' yn cyfeirio o hyd at yr ergyd neu'r wers neu'r arwyddocâd arbennig neu gyffredinol sydd i'r uned. A honno yw'r uned sy'n cynnwys rhannau deunydd mewn Mynegiant. Mae'r gair 'cyfundrefnol' yn cyfeirio at natur adeileddol y thema. Ond beth yw'r pegynau cydlynol mewn adeiladwaith thema lenyddol?

Mae'r ateb yn syml, ac fe'i gwelsom eisoes. Mae'n hanfod yn Nhafod y frawddeg.

Yr un yn union â photensial ffrâm y stori.

1	2	3
<i>Cymeriad</i>	<i>Digwyddiad</i>	<i>Amgylchfyd</i> (lle, amser)

Yn y ffrâm yma, gellid newid yn eu tro ansawdd neu ymhelaethiad pob un o'r eitemau unigol yn y ffrâm. Rhaid hefyd ddisgwyl y gall cyfeiriad y ferf fod yn weithredol neu'n oddefol.

A'r ystyriaeth nesaf yw *cyfan/rhan*: sef yr angen i bennu prif gyfundrefn neu gyfundrefnau y cyfanwaith thematig — yr ymbarél, — cyfiawnhad / sancteiddhad / gogoneddu er enghraifft — ac yna'r cyfundrefnau sy'n eiddo i'r rhannau. Felly y disgrifir cyd-adeiladwaith thema gyfundrefnol yn barod ar gyfer Mynegiant.

Mae hyd yn oed pob cyfundrefn yn fath o Thema, oherwydd y ddeinameg sy'n asio'r ddeuoliaeth neu drioliaeth yn undod. A gellid mentro yn y cyd-destun hwn gymharu hefyd ffurfiant y 'Motiff' (yr uned thematig leiaf) sy'n bur debyg; a gellid ei ddadansoddi hefyd yn ôl ffurf y frawddeg: *Goddrych/Traethiad*.

Mynegiant o thema yw plot hefyd: sef diriaethu gweithredol o symudiad syniadol (neu syniadau). Digwyddiadaeth ddatblygol o fewn Sffêr yw Cynllwyn.

Ond o fewn Mynegiant y bydd a wnelom fel arfer â natur cyfundrefnau thematig ar waith yn gyntaf. Ar y naill law, y maent yn cael eu hamodi gan holl adeiladwaith Tafod a gafwyd o'r blaen, ac yna gan holl gorff amrywiol Deunyddiau. Ar y llaw arall, Mynegiant ydynt yn ôl yr amrywiaeth diderfyn sy'n bosibl iddynt. Ond hwy sy'n gafael. Hawdd egluro sut y mae'r themâu yn gallu bod yn afrifed os lleddfir yn amrywiol gyfnewidiol o fewn y tair colofn sy'n eu llunio. Y mae *cymeriad* a swydd ac anianawd yr Arwr mewn Mynegiant yn amrywio hefyd o ran oedran a rhyw a hil a chefnidir. Yna y mae'r holl *weithredoedd* a theimladau'n gallu ymamlygu'n lluosog. Ac wedyn yr *amgylchfyd* neu wrthrych y gweithredoedd: mae'r cwbl y tu hwnt i gyffredinol taclus ymarferol a defnyddiol. Mae amrywiaeth o fewn y triawd oll yn goleddfu'n eithafol ar amllder themâu. Unir hwy gan ddibyniaeth.

Ond pan ddown i ystyried un Cristion fel Pantycelyn, a'r themâu ysbrydol neu athronyddol neu ymarferol gynddelwaidd sy'n debyg o fod o bwys canolog iddo, a'r amgylchiadau, yna y mae yna batrwm thematig go benodol yn ymagor. Gellir nid yn unig sylwi ar rediadau ailadroddol rhwng pobl, y mae emosiynau a rhwystrau negyddol a dyheadau yn siŵr o ymrithio'n fwy rheolaidd. Diau mai'r elfen ferfol sy'n gyrru'r themâu. Ond diau hefyd fod yr arwyr sy'n cyflawni'r gweithredoedd yn eu goleddfu'n thematig yn ogystal.

Yn fy nadansoddiad i o thema, felly, yr wyf i'n tueddu i fod yn gynhwysfawr ac amgylchu'r tair elfen o ran potensial – yr Arwr (a all fod yn egwyddor), y Weithred, a'r Amgylchfyd. Y tair o fewn amrywebau. Er fy mod am gydnabod mai'r echel neu'r Ddigwyddiadaeth ddatblygol, sef yr elfen ferfol, a ddarpara'r asgwrn cefn amserol fel arfer i thema, ni allaf lai na thybied fod egwyddor y thema'n cael ei phenderfynu i raddau a'i goleddfu'n bendant gan y Goddrych neu'r Arwr y pwysa'r digwyddiad arno neu arni. Dibynna'r ferf ar yr enw o ran disgyrchiant meddyliol. Allan o galon Theomemphus y tardd ei drafferthion i gyd, ar hyd y ffordd, ac ar ddechrau'r gerdd yn amlwg iawn. Cyflwynir ni i ŵr sy'n aruthr yn ei bechod a'i hunanganolrwydd. Ego trosgynnol yw. Cawr o droseddwr cynhwysfawr yw. Fel Paul, – a oedd yn sylweddoli mai ef oedd y pennaf o bechaduriaid, – ceisir cyfleu Theomemphus fel pencampwr pob drwg, cynheilydd teilwng ei D.N.A. i Adda heddiw ac ar hyd y canrifoedd. Hynny yw, mae'n sefyll o fewn a goruwch hanes yn ein lle ni:

GWWP I, 199 *Bu yn yr Aiffi a Sodom a Sidon, meddai fe,
Yr hon yr aeth ei balchder o'r diwedd cuwch â'r ne';
Yn Ninif ac yn Edom, yng nghanol Babel fawr
Ddinistriodd temel Seion un amser hyd y llawr ...*

Llanwai D.N.A. pechod hyd yr ymylon:

*Fe faeddai fil o ddyinion difeddwl-ddrwg, di-nam
Mewn dichell a chyfrwystra, a rhagrith, twyll a cham;
Os ennyn tân cenfigen, os gloddest, neu os gwin,
Neu fil o'r un gyffelyb, 'roedd **Theo** 'n drech nag un.*

Dyna sy'n ei wneud ei hun yn rhagdyb i bob deall, y dyn penrhydd a adeilada'i foes (neu'i anfoes) ar y cyfeirbwynt ymchwyddol yn ei natur ei hun.

Eto, yn yr hyn sy'n tarddu ynddo ef ei hun o safbwynt gweithredu thematig, ac er ei waethaf ei hun, ar ôl iddo weithio allan ohono'i hun ganlyniadau anochel ei natur, fe ddigwydd yr annisgwyl neu'r anghyffredin i Theomemphus. Fe'i goleuir, fe'i sylweddola, fe wêl. Mae'r dyn llorwedd hunanlywodraethol wedi dod wyneb yn wyneb â'r fertigol. Yn y cyfarfod fertigol y'i deffroir ef. Derbynia hunanwireddiad Duw sy'n hunanddatguddiol. Nid ei nerth anifeilaidd anferth ef ei hun sy'n gwneud hyn. Disodlir un eithafbwynt cyfeiriol gan gyfeirbwynt eithaf arall. Daw ef i gondemnio'i hunangyfiawnder ei hun a chydabod ei greaduriaeth. Nid dyn sy'n penderfynu Duw yma, ond Duw sy'n penderfynu dyn. Nid rhoi a wna dyn, ond derbyn. Daw i addoli'i Greawdwr mewn modd dilys. Bu'r dyn – yn ei dyb ei hun – yn y canol. Darganfuwyd nad felly y mae'n rhaid iddi fod.

Ym marddoniaeth Pantycelyn, o bob cymeriad a greodd, Theomemphus yw'r un llawnaf, o'r hyn lleiaf, y 'dyn' llawnaf. Fel pob stori, yr echel lorweddol sy'n cynnal y rhediad, yn y naratif hon wrth gwrs. Ond troi o gylch y berthynas ddigwyddiadol *Duw/dyn* yn fertigol a wna'r arwrgerdd o ran hanfod hefyd, a'i chyferbynnu â phatrwm mwy unplyg *Golwg ar Deyrnas Crist*, yn broses lorwedd mewn amser, ac eto o fewn fframwaith cyflyrol y thema fertigol yr un pryd.

Calon thematig Theomemphus yw bod absoliwt yn cael ei fwrw beniwaered gan Absoliwt, yr Ego Trosgynnol mewn amser yn mynd o'r uchel i'r isel, oherwydd bod y drefn dragwyddol yn ei feddiannu. A John (Aelod) Jones (yn y Seiat) fu'r gŵr hwn.

*

*

*

Ym maes cyfundrefneg thematig, yr hyn a wneir wrth geisio adnabod cyfundrefn thematig gynhaliol yw olrhain *undod ystyr* y gwaith llenyddol. Sôn yr ŷm am un o hanfodion cynhenid iaith, ffenomen sydd ei hun wedi'i hadeiladu'n gyfundrefn ffurfiol a deunyddiol o gyfundrefnau. Peth naturiol hefyd yw bod y meddwl yn anochel ddarllen llenyddiaeth mewn modd i ganfod undod yr un. Fe fyn ystyr barhaol. Felly y gwna iaith drwyddi. Felly y gwelai'r Groegwyr gynt yr Undodau mewn llên. Artiffisial a ffug oedd y tueddfryd Ôl-fodernaidd yn 70au'r ugeinfed ganrif i sefydlu technegau chwâl yn ddogmâu gwrthdeallol

diwinyddol — amhenderfyniadaeth, neu anundod gwahanrwydd, dadadeiladu, tanseilio, ‘ansicrwydd’ sicr — yn annethol megis deddfau cwmpasol caeedig. Chwiiw hollol arwynebol a hanner-pob anorffen a di-sail oedd y fath theorïa, ac yng Nghymru cafwyd y dilynwyr trefedigaethol arferol. Ond ni chafwyd dadl hunanfeirniadol ynghylch hanfodolrwydd gwahuniaeth. Nid archwiliwyd y rhagdybiau; nid o safbwynt catholigrwydd safbwynt yn unig, ond o ymarferoldeb hefyd.

Felly, wrth inni ystyried themâu Pantycelyn, ar ôl trafod y camre rhagosodiadol cyflyrol *Absoliwt / Archgyfundrefnau Deall / Deunydd*, sef y 'Tafod Thematig', ein gwaith cyntaf yw sylweddoli sut yr oedd ei themâu cyfundrefnol yn tarddu o'r rhagosodiad cyfun hwn neu'n ymateb iddo. Try'r pwyslais ar *Duw/dyn* yn thema yn ei emynau mawl a *dyn/cyd-ddyn* yn y marwnadau. Ceir cyferbyniad thematig rhwng *fertigol/llorwedd* yn y ddwy arwrgerdd. O fewn 'Theomemphus' er enghraifft, y mae perthynas *Duw/dyn* fertigol yn troi'n llorwedd ar ffurf taith neu helpa neu ymchwil: *Duw yn ceisio: (hela) dyn; a dyn yn ceisio: (hela) Duw*. Dyna fframwaith thematig; ond y mae gwrthdrawiad Theomemphus â phregethwyr ac â merched *en route* yn ymgysylltu â pherthynas *dyn/cyd-ddyn* fel math o is-themâu. Ac y mae nifer o is-themâu eraill, sy'n cael amlygrwydd mewn rhai penodau'n fwy na'i gilydd, hefyd yn ganolog i'r arwrgerdd megis, o fewn pegynau *dechrau/diwedd, gwryw/benyw, cadarnhaol/negyddol*.

Wedi ystyried y symudiadau thematig bras hyn, oll yn gyfundrefnol, fe glosia'r camera. A gellir sylwi ar y berthynas fanach rhwng y themâu neu'r is-themâu hyn a phob uned leiaf o ystyr yn *Fotiff*. Caiff pob rhan ei nerth gan berthynas neu gan gyfanrwydd. Eto, y cyfan hefyd yw cyd-destun anochel pob datblygiad ystyrol, hyd yn oed pan fo'n fwriadus wrthwynebus neu'n ddrylliadol danseiliol. Confensiwn cyfarwydd yw gwrthdrawiad. Mae'n ffitio'r cyferbyniad *digyfnewid/newid* ac yn un o sylfeini ceidwadol iaith a llên. Plentyn Thema yw Motiff. Plentyn Thema yw Thema.

Bob amser, dadlennir hefyd y Rhagdybiau. Trafferth Empeiriaeth yw nad oes dim o fewn Empeiriaeth a brawf lawnder dihybyddol y pum Synnwyr. Rhagdyb materol mewnbylg yw. Nid yw'r ddamcaniaeth ei hun, hyd yn oed, yn perthyn i'r synhwyrâu hyn. Trafferth Rhesymoliaeth faterol yw nad oes dim o fewn y Rhesymoliaeth chwaith a brawf fod Rheswm ei hun yn ddigonol. Rhaid mynd y tu allan iddynt i gael Rhagdyb o'r fath nad yw nac yn empeiraidd nac yn rhesymol. Ffydd yw, ffenomen anempeiraidd. Ond mewn Cristnogaeth, esbonia'r ffydd y rhagosodiad o synnwyr o Dduw yn ysbrydol resymol, datguddia gwyp dyn a'i adferiad; a'r cwbl yn rhagosodiadol weddus o fewn perthynas prawf goruwchnaturiol gan Dduw awdurdodol sy'n llefaru ag awdurdod goruwchnaturiol ac a brofir yn

oruwchnaturiol. Mae'r Rhagdyb yn ddigonol i'r gofynion. Nid oes rhaid mynd y tu allan i'r goruwchnaturiol i'w brofi'n naturiol nac yn oruwchnaturiol, na chwaith i esbonio'r gwrthodiad ohono, nac i esbonio rhyw 'fanion' megis cydwybod, yr esthetig, a chariad dihanan. Ffydd yw'r pwnc a arddelir yn onest agored. Fe'i troir yn y ddwy arwrgerdd yn thema gronolegol. Etyb hen gwestiwn ystyfnig Acwin, 'Sut y daeth i fod?'

Tueddodd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol arferol erioed i fod yn Ddiwinyddiaeth Ddeunydd 'Cronolegol', yn ogystal ag yn gategoriaidd. Dechreua fel arfer gyda'r Bod o Dduw (ei briodoleddau) ac yna Ei Weithiau (yr Arfaeth), ac yna Perthynas â dyn, Pechod, Crist a'i Ras Gwardigol, ac ymlaen fel arfer drwy Waith yr Ysbryd Glân, yr Eglwys, a'r Pethau Diwethaf (Escatoleg), ynghyd â'r Ail Ddyfodiad, Atgyfodiad y Meirwon, Barn, a'r Cyflwr Terfynol. Hynny yw, llorwedd amseryddol yw, yn fras, yn ymrolio fwy neu lai ar hyd echel Amser a Thragwyddoldeb, yn ddigon tebyg i daith *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ymroli gerbron yn gydlynol anochel yn ôl arddull y bardd.

Mae archwilio'r Diwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol yn rhoi hefyd i ni fath o arolwg mân o helaethrwydd thematig Pantycelyn. Bywyd mewn persbectif ysbrydol.

O safbwynt Pantycelyn, fel y gwelsom, mae yna ddau ddsbarth cynhwysfawr o gyfundrefnau thematig canolog o ran Deunydd i'r bardd eu canfod mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol:

1. *Themâu'r Greadigaeth*: Gras Cyffredin (i bawb).

Yma y saif *Golwg ar Deyrnas Crist* yn gadarn; y Creu a'r Cwmp; ond nid esgeulusir y broffwydoliaeth o Waredigaeth.

2. *Themâu'r digwyddiad o Waredigaeth a'r broses o Sancteiddhad a'r Gogoneddiad*: Gras Arbennig (i'r gwardigion) mewn perthynas ag Uwchfyd.

Yma, y saif *Theomemphus*, ac emynau Williams.

Oherwydd bod cyfrifoldeb ar bawb oll yn ddiwahân, anghredinwyr a chredinwyr, i ffrwythloni'r Greadigaeth ac i gadw trefn, tueddodd llawer o bregethwyr efengylaidd yn yr ugeinfed ganrif i esgeuluso'r wedd Gyffredin farddonol ar y genadwri Gristnogol a'i gadael i seciularwyr. Nid dyna oedd y Newyddion Da. Yn wir, dichon mai Gras Arbennig ydyw anochel faes pregethwyr diwygiedig ar hyn o bryd. Ond Gras Cyffredin yw priod faes Cristnogion Diwygiedig cyffredin cytbwys bob amser hefyd (yn ogystal â seciularwyr); ac felly mae yna le i rywun (pob Cristion ddwedwn i) i ymwneud â hyn. Bu'r esgeulustod o hyn gan rai Cristnogion efengylaidd Cymreig yn y ganrif ddiwethaf yn nam ar eu tystiolaeth gyflawn. Dyna bietistiaeth ronc, heb gydlyniad, sef anwybyddu parthau helaeth o fywyd er mwyn canolbwyntio ar y gwaith allweddol o ddwyn cyd-ddynion am y tro cyntaf i

adnabyddiaeth o'r Gwirionedd canolog. O'r herwydd, nid arddangoswyd perthnasoldeb Cristnogaeth i fywyd i gyd, peth nas caed gan Bantycelyn, fel y cawn weld wrth archwilio *Tri o Wyr Sodom a'r Aipht*. Anwybyddwyd er enghraifft y gorchymyn diwylliannol. Anwybyddwyd pechod cymdeithasol weithiau. Unochrog fu sancteiddhad fel rhan o fywyd ymarferol; ni fwynhawyd y Greadigaeth a'i mawrygu fel y dylid. Hynny yw, bychanwyd a chrebachwyd Penarglwyddiaeth Duw. Lleihawyd Mawl. Dadfarddonwyd y Greadigaeth mewn emynyddiaeth efenglydd.

Mae'n bur embaraslyd bid siŵr i seciwlarywyr fod yn gytbwys ac yn gatholig yn eu dealltwriaeth o'r ddau fath hyn o gyfundrefnau thematig mewn cyfnod dieithr. Ond dyletswydd arbennig i Gristnogion yw dal ati i fod yn gyfansawdd. Go brin fod yr un Cristion Cymraeg o flaen Williams wedi bod mor gyfansawdd ag y bu ef. Ymwybyddai ef i'r byw â'r rhyfel dosbarth er enghraifft, yn groes i dyb Marcsiaid arferol.

Pe gellid sôn am Ddiwinyddiaeth Gristnogol fel gwyddor gyflawn, fe'i ceir yn y pen draw yn y sylweddoliad o reidrwydd natur bersonol-dragwyddol yr Absoliwt ynghyd â'r Archgyfundrefnau sy'n cynnwys priodoleddau'r Absoliwt ar waith yn ffurfiol mewn Arfaeth, ac yn bresennol bob amser ym mhob gweithrediad fertigol. Fe'i ceir hefyd wrth gydnabod ymuniad Deunydd llorwedd (â Ffurf). Ac yn y fan yna, yn y dosbarthiad drachefn o Ddeunydd yn ôl mathau gwrthwynebol penodol, fe'i ceir mewn Cyfundrefnau Thematig cyffredinol a rheolaidd. Dyna, gredaf i, rychwant patrymog i unrhyw wyddor o Ystyr Cristnogaeth. Mewn cyfyngiadau rheolaidd, a themâu fel *Ffydd/Gweithredoedd*, *Cymdeithas y Duw Tri-yn-Un*, *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*, dyna'r lle eto y canfyddir olyniaethau penodol mewn unedau ystyrion yn ymddangos mewn Mynegiant.

Hynny yw, er mai Mynegiant yw themâu yn ymarferol, eto oherwydd eu cysylltiad â Rhagosodiad cyfundrefnol *Absoliwt/Archgyfundrefnau* neu *Ffurf/Deunydd*, y mae'r sylfaen yno fel pe bai'n goferu'n drefnus mewn gwyddor o du Tafod. Ac y mae'r safleoedd i'r pethau hyn o fewn Hierarci a chydlynid oll yn briodoledd o fewn sefydlogrwydd Tafod. Symudant ymlaen yn gyfundrefnus wedyn i amrywiaeth Mynegiant. Er nad yw'r Cyfundrefnau Arweiniol yn y Sfferau Deunydd Deddfog yn perthyn i Fynegiant oherwydd eu cyffredinedd diffiniol, gan eu bod yn grynsyth o adnoddau Deunyddiol sefydlog sydd ar gael o hyd yn ddiwahân i bawb, y rhain mewn gwirionedd sy'n darparu bodolaeth Geirfa gytbwys mewn iaith. A honno felly, yw'r bont drosodd i Fynegiant. Mae lled a meysydd cyfan Deunydd yn eiddo i Fynegiant.

Eto, arweiniant ein meddyliau yn ôl at y Cyfundrefnau Cyffredin arbennig mewn Tafod. Mewn Mynegiant, cyfundrefnau Deunydd 'achlysurol' neu 'leol' ydynt ar waith. Ond

bellach y maent heb yr ansawdd neu'r gynneddf gyffredinol a geir yn yr Archgyfundrefnau cadarn o'r tu ôl, o fod yn gyd-bresennol ym mhob Cyfundrefn unigol. Cyfundrefnau Thematig mwy penodol yw'r Cyfundrefnau Deunydd Cyffredin i gyd. Y maent yn feddyliol ddeinamig, yn unedau sy'n cynnwys amrywiaeth cyferbyniol, ac yn ffurfio eto botensial pellach ar gyfer Cyfundrefnau mewn Mynegiant, sy'n arwain at Fotiffau mwy lleoledig.

Credaf fod hyn oll – neu batrwm cyfredol digon tebyg – yn wir ei wala am themateg seciwlar hithau yn ogystal â'r grefyddol.

* * *

Yn y gyfrol hon am Hierarci ddeallol ddeunyddiol Pantycelyn, yr wyf am bwysleisio diffiniad Themateg felly fel dolen allweddol mewn cadwyn. Fe'i canfyddwn yn ôl ei safle a'i pherthynas â'r dolennau eraill y buom eisoes yn eu trafod. Gweithia yn ôl yr hyn y mae'r lleill yn ei wneud iddi hi, a beth y mae hi'n ei wneud ohonynt hwy ac o'r hyn sy'n ei dilyn.

Ond i raddau, wrth synied am y Weithred Lenyddol gyfan a'r Cydlynid mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, ac arwyddocâd cyfundrefnol Deunydd yn y prosesau hyn, y mae hi fel pe bai Themateg yn gronfa y gweithia'r gweddill o'r broses feddyliol allan ohoni a thuag ati a dod i gwllwm ynddi mewn Mynegiant. Ac o'i thu hi, tyn hi bopeth ati'i hun i'w fframweithio. Thema yw Hierarci'r Weithred Lenyddol ei hun.

Yr hyn sy'n gwneud Thema yw cyflwyno Gweithred gydag *Egwyddor/Cyflwr/* neu *Gymeriad*. A'r hyn sy'n digwydd wrth symud o Dafod i Fynegiant (o safbwynt Deunydd), yw bod cystrawen Stori (neu Frawddeg) yn ymffurfio mewn amser o fewn un o'r Sfferau Deunyddiol Deddfog. Gall syniad neu osodiad cynhwysol gael ei lunio'n ddelwedd weithredol. Mabwysiedir y cyswllt thematig drwy egwyddor gyfundrefnol Dibyniaeth, sy'n gynieithyddol, ac yna'n gyn-lenyddol yn yr iaith, cyn darparu fframwaith meddwl ar gyfer cyfundrefn lenyddol ar waith. (*Incidence* yw'r term gan Guillaume ar y berthynas).

Canlyniad ymdroi gydag argyhoeddiad neu gymhelliad o'r fath, mewn Sffêr Ddeunyddiol yw'r 'dewis' agweddol a wneir o thema ddeunyddiol. Dewisa'r awdur Enw 'arwr'/Cymeriad enghreifftiol (unigolyddol diriaethol). Teip yw gan Bantycelyn, yn fynych. (gw. *Y Tri Wŷr* eto). Myn wreiddyn thema mewn o leiaf un elfen hunanddibynnol o'r fath; ac yna gellir neu ddwy elfen gydlynol ddibynnol ar hynny. Hynny felly a rydd uned ddibynnaidd sy'n caniatáu Thema drwy ferf. Y Sfferau deunyddiol eu hunain yn ôl eu deinameg sy'n darparu deunyddiant i'r Thema honno.

Ond y tu ôl i hynny, y mae Cymhelliad yn yr Amgylchfyd yn ymwneud â'r dethol yn ôl gwerthoedd a gorfforir yn y Thema. Ar lefel y Mynegiant y digwydd hyn oll. Cyn y Cymhelliad ceir hefyd Hierarci ffurf yn ymuno â'r Hierarci Deunydd. A'r feistrolaeth hon ar

y tair gwedd yna ynghyd sy'n boddhau 'gwerth' yn derfynol. Nid yw na'u Deunydd na'u Cymhelliad wrth gwrs ar eu pennau'u hunain yn ddigonol i fodloni gwerthusiad. Rhaid wrth fedr (dychymyg, deallusrwydd, ymwybod â gorffennedd, hyd yn oed uchelgais o bosib yn isymwybod yr awdur) i anrhydeddu'r 'gwerth' a gras celfyddyd o hyd. A dyma nesáu at faes Arddulleg ac unigrywiaeth Pantycelyn mewn Mynegiant. Mae'r Deunydd a'r Ffurf yn ymuno felly yn y dasg fynegol.

Ymluniodd y Deunydd deinamig, yr ŷm yn awr wedi'i gyrraedd yn achos Williams, yn Gyfundrefnau Thematig drwy un o'r Sfferau Deddfog yn benodol. Yr un a oedd yn ganolog berthnasol i Williams wrth gwrs oedd Ffydd. Yr hyn sy'n wahanol yn yr ymdriniaeth bresennol hon o ddiwinyddiaeth yr awdur yw bod yna ymgais i olrhain y cydlyniad hierarcaidd drwy Gyfundrefn o Gyfundrefnau crwn mewn Mawl. Ceisiwyd eu gwreiddio ym mhriodoleddau amodol yr Absoliwt; drwy Ffurf anweledig ymlaen i Ddeunydd. Ceisiwyd dangos union berthynas pob lefel â'i gilydd. Gan fod a wnelo Cyfundrefneg â Ffurf yn ogystal ag â Chynnwys, ceisiwyd corffori'r gweddau ac adeileddu'r Cyfundrefnau effeithiol o fewn cwmnasiad llawn. Ac ychwanegwyd lle i Ddiwinyddiaeth neu Ffydd (Dibyniaeth) ar wastad Ffurf, gan olrhain llwybr y Mynegiant, gynt o'r Absoliwt drwy'r Arfaeth, yn awr hyd at y Motiffau lleiaf eu hunain (yr unedau thematig lleiaf).

Yn ein disgrifiad o Gyfundrefneg Diwinyddiaeth, y mae'r adran benodol oruchaf sydd ar Dafod Ffydd (*Absoliwt/Arfaeth/Archgyfundrefnau*) yn ymwneud â natur ddwyfol a dihanes y Cyfundrefnu ei hun, a'r adran ar Ddeunydd wedyn yn manylu yn bennaf ar brofiad o Fynegiant dirfodol o arwyddocâd ysbrydol i'r unigolyn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy wedd hyn yn cynnwys yn botensial Gyfundrefn gyflawn o Gyfundrefnau, gan ymestyn o'r Absoliwt hyd at y Motiffau. Hyn yw'r gwahaniaeth mwyaf penodol sy'n nodweddu'r dull hierarcaidd yr wyf i'n ei gynnig o drafod Deunydd Diwinyddiaeth. Mae'n amgylfred symudiad cysylltiol llawn y meddwl ar waith. Ychwanegwyd gwastadedd Ffurf o fewn Hierarci er mwyn amlygu beth yw natur Cyfundrefnau Deunydd ei hun, ond hefyd am ei bod yn cydymffurfio â'r weledigaeth Feiblaidd. Hyn oedd siâp Ymennydd yr Emynydd.

Yr wyf am gynnig, felly, wrth ddadansoddi'r ddwy arwrgerdd, ein bod yn sylwi ar ddwy haenen thematig yn y naill a'r llall. A thybio'r wyf eu bod yn adlewyrchu rhyw fath o gynddelwau thematig go gyffredinol mewn llenyddiaeth:


1. *Golwg ar Deyrnas Crist* [Duw a'i Arfaeth]

Mae'n ymddangos i mi fod Pantycelyn wedi meddwl am natur y ffenomen *Goruwch-thema/Thema* oherwydd ei fod ef ei hun wedi cynllunio'r Arwrgerdd yn (a) Synchronig, ac yn

(b) Ddiacronig yr un pryd. Ac mae'r ddwy oruwch-thema yn symud gyda'i gilydd yn gydlynol drwy gydol yr Hierarci.

(a) *Sincronig*


Mae hyn yn golygu ei fod wedi synied am berthynas ganolog *ddisymud* fertigol fel petai, a oedd yn cynnal y cyfan o'r arwrgerdd o gylch un egwyddor yr un pryd. Mae hyn yn peri ei fod yn cadw un canol llonydd, un oruwch-thema lywodraethol a bod pob rhan yn tarddu o hynny ac yn perthyn i hynny yn ôl y cynllun hwn: fel hyn y mae ef ei hun yn ei amlinellu'n hanfodol.



Perthyn y cyfan canol a'r rhannau. Ef ei hun sy'n tynnu sylw allanol at hyn. Yma y mae'r cyfan canolog yn perthyn i bob rhan yn ei thro. Lle bynnag y torrid i mewn i'r gerdd, yno fe geid y berthynas synchronig, *Crist/creadigaeth*. Fframweithiol yw. A dyma ôl-dir y gerdd.

(b) *Diacronig*


Ond mae hyn yn golygu ei fod hefyd wedi ystyried yn ofalus bob datblygiad cynyddol yn llorweddol — ym mha le y mae'n dechrau, pa le y mae am ei gyrraedd erbyn y diwedd, a phob cam yn olyniaeth ddatblygol a chronolegol fewnol ar hyd y ffordd. Mae ganddo echel lle y mae'r rhannau yn ymgysylltu â'i gilydd yn ymddadlennol gyda'r naill yn dilyn y llall fel pe baent ar hyd llinell. Hynny yw, symudol yw'r Oruwch-thema hon o ran hanfod.



Dyma berthynas y rhannau, yn drefn olynol, a blaen-dir y gerdd. Ef ei hun drachefn sy'n tynnu sylw mewnol at hyn. Yma y mae pob rhan yn ychwanegu at yr un cynt, rywsut weithiau yn hanfod o'r tu mewn iddi gan lunio cyfan erbyn y diwedd.

Gyda'r Sincronig, gellir rhag-weld y berthynas o gyfannu oherwydd bod yr egwyddor fewnol yn sefydlog. Gyda'r Diacronig, ni ellir o raid rag-weld y cydlyniad, gan fod yr olynol

weithiau'n hanfod o'r tu mewn i'r rhan cynt ac weithiau'n annisgwyl. Yn y Synchronig mae'r cyfan yn angor. Yn y Diacronig y mae'r cyfan yn gyfres o orsafoedd.




Gyda hyn oll yn ei le yn feddyliol, roedd gan Bantycelyn fframwaith i weledigaeth o berthynas ddeinamig rhyngddo, drwy'r Greadigaeth, â Duw. Mae'r math hwn o weledigaeth yng nghefn meddwl pawb, eithr yn anaml y'i ceir mor eglur a meddiannol ag yr oedd yn achos Pantycelyn.

2. *Theomemphus* [Duw a dyn]

(a) *Synchronig*

Nid yw hyn yn gwbl annhebyg i'r hyn a geir yn 'Golwg ar Deyrnas Crist'. Y ddolen gyswllt sefydlog yw perthynas Duw a dyn. Ni ddihengir rhag hynny. Ym mha ffordd bynnag yr ymamlygir hyn, hynny yw'r canol. Y mae pob datblygiad digwyddiadol a syniadol yn troi o gwmpas yr oruwch-thema honno.




Perthynas Un ac un yw, yn hytrach na pherthynas Un a phopeth. Mawrhydi'r lled oedd *Golwg ar Deyrnas Crist*. Unplygrwydd syml y personol yw thema *Theomemphus*.

Mae *Duw/dyn* yr un mor wir. Ond dewiswyd y cyferbyniad uchod oherwydd tybied bod hynny'n fwy cyffredinol gywir am lenyddiaeth, yn fwy cyffredinol strwythurol boed yn seciwlar neu'n grefyddol, ac yn adlewyrchu'r ffurf yn y drefn.

(b) *Diacronig*

Ymamlygir y berthynas hon ar ffurf digwyddiad | a phroses. Dyma flaen-dir y gerdd, ac y mae'r berthynas yn bresennol ar bob cam olynol.



Lle yr oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* yn personoli'r berthynas rhwng Duw a'r Creu, y mae *Theomemphus* yn bydysawdu'r berthynas rhwng Duw a dyn.

Yr hyn sy'n ymddangos yn gyd-nodweddiadol i'r ddwy arwrgerdd yw bod y Synchronig yn ymwneud yn bennaf â pherthynas yr Absoliwt a'r elfennau unigol arweiniol, boed yn bynciol neu'n bersonol, sef yr elfen enwol; a bod y Diacronig yn ymwneud â'r elfen ferfol a digwyddiadol yn bennaf tuag i fyny. Dyma ôl-dir y gerdd hon, heb ei bwysleisio'n hollbresennol fel y thema synchronig.

Yr wyf wedi ceisio dadlau, wrth drafod y ddwy Arwrgerdd, fod Synchronig a Diacronig yn cyd-ddigwydd yr un pryd. Oherwydd hyd arwrgerdd a natur y llenddull, ceir y golwg fertigol a llorwedd hwn ar ryw ystyr yn gyfredol. Ac y mae hynny'n wir; ond oherwydd byrder y delyneg neu'r emyn, fe all y pwyslais ar un ddelwedd neu un grym ymamlygu'n fwy penodol wahân ar dro. Mae'r delyneg yn gweddu i raddau, i ddigwyddiad; a'r arwrgerdd i broses. Ond gellid cael y ddau fath o thema mewn dau fath o emyn. Byddai'r ddau fath wedyn yn ddigon tebyg i Stori Fer ac Ysgrif. Hynny yw, byddai un math o emyn yn ymddangos fel pe bai'n cronni o gwmpas digwyddiad datblygol, megis yr emyn pererindod; a byddai math arall o emyn, yn troi o gwmpas pwnc neu gyflwr dirfodol gan edrych ar weddau amryfal y berthynas Bod/bod ar y pryd, megis yr emynau serch. Gellir, wrth gwrs, gyfuno'r naill a'r llall. Unwaith eto, mater o bwyslais yw hyn ar y defnydd o begynau posiblirwydd.

Ond y mae'r cynlluniau arwrgerddol ar ryw olwg yn facrocsmâu amgylchol ar gyfer cynllun yr emynau. Dichon y gellid honni mai cysgod – syrthiedig a gwyrdröedig – yw'r ddwy broblem fawr gan bob llenor seciwlar: perthynas ei absoliwt a'i fi, perthynas ei fi a'i fyd.

Wedi hawlio bod hyd arwrgerdd yn tueddu i gadw dwy wedd yn gyfredol, sef y 'Synchronig' gyda'r 'Diacronig', mae'n briodol cydnabod y gwth tuag at Undod mewn themateg, fel ym mhopeth arall. Ac y mae hyn yn tueddu i yrru'r ddwy arwrgerdd er gwaethaf themâu llyuosog eraill o'u mewn yn eu tro, bob un ar wahân tuag at esgor ar flaenoriaeth amlygrwydd un Oruwch-thema. Nid blaenoriaeth pwysigrwydd gwerthoedd syniadol nac ysbrydol yw hyn, ond blaenoriaeth naratif. Wrth gario'r ddwy wedd ymlaen gyda'i gilydd, y Synchronig a'r Diacronig yn strwythurol, o ran gogwydd storïol mae un neu'r llall yn gallu ennill y blaen, — yn wir, dyna sy'n arferol. Ac fe ddadleuwn i, yn achos Pantycelyn, fod y Synchronig neu'r Fertigol yn cael y blaen yn *Theomemphus*, sef 'perthynas' *Absoliwt/dyn*; dyna — bob rhan o'r daith — yw'r hyn y cyfeirir yn ôl ati. Ac mae'r elfen Ddiacronig yn arwain tuag at hynny yn atgyfnerthol. Ond gyda *Golwg ar Deyrnas Crist*, dywedwn fod y Llorwedd neu'r Diacronig, a geir ym Mhwrpas yr Arfaeth eisoes ar y dechrau yn arwain at gwblhad y Terfyn sy'n cael ei osod ar y blaen oherwydd y ddau begwn cronolegol — (1) Y Tad yn cyflwyno'r prosiect i'r Mab, a (2) Y Mab yn cyflwyno'r

Greadigaeth yn ôl i'r Tad. Dyma'r echel. Mae'r elfennau Fertigol a Synchronig deinamig wrth gwrs yn gweini yr un pryd ar hynny: maent yn lledu'r arwyddocâd.

Eto, ceir tebygrwydd ac undod yng 'nghyflawniad' dibennol y naill Oruwch-thema a'r llall. Arweiniant ill dwy at Ogoneddu Duw.

Perthynas yr Uchel a'r isel yw unoliaeth y ddwywedd yn *Theomemphus* ar ei hyd. Y gwth o fewn prosiect o'r dechrau hyd y diwedd sy'n llunio undod *Golwg ar Deyrnas Crist*. Ond yn y naill a'r llall, mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir i raddau llai.

Hyd yn hyn, yn yr Hierarci, buwyd yn cyflwyno'r *Amgylchfyd* i ddrama dynoliaeth: y Cynllun mawr ym meddwl Duw. Y rhagdybiau. Y sylfeini amodol. Yn awr, mae'r ddrama'n cael ei dadlennu. Mae'r rheidrwydd personol yn dod yn fwyfwy amlwg. Dyma wedd ar arbenigrwydd y datguddiad Cristnogol. Dyma'r *Cymeriadau*, y Duw personol a'r dyn personol. A'r gelynyon ynghyd â ffrindiau. Bob un â'i gnewyll-weithred. Nid grymusterau ffurfiol yw'r fframwaith wedi'r cyfan. Offer oedd hynny i gynnal materion personol fel Cariad, Edifeirwch, Trugaredd, a Maddeuant

Erbyn cyrraedd yr egwyddor neu'r ffurf o Thema yn yr Hierarci, fe'n gorfodir ni i ailarchwilio rhywbeth a ddigwyddodd mewn gwirionedd cyn gynted ag y ceid Sfferau Deunyddiol: ceid Deunyddiau Meddyliol / Deunyddiau Materol, haniaethol a diriaethol, mewnol ac allanol, gyda'i gilydd.

Ystyriwn y symudiad anochel wedyn o Thema i Fotiff. Symudiad ydyw drachefn o Gyfan i Ran, ac o'r haniaethol i'r diriaethol. Ond lluniwyd math o berthynas gyfundrefnus rhwng haniaethol a diriaethol wrth ystyried y Sfferau.

Beth yn union, felly, sy'n digwydd, rhwng Thema a Motiff? Dim llai na Chynllwyn (*Plot*). Ac y mae hyn yn broses o ddelweddu cynyddol.

Os mai Thema yw'r undod neu'r uned feddyliol haniaethol, Cynllwyn yw'r uned weithredol ddiriaethol. Mae Cynllwyn yn pontio o'r undod thematig i'r undod neu'r grwpio ar fotiffau mwy diriaethol. Thema yw'r egwyddor unol mewn strwythur ffuglenol, y meddwl cyffredinol. Corfforir y Thema mewn Motiffau (sef yr unedau storïol lleiaf), ac fe'u trefnir hwy ar sail Stori feddyliol gronolegol yn Gynllwyn (y gellir eu gwasgaru a'u hatrefnu'n dechnegol mewn Mynegiant) er mwyn rhwymo'r teimladau a datblygu digwyddiad a Thema mewn modd personol. O ran undod, gweithredir Cynllwyn ar yr un math o lefel â Thema; ond y mae'n weithredol fel y stori ar lefel Motiffau lle y mae'n tyfu undodau lleol.

Ar ryw olwg, y mae *Thema*, *Cynllwyn*, *Stori* yn gwlwm o undodau ar yr un lefel â'i gilydd rhwng Metanaratif a Motiff, er bod elfen o olyniaeth rhyngddynt. Proses o ddiriaethu yw fel y bydd Mynegiant o'i gyferbynnu â Thafod, ac megis y bydd Arwyddedig yn mynnu

Arwydd. Y mae cyfundrefn y Stori yn gogwyddo Thema yn awr tuag at grisialu ac unigolyddu *Cymeriadaeth (Digwyddiadaeth) ac Amgylchfyd*. Drwy Fynegiant cânt, bob un, liw a maint, ansawdd a modd, a'r personol cynnes.

Wrth drafod delwedd gymeriadol y rhyfelwr er enghraifft, neu'r thema ddigwyddiadol gyfatebol, mae'n bwysig cofio arwyddocâd cyfundrefn strwythurol *negyddu/cadarnhau*. Dyna gyfundrefn gynnar ac allweddol hyd yn oed yn y gwaith o wahanu yn Archgyfundrefnau 'Gwahuno'.

Drwy strwythur negyddu — *tywyllwch/goleuni*, a *drwg/da*, a thrwy strwythur cadarnhau'n estynnol — megis *cyfiawnhau/sancteiddio* y deuir o hyd i undod a pherthynas. Yn wir, gellir 'negyddu' a chadarnhau' yr un pryd mewn *dechrau/diwedd*. Gyda'r cwmp y daeth cyfundrefn *negyddu/cadarnhau* i'w gorsedd yng nghanol y bywyd Cristnogol, ac aros yno er gwaethaf pob sentimentalïaeth a chyfaddawdu, gwaseidd-dra ac amwysedd. A dyna ni'n ôl felly gyda Theomemphus.

* * *

Sut, bellach, y diffiniwn *Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol*?

Dylid disgwyl iddi wynebu Cyfundrefn yn ogystal â Diwinyddiaeth. Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yw'r ymchwil am drefn Duw yn y Beibl, ei drefn o weithredu'n synchronig ac yn ddiacronig. A Thematig ydyw o safbwynt Mynegiant deunyddiol. Mae Duw wedi dewis gweithio a'i egluro'i hun mewn cyfundrefnau thematig. Nid gwneud cyfundrefnau ysgrythurol yw gwaith y Diwinydd, ond darganfod y rhai sydd eisoes yno. Mae'r gyfundrefneg a geir yn y Beibl, ac yng ngwaith Pantycelyn, yn gallu helpu deall anferthedd a sancteiddrwydd Duw yn well. Ni honnwn mai dyna'r unig beth a geir yn y Beibl, o bell ffordd. Ond drwy bwysio ar y gwirioneddau gwrthrychol hyn y gellir amgyffred ewyllys a threfn rasol yr Absoliwt a gwedd ar bensaernïaeth ei Greadigaeth. Yn y gwaith deallol o archwilio Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, ni cheir gwir orffwysfa nes dod i lawnder cywrain ei chydberthynas. Dyna hefyd y brif thema yn ein cais am drefn, boed yn ein bywyd neu yn ein llenyddiaeth.

Gellir felly fapio cydberthynas rhwng y themâu byw ac ymarferol a geir yn gyffredin mewn bywyd ymarferol a'r themâu mwy sefydlog sy'n greiddiol mewn Archgyfundrefnau, fel hyn, a chofio'r un pryd yr ystwythder amodol yna a olrheinid yn yr ymennydd, gan Penfield ganol yr ugeinfed ganrif:

TAFOD

Yr Ymennydd Chwith

Gras Cyffredin

MYNEGIANT

Yr Ymennydd De

Porth i Ras Arbennig gyrraedd yr holl bersonoliaeth

<i>Cyn-Dafod</i>	<i>Tafod yr Iaith</i>	<i>Cyn-Fynegiant</i>	
<i>Mynegiant yr Iaith</i>			
Dosbarthu, Deddfu, Gwahuno	Gramadeg Gair a Brawddeg	Cyd-destun, Ystyr, Cyd-deimlad	Gwreiddioldeb
Archgyfundrefnau	Sfferau fel adnodd y gellid	Cyfundrefnau diwinyddol arferol	Motiff
Deunyddiau wedi'u strwythuro	dewis ohonynt (ynghyd â	Cyfundrefnau cymdeithasol	Trosiad
	chfundrefn arweiniol a	Cyfundrefnau Mynegiant yn	Cyfathrebu
	diffiniol pob Sffêr unigol)	gyffredinol. Geirfa a'r Llythrennol	
		Themâu Cyffredin	

Yn normal, mae'r ddwy hemisffêr yn cydweithredu, y gyntaf yn amodi'r ail, a'r ail yn cyflyru'r gyntaf. Gellir gorddefnyddio un ochr i'r ymennydd ar draul y llall gan unigolion ac mewn cyfnodau hanesyddol (megis yr Ymoleuo). Gellir clwyfo un ochr i'r ymennydd, ac y mae newrol-lawfeddygon ers tro wedi sylwi ar y math hwn o niwed neu o atalfa. Ond o safbwynt Pantycelyn, mae Duw'n Benarglwydd ar y ddwy ochr, Elohim ac Adonai, Genesis 1 a 2; Duw'r Wedd Orchmynnol Orfodol a Duw'r Wedd Bersonol Ddyn-gyfrifol.

VII ENGHREIFFTIO THEMÂU CYFUNDREFNOL

Yr wyf wedi ceisio dadlau bod ‘Thema’ yn fath o asgwrn cefn i ystyr storïol. Syniad deinamig a ddatblygir mewn naratif neu drafodaeth yw. Sylwer, felly, nad enwi na disgrifio ‘nodwedd’ fel eiddigedd neu achubiaeth neu frwydr yr ydys, yn arbennig wrth sôn am thema ‘gyfundrefnol’. Mae thema gyfundrefnol yn golygu bod yna undod ystyrol sy’n cynnwys gweddau cydlynol datblygol. Mae’r gweddau hyn yn pwysu ar ei gilydd, yn ôl egwyddor dibyniaeth. A cheir cynllun felly sy’n botensial ar gyfer diriaethu mewn Mynegiant, sef ‘yr anweledig’ wedi dod yn ‘weledig’. Thema yw’r ystyr anweledig sy dan sylw a batrymir yn ôl strwythur y rhannau ymadrodd naratif. Mewn Mynegiant, tebyg yw’r frawddeg ramadegol neu’r motiff o ran strwythur penodol cynddelwol.

Symudiad ystyrol unol yn y meddwl yw thema. Gall fod yn gryno neu’n estynedig. Gellid dadlau mai *Sancteiddhad* yw nodwedd neu rinwedd prif thema haniaethol emynau Pantycelyn. Yn fynych, fe’i corfforir yn ôl delwedd taith neu frwydr neu garwriaeth. Parhad yw i nodwedd *Cyfiawnhad*, fel y bydd *Gogoneddu* yn barhad i *Sancteiddhad*, bob un yn dibynnu’n olynol ar ei gilydd, yn undod a ddiriaethir yn ymarferol. Ond sancteiddhad yw calon weithredol ei thema. Y thema sy’n gwau'r egwyddor.

Dichon y dadleuai Pantycelyn mai perthynas *Anweledig/Gweledig* oedd nodwedd thematig gyffredinol bennaf ac ymwybodol ei gasgliad *Ffarwel Weledig*. Ond mae'r berthynas hon eisoes yn un o'r Archgyfundrefnau; ac yr oedd yr un cyferbyniad egwyddorol hwnnw hefyd yn gyfundrefn arwyddocaol wrth gynnal cyferbyniad ieithyddol mwy cyffredinol a oedd ar gerdded yn ei waith mewn *Tafod/Mynegiant*, un o’r prif offer cyffredinol mewn dadansoddi.

Dyna grybwyll themâu go lydan mewn iaith a llên. Ond fe ellir o fewn y fframwaith hwnnw ddod ar draws rhediad prydyddol sy’n dilyn thema mewn rhan o gerdd yn unig. Felly, gellid crynhoi thema rhan o ‘Theomemphus’ Pennod XIII, fel perthynas *Mab/Merch*, neu’n gyflawnach ac yn driol ar gyfer un rhediad – *Theomemphus/yn caru/Philomela*. Yn fwy cynhwysfawr ar gyfer y gerdd fel cyfanwaith, dichon y gellid disgrifio thema ymbarél ‘Theomemphus’ yn llawnach gyferbyniol fel *Argyhoeddiad o Bechod//Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddiad*, fel y mae symudiad *Creu/Cwyp/Cadw* yn thema ymbarél i ‘Golwg ar Deyrnas Crist’. Mae themâu ymbarél o’r fath yn darparu fframwaith i holl rediad y cerddi cyfain.

Fel y bydd Cristnogion Beiblaidd yn hoffi pwysleisio nad teimpladau a goddrychedd yw calon yr efengyl, eithr gwrthrychedd digwyddiadau hanesyddol, sef gweithredoedd diriaethol

gan Dduw a gymhwysir i fywyd y Cristion yn wrthrychol ac yn oddrychol, felly gyda chyfundrefnau thematig diwinyddol. Syniai Pantycelyn fod yna Drefn ryfeddol taw pa mor farddonol y'u disgrifid hwy'n wreiddiol ddeinamig ym mhatrwm ystyron a themâu athrawiaethol y Beibl; a hyn oedd yn sail i feddwl Pantycelyn.

Ar ryw olwg, yr hyn y mae'r gyfrol hon yn ceisio'i ddisgrifio i raddau felly yw Maes Ffurfiol yr Arwyddedig (ystyr), yn ochr yr hyn y ceisiai *Meddwl y Gynghanedd* ei wneud ym Maes Ffurfiol yr Arwydd (sain). Crynhoi neu amlinellu a wna gynllun bras cynganeddu Deunydd meddyliol Pantycelyn. Ac wrth wneud hynny, ceisir trafod adeiladwaith ei Fynegiant syniadol, tan symud o'r haniaeth i'r ddiriaeth.

Mae'n fwy anodd adnabod cyfundrefnau syniadol o'r fath, o'u cyferbynnu â chyfundrefnau ffurfiol iaith a llenyddiaeth, dyweder. Gellir clywed y rheini'n ddirfodol. Ond y mae'r meddwl dynol, drwy ei dechneg orfodol o 'wahuno' wedi llunio sefydliad dadansoddu sy'n atebol i *gynnwys* y meddwl syniadol yn ogystal ag i *ffurf* y meddwl. Wedi ceisio amlinellu natur gyffredinol 'cyfundrefn', mae'n briodol i mi bellach brofi'r diffiniad hwnnw drwy ymaflyd mewn rhai problemau. Mae'r tair enghraifft y ceisiaf eu hamlinellu maes o law yn codi anawsterau diffinio gwahanol. Diau fod yna ychwaneg lawer. Gall rhai ymddangos yn ymylog. Ond drwy docio ar yr 'ymylon' (ar ryw olwg), gellid miniogi ein hymofyniad.

Cyn troi at y rheini, hoffwn grybwyll thema sy'n gweithredu 'pleser'. Dyma ddilyn un wedd ar y ffordd y mae Pantycelyn yn ymwneud ag un thema yn ailadroddol. Mae'i apêl at y serchiadau wedi darparu thema gyfarwydd a gafodd gryn sylw gan feirniaid yr ugeinfed ganrif. Ac eto, protestid gan eraill oherwydd tuedd Pantycelyn i alltudio 'pleserau' yr un pryd. Cymerer hanner cyntaf *Gloria in Excelsis*, Yr Ail Ran (GWP II, 333 yml.). Mae Pantycelyn yn ymaflyd mewn pum gair — neu'n hytrach mae pum gair yn ymaflyd ynddo ef, ac mae'n rhedeg gyda nhw: *pleser, gwrthrych, griddfan, creadur, Iesu*, a hynny mewn cyfres o emynau olynol.

Mae'r gyfrol yn dechrau gyda chyfres o un ar ddeg o gerddi wedi'u hysbrydoli gan Ganiad Solomon. Ceir tyndra'n hanesyddol hysbys ers tro yn y rhan hon o'r ysgrythur: rhai am ddadlau o blaid ei dehongli'n llythrennol, mai dathlu priodas Solomon yr oeddid go iawn, rhai eraill am 'ysbrydoli' hwnnw a'i 'throadu' i gyfleu Crist a'r Eglwys. Tueddaf innau i ddarllen y llythrennol yn droadol, a'r troadol yn llythrennol, y naill a'r llall yn wir, yn cyddoddi i'w gilydd, heb golli'u cyferbyniad. Mae yna ddau bleser yn cydio: gwrthodir un yr un pryd ag y derbynnir y llall. Dechreu'r gyfres â'r llinell: 'Fe'm siomwyd gan *bleserau*'r llawr' ...yna 'pleserau gau ...Daeth ar fy mhleser drai.' Mae yna ddadrithiad ym mhleserau'r

meidrol a arweinia yn yr ail gerdd at 'Fy enaid am fwynhau / Pleserau dwyfol'. Mae'r trydydd emyn, un o'i gerddi hyfrytaf, yn dathlu'r cyferbyniad, 'Heb ymbleseru fyth mewn dim, / Ond cariad at fy Nuw...' 'rhag im' wel'd / Pleserau gwag y byd', 'mynych o'th fwynhau — / Ac nid oes gennyf bleser'. Yn y pedwerydd emyn, mae yna sifft: dyma un o'i ganeuon mawr, 'Rwy'n edrych dros y bryniau pell'. Ceidw'r gair, 'Ac na f'o pleser fyn'd â mryd, ond cyfyd air arall: 'Oddiwrth wrthrychau gau, /At yr un *gwrthrych*'. Bu'r gair 'gwrthrych' yn hynod amlwg ganddo yn Rhan I *Gloria in Excelsis*, emynau 664, 665, 666, 668, 689, 692, 695 (3 gwaith mewn dau bennill), 700, 722. Mae'r ddiriaeth 'gwrthrych' yn arwyddocaol: cyferbynnu â'r goddrych (y fi) a wna: ymgawdola. Bellach, ceidw'r bardd gyferbyniad arall. Fel yr oedd un pleser yn cyferbynnu â phleser uwch, felly yn y pumed, y mae un gwrthrych yn cyferbynnu â gwrthrych uwch: 'Ar holl wrthrychau cig a gwaed ... Ond mi ges wrthrych'. Yn y symudiad meddyliol fertigol neu hierarcaidd hwn oddi wrth Fetanaratif drwy thema tuag at ddelwedd (o fewn cyfundrefn y ddelwedd, *gwrthrych / delwedd*), y mae'r cysyniad hwn o wrthrychau yn allweddol. Ac yn y cyferbyniad rhwng absoliwt tragwyddol-bersonol o wrthrych ac absoliwt y Trosgynnol-Ego o oddrych, gwelir eto ei bwysigrwydd. Yna, dychwel at 'thema' pleser, ac mewn tri phennill digwydd y gair drachefn bedair gwaith. Ond nid yw wedi gorffen â'r gair 'gwrthrych': rhed ag ef yn emynau 747, 762, 774, 784. Nid yw chwaith wedi gorffen chwaith â'r gair 'pleser': 747, 748 o fewn y rhediad hwn. Ond gorffenna'r gyfres hon gyda GWP II, 337, a chydag emyn 751, dechrau 'Tan fy maich yr wyf yn *gruddfan*'. (Gair mawr George Herbert). Mae wedi newid mydr, mae'n drymach, a'r penillion yn hwy. Cododd gair thematig newydd. Ceir rhagor o riddfan yn emyn 752 (ynghyd ag och'neidio) 753, 759, 786, yn 754 am 'ofn yn fy nghalon' a 'digaloni', gan ddychwelyd at 'och'neidiau' yn 756, ac 'wylaf ddaagrau' yn 757. Dyma gyfres yn awr o naw emyn cyffes ar yr un mydr. 'Baich o euogrwydd' am fethu â chadw addunedau, ac ildio 'gwan', yw ei gymhelliad. Ailgydia o hyd yn y pleserau (ddwywaith yn 757) a'r gwrthrychau (756) wedi ymdroi yn y cyferbyniad.

Dechreua mydr a chyfres newydd yn awr yn emyn 760, gan ddychwelyd at sicrwydd dechrau'r gyfrol. Ond nid cyn codi'r gair '*creadur*' yn emyn 756, 758, gair a red gydag ef 762, 773 ('Oll a'm tyn i o'r creadur'). Gair yw sy'n ei atgoffa ef am fawredd y greadigaeth, ac mai syrthiedig ac anifeilaidd yw'r creedig bellach.

Try wedyn oddi wrth y griddfan yn emyn 768 at emyn hyfryd 769, ac yn ôl yn gadarnhaol felly at ei hoff destun '*Iesu*, llawnder mawr y nefoedd', a 770 'Edrych *Iesu*, ar dy ddyweddi', 771 '*Iesu*, tro'. Yn fyr, yr hyn a geir yn yr holl emynau hyn yw fframwaith cadarn o ymbleseru, gyda'r naill begwn yn negyddol a'r llall yn gadarnhaol. 'Mwynhad' yw'r testun,

hedoniaeth ysbrydol: ond y mae'r elfen 'serch' yn bur anghonfensiynol ac anghysurus i rywrai. Dyma thema sy'n cyffwrdd â phwrpas dyn: mae a wnelo hefyd â serchiadau barddonol yn ogystal â maglau moes.

Eto, dyma un o themâu mwyaf poblogaidd a chyffredinol Pantycelyn.

Sylwaf yn benodol yn awr ar dair problem arall nid amherthnasol:

(i) *balchder/gostyngeiddrwydd*

Sut yr awn ati'n enghreifftiol i ystyried a yw cwlwm neu gyfuniad syniadol neu egwyddorol o'r fath yn '*gyfundrefn ddiwinyddol*' neu beidio? A yw hyn ei hun hefyd yn ddeunydd thema fwy na chyferbyniad neu gyfosodiad geiriol yn unig? A oes rhywbeth deinamig yn y cyferbyniad neu'r estyniad perthynol *balchder/gostyngeiddrwydd* o ddwy egwyddor groes i'w gilydd neu atodiad i'w gilydd, sydd o'r fath ansawdd fel y bo'r undod rhyngddynt yn fath o fecanwaith meddyliol cynhaliol mewn athrawiaeth grefyddol? Tebyg i Fetanaratif drom.

Byddai'r fath ymsynied barnwrol cyson yn yr ysgrythur yn rhagdybied efallai mai cyfanwaith awdurdodol megis iaith ei hun yw'r ysgrythur oll o fewn cyd-destun Cynnwys sicr; ac felly yr oedd i Bantycelyn; yn ramadeg bywyd. Y tu mewn i'r undod cyffredinol hwnnw rhwng cloriau, ceid ffordd ddiwyo o ddehongli bywyd oll a oedd yn gyson yn seiliau'r meddwl. Yr wyf yn y gyfrol hon yn archwilio'r posibilrwydd a yw'r cyfanwaith crefyddol hwn drwy'i ddylanwad yn ymglymu wrth ei gilydd o gwmpas rhai egwyddorion syml, a hynny mewn *oeuvre* anferth o enghraifft leoledig, (gwaith Pantycelyn). Eithr nid yn unig hynny, eithr hefyd a yw wedi'i gyd-wau yn y fath fodd fel y bo llu o glymau egwyddorol mewnol perthynol yn cydailleadu ac yn ymglymu yn ei gilydd yn strwythurol nes eu bod yn cael eu ffurfio ar hyd traddodiad Cristnogol yn gywaith eang mawr, eithriadol o arwyddocaol yn y meddwl dynol, ynghylch perthynas Duw a dyn? Traddodiad Cymreig Awstin/Calfin.

Dyma thema ehangach na dau air, mae'n amlwg. Ceir llawer o hanesion sy'n ei hadlewyrchu. Ond nesawn yn gyntaf at y cyfuniad syml '*gostyngedig/balch*'.

Yr wyf yn darllen adnod yn Ioan 4: 6, '*Y mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion, ond i'r gostyngedig y mae'n rhoi gras.*'

I ba raddau y mae'r ddeuliaeth unigol ymddangosiadol ddiniwed hon yn adlewyrchu *cyfundrefn* syniadol neu feddyliol o bwys o fewn y Beibl benbwygilydd? Pa mor bell y mae'n mynd? A yw'n crynhoi un agwedd fawr arbennig sydd gydag amrywiaeth o glymau cyffelyb

eraill yn adeiladu corff o syniadaeth lle y mae'r dehongliad o fywyd yn sylfaenol gyrrhaeddgar? Hynny yw, a yw'r adeiladwaith yn y meddwl yn gyferbyniad sy'n arwain at ganlyniadau tyngedfennol yn ysbrydol? A yw'n fwy na rhethreg?

Yn gyntaf, gellid ymholi a yw'n perthyn yn uniongyrchol arwyddocaol i'r cwlwm naratif sy'n amlinell seml ond canolog i wth a rhediad thematig cyfannol y Beibl a *Golwg ar Deyrnas Crist*:

Creu — cwmp — codiad (neu ogoneddiad)

A all fod yn allwedd i agor dealltwriaeth i'r naratif aruthr hon?

Hynny yw, a yw presenoldeb sefydlog y cyferbyniad *balch/gostyngedig* mewn motiff ar ôl motiff yng ngwaith Pantycelyn yn gangen gyfrannol orfodol i ganol tyfiant prif undod meddyliol y genadwri a'r naratif? A yw'n gyferbyniad nad yw'n digwydd ond yn achlysurol ymylog, neu a yw'n fynych angenrheidiol yn y Beibl o ran syniadaeth fel yr ymddengys yn gwbl angenrheidiol i'r brif thema, boed yn 'gryno' iawn ambell waith neu'n 'ddatblygedig'? A yw'n elfennaidd? Hynny yw, a yw yn y diwedd mor hanfodol syml fel y gellir ei gadw yng nghefn y meddwl, neu fel y gellir ei storio'n isymwybodol yn rhan o wneuthuriad hanfodol yr hyn a ddywedir? Gofynnwn hyn am ein bod yn y bôn yn synied yn y fan hon am Gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n gydlyniad cyfannol i holl neges Cristnogaeth.

Sylwn gyda hyn nid yn unig fod yna enghreifftiau o'r gostyngedig a'r balch yn digwydd yn y Beibl a chan Bantycelyn, ond bod yr ymgorfforiad hwn a'r ymagweddu hwn yn cael ei bwysleisio ac yn hanfod. Mae yna ddealltwriaeth arbennig i'r fframwaith hwn, oherwydd "balch" neu "ostyngedig" yng ngŵydd Duw yw. Mae ymostwng (a'i gyferbynnu â'r agwedd wrth-ymostwng) yn hanfodol i *Fod/bod*. Mae'n arwyddocaol yn ein dealltwriaeth o brif neges yr ysgrythurau — perthynas. Yn wir, cawn enghreifftiau o falchder ac o ostyngeddrwydd mewn pobl, ynghyd ag anogaeth neu esboniad yn eu cylch sydd mor amlwg fel y tystir bod y nodweddion hyn yn ganolog i'n hamgyffrediad o bwrpas y Beibl. Mae Adda'i hun yn cael ei ddenu i fod 'megis duwiau'. Mae cymeriad fel Haman yn *Esther* yn dioddef oherwydd, yn ei berthynas ag Ahasferus a Mordecai ac Esther ei hun, y mae'n cael ei ddarostwng, a'i falchder ffôl yn achos i'w drasiedi ac yn arwain i'w gwmp a'i farwolaeth. Gwyddom am y Ffariseaid hwythau sydd eisiau cael eu gweld ar gorneli'r strydoedd yn gweddio.

Yn wir, y mae Duw ei hun yn ymostwng yn Ei ymgnawdoliad goruwchnaturiol. Ef yr ail Adda (gw. M I, 158) oedd yn ufudd, lle yr oedd yr Adda cyntaf yn anufudd. Bu'n byw'n ostyngedig — ni synnwn o gwbl ei fod yn golchi traed Ei ddisgyblion (Onis ganed mewn stabl?) Ac eto'n fwy byth yn Ei farwolaeth iawnol ac aberthol a chynrychioliadol dros ddynoliaeth, fe'i cyflwynir i ni yn y fath fodd fel y bo'r weithred hon o farw dros

bechaduriaid yn cael ei chyfrif yn ganolog i holl neges Cristnogaeth. Mae'r fath sylweddoliad rhyfedd bod Metanaratif Cristnogaeth yn pwysleisio cywilydd dyn, a pharadocs mor wrthun â Duw-ddyn yn ymostwng i farw, a hynny'n uchafbwynt i berthynas achubol dynoliaeth, mor gwbl eithriadol, mor syfrdanol i foeseq ddyn-ganolog fel na all ond arddangos gostyngeddwydd a chariad anfeidrol.

GWP 184, *Wel, dyma'r eiddil, dyma'r gwan,
 Yn griddfan wrth dy draed,
 Tu hwnt bob gobaith i gael byw
 Ond trwy dy ddwyfol waed ...*

*Am iddo yno grymu ei ben,
 A marw ar y groes,
 Mwy na rhifedi beiau'r byd
 Yw haeddiant dwyfol loes.*

Ymhellach, yn gwbl ymarferol i'r bywyd tragwyddol dynol, fe gyfrifir mai ymostyngiad ar ran y person unigol ei hun gerbron Duw yw hyn. Dyma ymwybod o angen bywydol ac o wrthryfel yn erbyn arglwyddiaeth y Crëwr, a sylweddoliad o'r rheidrwydd i gydnabod ei fawredd trugarog, ac o'r diolch am ei waith na allai neb arall ei gyflawni i'r fath berwyl ag i roi bywyd newydd. Mae'r pwyslais hwn oll ar ymostyngiad dyn yn ffenomen mor gwbl eithafol fel na ellir ond cydnabod gostyngeddwydd llwyr y balch yn ddigwyddiad ac yn broses gwbl allweddol yn y dasg o adfer perthynas dyn a Duw. Gwneir hyn yn bosibl gan ras Duw. Ac yn gyfatebol, mae ymostyngiad y Duw-ddyn i roi'i waed ar y Groes, a dwyn y gosb am holl bechaduriaid dynoliaeth yn ymostyngiad sy'n peri tramgwydd a rhyfeddod i lawer.

Mae'r gyfundrefn egwyddorol *balch / gostyngedig*, felly, yn crynhoi ffenomen hanfodol yn y dehongliad Cristnogol o fywyd. Mae'n flaenllaw yng ngwaith Pantycelyn: *uchel, isel*. Dyma gyfundrefn feddyliol y gellir myfyrio'n hir ac yn ddwys ar ei harwyddocâd, er eto yn ddelwedd isymwybodol o blygu sy'n gallu bod yn elfennaidd yn nyfnderoedd y profiad.

Felly, i Gristion fel Pantycelyn, y mae canu —

*Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
 Myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn, ...*

yn ddatliad o'r pwys mwyaf. Ond fe'i sgrifennwyd yn thema y tu mewn i 'gyfundrefn' o brofi a deall ynghylch ymostwng. Mae'n datgan un o brif fuddugoliaethau'r ffydd Gristnogol, y ffaith ryfeddol fod Duw'n estyn iachawdwriaeth a gogoneddiad i'r sawl o gôl Ei ostyngeddwydd sydd wedi canfod dwys angen. Dyma blygu gorfoleddus. Ac y mae'r cwlwm profiadol dihaeddiant hwn yn cyd-berthyn i bob cyfundrefn syniadol arwyddocaol arall yn y Beibl. Dyma'r negyddu sy'n thematig gadarnhaol.

Felly, fe allwn yn gyfrifol ystyried y cyfuniad *gostyngeiddrwydd / balchder* fel cwlwm meddyliol tebyg i *ffydd / gweithredoedd, cyfiawnhad / sancteiddhad*, ac yn y blaen. Mae'n gwblwm egwyddorol gyson a hanfodol i'n llawn sylweddoliad o adeiladwaith y ffydd. Mae'n beth elfennaidd hefyd sy'n rhedeg yn thema. Mae'n ymwybod a brofir gan y bobl symlaf megis gan y doeth a'r deallus. Mae'n rhaid i bob Cristion ymostwng a milwrio'n erbyn balchder rywbyrd neu'i gilydd, ac yna'n gyson. Does dim dewis, i'r sawl sy'n ceisio Duw.

Ond ymhellach, hyd yn oed yn ein buchedd ymarferol bob dydd, cyfrifir 'ymostwng' yn egwyddor weithredol dreiddgar, gwmpasol i bob cyfeiriad. Disgwylir inni nid yn unig ymostwng i Dduw, eithr y plant i'w rhieni, y rhieni i'w plant, y wraig i'w gŵr a'r gŵr i'w wraig, yr holl aelodau yn yr Eglwys i'w gilydd, y llywodraethwr i'r deiliaid a'r deiliaid i'r llywodraethwr. Mae'n egwyddor gymdeithasol gyfoethog gynhwysfawr iawn, ac yn destun diolch. Dyma faes gweithredol *Cyfarwyddwr Priodas*.

Yn ddiwinyddol, felly, cyfrifaf mai 'cyfundrefn' ddeunyddiol yw mewn Cynfyngiant: trefn gyfan, undod sy'n cwmpasu rhannau cytûn, o fewn fframwaith cyferbyniol pegynau strwythurol Deunydd Pantycelyn: yr Absoliwt, y creadur. Dyma gymeriad cyson Crist ei hun: 'Dysgwch gennyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.' (Math.11:29) Mae'r gwir Gristion yn hiraethu am fod yn ostyngedig. 'Ei ras a rydd Ef i'r gostyngedig,' (Diar. 3: 34). Dyma gwblwm o egwyddorion gweithredol sy'n ymgysylltu â llu o glymau egwyddorol eraill y bydd yn rhaid inni eu hystyried yn wead cadarnhaol-negyddol drwy waith Pantycelyn yntau. Hyn sy'n adeiladu glwm wrth glwm ei athroniaeth o fywyd. Dyma ysgerbwd ar ryw olwg y Deunydd oll y mae'n ei gorffori yn ei waith, fframwaith y berthynas a ddymunai rhyngddo a Duw: *Bod/bod*. Roedd ef yn ymwybodol dros ben o hyn fel y prawf, dro ar ôl tro, ac nid yn unig yn ei ddwy arwrgerdd *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus*. Iddo ef, yr oedd pob gwedd ar ei feddwl yn ymglymu'n gyfanwaith cymen. Ni ellir gwerthfawrogi'i waith yn ystyrllon lawn heb sylweddoli bod y rhannau a'r manylion oll yn weddau ar undod, na heb dybied fod cyfaredd undod y cyfrinydd yn cyfuno yn ei brofiad a chwblwm o gyfundrefnau deallol. A'r undod hwn o undodau yw asgwrn cefn ei gyfrolau. I Bantycelyn, yr oedd gostwng y balch, felly, a'i ymostyngiad ef ei hun yn drobwynt, yn wir yn uchafbwynt, i'w fywyd. Dyma'i dröedigaeth ar y dechrau, dyma'i ogonedd ar y diwedd.

GWP 281 *Rwy'n gorwedd tan fy mhwn*
 Yn isel wrth dy draed,
 Yn adde' 'mod yn waelach dyn
 Nag eto un a gaed.

Neu eto: o *Olgwg ar Deyrnas Crist* –

Fy Nuw, uwch law fy neall

*Yw gwaith dy ddwylo i gyd,
Rhyfeddod annherfynol
Sydd ynddynt oll ynghyd;
Wrth weled dy ddoethineb,
Dy allu mawr, a'th fri,
Mi greda' am iachawdwriaeth
Yn hollol ynot Ti.*

Wrth roi'r fath amlygrwydd i 'Ymostwng i'n gilydd' wrth enghreifftio themâu, yr wyf yn ei wneud oherwydd mai dyna yw cynddelw a delfryd pob perthynas rhwng Duw a dyn, a rhwng dyn a dyn.

A darostwng y ddaear? Ie, hynny hefyd. Ond hefyd ymostwng i'n gilydd gyda hi, gwasanaethu, parchu, a chyd-ymostwng (o ran cydweithredu) â'r ddaear ei hun gan ufuddhau i anghenion y ddaear. Ac y mae'r berthynas *ysbrydol* hon rhwng pobl hefyd yn fater ymarferol, ac yn ymyrryd hyd yn oed â'r materol. Dywedwn fod *isel/uchel* yn fframwaith deinamig mewn ffordd nad yw'n wir am deimladaeth fel 'pleserau'.

(ii) Caru cyd-ddyn a *Mi / Ti / Ef*

Dyma'r dimensiwn ysbrydol i ddarllen y fwyaf llenyddol foddhaol o gyfrolau rhyddiaith Pantycelyn. Os mawl i waith dirgel Crist ar y groes yw byrdwn yr emynau, yn ei lyfrau rhyddiaith, cysgodir rhai o themâu eraill y Beibl, megis er enghraifft y dadlau cyson a digymrodedd o blaid tlodion. Ceisiwn ystyried i ba raddau y mae'r wedd elusennol ar garu'r anghenus yn Thema ganolog i Gristion ym maes sancteiddhad.

Yn y fwyaf caboledig o'i gyfrolau rhyddiaith, un o'r prif themâu yw'r rhyfel dosbarth. Yn *Tri Wŷr o Sodom o'r Aifft*, 1768 ceir dau ddyn drwg ac un dyn da: (GWWP II, 120), 'Enw un oedd Afaritus, a gyfenwid felly oddi wrth ei awydd gwyllt am gyfoeth; enw'r llall oedd Prodigalus, am ei fod yn anghynefin afradlon, ac yn gwneud duw o'i fol; ond y trydydd a gyfenwid Ffidelius, ac efe oedd Gristion.' Wrth ddarlunio Afaritus ('dosbarth' nid unigolyn oedd ef), soniai am 'ei dyddynnod a gysylltwyd y naill at y llall, nes cael tan ei draed dir heb fesur, a'r tlodion yn griddfan eisiau lle ... yr oedd mwy na'r naill hanner o'i gyfoeth yn lladrad oddi ar y Gweiniaid ... (121). Disgwyl yr oedd efe gwmp y tlodion fel llew yn disgwyl am ei ysglyfaeth, a'i lygaid a dremient ar y tlawd i'w gael ef i'w rwyd. Os tir yr ymddifad a'r weddw fyddai wedi ei wystlo, fe wnâi ei orau am ei nyddu i mewn i'w we ei hun ... Ei anifeiliaid ef a werthid i'r gweiniaid ar eu gwerth dauddyblyg, a'r tlawd oedd yn ofni gweled dydd y taliad; yr iau oedd yn rhy drwm, a'r baich yn methu ymadael â'r ysgwydd; ac yn lle eu tynnu o'u cyfyngdra, fe a'u prynai hwynt yn eiddo iddo ei hun, trwy

dalur ddyled i bawb o'u gofynwyr, fel y câi ef y tlawd hwnnw, ei wraig a'i blant yn gaethweision iddo ei hun ... (124). Yn ei holl ymdrin â'r byd, ar gefn y tlodion yr oedd ef yn byw ... Anudoniaeth oedd yn o'r pethau mwya ag oedd yn cryfhau ei freichiau yn erbyn yr ymddifad.' Gan Bantycelyn ar dud. 120-145 y ceir yr ymosodiad llymaf ar Gyfalafiaeth a gafwyd yn y ddeunawfed ganrif yn Gymraeg. Gan Ffidelius y ceir gwreiddyn cyntaf y radicaliaeth a gawd i arwain Cymru am ddwy ganrif wedyn, lle yr oedd cyfoeth y Cristion 'oll ohonynt oedd rydd ac agored i wasanaeth holl deulu'r ffydd.' 'Ei dŷ ef oedd yn dŷ ymddifaid, a'i fwrdd oedd bwrdd y rhai diymgeledd.' 'Rhifedi o weddwon a waredodd ef o ddwylo eu gorthrymwyr.' Ymegyr ar dud. 139 fel pe bai'n amlinellu polisi neu raglen huawdl ar gyfer y dyfodol. Amlinellai fath o wladwriaeth les: 'Dillad rôi ef i'r noeth, bwyd i'r newynog, arian i'r anghenog, meddygyniaeth i'r claf, cerydd i'r afreolus, cyngor i'r dall a'r anghyfarwydd, rhybudd i'r ffŵl a'r cyndyn, cymorth, nerth, a diddanwech i'r weddw a'r ymddifad rhag yr hwn fyddo trech nag ef: yn fyr, tad pob gwan a rheidus, brawd pob llwfr a thrafferthus, ac amddiffynfa gadarn yr hon fyddai ar gael ei lyncu gan fwystfilod rheipus y byd hwn, oedd Ffidelius.'

Annog chwyldroi agwedd at eiddo ac arian yr oedd Pantycelyn. Rhyfel dosbarth ysbrydol a fwriedid ynddo, rhwng yr hen ddyn iwtilitaraidd faterol a'r dyn newydd ysbrydol fyw, y cybydd a'r halfawr, nid rhwng unigolion ond rhwng teipiau, dosbarthiadau ideolegol. Ac eto, rhwng dyn a chyd-ddyn.

Ceisiai osod gerbron nod a delfryd cymdeithasol i'r Cristion gwirfoddol, sef bod pobl, o'r galon, wedi'u geni o'r newydd yn rhannu eu da yn ôl yr angen. Mewn erthygl yn *Y Llinyn Arian*, 1947, tyn D. Myrddin Lloyd ein sylw at y feirniadaeth hallt gan Bantycelyn 'ar anturiaeth Imperialaidd ac ecploetiaeth y diwydiannau haearn ac eraill a oedd yn dechrau cynyddu yn ei ddydd.'

Cafwyd pedwar argraffiad o'r newydd o'r gyfrol hon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny gan lenor mwyaf poblogaidd Cymru erioed: anodd gennyf goelio na chafodd y rhain ddylanwad ar ddatblygiad Undebau Llafur a radicaliaeth Gristnogol Cymru yn y cyfnod diweddar. Ni chafodd hyd yn oed y Blaid Gomiwnyddol y fath ddylanwad delfrydus ag a gafodd y gŵr hwn o ardal Dinefwr. Pa enw a oedd ganddi i gystadlu â hwn?

Un o'r themâu cefndirol mwyaf dwys yng ngwaith Pantycelyn yw thema 'perthyn'. Fe'i ceir ar waith wrth gwrs yn y cyswllt dirgel rhwng personau'r Drindod. Sylfaenir cynllun 'Golwg ar Deyrnas Crist' oll ar drefniant neu gais gan y Tad i'w Fab ymgymryd â 'phrosiect' y Greadigaeth, gorchwyl a gwpléir drwy ddioddefaint a chariad ac ufudd-dod cyn i'r Mab gyflawni'r dasg a'i chyflwyno'n ôl i'r Tad, gyda'r Ysbryd Glân yn hyrwyddo ac yn

gwasanaethu, drwy gydol yr amser, yn rhan o berthynas gyfun ysbrydol annirnad, cydweithrediad mor dynn oherwydd undod cyflawn. Dyma berthynas o fewn y Drindod.

*

*

*

Yna, try ‘Theomemphus’ eto o gylch perthynas arall, ond y tro hwn rhwng dyn a Duw. Sut bynnag, y meddylir am natur Duw a dyn mewn crefydd, yn y grefydd Gristnogol y mae’r berthynas sylfaenol rhyngddynt mor annatod ei hanfod, mor agos fel na ellir canfod ei maint, ac eto’n ddrylliedig ddychrynlyd. Perthynas yw ysgogiad holl waith Duw vis-à-vis dyn. Beth bynnag fo’r Achos Eithaf, gelwir hwnnw’n Iesu Grist. Mae’r ffenomen o berthyn bell-gyrhaeddol. Dyma galon yr efengyl. Ac wrth gwrs, o safbwynt Ffurf a Mater, o safbwynt Cymhelliad unol, o safbwynt ymarferol diriaethol, fe’i canfyddir ym modolaeth greiddiol y Gyfundrefn fel sefydliad. Mae’r thema o gyfundrefn gydberthynol fewnol ym mhob man yn adlewyrchiad trawiadol o sefyllfa gymhelliol eithafol o glôs. Dyma hanfod bodolaeth. Ymdry Pantycelyn yn gyson ynghylch y thema hon o Berthyn, hyd yn oed heb ei henwi’n blwmp ac yn blaen. Hyn a ddarlunnir mewn llw o weithredoedd delweddol: ymostwng, ufuddhau, derbyn, caru, cynhemlu, dilyn; hyd yn oed y tu mewn i’r Drindod. Yr un anian sydd i’r holl weithgaredd. Nid yw bodolaeth ei hun yn werthfawr heb berthynas. Gweithredir hyd yr eithaf er mwyn diogelu a sicrhau hyn.

Perthynas heriol hefyd, wrth gwrs, yw’r darganfyddiad isymwybodol o Ragenw mewn gramadeg. Corfforir perthynas fel egwyddor o fewn adeiladwaith dyfnaf yr iaith.

Mae’r triawd mi / ti / ef yn ddiymwad gyfundrefnol mewn iaith, ac yn bellgyrhaeddol – yn enwol, yn ferfol, ac yn adferfol-arddodiadol. Dyma gyfundrefn gyffredinol gydnabyddedig mewn Ieithyddiaeth ac yn ganolog i’r ymwybod o berthynas. Dyma adlewyrchiad geiriol hefyd o’r tri dimensiwn diriaethol cyn-ieithyddol mewn gofod. Fe ymddengys ar ffurf *Un/Amryw* ymhlith yr Archgyfundrefnau ffurfiannol. Ond gellir ei sylweddoli fel thema yn ôl Deunydd sy’n ymwneud â pherthynas rhwng dynion ac yn y Drindod.

A yw Diwinyddiaeth Gyfundrefnol wedi mabwysiadu’r gyfundrefn barod hon mewn iaith i fod yn rhywbeth mwy na ffurf? A luniwyd y gyfundrefn ysbrydol ar sail bodolaeth Tri-yn-Un yn gynhaliaeth ystyrol yn rhediad barddoniaeth Pantycelyn? Hynny yw, nid y cwestiwn yw a yw hyn yn *gyfundrefn*, ond a yw’n gyfundrefn *ddiwinyddol* lywodraethol mewn ystyr iddo? A yw hyn yn wedd adeileddol wrthrychol fel petai ar holl gydlynid syniadol perthynas Duw a dyn? A yw’n darparu Thema sefydliadol mewn Cyn-fynegiant, sef Metanaratif Cristnogaeth? Nid hon yw’r unig gyfundrefn ieithyddol sydd yn gynhenid yr un pryd yn wedd ar adeiladwaith syniadol diwinyddiaeth. Gwelwn maes o law fod Rhif

(Unigol / Lluosog; e.e. ti / chwi; ac Aelod / Eglwys) yn ogystal â Chenedl enwau, (Wrywaidd / Benywaidd mewn Priodas) eto'n haeddu ystyriaeth fel cyfundrefnau diwinyddol.

Enwogwyd y gyfundrefn ragenwol Mi / Ti / Ef a'i dyrchafu i fod yn 'ysgol grefyddol' gan Martin Büber (1878-1965). Ceir y ffurf greiddiol ar ei waith yn *Ich und Du*, 1923 (Fi a Thi). Math o ffurf ar ddirfodaeth yw, athrawiaeth a oedd yn boblogaidd iawn yng Nghymru rhwng dauddegau a phumdegau'r ugeinfed ganrif. Perthynas ddirfodol goddrych a goddrych yw ei brif ddiddordeb, y ddau sy'n medru cyd-deimlo ac ymwneud yn uniongyrchol â'i gilydd. Fe'i cyferbynnir â'r patrwm *Fi ac Ef*, sef perthynas, meddid rhwng goddrych a gwrthrych (absennol), lle y mae'r gwrthrych yn gwbl lonydd ac fel pe bai'n cael ei ddefnyddio neu'i reoli.

Carwn dynnu sylw at destun Pantycelyn lle y ceir y tri rhagenw'n frith, wrth gwrs, ac yn cael eu defnyddio'n ddirfodol ac yn draethiadol. Hynny yw, mae 'Fi' a 'Thi' yn amlwg; ond y mae hyd yn oed 'Ef' yma yn ddirfodol ac yn draethiadol. A phriodol manylu ar hyn. Cyfundrefn ddiwinyddol isymwybodol i Williams yw, ond yno'n sicr, ac yn britho'r emynau.

Gyda Büber, y mae Fi yn dod yn fyw, o feddwl a siarad ag un yn benodol o'r ddau ragenw arall. Medd Büber: 'Ni ellir siarad y gair cyntaf *Fi-Ti* ond â'r fodolaeth gyfan. Ni ellir siarad y gair cyntaf *Fi-Ef* â'r fodolaeth gyfan.' Nodwedd briodol y trydydd person yw bod fel pe bai'n absennol. Ond gwiw cofio y gellir profi absenoldeb hefyd â'r holl fodolaeth. Gwelsom gydag R.S. Thomas mor drawmatig oedd absenoldeb. Gall Ef fod yn oddrych absennol dirfodol. Felly, gweddau ar bresenoldeb/absenoldeb sy'n diffinio tri pherson y rhagenw.

A dyna'r lle y mae Büber a Phantycelyn yn gwahaniaethu. Dyma'r bardd yn gweithredu yn gyntaf o fewn y fframwaith *Fi-Ti*:

*Ti Arglwydd yw fy rhan
A'm trysor mawr, di-drai,
A noddfa gadarn f'enaid gwan
Ym mhob gwae;
Ac atat 'rwyf yn ffoi,
Dy fynwes yw fy nyth,
Pan bo gelynion yn crynhoi,
Rifedi'r gwllith ...* (GWP, 371)

A thrachefn:

*Ti, fy Iesu, yw'm Hanwylyd,
Ac ni fedda' i yn y byd
Un creadur sy mor werthfawr
Ag a dâl rhoi arno 'mryd;
Swn a siarad, &.,
Yw'r gogoniant tan yr haul ...* (GWP, 306)

Sylwn yn gyferbyniol yn awr ar Bantycelyn yn ymwneud â *Fi-Ef*. Yn gyntaf bydd yn ei wneud yn null Büber, fel arfer yn ei ryddiaith (gyda'r trydydd person fel bai'n absennol, heb feddu ar bresenoldeb bodolaeth gyfan):

‘At ba beth mae ein tafod ond i sôn am, a channol Duw, dweud yn dda am holl ddyfais iachawdwriaeth yng ngwaed yr Oen? Mae aelodau ein corff fel galluoedd ein henaid, i ogoneddu Duw, ac i fynegi i'r byd ei glod Ef. Onid oes angenrheidrwydd o ddangos i'r byd ar bwy du yr ydym, pa un ai o blaid Duw, neu o blaid Satan, â'n tafod cystal â'n bywyd, mewn geiriau cystal ag mewn egwyddorion tu mewnol? (GWWP, 18)

Ond wedyn yn ail, yn ei ddull arbennig ei hun cyfrifir *Fi/Ti*, gyda'r *Ef* y tro hwn yn ddirfodol drwy fod yn ‘oddrych absennol a chwenychir yn bresennol’. Hynny yw, ceir undod rhwng y tri pherson rhagenwol: mae'r hiraeth yn ceisio presenoli'r trydydd person —

*Rwy'n chwennych gweld ei degwch Ef
Sy uwch popeth is y rhod,
Nas gwelodd lluoedd nefoedd wen
Gyffelyb iddo erioed.*

*Efe yw ffynnon fawr pob dawn,
Gwraidd holl ogoniant dyn;
A rhyw drysorau fel y môr
A guddiwyd ynddo ei Hun ...*

Ac felly ymlaen: mae'r cwbl yn chwe phennill, ac ar hyd y daith y mae'r Cariadfab yn absennol. Yna newidia:

*O pam nas cafi ddechrau'nawr
Fy nefoedd yn y byd?
A threulio 'mywyd mewn mwynhad
O'th gariad gwerthfawr, drud.*

Yn y llinell olaf, mae'r Ef wedi newid: mae'n ddirfodol bresennol wedi'r sylweddoli. Mae'r cyferbyniad *pellter / agosrwydd* yn allweddol i'r hyn a ddisgrifir, a'r hiraeth yn presenoli'r absennol, fel y gellir dweud ei fod Ef yno ar gael ar ffurf hiraeth drwy'r cwbl.

Eto, ni allwn gyfrif hyn yn brif thema onid mewn ambell bennill gwasgaredig yn ei waith. Mewn is-thema, Motiff achlysurol yw. Mae'n rhan ganolog o adeiladwaith ei feddwl. Mae'n gorfforedig hanfodol felly yn y prif themâu. Mynegiant yw, mynegiant taer, ond heb i Ddeunydd ymddiriaethu'n gyfundrefn uniongyrchol thematig.

Yn yr emyn canlynol y mae'r meddwl yn symud rhwng *Fi-Ef*. Ar y dechrau, nid yw Williams yn cyfarch yr Arglwydd. Rhaid inni ddigwyl tan y pennill olaf, a'r rhagenw mewn gwirionedd yn darparu'r uchafbwynt.

GWPII, 241-2

*Beth yw'r achos bod fy Arglwydd
Hawddgar, grasol, yn pellhau?*

*Neu yn guddiedig, neu yn gyhoedd
Mae rhyw bechod yn parhau;
Tyr 'd yn awr, tor i lawr
Fy anwiredd fach a mawr.*

[Felly y symudir yn sydyn o'r trydydd person i'r ail ym mhob pennill; o'r absenoldeb i'r presenoldeb. Mae'r symudiad yn ddirfodol ddramatig mewn gofod. Sylwer ar amrywiaeth y patrwm yn y penillion canlynol; arweinia at rym y cyflawniad yn y pennill olaf.]

*Gallu f'Arglwydd sy'n fy ateb,
Gallu ei hunan ydyw ef,
Cariad nis gall ballu hefyd
Pe bawn yn ceisio ganddo'r nef;
Ond fy mai sy'n parhau
Hynny sy'n chwanegu'm gwae.*

*Chwilia, f'enaid, gyrrau'th galon,
Chwilia'i llwybrau maith o'r bron,
Chwilia bob rhyw 'stafell ddirgel
Sydd o fewn i gonglau hon;
Myn i ma's bob peth cas
Sydd yn atal nefol ras.*

*'Nawr 'rwy'n gweld, y mae'n ehedeg
Mewn i'm calon, ac i ma's,
Fil o bethau sydd wrthwyneb
I egwyddor dwyfol ras;
Uffern lid ynt i gyd,
Sydd yn erbyn f'enaid drud.*

*Dyma ryfyg yn ei allu,
Dacw anghrediniaeth mawr,
Bob yn ail yn curo f'enaid,
Yn cytuno 'nghael i lawr;
Dal fi i'r lan, 'dwyf ond gwan,
Mi gaf goncwest yn y man.*

*'Rwyf yn ffeindio mil o elynion
Yn fy mynwes yn parhau,
Oll am lethu f'enaid euog,
Bob yn un, a phob yn ddau;
Nid oes dim, ond dy rym,
All fod yn gynorthwy im'.*

Yr oedd Fi-Ti o ran perthynas wedi'i disgrifio'n ddirfodol eisoes yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan Sören Kierkegaard, a chan eraill fel Friedrich Heinrich Jacobi, a Ludwig Feuerbach. Yn yr ugeinfed ganrif blodeuodd y pâr yn llawn. A Büber a'i cyferbyniodd yn eglur â'r berthynas Fi-Ef.

Drwy'r dirfodwr Uniongred Rwsiaidd, Nicholas Berdyaev, daeth y sylweddoliad hwn yn ddylanwad arwyddocaol yng ngwaith Waldo, megis 'Brawdoliaeth' ac 'Adnabod'. Yn achos 'Adnabod' mewn llythyr at D. J. Williams, ychwanegodd Waldo y frawddeg hon gan Berdyaev at y teitl: 'Cyfoeth y berthynas iawn rhwng dynion a'i gilydd yw Teyrnas Dduw.'

Tueddai Büber i ddefnyddio'r cysyniad 'goddefol' wrth sôn am yr 'Ef'. Ond yr wyf i — ac mi gredaf, Bantycelyn a Waldo Williams — yn synied amdano 'fel pe bai'n absennol' fyw ar y pryd. Dyna natur y trydydd person rhagenwol. Ond absennol yw mewn dwy ffordd — yn rhith-absennol fyw, yr hiraethir am ei bresenoldeb, ac a geisir yn daer o ddifri; — neu'n rhith-absennol i siarad amdano. Mae hydeimledd y gwahaniaeth yn y fan yna yn tarddu mewn profiad treiddgar.

Gwedd arall ar y gwahaniaeth rhwng Büber ar y naill law a Phantycelyn ar y llall yw bod Büber yn dechrau gyda'r 'Fi' o safbwynt statws a blaenoriaeth. Gwir bod i'r gair bach 'Fi' dipyn o le gan Bantycelyn. Ond gwyddom nad dyna'r canol, nad dyna'r awdurdod (hyd yn oed yn ei brofiad), nad dyna'r nod, ac nid o'r safbwynt hwnnw yn gyntaf y canfyddir y drefn. Duw yw ffynhonnell 'Fi, Ti, Ef' iddo ef. Gellid cytuno ar ryw olwg fod 'Fi' yn dod yn fyw oherwydd 'Ti', ond gan Bantycelyn nid oherwydd profiad eithr oherwydd ffaith anffaeledig y gellir ei phrofi eithr sydd y tu hwnt hefyd i bob prawf. Ni all y ffaith honno beidio â bod, beth bynnag a wna ein profiad.

Mae yna wahaniaethau eraill, wrth gwrs, yn ddiwinyddol. Ond ceisiwn yma ymdroi gyda'r berthynas 'Fi-Ti-Ef'. Nid oedd Büber, bid siŵr, yn cydnabod awdurdod y Testament Newydd. Yno, Duw a lefarai'n uniongyrchol o flaen dyn, fel y gwnâi yn achos Pantycelyn. Ac yr oedd llawer yn gwyro yn hynny o beth ym mherthynas Büber, megis y gogwydd pendant tuag at Ddyn-ganologrwydd, a rhyw ddiffyg ymwybod ynghylch cryfder pechod. Tueddai Büber i rannu pechod dyn yn erbyn dyn rhag pechod yn erbyn Duw. Iddew dyneiddiol ydoedd, â'i fryd yn bennaf ar berthnasoedd personol, a'r hyn a'u sylfaenai. Ni sylweddolai'r Tri-yn-Un. Tueddai o'r herwydd i'w gyfyngu'i hun i ddisgwyliadau daearol, ac i gollu prif arwyddocâd Iesu Grist, ac o'r herwydd brif wth goruwchnaturiol y Testament Newydd.

Fel y nododd Williams amdano'i hun o'r blaen, erbyn *Rhai Hymnau a Chaniadau* (1757), yr oedd yn ymwybodol o bresenoldeb 'y gair bychan atgofus, y [FI] sydd yn ambell un ohonynt', ac yr oedd yn awyddus i 'ddihatru' y gordefnydd. Ond gwyddai'n burion am anghenraid Cristnogol y cyfryw air: 'Ac nid tynnu ymaith, ond yn hytrach cadarnhau y [FY] o gredu, sef y rhan gynwysiadol o ffydd heb ba un nid yw ffydd yn ffydd mwyach.' Yr oedd

‘Fy’ yn fwy na ‘Fi’ am ei bod yn feddiannol, yn berthynas gorfforedig ac nid yn fodolaeth yn unig.

Anodd gennyf, wyneb yn wyneb â dyfnder dirgelwch y Drindod yn y meddwl Cristnogol, yw peidio â synied nad yw Tri Pherson y Rhagenw, yn ogystal â Mi / Ti / Ef diwinyddol, yn arwydd o argraff y Crëwr ar Ei greadigaeth. Dyma fater goruwchgyfundrefnol a bydysawd-strwythurol. O leiaf, y mae’n deg defnyddio tri pherson cyfundrefn y rhagenw fel cymhariaeth â’r Drindod: yn y Beibl y mae Duw ei hun yn defnyddio pob un o’r tri rhagenw wrth sôn amdano’i hun.

Hynny yw, cyfundrefn Tafod yw Fi / Ti / Ef (Hi).

Ond Mynegiant yw’r hyn a wneir ohono. Ac i’m bryd i, y mae’r berthynas amlochrog a chyfoethog y buom yn ymwneud â hi, lle y mae perthynas dyn a dyn yn datblygu fframwaith mor ddwfn nes bod yma thema sydd eto, mewn ffordd wahanol, mor dreiddgar fel y bo’n ymestyn ymhellach na ‘phleserau.’

- (iii) *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* — parhad i’r cyntaf yn yr ail (cf. *Cyfiawnhad/Condemniad* — cyferbyniad) ynteu’n well gennyf i: *Cyfiawnhad / Sancteiddhad / Gogoneddiad*. Dyma thema sy’n fframweithiol gyflyrol i *Theomemphus*, ac i bob Cristion, beth bynnag y bo’r rhychwant o deimladau a brofir.

Galwad effeithiol yw’r cam cyntaf, wedi cwmpo, i’r sawl a etholwyd.

*Pryd hyn pwrpaswyd iddo [sef Crist] gael trefnu oll i gyd
Yr amryw faith droadau fai yma yn y byd,
O’r cwmp yng ngardd Paradwys nes llosgi daear gron,
A’r cyfan i gyflawni oedd yn yr arfaeth hon; ...*

*Pryd hyn pwrpaswyd galw plant Adda i gael gras,
Agoryd eu carcharau, a’u tynnu’n lân i mas
O drueni maith annherfyn, a’r gosbedigaeth gaen,
A’u dwyn i well Paradwys nag buont ynddi o’r blaen. (GWWP I, 24)*

Dyma argyhoeddi dyn o bechod. Dyna ran fawr o’r ‘alwad’. Roedd dyn wedi ymgaledu, yn farw mewn ysbryd yn erbyn Duw, yn analluog i fod yn hydeiml i gyfoeth y bywyd ysbrydol. A dyna’r gair yn dod ato ac yn cyfarfod â chanolbwynt ei fodolaeth a’i bersonoliaeth, yn yr hyn a elwir yn ‘galon’. Fe’i cyfiawnheir.

Gan air yr ysgrythur y gelwir, drwy gyfrwng yr eglwys dan fendith yr Ysbryd Glân, sef y gair cyhoeddedig.

*Ac erbyn â llefaru deall nerthoedd nefoedd fawr;
Fel afon lawn, lifeiriol i’w galon ef i lawr;
Ni ddeallodd ac nis clywodd erioed o’r blaen gan ddyn
Yr hyn a ga’ s i deimlo yr awron ynddo ei hun. (GWWP I, 252)*

Dyma'n awr yr hyn a oedd yn amhosibl i ddyn, yn cael ei gyflawni'n ddirprwyol gan y Duw-ddyn, yr un difrycheulyd, yn cymryd arno'i hun bechod y byd, yn Iawn, ac yn Gyfiawnder. Cyhoeddir:

*Fod ynddo fe gyfiawnder, doethineb mawr, a grym
Nas tâl i'r nef nac uffern byth i'w wrthsefyll ddim.
Cyfiawnder wisg yr euog, cyfiawnder olch pob stain
Pe deuai fel y porffor fod fel y lliain main;
Cyfiawnder wna'r Ethiopiaid, y duaf, cas eu rhyw,
Fu'n olrhain pob rhyw bechod fel eira gwyn eu lliw.*

Yn awr y mae 'popeth' yn digwydd yr un pryd, yr edifarhau, yr Undeb â Christ, yr hyn y dymunai rhai Cyfrinwyr fynd yn syth ato, heb edifeirwch, heb ymostwng llwyr na'r dröedigaeth, na dechrau sancteiddhad.

Trown felly at gyfundrefn sy'n rhan o drefn eglur estynedig. Amllder y ffactorau ar waith yw'r hyn a all ddrysu'r sylweddoliad o berthynas gyfundrefnol adnabyddus *Cyfiawnhad / Sancteiddhad*. Dyma thema ymbarél yn *Theomemphus*, ond y mae iddi le canolog yn *Golwg ar Deyrnas Crist* hefyd. Sylwer yn gyntaf mai gweithred neu ddigwyddiad gan Dduw yw 'Cyfiawnhad', sef 'cyfrif' dyn yn gyfiawn, am ei fod adeg ei dröedigaeth wedi gosod ei galon ar Iesu Grist ac yn ymddiried yn yr Iawn a dalodd Ef. 'Sancteiddhad' yw'r broses sy'n dechrau y pryd hynny gan yr Ysbryd Glân i baratoi pechadur ar gyfer y gogoneddiad. Gwiw cofio mai estyniad i'w gilydd yw'r rhain: Cyfiawnhad yn uned o fewn Sancteiddhad, a Sancteiddhad hefyd yn olynydd iddo. Ond fe geir Cyfiawnhad ar waith, ac yn aml ei ddiffinio, oherwydd ei negyddiad 'Condemniad'.

Mae a wnelo'r deuawd *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* â cham mawr a chwbl unigryw yn y broses rhwng Ethol a Gogoneddiad. Ymgysylltant â thriawd 'Dysgeidiaeth — Profiad — Ymarfer'. Oherwydd deall yr ystyr bersonol i Gyfiawnhad, gras a gweithred Duw, y mae'n cael ei gymhwyso yn y meddwl gan yr Ysbryd i'r galon. Gŵyr *meddwl/teimlad/ewylllys* am lawnder ymateb bywyd.

Ymgysyllta Cyfiawnhad yr un pryd â llu o weddau cyfun eraill ar y digwyddiad — creu, aileni, iachawdwriaeth, uniad, edifeirwch, tröedigaeth. Mae yna gyflawnder yn y digwyddiad hwnnw. Dyma nifer o 'dermau technegol' y mae pob un ohonynt yn destun myfyrdod hyfrydol. Ond ni ddylid gadael i hynny ymyrryd â'n sylweddoliad o gyfundrefn unplyg estynnol *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*. Cofiw'n o hyd mai un gyfundrefn ymysg hierarci yw'r gyfundrefn hon, ymgysylltiol, gydlynol. Bu'n ffasiwn ar un adeg i fychanu 'gorsymleiddio' y triawd hwn yn y bersonoliaeth ddynol. Ond y mae buddioldeb pragmatig y gyfundrefn yn dangos ei bod yn fwy na symleiddiad cyplysu geiriol.

Ymddengys y termau Cyfiawnhad a Sancteiddhad yn rhy dechnegol mewn Deunydd ac eto'n rhy weithredol foisol i lunio'r math o gyfundrefn seico-fecanaidd ieithyddol sy'n ganolog elfennaidd megis un/llawer. Ond yn y bôn, ymgysyllta'r cyplysiad â chyfundrefnau mwy sylfaenol digon ymarferol fel *ffydd/gweithredoedd a mewmol/allanol*, cyfundrefnau sythwelediadol isymwybodol ac elfennaidd.

Problem yw perthynas a chyferbyniad *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*. Ymddengys i mi fod cwestiwn *Israel Gwaed* (ac Ysbryd) yr Hen Destament / ac *Israel Ysbryd* (a Gwaed) y Testament Newydd yn enghraifft o'r un math o gymhlethdod. Neilltuwyd a sancteiddiwyd Israel, yn arbennig yn y daith drwy'r anialwch i Wlad yr Addewid, er nad Israel yr Ysbryd oedd pawb a enwaedwyd ar y pryd. Wedyn, er bod Israel Ysbryd wedi'i sefydlu'n fwy penodol yn y Testament Newydd, mae'n amlwg fod yr Israel gyntaf o hyd heddiw yn ystyrlon mewn rhagluniaeth.

Ymddengys hefyd fod *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* weithiau'n weddau ar yr un peth. Drwy Gyfiawnhau rhywun, dechreuwyd yr un pryd broses Sancteiddhad. Unwaith eto, y mae cyfundrefnau iaith yn gymorth i ddeall y berthynas. Cymerer tri pherson y rhagenw neu amserau'r ferf (yn arbennig perthynas presennol â gorffennol/dyfodol). Y mae pob un elfen mewn cyfundrefn (er y gwahaniaeth, ac er bod yna drefn o edrych arnynt, – megis yn y Drindod) yn derbyn 'dealltwriaeth' oherwydd y cydlyniad neu'r berthynas â'r lleill. Maent yn diffinio'i gilydd. Felly cyfiawnhad/sancteiddhad: nid cyferbyniad ydynt o ran pwysigrwydd, ac y mae'r naill fel y llall wedi'u rhaglunio neu'u hethol. Ac eto, yn ymarferol, *digwyddiad* yw'r naill, a phroses yw'r llall. Ac felly, ymhlith y gwahanol fathau o gyfundrefn, y mae yna gyferbyniad o fath. Gall Cristion ddod yn fwy neu'n llai sanctaidd, ond nid yw'n fwy neu'n llai cyfiawnedig. Duw yn unig, y Drindod, sy'n cyfiawnhau heb yr un weithred achubol gan ddyn: mae sancteiddhad ar unwaith yn tynnu ymdrechion dyn i mewn drwy ysgogiad a chymorth yr Ysbryd Glân. Cant y cant yw Cyfiawnhad: ni chyrraedd Sancteiddhad gant y cant yn y bywyd hwn. Felly, gwelir eu bod yn cydlynu yn gyferbyniad clir.

Term technegol yw Cyfiawnhad, term cyfreithiol hyd yn oed. Meddai Thomas Charles, 'Cyfiawnhad ydyw yr hyn sydd yn sefyll ar gyfer, neu yn wrthwyneb i gondemniad.' Golygai fod Duw yn edrych arno yn rhinwedd iawn yr Arglwydd Iesu gyda chariad a derbyniad a hoffter, yn ei gyfrif yn agos ato, yn lle bod yn euog.

GWP II, 248 *Cyfiawnder marwol glwy',
A haeddiant dwyfol loes —
Y pris, y gwerth, yr aberth drud,
A dalwyd ar y groes —
A gliria 'meiau i yn llwyr,*

*A'm golch i yn hyfryd lân,
Ac, od oes dim o tan y nef,
A'm nertha i fynd ymlaen.*

Gosodir *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* felly o fewn cyd-destun llawnach o ddatblygiad ysbrydol, ac y mae yna demtasiwn i ystyriaeth ddiarnheul ac olynol y drefn fawr honno hefyd ymddangos yn gyfundrefnol o leiaf mewn Mynegiant.

Gŵyr pob Calfinydd darllengar am drefn yr achub: pum gris amlwg — Ethol; || galwad effeithiol; cyfiawnhad; sancteiddhad; gogoneddiad. Cywaith Duw allamserol yw Ethol. Ffrwyth darllen y Gair a myfyrdod (heblaw profiad) yw'r amlinelliad hwn, trefn pererindod nid cyfundrefn sythwelediadol mewn Tafod. Cyfundrefn o fath yw yn sicr: undod o rannau o fewn un gyfres brofiadol. Disgrifiad o broses. Casgliad. Ond cyfundrefn ymwybodol yw mewn Mynegiant. O'r tu mewn i strwythurau Mynegiant, fe geir cyfundrefnau Tafod yn ddiau, sy'n isymwybodol, yn glymau organaidd manwl a ddelir yng nghefn y meddwl ac a wyddys yn berthnasoedd byw yn y profiad Cristnogol: megis *cyfiawnhad/sancteiddhad; deall/ serchiadau; diddwytho/sythwelediad*. O fewn y broses estynedig unol a enwais, sut bynnag, fe ellid manylu ymhellach, ac ychwanegu pwyntiau eraill a gwahaniaethau rhwng aileni, iachawdwriaeth, ac yn y blaen. Hynny yw, gellid ystyried a myfyrio beth yw'r holl gamre a'r gweddau o fewn datblygiad y Cristion o'r ethol gwreiddiol i'r gogoneddiad cyflawn. Ond sôn yr wyf nid am gynnyrch na chynhwysion ystyriaeth ymwybodol, ond am strwythurau elfennaidd — megis yng ngramadeg yr iaith — sy'n cael eu hadeiladu yn y meddwl ac sydd ar waith yn ysbryd y credadun o sylweddoli beth a ddigwyddasai iddo/iddi yn hanfodol. Dyma sialens i sylweddoliad sythweliadol yr holl fodolaeth, nid i'r myfyrdod mwy datblygedig ymwybodol yn unig.

Yn ein myfyrdod, fe allwn ychwanegu ymhellach, rhwng Ethol a Galwad Effeithiol, y Synnwyr o Dduw (*Sensus divinitatis*) sydd fel y lleill i gyd yn eu tro yn un o'r grasusau, ac a arhosodd fel Gras Cyffredin i bawb ar ôl y Cwmp. Gweddau ydynt oll ar Gariad Duw.

Er bod Cyfiawnhad yn hanfodol ganolog i Bantycelyn, ac er iddo sôn amdano'n anuniongyrchol ac yn uniongyrchol, heb ei henwi'n aml, yr hyn a gâi ei sylw yn uniongyrchol yn ei emynau oedd Sancteiddhad. Nid gwaith i'r Cristion oedd Cyfiawnhad, (er cofio amdano yn ei brofiad personol) ond testun diolch. Sancteiddhad a fynnai ganddo ddefnyddio'i ddelwedd gyson o Bererin. Nid llunio emynau ar gyfer anghredinwyr a ddisgwyliai am gael eu cyfiawnhau yr oedd ef. Ofereidd oedd taith heb i'r cam cyntaf fod ar y Ffordd. Sgrifennu a wnâi ef i'r Cristnogion wedi'u cyfiawnhau, pobl y seiadau. Gweddïau

oedd ei emynau iddo ef ei hun ac i'w seiadwyr hoff gael eu tocio, a'u dyfnhau mewn cariad, a'u sancteiddio.

Yn fras, gellir dweud bod yna ddwy gangen i bregethu diwygiedig, clasurol. Sef efengylu ac adeiladu. Dyna yw dwy gangen gweithgaredd Pantycelyn.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ymhlith pobl yr efengyl gymdeithasol ceisiwyd drwy'u nerth eu hun Sancteiddhad ar y llwybr tarw, heb ymdroi ynghylch ysbryd mewnol wedi'i fywhau. Collwyd y plot ac ymddatododd yr enwadau. Ond os pregethir Cyfiawnhad drwy Ffydd ac iachawdwriaeth, *heb sôn* am ymdrech Sancteiddhad, yna y mae Awdurdod Cariad Duw, a hyd a lled a dyfnder ac uchder Ei ogoniant a'i Ras, a pherson yr Ysbryd Glân yn neilltuol yn cael eu sarhau. Yn wir, esgeulusir gwedd ar Gyfiawnder ei hun.

Dyna pam y canodd Williams gymaint am daith y pererin. A'r ddwy ran hyn, gredaf i, yw'r prif rediad olynol thematig yn 'Theomemphus'. Ar y llwybr sy'n arwain drwy Sancteiddhad rhannol i Sancteiddhad llawn, fe geir llawer o rwystrau. Un o'r rhai amlycaf ar y dechrau yw tybied ein bod eisoes ar y llwybr, pryd nad ydym ond yn gwneud ychydig o ymarfer corff fel petai cyn cychwyn ar y siwrnai. Rhwystr arall weithiau yw anwybodaeth: aneglurder ynghylch beth yn union yw Sancteiddhad, a methiant i adnabod y llwybr o gwbl. Ni wyddys y pryd hynny sut y mae ceisio Sancteiddhad. Dyma'r cam 'modern'.

Mae anawsterau creiddiol o'r fath yn gwbl sylfaenol, wrth gwrs. Ac yr ydym oll, os ydym yn anymwybodol o'r ffeithiau hyn neu beidio, yn eu hwynebu rywfodd cyn cychwyn ar daith sy'n ein harwain heibio i lawer tramgwydd. Mae angen cyfarwyddyd ar Gristion bob llathen o'r daith.

Diau mai'r maen tramgwydd pennaf, yr un sy'n maglu pob credadun neu anghredadun ynghylch popeth druan, yw'r dybiaeth gyndyn fythol-hen honno mai dyn ei hun sydd yn y canol, dyn sy'n ben, ef sy'n 'gwneud', a diolchir iddo ef am Sancteiddhad.

Ceir amryfal geisiau i esbonio gwreiddyn y gair pwysig hwn: Sancteiddhad. Yr esboniad tarddiadol tebycaf yw mai mynegi a wna fod Duw wedi neilltuo rhywun i'w gysegru iddo'i hun — fe roddir rhywun *ar wahân* i'r 'byd'; ond rhoi 'ar wahân' yn benodol ydyw 'i' berthynas ag Ef ei hun *yn y byd*.

Sut fath o beth, felly, yw ansawdd Sancteiddhad? Dyma brif faes yr emynau.

GWP II 264 *Tyred Iesu i'r anialwch,
At bechadur gwael ei lun,
Ganwaith dd'rysodd mewn rhyw rwydau,
Rhwydau weithiodd ef ei hun;
Llog fieri sydd o'm cwmpas,
Rho fi sefyll ar fy nhraed,
Moes dy law, ac arwain trosodd*

F'enaidd gwan i dir ei wlad.

Mae yna negyddu gan Bantycelyn, wrth gwrs. Croeshoelir yr hen ddyn. Ond y mae'r Ysbryd Glân yng nghyfanrwydd y bersonoliaeth ar waith, mewn deall, mewn ewylllys, yn y gydwybod, ac yn llawenydd aruthrol y serchiadau wrth ganmol trugaredd yr Arglwydd. Yn yr isymwybod, yn yr ymwybod, Duw yw'r awdur. Heb gyrraedd perffeithrwydd llawn ar y ddaear hon, gŵyr y credadun eisoes rywbeth am y Duw byw sy'n disgwyl amdano nawr ac wedi iddo aeddfedu, ond sydd eisoes yn cynnig y modd i'w wasanaethu'n ostyngedig mewn ffydd ac yn unsydd drwy weithredoedd a gyfrifir yn unplyg er Ei ogoniant Ef, ac anadl Duw ynddynt a'i argraff dragwyddol Ef arnynt.

Mae gan Emrys ap Iwan frawddeg enwog: 'Bai mawr y dosbarth efengylaidd, neu'r Piwritaniaid, yw gwneud dechrau crefydd yn ddiwedd crefydd.' Ar y pryd, buasai'r rhan fwyaf o bregethwyr anghydfurfiol Cymru yn cyfrif eu bod yn y garfan efengylaidd. Felly gellid casglu sut yr oedd Emrys yn ystyried cryn lawer o brif feddwl y genedl yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar eu gorau, dybiai, yr hyn a bregethent oedd tröedigaeth, iachawdwriaeth, cyfiawnhad, ailenedigaeth heb lawer o sylw i weithredoedd na sancteiddhad. Yn hyn o beth, nid oeddent yn bell iawn oddi wrth Luther pan alwodd ef epistol Iago yn 'epistol gwellt.' Mynnai Luther seilio'i bwyslais personol — byddai rhai'n cyhoeddi pwyslais y Diwygiad Protestannaidd i gyd, — ar Gyfiawnhad drwy Ffydd (a heb ddigon o arlliw o weithredoedd ffydd) yn achos ambell un.

Mae'n amlwg i ni erbyn hyn, wrth gwrs, fod coleddu dechrau crefydd yn unig yn annigonol. Mae amddifadu pobl o efengyl gytbwys, gyflawn yn dweud celwydd am y cwbl. Dim ond drwy'r cyfan yn ei ymarferoldeb y deallir y rhannau yn iawn. Byddaf yn synied mai cynnyrch yr unochredd efengylaidd honno gynt oedd yn gyfrifol yn uniongyrchol bron am ffyniant yr efengyl gymdeithasol yn nechrau'r ugeinfed ganrif a droes erbyn y diwedd yn seciwlariaeth ronc. Ystyriaf, sut bynnag, fod sylw Williams i opteg, meddyginiaeth, seryddiaeth, crefydd gymharol, ac yn ei farwnadau i fuchedd gyffredin feunyddiol, a phwyslais ei emynau ar dwf ysbrydol, yn adlewyrchu tipyn o gydbwysedd y gyfundrefn feddyliol gyflawn a ganfyddai ef. Canfu nad 'adfywiad' oedd y norm beunyddiol.

Ceid llif o adfywiadau diwygiadol drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyna'r uchafbwyntiau deallol a chymdeithasol mwyaf ar ganol y cyfnod hwnnw. Dyma'r sut yr oedd Emrys ap Iwan yn parhau ei ddadansoddiad o'r 'pethe':

'Y mae yn fwy ganddynt hwy gael eu hargyhoeddi na'u hyfforddi ... Mynnant hwy weled diwygiad bob saith mlynedd, a chael eu hachub bob dydd, am fod yn hyfryd ganddynt

gael rhywbeth i'w cyffroi; ond sychlyd o beth yn eu golwg fyddai crefydd a'u dysgai i ddywedyd y gwir bob un wrth ei gymydog, ac i ddarpau pethau onest yng ngolwg pob dyn.'

Dyna un o'r rhesymau, beth bynnag, pam yr oedd y Beibl yn fynych yn cyflwyno deuoedd taclus o egwyddorion o fewn sefydlogrwydd arfaethol: ffydd a gweithredoedd, corff ac enaid, cyfiawnhad a sancteiddhad, nefoedd ac uffern, ac yn y blaen. Propiau cyfundrefnol yr isymwybod yn cael eu bwrw i'r tir gwaelodol er mwyn bod yn gyflawn. Nid yn unig yr oedd yn haws i'w hesbonio fel yna, ond dyma oedd y gwir diriaethol: cyferbyniad ac olyniaeth a gaed. Dyma hefyd oedd bod yn ymarferol. Dyma'r fframwaith diriaethol y gweithiai Duw yntau y tu mewn iddo. Disgwyliai Ef inni gofio a meddwl fel hyn. Wnâi hi ddim o'r tro inni ymglyfyngu i ffydd heb ddiriaethu neu gorffori hyn mewn gweithredoedd. Efallai'i bod hi'n ddiddorol i'r meddwl drafod diwinyddiaeth a syniadau, ond os ydym ni heb droi'r egwyddorion yn fywyd ymarferol, rŷm ni'n byw celwydd. Diau mai hyfrydwch aruthr yw cael bodlonrwydd i'n serchiadau wrth fod golwg ar harddwch Crist a dyfnder edifeirwch yn dod i'n rhan. Ond os ydym ni heb ufuddhau, heb ymhyfrydu yn ei ddeddfau hefyd, heb yr ewyllys sy'n llafurio i ogoneddu Iesu Grist, yna ofer yw'r ffydd. Dyna'r gwirionedd yn y deuali a'r trioli cyfundrefnol hwn a oedd yn sail i brofiad a gwaith Williams.

Tipyn o ryfeddod i bawb ohonom, boed yn Gristnogion neu'n seciwlarywyr, yw bod ffurf a threfn yr atom a'r gell a'r organau yn ogystal â holl gyfundrefnau'r iaith a'r deall yn cynnwys cyferbyniadau deuol neu driol fel hyn. Y sialens a geir ym mhob un ohonynt yw ceisio sicrhau na ddefnyddiwn un rhan er mwyn peidio â gwneud y rhan arall. Mae'r rhannau i gyd yn gyd-bwysig; ac yn ogystal, y mae'r cyfanwaith ei hun yn bwysig: yr Un a'r amryw. Yr ydym yn byw ac yn bod, yn credu ac yn addoli o fewn Creadigaeth sy'n sylfaenol drefnus. Ceisiai Pantycelyn gan ei braidd fyfyrion ar rai o'r deuoliaethau a'r triolaethau hyn sy'n ffurfio math o fframwaith i'r ysgrythur, nid am eu bod yn hynod ac yn ddifyr — er y gall hynny fod yn ddadlennol; ond er mwyn iddynt yn ymarferol geisio cadw'r cydbwysedd priodol yn eu bywyd defosiynol a gweithredol o fewn y rhagdybiau a ddatguddir yn y Beibl. Cyfundrefnwyd er mwyn deall a chyfannu themâu creiddiol y ffydd.

Digwyddodd pedwar peth yn benodol a rwystrodd feddylwyr arweiniol Cymru rhag datblygu athrawiaeth aeddfed a llawnach o Sancteiddhad:

(1) torrodd y Diwygiad dwfn cyson Calфинаidd cyntaf yn gyfres o fân ddiwygiadau Arminaid a Ffundamentalaidd ar ôl 1859 dan ddylanwad Finney;

(2) gyda'r dirywiad mewnol hwn, tyfodd yn gyfredol ddyneiddiaeth a seciwlariaeth wrth-oruwechnaturiol, gyda'r goddrychol ar yr orsedd, yn lle cymryd y Beibl o ddifri;

(3) collwyd y sylwedd ystyrol drwy'r emosiynol a'r arwynebol allanol (a'r poblogaidd);

(4) cryfhaodd ffasiynoldeb y sgeptig, yr amheus, y difater; a chwenychai pregethwyr fod yn 'gyfoes'.

O'r herwydd, cafwyd hollt, gyda'r dyneiddwyr yn datblygu'n fwyfwy materol a'r Calfiniaid yn troi'n fwyfwy mewnblyg 'ysbrydol'. Daeth 'Rhyddfrydiaeth' dybiedig ar ein gwarthaf, sef Dyneiddiaeth, yna Seciwlariaeth a Lluosedd. Yna tagwyd yr Efengyl gan Foeseg. Ni chafwyd gan feddylwyr yr arweiniad deallol cyhyrog drwy gors Seciwlariaeth.

Does neb a gymerodd Sancteiddhad fwy o ddifri na Williams Pantycelyn. Fe'i crynhodd ei berson ef ei hun, yr ymholydd, yn themâu'r tair delwedd Rhyfelwr, Carwr, Pererin (yn deithiwr). Roedd ganddo wrthwynebydd yr oedd yn ei ddiffinio droeon, ond nid gyda'r fath ddiddanwch synhwyrus a llawenydd cyfareddol ag y gawn gyda'r Carwr. Eithr o ran dyfnder y maglau a'r mieri a dryswch y gwrthwynebiad a'r gwanhau a'r syrthio a'r ffeidd-dra, diau nad oedd neb wedi cyfleu mor gyson mewn emynyddiaeth y taer angen a oedd arno am gynhaliaeth ac arfogaeth bob cam o'r daith. Ni allai ymddiried ddim ynddo'i hun.

Mae ei ryddiaith yn gefndir i'r sancteiddhad ymarferol. Aeth ati yn *Cyfarwyddwr Priodas* i gymhwyso'i ffydd at waith beunyddiol llawer o aelodau'i Seiadau i drafod her a phroblemwaith perthynas gwryw/benyw, boed yn gyn-briodasol neu'n briodasol, ac yn *Crocodeil yn Afon yr Aiff* i drafod problem ymarferol Cenfigen rhwng dyn a dyn. Gwir yw na fu'n ymdrin â gwleidyddiaeth Tsheina nac â rheolaeth pyllau glo; ond o safbwynt ymarfer bywyd cymdeithasol cefn gwlad, yr oedd yn bur effro i her y gymdeithas. Yn *Tri Wŷr o Sodom a'r Aiff*, wynebodd broblem cyfalafiaeth a thlodi.

Carwn ddychwelyd at gwestiwn mwy uniongyrchol gyfundrefnol ynglŷn â deuoliaeth *Cyfiawnhad/Sancteiddhad*. Tybed onid oedd yn briodol ychwanegu trydydd ffactor at Sancteiddhad yn yr uned sy'n mynd drwy dair gwedd gydlynol, ond cyd-gyferbyniol? Hynny yw, ffactorau sydd yma sy'n dwyn anian wahanol unigolyddol, bob un yn cyfrannu at undod gorffenedig: nid clo yw Sancteiddhad. Mae'n gorffen gyda marwolaeth. Onid anorffen yw enwi cyfundrefn sy'n gorffen heb gwllwm llawn? Dyna pam y mentraf awgrymu nad cyfiawnhad/sancteiddhad yw'r gyfundrefn gynnil gyflawn, eithr —

Digwyddiad
Cyfiawnhad
[tröedigaeth]

Proses dros dro
Sancteiddhad
[+ eneiniad-au]

Cyflwr parhaol
Gogoneddu

Os mai Sancteiddhad oedd effaith emynau Pantycelyn, Gogoneddu oedd eu cymhelliad pennaf. Ac nid Sancteiddhad oedd y diwedd.

Yn llwybr y Cristion, fel y dengys y ddwy arwrgerdd, *Golwg ar Deyrnas Crist a Theomemphus*, y mae'n dechrau mewn undod a chyfiawnhad, edifeirwch ac ail-enedigaeth, yn parhau drwy sancteiddhad, tuag at ogoneddu Ac mae'r cyfannu'n bwysig — fel bob amser mewn cynllun — gadw'n llygaid ar y diwedd, sef y diwedd diddiwedd.

GWP II, 311

*Iesu, nid oes terfyn arnat.
Mae cyflawnder mawr dy ras
Yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn
Ganwaith nag yw 'mhechod cas;
Fyth yn annwyl,
Meibion dynion mwy a 'th gâr.*

Mewn gwirionedd, y mae a wnelo'r gyfundrefn hon â'r holl eitemau a drafodir yn *Theomemphus*, sef 'Trefn yr Achub'. Meiddiwn felly grynhoi twf y Cristion rhwng yr aileni, sef y Cyfiawnhad, a'r Gogoneddiad, dechrau a diwedd bywyd y Cristion. Ond gwyddom mai fframwaith cryno hanfodol 'yn unig' sy'n dechrau ar ôl peth hanes yn y gorffennol: dyna yw Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddiad. Nid yw'n agoshau at yr holl weddau manwl ar y daith sy'n dechrau gydag Ethol: priodol cofio nad ethol unigolyn yn unig yr ym ni yn yr egwyddor a'r weithred hon. Ethol y sefydliad ei hun, arfaethu'r Arfaeth:

*Am hyn ei Fab etholodd, anedig unig sy,
I wisgo natur ddynol, fath wedyn wisgem ni,
Fel byddai yn ddechreuad, a sylfaen gadarn gref,
O bob cymundeb eilwaith fai fyth rhwng dâ'r a nef.*

(GWWP I, 4)

Hynny yw, etholwyd holl Drefn yr Achub ei hun yn gyflawn fel cyfundrefn. Rhagluniaeth yw'r cwbl sy'n dilyn. Dyma drefn i bawb yn ddi-eithriad sy'n credu.

Un o rinweddau'r ddwy arwrgerdd yw bod y bardd wedi nodi'n benodol y gelynyon tanseiliol ar y pryd, gyda dadansoddiad creadigol a oedd yn berthnasol.

Wedi'r ethol a'r creu, fe geir yn awr elfen arall hynod o bwysig yn Nhrefn yr Achub, sef Gras Cyffredinol. Rhoddir bendithion a doniau lawer i Adda, gan gynnwys nid yn unig reswm a deall a'r gallu i gymdeithasu ac i ddiwyllio, eithr hefyd y Synnwyr naturiol o Dduw (*sensus divinitatis*). Nid oedd rhaid eto wrth Ras Arbennig; a chyn y Cwmp cynhwysai Gras Cyffredinol 'Synnwyr o Dduw', sy'n parhau i raddau bach yn gyfeiliant o hyd ym mhrofiad dynol-ryw oll, y gallu i wybod am Dduw ym mhobman.

Yna, fe gawn y Cwmp negyddol a ddisgrifir gan Bantycelyn fel *colli ffydd*, sef colli'r berthynas, y ddibyniaeth. Nid balchder na hunanoldeb na gwrthryfel nac arwahanrwydd yn unig, nac yn y bôn efallai: dyna'r canlyniadau, a'r estyniadau. Ond yn y bôn, colli'r cyflwr a'r weithred hon a wna, o bwysu'n gyfan gwbl naturiol ar Dduw. Dibynnu arno oedd hanfod

bywyd: pan gollwyd hynny, fe gafwyd marwolaeth haeddiannol. Byddaf yn synied am ffydd yn y byd ysbrydol fel ffenomen gyfatebol anochel i ddisgyrchiant yn y byd materol. Gallai Adda ei chymryd yn ganiataol yn isymwybodol, heb synied yn fwriadus fod ei gorff a'i enaid, ei fywyd oll, yn pwyso arni.

Y gynneddff honyna a gollwyd yn y Cwmp. Dyna graidd pechod. Derbyn hon yn ôl fydd bywyd tragwyddol. Nid digon bellach yw gwybod *am* Dduw: yr her bellach yw cael perthynas ddi-gwmp ag Ef. Bellach, rhaid cael Gras Arbennig i ddisgyrchu arno. Mae'r cynnig yn gyffredinol, ond nid ar ein telerau ni.

*Gwneud iddynt edifaru, a dangos iddynt lid,
Sancteiddio eu holl gystuddiau, a'u codi i'r lan o'r llawr,
Eu haddfedu i deyrnas nefoedd oedd yno 'gyd i lawr. [GWWP I, 24]*

Mewn ysgrif ragorol gan Meredydd Evans, 'Pantycelyn a Thröedigaeth', olrheindir y Gogoneddu sy'n uchafbwynt i'r daith hon i gyd: 'Penllad y broses o sancteiddio yw gogoneddiad ac er na neilltuir unrhyw ddilyniant o benillion yng ngherdd fawr Williams i ganu am ogoneddiad Theomemphus ('yn represento Cristion', chwedl y rhagymadrodd) mae'r peth i'w synhwyro, fel pe'n islais cân, trwy'r prydyddu ar ei hyd, yn arbennig felly o eiliad y dröedigaeth ymlaen. Mor briodol yw mai yn un o benillion olaf y gerdd y mynegir paradocs y gogoneddu hwn sy'n bodoli yma a thu draw i'r bedd yr un pryd:

*Mi gwela' hi'n awr yn oleu fel gwelais hi o'r blâ'n,
Disgynnodd ar fy enaid y dwyfol nerthol dân;
'R wy' eisoes ym Mharadwys, wel taro, Angau, 'n awr!
Rhan ohonwy' â i'r nefoedd, a rhan ohonwy' i'r llawr.'*

Oni bai am Ethol cyn bod amser, oni bai wedi amser am gyplysiad cyson Gogoneddiad, ac oni bai fod Sancteiddhad yn amlwg anorffen nes cyrraedd diwedd oes pryd y'i cwblheir, ni ddealllem na Chyfiawnhad na Sancteiddhad yn iawn. Fe'u cyferbynnir gyda'r digwyddiad o Uniad *ar flaen* y broses yn yr Ethol a'r Alwad Effeithiol, nid o flaen y broses, eithr yn rhan ddechreuol ynddi. Yn y digwyddiad, y mae yn rhan o broses sy'n ymestyn at gyflwr lle y ceir sefydlogrwydd. O gymryd y ddelwedd gyflawn honno, hyd yr eithaf ystyriaf mai rheidrwydd yw cydnabod trioliaeth weithredol o hyd yn hanfod i'r cwbl: dechrau (Cyfiawnhad), canol (Sancteiddhad), dyna'r pâr a gwblheir cyn y diwedd (Gogoneddu).

Yr wyf yn ystyried bod adeiladwaith rhyfeddol meddwl thematig William Williams yn rhoi fframwaith nodedig i'w waith yn gyfansawdd. Nid oes tebyg iddo o ran rhychwant panoramig. Gellid dadlau, wrth gwrs, fod y cwbl yn fenthyg o'r Beibl. Mae'r symudiad yn barod yno iddo, a'i ddehongliad yno eisoes yn farddonol o'r dechrau hyd y diwedd, ac y mae hynny ar ryw olwg yn wir. Ond y mae ef yn atrefnu ac yn cydlynu. Mae'n barddoni o'r

newydd ac yn ei uniaethu'i hun â'r symudiad hwnnw. Mae ei weledigaeth thematig fanwl yn gwau drwy ei deimladau yn ôl cynllun mawrhydig celfydd. Mae yna sylweddoliad byw a soniarus o aruthredd. Ac mae'n ei ganu.

Dyma hierarci o ffrâm lle y ceir deuoliaeth hollbresennol. Ar y naill lefel yr Arfaeth, a honno'n gyfundrefnus fân yn ymbresenoli'n gain drwy'r holl greadigaeth. Yna'r Cwyp arteithiol a ddatguddir yn ddyfnach ddyfnach ei arwyddocâd ac yn dreiddgar hyd y diwedd. Yna'n drydydd, yr Adferiad sy'n fwy arteithiol ac yn fwy godidog na'r Creu cyntaf ei hun.

Ceir 'Hen Gyfamod a Chyfamod Newydd'. Ceir 'Gras Cyffredinol — Gras Arbennig — a Gras Cyffredinol' i'r holl gredinwyr. Ceir patrwm syfrdanol 'Cyfiawnhad — Sancteiddhad — Gogoneddiad'. Dyma 'Amser a Thragwyddoldeb' yn gyd-bresennol yn ymwybodol, blith draphlith.

Yr un pryd, o fewn yr afael hon, y mae'r Duw Personol a pherson dyn, y ddau gymeriad cynhaliol yn y berthynas. Y berthynas gyda'i chyfansoddiad amlochrog. Ac y mae Pantycelyn yn unigoli hwnnw. Mae'n cronni'r cynllun i gyd mewn un cynrychiolydd, Theomemphus parhaol. Ac yna, gwelwn yr hyn sy'n digwydd i Dduw ei hun yn bersonol, yn y Mab. Mae Ef yn cael ei gyflwyno yn y dechrau ac yn aros gyda ni tan y diwedd. Ac fe'i gwelwn Ef yn ymgawdoli mewn Cysgodion, mewn Ymddangosiadau, ac mewn Proffwydoliaethau. Fe'i clywn Ef yn y Portreadau ac yn y Dyfodiad graslon wedyn.

Mae'r presenoldeb rhwng y ddwy ochr yn tyfu'n fwyfwy o berthynas, ac yn cael ei chymhwyso i'r credadun newydd. Mae'r plethwaith hwn ei hun yn ymddangos yn berffaith. Mae'n ateb pob cwestiwn ym mywyd dyn, ac yn ei ateb yn ddi-dwll gyda gorffennedd hardd barddonol. A yw'n syndod fod y dehongliad Cristnogol o fywyd yn welediad mor gwbl ddigonol ac anferth?

*

*

*

Ceisiwyd yn y bennod hon fwrw golwg dros dair thema fawr sy'n gwbl wahanol i'w gilydd o ran ansawdd ac arwyddocâd. Pan drafodwn Themateg lenyddol, y mae a wnelom â symudiad syniadol neu ddeinameg ystyrol. Daw ar lun patrymau gwahanol. Ond mae yna rai, megis pleserau corfforol/ysbrydol, er mor bwysig y bônt, yn ymwneud â'r hyn *a dderbynnir* o hyd sy'n llai pwerus neu'n llai strwythurol na'r rhai a gysylltir â *natur Duw ei hun*. Ym maes Themateg, rhaid bod yn barod i fod yn ysbrydol effro i botensial a nerth eang neu beidio pob symudiad, boed o du Duw neu o du dyn.

VIII THEMA A MOTIFF

(1) *Delwedd*

(2) *Arwyddedig*

(3) *Motiff*

Drwy'r synhwyrâu y derbynnir delweddau, fel gan gamerâu. Dirnedir y rhain, fe'u dadansoddir ac fe'u gwahenir hwy; a'u cysoni drwy sylwi ar ailadrodd, mewn amser a lle, gan 'uno'. Ac fe ysgyhrant eu patrymau ar y cof.

Yn y meddwl dosberthir a chysylltir y rhain wrth iddynt adeiladu *darlun o fywyd*. Ceir storfa o 'ddelweddau'. Yn y cysylltu a'r casglu yn y meddwl, ceir math o ddiffinio drwy gymharu. Ac yn y meddwl y mae fel pe bai delwedd yn dod yn gynrychiolydd yn lle'r peth. Y ddelwedd mewn profiad i berson yw'r peth ei hun. Hyd yn oed yn absenoldeb y peth ei hun, oherwydd y cof, gellir meddwl amdano o hyd. Fel arfer, diriaeth yw, ond gall haniaeth a dynnir o'r ddiriaeth ofodamser (fel tangnefedd neu ddiacter) lunio delwedd sy'n glynu: ymdeimlir â sefyllfa, er enghraifft. Gelwir yr atgynhyrchu hwnnw ar y cof yn ddarfelydd. Cyfuno elfennau delweddogol cyfarwydd o'r newydd a wna'r crebwyll. Ac o'r herwydd, mae delweddu'n un o sylfeini storïa.

Etifeddir y medr i ddelweddu'n synhwyrus wrth i faban 'ddeall' a chofio; ond nid ydym eto wedi cyrraedd proses yr iaith.

Daw'r ddelwedd yn 'arwyddedig' wrth fynd i mewn (drwy efelychiad o iaith rhywun arall) i berthynas ag 'arwydd' (sain mewn iaith). Digwyddant yng nghwmni'i gilydd. Yn y fan yna y ceir cyfundrefn ddeunyddiol gyntaf iaith (neu Ideogenesis): *arwyddedig* + *arwydd* = *arwyddiant*. Clymir sain wrth y ddelwedd. Ffurf yn y meddwl yw'r arwyddedig erbyn hyn, yn fewnol 'sefydlog' sy'n ceisio neu'n cael cynrychiolydd yn allanol. Drwy gyfuniad â sain neu rywbeth allanol i'r golwg, daw'n bont. Dyma nawr fwy nag arwyddedig mewnol. Daw'n elfen gymdeithasol a chyffredinol, yn allanol ac yn fewnol, yn arwyddedig i rywun arall hefyd. Cysylltir symbol â swm. Dyna iaith felly ar waith.

Bellach, mewn llenyddiaeth, y mae'r arwyddiant (y cyfuniad) yn barod i ddarparu'r uned lenyddol leiaf, y 'motiff', yr uned leiaf wrth weithredu thema, y llun bach syniadol lleiaf.

(1) Delwedd

Un peth sy'n cael ei ddadlennu wrth astudio gwaith Pantycelyn yw bod ei brif ddelweddau i gyd wedi'u gwreiddio mewn cyfundrefnau diwinyddol ac yn y Beibl. Ceir ganddo ddau ddosbarth o ddelweddau sydd ar waith yn ddiwinyddol (ynghyd â brawd haniaethol):

Dosbarth (i) Cynddelwau cyfoes e.e.

1. Meddyg — Clafychu / Iacháu
2. Pererin — Dechrau / Canol / Diwedd
3. Rhyfelwr — Duw / Satan; dyn / pechod
4. Carwr — Duw / dyn
5. Dadleuwr — Meddwl Duw / meddwl dyn gwyrdröedig

Dosbarth (ii) Cysgodion yr Hen Destament. Pobl a themâu sy'n digwydd yn yr Hen Destament fel pe baent yn cynrychioli Crist neu ddigwyddiadau'r Testament Newydd ymlaen llaw, neu hynt y Cristion yn ei ffydd: felly Israel yn yr Aifft, wedyn yn crwydro drwy'r anialwch tua Chanaan. Mae patrwm naratif yr ysgrythur oll yn gysgod i fywyd y pechadur colledig: (a) creu / cwmp / codi; (b) pechod / aileni / gogoneddiad. Mae'r holl aberthau'n gysgodion hefyd (Lefiticus). Cysgodion o Grist oedd y Deddfau. Y Testament Newydd a esbonia ac a gyflawna'r Hen.

Dosbarth (iii) Y themâu ysbrydol. Dyma'r haniaethad o'r diriaethol, y casgliad cyffredinol syniadol, yr athrawiaethau a bellha rhag y synhwyrau er mwyn mynegi'u perthynas ystyrol, ac er mwyn i themâu ymrithio mewn egwyddorion e.e. yr Atgyfodiad a'r Bywyd: gw. *Dosbarth (i)*, 5 uchod. Ond haniaethau ydynt sy'n gweithredu fel Personoliad. Crynhoir hyn oll yn nelwedd Pantycelyn o Grist. Mae'n amhosibl darllen y Testament Newydd yn effeithiol heb ddelwedd o Grist. Dyn yw.

Mae'r ddelwedd yn gyntaf yn atgynhyrchiad ar y pryd ac yn uniongyrchol gan y synhwyrau ar y meddwl. Y cof wedyn sy'n caniatáu i'r ddelwedd honno ddod yn anuniongyrchol. A hynny hefyd sydd drwy eirfa'r iaith yn cadarnhau'r storfa ym meddwl y bardd. Mewn barddoniaeth, neu mewn llafar cyffredin, daw delwedd yn drosiad drwy gysgodi neu glymu cyffelyb a chyffelyb gan chwynnu a chymharu nodweddion cyffredin; ac yna daw'r symbol yn arwyddedig trosiadol. Drwy ddod yn symbol, dechreua berthyn i faes egwyddor neu syniadaeth gyfundrefnol.

Cred rhywrai y dylai ‘cerdd’ greu effaith ar y dychymyg yn hytrach nag ar y deall. Math o ddogma rhamantaidd yw hyn. Ond y gwir yw ei bod yn mynd drwy’r amgyffrediad at y dychymyg megis at y teimlad. Eir ymhellach gan rywrai i hawlio bod bardd da yn cymathu neu’n cymodi’r delweddau a’r ‘diriaethol’ â’r haniaethol (sy’n fath o gyffredinoliad ar sail diriaethau) o’i gyferbynnu â’r gwyddonydd (a bardd gwael) sy’n tueddu i’w cadw ar wahân yn brofiadau ysgaredig. Gwelir delweddau a ffeithiau gan fardd yn ôl termau gwerthoedd. Felly y bydd rhai beirniaid diweddar — yn anghywir gredaf i — yn cyfrif trosiadau ar y blaen i’r cyffelybiaethau, a myth o flaen alegori, neu’n alltudio haniaethau er mwyn rhoi cartref i ddiriaethau. I mi, y mae amddifadu a graddio’n *negyddol* o’r fath yn groes i natur llenyddiaeth. Mae’n f’atgoffa am yr ôl-fodernwyr sydd am ysgaru gwah-ac-uno. Chwiliant am theori y gwah- yn hytrach nag am y gwir cyfun. Cyfanrwydd o foddau sydd ar gael i ddweud y gwir. Rhaid bod yn ofalus, wrth gwrs, gyda haniaethau, megis gyda phob gair. Ond camp ddynol yw haniaeth.

O blith y delweddau a ddefnyddiodd Williams, nid yw’n syn ei fod yn rhoi peth sylw i Grist, y Meddyg Da. Yr oedd wedi cael peth hyfforddiant mewn meddyginiaeth, ac yn ôl pob golwg yn ymarfer ychydig ar ei grefft. Roedd un o’i ffrindiau, William Read, yn feddyg, ac ysgrifennodd Pantycelyn farwnad iddo. Meddai hefyd yn

GWWP I, 10: *Am hynny yr ordeiniwyd i fod y Mab ryw bryd
Yn Feddyg a Iachawdwr i’r gwrthgiledig fyd.*

GWWP II, 150 *Iachawdwr dynolryw,
Tydi yn unig yw,
Fy Mugail da;
Mae angeu’r groes yn llawn,
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melus iawn,
Rhai’n a’ m iacha.*

*’Does medswn laesa’n poen,
Ond gwaed yr addfwyn Oen,
Pur waed fy Nuw...*

cf. GWP II, 143 Ac nid oes medswn a gytun / A’m clwyfau ond ei waed ei Hun. cf. 150; 215-6 Dacw’r Meddyg, dacw’r fan / Caf fi wella’r holl archollion / Dyfnion sy ar fy enaid gwan ... Dacw’r unig feddyginiaeth. cf. 45 O Iesu hy, y Meddyg; 11, 33 O Iesu’r meddyg da; 164 Y Meddyg pur; 145 O Iesu mawr, y Meddyg; 173 Pwy ddyry im falm o Gilead? 215 Dacw’r Meddyg.

Yn *Aleluia* (GWP II, 68) ceir emyn cyfan yn dwyn y teitl, ‘Crist y Meddyg’.

Cyfyd y cwestiwn a yw *iacháu*, — er ei fod yn perthyn yn arbennig i'r digwyddiad datblygol *etholedigaeth* | *galwad* | *argyhoeddi* | *edifarhau* | *credu o'r galon (ffydd)* | *aileni (atgenhedlu; tröedigaeth)* | *cyfiawnhau (maddeuant)* | *prynedigaeth (iachawdwriaeth)* | *mabwysiad* | *sancteiddhad* | *gogoneddu* | — hefyd yn gysylltiedig â'r broses led gyfundrefnus *sancteiddio / parhad mewn gras / perffeithio?* [Tanlinellwyd ymateb dyn]. Ymddengys fod Pantycelyn yn credu mai rhywbeth yw a bery ar hyd ei oes. Erys ef yn wan, yn glaf yn wir, ar hyd y daith. Nid yw'n ymwared â chloffï — y mae pechod yn para yn ei wythiennau — tan ddiwedd eithaf ei oes, er nad yw mwyach o dan ei arglwyddiaeth. Nid yw'r *iacháu* yn llawn felly nes ei fod yn llwyr wedi'i berffeithio wrth ei dderbyn i ddathlu'r nef.

At ei gilydd, er bod y Meddyg yn sylfaenol bwysig mewn Cyfiawnhad — sef wrth achub bywyd Cristion, a rhoi bywyd tragwyddol iddo, — tybio'r wyf y bydd Pantycelyn yn defnyddio'r termau 'Meddyg' ac 'iacháu' ym mhroses Sancteiddhad hefyd. Ac y mae hyn yn codi cwestiwn diwinyddol diddorol. A syniai Pantycelyn am Iachawdwriaeth ar gyfer yr holl broses *Cyfiawnhad/Sancteiddhad* yn hytrach nag â'r rhan gyntaf yn unig? Y cyntaf, mae'n ymddangos, yn bennaf. Drwy byrth ychwanegol yr eir i derfynoldeb iachâd, fe ymddengys.

Gan fod chwe phennod gyntaf *Theomemphus* yn rhoi sylw i Gyfiawnhad ac Iachawdwriaeth, dyma'r lle cyntaf i'r gyfundrefn *claf/afiach*, a phennaf rhanbarth delwedd y Meddyg. Pantycelyn oedd y llenor Cymraeg cyntaf i sgrifennu 'nerf' ac 'arteri'. Felly yn GWWP I, 107.

Cf. GWWP I, 247 *O! iachawdwriaeth gadarn! / O! iachawdwriaeth glir!*
 'Fu dyfais o 'th gyffelyb / erioed ar fôr na thir...

248 *O! ras di-dranc diderfyn, / tragwyddol ei barhad,*
 Yng nghlwyfau'r Oen fu farw / yn unig mae iachâd;
 Iachâd oddi wrth euogrwydd, / iachâd o ofnau'r bedd,
 A chariad wedi'i wreiddio / ar sail tragwyddol hedd.

Mae'r egwyddor ryfeddol sydd yn y fan yma yn hysbys ar raddfa fechan a chyfyngedig mewn imiwneiddio, pryd y bydd claf yn cael ei *iacháu* drwy glefyd, ond fe'i darlunnir yn awr ar raddfa Gosmig ar Groes Calfaria.

GWP I, 196 *Cymer Iesu fi fel ydwyf,*
 Fyth ni alla i fod yn well,
 Dy allu di a'm gwna i'n agos
 Fy ewylllys i yw myn 'd ym mhell;

 Yn dy glwyfau, &
 Bydda'i 'n unig fyth yn iach ...

 Gwaed dy groes sy'n codi 'fyny,
 'R eiddil yn goncwerwr mawr ...

Ac eto:

GWP II, 326 *Noddfa pechadur trist*
 Tan bob drylliedig friw,
 A phwys euogrwydd llym
 Yn unig yw fy Nuw ...

Nid iacháu sydyn yn unig yw'r iacháu felly. Nid iechyd llwyr ar y pryd yw. Gwyddai am hyn fel Meddyg ei hun. Ceir y tro tuag at wella wrth gwrs. Cafwyd (yn nhermau diweddarach) y gwrth-fiotig. Ond ceir cyfnod cryfhau go hir weithiau. Gras yw'r moddion bob tro.

GWP II, 176 *Esgyn a wnaeth i entrych ne'*
 I eiriol dros y gwan;
 Fe sugna f'enaid inau'n lân
 I'w fynwes yn y man.

Dyw'r anghredadun caled, wrth gwrs, odid byth yn gwybod ei fod yn glaf. Marw yw ef. Y Cristion gwan yw'r claf, a'r confalesent:

O'm pen i'm traed rwy'n friw.

Nid dyma'r lle i amlhau geiriau ynghylch y prif ddelweddau eraill a grybwyllir gan Bantycelyn. Trafodwyd y Carwr a'r Teithiwr yn helaeth mewn manau eraill. Hawdd fyddai crybwyll eraill, megis Rhosyn Saron GWP II, 92, 179; Priod 136, 166; Arch 116, Ffynnon 187, 256, 260, 305.

Ceir llu o rai cyffelyb — Mechniydd, Concrwr, Prynwr, Cyfaill, Barnwr, Cyfryngwr, Blaguryn, Gwas, Tywysog, Llew, Perl, Pren y Bywyd, Rhosyn Saron, Tarian, Alpha, Omega, Corn, Tŵr, Allor, Ysgol, a GWP II, 135 'Tragwyddoldeb yw d'enw'.

Mae gan R. Tudur Jones erthygl yn *Gwanwyn Duw* — 'Rhyfel a Gorfoledd yng ngwaith William Williams', Pantycelyn, 143-163. Cyfeiria at GWP II, 273, *Wel, brysiwch i'r frwydr, / Gelynon y sydd*. GWP II, 365 *Marchog, Iesu, yn llwyddiannus / Gwisg dy gleddyf yn ngwasg dy glun*. GWP II, 493 *Yn y rhyfel mi arosaf / Yn y rhyfel mae fy lle*. Yng nghyfrol Williams *Drws y Society Profiad* GWP II, 191, sonnir am fanteision y seiat, enwir yn olaf, 'ymgryfhau yn erbyn ein holl elynion ysbrydol ...' Dyna oedd brif ddiben y Seiat: nid oedd ond ar gyfer credinwyr cyffesol. Hynny yw, cyfrannu at Sancteiddhad oedd ei nod; therapi grŵp a hyfforddi ar gyfer rhyfel.

Gellid amlhau'r cyfryw ddelweddau. Ceir amryw emynau'n dwyn y teitl 'Crist yn bob peth', GWP II, 56, 87, 88. Tybiaf eu bod yn rhan o'r un broses ag a gynhyrcha *Golwg ar Deyrnas Crist*, a sylweddoli lleoliad a swyddogaeth Absoliwt. Ym mryd Pantycelyn, yr oedd Crist yn Absoliwt yn yr ystyr ei fod yn cynnwys pob peth, yn gyfeirbwynt ysbrydol eithaf ac yn ffynhonnell i bob peth. Ond fel arall; yr oedd yn ei daflunio'i hun hefyd i bob peth, yn cael ei gynrychioli gan bob peth. Yr oedd popeth yn ddelweddaeth briodol iddo neu i'w waith.

Gallwn ei weld ym mhobman. Felly, nid trosiadau yn yr ystyr arferol a syml oedd y rhestr o ddelweddau a'i cynrychiolai. Yr oedd yna uniaethu rhwng y Crëwr holl bresennol yn y creedig, er nad yr un peth mohonynt, cyn belled ag y gellid cael golwg ar Grist ym mhopeth yn ei dro. Hynny yw, lle bynnag y syllai Pantycelyn, beth bynnag oedd y gwrthrych, ni allai lai na chanfod Crist yno:

GWP II, 56 *Fy Mhren y Bywyd mawr,
 Fy Nrws i fyn 'd at Dduw,
 Fy Ffordd i fyned tua'r wlad
 Lle mae fy Nhad yn byw ...*

*Fy Mhen, fy Nghorn, a'm Tŵr,
 Fy euraidd Allor lân ...*

Caed y fath bresenoldeb ac obsesiwn Cristnogol gan Bantycelyn ynghylch yr Iesu, neu'r fath ymwybod a gweledigaeth ohono, nes bod pob meddwl yn troi o'i gwmpas bob awr o'r dydd. Fe'i gwelai ym mhob man ac ym mhob peth. Mae'n debyg nad oes neb erioed wedi derbyn cynifer o wrthrychau (gan gynnwys 'Cysgodion' yr Hen Destament) i'w gynrychioli ag y gwnaethpwyd yn achos Iesu Grist. Ac eto, y mae'r arwahanrwydd hefyd yn hanfod yn y berthynas agos. Hyn yw Absoliwt.

GWP II, 270 *Llawen wyf fi fod fy Hanfod
 Fawr yn ddedwydd ynddo ei hun,
 Ac na raid i Ti ymddiried
 Mewn creadur unrhyw lun.*

Ceir un dosbarthiad deuol syml sylfaenol ar y Motiffau a ddefnyddir mewn brawddegau neu mewn ymadroddion i ddarlunio Crist, yn ôl un modd digon elfennaidd o gyferbynnu ystyron: sef y llythrennol a'r trosiadol. Mae'r naill a'r llall yn 'wir' ac yn traethu 'hanes'. Ond y mae'r trosiadol yn gallu cyflwyno dimensiwn newydd a lledu gorwel. Enghreifftiau trwyadl ac awgrymus o'r cyfryw wirioneddau yw'r rhai a ddyry Iesu Grist amdano'i hun. Prif thema Efengyl Ioan yw cyflwyniad Iesu ohono'i hun fel Duw-ddyn, a'r Esboniad pam y daeth. Gall ei ddarlunio'i hun mewn gweithredoedd yn ogystal ag mewn geiriau. Nid llai gwir yw trosiad, ond modd i ddweud y gwir yn fwy manwl, neu'n fwy byw.

Seilir y cyflwyniad i *Ioan* ar (A) Arwyddion (y teitl arwyddocaol ar gyfer gwyrthiau);

(B) Saith Trosiad Strwythurol. Mae'r trosiadau'n hysbys:

1. Bara'r Bywyd: Ioan 6: 25; Pantycelyn GWP II, 178: *Dy gnawd yw bara'r bywyd gwir.*
2. Oen Duw: Ioan 1: 29, 36; Pantycelyn GWP II, 215: *I Galfaria un prynhawngwaith, / I weld yr Oen sydd wedi ei ladd; 132: Byw ar gariad anorchfygol, / Pur, y croeshoeliedig Oen.*
3. Goleuni'r Byd: Ioan 8, 12; Pantycelyn GWWP I, 7: *Goleuni i'r greadigaeth, / a Seren Fore iawn; 215: Llewyrch hyfryd pur y ne.*

4. Drws y Defaid: Ioan 10: 7; Pantycelyn *Drws y Soseieti Profiad*; GWP II, 36: *Fy Nrws i fynd at Dduw*.
5. Bugail Da: Ioan 10: 11; Pantycelyn GWP II, 150: *Tydi yn unig yw, / Fy Mugail Da*; 72: *O Fugail doeth*; 29: *O Fugail Israel*; 56: *Fy Mugail yw*; GWWP I, 182: *Ac yna, Crist y Bugail bresentia i'w ei Dad / Y llu di-rif*. 311: *Fe fedrai borthi'r defaid*.
6. Y Ffordd: Ioan 14: 5-6; Pantycelyn: GWP, II: 56: *Fy Ffordd i fyned tua'r wlad*; 82: *Ffordd newydd wnawd gan Iesu Grist*; 87: *Iesu yw'm Ffordd*.
7. Y Wir Winwydden: Ioan 15: 1; Pantycelyn: GWP, II: 180: *Ti yw'r winwydden hyfryd lawn, / Sy â'i sypiau grawn yn hongian*. Fel trosiad am Grist yn cynnal ac yn meithrin ei ddisgyblion yn ysbrydol Ioan 15: 1.

Peth sy'n hawdd iawn inni'i anghofio, — oherwydd bod yr efengyl gymdeithasol (a gwleidyddiaeth yn gyffredinol) wedi tueddu i ystyried mai y tu allan i ni y mae'r drwg ac mai 'nhw' (y lleill) yw'r gelyn, — nad felly y gwelai Pantycelyn bethau. Yn ei erbyn ef ei hun yr oedd fel arfer yn ymladd. Hyd yn oed wrth ddefnyddio'r gair technegol 'byd', y 'bydol' y tu mewn iddo yn anad dim a oedd mewn golwg. Ond yn fwyaf trawiadol, gyda'r archddelwedd 'teithiwr' neu 'bererin', cofier mai y tu fewn iddo yr oedd yr anialwch a'r mynyddoedd a'r rhwystrau hefyd, a'r wlad ddieithr. Alltud mewdol oedd, ac wrthi'n rhodio o gylch ei galon ei hun.

Wrth ateb Saunders Lewis ynghylch perthynas Cymru fel gwlad â Phantycelyn, meddai Moelwyn yn *Mr Saunders Lewis a Williams Pantycelyn*, 1928: 'Yn ein barn ni, nid Cymru yw y 'wlad o d'wllwch' y cyfeiria ati, ond ei gyflwr personol ef ei hun, a chyflwr personol pob un a gaffo gyffelyb brofiad drwy'i ail-eni. Wedi profi o oleuni gras cadwedigol — dyna fel y gwêl dyn ei hun:

*Mewn anialwch 'rwyf yn trigo
Aiff yw'r man lle'r wyf yn byw.'*

Mae cyffredinoli a symboleiddio yn estyniad o'r trosiad. Mae hyn yn wirach nag y tybiwn o ran dehongli pwy yn union yw rhai o'r cymeriadau yn 'Theomemphus', hyd yn oed y merched: ymwneud yr ym â grymustersau ac amgylchiadau mewdol Pantycelyn. Cyn belled ag y mae Pantycelyn yn ei ddeall ei hun ac yn deall ei gyd-Fethodistiaid, darlunio meddwl Calфинаidd y gymdeithas yr oedd.

Maglwyd Saunders Lewis (fel Sosialydd da) gan ei orbwyslais ar un math o ddehongliad cymdeithasol catholig, a chan awydd rhyfedd i ddadgymdeithasu Williams a'i or-ramantu. Etyb Moelwyn yntau drwy ddyfynnu o ragymadrodd y trydydd argraffiad o *Aleluia*: 'Yr wyf fyth yn addef er pan y deuthum i adnabod mwy ohonof fy hun, a gweled

mai Aifft o dywyllwch, môr o aflendid, byd o falchder yw dyn' ayb.. Mewnol yw ei bererindod, ac ef ei hun oedd yn ddiffaith. Byddai rhai o'i ddarllenwyr yn hoffi'i ddarllen ef yn fwy llythrennol leol yn ôl fel y marchogai dros rai o fryniau Sir Gaerfyrddin, gan adnabod ambell le. Ac wrth gwrs, y ffordd gywir i ddarllen trosiad yw drwy syllu'n gyntaf ar y gwrthrych yn *llythrennol* newydd fel y bwriedir geiriau'n gyntaf. Eto, ni allwn gofio'n ormodol mai mewmol oedd prif 'fyd' Pantycelyn. Gan mai mewmol oedd y wlad o d'wllwch, dylid cofio mai ei defnyddio a wnâi i'w ddadansoddi'i hun ac i ddeall yn amgenach y nerthoedd a'i cynorthwyai. Delweddu ei enaid a wnâi. Yn ei enaid ei hun, câi enaid ei gymdeithas.

Wrth gwrs, ceir llawer o ddelweddau benthyc, a ddefnyddir am Dduw ac am Iesu Grist oherwydd ffynhonnell y Beibl, tebyg i'r rhai a enwais eisoes fel ffefrynnau Williams. Defnyddir rhai o'r rhain oherwydd natur y swyddi — Bugail, Heuwr, Pysgotwr, Goruchwyliwr, Brenin, Meistr — a rhai heb fod yn bobl nac yn swyddi, megis rhai Ioan. Digwydd rhai ohonynt mewn damhegion yn y Beibl. Dyna natur droadol gyffredinol yr ysgrythur. Trwythir y grefydd Gristnogol mewn barddoniaeth, ym mhob rhan ohoni — o'r hanes i'r personau, o'r aberthau i'r damhegion, o'r sagrafennau i'r mawl. Barddoniaeth yw'r ffurf uchaf ar iaith. Chwaraeid holl hanes Israel ar gynfas moesol ac ysbrydol a welid drwy berspectif troadol. Wrth ateb y cwestiwn pam yr oedd Crist yn damhegu mor aml, meddai Dr Owen Evans yn graff iawn yn ei gyfrol ddifyr *Dammegion Crist*: 'Gellid crybwyll, megis yn rhagarweiniol, fod y dull hwn o addysgu yn gweddu yn neilltuol iddo ef, *am ei fod ef ei hunan, o ran ei Berson, yn ddameg anfeidrol ogoneddus*. Mewn dameg y mae'r ysbrydol yn cael ei osod allan trwy'r naturiol, ac yn gyson â hyn, yr ydym yn yr Arglwydd Iesu yn cael y dwyfol yn ymdangos trwy'r dynol, yr anweledig yn cymryd ffurf weledig, a'r goruwchnaturiol yn ei ddefnyddio'i hun trwy'r naturiol; oblegid "yn ddi-dadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb. Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Y mae disgleirdeb yr haul yn rhy danbaid i'r llygad noeth allu craffu arno, ond gellir syllu arno gyda hyfrydwch drwy wydr lliwiedig.' Dyna reidrwydd y Beibl i fod yn farddoniaeth. Ond yn y troadau hyn y ceid y llythrennol: yn y delweddau ceid yr hanes.

Rhaid bod yn wylidwrus iawn o ysgolheigion sy'n gwadu'r gwyrthiol a'r goruwchnaturiol yn rhagdybiol. Mae sylfaen ysgrythurol a gosodiadol Williams yn cydnabod bod a wnelo'r Beibl â'r hanesyddol oruwchnaturiol. Ni châi ef drafferth i gydnabod fod materion megis creu bodolaeth, cyfundrefn, bywyd, cydwybod a rhagluniaeth i gyd, gan gynnwys y geni gwyrthiol, marwolaeth iawnol, atgyfodiad, yr ailddyfodiad, a'r Farn oll yn hanesyddol hollol 'lythrennol' a throsiadol. Amhosibl yw i'r meddwl meidrol lefaru am

Dduw heb ddefnyddio iaith anthropomorffig (*An Introduction to the Old Testament*, Edward J. Young, 51). Nid oes trosiadol heb llythrennol, na naturiol heb oruwchnaturiol.

Bu'r goruwchnaturiol yn esgus i ryddfrydwyr anghredu'r 'llythrennol'. Ond defnyddir pob esgus.

Crefydd farddonol hanesyddol yw Cristnogaeth. Barddoniaeth oedd y ffurf fwyaf parhaol ar Fynegiant, o'i chymharu â gwyddoniaeth neu hanes llythrennol tlawd. Roedd Crist yntau yn sagrafen ac yn symbol ac yn hanesyddol, wrth gwrs. Carwn nodi ein bod hefyd yn syllu ar Grist drwy gyfundrefnau. Y mae hyn o gyflead ganddo yn wir yn gymorth i'n meddyliau amgyffred rhai pethau'n well, ac yn sicr dengys ym mha ffordd y mae Ef yn Dduw trefn. Cyfundrefnau o'r fath yn enaid yr Emynydd oeddent oll. Eto, nid ymwardent am eiliad â'r llythrennol, nac â'r Gwir.

* * *

Tybir weithiau mai math o addurn yn unig yw trosiadau. Ffordd ydynt ym mryd rhywrai o wneud iaith yn bert neu'n ddiddorol. Ond nid dyna ydynt, yn gyntaf, eithr dyfais i ddiffinio'r gwir yn well – i'w egluro yn fwy bywiog neu'n estynnol, i'w ddiriaethu, ac i'w gyffredinoli. Perthyn i'r dosbarth o ganfod meddylol sy'n ffurfio ystyr yn ddiriaethol. Yn *Seiliau Beirniadaeth* Cyfrol 3, amlinellir y ddau ddsbarth bras, 'Ffigurau ymadrodd' a 'Throadau Ymadrodd' sy'n trefnu ystyr mewn dwy ffordd gyferbyniol, y naill drwy gadw ac ailadrodd ystyr yn sefydlog a'r llall drwy'i symud a'i throi'n gyfnewidiol sefydlog. Mae a wnelont â pherthynas ffurf batrymol yn y meddwl sy'n ymyrryd drwy *wahuno* deunydd, 'gwahaniaethu' ac 'uno' cynnwys. Dyma ddeinameg dychymyg a ffaith. Trosi, ie, ond trosi i'r gwir.

Yr hyn sy'n nodweddu'r Trosiad yw bod y meddwl, wrth gyfosod neu ganfod dau beth, yn dadansoddi ansoddau'r naill a'r llall ac yn dod o hyd i'w rhinweddau, gan hunaniaethu nodwedd neu elfen gyffredin yn y naill a'r llall. Oherwydd y cyswllt hwn, y darganfyddiad o bont ystyrol, y mae'r naill wrthrych yn gallu cynrychioli'r llall mewn estyniad o ryw fath, a gwneud hynny'n well, yn fwy manwl. Gwelir un peth yng ngolau'r llall mewn modd newydd. Maent yn perthyn. Clymir dau gyfan gan ran sy'n eu huniaethu. Newidir y diriaethol gan ymyrraeth yr haniaethol sydd ynddynt. Yn SB 344 defnyddiais innau'r trosiad 'odl ystyr' i geisio diffinio grym y trosiad. Awgrymais mai'r nod i'r ddyfais oedd bywiocáu iaith sy'n tueddu i welwi oherwydd bod mynych ailadrodd defnydd gyda'r blynyddoedd yn tueddu tuag at farwolaeth. Gwahuno yw sylfaen ffurfiol y trosiad.

Mewn barddoniaeth droadol newydd, a theimladol weledigaethus, ceir math o fywyd newydd hefyd nas ceir gan y llythrennol. A dyna pam y mae cymaint (ar ryw olwg, y cwbl)

o'r Beibl ar ffurf droadol, oherwydd ymestyn a wna i ddweud yr anddywedadwy wir. Mae'n droadol llythrennol ac yn hanesyddol ysbrydol. Dibynna'r troadol ar y llythrennol, a'r llythrennol ar droadaeth. Ffeithiau yw'r cwbl.

Gellid troi yn benodol hefyd at 'gysgodau', fel y galwai Williams hwy, a'u hystyried yn gywir ddigon fel ffenomen yn y categori o ddelweddau. Proffwydoliaethau oeddent ar ryw olwg. Trosiadau oeddent hefyd, y bwriedid inni sylweddoli'r gyffelybiaeth rhyngddynt a Christ, a'n paratoi'n ddeallol ar ei gyfer. Yn hynny o beth, i Williams nid oeddent yn 'newydd'. Dyma ni'n ôl drachefn gydag arferoldeb cymharol weithredol ddychmyglon Williams. Casglai ef hen ddull o gyfleu cysylltiad Israel yr Hen Destament â'r Israel newydd yn gydlyniad cyfundrefnol.

Ond nid oeddent yn 'ddyfeisiadau crebwyll' o fath yn y byd, i Williams. Yn *Golwg ar Deyrnas Crist* y mae'n eu doddi hwy yn gyfres yng nghwmni proffwydoliaethau'r Hen Destament am ddyfodiad addawedig Crist, neu yng nghwmni corfforol, personol rhai cymeriadau 'anhysbys' ymddangosiadol ddwyfol sy'n brigo i'r golwg rai troeon o fewn hanes yr Hen Destament (yr ymddangosiadau). Nid tebygrwydd a amgyffreda ffansi bardd sydd yma, ond amlygiad bwriadedig ymlaen llaw ar lun cymeriadau a digwyddiadau a amcanwyd i ddatguddio'r Duw-ddyn, fel y câi darllenwyr yr Hen Destament wybod pa fath o berson fyddai a beth a wnâi ef pan ddôi yn llawenydd o'r diwedd. Rhan oedd y 'cysgodau' nid o'r dadleniad i adeiladu'r gwerthfawrogiad o Grist yn awenyddol brofiadol, ond yn wybodol ffeithiol mewn criteria hanesyddol a'i gosodai ef yn ymgnawdoliad yn nhrefn amser. Rhan o'r dystiolaeth oeddent — nid prawf rhesymegol (nid oedd angen prawf o 'fodolaeth' na 'dadl' o fewn gofod ac amser i'r sawl a syrthiasai eisoes mewn cariad, yn ôl ei saith synnwyr, â Pherson diriaethol). Gwedd farddonol oedd cysgodau ar gydlyniad cyfundrefnol yr Hen Destament a'r Newydd, rhan o gydwead rhyfeddol. Pethau i'w credu.

Rhodddid trafodaeth am ddefnydd uniongyrchol esboniadol o 'gysgodau' gan Williams mewn dau le, sef yn '*Golwg ar Deyrnas Crist* ac yn ei gerdd benodol 40 o benillion am Gysgodau yn gynnar yn GWP II, 116-119. Ond y mae'r ffenomen yn llawer mwy treiddgar na hynny. Mae ef yn canfod hanes Israel ar ei hyd yn ffrwythlon mewn emyn ar ôl emyn yn ymlwybro o Wlad yr Aiff drwy'r anialwch ac yn nannedd helbulon a rhwystrau di-rif nes cyrraedd Canaan. Mae yn sylfaen ac yn rhagargoel o hynt a helynt y Cristion unigol ar lwybr Sancteiddhad. Felly, dylid lleoli'r holl emynau niferus hyn am bersona'r Cristion neu nodweddion taith y Cristion yn blwmp ac yn blaen gyda syniadaeth y Cysgodau.

Yr ymdriniaeth fwyaf treiddgar gan Williams â Chysgodion yr Hen Destament o Iesu Grist yw'r Bumed Bennod yn *Golwg ar Deyrnas Crist* (GWWP I 121-141). Dyma hefyd y

gân o fawl praffaf i'r Beibl a sgrifennwyd erioed yn Gymraeg. Mae Williams yn crynhoi ei arwyddocâd iddo ef fel hyn:

GWWP I, 121 *Fy Iesu yw mêr y Beibil, 'does bennod nad yw'n sôn
O bell neu ynteu o agos am groeshoeliedig Ô'n;
Fe oedd y testamentwr, a'i dest'ment ef ei hun
Yw'r gyntaf a'r ddiwethaf er iechydwrriaeth dyn.*

Gweledigaeth ryfedd yw hon wrth gwrs, dehongliad yn y traddodiad Piwritanaidd. Ond y mae'r esboniad a rydd Williams o'r fath osodiad yn cyfleu dehongliad go ysgubol o adeiladwaith ac arwyddocâd yr Ysgrythur. Gwir mai Rhan y Drydedd o'r Bumed Bennod yw'r unig ran o *Golwg ar Deyrnas Crist* sy'n honni ymdrin â'r Cysgodau. Ond anodd gennyf gredu nad oedd yr Ymddangosiadau yn y Rhan Gyntaf, neu hyd yn oed y Proffwydi yn yr Ail Ran, wedi'u bwriadu i gysgodi presenoldeb Crist hefyd. Dyma rym trosiadol ar ei fwyaf llythrennol, a natur farddonol y Beibl a gweledigaeth Pantycelyn benbwgilydd.

Sut y mae'r meddwl troadol yn yr Hen Destament yn gyson â Chyfundrefneg? Cymerwn mai undod yw cyfundrefn sy'n cynnwys cydlyniad cyson a sylfaenol elfennaidd o rannau neu o weddau perthynol: dwy neu dair yn y bôn o fewn un (er y gellid lluosog). Drwy gyfundrefn y crewyd y byd. Drwy gyfundrefn yr ydym yn deall popeth (gwahaniaethu+uno neu gysoni). Drwy gyfundrefn y cafwyd iaith. Fel y dysgodd y Creawdwr i ni (gan bwyll) feddwl amdano ef fel Tri yn Un neu Ddwy Natur mewn Un Person, felly Duw a argraffodd ei gymeriad ar y Greadigaeth, yn atom, yn gell, yn alaeth. A cheir trefn ar bob tudalen rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, a dull unigryw o'i chyflwyno. Nid digon yw sôn am y gwahaniaeth anhraethol rhwng Crëwr a Chreadigaeth heb gydnabod yr hyn sy'n gyffredin i'r Un a greodd ddyn ar Ei ddelw, ac yna, yn gyffredinol yn yr Ymgnawdoliad. Dyna pam y mae'n bosibl sôn am Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol y Beibl oll, ac Ieithyddiaeth a Llenyddiaeth gyfundrefnol, megis am gell ac atom, er bod popeth mor amrywiol gyson.

Gwir nad yw'r Hen Destament na'r Newydd ond odid yn traethu'n uniongyrchol systematig am systemau ffurfiol – er sôn am gynllun neu ragluniaeth Duw – fwy nag y mae'n traethu gwyddoniaeth yn null y bumed ganrif ar hugain. Ni wna llenyddiaeth mo hynny chwaith gyda hyder. Ond y mae bodolaeth llenyddiaeth grefyddol neu seciwlar yn dibynnu ar drefn lem a chyfoethog. Rhan o waith beirniad llenyddol yw chwilio'r drefn sefydlog honno. Ond ymddengys i mi na ddylai fod yna'r un gyfundrefn sefydlog a drafodir mewn Diwinyddiaeth, onid y rhai a ddarganfyddir yn fwriadus eglur yn y Beibl.

I ba raddau y gellir gweld cyfundrefnaeth yn Hanes a Meddwl yr Hen Destament? Rhagluniwyd y cwbl; yn Ddeunydd, yn Werth, ac yn Bwrpas. Ni ellir deall dim o'r tri pheth hyn ond drwy ddefnyddio'r meddwl yn ôl cyfundrefneg iaith, megis achos ac effaith; a

doniwyd ni â holl sylfeini deall a dardd mewn egwyddorion. Mae Cyfundrefneg yn angenrheidiol i ddeall ac esbonio Bodolaeth, Hanes, ac Ystyr yr Hen Destament. Mae'r holl Ddeddf yn Gyfundrefn o gyfundrefnau syml. Lle bynnag y bo deddf foesol, fe geir trefn (yn wir gyfundrefn) gyferbyniol. Mae'r Hen Destament yn trafod Taith Israel ar ffurf cynllun arfaethedig. O'r Caethiwed yn yr Aifft, drwy Waredigaeth gyda Moses; yna'r Daith drwy'r Môr Coch a'r anialwch, yn ddygn ac yn galed; drwy eilunaddoli a gwamalu, mewn proses o Sancteiddio; i Wlad yr addewid. Dyma fframwaith cysgodol a driniwyd felly gan yr Hen Israel ar gyfer yr Israel Newydd. A'r Ddeddf sy'n egluro holl drefn byw a marw, pechod a'i ddifrifoldeb ysbrydol, a pham y bu'n rhaid i Grist farw. Ond ni ddylid cychwyn ar ymdriniaeth â Chyfundrefneg mewn Llenyddiaeth na Diwinyddiaeth heb danlinellu ei chyfyngiadau a'i hannigonolrwydd. Person yw'r Gwirionedd Cristnogol. Duw personol a gyflwynir inni yn yr Hen Destament hefyd. Ef a gredwn. Ef a garwn. Nid moeseg nac egwyddorion. Ceir cyfundrefnau ledled mawl a llenyddiaeth. Ond ceir llawer mwy. Ceir egni a theimlad, gweledigaeth a dychymyg, oll yn faterion personol. Ac felly y gosodwn y gair 'Person' fel rhybudd gyferbyn â 'Chyfundrefn.' Sylwer ar y gair 'Absoliwt' hefyd. Cariad yw'r Duw Absoliwt. Safle mewn disgrifiad o berthynas yw, fel 'Pen' neu 'Ddiwedd' neu'r 'Cyfan', neu'r 'Dihysbydd', ond Absoliwt *ar waith*.

Ynglŷn â her Kierkegaard (*Concluding Unscientific Postscript*) nad yw system ddirfodol go iawn (hynny yw cyfundrefn fyw) yn bosibl, beth a ddwedwn? Rhamantydd mawr oedd Kierkegaard, a chyda phob parch dwfn, rhaid bod yn wylidwrus o ramantwyr yn trafod hyd yn oed dychryn y gair 'cyfundrefn'. Mae'n air da i hala ofn ar fyfyrwyr. Ond nid oes yr un gyfundrefn ddaearol heb ddeinameg. Cymorth yn ein hoes ni yw sylweddoli nad oes dim yn bosibl nad yw eisoes ar ffurf cyfundrefn. Gellir symud a newid o gyfundrefn i gyfundrefn, ond ni ellir dianc o law cyfundrefn fyw. Darganfyddiadau yw'r cyfundrefnau dyfnaf, ac nid oes tybiau bwriadus na dyfeisiau dynol sy'n sylfaenol ymwybodol mewn Tafod, er eu bod yn ddyn-greedig yn allanol bwysig mewn Mynegiant. Ac er amlygrwydd y ddeinameg mewn Mynegiant, nid yw hynny'n lleihau y grym symudol sy'n ei rhagflaenu eisoes yng nghyfundrefnau Tafod.

Mewn Diwinyddiaeth Galfinaidd neu Lwtheraidd, pwy bynnag yw'r awdur, hawlir mai'r Beibl yw'r gwreiddyn gwybodol ac unol awdurdodol i'r cwbl oll. A phwrpas Williams yw arddangos a dathlu'r undod hwnnw a'r cydlyniad a geir yn holl ddigwyddiadau ac athrawiaethau'r ysgrythur. Dyma iddo ef bresenoldeb trosiadol.

Mae'r defnydd o gysgodau, felly, a all fod yn fath o droadau datblygedig ar lefel dechnegol i ni yn codi cwestiwn ynghylch grym troadau yng ngwaith Pantycelyn, yn

arbennig wrth inni feddwl am y delweddau o bersonau ac o ddigwyddiadau sydd i'w cael yn ei gerddi am bererin, carwr, rhyfelwr, a meddyg. Onid yw troadau hwythau mor wir bob dim (o leiaf) â'r llythrennol? Onid yw'r llythyren yn lladd a'r troad fel yr ysbryd yn bywhau? Tuedda rhai pobl i ystyried iaith lythrennol yn well nag iaith droadol fel ffordd i gyfleu gwirionedd, tra bo pobl eraill weithiau (yn y celfyddydau o leiaf) yn cyfrif bod iaith droadol yn rhagori, yn fwy awgrymus a byw, yn fwy parhaol. Rhuthra rhyddfrydwyr at 'droadau' fel esgus i osgoi'r llythrennol ac i leihau awdurdod. Nid yw'r Beibl yn pledio rhagoriaeth y llythrennol na'r troadol. Ond y mae'n sicr yn cael ei gyflwyno fel adroddiad hanesyddol dehongledig a'r troadau'n llwybr hanfodol tuag at anian y llythrennol ac i'r ysbrydol. Ac os oes 'cysgodau' o'r Testament Newydd, ac o fywyd y Cristion cyfoes i'w cael yn yr Hen Destament, nid eu rhoi yno i fod yn alegoriaidd yr oeddid. Yr oeddent yn rhan ddiriaethol o'r paratoad ac o'r Gwirionedd. Nid esgus yw'r troadol i beidio â dibynnu'n llythrennol. Creder yn llythrennol bob amser: canys drwy borth y llythrennol y mae deall y troadol.

Ceir amryw drafodaethau craff a defnyddiol ar y ffenomen hon o 'gysgodau' Williams, yn *Y Diwygiad Mawr*, D. Llwyd Morgan, 39-46; gan Glyn Tegai Hughes ym *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*, gol. D. Llwyd Morgan, a chan Kathryn Jenkins, 'William Pantycelyn a'r Beibl', *Y Traethodydd* 143, (1988), 157-70.

Ceir yn gyffelyb yr hyn a elwir yn 'sagrafennau' gan yr Eglwys. Arwyddion yw'r rhain drachefn. Ar gyfer delweddau. Rhydd Williams gryn sylw i Swper yr Arglwydd, ac i'r angen i goffâu marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist mewn modd gweledig personol. Tra bôm yn cywir ystyried mai coffâd yw, ac nad ydys yn aberthu mwyach, ond yn coffâu yr unwaith-am-byth yna, yr ydym yn ddiogel. Ond yr oedd Williams yn ddiau wedi gweld *Bedydd* gan y Sefydliad yn mynd ymhellach nag 'arwydd' yn 'nhraddodiad' yr Eglwys Gatholig; ac ychydig o sylw — rhy ychydig o sylw — a rydd ef i'r ordinhad yma, a hynny oherwydd fod yr 'Eglwys' (hynny yw, y swyddogion) ysywaeth wedi ceisio meddiannu'r hawl i 'wneud' Cristnogion yn awdurdodol drwy'r ymarfer hwn. Trosiadau llawen yr enaid oedd Bedydd a Swper yr Arglwydd, nid esgus arall i rannu'r Eglwys. Gwirioneddau byw oeddent.

Cyflwyno delweddau dramatig inni eu gweld a wna Pantycelyn weithiau. Bydd pawb ohonom sydd wedi bod yn 'chwarae'n' feddyliol â chrefydd yn gyfarwydd â'r darlun heb ddifrifoldeb a'r canlyniad hwn i'r 'chwarae':

GWP II, 250

*Ar y dibyn bum yn chwareu;
 'Lawr pe aethai 'm henaid gwan
 Nid oedd bosibl i mi godi
 Fyth o'r dyfnder hwnw i'r lan;
 Iesu, Iesu, &c.,*

Ti sy'n trefnu oll dy Hun.
Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddystaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref
Yn fy rhwymo i heb im' wybod
Wrth golofnau pur y nef;
O ragluniaeth &c.,
Ti sy'n trefnu'r ddaear faith.

Myn ef ei hun mai sythweled yw hyn, nid rhesymu:

GWP II, 250 *Gwel'd dy gariad anorchfygol,*
Gwel'd dy chwerw angeu loes,
Gwel'd dy ofal maith, diflino
Ata' i'n gyson yn fy oes.
Sydd yn dofi, &c.,
Grym fy nwydau cryfa' eu rhyw.

I mi, mae yna rywbeth minimalist (lleiafsymiol) ynglŷn â sylwedd, sylmler â myfyr, yn arddull gweld byw ac elfennaidd Pantycelyn:

GWP II, 197 *Llwch wyf fi, o'r llwch y daethum,*
Pryf yw 'mrawd, y ddae'r yw 'mam,
Eto'r wyf fi'n 'mofyn teyrnas,
Ddi-sigledig, bur, ddinam;
Pryfy ddaear, &c.,
A ddaw hwnw 'mewn i'r nef!

236 *Fe fy mhechod, &c.,*
Yrodd allan ddwyfol waed.

Oni welwn yn yr ail, yn y fan *baradocsaid* yna, yr Iesu'i hun yn fflangellu'r gwerthwyr allan o'r deml? A'r pechadur yntau'n gyrru'r gwaed allan?

240 *Mae fy esgyrn yn ymdrwsio,*
I lechu yn y ddaear ddu.

Sef y Cristion yn ymbincio ar gyfer marw. Felly hefyd am ei gydwylod, *le mot juste* (yr union air).

241 *Yn lletya yn nghlwyfau'r Oen.*

256 *Ac mi wela'r gwaed yn hidlo*
Tros ei ruddiau sanctaidd, pur!

Tuedd gweld o'r fath yw peri inni agor ein llygaid.

Gŵyr llawer ohonom am y profiad o ddelweddau eidectig. Cofiw'n weithred neu olygfa mor fyw nes y gallwn neidio neu frawychu o'i herwydd. Peth felly weithiau yw gair i fardd: *le mot juste* eto, a gweld ieithyddol fyw. Naid gair yn afiaith o'r gronfa lipa.

GWP II, 311 *Cariad perffaith, &c.,*
Sy yno yn anadlu'r lle.

330 *Tydi, fy Nuw, sylfaenodd gri*

O'm mewn

316 *Os gadewi 'mhechod ddamsiad
F'enaidd eiddil tan ei droed.*

337 *Gruddfan yw fy mwyd a 'm diod,
Ac och 'neidio yw fy nghân*

Mae'r dweud mor lleiafsymiol o syml, ac eto mor sylweddol o gywir nes bod y dieithrwch yn ffitio i'r dim: yn esgid newydd.

Yn fynych, mae ffitio cymhlethdod mewn symlder fel hyn yn golygu paradocs. Ac y mae rhyw fedr mewn paradocs sy'n deffro darlennydd. Ond os mentra straenio'r gwirionedd, nid ymddengys ond yn glyfrwch syniadol. Eto, mewn Cristnogaeth, paradocs yw sylfaen y cwbl o'r hyn sydd yn y Beibl. Hi yw'r Deyrnas ar ddrych y llawr. Mae Pantycelyn yn aralleirio paradocs peniwaered sy'n gwbl Feiblaidd:

GWP II, 251 *Mae fy Nuw yn fy ngheryddu,
Ond fy ngharu y mae Ef.*

Ond yn fynych, o fewn fframwaith meddwl paradocsaidd, dyry inni syndod metaffusegol hanfodol:

GWP II, 196 *Yn dy glwyfau, &c.,
Bydda 'i n unig fyth yn iach.*

Dyma'r syndod sydd y tu hwnt i reswm arferol, y rhyfeddod o weld goleuni sydyn 'naturiol' ac o fewn tywyllwch natur:

GWP II, 226 *'R wyf yn ofni fy ngrasusau,*

All Pantycelyn ddim o'i ddal:

230 *Rhyfeddod fil, dewch, gwelwch hyn
Y mwya' du yn fwya' gwyn!*

237 *O na b'ai cystuddiau f'Arglwydd
Yn fy nghalon i gael lle*

238 *Ni 'sgrifenir ar fy nghalon
Fyth dy eiriau ond â gwaed*

240 *'Rwyf yn clemio
Hawl i oll sydd gan fy Nuw.*

Mae'r datguddiad yn symud Pantycelyn i ddimensiwn nas disgwylia, ac â i mewn i'r sylweddoliad yn anuniongyrchol. Gweddnewidir synnwyr daearyddol.

308 *Hyfryd fryniau tŷ fy Nhad.*

Paradocsaidd yw'r grefydd Gristnogol o'i bôn i'w brig. Paradocs yw pob trosiad. Gwirionedd sy'n ymddangos yn groes i reswm llythrennol yw paradocs. Fe'i clymir wrth reswm ysbrydol. Ac o'r braidd y gellid cael neges greiddiol fwy paradocsaidd na'r Crëwr

anfeidrol yn dod i'w greadigaeth feidrol er mwyn marw i bechadur dihaeddiant gael byw. Myn rhai chwarae â ffeithiau paradocsiaidd o'r fath er mwyn anghredu.

Ond nid rheswm llythrennol yw method y grefydd Gristnogol, eithr sythwelediad yn yr ystyr Gymraeg. Pan fyddai Wittgenstein gynt yn sôn am ei osodiadau syml (neu atomiaidd) fel y pethau sy'n portreadu'r byd i gyd, yn ddiarwybod iddo'i hun yr hyn yr oedd yn ei wneud oedd sythweled. Nid rheswm â'i harweiniai ef i ddweud: 'Mae'n oer'. Nid rhesymu a roddodd Wahuno i ni, sef y gwirionedd nesaf ar ôl undod syml y disgrifiad noeth. Sythwelir cyfundrefn graidd baradocsiaidd, ffaith a ffaith. Nid rhesymu a ddarganfu gyfundrefn y gell na'r atom, eithr gweld — a hynny a arweiniodd at resymu wedyn. Gellir gorbwysleisio swydd rhesymu ochr yn ochr â *chanfod* cyfundrefn. Meddai Wittgenstein yn ei *Lyfrau Nodiadau* (2.8.16): 'Estynnodd fy ngwaith o seiliau rhesymeg i natur y byd'. Ond anghywir yw (a chywir): estynnodd ei wybodaeth am natur y byd o sythweled ffeithiau. Tynnodd allan o sythwelediad 'gwahuno' a 'chfundrefn' y ddyfais neu gasgliad o resymu a oedd eisoes o fewn y ffaith honno. Math o weithgaredd estynedig mewn dimensiwn ymwybodol yw rhesymu. Dyna pam yr honnaf nad systemateiddio'r Beibl yw gwaith *Diwinyddiaeth Gyfundrefnol*, ond darganfod y cyfundrefnu sydd eisoes yno. Sonia Maurice Roberts (*Westminster Conference Papers*, 2007, 77) am 'the instinct to systematise the teachings of God's word': gall y disgrifiad fod yn gywir ddigon os yw'n golygu dadlennu'r ffurf.

Canfod neu sythweled noeth yw athroniaeth llawer o'r hyn a ddatgenir mor hyderus.

GWP II, 313 *'Mofyn bywyd mewn marwolaeth.*

336 *'Rwy'n ffrynd i'r bedd.*

230 *Mae uffern lawn o dân*
Yn crynu 'n awr o'r bron.

Yr ydym bellach wedi cyrraedd Mynegiant, ac wedi ymgartrefu yn rhediad ymadroddion Pantycelyn. Hynny yw, o ran theori, yr ydym yn grwn yn theori Mynegiant.

Gwelsai ef eisoes rywbeth llythrennol ar y ddaear. Parhau'r gweld hwnnw fydd y nef.

GWP II, 251 *'Rwyf fi'n meddwl am yr oriau*
Caffwyf fynyd o'th fwynhau, ...

Dyna'r pryd 'r wy 'n dechrau 'mywyd
Pan y caffwyf wel'd yn glir.

Er nad rheswm yw'r gweld, fe ellir dadl heb reswm. Pan geir dau wrthwynebydd, ceir math o ddadl ffeithiol gyferbyniol.

GWP II, 252 *Rho i mi yfed, 'rwy'n sychedig*
Ddw'r y ffynon loew, lawn,
Darddodd allan o dy ystlys
Ar Galfaria un prydawn;

*Gwaed fy Nuw, unig yw,
Ylch fy meiau dua' o ryw.*

*Mae fy anwireddau'n gwaeddi
Am ddialedd ac am lid —
Am bentyrau barn ddychrynlyd
Ar fy enaid bach yn nghyd;
Dadleu'n awr, Iesu mawr,
N'âd y dial gwympto 'lawr.*

Os oes dadl, dadl ydyw sydd i'w 'gweld'. Pam? Oherwydd undod syml a garw pob rhan o'r broblem.

GWP II, 255 *Mae ei arfaeth fawr a'i air yn un,
A gwaed y groes oll yn gytun.*

Canfod pethau syml a wna yn y bôn, ond ynddynt y mae'n gweld symlder arall, y symlder glân sy'n ddyfnach na geiriau: cymerer delwedd y Graig:

GWP II, 256 *N'ad fi adeiladu'n ysgafn
Ar un sylfaen is y ne',
Na chymeryd craig i orphwys
Tu yma i angeu yn dy le;
Ti, fy Nuw, tra f'wyf byw,
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

Dyma'r maen sydd yn y gongl,
Dyma'r gareg werthfawr, bur
Gloddiwyd allan yn y brynïau,
Brynïau tragwyddoldeb dir;
Nid oes le is y ne',
I adeiladu ond efe.*

Mae angen pwysleisio cyfyngder Beirniadaeth Dafod ym Meirniadaeth Lenyddol. Ymwneud y mae Tafod â disgrifiad o adeiladwaith ysgerbydol ac ag egwyddorion llenyddiaeth. Disgrifio a gwerthuso a wna Beirniadaeth Fynegiant wedyn a lleisio ymateb personol y darllenydd i'r gwaith llenyddol diriaethol achlysurol, o bosib i bob brawddeg a delwedd, i bob techneg a throad, i bob syniad a theimlad unigol. Nid gelynyon yw'r ddau hyn, Tafod a Mynegiant, eithr brodyr.

Ond nid brawd academiaidd diniwed yw Tafod. Ac nid ynysig ar wahân, a di-drefn yw urddas Mynegiant. Drwy fyfyrddod dwys am natur llenyddiaeth y cafodd Goethe a Dante, Shakespeare a Saunders Lewis ysbrydoliaeth a dyfnder gwelediad a ganiataodd iddynt arwain Canon. Credaf pe bai Adeileddwyr (megis Culler) ynghyd â'r theorïwyr gwahanus ar y pryd, yn yr ugeinfed ganrif wedi peidio â bodloni ar Saussure, a heb droi'n fudiad diwinyddol diwreiddiau go ystrydebol ac Ôl-fodernaidd, ac yn lle hynny wedi chwilio cyfanrwydd

cydlynol yr holl broses lenyddol, y buasai canfodiad o arwyddocâd cyfundrefn wedi rhoi ymwybod o gyfeiriad cyfrifol newydd iddynt a llawnder beirniadol mwy treiddgar.

* * *

Ymdrôdd Pantycelyn yn obsesif gyda'r trosiadol. Edrychai drwy'r trosiadol.

Ond beth yw cymhelliad y trosiad? Ffordd o ddifrifoli dweud y gwir yw. Weithiau fe'i defnyddir er mwyn symleiddio syniad cymhleth mewn darlun clir. Gall fod yn syniad y tu hwnt i eiriau llythrennol. Weithiau fe'i defnyddir er mwyn bywhau a gwneud yn drawiadol ddelwedd gyffredin drwy ddefnyddio'r dieithr neu'r annisgwyl. Ceisir hanfodi ystyr.

Mae yna broblem ddynol aruthr wrth gyflwyno'r dwyfol o fewn cyfrwng gofod ac amser. Drwy wydr tywyll y canfyddir aruthredd cymhlethrwydd Creu bodolaeth a threfn: aruthredd pechod ac uffern, ac awydd dyn i ymgaledu a'u lleddfu; aruthredd y-tu-hwnt-i-eiriau person Duw tragwyddol; aruthredd y cydbwysio iawnol o fewn Cyfiawnder, a'r ffordd y mae marw meddyliol yn cael ei fywiocáu; aruthredd glendid Crist a'i ddaioni a'i gariad; aruthredd personol Ei aberth yn oruwchnaturiol; aruthredd ofnadwy eithafol y Farn; aruthredd y newid sy'n gallu digwydd i gyflwr marwanedig ysbrydol dyn. Y tu hwnt i ddeall cyfyngedig, y mae'r mân yn rhy fân a'r mawr yn rhy fawr i ddiniweidrwydd balch a phitw gwyddoniaeth. Yma y mae deall naturiol yn pallu: ni all namyn twpdra dyn a'i haerllugrwydd, i fod yn gyfartal â'r Crëwr a'r Cynheilydd, ond ceisio dyrchafu hyder gwag.

Beth yw dull y trosiad o weithio felly? (i) Diriaethu'r haniaethol drwy gymryd un o rinweddau A sydd hefyd yn eiddo i B, a chymryd B fel cynrychiolydd A; (ii) Gwahuno. Cymryd y ddau wahanol a'u huniaethu; (iii) Edrychir ar B drwy sbectol A neu yng ngoleuni A; (iv) Mae yna ran neu wedd (neu semantem) yn A sy'n union debyg i'r rhan yn B, a chydirl yn y ddwy ran darddiadol wahanol a'u gwneud yn gyfan; (v) Mewn bywhau gwirionedd ieithyddol, y mae symud syniadol yn angenrheidiol weithiau. Un o sythweliadau elfennaidd y meddwl ac un ddelwedd yr ymatebir iddi'n elfennaidd fywiol yw'r cyferbyniad *sefydlogrwydd/symudiad* (ailadrodd/newid; cadw/troi). Wrth symud meddyliol o'r fath fe lwyddir i ysgogi'r difyw. (vi) Mae'n gwrthrychu ac yn sagrafennu drwy gyrraedd yr ysbrydol yn gorfforol.

Beth yw'r ffordd i ddarllen trosiad te? Rhaid parchu'r trosiedig a'i gymryd o ddifri, gan mai cyfrwng yw i gyfleu gwirionedd. Os cymerir hyn yn ysgafn, collir y gwir. Nid addurn ar yr wyneb mohono, ond ffordd gywir o weld y galon. Gwelir B drwy gyfrwng A. Rhaid ymostwng i A yn feddyliol tan ganfod y trosiadol mor llythrennol ag sy'n bosibl. Gan fod yna bobl nad ydynt yn parchu'r Beibl, neu sy'n awyddus i'w anghredu neu'n ysgafnhau difrifoldeb credu, y mae'r trosiadol yn esgus i ddianc neu i wrthryfela'n erbyn awdurdod

uwch. Ond gorau po fwyaf llythrennol y darllenir y trosiad gan y Cristion tlawd, gan adael i'r trosiad gael ei ffordd ysbrydol yng nghyd-destun cyfanrwydd yr efengyl. I'r sawl sy'n dymuno gweld yr hyn sydd y tu hwnt i'r gweld prenaidd materol, cyflwynir dyfais ieithyddol sy'n caniatáu hynny. Perchir y gwahuno sydd yn hanfod i ddeall ac i adeiladwaith y bydysawd. Cyfundrefnir y gair.

*

*

*

Ond mae'r trosiadol yn gallu ymestyn yn symbol, ac yn achos 'Theomemphus' yn meddiannu'r arwrgerdd.

Mae gan Saunders Lewis yn ei gyfrol ar *Williams Pantycelyn* ymdriniaeth nodweddiadol orchestol â'r cymeriad byw a rhamantus Theomemphus. Crynhoir ein sylw ar ei lawnder dynol gan daeru nad yw yn 'deip': mae'n tyfu ac yn datblygu. Mae'n wahanol i eraill, yn gymhleth ac nid yw'n 'gyffredinol' bob amser.

Gan gytuno'n hyderus ei fod yn datblygu ac nad yw'n deip arferol (hynny yw, y mae'r cymeriad yn cynrychioli mwy nag un nodwedd amlwg megis Cybydd-dod neu Wanc), eto daliwn ei fod yn gyffredinol mewn ffyrdd hanfodol. Beth felly sy'n digwydd ynddo? Onid analog yw? Onid symbol yw neu drosiad? Ti yw ef, ddarllenydd.

Pechadur yw Theomemphus, Brenin y pechaduriaid, (heb roi gwybod am lawer o weddau eraill arno). Diau gennyf fod Theomemphus hefyd yn ffermio yn agos i Lanymddyfri, yn Gymro, yn fardd gwlad, ac yn briod â gwraig yn dwyn yr enw Mali. Ac eto, nid y nodweddion hynny sydd dan sylw. Onid yw'n debyg i drosiad oherwydd ei anferthedd 'afreal'? Hynny yw, onid yw'r bardd yn dethol rhai nodweddion ystyrol mewn enw priod (yr enw cyffredin 'pechadur'), tan esgeuluso'r nodweddion eraill (galwn yr unedau ystyr a ddewisir ac a wrthodir yn semantau)? Eto, onid yw Theomemphus yn hynod debyg i bob un sydd wedi'i argyhoeddi o sarhau Duw, o boeri yn wyneb Crist ar y Groes, o fod yn gwbl haeddiannol o Uffern oni bai i'w Arglwydd dalu iawndal drosto? Pechadur anferth yw, eithafol, enfawr o afradlon ac amlochrog, cosmig yn ei gyfrifoldeb. Ond yn ieithyddol, ar y tensor deuol mewn Ideogenesis, saif ar yr ail symudiad o'r Lecsem tua'r Rhannau Ymadrodd Thematig (y Themem), rhwng yr Arbennig a'r Cyffredinol, oherwydd bod yna broses o haniaethu cyfeiriol wedi bod yn y Lecsem. Mae'n rhan aeddfed felly, o'r gyfundrefn drosiadu.

Meddai Saunders Lewis yn nodweddiadol ddiflewyn ar dafod: 'gwir ddyn a chanddo holl gymhlethdod person byw.' Yna, try ef yn ôl at ei ddamcaniaeth Ramantaidd ynghylch 'unigrywiaeth' ac 'unigrwydd'. 'Daeth i mewn i fywyd Ewrop ddyn arall newydd, creadigaeth newydd, un a deimlai ac a brofai, Theomemphus, y cymeriad rhamantus ... dyn

unig yw Theomemphus, ... symbol mor gyflawn bob tipyn o'r bardd rhamantus ag yw Endymion ei hun.'

Dyma'r ddelwedd felly a ganfu'r Saunders Lewis cyflyredig.

Nid darlun hanesyddol llythrennol o rywun go iawn, felly.

Ond tybed? Beth yw hanes? Beth yw trosiad? Beth yn y byd yw'r llythrennol?

O! medd yr hanesydd symleiddiol: darlun gwrthrychol, gonest, disgrifiol o'r union bobl a oedd yn bod, a'r union bethau a wnaethpwyd. Ond beth yw peth felly? Yr unig ddarlun unplyg fuasai atgynhyrchu'r union bobl a'r union amgylchiadau fel yr oeddent. Heb hynny, dewis a geir. Detholir yn llym iawn iawn ar seiliau goddrychol rhonc. Amhosibl yw dweud popeth. Ni all hanesydd byth fod yn 'llythrennol' wrthrychol. Trosiad yw'r gorau y gall ei gynhyrchu. Mae ei syniad ef am ffiniau sefyllfa, ac arwyddocâd neu bwysigrwydd rhai ffeithiau, mae'r cwbl a hepgorir yng ngweddill yr amgylchfyd, mae rhythm y digwydd a'r meddwl, oll yn amhosibl i'w atgynhyrchu. Mae'r hanesydd ei hun yn ddiymadferth, druan, nes iddo ennill yr hyder gonest a'r craffter i sylweddoli mai math o gelwydd dethol a ddywed bob brawddeg. Weithiau, yn y Gymraeg, sonnir am ddigwyddiadau, dyddiadau, a phobl, fel hanes, heb ystyried eu meddwl na'u teimladau; a honnir mai gwir yw.

Os yw ef yn onest felly — rhinwedd hyfryd mewn hanesydd — cydnebydd mai trosiadwr yw. Ac ymesgusoda'n gelwyddwr — fel y beirdd ewn. Trosiadau yw'i fara menynd.

Ond beth yw trosiadwr?

Llythrenolwr bob cynnig. Cofiwn am sgwrs Euros a Gwenallt ynghylch trosiad. 'Rhaw yw rhaw,' meddai Gwenallt yn hyderus braf. Soniodd Euros am blentyn yn Llangywair yn eistedd ar bâl rhaw, a choes y rhaw rhwng ei goesau tan daeru mai beic oedd hi. Pa un oedd yn gywir? Y ddau wrth gwrs. Gwenallt mewn Tafod, Euros mewn Mynegiant. Oherwydd dibynnai ystyr drosiadol beic ar y rhaw. Drwy'r beic yr edrychid ar y rhaw. I'r bardd ambell dro y mae'r cydlyniad yn gallu bod yn gyffro; gall drawsffurfio teimlad a gwelediad. Ond y mae'r bardd yn ceisio gwirionedd, o leiaf mor ddidwyll â'r hanesydd 'llythrennol' ffals. Symudodd grym o lefel y gwirionedd hwnnw: dyna'r cwbl. Edrychir drwy'r trosiad at y llythyren. Ond gwirionedd 'llythrennol' yw hyn o hyd. Ie, hanes.

Ceisiodd rhyddfrydwyr ac anghredinwyr baentio'r Beibl yn drosiadol er mwyn dianc rhag cymryd geirwiredd awdurdodol o ddifri. Ond hanes llythrennol oedd, yn y bôn — yn aml — yn drosiadol hefyd. Nid dihangfa rhag cydnabod gwirionedd y goruwchnaturiol yw sylweddoli damhegaeth, symbolaeth, a throsiadaeth gyfoethog yr hyn sy'n 'llythrennol' wir. Y bwgan yw nid y llythrennol na'r drosiadol, ond y credu.

Pwy felly oedd Theomemphus? Ai Williams, y Cymro cyffredin? Ynteu Adda? Ai ‘nhw’, y dynion drwg? Ynteu bwgan rhamantaidd Saunders Lewis?

Pob un; ond yn anad neb, fel y sylwodd Saunders Lewis wrth iddo gydnabod fod gan Theo gymeriad a gweddau a chrynder personoliaeth fyw: Theomemphus oedd ef. Dyna’r gwir. A phe gofynnid i Williams ei grynhoi mewn un gair, heb negyddu, y tebyg yw mai ‘pechadur’ fyddai. Er mwyn hwn y daeth Crist. Oherwydd, er mor ddifyr yw myfyrio ynghylch natur a grym trosiad, nid dadansoddi’i ffurf yw’r hyn sy’n bwysig yn yr astudiaeth hon ond ei ddeunydd, a chredu’r deunydd. Dichon mai ‘credu Cristnogol’ a ddywedai Williams. Ond y mae yna fath beth â chredu llenyddol hefyd. Dyna’r goruwch-gredu deallol, teimladol. A hyn sy’n cymryd y trosiad a’r llythyren o ddifrif — yn gelfyddydol, mae’n wir, yn uniaethol gyd-deimladol, ond i’r craidd. Mae gan drosiad, fel sydd gan bob gair, ei awdurdod, a thebyg yw o ran geirwiredd i’r llythyren.

Er mwyn esbonio adeiladwaith technegol y trosiad, gwell i mi ddiffinio rhai termau sydd a wnelont ag ‘ystyr’ mewn iaith. Dechreua’r plentyn gydag argraffiadaeth o amgylchfyd mawr, cymysg, a ‘diffiniau’. A’i waith cyntaf yw ei ddadansoddi’n ddsbarthol, ac yna ddadansoddi’n fwyfwy nes cyrraedd uned o ystyr ddeall. Nid yw’r plentyn eto wedi canfod na gweld eisiau ‘gair’. Mae wedi gweld eisiau deall. Ac wrth wahanu’r ddelweddaeth sydd o’i flaen, caiff uned (fechan) o ystyr neu o ddeall, sef y *semantem*. Gall ymhellach ymlaen ddod i ymwybod â phresenoldeb iaith drwy glywed a gweld ei harfer, a sylwi fod rhai seiniau’n *arwyddion*. Y pryd hynny fe brawf, drwy sylwi, ar arfer gan bobl eraill o ddau beth yn gyswllt, y sain a’r synnwyr ynghyd (yn *arwyddiant*). Dyna gyfundrefn ieithyddol. Oni wna gam gwag, mae ar y ffordd i lenyddiaeth.

Symuda hyn ymhellach gyda’r twf mewn iaith o’r ebychair un-gair (neu’r ‘frawddeg’ un elfen) i’r frawddeg ddwy-elfen. Ceir cyfosod. Dyna ddatblygu gramadeg drwy ddibyniaeth un rhan ymadrodd arall: ceir y cyfuniad felly *lecsem/morffem*. Datblygir natur yr un gair oherwydd perthynas. Yr uned o ystyr sy’n unigryw i un ddelwedd neu i un gair deunyddiol yn unig yw *lecsem*. *Morffem* yw’r elfen ffurfiol neu ramadegol sydd mewn gair sy’n arwyddo’r arwyddedig, y gair sy’n anelu at berthynas rhwng geiriau.

Bid a fo am hynny, delwedd ‘lythrennol’ ac undod yw gair y *lecsem/morffem*. Dywed y gwir am dechnoleg adeiladwaith gair.

Caiff fod yn air llythrennol heb ddweud yn ddigon byw y cwbl o’r gwir. A defnyddir techneg y trosiad i gorffori llythrennol sy’n fwy bywiedig.

Ystyrier yn awr drosiad y Beibl a Phantcelyn am Iesu Grist fel Oen Duw, neu Theomemphus am y pechadur. Yma y mae gennym lecsemau *Iesu Grist/Oen Duw* —

llythrennol wahanol; ac felly *Pechadur/Theomemphus*. Ond gadewch inni ddychwelyd i'r cysyniad o semantem unigol, yr uned o ystyr; a dyma'r lefel i amgyffred trosiadau. Os mai uned o ystyr sy'n unigryw i un 'gair' yn unig yw *lecsem*; yna uned o ystyr sy'n gallu bod mewn *mwy nag un* gair yw *semantem*. Mae Oen Duw yn gallu cynnwys nifer o semantemau sydd hefyd yn bresennol yn Iesu Grist, megis purdeb, aberth, addfwynder, gwyndra, ond nid y cwbl; nid dyn. Eithr, (a dyna'r sythwelediad cyfundrefnol newydd) oherwydd y semantemau sy'n gorgyffwrdd, mentrir defnyddio un cwlwm o semantemau i gynrychioli gwrthrych gwahanol sy'n corffori'r un cwlwm o semantemau. Ceir rhannu cyffredin mewn dau gyfan, felly. O gredu Oen Duw, fe'i deallir.

Mewn gwirionedd, yr hyn sy'n gwneud trosiad yn bosibl yw bod modd cael sawl semantem (uned leiaf o ystyr) o fewn un *lecsem* (y wedd ystyrol ar air). A'r hyn sy'n digwydd yw bod dwy *lecsem* wahanol, sef geiriau gwahanol, yn ymgysylltu, a'r naill yn gallu cynrychioli'r llall, oherwydd eu bod yn rhannu un neu fwy o semantemau'n gyffredin. Rhaid i'r cyfanswm cyffredin (o'r rhannau) fod yn ddigonol i gynnal cynrychiolad cyfatebol. Hynny yw, ynghanol y gwahaniaethau (ansefydlog) ceir tebygrwydd (sefydlog). Pan fo'r nifer o semantemau hyn sy'n gyffredin yn fechan, ceir straen neu dyndra, sy'n gallu bywiogi a ffresáu'r ymateb. Pan fo'n rhy fychan, mae yna dywyllwch. Yr hyn sy'n ganolog sefydlog, yw nid yn gymaint yr elfennau cyffredin, sydd wrth gwrs yn bwysig, ond y ddyfais ei hun, y fecaneg, y gyfundrefn ddeinamig o drosiad. Y 'ffurf' feddyliol ei hun sy'n gyson.

Wrth fwrw golwg dros faes *Ffigurau/Troadau*, canfyddir fod y ddau ddsbarth yn gwahaniaethu o ran pwyslais yn null y cyplysu. Mae'r Ffigurau'n rhoi sylw arbennig i ailadrodd neu i gyferbynnu, cyfochri sy'n cynnwys math o ffurf allanol sefydlog, a'r Troadau'n rhoi sylw arbennig i wyro a newid megis trawsenwad, amwysedd, coegi ac y.y.b..

Sylwer eto ar y gwahaniaeth rhwng *semantem* a *lecsem*. Sfferau deunyddiol sy'n cynhyrchu *semantemau* ar gyfer *themem* (Cyn-dafod): dadansoddir sffêr ystyr enfawr i gael *semantem*, ac y mae'n perthyn i Gyfundrefn Ddeall. *Lecsem* yw'r dadansoddiad o fewn cyfundrefn iaith, y dadansoddiad o'r bydysawd ar gyfer cynhyrchu 'geiriau'. Fe all y Deall fwydo iaith, wrth gwrs. Ond yng Nghyfundrefn Ddeall, y norm yw symud o fewn Cyn-dafod, oddi wrth yr olwg ar y bydysawd, yn ddsbarthol drwy Sfferau tuag at benodolrwydd semantem. Mae Cyfundrefnau Deall (yr Archgyfundrefnau) yn wahanol i Gyfundrefn Iaith o ran ansawdd a gallu. Gallent fod yn annibynnol ar iaith (yn syml drwy ymgyfyngu i sylwi ar wahaniaethau a thebygrwydd). Ac y mae holl gyfundrefnau deall ar waith ym mhob Sffêr, ac yn y gwaith o lunio cyfundrefnau unigol ym mhob gweithgaredd dynol.

Pan ofynnir, felly, ai cyfundrefn yw trosiad, ynteu defod mewn Mynegiant yn unig, atebwn mai cyfundrefn mewn ystyr yw. Mae'n berthnasol nid yn unig mewn barddoniaeth eithr yn hanes datblygiad ystyron. Fel arfer, y mae gair – yn llaw dewin o fardd – yn newid ei ystyr oherwydd bod y rhannau yn y gair ystyrol cyntaf yn cael eu tocio neu eu dethol, ac yna'n alltudio'r ystyron a weddillwyd. Trefn sefydlog sy'n gwneud cyfundrefn, undod sy'n cynnwys amrywiaeth lle y try arferiad yn sefydliad. Daw'n newydd oherwydd cynllun sefydledig o ymddwyn wyneb yn wyneb ag ystyron. Ufuddha i amodau semantemau amrywiol a'r cyfle a roddant i drawsnewid rhwng lecsem a lecsem: felly, ar y Groes, canfuwyd Un person yn ymwneud yn ei farwolaeth â sawl arlliw ystyrol, megis cymod, aberth, prynedigaeth, pob drwg a phob daioni; ac ym marwolaeth y person dynol a dwyfol hwnnw, fe all y deallwr gysgu, cyrraedd paradwys, mynd i'r gogoniant, ac ennill.

Felly, fel y'i trosodd Duw ei hun yn ddyd llythrennol yn yr Ymgnawdoliad, felly y'i trosodd ei hun ar y Groes yn Oen Duw. Dyma un o gyfundrefnau mawr Meddwl Pantycelyn.

* * *

Gan mai astudiaeth yw'r gyfrol hon o hierarci y prif strwythurau ystyrol sy'n adeiladu Deunydd llenyddiaeth oll, yr wyf (efallai yn annisgwyl) am roi cryn bwyslais ar Droad (yn arbennig ar lun y Trosiad). A hynny am un rheswm sylfaenol iawn, a dadleuol efallai. Mae fy nehongliad i o natur ac arwyddocâd y Trosiad yn gynhwysol wahanol i'r arferol. Yr wyf am hawlio mai Troad yw llenyddiaeth i gyd. Delwedd yw o fywyd. Ond delwedd ddethol heb fod yn atgynhyrchiol yw o raid. Ni all fod yn 'llythrennol' ailadroddol nac yn union debyg byth. Rhaid iddi ddethol. Ac yn y dethol y ceir y Trosiad. Trosiad felly yw pob llên. Natur y troi yw'r hyn sydd o ddiddordeb i'r beirniad llenyddol. Mae pob llenyddda'n troi.

Y ffaith hon sy'n herio ein darlleniad o Bantycelyn, megis o'r Beibl ei hun. Gwyddys fel y bu'r theori (dros gyfnod) am fyth a throsiad yn fodd yn nwylo pobl fel y Pantycelyn cyn-Dalgarth i fychanu gwirionedd amlwg y Beibl, i ffidlan gyda Hanes, ac i beidio â chymryd ei osodiadau o ddifrif. Perthynai i ffurf ar lenyddiaeth a oedd yn Hanes ac ar wahân i Hanes. Ond gyda difrifoldeb wrth inni ymadael â chwarae diwinyddol a thrafod gwaith y Pantycelyn wedi-Talgarth, gellid ymgysuro mai 'llynyddiaeth' wir yw'r cyfan sydd yno. Ond nid dihangfa rhag y llythyren yw trosiad. Mae'n cynnwys y llythyren. Er bychanu grym, awdurdod, a bwriad y dweud gan lawer a ddifrifai'r llythyren, chwilier y bywyd.

Rhoddai'r Arglwydd Iesu Grist ei bwyslais ar y llythyren fyw er braw i'r 'rhyddfrydwyr': Math, 5:18, 'hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd.' Ond yn yr un bennod yn union, y mae ef yn esbonio ystyr y gair 'lladd' ac ystyr 'godineb', a hynny yn ôl yr ysbryd, hynny yw, yn

drosiadol gywir. A diau mai ffordd o ddweud y gwir, o fyw yn y gwir, oedd llenyddia i Bantycelyn yntau. Nid gwir prenaidd na ffotograffig oedd gwir ei arwrgerddi na gwir ei emynau. Ac eto, ni wyrent oddi ar y gwir difrif.

Os awn ni'n ôl i grud ysgolheigaidd diwinyddiaeth Galfinaidd ddiweddar Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, sef i Goleg Westminster a'r *Hen* Princeton, gwelwn fod yna ymdrech i beidio â gwneud llythrenolrwydd ym mhob cyd-destun yn ddi-wahân, yn ddogma. Ni fyynnir cyfrif Mawl Genesis (Mwy na Mawl Eiseia na Datguddiad) yn ffotograffig llythrennol. Cymerer er enghraifft yr ymdriniaeth (Papurau Cynhadledd Westminster 2010) â Charles Hodge, A.A. Hodge, B.B. Warfield, a J. Gresham Machen. Dyma arweinwyr y farn geidwadol ddiweddar ynghylch dehongli ysgrythurol mewn ysgolheictod uniongred Calfinaidd. Derbyniai'r cewri hyn Ysgrythur yn anffaeledig a di-wall; a pharchent Wyddoniaeth yn aruchel o fewn ei ffiniau rhagdybiol. Ni cheisient ddehongli Genesis 1-2 yn faterolaidd. Meddai Warfield a fanylodd ar hyn yn fwy na'r lleill: 'I do not say that there is any general statement in the Bible or in any part of the account of creation, either as given in Genesis 1 and 2 or elsewhere alluded to, that need be opposed to evolution.' Nid 'Darwiniaeth' fel crefydd sydd a oedd dan sylw ganddo, eithr 'Esblygiad'. Pan wrthodir Darwiniaeth, yr hyn a wrthodir yw'r gwadiad dogmatig o'r Goruwchnaturiol, y rhagdyb bod y cwbl yn dibynnu ar Ddethol Naturiolaid heb ddyluniad, heb ragluniaeth, heb ymyrraeth Duw, a heb etholedigaeth. Ni chât'r ysgolheigion Calfinaidd drafferth i dderbyn 'Hen Ddaear'. Derbynient Greadigaeth ex nihilo ynghyd â rhagluniaeth. Derbynient na ddewisai'r Beibl gyfleu aruthredd y Creu namyn o fewn amgyffrediad dyn. A dyma'r math o olwg ar y Beibl a ganiatâi i Bantycelyn lunio'i fawl a'i ddehongli barddonol nid yn unig yn yr arwrgerddi ond yn yr emynau hefyd. Iddo ef, nid oedd 'gweld fel bardd' yn beidio â chynnwys gwyddoniaeth na hanes. Yr oedd ef yn dehongli'r llythyren yn ôl yr ysbryd, heb adael i hynny fod yn esgus dros amau yr un iot o brif wth awdurdod y Beibl. Hyn sy'n egluro sut y gallai feddwl y Beibl anffaeledig yn ôl ei ymateb gorfoleddus ffyddlon fel bardd a ymagwedda'i at wyddoniaeth gyda'r parch mwyaf, eto heb suddo i fod yn faterolydd naturiolaid brennaidd a gwadu'r Beibl yn ddiddelwedd. Mae pob dehongliad uniongred – boed mewn pregeth neu emyn – yn drosiad.

Pan drafodir 'llythrenolrwydd' a Phantycelyn (neu'r Beibl), gwiw cofio tair gwedd ar y 'gair'. Gellir synied am bob gair yn 'llythrennol', yn 'drosiadol', ac yn 'bersonol-ysbrydol' (y tair ynghyd mewn gwirionedd). Dyma'r tair ffordd o ymagweddu at iaith mewn deall. Mae'r tair bob amser ar waith, i ryw raddau gyda'i gilydd, er na bydd hynny fel arfer yn amlwg.

Rhaid gwreiddio yn y 'llythrennol'. Hyn a rydd yr ymateb cywir i wirionedd ('absoliwt'). Hyn sy'n gwahaniaethu ac yn cysoni'n gyntaf. Dyna pam y'i hofnir gan feddylwyr ôl-fodernaidd neu sgeptigaidd. Hyn sy'n perthyn i'r meddwl cyffredin.

Ond trosiad yw eisoes i ryw raddau. Defnyddir arwydd (seiniau) i gyfleu rhywbeth arall heblaw ei sŵn ei hun, gwahanol i'r diffyg ystyr nas ceir yn y seiniau'n gynhenid. Ac wedi dod o hyd i angor neu gyswllt rhwng y sŵn arferedig hwn a'r gwrthrych arferol, y mae ystyr yn cael ei ddyfnhau a'i leddfu wrth gael ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destun.

Ond ni ellir osgoi natur bersonol-ysbrydol Mynegiant. Mae geiriau ychydig yn wahanol i bob un ohonom oherwydd gorffennol unigolyddol geiriau yng ngorffennol cyd-destun pob un, ac oherwydd cyflwr ysbrydol. Ni ellir osgoi ergyd ysbrydol iaith: gall hyn fod yn gadarnhaol neu'n farw. Mae hynny'n wir wrth ddarllen barddoniaeth mewn cynodiadau teimladol, wrth gwrs, i'r Cristion neu i'r Seciwlwr. Ond wrth ddarllen ysgrythurau, gall adnod o'r Beibl neu bennill emyn ('Rwy'n chwennych gweld ei degwch ef') i un fod yn weddnewidiad ysbrydol, yn wefr i'r enaid, yn ysgogiad i dröedigaeth o bosib, ac i un arall fod yn gwbl gyffredin ac o bosib yn 'ddiystyr'. Mae a wnelo'r naill ymateb a'r llall yn bersonol-ysbrydol. Mae'r llythrennol yn herio fel darlun mawr o'r Gwiriondd anfeidrol.

Ymhlith y diffygion yng ngwaith mawrhydig Karl Barth, y mae yna adran allweddol lle y trafodir athrawiaeth yr Ysgrythur (*Church Dogmatics* I/2, 1956, 19). Mae yna orbaroddrwydd rhyddfrydol erioed (ers dyddiau Adda) i fod yn oddrychol, a dymuniad i ddadlau o blaid rheidrwydd Gair ffaeledig, ac wrth gwrs y paroddrwydd i briodoli gwallau o bob amrywiaeth yn ôl yr amseroedd i'r Beibl. Ymbellhâi Barth rhag ystyried yr Ysgrythur yn wrthrychol nac yn annibynnol ar y darlennydd neu'r gwrandäwr. 'Gair Duw yw'r Beibl cyn belled ag y gedy Duw iddo fod yn Air Duw... Felly y mae'r Beibl yn dod yn Air Duw yn achlysurol, ac y mae ei *fod* o fewn y *dyfod* hwn yn perthyn i'r gair bod “yw” yn y gosodiad mai'r Beibl yw Gair Duw', (I/1). 'O bryd i'w gilydd, y mae'r gair a'r gair, a leferir gan y proffwydi a'r apostolion ac a ddatgenir yn yr Eglwys, yn Air Duw Iddo.' (CD I/1). Ar y naill law, sonia fod angen ymwneud â'i holl eiriau gyda 'mesur cyfartal o barch.' (CD I/2), ond ar y llall myn gydnabod bod yr ysgrifenydd beiblaidd yn cyfeiliorni (CD I/2). Diau mai gwendid yw oherwydd diffyg pwyslais ar yr hanesyddol, y byd ffisegol, a dysgeidiaeth mor ganolog â geirwiredd cynhenid yr Ysgrythur mewn llyfr sy'n hanes o fathau gwahanol o'r dechrau i'r diwedd. Ni ellir llai na chytuno â'r Athro Densil Morgan: 'Mae'n sôn am “archolladwyedd y Beibl, sef ei allu i fod yn wallus” ac yn crybwyll yr hyn a ystyria yn 'wallau gwyddonol y Beibl a'i wrthddywediadau diwinyddol.' I bob pwrpas, dyn sydd yn y canol felly. Ef sy'n gorfod dewis neu benderfynu'r rhannau o'r Beibl sy'n Air Duw yn ôl crwydradau a

chyfyngiadau ysgolheictod ar y pryd, neu'r effeithiau arno ef. Medd Barth: 'Mae'n ffydd yn ysbrydoliaeth y Beibl ynghlwm wrth benderfyniad yr eglwys a'i haelodau i ymostwng i'r Gair wrth iddo gael ei esbonio iddynt yn ddiriaethol ac yn gyson.'

Gellid efallai dybied mai dyna'r math o brofiad a ddigwyddodd i ysgolhaig ifanc fel Pantycelyn cyn ei dröedigaeth. Ond rhyw fath o falchder fyddai hyn yn tarddu mewn anallu cyffredinol i amgyffred tuhwntwydd anfeidrol y Creawdwr Absoliwt. Dyna'r methiant i beidio â derbyn ond o fewn mesurau naturiol, neu heb drosiad nac analog. Fe geir y demtasiwn yn aml gan bobl sy'n cyhuddo Duw o annhegwch pechod a marwolaeth, heb amgyffred mor ddychrynlyd o anghyfiawn yw anghyfiawnder. Bu pobl ers Adda yn dymuno chwynnu a gwrthod geiriau Duw, gan furmur bellach, os nad yw'n ddealladwy i'r 'doeth' yn yr unfed ganrif ar hugain, tybed a yw'n ddealladwy i neb?

Yr hyn a wnâi Barth oedd ei osod ei hun yn fesur ar y Beibl. A bu rhaid i'r holl greadigaeth, yr holl gwyp, yr holl waredigaeth wrthrychol ffitio i mewn i alluoedd naturiol cyfyngedig goddrychol y meidrolyn ac yn ôl ymateb hunanalluog dyn. Dyma a rydd ddiffiniad o'r 'gwirionedd' i rywrai. Ac felly y troes yr Ysgrythur yn chwaraebeth. Diffyg gwerthfawrogiad o unigrywiaeth Crëwr Absoliwt oedd, a dibynnu'n ormodol ar yr Ego Trosgynnol naturiol.

(2) *Arwyddedig*

Soniai Barth am 'archolladwyedd' y Beibl. Ond bu llawer beirniad yn y gorffennol, megis Elfed, yn disgrifio 'archolladwyedd' pur wahanol sef archolladwyedd idiosyncratig geirfaol a gramadegol Pantycelyn. Ac nid yw'r pwnc hwnnw'n gwbl amherthnasol i'r manylder a ddisgwylir gan y 'gwirionedd'.

Yr ydym yn ceisio ystyried un o weddau mawr dehongli, sef y cyferbyniad dwys rhwng y 'llythrennol' a'r 'trosiadol' (neu'r ysbrydol), a'r trachwant dynganolog i beidio â phrofi awdurdod gwirionedd o'r tu allan i'w amgyffrediad ei hun.

Mae'r 'gair' ei hun yn ffenomen mor amlwg allweddol mewn iaith a llenyddiaeth fel nad yw'n syn bod yna fwy nag un nodwedd a drafodir a mwy nag un ffordd o'i ddisgrifio neu o ddadansoddi'i ffurfiant. Y tu mewn i Sffêr iaith ei hun (o'i chyferbynnu â deall), yr wyf eisoes wedi crybwyll cyfundrefn *lecsem/morffem*. Yn y fan honno, gwêl yr ieithydd gynhyrchiant yr elfen leiaf mewn deunydd ieithyddol, sef yr uned ystyrol benodol ar gyfer meddwl am rywbeth mewn iaith (lecsem), a honno yn asio gyda'r elfen ffurfiol yn y gair (morffem), sef yr uned sy'n arwain at glymu'r lecsem o fewn ei gramadeg. Mae pob gair yn gorfod bod yn uned o dadansoddiad ystyrol sy'n dod rywfodd yn ramadegol drwy fabwysiadu, neu gael ei gorffori o fewn cyflwr y rhan ymadrodd mewn brawddeg. Y mae'r gyfundrefn *lecsem/morffem* yn ymhel â'r digwyddiad hwnnw neu'r broses honno. Cyn gynted ag y daw uned ystyrol yn air, daw'n rhan ymadrodd hefyd ynghyd â'r holl nodweddion gramadegol sy'n agored iddo.

Yn y gwaith cywrain o lunio gair, y mae a wnelo *lecsem/morffem* â chynlluniau yn y meddwl. Ymestyniad yw. Ond y mae rhywbeth arall sy'n elfennaidd luniaidd wrth ddod yn air. Cysylltir synnwyr â sŵn. Yr ydym yn symud yn y fan yna i ddimensiwn gwahanol i *lecsem/morffem*. Dyma gysylltu'r cynnwys â'r cynhwysydd. Daw'r gair yn glywadwy drwy gysylltu'r goddrych (y meddwl) â gwrthrych y synhwyrâu. Ceir arwydd allanol i gynrychioli'r ystyr fewnol.

Iaith yw'r prif offeryn sydd gan ddyn ar gyfer dadansoddi realiti. Mae cyfundrefnau deunyddiol iaith felly yn fwy o lawer na throsiad neu ddelwedd hwylus wrth drafod llenyddiaeth. Maent yn perthyn i'r dull meddyliol o geisio gwir. Ymhlith yr Archgyfundrefnau sythwelediadol sydd ar waith nid yn unig mewn iaith ond yn yr holl wyddorau a chelfyddydau, y rhai efallai sy'n fwyaf diffiniol a chyfeiriol bŵerus yw *Arbennig/Cyffredinol* a *Gweledig/Anweledig* ar gyfer llunio Cyfundrefn *Tafod/Mynegiant*; a *Deunydd/Ffurf* ar gyfer llunio'r 'Gair'. A'r 'Gair' yw'r brif gyfundrefn unigol sy'n nodweddu sffêr yr iaith. Plentyn y 'Gair' wedyn (fel rhan ymadrodd) ydyw'r 'Frawddeg'.

Daethom felly wyneb yn wyneb â Deunydd yn y gyfundrefn *Ffurf/Deunydd*, sydd wrth gwrs yn ysgogi Mynegiant ac felly'n cyfiawnhau bodolaeth iaith yn gymdeithasol. Ffurfiad ystyrol yn y meddwl yw'r arwyddedig, a'r hyn a ddywedir: dadansoddiad yw o gynnwys pynciol neu faterol y bydysawd. Dyma'r rhan sydd fel arfer yn mynd â bryd beirniaid Cymraeg, y rhan a allai yn fynych efallai, oherwydd diffyg diddordeb ieithyddol yn ein plith, eu cario tuag at Hanes yn hytrach nag at arolygu beth yw ffenomen llenyddiaeth ei hun yn ei llawnder yn gyntaf. O arolygu'r cyfanrwydd llenyddol y sylweddolir orau anghenion a pheryglon yr hanesydd, nad yw'n debyg o ystyried ffurf.

Wrth i ninnau ymdroi mwyach gyda'r Deunydd, felly, ni wiw inni esgeuluso nac anwybyddu Sain yn gyfan gwbl wrth gofleidio Synnwyr. Cynrychiolydd yw'r Sain o'r Sylwedd. Arwydd yw o'r Arwyddedig, gyda'r naill ynghyd â'r llall yn ffurfio Arwyddiant. Ac wrth gwrs, drwy glymau o'r cyfryw Arwyddedigion y deuir i sylweddoli Metanaratif cyfun o fewn Hanes Llên.

Cysylltir ni felly â'r drafodaeth ar ddelwedd. Symbol yw'r Arwydd (y sŵn), delwedd droadol o fath, ar gof yr ymennydd, a chynrychiolydd.

Fel hyn y disgrifir perthynas Arwyddedig ac Arwydd mewn Seico-gyfundrefneg.

Iaith:	TAFOD		→ arwydd	→	MYNEGIANT
	arwyddedig potensial				arwyddedig effeithiol
	I				II

Ceir y symudiad cyntaf drwy ganoli yn yr Arwyddedig, gan ddechrau yn y cyffredinol a lleihau at yr arbennig yn fwyfwy caeedig. Ceir Arwydd wedyn mewn defnydd, ac yna ceir symudiad y gair ei hun tuag at yr amrywiaeth mewn pegwn cyffredinol newydd, yr Arwyddedig bellach mewn Mynegiant (gw. y bennod 'Signe, Signifiant et Significant' yn llyfryn disglair Roch Valin, *Petite Introduction à la Psychomécanique du langage*, Québec, 1955, 40-59 lle y dangosir arwyddedig + arwydd = arwyddiant (y gair)).

Rheolir yr Arwyddedig gan sawl Archgyfundrefn. Nid y lleiaf ohonynt yw'r Archgyfundrefn *Cyffredinol/Arbennig*. Dyna Archgyfundrefn sydd ar waith ym mhob Arwyddedig. Fe'i canfyddir ar ei mwyaf eithafol yn y Gair a wnaethpwyd yn Grawd: y Duw a ddaeth yn ddyn, megis cysgod o'r Tafod a ddaw yn Fynegiant. Yr un math o gyferbyniad a geir rhwng holl banorama'r Hen Destament, sy'n cynnwys cyfundrefn helaethlawn Pantycelyn o gysgodau, ynghyd â'r cyfnod byr yn y Testament Newydd o ddiriaethu'r rheini oll ym mywyd a marwolaeth Iesu Grist.

Yn yr Arwyddedig potensial dyweder 'dyn', ni chyfeirir yn gyntaf at unigolyn penodol, ond at argraff o ddothbarth 'amhenodol', bob dyn posibl. Cedwir hynny wrth gwrs.

Ond mewn symudiad meddyliol o'r cyffredinol tua'r arbennig, cyfeirir at ryw estyniad unigol o ddyn — 'Y dyn arbennig', 'y dyn sydd newydd gyrraedd', — cyfyngir ar y posibiladau i raddau gwahanol, cyn ailddysgu 'dynoliaeth' mewn modd syniadol llawnach, fel y cymhwysir 'dyn' i bob amgylchiad. Cofier bod Adda (h.y. Dyn) ar y dechrau yn Enw Priod arbennig *ac* yn Enw Cyffredin yr un pryd am ddsbarth. Ac yn ei farwolaeth y mae Crist yn cynrychioli pob dyn. Y mae hefyd yn marw'n llythrennol ac yn drosiadol (neu wedi'i 'ysbrydoli'). Mae yna undod yn digwydd sy'n sylfaenol hanfodol neu gynhenid o fewn natur cyfundrefneg iaith.

Mae'r gyfundrefn ieithyddol *Arwydd/Arwyddedig* a ddisgrifir gan Saussure, i'w chael yn fwy manwl gan Guillaume. Mae yn wedd bwysig ar *Anweledig/Gweledig* ac yn gyfundrefn ffrwythlon iawn, er mai is-archgyfundrefn ieithyddol a llenyddol ydyw i *Anweledig/Gweledig*. Archgyfundrefn o fath ydyw er hynny, gan nad yw iaith y Meddwl Cyffredin yn gallu'i hepgor ar unrhyw achlysur. Cysylltu *Arwydd* (y sain) â'r *Arwyddedig* (ystyr) a rydd undod asiad sy'n *Arwyddiant*. Yr arwydd yw'r wedd synhwyrus glywedig neu weledig, ar hwnnw. Mae'r gweladwy felly'n 'cynrychioli'r' anweledig, — y syniadol, — yn symbolaidd ddisodol, heb beidio â bod yn 'llythrennol'.

Priodol cofio mai 'arwyddion' oedd y term cyffredin ar gyfer 'gwyर्थiau' hwythau ym y Testament Newydd: e.e. Ioan 1: 11; 18: 23; 2:2. a.y.b. Arwyddion neu symbolau hefyd oedd trosiadau megis Y Gair, Oen Duw, Aileni, y Gwynt yn chwythu fel y mynno (y cwbl o Ioan 1-3) Wrth weithio ar lefel gyffelyb o synied am gydrediad dau ddimensiwn, y Gweledig a'r Anweledig, yr oedd y trosiad yn arf dechnegol hynod addas ymhlith cyfundrefnau Pantycelyn: arwydd tebyg yn chwarae fel arwydd arall, oherwydd cynneddf yn yr arwyddedig.

Yr wyf am ofyn cwestiwn chwithig. A yw'r 'arwyddedig a'r arwydd llenyddol' yn wahanol i'r 'arwyddedig a'r arwydd ieithyddol'? Yr ateb yw 'ydynt'.

Dechreuwn gyda'r 'arwydd llenyddol', sef y sain mewn llenyddiaeth. Mae hyn yn dal yn 'annibynnol' ar yr 'arwydd ieithyddol' cyn belled â natur cyfundrefnau llenyddol. Mae'n medru newid ac ychwanegu at yr arwydd ieithyddol: mae'n gallu *adeiladu cyfundrefnau gwahanol*: tyst Cerdd Dafod. Mae'n ffactor arddullegol (felly yn *Aleluia* Pantycelyn).

Ym *Meddwl y Gynghanedd*, ceisiais ddangos fod y Gynghanedd yn annibynnol, yn gynhenid ac o ran hanfod, ar ystyr. Ac yn *Seiliau Beirniadaeth II*, ceisiais ddadlau bod elfennau seiniol fel mydr, mesurau, y llinell, odli o bob math, a 'cheseilio' yn cael eu trefnu'n annibynnol, ac eto'n wedd ar arwyddion. Perthynant i 'sffêr' lenyddol.

Wedi hynny, yn *Seiliau Beirniadaeth III*, ceisiais ddangos fel y mae ffigurau a throadau ymadrodd, yn cyferbynnu'n ddeuol ac yn driol (e.e. dyweder yn risiol mewn chwedl werin) gan gynnwys trosiad, coegi, ac amwysedd; ac i raddau helaeth hefyd y llenddulliau yn *Seiliau Beirniadaeth IV*, oll yn annibynnol ar seiniau o ran statws. Ffurf ystyrol yw trosiad, a gellir ei gyfieithu mewn sawl iaith; ond ni chyfieithir gair mwys.

Carwn ein hatgoffa'n hun am yr Hierarci newydd ar gyfer gwahanol haenau llenyddiaeth:

- I. Absoliwt [Guillaume: 'Rhaid ei seilio (h.y. theori) nid ar ffaith ond ar ryw angenrheidrwydd anochel ac absoliwt' 1984] ; Arfaeth y gyfundrefn.
- II. Cyn-dafod: yr Archgyfundrefnau deall ar gyfer llawer o ieithoedd, onid pob un. Sefydlog a digyfnawid mewn Diacroni.
- III. Tafod yr Iaith Unigol; datblygol mewn Diacroni; heb air 'unigol', dim ond y peirianwaith i gynhyrchu gair yn gyffredinol.
- IV. Cyn-Fynegiant. Yma y lleolir cyfundrefnau llenyddol yn fath o Gerdd Dafod ynghyd â mater ieithyddol megis Geirfa. Y gynhysgaeth ymwybodol.
- V. Mynegiant.

Yn IV (sydd yn ei *arwahanrwydd* cysylltiedig, fel II, yn awgrym newydd yn y theori), fe leolwn mewn Iaith *ffurf* amrywiol y 'Frawddeg' (gan gadw'r 'Gair' ar gyfer III), hefyd Geirfa o ran lleoliad (gellir ychwanegu ati'n ymwybodol), a'r holl ffurfiau llenyddol allanol (Odl, Mydr, a,y.b.) Cynhwyswn yn y fan yna y ffurfiau llenyddol Deunyddiol sydd gennym ni mewn golwg ar hyn o bryd (Metanaratif, Themâu Unigol, Motiff). Dyma hefyd gartref Cystrawen (*Syntax*), ac arferiadau. Ymhlith y materion sydd yn ymguddio yn yr haenen hon, fe ellid enwi Arddulleg. Dyma hefyd wedd ar iaith sydd a wnelo â'r berthynas rhwng yr arwyddedig llenyddol a'r arwydd llenyddol. Mewn llenyddiaeth, mae gan eiriau eu blas a'u sawr.

Y 'Gair' (y Gyfundrefn Ieithyddol) yw coron III, a'r Frawddeg yw coron V.

*

*

*

O ran arddull, yr hyn a wnâi Pantycelyn yn ei arwyddion oedd cyplysu iaith y mart ac iaith yr Ysgrythur, y lleol a'r cenedlaethol, y radical a'r ceidwadol. Ni allai hyn lai na bod yn fwriadol. Cydredai'n ideolegol â chrefydd caethweision/dynion rhydd. Cydredai â'i amheuan ynghylch deniadau synhwyrus arddull.

Ond yr oedd natur yr arwydd (dyweder tafodiaith, cywair) yn gwneud gosodiad hefyd ynghylch ystyr gyffredinol blaen yr arwyddedig. Nid yw cywair yr iaith fel arwydd heb ei gyswllt â'r Deunydd cynhwysol. Ni newidia Arwydd heb newid rywfaent ar yr Arwyddedig.

Pwysleisia Dr Glyn Tegai Hughes fod derbynioldeb ffurfiau llafar (yn arbennig benthyciadau o'r Saesneg) yn gallu amrywio o genhedlaeth i genhedlaeth. Sonia am Morris Davies erbyn 1870 yn cael ei dramgwyddo gan eiriau megis 'concwest' a 'hafan'. Mae ef ei hun yn anfodlon ar 'blotia' a 'dracht'; ond dichon fod 'yr hanner can mlynedd diwethaf' wedi peri i ninnau deimlo cic ac egni'r rheina. Roedd 'syberwyd' Fictoria i Morris Davies wedi troi'n 'gywirdeb' i J. Morris-Jones ac i Glyn Tegai Hughes yntau yn yr ugeinfed ganrif.

I mi, y mae naws seiniol i Bantycelyn, megis ei ramadeg yn rhoi argraff ei fod ychydig yn fentrus ynghylch pethau pwysfawr felly, er yn gyffredinol ei apêl. Yn yr arwrgerdd ambell dro, synhwyrf fod yna wên yn bosibl ar ei wyneb yn ei arwrgerddi er nad felly y byddai yn ei emynau. Eto, hyd yn oed yn nwyster ei emynau y mae fframwaith ei ymagweddu at ffurfioldeb iaith yn sglefrio'n rhydd anghyfrifol weithiau, ac yn cael peth anhawster i gyrraedd 'arwyddedig'.

Rhaid cyfrif cystwyo cystrawennol yn rhan o'r gwrthdrawiad hwn ('unlovely', term Dr Glyn Tegai Hughes) mewn *arwydd/arwyddedig*: gall ymddwyn fel pe bai ymryson neu rwystr rhwng eu deupen;

GWP II, 359 *Na thad i'w blentyn caru mae*
 A chariad llawer gwell

361 *Mi dynghedaf bob creadur*
 Glywodd eto am dano ddyn

317 *'Does ond unig ras a'm ceidw*

Mae diwedd ambell linell yn feiddgar, a dweud y lleiaf (sylwer ar y diwedd yn y canlyn):

322 *Teml berffaith, addas, gywir*
 Yn fy nghalon gwna it' dy Hun
 Ac na thriged yno gyda 'th
 Ddw'r na daear, da na dyn.

Blerwch, meddai rhai (dwy linell go od). Mae'n bosib. Eto yr un pryd, yr oedd Williams yn ymaflyd codwm ym myd yr ysbryd. Roedd cystwyo'r iaith yn un â'i ymdrech afluniaidd weithiau ... Ond, a gafwyd erioed yn y Gymraeg odl fel hyn? —

GWP I, 185 *Tros brydnawn y bu wylofain,*
 Yn y bore hyfryd aeth-
 -Ant i mewn gyda gorfoledd
 I wladwriaeth mel a llaeth.

Yn awtomatig, tueddwn i gymryd llawer o'r rhain yn enghreifftiau o ddiffyg disgyblaeth. Ond ni allaf i lai na theimlo'r pwysleisio nerfol a'r blaenoriaethu a fynnodd gystwyo o'r fath:

GWP II, 316

*'Mo'i gyffelyb,
Erioed ni welodd nef y nef.*

*Mae dy gariad,
Uwch y clywodd neb erioed.*

Ceir gohirio cystrawennol sy'n codi'r elfen ddisgwyl:

342 *Mi alla' yn ddedwydd, pan f'ost agos,
Fyw trwy gydol faith y dydd,
Er pob gelyn cryf a chyfrwys
Ag yn curo arna'i sydd*

[Yr un ymaflyd codwm sy'n
ymyrryd yn y sangiad hwn]:

316 *'Rwyf fi'n haeddu, — Arglwydd, — arbed,
Wialenodau heb ddim rhi'*

317 *'Rwyf fi'n haeddu, — Arglwydd, arbed —
Cael cystuddiau'r Aipht yn un*

Mewn gwirionedd, ni ellir gwahanu'r fath ddadleoli geiriol chwithig oddi wrth y math o gydbwysu geiriol esmwyth a geir mewn cerddi fel hyn, lle y mae'r cydbwysu allanol seiniol a geiriol yn adlewyrchu'r union gymwys yn y pennill:

GWP II, 236 *Pechod yma, cariad acw,
Fu yno yn y glorian fawr,
Ac er trymed oedd y pechod
Cariad bwysodd hyd y llawr;
'Nawr 'Gorphenwyd', &.,
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.*

Anodd iawn, gyda llaw, synied nad oedd yna ymwybod o amwysedd, a gwenu llawen, yn y gair 'pwysig'. Yn fynych fynych bydd cerdd gan Bantycelyn yn goferu. Rhed drosodd i gerdd ganlynol. A hynny sy'n digwydd yn y gerdd nesaf, sy'n ymaflyd yn yr un ymdeimlad ffurfiol gyd-bwysol wrth gynnal yr un ymryson:

GWP II, 236 *Dacw gariad, dacw bechod,
Heddyw'u dau ar ben y bryn,
Hwn sy'n gryf, hwn acw'n gadarn,
Pwy enilla'r ymgyrch hyn?
Cariad, cariad, &.,
Wela' i'n perffaith gario'r dydd.*

Dyma gyrraedd, wrth gwrs, gyfundrefn aeddfed y *Gair* (neu'r Arwyddiant). Yr elfennau ffonemig neu ffonolegol mewn Ffurf yw'r *arwyddion* (a defnyddio'r term yn null Guillaume, sef y seiniau) bellach ynghlwm wrth *arwyddedig* neu ystyr. Ffenomen bwysig iawn i 'Furf' ei hun yw'r *Gair* mewn ffonemau, ond mewn nodweddion seiniol synhwyrus hefyd a chystrawen ac arddull mewn Mynegiant. Mae'r *Gair* ei hun yn amgau cyfundrefn

ffurf/deunydd wrth gwrs. Ond yr ydym yn mentro i dir mwy amlwg ddealladwy gyda *sŵn* ac *ystyr*, ychydig yn llai cyffredinol, ac yn fwy lleol a phenodol er bod ffonemau wrth gwrs (o'u cyferbynnu â ffonau, sef y seiniau cwbl unigolyddol, crai, sy'n arbennig i bob ynganiad unigol gan bob unigolyn) yn ffenomenau cyffredinol ddigon. Y ffonem (gan gynnwys acen) yw'r wedd feddyliol sy'n llunio hanfodion sain gair. A'r ystyr yn yr achos hwn, yr arwyddedig, yw'r ystyr sy'n perthyn i un 'peth', megis elfen eiriadurol, ond wedi'i oleddfu gan ei natur ramadegol.

Mae a wnelo'r cwlwm Arwyddedig/Arwydd fwy â chnawdolrwydd geiriau nag sy'n wir am Lecsem/Morffem. Dyma wedd a gafodd sylw amlwg gan feirniaid synhwyrus Mynegiant yr ugeinfed ganrif. Garwder, hydeimledd ysgafn, esmwythder, yr elfen afrosgo afreolaidd mewn gair neu gystrawen, gwrthdrawiad – dyma weddau ar ystyr y mae'r ymwybod modern â meinwe Arwyddedig/Arwydd yn eu cyfleu.

Gwedd synhwyrol ar iaith yw'r seiniol a ddaw'n ymwybodol i'r rhan fwyaf o'r beirdd. Tery rai o'r beirdd yn gryf ar synnwyr clyw. Ond ym mryd Williams, dyma'i ddiddordeb lleiaf fel bardd, o leiaf ym mryd ei feirniaid. Eto, pan agorwn ei gyfrolau cyntaf o farddoniaeth, sef cyfres *Aleluia*, fe sylwn ar unwaith ar nodwedd nad yw mor amlwg yn ei gyfrolau diweddaraf ac aeddfetaf er nad yw'n llwyr absennol. A hynny yw olion seiniol canu rhydd cynnar y Gymraeg. Cymerer er enghraifft y llinellau, lle y ceir cytseinio o flaen yr acen bron yn null Cynghanedd Draws Fantach, Hynny yw, mae'r seiniau ynddynt eu hunain wedi dod yn bethau, ac yn derbyn peth amlygrwydd.

A, t. 21 *Gelynion taer sydd o bob Tu,*
 Fel Cad am rwystro 'm Henaid cu,
 Wel'd wyneb gwyh fy Iesu gwiw
 A theimlo nefol Hedd fy Nuw.

Ceir rhywbeth tebyg yn y rhan fwyaf o emynau *Aleluia*. Offeryn trefn a phwyslais eglur ym myd Ffurf. Nid Cynghanedd Draws Fantach sydd yma go iawn, ond perthynas. Ond mewn erthygl yn *Llên Cymru* VII, 62-91 tyn Glyn M. Ashton ein sylw at lawer mwy na hyn. Yn gyntaf, yn *Aleluia* sylwa ar linellau sy'n gynghanedd gywir neu'n ymylu at fod yn gywir: Y Groes (7), Y Lusg (10), Y Draws (31), Y Sain (93). Ond wedyn, try Dr. Ashton i sylwi ar 'Gerdd Dafod' lai confensiynol Pantycelyn, gan gynnwys llinellau gwreiddgoll a phengoll. Mae'r rhain yn llawer nes at yr hyn a elwir gennyf yn Ogyghanedd, sy'n gyfundrefnus o ran osgo, ac yn fwy na 'chyflythreniad achlysurol'. A thybiaf, fel y bu i'r Traethodl yn y canu gwerin ffynnu yn gyfochrog barchus â'r Cywydd, yn nhraddodiad mwy 'swyddogol' a sefydliadol cynt y canu caeth uchelwrol, dichon fod i fath o *Ogyghanedd* (dan reolaeth acenion) barhad a chydabyddiaeth arferiadol hefyd ymhlith y dosbarth o feirdd gwlad yr

oedd gan Bantycelyn wreiddiau yn eu plith, gydag emynwyr eraill. Nid Saesneg yn unig oedd ei gefndir. Camgymeriad fuasai anwybyddu'r traddodiad gwerinol llafar.

Hoeliai Pantycelyn weithiau ei sylw ar yr arwyddedig gan frysio heibio i'r arwydd â'i ben yn yr awyr. Yr unig nodwedd wir ddiddorol traddodiadol o'i eiddo (i mi o leiaf) ym maes yr hyn a elwid yn 'grefft' gynt yw'r ddyfais annisgwyl hon a elwais innau yn *gytseinio treigladol*, hynny yw'r gytsain yn cyfateb â'i ffurf dreigledig. Gwelsom fod hyn yn bod gynt ymhlith y Gogynfeirdd, a cheisiais ymdrin â'r ffurf ym *Meddwl y Gynghanedd* 162-4; cf 169. Ond hollol annisgwyl oedd sylwi ar yr un ffenomen yng ngwaith Pantycelyn. Ac nid yw'n debyg mai damwain oedd hyn, gan ei fod yn digwydd dair neu bump o weithiau yn yr un gerdd. Soniais fod Williams pan oedd yn ifanc, pan oedd ef wrthi'n llunio'i gyfrol gyntaf, yn tueddu i gynganeddu ychydig, gyda Rhamantiaeth synhwyrus o Gynghanedd Draws Fantach a Chynghanedd Sain yma ac acw. Pan ddaeth yn hŷn, dysgodd fod yna fath arall o 'grefft', un amgenach a chlasurol yn ei fryd ef. Ond sylwais wrth ddarllen ei emyn 'Ffarwel, bleserau'r byd' (GWP II, 47-48), yn annisgwyl iawn, y ceir o fewn yr un emyn pedwar-pennill hwn dair neu bum enghraifft o gytseinio treigladol. Pe na cheid ond un neu ddwy, gellid tybied fod y rheini yn wallau. Sylwer fod nifer o'r rhain o fewn trefn odli sefydlog.

*Ni 'hedwn mwy fel adar mân,
I'n trigfan treiglwn draw
O dewch, O dewch, ni awn yn hy
Tua'r wledd sy'n nhŷ ein Tad
I blith y rhai sy'n gwaeddi'n rhâd
Am gariad Iesu cu.*

Dyma'r drydedd linell yn y tri phennill cyntaf yn sefydlu patrwm:

*Ni 'hedwn mwy fel adar mân...
Yn awr mae llais y durtur lon...
Yn awr mae'r haul a'r nefol hin...*

Dyma'r llinell olaf ond un yn y tri phennill olaf:

*Gogoniant fo i'r Iesu byw ...
Cawn fyn'd i dre' ar fyr o dro...
I blith y rhai sy'n gwaeddi'n rhâd...*

Credaf fod hyn yn cadarnhau'r duedd. I mi, mae hyn yn enghreifftio'r ateb a awgrymais i gwestiwn cyfundrefnol hanesyddol go ogleisiol. Dichon fod Pantycelyn wedi dysgu'i 'grefft' yn nhraddodiad rhyw ganu rhydd cynnar ar lafar. Mae hyn yn cydreddeg â'r duedd gafalîr i ddefnyddio tafodiaith mewn odlau. Tybed a oedd y traddodiad hwnnw wedi cadw rhai o arferion o'r math hwn hefyd — gan Ogynefeirdd gwerinol yn yr is-draddodiad, —

tra oedd cymdeithas y traddodiad uchelwrol cynganeddol wedi symud ymlaen i gyfeiriad mwy rheolaidd ‘gaeth’? Bid a fo am hynny, credaf fod yr holl ystyriaethau hyn yn wedd ar y tyndra a geid yng nghyd-drawiad Ffurf a Deunydd, ac yn eu ‘cyd-annibyniaeth’. Gwedd hefyd yw ar ddyfnder ei werinoldeb prydyddol. Ni allai lai na bod yn rhan o frawdoliaeth neu o gymuned a luniai benillion yn ôl traddodiad llafar.

Mater oedd hefyd o gydnabod trefn, yn wir o arosod trefn. Dichon nad gormod yw sôn am ufuddhau i drefn neu ei mawrygu. Mae arwyddion trefnedig yn creu math o arwyddedig taclusrwydd, neu ddisgyblaeth, neu dyndra.

Ni ellir llai na gwybod ac ymdeimlo â pherseinedd llawer iawn o’i linellau, er gwaethaf y cloffion. Nid oedd fel arfer yn ymagweddu nac yn actio ymddwyn fel bardd cyfrifol grefftus, mae’n wir, un a argyhoedda’r ffaith esthetig fod a wnelo ef â chelfyddyd seiniol. Ond gall wneud hynny ar ei waethaf oherwydd traddodiad y bardd gwlad.

Swydd y cytseinedd, neu’n hytrach yr Ogyghanedd hon, oedd clymu’r llinellau, eu taro hwy, cadarnhau’r cyswllt â thraddodiad, ac apelio at hyfrydwch y glust. Aeth y fath ystyriaethau yn llai-lai arwyddocaol i Bantycelyn wrth iddo heneiddio. Yr oedd soniarusrwydd angerdd ac arddeliad rhythm yn wahanol ac yn bwysicach iddo, a chanoli ar ystyr. Soniarus ‘anhraddodiadol’ oedd, ac i raddau helaeth yn isymwybodol. Bellach, câi ei lyncu fwyfwy gan Gyfundrefnau’r *arwyddedig*. Ond yn ystod cyfnod yr ‘Ogyghanedd’, tybed onid oedd ystyr y cyferbyniol, y cyfateb a’r cyd-wrthod, yn elfen gyfan mewn arwydd ac mewn arwyddedig?

Dyma fater gogleisiol ym mryd arddulleg, yn hytrach nag mewn dulleg (sef Tafod). Diau fod Pantycelyn, gydag aeddfedrwydd, wedi ystyried bod y traddodiad Cymraeg wedi rhoi gormod o bwyslais ar sŵn ar draul synnwyr. Ac i raddau helaeth o fewn cyd-destun felly, bardd ymenyddol oedd. Realydd seiniol oedd. Roedd ymwneud â’r traddodiad ffurfiol hwn yn symudiad tuag at Ddeunydd noethach.

Ac eto, nid yw’r cyffyrddiad hwn o Gynghanedd, neu’n well Ogyghanedd, ddim yn gwbl ddiarth ymhellach ymlaen. Ond teimlwn mai cronni sylw yw ei hefffaith, yn bwysleisiol, gan ynysu llinell. Sylwer ar hyn yn *Ffarwel Weledig* yn crafu sylw, ac yn dathlu drwy arwder:

GWP II, 218

*Mae lleiaf loes Iachawdwr drud
Yn llawer mwy na beiau’r byd;
Un dafan gwaed, un dwfn glwy’,
Sydd drymach na’u heuogrwydd hwy.*

Mewn manau eraill, y mae garwder cytseiniol neu bentyrri ansoniarus yn amlwg adlewyrchu yr ystyr yn y sŵn: sylwer ar gyferbyniad y ddwy linell:

GWP II, 281 *Ar grasdir, crindir, cras,*
 Disgynodd gras ein Duw

Defnyddia'r pentyrru ansoddeiriol hwn, y rhediad triol yn fynych, fwyfwy erbyn cyrraedd casgliadau'r *Gloria in Excelsis*. Roedd ef yn gwybod yn union beth yr oedd yn ei wneud mewn cyfuniad cytbwys fel hyn:

GWP II, 300 *Dyhidla, Iesu, 'th nefol ras,*
 Ar f'enaid egwan, crindir, cras;
 Gysuron gloew, perffaith, gwiw

Sylwer ar rediadau 321(2), 322(2), 324, 337. Sylwais o'r blaen, mewn pennod gyfan, ar arwyddocâd trioedd mewn llenyddiaeth, a'r modd y cânt eu defnyddio'n uchafbwyntiol, yn *Seiliau Beirniadaeth*. Ym *Meddwl y Gynganedd*, rhois bennod wedyn i drafod y modd deniadol yn y traddodiad Cymraeg, ac yn benodol yn y cywydd, y cyferbynnir y deuol a'r triol yn ddeniadol harmonïol. Sylwer ar linellau fel y rhain gan Bantycelyn:

GWP II, 325 *Mae 'th ddawn, a 'th ras, a 'th gariad drud,*
 Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd

Does dim dwywaith am hydeimledd clust Pantycelyn i arddulleg. Digwydd y cwlwm deniadol hwn droeon ganddo, ddwywaith ar dud. 326:

Y clod, a'r nerth, y gallu, a'r bri,
Fo fyth i enw'n Harglwydd ni.
A heibio'r byd, ac angeu, a dyn,
A gorphwys yn ei le ei hun. cf. 337

Mewn arddulleg yr ydym wedi cyrraedd Mynegiant, ac un nodwedd hynod gyffredin mewn llên yn rhyngwladol.

Eto, gwiw cofio'r ysfa gynhenid am drefn, yn wir am gyfundrefn, hyd yn oed mewn Mynegiant, ochr yn ochr â'r ysfa syrthiedig — bron mor gryf — am anhrefn. Cais y llenor roi trefn ar ei feddwl ac ar ei iaith. Dyfynnaf hanner dwsin o frawddegau o *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht* (GWWP II, 120-125) i enghreifftio un duedd ddofn a chyffredin, ond heb fod yn orfodol fel Tafod: sylwer ar y triawdau: 'y mae llawer iawn o rai yn fy ngwlad innau yn haeddu yr enw (*Afaritius*), er eu bod yn fynych tan yr enwau o hysmyn da, gwŷr call, pobl gonest gynhalfawr'; 'nid oedd ei fwrdd ond tlawd ac unig, un rhyw ymborth trwy gydol taith y flwyddyn, a hwnnw yn hen, yn galed ac yn wyddyn'; 'a'r treial a redodd o ochr Afaritius, am fod gwobrwy, trais, a derbyn wyneb yn ennill gyda swyddogion uchel'; 'nid oedd treth, toll na gwestfa na lynai rhyw sarn fechan ohoni wrth ddwylo Afaritius'; 'Fe galwodd ef yn annwyd, yn beswch, ac yn ddolur bychan yn ei ysgyfaint'; 'daeth pob ceiniog anghyfiawn, pob hatling drais, pob dryll arian enillwyd o drachwant, i weiddi allan ddial yn erbyn y trachwantwr'.

Beth sy'n digwydd? Dyfynnais gynifer o enghreifftiau triol oherwydd ei bod yn bwysig eu clywed. Gellid llawer rhagor. Mae'r glust yn dymuno ac yn bodloni ar gwllwm, a ffurfir cylch crwn, cyfan o rannau. Ceir cysondeb yn y rhediad o fewn gafael ymateb isymwybodol cysurus. Dyna'r rheswm arddullegol. Cais y *psyche* batrwm. Ond y mae'r tri-yn-un (fel deuoliaeth hefyd) yn batrwm cyfundrefnol dwfn yn yr iaith mewn llawer modd, gan ganfodiad sythwelediadol deall, ac yn ddiwinyddol. Mae'n un o batrymau cynhaliol mawr dynol-ryw. Tair coes yw'r lleiafswm sy'n angenrheidiol i gynnal stôl.

Ond adlewyrcha hefyd ymwybod Pantycelyn o soffistigeiddrwydd ffurf.

Yn fynych, byddai Pantycelyn yn herio'r bwlio a ddaethai eisoes yn ei oes ef — fel yn ein dydd ni — iddo fod yn dwpeiddiwr, ac yn denau ei sylwedd. Bardd peryglus o boblogaidd oedd Williams, diau ein bardd poblogeiddiaf erioed — a hynny ar draws cyfnod hir. Eto, byddai'r Cymro ysgafn ei ddiddordebau, a hwnnw sy'n gallu bwlio o blaid 'poblogeiddio' ym mhob cyd-destun diwinyddol cyfoes, yn 'ei chael hi' yn finiog ffraeth gan yr emynydd yn fynych. Dyma wrthwynebiad i 'gywirdeb' gwleidyddol (sef taeogrwydd endemig). 'Nid yw Cymru uniaith yn gwneud nemor ragor o gyfri o Ragymadrodd Llyfr na'r dail gwynion sydd ynddo ... Ateb i'r holiadur hyn, y rhain sy mor naturiol i'r Cymry eu dweud ag i'r Negroes i wisgo crwyn duon, fydd fy Rhagymadrodd presennol.'

Fel bardd gwerin hynod boblogaidd, disgwylid i Bantycelyn fod yn noeth o syml. Fel bardd rhamantaidd disgwylid melyster teimladol tlws ganddo. Fel emynydd disgwylid soniarusrwydd rhwydd a medr i'w ddeall yn ddifyfyr syth. Ond yr oedd ganddo'i anrhydedd i fawrygu gwirionedd a meddwl, a pharchai'i bobl a'i genadwri. Eto, hyd henaint, fe gadwai'r telynegrwydd canadwy dwfn hwnnw hefyd. Hyd yn oed yn Ail Ran *Gloria in Excelsis* fe gawn loywder hardd 'Iesu difyrwch fy enaid drud', 'Rwy'n edrych dros y brynau pell', 'Iesu, llawnder mawr y nefoedd', 'Anweledig, 'rwy'n dy garu', 'Pererin wyf mewn anial dir', 'Mi âf ym mlaen yn nerth y nef', 'Mewn anialwch 'rwyf yn trigo'. Nid oes pall ar egni a ffrwythlondeb ei groywder glân. A thybiaf i, heblaw dawn ei glust a miwsig pur ei enaid, fod yr unplygrwydd gwelediad hollol ddiwyro a thrwyadl yn ei foes yn ei yrru yn ei arddull:

GWP II, 267 *N'ad fod genyf ond dy ogoniant*
 Pur, sancteiddiol yma a thraw —
 Union nod o flaen fy amrant ...

268 *O sancteddia f'enaid, Arghwydd,*
 Ym mhob nwyd, ac ym mhob dawn;
 Rho egwyddor bur y nefoedd
 Yn fy ysbryd llesg yn llawn;
 N'âd fi grwydro, &c.,
 Draw nac yma o fy lle.

Hynny yw, symlder ysbrydol oedd hyn, ac apêl fwy na phoblogrwydd ynddo. Ond nid ataliai hyn ei arddull rhag mentro i'r pen arall. Hoff ganddo o bryd i'w gilydd ein synnu yng nghanol y symlder eithafol â'r gair lluosillafog, yn fynych fel ansoddair o flaen enw: 321: fy nherfyndedig oes, hollalluog, annigonol, iechydwriaeth, presenoldeb anghymharol glod, rhyfeddodau, mewn un emyn. Rhydd y rhain awdurdod (322: awdurdodol eiriau'r nef) a difrifoldeb (325: Cynddeiriocaf glywyd sôn).

Gall ei Fynegiant cyweiriol 'anacademaidd' wrth gwrs ymestyn yn chwithig o 'amharchus' weithiau. Ni ddisgwylid dychan a hiwmor yn ei emynau, bid siŵr. Ond mewn rhyddiaith, ac yn wir mewn ambell bennill yn anuniongyrchol, hyd yn oed yn *Golwg ar Deyrnas Crist*, mae'n mentro dros y ffin a wrthodid gan ail hanner (dirywiol) y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyna ran o'i ddisgrifiad diddanus ambell waith o helaethrwydd y greadigaeth. Sonir am enwi'r anifeiliaid:

GWWP I, 68 *I'r elephant dysgedig y rhoddodd anferth rym
I gario castell cyfan i'r gad heb ofni dim*

79 *A thrwy awdurdod dwyfol fe welid dau a dou [Gwynedd – Dyfed]
O adar a 'nifeiliaid yn union yn crynhoi,
Ac yntau, yn ôl eu natur, a'u henwai'n addas iawn,
Cyn pasai'r bwystfil heibio fe gafai enw llawn.*

Priodol inni gofio bod parchusrwydd ail hanner y 19eg Ganrif yn sefyll rhyngom a Williams.

Drwy gydol hanes beirniadaeth ers cyfnod Groeg, bu'n rhaid i'r beirniaid roi sylw i'r ddwy ochr hyn mewn iaith — y sŵn a'r synnwyr. Pan drafodir y naill a'r llall yn anghyfrifol, gallant ein bradychu. Erys y ddwy ffrwd yn gyson drwy'r canrifoedd, a chan bob cyfnod ei bwyslais beirniadol ei hun. Heddiw'n gafalîr, ddoe yn 'gywir'; heddiw'n ddeallol, ddoe yn synhwyrus. Mae hyn yn ddyfnach o dipyn nag arwyneb arddull. Y mae a wnelo â pherthynas athronyddol sain a synnwyr, â pharchusrwydd ac â rhagrith, â ffurfioldeb ac ag amrydedd, heblaw â pherthynas llenor a darllynydd, ac â chywir anrhydeddu neu beidio y 'weithred lenyddol'. Ond arddull, er cael gwreiddiau'n fewnol anweledig, oedd y 'gweledig' hwn hefyd, y wisg yn gorff i'r ystyr ddeunyddiol.

Un gair bellach am gywair (sydd hefyd yn elfen yn yr arwydd): dyma wedd braidd yn ddirgel ar brydyddiaeth o ran soniarusrwydd ac arddull sy'n anodd ei hesbonio. Ni raid iddo fod yn fawreddog (ar stiltiau) nac yn or-synhwyrus (mewn triagl). Gall fod yn rhyfedd o

syml, yn gwta hyd yn oed, yn lanwedd o gartrefol. Ond oherwydd priodas weddus rhwng y testun a'r ieithwedd, ceir gwefr bodlon adnabyddiaeth i'r sawl sy'n ystwyth i gyd-deimlad.

Dichon i'r bardd hefyd ddysgu garwder a naturioldeb gan y traddodiad gwerinol yr oedd yn rhan ohono. Ond yn achos Pantycelyn, er gwaethaf ei barch at ei gynhysgaeth o ddiwinyddiaeth gyfundrefnol, ystyr 'traddodiad' oedd (yn bennaf) yr hyn a draddodwyd iddo gan y Beibl: yr uniongredded hedegog didwyll, yr urddas diymhongar, y testun mawr mewn geiriau bach. A newydd-deb ydoedd yn wastad: newydd-deb darganfod y digyfnewid, sioc ddadlennu'r sefydlog, a gwefr meddiannu'r tragwyddol. Gwyddai ef ddifrifoldeb hyn oll; ac yr oedd yn ymwybodol, ond heb fod yn rhy ymwybodol, o'r hyn yr oedd yn ei wneud.

Yn ei ragymadrodd i *Ffarwel Weledig II* (1766) dywed: '*Er mai ceisio tynnu at yr un sylwedd, ac at yr un Athrawiaeth, y mae'r rhan fwyaf o'r Hymnau 'gyfansoddwyd eisoes, eto fel y maent wedi eu gwisgo â phrofiadau newyddion, goleuni newydd, geiriau, troellymadreddion, a mesurau newydd, y mae eu hamrywioldeb yn llanw'r Ysbryd tragwyddol i gyffroi teimlad o Gariad Duw ...'* Mae'n parhau drwy annog darllenwyr i 'adnabod Prydyddiaeth': '*darllenent drachefn a thrachefn Lyfrau'r Proffwydi a'r Salmau, y Galarnad, y Caniadau, Job, a'r Datguddiad, y rhai sydd nid yn unig yn llawn o Ehediadau Prydyddiaeth, troellymadreddion, amrywioldeb, esmwythder Iaith a chyffelybiaethau bywiol, ond ag Ysbryd hefyd ag sydd yn ennyn Tân, Sêl, a Bywyd yn y Darlennydd tu hwnt (am mai Llyfrau Duw ynt) i bob Llyfrau yn y Byd.'* Rhaid ei fod bob amser yn ddwys effro i'r hyn yr oedd yn ei sgrifennu. Gwelai hefyd gyswllt llenyddol crefydd a'r seciwlar.

*

*

*

Cyfarfyddiad hynod gymhleth ond tra allweddol yn y Weithred Ieithyddol a Llennyddol yw'r un hwn, felly, rhwng *arwyddedig/arwydd*. Yn y fan yna, y mae iaith fel pe bai am y tro cyntaf yn gwthio'i thrwyn allan i'r awyr. Mae sŵn a synnwyr, Tafod a Mynegiant, Ffurf a Deunydd yn sydyn o'r diwedd, ar ein map, yn rhan amlochrog o'r broses o lenyddu, fel petaent yn cyd-ddigwydd.

Mae'n achlysur i beri i'r iaith druan sobri ac edrych o'i hamgylch. Beth a wêl?

Yr ydym wedi bod yn ceisio trafod Hierarci gweithredu Deunydd, ar y daith rhwng Absoliwt a Motiff. Erbyn cyrraedd bellach orsaf y gyfundrefn arwyddedig-arwydd, y mae rhywbeth go bwysig yn awr ar waith. Buom yn trafod y rhagymadroddi ffurfiol i Hierarci Deunydd; ac, er sylwi ar Ffurf, nid Ffurf yn unig a oedd dan sylw cyn belled ag yr oedd a wnelai â Deunydd.

Eithr yn awr, rhaid cofio bod Hierarci Deunydd wedi bod yn cyfeilio o hyd ar hyd y daith i Hierarci Ffurf. Yr oedd Absoliwt-Arwyddedig wedi cydredeg ag Absoliwt-Arwyddiant; neu Absoliwt-Motiff wedi cydredeg ag Absoliwt-Brawddeg. Yr ydym bron fel pe baem yn ystyried Arwyddiant a Brawddeg mwyach yn ddiben: maent yn fath o ben draw.

Yn y deuawd Arwyddedig ac Arwydd, Motiff a Ffenomen, y mae'r Synnwyr a Sŵn yn dod at ei gilydd yn gydradd. Cynnyrch cyfundrefn ydynt. Gallwn yn awr ddodi'r ddwy Hierarci ochr yn ochr â'i gilydd: Arwydd/Arwyddedig (Ffurf) ac Arwyddedig/Arwydd (Deunydd): mewn Ffurf a Deunydd, a hynny mewn cyd-destun lletach.

	<u>Hierarci Ffurf</u>		<u>Hierarci Deunydd</u>
<i>Arwydd</i>	<i>Arwyddedig</i>	<i>Morffoleg</i>	<i>Absoliwt</i>
Mydr	<i>Troad:</i>	<i>Math:</i>	Cyfundrefnau Ffurf a Deunydd
Odl	trosiad	telyneg	Sfferau Deunydd Sofran
Cynghanedd	gormodiaith	drama	[Metanaratif]
	lleihad	stori	Themateg Gyfundrefnol
	personoli		Motiff
	trawsnewid	<i>Modd</i>	
	cydgymeriad	mawl	
		dychan	
	<i>Ffigur:</i>	comedi	
	ailadrodd	trasiedi	
	aralleirio		

(Yn y fan hon, y mae *Tafod y Llenor*, *Seiliau Beirniadaeth*, *Meddwl y Gynghanedd* yn ymuno ag *Y Cynllun sy'n Canu* i gyfeilio i 'Ddeunydd y Llenor'. Gwell imi esbonio olyniaeth trefn Ffurf a Deunydd yn ôl pwynt y cyferbyniad. Mae Ffurf yn rhagflaenu Deunydd mewn Archgyfundrefn: 'gwahuno' yn deall ffurfiol cyn ei ddefnyddio i ddiffinio ystyr gair; ac yna y lleferydd yn dechrau gyda dymuniad i gyfleu ystyr drwy'i chorffori mewn symbol seiniol.)

3. Motiff

Rhaid inni aros am ychydig eto gyda diffiniadau. A'r geiriau mewn golwg yw *Thema*, a *Motiff*. A'r rhai y carwn eu crybwyll yn gyferbyniol â hwy er mwyn miniogi'r diffiniad yw *Cynllwyn*, a *Topos*. Bûm eisoes yn eu trafod yn *Seiliau Beirniadaeth* 510-548. Ond newidiais fy meddwl ychydig, a gwell imi nodi ymhle'r wyf yn sefyll bellach. Yng nghefn y meddwl yr wyf hefyd yn gwahaniaethu rhwng *Cynllwyn* a *Fabula* (ibid. 482, 488).

Tybiaf y gall egwyddor neu syniad haniaethol ddarparu'r Thema, e.e. Cenfigen. Gall rhediad o ddigwyddiadau ddarparu Thema, ac y mae cymeriad ac amgylchfyd yn newid neu'n penderfynu lliw ac ergyd y Thema honno. Y syniad cefndirol 'syml' mewn llenyddiaeth yw'r Thema: y gweithredu gorffenedig yn y Thema yw'r Cynllwyn.

Math o fformiwla cryno yw Topos ar y llaw arall (o safbwynt theoretig), a thueddaf bellach i bwysleisio'i natur ailadroddol. Trafodwyd y mater yn helaeth gan T. J. Morgan (*Ysgrifau Llenyddol; Traf. y Cymm.* 1946-47 a B. 1950). Diddorol sylwi iddo ddefnyddio'r term 'thema' am 'dopos', ac enghreifftiau o dopos sydd yn amrywebu drwy gydol gwaith Pantycelyn. Dyry T. J. Morgan hyn yn gynddelw: 'ti goreu yssydd, A vu ac a vydd, ny'th oes kystedlydd'. Dyma Bantycelyn:

GWP II, 141 *Nid yw'r haul a'i faith fendithion,*
 Bywyd hardd y ddaear lân,

Onid dim wrth eu cymharu
 A rhinweddau Iesu mawr.

Patrwm geiriol byrfoddol yw hyn, ac ar y gwaethaf, fformiwla ailadroddol, er y gall fod yn ddiwyll ffres. Math o thema neu ran o thema yw, un sy'n draddodiadyn cyffredin; ac ar y gwaethaf, ystrydeb. Y mae a wnelo 'motiff', sut bynnag, â brawddeg sy'n cynnwys unrhyw synnwyr neu thema, boed yn ffres neu'n ystrydebol o fewn uned gyflawn gryno.

Mae Cynllwyn ar y llaw arall, yn canoli fel arfer ar ddigwyddiadau a'u cysylltiadau â'i gilydd. 'Ystyr' i'r Cynllwyn (Plot) yw'r 'troeon' i'r Thema, a hynny'n undod i'r Deunydd naill ai mewn rhan neu mewn gwaith cyfan. Ac ystyr i bob uned fechan o'r fath o fewn y gwaith yw'r motiff. Dadleuais yn *Seiliau Beirniadaeth* 511 fod Thema yn uno Cymhelliad, Deunydd a Ffurf; a dyry hynny o hyd amcan o led y ffenomen.

'Gosodiad' am fywyd, yn ystyr Wittgenstein, yw motiff o ran disgrifiad neu adrodd hanes digwyddiad: math o leiafswm o ddisgrifiad neu grynoded. Ond gellir gosodiad disgrifiol neu esboniol. Ac o'r herwydd, byddwn bellach yn ystyried mai uned mewn cynllwyn, mewn esboniad yn ogystal ag mewn rhediad thematig yw'r Motiff. Dyna'r uned leiaf o Fyngiant o Thema neu o ran o Thema mewn gwaith llenyddol. Faint o hyd yw

Thema? Gellir cael thema drwy gydol llenyddwaith neu mewn rhan o'r gwaith (megis thema un pennill mewn cerdd). Er y gellir crynhoi thema mewn un frawddeg, fel arfer cyfrannu at adeiladwaith thema a wna. Rhan yw o olyniaeth neu rediad sy'n adeiladu meddwl y thema. Y thema yw'r meddwl cyfan y tu ôl i'r Motiff. Ond nid un motiff ar ei ben ei hun yw'r norm. Unedau ystyrol dolennog, dyna sy'n symud cyfeiriad y meddwl drwy'r motiffau.

Diffiniau Boris Tomasiefsci (1925) thema fel 'math o undod a gyfansoddir allan o elfennau thematig a drefnir mewn olyniaeth bendant.' Motiff yw'r cyfuniad lleiaf o'r 'elfennau' cyfan yna mewn rhediad ystyrol. Mewn geiriau eraill, Motiff yw'r manyf lleiaf o ddeunydd thematig: "daw'r hwyrnos", " mae'r arwr yn marw", ac felly ymlaen, mewn mynegiant. Y rhan o waith na ellir ei lleihau ymhellach yw'r *motiff* [ond sy'n gwneud synnwyr cyflawn]; y mae i bob brawddeg, mewn gwirionedd, ei motiff ei hun. Meddwl yr oedd Tomasiefsci braidd yn ddiacronig, yn llorwedd felly, lle y byddwn i'n synied hefyd yn synchronig ac yn fertigol o fewn Hierarci o fynegi synhwyrol.

Byddwn i felly yn tueddu i weithio o'r cyfeiriad cwmpasog gan ddechrau mewn Cyfundrefnwaith cyflawn yn ôl olyniaeth awdurdod yn yr Absoliwt a'r Arfaeth i lawr hyd at y Deunydd a'r Themateg leiaf, a chanfod y Themâu Cyfundrefnol yn esgor ar y Motiffau; ond o fewn Mynegiant, bid siŵr, ac yn llorweddol mewn llenyddiaeth, derbynias ddiffiniad Tomasiefsci ar gyfer Motiffau unigol mewn rhediad. Hynny yw, diffinnir Thema a Motiff yn ôl eu safleoedd mewn Hierarci yn ogystal ag mewn olyniaeth naratif. Ond safle cryno yw Motiff mewn Hierarci ddeunyddiol yn gyntaf.

Yr hyn sy'n ysgogi cyflwyniad a defnydd y Motiffau yw bodolaeth yr Hierarci a chymhelliad y llenyddwaith. Gwasanaethu'r Themâu a wnânt, fel y mae'r Themâu yn gwasanaethu'r Sfferau. Mae ganddynt hwythau eu cyfundrefn. Ac adlewyrchant beth o facrocsm y Thema fawr. Crynhoad yw cyfundrefn themateg o brif gwrs gweithrediad, neu linydd y meddwl neu'r teimlad: e.e. ffurf cymeriad, canlyniadau trais, diffiniad o fwriad (e.e. cynghori rhywun isel ei ysbryd). Fel y bydd *Thema* yn datgan egwyddor unol mewn llenyddwaith, — efallai gnewyllyn yr ystyr neu'r neges, — felly y bydd *Motiff* yn cyfrannu'i friwsionyn, yn gyfraniad i'r Mynegiant o'r adeiladwaith.

Gall wneud hynny yn ôl dwy gyfundrefn: (1) Y Frawddeg, dwy neu dair elfen (yn troi o gylch berf), (2) Yr Ymadrodd, yn ddwy neu dair rhan eto (ond heb ganoli ar y ferf gan amlaf, eithr yn hytrach ar enw + ansoddair, neu ar air cyfansawdd + adferf efallai). Yr hyn yw'r *Frawddeg* a'r *Ymadrodd* i Fynegiant Ffurf, dyna yw'r *Motiff* i Fynegiant Deunydd.

Rhediad cyfunol o fotiffau yw Thema o fewn Sffêr Ddeunyddiol neu gyfuniad o Sfferau deunyddiol. Yn wahanol i gynnwys Tafod (y Ffuriau yn bennaf), sy'n gymharol

gynnil, y mae'r posibiladau i gynnwys Mynegiant yn helaeth iawn (y Deunydd yn bennaf), mewn sefyllfaoedd a ffwythiannau unigol di-rif.

Yr uned leiaf o naratif yw'r Motiff. Bydd rhywrai'n dewis ei drafod drwy ystyried bod rhaid cael elfen o ailadroddrwydd ynglŷn ag ef. Rhaid, meddant, mai ychydig dethol sydd o'r cyfryw bethau cynddelwaidd. Ystyriwn y rhain, oherwydd eu patrymau yn fath o Fotiffau ffigurol. Fe'i cysylltir â delweddau penodol, a gellir cymharu Motiffau troadol. Ond y mae i bob dim ddimensiwn neu bosibilrwydd o'r fath. Peth sy'n digwydd yn yr effaith yw'r cyfryw flaendiro. Mewn potensial, yn gynhenid fel petai, y mae pob brawddeg ei hun yn Fotiff. Hoffaf y term 'Motiff Atomaidd', ac fe'i cymharwn â 'Gosodiad Atomaidd' Wittgenstein.

Ni raid i Fotiff fod nac yn llythrennol yn unig nac yn droadol yn unig. Gall Motiff etifeddu yr holl bosibiliadau i wyro neu i unioni iaith. Amrywia rhwng y troadol a'r llythrennol, yr unigolyddol a'r ailadroddol, ni waeth. Ond uned yw, sy'n gyfan o fewn rhediad, o fewn cywair, ac o fewn perthynas mewn Mynegiant.

Mewn adeiledd 'dychmygol' ceir thema neu feddwl cyffredinol. Fe'i hadeiledir gan unedau ffuglen leiafswmiol, sef y motiffau. A'r thema sy'n rhoi ystyr i'r motiffau hyn (a all ymddangos yn gysyniadau corfforol), fel bod y motiffau yn corffori'r thema.

Fe all y motiffau (a'r thema) wrth gwrs gael eu hailadrodd. Pan feddyliaf am Fotiff ym myd arlunio, byddaf yn meddwl weithiau am ryw olygfa gyfan, rhyw syniad am ddelwedd (lleiafswm o thema) y bydd arlunydd efallai yn ei 'redeg' neu'n ei ailadrodd mewn cyfres megis pwll liliod lle y mae'r amgylchfyd, y cyfeirbwynt sylw, neu'r tywydd yn amrywio ryw ychydig. Mewn miwsig, rhyw rediad cyfan neu nodau ar ffurf ymadrodd y bydd y cerddor yn dychwelyd atynt. Tebyg i elfen mewn llenyddiaeth. Ond y cwestiwn yw a yw'n fotiff eisoes *cyn* ei ailadrodd, hynny yw mewn potensial? A yw *un* digwydd ynysig yn ddigon? Hynny yw, a yw'n dibynnu ar yr ailadrodd cyn dod yn Fotiff? Fy nghasgliad i yw nad ydyw o raid, er y gall fod o ran potensial. Nid ailadrodd sy'n ei droi'n Fotiff: y mae'r syniad 'cyntaf' yn ei botensial a'i batrwm eisoes yn Fotiff. Dyma'r elfen eithaf mewn naratif. I Bantycelyn, e.e. Duw yn dioddef ar y Groes; Gwaed Duw. I eraill, anniolchgarwch plentyn i garedigrwydd rhieni, efallai; camgymryd hunaniaeth rhywun; plentyn heb wybod pwy yw ei dad; henaint yn priodi ieuencid. Rhydd y cnewyllyn thematig hwn gynllwyn neu adeiladwaith naratif (wedi'i adeiladu o episodau neu ddigwyddiadau).

Rhaid gwarchod rhag camddeall galluowgrwydd y Motiff. Fe all sôn am y pynciau mwyaf a'r lleiaf, am yr unigol neu'r lluosog. Nid ansawdd sy'n gwahaniaethu rhwng Cyfundrefn Thematig a Motiff, ond hyd ac adeiledd, llawnder cymhleth, manylder amrediad

a safle hierarcaidd. *Motiff* syml ond cyflawn yw 'Mawr yw Crist', neu ynteu 'Mae Crist yn achub pechaduriaid' neu 'Duw-ddyn oedd Iesu Grist'. Er lleied yw *Motiff*, o ran hyd ni raid i'r arwyddocâd fod yn fychan, fel y gwelir. Hedyn yw. Bricsen hefyd.

Mynegir bwriad go arbennig yn y tair brawddeg yna. Mae'n fwy nag amddiffyniad o'r Drindod. Mae yna awydd penodol i ganolbwyntio ar Grist. Ymddengys i mi fod Pantycelyn, rhwng 1753 pryd y dechreuodd sgrifennu *Golwg ar Deyrnas Crist* (a gyhoeddwyd ym 1756) a'r argraffiad cyflawn o *Aleluia* (1758), wedi myfyrio mwyfwy ynghylch yr hyn a wnâi fel pechadur a syrthiai o hyd, ac am yr hyn a gredai fel Cristion drwy gryfhau'i fryd ar Grist. Dyma bwrpas a ffurf i'w fywyd. Dyma ffordd braf i dreulio peth o'i amser a thragwyddoldeb. Yn nheitl *Golwg ar Deyrnas Crist*, hawlir 'Crist yn bob Peth, ac ymhob Peth'. A dyna sut y dymunai Pantycelyn, drwy ddau fotiff o'r fath, grynhoi ergyd neu thema'r arwrgerdd. Dengys hyn y cyswllt a all fod rhwng *Motiff* digon cwta a holl adeiladwaith arwrgerdd aruthr o uchelgeisiol a ddisgrifiwyd gan Saunders Lewis fel '*Summa Theologica* ar gân.' A'm dadl i, wrth dderbyn mai Crist oedd Absoliwt Pantycelyn yn y fan yma, oedd tanlinellu fod y Motiffau hyn yn llywio ac yn llywodraethu y myfyrdod amdano sy'n cael ei amodi gan sylweddoliad seiliol o Archgyfundrefnau Ffurfiol a fynegai ffurf y meddwl Cristnogol (a dynol) mewn Tafod. Dilynodd y rhain o ran ffurf i lawr drwy gyfundrefnau Deunydd i'r Themâu nes esgor ar *motiff* ymarferol mewn Mynegiant a lunnid ac a gyfoethogid gan holl strwythur ei feddwl. Ynglŷn â'r union bwnc hwn, gellid olrhain olyniaeth y Deunydd hwn i lawr, o'r Pen (yn yr Absoliwt), drwy'r holl haenau nes cyrraedd troed yn y *Motiff*.

Er mwyn cydnabod cwmpas adeiladwaith meddyliol Pantycelyn, yr organwaith hwn (nid amgen meicrocosm o fewn macrocosm) yw'r hyn a fyn ystyriaeth.

Beth, wrth ystyried adeiladwaith meddyliol Pantycelyn, yw safle a pherthynas cyfundrefn yr uned thematig leiaf hon yn y Gyfundrefn o Gyfundrefnau sy'n cydailleidu llenyddiaeth a diwinyddiaeth?

Dyma'u pen-draw a'r cynnyrch terfynol yn ysgerbydol. Mae'r safle a'r berthynas yn diffinio'i natur.

Dechreuwyd yr holl adeiladwaith i Ddeunydd yn yr *Absoliwt*, sef ffurf a deunydd Duw, cyn belled ag y mae'n ymwneud â'r Arfaeth, ac y'i deallir gan Gristion sef cyfanrwydd ei berson a'i waith ar gyfer dyn. Ond roedd hon yn rheoli'r pen draw hefyd ymhlith pethau eraill a gydlynir. Mae'r rhain hefyd yn cyflyru'r *Motiff* mewn safle ac mewn Mynegiant.

O dan neu o fewn yr Absoliwt, gwelsom weddau unigol eraill ar Ei Ffurf: sef *Archgyfundrefnau Deall a Ffurf*. Mewn gwirionedd, Cariad (hyd yn oed mewn Barn) yw Ei ddeunydd crai profiadol. A'r term ar gyfer dathlu cyfanswm Ei ffurfiau a'i ddeunyddiau oll

gyda'i gilydd yw'r Gogoniant. Trefn gariadus yw cyf-undrefn ei hun, felly. Gellir nodi, ar hyn o bryd, un ar ddeg o leiaf o Archgyfundrefnau a awgrymir mewn iaith, yn y Beibl ac yng ngwaith Pantycelyn, fel Ei foddau Ef o fynegi'r Ffurf y mae Ef yn ymwneud â Deunydd dyn. Ond roedd y rhain hefyd yn amodi'r pen draw. Daeth y rhain oll i gyfrannu at bob motiff yn y pen draw.

Wedyn, yn yr adeiladwaith pellach ceid y *Deunydd*, yr holl Ddeunydd. A gallaswn sylwi ar nifer gynnill o *Sfferau Sofran Deddfog* o'i fewn, bob un yn ôl diffiniad ei *Phrif Gyfundrefn* ei hun, yn cydgyflwyno ffenomen Deunydd. A byddai'r rhain yn rheoli'r cynnyrch terfynol, y *motiff*. Dyna'r broses o ddadansoddi Deunydd yn dechrau.

Yna ceir *Cyfundrefnau thematig* sy'n disgrifio drwy ddethol sut y mae'r rheini'n gweithio yn ymarferol. Ac roedd y rhain oll o gam i gam, er cael eu hamodi gan yr oddiuchod, hefyd yn amodi'r isod yn y *motiff*.

Felly, y mae pob un o'r rheini, nid yn unig yn cysylltu Cyd-thema, ond yn dilyn yn union uwch ei phen; eithr dilyna pobun hefyd bob tro adeiladwaith uwchben honno. O'r uchaf hyd yr isaf, treiddir i lawr drwy'r holl hierarci o'r brig i'r bôn (mewn llai nag eiliad o bosib) fel y bo'r uchaf bob tro drwy'r cwbl yn goleddfu, yn amodi, yn cyflyru, ac yn cynhyrchu pob dim sydd islaw, yn syml oherwydd eu bod oll yn eu lle. Felly, pan ddeuir, wedi'r Cyfundrefnau Thematig, at wastad yr Uned leiaf neu'r *Motiff Thematig*, yna y mae pob un yn haenen uwch ei ben yn effeithio arno ac yn sydyn gydgysylltu.

Hynny yw, cawsom fwy na threfn gan yr Absoliwt, cawsom gyf-un-drefnu cydlynol. Mae hyn yn olwg newydd ar Ddiwinyddiaeth, — ac eto mor hen â Chadwyn Bod — gan gyflwyno nid Diwinyddiaeth Gyfundrefnol draddodiadol yn unig, yn ddsbarthedig fawrhydig, ond safbwynt deinamig gwahanol ychydig yn fwy cynhwysfawr gan fod a wnelo â Ffurf Diwinyddiaeth o'r brig i'r bôn yn ogystal â Chynnwys ar werth. Profiad arall yw o ddadansoddi adeiladwaith y Beibl a llenyddiaeth yn gyffredinol gyda Duw'n Benarglwydd ar Ffurf yn ogystal ag ar Ddeunydd. A chyraeddasom y manyn lleiaf o'r diwedd, yn ei sythwelediad mynegiannol lleiaf, y motiff. Yr atom. Y gell. Yr organ. Yn ogystal â'r Galaethau. Bob un wedi'i ffurfio.

A'r uwch fu'n ffurfio'r is, yn gyfundrefnol.

*

*

*

Cyraeddasom hefyd gyflwr newydd yn 'ystyr' llenyddiaeth ac mewn diwinyddiaeth. Digwyddodd chwyldro mewn trefn yn ein hagwedd at swyddogaeth, ffurf, a deunydd llenyddiaeth. Ym myd hanes, buwyd yn olrhain trefn gyffredinol popeth yn ymddangosiadol lac o safbwynt y cydlyniad. Rhestr oedd hyn. Ond cyfundrefnol gudd oedd y cwbl hwn mewn

gwirionedd o safbwynt Deunydd yn yr Hierarci. Ac felly, o ran ffurf anweledig, bid siŵr, boed yn y rhan gyntaf yn y Meddwl Cyffredin (Tafod), neu gan yr unigolyn mewn Mynegiant wedyn. Eithr, ceisiwyd yn awr, wrth sylwi ar feddwl Cristnogol Pantycelyn, ddatgelu adeiladwaith cyfundrefnol cydlynol ymennydd yr Emynydd hyd at yr union bwynt hwn, ei sgêm, mewn golwg ac ynghudd o'r golwg. Dyma ddull angenrheidiol Pantycelyn o feithrin a meddwl *Golwg* uniongyrchol unigol *ar Deyrnas Crist*, — y cyfanrwydd. Dyma hefyd fawredd gweledigaeth gyflawn Pantycelyn.

En route wrth ymlwybro tuag at y Mynegiant, cawsom eisoes o leiaf un llam neu chwyldro cyfundrefnol mawr rhwng y Meddwl Cyffredin a Meddwl yr Unigolyn, rhwng Ffurf a Deunydd. Yr ydym yn aros yn awr gyda Meddwl yr Unigolyn, ond yn tynnu oddi ar adnoddau'r holl Hierarci gyfundrefnol. Rhydd hyn ddyfnder yn ei Fynegiant. Symudasom oddi wrth yr Undeb amrywiol at yr Amrywiaeth unedig.

Ar lefel y Sfferau Deunyddiol Deddfog, er gwaethaf y Prif Gyfundrefnau diffiniol i bob un, fe gafwyd Cyfundrefn amrywiol gryno o Gynhwysion, fel pe baem yn symud oddi wrth Ramadeg at Eirfa. Dyma bont mewn Tafod drosodd tuag at Gyfundrefnau Thematig, sy'n gyfundrefnau mewn Mynegiant. A'r rhan hon, y Cyfundrefnau Thematig mewn Mynegiant, sy'n cynhyrchu *Motiffau* / neu'r brawddegau, sef yr unedau thematig lleiaf mewn llenyddiaeth a diwinyddiaeth.

* * *

Y gwir yw y gellid dewis, yn enghraifft, unrhyw linell neu frawddeg gan Bantycelyn a chaem *Fotiff*. Ond y mae gennyf resymau arbennig dros nodi dwy enghraifft yn benodol yn gyntaf. Y maent yn cael eu hail-wau gyda'i gilydd ar yr un gweill. Llawer mwy diddorol fel arfer yw dewis ac astudio *Motiffau* ailadroddol neu aralleiriol, yn hytrach na rhai diberthyn. Dyma'r rhai fel arfer sy'n dweud mwyaf am y llenyddiaeth dan sylw ac am yr awdur ei hun. Dyma'r rhai hefyd sy'n cadarnhau adeiladu Cyfundrefnau thematig mewn Mynegiant. [Dylwn danlinellu eto fod rhai theorïwyr, wrth drafod motiff yn ei gyfyngu i'r arfer o ailadrodd. Hynny yw, uned leiaf thematig a ddigwydd sawl gwaith yw, yn hytrach na'i chyfrif, fel y gwnaf i, yn uned leiaf sengl hefyd.]

Y ddau fotiff sydd gennyf i'w trafod, sut bynnag, yw'r hyn a alwaf yn ddau arch-fotiff yn llenyddiaeth Ewrob. Dyma'r unig fotiffau y gwn amdanynt (ynghyd â motiff cudd y pensaer) y mae eu cyfundrefnau amodol neu gyflyrol yn digwydd ar y chwe lefel yn ein hierarci: sef – tan gymryd a chofio'n gyntaf y rhagdyb i'r naill a'r llall: Yr *Absoliwt* (Bod/bod) yn yr *Arfaeth* (Bod/gwneud) treigla'r rhain i lawr drwy'r *Archgyfundrefnau Ffurfiol*; *Prif*

Gyfundrefn Sfferau Deunyddiol; Cyfundrefn Thematig; ac wele'r Motiffau. O fewn dimensiwn y rhain y profwn ddau arch-fotiff felly.

(1) 'Delwedd y Carwr' yn ceisio cariad; delwedd bennaf Tafod; (Fertigol).

(2) A 'delwedd y Teithiwr' yn ceisio paradwys; delwedd bennaf Mynegiant; (Llorwedd),... er bod y naill a'r llall yn digwydd mewn Tafod a Mynegiant.

(1) Duw yn caru'r creedig, a chael perthynas o fewn pob un adnabyddiaeth newydd. Y potensial (cadarnhaol a negyddol), y Creawdwr a'r creedig neu'r absoliwt a fi.

(2) Dyn ar y daith estynedig, bob cam, o bechadurusrwydd alltudiedig y Cwyp, drwy ailenedigaeth, tuag at y Gogoneddiad; echel bywyd. Yr effaith (gadarnhaol a negyddol), dyn a'i ben draw neu'i bwrpas.

Mae yna gadwyn ddi-dor yma o'r brig i'r bôn yn ein Hierarci: Enw + enw / Enw + berf.

Gellid sylwi ar rai Motiffau eraill enfawr o fewn rhediad y Thema gyntaf ynghylch yr Arfaeth, yr Ymgawdoli (Anweledig/Gweledig), a'r Achub — yn gynddelwau thematig y gellir eu geirio'n gryno.

Synhwyrwn fod y *Motiff* am '*Grist* yn caru neu'n briod i'r Cristion (uno)' yma yn eglur ddigon, ond digwydd yn gynnar yng ngwaith cynharaf Williams. Felly hefyd, yn gyferbyniol, yr un *Motiff* ond yn efaill i hynny'n amseryddol, 'y *Cristion* yn caru Crist fwyfwy (sancteiddio)'. Y ddeuoliaeth ffurfiol hon mewn thema gynlluniedig estynedig yw'r hyn a alwaf yn Gyfundrefn Thematig mewn Mynegiant: mae'r *Motiffau* unigol wedi'u seilio'n amrywiol ar hyn, ac yn mynegi, neu'n corffori ar lafar wahanol osodiadau neu frawddegau i gyfleu'r un ystyr hon. Digwydd y caru mor gynnar â'i gyfrol fechan gyntaf: *Aleluia*, 1744 (1926).

Hymn II *fy Nghrist ...*

*Nawr Cyfaill wŷf i'm Duw,
'Rw'i'n teimlo'i Gariad rhâd ...*

Hymn IV *fy Nuw, ...*

*I'th fwynhâu'n llwŷr o fewn i'r Llen ...
Yn nofio'n rhwŷdd mewn Cariad rhad ...
Nês teimlwy'i Mhwys ar Grist fy Mhen ...
Fy annwyl Dduw ...
Ym Mreichiau'th Grist...
Ei Wyneb cû ... gwel'd fy Nghrist ...
Rho dy fwynhau yng Nghedar drist;*

Gormod yw 'm Cûr heb Gwmpeini 'm Crist

Hymn VII *Iesu, Mrenin mawr a 'm Priod ...*

*Iesu, eisioes, ae 'st a 'm Calon;
Mae f'enaid cu, 'n llechù'n hÿ,
Bób Dÿdd rhwng y ddwÿ Fron.*

Pár im' aros mwy'n dy Freichyau.

Hymn VIII *Ac ár ei wêdd edrÿch*

Motiffau caru cyntaf yw'r rhain oll. Achlysuron unigol ydynt o fewn i'r un sefyllfa thematig. Rhoddaf felly fy nehongliad fy hun o 'Fotiff' fel hyn — uned feddyliol ar lun ymadrodd neu frawddeg, a all fod yn rhan o gyfres lorwedd sy'n gorfforiad hefyd o'r cyfan o thema, neu'n wedd arni.

Perthyn *Motiff* cnewyllog y carwr i un o'r perthnasoedd creadigol mwyaf: mewn bywyd ac mewn iaith: *gwryw/benyw*; ac i un o'r sefydliadau rhyngwladol pwysicaf, priodas a'r teulu. Estyniad Gras Cyffredinol yw'r 'seciular' i'r 'crefyddol'.

Cyfundrefn ymarferol yw priodas hithau lle y datgenir yn ffurfiol fod dau berson yn un. I Bantycelyn yr oedd hon yn sefyllfa ganolog i'w feddwl. Trefn oedd i gyfuno ac i gyfrif yn gyfreithiol ddau 'yn un cnawd'.

(1). Yn y ddwy arwrgerdd fe ddarlunnir pedair carwriaeth; a dwy briodas gorff ac ysbryd ill dwy gyda'r naill yn hapus (cyn y cwmp) a'r llall yn gymysg (wedi'r cwmp);

(2). Lluniodd Pantycelyn hefyd gyfrol gyfarwyddyd gyfan mewn rhyddiaith, *Cyfarwyddwr Priodas*;

(3). Caneuon serch hefyd, sy'n canoli ar y trosiad o briodas Crist a'r Eglwys. Dyma'r adran fwyaf llenyddol lwyddiannus yn ei emynyddiaeth, oherwydd tân y gwreiddiol, a'r ymrwymiad deinamig cryf a ffrwythlon. Hynny yw, dyma'r *dosbarth* telynegol cyson harddaf yn ei waith lle mae athrawiaeth yn ymasio â synhwyrau.

(4). Drwy'r cwbl mae serch dynol yn ffurfio adeiladwaith trosiadol i berthynas y Drindod.

Yn y cefndir diwinyddol, fe geir Uniad cariadus fel digwyddiad cyfriniol allweddol yn nhrefn yr achub. Math o gyflawniad personol ydyw mewn deuoliaeth. Ac yn y Drindod ei hun, yn ogystal ag yn yr Ymgawdoliad (dwy natur mewn un person) yr oedd y berthynas fewnol o fewn yr Uniad ar y naill law yn gyfaredd iddo ac ar y llall yn hanfod mewn cyfundrefn ddatblygol. Yn y naill a'r llall rhyfeddod oedd. Hyd yn oed yn ddiwinyddol y mae'r 'briodas' rhwng elfennau cyferbyniol yng ngogwydd 'cyfundrefn' yn drosiad priodol iddo.

Ceir Motiffau unigol digymar sy'n ynysig. Oedwn ymhellach gyda'r ddau fotiff cysylltiedig a enwyd eisoes, felly, am eu bod mor ganolog. Mae rhai unigol yn digwydd mewn brawddegau nad ymddangosant ond unwaith, ac efallai bydd yn anodd i'w dosbarthu gyda rhai eraill, er eu bod yn rhan nodedig o gyfoeth. Ond y rhai 'ailadroddol' o ran ergyd a phatrwm fel arfer yw'r rhai mwyaf arwyddocaol a mwyaf dwfn, am eu bod yn tanlinellu neu'n amlygu peth o gymeriad ac unigrywiaeth amrywiol y llenor ei hun, beth sy'n pwysu arno; ar lun thema feddiannol hyd yn oed.

Y mae'r ddau *Fotiff*, sydd gennyf mewn golwg yn y fan hon, yn rhai ailadroddol wedi'u dewis am eu bod yn adlewyrchu'r ddwy archgyfundrefn ddeunyddiol, sef ffurf 'fertigol' *Absoliwt/unigolyn* neu *Duw/dyn* (Theomemphus), a ffurf 'lorwedd' yr *Arfaeth* (Golwg ar Deyrnas Crist) yn deitlau amseryddol *bod/gwneud*. Serch Duw at ddyn a dyn at Dduw yw'r cyntaf; a thaith y pererin drwy anialwch tua pharadwys yw'r ail. Fe all carwriaeth hefyd wrth gwrs fod yn daith, a gall siwrnai arwain tua'r cariad. O'r herwydd gellid dilyn llinach y ddau Fotiff o lefel i lefel yn unol o'r brig i'r bôn. Meddiannant bob cornel o'r meddwl. Yn seciwlwr, gellid synied am yr Ego Trosgynnol yn lle Duw, ac am ddiwedd trist materol yr ego yn lle paradwys.

Bu'r berthynas — neu'r gyfundrefn fertigol — *Duw/dyn* yn unigryw ddirfodol erioed, er mai yn yr arfaeth lorweddol cyn y creu y 'penderfynodd' Duw lunio 'bod' ar ei ddelw Ef ei hun. Cafwyd yn y gyntaf y berthynas *Crëewr/ creedig*, ac yna *Penarghwydd/stiward* neu *ddirprwy*. Anrhydeddwyd ac ymhoedwyd mewn dyn, mewn perthynas bersonol aberthol. Dyrchafwyd ef a rhoddwyd popeth iddo. Ac yna, dyma'r gwrthryfelwr a'r twyllwr a'r disodlwr hwnnw yn ceisio gwrthod Duw: perthynas o fath yw hynny hefyd. Bellach roedd Duw'n gweithredu'n Farnwr arno, ac eto'n addo bod yn Waredwr iddo. Perthynas — neu gyfundrefn — fawr a chanolog yw hyn oll yng nghanol creiddiol y Greadigaeth, er y gall rhyfel ei dryllio wrth reswm. Yr hyn sy'n creu neu'n clymu'r *gyfundrefn* hon yn bennaf oll yw Cariad. Dyma'r glud a'r drefn uniongyrchol fertigol, fythol bresennol, fythol gyson, sylfaenol ddigyfnewid, er gwaethaf gwahaniaethu achlysurol yr wyneb.

Mae rhai Motiffau, yn ddigon amlwg, sef y llinellau neu'r rhediadau telynegol ac angerddol unigol, wedi arfer tynnu sylw ac edmygedd teilwng darllenwyr y gorffennol. Ond carwn ddadlau fod adeiladwaith meddwl Pantycelyn yn hardd drwyddo. Yr oedd drwy fyfyrdod, profiad, a dychymyg wedi sylweddoli cydlyniad mawr a phwysig a ddarparodd ddefnyddiau cyfannol *oeuvre* hynod o fawrhydig. Adeiladwyd ynddo lawnder cyfundrefnol treiddgar, ond ymwybodol bensaernïol, ei sgêm (fach) feddyliol ei hun a luniwyd ar ddelw'r Sgêm (fawr). Cyfunwyd un rhan o'i ymennydd (cyfundrefn) â'r ail ran (cariad) yn gyfan.

*

*

*

Er yr amllder o Fotiffau sydd yn bosibl wrth drafod *Duw/dyn* (fertigol) — ac y maent mor afrifed nes ymddangos yn ddiderfyn — y rhai cysonaf ac amlaf yw'r rhai mwyaf canolog, diddorol neu arwyddocaol. Patrymau clystyrol neu lethol yw'r rheini, wrth reswm, sy'n dadlennu craidd cyfun drefnus i dueddiadau dyfnaf eraill y llenor. Ar hyn o bryd, yr wyf wedi oedi gyda'r cyntaf hwn o'r ddau mwyaf adnabyddus, ond tra gogleisiol yr un fath, sy'n ymwthio dro a thrachefn ymhlith emynau Williams, am eu bod yn ymgysylltu hefyd mor drawiadol â gogwydd cyffredinol y darlun yr wyf wedi ceisio'i wneud o undod adeiladwaith meddyliol Williams. Hwy yw'r prif gynrychiolwyr i'r ddwy Archgyfundrefn ar gyfer perthynas Deunydd. Ymgysylltir yn uniongyrchol â'r ddwy thema a gyfrifaf yn ganolog yn y fframwaith thematig Cristnogol i'r gyfrol hon, yn sincronig ac yn ddiacronig. Fe'u gwelir ar waith yn amlycaf yn y llu o emynau sydd yn mynegi perthynas undod serch yr Emynydd at Grist, ac yna hefyd ar ffurf delwedd neu fotiff 'y daith', grŵp yr un mor niferus tuag at uno deupen. Ymddengys yr ail yn ddyfal donc ar ffyrdd sy'n dychwelyd dro a thrachefn tan gyfeirio at daith tuag at lawnder perthynas — taith drwy'r anialwch, taith sy'n frwydr mewn helbulon, 'taith' drwy feddyginiaeth tuag at iechyd, 'taith' amseryddol drwy dymhorau gardd feddyliol tuag at ffrwythlondeb.

Dyma ddwy thema neu ddwy ddelwedd y mae gwledd o amrywebau arnynt. A dyna'u dyfnder. Adlewyrchant y ddwy thema ddeunyddiol waelodol ym mhob hierarci isymwybodol Cristnogol (ac os caf ddweud, seciwlwr). Ceir fersiynau helaeth a ffrwythlon, undonog weithiau, ohonynt. Y maent mor gyffredinol ac yn ddelweddu mor gryf o elfennaidd nes eu bod yn clymu gogwydd canolog holl gynnwys blaenaf ei fyfyrdodau. Ni all ef eu gwrthod: y maent yn ei erlid. Canlynant ef i bob cornel. Edrychaf o gyfeiriad arall arnynt, megis hunanbortreadau Rembrandt neu fynydd St Victoire i Cézanne. 'Beth wnaiff Euros heb ei lyn?' gofynnodd Gwyn Thomas i Geraint Bowen pan symudodd Euros i Wrecsam ar ôl ymddeol o ardal Llyn Tegid. 'O! mae e wedi mynd â'r llyn gydag ef,' meddai Geraint. Felly Williams, y mae'n ail-wau'r Motiffau hyn yn ddiymatal ble bynnag y bo. Am nad yw Williams yn ymdrechu'n ymwybodol fodernaidd am newydd-deb syniadol, llithrant i'r fei yn ei ddannedd gyda rhwyddineb. Mae ef yn disgyrchu'n ôl atynt fel atgyrch pen-glin. Er na chaiff lonydd, eto, oherwydd cryfder miniog ei angerdd, a ffrwythlondeb ei ogwydd ieithyddol, yr hyn sy'n annisgwyl yw mor ffres y gall ei fynegiant fod hyd yn oed yn y rhigolau hyn. Mae'n amlwg ei fod yn gwir brofi egni'r teithio llethol mewn bywyd allanol (a mewnlol) ac yn cael ei wefreiddio yr un pryd gan nwydusrwydd ei serchiadau at ei Arglwydd hoff.

Nid tasg y gyfrol hon yw arolygu amllder nac amrywiaeth chwaith ei Fotiffau posibl, na hyd yn oed y rhai dethol ailadroddol. Eithr, caiff y ddau hyn eu lle yn y stori am eu bod yn gymorth enghreifftiol nid digroeso, yn y bwriad arbennig sydd gennyf yma i bwysleisio undod y rhan fwyaf cyffredinol a chanolog o'r hierarci yn y wedd hon ar y drafodaeth, ac i geisio gosod gerbron amlinelliad o'r amgylchfyd cyfan yn yr unedau thematig lleiaf. Maent hefyd yn dadlennu yn amlwg grynder cyfannol yr adeiladwaith meddyliol oll. Ffuriant gyd-destun hwylus ond treiddgar ryfeddol i'w gyfundrefnu parotaf. Plant bach Thema ydynt.

*

*

*

Diau mai emynau grŵp *Agape/Eros* (gan dderbyn y cyntaf ac ymwrthod â'r ail o'r ddau 'gariad' hyn) yw'r garfan fwyaf arddelus a ganodd Williams ar hyd ei oes. Credaf fod delwedd y Carwr neu'r Priod iddo yn ffurfio cyfundrefn ddiwinyddol rymus hefyd am ei bod yn fodd safonol yn yr Ysgrythur o ddiffinio perthynas Crist a'r Eglwys ac yn fodd mewn Cyfundrefn i gydnabod rheidrwydd yr Amryw neu Un. Crist yn caru'i Eglwys; a'i Eglwys yn caru Crist. 'Felly y carodd Duw y byd ...' Dyma'r gyd-berthynas fwyaf a all fod. O'i gyfrif ynghlwm wrth gariad, y bennaf a'r harddaf o rinweddau Cristnogol, y gellid ystyried hefyd y cyferbyniad creulon *Caru/rhyfela* yn fath o gyferbyniad negyddol cysylltiedig sy'n peri bod y cwbl hwn yn cael ei dynnu i mewn i'r cydlynid cyfundrefnol cyffredinol (cadarnhaol/negyddol) mewn Diwinyddiaeth. Ceir delwedd felly o *Grist/Cristion* fel rhyfelwr yn ogystal â Charwr. Carwr y 'cwympo mewn cariad', ac yna'n 'ceisio ffyddlondeb'.

Yn y gyd-gyfundrefn gynhwysfawr hon y bydd y delweddau hyn oll yn ymlwyn wrthi, yn ddisgybledig ac yn batrymol, y mae'r Gyfundrefn aruchel *Duw/dyn* neu *Duw/creadigaeth* yn grynobwynt cadarn. O fewn cylch 'Cariad', rhaid cyfrif yr elfennau *Agape* (Lladin, *caritas*) *Philia/Eros* yn glwm diffiniol gyferbyniol. Deuwn yn gyfarwydd â *philia* mewn perthynas â chymydog (1 Cor: 13). Cawn felly thema carwriaeth amrywiol ynghyd â delwedd y carwr neu Fotiff *dyn mewn cariad â Christ*. *Agape* yw'r eithafbwynt. Eto, nid drwyddo Ef ac unffordd yn unig, tuag i waered y mae Duw yn gariad. Oherwydd tarddiad y cariad hwnnw, mae ein cariad ninnau tuag i fyny yn dod yn debyg.

Nid yw *eros* (sef cariad hunanol) byth yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl: synwyruswydd adfeiliol (*decadent*) yw, sydd heb gael ei ddyrchafu. Ond mewn priodas gyflawn, cariad (*agape*) a geir gyda'r naill yn ceisio lles y llall, mewn corff, meddwl, ac ewyllys. Hynny a fynegir gan Bantycelyn yn ôl analog Caniad Solomon:

[gwaith y nwydau yn drosiadol] *Rwi'n chwennych gweld ei degwch ef ...*

[golwg] *Gwyn a gwridog hawddgar iawn ...*

Ceir trafodaeth fywiog o ddelwedd y carwr gan T. J. Morgan yn YB VI 98 yml., lle y pwysleisia, yn rhyfedd iawn efallai, ond yn ddealladwy, fod profiad yn dod yn gyntaf, y serchiadau yn ymbalfalu am fynegiant, ac yna'r ddelwedd yn brysio o Ganiad Solomon, i'w gwasanaeth. Ceir un ar ddeg o emynau mewn un rhediad wedi'u hysbrydoli gan y Caniad GWP II, 333-337. Gellid ychwanegu —

[pâr o fotiffau]	<i>Iesu, difyrrwch fy enaid drud Yw edrych ar dy wedd, Ac mae llythrennau dy enw pur Yn fywyd ac yn hedd.</i>	[y profiad] [yr effaith]
Ac eto:	<i>Enynnaist ynof i dân ... Mae caru Mhrynwr mawr ... Wel dyma'r gwrthrych cun ...</i>	[y profiad] [y ddelwedd]
Neu eto:	<i>Mae tegwch dy wyneb pryd Yn maeddu oll i gyd ...</i>	[y profiad a'r ddelwedd]

Ac wrth gwrs, delwedd yr Eglwys yn briodasferch —

*Dacw'r Brenin yn ei degwch,
Wele ei Briod wrth ei glun ...
Priod-ferch Iesu tan ei nod
Sydd iddo erioed yn ffyddlon.*

Mae hyn yn GWP II, 158 yn agor cyfres arall yn ôl Caniad Solomon. Gweler hefyd sylwadau Glyn Tegai Hughes yn *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*, gol. D. Llwyd Morgan, 45-46. Y mae pob un o'r rhain yn Fotiff ychydig yn wahanol ac eto'n ailadroddol o'r un gyfundrefn Thematig leiaf, sydd hefyd yn un o'r Archgyfundrefnau, wedi'i chlymu gan *Gariad/Serch, Duw/caru/dyn*. Priodol yw sylwi fel y mae cyfeiriadaeth Feiblaidd yn fwy na ffurfioldeb, ac yn dod yn feddiannol, yn brofiadol gyd-deimladus, ac yn ysgogiad diriaethol.

* * *

Pe gofynnid — ymhle yn union y caed y ddelwedd fwyaf hunanddiffiniol ond cyffredinol a rhamantaidd i lawer ohonom o Williams ei hun fel 'bardd', atebwn, ar ryw olwg, mai fel emynydd serch o fardd gwlad. Mae'n codi'i olygon at y gwrthrych anweledig. Ac ef, yn y manau hynny ym mhersona'r Carwr, yw'r bardd tebycaf sy gennym o ran tinc a thelynegrwydd i Bobbie Burns ar ei orau ond bod lleoliad y serch yn wahanol. Nid yw Williams yn disgleirio bob amser (mwy na Burns), nac yn dymuno disgleirio oherwydd crafter gweledigaethus annisgwyl ei ddelweddaeth ffres. Yn union fel y canai Burns yn soniarus yn ôl trefn sefydledig delweddau gwerinol a threuliedig, megis 'My luve's like a red, red rose' ac yn y blaen, felly y canai Williams oherwydd llwyddiant gwefr seiniol unionsyth

o syml a'r ddawn i ganu'n dirion loyw ac i wybod rhythm y gân yn ei esgyrn. Y mae didwylledd ieithwedd felys blaen y sbonc hiraethus ddofn felly yn cydio yn y cynnwys cyfarwydd, ie yn y meddwl cynefin pur ac elfennaidd hwn ynghyd â chryfder pyncio croyw glân nes creu argraff wefreiddiol. Oherwydd asio trydanol rhwng teimlad eithafol a rhedegfa mydrau medrus, y mae'r gwir fardd ynddynt yn gallu clymu geiriau sy'n cyrraedd hyd y mêr: felly Burns a Williams. Mae'r awyrgylch o *gân* ganddynt eu hunain, yn wreiddiol, er gwaethaf eu pwyso hwy ar eraill ar draddodiad a chynefindra digon cyffredin. Ond y mae Williams yn mynd un cam ymhellach na hynny wrth gwrs, a cham troadol yw hyn i ddimensiwn dyfnach, i gân sy'n fetaffusegol hefyd o fewn cyfundrefnwaith hierarcaidd o feddwl bob dydd.

Mae fframwaith panoramig ei gefndir meddyliol yn rhoi dimensiwn mwy cyrhaeddbell byth iddo.

Symudwn yn awr o'r cofleidio fertigol hwn at y daith lorwedd.

Unwaith eto bu ei ddelweddaeth yn y bôn yn weddol 'ystrydebol' neu gyfarwydd, yn fynych heb feiddgarwch crebwyll. Dyma dro cyfangwbl draddodiadol, Beiblaidd a chwbl ddisgwylidig. Dyma sythwelediad cyfarwydd. Ac eto, yn yr un modd megis gyda'r troadau trydanol mewn canu serch syml, oherwydd y cywair didwyll soniarus, mae yna gyfaredd hyd yn oed yn yr arferiadol yma. 'Mi dafla 'maich ...' Nid yn unig yn y didwylledd ar ei ben ei hun. Nid wyf yn credu bod 'didwylledd' *cyffredinol* o raid nac yma nac acw mewn barddoniaeth: didwylledd *arbennig* yw ynghylch dyfnder a thrwy iaith fyw yn y Mynegiant achlysurol. Didwylledd gerbron y weithred farddoni sy'n bwysig, boed mor ddychmyglon ag y bo. Dyna sy'n cyfrif i'r gwerthuso praffaf. Eto, gall ci sy'n cyfarth fod yn ddidwyll. Eto, y didwylledd o fewn y cyd-destun barddoni, yn y parch a'r ffyddlondeb yng ngŵydd y gân, yn yr ymadroddi, dyna sy'n symud ei ganeuon serch i'r amgylchiadau ysbrydol newydd neu i'r berthynas agos ac angerddol â Christ. O fewn cyd-destun athrawiaeth ddofn felly, dyna droad disgwylidig ddigon sy'n dyrchafu'r weithred o ymserchu ac o deithio yn ddisyfyd ynghyd â holl gynnwrf y corff ieithyddol yn annisgwyl o fewn cyfundrefnwaith diwinyddol cyfoethog ac i wastad barddonol ymhellach o dipyn nag y cyrhaeddai Burns byth. Profwyd dyrchafiad ym meddwl Williams, ac fe'i sianelwyd drwy lwch y llawr. Ac felly y ffurfiwyd ei hoff lenddull.

Bardd gwlad ardderchog yw Williams i'r darlennydd sydd heb gynddaredd rhagdybiau gwrthwynebus oherwydd cywair croyw melys ei grefydd. Ond, o wyro'r cyd-destun corfforol hwnnw'n llwyr fel y gwna, symudir i gyd-destun ysbrydol treiddgar aeddfed, ac i gyfundrefneg thematig gydlynol diwinyddol. Hynny yw, o gysylltu'r profiad o fyd corff â

byd meddwl ac mewn amgylchfyd o bethau mwyaf eithafol bywyd, a thrwy lawnder myfyrdod cyfundrefnol mawrhydige oesol a gynhwysai amllder o gyfundrefnau diwinyddol (rhaid digon cynefin eto), megis y rhaid a drafodir yn y gyfrol hon, dyrchafai Pantycelyn ei ganu 'gwerinol' syml yn sydyn i gymhlethrwydd cras-iach o ryfeddol. I fawl gwefreiddiol.

Ond gyda delwedd gyfarwydd arall, a'i gyfrif yn faledwr o bererin nefol, ar ei hynt o hyd yn ei helbulon personol, ymgyfyd troad i mewn i fframwaith o gyfundrefnau meddyliol sy'n ei symud yn benodol i ddimensiwn yr Arfaeth ddatblygol. Try o fyd priodol y baledwr medrus i fod yn fardd myfyriol dwys nad yw'n colli dim o soniarusrwydd union syml y cantor personol ar hyd taith bywyd. Ac mae cydlyniad dyfnder ei feddwl yn rhannol gyfrifol. Dyna i mi yw gwerth sylweddoli cysylltiadau'r cyfundrefnu diwinyddol.

Canu gwerin serch fu yn ei ganeuon Solomonaidd; ond rhan oeddent o 'Deyrnas' frenhinol. Caneuon baledol pererin yn y wlad sydd yn ei emynau teithiol, ond unwaith eto mewn dimensiwn rhyfedd. Mae ganddo gyfanrwydd aeddfed o ddyfnder amlochrog a finiogwyd gan ganrifoedd o hogi gan ddeallusion dwys. A dyna mi gredaf, y lle y ceir ail gamp fwyaf Williams.

Gwahanol o ychydig yw camp y ddwy arwrgerdd. Clywir ar dro yn y rhain y soniarusrwydd datseiniol melys o'r newydd. Ond nid dyna'u cryfder, er bod hynny'n angenrheidiol. Fe'i clywir yn hytrach yn codi i'w nerth drachefn yng nghynllunwaith y meddwl (a drosir weithiau yn serch). Ac yn nyfnder perseinedd ambell rediad myfyriol, eto'n ddisgybledig. Dyma ganu cyfundrefnwaith athrawiaethol panoramig drefnus. Unwaith eto, nid yr athrawiaeth na'r profiad sy'n llachar o newydd. Ond troi y mae o bryd i'w gilydd yn fynegiant personol fyw. Dyna sy'n ei harbenigo. Dysgeidiaeth bensaernïol ysblennydd a oleua'n serchiadau ffres drachefn yw. A'r cyfuniad hwn o gynnwys cadarn ac o brofiad gwefreiddiol, a hynny mewn ieithwedd gyfewin wyrff, hynny sy'n rhoi yma ac acw i'r arwrgerddi hwythau eu pwysigrwydd. Rhydd inni wedd arall i werthfawrogi mawredd emynau Williams ac i fwynhau gorchest ei gân. Goleua hefyd gryfder cefndirol ei waith i gyd.

* * *

Dichon mai uchafbwynt awenyddol y rhes ryfeddol o emynau pererin, sydd gan Williams, oedd yr emyn 'Mi dafla' maich'

GWP II, 175

*Mi dafla 'maich oddiar fy ngwar
Wrth deimlo dwyfol loes;
Euogrwydd fel mynyddau'r byd
Dry'n ganu wrth dy groes.*

Mae'r emyn hwn, un o delynegion perffeithiaf yr iaith yn ôl y dyneiddiwr ymoleuol J. Morris-Jones, yn sôn am y berthynas â Christ ym mhob pâr o linellau. A chan sôn hefyd am lawnder y derbyniad, mae'r emyn yn uchafbwyntio mewn gorfoledd.

Gŵyr pob Cristion am brofiad paradocsaidd y ddwy linell olaf yn y pennill a ddyfynnwyd. Mae Williams yn gallu gwneud pethau syfrdanol felly'n bur aml allan o'r hyn sy'n dramgwydd:

*Yr hoelion geirwon caled gynt a'i trywanodd E',
Sy'n awr yn dal y nefoedd gwmpasog yn ei lle.*

Eto, ceir motiff mewn cwpled o welediad diriaethus sy'n cyferbynnu'n swrealiaidd bron; neu'n baradocsaidd gyferbyniol:

*Clywed dy riddfannau chwerwon
Wnaiff i'm henaid lawenhau.*

Diau, beth bynnag oedd y profiad benthyc gan Bunyan, fod Williams wrth grwydro'r miloedd o filltiroedd yng Nghymru, ac yn ei enaid ei hun, yn gallu canu gydag arddeliad, a chan rithio'r daith honno'n fwclis o fotiffau: 'Pererin wyf mewn anial dir,' 'Arglwydd, arwain trwy'r Anialwch,' 'Llwybr cul gwna yn llwybr esmwyth,' 'Mi deithia'r anial dir,' 'Gan ddringo creigydd mawrion serth,' ac yn y blaen. Mae gan T. J. Morgan drafodaeth fywiog olau ar y ddelwedd hon eto yn YB VI, 99-102.

Pan soniwn am y ddelwedd hon o deithiwr, elfen ddelweddol arall neu fotiff arall a ddaw i'r golwg yn gyffredin ar y daith yw'r rhwystrau neu'r maglau. Yn hyn o beth y mae'n ymdebygu i glerwr arall, Dafydd ap Gwilym, gyda phennill sy'n paru llinellau i adeiladu rhediad o fotiffau:

GWP II, 275 *Gorchudd ar dy bethau mawrion
Yw teganau gwag y byd,
Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd
Yw'm pleserau oll i gyd;
Gad i'm gloddio trwy'r paradwydd
Tewion, trwodd at fy Nuw,
I gael gwel'd trysorau gwerthfawr
Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.*

Oherwydd bod delwedd y Pererin o Gristion, ym mryd Seiadau Pantycelyn, siŵr o fod wedi peri i'r credinwyr newydd deimlo eu bod hwythau rywfodd eisoes ar daith debyg i'r hen genedl, mae yna elfen o orfodaeth inni ystyried delwedd y teithiwr o fewn cyd-destun cysgodeg Crist yr hen Israel a'r Israel newydd, a chawn ddychwelyd i hynny ymhellach ymlaen. Delwedd nid annhebyg, 'teithiwr gyda'r rhwystrau', yw'r hyn a geir yn cynnal cynllun pob un o'r *Tair Rhamant* hwythau. Math o gynddelw yw, sydd mor agored am ei bod yn cynrychioli patrwm bywyd mewn amser i bawb ohonom. Does dim syndod bod Cymru'n

ei huniaethu'i hun ag Israel ar ei thrafael, a bod hanesydd fel Charles Edwards yn canfod o hyd y naill yn ddrych i'r llall.

Y motiff hwn o Bererin tua'r wlad yw'r un y gall y rhan fwyaf o'i ddarllenwyr (neu'i ganwyr) ei ddelweddu drostynt eu hunain. Yn fwy hyd yn oed na'r emynau serch, efallai, y mae'r testun hwn yn peri i bawb ymwybod ag undod datblygol llawer emyn, weithiau gyda dechrau, bob amser ar ganol, ac yn cyson arwain at gyhaeddbwynt. Mae cymhlethrwydd a safleoedd y daith yn bur amrywiol. Ond yn y dosbarth hwn o emynau y mae hi fel pe bai ef wedi darganfod cyfanrwydd cydlynol ac aeddfed yr emyn crwn rhwng dechrau a diwedd. Bu'r naratif wrth reswm yn gymorth dibynnol iddo mewn Sancteiddhad.

Dechreua yn gynnar ar ei ddefnydd o'r ddelwedd hon, ym mhennill cyntaf yr ail emyn yn *Aleluia*. Y pumed hyd y nawfed wedyn yw'r emynau cyflawn cyntaf a drafoda'r ddelwedd mewn modd unol. Felly hefyd yn ail ran *Aleluia*, emynau 1-4, 7; ac yn y drydedd ran 1-2, 4, 7-8. Sylwer yn A III mor amlwg yw dysgeidiaeth 'Dyfalbarhad y Saint', sef yr athrawiaeth sydd ynghlwm wrth ran helaeth o'r Arfaeth ac yn sicr wrth gyfundrefn thematig y teithiwr. Ac felly ymlaen ar ei yrfa. Os blina ei gorff ar y daith, ni flina'i lais.

Er bod hiraeth am 'le' penodol yn y cerddi hyn, ac elfen o ffeidd-dra at y maglau, ynghyd â gorfoledd ym mhen draw'r siwrnai, dichon fod llai o deimlad mewn rhai ohonynt nag a gaed yn y cerddi serch mwy personol. O leiaf, mae'r blinder yn wahanol. Fe geid hyd yn oed cynllun naratif cymharol sefydlog i'r Motiffau, nid annhebyg i'r un a nododd Bleddyn Huws ar gyfer y cywydd gofyn. Cymerer emyn I yn *Aleluia V*:

- (a) Annerch a moli'r Noddwr a'r Nod: *Duw/Iesu*;
- (b) Gweld y Cartref o bell,
- (c) Ffarwel â'r byd; maglau'r byd ar y ffordd. Delwedd neu fotiff y Rhyfelwr,
- (ch) Cyrraedd Salem/Gwledd, cwmnïaeth y Seiat, a'r Noddwr Iesu.

Dyma batrwm y bu Pantycelyn yn ei wau drosodd a thro, nid yn annhebyg i'r ail-wau sanau a ganfu T. J. Morgan yng ngherddi'r Gogynfeirdd. Mae Motiff a delwedd y teithiwr yn amrywio — cyd-destun Cymru a'i mynyddoedd a'i stormydd, cyd-destun yr Aifft a Chanaan a'r anialwch, cyd-destun y môr, — ond yr un yw'r Motiff sylfaenol, a ddelir wrth ei gilydd gan Gyfundrefn Thematig mewn Mynegiant.

Tybiaf fod pwyslais y cynllun yn cryfhau mewn un modd wrth i'w yrfa flynyddol fynd yn ei flaen, gan mai yn *Gloria in Excelsis* y mae pen y daith yn dod hyd yn oed yn amlycach ei orfoledd.

*

*

*

Pletha'r daith â delweddau eraill, ac felly y mae'n dwyn arni'i hun gyd-destun ychwanegol. Wrth gael ei gorfodi i frwydro yma ac acw ar y daith, gwelw'n fel yr ymgysyllta delwedd y Teithiwr â delwedd y Rhyfelwr, a'r naill a'r llall o bosib wedi gwreiddio yn fframwaith *Duw/dyn* a'r Arfaeth. Gellir o fewn yr un gyfundrefn honno gael wrth gwrs symudiad negyddol neu ynteu gadarnhaol. Ceir gwreiddyn i'r ail ddelwedd (ymhlith manau eraill) yn eglur groyw a newydd yn yr *Epistol at yr Effesiaid* 6: 10-20 ac yn *Iago* 4:1-5. Ond cyfundrefnol gyferbyniol yw o hyd: *colli/ennill*; a rhaid cofio eto fod y delweddau hyn oll, gan eu bod yn ymwneud ag egwyddorion dwfn a chynddelwaidd yn y natur ddynol, yn ymgysylltu â chyfundrefnau 'syniadol' eraill. Felly, y mae'r dosbarth mawr o gyfundrefnau sy'n dibynnu ar wrthwynebiad neu wrthdrawiad negyddol, yn hytrach nag ar ddatblygiad, estyniad, neu gadarnhad, oll yn darparu fframwaith o fath goruwchnaturiol hefyd. Dyma darddiad cyfundrefnol y ddelwedd honno: *Duw/Satan*; Yr hen ddyn/y dyn newydd. Nid yw yn gweld hyn yn gynefin amhriodol: (*Ffarwel Weledig*, 1763) :

*Yn y rhyfel mi arhosa',
Yn y rhyfel mae fy lle.*

Er bod pob un o'r delweddau y lled gyfeiriais atynt hyd yn hyn, — y Carwr, y Meddyg, y Pererin, y Cerddor, a'r Rhyfelwr — yn berthnasol i Williams yn bersonol, yr oeddent hefyd yn arwyddocaol i'r Seiadwyr, bob un. Er mai'r Pererin, efallai, oedd yr un a ddefnyddiai ef amlaf ar gyfer y Seiadwyr, credaf mai'r ddelwedd o Garwr (a'r motiffau cysylltiedig) oedd y fwyaf hoff a'r fwyaf grymus i Williams ei hun.

Gafaelodd yn y ddelwedd o garwr yn *Aleluja*, rhif 1, 1744: 'Iesu, 'Mrenin mawr a'm Priod.' Ond yn y gyfrol *Môr o Wydr*, 1762 y mae'n ymagor drwy roi'r Carwr o fewn cyd-destun y Daith, a'r motiffau yn cyd-wau:

GWP II, 132 *Ar fy nhaith, ni cheisiaf genyt
Ond yn unig dy fwynhau.*

*Ac ni cheisia'i drysor arall
Ond Tydi tr'wy' yn y byd ...*

Dyna enghraifft gyda llaw o aralleirio neu ailadrodd motiffaidd, yn ôl y dull Hebreig. Sylwer: y Carwr sydd ar daith gydag ef. Tuag at Gariad yr â felly, ond gyda Chariad.

GWP II, 133 *Dacw'r Brenin yn ei degwch,
Wele ei Briod wrth ei glun ... (priod = eglwys)*

GWP II, 133-4 *A oes neb o'm holl gyfeillion
A ddaw'n ddiddig gyda mi,
Ac a orwedd wrth fy ochr
Obry yn y ddaear ddu? ...*

[Aralleirio yn ôl barddas yr Hebraeg eto]

*Tan y nef ni thâl ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw.*

Yr oedd motiff y Carwr felly yn sianelu'r daith tua'r nod. Dyna'r uchafbwynt emosiynol, meddyliol, ac ewyllysiol.

Mae cwmniaeth bersonol yr Arglwydd fel hyn yn gwednewid diwedd pob taith gyflawn. Rhed Pantycelyn felly drwy rychwant helaeth o fotiffau. I mi, y gân serch fwyaf effeithiol ym *Môr o Wydr* yw 'Cheisiais, Arglwydd, ddim ond hynny'. O'r ail bennill ymlaen, mae'r cwbl mewn cywair gorchmynnol, a beiddgar hefyd — gan mai Duw yw'r gwrthrych. A'r diben sy'n diffinio peth o ansawdd y daith.

Yn *Ffarwel Weledig* 1763 yml, mae'n tywallt ei galon, ac yn cyrraedd gwastad angerddol o fynegiant cariadus sy'n arwain at nifer o emynau praff na chafwyd mo'u tebygerioed yn y Gymraeg namyn fe ddichon, mewn dyrnaid llai o emynau gan Ann Griffiths. Y gwmniaeth hon ar y daith sy'n ei gwneud yn felys. Efallai mai'r emyn 'Rwy'n dy garu er nas gwelais' yw'r mwyaf aeddfed gyfoethog o'r emynau hyn. Ond gyda hynny, y mae 'Gwyn a gwridog yw fy Arglwydd'. 'Cymer Iesu, fi fel ydwyf', 'Rwy'n dy garu, Ti a'i gwyddost' ynghyd ag 'Iesu, Iesu, 'rwy'ti'n ddigon'. Ymgyrraedd y mae. I mi, y mae'r rhediad hwn oll yn dynodi'r uchafbwynt estynedig, cynaledig pwysicaf yn y farddoniaeth Gymraeg a gafwyd ar ôl Dafydd ap Gwilym. Ond nid yw'n gorffen yn y fan yna, estynnir y rhediad eneiniedig hwn ymlaen ymhellach i *Gloria in Excelsis* 1771 'Iesu, nid oes terfyn arnat', 'Arnat, Iesu, boed fy meddwl', 'O! Llefara, addfwyn Iesu', 'O! nefol, addfwyn Oen', ac yn 1772 'Iesu, difyrrwch fy enaid drud', 'Rwy'n edrych dros y bryniau pell', 'Chwilio amdanat, addfwyn Arglwydd'. Ac yna yn yr ychwanegiad i argraffiad 1773 o *Môr o Wydr* 'Rwy'n chwennych gweld ei degwch Ef', ac yn *Rhai Hymnau Newyddion* 1781 'Gwyn a gwridog, hawddgar iawn'. Mae'r cwbl yn rhyfeddod afieithus. Yn y rhain, ar lefel uchel o Fynegiant hwyliog, mae yna elfen o ymollwng diymyrraeth. Eithr, ambell waith, ceir tyndra dramatig yn y caru mawr personol hwn, mae'r rhyfelwr yn ymyrryd â'r carwr, fel y bydd y pererin yn gweld y carwr yn bell ac yn ohriedig ar ben y daith. Felly, yn *Ffarwel Weledig* 1766, yn y dull Hebraeg eto:

GWP II, 241 *Beth yw'r achos bod fy Arglwydd
 Hawddgar, grasol, yn pellhau?
 Neu yn guddiedig, neu yn gyhoedd
 Mae rhyw bechod yn parhau...*

Taith tuag at garu'r Arglwydd yn llawn fu hon er gwaethaf maglau pechod.

wedi symud rywfodd hefyd, oddi wrth y disgwyliad tuag at y sylweddoliad, o'r dyfodol i'r presennol:

GWP II, 88

*Wrth droi fy ngolwg yma 'lawr
I gyrau'r greadigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan
Ond Iesu i bwysu arno'n rhan.*

*Dewisais Ef, ac Ef o hyd
Ddewisa' i mwy, tr'wy' yn y byd;
Can' gwynfyd ddaeth i'm henaid tlawd,
'Gael Brenin nefoedd i mi'n Frawd.*

*'Nghysuron oll oddiwrtho dardd,
Mae'n Dad, mae'n Frawd, mae'n Briod hardd;
F'Arweinydd llariaidd tua thre',
F'Eiriolwr cyfiawn yn y ne'.*

[Hoelir sylw mwyach ar fotiff 'perthyn i Iesu' nawr.]

Ni chredaf fod awyddu am farw yn norm ymhlith Cristnogion heddiw oherwydd teneurwydd crediniaeth. Ond pan aeddfeda ymwybod diriaethol o brofi agosrwydd Crist ac adnabyddiaeth gyson fyw ohono, y mae hyn yn digwydd ar lefel eithriadol, hyd yn oed heddiw. Ac er cefnu ar ormodedd *Aleluia*, daliai Williams yntau eto i hiraethu am ymddatod ar hyd ei oes.

Serch hynny, symudwyd pwyslais Pantycelyn oddi wrth ei anghenion a'i brofiadau'i hun i ganolbwyntio ar y Mab, yn gymaint felly nes ei fod yn ail linell y trydydd pennill, yn sgrifennu un o'r darnau hynny a fu'n achos i rywrai ystyried y bardd yn euog o heresi (yn yr achos hwn — Eutychiaeth: sef cymysgu'r personau). Yn sicr, person cynhwysfawr Crist yn awr sy'n mynd â'i fryd. Dyma gyfnod *Golwg ar Deyrnas Crist*. A'r tu ôl i hynny, caed profiad mwy byw o lawer o realiti presennol y person dwyfol hwnnw, a serchiadau mwy llachar. Mae'n sôn amdano bellach fel 'f'Anwylyd'. Mae ef ar unwaith yn sylwi bod hyn oll yn ddirgelwch yn niogelwch y Motiff Tri-yn-Un:

GWP II, 95

*Mae yno Dri Pherson yn bod,
Ac eto eu sylwedd ond Un;
Gogyfuwch mewn gallu a chlod,
I wared plant Adda'n gytun;
Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sy',
Rhy fawrion i chwilio hwy 'mlaen ...*

Sonia bellach am 'Ei degwch pryd, a'i fwynder'. Ac y mae'r canfyddiad mwyach o harddwch yr Arglwydd yn elfen a weddnewidiodd ei fywyd ysbrydol i Williams, gan ddyrchafu ansawdd esthetig ei waith hefyd.

GWP II, 98-9

*Hardd yn ei Dduwdod yw Efe,
Mae'n llanw ne' a daear;*

*Hardd yw ei Ddyndod, ni fu mewn oes,
Neu'n awr nid oes o'i gymhar.*

*Hardd yw ei ddoniau o aneirif ryw,
A'i swyddau yw f'Anwylyd;
O Galfari i Gethseman' ardd
Mae E oll yn hardd a hyfryd.*

*Myrddiynau a losgwyd (braf eu rhan!)
Yn ulw gan elynion,
Myrddiynau mwy ddyoddefai ar g'oedd,
Gan hardded oedd ei Berson.*

*Ni welwn degwch yn ein Duw
Dan boenau o'r rhyw eitha';
Yn deg ei bryd pan crymai ei ben
Wrth farw ar ben Calfaria.*

Yn fuan, ar ôl hyn, y mae ef yn cynnwys dau emyn 'sacramentaidd'. Ac yma, yn yr ail, mae'n nodedig ei fod yn sôn ddwywaith am 'wedd' yr Arglwydd. Yna'n fwy annisgwyl byth efallai, gan gplysu dau fotiff: 'gwelir' yn y cofio:

GWP II, 100 *Cawn fwyta ei gnawd (wel dyna rad!)
Ac yfed gwaed yr Iesu,
P'odd gall ein c'lonnau ni bob rhai
'N dragywydd lai na'i garu?*

Hyn oll a wneir 'er cof amdano'. Mae'r cof yn troi'n weld, y ddelwedd yn diriaethu. Ceir tri emyn olynol i hyfforddi'r cof: (1) *Edrychwn* draw ar Frenin hedd, (2) *Gwêl* draw fy Mrenin ar y pren, (3) Fy enaid, *gwêl* dy Brynwr mawr. (*Hosanna i Fab Dafydd* III, 1753)

Nid oes, am wn i, unrhyw hawl gan yr *holl* bersonoliaeth, gan gynnwys y dychymyg, y cof, y rheswm, na'r ewyllys a'r teimladau, i beidio ag ymateb yn gyflawn i'r ddelwedd Gristnogol o Dduw ac i'r sylweddoliad o'i bresenoldeb. Ond sylwer, mae Williams yn y fan hon yn herio'r 'enaid' i *weld*: hynny yw, ystyria ef mai dyma ran ganolog o swyddogaeth yr 'enaid' (o'i gyferbynnu â'r llygaid cnawd neu â'r ysbryd). Mae hyn yn *fotiff* blaenllaw ac ailadroddol bellach yn ei waith.

Yr hyn a'm tery i yw bod Williams yn yr emynau *Hosanna i Fab Dafydd* (a gynhwysir gan N. Cynhafal Jones, *Gweithiau Williams Pant-y-Celyn*, II, 78-126) wedi gwneud cam bras ymlaen at yr emyn personol. Roedd *wedi* cael 'cyfarfod hyfryd iawn'. Ac ymledodd ei themâu yn sgil hyn. Daeth tinc o orfoledd pur i'w lais nas clyw-wyd odid erioed ynghynt. Daw delwedd y Priod o'r herwydd yn amlycach, yn arbennig ar ben y daith.

Bu'r delweddu gafaelgar hyn, oherwydd dyfnhau'i ddealltwriaeth o ddiwinyddiaeth a'i ymwybod o gyflawnder cydlynol y cwbl, tan y gwefreiddio gan ei ddeallusrwydd a'i synhwyrau, yn gyfrwng iddo dyfu mewn 'perthynas' bersonol.

*

*

*

Er nad dyma'r lle i draethu'r feirniadaeth lawn, o safbwynt ieithyddiaeth, ar athroniaeth Ludwig Wittgenstein (1896-1951), y mae ei sylwadau i gyd yn berthnasol i'r lefel ieithyddol a llenyddol hon yr ydym yn ei thrafod ar hyn o bryd. Cynigiai prif athronydd yr 20fed Ganrif (ym mryd rhywrai), theori am iaith fel 'defnydd' (*usage*) yn unig. Roedd defnydd yn amlwg bwysig. Ond roedd hi fel pe na bai gan iaith ystyr onid mewn amgylchfyd neu gyd-destun Mynegiant, yn gwbl groes i'r ffaith a'r profiad amlwg fod gan bob gair botensial a chyfundrefnwaith *yn y meddwl* o flaen llaw cyn ei ddefnyddio. Mae'r potensial hwnnw (Arwyddedig I) eisoes yn y meddwl am ei fod yn ystyrllon ar ffurf sy'n caniatáu i'r gair hwnnw amgylchu unrhyw ystyr unigol briodol mewn defnydd. Mae'n cael ystyr oherwydd perthynas strwythurol yn y meddwl â'r holl iaith. Wedi adeiladu'r potensial mewn *langue* (Tafod), yna mewn Mynegiant goleddfir y 'gair' gan gyd-destun, (Arwyddedig II). Ond pe na bai potensial i'r defnydd yn bod yn y meddwl, nid yn unig byddai'n rhaid llunio'r gair ar y pryd i'w ddefnyddio o'r newydd bob tro; ond ni byddai modd ar gael i'w rannu eisoes gydag eraill. Rhaid iddo fod ym meddwl deuddyn eisoes fel y gellid ei ddefnyddio i gyfathrebu. Mae iaith yn gorfod cynnwys Tafod a Mynegiant, y potensial yn y meddwl yn 'sefydlog' gyffredin, a'r effeithiol amrywiol yn yr achlysur.

(gw. hefyd *Language, Saussure and Wittgenstein*, Roy Harris, 1990).

Llawn yw gair hefyd o ramadeg anweledig. Hynny yw, nid aeddfeda'n air heb gynnwys ynddo'i hun, yn botensial, gyfundrefn y Rhannau Ymadrodd sydd ar gyfer Mynegiant gweithredol.

Wrth gwrs, nid geiriau unigol yw iaith, ond gramadeg a geiriau. Pan ddefnyddir gair yn allanol, pwyso a wna ar ramadeg anweledig. Heb yr anweledig, ni chaem ddefnyddio'r gweledig.

Yr achos dros feddwl yn nhermau *motiffau* unigol yn nherfyn trafodaeth ar Hierarci Deunydd fel hyn, yw'r herio a geir gan Ôl-foderniaid titbitlyd. Gorbwysleisir y rhan fechan. Yr amlwg. Dyma berygl ymaros hefyd gyda syniadaeth Wittgenstein wrth drafod crefydd. Ymwahanu fu'r gogwydd ffasiynol yn ei ganrif ef. Ond gogoniant Hierarci'r meddwl uwchffasiynol yw cyfanrwydd a chyfeirio diwedd canrif Williams. Nid mwclis o addurnau gwahân yw hyn. Mae'r gyfundrefn o gyfundrefnau yn gron yn trefnu'r helaethrwydd o osodiadau.

Yr wyf am grybwyll tri o gysyniadau Wittgenstein wrth ymdrin â *motiffau*. Y cysyniad o osodiad 'atomaidd' yw'r un cyntaf. Dyma'r disgrifiad lleiaf o unrhyw beth sydd

i'w gael. Enw a gynnal osodiad. Ond wedi'i nodi, sonia Wittgenstein am wahanol foddau o'i ddatblygu'n gymhleth. Prif ddi-ddordeb y cysyniad hwn i mi oedd ei haeriad mai cyfanswm o osodiadau yw'r disgrifiad priodol o'n dealltwriaeth lawn o'r byd.

Yr hyn nas dywed sy'n ddi-ddorol. Iddo ef mae'r cwbl oll yn y dweud. Nid oes dadansoddiad o gyfundrefn egwyddorol gydlynol ddim. Nid oes egwyddorion cyffredinol (bwriadus). Y mae'r cwbl yn hongian allan yn y golwg ar y pryd. Pan geir gosodiadau disgrifiol atomaidd neu fotiffau o'r fath gan Bantycelyn, y mae'r rhan fwyaf o'r ystyr yn bod o fewn yr anweledig yn llythrennol. Mae yna gyfan cyd-ddigwyddiadol sy'n perthyn i ddimensiwn mwy unol. Fan yna y mae'r ffurfiau hefyd.

Yr ail gysyniad yw'r gêm iaith. Mae hyn yn sôn am 'reolau', ac am feysydd neu chwaraeon gwahanol sy'n bosibl. Ond ni wahaniaetha rhwng 'rheolau' ar y naill law a ddyfeisir ar gyfer y gêm gan ddyn, a 'deddfau' ar y llaw arall sy'n orfodol ac yn seiliol o fewn y drefn greedig barod. Yma, drachefn, y mae'r disgrifiad hierarcaidd o fywyd yn wahanol ym mryd a gweledigaeth Pantycelyn. Cais Wittgenstein (fel y gwnaeth wrth symud o'r gosodiad unigol i'r byd o osodiadau) symud oddi wrth y motiff unigol i grybwyll carfan o osodiadau sy'n ffurfio gêm, neu ffwythiant defnyddiedig crwn, nid yn annhebyg i'r modd y bu Pantycelyn drwy thema'n uno cnewyllyn o osodiadau. Ond y mae pob cnewyllyn felly'n cydberthyn i'r arfaeth oll ac yn dadlennu rhywbeth trosgynnol unol am bwrpas dyn. Hynny sy'n ei wneud yn ddynol. Hynny sy'n llunio undod. Nid oes dim y tu allan i'r undod.

Y trydydd cysyniad yw'r 'wyneb teuluol'. Mae hyn eto yn ymgais i symud oddi wrth yr unigol at undod cyffredin. Gwelir 'themâu' fel pe baent yn rhedeg rhwng motiffau â'i gilydd. Gellir eu grwpio. Ond nid ydynt yn mynd i unman. Diddorol o hyd yw trafodaeth Wittgenstein ynddi'i hun, wrth gwrs. O raid, mae'n cael ei orfodi i ganlyn ac i geisio'r gwirionedd o gam i gam, a difyr yw canfod symudiadau'i feddwl. Ond nid yw'n argyhoeddi fod yna bwrpas gwerth-chweil yn yr ymdrech hon sy'n cyfeirio'i drafodaeth. Ceir yr argraff mai trafod er mwyn trafod y mae. Achlysurol o fewn cyd-destun oedd rheolau gau Wittgenstein. Roedd a wnelo deddfau meddyliau Pantycelyn â phob cyd-destun yn amcanus. Yn yr undod y rhagorai.

Gadawodd Wittgenstein i'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth, a ganfu, ei gamarwain. Am na chanfu'r sgêm (cyfundrefn) o'r golwg, bu i'r amrywiaeth ymddangosiadol daflu llwch i'w lygaid. Gwyddom ni heddiw fwy am sgêm Pantycelyn oherwydd ein bod yn ymwybodol o gyfundrefn yr atom ym mhob Mater, am gyfundrefn y gell ym mhopeth byw, am gyfundrefn yr iaith sy'n rheoli pob dweud, ac am gyfundrefn ddadansoddi drwy bob gwedd ar fywyd ymarferol a gweithgaredd, gan gynnwys Llenyddiaeth. Ceir cyfundrefnu ym

mhobman, peth a ddarganfyddir mewn Tafod, peth a gynhyrchir mewn Mynegiant ar y pryd. Cymerer ‘*bwyd*’ — ei fitaminau a’i galoriau, a’i gyfundrefn fasnachol ryngwladol, amaethyddiaeth a diwydiannol, dulliau o goginio, y gyfundrefn dreulio ac ysgarthu, ei werth i’r galon a’r gyfundrefn waed, ei le mewn diwylliant (gyda’r celfyddydau a’r gwyddorau a diddanwch), sut y mae’n ffitio i’r gymdeithas drwy gyfraith gwlad, trethi, ac yn y blaen. Ym mhob man, ceir deddfau natur a chyfundrefnau cynhenid a gwneuthuredig. Ni welai Pantycelyn un dim heb ymwybod ag undod y cwbl. Sylweddoli hynny sy’n herio’r beirniad llenyddol ym mhob gwedd ar ei waith.

Wrth beidio â chanfod symleiddio’r amrywiaeth yn undodau cyfundrefnol, llwyddodd Wittgenstein i symleiddio drosto’i hun drwy osgoi’r wedd anweledig ar fywyd. Ond un o seiliau gwaith Pantycelyn oedd arddangos gogoniant y sgêm. Canfu ef anferthedd pellgyrhaeddol y Syml. Un wedd ar y gyfrol hon yw olrhain ei weledigaeth o’r Un.

*

*

*

Credaf felly mai’r hyn sy’n gynhenid yn natur Motiff yw bod yn rhan o gyfan.

‘Y mae’n rhaid eich bod wedi clywed am *gynllun* gras Duw, meddai Paul, yn ei Epistol at yr Effesiaid 3:2. Yr oedd ef ei hun, beth bynnag yn ymwybodol iawn mai cyflwyno hyn oedd ei waith ef: ‘I mi, y llai na’r lleiaf o’r holl saint, y rhoddwyd y rhodd raslon hon, i bregethu i’r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist, ac i *ddwyn i’r golwg gynllun*.’ (3: 8-9)

Dyma swyddogaeth ddeunyddiol y ddwy arwrgerdd yn eu perthynas ag emynau Williams Pantycelyn. Dyma drefn y Creu a threfn y Cadw. Dyma hefyd enghraifft o ddelwedd (y Cynllun) sy’n bodoli yn y Wraiddgyfundrefn (yr Arfaeth), ac a ddilynir i lawr drwy’r Archgyfundrefnau (e.e. Amryw/Un) gan arwain ymlaen at y Motiffau. En route, darpara fframwaith o bopeth.

Yn ddamcaniaethol, gallai Duw fod wedi creu pentwr o ddamweiniau digynllun. Oni bai mai Duw oedd, gallai fod wedi esgor ar chwalfa lwyr yn Ei greadigaeth, heb yr un ddeddf na chyfundrefn yn un man, fel Rhamantwr llac, heb ddim sylwedd na chynghanedd na chynnwys, fel tomen o eiriau’n wacter ystyr i gyd. Geiriau heb frawddeg. Bodolaeth heb drefn. Ôl-foderniaeth. Pam lai?

Ond beth wnaeth Ef mewn gwirionedd? Oherwydd mai Duw oedd yn annamcaniaethol, fe gynlluniodd megis pensaer y cwbl yn ogoneddus o hardd. Felly, ar raddfa lai, Pantycelyn. Fe gafodd rag-lun yn ei feddwl a fyddai’n gallu canu rhagluniaeth ei hun. Nid cynllun oer ac annynol ac amhersonol oedd gorfoledd Duw na gorfoledd y canu hwn. Nid canu’n haniaethol dlws chwaith a wnâi’r cynllun, fel cerddoriaeth a fyddai’n apelio

at ffurfiau yn yr ymennydd, nac at synwyrusrwydd yn y serchiadau yn unig. Ond canai'r cynllun yn gynnwys creadigol a olygai leoedd ac amseroedd a phobl, fel hanes byw a phersonol a thyngedfennol, gyda gwaith a phwrpas. A mawl oedd canol ystyr y farddoniaeth hon a ganai. Nid y greadigaeth, na chynllun y greadigaeth yn unig yn sicr. Cysgodau oedd y rheina. Duw ei hunan oedd canol y cwbl, wrth raid, yr hollalluog, yr Undod, y gwir gynnwys: yr Hardd, Cariad. Fe'i hargraffodd ei hun yn y greadigaeth oll, ei fodolaeth a'i gymeriad ei hun ar bob dim. Dyma un o brif negeseuon *Golwg ar Deyrnas Crist*.

Rhyfedd o gynllun. Nid patrwm amheronol oedd. Cynllun ydoedd a draddodwyd gan Berson i berson am Berson, gan Dduw i Bantycelyn. Meicrocosm o'r Macrocosm.

Canfyddwn felly i Williams Pantycelyn symud i wastadedd newydd mewn celfyddyd ar ôl *Aleluia*. Roedd y gyfrol honno eisoes wedi dangos bardd gwlad yn dysgu'i grefft, yn ennill hyder, yn meithrin ymwybod o rythm a synnwyr seiniol, yn adeiladu cyfanweithiau datblygedig. Ond yn yr *Aleluia*, bardd cymharol gyffredin ydoedd o hyd, o'i gymharu â beirdd mwyaf ein traddodiad. Pe na bai wedi sgrifennu ond *Aleluia*, buasai iddo 'le hanesyddol', fel y gellir dweud yn sarhaus; eithr ni buasai'i waith ef ymhlith y cant uchaf mewn llenyddiaeth Gymraeg erbyn heddiw.

Cododd ef i gêr newydd gyda *Hosanna i Fab Dafydd*. Cododd llenyddiaeth fodern Gymraeg gydag ef. Beth a ddigwyddodd? Dim llai na thair delwedd yn gafaelyd ynddo a'i ddwysáu. Yr oedd eisoes wedi meithrin un ddelwedd arweiniol yn o bell, y ddelwedd a fyddai'n llywodraethol drwy gydol ei waith byth wedyn, sef *delwedd y 'teithiwr'*. Hyn a olrheinai nid yn unig fywyd a hynt a helynt y Cristion cyffredin — ac ef ei hun, ond yn bwysicach, hyn a amlygai hanes ymwneuthur Duw â dyn.

Yna, dechreuai hen ddelwedd bersonol adnabyddus ddatblygu yn gynganeddus aeddfed. Sef *delwedd y carwr*. Ond troes hyn bellach yn fwy na delwedd. Yr oedd y rhyfeddod a'r edmygedd a'r addoliad, ie y cariad yn wir, a barodd iddo o'r dechrau wneud ei waith yn Grist-ganolog bellach wedi'u cynhyrfu oll i brofi angerdd personol eithafol. Nid troad oedd, yn hollol. Gwyddai nid yn unig am dywallt allan ei gariad tuag at Wrthrych Tragwyddol presennol; eithr gwyddai'n burion a'i brofi hyd y gwaelod am gariad mwy byth yn cael ei dywallt drosto'n ôl. Cariad oedd a droes yn drefn.

Awgrymais o'r blaen fod motiff y teithiwr wedi amlhau gymaint nes ymsefydlu yn fath o 'lenddull' ymhlith emynau Williams, sef 'llenddull y canu pererin'; megis llenddull 'nofel dditectif'. Bellach, y mae'n canolbwyntio'n ddeunyddiol ei fryd ar yr Arglwydd Iesu Grist, ac wrth wneud hynny cawn ddau lenddull cyfochrog uniongyrchol, sef '*llenddull serch*' gyda '*llenddull mawl*' gyda'r ail bron yn ddiddelwedd onid yn addoliad o flaen Cariad

y Brenin, yn undod. Yn yr emynau serch, yn fy marn i, y mae ef yn cyrraedd entrychion gorfoledd. Ond ceir emynau mawr eraill, mwy gwrthrychol hefyd, mwy ‘urddasol’ a mwy ‘brenhinol’ — nad ydynt yn annhebyg i hen ganu mawl y traddodiad. Dyma’i emynau gwrthrychol mawl aeddfetaf o bosib. Ceir rhai ohonynt ymhlith y rhai teithiol.

Pwysleisiaf y ddwy ddelwedd amlwg, y carwr a’r teithiwr, oherwydd eu cyswllt â’r Wraiddgyfundrefn, a’r Archgyfundrefnau Deunyddiol fertigol a llorwedd, a’r Gyfundrefn o Gyfundrefnau Thematig (e.e. *Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddiad*), hynny yw, oherwydd y trwch cyfundrefnol o fyfyrddod athrawiaethol a chynlluniol. Fe’u gwelaf yn codi meddylwaith yn deimladwaith disgybledig. Cyfoethogwyd delweddaeth a soniarusrwydd mynych Pantycelyn oherwydd cryfder eu rhan o fewn cynllun hanesyddol-athrawiaethol. Y ddwy ddelwedd hyn — y naill yn fertigol a’r llall yn llorwedd — a droes gyda’i gilydd yn amlycaf yn gynllun cynhwysfawr tuag at Fawl i’r Cynlluniwr.

Cawsom, sut bynnag, fel yr awgrymwyd, yn drydydd ac yn llai helaeth (er nad yn llai arwyddocaol), *ddelwedd y cynlluniwr, y pensaer*. Ond deuai fframwaith ei feddwl i gyd-fynd fwyfwy ag ymwybod o gynllun pensaernïol i’w holl ‘schêm’. Dyma’i drydedd ddelwedd fawr, lai ymwithiol ond yr un mor ganolog — y pensaer. Yr un a ddarganfu’r Hierarci.

Y trefnusrwydd mwyach a symudodd y bardd medrus i gywair newydd a mwy caboledig. Saernïai Arwrgerddi. Adeiladau sgaffaldiau i’w waith benbwygilydd. Ymagorodd y tair ddelwedd i gwmpasu gweledigaeth enfawr ac uchelgais newydd. Gwelodd y cynllun y soniodd Paul amdano a holl adeiladwaith Duw yn Ogoniant.

At ei gilydd, theoretig fu’r gyfrol honyma, a throdd o gylch y tair ddelwedd hyn. Carwr, Teithiwr, a Chynlluniwr (o’r dechrau i’r diwedd) hefyd, nid yn gwbl wahanol i fywyd a gwaith Pantycelyn ei hun. Ceisid amlinellu adeiladwaith cyfundrefnol amrywiol — taith drwy’r Arfaeth, drwy Archgyfundrefnau Ffurfiannol, ac i lawr i Sfferau Deunydd, gan awgrymu yn y clo cariadlon weddill y daith, sef drwy Gyfundrefn Thematig o Fynegiant mewn *Motiffau*. Darlunnid y weithred lenyddol gyflawn gan Bantycelyn ei hun fel rhywbeth a wreiddid o ran trefn yn yr Absoliwt, ond a gadwai unoliaeth ansawdd a chyfeiriad, ymlaen at yr emynau a’r arwrgerddi diriaethol a phenodol yn niriaeth eu *motiffau* lleiaf. Ond chwilio yr oedd ef o hyd am drefn. Yr ysfa hon a’i gwnaeth yn bensaer. Ac arweiniodd hyn ef, nid yn unig i batrymu dwy arwrgerdd, eithr hefyd i osod ei emynau unigol o fewn cyd-destun helaeth mawreddog.

Sut y mae trosiad — fel teithiwr neu garwr — yn medru bod — yn wir yn gorfod bod — yn gyfundrefn thematig, ac eto’n esgor ar *motiff* cyfundrefnus mewn Mynegiant? Drwy wreiddio mewn cyfanrwydd wedi’i bensaernïo.

Yr wyf eisoes wedi esbonio cyfundrefn hanfodol ddeuol i bob trosiad yn *Tafod y Llenor* 1974, 235-260, ac yn arbennig yn *Seiliau Beirniadaeth*, 1987, 341-356. Undod yw trosiad lle y mae dwy ystyr sylfaenol, yn cael eu huno: ac edrychwn ar y naill drwy lygad y llall. Gall ymflonegu'n 'symbol' neu'n 'drosiad estynedig'. Y mae'n thematig am mai cyfundrefn ystyrol sydd iddo, a'i ddeunydd ar y blaen. Ond digwydd yr un trosiad ar wasgar mewn gwahanol linellau, mewn gwahanol gyfeiriadau neu gyd-destunau neu amgylchiadau: felly *motiff* amrywiol yw ar ryw olwg, er mai *motiff* cyfundrefnus, oherwydd cysondeb yr 'ail-wau' neu'r 'ailadrodd' thematig, yn wahanol i *fortiff* cyffredin unigol nad yw'n sefydlu patrwm 'cyfystyrol'. Ac yn amllder cyson a bywyd angerddol motiffau cydweol o'r fath, motiffau a'u gwreiddiau mewn hierarci feddyliol, fe gafwyd bardd mawr.

Mae trosi'n bosibl mewn Mynegiant oherwydd bod elfen 'fytholegol' o sefydlogrwydd ar waith o du ystyr 'lythrennol' mewn Tafod. Nid newid yn unig yw trosiad. Ond os gordddefnyddir trosiad, fe baid gair â bod yn drosiad, daw'n ystrydeb, a mabwysiaada ystyr newydd.

O Frege ymlaen hyd Wittgenstein, mae yna olyniaeth o athronwyr, a oedd yn amharod i gydnabod bod yna sefydliad o ystyr mewn gair yn y pen, cyn iddo gael ei ddefnyddio. Yn y pen lle y ceir y gair 'oen' a'r gair 'rhedodd' neu 'yr', ymddengys nad oes ynddynt ystyr wahaniaethol esboniadwy, meddent. Rhaid ymddangos mewn gosodiadau a chyd-destun amgylchfyd yn gyntaf: wedyn ceir ystyr. Meddai Frege: 'Mae'r delweddu *meddyliol* y gall gair ei godi ym meddyliau llefarwr neu wrandawr yn amherthnasol i'w ystyr, sy'n gynwysedig yn hytrach yn y rhan a gymerir gan y gair mewn pennu amodau-gwirionedd brawddegau lle'i ceir.' Sylw Syr Michael Dummell ar hyn oedd, 'yn hanes athroniaeth, dyma ddatganiad ddigonol ynghylch ystyr.' Bid siŵr, cydnabyddwn ystyr y Mynegiant wrth gwrs; ond y mae anwybyddu Tafod, ar sail y manylu newydd sydd yn y Mynegiant, y cymhwyso a'r grymuso arwyddocâd yn y cyd-destun yn burion. Ond mae anwybyddu'n gyfan-gwbl fodolaeth yr ystyr botensial ymlaen llaw, fel pe na bai wedi bod nac yn cyfrannu at ystyr wedyn a'i sefydlogi'n ddiwreiddyn yr un pryd, yn gam gwag. Dilynwyd y chwalfa hon yn ffyddlon gan ffasiwn athronyddol. I Bantycelyn buasai wedi tynnu'r drefn allan o iaith. Buasai'n drychiad i ddealltwriaeth o'r meddwl dynol. Fel mor aml mewn athroniaeth ddiweddar, mae'r hyn a anwybyddir neu a esgeulusir (weithiau, oherwydd rhagdybiau diwinyddol empeiraidd) yn arwain at negydd sigledig ddi-brawf. Mae peidio â chydabod yr hyn sy'n gorfod bodoli yn gyntaf yn yr ymennydd, ac yn y meddwl cyffredin (sef Tafod), a chwarae ar yr wyneb yn unig wrth gyfathrebu, yn dra byrbwyll. Dengys Tafod fod yna reidrwydd wrth gyfundrefn a gwreiddyn cyffredinol o ystyr sy'n rhagflaenu'r achlysurol

amgrychfydol cyfnewidiol. Arweiniodd anwybyddu hyn at ragdyb gwyllt fel hwn gan Frege: 'yng nghyd-destun brawddeg yn unig y mae i air wir ystyr', ac anwybyddir natur anweledig llawer o elfennau deall i iaith. O'r un ffynhonnell y tardda Gweithredoedd heb Ffydd.

* * *

Felly bu'r drydedd ddelwedd, yn danddaearol megis, bron ynghudd. Sonia yn gynnar yn 'Golwg ar Deyrnas Crist' am Iesu Grist fel *Pensaer*. Nid yw'n ymdroi'n hir uniongyrchol ar y pryd. Ond yn sicr, mae'n ymdroi'n anuniongyrchol. Hyn sy'n ei feddiannu ef, rywsut gymaint bob dim â'r carwr a'r teithiwr, er nad yw'n enwi nac yn penodoli'r ddelwedd mor fynych. Sgêm sydd i fywyd, ac i'r greadigaeth, o'r dechrau hyd y diwedd, cynllun sydd i farwolaeth, cynllun i bob caru a phob taith. Nid oedd ef byth yn un yn unig mwyach. Roedd yna undod i'w garu ac i'w daith. Ond roedd yna gynllun gan y pensaer mewn rhagluniaeth ymhell cyn dechrau ar yr adeilad.

Carwn grybwyll yn gynnil iawn, yn sgil y sôn am gynllun, un gyfundrefn arall sy'n ymgrisialu mewn *Motiffau* unigol ac yn ymgysylltu â'r Pensaer. Digwydd y weithred, y gair, a'r athrawiaeth o *Gyfamod* yn fuan yn arwrgerdd gyntaf Pantycelyn. Medd teitl yn ail ran y Bennod Gyntaf, 'Y cyfamod o brynedigaeth rhwng y Tad â'r Mab yn nhragwyddoldeb'; a'r drydedd ran, 'Fel yr oedd holl amgylchiadau'r Cyfamod yma wedi eu trefnu yn gryno yng nghwnsel y Drindod'. Rhan o'r Cynllun yw. Ni chefais le i'r gair hwn ymhlith yr Archgyfundrefnau er ei fod yn dynodi trefn Feiblaidd o bwys aruthr; ac er imi sôn am bresenoldeb yr Hen Destament (neu Gyfamod) yn y Newydd. Ond mentrais awgrymu bod yr Archgyfundrefnau Ffurf oll yn amodi neu'n cyflyru'r holl gyfundrefnau Deunydd wedyn. Gyda'i gilydd, y mae 'amodau' yn dod yn 'gyfamod'; felly mewn Mynegiant. A gall cyfundrefnau Mynegiant fod mor dreiddgar bob dim â rhai Tafod. Amodi yw rhan o waith Tafod. Cwblhau yw rhan o waith Mynegiant. Ond gan Bantycelyn, gan mai rhwng Duw a dyn yr oedd, (ond mai Duw yn unig a *wnâi'r* cyfamod), fe geid amryw eiriau esboniadol cyffredin i esbonio beth a ddigwyddai — 'cytundeb, addewid, dyfais, trefn, llwybr, ffordd, moddion, sgêm, ordeinio, cynghrair'. Hynny yw, ar drothwy'r greadigaeth, nid bwrw iddi a wnaed rywsut rywfodd. Rhagflaenid y cwbl gan gynllun cywrain gofalus. Roedd yna ystyried am y diwedd, y canol a'r dechrau. Ceid, bron, drosiad o gyfreithiwr. A hyn oedd profiad Pantycelyn ei hun, cyn gweithredu canu, gyda'r cynllun yn ysbrydoliaeth:

GWWP I, 22

*Rhwng y partion uwcha', enwoca' o barch a bri,
Ynghylch yr achos mwya' a dyfna' erioed a fu.*

Yr ystyried hwn a'r gyd-ddealltwriaeth barchedig hon oedd y cyfamod.

Cyn dyddiau Williams, yr oedd Athrawiaeth y ‘Cyfamodau’ yn norm ymhlith y Piwritaniaid. Roedd Vavasor Powell wedi cyhoeddi cyfrol sylweddol yn Saesneg, a Siôn Trehedyn wedi cyfieithu *Madruddyn y Difinyddiaeth Diweddaraf*.

Mewn Diwinyddiaeth Ffederal ceid dau Gyfamod, sef Cyfamod Gweithredoedd (ag Adda cyn y Cwmp) a Chyfamod Gras (â dynoliaeth wedyn). Ffydd oedd canolbwnc yr ail, yn amlwg. Defnyddid y term cyntaf i gyfleu Cyfamod delweddol rhwng Duw ac Adda, cynrychiolydd yr hil ddynol, a fynnai ganddo ufudd-dod llwyr — math o ffydd oedd hyn hefyd (tueddwn innau i ddefnyddio'r term ‘dibyniaeth’ neu ‘gredu’ yn ogystal ag ‘ufudd-dod’) ynghyd ag addewid lle y ceid anfarwoldeb fel gwobr neu ganlyniad. I mi, ‘credu’ yw'r disgrifiad addasaf o'r berthynas rhwng Duw a dyn bob amser, hyd yn oed o'r caru. Ac y mae'n parhau o hyd i mewn i'r Cyfamod Gras, ‘cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.’ (Cafwyd dadl ffyrnig rhwng Howel Harris a William Wynn am y ffaith nad ag Adda y gwnaed yr ail gyfamod, ond gan y Personau Bendigedig yn y Drindod, ar gyfer dynoliaeth oll: gw. nodyn R. Geraint Gruffydd, *Cwlwm* 54, Ebrill-Mehefin 2009.) Yr un, yn wir, yw'r ‘wobr’ neu'r canlyniad cynhenid i'r un sy'n derbyn bywyd gan Dduw, sef anfarwoldeb. Gwelaf y berthynas rhwng y ddau Gyfamod yn glòs iawn ac yn fywiol iawn. Hwyl oedd y sgaffaldwaith i'r Sgêm a ganfu Pantycelyn.

Diflannodd y Cyfamod Gweithredoedd gydag Adda. Nid erys mwyach ond Cyfamod Gras. Eithr, yn rhyfedd iawn, erys dau orchymyn neu gyngor i bawb yn ddiwahân. O safbwynt galaeth yr Archgyfundrefnau Ffurfiol, dwy eto a welaf ar waith yn y cyfnod newydd, er bod Cyfamod Gweithredoedd bellach wedi'u hatrefnu i'r sefyllfa newydd:

Diwyllio/Goroesi, Genesis 1: 28; sef Gweithredoedd drwy Ras Cyffredin.

Dibynnu(Credu)/Cynnal, Genesis 2: 16-17, sef Gweithredoedd drwy Ras Arbennig.

Dyma'r ddau orchymyn cyntaf gan Dduw yn y Beibl i ddyn yn benodol uniongyrchol (h.y. ar wahân i'r ‘Bydded’ a'r Gwahuno sy'n orchymynion i bob bodolaeth). Gyda'i gilydd ffurfiant fath o agwedd at Weithredoedd sy'n sylfaen newydd i fywyd. Mae'r ddau orchymyn yn parhau o hyd, yn orfodol greedig, er bod marwolaeth wedi dod (fel yr addaw-wyd) ac wedi torri ar eu traws. Mae canlyniad naturiol y ‘diwyllio’ ar y ddaear, sef goroesi, yn parhau fel rhan o'r drefn ymarferol rhwng Duw a dyn; ond fe'i cwtogwyd bellach, a'i ddisgyblu gan angau. Bellach, sut bynnag, rhoddwyd y Cyfamod Gras yn unig wedi'r Cwmp; ond yr un yw'r gofynion, sef dibynnu ar Dduw (ufudd-dod), fel trefn ‘naturiol’ goroesi i'r bod dynol, ond wedi'i ddyrchafu bellach i ansawdd newydd ‘goruwchnaturiol’, arbennig yng nghydestun tragwyddoldeb. Y wedd newydd honno ar Gyfamodi sy'n esbonio catholigrwydd diddordebau Williams Pantycelyn. Ond wrth golli'r Cyfamod Gweithredoedd, collodd Dyn

(Theomemphus dyweder) y ddawn o fod yn naturiol ddwyfol ei berthynas. Collodd y gymdeithas reddfod â'i Greawdwr. Drylliwyd y Cyfamodi o'i safbwynt ef:

GWWP I, 199 *Yn erbyn nef fe gododd, ffyddlonaf un a gad,
Y blaenaf a'r gwrolaf o bawb oedd yn y wlad.*

Drwy gydol y rhan gyntaf o *Theomemphus*, y brif thema yw gwrthryfel greddfod yr anghredadun (neu'r credadun gwan) yn erbyn Duw. A mynegir y thema honno mewn amllder o *fotiffau unigol*:

GWWP I, 199 *I ddodi'r celwydd golau yn loyw wir i ma's...
I dyngu'r lleidir euog yn wr gonestaf, glân,
A'r llofrudd yn ddiniwed a laddodd gant o'r blâ'n.
Fe faeddai fil o ddynion difeddwl-ddrwg, di-nam
Mewn dichell a chyfrwystra, a rhagrith, twyll a cham.*

Crisielir undod y themâu hyn mewn amllder o achlysuron, felly. Mae'r rhan ganol i fframwaith *Golwg ar Deyrnas Crist* yn dwyn thema yr un mor ffrwythlon ei photensial, yn brosiect orffenedig: dyna fotiff Cwllwm yr Arfaeth yn y byd. Diddorol sylwi sut yn union y penodai Pantycelyn uchafbwynt a phwrpas dibennol 'Golwg ar Deyrnas Crist': (GWWP I, 186) 'Crist yn rhoddi y Deyrnas i'r Tad'. Nid gorffen proses y Greadigaeth, nid Achubiaeth Dyn chwaith. Yr hyn sydd dan sylw yw prosiect cyflawn yr Arfaeth, *anrhydeddu'r Tad* yn y Cynllun: 'anfonir Crist i Greu // Trafod y Byd Creedig/Syrthiedig // Cyflwyno'r Greadigaeth yn ôl i Dduw.' Gorffennwyd y Sgêm. Anrhydeddir y Cynllun mewn Cyflawniad.

GWWP I, 186 *Ar ôl darostwng angau, gormeswr dynol-ryw,
A rhoddi'r byd yn danllwyth gerbron angylion Duw.*

Y Greadigaeth *greadig/syrthiedig* yw canol y gwaith; ac mae'r gair technegol 'byd' ar ganol hyn, ond wedi'i ddyrchafu —

GWWP I, 189 *Duw, dyro gred ddisigil fod fath ogoniant pur
I'm henaid bach feddiannu, a hynny cyn bo hir;
Hyn sugna fy myfyrdod at y tragwyddol fyd,
Ac ennyn fy serchiadau yn wenfflam olau 'gyd.*

Mae'n amlwg fod 'dyn' yntau yn gymeriad allweddol hefyd, wrth gwrs. Ond dymunir tynnu sylw at ystyr y defnydd mewn man arall, o fewn yr un adran yn yr un gerdd, o'r gair 'byd' i olygu Motiff 'y byd syrthiedig': mae hyn yn bwysig ar gyfer efengyleiddwyr pietistig a all gael eu hatynnu o hyd i gyfyngu penarglwyddiaeth Duw:

GWWP I, 190 *Cariad y byd sydd gibddall ...
Myfi yn cael fy rhwydo yng nghariad oer y byd.*

Mae'r gair 'byd' mewn gwirionedd yn y gerdd yn cael ei ddefnyddio mewn tri motiff: 'y greadigaeth', 'y greadigaeth syrthiedig', 'y byd gwarededig yn y gorffeniad'. Dyma drefn

ar ddiffiniad unplyg ddatblygol a chyson syml i ymagweddu at y gair, heb ei ddrysu. Yn y ddadl fwyaf mewn dysgeidiaeth a gafwyd o fewn rhengoedd y Calfiniaid (o'i chyferbynnu â'r ddadl fwyaf a gafwyd o fewn rhengoedd yr Efengylwyr, sef gydag Arminiaeth), nid amgen ynghylch maint yr Iawn, cafwyd gryn gystwyo ar ystyr y gair 'byd'. Dyfynnaf beth o ddisgrifiad Owen Thomas (*Cofiant y Parchedig John Jones Talsarn* 346) sy'n cyfeirio at farn John Owen: '*Mae felly yn dywedyd hyn am yr eglwysi gyffredinol, yr hon ei hunan a elwir yn fynych ganddo wrth yr enw byd: megis yn yr ymadrodd hwnw, 'Bod Duw yng Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun.'* ... *Yr holl fyd,' gan hyny, yw yr eglwys; ac y mae y byd yn casau yr eglwys. Y mae byd felly yn casau'r byd; y byd sydd mewn gelyniaeth yn casau y byd sydd wedi ei gymmodi; y byd sydd dan gondemniad yn casau y byd sydd wedi ei lanhau.'*

Does dim angen y fath gystwyo. Os derbynnir yn syml fod y 'byd' diriaethol ar y pryd wedi mynd yn greedig-syrthiedig, hynny yn y diwedd a gymodir, hynny a achubir, dyna'r byd y rhoddir iawn dros ei bechodau. Nid y bobl yn unig. Gweithio dros union brosiect yr Arfaeth yr oedd yr Arglwydd. Nid yr 'eglwys' byth yw ystyr 'byd', fel y myn John Owen. Mae dehongliad Pantycelyn o Fotiff ac o brosiect gyson a datblygol y 'byd' yn goleuo ambell ran o'r Ysgrhythur megis Ioan 3: 16; Ioan 15: 18-19; 1 Ioan 2: 2. Ni raid derbyn y dehongliad arferol (e.e. *Efengyl Ioan*, J. Cynddylan Jones, 1915, 93, 'dynion ym mhob gwlad, ym mhob oes, ym mhob cyflwr.') Mae llygaid ar achlysuron fel hyn ar gyfanrwydd y brosiect, nid yn benodol ar ddyn nac ar yr eglwys, er mor glymedig y bo'r rhain. Cwmpodd y Greadigaeth oll. Gwrthrych sylw Crist yn wyneb hyn yw'r Arfaeth, y Greadigaeth yn ei datblygiad tricham. Ac unwaith eto, y golwg panoramig yw golygwedd a gweledigaeth gyfansawdd Pantycelyn: Golwg ar Deyrnas Crist.

Y Cyfamodwr, felly, oedd y cynlluniwr, y pensaer caredig.

* * *

Oherwydd pwyslais diymatal yr ymdriniaeth hon ar Gyfundrefnu, fel ffenomen fythol-bresennol, ac fel mynegiant o Harddwch, bu rhaid imi newid a miniogi ychydig ar y ffordd arferol o ddiffinio 'motiff'. Ceir 'motiff' (enw) sy'n sefydlog braidd a 'motiff' (berfol) sy'n symudol. Gellid 'motiff' ynysedig hefyd fel petai mewn un frawddeg. Wrth hynny y glynaf. Ond tueddid i ogwyddo yn fynych, gan fotiffwyr Ffurfiolaidd (neu rai sy'n astudio motiffau) oherwydd y gwreiddio mewn patrwm helaeth, tuag at yr hyn sy'n ailadrodd — sef yr egwyddor reolaidd — y motiffau sy'n ymsefydlu'n gynhyrchiol. Tueddir i feddwl amdanynt weithiau yn nhermau'r cyffredinol a'r rheolaidd yn ogystal ag mewn termau arbennig. Mae mathau o bwyslais gwahanol mewn Motiffau, rhai cynddelwaidd teuluol a rhai unigol ynysig. Priodol yw sylweddoli beth yw ansawdd Motiff: er mwyn penodolrwydd,

gellid efallai gadw'r term 'motiff cyfundrefnol cyffredin' ar gyfer yr egwyddor ailadroddol er enghraifft. A 'Motiff' yn noeth ar gyfer yr achlysur unigol, sef pob 'llynell' yn aml. Nid yw'r elfen ailadroddol felly i fod yn rheidiol yno bob amser, yn arbennig y tro cyntaf: gallant ymgasglu'n garfanau. Dyna'r diffiniad yn batrymol. Tueddaf innau i fod yn weddol gatholig, ac i gwmpasu'r mathau o Fotiffau i gyd sydd dan sylw, yr unigol a'r ailadroddol, sefydlog ac ansefydlog, yr arbennig a'r cyffredinol. *Motiffau* hapus ydynt oll am eu bod yn unedau lleiaf o synnwyr cyflawn a thematig.

*

*

*

Gwelwn fel y mae y mae Motiffwyr at ei gilydd yn tueddu (fel Themategwyr) i orbwysleisio arwyddocâd y gweithredol neu ferfol. Heb fychanu hynny am un eiliad, carwn ddweud y byddwn i'n synied am fotiff yn enwol (ymadroddol) hefyd: megis 'Blodeuwedd' / y ferch (a wnaed) o flodau (yn ansoddeiriol); yn ogystal ag yn ferfol (brawddegol): lladdwyd hi gan Wydion. Hynny yw, gan fod elfen o berthynas mewn motiff, yr wyf yn synied y gellid ystyried perthynas *Bod/bod* yn ogystal â *Bod/gwneud* yn arwyddocaol iddo.

Sylwer ar ddelwedd y Carwr, mewn thema ymbarél fel petai, a'r motiffau cysylltiedig y tro hwn o fewn fframwaith Iachawdwriaeth i gyd. Perthynas yw'r allwedd i'r ffydd Gristnogol heb amser — 'nid credu bod Duw' ond 'credu Duw'. Cariad eto yw'r llawnder, nid ei fodolaeth. Perthynas yw gwaith adeiladol y Pensaer yntau pan fo'n ysbrydol. Bodoli mewn perthynas y mae popeth.

Perthynas hefyd yw craidd cyfundrefn weithredol megis pensaernïo. Ac er oered ac er mor wrth-ramantaidd yw delwedd 'Cyfundrefneg', gair yw sydd yn adlewyrchu nid yn unig berthynas, ond sefydlogrwydd a ffurf a chadernid deallol dda y berthynas. Clywch nerth y llinellau hyn:

(i) *Yr Arfaeth*

GWWP I, 4

*Yn nyfnder tragwyddoldeb beichiogodd Duw ei hun
O arfaeth faith anorffen, a'i rhannau yn gytûn,*

*Ar unwaith mae yn gweled a fu, a ddaw, y sy
Yn uffern faith alarus, y ddâ'r a'r nefoedd fry ...*

Y cwbl sydd yn digwydd i oesoedd rif y dail ...

(Hanes y cymdeithasu)

*I dechrau gwir gymundeb, gyfeillach rhyngtho ei hun
A chreadur pur, rhesymol sy â'i enw'n awr yn ddyn.*

(ii) *Yr Ymgawdoli*

- GWWP I, 4 *Am hyn ei Fab etholodd, anedig unig sy,
I wisgo natur ddynol, fath wedyn wisgem ni ...*
- 5 *Ac fel y gallai eilwaith i weld ei ddelw wir
Yn ddisglair mewn creadur a wnâi ei ddwylo pur ...*
Dwy anian mewn un Person briodwyd y pryd hyn ...
*Mewn undeb anwahanol, gwastadol i barhau,
Nad allai un creadur fyth arall i'w fwynhau.*
- 7 *Cans rhydd yw Duw o ewyllys, fe all'sai ddewis dyn
Neu fod rhesymol arall i'w uno â'i Fab ei hun.*

(iii) *Yr Achub*

- GWWP I, 10 *Am hynny yr ordeiniwyd i fod y Mab ryw bryd
Yn Feddyg a Iachawdwr i'r gwrthgiledig fyd.*
- 16 *'Roedd rhaid cael cyflawn daliad, 'doedd le i golli dim,
Yn llwyr hyd at yr hatling [i] 'r gyfraith fawr ei grym; ...*
*A rhaid cael gwaed yn aberth tros feiau dynol-ryw,
Gwaed calon y Mechnïydd, os marwol ddyn gaiff byw ...*
- 18 *Yn awr, i ti, fy etifedd, fy annwyl Fab fy hun,
'Rwy'n trefnu, 'rwy'n ordeinio i brynu enaid dyn.*

Dyma, fel petai, deuluoedd o Fotiffau cynddelwaidd cynnes sy'n ymestyn yn helaeth niferus yn ddi-ben-draw o fewn thema perthynas a'r potensial naratif adeiladol o Gariad Duw.

Nid geiriau yw'r rhain yn unig, ond digwyddiadau, profiadau personol gweddnewidiol, syniadau o fewn perthynas. Diriaethir hwy yng nghalon y credadun. Ceir sgaffaldwaith mawr yn y Thema, a brics o Fotiffau i'w cynnal. A'r Pensaer bob amser yn eu trefnu. Troi athrawiaeth Absoliwt 'sefydliadol' yn gronfa o *fotiffau* oedd tasg Pantycelyn, ac yn y ddwy arwrgerdd gwnâi hynny ar hyd echel neu asgwrn cefn naratif o weithredoedd ac o egwyddorion. Yn y diwedd, Ymarfer â Duwioldeb iddo sy'n troi'n Fawl, dyna fu prif gymhelliad y gweithredoedd hyn oll. Hyn oedd y Daith greiddiol tuag at y berthynas lawn, y briodas, a'r cynllun ei hun a ddechreuodd mewn Undod ac a esgorodd ar yr Undod-ar-Waith.

Ymhlith y gwyddorau sy'n gorfod ymwneud â chyfundrefnau'r atom a'r gell, yr organau a gramadeg, y mae'r ddwy — Diwinyddiaeth a Theori Lenyddol — yn gorfod ymwneud â'r *ddau* hanner i'r ymennydd dynol: y cyd-drefnu (cyfundrefnu) a'r cyd-deimlo (cariad). Hwy, o bob gwyddor felly, sydd orau yn medru wynebu'n onest gyfanrwydd personoliaeth; a'r ffordd ddynol/ddwyfol y mae honno'n ymhel ag amcan bywyd.

IX HIERARCI'R WEITHRED LENYDDOL DDEUNYDDIOL

Mae strwythur hierarcaidd y Weithred lenyddol yn ddrych o'r Greadigaeth ddwyfol ei hun.

Wedi cyrraedd y fan hon, cawn holi: Sut y mae meddwl y llenor yn amodi'r hyn a ddywed? Dyna un o'r prif gwestiynau y mae'r gyfrol hon yn ceisio'u hateb.

Diau mai'r ffurf lenyddol a'r ffurf feddyliol fwyaf ar Ddeunydd yw Hierarci'r Weithred Ddeunyddiol. Sôn y buom, yn yr ymdriniaeth hon oll, am y Sianel drefnol a ddilynir tuag at lunio Mynegiant am Sylwedd y Greadigaeth ac ym mhob Gweithred Lenyddol tan ddechrau yn rhagosodiad yr Absoliwt/absoliwt. Gellir dilyn rhediad olynol y meddwl fellyn ôl yr amodau angenrheidiol y mae ef ei hun yn eu defnyddio wrth feddwl. Rhed y cyswllt ysbrydol yn barhad drwy'r holl Hierarci, megis DNA. Ceisiwyd arsylwi yn y gyfrol hon ar ffurf y symudiad meddyliol 'sydyn' hwnnw, ac fel y'i hamodir ym meddwl Pantycelyn oherwydd cychwyn yn rhagdyb yr *Absoliwt/absoliwt*. Rhydd hynny o'r dechrau ymdeimlad o bwrpas, o ysfa am drefn ac undod, ac o gyfeiriad a chyfanrwydd i'r holl broses.

Ym mha ffordd, felly, y mae Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn 'Gyfundrefn o gyfundrefnau'? Fe'i cyflwynwyd yn ôl trefn unol hierarcaidd a deinamig o weithrediad o'r Absoliwt i'r Motiff mewn Thema, a hynny yn ôl olyniaeth ei pherthynas drefnol gyddibynnol angenrheidiol.

Trown yn ôl ar y diwedd yn anochel felly at yr Absoliwt, gan fod Hwnnw'n rhoi ei ddelw ar bob cam o fewn yr Hierarci. Hoffwn ddechrau'r casgliad hwn yn awr, drwy ddyfynnu brawddeg enwog gan Guillaume, a nodais ym *Meddwl y Gynghanedd* 44. Sôn y mae am natur ei esboniadaeth ei hun: 'rhaid iddi gael ei seilio nid ar ffaith ond ar ryw reidrwydd anochel ac *absoliwt*.' Dyma ragosodiad 'absoliwt' theori Guillaume, felly.

'Nid wyf yn credu mewn Absoliwt', medd y ddafad Gymreig soffistigedig. A hawdd y gellir ei chredu. Traetha hi'n debyg iawn i'r hen wîr o Gyprus a ddwedodd, 'Nid wyf byth yn dweud y gwir'. Yr anhawster yw pe na cheid Absoliwt, ni byddai'n bosibl negyddu â'r honiad absoliwt a ddwedai hi; ni byddai'n ceisio dibynnu chwaith ar ei phum synnwyr, ni wyddai beth oedd pwrpas rheswm, ni frefai iaith. Ni cheid chwaith effeithiau heb botensial, na'r un safon i anghredu. Ni cheid achos i effaith. Ni cheid bodolaeth.

Un disgrifiad ansoddeiriol yn unig bid siŵr yw 'absoliwt', megis ansoddeiriau eraill sy'n ymdrechu i ddisgrifio priodoleddau Duw — 'hunanddigonol', 'personol', 'hollalluog', ac yn y blaen. Nid yr Absoliwt *per se* (yn unig, yn grwn ac yn gyfan) yw *Duw*, o leiaf nid yr un absoliwt ag a geir yn ôl diffiniad athroniaeth ideolegol. Ef wrth gwrs ydynt oll: Undod a

Thrindod yw sy'n sylfaen ddi-amser i amrywiaeth, yn gyfeirbwynt eithaf a throsgynnol i ddehongliad popeth. Ond Duw ym mryd Pantycelyn yw'r Person yr un pryd sy'n caru dyn, Ef yw'r Un a aberthwyd dros bechaduriaid yn ffurf y Mab. Felly, gwahanol yw Duw, o'r fath, i'r absoliwt amddifad anghrediniol. Eto, rhagosodiad yw hwnnw hefyd sy'n canslo didueddrwydd a relativrwydd. Ni ellir cyfundrefnu mewn Tafod heb absoliwt o'r fath. Ni ellir cysondeb chwaith. Nid yn unig gosod tybiaeth a wna Absoliwt ymlaen llaw i fod yn amodwr ar gyfer y broses o ymresymu: y mae'n ymrwymiad diddadlau hefyd sy'n sylfaen i gydwead ein holl gredoau, heb eithriad. Yr absoliwt yw'r oruwch egwyddor lywodraethol i bob meddwl. Yr Awdurdod terfynol yw. Does dim syndod i'r ddafad ddychrynu.

Roedd gan Bantycelyn derm ei hun ar yr Absoliwt hwn, oherwydd dwy ffaith:

1. Yr oedd Hwnnw *ym mhopeth*; felly Ef oedd y presenoldeb a'r cydlynol i'r cyfanrwydd; a
2. Ef oedd o flaen yr Arfaeth *yn Bopeth*; Ef oedd y cynllunydd a'r achosydd a oedd yn bodoli cyn y Greadigaeth, ac yn gyfrwng i'r Creu. Iesu Grist oedd y term iddo ef, yn ôl datguddiad efengyl Ioan a'r ddwy bennod gyntaf o Hebreaid.

O'r tu mewn i'r Absoliwt personol-dragwyddol hwnnw y cynhelid holl gamre potensial Hierarci. Allan ohono Ef, o raid, y gwnaethpwyd pob dim. Drwy'r priodoledau unigol hyn ar Dduw, — sef Absoliwt a Thragwyddol, — y daw dyn i amgyffred rhywfaint o berthynas hanfod Duw â dyn (Bod a bod), a'r Arfaeth (Tragwyddoldeb a phresennol) sy'n rhagflaenu ac yn corffori *Golwg ar Deyrnas Crist*.

Mae hyn oll, felly, yn debyg i hidl wrth i'r ysfa am drefn barhau ei thaith oddi wrth yr Absoliwt drwy'r Archgyfundrefnau a'r Deunydd ymlaen bellach i'r Cyfundrefnau Thematig tuag at Fynegiant Gweithredol (syrthiedig bellach) yn y Motiffau.

O ran meddwl Pantycelyn, sef prif wth y gyfrol hon, y bwriad fu canoli ar ei *adeiladwaith deunyddiol* di-fwlch. Wrth wneud hynny, bu'n rhaid trafod mater *rhagdybiau angenrheidiol*, gwenyn gweithiol yr Arfaeth mewn cyfundrefneg. Dangoswyd bod yna rai materion meddyliol sy'n strwythurol orfodol ar gychwyn pob llenyddiaeth, boed yn grefyddol neu'n seciwlar. Wrth ddilyn y trywydd hwnnw bu'n rhaid i'r awdur lunio math o Ramadeg Cynieithyddol. Fe'i gelwir yn Gyn-dafod: yr Archgyfundrefnau yw'r gweithwyr yn y cwch gwenyn hwn.

Heblaw hynny, arolygir y *Sfferau Deunydd* sydd ar gael, a cheisiwyd olrhain lle ac adeiladwaith a natur ddeinameg o fewn llenyddiaeth. Gan mai arolwg o *ddwy o brif Themâu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, sef y Greadigaeth a'r Waredigaeth*, yw prif feysydd themateg Pantycelyn, ystyrir yn ofalus beth yw arwyddocâd llawn yr ansoddair yn y disgrifiad

‘Diwinyddiaeth Gyfundrefnol’, a’r cydlyniad ‘cyfundrefnol’ sydd drwyddi draw yn yr Wyddor honno.

Sylweddolir mai un thema gyfun sydd, a honno’n cyfateb i’r Hierarci. Troes yr Amryw sy’n Un yn yr Un (yn y Greadigaeth) yn Wahaniaeth heb Undod; ond (yn y Waredigaeth) enillwyd yr amryw gan yr Un sy’n Amryw. Oherwydd bodolaeth y Thema Feiblaidd gyfunol hon y gellid llunio gosodiadau cryno amdani, disgrifiadau mewn adroddiad storïol amdani: sef *Motiffau*.

Ar ryw olwg, cyflwynir felly — derbynier hi neu beidio — amlinelliad o theori gyflawn ar ‘Ddeunydd Llenyddol’, yn ôl ei adeiladwaith cynhaliol.

* * *

Wrth drafod llenyddiaeth yn gyffredinol, y mae gan y beirniad gyfundrefn *Absoliwt/absoliwt* lle mae’r naill *a’r* llall o’r ddeuoliaeth honno yn orfodol. Y naill yw’r un a gydnabyddir gan y Cristion, (a chydag ef gweddau ar ddealltwriaeth Gras Cyffredin) sef y Goruwchnaturiol-naturiol; a’r llall yw’r un a gydnabyddir ac a weithredir gan y Seciwlaryn, sef y naturiol. Ond pwy bynnag a ddewisir, nid oes dianc rhag y gyfundrefn ei hun tra parhao’r byd. Dyma’r cyfeirbwynt eithaf, y rhagdyb sylfaenol, a ganiatâ i’r ‘gwirionedd’ fod yn sail i iaith a meddwl i fynegi’r Arfaeth.

Eto, ni ddechreu’r un gwryw/benyw ei oes naturiol bellach drwy feddwl mewn ‘Absoliwt’ byw. Dechreua gyda’r absoliwt naturiol, gydag ‘a’ fach. Dyna’r Ego Trosgynnol, medd y Ffenomenolegydd (yn sgil Husserl); mae’n cynnwys y Pum Synnwyr, medd yr Empeirydd; y Rheswm, medd y Rhesymolegydd. Wedyn, dyna’r ‘cwbl lot, ynghyd â Dim Byd Arall’, medd y Gwyddonydd Allwyddonol syml ynghylch ei ragdyb yn yr unfed ganrif ar hugain. Teimlad, profiad, fi, medd y Rhamantydd a’r Baban. Dichon mai’r Achos Cyntaf bob amser, medd y Gwyddonydd go iawn.

Y cam nesaf yn yr Hierarci, a’r cyntaf a gynhyrchir gan yr Absoliwt yw’r Arfaeth (y Cynllun) sy’n ymwneud â’r Naturiol yn ogystal â’r Goruwchnaturiol. Hoff oedd Guillaume o ddyfynnu ei Fentor Antoine Meillet: ‘Mae iaith yn golygu cyfundrefn lle y mae popeth yn cydlynu ac yn meddu ar ddyluniad rhyfeddol rymus’.

Yr hyn a geir yn sylfaen i ddeall ac i iaith yw’r hyn a eilw Guillaume fel y nododd trafodaeth ddisglair Hirtle (*Language in the Mind*, 93): ‘there is, hidden beneath the observable in language, a “design”, a “systematic scheme”; it is “a certain order that is pleasant to contemplate” because it allows us to understand better.’

Pan soniwn am y cydlyniad *Absoliwt/Arfaeth*, sôn yr ym sut bynnag am y Cynieithyddol neu’r Anieithyddol. Ac arhoswn yn awr gyda’r Cynieithyddol wrth drafod y

cydlyniad nesaf, cynnyrch cyntaf yr Arfaeth wrth symud tuag at Ddeunyddiau, a rhagflaenydd uniongyrchol y dosraniad neu'r cyfundrefniad nesaf o'r Deunyddiau. Yr Arfaeth yw'r cynllun cyflawn ym Meddwl yr Absoliwt ar gyfer pob peth. Nid oes dim y gwyddom amdano y tu allan iddo. Cyfanswm yw yr olrheinir ei undod drwy'r cyswllt sydd y tu ôl i bob dim. Ymddengys yn fath o weledigaeth amrywiol unol ym mwriad yr Absoliwt.

Yr Arfaeth o dan bob dim yw'r cwbl a gyflawnir yn ddiriaethol. Dyna oedd cynlluniad yr Undod ymlaen llaw, yn Gyfundrefn o gyfundrefnau, a dyna hefyd y cwblhad o'r greadigaeth yn unol â'r cynllun hwnnw a fwriadwyd. Hyn yw'r diben cyflawn, a hyn a fwriadesid yn haniaethol ac yn ddiriaethol.

* * *

Cyn didoli'r Sfferau Deunydd allan o gyfanrwydd y Bydysawd, darperir *offer deall* a dethol gan yr Absoliwt allan ohono Ef ei hun er mwyn inni drafod yr Arfaeth. Dyfeisiau dadansoddol ac Archgyfundrefnau cynieithyddol yw'r rhain. Eu gwaith yw trefnu popeth arall, yn ôl hanfod yr Arfaeth ei hun. Ac ystyr trefnu yw *gwahanu ac uno*; ond, er mai dyna'r weithred ymwybodol gyntaf, fe geir amryfal ogwyddiadau cyffelyb eraill o fewn yr Arfaeth, yn gynieithyddol o hyd, sy'n cael eu defnyddio i drafod Deunyddioldeb y Bydysawd: gogwyddiadau megis perthynas 'cyffredinol ac arbennig'. Gydag ymddangosiad y Deunyddiau wedyn (neu'r Ideogenesis — y llunio syniadol, a'r Lecsigenesis — y llunio geiriol) y mae dyn ei hun bellach ar gael yn greadur dadansoddol; a'i feddwl, a'i ddeall, a'i iaith. Daw'n ddadansoddwr oherwydd meddu ar yr Archgyfundrefnau.

Galwn y rhain yn 'Archgyfundrefnau' Deall am eu bod yn gnewyllyn o gynhysgaeth gyfundrefnol sy'n llywodraethu ac yn amodi'r holl gyfundrefnau eraill sydd ar gael yn y byd. Cyn-dafod ydynt o safbwynt iaith. Byddai Pantycelyn yn defnyddio'r offer hyn i drafod Mater a Strwythur, Deunydd a Ffurf. Undod oedd y rhain. Ac un o'r pethau diddorol a ganfu ac a wnaeth Pantycelyn oedd sylweddoli bod y 'ffurfiau' hyn, y 'cyfundrefnau' ymarferol a sylfaenol hyn, eu hunain bob un yn wirionedd ac yn ddeunydd i fyfyrion amdanynt. Yn wir, yr oedd yr offer dadansoddi a deall hyn yn athrawiaethau a oedd yn meddu ar arwyddocâd Cristnogol.

Sefydlwyd mecanwaith ffurfiol a ganiatâi fath o hidl a fyddai'n gwahanu'r amryfal argraffiadau deunyddiol a fyddai'n taro ar y *psyche* dynol. Bu'n rhaid i'r meddwl eu dadansoddi. A gwnâi hynny drwy ddyfais ddeuol. Yn gyntaf, fe wahanai (yn null Genesis), ac yn ail fe unai neu fe gysonai drwy ymwybod ag ailadrodd neu debygrwydd arno. Dosbarthwyd (yn null Genesis) a chafwyd math o sefydlogrwydd felly yng nghanol gwibiadau amrywiol: sefydlogrwydd amrywiol y gellid ei rannu gyda phobl eraill.

Archgyfundrefnau Ffurfiol yw'r gyfundrefn fawr gyntaf o gyfundrefnau unigol a ddefnyddia dyn i sefydlu a chyflyru moddion i wahuno (gwahanu + uno). A dyma'r offeryn o hyd (mewn cyfundrefnau gwahanol) a ddefnyddir ar hyd yr Hierarci o hyn ymlaen er mwyn esgor ar y ddelwedd neu'r Motiff, sef yr uned leiaf o ystyr yn y terfyn. Gyda'r offeryn ffurfiol o wahuno yn y meddwl, gellir yn awr symud ymlaen at y Deunydd ieithyddol a llenyddol ei hun.

Un o'r dadansoddiadau cyntaf a wna'r meddwl gyda'r Deunydd yw ei ddadansoddi'n ddosbarthol yn ôl ffwythiannau neu natur gynhenid ar sail y Cyfundrefnau Ffurfiol. Gwelir teuluoedd o ystyr yn ymffurfio mewn Deunydd, bob un yn meddu ar ei swyddogaeth, ei ffwythiannau, a'i sffêr lywodraethol sylweddol ei hun. Ceir prif ddeddf neu egwyddor weithredol ar flaen pob Sffêr sy'n diffinio neu'n cyferbynnu'r Sfferau hyn â'i gilydd o ran defnydd. Dyna gwblhau'r Creu.

*

*

*

Eto, ynghyd â sefydlu'r drefn gadarnhaol hwylus ac angenrheidiol hon o gatgoreiddio gweddau ar fywyd er mwyn byw yn wâr o drefnus, cafwyd y chwalfa negyddol. Rhoddwyd y ddwy i wahaniaethu'n foesol. Cafwyd Cwmp i anhrefn. Yn amseryddol effeithiol, gosodwyd Pechod yn yr olyniaeth berthynol wedi creu'r Archgyfundrefnau Ffurfiol a'r Sfferau Deddfog. Ond fe'i ceid eisoes yn brofiadol gan Theomemphus yn *Absoliwt/absoliwt*. Gwrthryfel a gafwyd yn erbyn Duw: anghredu, ac yn erbyn Deddf y Disgyrchiant Ysbrydol o fewn cyd-destun Tragwyddoldeb Goruwchnaturiol.

Defnyddiaf y term 'ffurfiol' *gwahanu* i gynrychioli Pechod o fewn yr Hierarci ffurfiol. Ond y mae'n hanfodol inni sylweddoli bod 'pechod' yn fwy ac yn ddyfnach o lawer na 'gwahanu', yn ôl fel y'i disgrifir yn y Beibl a chan Bantycelyn. Llygredd eithafol yw. Eto, 'gwahanu' yw'r term priodol, gredaf i, o fewn cyfyngiadau cyfundrefnol ffurfiol yr Hierarci o gysylltiadau creadigol yr wyf yn ceisio'u diffinio. Ymwahanodd dyn. Ac alltudiwyd dyn yn hanfodol ffurfiol. Gwahanu o'r herwydd yw'r profiad Ôl-fodernaidd cynddelwol.

Yn hyn o beth, y mae'r term 'pechod' yn debyg iawn i'r term ffurfiol 'Absoliwt'. Nid yw 'Absoliwt' yn gyfystyr â Duw. Un o'r gweddau ar natur Duw yw, megis 'hollbresennol', 'y personol dragwyddol', 'yr iachawdwr' a 'Chariad'. Dewis ei ddefnyddio a wneir, yn syml, o fewn cyfyngiadau'r gyfundrefn hierarcaidd hon yn ôl diffinio'i safle cyferbyniol. Felly y ceir 'gwahanu' ynysig o fewn pechodau. 'Gwahanu' yw, i'w gyferbynnu â 'Gwahuno' Gras Cyffredinol. Ond y mae 'Pechod' ei hun yn fwy cynhwysfawr na hynny hyd yn oed.

Collwyd y cyfun mawr, yr Uniad cynhenid rhwng yr Absoliwt a'i greadigaeth, y ddibyniaeth fyw. Yng nghelfyddyd Greadigol yr Absoliwt, cafwyd *gwahaniad* na allai'r

creedig drwy'i nerth ei hun ei adfer. Aeth Pechod ei hun yn amddiffynol ymosodol. Ffieiddiai ewylllys Creawdwr.

Bellach, rhoddodd yr Absoliwt ei fryd ar y dasg dorcalonnus fuddugoliaethus o ddatrys y gwahaniad hwn. *Dyna'r Codi* terfynol a'r Uno mawr. Wedi'r cyfamodi credig a'i undod rhagluniol, ceir dryllio a chymodi.

Sôn yr wyf am undod panoramig cynllun a thema perthynas Duw a dyn, a'r cydlynaiad ym mhrofiad y llenor o Ddeunydd, fel y'i hesboniwyd i ddyn yn y fath fodd fel y gallai'i ddirnad. O safbwynt cyfundrefnu deunyddiol mewn llenyddiaeth, nid yw'n syn bod diwinyddiaeth 'pechod' a'r 'ddeddf' yn faterion arwyddocaol. At ei gilydd, ymgyfynga 'Pechod' (o'i gyferbynnu â'r drwg) fel ffenomen a phrofiad dwys, i lenyddiaeth yn ei sffêr grefyddol. Ond y mae pechodau, a'r dosbarthiad o 'bechodau', yn weithredu sydd o ddiddordeb enfawr ym maes themateg a llenddulliau. Math o ddsbarthiad llenddulliol a thematig ym maes pechod yw'r Dengair Deddf eu hunain. Ac y mae storïau am lofruddiaeth (llenddull y stori dditectif) a storïau am odineb (llenddull y stori ramantaidd) yn dal yn iraid. 'Symudwch ddu ar y gwyn,' meddai Maupassant. Yn *Theomemphus* ac mewn llawer o ryddiaith ac emynyddiaeth gan Bantycelyn, y mae serch iach ac afiach yn cael lle blaenllaw iawn. Ac nid yw'n syn i feirniaid fod 'digwyddiad' canolog mewn stori yn fynych gysylltiedig â 'chwyp' (*di-gryfhaol* + *cwyddo*): di-gwyddo. Pechod yw un o ffactorau mwyaf egniol llenyddiaeth erioed. Argyhoeddiad personol o'i wir ystyr yw un o uchafbwyntiau diwinyddiaeth.

Ymwneud â threfn yw swyddogaeth ac egwyddor y gyfraith, a'r thema ganolog *par excellence*: sef unioni'r chwalfa. Yr 'efengyl' a'r 'ddeddf' yw un rhaniad adnabyddus yn hanes y ffydd; cyfraith Moses neu'r gyfraith naturiol, a chyfraith cariad neu gyfraith Crist. Bu crefyddwyr erioed yn ddiwyd iawn yn myfyrio am hanfod pechod ac am ei ffyrdd gwahanol o ymamlygu. Wrth fyfyrio am hyn y deuir i amgyffred llawer ynghylch y ddelwedd ddynol ac am ddelwedd cymdeithas yn arbennig. I Bantycelyn, yr oedd y gyfraith yn fodd i adnabod y bywyd ysbrydol hyd y dyfnderoedd. Wrth gyfeirio'n gyson at yr Antinomiaid, gwelwn fod Pantycelyn yn mawrygu bendith y Ddeddf. Fe'i hatgoffai ef nid yn unig am ei ddyletswydd, ond yn rheitiach fe feithrinai sancteiddrwydd ynddo. Creai hydeimledd ynddo tuag at anghenion dyn, ac at ei angen ef ei hun am undod â Christ.

Unid y gyfraith oll felly i Bantycelyn yn y ffaith fod pechod bob amser yn elyniaeth yn erbyn Duw. Dyma awdurdod 'Teyrnas Dduw', sef y drefn yn y deyrnas. A'r hyn a'i hargyhoeddai ef o'r berthynas rhwng y Ddeddf a Gras oedd canfod cydwybod y Cristion yn sylweddoli bod y gyfraith yn cael ei sgrifennu ar y galon. Gwiw cofio gwahaniaethu rhwng y

Drefn hardd ar y naill ochr (a oedd yn hanfodol gyn-gwypol), a'r Ddeddf droseddol (a oedd yn hanfodol ôl-gwypol) ar y llall.

Hyn, ar ryw olwg, yw cynddelw *thematag* llenyddiaeth benbwgilydd. Dyma o leiaf y pegynau sy'n cynnal cynllwyn Bywyd. Wedi'r Archgyfundrefn Strwythurol ac wedi'r Sfferau Deddfog, chwalwyd yr Undod; ac o fewn terfynau bywyd daearol, Trasiedi ddigymrodedd yw'r ddaear syrthiedig hon ond Comedi ddigymrodedd (yn ystyr Dante) yw'r Cynllwyn Dwyfol gorffenedig i'w hateb. Mae dyn o fewn terfynau'r ddaear, felly, yn cwmpo ac yn gwahanu: gorffen yn is a wna Trasiedi, yn ddiffiniol. Cynefin y dyn naturiol yw. Wedi cwmp trawmatig, nid oes codi yn naturiol, dyna yw Trasiedi. Dyna'r symudiad deuol: *Creu/Cwmp*; a chwmpo pellach bellach yw'r rhawd. Ond y diffiniad o Gomedï (yn ystyr Dante e.e. yn yr ystyr gyfundrefnol) yw *Creu/Cwmp/Codi*; y tri hyn, a chodi pellach hefyd, bellach. Cefndir yw'r triawd hwn i Dante, gan ei fod ef yn dechrau yn y Cwmp ac yn cymryd y Creu yn ganiataol (*Uffern/Purdan/Paradwys*) yn y Metanaratif, gan arwain at y Motiff bychan ym mhob llinell.

Gwahuno yw'r thema greiddiol, ddwedwn felly. Ers dechrau beirniadaeth lenyddol gynnar y Groegiaid hyd at chwarter olaf yr ugeinfed ganrif cafwyd 'Undod' fel ffactor beirniadol ledled Ewrob erioed. Dyma un o'r rhagdybiau a gymerid yn ganiataol ym myd deall, iaith, a llên. Soniai'r beirniaid gynt am 'undodau' (*unities*). Efallai y gellid cymryd mai 'arbrawf' esthetig neu gelfyddydol oedd ceisio (a methu) ymwared â'r safon yma yn y cyfnod diweddar. Ymgais debyg, ond yn fwy llancaidd, oedd ymwared â gwerthoedd a gorseddu relativrwydd. O safbwynt sylwedd deall, sut bynnag, ni bu i'r arbrawf fawr o ddyfnder, er iddo yn sicr gynrychioli ffactor 'gwreiddiol' (ym mryd Pantycelyn) o fewn amgylchfyd a oedd yn dreiddgarach — fel thema — nag arbrawf technegol.

Mewn gwirionedd, nid arbrawf lenyddol mohono yn unig. Nid sylwedd na ffurf lenyddol chwaith, ond *thema fywydol*. Gyferbyn, yn y meddwl Cristnogol goruwchnaturiol, arhosai fframwaith lletaf y credoau — er gwaethaf pob heresi ac ymgais i'w disodli, — yn ganolog gadarn fel yr arhosai ymwybod o safonau moesol ymosodol. Go brin fod neb yng Nghymru wedi cynrychioli llawnder a dyfnder ac egni'r thema gelfyddydol honno yn well na Williams Pantycelyn.

Ac yna, o fewn yr Arfaeth honno, daw'r hen gwllwm o Archgyfundrefnau hynny a gafwyd yn wedd ar yr Absoliwt, tan gyflyru a than ddiffinio natur holl thema'r llywodraethol mewn *iaith*, â chraidd ffurfiol *llynyddiaeth*. Ac mewn Diwinyddiaeth, y maent yn disgrifio ffurf y berthynas rhwng Duw a dyn, ffurf sydd yn cyflyru ac yn amodi deunydd i'r berthynas ym mhopeth wedyn.

Mae'n wir nad yw Pantcelyn yn amlinellu diagram o'r union Hierarci a ddelwedd yn yr astudiaeth hon. Ond y mae pob elfen yn yr Hierarci a grybwyllir yn anochel gynwysedig yn ei feddwl. Fe'u datguddir ynddo. Dadansoddi'i ddull o feddwl a geisir. Ac yn achos yr adran fwyaf 'dadleuol' yn y dadansoddiad, sef yr Archgyfundrefnau Ffurfiol, nid oes yr un o'r rhain heb fod yn wir arwyddocaol iddo. Ac nid yw ef yn ei defnyddio'n 'dechnegol', ac nid yw'n ddwfn ymwybodol ohoni chwaith. Eto, nid bod yn ymwybodol yn unig o Archgyfundrefneg amodol a chyflyrol yw natur ei Ddeunydd na'i Fwriad. Nid olrhain hynny chwaith yw nod ei feddwl. Dyna'i gefndir. Dyna'r sbectol. Iddo ef, caed Cynllun, ac ym mhob rhan o'r Cynllun yr oedd Crist yn bresennol. Cymerid hyn yn ganiataol. Dyna'r undeb yn yr Hierarci: 'ym mhob peth.' Ac yn yr Archgyfundrefnau — neu'r Egwyddorion cyferbyniol gweithredol hyn — y mae ei ymrwymiad yn glir i fynegi'i Themâu. Ni wneir yma ond egluro'r holl gydberthynas yn y 'Sgêm' yr oedd ef yn ei defnyddio ac yn llawenhau ynddi. Yng ngwaith Pantycelyn fe'i cyflwynir yn ymarferol drwy themâu a motiffau, er bod un maes neu sffêr, sef Ffydd, wrth reswm yn cael blaenoriaeth ganddo ef ac yn gydlynid.

*

*

*

Yr hyn a wneid yn fwyaf arbennig yn yr astudiaeth hon felly fu mapio llun o'r broses ddeinamig angenrheidiol a oedd yn ffurfio ac yn amodi Deunydd fel y cyfryw, ac mewn Gras Cyffredinol yn bennaf. Yn wahanol i *Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol* draddodiadol, ceisid olrhain cynllun yn hierarci ffurfiol a deunyddiol o drefn meddwl deinamig rhwng yr Absoliwt/absoliwt a'r mynegiant lleiaf gan ddyn. Hynny yw, ceisid cydnabod parhad cyfundrefnol ar waith drwyddi draw. Dangoswyd y camre y mae'n rhaid i'r meddwl dynol eu dilyn i drafod Deunydd o gwbl. Yr oedd pob lefel yn y broses yn tarddu o ryw gam o'i flaen, ac yn dilyn ei gilydd mewn trefn orfodol.

Dyna yw'r themateg amlwg i *Golwg ar Deyrnas Crist*. Hierarci yw mewn Creadigaeth. Ac yna, o fewn thema nid annhebyg, yr oedd *Theomemphus* yn canolbwyntio ar uchafbwynt hanes yn yr Ymgawdoliad a'r Waredigaeth Iawnol. Gras Cyffredinol a gras Arbennig yn *Golwg ar Deyrnas Crist*. Gras Arbennig yn *Theomemphus*. Eithr heblaw'r fframwaith Deunyddiol, fe syniwn fod Ffurf yr holl berthynas hon yn haeddu mwy o sylw nag a roid gan *Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol* arferol. Hynny yw, ym maes Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, gresynwn mai themâu Deunyddiol yn unig a drafodid fel arfer heb gydnabod Penarglwyddiaeth Duw ar Ffurf mewn patrwm, yn arbennig gan fod cyfundrefnau ffurfiol yn themâu hefyd mewn golwg ac ar waith ym mhob man yn yr wyddor honno.

Awgrymwn bellach hefyd y dylid ailystyried natur a siâp Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ei hun yn ôl olyniaeth a chydlynid Ffurf a Deunydd y Themateg hon. Nid

rhestr ddamweiniol mohoni. Nid hel athrawiaethau Cristnogol a'u trafod a wneid yn ôl olyniaeth themâu goddrychol amrywiol. Dylid synied amdani yn gyfan, yn hytrach, yn ôl haenau trefniadol penodol wrth ei bod yn eu rhoi ar waith yn gydlynol hierarcaidd. Proses ddeinamig oedd ac ydyw, hierarci nid casgliad o gategorïau athrawiaethol. Mae Diwinyddiaeth o raid yn fwy na rhestr: cyfundrefnwaith organaidd yw. A'r Ffurf ei hun — y Drefn — oedd y Deunydd.

Mae yna demtasiwn inni synied mai yn y cam olaf yn y broses, rywle rhwng y Gyfundrefn Themateg a'r Motiff, ym munud y Mynegiant llenyddol, y mae'r holl athrylith unigol yn tynnu i gwllwm ac yn gwneud y 'wyrth'. Fan yna, — meddir — y mae'r Deunydd yn terfynol feddiannu'r Ffurf. Fan yna — meddir — y dylem ymgrynhoi, yn yr unigolyn, yn y creu sydyn creiddiol, yn y dweud celfydd, *nid* yn y gyfundrefn gyffredinol sy'n eiddo i ryw fath o feddwl cyffredin. Teimlid gan lawer mai'r Mynegiant y dylid ei ddathlu. A cheid peth gwirionedd yn y fan yna mewn llenyddiaeth fel arfer. Dyma gartref arddull. Ond dyna yn sicr demtasiwn gyfeiliornus hefyd, a chwympid yn rhy barod i'r casgliad hwnnw gan feirniaid llenyddol anghatholig. Cydlyniad ystyrion yw Diwinyddiaeth.

O fewn y cydlyniad hwnnw y dengys yr unigolyn o lenor rym a chryfder ei ddawn unigol, mae'n siŵr, a ffrwyth ei ddychymyg. Mae'n gylch tyn a byramser lle y digwydd llenyddia creiddiol, fel yn y golofn DNA oll gyda'r tameityn bach olaf y mae'r arbenigrwydd wedi'i wasgu. Ond anwybyddir y fwynfa amodol felly.

Mewn beirniadaeth lenyddol ymddengys, wrth reswm, mai'r cynnyrch terfynol yw'r orseddfaine arferol i'r unigolyddol, y darn ei hun, lle yr archwilir sain a dychymyg, coegi ac amwysedd. Dyna'r lle y ceir strwythur y gwaith unigol, cydberthynas y rhannau, ymrwymiad angerddol, tyndra, paradocs, trosiadaeth — ffigurau a throadau ymadrodd, egni geiriol, patrymau syniadol a seiniol, syniadaeth fyw, ac yn y blaen. Dyna'r lle yr ymuna Hierarci Ffurf a Hierarci Deunydd mewn Mynegiant. Os felly, beth yw gwerth a chyfraniad yr hyn y ceisiwyd ei wneud yn y fan hon wrth archwilio cyfundrefnau y meddwl yn gyfan? Dim llai na'r un fath â chyfundrefn Cerdd Dafod ac â gramadeg iaith. Dadlennir camp y potensial a dull y cyfannu, eglurir y cudd a'r gynhysgaeth, a phwysleisir perthynas yr amodau, y pethau a adeiladwyd neu a sylweddolwyd dros y canrifoedd, pethau sydd yn orchest ynddynt hwy eu hunain, yn adeiladwaith cytûn. Dyma'u mwynfa iaith. Dyma hefyd sy'n gynhysgaeth ac yn fframwaith i thema.

Ac mae'r cwbl o'r hierarci hon yn digwydd mewn amrantiad. Mae'n ymddangos — megis mewn gweithred lefaru — fod troi holl baraffernalia Tafod yn Fynegiant yn drydanol o sydyn yn amhosibl. Ond os enwaf Ddisgyrchiant Ysbrydol neu Ddibyniaeth (Ffydd) fel un

o'r Archgyfundrefnau Deall yn *amodi* 'Hierarci'r Weithred Lenyddol Ddeunyddiol', fe ganfyddir 'mor ddifeddwl' o gyflym y mae pethau'n digwydd. Ond digwydd a wna o fewn fframwaith cronolegol o amodi mewn perthynas.

Dyma lwyfan hefyd i'r mawredd sydd mewn traddodiad llenyddol, y syniai Saunders Lewis amdano, y traddodiad hirfaith y saif y bardd diweddar ar ei ysgwyddau, y traddodiad mewnol a ddarpara gyfoeth iddo, y traddodiad a ganiatâ, yn sydyn, weithiau i fardd cymharol gyffredin ganu rhywbeth mawr goludog. Buasai ymgyfyngu i'r tamaid olaf, er anferthed a phwysiced y bo, megis anwybyddu cyfoeth y strwythur yn y meddwl a gymerir yn ganiataol mewn adeiladwaith palas, tan ganolbwyntio ar y dodrefn. Anwybyddai hefyd y math o broses dreiddiol sydd ar waith drwyddi draw. Y rhan ddjarhebol o'r golwg sydd gan y Mynydd Iâ.

Dyna ffurf oludog y Ddiwinyddiaeth hefyd.

Ond rywfodd neu'i gilydd, mewn manion yma ac acw yng ngwaith Pantycelyn, fe ddatgelir ei fod yntau mewn ffordd gywrain yn gwbl ymwybodol o natur organaidd y sgêm yr oedd ef am ei disgrifio, ac am ufuddhau iddi a bod yn rhan ohoni, a'i mynegi mor groyw. Y gân a roddai urddas ar hyder ac ystyr gydlynol enfawr i dipyn o fardd gwlad. Un wedd ar y pwysigrwydd o arolygu holl rychwant di-dor yr hierarci o'r Absoliwt i'r Motiff yw cydnabod fod yna gadwyn ddi-fwlch y tu ôl i ni. Ni chaniatêir na bylchau ar y dechrau (megis Absoliwt, Cyfundrefneg, Deunydd, Bywyd) wrth esgor ar ddeunydd, na chwaith ar Ddeddfau yn unig *en route*, nac eto ar y diwedd mewn esblygiad. Mae pob cam o'r ffordd yn dod o dan Benarglwyddiaeth y Creawdwr Absoliwt, ac ar ryw olwg gyda'i gilydd.

*

*

*

Yn y dadleuon, yn y cyfnod 2009-2010 yn arbennig, o du gwyddonwyr newyddiadurol eu cymhelliad a drafodai feysydd y tu hwnt i wyddoniaeth, pobl fel Hawking mewn Ffiseg, a Dawkins mewn Bioleg, bu rhai enghreifftiau digon alaethus o 'amddiffyn' o du arweinwyr crefyddol. Yr oedd y Prif Rabbi, yr Arglwydd Jonathan Sachs, er enghraifft (3/9/10) yn dadlau, 'Science takes things apart to see how they work. Religion puts things together to see what they mean. They are different intellectual enterprises. They even occupy different hemispheres of the brain. Science – linear, atomistic, analytical – is a typical left-brain activity. Religion – integrative, holistic, relational – is supremely a work of the right brain.'

Mae hyn yn gwbl gamarweiniol. Duw biau'r rhannu a'r rhoi at ei gilydd, y ddwy ran o'r ymennydd (sut bynnag y mae'r ddealltwriaeth o ddatblygiad y rheini'n symud rhagddi), a'r ddau fath o ddefnydd neu o ymarfer. Nid wyf yn gwadu'r rhannau mewn modd yn y byd. Ond nid yw'n rhannu cynhwysfawredd yr Efengyl; nid yw'r Hen Destament na'r Cyfamod Newydd

yn rhoi sail i'r fath Dduw rhanedig na'r fath ymatal neu ymgyfyngu yn Ei deyrnasiad. Yn holl hierarci meddwl, ceir Penarglwyddiaeth sy'n Absoliwt bob cam o'r ffordd. Mae camddeall y ffynhonnell eithaf yn arwain i gamddeall ansawdd y cynnyrch.

Âi Sachs yn ei flaen: 'The Bible is relatively uninterested in how the Universe came into being. It devotes a mere 34 verses to the subject. It takes 15 times as much space to describe how the Israelites constructed a sanctuary in the desert.' Dyma gambwyso. Nid oes, yn sicr, ddim ymgais i fanylu ar yr holl *sut* yn y creu. Byddai'r fath gymhlethdod manwl ac aruthredd maint yn gwbl wirion o amhosibl a'r tu hwnt i ddeall a diddordeb ffaeledig hyd yn oed yn yr unfed ganrif ar hugain, fel y bydd yn y bumed ganrif ar hugain. Mae yna ryfeddod y tu ôl i ryfeddod, a ddigona chwilfrydedd pob dyfodol. Nid dyna'r ffordd y mesurir ac y dethlir pwysigrwydd swyddogaeth y Crëwr, na'r angen i ddyn adeiladu allor.

Mae'n wir bod Pantycelyn yn rhoi llawer o sylw i ateb cwestiynau penodol megis Pwy ydym ni? Pam yr ydym yma? Sut y dylem fyw? Ond nid yw hynny am eiliad yn awgrymu ei fod am adael yn benagored i awdurdodau eraill deyrnasu dros y 'bylchau', heblaw'r Arglwydd Iesu Grist. Nid yw'r Beibl na Christ yn manylu ar Feirniadaeth Lenyddol nac ar Ffiseg Atomig. Eithr nid yw hynny'n golygu ein bod yn anwybyddu eu lle yn y Patrwm Enfawr Goruwchnaturiol/Naturiol Cydlynol. Mae digon i'n digoni ni. Fe'u cynhwysir yn gwmpasog yn y Creu megis yn y Rhagluniaeth a Sancteiddhad.

* * *

Hoffwn felly drachefn gymharu *Cynllun sy'n Canu* Pantycelyn â *Meddwl y Gynghanedd*. Un ddadl ym *Meddwl y Gynghanedd* oedd bod yr holl gyfundrefn o gyfundrefnau isymwybodol mewn Cerdd Dafod yn orchest hardd hollol wahanol i'r llinellau unigol. Roedd y Gynghanedd ei hun yn fawl ac yn ystyr. Nid tynnu sylw yr oeddid at brydferthwch unrhyw linellau campus er bod y rheini'n amlwch unigryw, eithr at gampwaith eithriadol o brydferth y cydlyniad deallol cyflawn ei hun. I mi, dyma un o orchestion pennaf llenyddiaeth Ewrob. Roedd cyfansoddi y cyfanwaith cyflawn hwnnw o gyfundrefnau yn greadigaeth sythweliadol ddisglair gan y meddwl cyffredin farddol ac yn gyfansoddiad cwbl eithriadol. Dyma, fentraf ddweud, uchafbwynt llenyddiaeth Gymraeg. Bu'n ysfa am drefn frenhinol a aeth yn gynhenid. Ond yn yr un modd, credaf mai prif orchestwaith gwâr Williams Pantycelyn oedd, drwy gydio ym meddyliau'r Oesoedd, feistroli cydlyniad meddyliol unol hardd ym maes estheteg Deunydd. Mae ganddo emynau unigol sy'n hollol ysblennydd, yn sicr. Fe'u crewyd hwy'n unigol o fewn fframwaith cyfoethog. Mae'n wir bid siŵr fod pobl seciwlar weithiau yn adweithio'n gryf negyddol yn erbyn y fath ddeunydd; megis marwolaeth yn erbyn bywyd. Ond gwn hefyd fod rhywrai digon seciwlar yn

medru trechu'n llawen eu rhagdybiau i raddau helaeth, a gwerthfawrogi'n ddychmygus ar sail Gras Cyffredin a medr esthetig wir hyfrydwch rhai telynegion unigol ganddo. Fe geir hefyd, ochr yn ochr â cherddi byr unigol o'r fath, y cyfansoddiad llydan rhyfeddol o feddwl cyflawn gweledigaethus — ei fydolwg — sy'n ddigwyddiad eithriadol ac yn gynnyrch dwfn yn ein llenyddiaeth. Hyn sy'n cynnal yr Emynau.

Credaf mai yn *Golwg ar Deyrnas Crist* y llwydda i gyfleu'r amgylchfyd ysbrydol a'r golwg deunyddiol mwyaf catholig hwnnw, yn fwy nag yn unlle arall. Ond yn y tair gwedd amlycaf yn ei waith ynghyd, sef y ddwy Arwrgerdd a'r Emynau, fe ddatguddiodd i ni weledigaeth enfawr gymen o 'Grist ym mhob peth'. Ac fe'i cyflwynodd i ni yn rymus ac yn loyw, gyda dychmyg angerddol ac egni meddyliol anghyffredin. Saif y weledigaeth gyfan feddyliol hon gan Bantycelyn o ran Archgyfundrefnau ffurfiannol ymwybodol ac o ran Deunydd Thematig, ochr yn ochr â Cherdd Dafod, gredaf i, hyd yn oed o safbwynt seciwlar (Gras Cyffredin), fel un o ddigwyddiadau canolog a diffiniol llenyddiaeth Gymraeg. Un o gampweithiau Protestaniaeth.

*

*

*

Heblaw'r ple Rhamantaidd am 'ryddid' a arweiniai at 'benrhyddid', — ac yn ôl pob tebyg o'i herwydd, — ceid gwrthwynebiad yn ddiweddar i 'drefn' o'r fath gan y mudiad llai deallol a llai ffrwythlon ond mwy cyfoes — Ôl-foderniaeth. Ceid amryfal weddau ar Ôl-foderniaeth; yr hyn a alwn i yn 'Ôl-foderniaethau'. Ond yr hyn a oedd yn eu clymu wrth ei gilydd, yr egwyddor, neu'n hytrach y gweddau ar egwyddor neu ddogma, neu 'ragdyb' fel yr hoffwn ei nodi, yw'r hyn sy'n fy niddori i. Ni fu athrylith yr un o'r prif Ôl-fodernwyr beirniadol yn ddigon i'm denu i ysgrifennu'n helaeth amdano, fel y ceisiai rhai fy mherswadio i'w wneud, oherwydd un diffyg rhagdybiol cyson. Y mae'r ddolen gydiol goll hon, sy'n diffinio'r cyd-symudiad, rhwng yr Ôl-fodernwyr yn arwyddocaol. Ac wrth gyferbynnu Ôl-foderniaeth (sef ein Rhamantiaeth leiaf llwyddiannus ni) â Moderniaeth y mae Ihab Hassan yn rhestru ymhlith eraill yr egwyddorion cyfnerthol hyn; ac y mae'r rhain fel y gwelir yn rhedeg tuag un cyfeiriad (cymhwysaf ychydig ar ei gyferbyniad):

Moderniaeth

Ffurf
Dathliad chwarae
Dyluniad
Hierarci
Creadigaeth / Cyfannu
Presenoldeb / Absenoldeb
Achos unol / Effaith Achlysurol
Penderfyniadaeth

Ôl-foderniaeth

Gwrthffurf
Chwarae dibwrpas
Siawns
Anarchaeth
Dadgreadigaeth / Dadadeiladu
Absenoldeb
Gwahaniaeth / Différance
Amhenderfyniadaeth

Fe ellid cydnabod bod Ôl-foderniaeth yn gyfoethocach o lawer na hynyna, yn arbennig yn ffrwythlondeb ei thechnegau. Ond os oes defnydd i'r gair o gwbl, mae angen o leiaf beth o'r cyferbynnu hwn i adleisio'n gydsyniad unol ystyr y gloch sy'n canu'n uchaf yn y gair er mwyn iddo fod yn air o gwbl. Mae a wnelo'r gyfres ar y dde â'r 'gwah-' sydd yn 'gwahuno', sef â hanner ysgogiad 'cyfundrefnu', y peth cyflawn neu gyfansawdd sydd yn ymddangos o bwys anochel i natur deall iaith, a chelfyddyd — heb sôn am fodolaeth. Sylwer er hynny ar ogwydd cyson Ôl-foderniadaethau gwahanol. Hanner cyfundrefn deall yw ar y mwyaf. Hanner ystyr bodolaeth yw ar y mwyaf. Hanner ymarferoldeb meddwl. Rhagdyb sy'n cloi'r drws yw cyn ceisio'i wthio'n agored.

Rhoddais y teitl 'Rhagdyb' ar yr Adran a drafodai'r Absoliwt ar flaen yr Hierarci i gyd. Y rheswm oedd fy mod am ddod o hyd i derm priodol ffurfiol am feddwl *safleol* pawb. Dadleuwn fod gan bawb 'Ragdyb', oes, hyd yn oed 'Rhagdyb Absoliwt'. Saif ar flaen yr Hierarci felly, a rhed i lawr at y Sfferau o ran sylwedd, a hyd y Motiff o ran Ffurf.

Mae Naturiolwyr neu Ymoleuwyr mor gyfarwydd â derbyn y pum synnwyr ynghyd â rheswm fel rhagdyb i beidio â meddwl amdani nes eu bod yn galw'r math hwnnw o ragdyb yn 'ddiduedd' neu'n 'niwtral'. Yn wir, ânt mor bell â honni gyda phendrantrwydd awenyddol nad oes dim arall ar gael fel sylfaen gwybodaeth, — haeriad simplistig braidd sydd wrth gwrs yn allwyddonol gan na ellir 'profi' yn empeiraidd amddifad bob dimensiwn neu'r holl ddimensiynau eraill. Mae'r rhagdyb ei hun ar gael yn amlwg, wedi'r cwbl.

'Rhagdyb' oedd y term *safleol* hwn mewn Hierarci, ac fe'i mabwysiedais yn ffurfiol. Felly hefyd gyda'r pennawd 'Gwahanu'. Bu Gwahanu (amddifad) hefyd yn ffenomen gyfoes hysbys yng nghyd-destun Ôl-foderniaeth. Yn wir, trafod 'gwahanu' fu'r prif fater o werth a ddaeth allan o ffiasgo anffodus Ôl-foderniaeth. Fe'i derbynias wrth gwrs, ond yng nghyd-destun cysondeb ac undod. Fe ddysg i mi beth sydd heb fod yn Weithred Ddeunyddiol Lenyddol.

Ni wna 'gwahanu' na 'gwyro' ar eu pennau eu hunain mo'r tro fel theori gyflawn gan mai rhannau o gyfundrefnau ydynt, ac ymarferol anorffen ydynt mewn deall, iaith, a llên. Y mae dadadeiladu, drylliadaeth, tanseilio, amhenderfyniaeth, hwythau yn frodyr neu'n chwiorydd gweithgar yr un mor annigonol fel 'theori', er bod y '*thema*' a drafodir drwyddynt yn hynod bwysig yn ei gwallusrwydd. Ac y mae i 'thema' o'r fath le allweddol yn y gyfrol hon.

Go brin bod dim a ddengys arwyddocâd *cyfoes* Pantycelyn yn well na'i gymharu fel hyn â rhagdybiau Ôl-foderniaeth. Cri rhyfel Lyotard (yn ei ysgrif enwog 'Ateb y Cwestiwn:

Beth yw Ôlfoderniaeth?) oedd: ‘Gadewch inni ryfela yn erbyn cyfanrwydd, tystiwn o blaid yr anghyflwynadwy; gweithredwn y gwahaniaethau ac achub anrhydedd eu henw.’ Mewn gwirionedd, seiliwyd y gri adolesent hon ar gymysgedd feddyliol neu gamgymeriad deallol truenus. Medd ef, ‘Saif yr artist neu’r llenor ôlfodernaidd yn lle’r athronydd: mae’r testun a sgrifenna, neu’r gwaith a gynhyrcha yn amddifad o bob rheol ragsefydledig [*a dyma ef ar ei ben yn llunio un*], ac ni ellir eu barnu yn ôl unrhyw farn ragbenderfyndedig, drwy gymhwysu at y gwaith neu’r testun gategoriau cyfarwydd. Y rheolau neu’r categorïau yw’r gwaith y mae’r gelfyddyd yn dal i chwilio amdanynt.’ [*a dyna un rheol heb ei chwilio*]. Dyma wŵr yn wir, mae’n ymddangos, na wŵyr odid ddim am Dafod na Gramadeg. Ymddiddora mewn llunio rheolau a geisir mewn Mynegiant efallai, sef y dull byrbwyll o synied am gelfyddyd, heb wahuno, a heb ddeddfu iaith yn gadarnhaol, a heb Ddisgyrchiant meddyliol. Ac eto, wrth werthuso, ni wŵyr, (mae’n ymddangos,) pam y gŵyr yn union beth i’w wneud â ‘Sothach’ ei hun.

Geill y cysyniad o ‘ddadadeiladu’ fel y’i dehonglid gan Fetanaratif Derrida yntau ymddangos yn ddigon diniwed i rywrai. Dadansoddi, datod yw efallai; ond datod yw er mwyn dod o hyd i’r grymustersau gwrthdrawiol yn yr arwyddocâd. Y rhagdyb sy’n allweddol. Ceisio dadlennu gwrthddywediadau ac anghysonderau yn y testun yw’r gêm wedyn, lle y bu’r ‘sefydliad’ beirniadol ers y Groegwyr (o leiaf) yn chwilio’n ymwybodol am yr undod sy’n treiddio trwy’r rhaniadau. Bylchau, toriadau amddifad, dyna wledd yr ôl-strwythurwyr wedi codi rhyfel cartref anundod. Eto, nid ceidwadaeth yw Beirniadaeth Gyfansawdd, felly, eithr creu o fewn cydnabyddiaeth o fydysawd sy’n bod yn anochel amrywiol ac yn gyflawn. Pentwr o ragdybiau gwallus oedd eiddo’r Ôl-fodernwyr, rhagdybiau di-sail a gwan.

Cofiwn, yn y cysyniad ‘gwahuno’, y deil mawr angen ‘gwahanu’ o hyd. A gellir cydymdeimlo â safbwynt rhywun fel Michel Foucault yn *Archaeoleg Gwybodaeth* (1969) sy’n taeru bod yn rhaid canolbwyntio yn *gyntaf* ar wahanu. Dyna o ran sylwadaeth a wneir wrth ddeall. Ond pan ddadleua’r un pryd yn negyddol hyderus fod yn *rhaid* ymwarded â chysondeb, traddodiad, ailadrodd, datblygiad, undod yn y pen draw, cyfundrefn, ac yn y blaen, a ‘gohirio’ (amhenodoli) pob dim felly sy’n mynnu cwblhau proses ‘gwahuno’, yna mae angen bod yn wylidwrus o’i ragdybiau dogmatig diwinyddol. Mae’r hyn a negyddir eisoes, yn gynhenid gadarnhaol yn yr hyn a osodir. Hyd yn oed yn y gwrthryfel sydd o fewn traddodiad, ceir eisoes gyflyru’r gorffennol a hedyn yr ymuno newydd yn y dyfodol. Nid oes iaith heb hynny. Cais Foucault lacio’r undod mewn gwahanu, sydd efallai’n ddeniadol ar ryw oedran mewn rhai unigolion. Ond fel egwyddor feirniadol, dichon fod eisiau gosod gwahuno

yng nghyd-destun gwir *reidiau'r* meddwl, hynny yw fel y mae'n gorfod gweithio er mwyn bod.

Nid yr un fath o wahanu a geir gan bob un o'r ôl-foderniaethau. Ond y maent oll yn milwrio yn erbyn cydbresenoldeb deallol a llenyddol hanfodol 'uno'. Hynny yw, gwrthwynebant ffaith cyfundrefn, yn bennaf ar sail 'rhagdyb'.

Beirniedais innau y bwlch yng nghydlyniad Ôl-foderniaeth. Syrth 'gwah-' amddifad am ei bod yn anghyflawn 'unochrog'. Camddeallwyd ystyr fy nefnydd o'r ansoddair hwnnw gan ambell un. Ond efallai fod cael ein hamddifadu o 'uno' yn waeth nag unochrog ac yn gwneud mwy na haneru: mae'n lleihau 'gwah-' ei hun hefyd, peth a gyfoethogir o fewn cydlyniad y cyfan, gan fod 'cyfan' yn fath o berffeithio dirprwyol, lle y mae un gystal ag un: un llusoi un yw. Un rheswm sydd dros ymatal rhag dilyn ôl-foderniaeth i'r pen-draw ymhelaethol felly yw bod ei rhagdyb ddeallol, ieithyddol, a llenyddol yn ei dadrymuso ei hun bob cam o'r ffordd ar ôl y cam anghywir cyntaf. Rhagdyb absoliwt yw Gwahuno.

Dyna pam y mae Pantycelyn yn berthnasol gyfoes.

* * *

Yn rhannol, oherwydd y math o wahanu ffug hwn a gafwyd gan Ôl-foderniaeth, cefnwyd ar ragdyb yr Absoliwt goruwchnaturiol-naturiol. Eto, methiant fu ymgais Naturiolwyr y ddeunawfed ganrif hwythau i gefnu ar ragdyb absoliwt. Ni wnaent namyn disodli yr Absoliwt crefyddol gan greadigrwydd y pum synnwyr a'r rheswm a'r fi: absoliwt arall. Dyna'r cyd-destun o Ymoleuo annigonol lle y cododd yr Oleuedigaeth Gristnogol, a Williams, a llyncu'r Ymoleuo gyda halen, megis y llyncwyd y Dadeni Dysg gan y Diwygiad Protestannaidd gyda halen.

Ac yn ein dyddiau ni, tra bo Ôl-fodernwyr yn pleidio damwain a siawns yn lle achos ac effaith, a Dadadeiladaeth ddamweiniol yn lle Creadigaeth, nid ydym wedi gallu cefnu ar na Rhagdyb nac Absoliwt. Chwarae yr ydys â darnau parhaol amddifad. Yr hyn a wynebwn yw Afreswm trychinebus o ddifeddwl mewn theori. A gorseddir y difeddwl ar egwyddor yr allanol. Ac eto, er cymaint o hiraeth sydd am fod yn amddifad, ni ellir hepgor doniau anweledig chwaith. Trafodwn gyfundrefnau am eu bod yno o raid bob amser: fel y canai Pantycelyn:

GWWP 12: *Anfeidrol ras rhyfeddol! Pe tawai amdano ddyn
Fe swniai'r fud greadigaeth, yn ddiau bob yr un.*

Gras o ryw fath a oedd ym mhob rhan o'r 'Golwg ar Deyrnas Crist': Gras Cyffredin fu amlycaf yn y Creu; Gras Arbennig yn y Waredigaeth. Ac yn achos Pantycelyn, fe arweiniais'r naill a'r llall at ymwybod o Drefn yn y cwbl, a gynhwysai drefn lenyddol.

Peiriant cyfundrefnau, felly, yw'r meddwl dynol bob amser. Nid yn unig yng nghyflwr Tafod, a chynhysgaeth gymharol sefydlog a safadwy cyn-fynegiant fel storfa, ond yn ymarferol weithredol wrth ddefnyddio'r ymennydd ar y pryd i gyfarfod mewn Mynegiant â'r sefyllfa arbennig, ac i'w hamgyffred. Ceir felly gyfundrefnau cyffredinol mewn Tafod a chyfundrefnau mwy arbennig, ond yr un mor benderfynol, mewn Cynfynegiant Geirfa. Bob amser, cyfundrefnau. Nid oes bodolaeth na meddwl hebddynt. Dyma beth dynol iawn. Bydd gofyn inni gau'n clustiau i Ramantwyr felly a sonia am oerni, caledrwydd, ac annynolrwydd pob 'cyfundrefn'. Sôn am bethau 'gwneud' a wnânt hwy gan amlaf, peth a glendrid yn ymwybodol, megis y gyfundrefn ariannol mewn Mynegiant. Mae'r cyfundrefnau dyfnaf yn ymwneud â materion amgenach. Felly, wrth drafod Cyfundrefnau Thematig, ceir rhai sy'n fythol bwysig. Maent yn sylfaenol i Fywyd, yn ddwfn gyffredin. Dyna yw'r Archgyfundrefnau. Ac maent yn adeileddol o'r herwydd yn y Beibl. Cyffelyb yw cyfundrefnau'r meddwl i gyfundrefn y gwaed neu gyfundrefn treulio bwyd.

A hyn yw'r darganfyddiad 'mawr' sy'n newydd yn y gyfrol hon. Ceir trefniant Archgyfundrefnol yn adeiladwaith y Greadigaeth oll a adlewyrchir drwy'r Sfferau Themateg lenyddol, ynghyd â Motiffau Thematig mewn Mynegiant. A bu egwyddorion yr Archgyfundrefnau hyn yn gyfaredd ac yn gyfarwyddyd i Bantycelyn.

Wrth efrydu deunydd gwaith Pantycelyn, daganfuwyd felly hierarci, neu gadwyn gyfundrefnol lenyddol, llinyn syniadol o greadigrwydd, yn ymestyn drwy ddolennau o'r Absoliwt i lawr hyd y Motiff. Crist ym mhob peth. Dechreuwyd o raid mewn awdurdod hollgynhwysfawr yr Absoliwt. Hwnnw a esgorodd ar gyfanrwydd Deunydd, heb eithrio dim i'r llenor. Bu'n rhaid ymateb i hyn drwy wahuno. Dyna sefydlu offeryn ystyrion a fyddai byth wedyn (hyd yn oed mewn iaith a llên) yn bwerus wrth gyfundrefnu. Ac arweiniai hyn at ymgawdoli, at droi Ffurf a Deunydd syniadol yn iaith drwy'r arwydd ar gyfer yr arwyddedig, bob amser yn ôl trefn yr Amryw mewn Un. Ceid y bod a'r gwneud, yr enw a'r ferf, y cymeriad a'r digwydd, heb gefnu ar gyfanrwydd cwmpasog y Deunydd ond gan symud oddi wrth y cyffredinol tuag at yr Arbennig, oddi wrth y Sfferau Deunydd at y themâu. Ac o fewn y Themâu Mawr ceid y motiffau bach hwythau megis esgor ar blant o gyffelyb ffurf bob amser.

Dyna'r Weithred Lenyddol. Trefn anochel, olynol, a chymen yw. Ac ni wn am neb yn well na Phantycelyn a oedd yn ymybodol o sgêm ac a gyfleai ar gân holl rychwant y symudiad meddyliol hwn. Mae'n wir bod y Weithred hon a'i threfn yn orfodaeth hefyd i'r llenor seciwlar yntau. Eithr oherwydd ymwybod Pantycelyn o'r Absoliwt ym mhob peth, ac o'r Crëwr ar waith gan symud oddi wrth y Popeth hwnnw tuag at y peth unigol drwy gyfoeth

o gyfundrefnau, ceisiwyd yma amlinellu arwyddocâd y dadansoddiad hwn o'r bywyd ysbrydol, a chynnig mai dyna hefyd, mewn Gras Cyffredin, y modd fframweithiol i'r meddwl dynol bob amser weithio'n ddeunyddiol mewn llenyddiaeth.

Dyfeisiwyd hyn i gyd yn gyntaf oll er mwyn i Dduw gyfathrebu â dyn, a dyn â Duw. Cydlynu'n un.

* * *

Mae'n wir, wrth gwrs, wrth ystyried Cyfundrefnau Deunydd Pantycelyn yn gyffredinol, mai Diwinyddiaeth Gras Arbennig/Gras Cyffredinol yw ei Sffêr Ddeddfog amlycaf ef mewn Deunydd. Ond y mae'r drefn o lefelau o fewn cyfanwaith llên yn ddigon cyfoethog ac yn ddigon tebyg ar gyfer yr hyn a elwir yn fyd 'seciwlar', neu'n hytrach ras cyffredin (mewn diwinyddiaeth seciwlar), megis hefyd ar gyfer Sfferau eraill. Gras Cyffredin yw hyd yn oed o ran Ffurf. Yr un yw'r Ffynhonnell. Yr hyn sy'n gwahaniaethu yw natur a sylwedd gwrthrych y Ffydd.

Felly, cyfundrefnau Deunydd Pantycelyn yw'r Cyfundrefnau Thematig eiconig *Creu/Cwmp/Codi* a *Cyfiawnhad/Sancteiddhad/Gogoneddu*. A'r negyddol cyfatebol. Nid ymddangosant mor gyffredinol amryddawn â'r Archgyfundrefnau Ffurfiol amryddawn. Eto, maent yno yn fwy agored i 'ddewis' amrywiadau ar yr absoliwt ac i'r sylweddoliad ymwybodol o'u ffwythiant ar y pryd. Mewn Mynegiant, amrywia'r Themâu Ymadrodd hyn yn ffrwythlon. Ymwnânt ag agwedd neu agweddau ar y Deunydd, a hynny yn ôl patrymau penodol. Hynny yw, lle y mae 'Archgyfundrefnau' yn ymwneud yn arhosol â phob Prif Gyfundrefn a phob Cyfundrefn Gyffredin neu Thematig, y mae'r 'Cyfundrefnau Thematig' yn ymwneud ag un agwedd neu un symudiad neu rai agweddau o un neu ragor o'r Sfferau Deddfol. Ac eto, gallant fod yn sylfaenol arwyddocaol. Gall rhai Cyfundrefnau Thematig ymwneud â Christnogion yn unig, bid siŵr, yn wahanol i Brif Gyfundrefnau neu Archgyfundrefnau gorfodol sy'n tarddu o Ras Cyffredin ac yn ymwneud â phawb. Ond erys cyfanrwydd y Gyfundrefn o gyfundrefnau yno o hyd y tu ôl i bob defnydd bach unigol. Gras Cyffredin ei hun yw siâp yr Hierarci oll.

Yr hyn sy'n nodedig yn hyn oll ynghylch adeiladwaith meddwl Pantycelyn yw maint y cefndir deallol, hanesyddol, a theimladol sy'n treiddio drwyddo. Ceir byd o arwyddocâd moesegol. Ceir arolwg, yn wir, o ddeunydd llenyddol. I'm bryd i, mae'r cefndir ymwybodol yng nghyfoeth cydlynid yr Archgyfundrefnau yn drawiadol. Yn bendant, nid wyf yn ceisio dadlau bod barddoniaeth Gristnogol o raid yn rhagori ar farddoniaeth seciwlar. Mae'n amlwg y gallai doniau dychmyglon a meistrolaeth ieithyddol fywiol ragori yng ngwaith y pagan pennaf a'i afael ef ar ddiriaethu drammatig ymaflyd yn y darlennydd. Ond wrth droi

Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, fel y gwnaeth Pantycelyn, yn Ganu'r Cynllun, fe gydiodd ef yn yr ystyriaethau mwyaf cwmpasog ddeallol a allai fod.

Bardd oedd Pantycelyn. Ymddengys prydyddiaeth ynddi'i hun yn fwy parhaol na gwyddoniaeth na hanes. Drwy drosiad a dameg, drwy arwydd a delweddau hanesyddol, drwy aberth a disgrifiad, y mae Pantycelyn — fel y Beibl ei hun — yn denu'r gwirionedd delweddol oesol eang i'r fei. Gall y gwyddonydd allwyddonol newyddiadurol, yn brennaidd lythrennol, dorsythu'n hyderus ger ein bron i haeru anfodolaeth yr hyn sydd y tu hwnt i'w synhwyrau corfforol, druan. Ond ar hyd y canrifoedd, yn wir, o awr i awr, y mae'n cael ei brofi'n anghywir yn wythnosol felly gan wyddonwyr eraill. Disodlir gwyddoniaeth gan wyddoniaeth. Eto, hyd yn oed wrth drafod y manion lleiaf ac amlwg, gwyddai Pantycelyn ei fod yn ymdrin â'r cysegredig a'r digyfnewid a'r rhyfeddol, a dyfnderoedd tragywydd y tu hwnt i ddyfnderoedd, a bod ganddo mewn Cyfundrefneg Feiblaidd offeryn gorfoleddus i ddweud y gwir am bethau felly. Arweiniai'r gwirioneddau oll at y Wirionedd y Testament Newydd. A dengys hynny rym yn yr hierarci. Yr esboniad yw bod pob un yn rhan o'i gilydd, ac yn rhan o'r cyfan, a'r cyfanswm godidog drwy'r gwrth deinamig yn unol â'r Un sy'n cysylltu pob dim.

Fy nhasg yn y gyfrol hon fu amlinellu beth oedd offeryn y llenor — un llenor yn benodol — a hynny ar gyfer meddwl llenyddiaeth oll o'r brig i'r bôn. Yr oedd gofyn disgrifio'n ysgerbydol gyflawn bob cam gorfodol ac angenrheidiol yn ei daith feddyliol.

Nid ceisio crynhoi a wneid beth oedd eisoes yn farn sefydliadol neu boblogaidd am hyn. Nid casglu beth oedd pobl eraill yn ei ddweud, na dilyn eu diffiniadau hwy, na gweld beth oedd yn 'dderbyniol.' Ond chwilio'r gwir gwrthrychol o'r newydd, a'i brofi, cyn belled ag y gellid.

Cafwyd bod yna gamre cysylltiol rhwng safle grym cyd-awdurdodol, creadigol, a chyffredinol gyflawn ar y naill law a'r elfen gyflawn leiaf ar y llall ym mynegiant iaith. Fe'i ceid mewn hierarci olynol rhwng yr absoliwt a motiff. Roedd a wnelai hyn nid â fframwaith o waith personol ym meddwl yr ymchwilydd. Roedd a wnelo â darganfod neu â sythweled yn ddisgrifiol beth a oedd eisoes yno.

Yna, yn ôl dull y fethodoleg wyddonol gydnabyddedig, yr oedd angen taflu pob beirniadaeth at y canlyniad. A ellid adeiladwaith amgenach? A oedd y disgrifiad o bob rheng yn yr adeiledd yn gryno hanfodol ac wedi'i ddynodi'n gydlynol ac yn union? Am ei fod o fewn hierarci neu olyniaeth feddyliol mewn iaith, a oedd y motiff lleiaf yn y diwedd yn ymuno yn y fodolaeth gyffredinol ac â holl ddeunyddiau'r Greadigaeth yn y dechrau? Yn ei

safle bychan, y mae'n cyd-ymuno â'r holl elfennau neu weddau a enwai Sant Ffransis a Phantycelyn: y mynyddoedd, y galaethau, yr anifeiliaid a'r tywydd, i ddathlu'r Crëwr.

Nid yr hen 'absoliwt' ideolegol haniaethol sydd gennym mewn golwg, felly, ac nid yr hen 'gyfundrefn' wneuthuredig ddynol yw'r hyn a ddadlennir. Ac eto, pan ddarganfyddir rheidrwydd 'absoliwt' unol a holl-bresenoldeb diymwad 'cyfundrefn', nis osgoir am nad yw'n wedd ar y Sefydliad Ôl-fodernaidd. Nid dilyn neu beidio'r Sefydliad meddyliol a wneid, ond ei gymhathu'n feirniadol.

Sonia sawl beirniad, mewn dull nid anarferol, am arddel y 'di-absoliwt'. Ond y mae'r term hwnnw ei hun yn absoliwt. Mae'n cwmpasu'r eithaf. Mae'n gwadu safle llwyr gwmpasol ac felly'n cyflawni'r safle hwnnw. Ni ellir dianc rhag safle absoliwt mewn deall nac iaith. Yn wir, o ran ystyr, rhaid i'r absoliwt gynnwys a theyrnasu ar bob negydd sydd i'w gael, yn ogystal â phob cadarnhad, gan werthuso. Onid e, ni byddai'n absoliwt. Byddai fel bai rhywun yn dweud: 'Nid wyf byth yn defnyddio'r gair "byth".' Mae'r sawl sy'n gwrthod derbyn y Duw sy'n Absoliwt, felly, yn ôl ei deimladau a'i dybiaeth ei hun, yn gwneud rhywbeth absoliwt o raid. Dyma un o'r pethau a wnaeth y Mudiad Rhamantaidd gyda Rousseau: rhôl safle o statws i gyffes ei 'fi', fel y sylweddolai Pantycelyn i'r botwm. Hwnnw wedyn sy'n gwneud y 'gyffes' ei hun yn lle'r Duw a ddylai drwy'r Ysbryd Glân roi'r gyffes drwyddo. Ond drwy'r hierarci feddyliol greedig yr anrhydeddir y lleiaf yn nheyrnas Mynegiant: y motiff. Ni ellir dianc rhag bod yn rhan o'r Cyfan sydd. A sôn yr ym am bob modfedd o'n diwylliant a'n bodolaeth sydd o dan lywodraeth a threfn yr Absoliwt.

Dechreusom gynnu yn yr Absoliwt goruchaf datguddiedig sydd ym mhob peth. Bellach, cyraeddasom yr uned leiaf lenyddol yn yr Hierarci, y 'motiff'. A phriodol ar sail ein fforiad yw dweud am hwnnw yn ei berthynas â'r Absoliwt (Math. 25:40): 'yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr i, i mi y'i gwnaethoch.'